 Trychant calan cyman clodfawr  
 Ynyr ar dir yn wir Cochawr

TAL.

---

 PLAEU YR AIPHT.

EFREI edwyl ar veib Israel,  
 Uchel enfryd  
 Cyd rif dilyn  
 Ry dynesseyn  
 Ry gadwys ddaw ddial  
 Ar blwyf Pharaowys  
 Deg pla poeni  
 Cyn eu boddi  
 Ym môr aphwys  
 Cyssefinbla pyscawd ddife  
 Dignawd annwyd  
 Eilbla llyffeint lluoossawg  
 Llewysynt Arnoed  
 Tai a threfnau  
 A thyleu  
 A chelleu bwyd  
 Trydedd gwyddbed  
 Gwychr gonoged gwaladwyd  
 Pedwar icur  
 Cwr am ystyr edynogion  
 Ail cygnoës  
 Ffrwyth coed a Maes  
 Cnwd cylion  
 Pumed bwystnon  
 Ar holl Vibnon  
 Egypeion  
 Belsid miled  
 O drum aeled  
 Deritolion  
 Chweched heb au

<sup>1</sup>Teithi edmygant. *Dechreu can arall, Qy!*

Chwyssig crugau  
 Creithiau *morion*  
 Seithfed tarian  
 Cynllysg a than  
 A glaw cynwyd  
 Gwynt gorddiberth  
 Ar ddeil a gwydd  
 Wythfed Locust  
 Llydan eu clust  
 Blodeu cyfys  
 Nawfed Aruthr  
 Diwedlawg uthr  
 Doniawg nofys  
 Du dywyllwg  
 Drem eneglgw Egiptuis  
 Deg veinoeth  
 Mwyaf gwyniaith  
 Ar blwyf cynrain  
 Christ Iesu christioni grein  
 Hyd ynt clydwr  
 Chwechant milwr  
 Miled Efrei

---



---

LLATH MOESSEN.

O BOB adfer y dorf froder  
 Dychyfaerwawd  
 Budd addefig  
 I Grist Wledig  
 Dogyn volawd  
 Dybwyth Duw cein  
 Yn Arffed Mair ei heissorawd  
 Hynt gwirionedd  
 Cyflawn riedd  
 Cynnelw o honawd  
 Gweil Iese  
 Dy bobl Iude  
 Dychyfaerawd  
 Hu gelwir llen  
 O luch a letro  
 Er eu pechawd  
 Dehau reen  
 Mynydd addien  
 Mwyn gyfundawd  
 Yn rhan Elfydd  
 Yn nheml Selyf  
 Sail o gyffrawd  
 Gofuned gwas  
 Colofn dias  
 Fest fflemychawd  
 Paradwys ddrws  
 Bugail Dews  
 Dauun gwledychawd  
 Neu rygigleu  
 Gan broffwydeu lleenawc  
 Gcni Iesu

A ryddarfu  
 Hyd ei fuchedd  
 A fai fuchedd  
 I bob rhiedd bywyd parawd  
 Cyn peryssid bai mi prydwyn periglawd  
 Ryddug clae'r  
 Nid dayar a yspeiddawd  
 Ar for diffwys  
 Pan ddisgyunwys  
 Dy amgyffrawd  
 Gwlad priodawr  
 Nis dug mwynfawr  
 Bei im o honawd  
 Maint dy goddedd  
 Boed im dy rad  
 Gweil Iesse  
 A rhad Iessu  
 Llathr eu blodeu  
 Mawr gwrth yn ei fryd  
 O Dduw donieu  
 Ef oedd Ygnad  
 Ygnad oedd ef  
 Dewin diheu  
 Gwr y cussyl  
 I bob ufudd rhag geu  
 Ef y sydd gafael  
 Clae'r nifer toeu  
 Cynllaith i luydd Deheu  
 Y mal bydewin dilid  
 O lu lloneid  
 Hubydd y gwrth mab mair  
 Moli Reën  
 Huarwas gwas  
 O Dduar treiddas  
 Pet wyr pet gwirion  
 Dy rac afael cyfoed coed cyflawn  
 Rhudd ni popon moch y dysged  
 Lleddyssid gein o arffed Iessu  
 A rhoddi rhad Rex Meibion  
 Newydd anaw ni mawr glywant  
 Dyniadon  
 Gwir ei rad gwas porthiant heb wr  
 adon  
 Dygwerthydyd pob uchess rhag  
 Rhai Derwyddon  
 Nudris ni widyn llarychwel  
 gweled Mabon  
 Dyddugant thus  
 Ag aur dyls o Ethiopia  
 O Dduw gordden  
 O Duw Reën Rex meneifon  
 Herod gystig  
 Ni bu goddig Yn geleudon  
 Dy boenedig gwallawd  
 Peues perchen meibion  
 Pan aeth Dofydd par pan ddilludd  
 Nilus habedd  
 Py ddug Herod  
 Anwyd gayafawl

Cyflawn fonedd  
 Ynghaer Nazaredd  
 Nid aeth peues perchen anaw  
 Byd adebriad  
 Hubwydd ith irad  
 Tud gorchorddion  
 Geni Dofydd dyddug perchen  
 Lleng Engylyon

---



---

LLATH VOESEN.

A Duw meiddad  
 Duw dofyddad  
 Dewin trugar  
 Mawr enwerys  
 Pan ym noddeist  
 I drwy donniar  
 Torfoedd Moesen  
 Gwledig reën  
 Gwae ae hesgar  
 Ys arganfu Perif ai Lu  
 Reglyd ai bar  
 Ac i vorawg a orugost  
 Newydd ei bar  
 Neu'r denwy  
 Trwy ryferthwy  
 A fawdd Adar  
 A ddrychaif haul  
 Hyd gollewin y bu dayar  
 Ti a noddyd a rygeryd  
 O bob carchar  
 Namyn torfoedd terydd  
 Eu gwawr trwm eu dear  
 A nawdd ninnheu  
 Rhag anwydeu  
 Uffern anwar  
 Ad Dduw meiddad  
 Duw ddofyddad  
 Dewin trugar  
 Ys teu di wlad Nef  
 Ys gurth dangnef  
 Ith y Kery  
 Nid oes tudded  
 Nag eissiwed  
 Ith wlad Ddofydd  
 Ni pherir neb  
 Ni bydd esgar neb i'w gilydd  
 Mi a wyddwn  
 Beis deallwn  
 Rhag cywilydd  
 Caru o honawd  
 Y lan Drindawd  
 O neb celfydd  
 Beirdd ach gogan  
 Wynt acharan  
 Yn dragwydd

Ni bu angwael  
 Y rhoddaist Irael  
 Yn llaw Ddafydd  
 Alexander ceffei lawer  
 Nifer ei wyr  
 Nid ef nerthas  
 Oni chafas  
 Dy garenhydd  
 Pan ddoethant ir ddaear  
 Buant ddear  
 Eu dihenydd  
 Selyf ygnad  
 A gennis gwlad  
 Bu gwell nog Ydd  
 Mab teyrnon  
 Bu gnawd berthon  
 Oi gyweithydd  
 Iago feibion  
 A fu ferthon  
 Ar eu helfydd  
 A ddygymuant  
 A rannysant  
 Trwy air Dofydd  
 Afel<sup>1</sup> wirion  
 A fu lwyddon  
 A gymyrth ffydd  
 Ei frawd Caën  
 Bu ddiwerin  
 Drwg ei gussyl  
 Asser a Soyw  
 Yn awyr loyw  
 Ei cyweithydd  
 Seren Angel  
 A ddwyn nifer  
 Rhag eu Milwyr  
 A llath Voessen  
 Ef ai ddoerfoedd  
 Ar eu helfydd  
 Rhuddech ddalen  
 Udd eilladen  
 Ydd ei genhym  
 Llafar a Mud  
 A doeth a drud  
 As diwygydd  
 Gwledig cwdd  
 Un cwdd dirperian ddihenydd  
 Molaf inheu preswyl  
 Torfoedd addef menhwyd  
 Molaf inheu  
 Addawd goreu  
 Goreilenw byd  
 Prif deyrnas  
 A ddug Ionas  
 O berfedd Kyd  
 Ciwdawd Niniven  
 Bu gwrlawen  
 Pregethyssid  
 Rhiein tra mor

<sup>1</sup> Abel.

Bu cysgod Ior  
 Ysgoryssid  
 Ac Auasia  
 Meir Merch Anna  
 Mawr ei phenyd  
 Er dy haeledd  
 A thrugaredd  
 Fechdeyrn byd  
 Bwym ninheu  
 Yn nef gaereu  
 Gynhwys genhyd

---

CAN Y MEIRCH.

TORRID Anuynudawl  
 Tuthiawl dan Yogawl  
 Ef iolen o dduch lawr  
 Tan tan hwstin gwawr  
 Uch awen uchel  
 Uch no pob nyfel  
 Mawr ei anyfel  
 Ni thrig yngofel no neithiawr Llyr  
 Llyr llwybyr y tebyr  
 Dy far ynghynebyr  
 Gwawr gwen gwrth uchyr  
 Wrth wawr wrth wrys  
 Wrth bob heuelis  
 Wrth heuelis nwython  
 Wrth Pedyr Afaon  
 Arddyreafi a farn gwrys  
 Cadarn trydar dwfn ei gas  
 Nid mi gwr llwfr llwyd  
 Crwybr wrth clwyd  
 Hud fy nau garant  
 Deu dich far dichwant  
 Om llaw ith law *dylt dup dim*  
 Trithri nodded  
 Ateor ar hened  
 A march mayawg  
 Cymrwy teithiawg  
 A march gwythur  
 A march gwarddur  
 A march Arthur  
 Ehofn roddi cur  
 A march Taliessin  
 A march lleu lledfegin  
 A Phebyr llai llwynin  
 A Grei March Cunin  
 Cornan cynneifawg  
 Awydd awyddawg  
 Ar tri carn aflawg  
 Nid ant hynt hiliaw  
 Cethin March Ceidaw  
 Corn avarn arnaw  
 Ysgwyddfrith Ysgodig  
 Gorwydd llemenig  
 March Rydderch ryddig  
 Llwyd lliw elleig

A llamrai llawn elwig  
 A ffoenfoll gwyrrennig  
 March Sadyrnin  
 A March Custennin  
 Ac eraill yn rhin  
 Rhag tir all gwin  
 Henwn Mad dyddug  
 Cychwedl o Hiraddug  
 Bwn swch bum bwch  
 Bym Syw bum Swch  
 Bum ban bum banhwch  
 Bum gawr yn rhythwch  
 Bum llif yn eirth  
 Bum ton yn engweirth  
 Bum ysgof ysgeiniad dilyw  
 Bum cath benfrith ar driphren  
 Bum pell bum pen  
 Gafr ar ysgaw bren  
 Bum garan gwala gweled golwg  
 Tragwres miled morial  
 Cadwent cenedd da  
 Or y sydd is awyr gwedi cassolwir  
 Nid byw ormodd maint am gwyr

“Deest folium integrum in vetusto membranaceo.”  
 Verba “Davissi sunt, ex quo hæc transcripta sunt  
 per me.”

IEUAN FARD.

---

LURYG ALEXANDER.

AR glawr elfydd  
 Ei gystedlydd  
 Ni ryaned  
 Teir person Duw  
 Un mab addwyn  
 Terwyn trinded  
 Mab ir Dwydid<sup>1</sup>  
 Mab ir dyndid  
 Un mab rhyfedd  
 Mab Duw dinas  
 Mab gwen Mairgwas  
 Mad gwas gwledig  
 Mawr ei ordden  
 Mawr Dduw Reën  
 Ran gogened  
 O Hil Adda  
 Ac Abraha yn ryaned  
 O hil Dofydd  
 Dogn ddyfnwedydd  
 Llu ryaned  
 Dyddug o eir  
 Deill a byddeir  
 O bob aeled  
 Rac pob anuau  
 Pob yn ddilis  
 Dinas diffred

<sup>1</sup>Deilas.



ANRHYFEDDODAU ALEXAN-  
DER.

MENDOSUS TITULUS.—D.

RHYFEDDAF na chiawr  
Addef nef i lawr  
O ddyfod rhwyf gawr  
Alexander mawr  
Alexander Magidawr  
Hewys hayarnddawn  
Cleddyfal enwogawn  
Aeth dan eigiawn  
Dan eigiawn cithyd  
I geisiaw celfyddyd  
O geisio celfyddyd  
Bid o iewin ei fryd  
Eithyd odduch gwynt  
Rwng deu griff ar hynt  
I weled dremynt  
Dremynt ni weles  
Present ni chymhes  
Gweles ryfeddawn  
Gorllin gan bysgawd  
A eiddunwys yn ei fryd  
A gafas or byd  
A hefyd o'i ddiwedd  
Gan Dduw drugaredd

PREIDDEU ANNWN.

GOLYCH wledig pendefig gwad ri  
Pa ledas y pennaeth tros draeth Mundi  
Bu cywair carchar Gwair ynghaer Sidi  
Irwyl ebostol Pwyll a Phryderi  
Neb cyn nog ef nid aeth iddi  
Yr gadwyn dromlas cywirwas ai cedwi  
A rhag Preiddieu Annwn tost yt geni  
Ac yd frawd parahawd yn barddwedi  
Tri lloneid prydwen ydd aetham ni iddi  
Nam saith ni dyrraith o Gaer Sidi  
Neud wyf glod geymyn cerdd o chlywir  
Ynghaer pedryfan pedyr y chwelyd  
Ynghynueir or pair pan leferid  
O anadl naw morwyn goehynnessid  
Neu pair pen annwfn pwy *wynyd*<sup>1</sup>  
Gwrym am ei oror a Mererid  
Ni beirw bywd llwrf ni rydyngid  
Kleddyf lluch lleawc iddaw rhyddyddid  
Ac yn llaw Lleminawg ydd edewid  
A rhag drws porth Uffern llugyrn lloscid  
A phan aetham ni gan Arthur trafferth  
llethrid  
Namyn saith ni ddyrraith o Gaer Vediuid  
Neud wyf glod geimyn cerdd glywanawr  
Ynghaer Pedryfan Ynys Pybyrdor

<sup>1</sup>Munud mos. Pair Tyrnog.—D.

Echwydd a Muchydd cymysgettor  
Gwin gloyw eu gwirawd rhag ei gosgordd  
Tri lloneid Prydwen ydd aetham ni ar for  
Namyn saith ni ddyrraith o Gaer Rigor  
Ni obrynaf lawyr llen llywiadur  
Tra chaer wydr ni welsynt wrhyd Arthur  
Tri ugeint canhwr a sefi ar y mur  
Oedd anawdd ymadrawdd ai gwiliadur  
Tri lloneid Prydwen ydd aeth gan Arthur  
Namyn saith ni ddyrraith o Gaer Goludd  
Ni obrynnaf i lawyr llaes eu cylehwy  
Ni wyddant hwy py ddydd peridydd pwy  
Py awr ym meinddydd y ganed Cwy  
Pwy gwnaeth ar nid aeth dolau Defwy  
Ny wddant hwy yr ych brych bras ei ben-  
rhwyr

Seith ugein cygwn yn ei aerwy  
A phan aetham ni gan Arthur afrddwl  
gofwy

Namyn saith ni ddyrraith o Gaer Vandwy  
Ni obrynaf lawyr llaes ei gehen  
Ni wddant py ddydd peridydd pen  
Py awr ym meinddydd y ganed perchen  
Py fil a gatwant ariant y pen  
Pan aetham ni gan Arthur afrddwl gynhen  
Namyn saith ni ddyrraith a Gaer Ochren  
Mynaich dychnud fal cunin cor  
O gyfranc uddydd ai Gwiddanhor  
Ai un hynt gwynt ai un dwfr mor  
Ai un ufel tan trwrwf diachor  
Myneich dychnud fab bleiddawr  
O gyfranc uddydd ai gwyddyhanhawr  
Ni wddant pan ysgar deweint a gwawr  
Neu wynt pwy hynt pwy ei rynnawdd  
Py va ddiifa py dir a plawdd  
Bed Sant yn ddfifant o bet allawr  
Golychaf i wledig pendefig mawr  
Na bwyf trist Crist am gwaddawl

GWAUD GWYR ISRAEL.

TREDAWD tragywydd  
A oreu elfydd  
A gwedy elfyd  
Addaf yn gelfydd  
A gwedy Addaf  
Da y goreu Efa  
Yr Israel bendigaid  
A oreu Murgreid  
Gwrdd ei grybwylleid  
Glan ei gywyddeid  
Deuddeg tref yr Israel  
Dwyrein gywyhel  
Deuddeg weib Israel  
A oreu Duw hael  
Deuddeg tra dinam

Teir Mam ai maeth  
 Un gwr ai crewys  
 Creawdr ai gwnaeth  
 Mal y gwna a fynho a fo Pennaeth  
 Deuddeg Mab Israel a wnaeth cul-  
 wydd  
 Mal y gwna a fynho a fo Arglwydd  
 Deuddeg meib Israel a wnaeth Dofydd  
 Mal y y gwna a fynho a fo celfydd  
 Deuddeg meib Israel dymgofu  
 O ganhad Iesu  
 Ac untan ai bu a their Mam uddu  
 O naddu y doeth rhad  
 Ag eissydyd mad  
 A mair mad gread  
 A Christ fy nerthiad  
 Arglwydd pob gwenwlad  
 A alwaf a eilw pob rhydd  
 Ha bo fynghynydd  
 Genhyd gerennydd

---



---

### YMDIDDAN

RHWNG UGNACH AB MYDNO, O GAER SEON A  
 THALIESIN, O GAER DEGANWY.

ALLAN O'R LLYFR DU O GAERFYRDDIN.

TAL. 1.

MARCHAWC a girch y Dinas  
 Ae con guinion ae cirn bras  
 Nyth adwaen nu rythweles

UGN. 2.

Marchawc a circh ir Aber  
 Y ar March cadarn cadfer  
 Dabre genhiw nim gwatter,

TAL. 3.

Mi nid aw ina in awr  
 Gollew gueith y godriccaur  
 Elhid bendith new a llawr

UGN. 4.

Y gwr nim gwelas beunit  
 Y tebic y gur deduit  
 Ba hyd eidy a phanndeit

TAL. 5.

Ban deuaw o Caer Seon  
 O imlat ac itewon  
 I tau Caer leu a Guidion

UGN. 6.

Dabrede genhiw ir Dinas  
 A thuit met ara phellas  
 Ac eur coeth ar di wanas

TAL. 7.

Mi nyd aduen y gur hy  
 A meteu tan a gveli  
 Tec achuec y dywedi

UGN. 8.

Debre genhiw imtino  
 A thuit guin gorysgelho  
 Ugnach yw vy heno mab Mydno

TAL. 9.

Ugnach bendith ithorset  
 Athro rad ac enrhydet  
 Taliessin viw inheu talaw iti dy gulet

UGN. 10.

Taliessin penhaw or guir  
 Beitat yng Kert Kyurgir  
 Tric yma hyd dyv Merchir

TAL. 11.

Ugnach Moihav y alaw  
 Ath ro rad y gulad penhaw  
 Ny haetaw Kabit ny thrigiaw

---



---

"The following Poem, beginning GOGANWAWD TEYRN, &c., contains an odd sort of Philosophy about the origin of Salt Water, Rain, and Springs; but as the following part is historical, I insert it here."—L. MORRIS.

GOSGORDD Fardd uchod  
 Gosgordd fardd isod  
 Nid oes fan wybod  
 Dan huan a rhod

Ni wyddoch chwithau  
 Pa draetho'ch Tafodau  
 Na dosparth diau  
 Rhwng eich gwir ach gau

Beirdion bychain Brain bro  
 Braidd nad ewch chwi ar ffo  
 Y Bardd nim gostego  
 Gosteg ni's caffo  
 Oni el mewn gortho  
 O ddaiar a Grô  
 Ar sawl a'm gwrاندawo  
 Mab Duw ai Caro  
 Elphin ap Gwyddno<sup>1</sup>  
 Sy'n Naear Arthro<sup>2</sup>

<sup>1</sup>Gwyddno Goronhir, the father of Elphin, was the lord of Cantref Gwaelod, which was swallowed up by the sea. It is said to extend from Sarn Badrig to Aberystwyth, for there is a place in the sea near, called Caer Wyddno. This must have happened *Circ. An.* 530 a 540.

<sup>2</sup>Arthro, now pronounced Artro, is a river in that neighbourhood, where Cantref Gwaelod is said to have been; and it seems Elphin was in prison at the Castle of Harlech (Diganwy says many others) by the command of Maelgwn, for differing with him about religion or politics.—*Vide* pa. 25.

Dan dri ar ddeg clo  
Am ganmol ei Athro

Myfi yw Taliesin  
Ben beirdd y Gorllewin  
Ac a adwaen bob Gorsin  
Yngogeir Gorllewin  
Ac a ollwng Elphin  
O'i Hual Eurin

TALIESSIN.

## YMDIDAN

BEWNG MYRDIN WYLLT A THALIESSIN.

ALLAN O'R LL. DU O GAERFYRDIN.

MYRD.

Mor truan genhyf mor truan a dery  
Am Kedvy a chavan  
Oed llachar Kyflavar cyflavan  
Oed yscuid o Tryvvuyd<sup>1</sup> o truan

TAL.

Oed Maelgwn a welwn yn ymwan<sup>2</sup> y deulu  
Rac ter y uulu ni thawant

MYRD.

Rhac deuwyr yn nentur y tirtan  
Rhac Errith a Churritth yar welugan  
Meinwineu yndihen a dygan  
Moch gweler y nifer gan Elgan  
Och oe leith mawr ateith y deuthan

TAL.

Rys undant oedd rychwant y tarian  
Hyd attad y daeth rhad cyflawn  
Llas Cyndur tra messur y cwynan  
Llas haelon o ddynon tra fuan  
Trywyr nod mawr eu clod gan Elgan

MYRD.

Trwy a thrwi vug a rug y daethan  
Traw a thraw undoeth Bran a Melgan  
Llad Dyuel<sup>3</sup> oe diwed cyflafan  
Ab Erbin ae werin a wnaethan

TAL.

Llu Maelgwn bu yscwn y daethan  
Aerwyr cad trybelidiad gwaedlan  
Neu gweith Aryfderydd pan fyd y deunydd  
O hyd y wychyd y darparan

MYRD.

Lliaws peleidrad gwaedlad gwaedlan  
Lliaws aerwyr bryw breuawl sidan  
Lliaws ban briwher lliaws ban foher  
Lliaws eu hymchwel yn eu hymwan

TAL.

Saith meib Eliffer, seith gwyr ban broffer  
Seith gwaew ni ochel yn eu seithran

<sup>1</sup>Owynruyd. <sup>2</sup>Inim wan. <sup>3</sup>Dywal ab Erbin.

MYRD.

Seith tân ufeelin, seith cad cyferbin  
Seithfed Cynfelin y pop cinhvan

TAL.

Seith gwaew gowanon seith loneid afon  
O gwaed Cinreinion y dylanwon

MYRD.

Seith ugein haelon a aethan yg wllwn  
Ynghoed Celiddon y darfuan  
Canys mi Myrtin gwydi Taliessin  
Bythawd<sup>1</sup> cyffredin fy darogan

LLYMA AWDL A ELWIR

## ARMES BRYDAIN.

O DAIR ARMES CERD TALIESIN.

DAROGANA fi hyn  
Cad ym hob meyn  
Cymry ar gychwyn  
Cwrst ymrhydwn  
Ag Emil ar gychwyn  
Rhag llion Llychlyn  
A llynges drom droch  
A Brython ar Foloch  
A deudd och  
A diwedd dydd croch  
A chelain Foch  
A gadun yngwadun  
A llew llawer dafn  
A llaw ar y llafn  
A gwaed Iad ar rudd  
A Brain ar golydd  
A phelydr yn rhydd  
a gosgerdd

Am gogawn pennardd  
A llu digyfor o bell  
A chroes Crist yw cymmell  
A fflam o Feddlem  
A chaerselem  
A gorfod a fydd  
I genedl Gwindodydd  
Dwy flynedd yn hedd  
A hanner y drydydd  
Cynan Yngwynedd  
Coel cyn celanedd  
Cadwaladyr y sydd  
Cymru llawenydd  
Cymru fu Cymru fydd  
Or mor bwygilydd  
Cyn ein Gwindodydd  
Oes cyn cudwydd  
Tair blynedd di hëdd  
Trigain Trichant i rai ai harwedd  
Oer fydd ei difant

<sup>1</sup>Bydded.—L. M.

Heil plant o honyn i ddant,  
 Nid ef ai diwedda  
 Nid aflwydd alaf  
 Hedid yngaya  
 Hed mab modreda  
 Nid coel cyfynles  
 Cymru di fuches  
 Mae cad cyfeinedd  
 Cymry ddfuchedd  
 Anrhydedd rhinwedd  
 Drindod Trugaredd

TALIESIN.

## ANREC URIEN.

Llyfr Coch.

GOGYFERCHEIS, gogyvarchaf,  
 gogyverchyd  
 Urien Reget  
 Duallovyet  
 Y Leuenyd  
 Eur ac Aryant  
 Mor eu divant  
 Eu dihenyd  
 Kyn noc y dau  
 Rug y duylau  
 Y guesceryd  
 Ieuf a unaeth  
 Coll ac alaeth  
 Am feirch peunyid  
 Keneu y vraut  
 Kynnin daervaut  
 Ni by geluyd  
 Urien a wnaeth  
 Dialynyaeth  
 Y gewilyd  
 Kynnin vynu  
 Kyvarchuelu  
 Eu dihenyd  
 Deutu Aerven  
 Diffuys dilen  
 Dydan lwyd  
 Seleu delyit  
 Enynnyessit  
 Or a dybyd  
 Dybi y vaeth  
 A ryd alhaeth  
 Oe eu herwyd  
 Cochliu lavneu  
 Truy valch eiryau  
 Am ffryth eu guyd  
 Wy Kynnhaliant  
 Lle peduar cant  
 Y peduar guyr  
 Dufyr dyvnav<sup>1</sup>  
 Bendigwyf clav

<sup>1</sup>Dyvnavas.

Ac oe herwyd  
 Yr ae Kaffo  
 Kynvinaul vo  
 Yn dragyuyd  
 Dydeu collet  
 Or ymdiret  
 Yr ardelyd  
 A llau heb vaut  
 A llavyn ar gnaut  
 A thlaut luyd  
 Oes feibionein  
 Nyt ymgyghein  
 Ymmerueryd  
 Nyt ymganret  
 Nyt ymdiret  
 Neb oe gylyd  
 Dreic o Wyned  
 Diffwys dired  
 Dirion drefyd  
 Lloegrwys yd a  
 A lletaut yna  
 Harchollyd  
 Torrit meinueith  
 Yn anoleith  
 Ar gyfhergyd  
 Muy a gollir  
 Noc a geffir  
 O Wyndodyd  
 O gyt gyghor  
 Kyvrung esgor  
 Mor a Mynyd  
 Gotrifit Brythyon  
 Yn at poryon  
 Ar antyrion gyueithyd  
 Ef a dau byt  
 Ny byd Kerdglyt  
 Ni byd Kelvyd  
 Alaf gar maer  
 Arthauc vyd chuaer  
 Wrth y gilyd  
 Llad a bodi  
 O Eleri  
 Hyt chuil fynyd  
 Un gorvydyauc  
 Antrugarauc  
 Ef a orvyd.  
 Bychan y lu  
 Yn ymchuelu  
 Or Mercherdyd  
 Arth or deau  
 Kyvyt ynteu  
 Dychyfervyd  
 Lloegrays lledi  
 Afrivedi  
 O Bowysyd  
 Guaith cors Vochno  
 O diango  
 Bydaud deduyd  
 Deudeng guraged

Ac nyt ryved  
 Am un gur vyd  
 Oes Ieunctid  
 Aghyvyrdelit  
 Y vaeth dybyd  
 Beru ymdivant  
 Barnauc or cant  
 Nys ryuelyd

Uryen o Reget hael ef syd ac a vyd  
 Ac a vu yr Adaf letaf y gled [gogled  
 Balch yghynted or tri Theyrn ar duc or  
 A un eu enu Aneuryn gnauryd Auenyd  
 A minneu Dalyesin o lann llyn geirionnydd  
 Ny dalywyf yn hen  
 Ym dygyn aghen  
 Oni Moluyf Uryen. Amen.

TAL. AE DYUAUT.

## DADOLWCH URIEN REGED.

TALIESIN.

URIEN yr echwydd  
 Haelaf dyn bedydd  
 Lliaws roddydd  
 I ddyinion efydd  
 Angaw a gawsant  
 A mynych goddiant  
 Mal y cynyllwyd  
 Yd wesgerydd  
 Llawn beirdd bedydd  
 Tra fo dy wychydd  
 Ys mwy llawenydd  
 Gan glodfein glodrydd  
 Ys mwy gogoniant  
 Fod Urien ai blant  
 Ac ef yn arbennig  
 Yn oruchel wledic  
 Bellenic yn ciniad  
 Cyntair Lloegrwys ei gwyddiead  
 Yn ninas pellenig  
 Yn ceiniad cynteig  
 Llee-grwys ai gwyddant  
 Pan ymadroddant  
 Llosci y trefred  
 A dwyn eu Tudded  
 Ac emmic<sup>1</sup> colhet  
 A mawr anghyfred  
 Heb gaffel gwaret  
 Rhag Urien Rheget  
 Rheget diffrydiad  
 Clod ior angorwlad  
 Fy modd y sydd arnat  
 O bob herchlynad  
 Dwys dy beleidrad  
 Pan erglywad

<sup>1</sup>Eimwng.

Cad pan i cyrchud  
 Gwiniuith a wnud  
 Tan yn nhai cyn dydd  
 Udd yr echwydd  
 Yr echwydd teccaf  
 Ai dynion haelhaf  
 Gnawd eingl heb waesaf  
 Am deyrn glewaf  
 Glewaf eissyllydd  
 Tydi goren y sydd  
 Teccaf ai dynion  
 Haelaf grawd . .  
 Pan dremir arnaw  
 Es helaeth y braw  
 Gnawd gwyledd am danaw  
 Am deyrn gognaw  
 Am danaw gwyledd  
 A lliaws teyrnedd<sup>1</sup>  
 Eurdeyrn gogledd  
 Arbennig Teyrnedd  
 Ac yn falclawy fi hen  
 Ymdygn angeu angen  
 Ny byddwyf yn dirwen  
 Na Molwyf Urien

## GWAITH GWENYSTRAD.

ARWYRE gwyr Kattraeth gan dydd  
 Am wledig gwaith fuddig gwartheogydd  
 Urien hwn anawd einueydd  
 Cyfeddeily teyrnedd ai gofyn rhyfelgar  
 Rwyg anwar rwyf bedydd  
 Gwyr Prydain adwythein yn lluydd  
 Gwen ystrad Ystadl cad cynnygydd  
 Ni ddodes na maes na choedydd tud achles  
 Diormes pan ddyfydd  
 Mal tonnawr tost ei gawr tros elfydd  
 Gwelais wyr gwychr yn lluydd  
 A gwedi boregat briwigig  
 Gwelais i dwrf teirflin trancedig  
 Gwaed gohoyw gofaran gowlychid  
 Yn amwyn Gwenystrad y gwelid gofwr  
 Hag angwyr llawr lluddedig  
 Yn nrws rhyd gwelais i wyr lledruddion  
 Eirf dillwng rhag blawr gofedon  
 Unynt tanc gan aethant golluddion  
 Llaw ynghroes gryd *ygro* granwynion  
 Cyfeddwynt y gynrhein Kywyn don  
 Gwaneicawr gollychynt rawn y caffon  
 Gweleis i wyr gospeithig gospylad  
 A gwyar a uaglei ar ddillad  
 A dulliaw diaflym dwys wrth gad  
 Cad gwortho ni buffo pan bwyllled  
 Glyw Reged rhyfeddaf pan feiddad  
 Gweles i ran reodig gan Urien

<sup>1</sup>Maranhedd.

Pan amwyth ai Alon yn llech wen Galysten

Ei wythiant oedd llafn acesawr gwyr  
Goberthid wrth Angen  
Awydd cad a ddiffio Euronwy  
Ac yn y fallwyfi hen  
Ym dygyn Angheu angher  
Ni bydif yn dirwen  
Na molwyf fi Urien

TALIESIN AE KANT.

## Y CYFIEITHAD

GAN IEUAN FARDD AC OFFEIRIAD.

Extol the Men of Cattræth, who, with the dawn went with their victorious leader Urien, a renowned elder, the pillar of Kings, of matchless valour, a chief of great power. The Men of Britain came in a body to Gwenystrad to offer battle; neither the fields nor the woods afforded protection to their enemies when they came in their fury, like the roaring wave rushing in its might to cover the beach. I have seen brave men in the army, and after the battle in the morning the mangled flesh. I saw the place where the shout was given, and where three ranks of men fell, and the crimson gore covered the ground: in Gwenystrad was seen a fort, assailed by the laborious toil of warriors. In the pass of the fort have I seen men dyed with red who have hurted their arms \* \* \* \*  
† \* \* \* \* they jointly fell to the ground when they lost the day; their hands were on the Crucifix, and horror was in the pale face of the dead warriors. I have seen men \* \* \* \* and the blood entangled on their clothes, quick and furious thrusts in battle. Men bore patiently the warlike toil, and where there was no flying when they grew outrageous. I am astonished at the courage of Reged's Chief! I have seen *Urien's* Brow covered with rage when he furiously attacked the enemy by Lech Wen Galysten; his anger was satisfied in dealing deadly blows amongst his foe, and his shield in time of need was heaved up to defend him. Euronwy mayest thou grow desirous of Conflict! And till I grow old, and must necessarily die, may I have no constant joy if I praise not Urien.

N.B.... This battle was fought by Urien Reged, Prince of Cymbria, against the Saxons.

## GWAITH ARGOED LLWYFEIN.

CANU URIEN.

Y BORE Dduw Sadwrn Cad fawr a fi  
Or pan ddwyre Haul hyd pan gynnu  
Dygrysowys fflamddwyn yn bedwarllu  
Goddeu a Reged i ymddullu  
Dyfwy o Argoed hyd Arfynydd  
Ni cheffynt eiryoës hyd yr undydd  
Atorelwis fflamddwyn fawr drybestawd  
A ddodynt yngwystlon a ynt parawd  
Yr atebwys Owain ddwyrain flossawd  
Nid dodynt nid ydynt nid ynt parawd  
A cheneu mab Coel byddai Cymwyawg  
lew

Cyn attalai owystl nebawd  
Atorelwis Urien Udd yr echwydd  
O bydd ynghyfarfod am garenydd  
Dyrchafwn eidoed odduch mynydd  
Ac ymportawn wyneb odduch emyl  
A drychafwn beleidr odduch ben Gwyr  
A chyrchwn fflamddwyn yn ei luydd  
A lladdwn ag ef ai gyweithydd  
A rhag Gwaith Argoed Llwyfain  
Bu llawer Celain  
Rhuddei frain rhag rhyfel Gwyr  
A gwerin a grysswys gan einewydd  
Arinaf y blwyddyn nad wyf Kynnydd  
Ac yn y fallwyf hen  
Ym dygn angeu gen  
Ni byddif ym dyrwen<sup>1</sup>  
No molwyf Urien<sup>2</sup>

TALIESIN.

## ENGLISHED THUS.

BY L. MORRIS, 1763.

ON Saturday Morning a great battle ensued, Which lasted from sun-rising to its descent;<sup>3</sup> Fflamddwyn<sup>4</sup> hastened in four legions Goddeu<sup>5</sup> and Reged's<sup>6</sup> forces to fight,<sup>7</sup> They reached from Argoed<sup>8</sup> to Arfynydd,<sup>9</sup> but lived only one day. Flamddwyn loudly called in great hurry,

<sup>1</sup> "The two last lines were not in the Book of John Lewes of Llynwene."—*Daviesius*.

<sup>2</sup> This Urien is he whom the old Author in Nennius calls Urbgen, with his Sons. Deovix the Saxon fought stoutly. Vide Gale's Nenn.—*Ll. Dd.*

<sup>3</sup> See Cynnu, Esgyn, Desgyn, in Davies's Dict.

<sup>4</sup> The Saxon General Flamddwyn mentioned in Triade, 56.

<sup>5</sup> Goddeu, a country in North Britain, where the famous Battle of Gwaith Goddeu was fought, Triade 47; one of the three trifling battles.

<sup>6</sup> The King of Cumbria Reged.

<sup>7</sup> Ymddyllu in the original signifies to dispose an army.

<sup>8</sup> Argoed, the country of Llywarch-hen, out of which he was driven by the Saxons.

Gwyr Argoed erioed am Porthant.—*Ll. H.*

<sup>9</sup> Arfynydd, some place on the borders of Northumbria.

Will they (the Britains) give pledges, are they ready?  
 He was answered by Owein,<sup>1</sup> brandishing<sup>2</sup> his spear,  
 They will give no pledges, nor are they ready.  
 And Cenau,<sup>3</sup> son of Coel, would be an afflicted lion<sup>4</sup>  
 Before he would give pledges to any one.  
 In the forenoon Urien<sup>5</sup> the Prince, with fresh men,  
 Called aloud, We relations will unite our forces,  
 And will erect our banner on the hills,  
 And will assist, and turn our faces above the edges, [heads,  
 And will raise our shafts above men's  
 And will push Flamddwyn in his Army,  
 And kill<sup>6</sup> (fight) with him and his auxiliaries;  
 And because of the Battle of Argoed Llwyfein<sup>7</sup>  
 There happened many a dead carcase,  
 And the ravens were coloured with the War of Men,  
 And the common people ran about hastily with the news.  
 I will foretell<sup>8</sup> the year that is not prosperous; [die,  
 And till I grow old, and necessarily must  
 Let me never smile if I praise not Urien.

---

### CANU I URIEN REGED.<sup>9</sup>

URIEN YR Echwydd  
 Haelaf Dyn bedydd

<sup>1</sup> Owein ap Urien Reged, the general of the Cumbrian or Reged men, under Urien his father, he and Flamddwyn had married two sisters, daughters of Culfynawyd Prydain, noted in Triad 56 for their incontinency.

<sup>2</sup> Or clashing his weapons.

<sup>3</sup> Cenau, son of Coel, must have been the general of Goddau's men, who were auxiliaries with Owein.

<sup>4</sup> Or would behave like an angry lion.

<sup>5</sup> Urien the Prince was King of Cumbria, and his dominion reached as far north as the river Clyde, to the northward of which the men of Goddau were, whom I take to be the Godini of Ptolomy. The trifling battle mentioned in p. 48, note 5, seems to be the same with that mentioned by John Major, Hist. of Scotland, occasioned by a mastiff bitch detained by the Picts; but as that battle has been celebrated by Taliesin in his Gwaith Goddeu, it is probable Major was out in his chronology about 300 years.

<sup>6</sup> The original word *lladd* is in the modern British *ymhladd*, to fight.

<sup>7</sup> The meaning of the word Argoed Llwyfein seems to be a Forest of Ems (Elms).

<sup>8</sup> Here the poet takes the character of a prophet, after his usual manner. Vide *Armes*, in D. D. *Llewelyn Dd.*

<sup>9</sup> *Gwel* Dadolwch, tu dal. 47.

Lliaws a roddydd  
 I ddyinion elfydd  
 Mal y cynnullwyd  
 Yd wesgerydd  
 Llawn beirdd bedydd  
 Tra fo du uchydd  
 Ys mwy llawenydd  
 Gan glodfan clodrydd  
 Ys mwy Gogoniant  
 Fod Urien ai blant  
 Ac ef yn Arbennig  
 Yn oruchel wledig  
 Bellennig yn cyniad  
 Cyntau Lloegrwys ai gwyddiad  
 Yn Ninas Pellenig  
 Yn ceiniad cynteig  
 Lloegrwys ai gwyddant  
 Pan ymadroddant  
 Angeu a gawsant  
 A mynych goddiant  
 Losgi eu trefred  
 Adwyn eu lludded  
 Ac eimwng colled  
 A mawr amgyffred  
 Heb gaffel gwared  
 Rhag Urien Reged  
 Rheged diffreidiad  
 Clod Ior angor gwlad  
 Fy modd y sydd arnad  
 O bob erglywad  
 Dwys dy beleidrat  
 Pan erglywat cad  
 Cad pan i cyrchud<sup>1</sup>  
 Gweniaith a wnaud  
 Gweniaith a wneit  
 Tan ynhai cyn dydd  
 Rac Udd yr Echwydd  
 Yr echwydd teccaf  
 Ai dynion haelaf  
 Gnawd Eingl heb waessaf  
 Am deyrn glewaf  
 Glewaf Eissyllydd  
 Tydi goreu sydd  
 Or a fu ac a fydd  
 Nith oes cystedlydd  
 Pan dremher arnaw  
 Ys helaeth y braw  
 Gwnawd gwledd am danaw  
 Am deyrn gognawd  
 Am danaw gwyledd  
 A lliaws Maranheldd  
 Eudeyrn gogledd  
 Arbennig Teyrnedd  
 Ac yn y vallwyf hen  
 Ym dygn angeu angen  
 Ni byddiff im dirwen  
 Na molwyf Urien

<sup>1</sup> Cyrchynt.

## I URIEN.

YNGORPHOWYS  
 Gan rychedwys  
 Parch a chymrwys  
 A medd meueddwys  
 Meueddwys medd  
 Ei orfoledd  
 A chain diredd  
 Imi yn rhyfedd  
 A chyfedd mawr  
 Ag eur ag Awr  
 Ac eur a ched  
 A chyfrifed  
 A chyfrifiant  
 A choddi chwant  
 A chwant oi roddi  
 Er fy llochi  
 Yd ladd yd gryg  
 Yd fag yd fyg  
 Yd fyg yd fag  
 Yd ladd yn rhag  
 Rhagwedd rhoddid  
 I feirdd y Byd  
 Byd yn geugant  
 Itti yd weddant  
 Wrth dy ewyllis  
 Duw ryth beris  
 Rhieu yngnis  
 Rhag ofn dibris  
 Annogiad cad  
 Diffreiddiad gwlad  
 Gnawd am danad  
 Lwryf pystylad  
 Pystylad lwrwf  
 Ac yfed cwrwf  
 Cwrwf oi yfed  
 A chein drefred  
 A chein dudded  
 Imi ryanllofed  
 Llwyfenydd fan  
 Ag eirch achlan  
 Yn un trygan  
 Mawr a bychan  
 Taliessin gan  
 Tidi ai diddan  
 Ys tidi goreu or gogleu  
 Ei wrdd lidau  
 Molaf inneu dy weithredau  
 Ac yn y vallwyf hen  
 Ym dygn angeu angen  
 Ni byddiff ym dirwen  
 Na molwyf Urien

## I URIEN.

AR un blynedd  
 Un yn darwedd

Gwin a mall a medd  
 A gwrhyd digassedd  
 Ac ei lewydd gored  
 A haid am fereu  
 Ai phen ffuneu  
 Ai teg wyddfaeu  
 Ei bawb oi wyd  
 Dyfynt yn hlymnydd  
 Ai farch y danaw  
 Yngoddeu gwaith Mynaw  
 A chwaneg anaw  
 Budd am li am law  
 Wyth ugein unlliw  
 O loi a biw  
 Biw blith ag Ychen  
 A phob cein amgen  
 Ni byddwn lawen  
 Bei lleas Urien  
 Ys eu cyn iethydd  
 Iais cyngryn cyngryt  
 A briger wen olched  
 Ar elor ei dynged<sup>1</sup>  
 A gran gwyarllod  
 Am waed gwyr gonodded  
 A gwr hewr bythig  
 A fei feddw ei wreig  
 Am ys gwin ffelaig  
 Am ysgwin mynych gyttwn  
 Am Sorth am porth am pen  
 Cyn na phar cyfwyrein  
 Kymaran taraw  
 Gwas y drws gwrandaw  
 Py drwst ai dayar a gryn  
 Di mor a ddugyn  
 Dy gwyawg ychyngar wrth y ped-  
 ydd  
 Ossid uch ym mhant  
 Neud Urien ai gwant  
 Ossid uch ym mynydd  
 Neud Urien a orfydd  
 Ossid uch yn rhiw  
 Neud Urien ai briw  
 Ossid uch ynghawdd  
 Neud Urien a blawdd  
 Uch hynt uch as  
 Uch ymhob Kamas  
 Nac un tew na dau  
 Ni nawdd y rhag eu  
 Ni byddei ar newyn  
 A phreiddieu yn ei gylchyn  
 Gygoriawg gorlassawc gorlassar  
 Ail angeu oedd ei bar  
 Yn lladd ei Esgar  
 Ac yn y vallwyf hen  
 Ym dygyn Angeu Angen  
 Ni byddiff ym Dyrwen  
 Na molwyf Urien

<sup>1</sup> Y dyged.



## CANU I URIEN.

ARDWYRE Reged rysedd Rieu  
 Neu ti rygostais cyn bwyf teu  
 Gnissynt cad lafnawr  
 A chad fereu gnissynt wyr  
 Y dan gylehwyawr  
 Lleeu goleu gwyn gelein  
 Ymathren ni mad frwydrwyd  
 Rhi ni mad geu  
 Ydd ymarmerth gwledig  
 Wrth Cymryau  
 Nis gyr neges y geissiaton  
 Gochawn Marchawg mwth molud gwriion  
 O ddreig ddylaw adnaw doethaw don  
 Yn i ddoeth Wlph yn dreis ar ei Alon  
 Hynny ddoeth Urien yn edydd yn Aeron  
 Ni bu cyfergyriad ni bu gynnwys  
 Talgynnawd Urien y rhac Powys  
 Ni hyfrwd brwd echen gynnwys  
 Hyfeidd a Gododin a lleu towys  
 Dewr yn enmynedd a thaith gyduwys  
 Difesi dyddwyn yngwaed gwyden  
 A weles llwyfenydd ufydd cyngryn  
 Yn eiddoedd cyhoedd yn eil mehyn  
 Cad yn rhyd Alclud Cad ym ynuer  
 Cad gellawr brewyn Cad hireurur  
 Cad ymhyrsg Cadleu, Cad yn Aber-ioed  
 Y ddygyfrang a dur breuer mawr  
 Cad gluduein Gwaith pen coed  
 Llwyth llithiawg Cunar ormant gwaed  
 Atweilaw gwyn goruchyr cyd mynan  
 Eingl eddyl gwrthryd  
 Lledrudd o gyfranc ag Wlph yn rhyd  
 Gwell ganher gwledig pyr y ganed y Udd  
 Prydain pen perchen broestlawn y Udd  
 Nid ymdug ddillad na glas na gawr  
 Na choch nag ehoëg uyg mawr llawr  
 Nid arddodes y forddwyd dros Voel Mael-  
 awr  
 Meirch o genedl vrych mor greidiawl  
 Haf ydan ayaf ag araf yn llaw  
 A Rhyd a Rhodwydd eu harwylaw  
 A gwest y dan geirdd ag ymdwyrw  
 Ac hyd orphen byd edrywyd Caw  
 Gosityn<sup>1</sup> goyscub dyhawl am delw  
 Dilwfr am leufereu neu fi erthrycheis  
 Rhag hwyd Peleidr ar ysgwydd  
 Ysgwyd yn llaw Godeu a Rheged yn ym-  
 ddulliaw  
 Neu fi a weles wr yn buarthaw  
 Saph sonedd firen Segidydd<sup>2</sup> lawr  
 Neu fi gogwn Ryfel ydd argollawr  
 Er maint a gollwyf y argollaw  
 Neu fi neu ym gorwyth meddu meddlyn  
 Gan hyfeidd hywr hywest ddilyn  
 Neu fi neu ysgynhedais cysgawd gweithen  
 Dithrychwys fy rhieu radeu lawen

<sup>1</sup> Gofyddin.—LL. E. D.    <sup>2</sup> Sengidydd.

Gwasga gwlad dda wrth wruyn  
 Ac yn y vallwyf i hen  
 Ym dygn Angeu Angén  
 Na bydyf ym dirwen  
 Na molwyf Urien

## YSPEIL TALIESIN.

## CANU URIEN.

YNGWRYD gogyfeirch yn nhrafferth gwaet-  
 wyf  
 A wellwyf yn Kerthwir  
 Gweleis i rhag neb nim gweles pob annwyl  
 Ef diwyl ei Neges  
 Gweleis i basg am leu am lys  
 Gweleis i ddail o ddyfyn o dowys  
 Gweleis i geing gyhafal ei blodeu  
 Neur'r weleis udd haelaf ei ddedfau  
 Gweleis i lyw Catraeth tra maeau  
 Bid fy nar nwy lachar Cymryau  
 Gwerth fy nad mawr fydd ei fudd y radeu  
 Pen Maon milwyr amde  
 Preidd lydan Pren onhyt yw fy Awen  
 gwen  
 Ysgawr y rhag glyw gloyw glasgwen  
 Glyw ryhawl glewaf un yw Urien  
 Nim gorseif gwarthegeydd  
 Gorddear gorddyawg gorlassawg gorlassar  
 , goraig a gorddwyre  
 Pob rhai sang dilew du Merwydd y Mordei  
 Udd tra blawdd yn ydd el oth fodd  
 Vared Melynawr yn neuadd maran hedd-  
 awg  
 Diffreidiawg yn Aeron  
 Mawr ei wyn ei aniant ac eilon  
 Mawr ddyfal ial am ei Alon  
 Mawr gwrnerth ystlyned i Frythôn  
 Mal rhod tanwhydin tros elfydd  
 Mal ton teithiawg Llwyfenydd  
 Mal cathl cyslwg Gwen a Gweithen  
 Val Mor Mwynfawr yw Urien  
 Yn y egin echangryd gwawr  
 Un yw rhieu rhwyfiadwr a Dwyawr  
 Un yw maon meirch mwth miledawr  
 Dechreu mei ymhywys byddinawr  
 Un yw yn deuwy pan ofwy ei werin  
 Eryr tir tuhir tythremyn  
 Addunwn i ar orwydd ffysgyolyn tud  
 yniâl  
 Gwerth Yspeil Taliessin  
 Un yw gwrys gwr llawr a gorwydd  
 Un yw breyr benffyg yr Arglwydd  
 Un yw hyddgre hydd yn diwant  
 Un yw blaidd banhadlawr anchwant  
 Un yw gwlad fab Eginyr

Ac unwedd ac unswn cadfa cedwyr  
 Unswn y drwg iraven (iaeran)  
 A Cheneu a Nudd hael a hirwlad y Danaw  
 Ac os it *ytwydef* ym gwen  
 Ef gwneif beirdd byd yn llawen  
 Cyn mynhwyf meirw meib Gwyden  
 Gwaladr gwaed gwenwlad Urien

---

### I. WALLAWG.

YN enw Gweledig Nef Gorchorddion  
 Rgyanant ryghwynant y Dragon  
 Gywrthodes gogyfres gwelydon  
 Lliaws Rhun a Nudd a Nwython  
 Ni golychaf an gnawt Beirdd o Vrython  
 Ryfedd hael a sywyd Sywedydd  
 Un lle rhygethlydd rygethlig,  
 Ryddysyaf rychanaf i wledig  
 Yn y wlad ydd oedd ergrynnig  
 Nim gwnel nis gwnaf ei newig  
 Anawdd diollwng adwoedd ni diffyg  
 I wledig ni omedd  
 O edrych awdl trwm teyrnedd  
 Yn ei fyw nis deubydd budd bedd  
 Ni ddigonont hoffedd o'i buchynt  
 Caletach yr artaith hael hynt  
 Tarf pressenawl tra Phrydain  
 Tra phryder ry gohoyw rylycirawr  
 Rylyccer rytharnawr rybarnawr  
 Rybarn pawb y gwr banher  
 Ac uinat yn yngnad ac elwet  
 Nid y gwr dilaw ei ddaered  
 Gwas greid a gwrhyd gottraed  
 Eil eichawg Gwallawg yn llywet  
 Hwyrweddawg gwallawg artebed  
 Ni ofyn i neb a wnaeth udd  
 Neud ym udd nac neud ych Darwerther  
 Tewuedd yn niwedd Haf  
 Nis cynnydd namyn chwech  
 Chweccach it gynan o hynnydd  
 Chedlawg trwyddedawg traeth dydd  
 Teyrnedd yngwedd nwys medd mad!  
 Tebyg heul haf huenydd soned gan mwyaf  
 Cenhaf gan ddoeth y gan llu eiliassaf  
 Bint *bydi* derwy bryt haf pryt mab  
 Lleenawg lliawg hamgwrwl gwmm  
 Gwawl gwmm gwres tarth gwres tarth  
 Trangyunis yd engis heb warth  
 Cleda cledifa cledifarch nidd am tyrr  
 Y lu y ledrad nid amescud i gaw ei gywlad  
 Tyllant tal ysgwydawr rhac taleu ei feirch  
 O march trwst Morial rith gar riallu  
 Gwynawg ry gwystlant gweiryd goludawg  
 O gaer Glut hyd gaer Garadawg  
 Ystadl tir penprys Gwallawg  
 Teyrnedd tewrn tangweddawg

### DADOLWCH URIEN.

Urieni Regedenis Compensatio.

LLEU uydd eclassaf  
 Mi nyw dirmygaf  
 Urien yd gyrchaf  
 Iddaw yd ganaf  
 Pan ddel fyngwaessaf  
 Cynwys a gaffaf  
 Or parth goreuhaf  
 Y dan eilassaf  
 Nid mawr nim dawr  
 Byth gweheleith a welaf  
 Nid af attaddynt ganthynt ni byddaf  
 Ni chyfarchaf fi gogledd  
 Ar mei teyrnedd  
 Cynr pei am laweredd  
 Y gwelwn gynghwystledd  
 Nid rhaid ym hoffedd  
 Urien nim gommedd  
 Llwyfenydd diredd  
 Ys meu eu rheuffedd  
 Ys meu y gwyledd  
 Ys meu y llaredd  
 Ys meu y deliedeu  
 Ai goreffrasseu  
 Medd o fualeu  
 A da dieisieu  
 Gan deyrn golau  
 Haelaf rygigleu  
 Teyrnedd pob Iaith  
 It oll ydynt gaith  
 Rhagot yt gwynir ys dir dy olaith  
 Cydef mynnasswn  
 Gwey helu henwn  
 Nid oedd well a gerwn  
 Hyd ys gwybyddwn  
 Weithian y gwelaf  
 Y meint a gaffaf  
 Namyn y Duw uchaf  
 Nis dioferaf  
 Dy deyrn Veibon  
 Haelaf dynedon  
 Wy canan eu hysgyron  
 Yn nhiredd eu galon  
 Ac yn y vallywff hen  
 Ym dygyn angeu angen  
 Ni byddaf im dirwen  
 Na molwyf Urien

---

### MARWNAD OWAIN AP URIEN REGED.

ENAID Owain ap Urien  
 Gobwyllid ei Ren  
 Oi Raid  
 Reged Udd ai cudd tromlas

Nid oed fas  
 Ei gywyddeid  
 Isgell cerddglyd clodfawr  
 Esgyll gwaywawr  
 Llifeid  
 Cany cheffir cystedlydd  
 I Udd llewenydd  
 Llathreid  
 Medel galon gefeilad  
 Eissillud y tad  
 Ai taid  
 Pan laeddawdd Owein Fflamddwyn  
 Nid oedd fwyn  
 Og ef cysgeid  
 Cysgid Lloegr llydan nifer  
 A lleufer  
 Yn eu llygaid  
 A rhai ni ffoynt hayach  
 A oeddynt.....ach  
 No chaid  
 Owain ai cospas yn ddrudd  
 Mal cnud  
 Yn ymlid defeid  
 Gwr gwiw uch ei amlw seirch  
 A roddei feirch  
 I eirchiaid  
 Cyd as cronnai mal caled  
 Ni ranned  
 Rhag ei Enaid  
 Enaid Owain ap Urien, &c.

---



---

### GORCHAN ADEBON.

Incantatio Adebni.—E. Ll.

Ny phel guyd aual o aual  
 Ny chynnyd dyual a dyual  
 Ny ehofn noeth yn esgal  
 Paub pan rydyoger yt bal  
 A garun y ef carei anreithgar  
 Ny byd marw duyueith  
 Nyt amsut y vut y areith  
 Ny cheri y gyneuin gyvieith  
 Emis anwychwas ancwyn  
 Am surn am gorn Cuhelyn  
 Yn adef tangdef colit  
 Adef let buost leu yn dyd mit  
 Rhudvyt ceissiessit ceissianon  
 Mein uchel medel y alon  
 Dyuen ar Uarchan Adebbon

Ac vely teruuyna Goarchon Adebbon.

---



---

### GORCHAN CYNVELYN.

Pei mi brydun  
 Pei mi ganun

Tardei Uarchan gorhegin  
 Gwelgin torch trych truyt  
 Cyrchessit yn Von  
 Cyn noe geinyon  
 Tyllei garn gaphan  
 Rac carneu riu rhon  
 Ryu elogown  
 Esynr vytr vyriach  
 Varchogion  
 Tyllei ylvach  
 Gwrhyt Govurthyach  
 Ruyt guyn rac Kingl iaun llad  
 Iaun vrinyn vrynnnyal  
 Rac canhuynaul cam  
 Luc yr duc dyvel  
 Disgynnyal alel  
 Y pob deur dysel  
 Truy hoel truy hen. .n  
 Truy gibelaur a gen  
 Ac eur ar drein  
 A galar duyn dyvyd  
 Y uynassed velyn  
 Y greü oe gylchyn  
 Celedic euynd  
 Medd melyn  
 Eil creu oe gylchyn  
 Rac cadeu Gynvelyn  
 Cynvelyn gasnar  
 Ysgrun bryffun bar  
 Goberthiat Adar  
 Ar deuin duydar  
 Cyrreith grad voryon  
 Adan vorduyt haelon  
 Cyuret cerd uylon  
 Ar weling dirion  
 Teyrn tut anau  
 Ys meu y guynau  
 Yn y vuyt y dyd tau  
 Gomyndyat gelynd  
 Ehangseit eruynd  
 Gorchaun cyrd ceinmyn  
 Yw Guarchan Cynvelyn  
 Gorchan Cynvelyn cyluy wylat  
 Etuyn gwr guned Guyned y Ulat  
 Dychiannawr deur dychiangat  
 Eidyn gaer gleision glaer  
 Cyuerchryneit  
 Cein dy en rud ynys guerth  
 Rud volaut ued meirch  
 Eithinynd neut gut blennyd  
 Guarchan Cynvelyn  
 Ar ododin neus goruc odyn  
 Dogyn gymhuyliet  
 Y uaeu drum oreureit  
 Am rodes poet er les yu eneit  
 Etnygyr y vab Tecvan  
 Wrth rif ac urth rann  
 Wyr Calvan greit  
 Pan Uyryuyt arveu

Tros ben cat o vleidiau  
 Buan deuer dyd rheit  
 Trywyr a thrygeint a thrychant  
 Y vreithyel Gatraeth ydaethant  
 Or saul yt gryssiasant  
 Uch ved venestri  
 Namyn tri nyd atcorasant  
 Cynon a Chatraeth a Chathleu a  
 gatuant  
 A minneu om Creu dychorant  
 Mab coelcerth uyuwerth a unaethant  
 O eur pur a dur ac ariant  
 Evnyvet nyt nodet e caussant  
 Guarchan cyrd Cynvelyn cyvnovant  
 Yma Tervyn Guarchan Cynvelyn

Canu un Canuauc a dal pob Awdyl o'r  
 Gododin heruyd breint yngceerd amrysson.  
 Tri chanu a thrygeint a thrychant a dal  
 pob un or Gorchaneu.....Achaws yu am  
 goffau yn y Gorchaneu rivedi Guyr a aeth-  
 ant y Gatraeth nog y dyle gur vyned y  
 ymlad heb arveu: Ny dyle Bard myned i  
 amrysson heb y gerd honno.

### GORCHAN MAELDERU.

TALIESIN AE CANT, ac a rodeis breint y dau Cym-  
 meint ac odleu y Gododin oll ae dri Gwarchan  
 yngceerd Amrysson.

DOLEU deu ebyr am gaer  
 Guibde adoer a duyaer  
 Clod rud ceissiedyd cysgut  
 Brithue arue aruryt  
 Ruthyr anorthur a wehit  
 A duy a dodet nyt hebit  
 Odef ynyas dof y urthyt  
 Dygugei yn aryf yn escut  
 Hutei yn ulyd eluit  
 Gur a ret pan dych  
 Cyuely cryndy crymduyn  
 Cyveilu nac eilu etuuy  
 Tervyn torret tec teithiaul  
 Nyt aruedauc y uolaut  
 Dyphryderas y uascaut  
 Molaut rin rymidin rymenon  
 Dysylei trech tra manon  
 Dysgleiriauc ac archauc talachon  
 Ar rud dreig fud Pharaon  
 Cyueylyawr yn auel adauann  
 Trengsyd a gwydei neb ac eneu  
 Y ar orthur maur mur onuyd  
 Ar vor ny delis na chynguyd  
 Na chynguyd na chynchor  
 Gordibleu eneit talachor  
 Nyt muy undyf y Esgor  
 . . . sgor eidin rac dior  
 . . . nan ceinmyg y ragor

. . . ossodes y gledyf ar glawd  
 . . . . . nwyrbudic  
 . . . en yn y annaud wledic  
 . . . gynnuythic cynlas cynneis  
 Duvyn dyvynneis  
 Cychuech ny chuyt cychueru cych ven-  
 yches  
 Cychuenychuy Enlli weles  
 A lenuis mican mar edles  
 Ar ystre gan vore godemles  
 Hute iduare yngorvynt  
 Guyr govynnaf rhyannet  
 Yn lluru ruyd heu ry golet  
 Colluyt meduyt menuyt  
 Gogled Run ren rydynit  
 Gorcheu am dychuel dychuelyt  
 Goruyd muy galuaut no meluit  
 Am ruyd amry ysto flit lit lam  
 Blin blaen blen blennyd  
 Trybadauc y uledic y rhung  
 Drem dremrud dremryd  
 Ny wolet odef dogynfyd  
 Mor eredig dar digeryd  
 Cyntaf digonaf can elw  
 Cynnuythic leithic tivyrdelu  
 Cyn y olo goundelu  
 Tal gwr mawr y vael Maelderu  
 Deluat dieirydaf y erry  
 Par ardelu ruyse uryf bre  
 Rymun gulat rymun rymdere  
 Ysgaul disgynnaud ulaud gymre  
 Nac ysgaut y redech rygre  
 Ni odiueid o vevyl veint gure  
 Da dyuot Adonuy am adassuyt  
 A uleis vratuen ganelu  
 Ladut llosgut ny chetueist  
 Nac eithaf na chynchor  
 Ysgun tref dy bennel  
 Ny ueleis or mor buyr mor  
 Marchauc a vei uaeth no od gur  
 Trychant eurdorchauc  
 Gyuedgar guaenauc  
 Trychan trahauc  
 Cyvun cyuarchauc  
 Trychan mant godrut  
 A gryssius ganthut  
 Trychun a thrychant  
 Try nyt atcorasant  
 Dyual ygeat cyrunug ygeyni  
 Ysceyvrang nyt oed bleidic mab Eli  
 Eryussit guin guedyr lestri lawn  
 Ac yn dyd camaun  
 Campa wnee  
 Y ar awyl can cynn y drenghi  
 Calaned cochued ae deni  
 Puys blaen rydre ferei gadeu  
 Dryl cadyr cat cein crysguydyat  
 Bryt am gorleu  
 Diechuith lain y oruyan

Nat ry gogleu  
 Ef guneei guyr ludu a guraged  
 Guedu cyn noe angheu  
 Breint mab Bleidgi  
 Rac ysperi  
 Y beri greu  
 Cein guodeo y celyo ery vyhyr  
 O honaw aryf yscut  
 As eiranghût  
 Pan estynnei bawb ti disgymiu  
 Ceneu guin guæt meiru meint a neint  
 Teir blyned a phedair tudet en vaur.  
 Yt vaer asgyni myrr hut  
 Ath uedi guas nym guerth na thechut  
 Present cyn adrawd oed breichyaul glut  
 Pan gyrehei ygeywlat e glot  
 Oed annodauc  
 Edilydei Run gur eurderchauc  
 Arduyei can ur arur mynauc  
 Ef rodei gloyu dul glan y gwychauc  
 Anvonauc eissyllut altut marchauc  
 Un maban y Gian o dra bannauc  
 Ny sathraut Gododin ar glaur phossawt  
 Pan vei no lif lymmach nebaut  
 Angor deor dain sarph saffwy graen  
 Anysgoget uæn blaen bydin aral  
 Arcluy treis trachyniuyn  
 Ruy gobruy gorduylam  
 Enuir ith eluir oth gyuir ueithret  
 Rector rhuyvyadur mur pob cyvyeith  
 Tutvulch treissir aer caer o dileith  
 Angor deor dain sarph Saffwy graen  
 Blaen bydin enuir yth eluir  
 Guerit cyuir yth eluir oth gywir weithret  
 Rector rhuyfyadur mur pob uivet  
 Meruyn mab Madyeith mad yth anet

---



---

## KERDD DARONWY.

DARON E. L.

Duw differ Nefwy  
 Rhag llanw lled ofrwy  
 Cyntaf attarwy  
 Atreis tros forwy  
 Py pren a fo mwy  
 No get<sup>1</sup> Daronwy  
 Nid wy am noddwy  
 Am gylch balch nefwy  
 Yssid rin y sydd fwy  
 Gwawr gwyr Goronwy  
 Odid ai gwypwy  
 Hutlath Fathonwy  
 Ynghoed pan dyfwy  
 Ffrwytheu mwy cymrwy  
 Ar lan Gwyllionwy  
 Kynan ai kaffwy

<sup>1</sup> Nog ef (el).

Pryd pan wledychwy  
 Dyddeuant et waeth  
 Tros drei a thros draeth  
 Pedair prif Bennaeth  
 Ar pummed nid gwaeth  
 Gwyr gwrdd ehelaeth  
 Ar Brydain arfaeth  
 Gwragedd a fu firaeth  
 Eillon a fi caeth  
 Ryferthwy hiraeth  
 Medd a marchogaeth  
 Dyddu dwy rain<sup>1</sup>  
 Gweddw a gwriog fain  
 Heyrn eu hadain  
 Ar wyr yn goriein  
 Dyddu cynrain  
 O am dir Rhufain  
 Eu cerdd a gyngain  
 Eu gwawd a ysgain  
 Anan derw a drain  
 Ar Gerdd yd gyngain  
 Ki i dynnu  
 March i rynnaiw  
 Eidion a wân  
 Hwch i dyrvu  
 Pymhed llwyn gwyn a wnaeth Iesu  
 O wig<sup>2</sup> Adaf i ymtrau  
 Gwydded<sup>3</sup> coed cain eu syllu  
 Hyd yd fuant a hyd yd fu  
 Pan wnel Cymry camfalhau  
 Ceir arall fro pwycaro fu  
 Llemais i lâm o lam eglwg  
 Hewssit da nir gaho drwg  
 Mygedorth Run ys ef a ddiwg  
 Rhwng Caer Rian a chaer Rywg  
 Rhwng Dineiddyn a Dineiddwg  
 Eglur dremynt a wyl golwg  
 Rhag rhynnawd tan dychyffrwymwg  
 An rhen Duw ann ry amwg

---



---

DE GALGACO, GWALLAWG AP LLEENAWG, SIC.

Camden in Descriptione Scotiae qui in Triadum  
 Libro in tres Britanniae heros, appellatur, vir  
 animo magno fortique qui fusa nona Legione magno  
 animi ardore cum Romanis concurrit acerimeque  
 Patriam defendit donec fortuna cum potius quam  
 virtus desereret.

TRI PHOST CAD YNYS PRYDAIN.

Dynawt ap Pabo Post Prydain, Gwallawg ap Lleen-  
 awg, a Chynfelyn Drwsgl. Vid. Trioedd.

## KERDD I WALLAWG AP LLEENAWG.

E. LL.

YN enw gwledig nef Goludawg  
 Y drefynt biefydd Gylfi foawg

<sup>1</sup> Rlain. <sup>2</sup> Wisg.—Ll. E. D.

<sup>3</sup> Gwyddfed.—Ll. E. D.

Eirig ei rethren rieddawg  
 Rhieu rhyfelgar gewheruawg  
 Ef diffyrth addfwyn llan lleenawg  
 Toryd un trwch<sup>1</sup> ardyawc  
 Hir ddychyferfyddain  
 O Brydain gofain  
 O berth Maw ac Eiddin  
 Ni chymmeryn cyferbyn  
 Cyweith cyweithydd clydwyn  
 Digonwyf digones i Lynges  
 O beleidr o bleigheid prenwres  
 Prenial yw i bawb i drachwres  
 Anghyfreint o gadeu digones Gwallawg  
 Gwell gwydd<sup>2</sup> fwyd nog Arthes<sup>3</sup>  
 Cad yn Agathes o achles gwawd  
 Gognaw<sup>4</sup> ei brod<sup>5</sup> digones  
 Cad ymro Vretrwyn trwy wres mawr tan  
 Meidrawl yw y trachwres  
 Cad ir ai cymrwy Kanhon  
 Cad cad crynai yn Aeron  
 Cad yn Ardunion ag Aeron  
 Eiddywed eilywed i feibion  
 Cat ynghoed Beid boed ron ddydd  
 Ni meddyliaisti dy Alon  
 Cad yn rhac llydawdl<sup>6</sup> a Mabon  
 Nid adrawdd adfrawd Achubion  
 Cad yn Gwensteri ag estygi Lloegr  
 Safawr un a<sup>7</sup> wner  
 Cad yn rhos terra gan wawr  
 Oedd hywst gwragawn egurawn  
 Yn nechreu ynheniad y geirawr  
 O rieu o ryfel ry ddiffawd  
 Gwyr a ddigawn goddai gwarthegawg  
 Haearnddur a Hyfeidd a Gwallawg  
 Ac Owein Mon Maelgynig ddefawd  
 A wnaw peithwyr gorweiddiawg  
 Ym mhen coed cleddyfein  
 Atfydd calanedd gwain  
 A brain ar ddisperawd  
 Ym Mhrydain yn Eiddin yn addefawg  
 Ynghafran yn adfan Brycheiawg  
 Yn ergyn yn ysgwn gaenawg  
 Ni wyl gwr ni welas Gwallawg

---

### GLASWAUD TALIESIN.

24 A DAL.—LI. E. D.

KENNADEU am ddodynt mor ynt anfon-  
 awg  
 Dygawn ymletcynt meint fy ngheudawd  
 Gnawd rwyf yn heli Beli wirawd  
 Gnawd ysgwyd ysgawn ar gefn Yscaud  
 Gnawd gwyth ag adwyth o Yspsyddawd  
 Gaer

<sup>1</sup> Unhwch.—LI. E. D.

<sup>4</sup> Gognaaw.

<sup>5</sup> Brawd.

<sup>2</sup> Gwyduit.

<sup>6</sup> Racwydawl.

<sup>3</sup> Arthles.

<sup>7</sup> Wy.—LI. E. D.

A nawcant Maer marwhawd  
 A fydd mai ar Fenai crei gyflogawd  
 Atfydd mwy ar Gonwy creith gwynieith  
 gwnahawd  
 Addoerlleith dyrreith anaw barawd  
 O heyrn erchwyrn edyrn ddyrnawd  
 Tri dilyn diachor droch drymlyhawg  
 Tair llynges yn aches armes cyn brawd  
 Tri diweddydd cad am dri phriawd gwlad  
 Gwnahawd bad betrawd  
 Tri o bob tri tri phechawd  
 Ac Eryri fre farnhawd  
 Llu o sais ail oynt trydydd dugnawd  
 Ynghymry ydd erhy gwragedd gwedd-  
 dawd  
 Rac baran Kynan tan tarddawd  
 Cadwaladr ai cwyn  
 Briwhawd bro a brwyn  
 Gwellt a tho Tai by tyndawd  
 Atfydd rhyffeddawd  
 Gwr gan ferch ei frawd  
 Dy fyn hyn dwrhawd  
 O Lin Anarawd  
 O honaw y tyfawd  
 Coch call y bruddawd  
 Nid arbed na nawd  
 Na chefnderw na brawd  
 Wrth lef Corn Cadwr  
 Naw cant yn afrddwl  
 O Bedryddant ddygnawd  
 Dygorelwi lefni o laswawd efret  
 Wrth a gawd y Geudawd

---

### KADEIR TEYRNON CCC.

AREIT awdl eglur  
 Awen tra messur  
 Am gwr deu awdwr  
 O echen aladwr  
 Ai ffonsai ai ffwr  
 Ai reon rechdur  
 Ai ri rhwyfiadur  
 A rif ysgrythwr<sup>1</sup>  
 Ai goch gochlesswr  
 Ai ergyr dros fwr  
 Ai Kadair gymmesswr  
 Ymhlith gosgordd mur  
 Neus dug o gawrmwr  
 Meirch gwelw gostrodwr  
 Teyrnnon henwr  
 Heilyn pasgadwr  
 Treded dofn doethur  
 I fendigaw Arthur  
 Arthur fendigad  
 Ar gerdd gyfaenad  
 Arwyneb ynghad

<sup>1</sup> Ai rif ysgrythrir.—LI. E. D.

Arnaw bystylad  
 Pwy y try chynweissad  
 A werchedwis gwlad  
 Pwy y tri chyfarwydd  
 A gedwis Arwydd  
 A ddaw wrth awydd  
 Erbyn eu Harglwydd  
 Ban rinwedd rotwydd  
 Ban fydd hyn hoywedd  
 Ban corn cerddetrwydd  
 Ban biw wrth echwydd  
 Ban guir pan ddisglair  
 Bannach pan lefair  
 Ban pan ddoeth o bair  
 Ogyrwen Awen teir  
 Bum Mynawg mynweir  
 Ynghorn im neddair  
 Ny ddyly cadeir  
 Ni gatwo fy ngair  
Cynt i syrthieie cadoedd rhag Carnedd-  
Dy vreich no brwyn briw i lawr [awr

Ystee fy ki as ystrwn  
Ag ys ev oreu or kwn  
Dormarchedd hwnnw a vu y Maelgwn

Dormarth drwynrhydd ba syllydd  
Arnaw can yssamgyffredydd  
Dy grwidir ar Wiber wynydd

My wn yn y lle y llas Gwenddoleu  
Mab Ceidiaw Colowyn kerdeu  
Ban ryerchint brein ar kreu

Mi a wnn yn y lle y llas Bran  
Mab y Werydd glod lydan  
Ban ryerhint Brein garthan

Mi a wnn lle y llas llacheu  
Mab Arthur uthr yngherteu  
Ban ryerhint brein ar kreu

Mi a wn lle i llas Meiric  
Mab Kerreian clad etmic  
Ban ryreceint brein aa kie

Mi a wn lle<sup>1</sup> i llas Gwallawe  
Mab Goholeth teithiawe  
Addwod Lloegyrr mab Lley nawe

Mi a wn lle<sup>2</sup> i llas milwyr Prydein  
Or dwyrein ir gogledd  
My wi wiw vinteu y bedd

Mi a vun lle llas milwyr Prydein  
Or dwyrein ir deheu  
Mi wi wiw vinteu y hagheu

YMDYDDAN ARTHUR A  
CHAI A GLEWLWYD.

PA gwr yw y Porthavr  
Glewlwid Gafaelfawr  
Pa wr ai govin Arthur a Chei gwin  
Pa imdda genhit gwin goreu im bid  
Ym ty ny ddoi onis gwaredy<sup>3</sup>  
Mi ai gwardi a thi ai gwely  
Vithneint elei Assivion ell tri  
Mab a Mydrion gvas Uthir Pendragon  
Kyscaint mab Banon a gwin godybrion  
Oet rinn vy gweission in amwin eu detvon  
Manawydan ap Llyr oet dvis i kusil<sup>4</sup>  
Neus duc Manavid eis tull o Trywrid  
A Mabon am Mellt  
Maglei gwaed ar gwellt  
Ag angvas edeinawe a llwch llawynnawe  
Oetin diffreidiawe ar i din cyminave  
Arglvit ai llochei mynnei ymtiwygei  
Kei vi heirolei tra llatheï pob tri  
Pan gollet Kelli kaffad cuelli  
A seirirolei Kei hid trae kymynei  
Arthur oed hvarei y gvaed goverei  
In Neuat Awarnach in imlat ef a gvrach  
Ew a gwant penn Palach  
In atodev dissethach  
Ym minit Eidin amve a Chinbin  
Pob cant id gwrтин pob cant

Rhac Bedwir bedrydant  
Artraethen trywrrvid in un in a garwlwid  
Oet gwydyr y anwyd o cletyf ac yskwid  
Oet gwaget bragad vrth Cei ynghad  
Oet cletyf i ghad oe law digwystlad  
Oet hyneiv gvastad ar lleng as lles gwlad  
Betwira a Bridlav naw Cant gwarandaw  
Chwechant y eirthaw a taléi y ortinav  
Gveission am buyat oet gvell ban vitint  
Rhag rhiau Emreis gveleis e Kei ar vrys  
Preiteu gorthowys oet gwrhir in ewnys  
Oet trum i dial oet tost y cynnal  
Pan yvei owval yvei wrth pedwar  
Yg kad pan delei wrth gant it lathei  
Ny bei Duw ae digonhei  
Oet dilheit agheu Kei  
Kei gwin a lathei digonynt wy kadeu [un  
Kyn gloes glas vereu ygvarthaw ystawing-  
Kei a gwant naw gniton Kei win aeth Fon  
Y dilein Llevon  
Y ysevid oet mynud erbin Cath Paluc  
Pan gogyveirch tud  
Pwy gwant Cath Paluc  
Naw ugein kinlluc ac vitei in y byyd  
Naw ugein kiwrann

ENGLYNION CAD GODDAU.

Val dyma yr Englynion a ganwyd pan cad goddau,  
ereill a'i geilw cad Achren, ac o achos iwroch gwyn  
a cheneu y bu, ac o anwn yr hanoedd hwynt, ac  
Amathaon ap Dón ai daliodd. Ac am hynny yr  
ymladdodd Amathaon ap Don ac Arawn vrenin  
anwn, a gwr oedd yn y gad oni wyped i henw ni  
orfyddit arno; a gwreic oedd yn y tu arall a elwid  
Achren, ac oni wyped y henw ni orfyddit arnunt.  
A Gwidian ap Don a ddychymygawdd henw y gwr  
ac a ganodd y ddau Englyn sy yn canlyn.

CARNGRAF vy march rhagotoyw  
Benn Ōlgen gwera ar yasfoyw  
Bran ith elwir briger loyw

AC PAL HYN.

Carngraff dy farch yn y dydd cad  
Bann blaen gwern ar dy angad  
Bran lorgric ai vrig arnad  
Y gorfu Amathaon mad

GWYDION AP DON AI CANT.

AMRYW GANUAU, NIS GWYDDIS PWY A'U CANT.

ENGLYNYON Y KLYWEIT.

A GLYWEISTI a gant Kynvyt<sup>5</sup>  
Ac a glyv y dvedut<sup>6</sup>  
Goreu Kamwri Katbyd<sup>7</sup>

A glyweisti a gant Kynrein<sup>1</sup>  
Pen Kyssul Ynys Prydein  
Ys gwell cadw noc olreïn  
A glywaisti a gant Idloes  
Gwr guar hygar y einyoes  
Goreu kynnyd Kadu moes

<sup>1</sup>Cynrhain.

<sup>1</sup>Ni bum lle.

<sup>2</sup>Mi a vun.

<sup>3</sup>Gwarchodei.

<sup>5</sup>Kynwyd.

<sup>6</sup>Dwyedwyd.

<sup>7</sup>Cedwid.—Dr. Davies.

A glyweisti a gant Kynlluc<sup>1</sup>  
Gur lluyt llydan y oluc  
Kavas da ni chavas druc

A glyweisti a gant Meugant  
Yn ysgar a ysgarant  
Pob enuir dienwir y blant<sup>2</sup>

A glyweisti a gant Karku  
Gwedy gorfot ar y llu  
Nid guaraduyd guellahau

A glyweisti a gant y vronvreith  
Pan dramuyich dros diffeith  
Na vid elyn dy gedymeith

A glyweisti a gant y vran  
Kymmer ..... Kynnudan  
Gvell ry draws uo ry druan

A glyweisti a a gant Kadgyffro  
Hen yn darllen llyvyr Cauo  
Nyt mad vu ny bu Gymro

A glyweisti a gant y gegin  
Byd leu na vyd dia ... thrin  
Na vit dy wreic dy gyvrin

A glyweisti a gant Uryen  
Gyt ac a ganei amgen  
Digaun Crist Trist yn llauen

A glyweisti a gant Kynvarch  
Bit dy ysguyt ar dy varch  
Ar nat parcho na pharch

A glyweisti a gant Deui  
Gur lluyt llydan y deithi  
Goreu denaut daioni

A glyweisti a gant Teilau  
Gur a vu'n penydyau  
A duv nyt da ymdarau

A glyweisti a gant Padarn  
Pregethwr kywir kadarn  
A wnel dyn duv ac barn

A glyweisti a gant Andras  
A diodevod croes leas  
Duv a rannuys nef a gavas

A glyweist ti a gant Anaraut  
Milur donyauc ditlaut  
Reit urth amhuyll puyll paraut

A glyweisti a gant Gurhir  
Gwalstaut pob yeith gywir

<sup>1</sup>Cynllwg. <sup>2</sup>Difenwir.

A wnel duyll ef a duyllir

A glyweisti a gant Marthin  
Breinyaual sant y gyffredin  
Namyn Duw nyt oes deuin

A glyweisti a gant Gereint  
Mab Erbyn kywir kywreint  
Byr hoetlauc digassauc saint

A glyweisti a gant Ryderch  
Tridyd hael<sup>1</sup> serchauc serch  
Gnaud rygas guedy ryserch

A glyweisti a gant Hugbuyd  
A vuassei gynt yn fuyd  
Gnaud guedy traha tramcuyd

A glyweisti a gant Ffoluch  
O gymryd edifeirwech  
Gnaut guedy redec yrthuch

A glyweist ti a gant Cormoc  
Breinyaual gyvreith annoc  
Pob bur ledrat y groc

A glyweisti a gant Eileru  
Marchauc serchauc syberu  
Hir y cnoir tameit chueru

A glyweisti a gant Esperir  
Ymdidan a Meni hir  
Kar kywir yn yng y guelir

A glyweisti a gant Heled  
Verch Cyndruyn vaur y rhyved  
Nyt rodi da a wna dloded

A glyweisti a gant y Barcut  
Y dyn ysglyvyat gleu drut  
Moch vyd Barn pob Ehut

A glyweisti a gant Haernued  
Vradauc vilur teyrned  
Trech nerth no guir urth digassed

A glyweisti a gant y Pysc  
Wrth ymdrafful ymplith y guryse  
Trech anyan nac adysc

A glyweisti a gant Huêil  
Mab Caw Kymmuyll ariel  
Mynych y syrth mevyll o gesseil

A glyweisti a gant Llywarch  
Oed henwr drut dihavarch  
Onyd kyvaruyd kyvarch

<sup>1</sup>Rhydd hael.

A glyweisti a gant Beduini  
Oed escaub donyauc diffri  
Racreitha dy eir kyn noi dodri

A glyweisti a gant Avaon  
Vab Talyessin gerd govyon  
Ni chel grud gystud calon

A glyweisti a gant Ysgafnell  
Vab Dysgyvndaut Katgymell  
Nyt anregit tlaud o bell

A glyweisti a gant Rioget<sup>1</sup>  
Guedy caffel teyrngt  
Ny chuse Duv pan rywaret

A glyweisti a gant y Gorres  
Wrth y gelein pan sorres  
Ny charaud Crist ae croges

A glyweisti a gant Angar  
Mab Caw milwr clotgar  
Bid tonn kalonn gan alar

A glyweisti a gant llu crun  
Wrth y gydenu Huatrum  
Pan lado Duv llad yn drum

A glyweisti a gant Goliffer  
Gosgordvaur guych y niver  
Kas uiryoned ny charer

A glyweisti a gant Beuno  
Kan dy bader ath credo  
Rac agheu dy thycya ffo

A glyweisti a gant y Beleu  
Gyt ar adar yn guareu  
Pob hir nychdaut y agheu

A glyweisti a gant Duinnic  
Milur doeth detholedic  
Digaun Duv da y unic<sup>2</sup>

A glyweisti a gant Kymluch  
Yn y henaint ae heduch  
Deduyd a gar datoluch

A glyweisti a gan Gwiau  
Dremynur goluc unyaun  
Duv cadarn a varn pob yaun

A glyweisti a gant Llenllyauc  
Guydel urdawl eurdochauc  
Guell Bed no buchedd heghenauc

A glyweisti a gant Kynon

Yn ymoglut rac meduon  
Curw yw alluyd Calon

A glyweisti a gant y gurhy  
Bit lauen paub yn y dy  
Wyneb Trist druc ae hery

A glyweisti a gant Hylwyd  
Oed henur kall kyvaruyd  
Nyt treftat enryded argluyd

A glyweisti a gant Gurgi  
Yn kyssul mewn Kunsli  
Nyt reit y detuyd namyn y eni

A glyweisti a gant gur kall  
Yn kyghori guas aghall  
A unel druc arhoet y llall

A glyweisti a gant Rioget  
Oed ffydlaun kyviaun y gret  
A unel druc ymoget

A glyweisti a gant Kyghellaur  
Yn ymdidan a lliu guaur  
Chuerdit bryt wrth agharaur

A glyweisti a gant Kynan  
Guledic sant y anyan  
Drykai pob amuyll y rann

A glyweisti a gant .....  
Gur a un y lla ...  
Druc drycuas guaeth bod hebdo

A glyweisti a gant Huaraur<sup>1</sup>  
Yn ymdidan ae gymhar  
Ded or ae gwel ae kar

A glyweisti a gant Gildas  
Mab Caw Milwr atkas  
Dynaut guas hir y gar

A glyweisti a gant Gurselid  
Guydel diogel y ymlit  
Drwg pechaut oe hir erlit

A glyweisti a gant Lliaus  
Mab Nuyvre milur hynavs  
Dadleuad ar bob achau

A glyweisti a gant Kyndelu<sup>2</sup>

A glyweisti a gant Credeiliad  
Verch Ludd riain wastad  
Digaun da diwyd gennad

<sup>1</sup>Huarwar.

<sup>2</sup>Mae arwydd yn yr hen lyfrau vod pennill ar goll ar ol hwn.

<sup>3</sup>Rhogedd.

[Cynghanedd.

<sup>4</sup>Mae Giraldu wedi rhoi hwn er dangaws ansawdd

A glyweisti a gant Kyndrwyn  
Tangnefeddwr mad mwyn  
Nid gwarae hengi a cholwyn

A glyweisti a gant Hen Gyrys  
Gwna dy neges yn ddi ddefrys  
Gwell car yn Llys nag aur ar Fys

A glyweisti a gant Calcaw  
Ni mynnei i neb ei dwyllaw  
Gwell un hwde no dau addaw

A glyweisti a gant Europa  
Mab custeon caswestfa  
Gnawd o ben drythyll draha

A glyweisti a gant Eheubryd  
Mab Cyfwlch cyfiawn yspryd  
Goval Dyn Duw ai gweryd

A glyweisti a gant Drystan  
Gobeithiwr prudd ei anian  
Gossymdeith dyn Duw ai rhan

A glyweisti a gant Dremhidydd  
Hen ddisgwylliwr ar geurydd  
Gwell nag nac addaw ni wneydd

A glyweisti a gant Cywryd Ceint  
A oddefawdd lawer heint  
Gwae ieuangc a eiddun heneint

A glyweisti a gan Eilassaf  
Odid un Dyn dianaf  
Nid un awen iach a chlaf

A glyweisti a gant y Pi  
Geilwad argoeliad gwesti  
Nid menichdid maerioni

A glyweisti a gant Cadreith  
Fab Porthawr filwr areith  
Ni char Dofydd diobeith

A glyweisti a gant Gwenddoleu  
Wrth dramwyaw dyffrynau  
Pren ynghoed arall bieu

## YMDIDDAN

RHWNG ARTHUR FRENHIN AI AIL WRAIG  
GWENHWYFAR.

Hon oedd y ferch a ddygodd MELWAS Tywysog o'r  
Alban.—O'r Ll. Gwyrdd.

A. Du yw fy march a da dana  
Ac er dwr nid arswyda  
A rhag ungwr ni chilia

G. Glas yw fy march o liw dail  
Llwyrr ddirmygid meff mawrair  
Nid gwr ond a gywiro ei air

G. ....  
.....ymlaen y drin  
Nid deil gwr ond Cai hir ab Sefin

A. Myfi a ferxyg ac a sai  
Ac a gerdda yn drwm gaulan trai  
Myfi yw'r gwr a ddaliai Gai

G. Dyd wâs rhyfedd yw dy glywed  
Onid wyd amgen no'th weled  
Ni ddalid di Gai ar dy ganfed

A. Gwenhwyfar olwg eirian  
Na ddifrawd fi cyd bwy byxan  
Mi a ddaliwn gant fy hunan

G. Dud wâs o ddu a melyn  
Wrth hir edryx dy dremyn  
Tybiais dy weled cyn hyn

A. Gwenhwyfar olwg wrthox  
Doedwx imi os gwyddox  
Ymhâ le cyn hyn im gwelsox

G. Mi a welais wr graddol o faint  
Ar fwrdd hir Arthur<sup>1</sup> yn Dyfnaint  
Yn rhannu gwin iw geraint

A. Gwenhwyfar barabl digri  
Gnawd o ben gwraig air gwegi  
Yno y gwelaist di fi

## ENGLYNION YMDIDDAN

Rhwng ARTHUR AB UTHUR A'I NAI 'LIWLOD AB  
MADOG AB UTHUR OED FARW, ac wedi ymrithio  
yn rhith ERYR.—Allan o'r Llyfr Gwyrdd.

A. Y sy ryfedda gan wy fardd<sup>2</sup>  
Ar flaen dâr a'i brig yn hardd  
Pa edrych Eryr pa xwardd

E. Arthur bell glod oddiwes  
A'th lu llawenydd a'th les  
Yr Eryr gynt ath weles

A. Y sydd ryfedda o du mur  
Ath ofynaf yn fesur  
Pa xwardd pa edryx Eryr

E. Arthur bell glod yn hynt

<sup>1</sup> Celliwig. <sup>2</sup> Ys rhyfeddaf cyd bwyf bardd.—L. M.



- Ath llu llawenyx dremynt  
Yr Eryr ato weles gynt
- A. Yr Eryr a sai ar flaen dâr  
Pei hanffit o rew adar  
Ni byddit ti na do na gwâr
- E. Arthur gleddyddawg uthur  
Ni sai dim gan dy ruthur  
Mi yw mab madog ab uthur
- A. Yr eryr ni wn ei ruw  
A dreigla glyneu Cernyw  
Mab Madog ab uthur nid byw
- E. Arthur iaith gyfrwyslid  
Ath lu nis gwradwylid  
Eliwlod gynt im gelwid
- A. Yr Eryr olwg difai  
Ar dy'madrodd nid oes fai  
Ai di yw Liwlod fy nai
- E. Arthur dihafarx osod  
Os mi ydyw Liwlod  
Ai gwiw ymgystlwg o honod?
- A. Yr Eryr barablau difrad  
Os di ydyw Liwlod  
Ai gwiw ymladd am danod
- E. Arthur dihafarx atteb  
Ni sai gelyn ith wyneb  
Rhag angau ni ddianc neb.
- A. Yr Eryr iaith di ymgel  
Allai neb drwy ryfel  
Yn fyw eilwaith dy gaffel
- E. Arthur bendefig haelion  
O xredir geiriau y ganou  
A Duw nid gwiw ymryson
- A. Yr Eryr barabl eglur  
A ddywedi di wrth Arthur  
Pa beth sydd drwg iw wneuthur?
- E. Meddyllo drwg drwy irdwl<sup>1</sup>  
A thrigo yn hir yn y meddwl  
A elwir pexod a xwl
- A. Yr Eryr barabl doethaf  
It dy hun y gofynaf  
Bodd Duw pa ddelw ir harddaf?
- E. Caru Duw o fryd iniawn  
Ac erxi arxau cyfiawn  
A bair nef a bydawl ddawn
- A. Yr eryr gwir fynegi  
Os llwyr ofynaf iti  
Ai da gan Grist ei foli?
- E. Arthur ydwyd gadarnaf  
Ar dwr gwr gwiw obeithiaf  
Pob yspryd moled ei Naf
- A. Yr Eryr radlon fywyd  
Ith ofynaf eb ergyd  
Pwy sy nesa eb yspryd
- E. Arthur disegur lafnau  
...ydaist o gur gan waydau  
Crist yw ef cred nag amau
- A. Yr Eryr barabl adef  
A ofynaf o hyd ilef  
Beth ore i geisio Nef
- E. Edifeirwx am drawsed  
A Gobeithio y drugared  
Hyn a bair y dangnefed
- A. Yr Eryr barabl diwg  
A fynegi di yn amlwg  
I wneuthud be sy drwg
- E. Medyllo brad anghywir  
A xhelu medwl yn hir  
Cwbwl bexod i gelwir
- A. Yr Eryr barabl tawel  
A dywedi di heb ymgel  
Beth a bair ym i oxel
- E. Gwedio Duw bob plygaint  
A dymuno cael madeuaint  
Ac erxi cynnorthwy'r saint
- A. Yr Eryr barabl didlawd  
Ith ofynaf ar draethawd  
Pa fath waetha ar bexawd
- E. Arthur oderxog doethiaith  
Gwedi profer pob cyfraith  
Gwaetha bernir anobeith
- A. Yr Eryr barabl Osyd  
A fynegi yn gelfyd  
O anobaith beth a fyd
- E. Heudu hir boen uffernol  
A xaffel cwyp anesgorol  
A xolli Duw'n dragwydol
- A. Yr Eryr iaith ymadaw  
Ath ofynaf rhag llaw  
Ai gore dim gobeithiaw

<sup>1</sup>Afrdwl.—L. M.

- E. Arthur arderxawg Cynan  
O mynni o fyd gafel rhan  
Wrth gadarn gobaith gwan
- A. Yr Eryr barabl cywir  
It dy hun y gofynir  
Pan nad cadarn perxen tir
- E. Arthur arderxawg wydfa  
Na xoll Dofud or alfa  
Y cadernid yw'r pennaf
- A. Yr Eryr barabl diau  
Ath ofynaf ar eiriau  
Ond yw cadarn finnau
- E. Arthur ben cadoed Cernyw  
Arderxog finiog o liw  
Nid cadarn neb ond Duw
- A. Yr Eryr iaith diarfford  
Ath ofynaf heb foeldord<sup>1</sup>  
Beth a wna Duw a gosgord
- E. Gosgord os gwir i foli  
Os cyfiawn cyferxi  
Ni ryd Duw uffern arni
- A. Yr Eryr iaith drym garn  
Ath ofynaf yn gadarn  
Pwy dyd brawd a ryd barn
- E. Arthur arderxawg wydfa  
Gorxest gwir a defa  
Duw ei hun a farna
- A. Yr Eryr nefol dynged  
Ar na xafas i weled  
Beth a wna Crist i'r rhai cred
- E. Arthur wydfa llawenyd  
Ath lu buost lwyr gynyd  
Dy hun dyd brawd a'i gwybyd
- A. Yr Eryr barabl syxoed  
Ath ofynaf berxen torfoed  
Dyd brawd beth a wna i bobloed
- E. Arthur arderxawg *Lampre*  
Ath wir gwiriondeb hagdle  
Yna i gwybod pawb ei le
- A. Yr Eryr barabl difustul  
Ath ofynaf heb gynfyl  
Ai da cael gwasanaeth sul
- E. Gwasanaeth sul o xeffi  
A gras gan duw gwedi  
Gwynfydedig wyt o honi
- A. Yr Eryr barabl difri  
Ath ofynaf dros geli  
Beth ym o byda hebdi
- E. O bydi heb eiriau llén  
Die sul eb raid eb angen  
Hyd yr ail sul na xward wén
- A. Yr Eryr barabl hynod  
Ath ofynaf yn hynaid  
Beth ore rhag enaid
- E. Pader a gwediau  
A dirwest a xardodau  
A diodef enaid hyd angau

---

### LLYMA ENGLYNION

A fu rhwng TRYSTAN FAB TALLWCH A GWALCHMAI FAB GWYAR, gwedi bod TRYSTAN dair blynedd allan o Lys Arthur ar sorriant, a gyntu o ARTHUR wyth ar hugain o'i Filwyr i geisio ei ddal a'i ddwyn at ARTHUR ac e fwtriodd TRYSTAN hwynt i lawr bob un yn ol eu gilydd, ac ni ddaeth er neb ond er GWALCHMAI a'r Tafod aur.

- G. PRWYSTYL sydd tan<sup>1</sup> anianawl  
Pan fo'r mor yn ei chanawl  
Pwy wyl filwr anifeidrawl
- T. Prwystyl fydd tonn a tharan  
Cyd bont brwystul eu gwahan  
Yn nydd trin mi yw Trystan
- G. Trystan barabl difai  
Yn nydd trin nid ymgiliai  
Cydymaith yt oedd Gwalchmai
- T. Mi a wnawn er Gwalchmai yn nydd  
O bai waith cochwydd yn rhydd  
Nas gwnae'r brawd er eu gilydd
- G. Trystan gynneddfau eglur  
Huddellt baladr oth lafur  
Mi yw Gwalchmai nai Arthur
- T. Yno gynt Gwalchmai nog *mydrin*  
O bae arnat ti orthrin  
Mi a wnawn waed hyd ddeulin
- G. Trystan o honot ti y pwyllon  
Oni'm gommeddai'r arddwrn  
Minneu a wnawn goreu ag allwn
- T. Mi ai gofyn er a fen  
Ac nis gofynaf ar grauen  
Pwy yw'r milwyr sydd om blaen

<sup>1</sup>Ton.

- G. Trystan gynneddffau hynod  
Nid ydynt ith adnabod  
Teulu Arthur sy'n dyfod
- T. Arthur nim bogelaf  
Naw cant cad ai tyngeddaf  
Om lleddir minneu a laddaf
- G. Trystan gyfaill rhianedd  
Cyn mynd yngwaith gorffedd  
Goreu dim yw tangnefedd
- T. O caf fy ngledd ar fy nglun  
Am llaw ddeau i'm ddiffyn  
Ai gwaeth finneu nag undyn
- G. Trystan gynneddffau eglur  
Cyn cynnaws lliaws llafur  
Na wrthod yu gar Arthur
- T. Gwalchmai o honot y pwyllaf  
Ag om pen y llafuriaf  
Fal i'm carer y caraf
- G. Trystan gynneddffau blaengar  
Gorwlychyd cafod cann dâr  
Tyred i ymweled ath gâr
- T. Gwalchmai attebion cymmen  
Gerwlychyd cafod cann rhych  
Minneu af ir lle mynnych

*Ac yno daeth Trystan gyda Gwalchmai at  
Arthur.*

- G. Arthur attebion cymmen  
Gorwlychyd cafod cann penn  
Llyma Drystan bydd lawen
- A. Gwalchmai attebion difai  
Gorwlychyd cafod cann tai  
Croesaw wrth Drystan fy Nai
- Trystan wynn bendefyg llu  
Car dy genedl cred a fu  
A minneu yn ben Teulu
- Trystan bendefig cadau  
Cymmer gystal ar goreu  
Ag yn gywir gad finnau
- Trystan bendefig mawr call  
Câr dy genedl nith dddwg gwall  
Nid oera rhwng câr ar llall
- T. Arthur o honot y pwyllaf  
Ac ith ben y cyfarachaf  
Ac a fynnach mi ai gwnaf

<sup>1</sup>Nage, Gwrthgrych.

ALLAN O DDRYLL O HEN LYFR  
YSGRIFEN

A gafed yn Ngogorthan yn y fl. 1759, mewn  
llaw odiaethol, meddai Llywelyn Ddu.

ACHES ym leinist afei tyrwy yn byddin  
Twrwf Catwallawn hael edhwyl a ydin  
Esgar hyd haul a rhan chwefrin  
Rhabawd y adveirch ai radlann medud?  
Y uolud ar llyr llaun  
Nauit glust deheu a mor eigiaun  
Hevelys y llon nas arllu estraun  
Hyd esgyr y wyr a daly yaun  
Madganet mab brith<sup>1</sup> cyth mor radlawn  
Kynneved echel aeth Kywryd Kamawn  
Tewr rieu Krawn rac proystlaun  
Gardei ir pananed dyn dywyndaun Kymry  
Pan rygreas Crist Catuallaun

As amoduy Duw y deur orchordon  
Nys arlludion gwynt a thonnawr  
Nychuedyl am doddyw o wynedd glawr  
Lladd y gwyr yn aer anoleith awr  
Diau trafodynt lladd llafnawr  
Rived o dud agynhennawr  
Yd wnaed Cadwallawn pan gymhwyllo y  
myd?  
Tra barhao Nef ucheluit lawr

Ossidd arf y Mon ryphebyllas  
Malgwn hevelyit haylon o guas  
Ny ar arch Briniach ny ry dadlas  
Ac eduin arnadynt yn dad ruytuylluras  
Ny buglait ywarthec nys arlleueir nep  
Hymanaf Gweithen i dan adas  
Ar wyneb Cymry Catuallaun uas

Dybit ymdouit y luydauc Prydain  
Y digones guychyr gwallauc  
Eilywod Gattræth fawr vygedauc  
Allmyr a maen a gwiyonawc<sup>2</sup>  
Biw rewyt y rann rad Luossauc yu aer?  
Yg cattreu gwyn gwesti varchawc  
Esgor lluded llong llann gled yfawc  
Yspyddawd Catwallawn Gaer Garadauc  
vre  
Wrth y gyfwyre gynne Efrawc

Kyweir dennmeir yc oneir Prydein  
Pryder ior udic aduer  
Kedwesid grut Kymry can differ y ysgwyd  
Y ysberi pell yd glower  
Cawawc cynhorawc cawgawg fer  
Peuyr porth ysgewin Kyffin Aber  
Canotor cathyl gwynnywyd gwenleuver  
Golluchaf gleu hayl hilic naf ner  
Aded gynt ethynt yn hyd irver hallt

<sup>1</sup>Pict or Briton. <sup>2</sup>Gwionawc.

Rac gawr pallt gorthrycher  
 A uouch nothi hael dimyn oer arglwydd?<sup>1</sup>  
 Onid gordeil awyr a ser  
 Calwallawn ei miawn a ral ymher  
 Pydret.....

---

O LYFR GOGERTHAN, 1759.

RHAN rhen rhad gordden gwaith heinyw  
 Dylaith i bob gwyni aith  
 A chadwyd cyfraith  
 Cysgawd gwiniath geinyw  
 Dyddwyn ac addwyn cedeirn ynghadwyn  
 A gwedi cwyn cynnif  
 Cochwedd calanedd cyfyng freon  
 Cochwedd calanedd ev seggyf a renaint  
 Amnoethaint yngwarthaf nant  
 Seith angerdd au segyf, dwfyn, dwfyn,  
 gwaddyn, gwaddyn awallu  
 Tri gair am dri phair tri theulu  
 Tri M. tri nis deupi meddygon  
 Tair aer, aer am gaer o ganhon  
 Kadcad cyffylud ar saeson  
 Gwall gwall ou arfall ar gynhon  
 Graid greic goffelaig ddragon  
 A eryri fraith freon  
 Eryri a orfi ban welych  
 Daragon o nyuant a lewych  
 Greid un bro greid agro gro yngwrych  
 Ar ysci asceini asgellwrych  
 Llestri llu ar helituth eleirch  
 Gwae wrth for nad gwrthdir a wrthrych

Drull yw hon o'r Gan. Tu dal. 160.

---

AUDYL.

Moch dau byt yggrtyt yggredyf carant<sup>2</sup>  
 Moch dau mynych dorri o<sup>3</sup> *twrneimant*  
 Moch dau rung saeson ryssyant ymdrychu<sup>4</sup>  
 A dibarch gladu a guassant  
 Moch day guyr Mannau er mynny molyant  
 A gogled dyhed diheu a gunant  
 Moch vyd ym prydein pryder achuant  
 Ac am deutu lloeyr llavar yt gaynant  
 Am lithrau mab Henri enryvedant  
 Meint uyd ygguasgar yr ysgrydyant  
 Ysgeindorf<sup>5</sup> vored rif torfoed tarvant  
 Turf am y teruyn traha ny barchant  
 Ami disgoganaf escut levant  
 Guiryon val geuauc a gymmunant  
 Maur trachures llyghes lloeyr o fyrchuant<sup>6</sup>

<sup>1</sup> Qu. na vo uch, &c.

<sup>4</sup> Ymdrechu.—Ll. E. D.

<sup>2</sup> Korant.

<sup>5</sup> Ysgain dros.—Ll. E. D.

<sup>3</sup> Ar —Ll. E. D.

<sup>6</sup> A gyrechant.—Ll. E. D.

Lluoed avledneis treis a geisiant  
 Am gyhoed ty roed<sup>1</sup> taer ostygant  
 Y tyreu kadarn yn uann y gunant  
 Am dal tyrva y turneimant  
 Am gyghaus undyd rif myrd a syrthiant  
 Am vored kyhoed y kymynant  
 O honau disgoganaf na hilia plant  
 Ac nyt mi ae kel nys treulant  
 Oesvot adyvyt Dovyd ae divant  
 Brython ae treula penna urdant  
 Brith vyd a dybyd o dieter Karant  
 A Seis byd lauen pan y guelant  
 Dygogan tyvyrru erymes tra bydant

---

YMDDIDDAN Y SAINT A CHYBI.

WRTH FYNED I YNTS ENLLI.<sup>2</sup>

PAN oedd seint senedd Brevi  
 Yn ol gwiw pregeth Dewi  
 Drwy arch y Prophwydi  
 Yn myned i ynys Enlli  
 Yno i gofynnent i Gybi<sup>3</sup>  
 Bwy borthiant sydd ar weilgi<sup>4</sup>  
 Duw a ro cyngor ini<sup>5</sup>  
 Ar dir a mor yleni<sup>6</sup>  
 Cann haws<sup>7</sup> gan Dduw roddi  
 Na chan ddyn diddim erchi  
 Mae medd y Prophwydi  
 Ddau parthiant byd or heli<sup>8</sup>

Gweddiwn Dduw o ddfifri<sup>9</sup>  
 A goddefwn galedi<sup>10</sup>  
 Ni chair lles o ddiogi  
 Trech llafur no direidi

Yno i dywawd Eleri  
 O chredir llyfr Genesi  
 Ni rodd Duw ddyn geni<sup>11</sup>  
 Heb lafur iddo iw borthi<sup>12</sup>

Wellwell fydd Duw oi addoli<sup>13</sup>  
 Waethwaeth<sup>14</sup> Diawl oi berchi  
 Dirwest ffydd<sup>15</sup> a gweddi  
 A orfydd bob caledi<sup>16</sup>

<sup>1</sup> Tyroed.—Ll. E. D.

<sup>2</sup> Aneurin ai cant medd rhai llyvrau.

<sup>3</sup> I dywedasant (dyfod hon) wrth gybi

<sup>4</sup> Pa (ryw) vwyd a geir yngweilgi.

<sup>5</sup> Gyngor i chwi.

<sup>6</sup> Ar dir a mor a drysni.

<sup>7</sup> Mil can haws.

<sup>8</sup> Deuparth da (y) byd yn heli.

<sup>9</sup> Gweddiwch dduw yn ddfifri.

<sup>10</sup> A goddefweh (fawr) galedi.

<sup>11</sup> Ni roes duw ddyn iw eni.

<sup>12</sup> Heb ryw luniaeth iw borthi.

<sup>13</sup> Foli.

<sup>14</sup> Waethwaeth fydd.

<sup>15</sup> Dirwest a chred.

<sup>16</sup> Clefyri.

Y mwyaf yn nydd cyfri<sup>1</sup>  
Y mwyaf ei amherchi<sup>2</sup>  
Yr hacraf ei ferthyri<sup>3</sup>  
Teccaf a fydd ger bron Celi<sup>4</sup>

Nag ofnwch for heli<sup>5</sup>  
Mwy nor fwyalch ynghelli  
Nidd ardd nid erddir iddi  
Nid llawenach neb no hi

Archwn i Dduw un a thri  
Arglwydd yr holl arglwyddi  
Iesu ar ei bum gweli  
Yn dwyn o bob cyfelrhi<sup>6</sup>

---



---

AWDYL.

KYVAENAD kelvit  
Kynelv o Dovit  
Kyvaenad kyanan  
O Crist kein didan  
Ac vei gyverkinan  
Am y gylchin huan  
Ar gynniver pegor  
Yssit dan y mor<sup>7</sup>  
Ar gynnifer edeiniavg  
A orug kyvoethavg  
Ac vei vei paub  
Tri trychant tavaud  
Ny ellynt wy traethaud  
Kywoetheu y trindaud  
Din dyval y vawd<sup>8</sup>  
Ni eryll cospavd<sup>9</sup>  
Cymmun bid paraud  
In erbyn trindaud<sup>10</sup>  
Bit glaf glevycaud  
Ban wanha ei gnaud  
I ddiovryd yssietaud<sup>11</sup>  
Gvae ti din hewid  
Pir dodvid im bid  
Onit imwaredit  
Or drug digonit  
Neud uit yth rehit  
Yt vrit a kerit  
Drud dy tihenit  
Dy imtuin ar logelvit  
Truach dy divet  
Dy lafuriav o uet  
A segi a thraet  
Ymplith prit a thudwet

<sup>1</sup> Y mwyaf ei glwyf ai dlodi.

<sup>2</sup> Rhydd a fydd yn nydd cyfrif.

<sup>3</sup> Ar llaw a gar ferthyri.

<sup>4</sup> Hagraf a fydd garn bron Celi.

<sup>5</sup> Nac ofnwch ornod bwystri (prwystri).

<sup>6</sup> Cydfedhorni (klyvyri).

<sup>7</sup> Yscid y dan mor

Ffawd.

<sup>8</sup> Ni eruyn cospaud.

<sup>10</sup> Trallaud.

<sup>11</sup> Y didrotr yscant.

Diavael<sup>1</sup> dy imteith  
Dy iscar ath cedimteith  
Corph diffit direit  
Gobvill oth eneit  
Corph ni gliuit  
Pe lleveir y gilit  
Pa roteiste oth revet  
Kyn kywes arget  
Pa roteste oth olud  
Kin pwll mwill mut  
Ac i harvetud  
Ac i diadaud  
Ac ni rywelsud  
Y meit a garyssud  
Ac itoet owud  
Y luru tenit dud<sup>2</sup>  
Ad aon<sup>3</sup> itaethant  
Y kymmeint no ffinniant  
Prid prin udechant  
Othrud a geugant  
Ag ysmortmant  
Mal gosod amrant  
A veleiste ogarant  
A vu treis tra geissant<sup>4</sup>  
Ny phecheiste guener  
Oth vaur etyllter  
Ni cheuntoste pader  
Na philgeint na gosper  
Pader priw traethawd  
Gobvill o nebawd  
Namyn y trindawt  
Rhytalud istedlid  
Tri seith pader beunit  
A wu ag nid oes  
Ac ni threghis eu hoes<sup>5</sup>  
Moe y dinwassute merwerit, no phre-  
geth efegil  
An deid i glethvir gverth<sup>6</sup> na buost  
ussil  
Ni phercheiste creireu  
Na lloc na llanneu  
Nid endewiste kiwreu  
Beirt goveg hygleu  
Ni phercheiste kivreith  
Kreavdir new kin lleith  
Llyaus anghivieith  
A dodute ar di areith  
Gwae fi pir imteith  
Genhida in kyveith  
Gwae fi pir wuu<sup>7</sup>  
Ar dikivolu  
Pan daethume attad  
Oet bichan vi mad<sup>8</sup>  
Neu rimartuad  
Oth lavr kiveithad

<sup>1</sup> Dihafal.

<sup>2</sup> Teint dud.

<sup>3</sup> A duon, daon, ad bona.

<sup>4</sup> Tragissant.

<sup>5</sup> In hoes.

<sup>6</sup> Gurth.

<sup>7</sup> Wuvf, wuu.

<sup>8</sup> Vi anvad.

Arnun nin cred  
Ni neb oth tremynt trytved

---



---

AWDYL.

ENEID kit im gvneit  
In agheu digerit  
Gwir yw gvae vinneu  
Pir daethoste im goteu  
Nag irove nag agheu  
Na divet na dechreu  
O seith lawanad  
Bann im se suinad  
O seith creadur  
Pan in roded<sup>1</sup> ar pur  
Oet un tan llachar  
Pan im roted par  
Oet un prit daear  
Nim dyhaetei alar  
Oetun gwint gouchaf  
Llei vyn drwg nom da  
Oetun nyvl ar mynit  
Yn keissav kedonit  
Oetun blodeu y gut  
Ar wyneb elvit  
Am suinase dovrit  
Im dodath ar devnit

---



---

AWDYL.

NAG un adneir un<sup>2</sup>  
Neu runwared un<sup>3</sup>  
Keugant kyuranghawn  
Wide kywascaran<sup>4</sup>  
A chiwnod senet  
A cheugant kinadlet  
A dadvirein o vet  
Gvedi hir gorvet  
Kyvaethawc Duu a wet  
Y din in y deheu wuchet  
A dyadu tan  
Ar pobloet anylan  
A lluch a tharian  
A llyaws llydan  
Ny lletraut lle dinag  
Na didrif na diag  
A wide tagde  
Teernas arvereu  
Dygettaur y trillu  
Rac drech drem Iesu  
Llu guirin guirion  
Eiliu egilion

<sup>1</sup>Dodaeth.

<sup>2</sup>Neu unadneurin.

<sup>3</sup>Neu runwaredun.

<sup>4</sup>Kywiscarn.

Llu arall brithion  
Eiluu brodorion  
Trydet llu divetit  
Syth leith gyweithit  
Huiliant i glithuir im parthred dievil  
In un in daon  
Gan dull aghivion  
Myn i mae meillion  
A gvlith ar tirion  
Myn i mae kertorion  
In kyveir kyffon  
Kein bit eu govalon  
Gan gwledig gorchortion  
Myn i mae ebestil  
Am teernas uwil

Myn i mae periw hael in i claer kyveistet  
Rotiat bid beddrael nid gvael y gerennit  
A chin deginnull enne eilivert vedit  
Or saul dymguytat ar lleith dim gorbit  
Ac ew gweith dvnvgv nelemne dunbrodic dit  
Nis rydraeth ryveteu kyvoeth rvyteu dovrit

---



---

AWDYL.

KYNTAW geir a dywedaw  
Y bore ban gyvodaw  
Croes Crist en wisic am danaf

Ar helv fy rhen i g6escaw  
Hetyw untrev a gl6aw  
Nid ew wy Du6 nis credaw

Gwisaw am danaf in berth  
Ny credaf coel canyd kerth  
Y gwr am creuys e am nerth

I mae vi mrid ar debed  
Arowun ar mor wyned  
Etyl butig bithawl ket

I mae vi mrid ar kighor  
Arowun myned ar mor  
Etyl budig bytawd ior

Dyrehid bran y hasgell  
Ar ovun myned im pell  
Etyl budig bydawt gwel

Dyrchefid bran y hadein  
Arowun myned Ruvein  
Etil butig byta6d kein

Ystarnde wineu ffrvin gvin  
Rhedeg hiraethawc rhawn rhin  
Rhen new oet reid Duw genhin

Ystarn de wineu byrr y blew

Ruid ygniw rygig oteu  
Myn yt fyt tróyn yt fyt trev

Ystarn de wineu hir i neid  
Ruid igniw rygig woteid  
Ni lut ar lew trev direid

Trwm kytvot daear tev deil dris  
Chwerv vuelin met melis  
Rhen new rhóita de neges

O eissillit gwledig a gweith  
Wdig wosprít, a Phedir penn pob ieith  
Sanffreid fwyna de in imdeith

Heul eirioled arowned  
Argluit Crist Celi Colovin Cred  
Dwce viif wyn pechod am gweithred

Terwyn pisc tuth eleirch tonn  
Trybelid areith  
Duw i din a denvin kedimdeith

Goróyn blaen pertheu kei gyvreu  
Adar hir din bann cogeu  
Trugar daffar Duw oreu

Mi ai gowynneis y Offeiricit bid  
Ac hescib ac higneid  
Ba beth oreu rhag eneid

Pader a bóyeit a bendigeit creto  
Ae canho rhag eneit  
Hid wrawd goreu gortywneit

Yskithrich fort a delhech ti  
A llunhych tagnevet  
Nyth vi tranc ar tragaret

Rho v6yd i newynawc a dillad  
I noeth, a cheinc olychwyd  
O Cyfyl dievil dothvid

Syberw a segur dolur  
Ar eu cnawt guerth vynet tros vessur  
Ystir nithieu ni bo pur

Rhy hun a rhyvetudawd a rhywirawt o vet  
A rhy etylldea o ynawd  
Llyna chwech chwerw erbin brawd

Anudon am tir a brat Arglvit  
A divan6 llawgar  
Dit brawd bitawd ediwar

O kyvoti pilgeint a deweint  
Dyhnaw a ymeitunaw seint  
It keiff pob Cristia6n Maddeuant<sup>1</sup>

<sup>1</sup>Cyrreisiant.

## AWDYL,

CUHELYN A'I CANT.

DEUS Ren  
Ry mauy Awen  
Amen fiat

Fynedig wa6d  
Ffrwythlaw'n draethawd  
Rhy bestawt

Herwit urten  
Awdyl Keridwen  
Ogyrwen amhad

Amhad anav  
Areith awyr llaw  
Y kau keiniaid

Cuhelin Bart  
Cymraeg hart  
Kit wrthodiad

Cert cymwynas  
Ket kyweithas  
Ni faintimeit

Gathyr kywystrawd  
Kyvan volawd  
Cluttawd attad

Kyvrguin genhid  
Cor a chiwit  
Cyhyd cydneid

Kywrgryn kywfle  
Kywlan flamde  
Kywvire vad

Kenedyl worord  
Kywrisc woscort  
Kyg hygneid

Kywolu wa6r  
Kywaus mawr  
Kir llavreucheid

Kerit vychod  
Kerenit not  
Clod achubiad

Clo celwit  
Kant kalan kit  
Kynnullyd greid

Cuhelin doeth  
Kymraec coeth  
Cyvoeth awyr llaw

Kelvit it gan

Clyvir vir Aeddau  
Kywlaflan lev

Kert kyvlawnder  
Kadeir dirper  
Cadir wobr yw

Kan halogicion  
Caffod eilon  
Keinon wrthaw

Can tyirnet  
Cathyl gyhidet  
Kywrys wyn

Campus veirch  
Canhyn au peirch  
Kywreneirch glyw

Cor Garadred  
Kenedyl noted  
Ket kyvetliw

Lliwet a h6n  
Llysseit eitun  
Llun venediv

Llyd am kywor  
Llog defessor  
Llog porth anaw

Llygrin kydrun  
Lledvegin grim  
Llim yd grin glew

Lleuver synhvir  
Llawer a vyr  
Llwir id worriw

Gor pegwr gwlet  
Drwy tangnefet  
Het o hediv

---

### AWDYL.

GOGONEDAWC Argluit hanpich gvell  
Ath vendicco de eglvis a chagell  
A kangell ac eglvis a vastad a diffwis  
A teir finhaun yssit due uch gvit  
Ac un vch elvit a y riscawd ar dit  
A firig a pervit  
Ath vendiviste Awraham penfit  
A vuchet tragivit  
Adar a gwen a attpavr a dien  
Ath vendigaiste Aron a Moessen  
A Vascal a femer

A seithnieu a ser a awir ag ether  
A llyvreu a llyther  
A physcawd yn hydir ver  
A kywit a gweithret a thyvot a thudwet  
A sawl da digonet ath vendigaf de Ar-  
glwit  
Gogoned gogonetawc Arglwyt

---

### AWDYL.

BENDITH y wenwas ir dec diyrnas  
Breisc don bron ehelaeth  
Duw i enw yn nufin ymhob ieith  
Dyllit en6ir Meir rymaeth  
Mad daethost di ynghorpolaeth  
Llyna mab gwyr i gobeith  
A dylivas Idas y leith  
Bu drwy vevyl a thwyllvriaeth  
Yn hudawl gwar gwassanaeth  
Y Arglwydd bu hewit ac ni bu ddoeth  
Ac hyd vrawd ni vu i arvaeth  
Kyffei Bart Prydit  
Ar y syt yn elfit  
Ar hallt ar echwit  
Ar graian ar mir ar syr syweddiaeth  
Beirniad rhodiad llaru llaw fraeth  
Mwi i dynwasswn i ganawn i edwaeth  
Kyvoetheu rhi nysyrdraeth  
Mawr Duw heddiw moli dywr daeth

Bendith naw torf nef ir kelvydd  
Creawdur Cyfoetha6c Duw Ddofydd  
A beris lleufer llewenydd  
Hael vyhver heul yn dydd  
Ail canwyll Cristiawn a lewychydd  
Uch eigiawn lloet vilwedd vilenydd  
A thrydydd rhyfedd yw merwerydd  
Mor kv threia evd echwydd  
Digones perew pedwerydd  
Rhyvedd rhedeg dvc dwfr ech6ydd  
Kv da kvd ymda kv treigil kv threfna  
Pa hyd anev evd vydd  
Ympen y seith mlynedd  
I duc ren y Rhyssedd  
Y dat wedy nyd wyt  
Iolune arabeir Cyfoetha6c Dduw Mab  
Meir, a beris new ag elvit  
O uffern a vu ran iti bu rydd  
Rhen nef ry ffrynom ni dy gerennydd

Brenin gwirthwin gwyrth uchaf  
Y sydd y sy penn plant Addaf  
Yssi per gadeir gadarnaf  
Yssi hael diwael diwerhraf a diwir  
Yssi o wir yd pridaw  
I Duw mawr i Dduw llawr llariaf [fyw  
I Duw gwinn g6engerdd a ganaw yn i



I Duw yn ddyd digeryd or defnydd i  
dellaf  
O bechu a bechwys Addaf  
O bechawd cyn brawd pryderaf erbyn oed  
Y dydd y del pawb oe bedd yn y deuredd  
yn deuraf  
Mal i bu pan vu oreuhaf  
Yn un llu yn un lle teccaf  
Hyt ymhen un bryn erbyn eu barnu or  
teulu teilyngaf  
Teilyngdawd wascawd osgordd naw gradd  
nef  
Vy Dews kynnu llawdd  
Vy Deus Dominus menawd  
Vy barddeir y beirdd y vedysa6d  
Fy maurhydlic non fy mherchen  
Fy mharch cyn tywarch cyn tywa6d  
Am gadu i draethu traethawd  
Yth voli cyn tewi tafawd  
Am im cof mal Iob a ddywawd  
Wrth y wreic y am dreic uffyldawd  
Ban dywu gwas Duw diwarnawd  
Attaw ir ymbrav ai briawd  
Rhoddes ef ddirneid cyn dyrnawd  
A bilwis o bilion i gnawd  
Kan ydoedd hagen hygaf i roddion  
A roddei o nebawd  
G6naeth trugar y gardawd  
Yn evr koeth kyvoeth y driudawd  
Y mas maeistawd y mae mol  
Duw adwin yn codi  
A diwad pechawd wid wedi  
A diwin kelu brad Keli  
Kulwid Arglwydd nef naw canma6l  
Attad gwenwlad vad veidroli  
Gwenwlit rhydd rhieiddun voli  
Gwyn gar kar gwar gwirionedd kedwi  
Ni ched6is Eva yr avallen pen barwys  
Duw wrthi

Am i cham ni chymv a hi  
Gwyth goleu a oreu erni  
Rhyw dudedd edmic o gyllestic wisic a  
gwisc6ys am deni  
Perif nef a beris iddi  
Ymhervedd ei chywaeth y noethi  
Ag ail gwyrth a wnaeth ehelaeth  
Arglwydd a erglyw ei voli  
Ban yynnwys gochel y deli  
Sef flordd y ffoes iddi  
Yn yd oed aradwr yn eredig tir  
Herwydd gwir y gweini  
Y dywawd y Drinda6d Geli  
Ew ai mam dinam dawn owri  
A gwr gwyn twr gwyr gwedi  
Ni addaw y geissyaw yn gwesti  
Or owris y win yddi  
A gwelest gureic a ma6 genthi  
A dy6ed tithau crolav gwirionedd  
Nith omedd yngweddi  
Yn gweled y myned hebddi  
Y randir a rhad Duw arni  
Ar hynny y doeth digyfoeth gwerin  
Llin Kain kadverthi  
Toryf anwar enwir y hynni  
Twr keisseid yn keissaw koeli  
Y dywad un gwrthwn gwrtharab  
Wrth y gwr a weli  
A gweleisti ddyinion dyn gowri  
Yn myned hebod heb-drossi  
G6elais pan llyvnais y lleudir degwch  
A welwch i medi  
Sef a wnaethant plant Kæi  
Y wrth y medel ymchweli  
Drwy eirioled Mair Mari oe gwybod  
G6ybu Duw o heni  
Ydd oedd y diffryd gyda hi  
Yspryd glan a glendyd ynddi

# Y GOGYNVEIRDD.

## CANUAU MEILYR.

Meilyr Brydyt a gant yr Awdyl Varwnat hon i'w vreiniawl uchelrat Gruffut ap Kynan Tywysawc Gwynet diffynwr a tharyan Kymru oll. A uu uarw yn niwet y ulwytyn 1137 wedi itaw deyrnasu yn uilwreit 50 mlynnet.<sup>1</sup>

RHEEN nef mor rhyfet i ryfetawd  
 Riau rwyf elfyt rwyf i folawd  
 Rex radau vruo ryn fynghardawd  
 Rec rydeirinam ynn<sup>2</sup> rhan drindawd  
 Pann dyfo dofyt yn nyt pennawd  
 Peryf par urthfynn yn erbyn brawd  
 Pann gaffwyf i y gan glain glan gyflogawd  
 Can dyddaw angeu angen drallawd  
 Ac eu<sup>3</sup> dra drymhaf trengi metwawd  
 Llys lleufer ynys gurus gorfyndawd<sup>4</sup>  
 Py dawant anant na phrydant wawd  
 Y Edwyn<sup>5</sup> terrwyn torf y forawd  
 Nid adfarn certau nid gau daerawd<sup>6</sup>  
 Ni duc neb ceiniad nag o honawd  
 Yn awen gyfrif kenif draethawd  
 Y ri a roai heb esgusawd  
 Gruffut glew dywal ar orfetawd<sup>7</sup>  
 Gwir gwae i werin gwin eu gwirawd  
 Gwr a lywai lu cyn bu breuawd  
 Blait bytin orthew yn derw blynghawd<sup>8</sup>  
 Yr perygl preitwyr peri ffossawd  
 Pascadur cynrain<sup>9</sup> Prydain briawd  
 Handoet gadgyffro<sup>10</sup> o Anarawd  
 Ac ail o Run Hir ryfel durawd<sup>11</sup>  
 Gwanai ynghynghor eissor Medrawd  
 Mal Urien Urdden ai amgyffrawd  
 Gweled i ben llu ni bu defawd  
 Mur cadeu neuaddeu o ystyllawd  
 Cyn myned mab Cynan y dan dywawd  
 Ceffid yn i gyntet met a bragawd  
 O olo Gruffut yn rut fedrawd<sup>12</sup>  
 Cwynym<sup>13</sup> dragon dwfn dygn diwrnawd  
 Ergyr waew brwydrin cyn rhewin rhawd<sup>14</sup>

<sup>1</sup> *Neu val hym*—Marwnad Gruffudd ap Kynan ap Iago ap Idwal ap Meurig ap Idwal Foel ap Anarawd ap Rhodri mawr brenhin holl Gymru.

<sup>2</sup> Rec rydeiri namyn

<sup>3</sup> Ac yn.

<sup>4</sup> Gorfywdawd.

<sup>5</sup> I Edwyn, Etuyn.

<sup>6</sup> Gan daerawd. [fetaut.<sup>12</sup> Feddrawd.

<sup>7</sup> Orwetawd, orwetaut, or-

<sup>8</sup> Deno blygawt.

<sup>9</sup> Pasgawdur cywrain.

<sup>10</sup> Handoed gan gyffro.

<sup>11</sup> Ddurawd, dinawt.

<sup>12</sup> Feddrawd.

<sup>13</sup> Cwynyn.

<sup>14</sup> Ruawd rywawt

Rynn<sup>1</sup> ruthrai dorfeit oet<sup>2</sup> rybarawd  
 Ry gadet<sup>3</sup> Rufain reg atwyndawd  
 Ni fynnai gamhur garu nebawd  
 I gymeriait<sup>4</sup> lyw dotyw dyrnawd<sup>5</sup>  
 Difa draig wron weinion<sup>6</sup> wascawd  
 Gogwyppo i Dduw oi diwetawd  
 Nad el<sup>7</sup> yn rygoll oi holl bechawd  
 O gyfranc brenhinet brain fotawc<sup>8</sup>  
 Pan fai gyfluyt<sup>9</sup> o wyr gwychawc  
 Atcoryn deyrnet yn weinytawc<sup>10</sup>  
 Pob pump pob pedwar yn war weiniawc  
 Gwylynt golithrynt yn ogelawc  
 Rhag un mab Cynan y cyndyniawc  
 Yr arynaic lew llaw diferiawc<sup>11</sup>  
 Ni lut i erlid yn odidawc  
 Ceiniad cas agarw<sup>12</sup> syberw serchawc  
 Ced galwed unic<sup>13</sup> nid oet ofnawc  
 Ar boh rai reitiai yn aur rotawc<sup>14</sup>  
 Rag bytin Emrais drais drahawc  
 Cadau didudyt<sup>15</sup> cletyf durawc  
 Cwl clywed cystut<sup>16</sup> ar grut mynawc  
 Can gertau cyhoet oet arterchawc  
 O Ysgewin barth hyd borth Efracw<sup>17</sup>  
 Dybu brenhin Lloegr yn lluytawc  
 Cyd doeth ef nid aeth<sup>18</sup> yn warthegawc  
 Ni yn Eryri yn reiawc  
 Ni thorres i baur a fu breitiawc  
 Gruffut grym cyhoet nid oet gutiawc  
 A diffyrth i wyr yn Orwythawc<sup>19</sup>  
 Cyfamuc i wyr<sup>20</sup> a mil farchawc  
 Clywed i gyma ut tra bannawc<sup>21</sup>  
 Brenin brwydr efnys gwrys gwellyniawc  
 Penn riau parau anoleithiawc  
 Perchen pefr ystre o re fyngawc<sup>22</sup>  
 Modrydaf Cymry erchi farchawc<sup>23</sup>  
 Ar wyneb neuat yn amniferawc

<sup>1</sup> Fryn.

<sup>2</sup> Oeth

<sup>3</sup> Ry gaded

<sup>4</sup> I gymereid

<sup>5</sup> Dyrnawd.

<sup>6</sup> Fron-weinion.

<sup>7</sup> Fan el.

<sup>8</sup> Ffotawc.

<sup>9</sup> Gyffwyty.

<sup>10</sup> Rentytawg, reenydawc, reuetawc.

<sup>11</sup> Differiawg, difeiriawc.

<sup>12</sup> Cennad (kenyad) cas a

garw.

<sup>13</sup> Kyd bei unyc.

<sup>14</sup> Reideyi yn eurodawc.

anrhodawc.

<sup>15</sup> Llatau (ladu) didudyt.

<sup>16</sup> Cwl clywynt, clywyd.

<sup>17</sup> Eurawg.

<sup>18</sup> Cyd daeth nid aeth.

<sup>19</sup> A dyphyrth y wyr yn

orwetawg, orwytwawc.

<sup>20</sup> Cyfamug ei wir. [awg.

<sup>21</sup> Clywed a gyna yd traban-

<sup>22</sup> Perchen peufer (peur)

ystre o re vyngawc.

<sup>23</sup> Ei rhi (erhi) varchawc.

Nerth Rodri rei rywasarawe  
 Cyn myned mur ced yn dawedawe  
 Dym guc neum goruc yn oludawe  
 Yfais gan deyrn o gyrr eurawe  
 Arfod faet feitiad<sup>1</sup> anghad weiniawe  
 Yn llys Aberffraw yr ffaw ffodiawe  
 Bum o du gwledig yn lleithiawe  
 Eilweith yt aethum yn negessawe  
 O leufer llyw camawn iawn dywysawe  
 Bu fedd aegylochwy<sup>2</sup> yn fodrywawe  
 Torressid gormes yn llynghessawe  
 Gwedi tonnau gwyrnt gorewynawe  
 Dyphorthynt i seirch meirch rygyngawe  
 A fu<sup>3</sup> neud gweryd yn war weiddiawc<sup>4</sup>  
 Gwae a ymtiried wrth fyd bradawe  
 Ni wyl<sup>5</sup> cychwil feirt cyhusseitiawe  
 Tymp pan dreing terwyn torf diffreidiawc<sup>6</sup>  
 Cwyniff ni bytif<sup>7</sup> diebreidiawc  
 Delw yt am gyrrwyf bwyf cynheiliawc<sup>8</sup>  
 Crist cyflawn anwyd boed trugarawe  
 Wrth Ruffut Gwynet gwylet fotawe  
 Yngwlad nef boed ef yn draftadawe  
 Nad i enaid hael yn waeletawe  
 Hael a ri a renni ynny rhyhyt<sup>9</sup>  
 Ni chronnai na seirch na meirch gweilyt  
 Gwladoet ofynaic draig Gwyndodyt  
 Gwr a roddei gad kyn dybu i dyt  
 Gruffut grym angor eissor merhyt  
 Marchogai escar ar elorwynt  
 Arbennic cefaint ceraint weinyt  
 Cynrheinion<sup>11</sup> ysgwyd ysgororyt  
 Yn i fu weryd i obennyt  
 Ni bytai diwyth i lwyth oswynt  
 Amugei dragon udd Mon meindynt  
 Men yd las Trahaiarn yn Gharn fynyt  
 Y dau dywyssawe deifniawc dedwynt  
 Brenhinet Powys au Gwenhwysst  
 Gorau gwaith gwynnaieth ai gyweithyt  
 Pan gedwis i wyneb heb gywilyt  
 Cutynt cyfuofant cant cyfoedyt<sup>12</sup>  
 Cyngen gymmynid gwyntid wryt  
 Taer tertyn assau talau trefyt  
 Torri calchdoet turet trenyt  
 Am drefan dryffwn rac eirollyt  
 Tyrfae rac llafnau pennau peithwynt  
 Caith cwynynt certynt gan elfyt  
 Cnoynt frein friwgic o lid llawryt  
 Llenwynt dwreawr<sup>13</sup> i fawr faessyt  
 Delid meirch amlw a biw elfyt  
 Gwern Gwygyd gwanai bawb yn i gilyt  
 Gwaed gwyr goferai gwyrnt onwynt  
 Or maint a dyfu ar eu edryt

A duc oe gadau chwedlau newyt  
 Cad rag Castell march maur ewedyt<sup>1</sup>  
 A Chadau Cynwric wyrenic wlyt  
 Y gad gynghywair<sup>2</sup> ym Meirionnynt  
 Arglwynt glew gadarn haiarn dyfyt  
 Ni fotes mawret en merweryt<sup>3</sup>  
 Yngwaith y Waederw chwerw chwelidynt<sup>4</sup>  
 Cad Geredigiawn gyfiawn gywynt  
 Crefynt<sup>5</sup> gwraget gwetw gotiwedynt  
 Cad yn Iwerton dirion drefyt  
 Gan ai canfu ni bu feryt<sup>6</sup>  
 Cad rag tal Prydain prennial fethyt<sup>7</sup>  
 Gruffut a orfu rag llu gwythryt  
 Cad rag castell Mon mor digeryt  
 Dybu oi gyffred gwared bedyt  
 Dewissais in hau nid gau defnynt  
 Ar emys i lys ai luossyt  
 As rotwy fy rên rann dragywynt  
 Yngwerth a rotes ar lles Prydynt  
 Ni want fanfeirt ni faur gynnnt<sup>8</sup>  
 Pwy a ennillo or do y synt  
 Edewis eurwas clas Cymreyt  
 Canawon mordai mynogi ryt  
 Dytwyreo Owain Eingl didudynt  
 Ennillot llyw ystrad lle i gilyt  
 Gwelant glyw Powys i bell oessyt  
 A hawt i ergryd hyd lew divyt  
 Cadwallawn gedawl o gyndedynt  
 Cyntaic ar gann calan weinynt  
 Gnawd gwarchan a gan eu haweinynt  
 Yr arfod<sup>9</sup> adwy hwy a orfyt  
 Gruffut grym wriawr oe fawr vevyt  
 Nim didoles nu ny bu gelwynt<sup>11</sup>  
 Yn i fwyf gynnefin a derwin wynt  
 Ni thorraf am car fy ngharennyt  
 Carennyt y syt herwynt trined  
 I Gristiawn ys iaun i gyrrhaeted  
 Crefyt y Creawdr i cyfrifed  
 I Ruffut gloyw ut ae cut tudwed  
 Hyd nas gwnef pechawd pell eiliwed  
 Pedrydawe deyrn cyrn Coned  
 Cenif nis dygif yn diabred<sup>12</sup>  
 Marwnad mur tewdor mor dyled<sup>13</sup>  
 Cadernid rhewid<sup>14</sup> cynn noe fynynt  
 Ergrynnai fy mhwyll o bell gerted  
 A dyfo mab Cynan maur amgyffred  
 Can Grist cain forawd<sup>15</sup> gwlad ogoned  
 Pan gaffo penn gwyr peuer ymtired<sup>16</sup>  
 Gan engylion foes nym oes neued  
 Un undawd Drindawd drwy rybuchedd<sup>17</sup>  
 Gan glain gloyw addef yn nef drefred.

<sup>1</sup> Arnot uaet ueithyat.

cynheilwawg.

<sup>2</sup> Eurgylchwy.<sup>9</sup> Yny ryhyt<sup>3</sup> Ant, a ni.<sup>10</sup> Guladoet (ef) ouynneic<sup>4</sup> Weidiawg, feitiawg.

dreic gwyndotynt.

<sup>5</sup> Ni wyr.<sup>11</sup> Kyureinion.<sup>6</sup> Difreityawc.<sup>12</sup> Kutynt kyfnouant cant<sup>7</sup> Cwynis ni byddis.

kyuoedyt.

<sup>8</sup> Delw yt amgyrwyss bwys <sup>13</sup> Llawdyd dwy reawr.<sup>1</sup> Edwdyt.<sup>10</sup> Feuyt, ueuyt<sup>2</sup> Goglyweir.<sup>11</sup> Ni wybu (wy bu) gelnynt.<sup>3</sup> Y merweryt.<sup>12</sup> Diabred.<sup>4</sup> Gwelidynt.<sup>13</sup> Nor dyled.<sup>5</sup> Creynnt, creuynnt.<sup>6</sup> Bo feryt.<sup>14</sup> Rewyt.<sup>7</sup> Prenuyal uehyt.<sup>15</sup> Ceinfolawd.<sup>8</sup> Genfyt, gynynt.<sup>16</sup> Pefr ymtired.<sup>9</sup> Yn arfod.<sup>17</sup> Yn undawd.

## I DRAHAEARN A MEILYR.

Meilyr Brydyt a gant yr Awdyl hon yn y lluyt y llas  
Trahaearn vab Caradawg, a Meilyr mab  
Riwallawn vab Cynvyn.

GWOLYCHAF ym Ren rex awyr  
Arglwyt a wyr uym pryder  
Pryder pryderaf yn fawr  
Am uy arglwyt llawr llyw niuer  
Ny dotynt dros uor etwaeth  
Pobyl anhyuaeth Nanhyuer  
Gwytyl dieuyl duon  
Ysgodogion dynion lletfer  
Cad a uyt ym mynyt carn  
A Thrahaearn a later  
A mab Rywallawn rwyf myr  
O'r gyfergyr nyd aduer  
Difeu ym pen y teir wythnos  
Tru a nos<sup>1</sup> yd ith later

DIWEDD.

MARW YSGAFYN VEILYR  
BRYDYT.

REX regwm rybyt rwyd ei voli  
Ym arglwyt uchaf archaf weti  
Gwledig gwlad oruod  
Goruchel wenrod  
Gwrda gwna gymmod  
Yryngod<sup>2</sup> a mi  
Adfref adfant cof dy rygodi<sup>3</sup>  
Erof ac ediuar y digoni  
Digonais geryt  
Yg gwyt duw douyd  
Vy iawn greuyt  
Heb y weini  
Gweini fi<sup>4</sup> hagen ym Reen ri  
Cyn bwyt deierin diuenynni<sup>5</sup>  
Diheu darogant  
I Adaf ae blant  
Y ry draethysant  
Y prophwydi  
Bod Iesu ym mru merthyri  
Mair mad ymborthes y beichogi  
Baich rygynulleis  
O bechawd annoueis<sup>6</sup>  
Ry dy ergryneis  
Oe gymhelri  
Rwyf pob fa<sup>7</sup> mor wyt da wrth dy ioli  
Ath iolwyf ry purwyf cyn o'm<sup>8</sup> poeni  
Brenhin holl riet  
Am gwyr nam gomett

<sup>1</sup>Tu a nos, trayan nos. <sup>3</sup>Diuenynhy.—MS.  
<sup>2</sup>Gryghod, yryghod, MS. <sup>4</sup>Annofais.—MS.  
<sup>3</sup>Adureu aduant cof dy <sup>7</sup>Ua & wa.—MS.  
rygoti.—MS. <sup>8</sup>Nom.—MS.  
<sup>4</sup>Gweiniui.—MS.

Am y drugaret

Om drygioni

Ceuais i liaws awr eur a phali  
Gan vreuawl rieu er<sup>1</sup> eu hoffi  
Ac wedy dawn awen amgen ynni  
Amdlawd fy nhafawd ar fy nhewi<sup>2</sup>  
Mi Veilyr Brydyt bererin i Bedyr  
Porthawr a gymmedyr gymhes deithi  
Pryd y bo cyfnod yn cyuodi  
Y sawl y sy<sup>3</sup> met armâa fi<sup>3</sup>  
As bwyt yn adef  
Yn aros y llef  
Y lloc a aches  
Aches wrthi  
Ac ysi didrif<sup>4</sup> dideul ebri  
Ac am y mynwent mynwes heli  
Ynys veir uirain  
Ynys glan y glain  
Gwrthrych dadwyrain  
Ys cain yndi  
Crist croes darogan  
Am gwyr am gwarthan  
Rag Ufern afan  
Waban westi

Creaðdyr a'm cregys am cynn6ys ym plith  
Plwyf gwirin gwerin Enlli  
Tervyn bardoniaeth Meilyr Brydyt.

## GORHOFET GWALCHMAI.

E HUN AI CANT.

MOCHDWYREAWG huan haf dyfestin  
Maws llafar adar mygyr hyar hin<sup>5</sup>  
Mi ydwyf eurdedf diofn yn nhrin<sup>6</sup>  
Mi ydwyf llew rag llu lluch fy ngordin  
Gorwyliais nos yn achadw fin  
Gorloes rydan<sup>7</sup> dyfyr dygen freidin  
Gorlas gwellt didrif dwfyr neud iesin  
Gordyar caws awdyl gynnefin  
Gwylain yn gware ar wely lliant  
Lleithrion eu pluwawr pleidiau edrin<sup>8</sup>  
Pellynig fy nghof y' nghynteufin  
Yn ethryb caru caerwyd febin<sup>9</sup>  
Pell o Fon fain ydwyti dwythwal werin  
Esmwyth ysyd<sup>10</sup> yn aserw gyfrin  
Yd<sup>11</sup> endewis enau yn achlysur gwir  
Ar lleferyd gwâr gwery ei lain  
Ac er<sup>12</sup> lles Owain hael hual dilin  
Dychysgogan Lloegyrr rag fy llain

<sup>1</sup>Yr.—MS. <sup>7</sup>Leithryron eu pluwawr  
<sup>2</sup>Amdlawd uyn tavawd <sup>8</sup>Rydyau.—MS.  
ar uyn tewi.—MS. <sup>9</sup>pleidyau etrin.—D.D.  
<sup>3</sup>Arma a ui.—MS. <sup>10</sup>Ethrip caru caerwys  
<sup>4</sup>Ac yssi ditrif.—MS. <sup>11</sup>vebin.—D.D.  
<sup>5</sup>Mygy hear hin.—MS. <sup>12</sup>Yssyt.—MS.  
<sup>6</sup>My ytwyf eur detyf di.—MS.  
ofyn yn rin.—MS. <sup>12</sup>Acar lles.—MS.

Llachar fy nghledau lluch yd ardwy—glew  
Llewychedig aur ar fy nghylchwy  
Cyfun westlawg dyfyr dyd neud gafy<sup>1</sup>  
Cathl o ar adar awdl osymwy  
Gorfyunig<sup>2</sup> fy mhwyll ymhell amgant  
Hedyw wrth athreidiaw tir tu efyrnwy  
Gorwyn blaen afall blodau fagwy  
Balch caen coed bryd pawb parth yd  
garwy

Caraf Gaerwys fun fenediw deithi  
Cas genyf genthi ni gynhelwy<sup>3</sup>  
Gennilles a'm llif ced a'm lladwy—ar air  
Fy muner nid mawr imi fy ngofwy  
Gwyn ei fyd padiw Duw yd ragwy  
Rieinged rwyh wryr wared Lywy  
Llachar fy nghledyf lluch ei anwyd  
Y' nghad llewychedig aur ar fy ysgwyd  
Lliaws a'm golwch nym gwelsant er moed  
O rianed gwent gwyllt ym crybwyllid  
Gweleis rag Owain Eingyl a'u hadoed<sup>4</sup>  
Ac o du ribyll rebyd y' ngreid  
Gwalchmai ym gelwir gelyn y saeson  
Er<sup>5</sup> lles Gwledig Mon gweint ym mhlym-  
nwyd

Ac er bod Llywy lliw eiry ar goed  
Pan fu aer rag caer cyforiais waed

Gwaedreid fy nghledyf a godrud y'  
nghad

Y' nghyfranc a Lloegr llawr nid ymgud  
Gwelais o arfod aerfab Gruffud  
Rialltoed trwch tebed ossud

Gwaith Aberteifi terwyngad Owain  
Gwyndeyrn Prydain priodawr ud  
Gorisymed<sup>6</sup> glyw o'i glywed yno  
Rag gorwyr Iago<sup>7</sup> gwyr drablud [Eingl  
Gwalchmai ym gelwir gal Edwin ac  
Ac i gynnwrf llw hud<sup>8</sup> wyf llofrud  
Ac ys imi dystion a'm testyn ganthud<sup>9</sup>  
O essillyd cynan coeling dad hanud<sup>10</sup>  
Ac er bod a'm deu feirch<sup>11</sup> o du balch fre  
Freidyn

Nid athethaf drin drwy ym gythrud  
Carafi eos fai forehun lud

A golygon hwyr hirwyn ei grud<sup>12</sup>  
Caraf eilon mygr maith arnadud  
Eiliwed asserw a seirch cystud  
Ni charyf llawyr fy llawr gy<sup>13</sup>  
Chan gynif cynnor gywth gwned  
Hut—ny hwynt<sup>14</sup> a mi mor wyf dirr

<sup>1</sup> Cyun westlawc dyuyr <sup>9</sup> Ac ysymy Dyston am  
dyt neud gawy.—MS. testun ganthud & ganthunt, MS.  
& cawfy.—MS. thud & ganthunt, MS.

<sup>2</sup> Gorynnig fym pwyll.—<sup>10</sup> Dad hanut.—MS.  
& c.—MS. <sup>11</sup> Deuneirch.—MS.

<sup>3</sup> Cynhalio <sup>12</sup> Y grut.—MS.

<sup>4</sup> Eu hadoed.—MS.

<sup>5</sup> Ar.—MS.

<sup>6</sup> Gorisymet.—MS.

<sup>7</sup> Iago tywysawg gwyned <sup>14</sup> Huynt.—MS.

<sup>8</sup> Ac y gynnhwryf, &c.  
—MS.

Er gwyll: gweilging<sup>1</sup> porffor pwyll  
Ni dirmygaf gof<sup>2</sup> cyfyrdelid y  
Nym rodwy rwyd eirioes v.  
Ach llywy o gynllewyth hua.  
Air yd gyfachlud

Achubais rag llw lliwed  
Llwyprynt llenwynt  
Gynnwys Owain yn argl  
Lyais or gyfergyr er

yn ehegyr  
Cymynid ar dres droch lynges lyr  
Lluch fy nghledyf fy ngheiniaw ni llwyd<sup>3</sup>  
Ni lludaf ym llaw llad ni gweyr  
Gwelais angerd ri rag craig Gwydyr  
Pan amwyth ud Mon maws o'i dymyr  
Gwelais yn Rudlan ruthr flam rag  
Owain a chelaned rain a rud fehyr<sup>4</sup>  
Gwelais yn ymo<sup>5</sup> yn amrygyr  
Tewi ganllyw awyr o anystyr  
Tored Caerfyrdin y' ngwrthrin gwyr<sup>6</sup>  
Gordyar 'ei dreis<sup>7</sup> Emreis eryr  
Dychluded teyrned teyrnged idaw  
Gwledig Aberfraw a gwlad Ynyr  
Endewais i eaws a'm ryhiraeth er gwyll<sup>8</sup>  
Gweilging porfor pwyllad fyfyr<sup>9</sup>  
Pell nad hunawg gwen gogwn pa hyr  
Pan dyfrigtrawd blawd blaen afallgyr<sup>10</sup>  
Bid ewynawg ton tu porth wygyr  
Bid swysawg serchawg banawg breuyr  
Breudwydiaw er hun balchliw arien dos  
Ys odidawg nos neu ym hepeyr, hawd  
wyr di er gwendir goleithychir honaf  
eu gorfelyn eu ongyr<sup>11</sup>

gerdawll fymarch mawr ys profais  
wng penwaed barth a phorth Gemais  
an haelion hywyd hawd y treidiais<sup>12</sup>  
charedig bobl ba hyd dulliais

Owain a unis fy mryd<sup>13</sup>  
ew hyder hud ys cefais  
ryg mygr y gwelais y  
gwr gwrd i eurais, Gwaith  
y ystofysid cynnif cyn  
llad o Loegr llew Din Emrais

Carafy yr ednan a'i llarian llais  
Cathl fodawg coed cadr ei ethais<sup>14</sup>  
Cyfum goluth bun ban ym dyneirch<sup>15</sup> o  
bell

Pwyllid erof ar ni lefais  
A minnau o'm cof cefais defnais  
Defawd oi adawd oeth ystyflais

<sup>1</sup> Gweilgig.—MS.

<sup>9</sup> Uyuyr.—MS.

<sup>2</sup> Ny dumygaf, &c.—MS. <sup>10</sup> Pan deurictrawd blawd  
blaen euellgyr.—MS.

<sup>3</sup> Nyllwyt.—MS.

<sup>4</sup> A. chalanet rein a rut <sup>11</sup> Y ongyr.—MS.

<sup>5</sup> uehyr.—MS.

<sup>6</sup> Ymo & ymro, MS. [MS. MS.

<sup>7</sup> Yg gwrthin & gwrthrin. <sup>12</sup> Unis vym mryd.—MS.

<sup>8</sup> Gortary dreis.—MS. <sup>14</sup> Cathyl uodawe coed ca-

<sup>9</sup> Am ryhiraeth yr gwyll. <sup>15</sup> Denneirch.—MS.

—MS.

Dymhunis tòn wyrdd wrth Aberfraw  
 Dychyrch tir tremud dychlud anaw  
 Dyssig<sup>1</sup> yd gân ednan arnaw  
 Argoed nwy asswe<sup>2</sup> aserw yndaw  
 Ail wydle didrif didwrf gyfiaw<sup>3</sup>  
 Adawd<sup>4</sup> ym gwrthrawd gwrthred hod-  
 iaw<sup>5</sup>

Angerdawl fy march ym maes caew  
 Er<sup>6</sup> lles ner Cynan cynwediawn faw<sup>7</sup>  
 Arglodig gwendyd gwyn assymed pawb<sup>8</sup>  
 Prydain allwedawr oll yn eidiaw<sup>9</sup>

Endeweisi eryr ar ei gidiaw, dyfyn  
 Dyraith Gwyned gwyar idaw  
 Pan amwyth Owain aur a threfi Dinbych  
 Dyd yn ystrad aesawr dreuliaw  
 Dybryisiais innau yn aroloed i Eingl<sup>10</sup>  
 Dyfryded yn Lloegr rag llwybr fy llaw  
 Derllydid fy nedf fy newisaw<sup>11</sup>  
 Y' nghadelling fro dy siliaw<sup>12</sup>

Dymhunis tòn wyrdd wrth aber Dau  
 Dychyrch glan glaswyn glwys y frydau  
 Diessig yd gân ednan enau  
 Addawd<sup>13</sup> ym gwrthrawd gwrthred geraw  
 Adwen gwellt didrif pan dyf diau  
 Adwen balch caen coed cadr ei flodau  
 Adwen yfeisi fed a'i fenestri o aur  
 Yn llys Owain hir hwyr dilidau<sup>14</sup>  
 Dymgwallofied ei win<sup>15</sup> o'i wen adaf ud  
 Yn Arfonig Gaer ger hiriell bau<sup>16</sup>  
 Derllesid i'm llaw llad ym godau  
 Y'ngwaith Maesgarned gan freyrau  
 Dyhepeyr alaf<sup>17</sup> elyf doniau  
 Dychlud clod Brydain bedrydanau  
 Dygwysthir idaw o Din Alclud<sup>18</sup> gogled  
 Draig yw yn dyhed drawen yn dehaw

A Duw yn cyntefin cain hindyd  
 Araf eriw haf hyfryd dedwyd  
 Adfwyn dydaw dyfyr dychward gwyr  
 wrth echwyd  
 Ogfanw a chegin a chlwedawg drydyd  
 Dymhunis tòn mor y merweryd  
 O Abermenai mynych dyllyd  
 Dy goglad gwenyg gwyn gyngreawdyr  
 fynyd  
 Morfa Rianed Maelgwn nebyd  
 Neu dreidysi<sup>19</sup> tra lliw Lleudiniawn dre-  
 fyd  
 Neu dremyrth eurawg caer Aderyd  
 Ac wrthyf cyferchyd o deyrned Prydain

<sup>1</sup>Diessig.  
<sup>2</sup>Aswy.  
<sup>3</sup>Eil wyle didrif didwryf  
 gyfiaw.—MS.  
<sup>4</sup>Adaw d.—MS.  
<sup>5</sup>Hotyaw.—MS.  
<sup>6</sup>Ar.—MS.  
<sup>7</sup>Faw.—MS.  
<sup>8</sup>Assy met pawb.—MS.  
<sup>9</sup>Eityaw.—MS.  
<sup>10</sup>Arfoed i Eingl.  
<sup>11</sup>Derllytid uyn detyf uyn  
 dewissaw.—MS.  
<sup>12</sup>Yg gadellig uro dysiliaw  
 Adawd.—MS.  
<sup>13</sup>Hywr dilideu.—MS.  
<sup>14</sup>Dym gwallowyed.—MS.  
<sup>15</sup>Yn arvonig caer ger hir-  
 iel beu.—MS.  
<sup>16</sup>Dy hepkry alaf.—MS.  
<sup>17</sup>Dunbarton.  
<sup>18</sup>Neu dreitysy.—MS.

Pa fron heilin haelaf y syd  
 A minnau ym cyhud heb gywilyd  
 Ef ydoed Owain hir hywystl bedyd  
 Ac amdawd o fun nenwawl defnyd<sup>1</sup>  
 A dyfnwys a mi maith garennyd  
 Ac ym daerawd y draul o dra newyd  
 Ac amrant hirwrwn a grud hirwlyd  
 Ac yn llys afneud<sup>2</sup> ym eidunir  
 Hynoeth oeth dybydaf o dybwyrf ryd  
 Ac os Duw o nef neu ym cynnyd  
 Ceinfod gan Llywy oni lawr ymhuny<sup>3</sup>  
 DIWEDD.

## GWALCHMAI AI CANT I OWAIN.

ARDWYREAF hael o hil Eneas  
 Ardwyref glew llew lluch efras  
 Ardwyref dechaf o deyrned Prydain  
 A theyrnas cain Owain eur-was  
 Ardwyrews fy nhad<sup>4</sup>  
 Ei fraisg<sup>5</sup> frenhindad  
 Ar awen am rad  
 Ei rad ragfras<sup>6</sup>

Ardwyref innau fan cynhorawr fosp<sup>7</sup>  
 Ar barabl perwawd ar draethawd dras  
 Am cyhud am ud iawn eissillyd Idwal  
 Nid ei heb dial mal galanas<sup>8</sup>  
 Ac yn llys Cadwallan gan gedwellin  
 Lliwed ai cofaed ced gyfadas  
 Cynhelweis o draig dragon wanas  
 Cymhwylleis Gemais Gymry dinas  
 Neum carws Owain cerdawd yn was<sup>9</sup>  
 Gnawd wedi ryserch ryseiliaw cas  
 Neum rodes o'i fud heb oludias  
 Gorwydawd fyrf gnawd faw gymwynas  
 A mi neud adwen ar naid ym laen<sup>10</sup> y  
 gas

Gawr aml<sup>11</sup> a llafnawr ar flawr flaid  
 A braid ym arwar ar bar golias  
 Abrwysgyl ei faran<sup>12</sup> ar gân y glas  
 Gloes eisioes esgar  
 A'm cur mal carchar  
 Ac angerd anwar  
 Gnaws dar dan ias  
 Ac yn orau dyn Duw rygreas<sup>13</sup>  
 Cyn ei far arnaf neuaf na'm llas  
 Ac o'r maint y syd  
 Arnaf o geryd

<sup>1</sup>Defnyd.—MS.  
<sup>2</sup>Llys afneued.—D. D.  
<sup>3</sup>Ceinuod gan lywe ymy  
 lawr ymhuny.—MS.  
<sup>4</sup>Yn tar.—MS.  
<sup>5</sup>Y vraise.—MS.  
<sup>6</sup>Y rad racuras.—MS.  
<sup>7</sup>Cyatorawr fosp.—MS.  
<sup>8</sup>Dial mal galanas.—MS.  
<sup>9</sup>Certawd yn was.  
<sup>10</sup>Neid ym laen, amlaen.  
<sup>11</sup>Amyl.—MS. [—MS.  
<sup>12</sup>Y varan.—MS.  
<sup>13</sup>Ry kreas.

Cymyd a' th brydyd<sup>1</sup>  
 Ni byd yn fas<sup>2</sup>  
 Mab Grufud greid am dias  
 Maith dy dreisiau drag Ewas  
 Ath lawdaf ith lawn urdas  
 Ath lawd<sup>3</sup> pawb pen teyrnas

DIWEDD.

## ARWYRAIN OWAIN.

GWALCHMAI AI CANT.

ARDWYREAF hael o hil Grufud  
 O adiau Cynan ceinwydiawn ud  
 Owain yd elwir  
 Arglwyd hywyd hir  
 Ef am dir yn wir  
 Yn wyth gyhud  
 Ef y'ngraid y'ngrew yn llew llofrud  
 Ef y'ngryd y'ngryn yn ryn rybud  
 Ef gwr gwelitor  
 Goleith y dewdro  
 Rag ofn yn angor  
 Hyd oror morrud<sup>4</sup>  
 Ef gwnaeth yn ungod dwy gad digud  
 Yn undyd herwyd herwyd  
 Cad fawr Faes Garned  
 Cad ystrad Astrywed  
 Cadarn gywrysed  
 Cedeirn ossud  
 Cant a dau y'ngrau<sup>5</sup> y'ngrhair achlud  
 Cnud a chnud a fud ymdanadud  
 Cad ar grad arall  
 Cad gawad guall  
 Cad mal bad a ball  
 A phellt ar grud  
 Cad a chedwyr Lloegr a llwgyr y fud  
 A gorfod i fod i fab Grufud

DIWEDD.

GWALCHMAI AI CANT I OWAIN  
GWYNED.

ARDWYREAF hael o hil Rodri  
 Ardwyad gorwlad gwerlin teithi  
 Teithiawg Prydain  
 Twyth afyrdwyth Owain  
 Teyrnain ni grain  
 Ni grawn rei

Teir lleng y daethant liant lestri  
 Teir praf prif lynges wy bres brofi

<sup>1</sup> Cymyath brydyt.—MS. <sup>3</sup> Ath lawt.—MS. Ath<sup>2</sup> Ny bryd yn uas.—MS. lawd.<sup>4</sup> Rac ofyn an angor hyd oror mor rut.—MS.<sup>5</sup> Deu yg kreu, &c. MS.

Un o Iwerdon  
 Arall arfogion  
 O'r Llychlynigion  
 Llwrrw hirion lli

A'r dryded dros for o Nordmandi  
 Ar drapherth anferth anfad idi  
 A draig Mon mor drud ei eissillud yn aer  
 A bu terfysg taer i haer holi  
 A ragdaw rewys dwys dyfysgi  
 A rewin a thrin a thranc cymri  
 Ar gad gad greude  
 Ar gryd gryd graende  
 Ac am dal Moelfre  
 Mil fanieri

Ar lad lad lachar ar bar beri  
 A fwyf fwyf fyrfgawd ar fawd fodi  
 A menai heb drai o drallanw gwaedryar  
 A lliw gwyar gwyr yn heli  
 A llurygawr glas a gloes trychni  
 A thrychion yn dud rag reidrud ri  
 A dygyfor Lloegr a dygyfrang a hi  
 Ac eu dygyfwrw yn astrussi  
 A dygyfod clod cledyf difri  
 Yn seith ugein ieith wy feith foli

DIWEDD.

GWALCHMAI AI CANT I OWAIN  
GWYNED.

ARDWYREAF hael o hil Iago  
 A gennys dra chas dra Chors Fochno  
 A gychws glyw Flandrys a flemychws i  
 eu bro  
 A bar yndaw yn diolo  
 A lithws llwytgun ar fun fo  
 A borthes branhes Brynaich gyfro  
 A gymhellws treth o Dwr Penfro  
 A elwir o wir orau Cymro

DIWEDD.

## ARWYRAIN OWAIN GWYNED.

GWALCHMAI AI CANT.

ARDWYREAF hael o hil balch run  
 O Faelgwn Gwyned gwynfaeth reidun  
 O Gadwallawn Law hir llawrfab Ein-  
 iawn Yrth  
 O arth orben aerbost catgun

DIWEDD.

## AWDL

## A GANT GWALCHMAI I DAFYD MAB OWAIN.

ARAF haf hear gweilgi  
 Eirioes coed oergled celli  
 Allwynin ossid o symud arglwyd  
 Erglyw Duw fy ngwedi  
 Anwyd prophwyd prud ioli  
 Ud nefoed reg oed rodi  
 Amser ym ceri ef earwn dafyd  
 Y defawd am llochi  
 Ni llwyd fy llechfod hebbi  
 Carenyd Dafyd dyfn fri  
 Nym rwyd geidw rodri nid reidus  
 wrthyf  
 Nid gwerthfawr ganthaw fi  
 Nym gwna o neb tra trosi  
 Trôs of ir gof arglwydi  
 Mor yw gwael eu goloi  
 A gwlad Cymru mor gymri  
 Nyd mod mau dewi heb honni pwy  
 oedynt  
 Prynesynt eu moli  
 Owain angerdawl anaw anfeidrawl  
 Aer wrawl wrhydri  
 Cadwallawn cyn ei gollu  
 Nid oed a lludw y llawdai fi  
 Cadwaladr cerdgar cerdau cyfarwar  
 Cyfarfu a'm perchi  
 Madawg madioed godoli  
 Mwy gwnaeth uy mod no'm codi  
 Un mab Maredud a thri meib grufud  
 Biau bud beird weini  
 Irdud urdas gymhelri  
 Callon clywaf yn llosgi  
 Lleaws teyrned lliaws dyfryded  
 A'm dyfrys eu trengi  
 Trangaf truaif trueni  
 Tranc am cennis cyn no mi  
 Medyg a iolaf  
 Medyg plant Adaf  
 Y Duw uchaf erchi  
 Archaf arch i Grist celi  
 Wy gaffael caffaf rei  
 Cynhysgaeth dofyd  
 I gynnif dafyd  
 I gynnal ei deithi  
 Can glod a gorfod gofri  
 Gwyr a thir a hir hoedli

DIWEDD.

CANU A GANT GWALCHMAI I  
 RODRI FAB OWAIN.

DYMGWADOLES Duw dyfyn bwylladoed  
 Dymgwallofies bod bud ar gyhoed

Dymgoluch gogledd gweglyd luoed  
 Dymgodau dehau dyhynt breidioded  
 Dychrymynt fy nghlod y' nglud fandoed  
 Dymeyfeirch pawb ym mhob lleoed  
 Pwy gorau gwledig yn y gwladodod  
 Dysgwirtheb gwrthrawd gwrthrod i honni  
 Hwnnw yw Rodri rwyd ar oloed  
 Ar wehelyth byth brys wy anloed  
 Adaw wy wallaw o well gadoed  
 Arlludiaw Rodri i rodwyd y del  
 Nyd gochel ryfel rialluoed  
 Nyd gwr gwyr i amug aml gnudd gyndedyd  
 Ai chantrefyd ai chantrefoed  
 Nyd ef Rodri mawr mur ciwdodoed  
 Nwy pen cynnaded pob cenedloed  
 Ys ef Rodri hir huysgwr deyrn  
 Huysgwrthyr cedeyrn y cadwenoed  
 Ac o Rodriawg rwyf lliwydoed  
 Rodri rad gymryd y byd fydoed

Bid ged gynnefawd gynnefin cyfrein  
 Cyn twrf dwyreid dwyre brwydrin  
 Bid wych y gogledd uch gwled uch gwin  
 Bid lew yn deheu yn ehang fin  
 Bid gymryd ny gnaws yg gnawd feithrin bar  
 Ac ym cyfeillt car corf fysgiolin  
 Ac os mi ai haed herwyd twyllrin  
 Nym bo un cyfeith namyn Cain  
 Caraf Rodri draws dreis gyfredin ei enw  
 Yn Eifrai ac yn Lladin  
 Ac ym mhob cyfeith yn gyfiewin  
 Hyd yd breswyl hwyl haul Fehedin  
 Gollewin wledig wlad teithiawg hael  
 Gwyr ail gyfael gwrawl gofawg  
 Gorsaf teyrned gwersyll wychawg  
 Gorsed i lluoed gorsaf nerthawg  
 Gorsellyn yn ryd rodawg annibellt  
 Nid heb waed ar wellt ar wallt peithiaog  
 Ac o Rodri oed y Rodriawg  
 Mae yntau orau un tormennawg  
 Tormennoed anloed an llyw tiriawg  
 Torfoed eurdorch oed am eurdorchawg  
 Teyrnfab Owain tremynniad trais hir  
 Treth treulir a'i dir yn digasawg  
 Traethaf o honaw honnaid farchawg  
 Tra ym donwy Duw dawn arderchawg

Ban yd ran ei rad i rodolion byd  
 Balch ei fenwin beilch ei faon  
 Ban bref biw yn riw rag edeon  
 Pan orch eol cad cedawl wron  
 Ban beisg berion a bwystgunion—coed  
 Cadr bonhed bud a berthion  
 Cyflafan taerdan rag teyrnon  
 Cain felraig pen draig a phendragon

Dragonawl feidriawl fadiain yn elfyd  
 Alaf geinryd elw dy ganrain  
 Dy ganred dy ged dy gyfwyrain



Dy gynnif dylif dedlid gymain  
 Dy gymri gymryd  
 Dywyn dy wynfyd  
 Dy gangau genyd  
 A'm pryd a'm prain  
 Dy wasgar cynnygyn rag dyrain  
 Dy gwesgryn drudwyn drudwyr Llundain  
 Dymgorllwyd arglwyd argrain wyr Grufud  
 Dadanhud anghyd angerd Owain  
 Dychyrehws fy llyw llew mawr mirain  
 Dechennis dewis deurud goelfain  
 Dy warae orau dy orwyrain  
 Dy orofyn ar bawb hyd bell Rufain  
 Dysgwedwn gwelsant ar gan celain  
 Am draeth Edrywy adrywed brain

Erbyned erfai  
 Eur falchwawd walchmai  
 Yn awr difai  
 Yn urdedig

Yn synwyr yn llwyr yn llunedig  
 Yn faith ferth yn gerth yn goethedig  
 Yn enw un orig, yn emeinig emyd  
 Ediebrid ny diodrig  
 Nys muner na fer na fynedig  
 Nys difeirn cedeirn cad arglodig  
 Nyd yn wryr yn war  
 Yd wesgryn esgar  
 Yn wythtar yn weithfudig  
 Yn hywyd yn rwyd rag hwyedig  
 Yn ried Gwyned gwynfydig  
 Yn gar gan Dofyd yn ei garenyd  
 Yn dragywyd annhranghedig

DIWEDD.

## ARWYRAIN MADAWG MAB MAREDUD.

G WALCHMAI AI CANT.

ARDWYREAF deyrn eurgyrn adawd  
 Eisor cor cwblawn estrawn drallawd  
 Ystryw dra-mesur  
 Ysgawl pybl pobldur  
 Present penadur  
 Prysus durawd  
 Prydain â danad  
 Prydydion borthiad  
 Boed cyfoed dy rad  
 A'th wlad a'th wawd  
 Ethiw dy ergryd  
 Yn eithafoed byd  
 Arthur gadernyd  
 Menwyd medrawd  
 Madawg maws odrud  
 Mygrfab maredud  
 Meiriau drablud  
 Drablawd fosawd

Ac yssid arnad ar neb uwy gnawd  
 Na mwy gronni eur nog erwaint flawd  
 Ni ryd rwyseg eryr  
 Hyd troed o'i dymhyr  
 Yr ofyn herwyr  
 Yn herw ystawd  
 Nyd haws yth esgar esger dy gosbawd  
 Na chaffael tywyn ni bo tywawd  
 Nid oes gystedlyd  
 I hael hefelyd  
 Or a pyrth bedyd  
 A fyd a fawd  
 Nyd ydyw yn fyw  
 Ni daw ni dodyw  
 Ni chyman ni chlyw  
 Ni chlud molawd  
 Hyd pan del Cynan cain adfwyndawd  
 A Chadwaladr mawr mur pob ciwdawd

DIWEDD.

## MARWNAD MADAWG MAB MEREDUD.

G WALCHMAI AI CANT.

CARU Duw diwellig ymdired  
 Cyrchaf car cerennyd afneued  
 Car am oedd nym oes  
 Corawg fynawg foes  
 Corf eirioes, aur fy nghed  
 Caru dyn nyd dilys ogoned  
 Can dyddaw i fraw frwyn dynged  
 Cerais ud Powys  
 Cerifi fordwys  
 Cosb lloegrwys llaw hyged  
 A hedyw ni hawdd wyf oy fyned  
 Nym byd bun nym beidd dyn dyhuded  
 Dyhed dym goryw  
 Diwed arwyd yw  
 Diliw ryw, rin golled  
 Rewin mawr am wyr wawr waredred  
 Rwyseg heb warth  
 Rwyd o'i barth ymborthed  
 Rydost fy mhenyd  
 Rydrwm fy nhristyd  
 Rym ergyd oer goded  
 Rag galar garw afar efrifed  
 Ryfei farw cyn Madawg mad aned  
 Cynawon cadud  
 Cadreib Maredud  
 Cad gyhud gynnired  
 Cyn arfod yn oes fod fy nghed  
 Mor gresin frenhin gwyn gogoned  
 Gruffud gredf uwel  
 A grym hy hywel  
 A hywyd oloed  
 A hwyaf arnaf ernywed  
 Ar deurud Fadawg fod tudwed

Tudwed to yd edrith fyth fyd cymry  
 A chymri a chymrwyn  
 A chymradw a hirgadw hirgwyn  
 A hirgur o dolur ei dwyn  
 Ac i duw o'i dawn  
 Yd archaf i arch iawn  
 Awdl frwythlawn  
 Frwyth gymmwyn  
 Cyfedmig geilig gal wenywn  
 Cyfeisor êchdor ach drylwyn  
 Trilliw ei lafnawr  
 Treulyn ysgwydawr  
 Trylew fawr falch derwyn  
 Tyrfa torf terfysg heb difwyn  
 Heb diwad yn orwlad orllwyn  
 Gorllecheisi eisiau  
 O'i oesfriw aefrau  
 O'i angau anghlaear  
 O freidin freenhin freidgar  
 O Fadawg o'i fod yn daear  
 O nenbren Powys  
 O draig dragonwys  
 O diphwys ei dafar  
 O difeithiad Lloegr llafln dyar wrth ud  
 Nyd wrth fedr ei alar  
 Galwaf Duw gan deifniawg adfar  
 Gal ofyd huenyd huarwar  
 Hywir draws draglew  
 Hywerth feirch orthew  
 Eurllew llech ysgar  
 Lluch ysgwn pan esgen ufeliar  
 Llawch eirchiad llaw borthiad adat  
 Llerw falch farchawg  
 Llafr fawr fam Fadawg  
 Llary llysaug llyuosgar  
 Llywelyn llyw diarchar  
 A llawen cyn y bo llafar  
 Llawfryded frydau  
 Yr Madawg ys mau  
 Marth gofiau gyfesgar  
 Aes gychwyn ysgwyd wyn wanar  
 Ysgor corf ysglyf torf taerfar  
 Esgud ei angad  
 I esglywu gwlad  
 Gwleidiadon gyngwasgar  
 Gwae gymry gymri gyfagar  
 Goloed grud hyged hygar  
 Hygar glew hael ud  
 Hael fab Maredud  
 Hawl odrud gwaedreid cad  
 Ced eghur cedeyrn gur gyrrhiad  
 Cad anlwg crai cyflwg cywlad  
 Cywleidiadon cyhoed nerth oed nawd  
 Cun gynnawd gynniad  
 Cenytesid llawr llwyr drefad  
 Llesgen deg llysoed cyfarad  
 O ben Pumlumon  
 Hyd borth Caerlleon  
 Pair dragon draig furthiad

O Fangor fangeibr oleuad  
 Hyd orwyd Meirionydd meidriad  
 Medresid mawr ri  
 Mawr ran gan deithi  
 Arwystli arwyste rad  
 Aur hwsygynt wyr Bledynt bleiniad  
 Aergorf torf terfyn achubiad  
 Och Duw na dodyw  
 Dydbrawd can deryw  
 Derwydon weini nad<sup>1</sup>  
 Diwreidiws Powys peleidriad, ryfel  
 Ry farw ud gwlyb ystrad  
 Astrus chwedl ry chweirias i Gymry  
 Ystryw chwerw nid chweriau i ryle  
 Ail marth mawr mor de  
 Ail yrth ail syrth fe  
 Ail gawd gne gnawd gyfre  
 Ail diliw dilain draig erhy  
 Ail dyd brawd braw ystawd ystle  
 Ail llam am edfyn  
 Yw llad llywelyn  
 Ail dechryn am dechre  
 Ail dewr ud ai trymgud trymde  
 Ail drais wael am hael am hynny  
 Am orwyd Bledynt  
 Ym gorflawd lledeynt  
 Aml edfynt am dyle  
 Am adfod arth arfod arf he  
 Heb edfryd y' ngweryd wely  
 Gwelais dorf am dwr  
 Gwelais wyr am wr  
 Am wledig Edeyrniawn  
 Gwelais frad a chad a chamawn  
 Cyfrwng llew a llyw Meryniawn  
 Gwelais Loegr y' ngrwn  
 Gwelais ais yn dwn  
 A thonwaed ar estrawn  
 Gwelais haul yn heiliaw ban llawn  
 Yn medu medged i oru eirchiawn  
 Gwelais wehelyth  
 Ac eu trefnan tryth  
 Ac y treth ni ogawn  
 Gwelais gynt wy cenynt cw dawn  
 Rag Madawg mechdeyrn Lleifiawn  
 Lliaws twr twnfriw  
 A gwaed freu am friw  
 A Ffranc trwech trathawys  
 Lliaws torf o derwyn Argoedwys  
 Am ud glew a glywid a Lloegrwys  
 Lliaws bard a borthid ar ei wys  
 Ar ei fed o felged gwlad achrwys  
 Lliaws eurfeil fawr  
 Yn llys llary a llawr  
 Heb hyd fawr orffowys  
 Lliaws aes esmwyth falch Gaerwys  
 Ar ei helw a hwylynt trallynwys  
 Lliaws cledyf clær  
 A glaiw rud raid aer

<sup>1</sup> Neu, veinin ad.—D. D.

A gawr daer drag i wys  
 Lliaws teth rag treth tra brimwys  
 A bydin a bedrawd tu eglwys  
 Lliaws gorwyd gwelw gwalch frowys  
 Ffrwysg ffer fiaeth fraisg grawn faeth gre-  
 Lliaws gwinau fadw frawd tywys [wys  
 Tu hir tref tremyniad amdyfrwys  
 Lliaws llwyd a llai  
 Lliaws erch erfai  
 Lliaws grai grym diffwys  
 Lliaw coch ceinwiw  
 Cynfyn ford fawliw  
 Felaig riw redecdwys  
 Lliaws du a dwn a mygdwn melyn  
 A milwyr dragonwys  
 Can ry gallas Duw draig Powys  
 Crei dechryn dechreu garawys  
 As rodwy fy ren reidun drugarawg  
 I Fadawg fad gynnwys  
 Gan lain y' nglan Baradwys  
 Gan engylion gloywon glwys DIWEDD.

BRUDWYD GWALCHMAI.

BOED ym dysgwy Duw dwywawl annwyd  
 Mal y dysgws Duw Dafyd brophwyd  
 Boed ym dysgwy Duw dwys ym gadwyd  
 Rag cadeir enweir yn weitheu rwyd  
 Kym llywy Duw yn diarswyd  
 A dyly arglwyd a erglywyd  
 Ry llofies yntef  
 Undawd gyfadef  
 Gan engylion nef  
 Neu ry-urdwyd [nwyd  
 Er mawr gwym Madawg modur plym-  
 Am bost cad ced goeth oeth ym uthrwyd  
 Ni'm ethrefig Duw a digfryd osseb  
 Ny lludiwn i neb newid breudwyd  
 Nyd breidgof genyf cen bwyf llwyd  
 Lleas goronwy gwr yn ysgwyd  
 Nyd gau o'i angau ym hangenwyd  
 Yn agal gofal dyual dyfrwyd  
 Dyfryded fonhed fennig yd wyd  
 Dechryd hun a hoen hon pan dodwyd  
 Dychyrch cyfarwyd dychyfarwyd, a mi

O drechryni y tri yd ym treulwyd  
 Genilles gnaws aur awr a ducpwyd  
 Cwl oed fy ngadu cany adwyd  
 A adwy creawdyr mad y crewyd  
 Ei wadawl er Duw diawd a bwyd  
 A dillad i noeth nawd rag anwyd  
 A gwely a thy a thes aelwyd  
 Eli freienhin elwch cyd wyd  
 Nyd el yth blegyd neu ryblygwyd  
 Ac am bo o'm bud ym niwedwyd<sup>1</sup>  
 Bod Duw ym diheu cadwyd  
 A chadw dy gyfraith  
 Hyd ym cyfranc a'm llaith  
 A'm llwydaw golochwyd DIWEDD.

AWDYL

A GANT GWALCHMAI I EPA EI WBAIG.  
 CALAN hydfre cain cynwyre  
 Cyfarwyd dwfyr yn y dyfyrle  
 Cyfarwar ac wyf ar gywir garu  
 Ac afar gynwyre  
 Cennyn can ein Duw neud de  
 Cyfryw atreg cof atre  
 Cyfdaerant y ron a rin a cheryd  
 A chur gnodyd ar ne  
 Gnaws edyn adnabod bore  
 Gnaws am ban benial ystre  
 Gnawd o'm gwawd gwychran i falchlann<sup>2</sup>  
 Gnawd o drin dres aeale [febin  
 Gnawd gwedi rysereh ryse  
 Sylwed gwyth gwrth y dwyre  
 Gnawd erof hiraeth a dygyllaeth echen<sup>3</sup>  
 Ac uchenaid fore  
 Gnawd march o feirch rabire  
 Yn farch dewr yn farch dyre  
 Gnawd gwraig gwell genthi  
 A flo gwaeth idi  
 Fy adas ni debre  
 Dilyw a dyfu dydbrawd a dyfi  
 I dygyfor i gynne  
 Yd y gyfwrw enwir yn enwerys goll  
 Y' nghyllestrig dande

<sup>1</sup>Ymuwetwyd.—LL. D. D. <sup>2</sup>Hiraeth edgyllaeth echen.  
<sup>3</sup>Neu Valchlaun, falchlafn.

CANUAU CYNDELW BRYDYD MAWR.

ARWYRAIN I OWAIN GWYNED.

CYNDELW AI CANT.

ARDWYREAF hael hwyf gyfgrain yg cad  
 Hwrđ gleisiau feidiad flaid cyfwyrain  
 Yn ail arwar mawr myn yd gyngain

Yn ail awduriaeth medfaeth madiain  
 Yn falch awyd gwalch goradain  
 Yn ail awen dofn o dwfn gofain  
 Yn ail arwraid fy huadain  
 Yn ail arwyre ail arwyrain

Yn ail gerd i'm rwyf yn rwyd yd fain  
 Yn ail gair moliant moli Owain  
 Cyfarw ag Eingl am Dageingl dired  
 Gwaedllaw ar darwed gwaed ar darwain  
 Cyfarfu dreigiau riau Rufain  
 Ac essilyd ran fud y gwigain  
 Dragon o dwyrac draig o dwyrain  
 Draig wen ollewin well y dichwain  
 Oed cleudaer oed claer cledyf uch gwain  
 A llinon yg gnif a llafnae llain  
 Llafn yn llaw a llaw yn llad pennain  
 Llaw ar llafn a'r llafn ar llu nordmain  
 Ac eryfoed trwm rag tremid angau  
     Wyned creu ac eryfain  
 A gnaud y cigleu adneu ednain  
 Ar edrywan gwan gwayw yw yn adain  
 Ar edrywed gwaed gwaedai gigrain  
 Marchogynt feirw ar fil frain  
 Marchogion Brynaich branhes Owain  
 Celyrfed dachwed celaned crain  
 Calenig udud coelud celain  
 Cynt yd awn am dawn am dadwyrain  
 Cerdorion amryw am rod Owain  
 Ar ha cadr cadell hiriell hiriain  
 Ar berging coeling am eu coelfain  
 Ergyrwayw cludlain clod huysgain  
 Eryr huysgwr ysgwyd arwain  
 Erchwyniawg trylew trylwyn uch prain  
 Tryliw ei ongyr angyr rysgain  
 Gwaith Aberteifi torrynt grain waywawr  
 Fal gwaith Fadon fawr wriawr oriain  
 Gwelais gadau geirw a rud feirw rain  
 Oed ryd i fleidiau eu hargyfrain  
 Gwelais eu hadaw heb eu hadain  
 Y dan draed adar gwyr gwanar gwain  
 Gwelais eu trychni trichant celain  
 Gwelais wedi cad colud ar drain  
 Gwelais rag terfysg twrf adfrain  
 Torfoed ymosgryn tarf ymysgrain  
 Gwelais trydar crain y ar drumain mor  
 Gwelais ei hesgor ysgar dilain  
 Gwelais beleidr gwyr am fagwyr fain  
 Gwelais parau rud rag ruthr Owain  
 Gwelais ar saeson trychion truin  
 Cyn dyd difedyd fedel cyngrain  
 Gwaith fudig gwledig gwlad feibionain  
 Gwaith bryn dyganwy au dyganrain  
 Gwelais yn Rudlan yn rudlanw cain  
 Torf arwr am wr am orwyrain  
 Gwelais rag Penfro penadur digard  
 Gwelais rag Penard pen ar digrain  
 Gwelais eu berthl wrthlu yg crain  
 Yn yd byrth berthdud golud gwylain  
 Gwelais dyrf dygyn gwelais dyrain  
 Gwelais dyrwr awr arwyd dadfain  
 Gwelais darf ar gyfarf ar gyfaniain  
 Gwelais aer uch caer uch coed Llwyfain  
 Nyd oedynt wyned wryd fychain  
 Nyd oedud fygwyl fugail Prydain.

DIWEDD.

## ARWYRAIN I OWAIN GWYNED.

CYNDELW A'I CAST.

ARDWYREAF hael hawl diachor  
 Aerdarf arynaig aerdorf angor  
 Aer fawr fud fawr far aer bar bedror  
 Aerfawr fud fawr falch gwalch gweileh  
 Aer gyngwrwn ysgwn aedwn eisdor [oror  
 Aer gyngredf annedf anniolor  
 Aer a wnaeth ar draeth a dreithitor  
 Rwing Arfon peues a mynwes mor  
 Aer rag dinas caer cadr dyodor  
 Cadarn gyfarfod gwrthod gwarthfor  
 Oed dygyngwed Eingl oed digyngor Lloegr  
     Llu Prydain yn ymatgor  
 Oed anystwyth gywth gwaith anesgor  
 Am Deifi am dwr am dwrf angor  
 Oed am lroch llynges aches achor  
 Oed amgen gwaith Fon a gwaith Fangor  
 Oed amgoch ystrad am ystryw por  
 Oed amlwg ysgwyd am weun ysgor  
 Oed amliw gelau oed aml gelor  
 Oed am dinau crau clau clywitor  
 Oed gwrd am alaf am Alun drefred  
     Oed gyr ban brofed cyfred cyfor  
 Greid goluch dyluch dilochitor  
 Grym afrdwl Erewl ar grynitor  
 Teyrnas fy rwyf rwyysg Edifor  
 Teyrnfoes eirioes eiriachador  
 Teyrned ai gwyl a gwelthator  
 Teyrnged yth law taw telitor  
 Teyrnaig arwar arfollitor gwen  
 Teyrngerd awen amgen am gor  
 Arwed Gwyned gweinditor  
 Arwyrain Owain cain cenitor  
 Arglwyd a'm cynfaeth cyn fy hepor  
 Ar feirch pasg yg gwasg yg gwisg porfor  
 Arglwyd am porthes porthle teudor  
 Porthloed ysgwydavr pyrth mawr marmor  
 Arglwyd far gwrdfar gwrd faes oror  
 Arglwydaf gwraf gwryd echdor  
 Arglwyd Duw hedyw boed hawd amor llary  
 Llid esbyd ysbar ysbydawd ior  
 Nyd amdlawd nam gwawd nam gweditor  
 Yth fyw Faelgwn ryw ran gyfeisor  
 Nyd af y genyd mynwyd mawrior  
 Nyd athwyf drais wr dros dy gyngor  
 Nyd adwyd hebof heb gof heb gor  
 Nyd ediw hebod raelod rador  
 Nym golo Gymro gwr diohor  
 Nym golud golut golythator  
 Nym gomed oi barth borthfeirch efrifed  
     Beirnaid am regyd beird am rador  
 Ath folant feirdion derwydon dor  
 O bedeiriath dyfyn o bedeir or  
 Ath gyfarwyre bard bre breudor  
 Cyndelw cynhelw yno cynnor  
 A'th gyfeirch ce wr cyfurdator  
 A'th gyfarchaf well pell itor  
 Hanpwyf well o honawd gwawd gweditor  
 Hanpych well o honaf

ARWYRAIN I OWAIN GWYNED.

ARDWYREAF hael o hil Einiawn yrth  
 Ni cheuir ei byrth erbyn berthnawn  
 ..... gwalehlid gweilchlawn  
 A oru gwythlawn  
 A orfu ar llurawn  
 A oreu cadau Caredigiawn  
 ..... cynnygir coelfain cyflawn  
 A budllaw bodlawn  
 A dylud cyfrwythlawn  
 A dy cynnif canys dichawn  
 A dyl Cymry ai cymer drwy barch  
 Fal y cymerth march gwedi meirchiawn  
 A dyryd ei fud i feird proestlawn  
 A dyran atan ataw yd awn  
 A fo balch dulliaw o dull cyfiawn  
 A fo traethadur traethed ei dawn  
 A fo bard digard o myn digawn  
 Cer bron bro lydan gochaan gochaawn  
 Y dangos nad byw llary llyw Lleisiawn  
 I geisiaw mynawg myned a wnawn  
 Ni cheisiaf drostaw medyliaw myned  
 Nid ceisiaw caled ced Caswallawn  
 Nis llud llu cyngredf dedf Dyfnwallawn  
 Dyfnwallaw anaw anewig dawn  
 Nis card cyrd amnad anghad anghrawn  
 Nis car llyd ffyg lledfegin grawn  
 Nid lle..gan lluchfar lluchfeirch erchrawn  
 Nid lle...an helder crynoder crawn  
 Crynai Faes Carned rag carnial ei feirch  
 Rag tarf dihefeirch tyweirch tir dawn  
 Crynai flaen bra...d brad gad greulawn  
 Rag bar braisg wledigfal brig briw gawn  
 Crynai elorfeirch bre bryd nawn  
 Crynai elen rud rag ei we.....  
 Crynai gylch cadlan cadle eistrawn  
 .....alch llafar llas eithiniawn  
 Crynai a chwyr ysgwydawlwr  
 Pan dorres wr Mebwyntiawn  
 Crynai ys is gwyn fynnawn  
 Mau fad gwaywdawn  
 Trydar ffawdawn  
 Trylew  
 Tryliw eu peleidr pan fo  
 .....am fedgwyn am fedgyrn llawn  
 Tyrrant am eu rwyf rwyg anogawn  
 Torfoed amnifer am ner am nawn  
 Am eryr cedwyr a'm ceidw yn iawn  
 Cedwid.....nef nerth Merfyntiawn

MARWNAD I OWAIN GWYNED.

CYNDELW B. M. AI CANT.

CADWEDIG ym cof codiant om arglwyd  
 Cor dygwyd caer dygant  
 Aros marw mawrgoel darogant

Armes draig dragon pedrydant  
 Llid ergryd esbyd esborthiant  
 Llydw amnawd oesgawd ysgarant  
 Llwrw branes llormes ormant  
 Llyw llafnawr llew llawr dichwant  
 Llwybr llanwed llenwis yant  
 Om prydest ym prydain amgant  
 Amgre bryd o bryder adfant  
 Am drist beird am if diydant  
 Amgen fyrd o'e gyrd yd gerdant  
 Am Owain Gwyned yd gwynant  
 Mur moreb deu wyneb dyfnant  
 Dyfnais rod o'i fod o'i fediant  
 Medgwyn maith a'n maeth o'i ariant  
 Medgyrn dyrn dyrniad fant  
 Medel cyfriau cyfrifant  
 Ffwyr ffyrfler ffer ffyniant  
 Yn gwrhyd ardduniant  
 Gwrdd eifor eisillyd Morgant  
 Nid aeth trais tros Emrais a ant  
 Oi amrawd gwarthflawd gorthoriant  
 A saint saith mil dybuant  
 Saith angerd seg yn difant  
 Glas feraw heirynt heasant  
 Glas lasar gwasgar gwisgant  
 Am dwyll marchogion marchogasant wyr  
 Am du a lliant  
 Am ardal Caer Dathal doethant  
 w amdrai amdrwch yd aethant  
 Am aid fleiniad flaid anant  
 Am drychioed am drychu naw cant  
 Amdrychion berion buant  
 Amgoch bryn a phenryn a phant  
 Aml celain y'nghrain y' nghreunant  
 Y g.....creulanw ewyngant  
 Dor ysgor ysgwyd eliphant  
 Elyf nawd adrawd edrywant  
 Edewyd arneu ernywiant  
 Er nad byw rywr ryw runblant  
 Card anghard anghen a'm peidiant  
 Car cerdau cerdorion ramant  
 Cadarn farn feirniad gwestifiant  
 Cyrd Forach cyfedach carant  
 Kerdgar cyfarwar cyfarwyd yw Duw  
 Diwedwr cyn trychwyd  
 A'm rodes nid rod gwaradwyd  
 Trech wyned haeloned hylwyd  
 Traul gordrud golud goleuryd  
 Coel calan cyman cymhenrwyd  
 Glew gloywrad gloyw gyngad gynghwyd  
 Cyn canfeirch o duch ceirch cynnwyd  
 Cynwan torf terfysg ymorchwyd  
 Cynwayw gwyth gweith fudig arglwyd  
 Gwedi gwalch gwladlawch gwladlwyd  
 teyrnas  
 Teyrned gkwyd  
 Gwedi gwawr gwriawr gwreidrwyd  
 Gwraid ri gwesti gwastadrwyd

Gwedi gwr arwr ar orwyd  
 er orug orau bei canmlwyd  
 Ni thwyll pwyll pellnod heb arglwyd  
 Ni thyf cof rag codiant ebrwyd  
 Ryd euras riau ryd afrwyd  
 Ryd eurais Emrais amrygwyd  
 Neud efryd cerdawl neud afrwyd cerded  
 Cerd am ged am gerthwyd  
 Can ethyw llawr llyw llawn awyd  
 Llawch Gwyndyd gwendud ehangrwyd  
 Beird borthiad braint neirthiad nerthrwyd  
 Braw Brynaich ysgwyf faich ysgwyd  
 Balch edlid yssid ys arwyd  
 Ys ernyw ys arnaf yd gwyd  
 Ys wyf wedi rwyf rodrwyd  
 Bard difro dyfryd heb arglwyd

Arglwyd glew aerllew ydan eurllain gled  
 Gledyfal gynwyrain  
 Arglwyd rwyd rud fu ei gigwain  
 Arglwyd hael hirglod dadwyrain  
 Arglodig arglwydi orchrain  
 Argledr llawr arglwyd mawr madiain  
 Aryf eryf eryr Nanhoeunain  
 Araf yw arwyd y dichwain  
 Ardrud walch gwrfalch goradain  
 Ar hil Run rud weryd a main  
 A dragon coeling nid coelfain, ei dwyn  
 Ys coel brwyn braw dilain  
 I gerdawr a'm preidiawr a'm prain  
 I eilwyon am eirchion archfain  
 I flaid rud i fraw fud i frain  
 I feird dwfn dyf yd a gofain  
 I gyndelw oed ardelw urdain  
 Urd wledig llurig llu aergrain  
 Urdws Duw diwyrnawd Owain  
 Urdawl ben priawdnen Prydain  
 Mal gwaith Arderyd gwyth ar dyrfain cad  
 Yn argrad yn aergrain  
 Uch myrd wyr uch myrdin oed cain  
 Uch gwalechlan uch gwalechlad pennain  
 Uch gwayw ryn yn rudaw adain  
 Uch gwaed gwynt golau hynt gwylain  
 Uch gwaed lryr gwaedlanw gwaedai gig-  
 Uch gwaed frau uch adnau ednain [frain  
 Yg gawr huysgwr huysgwin yn wybr  
 Yn ebrwyd gyfarwain  
 Y gwrfoes yg orfaes cyfrgain  
 I gornawr gwriawr goradain  
 Ygwrial ygwryd Owain  
 Ygorun aergun aergyfrain  
 Yn aergad yn Argoed Llwyfain  
 Ym pen draig dremynt oed celain

Calenig beird byd buched redusion  
 Bugail Mon mall dired  
 O'i fawrwlad morad maraned  
 Ym roded rifed anryfed  
 Ym aelwyd yd barthwyd berthedd

Berth wartheg anreg anryded  
 As dygaf ys dygyn atchwedled  
 Ei fawr glod hyd fawr glwyd rossed  
 As duch Duw yny dangnefed  
 A dug trais tros Erch a Heled  
 A wnaeth anfadran anfeded ar wyr  
 Ar weryd maes Carned  
 Pan amug Tegeingl teg rysed  
 Rysfa cad cadellig foned  
 Oed tramawr trameirw yn dyhed  
 Oed trymle gweithle gwythloned  
 Oed tromlan coelwan calfed  
 Oed tramawr tremynai tachwed  
 Oed tremid cyfnewid cochwed  
 Cledyfal clau dywal diwed  
 Clwyf efmys dyfrys dyfryded ys mau  
 Braw gofiau brau gyfed  
 Porthi hoed argoed argywed  
 Porthloed gwawr porthes llawr llaried  
 A'm rodes rud aur gymmyred  
 As rodwy Trindawd trugared  
 Gwrawl hawl haelonaeth gorfed  
 Gwrfalch balch bwlech y difaed  
 Gwr efrais yn trais yn trofed  
 Gwr afraid ei farwnaid i fed  
 Gwr gwaedrwyf aerglwyf eurgled oed ei arf  
 Eurgorf tarf torf hywled  
 Gwlyd wrth wlyd wrth wlad gyfanned  
 Garw wrth arw wrth awr gymined  
 Chweg wrth chweg wrth chwedl ei fawred  
 Chwerw wrth chwerw wrth chwant cyw-  
 Gwrd wrth wrd wrth ordurd gwned [rysed  
 Glew wrth lew wrth lwy teyrned  
 Gwyl wrth wyl wrth ellwng refed  
 Gwn oed hwn oed hiriell Gwyned  
 Gwyned ar gynnan aer gynnygn rebyd  
 Gwystyl haelod byd eilig  
 Ym buched haeloned hilig  
 Hil haelion heilyn dyehymig  
 Hawl greulawn hael hwyrgrawn hirgryg  
 Hard i fard ei fwrdd nadolig  
 Oed aelaw caer aelwyd Beblig  
 Pobl ar wled yn hed yn hirdrig  
 Mygr dragon gwron gwyrenig  
 Medw medlys melus eumestig  
 Meiriau angau angehinmyg ei farw  
 Ei farwnad ni difyg  
 Aerllew tarf torfoed friwenig  
 Arllaw lles arlleg tres treisig  
 Cyrd cerdynt mal cynt Celliwig  
 Ar wyr wawr ar feirch mawr mawrthig  
 Fraeth leision leisiaid cynnhebig  
 Ffriw eurdo ffrwyngno ffröen dyfrig  
 Ffrawd wallaw anaw anewig  
 I fynu i fyned am dirmyg  
 Baran llawr ger llynges gerrig  
 Blaid aerflawd amnawd ammythyg  
 Berth nerth der haelder hennyg  
 Burthiad cad cedeirn ar drysug

Bud am bu am bo i edmyg  
 Bod am rod am rwyd galenig  
 Buelyn am win am wenyg o fed  
 Feird orsed wersyllig

Gwersyll torfoed tew llew lladai  
 Gorsaf tarf taerfalch fal Gwalchmai  
 Gorfaran gwrfan gorfydai  
 Gwr yn aer yn aros gwaed fai  
 Bryd Erof gryd arf grau a dodai  
 Brwydr aergrwydr eurgrawn ni gudai  
 Bradawg waith gwyniaith gwynyngai  
 Brys briwgad brig bragad briwai  
 Brwysg lafnau yg crau yg crai celaned

Cymined cymynai  
 Gwyrd heli Teifi tewychai  
 Gwaedlan gwyr a llyr ai llanwai  
 Gwyach rud gorfud goralwai  
 Ar doniar gwyar gonofiai  
 Gwydfeirch ton torrynt yn eutraï  
 Gwythur naws fal traws ai treisiai  
 Gwydfid Eingl yg clad ai trychai  
 Gwydgwn coed colled au porthai  
 Gwydwal dyfneual dyfnasai...fy mod  
 Fy mediant a gafasai  
 Collais arglwyd call nym collai  
 Corf eurdorf eurdal am rodai  
 Cof cadflawd a'm cawd a'm carai  
 Car cerdawr cerdau a'i cyrchai  
 Gryd wasgar lluchfar a'm llochai  
 Grym dillud dullus fab eurai  
 Gredf greidwyr a chyfyr a chai  
 Glew defawd glyw oestrawd aestrai  
 Ystre hynt wastad gwestai—gwyndigyf

Gwyn eu fyd bieufai  
 Gwyth ysgor tra mor tra menai  
 Gwlyd elfyd elwais o honai  
 Tra fu Owain mawr ai medai  
 Med a gwin an gwirawd fydai  
 Gwyned wen Gwyndyd len ledpai  
 Gwedi gwawr cad fawr ai cadwai  
 Pa wladwr arwr ar wyndai  
 Pa wledig a wledych arnai  
 Gwledychws ar wlad ar wledolion med  
 A mediant ar dirion  
 Gwledychawd molawd mil feirdion  
 I foli telthi teyrnon  
 Gwladoed pair cadair cadfaon  
 Yn nherfysg yn nherfyn Saeson  
 Yn nhorfoed cyhoed cyngreinion  
 Yn nharf enwerys gwrys gwron  
 Yn nhwrf llu a llef ysglyfion  
 Cyrn cenynt cerdynt carn-weilwion ar dir

Ar derfyn Caerlleon  
 Eurllew byd esbyd esborthion  
 Aur llyw llwyth lleithig prydydion  
 Aur golofn aur diofn deon  
 Aur anreg redeg rodolion  
 Eurgor dor dinas cerdorion  
 Eurgorf torf teyrnas nwython

Eurdraig Eryri eryron—fyhyr  
 Eryr gwyr golluchon  
 Dangosed gweithred gwaith Fadon  
 Yn nyd gwyth gweithfudig dragon  
 Ar llwrw ysgwydfwrw ysgyrion  
 Arllwybyr llad a llafnau rudion  
 Ar greulif ar greulyd feirwon  
 Ar greulan baran berion  
 Ar greulan ar greuled Arfon  
 Creulanw gwaed am draed amdrychion  
 Amdrychid efrid arfogion—i lawr  
 Am eurglawr mwynfawr Mon  
 Nid gair gau ef gorau gwron  
 O For Ud hyd for Iwerdon  
 Hyd Elfed trefred trag Idon  
 Hyd Elfael eilfa Gwenhwyson  
 Hyd weryd wryd orchordion  
 Hyd warawd reidgnawd reidusion  
 Hyd Gaer Gaint i gadw braint Brython  
 Hyd Gaer Llyr a hyd Gaer Leon  
 Hyd Ystreigl hyd Eingl hyd Aeron yd aeth  
 I bennaeth o Benmon  
 Pennaf gwr nid gorwag hofder  
 Pen riau riallu ymher  
 Tres trachwres trochiad ei wrymder  
 Prain Prydain preidwyr ehofnder  
 Pair enwair enwawg y glewder  
 Par anwar anwas yn racter  
 Pobl wasgawd ysbydawd oesber  
 Post esbyd oesbarth elifer  
 Asbarn mwy dadfarn ai dadfer—yn iawn  
 Na wnaeth crawn crynoder  
 As molaf mal yd adroder  
 Mal ym cant o bob cant cymer  
 Am hirwnaeth hiraeth hiramser  
 Hil Maelgwn Maelgynig ener  
 Marw mawrdraig mawrdrwg y dadfer  
 Mab Grufud cledyfrud clod fer  
 Maws medgryn teyrn tyner—a'm rodai  
 Nid rodion ni daler  
 Nid a gwad a rad ym roder  
 Am rodes rwydles rwyf nifer  
 O'i alaf amliw biw breufer  
 O'i breidiawr o'i fwynfawr funer  
 O'i winllyn o'i winllad ucher  
 O'i wenllen o'i wenllys  
 O'i wenllaw anaw anober—nym doeth  
 Can doeth ym a llawer  
 O gynnif o gynnal iawnder  
 O gylngredf o dedf o dyfnder  
 O difryd Gwyndyd rag gwander  
 O warthrud gwrthryn gwyn gwarther  
 O dyrru ar llew llu llwyrdy  
 Llyw llwyrdrais llwyrdraws y nifer  
 O dorri o derwyn ober  
 O gadau rifedau rif ser  
 O gadwyd Prydain rag pryder—gorwlad  
 Gorfloidiad gorflyngder  
 Boed llawenyd boed lleufer  
 Boed cyfadef nef ym Ner

## AMRYSON

CYNDELW A SEISYLL BRYFWRCH, AM BENCEIRD-  
LAETH FADAWG MAB MAREDUD. A CHYNDELW  
A DECHREUWYS.

Ym hyfryd yn cymryd cylech  
Gan llyw cyfed llew cyfwlch  
Marchogwni marchogaeth falch  
Marchogion meirch gweilwon gweilch

## SEISYLL.

Gweilch cadau yn cadwyd maes  
Gwyr gwanar gwawr trydar trais  
Gwynfyd beird bod yn eu hoes  
Gwendorf gwyn deyrn Powys

## CYNDELW.

Cyd bei tau wledig hyd wlad bor—eur-  
Aer farchawg deifniawg dor [awg  
Rybydei fau faith ragor  
Rybydwn bencerd ben cor

## SEISYLL.

Am faes tref galw lys twrf emys—a glyw  
A glywir yn hysbys  
Twrff gawr gorwydawl gochwys  
Fal twrf torredwynt am brys

## CYNDELW.

Cyd bei tau wledig wlad Run—am Mael-  
Maelgynig a borthun [gwn  
Kyd bydei fau fed anhun  
Rybydwn bencerd ben cun

## SEISYLL.

Mi biau bod yn bencerd  
O iawn llin iawn-llwyth Culfard  
A hyn Cyndelw fawr cawr cyrd  
O hon ni henyw beird

## CYNDELW.

Rym gelwir yn fyrd yn fysg—arab hwyl  
Yn arabawl derfysg  
Yn fyrd cyrd cerd dafawdlysg  
Yn brydyd yn brifard dysg

DIWEDD.

ARWYRAIN MADAWG FAB  
MAREDUD.

CYNDELW BRYDYD AI CANT.

ARDWYREAF naf o naw ran—fy ngherd  
O naw rif angerd o naw ryw fan  
I foli gwron gwryd Ogyrfan  
Gorun mo:gymlawd ai goglawd glan  
Par-goch glyw glewdraws maws mab Cad-  
fan  
Pell yd wledych wyr wledig Arran  
Perging cyniwair pair Pedrydan

Pedrydawg Fadawg farchawg midlan  
Fy mard lef is nef nid anghyfan  
Fy mardair ith barth nid gwarth nid gwan  
Taer am aer am gaer am gain walch-lan  
Tew am lew trylew traul arian gan  
Tarf am galenig torf am galon  
Twrff ton fraeth am draeth am draed gwylan  
Perierin y' ngofur y' ngofan—fy ngawd

Pergnawd parch folawd fal nas difan  
Erchwyniawg esgar ysgwyd trywan  
Yr yfais i'th lys leisiawn gyman  
Eurmydedawg lyn erbyn eurban  
Eurgyrn buelin bueligyrn bân  
Eirioes y perthaist parth ac atan  
Emys llaw llamhir a dan lluman  
Erechlyfn archlyn ceirw uch cain ebran  
Eiliw pysgawd glas gleisiad dylan  
Ermid ei greulaw ar ei greulan  
Eryr argyfrain er yn gyngran  
Ergyrwayw cyncad ar ferch cyncan  
Erlyniad fleiniad flaid cynfaran  
Arwar fy ngwrddfar ar fy ngwrddfan—rwyf  
Canwyf py ganwyf cad clwyf cludfan  
Canaf can caraf can wyf gwaethylfan  
Canu cerd am borth am byrth cloduan  
Cyfodwch cenwch cenyf o'm bân  
A mi feird imewn a chwi allan DIWEDD.

## TRI ENGLYN

A GANT CYNDELW FAWR I FADAWG FAB  
MAREDUD.

MADAWG ai ceidw can urdas  
Bryn diormail diormes  
Bre uchel braint ar dangos  
Lle trydar Llech ysgar llys

Yssid yth llys liaws dyn  
A chedyrn a chyrn amgen  
A gwawd gwedi gwirawd gwin  
Ac aur llathr yn llaw deon

Deon unged yn ungoel  
Ys berth yd borthir y' ngwyl  
A glew ynial yn ynnial  
Y glyw ym myw Madawg hael  
DIWEDD.

## LLYMA ENGLYNION

A GANT CYNDELW FAWR I FADAWG FAB  
MAREDUD.

Ym maes bryn actun canhun neu rifais  
Am rhudlaffn ar fy nghlun  
Ar untrai trychan catcun  
Ys elont nef ar nun



Ym maes didlystun oed duhun ein glyw  
Nid oed glod gwarafun  
Pob llary ar llyfnfarch diffun  
Pob llew a llafn ar glun

Ym maes y croessau croessassam deon  
Marchogion meirch gwinau  
Hawlwrw hwylynt am breidiau  
Haelou cledyfau rhudion clau

Ym maes tref galw lys torf emys ein glyw  
A glywir yn hyspys  
Twrff marchogion meirch gochwys  
Mal turf torredwynt am brys

Ym maes mathrafal mathredig tyweirch  
Gan draed meirch mawrydig  
Ar dadl cynnadd ced fudig  
Arwyd iawn wladlwyd wledig

Nis gwyr namyn duw a dewinion byd  
A diwyd Derwydon  
O eurdorf eurdorchogion  
Ein rif yn riweirch afon

Llawer gorwyd blawr yn llanfawr llog-  
Llemenyc yn ionawr [awd  
A llawer gwr grwd yngawr  
Gan Llywelyn lles kerdawr

Llawer gwr a march ym maessing hedyw  
Hedychdir digyfyng  
A llawer gwr grwd yn ing  
Gan hael o hil gadelling

Yn ystrad langwm ystyriaia ein glyw  
Ystyrient a genais  
Torffadawg fynawg fur trais  
Torfflywelyn rywelaia

Rhan Llywelyn llyw aere  
Or rug hyd ym mudug wre  
Llawer marchog march dyre  
Lliaws gwas ar hyd glasfre

Ban in dyfynnwyd i gynwyd gadfor  
Ein cyngor cynnigiwyd  
Cedwyr balch bwlich eu hysgwyd  
Hyd y pasg in gwascarwyd

Nid adawo duw dyn yn fyw bellach  
Deu byllawg er deryw  
Marw madawg mawr ym eilyw  
Llad llywelyn llwyr dilyw

Hawdamor waelest edwy  
Ar lly gan ystlys dyfrdwy  
A lle teg tebyg i draeth  
A wnaeth fy hiraeth fwyfwy

Hawd ammaur i gwm brwynawg  
Ar tai ar terfynau enwag  
A lle ni llyssir cynnrann  
Ar llan od uch llys fadawg

Er pan yw marw madawg wyn  
Nid llawen llawer unbenn  
Gwae yw y byd hyd i gwinn  
A braint diffaith y weithion

Canys bu marw tarw trydar  
Ac nid byw fy llyw llawhir  
O thyrff calonn rag galwr  
Y fau a fyd dau hanner

Pei byw llary lleissiawn  
Ni luestai wynd ym mherfed edeirniawn  
Heb wyr llad gan llyw camawn  
Llith berion lluydion llawn

Ym mywyd madawc ni feidiai undyn  
Dwyn terfyu tra hyfryd  
Nid medwl medu hefyd  
Namyn o duw dim o'r byd

---

## MARWNAD FADAWG FAB MAREDUD.

CYNDELW AI CANT.

CYFARCHAF ym ri rad obaith  
Cyfarchaf cyferchais ganwaith  
I broff prydu o'm priffaith—eurgerd  
Ym arglwyd gydymdaith  
I gwynaw Madawg medfaith ei alar  
Ai alon ym mhob iaith  
Dor ysgor ysgwyd ganhymdaith  
Tarian yn aerwan yn eurwaith  
Twrff grug yg godug yg godaith  
Tarf esgar ysgwyd yn nylaith  
Rwyf myrd cyrd cerdorion wobaith  
Rud dilud diledff gydymdaith  
Ry-gelwid Madawg cyn noe laith  
Rwyd galon difogion diffaith  
Rwyd attaf atdeb fy ngobaith  
Ryd wisgoed wesgwyn ganhymdaith  
Rud ongyr Bran fab Llyr Llediaith  
Rwyd ei glod o gludaw anraith  
Rudfoawg faon ny olaith  
Rad wastad wystlon ganhymdaith  
Llafn argrad y' nghad y' Nghynllaith  
Llafn gwyar a gar o gydwaith  
Llaw escud dan ysgwyd galchfraith  
Llyw Powys peues diobaith  
Hawl ofyn gwr ny myn mabwaith  
Hwyl ysgwn ysgwyd pedeir-iaith  
Hil teyrn yn heiyrn henwaith  
Hael Fadawg ueuder anhywaith

Can deryw darfuam o'i laith  
 Can daerawd darfu gydymdaith  
 Oed beirdgar bardglwm dilediaith  
 Oed cadarn angor dyfn for diffaith  
 Oed hir ei drwyded oed hyged hygar  
 Oed llafar gwyar o'i gyfarwaith  
 Oed buelin blas gwanas gwaedraith  
 Oed eurllew o aerlliu gadiaith  
 Oed difarn gadarn gydymdaith—unbyn  
 Oed dyrn yn heiryrrn haearn dalaith  
 Ai diwed ys bo can bu ei laith  
 Y difwyn y cam gymaint ei afaith  
 Y' ngoleuder saint y' ngoleudaith  
 Y' ngoleuad rad ryddid perfaith

DIWEDD.

---

### EGLYNYON

A GANT KYNDELW Y DEULU MADAWC. M. MAR-  
 EDUT, PAN UU UARU MADAWC. AM  
 GLYBOD EU GODWRYF.

GODWRYF a glywaf am glawr maelenytt  
 Mur eluit eiluann<sup>1</sup> gawr  
 Teulu madawc mad anawr<sup>2</sup>  
 Mal teulu bann benlli gawr  
 Godwrf a glywaf am glawr yeithyon hir  
 Hydyr y wir ar saesson  
 Teulu madawc mur dragon<sup>3</sup>  
 Mal twryf tormennoet kynon  
 Godwryf a glywaf godor drein waewawr  
 Gwae wyr lloegyr<sup>4</sup> yn dyt kein  
 Teulu madawc mur prydein  
 Yn llwythawc yn llithyaw brein  
 Godwryf a glywaf am glawr llafur rei  
 Ryuelglod disegur  
 Teulu madawc<sup>5</sup> mawrglod mur  
 Mal gawr toryf teulu Arthur  
 Godwryf a glywaf<sup>6</sup> am glawr uagu glyw  
 Glew<sup>7</sup> vadawc bieufu  
 Trinua cyua kynytu  
 Trydyt tri diweir deulu  
 Tyll eu hysgwydaur teruyse vawr vaon

DIWEDD.

---

### EGLYNYON A GANT KYNDELW Y YWEIN.

M. MADAWC.

YWEIN aer dilein a dylif yg gawr  
 A llafnawr llat heb rif

<sup>1</sup>Elfán.—Ll. du.<sup>2</sup>Anhawr.—Ll. du.<sup>3</sup>Galon.—Ll. du.<sup>4</sup>Gwae lloegr.—Ll. du.<sup>5</sup>Eglur mur.—Ll. du.<sup>6</sup>Ar.—Ll. du.<sup>7</sup>Gloew.—Ll. du.

Ac o du gwaedllyfn gwaedllyf  
 Ac ar dir kynnygyn kynnif  
 Kynnytwys aeruleit aerulawt teyrnet  
 Teyrnas gyquadrawt  
 Ny bu trwy hunaw tra hawt  
 Ny bu trwy gyscu gasgawt  
 Gosgortuawr keduwyr cadw amuod  
 wrthyf  
 Y wrthyd nam gwrthod  
 Om bot ny bytwn hebod  
 Nyd ef oet uy mot uy mod  
 Gan vod yn unvreit yn unvryd am llyw  
 Llaw urydet nym ergyd  
 Dragonawl wrawl wrhyd  
 Dreic wynua dragon wynuyd  
 Gwynnydic y ueirt oe uawrdawn rebyt  
 Gwr am ryt rat eurdawn  
 Arleg toryf rac twryf kamawn  
 Ual twryf ebyr yn llyr llawn  
 Llawn am lyw estrawn am lyw ystrad  
 mawr  
 Gwyr am lawr gwyr amlad  
 Ac yn dyt rebyt rotyad  
 Rotyon o ueirch rutyon rad  
 Rad wallaw anaw yn oed awyt kyrt  
 Cawt arnaw ny gyflwyf  
 Pryder dragon rotyon rwyf  
 Prydein glawr eurglawr arglwyf  
 Arglwyti gyntwryf gyntorawr yn toryf  
 Yn teruyse bytinawr  
 Marchawc balch bwlech y aesawr  
 Meirch anvonawe mynawc mawr  
 Mawr ged agkale ygkalan yonawr  
 Mawr llyw llawr llaw gyfran  
 Pan dygyrch cludveirch cloduan  
 Pan vyt kyd kedwyr am pann  
 Am pennaeth yt ym am pennaf terrwyn  
 Tyrrant veirt am alaf  
 Teyrneit hael teyrnaf  
 Teyrnet orset orsaf  
 Nyth orseif esgar esgynvaen mawruro  
 Mawrnydic yth adwaen  
 Gwawr glyw glew diuwg blwg blaen  
 Gwalch yn eurgalch yn eurgaen  
 Eurgolofyn arwr yn arwein eurgrwydyr  
 Yn eurgreir gywyrein  
 Yn aergreu mawr yn aergrein  
 Ergryd byd bid rac ewein. Ewein

---

### AWDYLL I EWEIN.

EWEIN arwyrein yr orocet ar bawb  
 O bybyr genedloet  
 Mygyr varchawg deifnyawg da oet  
 Mygedvys y magadoet

ARWYRAIN EWEIN VAB  
MADAWC.

CYNDELW AE CANT.

ARDWYREAF dreic o drud veith awen  
 Llew llawen llawr osbeith  
 Llewentyt llu bedyt hydreith  
 Llyw anaw llaun eurllaw aerlleith  
 Llary ywein lloegyr dilein dileith  
 Llud ysgwn ysgwyd pedeiryeith  
 Pergyg glyw glewdraws maws metueith  
 Par greulyd peir gwrhyd gwr reith  
 Pedrydawc pwyllawc pwyll gotieith  
 Pell y glod o gludaw anreith  
 Preit wasgar dreisuar driseith gyuarpar  
 Yg gwear yg gwynyeith  
 Ry gelwir gelyn agkyfyeth  
 Celeu rut geloreu dytreith  
 Grefyf diletyf dilut gyuarweith  
 Glew difraw glyw ganllaw gunlleith  
 Brys yg gwrys yn efns ouyn wreith  
 Bryd yg gryd yg greidyawl afeith  
 Breisc abrywisc abrywsgyl anorreith  
 Bleit a blwg a blaengar gyweith  
 Bro amnawt oesgawt oesgeith y gynnygyn  
 Y gynhal nyd hawt weith  
 Dremhynt hynt hirualch walch osgeith  
 Dremrut prut preityawr rwy canwreith  
 Dor dewdor deon arwyreith  
 Doeth dewrgoeth dewrglod ganhymdeith  
 Drud aerlud aelw yn aerlleith  
 Dryd aergwys aergun gedymdeith  
 Dwrn dradwrn dradegyn yd peith  
 Dyrnheyrn haearn y daleith  
 Bre drydar arwar anoleith  
 ...raw bronndor bar dyfynuor dyuynueith  
 Blawt esgar ysgor yn diffeith  
 Balch eryr baran llyr lledyeith  
 Brad eurgurwydyr gynurwydyr gynureith y  
 daryan  
 Yn aerwan yn eurweith  
 Byrt kyrt cadw agkadw agkyureith  
 Breint ongyr angert agkyuleith  
 Brein borthyad gweiniuyad gwinueith  
 Gwin a met a metgyrn rwy meith  
 Ry talaf ym rwyf om rwyllweith molawd  
 Nyd molyant o uriwyeith  
 Delw ym peirch a meirch mygyr hydeith  
 Mynw eilon mal gwyllon gwellueith  
 Delw ym daw oe law lawer gweith  
 Prif ragor plu porfor perfeith  
 Delw yt wytt pen rieu pen reith  
 Yt wyf pen prifueirt om prifyeith  
 Delw yt wytt wawr toryf coryf kyureith  
 Yt wyf dann deduryd wyd oleith  
 Nyd wyf uart dylaw wyf dyleith ar gert  
 Wyf dilut ym pob yeith  
 Dym keinuyc om kuinualch areith  
 Aros gwarth yr gwrthod auyeith

Nyd wyf dlawd om gwawd om gweiryreith  
 Gweiryud bryd bryssyaw y ymdeith  
 Heirt veirt rut ar ueirch rut rawngeith  
 Hael hebod ny hefab nosweith  
 O honawd handid uy gooeith  
 O honaf hanbych well ganweith

MARWNAD YWEIN UAB  
MADAWC.

CYNDELW AE CANT.

LLEITH ywein llith brein breit urys y uar-  
 Auarwy aet uab klys [an  
 Llafur llafyn dolur dilys  
 Llud carant cad wrygyant wrys  
 Gwrys aerureu dechreu un dechryn a hwnn  
 Honneid uyt y deruyn  
 Lloegyr al am eur mal melyn  
 Er lleas duw ny llas dyn  
 Dynyadon oesgawt as gwtant oe uarw  
 Gwr oe uar am peidyant  
 Coll arglwyf call argledyr cant  
 Eurglet y muchet mochnant  
 Mochnant diheuchwant erchwynawc gw-  
 Gwlad vrochualc ysgithrawc [edic  
 Dyfynuet a orchut deifuyawc  
 Detyf hael mad auael Madawc  
 Madawc essillyt oes ellwg aergawt  
 Eurged beirt neud echwg  
 Kedernyd bleit aergryd blwg  
 Ked wallaw kadoet ollwg  
 Neud kygkolled ym colli rwyf mechein  
 Rwym achaws oe gygklwyf  
 Ar goreu yt ym gyrwyf  
 Am gar neid auar neud wyf  
 Nyd wyf diletkynt am diletcawt hael  
 O hil yoruert hirulawt  
 Colled gwr eurged aergawt  
 Oe golli tewi nyd hawt  
 Nyd hawt ym wybod neud anobeith kyrt  
 Kertoryon neud ynt geith  
 Och nad byw keinllyw kynlleith  
 Achaws uu liaws oe leith. Leith ywein

RIEINGERT EUQ VERCH VAD-  
AWC, M. MAREDUT.

CYNDELW AI CANT.

GORVYNAWC drythyll goruynt a dygaf  
 Wrth ar a volaf a voleisy gynt  
 Kymrawd ewyn dwfyr ae dyuriw gwynt  
 Kymraec laesdec o lys dyfrynt  
 Kyfleuer gwawr dyt pan dwyre hynt

Kyfiw eiry gorwynn gorwyt epynt  
 Rin woleith woletyf woleu dremynt  
 Riein nym rifei y ked am riuynt  
 Rienet iti a dywedynt  
 Rieingert eua a vawrheynt  
 Oet anawt llauyn adrawt lleith  
 Dygynnelw dy ganhymdeith

Tric yn hartureint seint senet gyd eurglawr  
 Arglwyt nef ath weryd  
 Dygyn yw hebod bod byd  
 Dygynnelw a duw gennyd

Gwr ae gwnaeth yn dyn yn delw boenedig  
 Pan aduc dygynnelw  
 Kan duw ny bo kwyn dielw  
 Cutuet keindiwet kyndelw

GWELYGORTEU POWYS,

KYNDELW AE GANT.

Auch rotaf arawd orawen gyffes  
 Auch rotes auch reen  
 Wrth awch bot awch bod yn llawen  
 Wrth awch bryd awch breint o ueigen

Auch rotaf arawd arovun a wnaf  
 Aruoogyon gydyhun  
 Ygwythlid yggwythlawn orun  
 Yg gwaedlann yg gwaedle gwytgun

Auch rotaf arawd auch rotyon am keidw  
 Ked wallaw kaduaon  
 Bendith duw gennwch gynureinyon  
 Gnaud y vart vendigaw haelon

Auch rotaf arawd aerwosgryn bowys  
 Argoedwys dwys dengyn  
 Uy mawret uy mawreir ae mynn  
 Uym bareu uym bar an kychwyn

Auch rotaf arawd aerdihauch wyr  
 Nym gwelhyr gwahan arch  
 Neum kymwys dreic bowys trwy barch  
 Neum arwar neum car neum cyuarch

Cyuarchaf y duw cyfarchdawn volyant  
 Y vilyoet enwogawn  
 Eurdorchawe uarchawe ueirch agkrawn  
 Eryr gwyr gwelygort lleissyawn

Eil welygort vawr veirt wellig am peirch  
 Ar uygyrueirch ar uygyr uyg  
 Bleityeu toryf teruyse diechyg  
 Bleinnyeid kunyeid kadellig

Trydet welygort trydar ordiuwg  
 Treis wollwg vhwg vlaengar  
 Lloegyrr lleityeid llofrutyeid llachar  
 Yorueirthyawn y vurthyaw esgar

Pedwaret welygort pedweryt molawd  
 Molafy ly ae dyrilyt  
 Mawr doryf daryf gyuaryf gyweithyt  
 Madogyon madawc essillyt

Pymhed welygort pymhedran om kert  
 Keritor yn eu bann  
 Aerwyr gawr arud vawr varan  
 Arotyawn creulawn rac creulann

Chweched athrugar athraon cadwallawn  
 Eil llutyawn llafyn rutyon  
 Kynewid eruid aruoogyon  
 Kynnifyeid kunyeid caer eillyon

Seithued welygort oleugor tros wawd  
 Ae traethawd traethitor  
 Gwrt yutin veityeid yn tewdor  
 Gwyr weirnawyn gwrhyd diachor

Wythued iwyth gynnwyth gynwan eudetyf  
 Eu dewis gyflauan<sup>1</sup>  
 Llawn doryf am goryf am gyuyrdan  
 Llaurotyon llofrutyeid garthan

Nawued eu riued rut wet yg kyfranc  
 Kynn bu tranc eu trosset  
 Tygyryawn tyghed oruolet  
 Ny charws tyngyr tagneuet

Decued yw am klyw om clud eurdaun kert  
 Kenitor canys yawn  
 Toryf ysgwn ys gnaud yg camaun  
 Taryf rac cad rac kwewll uyrryaun

Undec uad awen vndecued awyt  
 A weinyt vyn tyghed  
 Om gwawd rann om bann om bartged  
 O walch ualch o weilchyawn<sup>2</sup> giwed

Deudecued amgen am geinwiw garthan  
 Gyrrh yn gwan rac gwaedurir  
 Hydyr eu gwir or gwr ny diw  
 Hil gwryaeth ysgoew ysgwydurir

Trydet yw ar dec a digawn raclod  
 Yn ragod ragor dawn  
 Flam luchlam y luchlat estraun  
 Faw gynghyr fwyr wyr fynudyawn

Pedwaret ar dec ardunyant a geiff  
 Ardunawd diatrec

<sup>1</sup>Eu dewis gyflan. — *Ll. D. D. o'r Ll. Coch.*

<sup>2</sup>Neu, feilchyawn. — *Ll. D. D.*

Kynnifyeid cynnygyn ogywec  
Cyndrwyn kyndelw ac hanrec

Auch rotaf arawd orawen gyffes  
Auch rotes auch reen  
Wrth auch bot auch bod yn llawen  
Wrth auch bryd auch breint o ueigen.

## BREINYEU GWYR POWYS.

CYNDELW AE CANT.

KERTAWR huenyt huanaw auch mawl  
Kert hep dawl heb dwyllaw  
Kert uchel antawel antaw  
Nyd kasgert kosgort dyssilyaw  
O dawn mawr mab duw dylaf ardelw  
Dull kynhelw kynhalyaf  
O gerteu bleityeu blaen gwryaf  
O ganon kertoryon kanaf  
Canaon selyf seirff caden meigyen  
Nyd meigoll y kigleu  
Kynniuyeid kynneurawd oreu  
Kynnytwys brenhiniet breinhyeu  
Cynnytwys powys per uolyant yr pell  
Nyd pall yr digonssant  
Drâgon dwfyn deuaud a gadwant  
Dreigyeu dewr deu prid ny dalyant  
Ny thelir o wir o wreitrwyf breise  
A brwysgaw yn rodwyf  
Ebediw gwr briw braw dygwyt  
Yn dyt brwydyr rac bron y arglwyf  
Ny thal gwyr powys penn reith ar gymry  
Gan gymryd ag kyureith  
Wedy treul trylew dioleith  
Wedi trin traean o anreith  
O anreith y dyvu dioual anrec  
Anrydet kyuartal  
Ermydet terrwyn teyrnual  
Eur hybarch hebauc a bual  
Buant kyd yg gryd yg gretyf kyuaruod  
Kyuaruogyon dilettyf  
Y wrthod annod ac annetyf  
O greulan o greulawn gynnytyf  
Cynnytyf gwyr metueith metgyrn ortyfnoid  
Metgwyn greid gretyf heyrn  
Gwyllyoet gynt ny gedwynt gedeyrn  
Gwyl bentan am dan am deyrn  
Cynnytyf y aergun argoedwys werin  
A warawd rac lloegrwys  
Rann y vrawd y vreint ae towys  
Rann y ehwaer ny cheir o bowys  
Cynnytyf y bowys benn ymadrawt gwyr  
Vch gwiraud eur gynlawt  
Yn nep llys yn nep lle anhawt  
Nad ef daw ar eu llaw lledcawt  
Cynnytyf y bowys kynossod yn aer

Yn aros eu raclod  
Ym blaen cadet cadw aruod  
Ac yn ol diwetwyr dyuod  
Cynnytyf y bowys ban el ar dremyn  
Y derwyn diogel  
Na bo tro tranwyr gyuarhwel  
Na bo caeth na bo carr dichwel [ssaf  
Cynnytyf ywch bowys ban wnaethauc gor-  
Auch gorset na bei gaeth [waeth  
Glyw gwyrthauwr gwyrthodwch chwi et-  
Gwrthodes rywyr righyllaeth  
Cynnytyf yr dreigyeu uegys dragon berth  
Ny borthynt anetuon  
Yn eu byw ar eu ryw rotyon  
Na rennid rannen kynnytion  
Cynnytyf a warawd y werin argoed  
Nyd argel om bartrin  
Nas gouwy gordwy na gortin  
Goual tal teledic brenhin  
Cynnytyf yr cedwyr ced ysgein y veirt  
Cedweilch heirt hart yd uein  
Eil gwerth gwarth gwrthodes kynrein  
Eil gormeil gormesgylich rein  
Gwrthodwch auch cam cenedloet—powys  
Peues cyrt a chyhoet  
Glyw kyrehuawr kylchynueirch nyd oet  
Gwyl hebauc heboch neud adoet  
Nyd adoet uyn dawn yn ouer—om gwlad  
Am gwledic ae dirper  
Nym gwna tro treigylueirt un amser  
Nym twyll pwyll pam ym kyuarcher  
Gwyr powys pobyl disgywen  
Cad orllawes orllawen  
Pedeur kynnytyf cadw cadyr vrten  
Ar dec yr dugant o ueigen

## CANU A GANT KYNDELW Y HYWEL M. EWEIN.

CADEIR beir beryf  
Kannyad duw gennyf  
Cadyr deissyf heb dissut  
Dawn kyflawn digawn digyflut  
Digart gert y ged diorchut  
Diheueirch gystut diruawr vut gwrutulgw  
Trin trablwg trablaut ut  
Treis ormeil ormant ormes lofrut gawr  
Gortwy llawr gorten ut  
Rygallas rec dinas rac dut  
Oe hygder ehagdud varedut  
Pan wnaeth balch odrut bylchu flemissyieid  
Fleiniyieid greid gryd lofrut  
Brwyse auad o gad oet ganthut  
Brwydyr a chrwydyr a chryd arnadut  
Brwyngwyn gyuanwyn gyuanrut asyr-  
dwyth



Gwyth beich bwyth bu eidut  
 Gwyth yt aeth traws bennaeth trostut  
 Gwrt eissor eissillit gruffut  
 Gwybn bawb heb gel  
 Gwyth gwrt hwrt hywel  
 Yn ryuel kyn rybut  
 Gwyt briw gleu a llafneu lledrut  
 Gwyuid gwyr yg weyrd achlut  
 Gwyr y glyw trychyon rac tra chythrut  
 gwaew  
 A gwedlin ar eu grut.  
 Grut vutic wledic wlad ohen  
 Grugunan rwyuan rut onnen  
 Nyd o nerth llaesgad yd geif llesgen—dir  
 Hy molir meint y lenn  
 Hud uriw calch am ualch eluyten  
 Hud wyf uart y ueirt kyghallen  
 Hud af yg kyntoryf yg kynhen—am kert  
 Am kynhelw om perchen  
 Hud aruoll archoll yn archlen  
 Hud arwet arueu ae loffen  
 Hud arueit tra chron  
 Treityaw y alon  
 Treul dragon saesson ssen  
 Hud ysgithyr y esgar yn dilen  
 Hud ymbyrth y ysgwyd asgen  
 Hud ymbraw am breityaw breisg nenn  
 Hud ymbeirch diheueirch a dihebenn  
 —glyw  
 Deheubarch o gollen  
 Hud annawt hirulawt hir wenn—y ysgor  
 Hir gor dor doeth gymen  
 Huan wrys hawl echrys ochren  
 Hual gryd kedernyd kyngen  
 Kyngen gywryset am gywrys—deheu  
 Llary llacheu heuelys  
 Llathrei lafyn oe law ar gyuys  
 Llachar glaer yn aer yn dyrys  
 Ac ysgwyt yn rwyd  
 Rac ysgwn plymnyd  
 Ac ysgwyd ar y ystlys  
 A phareu yn phyrif hyd enuys  
 Yn eis meirw a meirch yn cochwys  
 Ac ar gastell gwis gogwys yd orvu  
 Godwryf llu lluchyd gwrys  
 Arwr ualch ar uolyant ysbys  
 Ar uoloch dragon dreic efny [yawr  
 Pan arurwydyr arurys arlwy blys—bleit-  
 A gwaewawr uch gwregys  
 Pan dineu gwyar greu ar grys  
 Arueu gwr gwron ae dengys  
 Aruod anwared enwerys—yg gawr  
 Angert llawr lloegyr echrys  
 Anlloet kyrn teyrn teir ynys  
 Anhawel hywel hawl gyfrwys  
 Antywallt y lys o liaws eirchyeid  
 Pan archant y emys  
 Emys fraeth yn frwynuawr am daw  
 O frawt vot ut heb lutyaw

Caffwn y raden  
 Caffad an gwawdeu  
 Cathleu cleb kerteu caw  
 Karwedros cauas y ganthaw  
 Kadarn dau gwan trywan trwytau  
 Camp ragod arnod arueityaw—ac aryf  
 Ac arhos heb gilyaw  
 Cas trymdras trymdreis ardwya  
 Kar kedyrn caen heyrn heidyaw  
 Kaereu divuryaw cad arllaw—aerllew  
 Arlleng glyw glew difraw  
 Cart wrthryn y wrth aberfraw  
 Canys tec teyrnas idaw  
 Teyrnet yntaw ynteu dayarglas  
 Ry allas rwyf anaw  
 Taryf taeruar trydar vawr yndaw  
 Tarw bytin dylin dyludaw  
 Taryf ar ysgwydaw terrwynyaw a dysc  
 Teruysc fysc festinyaw  
 Terrwyn ri yn torri arnaw  
 Teyrn dreic a dragon wrthaw  
 Twrwf tonn torchawc hael trwm oet y  
 glywel  
 Tur kynuael yn kwytaw  
 A flameu odrum yn edrinaw  
 Ac angert ac ongyr yn llaw  
 A gwyr gyrrh am byrth yn burthyaw—  
 gorwlad  
 A bragad yn briaw  
 A brwydyr a breis rwyse yn brwyseyaw  
 A breuolyon ewyn yn cwympyaw  
 Yn aber ystwyth yn ystrywyaw—gwyth  
 Gweith uadon ym dullyaw  
 Gogort llawr kyn llat o honaw  
 Gwisgwys llary lluryc amdanaw  
 Gwasgawd gwawd gwaet nenn  
 Gwr yn gwisgaw penn  
 Gwasgarei bawb racdaw  
 Gogort wrt a ordyfn preityaw  
 Gogrynwent kadwent ked wallaw  
 Gwallofyad alaf gollewin eryr  
 Aryf dewrwyr y dwyrein  
 Rutuoawc uarchawc uarch ysgain  
 Riallu ry allas yg crein  
 Pan ruthrws hil run ar rut grein—gwaew-  
 awr  
 Gwawr gwryawr goradein  
 Raelydawl ae gletyf uch gwein  
 Raelym vu yn pannu penueein  
 Rac pareu rien rut giweein  
 Rac teiui yn torri twr mein  
 Teyrn glyw terrwyn tyrrynt prein— yn  
 drud  
 Y gwn knud uch knoue  
 Rygnassant ryf naw cant kelein  
 Kalanmei keleinnic y urein  
 Kred a ched a chert ry chygein yth bleid  
 Yth blegyd y dichwein  
 Echel dor echdor gor goeluein

Vcheluar vcheluab ywein  
 Echrys par llachar lluch gyfwyrein—gawr  
     Lluoet gwawr mawr madyein  
 Gryd ortwy grym uwyuwy uirein  
 Glyw llywyaw llewenyt kyngrein  
 Glew otef gloes lef a glas lein—ar glun  
     A glwir ym prydein  
 Prydein par praf drydar dranhyl  
 Prydytyon gadeir gadyr nnyal  
 Pryduerthle kyhoet kyhaua—meruyn  
     Hawl edwyn hil Idwal  
 Pryssur dewr dragon dreic goaul  
 Pryffwn gawr priodawr preitwal  
 Prydesteu kymry kymrodyal—kynhelw  
     Neud kyndelw ae kynnhal  
 Can amdaw anaw anawdal  
 Anhyet kyfred kyuartal  
 Eurdorchawc a ryt eurdal—ym yr kert  
     Am keinyon o vual  
 Frawt ystryw estronyon hual  
 Fysc dyfyse diffwysgad ardal  
 Fyryf deyrn rac kynr carnyal—emys  
     Fwyr dyfynurys dyfneual  
 Kyssynhyws kysseuin dial  
 Ar dir caer yr cadw y aryal  
 Cletyfeu goruthur cletyual—ar wyr  
     A oruc yn difal  
 Hywel hael heuelyt eidal  
 Hywr glew gwledic diofal  
 Hwysgynt huysgwr—ysgwyduwrw ysgwn  
     Ys gwrtualch ymprennyal  
 Hwyl taerdan tra wan trwy wyal  
 Hwrt aflwyr mal hirdwyr hoewal  
 Hoewal hawl gadarn hart gedawl—y eir  
     Mal yd greir yd gredir  
 Greid gyfred gyfrawt nawt gywir  
 Gryd gyffryd gyffro ny foir  
 Grym gyffuryf gyfor a geffir—y vut  
     Ae vetgyrn wrth pabir  
 Gwryd hwylurys haeluron a honnir  
 Gwyr gwasgawd devawd divoir  
 Pan wesgir ar lloegyrr pan gosgor teudor  
     Pan osgort wasgerir  
 Pan wasgar heyrn pan heir  
 Pan wesgrynn camawn camp enir  
 Pan llat yn lluchyad pan llochir—yn llym  
     Yn llachar yd vernir  
 Pan gymrwy ryuel ry hoffir  
 Pan gymer glewder yd glywir  
 Pan gymyn yg kad pan gymysc lluoet  
     Pan gyhoet gyhutir  
 Pan gychwyn arueu pan gochir  
 Pan arueit pan breit pan brouir  
 Pan wnel butugawl beteu ir—uoch uoch  
     Bytyn droch a drychir  
 Nyd arllutyaw ri ry ellir  
 Nyd yr lles nyd erlleuessir  
 Traws trochyd kyrchyad pell kyrchir—y  
     ueirch

Ac y ueirt yd rotir  
 Taryf ar dres oe dreis a welir  
 Twryf yn toryf yn teruyse am dir  
 Trwm yt ergyrner crynoder y nar  
     Y uannyar a uolir  
 Tryfrwyd wawd ym priawd pryaur  
 Trefred uawr treul gawr y gelwir  
 Tryliw y ysgwyd ysgydwir—yn torment  
     Y gadwent yd gedwir  
 Trylwyn yw am glyw am glewhir  
 Trydar bar berchen a berchir  
 Trydyt hualawc huelir—yn dygyn  
     Y gynnygyn gan y dir  
 Trwst trathrwst tretheu a dygir  
 Trwy ortwy yd wrt gymellir  
     Ar digart gyngnan  
     Kyn gorun gwaedlan  
     Y gloduan yd gludir  
 Cluduan clod yn cledrwy ysgwyd  
 Cleis o dreis o draws y annwyd  
     Creulawr gawr gyrchyd  
     Garw gymwyd gywlad  
     Yu-kyflat ym plymwyd  
 Kein uyged am drefred dryfrwyd  
 Kert gan gyrt angylech y aelwyd  
 Keffid eu keinllith kwn kunllwyd  
 Keffynt veryon voreuwyd  
 Keffitor ymdwr am drwyd—heuelyt  
     Twrch teryt y ar vwyd  
 Caffawd beirt eu but yn yt wyd  
 Keffid noeth noted rac anwyd  
 Keffitor ym prafnad ym proffwyd—areith  
     Ym pryllfwn waedwyd  
 Kenir ytt kenetloet gadwyd  
 Keinwalch gyrch reid y dotwyd  
     Keinnyad gryd grym llew  
     Keinnhyeid glew dew doryf  
     Am dy goryf dysgorwyd  
 Kedwyr dor am gor am gyrwyd  
 Kadarn prein yn pen yt adwyd  
 Ked ebrwyt kyn arwyt kyuarwyd  
 A llat a llafneu trwy dorywyd  
 Mor gyfran gyfred y vonyon  
 Mur mawrgor morgant arwytyon  
 Mor gadarn y fwyr ar faraon—freinc  
     Ac ar frawt o wystlon  
 Am deu ystlys dwfyr dofyn auon  
 Ymdibustlynt gynt yngreinion  
 Ymdibustlei lew ar lan aeron—berth  
     Pan borthes eryron  
  
 Ry dirwy dyrawr y hollyon  
 Ry dylawch eirchyad ac eirchyon  
 Ry dylat yn drud ran canaon—knud  
     Ry dylud alltudyon  
 Ry dily dilein gwleidyadon  
 Ry dylif kynnyf cadnaon  
 Ryd erwyll rwyf dreic rodoloyon eirchyeid  
     Ry dalant eu rotion

Ry dysgaf disgywen veirtyon  
 Rym gedir y gadeir amrysson  
 Ry dirllid uyg cert yg keinyon—o uet  
 Yg kyntet teyrnon  
 Yg kyghawr gwrawr a gwron  
 Yg kyghest gorchest gorchordyon  
 Yg cantref emreis yn ymyruei gwrt  
 Yn ymhwrt am haelon  
 Yn aber muner meneiuyon  
 Yn anweir yn diweir deon  
 Yn enwoe yn anwar  
 Yn aerbeir yd aerbar  
 Yn erbyn ywerton  
 Yn tewdor yn aruor aruon  
 Yn aruod ac arueu rutyon  
 Pan wnaeth penn dragon pen drychyon o  
 wyr

Pan drychws y alon  
 Gal ysgwn ysgwyd agkyuan  
 Garw esgar yn ysgor gaduan  
 Gnawd gan draws lyw maws luman—  
 archauad  
 Yn aergad y ar gann  
 Gnawd rodawc rac marchawc midlan  
 Gnawd kynteiryf kyntwryf yn arnan  
 Gnawd nyu gyman gymyrret am heirt  
 A glwysueirt vch glas pann  
 Gnawd ataw itaw a ruteur oe law  
 A rutueirch y danan  
 Gnawd ym ri rutueirt o uaran  
 A roti rut wise am danan  
 Gnawd y gwna rut lanw amgylch rutlan  
 —gaer

A rut liw ar dylan  
 Gnawd gosgo gosgort yn diflan  
 Ual ymosgryn mawr gawr gamlan  
 Gnawd canaf y volyant ual auan vertic  
 Neu uartwawd arouan<sup>1</sup>

A uo kert ny uo cart nyu rann  
 Ny uo gwacath no gweith y berllan  
 Am byrth caer uyrtn  
 Porthes gwyr gwaedlin  
 A gwawr trin bu trechaf

Gwal teilu tal ym a ganaf  
 Gnawd yw honn om bronh yn brwydaf  
 Brydeu anaraf brythwch gaef—garw  
 Bytin darw deyrnaf

Brwydyr edrin breenhin breise naf  
 Bryssws glew bresswyl a honnaf  
 Brwyse rwyse rwyf trydar  
 Bwrw lwrw lid anwar  
 Bwyd adar oe adaf

O voli peir deon pyr dawaf  
 O dor cor coelic kynnelwaf  
 O golofyn prydein y prydaf—yn geluyt  
 Or defnyt y dyfnaf  
 O prydest o dyllest a dullyaf  
 O dawn duw can dotyw ataf

<sup>1</sup>Neu, arona.

Or mor pwyl gilyt py gelaf—uy geir  
 Y gadeir a gadwaf  
 O gadwent o gadwyd eithaf  
 Athwyd uyth ath enw yn uwyhaf  
 Ath dir ath degwch  
 Ath elyf ath elwch  
 Ath wolwch ath alaf  
 Ath urondor ath vro gadarnaf  
 Ath uolchlafyn ath ualch ymorsaf  
 Ath volir ath welir ath welaf—yn uynud  
 Ath olud ym danaf  
 Ath uolant veirt byd ath volaf  
 Ath uo hael hil run a unaf  
 Ath orehlymyunaf gan y mawr drugar  
 Pleid a gar plant adaf

CYNDELW I LYWELYN.<sup>1</sup>

LLYWELYN heilyn haelaf—o undyn  
 O undawd plant Addaf  
 Nis gwna pawb na bo pennaf  
 Ni wnaeth Duw fwch ar falchnaf  
 Naf ym mhressent yw ner wennwlad—  
 rhwyf  
 Yn rhodd Duw ai garhiad  
 Trosti nid traws twyll na brad  
 Trois nyw llefaïs na lladrad  
 Ni bu ledrad cad cadr Aber—Conwy  
 Cyn nechrau fy udd ner  
 Cynnygn fy llyw oedd llawer  
 Cwyddynt yngnuif seithrif ser  
 Rhif ser rwy cigleu cigwledd rad—i frain  
 O freisgwyr ardwyd  
 Cerhynt fy llyw nid ledrad  
 Cwrr gogof cyrrheidd coscad  
 Cadwent pan gyrchaist gyrch union—senig  
 Sangei bawb ei alon  
 Parthred gwyth mal gwaith fadon  
 Porth athwy myrdd ofwy mon  
 Ym Mon bendragon ban dreigiau—Prydain  
 Wyt prydfawr ith arfau  
 Cefeist a donaiſt yn dau  
 Cad anhawdd y coed aneu  
 Cedwaist cad orfod caen orferw—gwaedlin  
 A gwaedlaif yn ymherw  
 Cyd tan trwy wan trwy agerw  
 Ced hy cad fry fron yn erw  
 Erwan teyrnedd teyrn udd—Prydain  
 Pryder Lloegr ai cythrudd  
 Ai law braw bryneich gystudd  
 Alun rac hil run bu rudd  
 Rhuddgreu ei arfeu arfeidd erlyn—Lloegr  
 Lliaws bardd o'i gylchyn  
 Dawn fu pan ddyfu yn ddyyn  
 Dydd llawenydd Llywelyn

<sup>1</sup>Allan o L. E. D.

## LLYMA ENGLYN

A gant CYNDELW gwedi anfon Mynach o Fyneich  
Yschad Marchell iw wrthod ac i ddywedyd nas  
cleddynt yn eu Monachlog.

CEN ni bai aminod dyfod—i'm herbyn

A Duw gwyn yn gwybod  
Oedd iawnach<sup>1</sup> i fynach fod  
Im gwrthfyn<sup>2</sup> nag im gwrthod.

## MARWYSGAFN CYNDELW

Y GELWIR Y PUM-AWDL HYN. I DDUW.

CYFARCHAF i Dduw cyfarchwel iawn  
I foli fy rhi rhwydd rhadlawn  
Un mab Mair a bair pyrnhawn—a bore  
Ac aberoed firwythlawn  
A wnaeth coed a maes a mësür iawn  
A firwythau a doniau Duw ry ddigawn  
A wnaeth gwellt a gwydd  
A grug ym mynydd  
A wnaeth dedwydd—yr dodfryd iawn  
Ac arall ar wall ar wellic ddawn  
Yn eissiwedig ac yn ddigllawn  
Archaf i fab Duw canys digawn  
Commod o'n pechod pechu nid iawn  
A chynnwys yn naf yn arnodded  
Ir wlad eidduned myned a wnawn  
Cyfarchaf i Dduw cyfarchaf  
Ceinfolaud ardraethawd i ti a draethaf  
Neud milioedd ath fawl fodrydaf  
O'th dorfoedd ith derfyn uchaf  
Neud mi a fynwn fy naf—o'th ganiad  
O'th gariad i'th gredaf  
Neud cennyd cerdd glyd cynnelwaf  
Ced wallaw na ad wall arnaf  
Neud oedd fwy no rhaid rhad mwyaf  
Rhwyf cedyrn yn cadw ar eithaf  
Neum dychryn meddwl a feddyliaf  
O bechu a bechws Addaf  
Neud wyf alltud drud o dreigl dy wendud  
Ath wendorf am danaf  
Neud beirdd yr eglwys egluraf  
Neud eu porth a barthwyd attaf  
Neud hyfryd ny llwrw y lle a gyrchaf  
Neud gobaith wrth benrhaith rhin a geisiaf  
Brenin pob gwerin gwared arnaf  
Gwedi treiglaw byd budd arnaf  
O ganiad y tad teyrneiddiaf  
Ar mab ar yspryd glendyd gloywaf  
Yngoleuder deddf dedwydd fyddaf  
Yngwarf engylion gwirion gwaraf  
Yngwenwlad wledig nef a archaf  
Gwledig arbenig pan ith aned  
Dyfu waredd ynn dyfu wared  
Dyfu Addaf blant o blaid angred  
O anghyfraith faith o gaithiwed  
Dyfu yn gofvy on gofuned

<sup>1</sup>Iawn.—Il. P. P.      <sup>2</sup>Derbyn.—Il. P. P.

Ry ddyfu wrhydri hydr afneued  
Dyfu Grist ynghnawd priawd prifaed  
Dyfu ym mru mair mab dymuned  
Dyfu bumoed byd o boen galled  
O dwyll o dywyll trydwyll trefred  
O anghyffred gadwo gadarn—alar  
O garchar esgar pan ysgared  
Ac ef yw ein llyw an llwyr nodded  
O farn wrth ein gwath ar ein gweithred  
Ac ef Arglywydd nef tangnef tynged  
An dug o gyfrigoll pan archolled  
Ac ef dwyre ynn ac ef daered—ei fudd  
Ac ef Udd nin lluddan llessaed  
Ac ef yn osseb yr ossoded  
Yn hollowl meidrawl hawl huanred  
A roddo i Dduw ei ddegfed—oi law  
Heb luddiaw iddaw ei ddyged  
Nid wyf fardd digarodd ymdigoned  
Ar helw fy nghreawdr llywiawdr lliwed  
Mi Gynddelw geiniad rhad am rhodded  
Mihangel am gwyr am gwrthfynned  
Gwledig arbennig pan genais—honawd  
Nid ofer draethawd a rydreuthais  
Nid eissiwed ced man y cefais  
Nid ef ym crews dewys diffleis  
I wneuthur amhwyll na thwyll na thrais  
Nid ef digrefydd  
A gretto Ddofydd  
Nid ef ai cedfydd—clwyf defnydd clais  
Nid ef ddilunaw ar handdenais  
Nid ef rhoddir nef ir neb nyw cais  
Nid rhwydd yr arwydd a weinyddais  
Nid rhwy o obrwy ry obrynais  
Nid perthyn ryfyg ryfegais—im bryd  
Nid porthi penyd ryfeddyliais  
Yn adawd rheen ry deiddunais  
Rhyd im enaid rhaid rheolais  
Gwledig arbennig erbyn attad  
Er barch gogyfarch o gyfaened  
Yn ddigabl ar barabl ar ei bariad  
Fy ngerhdd ith grybwyll canwyll canwlad  
Can wyt priodawr can wyd meidriad—  
mawr  
Can wyd cynhorawr—gwawr goleuad  
Can wyd bronn broffwyd can wyd ynad  
Can wyd rieu hael can wyd roddiad  
Can wyd athro ym nam eithriad—oth fanu  
Oth faran oth irein wlad  
Nam diddawl oth fudd udd echeiniad  
Nam gwellyg ym mhlyg ym mhlaid irad  
Nam gwallaw oth law gwallus drefrad  
Nam gollwng gan llu du digarad. TERFYN.

## HIRLAS EUEIN.

EUEIN KYVEILIAUC E HUN AI CANT.

GAUR pen d6yre ga6r a doded  
Galon yn anvon anvut dynged

Geleurut ein g6yr g6edi lluted tr6m  
Tremid gov6y mur Maela6r Drevred

Deon a yrreis dygghyssed  
Diarf6yd ar vr6dydr arvau goched  
A rygot6y gle6 gogeled ragta6  
Gna6d y6 oi dygna6 devnyt coted

D6valla6 di venestyr gan vothaed  
Y Korn yn lla6 Rhys yn llys lly6 ced  
Llys E6ein ar brait yt ryborthed eirioed  
Porth mil a gly6i pyrth egored

Menestyr am gortha6 nam ada6ed  
Estyn y Korn er cyd yved  
Hiraethla6n am lly6 lli6 ton na6ved  
Hirlas i ar6yt aur i duted

A dyt6c o vraga6d gira6d orgred  
Ar lla6 Wgan dra6s dros i 6eithred  
Kena6on Goron6y g6rt gynnired g6yth  
Kena6on hyd6yth hydyr ei g6eithred  
G6yr a obryn tal ynpob caled  
G6yr ynga6r g6erthva6r g6rt ym6ared  
Bugelyt Havren balch eu cly6ed  
Bugunat cyrn met ma6r a 6na neued

Dy6alla6 di y corn argynvelyn  
Anrydetus vet6 o vet gore6yn  
Ac o'r mynni hoedyl hyd un bl6ytyn  
Na dida6l i barch can nid perthyn  
A dyt6c i Rufut 6ay6rutelyn  
G6in a g6ydyr goleu yn ei gylehyn  
Dragon Ar6ystli ar6ystyl tervyn  
Dragon O6ein hael o hil Kynvyn  
Dragon i6 dechreu ac ni6 dychryn cat  
Cyvlavan argrat cymy6 erlyn  
Ket6yr yt aethant er clod obryn  
Kyveton arva6c arvau Ed6yn  
Talassaut i met mal g6yr Belyn gynt  
Teg i hydrevynt tra vo undyn

Dy6alla6 di y corn canys amean cen-  
nyv

Yt ymgyrri6 gly6 gloe6 ymtitan  
Ar lla6 deheu ein lly6 gyvlavan  
Lluch y dan ysg6yd ysga6n lydan  
Ar lla6 Ednyvet lla6r diogan le6  
Ergyr6ay6 tryle6 trei i darian  
Tervyse dyfyse deu diovn anian  
Torrynt torred6ynt uch teg advan  
Teleir6 ynghyngrein ynghyvrn br6ydr  
Tal ysg6yd eurgr6ydr torrynt yn vuan  
Tryli6 eu pelydr g6edi pen6an  
Tryl6yn yn am6yn am6i6 Garthan  
Kigleu ym Maela6r ga6r va6r vuan  
A gar6 disgyrr g6yr a g6yth er6an  
Ac ymgynnull am drull am dram6yan  
Fal i bu ym Mangor am ongyr dan

Pan 6naeth dau deyrn heb cyrn cyvrдан  
Pan vu gyvetach Vorach Vorvran

Dy6alla6 di'r corn canys myvyr gennyv  
Men yt amygant met a'n tymmyr  
Selyv diars6yt Orsav G6ygyr  
Gogelet ai ca6t calon eryr  
Ac unmag Mada6c en6a6c Dudur hael  
Ha6l bleitiad lleitiad lluch ar ysgyr  
Deu ar6reit deu le6 yn eu kyngyr  
Deu arial dy6al deu vab Ynyr  
Deu ryt yn nyt cat eu kyvergyr  
Kyvargor diachor camp diachyr  
Arvod lle6od g6rt g6rt6an ced6yr  
Aer gunieid lunieid coch eu hongyr  
Treiser6yr yn f6yr fa6 ehgyr  
Trei eu d6y aesa6r dan un ystyr  
Gorvu g6ynt g6aetvan uch glau glasvyr  
Gort6y clau tonnau Talgarth ystyr

Dy6alla6 di venestr na vun angau  
Korn can anrydet ynghyvetan  
Hirlas buelin breint uchel hen ariant  
Ai gortho nid gortheneu  
A dyt6g i Dudur eryr aereu  
G6ira6d gyssevin o'r g6in g6ineu  
Oni da6 i me6n o'r met gorau oll  
G6ira6d o ban dy ben vateu  
A lla6 Voreitig llochiat certau  
Kertyn hyn i glod cyn oer adnau  
Dieithr vrodyr vryd ucheldeu  
Diarchar arial a dan daleu  
Ced6yr am gorug g6asanaetheu  
Nid ym hyn dihyll nam hen deheu  
Kynnivieid gyrrhieid vleinieid vleitau  
Kynvaran creula6n creulyd vereu  
Gle6 gly6 Mochnann6ys o Bo6ys beu  
O gle6 g6net arnatunt deu  
Achubieit pob rheit rhut eu harveu  
Eched6ynt rag tervyse eu tervynnau  
Moliant y6 eu rann y rei g6ynnau  
Mar6nad vu neud mi ne6id y dau  
O chan Grist mor drist 6yv o'r anaeleu  
O goll Moreitig mawr ei eissieu

Dy6alla6 di'r corn can nim puchant  
Hirlas yn lla6en yn lla6 Vorgant  
G6r a dily g6a6d g6ahan voliant  
G6en6yn y at6yn g6an edry6ant  
Areglyt devnyt dioteviant llavn  
Llyvu i deutu llym ei hamgant

Dy6alla6 di venestr o lestr ariant  
Kelennyg edmyg can urtuniant  
Ar lla6r G6estun va6r g6eleis irdant  
Ar66y Goron6y oet g6eith i gant  
Ced6yr cyvarvaeth yt ym6naethant  
Cad ymerbynieid eneid dich6ant  
Cyvarvu ysg6n ac ysgarant aer

Llas aer lloget maer ger mor lliant  
M6ynva6r o garchara6r a gyrchassant  
Meurig vab Grufyt grym darogant  
Neud oet goch6ys pa6b pan atcorsant  
Neud oet la6n o heul hirvryn a phant

Dy6alla6 di y corn ir cynnivieid  
Cena6on Euein cyngrein cydneid  
Wynt a dyrlytant yn lle honneid  
Glud men yt ant gloy6 heyrn ar neid  
Mada6c a Meilir g6yr gortyvneid treis  
Tros gyver6yr gyverbynieid  
Tariannogion torv terfysc dysgeid  
Trinheion vaon tra6s ard6yaid  
Kigleuam dal metmyned dreig Kattrraeth  
Ky6ir eu harvaeth arveu lli6eid  
Gosgort Vynyta6c am eu cysgeid  
Ka6ssant y hadra6t cas vla6t vleinieid  
Ni 6naeth a 6naeth vynghed6yr ynghalet  
Vaelor  
Dill6ng karcharor dullest voleid

Dy6alla6 di venestr vet hidlaid melus  
Ergyr6ay6 g6rys goch6ys yn rheid  
O gy n buelin balch oreureid  
Yr gobryn gobr6y6i heneid  
O'r gynniver anhun a borth cynnieid  
Nis g6yr namyn Du6 ac ai dy6aid

G6r ni dal ni d6ng ni byt 6rth 6ir  
Daniel dreig cannerth mor verth he6ir  
Menestr ma6r a g6eith yd ioleithir  
G6yr ni oleith lleith oni llochir  
Menestr met anc6yn a'n cydrotir  
G6rtlan gloy6 goleu g6rtloy6 babir  
Menestr g6elud dy g6yth yn Llid6m dir  
Y g6yr a barchav 6ynt a berchir  
Menestr g6elud dy galchdoed kyngrein  
Ynghylchyn E6ein gylch6y en6ir  
Pan breit6yd Ka6res taer6res tr6y dir  
Preit ost6ng orvl6ng a orvolir  
Menestyr nam dida6l nim didolir  
Boed ym mharad6ys in cynh6ysir  
Kan pen teyrnet poed hir eu tr6yted  
Yn i mae g6eled g6aranred g6ir Amen.  
EUEIN KYVEILYAUC EHUN AE CANT.

*Tynnyssauc Powys yttod: Owein Gwyned a Rys o  
Deheubarth au hynllygassynt]oe ulat Anno 1167  
ynteu ai henilland hi yn ol drwy gynhoorth y  
Norddmyn ar Saeson dan Harri yr 2ed.*

## EGLYNYON

A GANT TEULU YWEIN KYVEILYAUC'I  
GYLCHYAU KYMRY.

TEULU Ywein llary lluoet anhun—treis  
Yn eu traws arovyn

Fyrt kyrt kyueteu duhun  
Pa fort yt awn o vortun  
Dos was yn ebrwyf heb roti—geirda  
Yr gwra y sy yndi  
Dywan wan trywan trwydi  
Dywed an dyuod y geri  
Dos was o geri ac archwn wrthid  
Rac an lliad an llochi  
Diwet y doetham i ti  
Dywed y down arwystli  
Dygychwyn gennad gan vawrydic—doryf  
Y deruyn keredic  
Dywan ar wyllt ar wallt pic  
Dywed y down benwedie  
Dos o benwedie boen ouyt—gennad  
Gan yth wna kewylt  
Dywan ar gynan gynyt  
Dywed y down veiryonnyf  
Dygychwyn gennad gyuyll mordwy—gwyrf  
Gordyar y gylchwy  
Dywan yr traean tramwy  
Dywed y down Ardudwy  
Dygychwyn gennad gein deruyn—y wlad  
A wletychwys meruyn  
Dos y west ar nest neuyn  
Dywed an dyuod leyn  
Dygychwyn gennad o gylch dragon—llary  
Lluossawc y galon  
Dos varchawc aruawc aruon  
A dywed an dyuod von  
Teulu ywein hael hawl dioleith—lloegyrr  
Lluossawc am anreith  
A ennr wedy hirdeith  
A annwny yn ros nosweith  
Dos was y gennyf ac nac annerch—nep  
Ony byt uyg gorterch  
Dywan ar vuan veinerch  
Dywed an dyuod lannerch  
Dygychwyn gennad gadyr ardal—teulu  
Teilwg met o vual  
A dywan dyno Bydwal  
A dywed an dyuod yal  
Kychwyn yw theruyn pathawr—eu hoewet  
Hirvelyn eu gwaewawr  
Dywan diw calan yanawr  
Dywed an dyuod uelawr  
Dos was na olut na oleith—dy lwrw  
Dy lutyaw nyd hawtweith  
Dywan o vaelawr vawrdeith  
Dywed an dyuod gynlleith  
Dos was a chyghor na chygein—an toryf  
Ual teiluoet bychein  
Dywan dwe rybut hytwein  
Dywed an dyuod uechein  
Teulu ywein rwyf rwystrassam—wladoret  
Poed gwlad nef a welam<sup>1</sup>  
Kyrch kyfrwyf kyflwyf adlam<sup>2</sup>  
Kyleh kymry kymerassam

<sup>1</sup> Ein adlam.—Ll. Coch.    <sup>2</sup> Cyflam.—Ll. Coch.

## MARWNAD YWEIN GWYNET.

DANYEL AB LLOSGWRN MEW AE K.

OCHAFY duw o dyuod y leith  
 Llyw gwynet ac gwyndy obeithe  
 Ochaf duw na daw ef eilweith  
 Ymyd ymydawl ossymdeith  
 Diouryd ewein dygyn a weith  
 Y vubyn gwynet ae metueith  
 Nyd oet wr dwy awr dwy areith  
 Wrth neb ny thorrid gyfreith  
 Gwr a wnaei ar lloegyr llwyr anreith  
 A dwyn y dynyon yn geith  
 A chwytauw raddaw rif seith—riallu  
 Ny ellid y oleith  
 Oet gwr hael rac gwael rac gwynyeith  
 Oet kymreisc oet kymry dyleith  
 Oet ysgwnn oet twnn taleith—y daryan  
 Oet cadarn kyuarweith  
 Drwc y lliw y llaw oet benreith y luoet  
 Kyhoet kanhymdeith  
 Nym arwar na char na chyweith — nym  
 arha  
 Aros agkyuyeith  
 Am retyf angor dyuynuor diffeith  
 Yd lysc vy ghallon yg cof meith  
 Mal y llysc gwynnaawn gan oetheith  
 Ny thawn pei bytwn keluyt  
 O uoli mab duw diwenyt  
 Kyn yn dwyn yn herw yn herwyt—  
 daear  
 Yn herwr ar douyt  
 Moch gwnelwyf mal y gwna dedwyf  
 My a duw diheu gerennhyt  
 A welei Ewein yn lluyt—yn lloegyr  
 Yn llosci y threuyt  
 Gwelei doryf ar doryf y gilyt  
 Gwelei daryf ar dyrrua osswyf  
 Ny weled o gred a betyt—etwa  
 Y gynna gystetlyt  
 Ny wnaeth duw neb dyn dwywawl fyt  
 Ny maeth mam mab y heuelyt  
 Mi nyd wyf lawen o lewenyt—bryd  
 Am bryder yr vndyt  
 Am ewein am dwyrein dyrllyt  
 Am deyrn am gedyrn gyduyt  
 Am rotes meirch re rewyt a danaf  
 Neud nad ef ae dyryt  
 Mi nym dawr ken del dros eluyt  
 Llanw o uor a llif o uynyt  
 A mi bei gallwn yngeryt—a duw  
 Yt oet ym y defnyf  
 Dwyn uy rwyf a dwyn uy rihyt  
 Dwyn uy ner uy nenn kyweithyt  
 Yny wyf hynwyf hyneuyt—galar  
 Yn auar yn ouyt  
 Cof Ewein ym callon yd uyt  
 Diunner vcher ac echwyf

## GWYNNUART BRYCHEINYAWC

A GANT YR AWDYL HONN YR ARLWYT RYS.

VYN duw vyn neirthiad uad rad rannu  
 Vyn nerth am kannherth ym kynytu  
 kynneir om cadeir cadarn ganu rys  
 Kymry wrys ysbyz ysbyd wetu  
 Kynwan coryf rac toryf twryf elyflu  
 Kynrabad kyncad wlad wletychu  
 Kymhendraws kyghaws kygretyf morgym-  
 lawt  
 Kymhentawt canelawt uar ulawt ulaen  
 Kymhendreic penn eic yn pennaethu  
 Kymhenaf pennaeth yr wnaeth yessu  
 Kymhendoeth a choetha chaeth yr molyant  
 Pebyrdor pedrydant pebror gylehu  
 Kymhenrwyf gyfirwyf gyfirwys tra haetu  
 Kymhenreith gyfreith gobeith pob tu  
 Kymhenvrwydyr am vinwydyr pan eur-  
 grwydyr wasgar  
 Seri gyuarpar sathar sathru  
 Seith wyr ser gyfnifer am ner a vu  
 Seith cad a seith cant seith riallu  
 Wyth cad ac wyth cant ac wyth teulu taer  
 Cannhaer am cancaer kyn hetychu  
 Naw cad a nawcant gormant gorfw  
 Dec cad a dec cant deccaf a fv  
 Yscafyn niuer rys yn llys dinefwr fyrt  
 Myrt gyrth glydwr glod chwennyachu  
 Fort wosgord diwosgort diwasgaru  
 Fort aergun odorun wadwryf teulu  
 Fyrt kerteu a threthau a thraethu molawd  
 Milyoet wawr wasgawd wennawd  
 wetu  
 Fwyr dra fwyr dra llwyr dra lloegyr vethlv  
 Frawt dra frawt dra chawt drachynhennv  
 Frwst dra frwst dra thrwst tretheu o lun-  
 dein  
 Traethadur prydein wyf yn prydu  
 Treis tra threis tra thraws tra threun  
 gyrchu  
 Twryf tra thwryf tra thoryf tra tharyf  
 raedu  
 Tew tra thew dra thro o dra thrychu trin  
 A gwaedlin am deulin yn yn gwaneu  
 Taer tra' thaer am drom aer drwm gymynu  
 Am deruyse am deruyn am deruynu  
 Am biw deifyr dewr escor yt ysgymu hael  
 Ac am dreth diunmael trauael tri llu  
 Am deyrn am gedeyrn heyrn heu  
 Am degeigyl am dir eingyl yn ymdyrru  
 Am gydurawd medrawd myrdin darogan  
 Am orwyr kyanan kert echlyssu  
 Am dyfyrdwy am ordwy wrt disgynnu  
 Am hafren am orten am wrt luestu  
 Am hyfryd kymryd kymry ben baladyr  
 Am aber taradyr yn tremynv  
 Am byrth ysgewin yn goresgynnv  
 Am borth wygyr y mou yn menestr

## CANU Y DEWI.

GWYNNUART BRITCHEINYAWG AE CANT.

AM roto dyuot dedwyt deweint  
 Awen gan awel pan del pylgeint  
 Awyt boet kyfrwyt kyfreith bartoni  
     Kynnelw a dewi y deukymeint  
 Ny dily corn met keion metweint  
 Bart ny wypo hwn lynny dy geint  
 Nyd ef y canaf can digyofeint—uymmryd  
     Namwyn mi ae pryd kywyd kyweint  
 Ys mwy y canaf kyn no heneint  
 Canu dewi mawr a moli seint  
 Mabsant syw gormant gormes heint—ny ad  
     Na lledrad yn rad rwyd ysgereint  
 Yssid rad yny wlad a mad a meint  
 Yg gyfoeth dewi difefyl gereint  
 A rydid heb ofud heb ofyn amgen  
     Heb ofal kynhen kylch y beneint  
 Onyd bleit a dreit drwy y wythneint  
 Neu hyt goruynyt rewdt redent  
 Ef kymerth yr duw dioteifeint—yn dec  
     Ar donn a charrec a chadw y vreint  
 A chyrcu ruuein ran gyreifeint  
 A gwest yn efrei gwst diamreint  
 A gotef paluawd dynrawd trameint  
 Y gan vorwyn difwyn diwyl y deint  
 Dialwys peirglwys pergig dyfneint  
 Ar ny las llosged lluoet llesseint [vreint  
 Dyrchafwys brynn gwynn breinyawl y  
 Yg gwyt seith mil mawr a seith vgeint  
 Archafael kaffael gan westeifeint  
 Dyrchafwys dewi breui ae breint  
 Y freint wrth y vryd yn vreinyawc y ssyt  
     Ae eluyt yn ryt yn rietawc  
 Ar iwerton wlad ys rad rannawc  
 Ar deheu ef bieu a phebidyawc  
 A phobloet kymry a gymer attaw  
     Ac a ryt yn llaw llwyr deithyawc  
 Tra el yn erbyn yrparch nodawc  
 Padric ae luoet yn lluosawc  
 Ac ef an gwrthuyn wrth nad ofnawc  
 Ar drugaret Duw ar drugarawc  
 A garo dewi da diffreidyawc  
 A gaho ae caro ual caradawc  
 A garo ual Dewi deu eiryawc na wid  
     Na chared na lliid na lleidyr difyawc  
 A garo dewi diofredawc  
 Cared efferen len lawerawc  
 A garo dewi da gymydawc  
 Cared ymward ac yghenawc  
 A garo dewi ual difutyawc doeth  
     Ry gelwir ef yn goeth yn gyuoethawc  
 Deu ychen dewi deu odidawc  
 Dodyssant hwy eu gwarr dan garr kynawc  
 Deu ychen dewi vrterchawc oetynt  
     Deu gar a gertynt yn gyd preinyawc  
 Y hebrwg anrec yn redegawc  
 Y lasgwm nyd oet trwm tri vrtassawc

Edewid bangu gu gadwynawc  
 Ar deu ereill ureise y orycheinyawc  
 Ban del goyn arnam ny rybytwn ofnawc  
 Rac gormes kedeirn cad dybrunawc  
 Ar duw a dewi deu niuerawc  
 Yd gallwn bressen bresswyluodawc  
     Amen.  
 Breinhyawl uyth uydaf ban delwyt yno  
     Ny byt yn eu bro a bryderwyt  
 Gwelafy offeiryeid coetheid canhwyt  
 Canaf eu molyant men y delwyt  
 Gwelafy wir yn llwyr a llewenyt mawr  
     A llen vch allawr heb allu clwyf  
 Gweleisy am vcher vchel eu rwyf  
 A gwraget rianet rei a garwyf  
 Gweleisy glas ac vrtas vrtedie haelon  
     Ym plith dedwytyon doethyon dothwyt  
 Ym plwyf llan dewi lle a volwyf  
 Yd gaffwyf y barch kyn nys archwyf  
 Ac o bleid douyt diheuuart wyf  
 Ac ar nawt dewi y diaghwyf  
 A digoneisy o gam o gyglwyf difri  
     Y duw a dewi y diwykwyt  
 Canys dichawn dewi nys dichonwyf  
 Gwnaed eiryoled ym an a archwyf  
 Archaf rec yn dec a digeryt wyf  
     Y erehi yn rwyf rwyf gerenhyt  
 Y duw gessefin dewin dofyt  
 Ac y dewi wynn wedi douyt  
 Dewi mawr mynyw syw sywedyt  
 A dewi breui ger y broyt  
 A dewi bieu balchlan gyfelach  
     Lle mae morach a mawr greuyt  
 A dewi bieu bangeibyr yssyt  
 Meidrym le ae mynwent y luosyt  
 A bangor esgor a bangeibyr henllann  
     Yssyt yr cloduan yr elyd ywyt  
 A maenawr deifi dioruynyt  
 Ac aber gwyli bieu gwylwyt  
 A henuyniw dec o du glenuyt aeron  
     Hyfaes y meillyon hyfes goedyt  
 Llann arth llan adneu llanneu llywyt  
 Llann gadawc lle breinyawc rannawc rihyt  
 Nys arueit ryuel llann uaes lle vchel  
     Nar llann yn llywel gan nep lluyt  
 Garth bryngi bryn dewi digewilyt  
 A thrallwg kynuyn ker y dolyt  
 A llann dewi y erwys llogawd newyt  
 A glascwm ae eglwys gyr glas uynyt  
 Gwyteluod aruchel nawd ny achwyt  
 Kreic vuruna dec yma tee ymynyt  
 Ac ystrad uynhid ae rydid ryt  
 Rotes duw dofyt defnyt oe voli  
     Dewi ar ureui uryu llewenyt  
 Ragor mawr vch llawr rac lluosyt  
 Penn argynan coned cred a bedyt  
 A bod oe gylchyn kylch y veysyt  
 Haelon a thiryon a thec drefyt  
 A gwerin a gwin a gwirodyt



A goruod gwared lliwed llonyt  
 Llwyth daniel oruchel eu hefelyt  
 Nyd oes yn cadw oes a moes a mynydyt  
 Llwyth maryed mawretus eu merweryt  
 Gwell pob vn duun dewr noe gilyt  
 A dewi an differ an diffyn uyt  
 Ae wyrth an diffyrth rac pob diffyt  
 A dewi an gweryd rac kryd keryt pechawd

Y maes maestawd dytbrawd dybyt  
 A dewi ae goruc gwr bieityt  
 Magna uab yn uyw ae uarw deudyt  
 A dewi ryweled yny rihyt  
 Ual kyfliw a heul hwy splenhyt  
 Yssid a dewi da gyweithyt  
 Wrth wann a chadarn a chadw y prydyt  
 Ac itaw y mae mal y dedwyt  
 Dedwytyon breui yny broyt  
 O vedru canu coeth anrec y hael

Kefeisy archafael kaffafy ostec  
 O gyrcu breui breint ehedec  
 Dym gorden yn llawen llawer gosteg  
 Y voli dewi da gymraec ehofyn  
 O rot bryd a bronn o brydest chwec  
 O brydest dyllest dull ychwanec  
 Y vreui a dewi doeth gymraec  
 Diogel y nawt yr neb ae kyrcho

Diogan y uro diogywec  
 Rac creiryu dewi yd gryn groec  
 Ac iwerton tiryon tir gwytelec  
 O garawn gan yawn gan ehoe  
 Hyd ar dywi auon uirein a thec  
 Or llyndu lled vu llid gyhydrec  
 Hyd ar twrch teruyn tir a charrec  
 Dothyw y dewi deheuparthee beir

Y dial ual diweir dwyn y warthee  
 Dothyw y dewi yn deheuec  
 Gan borth duw porth dyn yn diatrec  
 Dothyw y dewi diffreidyad tec  
 Rys mawr mon wledic reodic rec  
 Ry metyleisy hynn y honni vrtawl

Y vrtas anvedrawl a vedyr roti  
 Rwyd radeu bieu beirt iw voli  
 A llen a llyureu a llenn bali  
 Pan deuth o freinc franc o erchi  
 Ychyd rac clefyd rac clwyf delli  
 Wynepclawr ditawr dim ni weli  
 Pefychwys tremwys drwy uot dewi  
 Merch brenhin dwyrein doeth y vreui  
 A phryd a gweryd y gyd a hi  
 Wrth glywed dahed tyghed dewi  
 Ae vuchet wiryonet wirion ynni  
 A el ym medrawd mynwent dewi  
 Nyd a yn vffern bengwern boeni  
 A pheulin a pheunyt yggorelwi  
 Y geisyaw diffryd yd eerwi  
 Ny allwys gwerin gwared iti  
 Hyd ban y gwarawd gwirion dewi  
 Ac adar ae haroy nyd arhoynt wy neb  
 namwyn dewi

Ar ef ae dytuc oll heb eu colli  
 Yn vn ysgubawr vawr ar llawr llenwi  
 Pan del ryuel a rwys fichti  
 Ros eluyt pob kelwyt geilw dewi  
 A gwrthen a oruc gwerthuawr dewi  
 Bu obeith canhweith kyn noe eni  
 Danvoned itaw ditan perchi  
 O nef dec adef adwyn westi  
 Allawr dec ny eill dyn disgwyl arnei  
 Ychwanec kyuoeth kreuyt peri  
 Kredwch a glywch kedwch dewi  
 Yn ych llaw a llu y byd gyd a chwi  
 Ar uagyl eur y phenn flowch reedi  
 Val rac tan tost yd wan tyst duw iti [peri  
 Ae vreich ureise ae vryn gwyn vchaf vchel  
 Arllech dec dros wanec a thros weilgi  
 Ae dytuc dybu duw wrth y throssi  
 Ac nad bo yny uro Lreint a theithi  
 Eithyr tri mwc yn amlwc oe amlenwi  
 A uynn duw dybyt byth wy voli  
 A uynno noted kyrched dewi  
 Duw a volaf yr eiryoled ym

Kany allafy dim heb duw trined  
 Dewi yn ehag yn rann rwygted  
 Ac yn yg dietig dewi wared  
 Dewi mawr ar y mor mynych noted  
 Ry gelwir ar y tir rac dy wrthred  
 A gwestua y dewi gwestei roted  
 Ar pob sant gormant geugant gonod  
 A dewi ae treitywys tros tydwed eluyt

Ar saint sywedyt dedwyd dyghed  
 Ac y uynyw ethwyf eithaf dyued  
 A theyrnet ethynt a theyrned  
 Ar uab nonn haeluronn hawt ogoned  
 A dewi uab sant syndal duted  
 Dewi mawr myniw mad y gweled  
 Penn ar gynnaan bedyt crefyt a chred  
 Ny chronnes rotes radeu wallofyad

Ruteur a dillad uad uerthideu  
 Ny cheffid gan naf nac oe eneu  
 Ny chaffad gwrthep namwyn gwyrtheu  
 Gwrthebed hyged y hygleu gertawr

Gwyrthuawr briodawr briawd detfeu  
 Or daw llyghes drom drwm y geiryu  
 Y geissyaw kymraw kymryd preityeu  
 Rwg mynyw ar mor mawr a droeu  
 A uyt ar eu llu wy lliw dyt goleu  
 Collant ar llygeid ar eneidyeu  
 Ny welant na liant nac eu llogeu  
 A chyghor a wnant a chennadeu  
 Y hebrwg itaw ebrwyd dretheu  
 Trydy pla wytyl afwyt diheu  
 Try dybut mynyw mynawc bieu  
 Peufydwys trefnwys diffwys trefneu  
 Yn amgant hotnant ormant oreu  
 O anuot boia<sup>1</sup> bu diamheu  
 Y doeth ef y uynyw syw synhwyreu [eu  
 Keisswyd kythreulaeth gwaeth gweithred-

<sup>1</sup>Bora.—Ll. Coch.

Ny allwyd a unnywyd methlwyd wynteu  
 Ellygwys gwraget eu gwrecysseu  
 Rei gweinyon noethon aethan vateu  
 Y gwerth eu gwrth warae gwyrth a oreu  
 Kertassant gan wynt ar lynt agheu  
 Edewis padric drwy dic dagreu  
 Lloneid llech llauar hygar hygleu  
 Pan aeth y werton y wyrth ynteu  
 Ac eigyl raddaw draw dra thonneu  
 A duw ae myunwys myniw y dewi

Kyn geni yn ri y enryueteu  
 Pan pregethwys hael pregeth oreu  
 Ual corn yd glywid gloyw y eirieu  
 Kyn syrthei urwynen ar uryneuo o nef  
 Neuoet y gadeu oe hanoten  
 Ny syrthei yr llawr uawr uilltireu  
 Namyn ar dyn vrtawl vrthynt seinhyeu  
 A dewi oet bennaf or pennaetheu  
 A duw yn gwybod y deuodeu  
 Ac ef oet vchaf yr yn dechreu byd

A hefyd kertynt ygyd a ninheu  
 Dewi differwys y eglwysseu  
 Dichones rac gormes gormant greiryu  
 A phynnawn dewi ae phynnhonneu llawn  
 Llawer vn radlawn frwythlawn frydeu  
 Ac ol y uarch ae ol ynteu

Ys adwaen y maen y maent ell dev  
 Yssid hynn ar vrynn gwynn goleu vchel  
 Gan ochel drygoet drygweithredu

Mynogi a pherchi a pharch beinkeu  
 Yn eglwys a chynnwys a channwyllau  
 Yssid gyfetach gan gyfeteu  
 A charu duw yn drech no phennaetheu  
 Yssid gan vnbynn vnbarch dynolaeth  
 Yssid vnbennaeth vnbenesseu

Yssid escob llary uch alloreu dewi  
 Pym allawr breui breint yr seinhyeu

Ac y uoli dewi dothwyf yr deheu  
 Boed doeth uon am clyw am gwerendeu  
 Y gwr a volaf gwir ogonet  
 Ny wnaeth na gwaeth na gwythlonet  
 Namyn o bell dygymhell gwell gwiryonet  
 A dygynnnull seint yny senet  
 Seint angaw a llydaw llu edrussset  
 Seint lloegyrywys ac iwys a seint y gocelet  
 Saint manaw ar anaw ac ynysed  
 A seinhyeu powys pobyl enryuet  
 Seint iwerton a mon a seint gwynet  
 Seint dyfneint a cheint a chynnattled  
 A seint brycheinyawc bro hywret  
 A seinhyeu maelenyf eluyt uannet  
 A seinhyeu present worment turet  
 Dy buant y gyd yn vn orsset  
 Y urei ar dewi da y vuchet  
 Y gymryd dewi dy gymrodet  
 Yn bennaf yn deccaf or teyrnet  
 Or digonsam ny gam o gymaret  
 Kyuodwn archwn arch diomet  
 Drwy eiryoled dewi a duw a uet

Gwae anad gwennwlad gwedy masswet  
 Drwy eiryolet meir mam radlonet  
 A mihagel mawr ym pob aruet  
 Dychyferuytwn ny lu am y laryet  
 Dycheferuytwn ninheu am drugaret

## EGLYNYON

A GANT GWILYM RYUEL E DAUYT UAB YWEIN.  
 HANPYCH well dauyt dawn gaffael fal turn  
 Teyrnged or israel  
 O duw deon archauael  
 Ac o dyn hawl erwyn hael  
 Hael vt cletyfrut clod ueith nam gwrthod  
 Mawr wrthyd vgy gobeith  
 Anaw dreullyaw drin wosbeith  
 Enw bell hanpych gwell ganhweith  
 Cannhweith mal vn weith cnw bell o hanawd  
 Heneuyt bro hiryll  
 Hanbwyllleis gemeis gymell  
 Hanbwyll o hanaf hanbych gwell  
 Hanbych gwell dauyt &c.

## EGLYNYON DADOLWCH

A GANT GWILYM RYUEL E DAUYT VAB EWEIN.  
 DAUYT uab ywein bwyf vn uryd a thi  
 Yth dewruawr anwylyd  
 Cas cart kertoryon venwyd  
 On trydar trydyt hael byd  
 Dy vyd wrth dy vryd vranhes oborthyant  
 Wyd berthdud oddiwes  
 Dawn kyflawn kywlad ormes  
 Dauyt duw yty ae rotes  
 Rotes duw dri dawn y drin wychyd naf  
 Nerth erewllf ywr trydyt  
 Doethineb sselyf yssyt  
 A phryd adaf ar dauyt  
 Nyd gnawd yt dauyt nad ei bryd am vut  
 Yn votlawn y gennhyd  
 Gnawd ytt dreic dragon wynnuyd  
 Dygant rutaw am gant ryd  
 Ryuet eithyr gwynet gwenwyngawt kywlad  
 Kyn kyflechwyf rynnawt  
 Uym myw am uy llyw nym llawt  
 Uymryd nyd hyuryd hyd hawt  
 Hawt y bawb a thi yth wyneb am vut  
 Ymueitiaw am attep  
 Yth aruod ossod ossep  
 Yth arueu nyth arueit nep  
 Neb ny oruc duw wrhyd benlli gawr  
 Bannllef beirt yth uoli  
 Trin elyn tranc arglwyti  
 Treul metgryn teyrn val ti  
 Tidi o mynny ym einyoes arglwyti  
 Erglyw vi yth gynnoes

Hebawc bryn brenhin eiryoese  
 Hebu ym hebod nid oes  
 Nyd oes ym dauyt dawn oruod ar bawb  
     Arbennigyawl hebod  
 Cadyr rwyf cadarn glwyf glybod  
 Can llonyt byw vn dyt bod  
 Can uod yn wirion wrhyd hywlyt hir  
     Y archaf ytt dauyt  
 Dygen vt llaweu llawryt  
 Dygant dreic py gerennhyt  
 Kerennhyt herwyt or ua (er na) heteis val  
     Ar vreyenhin kemeis  
 Y harchaf llary naf lledneis  
 Llyw gwryaf trin eithaf treis  
 Treis dwyn glyw asswyn glew essayng oual  
     Ofyneic maelgynig  
 Mab ywein coeluein coeling  
 Mawrad gwallouyad gwellyg  
 Gwell genuhyf arnaf ernyw elyn lloegyr  
     Walloyad eur melyn  
 Noth uar uawret gar ganlyn  
 Bar y ssy ar y daear o dyn  
 Dyn wyt galon rwyd goleu y deruyn  
     Nyd arueit nep y teu  
 Duw ath wnaeth or pennaetheu  
 Yn orofyn pawb yn oreu  
 Goreu vn goreu gerennyt y dyn  
     Yr honn duw tragywyt  
 A goreu eil gerennyt  
 Wedyn ronh duw roun dauyt

---

HYWEL VAB YWEIN A GANT  
YR AWDYL HONN.

KARAFY gaer wennglær o du gwenylan  
 Mynyd gar gwylded gweled gwylan  
 Ydgarwny vyned kenym kared yn rwy  
     Ry eitun ouwy y ar veigann  
 Y edrych uy chwaer chwerthin egwan  
 Y adrawt caru can doeth ym ran  
 Y edryt uy lleduryd ae llet ourwy  
     Y edryt liwy lliw tonn dylann  
 Llifiant oe chyfoeth a doeth atann  
 Lliw eiry llathyr oeruel ar vchel uann  
 Rac ual ym cotidy yn llys ogryuann  
 Chweris oe hadaw hi adoed kynrann  
 Ethyw am eneid y athwyf yn wann  
 Neud athwyf o nwyf yn eil garwy hir  
     Y wenn am llutir yn llys ogryuann

---

HYWEL AB YWEIN AE CANT  
YR AWDWL HON.

CARAFY gaer ualchweith or gyuylchi  
 Yny bylch a balchlun vy hun yndi

Enwawc drafferthawc a dreit iddi  
 Anwar don lauar leuawr wrthi  
 Dewisle lywy loyw gydteithi  
 Glaer gloew y dwyre o du gweilgi  
 Ar wreic a lewyh ar eleni  
 Ulwyddyn yn ynyal aruon yn eryri  
 Ny dirper pebyll ny ssyll pali  
 Nep a rwy garwy yn uwy noti  
 Pei chwaerei y but yr barddoni  
 Nebawd nossweith y byddwn nessaf iddi

---

HYWEL AB YWEIN AE CANT.

ASSWSISWNY heddiw uarch gloywliw glas  
 A threiddyaw arnat geinwlat gynlas  
 Y haeddu daddyl ucith kyn lleith lleas  
 Gan hwn arlludyaw hoen arlludyas  
 Ac ym bei arwyd yr yn was etmyc  
     E lliw oed debyc gwenyc gwynlas  
 Hiraythawc vyg kof yg kyweithas  
 Hoet yrddi a mi genti yn gas  
 Kyt gwnelwyf ar ddyd yrdd o uolyant  
     Nym gwna poen rwydyant bodyant  
     ba dras  
 Tonn a gallonn honn oet a gavas  
 Yr twf mein rien rwdetur wanas  
 Nyt ydyw heddyw nyd hu adas vym porth  
     Yn ymyn yd oed vym perthynas  
 Or a vn mab duw o deyrnas nef  
     Kyn addef goddef gwae ui nam llas

---

HYWEL AB YWEIN AE CANT.

PAN vei lawen vrein pan vryseyi waed  
     Pan wyar waryei  
 Pan ryuel pan rudit e thei  
 Pan rudlan pan rudlys losgei  
 Pan rudam rudflam flemychei hyt nef  
     Yn addef ny noddei  
 Hawd gwelet goleulose arnei  
 O gaer wenn geir emyl meni  
 Treghissant trydydyd o uei trychanlog  
     Yn llyghes vordei  
 A deckant kyman ae kilyei  
 Kyuaryf heb vn varyf ar venei

---

HYWEL AB YWEIN AE CANT.

PYM vecher vchet pan achubet freinc  
     Pann faraon foet  
 Pan vu yryf am gyryf am galet

Pan vei aryf am varyf a wryyet  
 Yng goet gorvynwy yng gordibet lloegyr  
 A llygru y threfet  
 Llaw ar groes llu a dygrysset  
 A llad a lliwet a gwaetlet y lauy  
 A gwaetliw ar giwet  
 A gwaetlenn am venn a vannet  
 A gwaetlan a grann yn greulet

---

## HYWEL VAB YWEIN AE CANT.

VYN dewisy rein virein veindec  
 Hirwen nny llenn lliw ehoc  
 Am dewis synhwyr synhyaw ar wreicyeit  
 Bau dyweid o ureit weteit wouec  
 Am dewis gydran gyhyd rec a bun  
 A bod yn gyurin am rin am rec  
 Dewis yw gennyfy hartliw gwanec  
 Y doeth yth gyuoeth dy goeth gymraec  
 Dewis gennyfy di beth yw gennyt ty ui  
 Beth a dewi di dec y gostec  
 Dewisseisy vun ual nad attrec gennyf  
 Yawn yw dewissaw dewistyn dec

---

## GORHOFET

### HYWEL VAB YWEIN E HUN AE CANT.

Tonn wenn orewyn a orwlych bet  
 Gwytua ruuawn bebyr benn teyrnet  
 Caraf trachas lloegyr lleurdir goglet hetiw  
 Ac yn amgant y lliw lliaws callet  
 Caraf am rotes rybuced met  
 Myn y dyhaet myr meith gywrysset  
 Caraf y theilu ae thew anhet yndi  
 Ac wrth uot y ri rmysaw dyhet  
 Caraf y morfa ae mynytet  
 Ae chaer ger y choed ae chein diret  
 Ae dolyt ae dwuyr ae dyffrynnet  
 Ae gwylein gwynnyon ae gwypm wraget  
 Caraf y milwyr ae meirch hywet  
 Ae choed ae chedyrn ae chyannet  
 Caraf y meusyt ae man veillyon arnaw  
 Myn yd ganas faw fyryf oruulet  
 Caraf y brooet breint hywret  
 Ae diffeith mawrueith ae marannet  
 Wy a un mab duw mawr a ryuet  
 Mor yw eilon mygyr meint y reuet  
 Gwneuthum a gwth gwaew gweith ar  
 derchet  
 Y rwg glyw powys a glwys wynet  
 Ac y ar welw gann gynnif rysset  
 Gorpwyf ollygdawd o alltudet  
 Ny dalyaf diheu nny del ymplaid

Breutwyd ae dyweid a duw ae met  
 Tonn wenn orewyn a orwlych bet  
 Tonn wenn orewyn wychyr wrth dreuyt  
 Gyfliw ac arien awr yd gynnny  
 Caraf y morua y meiryonny  
 Men ym bu vreich wenn yn obennyt  
 Caraf yr eaws ar wryyaws wyt  
 Yg kymer deu dyfyr dyffrynt iolyt  
 Arglwyt nef a llawr gwawr gwyndodyt  
 Mor bell o geri gaer lliwelyt  
 Esgynneis ar velyn o vaelenynt  
 Hyd ynhir reged rwg nos ymy a dyt  
 Gorpwyf kyn bywf bet butei newyt  
 Tir tegygyl teccaf yny eluyt  
 Ked bywfy karyadawc kered ouyt  
 Gobwylled uy nuwy uy nihenynt  
 Tonn wenn orewyn wychyr wrth dreuyt  
 Cyuarchaf yr dewin gwertheuin  
 Gwerthuawr wrth y uod yn vrenhin  
 Kyssylltu canu kysseuin  
 Kert uolyant ual y cant mertin  
 Yr gwraget ae met uy martrin mor hir  
 Hwyr wetawc ynt am rin  
 Pennaf oll yn y gollewin  
 O byrth caer hyd borth ysgewin  
 Vn ywr vun a uyt kysseuin uolyant  
 Gwenlliant lliw hafin  
 Eil ywr llall or pall pell uy min y wrthi  
 Y am orthorch eurin  
 Gweiryul dec uy rec uy rin ny geueis  
 Ny ganas neb om llin  
 Yr uy llat y a llafneu deuin  
 Rym gwalaeth y gwreic brawdaueth bren-  
 hin  
 A gwladus wetus wyl uebin vab wreic  
 Gouyneic y gwerin  
 A chenaf ucheneid gyfrin  
 Mi ae mawl a melyn eithin  
 Moch gwelwyf am nwyf yn etein y wrthaw  
 Ac ym llaw uy llain  
 Lleucu glaer uy chwaer yn chwerthin  
 Ac ny chwart y gwr hi rac gortin  
 Gortin mawr am dawr am daerhawd  
 A hiraeth y sswaeth yssy nawd  
 Am nest dec am debic afallawd  
 Am berweur beruet uymhechawd  
 Am enerys wryr ny warawd ym hoen  
 Ny orpo hi diweirdawd  
 Am hunyt defnyt hyd dytbrawd  
 Am hawis uy newis deauwd  
 Keueisy vun duun diwyrnawd  
 Keueis dwy handid mwy eu molawd  
 Keueis deir a phedeir a ffawd  
 Keueis bymp o rei gwypm eu gwyngnawd  
 Keueis chwech heb odech pechawd  
 Gwenglaer vch gwengaer yt ym daerhawd  
 Keueisy seith ae ef gweith gordygnawd  
Undec teir person

Uch Archegylyon

Un donyon neiuon

Nerth heb dreughi

Undanc uynt urthyf urth eu moli

Un duu ynt uynteu a diheu tri<sup>7</sup>

Truan o anyan ynni o ampwyll

Tracharu present pres ganhyuyll

Tramoed om daun duu y gymhuyll

Tremynid uy mryd ym mrad a thuyll

Trugarauc douyt

Treihau uyg keryt

Hyd na buyf heruyt

Kreuyt kertdwyll

Credaf Crist neuoet neuct gannuyll

Cein vedyt uyn duu yn diu ystuyll

Ystwyll ystyryus deus defnyd

Dirnad digymrad gymryd bedyt

Delyessid yeuan yeuange deduyt

Diheu uab Duu nef yn dufyr echuyt

Achaws y dyfu

Vchel vri ym mru

Meir yr maurhav

Llu llyuenyt

Llauen uyt reen yny rihyt

Ry cherir yn hir yny heruyt

Hi yn vam uy thad

Hi yn uyry heb uad

Hi yn hollaul rad

Yn rec ouyt

Hi yn uerch uy mab y mot yssyt

Hi yn chuauer y duu o duyuaul fyt

Hi a haut borthes lles llin yenhyt

Rac lluyth uyth bechaud priaud prifuyt

Prynessid mab Duw mad gerennyht

<sup>1</sup>Traethaf ar mafor meint <sup>2</sup>A chynnif.—Ll. D. D.

y ynni.—Ll. D. D. <sup>3</sup>Ny belli.—Ll. D. D.

<sup>4</sup>Hwyllyaw.—Ll. D. D. <sup>5</sup>Dyma y diwedd mewon

<sup>6</sup>Diwynhi.—Ll. D. D.

<sup>7</sup>Present diled.—Ll. D. D.

rhaf Ugyrau.

Ernuy goyguy gobruy gobryt  
 Pryderun gyfnod dyuod douyt  
 A dafneu oe greu ar y groguyt  
 Kredassant oe dau yn diuenyt  
 Deudec ebostol dethol doethulyt  
 Credun eu hyduod<sup>1</sup> ac nyd aduyt  
 Yn vndaud drindaud yn draguyt  
 Traguytaul Duu tra gyuanuyf  
 Traethaud o honaud a handenuyf  
 Or drun ry loueist ry lauaruyf  
 Yn affleu y geu a gyuytuyf  
 Ac yn rynnaut fraut fraeth yt aduyf  
 Yn vrdas heb dias dros a bryduyf  
 Am bryd ar gymryd gymraut am nuyf  
 Kyuarus mynnus men y kaffuyf  
 Ac yssy mi Dyu a diuykuyf om druc  
 Oe drugaret kyn mi traghuyf  
 Ac am gunel peryf pan beriglyuf  
 Perfeith ueith ouec a dec daluyf  
 Teilygdaud адауд адеф гуирин  
 Treithitor tra mor tra maur deruyn  
 Tirrygmyrth Crist o groes eduyn kethri  
 Truy am rygolli daeoni dyn  
 Duu am duc yno anau dremhyn  
 Tramuy carady kaerua urtyн  
 Deussach gennhyf canys perthyn  
 Dfyndu diuroct no met melyn  
 Melus yu pechaud pan y herlyn digreid  
 Mor drum yr eneid yn yt eduyн  
 Edivet masuet moes am kanlyn  
 Edivar auar ef nys dechryn  
 Edivueiryauc da Duu ae keinmyn  
 Ef keif kerennhyt oe fyt fechyn  
 Erythyolaf ren rebyt enuyn ar hynт  
 Haut haetuy y fuysgynt huyl guynt gor-  
 uyn  
 Gorfyn oe dremyn dra myr drefred  
 Y dreiau caret caru myned  
 Myn yt ymdaeth Crist ar gein dyduet  
 Daear—kyn buyf abar am bo lluted  
 Lluytid uyg kyuyd yg cyuir gred  
 Yg kreuyt yn fyt yn fau ganred  
 Yn dytuyn om duu ym dilyed  
 O gaduent present pres euriued  
 Efryt uyt dechreu  
 Dyn deuret dyureu  
 Ae diuet ef diheu  
 Agheu ygged  
 Ac nys oes gochel gochuera druyted  
 Guely agklacar daear duted  
 A guae ni or neid yn rydoded  
 Yn rygnaud pechaud pall gynired  
 Rac an tuyllau byth o beth hebred  
 Y golli teithi tanc afneued  
 Ac yssy yn vetyc a vet guared an geu  
 A dodun yneu yn ymdired  
 Ysset argluyt nef a nerthaed  
 Y diouryd guyd guedy ryred

<sup>1</sup> Cyfod.—Li. Coch.

Ac ym reen guynn guann ystlynet uyf  
 Ac ys meu erchi arch goinnyged  
 Kyrreiuycint or meint meith gyhussed  
 Ry uneuthym o dym o dryc ueithred  
 Am trugarauc argluyt trugarhaed  
 urthyf

A mi y urthau nam gurthoded  
 Am duu am diuyd arbed  
 Erbyn braud trindaud trined

## AWDYL WEDDI.

AM bo gan Duu am bo trugared  
 Ny bo druc neued om gorvedho  
 Bod ar iaun am ddaun ymdihcino  
 Byt aun i gyt gryt gret a wellho  
 Bod Duu a haeduyf ruyf am rivo  
 Boed yn adef nef ym godefo  
 Bydawt nef dichleis yr ae keisso ryd  
 Brenhineid gynnyd crevyd credo  
 Brenhin myr a syr am synhwyrо  
 Breinyawl yw y haul ar a holo  
 Breint gwlat baradwys am kynhuyso  
 Brenhinyaeth gyuiu gyuir honno  
 O brifluyr synhuyr y synnio vymryt  
 Brud gyt gelvydyt am kelvydo  
 Keluyd ny dygret a ddywetto  
 Nyт celuyd coelyd ar nythoelo  
 Koeluyf a synnuyf a synno kywraint  
 Koelaf Duw ar seint a breint eu bro  
 Cristyawn uyf gan iaun dawn digyffro  
 Cristus bwyf dawnus yn y donio  
 Cristnogaeth vaeth am digaetho  
 Crist Geli vy ri am rydhao  
 Ac ef Vrenhin nef am nodho rac guall  
 Y ddaun ae ddeall am diwallo  
 Diallus Deus nym dyuanuo  
 Diduyll y buyll ae krybuyllo  
 Divrat y garyat yn yt garo  
 Dinam ogonet y ae cretto  
 Duu llyuyandyr creaudyr am diduyllo  
 Dedveu digamued am diuedo hyd  
 vraut  
 Devaut dibechaut ym a bucho  
 O buchiant maurvot ef am rodo  
 Rodyon ordywyll am diduyllo  
 Dedveu digamwedd am diwedo  
 Donyeu kyghoreu am cyghoro  
 Kynghorur ar ur yr ae mynno gwar  
 Kynghorvynt ny gar wrth ae karo  
 Karu ymyd ym am digaplo  
 Karyat ae buyllyat ym ny ballo  
 Car an dadyll dyls am deuiso  
 Kerennyd Dovyd beunydd am bo

## AWDYL I DDUU.

OEDAF oed ymi reithaf ym bywyt  
 Caru kymklegyt ygyrt grymhaf  
 Caryat diduyll a grybwyllaf  
 Cared breint camued camhaf o gywyt  
 Om bryt cyn gueryt y guaredaf  
 Caru Ddu i bawp oed bybyraf  
 Mal y car seint breint breinholaf  
 Canys caru Ddu diatveiriaf gueith  
 Eilueith rac cyfreith y kyvrivaf  
 Ef yn diwael hael haul gymhennaf  
 Ef yn ddigard hard y vard vydaf  
 Ef divradu a chadu y dangnef uchaf  
 Ef a oruc nef adef Adaf  
 Ef yn un Duw guiu yn gyuiraf  
 Undeb down digraun digreulonaf  
 Ef yn dri a vu ni mynnaf ei var  
 Ef yn drugar guâr yn hegaraf  
 Ef yu'r Tat ef yu'r Mat inuyaf  
 Ef yu'r mab ef yu'r pap pennaf  
 Ef yn yspryd glan gloywaf y defnyd  
 Ef rihyd ryd ni ryvedaf  
 Ef a gred y gret gret aduynaf  
 Cret argel dirgel a dirganaf  
 Credet baub i Ddu deur naf gogonet  
 Cret yn eidunet a eidunaf  
 Cret vyvyr ystyr a ystyriaf  
 Cret yn heb ymgel diogelaf  
 Credadun yu ef yu eithaf drausgluyd  
 Crist Argluyd culuyd ac nys celaf  
 Credu camgyvreith ys dichweithaf  
 Cret dysget reit gan yneit anaf  
 Cret grevyd beunyid bennaf ysgogaun  
 Credu y Dduu ae daaun ys cyfaunhaf  
 Crettych' di vi y Keli kelvydaf  
 Crettuyf di vy ri pan vo reittaf

MEILIR AP GUALCHMAI.

## AWDYL MOLIANT I DDUU.

Duw Arglwyd erglyu dy volyant  
 Duu a roddyat a rydd kyngueinyant  
 Duw terwyn torvoed gogonyant  
 Duu nefoedd dy nodva yn geugant  
 Duu breinyauc a brynuys y gerant  
 O'r poeneu ar pechaut a wnaethant  
 Plant Adaf plenhigyon fuant  
 Yn y pressen y pressuylassant  
 Gan Dduu yn lleuver lleuychant  
 Llu bedydd lleuenydd a gaffant  
 Rac bron Meir muyaf y medyant  
 Guerydon guiryon vyd an guarant  
 A mihangel deg dygant yn ganllau  
 Yn canll—divant

<sup>1</sup>Neu, creffych.

Crevyduyr credu ryunaethant  
 Yr creaudyr ae creuys i credant  
 Ygkein flaut y drindaut y trigyant  
 Yn prydrverth guerth pritgerd a ganant  
 Reit i minneu le luru medyant  
 Parhaus baraduys yu vy chuant  
 O eiryol miloed a milcant o'r teulu  
 Parth adu ym parthant  
 Gabriel Raphael am rivant yn gymmen  
 Vygymmodi a wnaethant  
 Yn y dydd ym priaut ym provant  
 Yr Unduu nyr undaut ymgaduant  
 Yn rhinwedd rhadau ymrodant  
 Yn uastat vygguesti a gatuant  
 Ygyguynvyt rac ledvryt yn lluydyant  
 Teyrned teyrnulað ymdygant  
 Yn lleithic Ddu guledic y guledychant  
 Un parch vy perchi a vynnant

MEILIR AP GUALCHMAI.

## AWDYL:

REEN riedauc ruysc kyverthi  
 Rex ryngaf oth rob ruydvot voli  
 Riain eiryau araut traethaut teithi  
 Ym trugar Argluyd kuluyd Keli  
 Canys ef an da an doeth gweini  
 Duu guyl goludauc golychun di  
 Nat elom yn lloc yn lle kyni  
 Yn lluyr llu Malaen maledicti  
 Mat mynychu dyn duyauul uedi  
 Neges yn kymmell kymrodedri  
 Yssym arsuyt maur mynet iddi  
 Mechdeyrn caeroedd na cheryd di fi  
 Kany unn vy fford nam ffurf erni  
 Ernyuyant y dyn y digoni  
 Ar Dduu yn gollug guall vynechi  
 Ae dyckuy yn gam ygkymbeltri uffern  
 Affleu dihedd dihun grynu  
 Cymrodauc auyd cymradu y vri  
 Cymrodet vynet pan vo pont Deui  
 Duy reit tristyt wed treghi  
 Ir a vo divro yn y divri

MEILIR AP GUALCHMAI.

## AWDYL.

DIVRI divroed dyhed diheu  
 Disgeuyt diffyt diffaut gynreu<sup>1</sup>  
 Diphara y dda y defodeu  
 Cam gymmydauc cas kessenydyl vreu  
 Kyntaf ae gestung gystud agheu

<sup>1</sup>Neu, gymeu.

Aghnoeth aghen eghif rageu  
 Rex rysgollychuyf ruyf ryvedeu  
 Cyn digones Duu oe defnydeu  
 Duu a digones lles a llysseneu  
 Llyuyd lleveryd a llavuryu  
 Llary a oruc lluyr enguyr angeu  
 Nym gattuy Reen yn ran vadeu  
 Rhodyssyt y Duu yn an dechreu  
 Rod per paraduys parha goleu  
 Ryn parassai Duu heb dim eisseu  
 Yn y unaeth an gunaeth an gueithredu  
 Gwae a goduy Duu dogyn berthodeu  
 Duu a una denvryt phryt a ffruytheu  
 Diffrythuyt daear druy garedeu dyn  
 Dinam vuyat a vu ae goreu

MEILLIR AP GWALCHMAL.

---

### AWDYL.

GOREU guaredret goreduyn ffau  
 Gobrynnu gobruy gobuyll o honau  
 Guerth ym rodeist dyn dnyraul andau  
 Ath rodaf gyssul heb gas yndau  
 Pan vynno Duu dy divuryau  
 O dyllest present a phresuyl vrau  
 Ket ath vo di golut goleu anau  
 Nath dynnit eldit er i adau  
 Na muy veru avar rhacdad  
 Na cheryd i Duu duyn yi eiddau

MEILLIR AP GWALCHMAL.

---

### AWDYL UARWNAD

A GANT EINYAWN VAB GWALCHMEI Y NEST  
 VERCH HYWEL.

AMSER mei meith dyt neud ryt roti  
 Neud coed nad keithiw keinlliw kelli  
 Neud llauar adar neud gwar gweilgi  
 Neud gwaethrec gwanec gwynt yn edwi  
 Neud arueu donyeu goteu gwedi  
 Neud argel dawel nyd meu dewi  
 Endewisy wenyc o wynnoui dir

Y am deruyn mawr meibyon Beli  
 Oet hydreif wychyr llyr yn llenwi  
 Oet hydyr am dylan gwynuan genthi  
 Hyll nyd oet y detyf hi hwyretyf holi  
 Hallt oet y dagreu digrawn heli  
 Ar helw bun araf vch bannyeri tonn

Tynhegyl a gerteisy gortwfyrr deiui  
 Keintum gert y nest kyn noe tregi  
 Cant cant y molyant mal eliuiri  
 Canaf can uetwl afyrdwl erdi  
 Canyad y marwnad mawr drueni  
 Cannwyll Caduan lann o lenn bali

Canneid y synnhyeid ger dissynnh  
 Gwann wargann wryr gall dyall dogni  
 Gwreic nyd oet un urad garyad genthi  
 Gweryd rut ae cut wedi tewi  
 Gwael neuet maenwet mynwent iti  
 Golo nest goleu direidi  
 Golwc gwalch dwythualch o brif deithi  
 Gwenned gwawn ae dawn oe daeoni  
 Gwynet anrydet oet reid wrthi  
 Nyd oet fawd ry gnawd rin y genthi  
 Gnawd oet dal eur mal yr y moli  
 Ny ryvu doenach yr y doeni poen

Penyd a uo mwy nor meu hebdi  
 Neum goreu aghue agkyfnerthi  
 Nyd ynglyw dyn byw or byd ual mi  
 Ny chyueirch aghenn yawlwen yoli  
 Yr neb ry barther y ryborthi  
 Nest yny hadawd wennawd weini  
 Yt wyf pryderus ual pryderi  
 Pryderwawd keudawd kyfnerthi ny wnn

Nyd parabyll yw hwn ny uo peri  
 Llenn argel issel ysym poeni  
 Llut gwen lliw aryen ar eryri  
 Archaf ym arglwyd culwyd keli  
 Nyd ef a archaf arch egregi  
 Arch yt wyf yn arch yn y erchi  
 Am archuein riein reid ymeni  
 Trwy diwyd eiryawl detuawl dewi  
 A dec kymeint seint senet ureui  
 Am vun a vudyd<sup>1</sup> y hamnodi  
 Ar gystlwn pryffwn y proffwydi  
 Ar gyuoeth duw doeth y detholi  
 Ar aghyueir meir ar merthyri  
 Ac yny goteu gweti a dodaf

Am dodes nwyf ym adoedi  
 Ny bu dyn mor gu gennhyf a hi  
 Ny bo poen otef peder wy noti  
 Ny byt da gan duw y ditoli  
 Ny bo ditawl Nest nef boed eiti

---

### AWDYL

A GANT EINYAWN M. GWALCHMEI Y LLN.  
 M. IORUERTH.

YSSYM ut aryfrut kystut kedeyrn  
 Estygyad kywlad kyflawn deyrn  
 Esgor difreidyad mad mychdeyrn  
 Ysgar ysgenetyl gychwetyl gychwyrn  
 Ysgwyd drud esgud esgryn eliphant

Ys gnawd yn yrdant ar y erdyrn  
 Llywelyn llew glwys loegrwys lugyrn  
 Llary gored ietheuyc llosc y theuyrn  
 Twrwrf torredwynt mawr mis chwef rawr  
 chwyrn

Tud ammwyn terrwyn tir eurdeyrn

<sup>1</sup>Neu, vndynt.

A llafnawr dyrawr diruawr y dyn  
 Arwynawl gwrawl nyd gwr anchwyrn  
 Nyd emyth nyd llyth yn llwyth heyrn  
 Nyd ef yn ardwy adwy edeyrn  
 Cochwet calanet kelern yg kynnhor  
 Kyueissor echdor aerdor eurdyn  
 Eiryf drablut angut angert dinbyrn  
 Arbennic bennaeth mab maeth metgyrn

---

 AWDYL
 

---

A GANT EINYAWN TAB GWALCHMEI Y DUW.

Duw dewin gwertheuin gwyrtheu  
 Dywallaw atan rann oth radeu  
 Dynyaton defnytyeist yth oteu  
 Dynyawl dyn donyawe wyf uinnheu  
 Dawn yssym yn yawn yn dyn ethrylith  
 A thrylwyn bywlladeu  
 Dyn wyf glan affan offerenneu  
 Duw douyt rec ouyt reithleu  
 Drye uab wyf yd rwyf rym goreu  
 Bytwn da bytwn diamheu  
 Kyn mablan wythran weithredu  
 Kyd bwyf drwe byt drugar ditheu  
 Herwyt da greuyt dagreu dadolweh  
 Dydelwynt yn hydyr hyd vvg grutyau  
 Kan oruod kymmod om kamweteu  
 Kyn bwyf rawd bedrawd ym plith beteu  
 Kyn duod chwew gyfnod chweteu  
 Kyn aduant puchyant pechodeu  
 Duw am gad caryad y mywn caereu nef  
 Duw a glyw uy llef ymluc urydeu  
 Duw am gwnel gochel frawt oeruel freu  
 Ffrwd vfern astrus frawtus frydeu  
 Duw am gwnel om gweith goleith gwelieu  
 Duw am gwnel goglyd selwyd sulyeu  
 Duw am difero om dafareu  
 Duw dwe ui atad y mawrdad meu  
 Duw nym kerytych om keryteu  
 Dyt y keryter y careteu  
 Diwet ny byt yt na dechreu ny bu  
 Ny bwyf trist yth datleu  
 Boed ef y talwyf hael rwyf rieu  
 Ar lann eurdonen yr y donyeu  
 Can gur a dolur ar dal glinyeu  
 Can gymryd penyd penn elineu  
 Ym muchet gorwac yr geiryau masswet  
 A doeth eithyr messur ar vvg geneu  
 Porthleist yr pumoes gloses glas uereu  
 Pym weli keli keluytodeu  
 Porthwyfy boen edryt mynyt mynnheu  
 Parthred a myned myn yth gogleu  
 Penn cred vu weled yf welieu  
 Pan yth archyllwyd oth archolleu  
 Can borth egylyon gwlylyon goleu  
 Nyd perthyn yth tad mad vy madeu

Can pereist douyt dyt yn veu  
 Nam gad y gythreul yr dy gethreu  
 Dy groc croes wytin vrenhin vreinhyeu  
 Difyrth chwechoes byd rac pyd poeneu  
 Ymerawdyr greawdyr oth greu bu  
 gwaedlyd

Glowlad ny bytaf oth gyureitheu  
 Gwyn eu hyd vyneich vywn eglwysseu  
 Eglwysgar hygar hygadw glosesseu  
 Diwetyn werin wiryon gathleu  
 Dynyaton dynyon diamheu<sup>1</sup>  
 Gwae ef ae peris perygyl vradeu?  
 Pan wanpwyd yessy nny asseu  
 Gwedy doeth ef yr dioteu  
 Duc anreith vfern nny affleu  
 Ac wedy hynny hynn a oreu  
 Gwir y pregethir y pregetheu  
 Gweled yn myned mynwawl detfeu  
 Gwyl gyuarchauael na chof amheu  
 Goresgynnws mab duw difyeu nef vchod

Gormot yw bychod o bechodeu  
 Yn vrten reen yn rann deheu  
 Yn wrawl kedawl kyda seinhyeu  
 Boed ef yn diben boed yn dibleu  
 Heli yn enlli hyd yn henlleu  
 Gwedy dywedwyd gan anwyd geu  
 A gwedy heuyd gwyd gortereheu  
 Gwedy kyssynhyaw kydyaw kadeu  
 Gwedy dwyn goruynt wirth y goreu  
 Gwedy gwydeu garu llu a lleu  
 A lliaws achaws vcheneidieu

Gwedy cardu rwy gwedy certen byd  
 Gwedy gwyl plegyd y plygeinyeu  
 Gwedy am daeru barnu brodyeu  
 Gwedy gwyth<sup>2</sup> omet senet swyneu  
 Gwedy gwasanaeth y pennaetheu  
 Gwedy kygauawe keigyeu y dyndid

Gwedy lliid ymliid yn ymlateu  
 Gorpwyf y gan duw vry gwedy gwedyeu  
 Goruod gorffowys baradwys beu  
 Myn na byt dyn na hyn na yeu  
 Men nas trawt trallawd trallwybyr eiss-  
 yeu

Archaf arch y duw ar doreu nef

Na dotto pedyr gloeu  
 Ym llutyas ym adas yr meu  
 Ym tref tad ym caryad kereu  
 Mihagel am del ym dwyn adneu  
 Mal y duc kwuyen llen a llyureu  
 Mal dyuod Eluod eluyt geleu  
 Mal creuyt hywyt kynnyt keneu  
 Meir a Seinsilin Marthin Mattheu  
 Marcus a lucas yonas eneu  
 Ar duw uy eneid kyureid kyureu  
 Eiryolweh seuwch yn ych swyteu [he  
 Medyr uy eiryawl Bawl pan del ym ag-

<sup>1</sup> Diamreu.—Il. C.    <sup>2</sup> Angeu.—Il. C.

<sup>3</sup> Neu, gwynet.

Hael meidryawl nym dehawl om vn di-  
Mi kyn bwyf araf nym bo areu [heu  
Mywn creuyt a fyt a fawd radeu  
Mynnid ymeiryawl gretuawl grateu  
Men yd uet duw doeth yth gyuoetheu  
Myned ym gwared gwar vetylyeu  
Molawd yr drindawd mal gwetieu  
Menhid ym gyrrreiuycint mwynyant  
creiryu Duw

A diouryd arueu

Aruod perfeith gweith goreu

Kyn gorwet y met poed meu

---

### AWDYL

A GANT EINYAWN VAB GWALCHMEI Y DUW.

PERYF nef pura uyg keudawd  
Par ym duw parablu o honawd  
Parabyl gwir pan dreithir draethawd  
Per uegys pur velys volawd  
Perygyl yw y dyn y diwynawd  
Pan uo yg caret buchet bechawd  
Pan del rac yessy tri llu trallawd  
Pawb a daw ataw pobyl uraw yr vrawd  
Pobyl byd hyfryd eu difrawd a wneir

Ar ny wnel y gardawd

Ediueiryawc da duw ae kymerawd  
A dynyon gwiryon yn eu gyrdawd  
Gwerin diwerin ny dyorgrawd  
Gwae ef arglwyd nef ny uo parawd  
Nyd oes darogan dyn truan trawd  
Or gwr an goreu mateu metdawd  
Cretti y daw rac llaw yn llwrw anfadw  
Vn dyt a douyt ynni ae dyward  
Y cosbir enwir y cosbawd aer gyd  
Ar genedyl ucdyssyawd

Ac eissyoës kyn gloes glasuet tywawd  
Penydywn gwetwn yn ynn gwetdawd

Crist eli keli can uvelawd<sup>1</sup>

Na chysbytwn uod heb ysbytawd  
Gwennwlad nef yn aduwyndawd  
Gwypm edryt douyt deuawd y radeu  
Ny rydraeth nep tavawd

Ragorwn greuyt a fyt a fawd  
Rac agheu lledrad brad bredychawd  
Gwetiwn gwylwn bytwn barawd  
Parth ar gwr arwr an ry warawd  
Pan doeth yessu vry oe vrenhindawd  
Yt oet pym hoes byd yn gyd gaethnawd  
Yg gauael yg gwael yg gwaclawd uffern

Yn affleu oerwern yn erdygnawd

Ardunedic duw ardelw o honawd  
A wnaſ arglwyd naf nerth pob kiwdawd  
Cadwn vreint deweint canys deuawd  
Duw ner ny gymer gam esgussawd  
Na chysgwn canwn canon arawd

<sup>1</sup>Neu, uffulldawd.

Can nyd o gysgu y daw gwasgawd  
Ar daw adef y nef uy llef llwyprawd  
Yny edrinaw ury rac y drindawd  
Y erchi ym ri rwyf vawrawd gwerthuawr  
Gwrthwyn uy eneid pan ol om knawd  
Boed ef y bytwyf gwedy bedrawd  
Kyd ar vnduw mawr yn y vndawd

---

### AWDYL

A GANT EINYAWN. M. GWALCHMEI Y DUW.

ADEF nef neirthiad oth rad boed rwyd  
Erglyw om gweti keli kulwyd  
Argledyr o honaf naf nawt hywyd  
Argleidryad meidryad medyr om awyſ  
Ar eu pechodeu puchswn arwyſ crog

Ym dwyn croes yr crist ar uy ysgwyſ  
Agheu yr eneid aureid aurwyſ  
A daw am buchyaw ambechrwyſ  
Bychod gouygged trwyted tramgwyſ  
Buchtet anvedret o ynvydrwyſ  
Beich o bechodeu nyd bychodrwyſ  
Bychdid<sup>1</sup> dall aghall aghyuarwyſ  
Kyn glassu vyg gwet kyn glasuet gwyſ  
Glessin deyerin werin wogwyſ  
Kyn dyuod kyunod ny kyfnerthrwyſ  
Kennadeu agheu yn gyuarwyſ  
Kyn boed ym oerglat boed ym arglwyſ  
Ry dalwyſ yawn yn radlawr rwyſ  
Kan edivarwch kyfrwyſ ym yessu

Wedy kymynnv ym kymhenrwyſ  
Kyn del ar grutyau dagreu dygwyt  
Kyn gwerydre lann nyd gwaradwyſ  
Edwyn uyt treul dyn trugcinlwyſ  
Aduyt hoetyl hitlaw rac llaw ny llwyſ  
Aduwyn<sup>2</sup> pob gorllwyn pan dy orllwyſ  
Aduwyn arall pall pwyllaw eilwyſ  
Aduwyn met a gwlet gwledic hylwyſ  
Aduwyn haf hirwyn kein llwyn canllwyſ  
Aduwyn march penhill ebrill ebrwyſ  
Aduwyn ym gware gwaew ac arwyſ  
Aduwyn uyt ysgwyd ar deur ysgwyſ  
Aduwyn huysgwr gwr a gorwyſ  
Aduwyn gwyr terwyn taer gyuannwyſ  
Cad—pan uyt kedeyrn yn ymorthwyſ  
Aduwynach kynach kennyf boed rwyſ  
Keinuoli keli kalonnogrwyt

---

### MARWNAD FADAWG AP GRUFFUDD MAELOR.

EINION WANN AI CANT.

NEUD rhaid am Fadawg trengi ciwdodoedd  
Gwalch cadoedd cadrfalech ri

<sup>1</sup>Bychydig.—Ll. C.

<sup>2</sup>Addwyn.—Ll. C.

Neud trai calon donn dug fi  
 Ac neud trwydoll oi golli  
 O golli Madawg edgyllaeth cofion  
 Gwyw calon gan hiraeth  
 Gwawr llawr llwyddedig bennaeth  
 Gwae ei fro ai frodyr maeth  
 Maeth Madawg mynawg mynudurwydd  
 wyrth lyw  
 Ac wrth lew ymorchwydd  
 Arf tarf terfyn ehangrwydd  
 Acrwr oreu pei canmlwydd  
 Canmlwydd ydd oedd raid ruddelweh i  
 fod

I fad gynnal heddwch  
 Gwalch brynn brenin ynialweh  
 Gwael nad byw byd neud amdrweh  
 Trwech yw'r gwr arwr ardwyad gwerin  
 A goreu o fab tad  
 Ef oedd aerllew arllwybr cad  
 Ef oedd arlleng pynthengwlad  
 Gwladoedd ni debyg glud oeddlw<sup>1</sup>  
 Ymmyd—Madawg oedd cyn heddiw  
 Esgor oi dud nad ydiw  
 Ysgor gadw ysgwyd fradw friw  
 Briw galch ei rodawg o ryw tymhestyl  
 cad

Cynnoer wely diddestl  
 Gwr a wnair fal gwair fab gwestl  
 Gwyr wawr yn llawr llynn Egwestl  
 Diwestl<sup>2</sup> ei ysgor yscwynais nad byw  
 Hael or rhwy rygollais  
 Blaidd blaengar blawdd trydar trais  
 Trei hoeddyl ei hoed yr borthais  
 Porthais alar trwm tramawr odrig gwyth  
 Am wawr llwyth a lleithig  
 Am eryr gwyr gwaith fuddig  
 Am ior aerldor urddedig  
 Arddas teyrnas teyrn arirudd cad  
 Tringyrehiad tra fu fudd  
 Trymfryd byd bod yn achludd  
 Traws maws Madawg mab Gruffudd  
 Am fab Gruffudd lary lawch ynaid i'm  
 ken  
 Nid mau wen wedd honnoid  
 I bob rhwyf rhwysg orddyfnaid  
 Diwedd nod rhuddfedd neud rhaid

### EINGION WANN I FADAWG AP GRUFFUDD.

SEF yw teyrnllwv teyrnllaw Fadawg  
 Par enwawg pair anaw  
 Teyrnedd teyrn ganllaw  
 Teyrnas addas iddaw  
 Iddaw lu ganllaw geinllwv hyfag cyrdd  
<sup>1</sup>Neu, edliw. <sup>2</sup>Neu, Diddestl.

Cerddorion ofynag  
 Rhwyf ner by archer bynnag  
 Nid rhyw i'm ner rhoddi nag  
 Dinag Loegr arac eryres amwyn  
 Bardd gyflwyn beirdd gyfles  
 Dyn a'i mawl llwyr ganmawl lles  
 Dawn i'm rhwyf Duw ai rhoddes  
 Rhoddes Duw ym llyw y llafn waedlif  
 A'i ysgyr—ysgyrion yngnif  
 Rhwyd Brynaieb branes wrthgrif  
 Rhad o'i genniad y gennyf  
 Ynghynnif Madawg anghynnwys ei dorf  
 Ai daerfar ar Loegrwys  
 Rhwydd y ceidw cad ani ddiffwys  
 Rhwydd glyw tra fo byw Bowys  
 Powys nen perchen parch woddef espyd  
 Ys bo Duw gydag ef  
 Rhwym cad yn cadw ei addef  
 Rhwyf byd ys hyfryd os ef

### MARWNAD Y LEWELYN AB IORUERTH.

EINIYAWN WANN AE CANT.

Mawr dilyw detyw am dirion vrtyn  
 Llywelyn llyw dragon  
 Gosgymon gwyth drwyth drudyon  
 Gorparth pybyl pobyl dynyadon

Dynyadon deon dily am y dwyn  
 Dolor kwyn ae kyffry  
 Gwr gwert blant hydyr uolyant hy  
 Gwyr vraw gwir vrenhin kymry

Kymry wawr warant yr werin nyd hawt  
 Nid heddwch tragorllin  
 Aer uyrnt aryf kyrt kettennin  
 Aruoll brwyngoll breenhin

Brenin tir rywir ryuet yt etiw  
 Nad eitiau uo wynet  
 Namyn sarn drumein vein vet  
 Namyn seith drudneith droeduet

Ny met llywelyn llyw mawrgoeth wynet  
 Adrysset dreis anoeth  
 Mab duw ae duc yw gyuoeth  
 Mab mam meir dinam mawr doeth

Doethon lleygyon lluduryd oes anawt  
 Ys einym oll y gyd  
 Treis duw dwyn hael o an byd  
 Ac wedy treis duw tristydyd

Tristydyd am ergyd mawrgerth na bu hyn  
 Llywelyn llyw arberth

Mab diuei difefyl y nerth  
Mab diwan eiryau iorwerth

Ioruert h essillyd aruogyon y hil  
Hael gynnil gynreinyon  
Gwae ni wynet orchordon  
Gweled llawr ar llyw mawr mon

Monwyssyon maon mawr kynnetyf awch  
llyw  
Awch llywyawdyr rac annetyf  
Modur vur parhaus ddetyf  
— heid mur greid gretyf

Gretuawl lywelyn grym g—r ber torfy  
Teruynwyd y amser  
Ysgrud uud dreic feleic fer  
Ysgwn ysgwyd rwyd racter

Racter y niuer naf lledneis y hil  
Hael urenhin kemeis  
Gwaew dur yn yt treul — is  
Gwan — gwyl ual y gweleis

Gweleis yn lawen lyw meith y deruyn  
Gan lywelyn ganweith  
———— kanhymdeith  
Ae lu o led y anreith

Anreithwyd mab duw dewin holl wybod  
Llwybyr ehang y myddin  
Am eryr gwyr goreuwin  
Canllaw branhes trachwres trin

Trinhei on gwron goruawr vur drallawt  
O drilliw ysgwydawr  
Pan gwyddawd cad vlawd vleidgawr  
Pan golles gwyr mon gwr mawr  
Mawr dilyw detyw &c.

### EINYAWN WANN AE CANT Y LYWELYN AP IORUERTH.

LYWELYN gelyn golofyn plymmywt  
Lew—ar les beird e magwyt  
Roi e wann yw e annwyt  
A rac pob cadarn catwyt

Cadw dduw lywelyn lyw ongyr aelaw  
E alon nyw hesgyr  
Cedyrn lhu cadarnllaw gwyr  
Cadarnloes ciryoes eryr

Eryr mawr dewrwyr mae y delw y gall-  
Na byddwn a dy helw [wn  
Hard e vard vod yth arddelw  
Hawd yr byt gennyt gynnwlw

Hawd kynnwlw uy rwyf rwyd ouec  
Mordaf—rwyse mawrdon wrth garrec  
Gweilch beilch balchdawn rwydawlwn rec  
Gwalch gwreid teyrneid tec

Tec goryw uy llyw llauyn greulawn  
ualch gwr  
Ar y gar ae estrawn  
Peryf hael o lin meruynyawn  
Prud yny ddeurud y ddawn

Yth dawn gyrc h gynnrych gynnedyf  
Emreis wrd  
O orddwy franc a seis  
Llyw glyw glewdrut yth weleis  
Lloegyrr goelkerth llwybyr draferth dreis

Treissyaw a oruc tros deruyn ual gwr  
Ar y gar ae elyn<sup>1</sup>  
Llawch kerd mawr angerd meruyn  
Llyw kat leidyat lywelyn  
Llywelyn gelyn golofyn, &c.

### LLYMA DADOLWCH

A GANT EINIAWN WANN Y DAUDD VAP  
LYWELYN.

BRENHIN kywrenhin kywir yny dyt  
Hael dauyt hawl i tir  
Bolechlaun lut am dut am tir  
Beilch ae geilw balch y gelwir

Ry gelwir ar tir ar teiror prydein  
Gwr vrtein gwryhd por  
Yn hawl chwyrn deyrn tut ior  
Yn hael ehelaeth gyghor

Kyghor a rotaf y rwyf mon llawryt  
Hael dauyt hil doethon  
Bid lary bid lawch kertoryon  
Bid lew a bid lyw dragon

Dragon vt dremrut dreic emreis val  
Prif gynnyt keuyn yr eis [prut  
O neirhyad ner nenn lledneis  
Ac o nerthoet kadoet keis

Na cheis vy ystwg om estygyt vr  
Yn wiryon ym plygyt  
Na chassa vi vawr dauyt  
Ny chassa mab duw dedwyt

Dedwyt rwyf aerglwyf eurglet arderch-  
awc

Archaf yt yth laryet  
Breinyaawl hawl hylwyt orsset  
Breenhin trin trugaret

<sup>1</sup> Neu, ef goreu o vab dyn.



Trugarawc dauyt tricyawt om mawr-  
dawn

Uy mardeir om tauawd  
Cadeu dor cor kymhendawd  
Cedawl kadw vi yth gysgawd

O gysgawd dauawd da yr awr y med-  
reis

Ymadrawt a duw mawr  
Diwen dy uar lachar lawr  
Diueuyl vt prut priodawr

Priodawr pryduawr prydein adlam gwr

Wyt goreu o uab mam  
Na char a mi meith gytkam  
Ac na chred guhuted gam

Nyd cam canmawl hawl hwyl gynnyd  
eirchyad

Y erchi kerennhyt  
Tormennawc deifnyawc dauyt  
Teu glod om dyuod ym dyt

Y dyt rwyd arglwyd argledyr gorllin  
llu

Y llochir pob edein  
Kedawl budugawl bytin  
Kadyr ryd kadw yth uryd urenhin  
Brenhin kywrenhin &c.

---

### AWDYL Y RUFFUT M. LLYWELYN.

E. WAN AE CANT.

KET del y ruffud vud gynnan o dda  
A ddyglut mor y lan  
Peunoeth doeth dethol gynran  
Peunydyd y ryd ac y ran

Ym ran llit ogyruan llawer a archaf  
A gaffaf ym naf ner  
Dyn kymhen wyf ae kymher  
Deu kymeint rif seithrif ser

A dan ser ny byd ae ny bu vn well  
Vawr glot bell diballv  
Oes ellwng bud rud rannu  
Eissillyd wrth y ssyllv

Syller e hyder hydyr raen y ongyr  
Vn angert a serlymaen  
A braw gwayw gwisc haearngaen  
A dreid val bleid yn y blaen

Bleinyat gat hwylgat haelonaeth a geidw  
Heb gytuot bygylaeth

Ardwy llu llaw ehelaeth  
Eurdeyrn medgyrn ae maeth

Ny maeth bygylaeth bu gelyn y freinc  
Boet frawdus y deruyn  
O haelon haelaf mab dyn  
Hawl llu haeluab llywelyn

Mab llywelyn hael hawl gyua eirchyeit  
Erechwyn greit grym tyrrua  
Wyt rwyf cat cetwyr ddiua  
Wyt rodyat rudeur afya

A gaffo fy llyw llaw fodyawc o vud  
Ef a uyd gwasgarawc  
Ar lles beird bwrdd digudyawc  
Ar llet byt boet hirhoedlawc

Hirhoedlawc vor gwas gwisc eurduddet  
Hard—gnawt yw vard ouyget  
Ny lleueir geir gorchalet  
Ac ny llud cat wossud ket  
Ket del y ruffud &c.

---

### ENGLYNION

A GANT GWGAWN BRITDYDD I LYWELYN  
FAB IORWERTH.

RHUTHR a ddug fy llyw llew diarswyd  
Traws—tros Gynary y clywyd  
Fal rhuthr ereyt aur ysgwyd  
Cynon fab Cul fanawyd [glod  
Rhuthr a ddug fy llyw aeth tra llyr ei  
Ei glybod bu myfyr  
Rhuthr gwydd glyw gwythlawn ongyr  
Llyna ruthr aruthr eryr  
Rhuthr a ddug fy naf nawell yw or gwyr  
Nor goreu or dilyw  
Rhuthr cadarn cedeirn ddistryw  
Cad gyfamrudd lledrudd llyw  
Rhuthr a ddug nid ffug er ffossawd fy  
Llangollen ddiwarnawd [ll yw  
Rhuthr didange aerdrange aerdrawd  
Arf glyw a glywir hyd frawd  
Rhuthr a ddug nid ffug ffwyd ddylyn  
Bryneich—braw ududd a ddychryn  
Angeu goleu pob gelyn  
Angad leiddiad Lywelyn

---

### AWDL FARWNAD IORWERTH FAB OWAIN.

SEISSYLL BRYFFWRCH AI CANT.

CHWEDL am daw dolur ei gofain  
Chweddl dirfawr dirfarch gyfrwynein

Chweddl rhyhir rhyhydr ei ysgain  
 Chweddl agarw marw mawrfab Owain  
 O newydd yn neheu a dwyrain  
 Yn ornodd yn arnes Prydain  
 Llaw-wag cyrdd gwedi car dilain  
 Llawer cof canthudd a ddichwain  
 Ar ol erbylu cyrdd nid coelfain ei ddwyn  
 Oddyma hyd Rufain  
 Canys marw Ior cor cywrain  
 Chweddl mwyfwy garw dramwy drumain  
 I Faig ni bu ddadwyrain  
 Bychan hudd ei fedydd a fain  
 Oer gywasg gywisg pridd a main  
 Llan dutchyd<sup>1</sup> am glod orwyrain  
 Rhwyfiadur dygenrad digain  
 Rhwyf Arfon Iorwerth fab Ewain

## MARWNAD OWEIN GWYNEDD.

SEISSYLL BRYFFWRCH AI CANT.

Duw gennyf Duw peryf perffiaith  
 Duw dofydd Duw parchrydd parchraith  
 Duw gwerthfawr gwerthefin gwniaith  
 Duw drindaw bwyf priawd prifaith  
 I edmyg dinag dinas mawrfaith clod  
 Cleddyfrudd yn anrhaith  
 Cerdd farwnad i'm rhwyf om rhwylwaith  
 Cwbl ddigable barable ber araith  
 Mur gwyndyd mad gwynfyd gwyniaith  
 Mab Gruffudd ced fawrfudd fawrfaith  
 Gwae eirchiaid erchi gossymddaith  
 Gwae feirdd byd a bedydd oi laith  
 Am borthloedd miloedd mil canwaith  
 Am borthi galar nwy golaith  
 Gwedi Owein mon mor ddiobaith cyrdd  
 Cerddorion mor ynt gaith  
 Twr dygyn diganwn oi angrhaith  
 Tranc or ddraig ar ddragon oddaith  
 Gwedi bod fy naf yn nef ym mhressent  
 Nid oes prysur affaith  
 Gwyr Prydain ym mhryder hirfaith  
 Eu gweled neud gwala diffaith  
 Neum gorchudd gorehoddion  
 Neud gormail gormodd o ymdaith  
 Neud afrywdd neud efrydd gobaith  
 Neud Cymru cymriw ei chlyfaith  
 Cymreith gar llachar lluchryfig Arthur  
 Gosgordd dor am gor am gynnig  
 Gwasgarei gweisgfeirch mai mawrchig  
 Ced hyrwydd friwlwydd frwyn dyfig  
 Colofn clwyf nid oedd clod fenffig  
 Rhac traeth caer yn aer yn arfod gweilgi  
 Cil gwri cil wellig

<sup>1</sup> Neu, dutclyd.

Bu y gwyr cyleh llyr yn llewig  
 Gan ei ladd or llew gosgeiddig  
 Rhif trychan celain o drychion camawn  
 Oedd cymmaint un mestig  
 Bar anwar wanar wenwynig  
 Bu estrawn i ystrad Meurig  
 Gwae werin Addaf addoed mab Gruffudd  
 Geleurudd galar dig  
 Dwyn Owain fwy coelfain ceinmig  
 Dygant graig aerddraig ar ddrussig  
 Oedd casnar post trydar treisblyg  
 Oedd castell hiriell hwyr wellig  
 Oedd meidrawl meddwl oedd myddig  
 I wan—I warad ei ddiffig  
 Oedd rwyf eli feirdd heirdd hirddrig  
 Oedd rebydd coel rydd celeddig  
 Oedd ewyn trange pob tra a diffig  
 Oedd colofn yn ofn an dyfnig  
 Oedd terfyn cardd oedd car ddeuddyblig  
 Oedd calon calan Nadolig

## CAN I'R ARGLWYDD RYS.

SEISSYLL BRYFFWRCH AI CANT.

Duw rym roddwy  
 Rheiddun arlwy erlid cyngor  
 Rhodd fodd fedru  
 Rhif brif brydu bryddest ragor  
 Rhwych wych wenwawd  
 Rheg deg draethawd a draethitor  
 Rhod glod gleudaer  
 Ym mhedeiraer ym mhedeior  
 Rhudd brudd breon  
 Rhos dros drychon alon elor  
 Rhygn dygn disgyn  
 Rhwysg wrysg wrysgryn wosgryn wos-  
 gor  
 Rhys wrys wrysiad  
 Rhyw lwy lychiad gad gywangor  
 Graid haid hygar  
 Grym lym lachar gwrdffar gynor  
 Clod gyfragod  
 Corf gyfarfod rhod glod gludaw  
 Cardd gyfarwar  
 Car gyfarbar gyferbyniaw  
 Gwanai drwy wrys  
 Gwanai drwy frys Rys rwyf anaw  
 Gwanai drwy gorf  
 Ynghyfaerdorf ynghyfaerdaw  
 Gwennydd gwrthlawr  
 Gwennydd aessawr osswydd gwyddaw  
 Gwân yn aer rain  
 Gwyr yn aergrain yn ergrydaw  
 Gweilch yn aergrwydr  
 Gweilch yn aerfrwydr gweilch yn aer-  
 fraw

Coelwydd celain  
 Coelfain i frain ni faith adaw  
 Yn llawn llunwerth  
 Yn lle coelferth Lloegr ddyludaw  
 A glyw tra glyw  
 A llyw tra llyw trillu rhagddaw  
 A thref tra thref  
 A llef tra llef trallan llywiaw  
 A barf ar farf  
 Ac ingl ar darf godwrf giliaw  
 A llyry tra llyry  
 A llwrw tra llwrw aerfwrw urthiaw  
 A llafn tra llafn  
 A llid tra llid tremid treiddiaw  
 A gwr tra gwr  
 A thwr tra thwr yn trachwynaw  
 A gwyth tra gwyth  
 A gwaith tra gwaith daith derfyniaw  
 Rhyn wyu wenwyn  
 Rhad tad terwyn torf ymandaw  
 Rhod fod falchrydd  
 Rhad fad fedydd—heidydd heidiaw  
 Rhys rhos gyffro  
 Rhag pyrth Penfro yn pebylliaw  
 Ni lelais neb  
 Amgylch moreb mor anhuniawg  
 Na thwyll na thrais  
 Rhag rhwyf Kemeis camp ardderchawg  
 Cawsant warthrudd  
 Gan fab Gruffudd prudd prifaerawg  
 Rhag twr Gwallter  
 Blaidd traidd trymder tra niferawg  
 Rhac pumieirl taer  
 Oedd ef yn caer yn gadfarchawg  
 Un iarll Cernyw  
 Rhac ein aerllyw eurllaw roddawg  
 Ail iarll Brysteu  
 Rhac post cadeu oedd cadwynawg  
 Trydydd iarll gwent  
 Trydydd torment torf gymrwynawg  
 Pedwerydd dig  
 Oedd iarll padrig rhac pedryddawg  
 Pumed iarll Clar  
 Rhag gwalch gwanar oedd gwareddawg  
 Lliwgoch tref Ual  
 Llid brid brenial braidd wasgarawg  
 Llan Ystyphan  
 Llyry byry boethfan llwrw bwrw beith-  
 iawg  
 Teulu ryn rys  
 Teulu taer wrys llys lliosawg  
 Teulu talfriw  
 Aessawr flamlw rhw rhuddfoawg  
 Gweli gwyar  
 Gwely dayar gwar gorweiddiawg  
 Gwerin aerlyw  
 Gwaith gyfeilyw gwaith gweliawg  
 Gwen wlad Ewain  
 A bro brydain a Brycheiniawg

## AWDL Y RUFFUT MAELOR. M. MADAWC.

LLYGAD GWR AE CANT.

Y SYT yn argluyt eurglet ganllau  
 Yssaut y gynnelu ardelu vrthau  
 Ys da y gampeu heb guympau yn afyr-  
 Ysyaun difygul oe ugygthyau [dul  
 Grymus vthyr yn ruthyr yn anreithyau  
 Greddyf ddiletif ddilesc urth gymrau  
 Gruffut eur dilut duylau egored  
 Guaur maelaur drefred ged gyfluytau  
 Goreu kyrechlam ym kyrechu attau  
 Kaudy hart y uart uod y urthau  
 Guraul yu y haul yn huylau y gryd  
 Gur hyfryd yr byd bod y danau  
 Nyd anamyl y vut heb orchutyau  
 Nyd etiu heb da dyn y urthau  
 Nyd anheirt yu ueirt uyrtoet uallau  
 Nyd annaud tafaud diuyd itau  
 Araf toruoet teruyn achubau  
 Aruyt coeluein brein bryneich dreissyau  
 Ar oleu ys mev myuyryau y gert  
 Arureit angert ongyr uriuau  
 Ruyf kyuir ker tir Tyssilyau  
 Ruythaus deus diofyn raeddau  
 Ruysc aerlleu tryleu yn treulyau arueu  
 A guyr dros uyleu yn ualch arnau  
 Ruyll carrec oua cauas yndau  
 Raud saesson lladron yn eu lludau  
 Ys dir oe uareu ddifuryau pob tur  
 Ys anant i ur y arueityau  
 Drud a glud guladoet ymandau  
 Doeth a choeth kyuoeth kyfumau  
 Duys aerguys pouys poed eityau  
 Detfeu teg tygu oe eurllau  
 Dinam ddreig dragon eitunau  
 Diryad cad kedeirn ordduyau  
 Daun yssyt yn seuyll ganthau  
 Duu o nef a uo nerth itau

## LLYGAD GWR AE CANT

Y LYWELYN M. GREFFUT. M. MA. AP GR.  
 MAELOR.

HANBYCH well o bell bwyll ardderchawc  
 O duw yn gyntaf naf niuerawc  
 Heneuyt dedwyt odidawc dy bar  
 Anescor dy uar uur tormenawc  
 Ys byt yt arglwyf rwyf rutuoawc  
 Llywelyn lluyt ueirch aruawc  
 A chlod a goruod am geiryawc ddyffrynt  
 Gwrawl hawl hwysgynt hynt hirlid-  
 yawc  
 A rechdyr ae wyr bynt waretawc  
 Yt ddreic y weun wayw kyndynnyawc

Ar drewen yn boeth genhyd beithyawc  
rwyf

Ac ar elsmer glwyf glud uygedawc  
Rugyl eryr ongyr angert vreinyawc  
Rac ulaen cad cadarn dywyssawc  
Ragod gynhossod kyhoetawc colofyn  
Ef a dyf gorofyn hyd gaer efrawc  
Mab gruffut gleifrut glod wasgarawc  
Mawrddrud afael hael o hil madawc  
Mawr beir kyghyweir kynuarchawc yg-  
had

Mawretus dy wlad rad redegawc  
A mi mal athro ethrylithawc  
Myfyr yw ynof cof cadeiryawc  
Prydaf yn ddyfnaf ytt ddeifnyawc powys  
Pryduerth dy gynnwys gennhyf nerth-  
Ys keffych ys kyffuryf enwawc [awc  
Wrth dy uot uod yn gynoethawc  
Ac yn y gorffen gorffawc anrydet  
Trugaret gan duw trugarawc

## LLYMA DEIRAWDL

A GANT LLYGAT GWR Y RUFFUT UAB  
MADAWC.

### I.

HANBYCH well ruffut ueirt uut uydked  
Hael cloduawr eurwawr arwyp gerted  
Hyneuyt powys peus uyged hir

Perchen gwir a thir a theyrnged  
Post prydein vrtein wrt gyhussed  
Pennyadur llafyndur llaw egored  
Pendeuc gwledic gwlad amgyfred naf  
Kawssam ny ut pennaf pan yth aned  
Pan uei urwydyr eurgwydyr aergun  
dyged

Yrhod ath alon pan yth holed  
A thitheu yn gwyhaw pan goched dy  
par

Ny chaei dy esgar escor lluted  
Kiliaw ny uynny yr nep caled  
Colofyn cad cadarnuleit lliwed  
Kellennic frwythic frwythlawn gored  
Kyrte—kertoryon eiduned  
Ti goreu rieu rut wise ar lled  
O gywan amws ar y ganued  
Ti ureiscaf mab dyn o dir cred a wn

Ym prifgyrch pryffwn praff dylyed  
Gnawd yt dreic dragon ymddired  
Grym ysgwn ysgwyd wyrrled  
Dyuod a goruod a gwarded ath doryf  
Ath deruyn yn lledled

Gnawd yth lys lysseit gynnired  
Gorulycheu gan valch gyfyued  
A metgyrn teyrn tee haelged yn llawn  
A lliaws galch doed  
Llwyry y gwyr gwrawl dy weithred

Dy uod yn arglwyf eurglawr treured  
Y nep ath welo wrth weled dy dawn  
Y gan duw gogoned

### II.

Gogonyant frwythyant fraethlew gwaew-  
rut

Gogyflawn o dawn yw dy deurut  
Gorwypn heirt dy ueirt dy uut neud  
adwen

Nad ydyw y dan gut  
Gorawenus dreic ar dragon prut  
Gwreitrwys emreis dros dreis drablut  
Gwrawl hael kedawl cad lofrut ar-  
glwyf

Vn eurglod wyd a nut  
Eryr teyrnet teyrneit vt  
Ar fyrt kyrte kertoryon duhut  
Aer yrdang kyfrang kyfrannut  
Gwryaf gorofyn lloegyry ae chythrut  
Aryf toruoet teruyn heb warthrut  
Aruthyr goeluein brein bryneich gystut  
O vertun gwawr gwychuawr dy gochrut  
uylehlfafyn

Dy ualchlys nyd ymgut  
Anwer lyw luoet dirybut  
Enwawc wyr madawc uap maredut  
O honawd henyw dadannut  
O honaf hanpych well ruffut

### III.

Dewissaf arglwyf didramgwyt dro  
Dywyssawc breinyawc brynn a thyno  
Da gwyr dewissawc ae dewisso ef

Gwr a gynneil nef ae nerthao  
Grym erdrym aerdreic yn deffro  
Gretuawl hawl hwyf gynnyt pabo  
Gruffut ged ddilut a dalyo powys

Gwrtuar a gynnwys vrowys vranvro  
Goruolet y uyrte kyrte ae kyrcho  
Goruyn chwetyl kenetyl ae canlyno  
Gwr a obryn faw heb fo vn troeduet  
Nyd mawr oe drosset neb ny dreissyro  
Rwysc goteith pan lwyrweith losco  
Rwyf diuefyl douyt ae gatto  
Ry byt urtedic a vrto uy ner

Ny chymer hyder ae adawo  
Bolchlfafyn lud am dud a derllyto  
Balch eryr dewrwyr doryf anosco  
Beilch yw y gadweilch gadarn glo mael-  
awr

Breisclym orwytawr rotyon ymo  
Cloduoraf fy naf naws a gryno  
Ny byt angloduan y bann y bo  
Gwiw yw clod hynod a honno tauawd

Yr aerllew parawd ae dirpero  
Diffisc wise wascawdueirt ymdro  
Detueu hael wrth pawb ae holo  
Dilesc eurgwydyr brwydyr bryd ar  
gyffro cad

Dioual wlad a wledycho  
 Dinac loegyr a rac wrawl flando  
 Dewrwalch teyrneit urenhineit uro  
 Donnyawc yw uy llyw llafyngoch gymro  
 Ny dwe duw y dawn a roto

---

## LLEMMMA BYMHAWDL

A GANT LLYGAD GWR Y LITWELYN VAB  
 GRUFFUD.<sup>1</sup>

### I.

KYUARCHAF y dduw dawn oruolet  
 Kynnechreu donyeu dinam vawret  
 Kynytu canu canyd ryved dreth  
 O draethawd gyuannet  
 Y uoli uy ri rwyf arlechwet  
 Rutuoawc vreinyawc o urenhinet  
 Ryuyg ut kessar treisuar trosset  
 Ruthrylm grym gruffut etiuet  
 Rwyse urwyse ureise o ureint a dewret  
 Rut bareu o beri cochwet  
 Ryw itaw diryaw ereill diret  
 Rwynt galon golofyn teyrnet  
 Nyd wyf wr gwaclaw wrth y goelet  
 O arglwynt gwladlwynt glod edrysset  
 Nyd newidaf naf vn awruet a nep  
 Aneprwynt dagneuet  
 Llyw yssy ym ys amyl anrydet  
 Lloegyr diua o diuefyl uonhet  
 Llywelyn gelyn galon dachwet  
 Llary wledic gwynnydic gwynnet  
 Llofrut brwydyr brydein gywryssset  
 Llawhir ualch gwreitualech gorsset  
 Llwyrlwynt hael arglwynt eurglet  
 Llew kemeis llym dreis drachywet  
 Lle bo cad uragad uriwgoch rysset  
 Llwyrlwynt orborth hyborth hep gymwet  
 Gnaws mawr draws am ardal dyhet  
 Gnawd itaw treityaw trwyddi beruēt  
 Am y wir byt dir or diwet  
 Amgylch dyganwy mwyfwy y met  
 A chilyaw raddaw a chalanet creu  
 Ac o duch gwatneu gwaed ar darwet  
 Dreic aruon aruod wythlonet  
 Dragon diheueirch heirtveirch hartet  
 Ny cheif seis y dreis y droeduet oe vro  
 Nys oes o gymro y gymrodet

### II.

Kymrodet uy llyw lluoet beri  
 Nyd oes rwyf eryoes aer dyuysgi  
 Kymro yw haelryw o hil Beli hir  
 Yn herwynt y broui  
 Euruut ny olut olud roti

<sup>1</sup>I Lywelyn ab Iorwerth, medd Ll. P. P.

Aeruleit arwreit o eryri  
 Eryr ar geinwyr gamwri dinam  
 Neud einym y uoli  
 Eurgorynt torfynt tyryoet o loski  
 Argae gryd greidyawl wrhydri  
 Arwr bar taeruar yn torri cadeu  
 Cadarnurwydyr ystoui  
 Aer dalmithyr hylithyr haeloni  
 Aryf lluoet eur wiscoet wisci  
 Arwymp ner hyder hyd teui uetyant  
 Ny vet nep y gospi  
 Llywelyn lloegrwys ueistrol  
 Llew breinnyawl brenhinet teithi  
 Llary deyrn kedyrn yn cadw gwesti kyrt  
 Kertoryon gyflochi  
 Koelwein brein bryneich gyuogi  
 Kelennic braues berthles borthi  
 Kilyaw ny oruc yr caledi gawr  
 Gwr ehofyn y gyny  
 Parawd uyt metyant met beirt ym ri  
 Pob kyman darogan derui  
 O bwllfort osgort ysgwyd gochi hydri  
 Hyd eithaf kedweli  
 Kan gaffael yn da dra heb dregi  
 Gan uab duw didwyll gymodi  
 Ys bo y diwet dawn berchi ar nef  
 Ar neillaw krist keli

### III.

Llyw yssyn synnwyrwawr rihyt  
 Lliwgoch y lafnawr aesarw uswynt  
 Llyw deifnyawc lliwyawc lledled uyt y  
 blas  
 Llwyrlwynt waeth yw y gas noe gerennynt  
 Llywelyn gelyn gal ouyt  
 Llwyrgyrch darogan kyman keluynt  
 Ny thykya rybut hael rebynt raddaw  
 Llaw drallaw driu wychyt  
 Y gwr ae rotes yn rwyf dedwynt  
 Ar wynet arwynawl dreuynt  
 Ae cadarnhao ked hwylynt yn hir  
 Y amdifwyn tir rac torfynt osswynt  
 Nyd anwiw nyd anhof gynynt  
 Neud enwawc varchawc ueirch gore-  
 wynt  
 Y uod yn hynod hyneuynt gymro  
 Ae gymry ae heluynt  
 Ef diueiaf naf ry wnaeth douynt  
 Yn y byd o bedwar defnynt  
 Ef goreu rieu rec ouynt a wn  
 Eryr suawtwn aer gyfludwynt  
 Cad a wnaeth cadarn ymgerynt  
 Am gyuoeth am gefyn gelorwynt  
 Ny bu gad hwylyad heuelynt gyfred  
 Er pan uw weithred weith ar derynt  
 Breisclaw mou mwynawr wyndodynt  
 Brynn derwin clo byddin clodrynt  
 Ny bu eduiar y dyt y kyrchawnt  
 Kyrch ehofyn essillynt

Gwelel wawr ar wyr lluosyt  
 Ual gwr yn gwrthlat kewilyt  
 A welel lywelyn lewenyt dragon  
 Yg gymysc aruon ac eityonyt  
 Nyd oet hawt llew aerlawt lluyt  
 Y dreissyaw ger drws deuvynyt  
 Nys plygawt mab dyn bu donyawe fyt  
 Nys plyko mab duw yn dragywyt

## IV.

Teruyse taerllew glew glod ganymddeith  
 Twryf torredwynt mawr uch mor ddiff-  
 eith

Taleithawc deifnawc dyfynyeith aber-  
 frau

Terwyn anreithyaw ruthyr anoleith  
 Tylwyth frwyth fraethlym eu mawr-  
 weith

Teilwng blwng blaengar ual goteith  
 Talheithawc aruawc aerbeith dinefwr

Teilu huysgwr ysgyuyl anreith  
 Telediw gad gywiw gyfyeith  
 Teletu balch a bylchlafyn eurweith  
 Talheithawc mathraual meith yw dy  
 deruyn

Arglwyt lywelyn lyw pedeiryeith  
 Seuis yn ryuel diymgel deith  
 Rac estrawn geneddyl gwyn anghyf-  
 yeith

Seuit brenin nef breinyawl gyurcith  
 Gan eurwawr aerbeir y teir taleith

## V.

Kyuarchaf y duw o dechreu molyant  
 Mal y gallwyf oreu  
 Kloduori or gwyr a geiryau  
 Ym penn y pennaf a gicleu  
 Kynnwryf tan lluch uaran llecheu  
 Kyfnewid newyt las ureu  
 Kyuaryf wyf o rwyf rut lafneu yg gnif  
 Kyuoethawc kynnif kynulaen cadeu  
 Llywelyn nyd llese devodeu  
 Llwybyr ehang ehofyn uydd meu  
 Llyw yw hyd gerynw aed garnet y  
 ueirch

Lliaws ac kyueirch kefei nyd geu  
 Llew gwynet gwynueith ardaleu  
 Llywydr pobyl powys ar deheu  
 Llwyrywys caer yn aer yn arueu  
 Lloegyrr breityaw am brut anreithieu  
 Yn ryuel frwythlawn dawn diameu  
 Yn llat yn llosgi yn torri tyreu  
 Yn ros a phenuro yn rusauen freinge

Llywtedic y einge yn lluyteu  
 Hil gruffut grymus gynnetueu  
 Hael gyghor wrth wrth gerteu  
 Hylathyr y ysgwyd escud bareu gwrt  
 Hylym yn kyhwrt kyhoed waedfreu  
 Hylwry vwry uar gymell tretheu  
 Hawlwr gwlad arall gwledic rieu

Hartet o uonet uaeu gaereu dreisdwyn  
 Hirbel ual flamddwyn y flamgyrcheu  
 Hwyluwawr dreic dragon gyuetu  
 Heirt y ueirt yg gylch y uyrteu  
 Hylithyr y gweleis dyt goleu y uut  
 Ae uetgryn wiroteu  
 Iddaw y gynnal kletyual cleu  
 Mal arthur waew dur y deruynueu  
 Gwir urenin kymry kymreisc donyueu  
 Gwrawl hawl boed hwyl o deheu

## DADOLWCH I LYWELYN FAB IORWERTH.

ELIDIR SAIS AI CANT. O L. E. D.

GNAWD yr yfawdd glyw gloyw win—o  
 fuaf

O fuarth buelin

Gnawd cathleu cogeu cyntefu  
 Gnawd y tyf tywys o egin  
 Gnawd y doeth cyfoeth cyfyewin  
 Ni nawd nid llonydd a llwyfin<sup>1</sup>  
 Hiraeth am ry wnaeth rewin  
 Braint brodyr gwellwyr gollewin  
 Broder de braw aele elin  
 Duw a mair a chwair yn chwertthin  
 Chwerthid bryd o bryder chweurin  
 Dothyw llew a lluchyg gorddin  
 Detholwalch buddugfalch byddin  
 Llywelyn llyerw freyenhin  
 Llary ddefawd llyw gwyrdrawd gwydrin  
 Nid wyf gynnefawd gynnefin anchwyf

Ni rybum gerddennin  
 Edrych cyrdd cerddau Taliessin  
 Edrych ni mor wyf eddein  
 Ry ddarfod brau gyfnod Breiddin  
 Ry ddywawd oi farddwawd Ferddin  
 Cyssul ath roddaf oth rin wyd goreu

Gorofn tra nierin  
 Ystyrych pan dreisych dros ffin  
 Ystwng pawb hyd ben ei ddeulin  
 Bydd wrth wann gyfran gywrenin  
 Bydd iawn llary<sup>2</sup> wrth gorddau iownllin  
 Bydd wrddrud aer ddyld ddilin  
 Dilein Loegr a llwgr oi gwerin  
 Trugaredd ath fo oth feinin gaerwedd  
 O garu Duw ddewin

## KYNOGION OR DADOLWCH.

Llywelyn hyddyn haedd am par cywlad  
 Cyfluddion Udd kessar  
 Om rhoddud rwyysg ufeliar  
 Da rodd dy fodd heb dy far  
 Dy far Llywelyn a fu fawr i drwm  
 Ei drymed am diddawr

<sup>1</sup>Neu, allwynin.

<sup>2</sup>Neu, iownllary.

Eurdreth o drymyn pob llawr  
 Aerdrange gwr ieuange gwriawr  
 Gwr gwraf gorsaf gwerysll Afarwy  
 Ei fareu am erchyll  
 Aerflawdd Lloegr lluoedd erfyll  
 Arfrudd er cyhudd nim cyll  
 No cholled alaf elw freunier om tal  
 Tebygach ym lawer  
 Heb eisieu neb neuom<sup>1</sup> ner  
 Oes wogawn<sup>2</sup> hwyldawn haelder  
 Haelaf oedd Fordaf ath fawrdad am ged  
 Nym gedynt arallwlad  
 Eryf llu arwr lleiddiad  
 Eryr ar gedwyr nam gad  
 Nam gad i wybraw eb obryn dy far  
 Oth fawr ehang derfyn  
 Glew llawr cenedl fawr Eerfyn  
 Glyw liwelydd Lywelyn

## ENGLYNION MARWNAD

EDNYFED FYCHAN A THEGWARED AP IARDDUR.  
 ELIDIR SAIS AI CANT. O L. E. D.

UWCH ben bedd newydd Ednyfed y bum  
 Ym bu deigr hyd arfedd  
 Cymraw Lloegr cymrwyn lliwed  
 Cyman ced wychran weithred  
 Gweithred Tegwared gynt y gweryd  
 llawr  
 Llawen beird oi wynfyd  
 Gnawd oedd ei wayw yn waeddyd  
 O waedlan rhuddai wan rhyd  
 Rhodwyt ar gymryd oedd ar gyman llu  
 Llary Ednyfed fychan  
 Oedd Bann Gawr am ben garthan  
 Pan gafas aerwas eurwan  
 Erwan ym galar galan hyddfref ddwyn  
 Meu ei ddwys ddioddef  
 Tygiant eidduniant addef  
 Tegwared Ednyfed nef  
 Nodded nim rhodded rhag rhygyr arfeu  
 Arfod Cai a Bedwyr  
 Yngorofn trai trais fynyr<sup>3</sup>  
 Y gwriawr cadwawr cedwyr  
 Om cedwyr lary ni lawag daer  
 Duw a wyr eu manag  
 Gwresaic<sup>4</sup> pybyl pobyl ofynag  
 Gwers y mal arall y mag  
 Or a fag daear hi ai dwg ai phlant  
 Ai phlaeoedd am gorllwg  
 Bu ron ym am dragon drwg  
 Dreigioedd amlaen oedd amlwg  
 Oedd amlwg aerlladd cyn orllen gwydd-  
 fedd

<sup>1</sup>Neu, neuo.    <sup>2</sup>Neu, gwogaw.    <sup>3</sup>Neu, nynyrr.

<sup>4</sup>Neu, gwresain.

Fal gwyddfid cylch gwrysgen  
 Glyw parchfawr ameu perchen  
 Ai perch Duw dofydd uch ben  
 Uch ben ys——

AWDL MARWNAD HYWEL AB  
ARTHEN.

ELIDIR SAIS AI CANT. O L. E. D.

HOED an cyferyw cyfarwydd  
 Yw duw am ein diheurwydd  
 Hoeddl dewrwr can deryw yngwydd  
 Hydr ei wir am ei waradwydd  
 Neud oerfedd haulonedd hylwydd  
 Hylawch cerdd oedd ef yngherthwydd  
 Neud araf hywyl peri parodwydd  
 Pur wohen diben dibechrwydd  
 Cyn tewi rwyu tywarch glaswydd  
 Gloes angeu nid anghyfarwydd  
 Yspaid hir haelon yn ei orllwydd  
 Yspyddawd oes barawd barthlwydd  
 Ys bwyf yn oed dyn dengmlwydd ar  
 hugain  
 Rhag deulin fy Arglwydd

## MARWNAD

A GANT ELIDIR SAIS'I RODEI AP OWEIN.  
 O L. E. D.

DA ym goreu Mair fal yn maeth cul-  
 wydd  
 Celfyddyd wasanaeth  
 Colofn nef nestig meidraeth  
 Meidradur llafur pob llawnaeth  
 Lleha fi fy rhi yn rhyolaeth nef  
 Ith nodded frenhiniaeth  
 Bendigws Dews dialaeth  
 Diwolo ei weledigaeth  
 Y pum torth ar pysg pysgaduriaeth  
 gwyrr  
 Gorober ehelaeth  
 Cyfran deg ei dygiaw a wnaeth  
 Cyfri llu llydan o bennaeth  
 Cyfraithgar ni gar neginiaeth<sup>1</sup> cyfren  
 Cyfryw seint yn lyweddydiaeth  
 Cyfoethau fy rhen nis rhydraeth tafawd  
 Tan awyr ny hiraeth  
 Hir ydd wyf oddnwyf yn alaeth  
 Gwae brydain am briodoriaeth  
 O golli rhodri neud rhygaeth eirchiaid  
 Am parchai llu meddfaeth  
 O golled ym galled mawrwaeth

<sup>1</sup>Neu, negyiaeth, neu ueginiaeth. ;

Gallas drais diredd catraeth  
 Rhoddiad mad ym prydoedd pan aeth  
 Rhoddi seirch a meirch marchogaeth  
 Echwng Lloegr lledgynt farwolaeth  
 Och Dduw a ddaw ef etwaeth  
 I ystwng treiswyr treiswriaeth cynnygn  
 Ynghynif pryssuriaeth  
 Dyn yn fyw ni fedd oi arfaeth  
 Duw a fedd oi fuddugoliaeth  
 Ernywaf gallaf edgyllaeth ir gwr  
 Am gorug hynafiaeth  
 Arglwydd nef noddod ddarparaeth  
 Argleidr hwn ith arglwyddiaeth

---

ELIDR SAIS I DDUW.

O L. E. D.

RHAID yw ym dillwng tylluedd present  
 Canys pryssyr ei hoferedd  
 Rhedais o bechawd nid bychoddedd  
 O buchiant trigiant i'm trugaredd  
 Trindod am dycco o'm dygnedd<sup>1</sup>  
 I'm dogn eidduned wared wiredd  
 Teirffordd y denant etifedd ar Dduw  
 Yn y ddyfydd pawb i'r frawd gyhedd  
 Uchaf gwryy achaws gwirionedd  
 Llwyry gwyrdawd cyboedrawd<sup>2</sup> rhinwedd  
 Ac ail yw priawd enw prudedd  
 Tros fwyniant trigiant trugaredd  
 Tri da an goreu trydydd iw adaw  
 Edifeiriawg da Dwy nyw gommedd  
 Gomeddws Efa afal ddiwedd  
 Afar fu iw char ei chywryssedd  
 O Ddofydd y traethaf trwy gyhydedd  
 O Iessu y traethws iossedd  
 Am doethdwy<sup>3</sup> Dafydd am dudwedd yr  
 Israel  
 Oesran y delwy i dangnhefedd  
 Dydd y parcher rhai yn rhagyrwedd  
 Y perchir eraill y parch argledd  
 Cynadl a wna Crist wedi crogwedd  
 Cynnadoedd pobloedd pawb i'w orsedd  
 Cymhennaf yw i ddyn cyn ei ddiwedd  
 Cymmodi a Duw cyn mud ym medd  
 Cymryd oedd einym cymodlonedd cwbl  
 Cyn cablu o Ddaw ar ein buchedd  
 Pechu yr digonsam o gam garedd  
 Am gyrwyf drindawd dy drugaredd  
 Messur a ddodir ar bob maswedd  
 Moesen ai dywawd a Duw ai medd  
 Goreu yw i ddyn diw nnyd peri  
 Periglaur ei gymryd  
 Canys goreu Duw diwyd  
 Gwared plant rhag pla a thristyd

<sup>1</sup>Neu, diguedd.      <sup>2</sup>Brawd.—Ll. C.  
<sup>3</sup>Neu, dothyw, doethyw.

Gwr darpar y dirprwy lu byd  
 Garawys cymmerth pwys penyd  
 Dirfawr fu o feddwl ympryd  
 Dirwest Duw bu deugain pryd  
 Am Ddiw merchyr y brad dybu bryd  
 iudas  
 Bredychu ein yspryd  
 A difiau ynn dyfu ledfryd  
 Daly Iessu managu mwynglyd  
 Duw gwener bu crau bu creulyd  
 Crog ein tad an creis i gyd  
 Gwnawn erddaw arddewl<sup>1</sup> enenyd  
 Gwnaeth bob rhyw yn fyw oi febyd  
 Duw Sadwrn ys aeth ys eithyd ym  
 medd  
 Maddeuaint anhyfryd  
 Trannoeth y goreu ail gwryd  
 Gwirfab Duw dangos ei fywyd  
 Duw Sul dwysaf cof awr y cyfyd haul  
 Cyfodes oi weryd  
 Chweddwl mawr an defry nid ef dyff-  
 ryd  
 Deffro Crist celi ein celfyddyd  
 Culwydd an goreu ni ac an gweryd  
Dau corem a wna dyn yn gaeth

<sup>1</sup> Rhag rhuthr gwynt <sup>2</sup> Eira'mynydd ffel cadno.  
gwydd gwyrant. <sup>3</sup> Ac escynnu o du corf.



Eiry mynydd hydd mewn brwyn  
Oer mignedd medd yngherwyn  
Gnawd gan bob-anafus gwyn

Eiry mynydd hydd yn ffos  
Cyvyd lleidr a hirnos  
Cysgid gwenyn yn ddiddos

Eira mynydd cynglenydd afon  
Hwyrweddawg ynghynydd  
Ni moch dial mefl merydd

Eira mynydd pysg yn llyn  
Balch hebawg vacwyawg unbyn  
Nid ef a geiff pawb a ofyn

Eiry mynydd coch blaen pyr  
Llidiawg lliosawg ongyr  
Och rhag hiraeth fy mrodyr

Eira mynydd buan blaidd  
Ystlys diffeithweh a draidd  
Gnawd neb anaf ag diaidd

Eiry mynydd hydd nid hwyr  
Digwyddid gwlaw o awyr  
Megyd tristyd lledfryd llwyr

Eira mynydd eilon ffraeth  
Gowlychyd tonau blaen traeth  
Kelfydd celed ei arfaeth

Eira mynydd hydd mewn glyn  
Gwasdad vydd haf araf llyn  
Barflwyd rhew glew i erchwyn

Eiry mynydd brith bron gwydd  
Cadarn fy mraich am ysgwydd  
Eiddunaf na fwyf ganmlwydd

Eira mynydd hydd yn nghoed  
Na cherdda dedwydd ar droed  
Mecyd llwfr llawer addoed

Eira mynydd hydd arnaw  
Hwyad yn llyn gwyn alaw  
Diriaid ni myn gwrandaw

Eira mynydd coch traed ieir  
Bas dwfr men yd lefeir  
Anchwanecyd mefl mawreir

Eira mynydd gwyn ei gnu  
Ys odidawg wy ——— ku  
O gar gyda mynych athreiddu

Eiry mynydd dydd ai droeth  
Bid glaf bob trwm llwm llednoeth  
Gnawd pob anaf ar anoeth DIWEDD.

## GORCHAN Y MAIN GWYRTH.

TALIESIN AI CANT. O L. H. Y.

PAN gyfyd gorsedd o'i gorweddfa  
A chyrch maen Gwyrth gan gymanfa  
Ag elgan edwain ar lawr Gwyddfa  
A phawb yn cyfarch parch i'r penna  
Yna bydd creulon balchder a thraha  
A'r cam ar gadfarch a'r gwir yn isa  
A'r cywir dan garn yn y sangfa  
Ag ymladd ym mhob Gwlad gan luedda  
A laddo lle'r el a fydd penna  
A ddywetto 'n groch a fernir yn ddoetha  
Yna i rhifer y gwŷr draw ag yma  
A phrin yr ymborth ag eisiau bara  
A meirw gan ddrud ymud yma  
Yna syrth yn ein plith chwith gymanfa  
A'r Gormes an cymmhell i'r ffordd bella  
Pan daw ewig lwyd i fynydd Asa  
A'r Eryr at wŷr i ben Garth-Ganna  
Gwae frodir Eßyllt gan ai treisia  
Gwyn fyd ym Mhowys y cyfrwysa  
Gwibiolion ddynion heb Aneddfa  
Gobaith a dderfydd gan hir draha  
Gwystlon yn drychion a gyrchir i drennfa  
Y Paun o'r Llwyfenni au cymmell i'r  
Gwyddyl ar y tir a welir yna [ddalfa  
Ag i Faelawr fawr yr ymgyfeiria  
Yna y bydd dedwydd Brynn y Wyddfa  
Ag o hynny allan Sais a ddiflanna

TALIESIN BEN BEIRDD ai cant o Flaen  
Arthur yn Nghaerlleon ar Wysg.

## LLYMA DDAROGAN

A GANT HEININ FARD I FAELGWN GWYNEDD.  
O L. H. Y.

## I.

CYNTAF daroganaf o'm daroganair  
Cwynfan Brynn Melarth cad gyffleair  
A'r Gwanwyn dunoeth a'r dygn Gyngrair  
A sul y Pasg gwyl gyhydedd Gwen Fair

## II.

Daroganaf arnaw yr Haf hir felyn  
A phob Dyffryn yn llawn o'r grawn di-  
newyn  
A gorescyn llydan y Rhydain llwydwynn  
Lle daw ai arfau ai blaid i'r gorllewyn  
Llew goruchel Rhyfel yn goresgyn  
Lle bynnag y del y bydd derwyn

## III.

Gobaith rhagllaw y daw i lywenydd  
Yn ymgyweiriaw a phob deunydd  
Gwyr a Meirch Llydaw llydan eu llyudd  
Yn rhoi 'r alanas ar elorwydd

## IV.

A llynges draw yn hwyliaw i'r Wenn Yn-  
ys  
Addaw Llydaw llwydion eu hemys  
A dig ymarwar moroedd dyrys  
Yman a ddaw gan ddewr ymgyfrys  
Prifion milwyr arfog yn eu hystlys  
Am Frynn Dinewyr dydd a'u dengys

## V.

Pan ddel llu dibafarch o barth gogledd  
I Aberdaugleddau heb ymyr ommedd  
Ag i Aberhodni deuant diau y diwedd  
Gwae wynt y Beilchion gwyn eu byd lle  
bont yn hedd  
Pan ddyffo Dofydd yn Nialedd  
Ys dangal a fo da ei fuchedd

## VI.

Llu tramawr yn helau tonnau Teifi  
Uchel eu rhwysg rhwyf rhyddyfysgi  
Tair breuddwyd a brofir  
Eu bod yn wir a gwir  
Tair Rhandir yn ymrysoni

## VII.

Tair Blynedd o'u blaen wynt a glywir  
Tair naw a ddwg ffirwyth wedi'r wyth y  
gwisgir  
Tair Asgell ar well a gynhelir  
Tair buwch mewn buarth ni welir  
Tair anesgor a wasgar bob rhandir  
Tair gwraig anniwair ar lawr mae'n  
gywir  
Un yn lle y ddwy a gynhelir  
Cynnullawg yw'r anser gwelir  
A Lloegr i'r Llew a orestyngir

## VIII.

Mi a ddanfonaf faen a thri mor yiddaw  
Ag a wnaflafad a main brwd i' th ddys-  
trywiaw  
Mi a wnaflafad yn gadwr o Lydaw  
Mi a ddanfonaf dy aelodau cyn peidiaw  
A'th eppil a'th had gad gynhulliw  
At y cwn ar bleiddiaid a'r brain iw bwyt-  
taw  
Mi a ddanfonaf anwiredd i'r lle y daw  
Mi anfonaf wledd o'r sygnedd i'r neb ai  
haeddaw  
Mi anfonaf ddiwedd i'r anghywirion  
Mi anfonaf rad yn y mor a'r donn  
Mi anfonaf wial Beirddion i flodeuaw

## IX.

Mi osodaf ffynon yn yr uchelion  
Mi osodaf rhyfel rhwng hen elynion  
Mi osodaf lanw mewn saith afon  
A llid llif Tonn  
Yn saith Aberon  
Mi anfonaf nifer yn berchennogion

Mi osodaf blu ar y rhai noethion  
Ag a rof iechyd i'r rhai cleifion  
Fal y bo'r byd am hyun yn ymryson  
Mi osodaf y cyfoeth rhwng annoethion  
Fal y bont gurawg gan ymryson  
Mi osodaf hedda a choledd i bob cyfrad-  
lon

Pum naw a ddeholant Estroinion  
Pum tri yn ymryson  
Yn bleidiau blinion  
*Gracia Tempora terra*

Tarw maen mawr i'r llawr a ollynga  
Llynges o foroedd a dramwya  
Hyd andiroedd Ammyr mein a'u harweinia

HEININ BARDD MAELGWN GWYNEDD  
AI CANT.

PROPHWYDOLIAETH Y BERGAM  
O FAELOR.

O L. H. Y.

## I.

TRAETHAF yt fardd daf  
Cyd cyfanned o gof a'th gaf  
Diyngyd a byd bydaf  
Bryd ar lunaw  
Traethasom awenydd  
Y dydd y daw cynnydd  
Ar fro ag am foydd  
Heb orddwyn cwyn cilydd  
Caled ddifiaw

## II.

Pan ffirwytho coedfryn  
A chad ar y Brynn gwynn  
A choelfain byd cynglyn  
Conglau dreiddiaw  
Pan chwawddo Ofydd  
Lle'dd ymgyferfydd  
Yn niffaith maith mynydd  
Ag yn y sylf o dan y gwydd  
Dydd ymdeithiaw

## III.

Arth o Feli a rydd  
Ryddyd a chynnydd  
I Bowys dwys drefydd  
Ag i bob Cymro y bydd  
Pawb cyfun ai gilydd  
Un cyfar cyfannnydd  
Ar y byd a ddyfydd  
A heddwch hir ysblennydd  
A fynno Duw diau y bydd

BERGAM O FAELOR AI CANT.

PROPHWYDOLIAETH IEUAN  
TRWCH Y DARAN.

O L. H. Y.

PENNAU'R Byd i'r llawr a ddigwyddan  
Mab y Dyn a'r Eryr o hynny allan  
Y Byd ai holl wledydd a feddianan  
Yna bydd Tangnefedd a llafar y Gan  
Hyd wyneb y byd a phob diddan  
Ag ar y ddaiar daioni cymman  
Ag ymchwel gwynfyd i bawb yn gydgyf-  
ran  
Ag i Dduw'r gogoniant yn yr uchelfan

Y MAB CRYG A'I CANT.

O L. C. II.

Duw diadnair a mair maer cynghorion  
A wna rhag lladron dynion dannod  
Aethpwyd am teiriair taeriaith ffyrnig-  
rwydd  
Trangwydd naws arwydd y nos arall  
Ni fu' ryw lefain damwain dymmestl  
Ac a fu echos i'm diddos dy  
Er pan laddawdd cawdd y cath losgryn-  
grin  
Y ei lledfegin llwyd a fegais  
Dyfod y carnlleidr gwmeidr garinal  
Ac yspeilio'r ty hyd nos tywyll  
Arfaethu mynuu cawell mynaedd teg  
A dwyn fy nhaedeg murchweg mawr-  
chwedd  
Edrych a urug ffug uffern drum  
Ar hyd y ty clyd bryd bredychfoes  
Ac arganfod rhidyll y tringod  
A drylliau fy ffon drwy'r un ffenestr  
Cufas y lleidr was gyda 'm llawdr wael  
Cyfaillt anniwyd bryd i brydydd  
Crib ffyrting nidling neddwallt gymman-  
fa  
A llwy droed gwta drud a gattel  
Hirgrog i'r diriaid oer daid od ai  
Am gwal poen gofal hyd pan gafas  
Hengod fyngwhegr rhwng hengist at-hil  
A thyllau gwiril yn y gwarag  
Nid edewis ym dim grym grymiant  
O'r trysor trawsfyg lawdr byg bagan  
Dieithr elwyd nawieir bywion hwngyrdl-  
awd melt  
Wrth dda reffyn wellt gyssellt gasaf  
Cigfrain a weler uwch y wilers  
Yn dial f'anrhaith gwaith gwythlonder  
Ar ddinas maelawr lle mae molest sôn  
Ysgwyd pren lladron am eu lledrad

Neu, bu.

Y MAB CRYG AI CANT.

O L. C. H.

CRIST Crair unmag mair mawr ryfeddod  
Am gri bilain sais trais wtreswr  
Nad a hëyrn chwyrn chwyrndwrech gwadd-  
awd blas  
Y doeth y lleas cyn glas gloeslif  
Can oedd celwyddawg rhochgawg rhech-  
gawr  
A flast ac anghlaer murdaer mawrdwyll  
A flugiawl trethawl truthain amrhydfertth  
A serth ac anferth swrth ac ynfyd  
Am fy ngharcharu tru tra digter  
Trwy weithred Griffri cablgi cwblgas  
Prif afonydd rhydd rhwng Gwy a hafren  
Modrybedd cymmen mi ai cymmerth  
Un oedd defeidiad ddifrad ddyfrys  
Enwog brif afon tros Fôn traws fodd  
Eurgaddug can dug y dogi gwaddawd saig  
I'r oren carrwraig yn dwyn corwrysg  
Ar ail dwfr gynnaill deifr ar gynnwri  
Oer yw i ddedydd cerydd cares  
Dig oedd Ieithon son seingul racawdo  
Deffro rhwyd ortho be rhaid wrthi  
Trydedd mawr gochweidd er marw gy-  
chwedd  
Bei cefid trwy lid adled bu erw  
Ofer gleiriach sach sarrug ei wagffon  
Afon cymmaron ai cymmerai  
Ceisiau Griffri ddeifrigi ddwfrgwymp  
Gwnaeth ar ei thrawsryd pyd pedwardyn  
Glawedawg feinawr fwynaf cyfnithderw  
Clwyflif dros ganerw glwysferw glasfor  
Porth Duw i'r pontpren llethr asgen lithr  
Ar saer ai dodes yn odidawg  
Am ddychwelu enu enece bwch gynhorthwy  
Gan felyn fordyw falan fawrdwysg  
O gwlychawdd Griffri eri crin foelfors  
Uchlaw Trefycclawdd fawdd faethgennau  
Syched ei filcas bengam fflewld wyll  
Dibwyll arth ffwrndwyll wrth offerndan

Y MAB CRYG AI CANT.

O L. C. H.

Duw am rho deall call rhag cellwair  
Dyn wyf yn gwarthwyf oddigarthref  
I brydu canu ceinwawd gyfiawni  
I walch balch bylchwin fyddin faddau  
Coethrydd hael Ddafydd cynnydd kannyn  
Caith a ddiodeff rhag llef a llog  
Carcu cil eiddil eiddun hedd ddichlais  
Cerenydd a Sais rhag trais traethawd  
Ni bu ddigon rhydd greddf onnwydd grym  
Balchwy'r clod ddadweir mawreir meurig

Pan fu glau 'r hyntau yn Norhamtwn dref  
 Pan oedd ddioddef ynglef Englis  
 Cyffelyb a'r son y digones  
 Dafydd yn nhrefydd seisnig ryfedd  
 Ac y digones deg anwych deryn  
 Mareddydd ar llynn yn Llann Rhystyd  
 Pan welas Dafydd hwylddydd haelddeddf  
 Y gwyr yn yngur tyst ddolur tost  
 Myfyr oedd gantaw rhac antur ymladd  
 Brwydr nadd gwyr mawrradd gwers y  
 meirw  
 Can ni ddel yngawr llawr llwyddgyrch  
 Maith yw ei wirawd a'i wasgawd wisg  
 Llyw rhwysg Beirdd hyfrwysg rhwng  
 hafren a Gwy  
 Lle ynu i ofwy drwy dref Raiadr  
 Can ni bon undad mad ymodwrdd  
 Maredudd gyfiawn dawn a Dafydd  
 Brodyr ungalon wrth ymgiliaw ynt  
 I goed gad luchynt i gylechu

---



---

YR IUSTUS LLWYD A'I CANT.

O L. C. H.

I DDUW y diolchaf  
 Dewin plant Addaf  
 A'i Ddoniau cwplaf  
 Euraf eryr  
 Caethed ym faerdy  
 Coeth iawn yw hynny  
 Fal cwthr iar anhy  
 Yn eirina  
 Gruffudd iarll Mawddwy  
 Groth hanner aerwy  
 Grwth brau mewn burwy  
 Wrth hen bared  
 Grem llem llo truan  
 Groen hoen hen weinian  
 Gyrrawdd fi allan  
 Garran ellyll  
 Gwyr nid gwiw i fro  
 Gwarrog aseth dro  
 Gwyredd llo yn ffo  
 Rhag dwy ffiol  
 Gwaeg budrgengl rawn  
 Gwywedd henraw fawn  
 Gweddaiidd yw ei ddawn  
 Dilawn deulu  
 Gwarant ef ni eill  
 Er gwarae eraill  
 Gwyrawdd ei ddwygaill  
 Ô eiddigedd  
 Gwe he hen ddyfrchwil  
 Gwain fain faw rombil  
 Gwae a gais ymbil

A'i gas henbeth  
 Gwyd fryd frys godech  
 Gwadd glaf glun ffallech  
 Gwedd elech feinsech  
 Drwg fu f'ansawdd  
 Gydag ef echnos  
 Heb gudeb agos  
 Gedor bran wythnos  
 Wrth bren aethnen  
 Bum yn dirwestu  
 Bawa dyn a fu  
 Bwa gwrych tradu  
 Gwrâch mewn troedog  
 Yn Llys Ruffyddyn  
 Llef cath mewn ody  
 I'm llas o newyn  
 Ar llawr ei neuadd  
 Ynghroth loth ledpai  
 Ynghred na's llanwai  
 Nid mawr i'm dygai  
 Y mae'r digelo  
 Na bwyd na diawd  
 Na medd na bragawd  
 Dam mawd yn wassawd  
 Tan ei weision  
 Gruffudd ysgeler  
 Groth efnys tryfer  
 Gwddf amner maelier  
 Wrth glun miliast  
 Breiddfyw yw Gruffudd  
 Ebrwyddfudr drabludd  
 Bryd firwyn o goludd  
 Y bengaled  
 Brys bran yn corddi  
 Braich adain eli  
 Brwyd o grwyn dyfrgi  
 Gan adargwn  
 Brenin cwm llygod  
 Braidd fu ymddyfod  
 A'r lle anorfod  
 Uwch Llanurful  
 Pennaeth moel Benddin  
 Heb gael pynnan gwin  
 Pin wrth din yswin  
 Heb hossanau  
 Gwedi mod noswaith  
 Gwell myned ymaith  
 Yn y llys diffaith  
 Gerllaw ystyffwl  
 Gwag oeddwn dranoeth  
 Yn gadu'r cyfoeth  
 Fel bran esgeirnoeth  
 Brin ysgornach  
 Yscornach codowrach<sup>1</sup> ei  
 Ys gwyr newyn hoenyw hweh  
 Ysgwydd cylionyn isgell  
 Ysgawd o fewn bargawd bwth

<sup>1</sup>Neu, cod owrach.

## YR IUSTUS LLWYD AI CANT.

O L. C. H.

MADAWG gorynnawg gwr anelw ei fyw  
Gwas drygyrw ceillsyw collswydd Rhydd-  
erch

Medrawdd ni gedawdd ei hen gadach ym  
Nid modur gwiwrym minllym manllaes  
Madws i'r bawdlws bodlon ni byddaf  
Ni chaf y gauaf dim o'i gyfoeth  
Medr goelgant raminant ramiwr<sup>1</sup> puteiniaid  
Moelsaid nid callnaid yn oed collnef  
Mair a'i mab gwir grair gwawr Grist gym-  
myrredd

Yssydd anrhydedd maraudd mad  
A ddifao y llo lleithgabl o wanas  
A gan denebras ar din ebrwydd  
Ar wair mul-gont gul gant gwas faidd for-  
dwy

A'i mwn mal aerwy march Maelorig  
Hawdd ganthaw addystir pe i herchid  
A phyth ni cheffid odid eden  
Eddewis er's<sup>2</sup> mis a mwy no blywyddyn  
Ym ei gedechyn cefnudedyn cul  
Sorraais na's cefais cyfyng offeiriad  
A'i dad oedd reiniad taergad dyfrgwn  
Swrcodan druan adrywedd noethi  
A fu am Fenlli yn hen fonllawdr  
Hi a fu yngwydd llw fab Llyr llediaith  
Hi a fu gauwaith yn hen gonach  
Hi a fu am wyneu<sup>3</sup> wenn cabl rheidusion  
Hi a fu am Wýdion ac am Eudaf  
Hi a fu yn rhyunu 'n oes rhan duran  
Hi a fu yn llunan cregyn llenmeirch  
Hi a fu yn babwyr i'r aurbibau  
Hi a fu yn llymu rhag llymed ei charn  
Ar ol pais Badarn rhac pas bydawl  
Hi a fu yn nychu yn achos ei haint  
Hi a fu am Éraint ac am Arwy  
Hi a fu yn gwasgu gweisgion ar fara  
Hi a fu'n Saesonia y mewn Senedd  
Hi a fu'n gresawu Sawel benuchel  
Hi a fu'n gawdel i hen Gadell  
Hi a fu'n mygu ynghylch megin ledr  
Hi a fu am fam Bedr yn cael bedydd  
Hi a fu'n cyrchu cyrch ebawl cattus  
Hi a fu am Fruttus yn hen frettyn  
Hi a fu yn malu ym melin Reinallt  
Ar hyd cae llugallt yn rhwyd llygod  
Hi a fu yn tyllu nid dillyn clerwr  
Hi a fu yn Neuddwr ac yn neiddef  
Hi a fu yn llechu lluwch Eiry mynydd  
Bellach am gybydd ymae'n hen gebystir  
Hi a fu'n crynu rhac crined ei llain  
Hi a fu'n llefain am hên llafais<sup>4</sup>  
Hi a fu'n tarnu turnen wraig fab Pyll  
Hi a fu yn bebyll i hen Babo

Hi a dynnwyd yn rhwyd ar hyd cwm sas-  
nast

I geisiaw dyfrast yn ei dwyfron  
Hi ni chad trwy frad mae'n fradw ei llun  
Gan berchen corun byth ni'n curied  
Madawg yw hwnnw meudaf llwy haiarn  
Calon cul faen sarn carn corn iyrhell  
Gwisgawdd am danaw uch Dinerth yn  
Rhos

Swrcod anniddos cylch cylch ei neddair  
Byth yn rhodd o'i fodd nid Rhydderch  
gampau  
Noeth yw fy ysgwyddau anosgeiddig  
Ni welir am ddyn eddewid ganthaw  
Ni ddaw o'i ddurllaw Fadawg ddyfrllyd  
Madyn gi gelyn gogaled wynu  
Yn y ddel esgob du o din dyfrgi  
Hi a ddoeth yn noeth o neithiawr Franwen  
Hyd yn Llys Facsen nid llaes focsach

## OFFICIUM B. MARIE.

Gwasanaeth Mair wedi ei dynnu o'r Lladin Ynghym-  
raeg y gan Dlafydd Ddu o Hiraddug hyd mae  
pawb yn tybiaid ac a gopiwyd yma er mwyn cael  
gweled y dull oedd gan yr oes honno ar gyfieithu.

O L. E. D.

HYN a ddywedir o flaen pob awr—  
Henpych gwell Fair cyflawn o rad Duw  
gyda thi bendigaid wyt ym mhllith y gwrag-  
edd a bendigedig yw ffirwyth dy groth di  
Iesu. Amen—Arglwydd agor fy ngwef-  
usau. Am genau a fanaig dy foliant. Duw  
ystyria im gynhorthwy ym. Arglwydd  
brysia im cymmorth Gogoniant i'r tad a'r  
mab a'r yspryd glan. Megis ydd oedd yn  
y dechrau ac y mae yr awr hon ac yn  
wastad ac yn oes oesoedd. Amen.

SALM 95.

DEUWCH ymddrychafwn wrth yr Arg-  
lwydd canwn i Dduw ein iachawdur ni.  
Rhagachubwn ei wyneb ef ynghyffes a  
chanwn Sailm iddaw. Canys Arglwydd  
mawr yw Duw a brenin mawr ar yr holl  
dduwiau can ni wrthladd yr arglwydd ei  
blywf canys yn ei law ef y mae holl der-  
fynau y ddaear ac ef a edrych uchelder y  
mynyddoedd. Canys of a biau y mor ac  
a'i gwnaeth ai ddwylaw a seiliaidd y dy-  
warchen. Deuwch, addolwn a syrthiwn  
rhac bron Duw wylwn yngwydd yr Arg-  
lwydd a'n gwnaeth. Canys ef yw ein  
Harglwydd ni a ninnau yw ei bobl ef a  
defaid ei borth ef. O chlywch heddyw ei  
lef ef na chybydded eich calonnan megis  
ynghellwair herwydd dydd prawf yn y di-

<sup>1</sup>Neu, rimiwr. <sup>2</sup>Neu, es. <sup>3</sup>Neu, wynu.<sup>4</sup>Neu, llawes.

ffaith yn y lle ydd ym brofasant eich tadau  
chwi—hwynt am profasant ac a welsant fy  
ngweithredoedd. Deugain mlynedd y bum  
gyfnesaf ir genhedlaeth hon a mi a ddywed  
ais y mae eu calonnau yn wastad ynghyf-  
ailorn ac nid adnabuant hwy fy ffyrdd i.  
Wrth y rhai y tyngais yn fy llid na ddeu-  
ynt i mewn i'm gorphwysfa. Gogoniant  
i'r tad &c.

EMYN. QUEM TERRA PONTUS &c.

Mair addwyn forwyn fawredd a ymddug  
Y gwr a'i gorug o'i drugaredd  
Mawr foliant mab sant saint orsedd nef-  
awl  
Mair ddeddfawl ddwyawl ddiwael bensedd  
Môr llafar daear duedd ac awyr  
Hael a lloer yn llwyr llwrw teyrnedd  
Mair greawdr llywiawdr llyw hedd tŵr  
doniau  
Tair ffyrf defnyddiau gwiw radau gwedd  
Mirain wryr ysgain osgedd gwynfydig  
Wyt Fair fawrhydigid fawr anrhydedd  
Morwyn yn ymddwyn em ddawn feuedd<sup>1</sup>  
byd  
O ysbryd gleindyd glan etifedd  
Moliant gogoniant gwnedd i'r Drindawd  
Tair person undawd undeml fonedd  
Amen.

SALM 8.

ARGLWYDD ein harglwydd wyt a gwyllt a  
gwâr  
Mor-rhyfedd dy henw yn yr holl ddaear  
Canys drychafedig yw dy fawredd  
A'r uchaf nefoedd Dduw ben teyrnedd  
O enau maibion yn dyfnu gwnaethost fol-  
iant  
I ladd dy elyn a dialwr chwant [edd  
Can gwela' nefoedd gwaithredoedd dy fys-  
Lloer a ser y rhai a seiliaist i'th anrhydedd  
Beth yw dyn canys coffei ef  
Neu fab dyn a dramwy o nef  
Lleiheist ef noc engylion gwisgaist o goron  
enrhydedd  
A gosodaist ef ar weithredoedd dy ddwy-  
law o'th drugaredd  
Pob peth a ddarestyngaist dan ei draed ef  
yn rhydd  
Defaid ac ychen ac anifeiliaid y maesydd  
Ehedaid nef a physgod y wailgi  
Y rhai a hwyliant lwybrau môr heli  
Arglwydd ein harglwydd wyt a gwyllt a  
gwar  
Mor rhyfedd dy enw yn yr holl ddaear  
Gogoniant i'r tad &c.

<sup>1</sup> Neu, reufedd.

SALM 19.

GOGONANT yr arglwydd a ddatgan y nef-  
oedd  
A'r ffurfafen a ddengys ei ddwyllaw weith-  
redoedd  
Dydd i ddydd a ddiguddia gair diwyd  
A'r nôs a ddengys i'r nos gelfyddyd  
Nid oes barablau nac ymadroddion  
Ar ni chlywo llefoedd y gwyr doethion  
I bob tir ydd aeth eu sain ac eu llafar  
I ymylau cylch y ddaear  
Yn yr haul y gosodes ei annedd a'i gell  
Ac yntau mal gwr priod yn dyfod o'i ys-  
tafell  
Ymddrychafawdd fal cawr i ffordd ryediad  
Bu o nef uchaf ei hynt fynediad  
Ai gyferbyniad hyd uchelder  
Nid oes a ymguddio rhag gwres ei gallder  
Difagl gyfraith yr arglwydd a ymchwel en-  
eidiau y rhai trua'n  
A'i gwir dystiolaeth a ddryr ddoethineb i'r  
rhai bychain  
Cyfiawnder Duw a lawenaa calonnau ar  
naid  
A'i eglur orchymymn a oleuhaa llygaid  
Sanctaidd ofn Duw a drig yn oes oesoedd  
A'i farnau a gyfiawnheir ar gyhoedd  
Eiddyn ynt yn fwy nag aur nac emmau  
A pherach ynt no mel a'i ddilyfau  
Ath was a'i cedwis yn ddianwadal  
Ac am eu cadw dirfawr iawn fydd ei dal  
Pwy a ddaill ei feiau glanhaa fi o'm dir-  
geloedd  
Arbed ith was am ei arallion gamweithred-  
oedd  
Onid arglwyddasant arnaf difagl fyddaf  
Ac ef am glanheir o'r gweithredoedd mwyaf  
Ac ef a ranga ei fodd ymadroddion fy  
ngenua  
A meddwl fy holl galon ger dy fron dithau  
Arglwydd fy nghynnorthwyawdr  
Tydi yw fy mhryniawdr  
Gogoniant i'r tad.

SALM 24.

Duw biau y ddaear a'i chyflawnder  
Byd y daierydd a'i breswyl nifer  
Canys ar y moroedd ef a'i seiliawdd  
Ac ar yr afonydd ef a'i cyweiriawdd  
Pwy a esgyn ar fynydd yr Arglwydd  
Neu pwy a saif yn ei santeiddrwydd  
Diargywedd o ddwyllaw a glan o galon  
A diorwag ei enaid a difrad i'w gymmyd-  
ogion  
Hwn a gaiff fendith gan y creawdr  
A thrugaredd gan Dduw ei Iachawdr  
Hon ydyw'r genhedlaeth a'i cais efo

Ac a wyl wyneb Duw Arglwydd pobl Iago  
Agorwch eich pyrth dwysogion a chenwech  
foliant

Ymddrychefwch dragywydd byrth i frenin  
y gogoniant

Pwyr brenhin gogoniant hwn a ddaw at-  
tam yn ddirgel

Arglwydd cadarn cyfoethawg a gallus yn  
rhyfel

Agorwch eich pyrth dwysogion a chenwech  
foliant

Ymddrychefwch dragywydd byrth i frenin  
y gogoniant

Pwyr brenin gogoniant hwn wrth gael  
moliant

Arglwydd y nerthoedd yw brenin y gogon-  
Gogoniant i'r tad &c. [iant

LLITH LUC 1, 26.

GABRIEL a anfoned yn gennad y gan  
Dduw i ddinas yn Galilea yr hwn a elwir  
Nasraeth i briodi morwyn a gwr a elwid  
Ioseph o lwyth Dafydd. Ac enw y forwyn  
oedd Mair. A phan ddaeth yr angel i  
mewn attai y dywawd ef hanpych gwell  
Fair gyflawn o rad Duw gyd a thi bendig-  
aid wyt ynghyfrwng y gwagedd. A phan  
gigleu Fair hynny cynhyrfu a wnaeth a  
meddyliau pa ryw gyfarch oedd honno.

A Dywedyd a orug yr angel wrthi nac  
ofnhaa Fair canys ti a gefaist rad y gan  
Dduw di a ymddygu feichiogi ith grôth ac  
a esgry ar fab a elwy ei enw Iesu a hwnnw  
a fydd gwr mawr a mab y gelwir i'r Goruch-  
af ac ef a rydd yr Arglwydd Dduw iddaw  
eisteddfa Dafydd ei dad ac ni bydd diwedd  
ar ei deyrnas ef. A dywedyd a orug Mair  
wrth yr angel pa fodd fydd hyn can nid  
adwaen i wr? A dywedyd a orug yr angel  
gan ateb iddi yr yspryt glan a ddaw ynot  
ti a nerth y Goruchaf a th wasgoda wrth  
hyn y peth santaid a aner o honat ti mab  
Duw y gelwir. A llyma Elsbeth dy gef-  
nithderw gwedi ymddwyn mab yn ei hen-  
aint a hwn yw y chweched mis iddi yr hon  
a elwir yn anfab can nid oes un gair diallu  
herwydd Duw. Ac yna y dywawd Mair  
llyma fi yn llawforwyn i'r Arglwydd bid i  
minnau herwydd dy eiriau di.

Tithau Arglwydd trugarhaa wrthym.  
Diolchwn i Dduw. Dedwydd yn ddiheu  
wyt gyssegredig wyry Fair a theilwng wyt  
o bob rhyw foliant canys o hanot y ganed  
Haul cyfiawnder Christ ein Duw ni.  
Gweddia dros y bobl cyfrwng dyred dros  
yr ysgolheigion cyfrwng ddarestwng dros  
ofunedawl wreigawl ysglen<sup>1</sup> synnient bawb

<sup>1</sup>Neu, ysplen.

dy gynhorthwy or a anrhydeddo dy goffad-  
uriaeth canys o hanot ti y ganed Haul cyf-  
iawnder Christ ein Duw ni.

EMYN AMRROSA AC AWSTIN. *Te Deum.*

Ti dduw addolwn ti a weddiwn

A thi addefwn eiddun Ddofydd

Ti Arglwydd nefawl tad dragywyddawl

To daiar ath fawl y sawl y sydd

Engylion gerddau nef a'i feddiannau

Oll ath fawl dithau rhiau rhyidd

Serubin gynnwys Seraphin frowys

A ganant yn lws leisawd newydd

Sant sant sant Arglwydd Sabaoth culwydd

Santaidd fawr hylwydd hwyl haul loyw-  
ddydd

Llawn yw nefawl chwanto'th fawr ogoniant

A hylldo ariant holl daierydd

Gogoneddus gôr ebystl nefawl bôr

Ath fawl faleh gyngor gangau dedwydd

Molliannus i'n rhi rhif y proffwydi

Ath fawl Grist celi colofn bedydd

Canheid-lu creudwysg a gerddant ith wysg

Yn llu aur dur-frwysg yn llwyr dorffrydd

Santes eglwysawd drwy'r holl fedysawd

Dyro hael ddefawd o'th lin Ddafydd

Ein tad trugaredd anfeidrawl fawredd

Ai haddef pob gwedd gwiwddawn elfydd

Dy anrhydeddus unmab moliannus

A fawl crefyddus ffyrf gampus ffydd

Dy gyd ddiddanwch sant ysbryd elwech

A folir yn ffwech ffloyw leferydd

Crist beunadur cred brenin gogoned

Ti yw'n eidduned ydiwedydd

Tragywyddawl blant dragywydd dad sant

Ti biau moliant miloedd beunydd

Ti a gymmerth cnaud o fru morwyndawd

A dynawl giwdawd o nawd newydd

I ryddhau dyn y gan ei elyn

O uffern derfyn dwrf uselydd

Ti a egoraist i ddy n a geraist

Nef pan i'n prynaist ar bren palmwydd

Y mae d'eisteddiad ar ddehau dy dad

Ath breswyl gwastad mad mydr sillydd

Ti Arglwydd Iesu a ddaw i farnu

A fo ac a fu llu llewenydd

Nertha dy weision gwerth dy waed gwirion

Gwyrthfawr dy goron goralw grefydd

Par eu gobrwyaw gyd a'th Saint adlaw<sup>1</sup>

A'r fuchedd rhagllaw llyw lliosydd

Gwarded dy bobloedd gwerin dy wladoedd

Gweryd ar nefoedd naf rhysfaydd

Llywia hwynt nef nef llywiawdr uchelder

Drychaf uch no'r ser muner mynydd

Ti a fendigwn ti a addolwn

Gwastad i'th garwn i'th gerennydd

Molwn dy gampus enw anrhydeddus

<sup>1</sup>Neu, ac'aw.

Byth yn barhäus yborëydd  
 Teilynga heddiw ein cadw yn gywiw  
 Rhag pechod ymliw ymlaen llyudd  
 Trugarhaa naf nef trugaroccaf  
 Wrth bobl plant Addaf addurn gynnydd  
 Gobaith ein gorsedd bid yn ddiommedd  
 In dy drugaredd heb dro gerydd  
 Archwnein gobaith er erchyll dy laith  
 Na'n llygrer yn faith fyth tragwydd  
 Amen.

—————  
 MOLIANNAU. AD LAUDES.

Duw ystyria yn gynhorthwy ym  
 Arglwydd brysia i'm cymmorth  
 Gogoniant i'r tad &c.

—————  
 SALM 93.

Duw a wledychawdd tegwch a wisgawdd  
 Gwisgawdd gadernyd ac ymwregysawdd  
 Ef a gadarnhaawdd cylch y ddaiar  
 Hyd na's cydgyffroi'r fyth o'i darpar  
 Er hynny parawd yw dy eisteddfod  
 Duw er yn oes oesoedd gwir yw dy fod  
 Drychafasant arglwydd yr afonydd  
 Drychafasant lefoedd eu lleferydd  
 Drychafawdd afonydd donnau mawredd  
 Gan liaws lefoedd llawer o ddyfredd  
 Rhyfedd yw dirnadau'r môr a'i sôn  
 Rhyfedd yw yr arglwydd yn yr uchelion  
 Credadyn yn ddirfawr yw dy dystiolaethau  
 Santeiddrwydd a weddai ith dy yn hyd  
 ddyddiau  
 Gogoniant i'r Tad &c.

—————  
 SALM 100.

POB tir cenwch foliant i Dduw dofydd  
 Gwas'naethwch iddaw trwy lawenydd  
 Deuwch i mewn yn ei wydd ger ei fron  
 Yn hu lawen o lawenydd calon  
 A gwybyddwch mai'r Arglwydd yw Duw  
 ein rhi  
 Nid hwynt'wy namyn efo an gwnaeth ni  
 Ei bobl a defaid ei borfa agorwch ei byrth  
 trwy gyffes  
 Agorwch ei lysoedd cyffeswch iddaw ar  
 emynnu llës  
 Molwch ei enw hynaws yw yr Arglwydd  
 tragwydd ei drugaredd  
 Hyd enedigæth a genedigaeth byd y bydd  
 ei wirionedd  
 Gogoniant i'r tad &c.

—————  
 SALM 63.

Duw fy nuw i ti a folaf  
 Attad o leufer y gwiliaf  
 Ynot y sychawdd fy enaid i

Mor liosawg Duw yw ein gwawd itti  
 Mewn tir diffaith diffordd diddwfr yn sant  
 yt ydd ymddangosais  
 Yn y welwn dy nerth ath ogoniant yn  
 garuaidd lednais  
 Canys gwell yw dy drugaredd no bucheddau  
 Wrth hynny dy foliant a wna fy ngwefusau  
 Felly yn fy mywyd i'th fendigaf  
 Ac ith enw fy nwyllaw a ddrychafaf  
 Fal y llanwer fy enaid i o floneg a brasder  
 I'th fawl fy ngenau a'm gwefusau nef  
 muner  
 Felly ar fy ngwely ith goffais ti a'm ceraist  
 Y bore i'th feddyliaf canys ti a'm nerthaist  
 Dan wasgawd dy adenydd ydd ymddrych-  
 afaf innau  
 Glynodd fy enaid wrthyt fe a'm cymmerth  
 dy ddehau  
 Ofer y ceisiasant fy enaid i eithafion y  
 ddaiar ydd ant  
 Mewn dwylaw cleddyfau y rhoddir a  
 rhannau cadnoaid fyddant  
 Ef a lawenheir y brenhin yn nuw a molir  
 a dyngo i'r gwirionedd  
 Canys distrywedig fydd y genau a ddywetto  
 enwiredd

—————  
 SALM 67.

Duw a drugarhäo wrthym ac ef a'n ben-  
 dicco  
 Eglurder ei wyneb arnam ac ef a drugarhäo  
 Yn y adnappom ar y ddaiar dy ffyrdd di  
 Ac yn yr holl genhedloedd dy iechyd Geli  
 Cyffesed y bobl yt Dduw Arglwydd  
 Cyffesed y bobloedd oll yt yn dy wydd  
 Llawenhaed y cenhedloedd canys cyfiawn  
 arnynt y berny  
 Ymddrychafent y bobloedd canys y cen-  
 hedloedd a gyweiry  
 Cyffesed y bobl yt Dduw Arglwydd  
 Cyffesent y bobloedd oll y+ yn dy wydd  
 Can rhoddes y ddaiar ei ffrwyth beunydd  
 Bendiged ni ein Duw ni bendiged ni Ddof-  
 ydd  
 Ac ofnhaed ef gan ei foli yr holl ddaieri  
 ydd  
 Gog. i'r Tad &c.

—————  
 LLYMA GANIAD Y TRIMAIB YN Y GYNNEU  
 DAN: ANANIAS AZARIAS A MISAEL.

BENDIGWCH Dduw ei ddimam weithredoedd  
 Drychefwch molwch mil o oesoedd  
 Bendigwch engylion Dduw Ión Ddofydd  
 Bendigwch y nefoedd naf nôs a dydd  
 Bendigwch Dduw ddyfredd uch y nefoedd  
 Bendigwch Dduw ddawn nerth yr holl  
 nerthoedd  
 Bendigwch yr hael Dduw haul a lleuad  
 Bendigwch sÿr nef serenawd wlad



Bendigwch Dduw cywir cawad y gwllith  
 Bendigwch Dduw pob yspryd bendith  
 Bendigwch Duw dddidan a thân a thês  
 Bendigwch oerfel y gauaf a haf hywres  
 Bendigwch Dduw ddurrew a rhew crimp-  
 iawg

Oerfel a glasrew a glwyswlith deifniawg  
 Bendigwch Dduw eirian ac eiry a ia  
 Nosau a dyddiau deddf a wedda  
 Bendigwch Dduw eich llyw y lluchedennau  
 Tywyllwch lleufer wybr ac wybrennau  
 Bendiged y ddaiar Dduw gwâr gwiraf  
 Druchafed moled molianusaf  
 Pob mynydd bronnydd brynniau bendigwch  
 Naf daiarolion a phellennigion flwch  
 Bendigwch ffinhonnau Dduw rhiau rhydd  
 Moroedd mordon hysson ac afonydd  
 Bendigwch Dduw y morfeireh a morbysg-  
 awd

Molwch ehediaid nef naf gwiraf gwawd  
 Bendigwch Dduw y bwystfil a'r gwyddfilod  
 Holl feibion dynion a dof lydnod  
 Bendiged Israel Dduw hael chalaeth  
 Arddrychafed moled a moliant ffraeth  
 Bendigwch Dduw ddiwair offeiriad  
 Ai ufuddion weision nefolion haid  
 Bendigwch Dduw telaid saint o galonnauw

## ANANIA AZARIA A MISAEL

BENDIGWCH molwch Dduw molianus hael  
 Bendigwn drychafwn drychafiawdr hÿd  
 Duw dad a mab mad meidrawl yspryd  
 Bendigaid wyt naf nef yn y ffurfafen  
 Molianus amherawdr greawdr graen

## SALM 148.

MOLWCH yr Arglwydd o'r nefoedd  
 Molwch ef uchelion leoedd  
 Molwch ef ei holl engylion  
 Molwch ef ei nerthoedd gleinion  
 Molwch ef yr haul a'r lleuad  
 Molwch ef ser a goleuad  
 Molwch ef nefoedd y nefoedd  
 Molwch ef ddyfredd i ar y nefoedd  
 Cansys ef a ddywawd ac hwynt a wnaeth-  
 pwyd  
 Gorchymynawdd ef ac hwynt a grewyd  
 Ef a'i hansoddes yn dragywydd rhag llaw  
 Gosodes ef orchymyn ac nid a dostaw  
 Molwch Dduw Arglwydd y nef a'r ddaiar  
 Sairph a holl eigiawn mor aflafar<sup>1</sup>  
 Tan cenllysg eiry ia tymhestlau  
 Y rhai a wnant ei air a'i orchymynau  
 Mynyddedd brynniau a gwydd ffrwythlaw  
 ddwyn

A holl gedriwydd pob coed pob llwyn  
 Bwystfilod ysgrybl dof anifeiliaid

<sup>1</sup> Neu, arllasar.

Ac adar edynogion ehediaid  
 Brenhinedd y ddaiar a'i holl bobloedd  
 Tywysogion a brawdwy'r y gwladoedd  
 Iefaing henion gwryrfon molant Dduw  
 ben cûn

Canys drychafedig yw ei enw ef ei hûn  
 Ei gyffes ef ar nef a daiar  
 Ef a ddrychafawdd corn y bobl hygar  
 Emyn i bawb o'i saint sant geisiau  
 Maibion yr Israel pobl agos attaw

## SALM 149.

CENWCH i'r Arglwydd ganiad newydd  
 Yn Eglwys y saint ei foliant fydd  
 Llawenhaed yr Israel yn yr hwn a'i  
 gwnaeth  
 Yngyfodod merched Sion wrth ei frenhin-  
 iaeth  
 Molent ei enw gan grwth drwy synwyr  
 Canent iddaw dimpan a Sallwyr  
 Can ranghawdd bodd yr Arglwydd ei bobl  
 dda ddiwyd  
 Ef a ddrychafawdd ei ledneision ar iechedy  
 Saint a yngyfodant ar ogoniant  
 Yn eu gwelyau y llawenhäant  
 Llawenydd Duw yn eu mwnwgl ffodiawg  
 Ac yn eu dwylaw cleddyfau miniawg  
 I wreuthur dial ar y cenedloedd  
 A chosbaduriaeth ar y bobloedd  
 I rwymaw eu brenhinedd mewn caledion  
 efynau  
 Ai boneddigion mewn haiarnolion gadwyn-  
 au  
 Wrth wneuthur ac hwynt yr ysgrifenedig  
 farn  
 Hyn yw gogoniant holl Saint Duw cadarn

## SALM 150.

MOLWCH yr Aglwydd yn ei wirdda saint  
 Molwch ef ar gedernid ei nerth a'i fraint  
 Molwch ef yn ei nerthoedd y gwir Arg-  
 lwydd a'n medd  
 Molwch ef herwydd lliosogrwydd ei fawr-  
 edd  
 Molwch ef ar sain trwmp holl genedl dyn  
 Molwch ar Sallwyr a cherdd delyn  
 Molwch ef ar grwth a thimpan  
 Molwch ef ar dannau ac organ  
 Molwch ef ar sainodron glych clych llawen-  
 ydd  
 Pob yspryd moled ei naf tragywydd  
 Gogon. i'r Tad. &c.

## CABIDWL ECC. xxiv. 23.

MEGIS Gwinllan y ffrwythaisi arafwch  
 aroglau a'm blodau i ffrwythau anryfedd  
 ac addwynder ynt.

## EMYN.

GOGONEDDUS Fair war weddus feinus fanon  
 Gam drychafiad gan y gwirad geiniad  
 ganon  
 Ac uch no'r ser o'r uchelder muner mwyn-  
 ion  
 Ti a feigaist ac a borthaist a byrth dynion  
 Ar laeth gorau cyssegr fionnau frenin  
 doethion.  
 Gwr ath fagawdd ac ath greawdd greawdr  
 hinon  
 Drygwaith Efa Mair Faria morwyn wirion  
 A'i gwrageddawdd pan wir greawdd gred-  
 adunion  
 Y drwy fenestr nefawl ffenestr ffin engyl-  
 ion  
 Y caiff Cristiawn a phob ffyddlawn iolad  
 ffyddlonion  
 Drws drawst eurin uchel frenin freiniawl  
 ddeon  
 Porth eglurder eglur leufer lafar tirion  
 A egored Fair oth weithred heb hoccedion  
 Caned pob llais Cristiawn difflais Christ  
 elëision  
 Mawr ogoniant i'r tad a'r plant sant saint  
 goron  
 Mab a aned i'n digodded yd y gwyddon  
 O Fair forwyn yn fawr orllwyn yn ar-  
 llwynion  
 Moliant hefyd i'r glan yspryd gweryd  
 gwaron  
 Mawr anrhydedd mirain fawredd mur nef-  
 olion  
 I Dduw trindawdd ddwywawl undawd un  
 tair person Amen.

CANIAD ZACHARIAS OFFEIRIAD PAN ANED  
 IEUAN FEDYDDIWR. LUC. i. 68.

BENDIGAID fo Duw arglwydd pobl yr Is-  
 rael  
 Gan gofwyawdd a phrynowdd ei blwyf yn  
 ddiwael  
 Drychafawdd ini gorn yr iechyd  
 Yn nhy Dafydd ei was diwyd  
 Megis y dywawd trwy enau y proffwydi  
 Y rhai a fuant er yn oes oesoedd yn ddifri  
 Ef a barawdd ini iechyd o'n gelynyon  
 Ac o ddwylaw pawb o'n digasogion  
 Wrth wneuthur tragaredd gyd an teidiau  
 A choffau yn wastad ei sanctaidd orch'myn-  
 nau  
 Llŵ a dyngodd wrth ein tad ni Abram  
 Y rhoddai ei hun droson ni a'n cam  
 Yn y wasanaethom ni Dduw beunydd  
 Oddiwrth ein gelynyon yn ddiogfn rydd  
 Drwy gyfiawnder a santeiddrwydd  
 Ger ei fron ef beunydd ac yn ei wydd

Tithau fab yn broffwyd ith elwir i'r Gor-  
 uchaf  
 Ti a'i rhagflacui ef i arlwyaw ffyrdd Dduw  
 dy naf  
 I roddi celfyddyd o iechyd i'w blwyf  
 Yn faddeuant iddynt o'u pechodau tra-  
 gywydd  
 Drwy ymysgaroedd Dduw ddwywawl nêr  
 Yn y rhai i'n gofwyawdd ddwyreawr o  
 uchelder  
 Wrth egluraw i'r eisteddiaid yn y tywyll-  
 Yn y tywyllwch a gwasgawd angau [wch  
 Ac i gyweiriaw ffyrdd ein traed ninnau  
 Gogon. i'r Tad &c.

OMITTUNTUR ORATIONES AD B. MARIAM  
 DROS HEDDWCH.

DYRO heddwech Arglwydd yn ein dyddiau ni  
 Can nid oes neb arall a ymladdo droson  
 eithr tydi ein Duw ni  
 Duw bid heddwech yn dy nerthoedd  
 A bid amllder yn dy dyrau di

GWEDDI.

Duw gan yr hwn y mae saint euddun-  
 eddau iawnion gynghorau a chyfiawnion  
 weithredoedd dyro ith weision yr heddwech  
 yr hwn nis dichon y byd ei roddi yn y  
 rodder ein calonnau ni ith orchymynion  
 di drwy wrthladd ar feiau ein gelynyon a  
 bod ein amseroedd ni trwy dy amddiffyn di  
 yn heddychlon wastad drwy ein Harglwydd  
 ni Iesu Grist dy fab di yr hwn a fuchedd-  
 occa ac a wledycha gyda thi a'r yspryd glan  
 yn dragwyddawl ac yn oes oesoedd.  
 Amen.

LLYMA DDIWEDD Y PYLGAIN A DECHREU  
 YR AWR BRIM.

Duw ystyria yn gynhorthwy ym—Ar-  
 glwydd bryisia i'm cymmorth. Gogoniant  
 i'r Tad &c.

EMYN.

COFFA Dofydd Duw tragwydd  
 Dy gerennydd bydd bodd warant<sup>1</sup>  
 Wrth bobl efrydd b'yd aflonydd  
 Ath blwyf bedydd bydawl orsedd  
 Yt ry-gymrud ein cnawd ehud  
 Rhag diolud rhag dialedd  
 A fu greulud fal i'n carud  
 A'n prynu'n ddrud o alltudedd  
 Er anrhydedd dy etifedd  
 Maddeu garedd modd ein geiriau  
 Mab cyflawn rad mab Dofydd dad

<sup>1</sup> Neu, waredd.

Rhag Uffern gad rhwyg y fwrn gau  
 Differ dy wlad dwg fi attad  
 Yn aur angad yn Awr Angau  
 Mawl caredig i'r pendefig  
 Yw arbennig bennaeth tri-byd  
 Mab genedig o'r wryy ddiiddig  
 Mair fawrydig radau gleindyd  
 Miloedd a wnant mawl a ganant  
 Ar fryn a phant a phynt esbyd  
 Mawl ogoniant miloedd foliant  
 A'r tad a'r plant a'r sant yspryd

Amen.

## SALM 110.

AR Dduw y llefais pan ym trallodid  
 Ac ef a'm gwrandawawdd i'm gofid  
 Arglwydd rhyddhaa fy enaid pan el o'm  
 enawd

Rhag enwiron wefusau a bradychus defawd  
 Beth a rodder i tithau beth a chwanegaer  
 Ar fredychus dafawd wrth ei ddrwg ai  
 ddifer

Saethau y cyfoethogion blaenllymion  
 Ynt i gyd a marwar diffaethion  
 Gwae fi belled fy nghiwddadaeth  
 Cyd breswyliais a phreswylwyr Cedar  
 Dirfawr dir ddiwylliaedr fy enaid  
 Ymhlith y giwdawd anhygar  
 Tangnefus oeddwn gyd-a digasogion y  
 dangnefedd pai ymddiddanwn ag hwynt  
 ym gwrthleddynt mal trwy gywrysedd.  
 Gogoniant i'r Tad &c.

## SALM 121.

DRYCHEFAIS fy llygaid hyd ar y mynydd-  
 edd

O baham ym daw cynhorthwy yn y diwedd  
 Fy nghynnorthwy i y gan Dduw Arglwydd  
 A greawdd nef a daiar yn hylwydd  
 Ni roddo dy droed ar gyffro  
 Ac ni hepia a'th geidw o'i fro  
 Ni chwsg ac ni hepia yn wael  
 Y gwr a geidw wlad yr Israel  
 Duw ath geidw a Duw d'amddiffyn  
 Ar dy law ddehau ar bant a bryn  
 Ni'th lysg yr haul un awr o'r dydd  
 Na'r lloer yn nôs naç yn elfydd  
 Rhag pob drwg ith geidw yr Arglwydd  
 A Duw a geidw dy enaid yn rhwydd  
 Duw a geidw dy ddyfodiad  
 Yn dragywydd a'th fynediad  
 Gogon. i'r Tad &c.

## SALM 122.

LLAWEN wyf am yr hyn a ddywetpwyd ym  
 Ni awn i dy yr Arglwydd yn gyflym

Safedigion oeddynt ein traed ni  
 Gaerusalem ith lysoedd di  
 Caerusalem a adeilwyd megis dinas  
 A'i chyfranniad ynddi ei hun yn gyfaddas  
 Canys yno ydd esgynnawdd llwyth yr  
 Arglwydd

Tystiolaeth Israel yn cyfessu yn gylwydd  
 Erchwch hyn a fo yng Haerusalem heddwch

Ac i'r a'th garo o gariad fllwch  
 Duw bid heddwch yn dy gampau  
 A bid amllder yn dy dyrau  
 O achaws fy mrodyr i a'm cyfneseifiaid  
 Y traethwn dangnefedd am danat yn hon-  
 naid

O achaws tŷ Dduw ein gwir arglwydd ni  
 Y ceisiais dangnefedd a da itti  
 Gogon. i'r Tad &c.

Arglwydd gwrandaw fy ngweddi  
 A deued fy llef hyd attad ti

## GWEDDI.

ARGLWYDD ni a adolygwn iti ddineu dy  
 rad i'n meddyliau ni ac megis adnabuam  
 gnawdoliaeth dy fab di Iesu Grist drwy  
 gennadwri yr Angel yn berffaith ein dwyn  
 ninnau felly drwy ei grog ai ddioddef i  
 ogoniant cyfodedigaeth ein enawd trwy ein  
 Harglwydd ni Iesu Grist. Amen.

## LLYMA AWR ANTERTH.

Duw ystyria yn gynhorthwy ym Ar-  
 glwydd bryisia ym cymmorth. Gogoniant  
 i'r tad &c.

Coffa Dafydd &c. Cais yn yr awr Brim.

DRYCHEFAIS fy llygaid Arglwydd attad  
 Y gwr a breswylia nefoedd Duw dad  
 Llyma fegys llygaid gweision  
 Y mewn dwylaw eu harglwydd tirion  
 Mal llygaid llawforwynion yn llaw eu har-  
 glwyddes  
 Felly fy llygaid ar drugaredd Duw drwy  
 gyffes  
 Trugarhaa wrthym, Arglwydd, trugarhaa  
 Canys cyflawn yw ein henaid o dremmyg  
 Gwarth i'r llawn a thremmyg i'r trahausion  
 Gog. i'r tad &c.

## SALM 124.

Pan ni bai yr Arglwydd ynom dywedod  
 Israel

Pan ni bai yr Arglwydd ynom ni byddem  
 ddiwael

Pan gyfottai ddynion yn aflonydd  
 Hwynt a'n llynceynt oll yn fyw agatfydd

Pan littiai i'n herby neu cynddaredd  
Dwfr a'n llyngai agatfydd o'r diwedd  
Ein henaid a drywanawdd drwy garrawg  
soniawr ei llif

A drywanawdd agatfydd drwy ddwfr an-  
oddef

Bendigaid fo yr Arglwydd ni'n rhodes  
Ynghaethiwed eu dannedd er afles  
Ein henaid ni a dynnwyd mal aderyn y to  
O hoenyn yr helwyr ac o'u twyll ymdro  
Yr hoenyn a dorred ac a ddrylliwyd  
A ninnau o honaw a ryddhawyd  
Bid ein canhorthwyr yn enw yr Arglwydd  
Gwnaeth nef a daiar Duw mawr culwydd  
Gogon. i'r tad &c.

## SALM 125.

A ymddirietto yn yr Arglwydd mal myn-  
ydd Sion heb gyffro

Ni chyffröir yn dragywydd Gaerusalem  
a'th breswyllo

Mynyddedd yn ei gylch, Duw oedd yng-  
hylech ei bobloedd

O hyn yn dragywydd fyth ac yn oes oes-  
oedd

Can ni ad Duw wialen y pechaduriaid ar y  
wirionedd

Ac na estynnont eu dwylaw ar anwiredd  
Gwna dda, Arglwydd, i dda ddyinion

Ac o'u calonnau yn gyfiawinion  
Ymchweliad a ddwg Duw mewn trafacl

A gweithredwyr anwiredd heddwch ar  
Israel

Gogon. i'r tad &c.

## CAPITVL.

As felly ym drychafwyd i yn Sion, ac yn  
gyffelyb i hynny y gorphwysais yn y fant-  
awl ddinas, am gallu i Gaerusalem. Diolch-  
wn i Dduw.

Arglwydd gwrandaw fy ngweddi;

A ddedd fy llef hyd attat ti

## OMITTUNTUR ORATIONES AD MARIAM.

Gweddi—Arglwydd, ni a attolygwn iti  
ddineu, &c. *Cais o'r blaen.*

## AWR HANNER DYDD.

Duw ystyria, &c. Gogon. i'r Tad, &c.  
Eryn. Coffa Dofydd, &c. *Cais yn awr  
Brim.*

## SALM 126.

Ymchweled yr Arglwydd ni o gaethiwed  
Sion

Ef a'ngwnaethbwyd ni megis diddanedigion  
Yna y llenwid ein genau ni o lawenydd

A'n tafod o orfoledd Duw a'i gerennydd  
Yna y dywedir y rhwng y cenedloedd  
Ef a fawrhaodd Duw eu gwneuthur ar gy-  
hoedd

Mawrhaodd yr Arglwydd ein gwneuthur  
Yn llawenion i'n gwnaeth heb ddim awdur

Ymchwel, Arglwydd ein caethiwedig

Megis carrog yn nebau craig

Y rhai a hëont eu hâd mewn dagrau

Yn llawenydd y medant eu ffrwythan

Y mynediaid a aent ac wylaint

Gan anfon eu hadau yn nagreuint

Dyfodiad yn wir y deuant mewn gorfoledd

Yn dwyn eu dyrneidiau drwy dangnefedd

Gogon. i'r Tad. &c.

## SALM 127.

Onid yr Arglwydd a adeilia y tŷ

Ofer fydd llafur yr adeilwyr a gwecery

Onid yr Arglwydd a gaidw y dinas

Ofer i'r ceidwaid yw gwyliaw y plâs

Ofer ywch gyfodi cyn lleufer eglur

Cyfydych o'ch eistedd bwyttëaid bwyd  
dolor

Pan roddo hun i'w garedigion efyrlid

Llyma dreftad Duw ffrwyth crôth meibion  
cyfnawid

Megys saethau yn llaw meddiannusion

Felly meibion ysgydwedigion

Gwyn ei fyd y gwr a gyflenwis o honynt  
ei eidduned

Ni lygrir pan ymddiddano a'i elynion wrth  
borth gwared.

Gogoniant i'r tad. &c.

## SALM 128.

Gwyn ei fyd pawb a ofnhäo yr Arglwydd

Ac a gerddo yn ei ffyrdd cyfarwydd

Hwn a fwyttei lafur dy ddwyllaw

Gwynfydig wyt a da fydd yt rhag llaw

Dy wraig a geffi mal aml anllan

Yn ystlysau dy dŷ fal pren perllan

Dy feibion ytt mal oliwydd

Ynglylech dy ford a phawb yn ddedwydd

Llyma fal y bendigyr y dyn

A ofnhäo yr Arglwydd rhag ei elyn

Bendicedd yt Arglwydd o Sion olfydd

Yn y welych ddäoedd Caerusalem beun-  
ydd

Ac yn y welych feibion dy feibion

A heddwch ar Israel a'i holl ddyinion

Gogon, i'r Tad.

## CABIDWL.

Mi a wreiddiais yn yr anrhydeddus bobl  
ai dreftad ef yn rhannau fy Nuw i, a'm  
cynhaliad i ynghyflawnder y Saint.

## GWEDDIAU.

Llyma. Duw ystyria, &c. G. i. t. &c.  
Emyn. Coffa Dofydd, &. *Cais ar Brim.*

## SALM 129.

Mynych ydd ymladdasant a mi o'm ieu-  
engtid  
Dyweded Israel yr awr hon yn eu hefyrlid  
Mynych ydd ymladdasant o'm iengtid a mi  
Ac ni allasant ddim i'm herbyn o ddfiri  
Pechaduriaid gwnaethant ar fy ngefn ofail<sup>1</sup>  
Gwnaethanthwyiau eu henwiredd ym harail  
Yr Arglwydd cyfiawn dyrr gwarrau y  
pechaduriaid [plaid  
Llyngcer digasogion Sion gwradydder eu  
Bydd mal gwair tai heb ei gynhullaw  
Yr hwn a wiawdd er cyn ei ddiwreiddiaw  
Ni lenwis ei law o honaw ei fedelwr  
Na'i arffed o dra dyrneidiau ei gynhullwr  
Ac ni ddywedasant y cerddediaid heibiau  
cyfarwydd  
Bendith Dduw arnawch, bendithiwn chwi  
yn enw yr Arglwydd  
Gogon. ir tad, &c.

## SALM 130.

O'r eigiawn y llefais arnad, Arglwydd  
Arglwydd gwrandaw fyngweddi yn rhwydd  
Bint dy glystiau yn ystyredigion  
Wrth lef fy ngweddi a gwawdd fy nghalon  
Od edrychi ar enwiredd  
Arglwydd pwy a'i diodfed rhag dialedd  
Canys gennyd ymae Trugaredd rwydd  
Am dy gyfraith i'th oddefais, Arglwydd  
Ymgynhaliawdd fy enaid yngair culwydd  
Gobeithiodd fy enaid yn yr Arglwydd  
O'r bore bylgain yn y fo nôs  
Gobeithied Israel yn yr Arglwydd agios  
Canys gan yr Arglwydd ymae trugaredd  
A dirfawr brynedigaeth heb gynddaredd  
Gobaith yr Israel yn yr Arglwydd nefoedd  
O hynn yr awrhon ac yn oes oesoedd  
Gogon. ir tad.

## CABIDWL ECC. xxiv. 17.

Megis Cedrwydden y'm drychafwydi yn  
Libano, ac megis Sipriswydden ym myn-  
ydd Sion. Megis Palmidwydden y'm  
drychafwyd i yng' Hades, ac megis plan-  
nedigaeth rhôs yn Sierico.

Diolchwn i Dduw, &c.

## GWEDDI.

Arglwydd maddau bechodau y waision,  
ac megis na allwn ni mewn grym roddi  
bodd iti o'n gweithredoedd &c.

<sup>1</sup>Neu, efail.

## LLYMA DDECHRAU Y GOSPER BELLACH.

Duw, ystyria &c. Gogoniant i'r Tad.  
&c.

## SALM 110.

Dywawd yr Arglwydd wrth fy Arglwydd i  
Eistedd ar fy nehau gyda mi  
Yn y ddottwyf dy elynion  
Yn fainge y dan dy draed ti santeiddion  
Gwialen dy nerth di a enfyn Duw o Sion  
Gwledychawdd yr Arglwydd ym mherfedd  
dy elynion  
Gennyd y mae dechrau eglurder y saint  
Mi ath fegais o'r groth cyn Lusifer ai fraint  
Tyngawdd yr Arglwydd ac ni's penytia  
yn deg  
Offeiriad wyt yn dragywydd wrth urddas  
Melchiseg  
Yr Arglwydd oddiar dy ddeheu dy ddawn  
delid  
A yssigawdd y brenhinedd ar ddydd ei lid  
Ef a farn y Cenhedloedd ac a leinw gwymp-  
au  
Ar dir lawerion ef a waghau y pennau  
Ar y ffyrdd cyfreithlon o garrawg ydd yf  
ddiawd  
Wrth hynny y drychaif ei ben ar ffawd.  
Gogon. i'r Tad &c.

## SALM 113.

Canmolwch faibion fy Arglwydd  
Molwch ef hyd yn henaint enw culwydd  
Bendigaid fo enw Arglwydd nefoedd  
O hyn yr awrhon ac yn oes oesoedd  
O'r lle y cyfyd haul hyd lle y dygwydd  
Bendigaid folianus fo enw'r Arglwydd  
Aruchel yw'r Arglwydd yn yr holl gen-  
hedloedd  
A'i fawr ogoniant fydd uwch no'r nefoedd  
Pwy mal ein Harglwydd ni a breswyl yn  
uchelion  
Ef a edrych i'r ddaiar ar ei ufuddolion  
Deffry ef eisiwedig o'r ddaiar  
A ddrychaif o'r fudredd dlawd<sup>1</sup> anhygar  
Wrth eu llechau gyd a thywysogion<sup>2</sup>  
Yr hwn a wna preswyliau diffirwyth yn y  
tŷ  
Mam meibion yn gorfoledd yn ei gwely.  
G. I. T. &c.

## SALM 147.

CANMAWL, Gaerusalem, dy Arglwydd Iôn  
Canmawl dy Arglwydd dithau Sion  
Canys cadarnhaawdd gloiau dy byrth  
Bendigawdd dy faibion ytt yn yngyrth  
Dodes heddwch ith derfynau a da

<sup>1</sup>Neu, wlad.

<sup>2</sup>Bun ar goll yma.

O frasier y gwenith efath gyflawnhaa  
 Ef a enfyn i'r ddaiar ei barabl  
 Ebrwydd y rhydd ei ymadrawdd digabl  
 Y gw'r a rydd yr eiry megis y gwlan  
 Niwl a'i gwasgara megis lludw man  
 Ef a enfyn y crisiallt megis tammeidiau  
 Pwy oddef rhag wynob ei oerus loesau  
 Enfyn ei air ac ef a ddaw i werthnebedd  
 Dywawd ei yspryd hwy a lithrant i ddyfr-  
 edd

Yr hwn a fenyg i Jacob ei air diwael  
 Ei gyfiawnder ai farnau i bobl yr Israel  
 Ni wnaeth efe felly i bob cenedl yn hawdd  
 A'i farnau iddynt ni's damlewychawdd.  
 G. I. T. &c.

CABIDWL ECCLES xxiv. 20.

MEGIS safwyrusion neiddau Sinam a  
 Bâm y rhoddais aroglau; ac megis Myrr  
 etholedig y rhoddais hygar safwyr. Diolch-  
 wn i Dduw.

EMYN. AVE MARIS STELLA.

Mair wryy ddisglair ddiwair wawr fore-  
 ddydd

Môrseren lhwyswen laeswann leferydd  
 Hanpych gwell ddiell ddiên fam Ddofydd  
 Hampom hwyl ddiffrom ddiffrost ddigel-  
 wydd

Hanpo heb un-bro trefydd—dy ganmawl  
 Bucheddawl borth nefawl ddydwawl  
 dded-wydd

Cymmeraiſt cefaist cymmeriad ufydd  
 Cyfarch ytt er parch perchen llawenydd  
 Engylawl annerch ferch Anna glodrydd  
 Par i'n dangnef nef naf rhydd y maeth

Fam pennaeth ehalaeth o hil Ddafydd  
 Gellwng rwym echwng achwyn llu bedydd  
 Gwrthladd Fair oi gradd greddfawl aflon-  
 Cynnull olau dull y deillion efrydd [ydd  
 Cynnal ith ardal ardeml gyfluydd  
 Cannertth di drafferth drwy ffydd a geisiwn  
 Credwn y caffwn coffau cerennydd  
 Dangos glod o'th fod ith fadien gynnydd  
 Yn hael fam ddiân Dduw nef tragywydd  
 O'n gweddïau geiriau boenau beunydd  
 Dy fab diârab daierydd ffurfawdr [nydd

Nef-greawdr nyf-hwylawdr haul ysplen-  
 Odidawg wryy ddoniawg ddawn gynhelydd  
 Didawl wawr ddwywawl ddiwael geren-  
 nydd

Gwna fi, fam Geli, o gyliau yn rhydd.  
 Yn ddi weirioes gerennydd.  
 Mammaeth beunydd nefawl  
 Ath fawl foliant areglydd  
 Tro wedd ein buchedd o bechawd merydd  
 Trwy hynt ddiogel rhag trwm ufelydd

Heb gwl na meddwl na modd anghelfydd  
 I gael gorfoledd gair foliant newydd  
 A gweled myned mynydd mawr allu  
 Iesu ffrwyth dy fru frenin holl wledydd  
 Moliant mawr i'r Tad tadawg pob defnydd  
 A'r plant a'r yspryd sant saint ardemlydd  
 Holl nerthoedd nefoedd y naf o'n brüydd  
 Gorfoledd rhyseidd eu rhyſfeydd  
 Gogoniant meddiant meddydd cywirdawd  
 I'r drindawd undawd undud preswylydd.  
 Amen.

CANIAD MAIR WRTH YR ANGEL.

LUC i. 46.

Ef a fawrhaa fy enaid i Dduw fy Arglwydd  
 Ymdrychafawdd fy yspryd yn fy Iachawdr  
 Can drychdawd ufuddeawd ei forwyn Ar-  
 glwydd nefoedd

O hyn allan gwynfydig y'm dywaid holl  
 genhedloedd

Canys mawredd a'm gwnaeth Arglwydd o  
 nef

Galluus yw a sanctaidd ei enw ef  
 Pery i ofusion ei drugaredd o etifedd  
 dynawl

Gallu a meddiant o feddwl a wasgarawd

Tynnawdd o'n heisteddffa feddianusion

Drychafawdd Duw o nef ei ufuddion

Cyſlewnis ef o dda yr eisiwedigion

A gorwag ydd edewis y cyfoethogion

Cymmerth Israel ei was i nawdd

A'i drugaredd ef a goffâawdd

Mal y dywawd wrth ein tadau ni ar gy-  
 hoedd

I Efream a'i etifedd yn oes oesoedd

G. I. T. &c.

Gweddi.<sup>1</sup>

Gweddïa dros y bobl

Ora pro populo.

Cyfrwng dyred tros yr ysgolheigion

Interveni pro clero.

Cyfrwng ddarestwng tros ofunedawl wreig-  
 iawl ystlen<sup>2</sup> &c.

Intercede pro devoto femineo sexu &c.

Llyma weithion ddechre Cwmplyn.

Ymchwyl Dduw ein Iachawdr ni

A thro dy lid oddiwrthym, Geli.

Duw ystyria &c. G. I. T. &c.

SALM 132.

Duw iawnfedr argledr erglyw fi, Arglwydd  
 Coffa Dafydd a chwbl o'i ledneisrwydd  
 Megis y tyngawdd i'r Arglwydd yn ddi-  
 gyffro

<sup>1</sup> Ond na weddia dy fel hyn.

<sup>2</sup> Dduw yn unig, ac yma edrychar yr iaith yn unig.  
<sup>3</sup> Neu, ysglen.

Gofuned a ofunedawdd i Dduw Iago  
 Od af i mew'n i ardeml fy nghartref  
 Od esgynnaf i'm gwely o hun oddef  
 O rhoddaf hun i'm llygaid anolau  
 Ac yehydig heppian i'm hamrannau  
 Na gorphywys i'm heneidrwydd yn y fro  
 Lle i'r Arglwydd ardeml i Dduw Iago  
 Ni a'i clywsam yn Ephrata erioed  
 Ni a'i cawsam hi ym maesydd y coed  
 Ni a awn attei i mew'n hyd yn ei hardeml  
 Ni a weddiwn lle safawdd traed y disyml  
 Cyfod i'th orphwysfa, Arglwydd  
 Ti ag ysgrin dy sancteiddrwydd  
 Gwisged dy offeiriad y cyfiawnder  
 Ymddrychafed dy saint ar ffyddlonder  
 Arglwydd, o achos Dafydd dy was di  
 Na thro dy deg wyneb oddiwrthym ni  
 Tyngawdd Duw i Ddafydd y wirionedd, ni  
 bydd ofer

Dodaf ar dy eisteddfa firwyth dy groth  
 yngwydd llawer  
 O chaidw dy feibion fy neddf yn gyfun  
 A'r tystiolaethau a ddysgwyf iddun  
 Ei meibion hwythau a eisteddant yn rhydd  
 Ar dy eisteddfa di yn dragywydd  
 Canys etholes yr Arglwydd Sion  
 Etholes Duw hi yn breswyl gysson  
 Hon yw fy ngorphwysfa i yn oes oesoedd  
 difflais  
 Yman y preswyliaf canys hi a etholes  
 Bendigaf ei weddw a llanwaf o dda  
 Cyflawnaf ei dlodion oll o fara  
 Ei offeiriad a wisgaf o iechyd buchedd  
 Ei saint a ymddrychafant o gwbl orfoledd  
 Yno ydd hebryngaf goron i Ddafydd  
 Parattoais lugorn i'm Cristiawn cilydd  
 Gwisgaf ei elynion o lwgr a diraidi  
 Arno ef y blodeua fy sancteiddrwydd i.  
 Gogon. i'r Tad &c.

## SALM 133.

Ilyma mor dda mor ddigrif mor eiddun  
 Yw cydbreswyliaf o frodyr yn gyfun  
 Megis iraid gwyrfhawr ym mhen dynion  
 A ddisgynnawdd ym marf, barf Aaron  
 A ddisgynnawdd ym ymlau ei wisg mal  
 gwlyth yn Hermon  
 Yr hwn a ddisgynnawdd o'r nef hyd ym  
 mynydd Sion  
 Canys yno y gorchymynnawdd Duw ei  
 fendith

A buchedd barhaus yn oes oesoedd wastad  
61. TRI Marchawg llys Arthur a gaw-sant y greal. Galath vab Lawnselot dy Lak, a Pheredur mab Efrawe Iarl, a Bort mab brenin Bort. Y ddeu gyntaf

oeddynt wery o gorph a'r trydydd oedd ddiweir am na wnaeth perchawd cnawdol ond unweith a hynny drwy brofedigaeth yn yr amser yr ennillawdd ef.....<sup>1</sup> o ferch Brangor yr hon a fu ymerodres yn Con-stantinobl, or honn y doeth y genhedlaeth fwyaf o'r byd, ag o genhedlaeth Joseph o Arimathea y hanoeddyn ell tri, ac o lin Dafydd brophwyd mal y tystolaetha ystoria y Greal.

62. TRI anheol llys Arthur, Etheu mab Gwrgon, a Choleddawg mab Gwynn, A Gereint hir mab Gemeirion hen.

63. TEIR neges a gaffad o Bowys, un o honynt yw Cyrchu Myngan o Veigen hyt yn Llan Silin erbyn anterth drannoeth y gymryt y cynneddfeu y gan Gadwallawn Fendigeit, wedi lladd Ieufaf a Griffri hyt ym Mryn Griffri erbyn y bore drannoeth wrth ymchwelyt di ar Edwin y 3.....

64. TEIR gwroffryn Y. Pr. un oedd Llew-ei ferch Seithwedd, a Rore ferch Usber, a Mederei badellfawr.

65. TRI Arfeddawg ynys Pryd. Selyf mab Cynan Garwyn, ac Afaon mab Tali-essin a Gwallawc mab Lleenawc. Sef achaws y gelwit hwynt yn Arfedogion wrth ddial eu cam oc oe bed.

66. TRI phorthor gweith Perllan Fan-gor, Gwgon gledyfrudd, a Madawc ap Rhun,<sup>2</sup> a Gwiawn ap Cyndrwn.<sup>3</sup>

67. TRI ereill o bleit Lloegyr. Hawystl<sup>4</sup> Drahwg, a Gwaetym<sup>5</sup> Herwnden<sup>6</sup> a Gwiner.<sup>7</sup>

68. TRI eurglein Y. P. Madoc mab Brwyn A Cheugan<sup>8</sup> Peilliawt, a Ruawn Pefyr ap Gwyddno.<sup>9</sup>

69. TRI tharw ellyll Y. P. Ellyll Gwidawl A ellyll Llyr merini, ag ellyll Gyrtmwl wledig.

70. TRI gwydd Ellyll Y. P. Ellyll Ban-nawc, ac Ellyll ednefedawc drythyll ac Ellyll Melen.<sup>10</sup>

71. TRI thrwyddedawc ag anffoddawc Llys Arthur. Llywarch hen, Llemenig, a Heledd.<sup>11</sup>

72. TEIR llynges gynweir ynys Prydain llynges Llawr mab Eirif, a llynges Difwg mab Alban, a llynges Doler mab Mwrchath.

73. TEIR gwenriain Y. P. Creirwy

<sup>1</sup> Gwenhwy fach.

<sup>2</sup> Morfudd.

<sup>3</sup> Arddun.—Ll. Argraf.

<sup>4</sup> Cadrot.—Ll. Argraf.

<sup>5</sup> Gorolwyn.—Ll. Argraf.

<sup>6</sup> Drwn.—Ll. Argraf.

<sup>7</sup> Emythyrd.—Ll. Argraf.

<sup>8</sup> Ll. Argraf, Mabon ap Dowengan.

<sup>9</sup> Dewyngen.—Ll. Argraf.

<sup>10</sup> Gordderch.

<sup>1</sup> Yr enw ar goll.—Ll. P. P.

<sup>2</sup> Y Cynneddfau.—Ll. Argraf.

<sup>3</sup> Gwgon Gyndrwn.—Ll. Argraf.

<sup>4</sup> Hastyl.

<sup>5</sup> Gwentym.

<sup>6</sup> Herwm.

<sup>7</sup> Gwymor.—Ll. Argraf.

<sup>8</sup> Cynein.

<sup>9</sup> Aaron ap Gwyddno Befyr.—Ll. Argraf.

<sup>10</sup> Melu.—Ll. Argraf.

<sup>11</sup> Llwnhunic ap Mauon a Heledd ferch Gyndrwn.

merch Ceritwen<sup>1</sup> ac Arianhod ferch Don, a Gwenn ferch Cywryd ap Crydon.

74. TEIR gohoyw riein Y. P. Angharat ton felen merch Rhydderch haél, ac Anan merch Meic<sup>2</sup> mygotwas, a Phenvyr. ferch Run ryfeddfawr.

75. TRI budr Hafren. Catwallawn pan aeth y weith Digoll a llu Cymry ganthaw ac Etwin or parth arall a llu Lloegr ganthaw ac yna y budrawdd Hafren oi blaen tua ai haber: ar eil cyfarws Golydan. y gan Einiawn fab Bed Brenhin Cernyw, ar drydedd<sup>3</sup> Calan faerh Idon ap Nery gan Faelgwn.

76. TRI brenhin a fuant o feibion eillion, Gwryat vab Gwryan yn y Gogledd, a Chadafael vab Cynfedw yng Gwynedd, a Hyfeidd fab Bleiddig, yn Deheu-barth.

77. TRI Eurgyrd Y. P. Casswallawn mab Beli pan aeth y geisiaw Flur<sup>4</sup> hyt yn Rhufein, a Manawydan mab Llyr. pan fu hyt ar Ddyfet A Llew llaw gyffes pan fu ef a Gwdyon yn ceissaw henw ac arfeu y gan Riarot y Fam.<sup>4</sup>

78. TAIR rhiaid ardderchawg llys Arthur, Dyfyr wallt euredig, Enit Verch Iniwl iarll a Thegeu Eurfron.

79. TRI pheth a orchfygodd Loegyrr. Cynnwys dieithraid, ryddhau Carcharorion, ac anrheg y gwr moel.

80. TRI dyfal gyfangán ynys Prydein, un oedd yn ynys Afallach, yr ail ynghaer Garadawc, ar trydydd y Mangor; ymhob un or tri lle hyny yr oedd 2400 o wyr crefyddol ac or rheini 100 cyfnewidiol bob awr or 24 yn y dydd ar nos yn parhau mewn gweddieu a gwasanaeth i Dduw yn ddirange ddiorthwys.

81. TEIR prif ormes Mon a fagwyd ynddi, Cath Paluc, yr eil oedd Daronwy, ar trydydd Edwin frenhin Lloegr.

82. TRI marchog aurdafodiawc llys Arthur, Gwalchmai mab Gwyar, Drudwas mab Tryphin ac Eliwlod mab Madawc ap Uthur. Gwyr doethion oeddynt, ac mor deg a llaryeidd ac mor hyawdl a hynaws yn eu hymadroddion ac i byddei anodd i neb ballu iddynt or negesseu a geisynt.

83. TRI brenhinol farchog oedd yn llys Arthur Nasiens brenhin Denmarc, Medrod mab Llew ap Cynfarch, a Hywel mab Emyr Llydaw. Gwyr mor llaryeidd hynaws a theg eu hymadroddion oeddynt ac i byddei anodd gan neb ballu iddynt ar a geisynt.

84. TRI chyfiawn farchawg oedd yn llys

Arthur. Un oedd Blas mab tywyssog Llychlyn yr eil Cadawc mab Gwynlliw filwr ar trydydd oedd Padrogl paladr ddellt, eu cynneddfeu oedd amddiffynn amddifaid gweddwon a gwryfion rhag trais, cam a gorddwy, Blas trwy gyfraith fyd, Cadawc trwy eglwys, a Phedrogl trwy gyfraith Arfeu.

85. TRYWYR a ddianchasont o Gamlan, Morfran Mab Tegit, Sanddef bryd Angel, a Glewlwyd gafaelfawr: Morfran rhag ei haccred canys pawb yn tybyed mai cythreul oedd, ai gochelent Sandde gan ei lanned ai deuced ni chododd neb law yn ei erbyn gan dybied mai Angel oedd a Glewlwyd rhag ei faint ai gryfed pawb a ffoent rhagddaw.

86. TRI chynghoriad farchog Llys Arthur, Cynan ap Clydno Eiddun, Aron ap Cynfarch, a Llywarch hen ap Elidir Lydanwyn.

N. B. Nesaf yn llyyyr Mr. Vychan y canlyn trioedd y meirch, y rhai a adawaf heibio tan y diweddfaf.

87. TEIR gwydd balfawt ynys Prydein. Palfawt Matholwch Wyddel ar Franwen merch Llyr yr eil palfawt a drewis Gwenhwyfach ar Wenhwyfar, ag o achaws honno y bu waith Camlan wedi hynny, ar trydydd a drewis Golyddan Fardd ar Gadwaladr Fendiceit.<sup>1</sup>

88. TRI chyndynniawc Y. P. Eiddilic Corr. a Gweir gurhyt fawr, a Drystan.

89. TRI gogyfurdd Llys Arthur. Ryhawt eil Morgant, a Dalldaf eil Cunyn Cof, a Drystan eil March.

90. TRI dyn goreu wrth osp a phellenigion<sup>2</sup> Gwalchmai fab Gwyar Gadwy fab Gereint, a Chadyriceith Saidi.<sup>3</sup>

91. TRYWYR gwarth Yn. Pr. y cyntaf o naddunt Afarwy vab Lludd ap Belimawr: ef a ddyfynawdd Iul Cesar a gwyr Rhufein yr ynys honn ac a beris talu 3,000l. o ariant bob blwyddyn yn teyrnget o'r ynys hon i wyr Rhufein yr eil fu Gwrtheyrn M. Gwrtheneu, a roddeis tiryntaf yr saeson yn yr ynys honn, ac a ymddyweddiodd gyntaf ac wynt, ac a beris lladd Custennin Vyn. mab Custennin Fendigeit-oe dwyll, a dehol ei frodyr Emrys ac Uthur Bendragon or ynys honn hyt yn Llydaw, ac yn y diwedd dychwelsant ac ai llosgosant ynteu Ynghastell Gwerthrynniawn ar lann Gwy er dial eu brawd. Trydydd gwaethaf oll fu Medrawd ap Llew ap Cynfarch pan edewis Arthur lyw-

<sup>1</sup> Caridwen wrach Gwraig Tegit.

<sup>2</sup> Mogotwas Aneirin.

<sup>3</sup> Merch Iddon mab Ynry Gwent.

<sup>4</sup> Fram, mewn rhai llyfrau.

<sup>1</sup> Gwel Tri. 51 a 47.

<sup>2</sup> Neu fal hyn, Trywyr goreu yn llys Arthur wrth osp a phellenig.

<sup>3</sup> Mewn lle arall, a chadeiryeth Sadi.

odraeth Ynys Prydein ganthaw, a chwedi ei fyned ynteu trwy for yn erbyn yr ymerawdwr tu hwnt y fynydd Mynneu lle i llas goreugwyr Arthur Pan glybu Medrawd gwahanu nifer Arthur.

92. TRI phrif fardd ynys Prydein Merddin Emrys, Merddin mab Morfryn a Thaliesin benn Beirdd.

### TRIOEDD Y MEIRCH.

1. TRI meirch a ddugynt y tri Marchlwyth Du moroedd, march Elidir Mwynfawr a ddug arnaw Seithnyn a hanner o Benllech Elidir yn y Gogledd hyt ym Mhen llech Elidir y Môn. Sef y Seithnyn oeddynt Elidir ag Eurgain ei wraig, merch Maelgwn Gwynedd, a Gwynnda goyet,<sup>1</sup> a Gwynnda Reinyat<sup>2</sup> A mynach Nowmon<sup>3</sup> y gyngorwr, a phrydelw menter y gwallofyad, ac arianfagl ei was a Gelbenefin ei gog a nofes ai ddwyllaw ar bedrain y march a hwnnw fu hanner y dyn. Yr eil Marchlwyth a dduc Cornan<sup>4</sup> march meibion Elifer Gosgorddfawr,<sup>5</sup> a dduw Gwrgi a Pheredur arnaw a Dunawt uwr<sup>6</sup> a Chynfelyn Drwseyl y edrych ar fygedorth<sup>7</sup> Gwenddoleu yn Arderydd. Ar trydydd marchlwyth a ddug<sup>8</sup> Gweir a gleis ac Arthauat yn erbyn Allt Faelwc<sup>9</sup> yng Heredigyan yn dial eu tat.

2. TRI rhoddedig farch ynys Prydein Meinlas march Caswallawn ap Beli a Melnyngan mangre march llew<sup>10</sup> llaw gyffes, a Lluagor march Caradawc freichfras.

3. TRI phrif eddystr ynys Prydein; Du hir tynnedig march Cynan Garwyn, ac Awyddawr<sup>11</sup> breichir march Cyhoret eil

<sup>1</sup> Gywet.—Ll. Argraf.

<sup>2</sup> Gwyn Dareiniat.—Ll. Argraf.

<sup>3</sup> Namon, Nawmod.—Ll. Argraf.

<sup>4</sup> Corman.—Ll. Argraf.

<sup>5</sup> Olifer.—Ll. Argraf.

<sup>6</sup> q. Dunawt fyr. Vid.—Tri 11.

<sup>7</sup> Rygdorth.—Ll. Argraf.

<sup>8</sup> Llwyn Gweir Pengleis Rhiw Arthen ac Allt Faelawr yn Ngharedigion.

<sup>9</sup> Allt Faelwr.

<sup>10</sup> Lles.—Ll. Argraf.

<sup>11</sup> Trwyddawc.—Ll. Argraf.

Cynan.<sup>1</sup> Rhuddfreon Tuthfleidd march Gilbert mab<sup>2</sup> Cadgyffro.

4. TRI anrheithfarch Y. P.<sup>3</sup> Carn Af-lawg march Ywein mab Uryen, Tafawt hir march Catwallon mab Cadfan, a Bucheslan march Gwgawn Gledyfrudd.<sup>4</sup>

5. TRI gordderch farch Y. P. Fferlas march Dalldaf eil Cunin cof. a Rhuddfrych march Rahawt eil Morgant, a Gwelwgan gohoywgein march Morfran eil Tegit.

6. TRI gohoew eddystr Y. P. Llwyth march Alser mab Maelgwn, a Gwineu gwddwf hir march Cei. a Chethin carn aflawg march Iddon mab Ynyr Gwent.

7. TRI thom eddystr Y. P. Du march Brwyn Mab Cunadaf ac Arfwl felyn march Pascan mab Uryen a rhuddlwyd, march Rhydderch hael.<sup>5</sup>

8. TRI rhedegfarch ynys Prydein y torrlydan a gloyn deufarch Collawn mab Berchi, ar Cethin cyflym march Dinogan mab Cynan Garwyn.

9. TRI ymladdfarch ynys Prydein Lluagor march Caradawc Vreichvras, a Melnyngan mangre march Llew Llaw gyffes ag awyddawc freichir march Cynhored eil Cynon.

10. TRI prif ychen ynys Pryd. Melyn gwanwyn<sup>6</sup> a gwinau ych Gwlwlwyd ar ych brych bras o benrhew.<sup>7</sup>

11. TEIR prif fuwch ynys Pryd. Brech fuwch Faelgwn Gwynedd a thonllwyd buwch meibion Olifer Gosgorddfawr a Chornillo buwch Llawfrodedd farfawc.<sup>8</sup>

Felly terfynes troedd y meirch herwydd Sion Balmer.

<sup>1</sup> Ruthr reon, ruddfrom, rathr reon, Rudd fron Tuthbleid a ruthrfrom.

<sup>2</sup> Tair.—Ll. Argraf.

<sup>3</sup> Carnafaw Gr. ap Maredudd.

<sup>4</sup> Bucheslom seri march Gwgon Gleifrudd.

<sup>5</sup> Ellemenic. Medd Sion Balmer yn lle'r olaf, ac Ysgwydrith march Llemenic mab Mawan. Mr. Vychan ydoedd wedi chwaneu at Trioedd y Meirch wrth Tri 7 val hyn; Tri thom eddystr ynys Prydain Gwineu gwddwf hir march Cai, a Grei march Edwin a llwyd March Alser ap Maelgwn.

<sup>6</sup> Gwaynhwyn.

<sup>7</sup> Bras y benren.

<sup>8</sup> Farchawc.



## TRIOEDD YNYS PRYDAIN:

ALLAN O'R

LLYVYR COCH O HERGEST.

## CYFRES II.—TRI DYNION A GAVSANT GAMPEU ADAF.

1. TRI dyn a gauas kedernit Adaf. Erculf gadarn ac Ector gadarn. a Sampson gadarn. Kyn gadarnet oedynt yll tri ac Adaf ehun.

2. TRI dyn a gauas pryt Adaf. Absalon ab Dauyd. A Jason vab Eson. a Pharis vab Priaf. Kyn decked oedynt yll tri ac Adaf ehun.

3. TRI dyn a gauas doethineb Adaf. Cado hen. a Beda. a Sibli ddoeth. Kyn doethynt oedynt yll tri ac Adaf ehun.

4. TEIR gwragedd a gauas pryt Eua yn trithraean. Diodema gorderch Eneas ysgwydwyn. ac Elen uannawc y wreic y bu distriwedigaeth Tro druy y phen. A Pholixena verch Priaf hen vrennhin Tro.

5. PAN aeth llu y Lychlyn. porth a aeth gan Yrp Lluydawc hyd yn Llychlyn. a'r gwr hwnnw a daeth yma yn oes Gadyal ybryr y erchi dygyuor o'r ynys hon. Ac ny doeth gantau namyn ef a Mathutauar y was. ac ys ef a erchai o dec prif gaer ar hugeint yssyd yn yr ynys hon. a deu kymmeint a elei gantau i bob un o nadunt y dyuot gantau o honynt ymeith. Ac ny doei gantaw yr gaer gyntaf namyn ef ae was. Ac y bu ardstur gan wyr yr ynys hynny ac y rodassant idaw a hwnnw vu lwyraf llu or a aeth o ynys hon. Ac ef a orescynnaud ar gwyr hynny y fford y kerdaud. Ac ys ef lle y trigayaud y gwyr hynny yn y duy ynys yn ymyl Môr Groec. nyt amgen Clas ac Auena. Ar eil a aeth gan Elen luydawc. a Maxen wledic hyt yn Llydaw. ac ny ddoethant byth yr ynys honn. a'r trydyd a aeth gan Gaswallon ap Beli. a Gwenwynwyn. a Gwanar. veibion Lliav vab Nuyfre. Ac Aryanrot verch Veli eu mam. Ar gwyr hynny o Erch a Heled, panuanhoedynt. ac a aethant gyt a Chaswallawn eu hewythr ar ysc y Kessaryeit

or ynys honn. Sef lle y mae y gwyr hynny yg Gwasgwynt. sef riuedi a aeth gan bob un o nadunt un uil ar hugeint. arhei hynny uu tri aryanllu ynys Brydein.

6. TRYWYR gwarth a uu yn ynys Brydain. un o nadunt A faruy vab Llud vab Beli. Ef a dyuynnaud Julius Cesar a guyr Ruvein yr ynys honn yn gyntaf. ac a beris talu teirmil o bunnoed aryant bob bluydyn yn deyrngt or ynys honn y wyr Rufein. o gyfryssed Caswallawn y ewythr. Ar eil uu Gwrtheyrn Gwrtheneu a rodes tir gyntaf y Saesson yn yr ynys hon. ac a ymdywediaud yn gyntaf ac uynt. ac a beris lladd Custennin Vychan vab Cystennin Vendigeit oe vrat a dehol y deu uroder. Emrys Wledic ac Uthur Pendragon or ynys hon hyd yn Llydaw. a chymryd y goron ar vrenhiniaeth o dwyll yn y eidiau ehun. ac yn y diuod Uthur ac Emrys a losgasant Wrtheyrn ygcastell Guerthrynyawn ar lann Gwy yn unfflam y dial eu brawt. Trydyd guaethaf vu Vedrawt pan edewis Arthur lywodraeth ynys Prydein ganthaw pan aeth ynteu drwy vor yn erbyn Lles amherawdyr Ruvein a anvonassei gennadeu at Arthur hyd yg Caer Llion y erchi teyrngt idaw or ynys honn. ac y wyr Ruvein ar y messur y talpuyt y Gatwallawn vab Beli hyt yn oes Gustennin vendigeit teit Arthur. Sef ateb a rodes Arthur y gennadeu yr amherawdyr. nat oet well y dylpei wyr Ruuein deyrngt y wyr ynys Prydein. noc y dylpei wyr ynys Prydein udunt hwynteu. Canys Brân vab Dyunwal a Chwstennin vab Elen a uuassynt amherodron yn Ruvein. a deu wr o'r ynys hon oedynt. ac yna y lluydawd Arthur gordetholwyr y gyvoeth drwy vor yn erbyn yr amherawdyr. Ac y kyuaruuant y tu hwnt y vynyd Mynneu. ac aneirif o nadunt o bob part h

a las y dyd hwnnw. Ac yn y diwed y kyuauu Arthur ar amherawdyr. ac Arthur ai lladawd. ac yno y llas goreugwyr Arthur. a phan gogleu Vedraut gwahanu nifer Arthur. y dymchwelawd ynteu yn erbyn Arthur ac y dynaud Saesson a Ffichteit. ac Yscotteit ac ef y gadw yr ynys honn rac Arthur. A phan gogleu Arthur hynny yd ymochelawd dracheuyn. ac a dihengis gantaw oe niuer ac y dreis y ar Vedrawt y kauas dyuot y dir yr ynys honn. ac yna y bu weith Camlan y rwgg Arthur a Medrawt. ac y lladawd Arthur Vedrawd. ac y brathwyd Arthur yn anghehaul ac o hynny y bu varw. ac y myun plas yn ynys Afallach y claduyt.

DECHREU Y TRIOED YW Y REI HYN.

7. TRI goruchel garcharawr ynys Prydein. Llyr llediaith. a Mabon mab Modron. a Geir vab Geiryoed. ac un oed oruchelawr no'r tri. Ef a vu deirnos yg garchar Hut adan Lech echymmeint. Sef oed hwnnw Arthur. ac un gwas ae gellygawd o'r tri carchar hynny. nyt amgen Goreu vab Custennin y geuynderw.

TRI GWYNDEYRN YNYS PRYDEIN.

8. OWEIN vab Uryen. a Run vab Maelgwn. a Ruvawn Beuyr vab Dorarth Wledic.

9. TRI oeruuard ynys Prydein, Arthur a Raawt eil Morgant. a Chadwallawn vab Caduann.

10. TRI matkud ynys Prydein. Pen Bendigeit Uran vab Llyr a gudywyt yn y Gwynuryn yn Llundein. ac wyneb ar Freinc. A hyt tra vu yn yr ansawd y dodet yno. ny doi ormes Saesson byth yr ynys hon. yr eil amatkud. y dreigiau yn ninas Emrys a gudyawd Llud vab Beli. ar trydyd esgyrn Gwrthevyr vendigeit. ymprif pyrth yr ynys honn. A hyt tra vydynt yn y kud hwnnw, ny doi ormes o Saesson byth ir ynys honn. A llyna y tri anuatkud pan datkudywyt. A Gwrtheyrn Gwrtheneu a datkudyawd esgyrn Gwrthefyr Vendigeit yr Serch gwreic. Sef oed honno Rouen baganes. Ac ef ddatgudyawd y dreigieu. ac Arthur a ddatgudyawd pen Bendigeit Uran or Gwynnvrynn. Kan nyt oed dec gantau kadu yr ynys o gedernit neb. namyn or eidau e hun.

11. TRI marchlwyth Ynys Prydein. Du y moroed march Elidyr Mwynfawr. a duc Seithnyn a hanner arnaw o benn Llech Elidyr yn y Gogledd hyt ym pen Llech Elidyr ym Mon. Sef Seithnyn oedynt. Elidyr Mwynfawr. ac Eurgein verch Vaelgwn y wreic a Gwyn da gyued, a Gwynda Reimat. a Mynach Nawnon y gyghorwr a

Phetryleu Venestyr y walloyyat. ac Aran-uagyl gwas. ac Albeinnyn y goc. a noofes ac duylaw ar bedrein y varch. a hwnnw vu hanner y dyn. ar eil Marchlwyth aduc Cornann March meibon Eliffer gösgort-uawr, a duc Gwrgi a Pheredur arnaw. ac nys gordiuedawd neb namyn Dinogat vab Kynan Garwyn yar y Kethin kyflym ac aruidiawt. ac aglot a gauas yr hynny hyd hediw. a Dunawd wr vab Pabo, a Chynvelyn drwseyl y edrych ar vygedorth llu Guendo!eu yn Arderydd. Yr trydyd Marchlwyth a duc Erch march meibon Grythmwl Wledic. a duc arnaw Achlen. ac Arthanat yn erbyn riu Vaelaur Yg Keredigyawn y dial eu tat.

12. TEIR llynges gynniweir ynys Prydein. Llynges Llary vab Yryf. a llynges Dignif vab Alan, A llynges solor vab Urnach.

13. TEIR gwith balvawt ynys Prydein. Un o nadunt a trewis Matholwch Wydel ar Vranwen Verch Llyr. Ar eil a drewis Guenhuyvach ar Wenhwyuar. ac o achaws hynny bu weith Cad Gamlan wedy hynny. Ar dryded a drewis Golydan Vard ar ar Gadwaladyr Vendigeit.

14. TEIR drut heirva ynys Prydein. Un o nadunt pan doeth Medrawt y lys Arthur yg Kelli wic yg Kernyw. nyt edewis na bwynt na diawt yn y llys nas treul-yei. a thynnu Guenhwyuar heuyt oe chadair Vrenhinyaeth. ac yna y trewis balvawt erni. yr eil drut heirua pan doeth Arthur y lys Medrawt. nyt edewis nac yn y llys nac yn y Cantref na bwynt na diawt.

15. TEIR neges a gahat a Bowys. un o nadunt yu kyrcu Myngan o Veigen hyt yn Llansilin erbyn Anterth drannoeth. y gymryt kynnedueu gan Gadwallawn Vendigeit. wedi llad Ieuaf a Griffri. Yr eil yu kyrcu Griffri hyd ym bryn Griffri erbyn y bore drannoeth wrth ymchwelyt at Etwin y drydet nu kyrcu Hywel vab Ieuaf hyt yg Keredigyawn. Owein Gwynedd y ymlad a Ieuaf ac a Iago yn yr aerva honno.

TRIOED YW Y REI HYN.

16. TEIR prif rlein Arthur Gwenhwyfar uerch Guryt Gwent, a Gwenhwyuar Uerch Vab Gredyawl, a Gwenhwyuar uerch Ocurvan gawr.

17. Ae deir karedigwreic oed y rei hyn. Indec verch Aruy hir. a Garwen verch Heuinbrén A gwyl uerch Eudaf.

18. TEIR gwrvorwyn ynys Prydain. Un o nadunt Llewei verch Seitwed. a Rore verch Usber. a Mederei Badelluawr.

19. TEIR gosgord aduyn ynys Prydain.

Gosgord Mynyddawc yg Kattraeth. a Gosgord Dreon Lew yn Rotwyd arderys. ar dryded Gosgord Velyn o Leyn erythlyn yn Ros.

20. TEIR prif hut ynys Prydein. Hut Math mab Mathonwy a dysgawd y Wdydon vab Dôn. a Hut Uthur Bendragon a dysgawd y Venw vab Teirgwaed. ar dryded Hut Rudlwm Gorr a dysgawd y Goll vab Collureuy ynei.

21. TRI chynweissyeit ynys Prydein. Gwydar vab Run vab Beli. ac Owein vab Maxen wledic. a Chaurdaf vab Cradauc. Tri deifnyawc ynys Prydein. Riwallaun Wallt Bahaden, a Gwall vab Gwyar a Llacheu vab Arthur.

22. TRI anuat gyghor ynys Prydein. rodi y Ulkessar a gwyr Ruvein lle y karneu blaen y eu meirch ar Ytir ym Pwyth Meinlas, ar eil gadel Hors a Heingyst a Ronuen yr ynys honn. ar trydyd rannu o Arthur y wyr deirgweith a Medrawt yg Kamlan.

23. TRI thaleithawc ynys Prydein. Gweir vab Gwystyl a Chei vab Cynyr a Drystan vab Tallwch.

24. TRI ruduoawc ynys Prydein. Run vab Beli. a Llew llaw Gyffes. a Morgan Mwynvawr ac un o nadunt oed rudvogach nor tri Arthur oed y enu. bluydyn ny doei na gwellt na llysseu y fford y cerdei Arthur.

25. TRI llynghessur ynys Prydein. Geint vab Erbin a March vab Meirchion. a Gwenwynyn vab Nav.

26. TRI unben llys Arthur. Gronw uab Echel. a Ffleudur flam uab Godo. a Chae dyrleith 4 uab Seidi.

27. TRI tharw unben ynys Prydein. Adaon vab Taliessin. a Chynhauall vab Argat ac Elinwy vab Kardegyr.

28. TRI unben Deifr a Bryneich a thri beird oedynt. a thri meib Disgyuindawt a wnaethant y teir madgyulauan. Diffeidell vab Disgyuindawt a ladawd Gwrgi Garwlwyd. ar gwr hwnnw a ladei gelein beunydr or Kymry a duy bob sadwr rac llad un y Sal Ysgafnuell vab Dissyuindawt a ladawd Edelfflet Ffleissawc Vrenhin Lloegyrr. Gwall uab Dissyuindawt a ladawd deu ederyn Gwendoleu y rhai oedynt yn cadw y eur ae aryant. a deu ddyn a yssynt beunydr eu kynyaw. ar gymmeint arall yn eu kwynos.

29. TRI Gwythur ynys Prydein a wnaethant y teir anuat gyulafan. Lloan Llawddiffro a ladawt Uryen vab Kynvarch. Llougat grum uargot Eidin a ladawd Avon vab Talyessin. a Heiden vab Euengat a ladawd Aneurin Gautryd Vechteyrn beird. y gur a rodei gan myw bob sadwrn yng-

hervyn ennaint yn Talhaearn. ae trewis a bwyell gynnut yn y phen. a honno oed y dryded vwyellawt. ar eil kynminteit o Aberffraw a drewis Golydan a bwyall yn y ben. Ar dryded uab Beli a drewis y wre hun a bwyall yn y benn.

30. TRI aerwedawc ynys Prydein. Selyf uab Kynan Garwyn. ac Auaoon vab Talyessin a Gwallawc uab Lleimawc.<sup>1</sup> Sef achaws y gelwit hwy yn aerwedogyon wrth dial eu cam oc eu bed.

31. TRI phost cad ynys Prydein. Dunawt vab Pabo A Chynvelyn drwscyl. ac Uryen Vab Kynvarch.

32. TRI hael ynys Prydein a Rhyderch hael vab Tutual Tutclyt. a Nud hael vab Senyllt a Mordaf hael uab Serwan.

33. TRI glew ynys Prydein. Gruduei a henbrien ac Aedenawc. ny ddoynt o gat namyn ar eu geloreu. ac yssef a oedynt y rei hynny tri meib Gleissiar Gogled o Haernwed Vradawc eu mam.

34. TRI trahawc ynys Prydein. Gwibeid drahawc a Sawyl ben uchel a Ruuawn Peuyr drahauc.

35. TRI lledyf unben ynys Prydein. Manauydan uab Llyr, a Llywarch hên, a Gwgon gwron vab Peredur vab Eliffer, ac yssef achaws y gelwit hwy lledyf unben. wrth na cheissynt gyuoeth ac ny allai neb y ludyas uddunt.

36. TRI galouyd ynys Prydain. Greidawl galofyd, a Drystan vab Tallwch, a Gwgon Gwron.

37. TRI esgemyd aereu ynys Prydein. Moruran eil Tegit. a Gwgon gledyfyrd. a Gilbert Kadgyffro.

38. TRI phorthawr gweith Perllan uangor. Gwgon gledyfrud. a Madawc vab Run. a Gwiawn vab Cyndrwn.

A thri ereill o bleit Lloegyrr Hawystyl Drahawc. a Gwaetrym Herwnden. a Guiner.

39. TRI eur gelein ynys Prydein. Madawc uab Brwyn. a Cheugan Peillyawc. a Ruuawn Peuyr ab Gwyddno.

40. TRI hualhogyon deulu ynys Prydein. Teulu Gatwallawn Lawhir a dodassant hualeu en meirch ar draet pob un o nadunt yn ymlad a Serygei Wydel ygkerrig y Gwydyl y Mon. ar eil Teulu Riwallon vab Uryen yn ymlad a saesson. a Theulu Belen o Leyn yn ymladd ag Etwin ym Mryn Etwin yn Ros.

41. TRI diweir deulu ynys Prydein. Teulu Katwallawn yn y buant hualogion, a theulu Gauran vab Aedan pan uu y diuankoll. a Theulu Gwendoleu ab Kei-

<sup>1</sup> Lleenawc.

dyau yn Arderyd. a dalyassant yr ymlad pythewnosa a mis gwedi llad eu harglwyd. Sef oet eiryf pob un o'r teuluoed un kan wr ar ugeint.

42. TRI anniweir deulu ynys Prydein. Teulu Gronw peuyr o Benilyn a ommedassant eu Harglwyd o erbyn y gvenuynuaew y gan lew Llaw Gyffes. a theulu Gwrgi a Pheredur. a adawssant eu Harglwyd yg Caer Greu a Chynoeth ac ymlad udynt drannoeth. ac Eda Glin Gawr ac yn y llas ell deu. ar trydyd teulu ar Lan Ffergan. a ymadawssant ac eu harglwyd yn lledrat y ar y fford yn myned Gamlan. Riuedi pob un o'r teuluoed un can wr ar hugeint.

43. TRI hualoc eur ynys Prydein. Riwallon Wallt Banhadlen. Run a Maelgwn a Chadwaladwyr Vendigeit, ac yssef achaws y gelwit y gwyr hynny yn hualogion wrth na cheffid meirch a berthynnei uduent, rac eu meint. namyn doddi hualeu eur am eu hegwytledd ar bedreineu eu Meirch dra e kefyn. a dwy badell eur a dan eu glinieu. Ac y wrth hynny gelwir padelleu y glin.

44. Tri charw ellyll ynys Prydein. Ellyll Gwidawl. ac Ellyll Llyr Marini. ac Ellyll Gwrthmwl Wledic.

45. Tri gwyd Ellyll ynys Prydein. Ellyll Manawc ac Ellyll Ednyuedawc drythyll. ac Ellyll Melen.

46. TRI thrwydedawc llys Arthur. a thri anvodawc Llywarch hên a Llemenic a Heled.

47. TRI diweir ynys Prydein. Ardun wreic Gatcor vab Gorolwyn. ac Eneilyan wreic Wydyr drwm ac Emerchret wreic Uabon uab Dewengan.

48. TRI gwaywrud ynys Prydein. Dygynnelw vard Owain. ac Arouan vard seleu uab Kynan. Ac Avanedic uard Katwallawn vab Katvan.

49. TRI goruchel garcharawr ynys Prydein. Llyr Lletieith a vu gan eurowydw ygkarchar. ar eil Mabon mab Modron. ar trydyd Gweir uab Gweiryod. ac un oed goruchelach no'r tri a uu deirnos ygkarchar ygkaer Oeth ac Annoeth. ac a vu deirnos ygkarchar gan Wenn Bendragon. ac a vu deirnos ygkarchar Hut y dan lech Echymmeint. ac ysef oed y goruchel garcharawr hwnnw Arthur. ag un gwas ae gollyngawd o'r tri charchar. ac y sef oed y gwas hwnnw Goreu uab Custennin y geuynderw.

#### TRIOED Y MEIRCH YW Y REI HYN.

50. TRI rodedicuarch ynys Prydein. Meinlas march Casswallawn vab Beli. a

Melyngan Gamre march Llew llaw gyffes, a lluaogor march Karadawc vreichuras.

51. TRI phrifurach ynys Prydein. Du hir tywedie march Kynan garwyn. ac Awdawc Vreich hîr march Kishoret eil Kynan. a Rud broen tuth bleid march Gilbert uab Kadgyffro.

52. TRI anreithvarech ynys Prydein. Karnavlawc march Ywein uab Uryen. a thavawt hir march Cadwallawn vab Katvan. a Bucheslom march Gwgawn gledyfrud.

53. TRI thom edystyr ynys Prydein. Gwineu Guduc hir march Kei. a Grei march Edwin. a Llwyd march Alser mab Maelgwn.

54. TRI gorderchuarch ynys Prydein. Fferlas march Dalldaf eil Kynin. a gwelugan gohoegin march Caredic vab gwallawc. A Gurbrieth march Raawt.

55. TRI phrifurach ynys Prydein a dugant y tri marchlwyth. y mae eu henweu dracheuyn.

56. TRI gwrveichyat ynys Prydein. Pryderi mab Pwyll pen Annwn wrth voch Pendaran Dyuuet y datmaeth ac ysef y katuei y glyn Cuch yn Emlyn. ac ys ef achaws y gelwit hwnnw yn wrueichyat. Kany allei neb na thwyll na threis arnau. Ar eil Drystan vab Tallwech wrth voch march fab Meirchyaw. Tra aeth y meichyat yn gennat ar Esyllt. Arthur a March. a Chei. a Bedwyr a uuant oll petuar ac ny chwassant cymmeint ac un banw, nac o dreis naç o dwyll nac o ledrat y gantau. ar drydyd Coll vab Collvreuy wrth voch Dallwyr Dallben ygglyn Dallwyr yg Cernyw. ac un or moch oed dorrawc Henwen oed y henw. a darogan oed yr hanei waeth ynys Prydein or torrllwyth. Ac yna y kynnullawd Arthur llu ynys Prydein ac yd aeth y geissyaw y diva. Ac yna y daeth hychen yngordodu. ac ym Penryn Austin yg Kernyw yd aeth yn y mor. ar gwrduieichyat yn y hol. ac ym Maes Gwenith yg Gwent y dotwes ar wenithen a Gwenynen. ac yr hynny hyd heddyw y mae goreu lle gwenith yg Gwent. ac yn Llouyon ym Penuro y dotwes ar heiden a gwenhithen. ac am hyny i diarhebir o heid Llouyon. ac yn riu gvnnerthwch yn Arvon y dodwes ar geneu Cath a Chyw Eryr. Ac y rhoed yr eryr y Vreat tywyssawc o'r gogledd ac wynt a hanfuant waeth o nadunt. Ac yn Llanueir yn Aruon a dan y maen du y dodwes ar geneu Cath, ac y ar y maen y byryawd. y gwrveichyat yn y mor. a Meibon Paluc y Mon ae Magassant yr drwe udunt. a

honno uu gath Paluc. ac a vu un o deir prif ormes Môn a vagwyt yndi. ar eil oed Daronwy. ar drydet Etwin frenhin Lloegr.

57. TRI anuyl llys Arthur, a thri chatvarchawc, ac ny mynnasant penteulu arnynt eiryoet. ac y Cant Arthur eglyn.

Sef yu vyn tri Chaduarchawc  
Mened a Llundurugawc  
A cholouyn Kymry Karadawc.

58. TRI eurgryd ynys Prydein. Caswallawn vab Beli. pan aeth y geissyaw Flur hyd yn Rufein. a Manauydan uab Llyr pan uu hyt ar Dyuet. A Llew llaw

gyffes pan uu ef a Gwydyawn yn ceissaw enw ac arveu y gan aranrot y uam.

59. TRI brenhin a vuant veibon eillon. Gwryat vab Gwryan yn y Gogled. a Chadauael vab Kynuedw yg Gwyned. a Hyseid vab Bleidic yn Deheubarth.

60. TRI budr Hafren Katwallawn pan aeth y weith Digoll. a llu Kymru gantaw. ac Etwin o'r parth arall. a llu Lloegyr gantaw. ac yna y butrawd Havren oe blaen byt y Haber. Ar eil kyuarws Golydan y Gan Einyawn vab Bled brenhin Kernyw. ar drydet calain uerch Idon vab Ner y gan Vaelgnw.

LLYMA

# DRIOEDD YNYS PRYDAIN:<sup>1</sup>

SEF YDYNT TRIOEDD COF A CHADW A GWYBODAETH AM HYNODION O DDYNION AC O BETHAU A FUANT YN YNYS PRYDAIN AC AR DDAMWAIN A DAMCWYDD I GENEDL Y CYMRY ER YN OES OESOEDD.

## CYFRES III.

1. TRI enw a ddoded ar Ynys Prydain o'r dechreuad: Cyn ei chyfanneddu y doded arni Clas Merddin, a gwedi ei chyfanneddu y doded arni y Fel Ynys, a gwedi gyrru Gwledigaeth arni y gan Prydain ab Aedd Mawr y doded arni Ynys Prydain. Ac nid oes dyled i neb arni namyn i Genedl y Cymry, can ys hwy ai goresgynasant gyntaf, a chynn no hynny nid oedd neb o ddynion yn byw ynnddi, eithr llawn Eirth, a Bleiddiau ac Efeinc, ac Ychain bannog ydoedd.

2. TAIR Prif Ardal Ynys Prydain: Cymru, Lloegr, a'r Alban, a Braint Teyrnedd a ddylid i bob un o'r Tair. A than Unbennaeth a Rhaith Gwlad ai gwladoler herwydd Dosparth Prydain Ab Aedd Mawr, ac ar Genedl y Cymry y mae doddi yr Unbennaeth wrth Raith Gwlad a Chenedl, herwydd Braint a Dyled gyssefin: ac yn nawdd hynn o ddosparth y dylid Teyrnedd ymhob Gwlad yn Ynys Prydain, ac yn nawdd Rhaith Gwlad pob Teyrnedd: sef achaws hynny y dywedir ar ddihareb, Trech Gwlad nag Arglwydd.

3. TAIR Colofn Gwladoldeb Ynys Prydain: Rhaith Gwlad, Teyrnedd, ac Yngneidiaeth, herwydd Dosparth Prydain Ab Aedd Mawr.

4. TRIPHOT Cenedl Ynys Prydain: Cyntaf, Hu Gadarn a ddaeth a Chenedl y Cymry gyntaf i Ynys Prydain; ac o Wlad yr Haf a elwir Defirobani y daethant: sef y lle mae Constinoblys: a thrwy For

Tawch y daethant hyd yn ynys Prydain a Llydaw lle ydd arhosasant. Ail, Prydain Ab Aedd Mawr, a wnaeth Wladoliaeth a Theyrnedd gyntaf ar ynys Prydain, a chynn no hynny nid oedd o Iawn namyn a wnelid o Addwynder, na Deddf namyn y trecha treisied. Trydydd, Dyfnwal Moelmud, ac efe a wnaeth Ddosparth gyntaf ar Gyfreithiau, a Deddfau, a Defodau, a Breiniau Gwlad a Chenedl: ac achaws y pethau hynny eu gelwid hwynt yn Dri phost Cenedl y Cymry.

5. TAIR Ciwdawd Addwyn ynys Prydain: Cyntaf oeddynt Genedl y Cymry a ddaethant gyda Hu Gadarn i ynys Prydain, sef ni fynnai efe wlad a thiroedd o ymladd ac ymlid, eithr o gyfiawnder ac yn nhangnef; Ail oeddynt Al y Lloegrwys a ddaethant o Dir Gwasgwyn ac a hanoeddynt o brif Genedl y Cymry; Trydydd oeddynt y Brython, ac o Dir Llydaw y doethant a'u hanas o gyssefin Al y Cymry, a'r Tair Hedd-Giwdawd a'u gelwir, am ddyfod o honynt y naill wrth fodd y llall yn heddwch a thangnef; a'r Tair Ciwdawd hynny a hanoeddynt o gyssefin Genedl y Cymry, a chyfaith cyflafar y Tair Ciwdawd.

6. TAIR Ciwdawd Nawdd a ddaethant i ynys Prydain, ac yn Nhanc a Chennad Cenedl Cymry y doethant, heb arf heb osawd: Cyntaf oeddynt Ciwdawd Celyddon yn y Gogledd; Ail oedd yr Al Wyddyl, ac yn yr Alban y maent; Trydydd Gwyr Galedin a ddaethant yn y llongau moelion hyd yn ynys Wyth ban foddus eu Gwlad, a chael o honynt Le Tir gan Genedl y Cymry; ac nid oedd iddynt Frait o Hawl yn ynys Prydain, namyn y Tir a'r Nawdd a rodded iddynt dan derfynau, a doddi

<sup>1</sup> Y Trioedd canlynol a gymmerwyd allan o Lyfr ysgrifenedig y diweddar Barchedig Mr. Richards o Lanegwad yn Ystrad Tywi, a fu ym menthyg gyda'r Parchedig Mr. T. Walters o Landocha ym Morganwg, gennyf fi Iolo Morganwg.

arnynt nas gellid Braint Cymry cynhenid iddynt hyd yn mhen y nawfed Ach.

7. TAIR Ciwdawd Ormes a ddaethant i ynys Prydain, ac nid aethant fyth ohoni: Cyntaf, oeddynt y Corraniaid, a ddaethant o Wlad y Pwyl; Ail, y Gwyddyl Ffichti, addaethant i'r Alban drwy For Llychlyn; Trydydd, y Saeson; sef lle y mae y Corraniaid am Afon Hymyr a Glann Mor Tawch; ac yn yr Alban y mae y Gwyddyl Ffichti, yng Nglann Môr Llychlyn: a myned yn un a wnaethant y Corraniaid a'r Saeson, a dwyn, Rhéal y Lloegrwys yn ogyfun â hwynt, o drais a gorfod arnynt, a chwedi hynny dwyn Coron yr Unbennaeth oddiar Genedl y Cymry. Ac nid oes o'r Lloegrwys nad aethant yn Saeson namyn a geir yng Ngherniw, ac yng Nhwmwd Carnoban yn Neifr a Bryneich. A Chiwdawd gyssefin y Cymry a gadwasant eu Gwlad a'u Hiaith colli Teyrnedd ynys Prydain a wnaethant achos Brâd y Ciwdodeu nawdd, ac anraith y Tair Ciwdawd Ormes.

8. TAIR Ciwdawd Ormes a ddaethant i ynys Prydain ac a aethant o honi: Cyntaf y Llychlynnwys, a gwedi dwyn o Urb Llyuddawg y goreuon o Genedl y Cymry o'r ynys honn: sef oeddynt eu rhif tairmil a thrugaint ac un mil o wyr cyfallawg meirch a rhyfel, a gyrru y Llychlynnogion drwy For hyd yng Ngwlad yr Almaen a wnaethant y Cymry ymhenn y drydedd oes; Ail y bu Lluoedd Ganfal Wyddel a ddaethant i Wynedd, ac a fuant yno nawmlynedd a'r hugain, hyd yn a'u gyrrwyd hwynt i'r Môr y gan Gaswallawn ab Beli ab Mynogan; Trydydd y bu'r Caisariaid a fuant o drais yn yr ynys honn amgen na phedwar canmlynedd yn ydd aethant i wlad Rufain i wrthosod Cadgyffrwd yr Ormes ddu, ac ni ddaethant fyth yn ol i ynys Prydain; ac o hynny nid arhoses yn yr ynys honn namyn Gwragedd a Phlant bychain y dan nawmlwydd oedran, a myned yn Gymry a wnaethant y rhai hyn.

9. TAIR Bradormes ynys Prydain: Cyntaf y Gwyddyl Coch o'r Werddon, a ddaethant i'r Alban; Ail y Llychlynnwys; a Thrydydd y Saeson, sef y daethant i'r ynys honn yn Nhanc a Chennad Cenedl y Cymry, ac yn nawdd Duw a'i wirionedd, ac yn nawdd Gwlad a Chenedl, ac a wnaethant ossawd o frâd a diriedi ar Genedl y Cymry a dwyn i arnynt a ellynt o gyfoeth Teyrnedd ynys Prydain, a chydymwerinaw a'u gilydd a wnaethant yn Lloegr a'r Alban, lle yr arhomasant hyd yr

awr honn, ac yn oes Gwrtheyrn Gwrthenau y buad hynny.

10. TRI Difancoll ynys Prydain: Cyntaf Gafran ab Aeddan a'i wŷr a aethant i'r mor ynghyrch y Gwerdonau Llion, ac ni chlywyd mwyach am danynt; Ail Merddyn Bardd Emrys Wledig a'i naw Beirdd Cylfeirdd a aethant i'r mor yn y Ty Gwydrin, ac ni bu sop i ba le ydd aethant; y Trydydd Madawg ab Owain Gwynedd, a aeth i'r mor a thrichannyn gydag ef mewn deg llong, ac ni wyddys i ba le ydd aethant.

11. TAIR Gormes a ddaethant ar ynys Prydain ac a ddarfu am danynt: Cyntaf Gormes March Malaen, a elwir Gormes Galaumai; a Gormes Draig Prydain; a Gormes y Gwr Lledrithawg: sef y cyntaf tramor, yr ail o Wynofaint Gwlad a Chenedd dan wasg arhaith ac amrawd Teyrnedd; Dyfnwal Moel Mud ai diffoddes drwy wneuthur dosparth gyfiawn ar Frawd a Chymmrrawd, ac ar Deyrn a Chytteyrn, ac ar Wlad a Gorwlad; y Drydedd a fu yn amser Beli ab Manogan, a Bradgyfarfod ydoedd, ac efe ai diffoddes.

12. TAIR Haint Echrys ynys Prydain: Cyntaf, Haint o Gelanedd y Gwyddyl a laddwyd ym Manuba gwedi gormesu ohonynt ugain mlynedd a naw a'r wlad Wynedd; Ail, Haint y Fad felen o Rôs, ac achos celaneddau lladeddigion y bu honno, ac od elai neb o fewn eu gwynt cwmpo'n farw yn ddioed a wnelai; a'r drydydd Haint y Chwŷs drewlyd achos llygru yr yd gan wlybaniaeth yn amser Gormes y Normeinwyr, y gan Wiliam y Bastardd.

13. TAIR Engir Ddichwain ynys Prydain: Cyntaf Torriad Llynn Llion a myned bawdd hyd wyneb yr holl diroedd yny foddde yr holl ddynion namyn Dwyfan a Dwyfach, a ddianghasant mewn llong foel, ac o honny hwy ydd adepiliwyd ynys Prydain; Ail fu Dychryn y Tân rhyferthwy bann holltes y ddaear hyd annwn, ac y difaëd y rhan fwyaf o bob byw; Trydydd, yr Haf Tesog, pan aethant y coedydd a'r llyisiau ar dan gan angerdd gwres yr haul, a cholli llawer o ddynion ac anifeiliaid a rhywiau adar, a phryfed, a choedydd, a llyisiau yn anesgorawl.

14. TAIR Cyforddwy a aethant o ynys Prydain: Cyntaf, yr un a aeth y gan Ur ab Erin Luyddawg o Llychlyn, ac efe a ddaeth i'r ynys honn yn amser Gadiab ab Erin i erchi cymmorth yr ynys honn dan adduned na chaisiai o bob Prifgaer namyn y rhif a ddelai ganthaw iddi; ac ni ddelai

ganthaw amgen nag un i'r Gaer gyntaf, namyn ei hûn a'i was Mathatta fawr, ac o honno cael dan, ac o'r eilgaer pedwar, ac o'r drydygaer myned yn wyth, ac o'r nesaf unarbuntheg, a herwydd hynny o gyfedryd o bob Caer arall, hyd onid oedd o'r Gaer ddiweddaf nis gellid eu rhif yn yr holl ynys. A chydag ef y ddaeth teirnil a thrugaint, ac un mil, ac nis gellid iddaw fwy no hynny yn yr holl ynys o wyr cyfalleu gan nad oedd namyn plant a henawgwyr ar ei ôl. A llywra llyüdd a fu erioedd oedd Ur ab Erin Luyddawg: ac ar ddiystyrdod y bu gan Genedl y Cymry roddi hynny iddaw dan adduned anesgorawl, canys o hynny y cafas y Corraniaid le i ddwyn cyrch Gormes i'r ynys honn. Ac o'r Gwyr hynny ni ddaethant drachefu yr un onaddynt, nag o lin nag o epil iddynt. Sef ydd aethant ar gyrch Gorddwy, hyd ym Mor Groeg, ac aros yno yn Nhir Galas ac Afena hyd heddyw, a myned yn Roegiait.

Ail Cyforddwy a ddyweiniwyd y gan Gaswallawn ab Beli ab Manogan a Gwennwynwn a Gwanar meibion Lliaws ab Nwyfre, ac Arianrod ferch Beli eu Man. Ac o Arllechwedd Galedin, ac Essyllwg, ac o Gydwelyddon y Bylwennwys ydd hanoeddynt; a rhif y Gwyr hynny oeddynt driugaint ac un mil: a myned a wnaethant y gyda Chaswallawn eu hewythr ar ol y Caisariaid drwy Fôr hyd yn Nhir Geli Llydaw, a hanoeddyn o Rial y Cymry: ac ni ddaeth un o honynt na'u heppil yn eu hól i'r ynys honn, eithr aros a wnaethant yng Ngwlâd Gwasgwyn ym mysg y Caisariaid, lle maent hyd yn awr; ac ynghyrch dial yr Orddwy honno y daeth y Caisariaid gyntaf i'r ynys honn.

Trydydd Cyforddwy a ddyweiniwyd o'r ynys honn y gan Elen Luyddawg a Chynan ei brawd, arglwydd Meiriadawe, hyd yn Llydaw, lle y cawsant Diroedd a Chyfoeth a Theyrnedd y gan yr ammherawdwr Macsen Wledig, am ei ganllofi yn erbyn Gwyr Rhufain. A'r Gwyr hynny a hanoeddynt o Dir Meiriadawe, ac o Dir Seisyllwg, ac o Dir Gŵyr a Gorwenydd: ac ni ddaeth yn eu hól yr un o honynt, eithr aros yn Llydaw, ac yn Ystre Gyfaelwg a wnaethant hwy gan wladychu yno. Ac achos honn o Gyforddwy y bu wanhâd a diffyg Gwŷr arfawc ar Genedl y Cymry onid aethant y Gwyddyl Ffichti yn ormes arnynt; ac o hynny y gorfu ar Wrtheyrn Gwrthenau gyrchu Saeson i ladd yr ormes honno, a'r Saeson yn gweled Gwendid y Cymry, a droesant yn Fradormes drwy Gystlyniad y Gwyddyl Ffichti a'r Gwyr

difrawd a hwynt, a dwyn eu tiroedd oddiar y Cymry, a dwyn hefyd oddiarnynt eu braint a'u coron. A Thair Traha gadarn Cenedl y Cymry y gelwir y Tair Cyforddwy yma; a hefyd y Tri Arianllu, achos dwyn o honynt o'r ynys honn yr aur a'r ariant hyd y gellid eu cael o dwyll a dichell a difrawd, yn gystal ac o iawn a bodd; a'r Tair annoeth Luyddawd a'u gelwir, am wanhâu drwyddynt yr ynys honn gymmaint ag y rhoed lle drwy hynny i'r Tair Gormes Gadarn, sef y Corraniaid, a'r Caisariaid, a'r Saeson.

15. Tair Gormes Gadarn Ynys Prydain a gystlynasant yn un, ac o hynny ydd aethant yn un Ormes a ddug oddiar y Cymry eu braint a'u coron a'u tiroedd: sef cyntaf y Coraniaid, ac ymgystlynu a wnaethant a'r Caisariaid onid aethant yn un; ac ail o'r Tair y bu'r Caisariaid: Trydydd oeddent y Saeson, ac ymgystlynu a'r ddwy eraill a wnaethant yn erbyn y Cymry: ac o Dduw y bu hynn er dial y Tair Traha Gadarn Cenedl y Cymry, can nas gellid o gyfiawnder eu cynghyd.

16. Tri phrif Welyddon Cenedl y Cymry: y Gwenhwysion, sef Gwyr Essyllwg; y Gwyndydiaid, sef Gwyr Gwynedd a Phowys; a Gwely Pendaran Dyfed; sef ydynt Gŵyr Dyfed, a Gŵyr, a Cheredig-iawn, ac arbenniceter ar y Gymraeg i bob un o naddynt.

17. Tri Unbenn Rhaith Ynys Prydain; Un, Caswallawn ab Lludd ab Beli ab Mynogan; Ail, Caradawc ap Bran ap Llyr Llediaith; Trydydd Owain ab Macsen Wledig: sef o Raith Gwlad a Chenedl y doded arnynt yr Unbennaeth, lle nad oeddent Hyneifiad.

18. Tair Gwelygordd Santaidd Ynys Prydain: Gwelygordd Bran Fendigaid ap Llyr Llediaith, sef y Bran hwnnw a ddug y Ffydd yng Nghrist gyntaf i'r ynys honn o Rufain, lle y bu ef yngharchar drwy Frad Aregwedd Föeddawg merch Afarwy ab Lludd; Ail Gwelygordd Cynnedda Wledig, a rodde Dir a Braint gyntaf i Dduw a'r Saint yn Ynys Prydain; Trydydd ydoedd Brychan Brycheiniawg, a ddug ei blant a'i wyrion ar ddysg a bonedd, fal y gallent ddangos y Ffydd yng Nghrist i Genedl y Cymry, lle ydd oeddent yn ddiffydd.

19. Tri Gwesteion Gwynwyddedig Ynys Prydain: Dewi, Padarn, a Theilaw; sef au gelwid felly am ydd elynt yn Westeion i Dai Bonedd, a Gwreng, a Brodor, ac Aillt, heb gymmeryd na rhodd na goibr, na bwyd na llynn, eithr dysgu'r ffydd Ynghrist a wnaent i bawb heb na thal na



diolch, eithr i dlawd ac anghenus y rhodd-  
ynt roddion o'u haur a'u harian, a'u gwisg-  
oedd, a'u bwydddd.

20. TAIR Bradgyarfod Ynys Prydain :  
Cyfarfod Afarwy ab Lludd a'r Gwyr Di-  
frawd a roddasant le ar dir i Wŷr Rhufein  
yn Ynys Prydain ym Mhwyth Mein a  
Glas, ac nid mwy; a'r diwedd o hynny fu  
ynnill o wyr Rhufain Ynys Prydain; Ail,  
Cyfarfod Goreugwŷr y Cymry ac Arddel-  
wyddiaid y Saeson ar Fynydd Caer Carad-  
awc, lle bu Frad y Cyllyll hirion, o frad  
Gwrtheyrn Gwrthenau, sef o'i gynghor ef  
yn gyfrin a'r Saeson y llas Dyledogion y  
Cymry agos oll yno; Trydydd, Cyfarfod  
Medrawd ac Iddawc Corn Prydain a'u  
Gwŷr yn Nanhwynain, lle y gwnaethant  
Frad Arthur, ac o hynny Cadernyd i'r  
Saeson yn Ynys Prydain.

21. TRI Charnfradwr Ynys Prydain :  
Afarwy ab Lludd ab Beli Mawr a wahoddes  
Iwl Caesar a Gwŷr Rhufain i'r ynys  
honn, ac a beris ornes y Rhufeiniaid;  
sef yr ymroddes efe a'i wŷr yn gyfarwedd-  
iaid i wŷr Rhufain, a derbyn y ganddynt  
ged o aur ac ariant bob blwyddyn, ac  
o hynny y daeth gorfod ar wŷr yr ynys honn  
dalw tair mil o ariant bob blwyddyn yn  
Deyrnged i wŷr Rhufain hyd yn amser  
Owain ab Macsen Wledig, ac efe a om-  
meddes y Deyrnged honno, a than rith  
boddlondeb i hynny o beth y tynnasant  
Wyr Rhufain oreuon Gwŷr ynys Prydain,  
a ellid Gwŷr Rhyfel o honnynt i Wlad  
Arafia a phell o Wledydd eraill, ac ni  
ddyhwelasant yn eu hól; a Gwyr Rhufain  
a oeddent yn ynys Prydain a aethant hyd  
yr Eidal, hyd nad oedd o honnynt namyn  
Gwragedd a Phlant bychain ar eu hól; ac  
fal hynny y gwanhëid y Bruttaniaid fal  
nas gellynt wrthosod Gormes a Gormedd  
eisiau Gwŷr a Nerth. Ailydoedd Gwrth-  
eyrn Gwrthenau, ac efe wedi lladd Cys-  
tenyn Fendigaid a dwyn Coron yr ynys  
o drais ac anraith, a wahoddes y Saeson  
gyntaf i'r ynys honn yn amddiffynyddion  
iddaw ac a briodes Alis Rouwey merch  
Hengist, ac a roddes Goron yr ynys i'r  
mab a fu iddaw o honi, a'i enw ef oedd  
Gotta, ac o achos hynny y gelwyr Brenhin-  
oedd Llundain yn Blant Alis: sef achaws  
Gwrtheyrn y collasant y Cymry eu Tiroedd  
a'u Brint a'u Coron yn Lloegr. Trydydd  
y bu Medrawd ap Llew ap Cynfarch, pan  
edewis Arthur Lywodraeth ynys Prydain  
yn adneu y gydag ef, tra fu'n myned yn  
erbyn yr Ammherawdr yn Rhufein, ac  
yna y dug Fedrawd y Goron oddi ar Ar-  
thur o drais a llathlud, ac fal y cadwai efe

hi ymgynghreiriaw a'r Saeson a orug, ac o  
achaws hynny y collasant y Cymry Goron  
Lloegr a Theyrnedd ynys Prydain.

22. TAIR Brad ddirgel ynys Prydain :  
Cyntaf, bradychu Caradawc ap Bran y gan  
Aregwedd Föeddawg, ferch Afarwy ab  
Lludd, a'i roddi yn Gaethglud i'r Rhuf-  
einiaid; a bradychu Arthur gan Iddawc  
Corn Prydain a ddatrinwys ei Rin ef; a  
bradychu Tywysawg Llywelyn fab Gruff-  
udd gan Fadawg Min, ac o'r tair Brad  
hynny y bu lwyr ortrech a'r Genedl y  
Cymry, ac nis gallasai namyn Brad eu  
gortrech.

23. TRI glewion Ubennaidd ynys Pryd-  
ain: Cynfelyn Wledig, a Charadawc ab  
Bran, ac Arthur: sef y gortrechaint ar eu  
galon hyd nas gellid, namyn o frad a  
chynllwyn, eu gorfod.

24. TRI phrif Gatteyrn ynys Prydain :  
Caswallawn ab Beli, Gweirydd fab Cyn-  
felyn Wledig, a Charadawc ab Bran fab  
Llyr Llediaith.

25. TRI Gwündeyrn ynys Prydain :  
Rhun ab Maelgwn, Owain ab Urien, a  
Rhuawn Befr ab Dewrath Wledig.

26. TRI Eilldëyrn ynys Prydain: Gwrgai  
fab Gwrein yn y Gogledd, a Chadafael fab  
Cynfedw yng Ngwynedd, a Hyfaidd Hir  
fab Bleiddan Sant ym Morganwg: sef y  
rhodded Teyrnedd iddynt am eu campeu  
a'u cynnedfeu clodforion a rhadforior.

27. TRI Hueiligion Teulu ynys Prydain:  
Teulu Caswallawn Lawhir, a Theulu  
Rhiwallon ab Urien, a Theulu Belyn o  
Lëyn: sef eu gelwid felly am nad oedd na  
phenn na theyrnedd arnynt hyd y cerddei  
braint eu Teuluoedd a'u Cyfoeth, cyt bei  
a holid o fewn y terfynau hynny, namyn  
Rhaith Gwlad a Chenedl.

28. TRI Aurhualogion ynys Prydain :  
Rhiwallon wallt Banhadlen, a Rhun mab  
Maelgwn, a Chadwaladr Fendigaid: sef y  
rhodded iddynt wisgaw hualeu euraid am  
eu breicheu, ac am eu glinieu, ac am eu  
gyddfau, ac ar hynny y rhodded baint  
Teyrnedd ymhob Gwlad a Chyfoeth yn  
ynys Prydain.

29. TRI Chadfarchawg Teyrn ynys Pryd-  
ain: Caradawc Freichfras, a Llyr Llu-  
yddawg, a Mael ab Menwaed o Arllech-  
wedd; ac Arthur a gant iddynt hynn o  
Englyn,

Sef ynt fy Nhri Chadfarchawg,  
Mael hir a Llyr Llyuddawg,  
A Cholctn Cymru Caradawg.

Sef goreugwyr oeddynt o bawb ar feirch  
cad a gosawd, ac yn hynny rhodded idd-  
ynt Teyrnedd er gallu a fynnynt; a'u

cynneddfau oeddynt ni wnelynt onid a fai dosparthus a chyfiawn, ba wlad a chyfoeth bynnag ydd elynt.

30. TRI Haelion Teyrnedd ynys Prydain : Rhydderch Hael ab Tudwal Tudclud ; a Mordaf Hael ab Serfan ; a Nudd Hael ab Senyllt ; a'u cynneddfau oeddynt ni phellynt o un peth bynnag o'r byd ac o ryw i'r neb ai ceisiai hyd y bai ganddynt, nag a gaent yn rodd, neu yn echwyn, neu o gyfarch ; na char na chas na thras nag estron, ai ceisiau.

31. TRI Rhuddfannogion ynys Prydain : Arthur, Morgan Mwynfawr, a Rhun fab Beli : sef pan ydd elynt i ryfel ni fynnai neb aros gartref rhag maint ai cerid, ac nid oedd na rhyfel na maes nas ynnillynt lle ni bai frad a chynllwyn, ac am hynny diarheb yw, Tri gwr a wnaint wyr lle 'dd elynt : Arthur, Morgan Mwynfawr, a Rhun fab Beli : Triwyr a wnaint wyr lle i byddynt, Gwyr Arthur, Gwyr Morgan Mwynfawr, a Gwyr Rhun fab Beli.

32. TRI Gal Ofydd ynys Prydain : Gal Ofydd Greidiawl, ac Enfael mab Adran, a Thyrstan ab Tallwch ; a braint iddynt nis gellid a elei yneu herbyn lle bynnag y mynynt yn ynys Prydain hyd nad elynt yn amrawd.

33. TRI Escemmydd Aerau ynys Prydain : Grudnew, Henpen, ac Eidnew ; a'u cynneddfau nad elynt o gad a rhyfel onid ar eu heloreu, gwedi nas gellynt symmud na bys na thafawd.

34. TRI Unbenn Dygynnnull ynys Prydain : Cyntaf, Prydain fab Aedd Mawr pan rodded Teyrnedd ddosparthus ar ynys Prydain a'i rhagynsoedd ; Ail, Caradawc ap Bran pan ddoded arnaw ef Gattēyrnedd holl ynys Prydain er attal Cyrch Gwyr Rhufain ; ac Owain ab Macsen Wledig pan gawsant y Cymry 'r Dēyrnedd ym mraint eu cenedl eu hunain y gan yr ymherawdr Rhufein : sef a'u gelwir y rhain y TRI Unbenn Dygynnnull am eu breiniaw felly y gan ddygynnnull gwlad a gorwlad dan holl derfynau Cenedl y Cymry, a chynnal dygynnnull ymhob Cyfoeth, a Chwmmwd, a Chantref yn ynys Prydain a'i rhagynsoedd.

35. TRI Menwedigion Teyrnedd ynys Prydain : Bran fendigaid ab Llyr Llediaith a ddygwys gyntaf ffydd yng Nghrist i Genedl y Cymry o Rufain, lle y bu efe saith mlynedd yngwystl ei fab Caradawc a ddug Gwyr Rhufain yng ngharchar gwedi ei fradychu drwy hud a thwyll a chynllwyn Aregwedd Fôeddawg ; Ail, Lleirwg ab Coel ab Cyllin Sant, a elwir Llleufer Mawr,

a wnaeth yr Eglwys gyntaf yn Llandaf, a honno fu'r gyntaf yn ynys Prydain, ac a ddodes fraint Gwlad a Chenedl a braud a briduw ar a fyddaint o'r ffydd yng Nghrist ; Trydydd, Cadwaladr Fendigaid a roddes nawdd o'i diroedd a'i holl ddäoedd ei hun i'r ffyddloniaid a ffoynt rag y Saeson di grêd a'r Amrodorion a fynnaint eu lladd.

36. TRI Bancewyddion Teyrnedd ynys Prydain ; Prydain ab Aedd Mawr ; Dyfnwal Moel Mud ; a Bran ab Llyr Llediaith : sef gorau Trefn eu Trefn hwy ar Deyrnedd ynys Prydain hyd onis beirnid hwy 'n bennorawl ar bob Trefneu eraill a wnaed yn holl ynys Prydain.

37. TRI Charnfeddwon ynys Prydain : Ceraint, feddw brenin Essyllwg, a losges yn ei feddwod yr holl yd ym mhell ac yn agos hyd glawr gwlad, ac o hynny dyfod newyn bara ; Ail, Gwrtheyrn Gwrthenau, a roddes ynys Daned yn ei ddiawd i Hors, am gael ymodinebu a Rhonwen ei ferch ef ; a rhoddi hawl hefyd a wnaeth efe i'r mab a enid o hynny ar Goron Loegr : ac yn un a hynny Brad a Chynllwyn yn erbyn Cenedl y Cymry ; Trydydd, Seithin yn feddw ab Seithyn Saidi, brenin Dyfed, a ollyngwys yn ei ddiawd y môr dros Cantre'r Gwaelod, oni chollwyd o dai a daer y maint ag oedd yna, lle cyn hyny y caid un dinasdref ar bymtheg yn oreuon ar holl drefydd a dinasoedd Cymru, a gadu yn amgen Caerllion ar Wysg : a chyfoeth Gwydnaw Garanhir, brenhin Ceredigiawn ydoedd Cantre'r Gwaelawd ; ac yn amser Emrys Wledig y bu hynny ; a'r Gwŷr a ddianghasant y rag y bawdd hynny a diriasant yn Ardudwy, a Gwlad Arfon, a mynyddoedd yr Eryri, a lleoedd ereill nad oeddynt gyfannedd cyn no hyny.

38. TRI lleddf Unben ynys Prydain : Manawydan ab Llyr Llediaith, gwedi dwyn yngharchar teulu Bran ab Llyr ei frawd ; a Llywarch Hen ab Elidir Lydanwyn ; a Gwgawn Gwron ab Eleufer Gosgorddfawr ; a meib o feirdd oeddynt y tri ; ac ni cheisyt gyfoeth a theyrnedd gwedi eu myned wrth gerdd, cyd nas gellid ei lluddias iddynt ; sef achaws hynny eu gelwid yn Dri Lleddf Unben ynys Prydain.

39. TRI Unben Deifr a Bryneich ; Gall ab Dysgyfedawg, a Diffedel ab Dysgyfedawg, ac Ysgafnell ab Dysgyfedawg ; a meib beirdd oeddynt y tri ; a gwedi eu myned wrth gerdd y rhoddwyd arnynt Unbenaeth Deifr a Brynaich.

40. TRI Gwaywruddion Beirdd ynys Prydain : Tristfardd, bardd Urien Rheged ;

Dygyrnwel, bardd Owain ab Urien; ac Afan Ferddig, bardd Cadwallawn ab Cadfan; a meib o feirdd y tri hynn, ac nis gellid ai dehorai.

41. TRI Chynweisiad ynys Prydain: Caradawc ab Bran, ab Llyr Llediaith; a Chawrdaf mab Caradawg Freichfras; ac Owain fab Maccen Wledig; sef a'u gelwid felly am fyned, o'u gwir fodd, holl wyr ynys Prydain o deyrn i aillt yn wyr iddynt, wrth raid gwlad, rag rhuthr gal a difrawd; a phan elynt y triwyr hyn i ryfel nid oedd nebun o wyr ynys Prydain nad elai yn eu gosgorddau; ac ni fynid aros ynghartref: A thri meib beirdd oeddynt.

42. TRI Hualogion Teyrnedd ynys Prydain: Morgan Mwynfawr o Forganwg; Elystan Glodrydd rhwng Gwy a Hafren; a Gwaithfoed brenin Ceredigion; sef eu gelwid felly achaws y gwisgynnt hualau yn holl y gwneleint brif deyrnedd ynys Prydain, ac nid taleithiau, sef coronau.

43. TRI Theyrn Taleithiawg ynys Prydain: Cadell brenyn Dinefwr; Anarawd brenin Aberffraw; a Merfyn brenin Mathrafal; sef a'u gelwid y Tri thywysog Taleithiog.

44. TRI Estron Deyrn ynys Prydain: Gwrddyled Gawr, a Morien Farfawc, a Chystenyn Fendigaid.

45. TRI Charnfradwr a fuant achaws i'r Saeson ddwyn Coron ynys Prydain oddiar y Cymry: Un oedd Gwrgi Garwlwyd, ac efe wedi cael blas ar gig dynion, yn llys Edelffled, brenin y Saeson, ai carai gymmaint ag nis bwytëai amgen na chig dyn fyth gwedi hyn; ac am hynny ymgynfunaw a orug efe a'i wŷr ag Edelffled brenin y Saeson: ac efe a wnai ossawd lladrad ar Genedl y Cymry, ac ai dygai yn wryw ac yn fenyw y rhai ieuanc y maint ag a fwytëai beunydd; a phawb o'r gwyr difrawd o Genedl y Cymry a gyrchyt atto efe a'r Saeson, lle caent braidd ac yspail eu gwala, a ddygid oddi ar frodorion yr ynys honn; Ail ydoedd Medrawd, a roddes ei hun a'i wryr yn un a'r Saeson er cadarnhau iddaw a Deyrnedd yn erbyn Arthur; ac achaws hynny o frad ydd aethant laweroedd iawn y'r Lloegrwys yn Saeson; Trydydd ydoedd Aeddán Fradwr o'r Gogledd, a ymrddes, efe a'i wryr, dan derfynau ei Gyfoeth yn Saeson, fel y ceffynt ymgynnal ar Annosparth ac Anraith, yn nawdd y Saeson: ac o achaws y tri charnfradwyr hynny y colles y Cymry eu tir a'u coron yn Lloegr; a phe'i na buassei y bradeu hynny, ni allasant y Saeson ynnill yr ynys oddiar y Cymry.

46. TRIWYR o Feirdd a wnaethant y tair madgyflafan ynys Prydain: Cyntaf, Gall mab Dysgyfedawg a laddwys ddau Ederyn Llychwin Gwenddoleu ap Ceidiaw: sef ydoedd iau o aur amddypt a dwy gelein o'r Cymry a yssynt beunydd ar eu ciniaw, a dwy ar eu cwynos; Ail, Ysgafnell mab Dysgyfedawg a laddwys Edelffled brenin Lloegr; ac efe a fyddai bob nos dwy riain ddyledawg o Genedl y Cymry, ac a wnelei anfodd arnadynt, a thrannoeth y lladdei efe wynt ac a'u hyssai; Trydydd ydoedd Diffedel mab Dysgyfedawg, a laddwys Gwrgi Garwlwyd ytoedd briod a chwaer Edelffled, ac a wnaeth frad a chyflafan yn ungyrech ag Edelffled ar Genedl y Cymry; a'r Gwrgi hwnaw a laddei gelein o Gymro a Chymraes bob dydd, ac ai hyssai, a dydd sadwrn efe a laddei dwy gelein o fab a dwy o ferch, rhag lladd ar y sul: A thri meib o feirdd oeddynt y triwyr hynn a wnelynt y tair madgyflafan.

47. TAIR Anfad Gyflafan ynys Prydain: Eiddyn mab Einygan, a laddwys Aneurin Gwawdrydd mydeyrn beirdd; a Llawgad Trwm Bargawd, a laddwys Afäon mab Taliesin; a Llofan llaw dino, a laddwys Urien mab Cynfarch; sef trimcib o feirdd oeddynt a las, gan y triwyr hynny.

48. TAIR Anfad Fwyellawd ynys Prydain: bwyellawd Eiddyn ab Einygan ym mhen Aneurin Gwawdrydd; a bwyellawd a roddes Cadafael Wylt yn mhen Iago ap Beli; a'r fwyellawd a rodded yn mhenn Golyddan Fardd, achaws y balfawd a roddes efe a'r Gadwaladr Fendigaid.

49. TAIR Engir balfawd ynys Prydain: palfawd Matholwch Wyddel ar Fronwen ferch Llyr; a phalfawd a roddes Wenhwysfach i Wenhwysfar, a honno a beris y Gad Gamlan; a phalfawd Golyddan fardd ar Gadwaladr Fendigaid.

50. TAIR Ofergad ynys Prydain: Cyntaf oedd y Gad Goddeu, a honno achaws gast a iwrech a chorniccyll; ac yn y Gad honno y llas trugain mil o wyr ac unardeg o filoedd; ail y bu waith Ardeyrydd, a nyth ehedydd a fu achaws honno, lle laddwyd pedwar ugain mil o wyr o Genedl y Cymry; Trydydd fu'r Gad Gamlan y rwng Arthur a Medrawd, lle y llas Arthur a chydag ef canmil o wyr yn oreuon Cenedl y Cymry: ac achaws y tair ofergad y bu i'r Saeson ynnill Gwlad Loegr i ar Genedl y Cymry; sef achaws nad oedd o wyr rhyfel a allai wrthosod y Saeson, a Brad Gwrgi Garwlwyd, a Hud Eiddilic Gorr.

51. TRI Anfad Gynghor ynys Prydain: Can hiadhau lle i Ul Caisar a Gwyr

Rhufein i flaen carneu eu meirch yn Mhwyth Min y Glas yn ynys Daned ; sef o hyny y cafas y Caisariaid le i oresgyn ynys Prydain, ac i ymgystlynu a Brad Afarwy ab Lludd ; sef y rhodded hyny o ganniadhad i'r Caisariaid am fod yn ofer gan Genedl y Cymry amddiffyn eu gwlad namyn drwy nerth arfau a gwroldeb a chalondid gwlad, lle nas gwyddid yn y byd am fradgyfarfod Afarwy ab Lludd a Gwyr Rhufain ; Ail anafad gyngor oedd gadael Hors a Hengist a Rhonwen i ynys Prydain, gwedi eu gyru drwy for i'r Wlad lle ydd hanoeddynt ; a'r Trydydd, gadu i Arthur rannu ei wŷr a Medrawd deirgwaith yn y Gad Gamlan, ac o hynny y colles Arthur y maes a'i fywyd ; lle ydd oedd Medrawd yn un a'r Saeson.

52. TAIR Aerfa Ddrud ynys Prydain : Cyntaf, pan aeth Medrawd i Gelliwig, ni edewis ef yn y llys na bwyd na diawd a borthai wybedyn, eithr ei yssu a'i dreulïaw i gyd, ac a dynnes Wenhwylar o'i rhieingadair, ac a wnaeth anniweirdeb a hi ; Ail ydoedd pan aeth Arthur i lys Medrawd, ac yno ni edewis na bwyd na diawd nas difethai, ac a leddis bob byw yn y cantref, yn ddyn ac yn ysgrubl ; Trydydd, pan aeth Aeddau Fradawg i lys Rhydderch Hael, ef a ddifethis y bwyd a'r diawd oll yn y llys, heb adu a borthai ednogyn, ac nas gadaï yn fyw na dyn na llwdn, eithr difa'r cyfan ; a'r tair Aerfa ddrud y gelwir y rhai hynny, am orfod ar Genedl y Cymry, herwydd Deddf a Defawd, ateb a dodï iawn am a wnaed yn hynny o fodd annosparthus, ac annefodawl ac annedfawl.

53. TAIR Cudd a Datgudd ynys Prydain : Cyntaf, Pen Bendigeidfran ab Llyr, a guddïawdd Owain ab Maesen Wledig yn y Gwynfryn yn Llundain ; a thra bai yn hynny o ansawdd ni ddelai Ormes i'r ynys honn ; Ail ydoedd Esgyrn Gwrthefyr Fendigaid, a gladdwyd ym mhrif borthladdoedd yr ynys ; a thra baint yn eu cudd analledig gormes i'r ynys honn ; Trydydd oedd y dreigiau a guddïwyd gan Ludd ab Beli yn ninas Pharaon yng Nghreigiau'r Eryri : a'r tri chudd hynny a ddoded yn nawdd Duw a'i riniau, ac anpoed Gwaeth o'r awr a'r un a'u datguddïai. Gwerthefyrn Gwrtheneu a ddatguddïawdd y dreigiau er dial anfodd y Cymry parth ag ef, ac a wahoddes y Saeson dan rith gwŷr porth i ymladd a'r Gwyddyl Ffichti ; a gwedi hyny y datguddïawdd efe Esgyrn Gwrthefyr Fendigaid, o serch ar Ronwen ferch Hengist Sais ; ac Arthur a ddatguddïawdd

Ben Bendigeidfran fab Llyr, can mai bach oedd ganthaw gadw yr ynys namyn oi Gadernyd ei hŷn ; a gwedi'r tri datgudd y cafas Gormes y goreu ar Genedl y Cymry.

54. TAIR Gwrthryn Ardwy ynys Prydain : Hu Gadarn yn dwyn Cenedl y Cymry o Wlad yr Haf, a elwir Deffrobani, hyd yn ynys Prydain ; a Phrydain ab Aedd Mawr yn gyrru Gwlad a Rhaith ar ynys Prydain ; a Rhitta Gawr a wnaeth iddaw ei hun ysgin o farfau brenhinoedd a wnaeth efe yn eillion am eu gormes a'u difrawd.

55. TRI Madoreilittiwr ynys Prydain : Prydain ab Aedd Mawr yn goreilid y ddraig Ormes, sef oedd honno gormes anrhaith a difrawd a faged yn ynys Prydain ; a Charadawg ab Bran ab Llyr, yn goreilid Gormes y Caisariaid ; a Rhitta Gawr yn goreilid Gormes ac Anraith y Brenhinoedd annosparthus.

56. TRI Chyfarwysawg Cenedl y Cymry : Cyntaf Hu Gadarn, a ddangoses y ffordd i aru tir gyntaf i genedl y Cymry, pan oeddynt yng Ngwlad yr Haf, sef y lle y mae Constantinoblis yn awr, cyn no'u dyfod i ynys Prydain ; a Choll ap Coll Frewi, a ddaeth gyntaf a Gwenith a Haidd i ynys Prydain, lle nid oedd namyn Ceirch a Rhyg cyn no hynny ; ac Elldud farchawg Sant o Gor Dewdws, a wellâes y modd a erid Tir ac a ddysges well nag a wyddid o'r blaen i Genedl y Cymry, ac a rodde iddynt y drefn a'r gelyfddydd ar aru tir ys-ydd yn awr, canys cyn nog amser Elldud ni chyferid tir eithr a chaib ac arad arsang yn unrhyw a ffordd y Gwyddelod.

57. TRI Chynofydd Cenedl y Cymry : Hu Gadarn, a wnaeth Glud a Gosgordd gyntaf ar Genedl y Cymru ; a Dyfnwal Moel Mud, a wnaeth ddsparth gyntaf ar gyfreithiau, a breiniau, a defodau Gwlad a Chenedl ; a Thydain Tad Awen, a wnaeth drefn a dosbarth gyntaf ar Gof a chadw Cerdd Dafawd a'i pherthynasau ; ac o'r drefn honno y dychymygwyd Breiniau, a Defodau dosparthus ar Feirdd a Barddoniaeth ynys Prydain gyntaf.

58. TRI Chynteigion Beirdd ynys Prydain : Plennydd, Alawn, a Gwrn ; sef oeddynt y rhai hynny a ddychymygasant y Breiniau a'r Defodau y sydd ar Feirdd a Barddoniaeth ; ac am hynny eu gelwir y tri chynteigion ; hagen ydd oedd cyn nohynny Beirdd a Barddoniaeth, ac nid oedd arnynt ddsparth drwyddedawg, ac nid oedd iddynt na Breiniau na Defodau, namyn a gaid o addwynder a syberwyd, yn nawdd Gwlad a Chenedleyn nog amser y tri hynn : a rhai a ddywedant mai yn amser Prydain

ab Aedd Mawr y buant; ac eraill y ddywedant mai yn amser Dyfuwal Moel Mud ei fab ef y buant; ac yn rhai o'r hen lyfrau y gelwir ef Dyfufarth ab Prydain.

59. TRI Mattëyrn ynys Prydain: Prydain ab Aedd Mawr, a wnaeth ddsparth Brodoriaeth gwlad a chenedl, a dosparth ar wlad a gorwlad gyntaf yn ynys Prydain; a Dyfuwal Moel Mud a wnaeth wellhad a mwyhad ar Ddeddfau, a Chyfreithiau, a Breiniau, a Defodau Cenedl y Cymry, mal y bai iawn a chyfiawn i bawb yn ynys Prydain a faent yn nawdd Duw a'i dangnef, ac yn nawdd Gwlad a Chenedl; a Hywel Dda fab Cadell ab Rhodri Mawr, brenin Cymru oll a wnaeth wellhad ar Gyfreithiau ynys Prydain, mal y gofynnei y troion a'r trafodeu a fuant ar Geuedl y Cymry, rhag myned ar goll a fai daionus, a rhag na chaffai a fai daionus eile, a'i ansawdd, a'i waith yn nosparth Gwlad a Chenedl, a goreuon ar bob Deddfwyr y buant y Triwyr hynny.

60. TRI Gyrddion ynys Prydain: Gwrnerth Ergydlym, a laddes yr arth mwyaf ac a welwyd erioed a saeth wellten; a Gwgawn Lawgadarn, a dreiglis Maen Maenarch o'r glynn i benn y mynydd, ac nid oedd llai na thrugain ych ai tynnai; ac Eidiol Gadarn, a laddes o'r Saeson yn mrad Caersallawg chwechant a thri-gain a chogail gerdin o fachlud haul yd yn nhywyll.

61. TRI Theulu Teyrnedd a ddyged yng ngharchar o'r gorhendaidd i'r gorwyron, heb adu yn nianc un o honynt: Cyntaf, Teulu Llyr Llediaith a ddyged yng ngharchar hyd yn Rhufein y gan y Caisariaid; Ail, Teulu Madawg ab Medron, a fuant yngharchar y gan y Gwyddyl Ffichti yn yr Alban; Trydydd, Teulu Gair ap Geirion arglwydd Geirionydd, y gan Raith Gwlad a Chenedl yng ngharchar Oeth ac Anoeth; ac o'r rhai hynny nag un nag arall o honynt yn nianc; a llwyraf carcharu a wybuwyd erioed a fu ar y Teuluoedd hynny.

62. TRI Archescobawt ynys Prydain: Cyntaf, Llan Daf, o ddawn Lleurwg ab Coel ab Cyllin, yr hwn a roddeis diroedd a baint Gwlad gyntaf i'r rhai a gystlynasant gyntaf a'r fydd yng Nghrist; Ail, Caerrefrawc, o ddawn Cystynin amherawdr; sef oedd efe y cyntaf o'r amherodron yn Rhufain a ymgystlynwys a'r fydd yng Nghrist; Trydydd, Llundain o ddawn yr amherawdr Maesen Wledig; a gwedi hynny y buant Gaerllion ar Wysg, a'r Gelliwig yng Ngherniw, a Chaer Rianedd

yn y Gogledd; ac ynawr y mae Mynyw, a Chaerrefrawc, a Chaer Gaint.

63. TAIR prif Orsedd ynys Prydain: Cyntaf, Llundain; ail, Caerllion ar Wysg; a Thrydedd, Caer Efrawg.

64. TRI Lleithig Llwyth ynys Prydain: Un, Caerllion ar Wysg, ac yno Arthur yn Benrhaith, a Dewi Sant ab Cunedda Wledig yn Benescob, a Maelgwn Gwynedd yn Bennhynaif; ail, Celliwig yng Ngherniw, ac yno Arthur yn Benrhaith, a Bedwini yn Benescob, a Charadawg Freichfras yn Benn Hynaif; a'r Trydydd, Penrhyn Rhionydd yn y Gogledd, ac yno Arthur yn Benn Rhaith, a Chyndeyrn Garhwys yn Benn Escob, a Gwrthmwl Wledig yn Bennhynaif.

65. TAIR Porthladd Freiniawl ynys Prydain: Porth Ysgewin yng Ngwent, Porth Wygyr yn Môn, a Phorth Wyddnaw yng Ngheredigiawn.

66. TAIR prif Afon ynys Prydain: Hafren yng Nghymru, Tain yn Lloegr, a Hymyr yn Nyfr a Bryneich.

67. TAIR Rhagynys Gyssefin ynys Prydain: Orc, Manaw, a Gwyth; a gwedi hynny y torres y môr y tir onid aeth Môn yn ynys; ac yn unwedd ynys Iorc a dorred onid aeth yno liaws o ynysoedd, a myned yn ynysoedd a wnaeth manau eraill o'r Alban a Thir Cymru.

68. TRI Llyngesawg ynys Prydain: Geraint mab Erbin; Gwenwynwyn mab Naf; a March mab Meirchion: a chweugain llong gan bob un o'r Llynghesogion, a chweugain llongwyr ymhob llong.

69. TRI Thaleithiog Cad ynys Prydain: Trystan mab Tallweh; Huail mab Caw o Brydyn, arglwydd Cwm Cawlwyd; a Chai mab Cynyr Cainfarfawc; ac un gwr yn Daleithiawc y arnynt eill Tri, sef oedd hwnnw Bedwyr mab Pedrawc.

70. TRI Deifnogion ynys Prydain: Gwalchmai ab Gwyar; a Llecheu ab Arthur; a Rhiwallawn Wallt Banhadlen: ac nid oedd nas gwyppyn ei ddefnydd a'iddeifnogaeth, ai o ryw ai o rann, ai o ansawdd, ai o gyfanfawdd, ai o ddychymmod, ai o ddychymmyg, ai o anian ai o aniad y byddei.

71. TRI phost Cad ynys Prydain: Dunawd Ffur fab Pabo Post Prydain; Gwallawc fab Lleenawg; a Chynfelyn Drwsgl: sef y medrynt Dosparth ar Gad a Chatteyrnedd yn oreuon o bawb oll ar a fuant erioed.

72. TRI Tharw Cad ynys Prydain: Cynfar Cadgadwg ab Cynwyd Cynwydion: a Gwenddoleu ab Ceidiau; ac Urien mab Cynfarch: sef y rhuthrynt ar eu galon yn ail i darw, ac ni ellid ai dehoraint.

73. TRI Tharw Unbenn ynys Prydain : Elmur eil Cibddar ; a Chynhafal fab Ar-gad ; ac Afäon mab Taliesin Ben Beirdd : a Beirdd oeddynt y tri hynn, ac nid oedd a ofnynt yng nghad a brwydr ; eithr rhuthraw ynddynt a wnaent, ac nid ofnynt gyflafan.

74. TRI Thrahäawg ynys Prydain : Sawyl Bennuchel ; Pasgen mâb Urien ; a Rhun mab Einiawn : a thrahäusaf ar bob trahäus y traha wynt, ac achaws hynny dwyn difrawd ar ynys Prydain ; a'r ddi-frawd honno a ddamgystlynes a'r Saeson, ac o'r diwedd myned yn Saeson.

75. TRI Gwrddfaglawg ynys Prydain ; Rhineri mab Tangwn ; a Thinwaed Fagl-awg ; a Phryderi mab Doler Deifr a Bryn-eich.

76. TRI Aerfeddawg ynys Prydain : Selyf ab Cynan Garwyn ; ac Afäon mab Taliesin ; a Gwallawg mab Lleenawg : sef achaws yu gelwyd hwynt yn Aerfeddog-ion, am ddarfod dial eu cam oc eu beddau.

77. TRI Eurgelein ynys Prydein : Mad-awc mab Brwyn ; Ceugant Beilliawc ; a Rhuawn Befr ab Gwyddnaw Garanhir : sef yu gelwid felly achaws rhoddi eu ywys yn aur am danynt o ddwyllaw au lladdes.

78. TRI Chyndynnawc ynys Prydain : Eiddlic Gorr, a Thyrcstan ab Tallwch, a Gweirwerydd Fawr ; ac nid oedd au trothai o iwrth eu harfaethu.

79. TAIR Gosgordd Addwyn ynys Pryd-ain : Gosgordd Belyn fab Cynfelyn yng nghadfel Caradawc ab Brân ; a Gosgordd Mynyddawg Eiddin yng nghattraeth ; a Gosgordd Drywon ab Nudd Hael yn Rhodwydd Arderydd yn y Gogledd : sef ydd elei bawb yn y rhai hyny ar eu treul eu hunein heb aros gofyn, ac heb erchi na thâl nag anreg y gan Wlad na chan Deyrn ; ac achaws hynny au gelwid hwy y tair Gosgordd Addwyn.

80. TRI Theulu Diwair ynys Prydain : Teulu Cadwallawn eil Cadfan, a fuant gydag ef saith mlynedd yn y Werddon, ac yn hynny o amser ni ofynasant na thal nag iawn yn y byd, rhag gorfod arnadynt ei adaw, ac nis gallai efe 'r iawn a ddylesynt ; Ail, Teulu Gafran ab Aeddan, pan fu 'r difancoll, a aethant y'r mor dros eu harglwydd. Trydydd, Teulu Gwenddoleu mab Ceidiaw, sef cynnal y frwydr a wnaethant chwenydd a deugaint gwedi llädd eu harglwydd ; ac nid elynt o gad a brwydr, yny dielynt ei alanas ef ; a rhif pob un o'r Teulu oedd hynny uncant ar hugain o wyr glewion, a chymmeint eu gwrol-oldeb ag nis galleid eu gormedd.

81. TRI Anniweir Teulu ynys Prydain : Teulu Goronwy Befr o Benllynn, a om-meddasant eu harglwydd o erbynnaid y Gwenwynwaywau y gan Llew Llaw Gyffes yn Llech Oronwy ym Mlaen Cynfel yn Ardudwy ; a Theulu Gwrgi a Pheredur, a adawsant eu harglwydd yng Nghaer Greu, a chyfnod ymladd a oedd drannoeth iddynt ag Edaf Glin Mawr, ac au llas wynt ill dau ; Trydydd, oedd Teulu Alan Forgan, a ymchwelasant oddi wrth eu harglwydd yn lledrad ar y ffordd, a'i ollwng yntau a'i weision i Gamlan mann ai lladdwyd.

82. TRIPHETH a fu achaws gorchfygu Lloegr, a'i dwyn oddiar y Cymry : cyn-nwys Dieithraid, rhyddhau Carcharorion, ac anreg y Gŵr Moel.

83. TRIWYR Dianc o'r Gad Gamlan a fu : Morfran ab Tegid rhag ei hacored, sef y tybiei bawb mai cythraul o Uffern ydoedd, ac a ffoynt rhagddaw ; Sandde Bryd Angel gan ei hardded, a'i laned a'i decced ; ni chodai neb law yn ei erbyn, gan dybied mai angel o'r nef ydoedd ; a Glewlwyd Gafaelfawr rhag ei faint a'i gryfder, nid oedd a safai o'i flaen, a phawb a ffoynt rhagddaw : sef namyn y Triwyr hynny ni ddiengis neb o'r Gäd Gamlan.

84. TAIR prif Gyfangor ynys Prydain : Bangor Illtud Farchawg yng Nghaer Worgorn ; Cor Emrys yng Nghaer Carad-awg ; a Bangor Wydrin yn ynys Afalleu ; ac ym mhob un o'r tair Bangor hyny ydd oedd pedwar cant ar hugain o saint, sef oedd cant ar bob awr o'r dydd a'r nos yn eu cylch yn cynnal mawl a gwasanaeth Duw heb orphwys heb yspaid.

85. TRI Buelydd Gosgordd ynys Pryd-ain : Bennren Fuelydd yng Ngorwennydd, a gedwis Fuel Caradawc ab Brân o'i Os-gordd ; ac yn y Fuel honno ugain mil ac un yn Wartheg blithion ; Ail, Gwydion fab Don a gedwis Wartheg Gosgordd Gwyn-edd Uch Conwy, ac yn y Fuel honno ugain mil ac ün ; Trydydd, Llawfrodedd Farf-awc a fuelis Wartheg Nudd Hael fab Senyllt, ac yn y Fuel honno ugain mil ac un yn Wartheg blithion.

86. TAIR Llynges Gynniweir ynys Pryd-ain : Llynges Llawr mab Eidrif ; a Llyng-es Difwg mab Alban ; a Llynges Dolor mab Mwrcath brenin Manaw.

87. TAIR prif Ddinas ynys Prydain : Caerllion ar Wysg yng Nghymru, Caer Lundain yn Lloegr, a Chaerefrawc yn Neifr a Bryneich.

88. TAIR Gorchwyl Gadarn ynys Pryd-ain : codi Maen Cetti, adeiliau Gwaith Emrys, a thyrru Cludair Gyfrangon.

89. TRI Gwyn Seronyddion ynys Prydain : Idris Gawr, a Gwydion mab Don, a Gwyn ab Nudd ; a chan faint eu gwybodau am y ser a'u hanianau a'i hansoddau y darogenynt a chwennychid ei wybod hyd yn nydd brawd.

90. TRIWYR Hŷd a lledrith ynys Prydain : Math ab Mathonwy, ac efe ai dangoses ei hud i Wydion mab Dôn ; a Menyw fab Teirgwaedd, a ddysges ei hud i Uthyr Bendragon ; a Rhuddlwm Gawr, ac efe a ddysges ei hud y gan Eiddic Gorr a Choll mab Collfrewi.

91. TRI Mad-Gyrfynydd ynys Prydain : Corfinwr bardd Ceri Hir Lyngwyn, a wnaeth Long, Hwyl, a Llyw gyntaf i Genedl y Cymry ; Morddal Gwr Gweilgi, saer Ceraint ab Greidiawl a ddysges waith Maen a Chalch gyntaf i Genedl y Cymry yn yr amser y bu Alecsander amherodr yn dwyn y byd y danaw ; a Choel ab Cyllin ab Caradawg ab Brân a wnaeth Melin, Rhod, ac Olwyn gyntaf i Genedl y Cymry : a thri meib beirdd oeddynt.

92. TRI Deifnogion Cerdd a Cheudawd Cenedl y Cymry : Gwyddon Ganhebon, a wnaeth Gerdd Dafawd gyntaf o'r byd ; a Hu Gadarn a ddodes gyntaf ar Gerdd Dafawd gynnal Cof a Cheudawd ; a Thydain Tad Awen, a ddodes gelfyddyd gyntaf ar Gerdd Dafawd, a dosparth ar Geudawd ; ac o'r a wnaethant y triwyr hynny y cafad Beirdd a Barddoniaeth, a dodi yn nosparth Braint a Defawd y pethau hynny y gan y tri beirdd cyntefigion, nid amgen, Plennydd, ac Alawn, a Gwron.

93. TRI Chynfebydd ynys Prydain : Tydain Tad Awen, Menyw Hen, a Gwrhir bardd Teilaw yn Llan Dâf : a thri meib beirdd oeddynt.

94. TRI Tharw Ellyll ynys Prydain : Ellyll Gwidawl, ac Ellyll Llŷr Merini, ac Ellyll Gwrthmwl Wledig.

95. TRI Gwydd Ellyll ynys Prydain : Ellyll Bannawc, ac Ellyll Melan, ac Ellyll Ednyfedawc Drythyll.

96. TRI Gwrforwyn ynys Prydain : Llewei ferch Seithwedd Saidi, a Mederai Badellfawr, a Rhorei Fawr ferch Usber Galed.

97. TRI phrif Orchestwaith ynys Prydain : Llong Nefydd Naf Neifion, a ddug ynddi wryw a benyw o bob byw bann dorres Llynn Llion ; ac Ychain Bannog Hu Gadarn, a lusgasant Afanc y llynn i dir ac ni thorres y llynn mwyach ; a Main Gwyddon Ganhebon, lle y darllenid arnynt holl gelfyddydau a gwybodau Bŷd.

98. TRI Gwynfebydd ynys Prydain :

Cadawg ap Gwynlliw yn Llangarfan ; Madawg Morfryn yng Nghor Ildud ; a Deinioel Wynn yng Ngwynedd : Tri meib beirdd oeddynt.

99. TRI Defeidydd Gosgordd ynys Prydain : Colwynn defeidydd Gosgordd Brân ap Llyr Llediaith yn Morganwg ; Pybydd Moel defeidydd gosgordd Tegerin Llwyth Llwydiarth yn Môn ; a gwesyn defeidydd Gosgordd Goronwy ab Ednywain brenin Tegeingl yn Rhyfoniog ; ac o'i enw ef y gelwir Gwesyn ar fugail defaid : sef oedd rhif a gadwai bob un o'r triwyr hynny, chweugain mil, ac y danynt bob un dri chant o feibion eillion yn nawdd Cenedl y Cymry.

100. TRIWYR y rhodded hwy a'u heppil hyd y byddei byd dan warth ac ammraint, ac nis gellir arnynt amgen na braint meibion Eillion ; Cyntaf, Afarwy ab Lludd, a wahoddes y Rhufeiniaid gyntaf i'r ynys honn yng ngosgordd Iwl Caisar eu hemmherawdr, ac a roddes daiar iddynt yn ynys Daned ; Ail oedd Gwrtheyrn Gwrthenau, a wahoddes y Saeson gyntaf i'r ynys honn yn gannllawiaid iddaw yn ei drawsdeyrnedd, ac a roddes dir iddynt yn ynys Daned, ac hanfydded gwaeth i'r neb a rothai dir a daiar i estron yn yr ynys honno ; ac efe a ymddyweddiess a Rhonwen ferch Hors ; ac i'r mab a gafas efe o honno a'i enw Gotta fab Gwrtheyrn, y rhoddes efe o drawsfraint Unbennaeth ynys Prydain ; ac achaws hynny y collasant y Cymry Unbennaeth ynys Prydain ; Trydydd ydoedd Medrawt ap Llew ap Cynfarch, a gafas deyrnedd ynys Prydain yn Adneufraint, tra fai Arthur yn gwrthladd Gwyr Rhufain y draw i Fynydd Mynnau, pan fynnynt attychwel yn Ormes i'r ynys honn, ac yno y llas goreuon Gwyr Arthur, a phan glybu Medrawd, ymgystlynu a'r Saeson a orug, a pheri ymladd y Gad Gamlan, lle y llas Arthur a'i wyr namyn tri, ac o hynny ydd aethant y Saeson yn ormesgyrch ar deyrnedd ynys Prydain, a lladd a deol o Genedl y Cymry y neb nad elai ganthynt, ac ni chaid namyn Ciwdod-eu Gwlad Gysmru a fynnynt Wrthladd Gormes y Saeson : a Gwŷr Rhufain yn cadarnhau braint a thiroedd i'r Saeson yn ynys Prydain, mal pei y naill Genedl ormes yn ymddyweddiaw ar llall, onid aeth iddynt wyr Rhufain mal y modd y llosges genfigen ei pherchen o ddyfod yr Ormes Ddu arnynt.

101. TRI Gwrddfeichiad ynys Prydain : Cyntaf fu Pryderi fab Pwyll Pendaran Dyfed, a getwis foch ei dâd tra yttoedd yn

Annwn; ac yng Nglyn Cwch yn Emlyn y cetwis efe wynt. Ail, Coll ab Collfrewi a getwis Hwch Dallwaran Dalben, a ddaeth yng ngorddodwy hyd ym Mhenrhyn Penwedie yng Ngherniw; ac yna myned yn y mor, a'r lle y dathoedd i dir Abertarogi yng Ngwent Iscoed; a Choll mab Collfrewi a'i llaw yn y gwrych flordd bynnag ydd elei, ai ar for ai ar dir; ac ym maes Gwenith yng Ngwent y dodwes dri Gwenhithyn a thair Gwenhynen; ac er hynny y mae goreu Gwenith a mêl yng Ngwent: ac o Went y cerddei hyd yn Nyfed, ac y dodwes ar Heiddyn a Phorchellan; ac er hynny goreu Haidd a Moch yn Nyfed; ac yn Llonnio Llonnwen y dodwes y rhain. Gwedi hynny y cerddwys hyd yn Arfon, ac yn Lleyl y dodwes ar y Gronyn Rhyg; ac er hynny goreu Rhyg yn Lleyl ac Eifonydd; ac er ystlys Rhiwgyferthwch y dodwes ar Genau Blaidd a Chyw'r Eryr; a rhoddi'r eryr a wnaeth efe i Frynach Wyddel o Ddinas Affaraon, a'r blaidd y rhoddes efe i Fenwaed arglwydd Arllechwedd: a llawer o son y sydd am Flaidd Brynach ac Eryr Menwaed: ac oddiyna myned yd y Maen Du yn Arfon, lle dodwes ar geneu Cath; a Choll mab Collfrewi ai teffis ym Menai; a honno oedd y Gath Balwg, a fu'n Ormes ynys Mon wedi hynny. Trydydd, Trystan ab Tallwch, a getwis foch March fab Meirchion, tra aethai y meichiad yn genad at Essyllt i erchi oed a hi; ac Arthur, a Marchell, a Chai, a Bedwyr, a fuant eill pedwar ar ymgais a chyrch, ac nis gallasant gael cynmairt ac un banw, nag o rôdd, nag o brŷn, nag o dwyll, nag o drais, nag o ledrad. Sef achaws au gelwid y Gwrddfeichiad am nas gellid nag ynnill na gortrech arnynt am un o'r moch a gedwynt, eithr eu dadfer a wnaent ar eu llawn gynnydd i'r rhai au pieuffynt.

102. TRI Serchogion ynys Prydain: Cyntaf, Caswallawn ab Beli am Ffur ferch Mýgnach Gorr, a myned yn ei chyrch hyd yn Nhir Gasgwyn, yn erbyn gwŷr Rhufain, a'i dwyn ymaith, a lladd chwemil o'r Caisariaid; ac yn nial hynny o alanas y daethant wyr Rhufain i ynys Prydain; Ail fu Trystan fab Tallwch am Essyllt ferch March ab Meirchion ei Ewythr; Trydydd, Cynon am Forfydd ferch Urien Reged.

103. TAIR diweirferch ynys Prydain: Trywyl ferch Llynghesawl Llaw hael; Gwenfronn ferch Tudwal Tudelud; a Thegau Eurfronn, yr honn oedd un o dair Gwenriain Llys Arthur.

104. TAIR diweirwraig ynys Prydain: Arddun gwraig Catgor ap Collwyn; Efiliau gwraig Gwydyr Drwm; ac Emerched gwraig Mabon ab Dewein Hên.

105. TAIR Anniweirwraig ynys Prydain, sef oeddynt tair merched Culfynawyd Prydain: un, Essyllt Fyngwen godderch Trystan ab Tallwch; Ail, Penarwen gwraig Owain ab Urien; Trydydd, Bun gwraig Fflamddwyn.

106. TAIR Gohoyw Riain ynys Prydain: Angharad Tonnfelen, merch Rhydderch Hael; Annan ferch Maig Mygedwas; a Pherwyr ferch Rhun Rysseddfawr.

107. TAIR Gwenriain ynys Prydain: Gwenn ferch Cywryd ab Crydon; Creirwy merch Ceridwen; ac Arianrod ferch Dôn.

108. TAIR Gwenriain Llys Arthur: Dyfir wallt euraid; Enid ferch Yniwl Iarll; a Thegau Eurfronn: sef oeddent Tair Rhiain Ardderchawg Llys Arthur.

109. TAIR Gwragedd Arthur, sef oeddent ei Dair Prif Riain; nid amgen, Gwenhwyfar ferch Gwythyr fab Greidiawl; a Gwenhwyfar ferch Gawrwyd Ceint; a Gwenhwyfar ferch Ogyrfan Gawr.

110. TAIR Prif Gariadwraig Arthur: un, Garwen ferch Henyn Tegyrn Gwyr ac Ystrad Tywy; a Gwyl ferch Eutaw y Gaerworgorn; ac Indeg ferch Afarwy Hir o Faeliennydd.

111. TAIR Priflys Arthur: Caerllion ar Wysg yng Nghymru; Celliwig yng Ngherniw; a Phenrynn Rhionydd yn y Gogledd, ac yn y tair hynny cynnal y tair Prifwyl Arbennig, nid amgen, y Nadolic, y Pasg, a'r Sulgwyn.

112. TRI Thruwyddedawg Hanfodawg Llys Arthur: Llywarch Hên ab Elidir Lydanwyn, a Llemmenig, a Heiddyn Hir: sef meib beirdd oeddynt.

113. TRI Gogyfurdion Llys Arthur: Dalldaf mab Cynin Côt; a Thyrstan mab March ab Meirchion, a Rhyhawl mab Morgant ab Adras.

114. TRI Unben Llys Arthur: Goronwy ab Echel Forddwydttwl, a Chadraith ab Porthor Godo; a Fleidur Fflam mab Godo: sef oeddynt yn Dywysogion yn Berchenogion Gwlad a Chyfoeth, a gwell oedd genddynt no hynny aros yn Farchogion yn Llys Arthur, gan y bernid hynny yn bennaf ar bob anrhydedd a bonheddigeiddrwydd, a ellid wrth a gair y Tri Chyfiawn Farchawg.

115. TRI Marchogion Auradafodogion Llys Arthur: Gwalchmai ab Gwyar, a Drudwas fab Tryphin ab Madawc fab Uthur, a doethaf ar bob doethion o'u hamser oeddynt, ac mor deg a llaryeidd eu



hymddwyn, ac mor hyawdl a hynaws eu holl ymadroddion, fel nas gallai neb ball iddynt ar a geisiynt.

116. TRI Marchog Cynghorddoeth Llys Arthur: Cyuon mab Clydno Eiddin; ac Arawn fab Cynfarch; a Llywarch Hên mab Eldir Lydanwyn: ac ni chaid amgen na llwydd i bob Cynghor o'u heiddaw a wnaed, ac aflwydd a gaid lle bynnag nas gwneid yn oll eu cynghoreu.

117. TRI Marchawg Cyfiawnbwyll Llys Arthur: Blas mab Tywysawg Llychlyn, a Chadawg fab Gwynlliw Filwr, a Phadrogl Paladrddellt mab Brenin yr India: Cynneddfeu y rhai hynny oedd amddiffyn pob gweinion ac amddifaidd, a gweddwon, a gwryfon, a phawb a roddent eu hunain yn nawdd Duw a'i dangnef; a phob tlawd, a gwann, a dieithr, a'u gwared rhag trais, a cham, a gorddwy: Blas drwy Gyfraith fydawl; a Phadrogl drwy Gyfraith Arfau; a Chadawg drwy Gyfraith Eglwys a Deddf-eu Duw: ac ni wnaent nac o barch nac o ofn, nac o serch nac o gas, nag o bwyll, nag o ddarwedd, nag o ddig, nag o drugaredd yn y bŷd, namyn a fyddai iawn a chyfiawn herwydd deddf Duw, ac ansawdd daioni, a gofynnion cyfiawnder.

118. TRI Marchawg Brenhinawl Llys Arthur: Morgan Mwynfawr ab Adras; a Medrawd ap Llew ap Cynfarch; a Hywel mab Emyr Llydaw: cynneddf iddynt, oedd, eu bod mor hynaws, a llaryaidd, ac addwyn eu hymadroddion, ag y byddei anhawdd gan undyn o'r byd ommedd a nacau iddynt a geisiynt.

119. TRI Marchog Serchogion Llys Arthur, a goreu wrth osb a phellennig, a haelaf o'u roddion a'u cymmwynas: Gwalchmai ab Gwyar, a Garwy mab Geraint ab Erbin, a Chadeir eil Seithin Saidi; ac nis gallei neb nacau a geisiynt rhag eu serchoedd, a chymmaint eu serch hwy tuag at bob dŷn fal nas ceisiynt amgen nog a geisiai gâr y gan a garai yn gywir.

120. TRI Anhŷol Farchogion Llys Arthur: Eithew mab Gwrgawn, a Choleddawg mab Gwynn, a Geraint hir fab Cymannon Hên: sef gwŷr gwreng oeddynt o feibion eillion; ond cystal eu gair a'u cynnheddau am addwynder, a hynawsder, a llaryeidd-der, a doethineb, a gwrolder, a chyfiawnder, a thrugaredd, a phob campau a gwybodau molianuss, yn heddwch ac yn rhyfel, fal nas gweddai amgen na Llys Arthur, ai breiniau, ai thrwydded iddynt.

121. TRI Marchawg Llys Arthur a gadwasant y Gréal: Cadawc fab Gwynlliw,

ac Illdud Farchawg a saut, a Pheredur fab Efrawc.

122. TRI Diweir Farchogion Llys Arthur: Cadawc ap Gwynlliw, ac Illdud Farchawg, a Bwrt mab Bwrt brenin Llychlyn: sef ni wnaeth un o honynt bechawd enawdol erioed, ac ni fynnynt gyfathrach, na chyd a gwragedd, namyn bucheddu yu weryddon, a bod wrth ddeddf Duw a'r Ffydd yng Nghrist.

123. TRI Oferfeirdd ynys Prydain: Un, Arthur; Ail, Cadwallawn ab Cadfan; Trydydd, Rhyhawd eil Morgant Morganwg.

124. TRI Eurgyrd ynys Pŷdain: Caswallawn ab Beli; pan aeth hyd yng Ngwasgwyn i gyrchu Fflur merch Mygnach Gorr, a ddyged o Lathlud yno i Gaisar amherodr y gan elwid Mwrehan Leidr, brenin y Wlad honno, o châr Iwl Caisar; a Chaswallawn ai dyges yu ol i ynys Prydain; ail, Manawydan ab Llyr Llediaith, pan fu hyd ar Ddyfed yn dodi Gorddodau; a Llew Llaw Gyffes, pan fu ef gyda Gwydion mab Dôn yn ceisio Enw ac Arfaeth y gan Riannon ei fam ef.

125. TRI Phrifardd Bedydd ynys Prydain: Merddin Emrys, Taliesin Ben Beirdd, a Merddin ap Madawg Morfryn.

126. TAIR Talaiith Teyrnedd a ddodes Rodri Mawr yng Nghymru: un, Dinefwr; ail, Aberffraw; Trydydd, Mathrafal; a Thywysawg Taleithiawg ym mhob un o'r Tair Talaiith; a'r hynaf ei oed o'r tri thywysawc, bynnag y byddai o honynt, yn Benn Teyrnedd; sef hynny brenin Cymru oll; a'r ddau eraill wrth ei air ef, a gair ei air ef ar bob un o naddynt, a phenraith a phenhynaif hwnnw ym mhob Gorsedd Ddygynnall, ac ym mhob Cyffro Gwlad a Chenhedd.

Ac felly terfyna chwech ugain a chwech o Drioedd Ynys Prydain.

A'r Trioedd hynn a dynnwyd o Lyfyr Caradawc Nant Garfan, ac o Lyfyr Ieuan Brechfa, gannof fi Thomas Jones o Dre-garon; a hynn a ellais i gael o'r trichant. —1601.

## AMRYWIAETHAU I'R TRIOEDD BLAENOROL,

(Yn dechreu ym tudalen 388).

ALLAN O LYFYR MR. PAUL PANTON.

3. TEIR rhag ynys: Mon a Manaw ac Ynys Weith; a seith ragynys arugeint; a phedwar anrhyfedd ar ddeg.

4. TEIR prif Aber a seith ugeint y sydd ydanei; a phedwar porthfa ar ddeg a deugeint; a their prif gaer ar ddeg ar

hugeint, &c.—Yn lle *Caer Seri*, *C. Grant*, *C. Urnach*, *C. Selemion*, *C. Lifidit*, *C. Ex*, darllen Caer Siri, C. Grawnt, C. Urnaws, C. Selymon, C. Ligidit, C. Exson.

7. Yn lle *Caerlleon ar Wysg*, darllen Mynyw: Yn lle *Betwini yn pen escub*, darllen Betwini escob: Yn lle *Penryn Rhionydd* darllen Penryn Rhionedd.

11. TRI chyfor a aeth or ynys hon ac ni ddaeth yr un onaddunt drachefn: un a aeth gan Elen Lluddyawc a Chynan i brawt, a hwnnw ni ddaeth drachefyn; yr eil aeth gan Irp Luydawc a ddaeth yman yn amser Cadyal mab Erin i erchi cym-morth ir ynys hon; ac ni ddoeth ganthaw ir gaer gyntaf, namyn ef ai was. Sef a archei o bob prif gaer yr ynys deu cym-meint ac a ddelei ganthaw iddi; ac ni ddoeth ganthaw ef i mywn namyn ef ai was. Ac i bu mor arddustru gan wyr yr ynys hon hynny, ac i rhoddasant iddaw ef y cymmorth; a hwnnw eissioes llwyraf llu a aeth or ynys hon: ac ni ddeuth drachefyn na hwy nau llinys; sef i trigasant wy yn y ddwy ynys yn ymyl mor Groec; sef oedd y gwyr hynny eu henwau Gals ac Afena.<sup>1</sup> Y trydydd llu aeth gan Gaswallawn mab Beli, a Gwenwyn a Gwanar meibion Lliaws mab Nwyfre ac Arauron<sup>2</sup> ferch Beli eu mam y fynet trwy for a rhwyse y Kesseryeit or ynys hon.<sup>3</sup> Sef i mae y gwyr hynny yn Ghasewyn. Sef oedd y rhif a aeth gan bob un o naddunt un fil a thriugeint.<sup>4</sup> A rhei hynny a oedd Tri Arianllu. Sef oedd yr achaws i gelwit felly, achaws mynet eur ac ariant yr ynys ganthunt, a dethol gwyr o oreu i oreu. Ac un llu haecach fu gym-maint ar tri llu hynny a aeth gyda Maxen Wledic i Lydaw, a phan ddanfonawdd Cynan Meiriadawc at Dunawt tywysawc Cernyw i gaffael Ursula ei ferch ydd aeth or dyledogion un fil ar ddeg o forwynion merthyri y sydd yng Coloyn: ac hefyd deugein mil o wragedd ereill, ac ni ddoeth yr yn drachefyn.

12. Yn lle *Tri tharw cad*, darllen Tri tharw kaddug: yn lle *Cynfawr Cad Cardwe*, darllen kynfawr katgadduc.

<sup>1</sup> Arall—Yrp Lluyddawg yn oes Cadyal mab Eryn, a ddaeth yman i erchi cymmorth, ac nid archei o bob prif gaer namyn deu cymmeint ac a ddelei ganthaw iddi; ac ni ddoeth ganthaw ir gaer gyntaf, namyn ef ai was; ac arddustru fu rhoddi hynny iddaw. A hwnnw eissioes llwyraf llu a aeth or ynys hon, ac ni ddoeth drachefyn neb o naddunt. Sef y lle y trigws y gwyr hynny yn ddwy ynys yn ymyl mor Groec; sef yw y ddwy ynys hynny Gals ac Afena.

<sup>2</sup> Arall, Arianrhot.

<sup>3</sup> Arall, trwy for yn ol y Cessarieit.

<sup>4</sup> Arall, sef eirif a aeth ym pob un o'r lloedd hynny un fil ar ugeint.

13. Yn lle *Elnur mab Cadeir*, darllen Elinwy ap Cadegyrr.

14. TRI lleddf unben ynys Prydein: Llowarch hen mab Elidir Lydanwyn a Manawydan mab Llyr Lledieith a Gwgon Gwron mab Peredur mab Eliffer Gosgordd-fawr.

15. TRI unben llys Arthur: Gowronwy mab Echel forddwytwll, a Chadeeit mab Porthawr gadw a Ffleudur fflam.

16. TRI unben Deifyr a Brenych Gal (Kall) mab Dysgyfdawd, ac Ysgafnell (Ysgwfnell) mab dysgyfdawt, a Diffyddell mab Dysgyfdawd: a thri meib beirdd oeddynt ell tri.

17. Yn lle *Gwaewrudd*, darllen Gwarthrudd, Gwaurudd: neu Gwawdrudd: Un lle a mian *Ferdic*, darllen Afan Ferddig.

21. Yn lle *Rineri*, *Tinwaed* a *Ffryder*, darllen Rhiferi, Dinawc a Phryder.

24. Yn lle *Enfael*, darllen Enwael; a chwanea—*a Gweir Gwrhyd* fawr.

27. TRI glew Y. P. Tri meib Haiarnfedd Fradawg: Grudner, a Henpen, ac Edenawc.

30. Yn lle *Pwyll amwyn*, darllen Pwyll pen Annwyn: yn lle *Dallweir Dalben*, Dallwyr Dallben: yn lle *Gorddodo*, Gorddody: yn lle *Llonwen*, Llonion: yn lle *Eryr a rodde Collfrewy i Frynach*, Eryr a rodde Coll mab Collfrewy i Vvrynach: yn lle *Eryr Brynach*, Eryr Breunach.

32. Tri phrif Hut Y. P. Hut Math ap Mathonwy, a hut Uthur Bendragon, a hut Gwyddelyn gorr.

33. Yn lle *lledrithiawc*, darllen lledurithawg; yn lle *Menyw*, Menw: yn lle *Cibddar*, Kildar.

34. Yn lle *ni ofynnasant ddim iawn iddaw rac gorfot arnaddunt y adaw*, darllen ni ofynnasant ddim iddaw:<sup>1</sup> yn lle *pan fu y ddifancoll a aethant yr mor*, darllen a aethant ir mor.

35. Yn lle *Eda Glinmawr*, darllen Oda Glinwawr (a Damglymor); darllen y trydydd fal hyn, A theulu Alan Ffyrgan a ymchweasant i wrthaw hnt nos ae ellwng ae weision i Gamlan ac yno i llas.

36. TEIR Gosgordd adwy Y. P. Gosgordd Mynyddawg Eiddyn, a gosgordd Melyn ap Cynfelyn, a gosgordd Dryon mab Nudd.

37. Yn lle *Trywyr a unaeth y teir mat gyflafan Y. P.* darllen Trywyr a wnaeth teir mat gyflafan Tri meib Deisyfdawt;<sup>2</sup> yn lle *dwy celein*, deuddyn; yn lle *Yscafell*, Yscafnell; yn lle *Diffeddell*, Diffet dell.<sup>3</sup>

<sup>1</sup> Arall, Teulu Caswallawn ap Beli pan fuant hualogion.

<sup>2</sup> Arall, Dysgyfdawd.

<sup>3</sup> Arall, Diffydel.

38. Yn lle *Eidyn mab Einynan* darllen Eiddyn mab Einiawn;<sup>1</sup> yn lle a *Llofan Llawddino a laddawdd Uryen mab Cynfarch*, darllen a Chynon mab Clydno Eiddin a Dyfynnawl mab Mynedawc Eiddin a laddodd Urien mab Cynfarch.<sup>2</sup>

41. Yn lle *gormedd*, darllen gormes; yn lle *Lludd mab Beli*, Caswallawn m. Beli; a chwanega ar ol *drachefyn*, ac or Afia pann hanoeddynt: y drydedd fal hyn, Gormes y Saeson a Hors a Hengist yn bennaduriait arnaddunt.

45. Yn lle *tri chudd a thri dalcudd Y. P.* darllen Tri matcudd pan guddiwyd, a thri anfad dalcudd ynys Prydain pan dalcuddiwyd; mal hyn yr ail cudd, Esgyrn Gwrthefyr feudigeid a gladdwyd ym mhri-flyrdd (mhrif pyrth) yr ynys hon, a hyt tra fei yno ni ddoei ormes ir ynys: mal hyn y trydydd, cudd y dreigieu a gudd-iawdd Lludd mab Beli yn ninas ffaran yng Cerrig Eryri.<sup>3</sup>

51. Yn lle *Mathohwch Wyddel*, darllen Mathonawc; yn lle *Branwen*, Bronwen.

53. Yn lle *March Meirchiawn*, darllen Marach.

59. Yn lle *prif riain*, darllen prifwagedd; darllen yn olaf Gwenhwyfar ferch Gawrydd Keint.

61. Yn lle *Tri marchawg yn llys Arthur o gawsant y Greal*,<sup>4</sup> darllen y tri marchawg gwyr oedd yn llys Arthur, nid amgen. Galath ap Lawnselot dy Lac; Peredur ap Efrog iarll; Burt ap Burt brenin Gasgwyn, pa le bynnac i delei y rhai hyn, lle na bei na chawr na neb rhyw beth anysbrydol er kadarned vei eu harfeu a daed vae eu kallonau ni ellynt ddim oe haros. Yn lle *Galath*, Galaad; yn lle *Brangor*, brenin Brangor.

65. Tri aerfeddawc Y. P. Selyf mab Cynan Garwyn, ac Urien mab Cynfarch, ac Afaon m. Taliessin.

72. Yn lle *Difwng mab Alban*, darllen Difwng mab Alan: yn lle *Doler mab Mwrchath*, Golor mab Murthach.

82. Tri marchawg eur dafodiawc oedd yn llys Arthur; nid amgen Gwalchmai ap Gwyr, Druddas ap Tryffin, Eliwlod ap Madog ap Uthur; canys nid oedd na

brenin na iarll, nag arglwydd ag i del-ei y rhai hyn attunt nas gwrandewynt; a pha neges bynnac a geissent hwy yntwy ai mynnynt naill ai o fodd ai o anfodd.

83. Tri brenhinol farchawg oedd yn llys Arthur, nid amgen Nasiew, brenin Denmarc; Medrod ap Llew ap Cynfarch; Howel ap Emyr Llydaw; ac nid oedd nag ammerawdyr na brenin a ballei ou neges ir rhei hynny o achos eu tecced au doethed, pan ddelynt mewn heddwch; a hefyd nid oedd na milwr na rhyswr a allei eu haros pan ddelynt mewn rhyfel er daed vae eu harfeu; ac am hynny y gelwid hwynt yn farchogion brenhinawl.

84. Yn lle *tywysog Llychlyn*, darllen iarll Llychlyn: yn lle *eu cynneddfeue oedd*, &c. darllen cynneddfeue y rhei hynny, pwy bynnac a wnelei gam a dyn gwan, pwy bynnac vei, hwynt a hymleddynt yng kweryl y kyfiawnder ag er kadarned vae hwynt ae gorfyddynt canys ymroddi a wnaethaeddnt i gadw kyfiawnder ar dyn gwann hwy au helpynt ymhob un or teir kyfreith: nid amgen Blas yn y gyfraith ydyl; Kadawc o gyfreith eglwys; Pedrogl o gyfreith arfeu: am hynny i gelwid hwynt Tri Chyfiawn Farchawg.

85. Yn lle *Trywyr a ddiangasant o Gamlan*, &c. darllen Tri Gwrthwyneb farchawg oedd yn llys Arthur, nid amgen, Morfran ap Tegit, Sanddef bryd Angel, a Glewlwyd Gafaelfawr: kynneddfau y rhai hyn oedd, gwrthwyneb oedd gan neb ballu uddunt pa neges bynnac ac y geissent: Sanddef rhag ei decced, Morfran rhag ei hacred, a Glewlwyd Gafaelfawr rhag ei faint ai gryfed; ac am hynny ni wyddiad neb beth oedd oreu ai rhoi ai pallu uddunt y neges a geissent; ag am hynny i gelwid hwynt gwrthwyneb farchogion.

86. Tri chynghoriad farchawg oedd yn llys Arthur, nid amgen Kynan ap Clydno Eiddun; ac Aron ap Kynfarch ap Meirchion gul; a Llywarch hen ap Elidir Lydanwyn: ar tri marchawg hynny a oeddynt gynghorwyr i Arthur, ja ryw ryfel bynnac na bygwth a vae arno, hwynt ae kynghor-ynt hyd na chae neb y gorrnod ar Arthur, ac am hynny i gorfu ef ar bob kenedloedd drwy dri pheth a oedd yn ei ganlyn, nid amgen gobeith da ac arfeu kyssegredig y rhai a ddanfones Iesu Grist iddaw, a rhinwedd ei filwyr: ac am hynny i gwisocodd ef ddeuddeg coron am ei ben, ac i bu ef amherawdyr yn Rhufain.

90. Yn lle *tri dyn goreu wrth osp*, darllen Trywyr goreu yn llys Arthur wrth

<sup>1</sup> Arall, Heiddyn mab Einynan.

<sup>2</sup> Arall, a Llofan Llawddifo a laddawdd Urien mab Cynfarch.

<sup>3</sup> Arall, Tri chudd a thri dalcudd ynys Prydein; Bendigeituran m. Llyr a gladdwyd yn y Gwynfryn yn Llundein, a hyt tra vei y pen yn yr ansawdd ydd oedd yno yn ddoe ormes byth ir ynys hon. Eil esgyrn Gwrthefyr vendigeit a gladdwyd yn prif byrth yr ynys hon. Trydydd y dreigieu a gladdwys Lludd m. Beli yn Dinas Emrys yn Eryri.

<sup>4</sup> Arall, a ennillodd y Greal ac eu dug i nef.

osp : yn lle a *Chadyrieith Saidi*, a Chadyr-yeit m. Saidi.

TRIOEDD Y MEIRCH, td. 23.

1. Yn lle o *Benllech Elidir*, darllen o Benllech : yn lle *Gwynda gyoet*, a *Gwynda Reinyat*, Gwyn da gyfed, a Gwyn da remat : yn lle *Prydelw*, Prydelaw : yn lle *Gelbenein*, Gilbenefyn : ar ol *pedrain y March*, darllen ai draet yn y dwfyr : ar ol y *trydydd marchlwyth a ddug*, darllen Heid march Gwrthmwl wledig a ddug ; yn lle *Gweir a Gleis ac Arthanat*, darllen Gneir a Gleis ac Arthynad.<sup>1</sup>

3. Yn lle *tynmedig*, darllen rhynedig ; yn lle ac *Awyddawr breichir march Cyhoret eil Cynan*, a Rhuddfron Tuthvleidd march Gilb ap Cadgyffro : yn lle *Rhuddfleon Tuthfleidd march Gilbert mab Cadgyffro*, ac Awyddawc vreich hir, march Kyhoret eil Cynan.

4. Yn lle *Bucheslan*, darllen Bucheslom, neu Buchesdom.

5. Yn lle *Cunin*, darllen Cwfin : yn lle *Rhuddfrych*, Arwlvrith ; yn lle *Gwelwgan Gohoywgein*, Cronach Arwch.

6. Yn lle *carn aflawg*, darllen cyflym.<sup>2</sup>

<sup>1</sup> *Arall o lyvyr gorkynol*.—TRI marchlwyth ynys Prydein ; Du moroedd, march Elidir mwynfawr, a ddug seithnyn a hanner arnaw o ben Llech Elidir yn y Gogledd hyd ym mhen Llech Elidir ym Mon ; sef rhei oeddynt Elidir ac Eurgein ferch Faelgwn ei wreig, a Gwynda Gynydd, a Gwynda Rhieiniad, a Manach Nawmon yn gyngborwr, a Phedrillaw fenestyr, ac Arian fagyl ei was, a Gelffeinesin, a nofies ai ddwylaw ar bedrain y march a hwnnw fu hanner y dyn. Ar eil marchlwyth fu Goron march meibion. Olfifer Gosgorddfawr, a ddug Gwrgi a Pheredur a Dunod vurr a Chynfelyn Drwscl, i earych mygedorth Gwynddole. Ar trydydd, march meibion Gwrthmwl wledig, a ddug arnaw Gwair a Chlais ac Arthenad yn erbyn yr Allt Faelwr yng Ceredigiawn i ddial eu tad. Cynneddf oedd ar Faelwr, na chaye i borth er un marchlwyth, ac yna i lladdassant.

<sup>2</sup> Arall, Cethin Carnafaw march Iddon mab Enyr Gwent.

7. Yn lle *Cynadaf*, darllen Cuneddaf ; yn lle *Arful*, Arwl ; yn lle *Rhuddlwyd*, Dulwyd.

10. Yn lle *Gwlhwlyd* ; darllen Gwylwlydd.

11. Yn lle *Olifer*, darllen Eliffer ; yn lle *Cornillo*, Carnillo.

CHWANEGIAD O L. P. P.

TRI chat farchawc oedd yn llys Arthur : nid amgen Cadwr iarll Kernyw, a Llawnslot dy Lac, ac Ywain, ap Urien Rheget. Kynneddfau y rhai hyn oedd, ni chilynt nag er gwaew nag er saeth nag er kleddyf, ac ni chafas Arthur gywilydd mewn brwydyr y dydd i caffai ef weled eu hwyn-ebeu ac am hynny i gelwit hwynt katvachogion.

TRI lledrithiog farchawg oedd yn llys Arthur : nid amgen Menw ap Teirgwaed, Trystan ap Tallwch, Kai hir ap Cynyr farfog, canys ymrithio a wneynt yn y rhith i mynnynt, pan vae galed arnynt, ac am hynny ni attai neb eu gorfod rhwng eu kryfder au dewrder au hud au lledrith.

Wrth y Trioedd, o ba rai y tyned yr amrywiaethau uchod, y mae y geiriau hyn :—“Y Trioedd uchod a gefais i yn ysgrifennedig mewn llaw ewingron a ysgrifennesid uwchlaw chwechan mlynedd cyn no hyn, ac a gollasei eu dechreuad hwynt, ond cymmeint ac a gefais mi au hyscrifennais yn y modd i cefais.

Sic Jones.”

Wrth y Trioedd, o ba rai y tyned y chwanegiadau uchod, y mae y geiriau hyn :—“Ac fal hyn a escrifennais i o law Simwnt Fychan y terfyna y 2. dydd o fis Chwefror 1640. Jo. JONES.”

# BONEDD SAINT YNYS PRYDAIN:

ALLAN O

## LYVYR HAVOD YCHDRYD.<sup>1</sup>

DEWI mab Sant. mab keredic. mab kuneda wledic. a nonn verch gynyr o gaer gauch ym mynyu y vam.

Docuael mab ithael mab keredic mab kuneda wledic.

Tyssul mab corun. m. keredic. m. kuneda wledic.

Carannauc. m. corun. m. keredic. m. kuneda wledic.

Pedyr mab corun. m. keredic. m. kuneda wledic.

Teilyau. m. enoc. m. hedun dun. m. keredic. m. kuneda wledic.

Gwynlleu m. kyngar. m. garthauc. m. keredic. m. kuneda wledic.

Auan buellt m. kedic. m. keredic. m. kuneda wledic.

Kyngar m. garthauc. m. keredic. m. kuneda wledic.

Kyndeyrn m. kyngar. m. garthauc. m. keredic. m. kuneda wledic.

Kynuelyn m. bleiddut. m. meiryaun. m. tybiaun. m. kuneda wledic.

Ederm m. beli. m. run. m. maelgun. m. katwallaun llauhir. m. einyaun yrth. m. kuneda wledic.

Einyaun vrenhin yn llynn. a seiryoel. ympenn mon. a meiryaun ymmerthyr.

Meiryaun yngkantref meibyow owein danwyn. m. einyaun yrth. m. kuneda wledic.

Katwalaudyr vendigeit. m. katwallaun. m. katuan. m. iago. m. beli. m. run. m. maelgun. m. katwallaun llauhir. m. einyaun yrth. m. kuneda wledic.

Deinyoel mab dunaut vyr. m. pabo post prydein. a dewei verch leennauc y uam.

Assa m. sawyl ber uchel. m. pabo post prydein. a guenassed verch rein o rieinuc y vam.

Kyndeyrn. m. garthwys. m. owein. m.

<sup>1</sup> Corf y llyvyr hwn ydoedd Meddyginiaeth Medd-  
ygon Myddvai; a Bonedd y Saint yn ei ddiwedd.

uryen. a denu verch leudyn luydauc odinas eidin nny gogled y vam.

Gorust mab gueith hengaer. m. elphin. m. uryen. ac eiryoruy merch glydno eidin y vam.

Kadell. m. Uryen.

Buan m. ysgun. m. llywarch hen.

Lleudat yn henlli. a baglan yngkoet..... ac eleri ym penn nant guytherin yn rywynnyauc. atheguy. athevrydauc iscoet. meibyow dingat m. nud hael m. senillt. m. kedic. m. dyfynwal. m. edynyuet. m. maxen wledic. a thenoi verch leudun luydauc. odinas eidin nny gogled eu mam.

Katuan sant yn henlli. m. eneas ledewic o lydau. a guenteirbronn merch emyr llydau y nam.

Hennen<sup>1</sup> m. guyndaf hen o lydau periglaur y gatuan. ac yr seint a unant ynghyt oes ac ef yn henlli.

Kynan. a dochduy. a mael. a sulyen. a thanuc. ac eithras. a llewen. a llenab. a theguyn. adoethant gyt achatuan yr ynys honn.

Padarn m. petrun. m. emyr llydau. keyynderu y gatuan.

Tedecho. m. annun du. m. emyr llydau. keyynderu y gatuan.

Trunyau m. diuuc. m. emyr llydau. keyynderu y gatuan.

Maelrys. m. guydno. m. emyr llydau. keyynderu y gatuan.

Tegei ym maes llann glassauc yn arllechwed. atherillo yndineirth yn ros. meibyow ithael hael olydau. allechit yn arllechwed. chwaer udunt uynteu.

Kybi mab selyf. m. gereint. m. erbin. m. cystennin gorneu.

Padric. m. alvryt. m. goronuy o waredauc yn aruon.

Katuarch sant yn aberrych ynlllynn. athangun yn llann goet ym mon. a maethlu

<sup>1</sup> Henwyn.—*Llyvyr Brook o Vawddwy.*

yngekarnedaur ym mon. meibyon caradauc  
vreichvras mab llyr marini.

Beuno. m. bugi. m. guynlliu. m. gliwys.  
m. tegit. m. kadell. apheren verch leudun  
luydauc odinas eidin yny gogleid y vam.

Cannen sant<sup>1</sup> m. guydllu. m. guynlleu.  
m. gliwys. m. tegit. m. kadell. olann gaduc  
yngguent.

Tussiliau. m. brochuael ysgithrauc. m.  
kyngen. m. kadell dyrnlluc ac arduon verch  
pabo post prydein or gogleid y vam.

Llywelyn ortrallung. m. tegonuy. m.  
teon. m. guineu deu vreuodyt. a gurnerth  
sant. m. yr llywelyn oed hunnu.

Elhaearn ymmaes kegitua ympowys. a  
lluchhaearn ynghetewein. a chynhaearn o  
ynys gynhayrn yneidyonyd. meibyon hyr-  
garuael mab kyndruyn oles tinwynan  
yngkaereinyaun ympowys.

Guyduarch m. amalarus tywyssauc y  
puyl.

Ystyphan m. mawan. m. kyngen. m.  
kadell dyrnlluc.

Pedrauc m. clemens tyuyssauc o gernyu.

Tutclut. aguennoedyl. a merin. a thutno  
ynghyngreadur. a seneuyr. meibyon y  
seithennin vrenhin o vaes guydno aores-  
gynnaud ymor ydir.

Peris sant kardinal o ruuein.

Bodo. a guynnin. a brothen sant. meib-  
yon Glanauc. m. helyc voel otyno helyc.

Tyvredauc ymmon. adwenyr ymottyfar-  
ru yntegeingyl. a theyrnauc yndyffryn  
cluyt. a thudyr yndarywein ynkeueilyauc.  
brodoryon. meibyon haustyl gloff. a diuan-  
ned merch amlaud wledic eu mam.

Keidau m. nyrr guent.

Madrn verch wertheuyr brenhin yr  
ynys honn. ac annun llauvoruyn idi.

Tecuan sant ym mon. m. carcludwys. m.  
kyngu. m. yspuys. m. kadrut calch uynyd.  
a chenaf verch tewdyr maur y vam.

Elaeth vrenhin. m. meuric. m. idno. ac

<sup>1</sup> Cadwg Cutt, q.—*Llyvyr Brook o Vawddwy.*

onnen grec verch wallauc vab lleennauc y  
uam.

Mechyll m. echwys. m. guynn gohoeu.

Kowy m. y mirvinen hen. a chainell  
gureic ovot angharat. yngholemaun y vam.

Deunauc sant. m. kaurdaf. m. kradauc  
vreichvras.

Collen mab petrun. m. coledauc. m.  
guynn mel angell. merch kyuelch. m. tut  
dawal tutclut. o ethni wydeles y vam.

Idloes m. guidnabi. m. llawrodet varuauc.

Nidan ym mon. m. goruyn. m. pasgen.  
m. uryen.

Dwyvael m. pryder. m. dolor dyfyr  
dieifyr a byrneich yny gogleid.

Eurgein merch uaelgun guyned. m.  
katwallaun llawhir. m. einyaun yrth. m.  
kuneda wledic.

Llonyan llau vur.<sup>1</sup> m. alan ffergan. m.  
emyr llydau.

Guenan a noethon. meibyon gildas m.  
kadu.<sup>2</sup>

Gwrhei m. kadu<sup>3</sup> o penn ysteryueit yn  
aruistli.

Garmon m. ridicus. ac yn oes gurtheyrn  
gwrtheneu ydoeth i'r ynys honn. ac o freinc  
yr haoed.

Dona ymmon. m. selyf. m. kynan garu-  
yn. m. brochuael yscithrauc.

Peblic sant yn y gaer yn aruon. m.  
maxen wledic. amperaudyr ruuein. ac elen  
verch eudaf y vam.

Elien keimyad m. alltu redegauc m.  
carcluduys. m. cyngu. m. yspuys. m. cadr-  
aud calchvynyd. athecvan<sup>4</sup> verch teudur  
maur y vam.

*Yma y terrvyna boned seint cymry.*

<sup>1</sup> Lloniaw llawhir.—*Llyvyr Brook o Vawddwy.*  
<sup>2</sup> Gwynyawg a Noethon meibion Gildas ab Caw.—  
*Ibid.*

<sup>3</sup> Gwr mab Caw.—*Ibid.*  
<sup>4</sup> Gwel Tegvan yn y blaen, lle y dywedir Cenaf  
verch tewdyr maur. Mae camgymeriad yma; ac  
o lyvyr Brook o Vawddwy y tynwyd ach Elien  
uchod, gan vod peth o'r diwedd ar goll yn Llyvyr  
Havod Ychdryd.

## BONEDD Y SAINT:

NEU

## ACHAU SAINT YNYS PRYDAIN.

Y CASGLIAD hwn a wnaed gan *Lewis Morris*, yn y vlwyddyn 1760, allan o amryw ysgrivlyvrau hen iawn, dan enw *Bonedd y Saint*, ac *Achau y Saint*, drwy eu cymharu gyd a'u gilydd; ac hevyd drwy eu cyweirio, o gynnorthwy llyvrau ereill.

Un o'r llyvrau, o ba rai y crynôwyd hyn, ydoedd o waith *Thomas Wyn* ab Edmwnd ab Rhys ab Robert ab Ieuan Vychan, B. A. 1577. Hwn yn gyfredin a elwid *Llyvyr Watkin Owain*, gan ei vod eiddo y gwr hwnw, a oedd byw yn Ngwydyr wrth Lanrwst.

*Thomas Wyn* a wnaethai y llyvyr hwnw allan o'r Ysgrivlyvrau canlynol.

*Llyvyr* o eiddo *W. Salesbury*, o'r Plas Isav wrth Lanrwst; ac wedi hyny o eiddo Mr. Wyn o Vodysgallen. Arwydd am y llyvyr hwn yw S.

*Llyvyr John Brook* o Vawddwy. Hwn sydd dan arwydd B.

*Llyvyr Robert Davies* o'r Llanerch; yr hwn ydoedd o groen, ac yn hen iawn; a Brut y Breninodd yn rhan vwyaf o hono. Hwn sydd dan arwydd D.

Heblaw *llyvyr Watkin Owain*, a'i amryw awduron, bu y llyvrau canlynol yn gynnorthwy i Lewis Morris.

*Llyvyr Bodeuhcyn*, yn Mon, o eiddo Ieuan ab Sion Wyn; wedi ei ysgrivenu yn 1579. Hwn sydd dan arwydd C.

*Llyvyr Henry Rowland*, dan arwydd R.

*Llyvyr Llywelyn Offeiriad*.

*Llyvyr Coch* o Hergest.

*Llyvyr Achau Robert Vychan*, o'r Hengwrt.

*Llyvyr Llywelyn ab Meredudd*, neu Llelo Gwta.

*Dau Llyvyr y Dr. Thomas Williams*, o Achau y Saint, a ysgrivenid rhwng 1578 a 1609. Un o honynt a dynded allan o llyvyr *Thomas ab Llywelyn* ab Ithel o

swydd Flint; yr hwn ydoedd adysgriviad o Llyvyr y Llanerch, gyda ch'wanegiadau, o lyvrau ereill. Y llall ydoedd gasgliad o waith y Dr. *Thomas Williams* ei hun, allan o amryw lyvrau; ac yn cynnwys llawer o nodau cywrain, nad ydynt yn y llyvyr arall, o waith y gwr dysgedig hwnw. Nid ynt y ddau uchod yn ol trevn yr egwyddor, eithyr, mal yn llyvyr Llanerch, Dewi Sant sydd yn y dechreuad.

## A.

ARIANWEN Vch Brychan, gwraig Iorwerth hirflawdd a mam Caenawc mawr. T. W. 2. Hwyrach mai Gwenlliw. yn Ll. S. Gwel. T. W. 2.—CLOC CAENOG.

Arthen ap Brychan; ym Manaw y mae ef yn gorwedd. C. a T. W. 2. Mae lle a elwid Rhiw Arthen wrth Aberystwyth.—RHIW ARTHEN.

Ac bedy Riallon y dayth Goró6st y vab yntau yn vrenin. Góedy ynte y dayth Saifyllt yn vrenin góedy ynte y dayth Iago nai Goró6st yn vrenin. Góedy Iago y dayth Cynvarch ap Saisyllt yn vrenin. Góedy Cynvarch y dayth Górvy6 yn vrenin ac y hön6 y by dau vab yr ai a elbit ffer vex a fflorex.<sup>152</sup> Ac bedy dygóyda6 y tat me6n henaint a chlefyt y codes tervyse r6n y dau vrodyr am y vrenhiniaeth. ac y gybot p6y ai caffai. Sev a oruc Porex ennyny o lit a digofaint 6rth y vra6t a darparu y lad ev. A phan giglau ffer vex hyny yr aeth ev y ffiraine y gaissio porth a nerth gan Siçart vrenin ffiraine a dyfot ail6aith a oruc y ymlad ai vra6t. Ac yna fflorex ai llas ev ar ran v6yav oi lu. sev a oruc mam y day vab daly llit wrth fflorex y mab oed yn vy6 a dyfot hi ai morynion pan i cafas hi ev yn cysgu a hi ai llas ev yn y g6sc ac ai torres yn darnau mân. Ac bedy hyny y by dervysc r6ng y bobloed yn hir o amser a ryfel ryingtynt y hunaint am y dyrnas hyt pan y rdnassant hi yn bym ran r6ng pym brenin o nýdynt ar hain bob ail6ers yn ymlad ba6b ai gilyd. Ac yna ymhen lla6er o amser bedy hyny y codes clot y 6as ievanc a elbit Dyfn6al Moel Myt cans mab oed hön6 y Glydno Iarlrl Cerni6 a ragor oed ida6 o deg6ch a de6rder rac holl vrenhinoed ynys Brydain. ar góas hön6 bedy març y dat a gymerth y cyfoeth yn y la6 y hun. Ac yn y lle bedy hyny ymlad a oruc ev ar pymet breuhin Lloegr a llad hön6. Ac yna pan gly6as Nyda6s Vrenin Cymbry hyny a The6d6r vrenin Ysgotlant y daythant h6ynte ai lluoed y gyfoeth Dyfn6al a dechrau anraithia6 a llosgi. A ffau gly6as dyfn6al hyny dyfot a oruc a deng mil ar hygain o 6yr arvoc gidac ev ac ymlad ac h6ynt a throyla6 lla6er or dyd hön6 heb arvot o un ar y gilyd. Ac yna pana 6elai Dyfn6al y vot yn cael y vydygoliaeth gal6 a oruc atto ch6aygain6yr or góyr gorau a roi arvau y góyr ladedic yn y cylech ac ynte y hun a roes arvau un or góyr mair6 andana6 a thynny ymmyth y arvau y hun

ac yn gyflym dyfot yr lle ydoed Nyda6c vrenin ai lad a mynet ai ch6aigain6yr yr lle ydoed. De6d6r ac er6hi ydynt rythra6 ida6 ac yn gyflym y lad ynte a 6naitthant heb aim ont ch6aigain6r gidac ev. Ac yna rac ofn y lad oi 6yr y hun y góis6ys y arvau y hunan am dana6. Ac yna annoc y 6yr o ne6yd y lad y gelynion ac ni by hir o ennyt yn y chafas ev y vydygoliaeth ar góbl. Ac yna cerded a oruc ev ar hyt y cyfoethau a goresgyn a distry6 y cayryd ar cestyll ac bedy goresgyn c6bl o ynys Brydain or mor y gilyd yn y eido y hun. ef a beris 6naythyr coron o aur iddo ai góisga6 a oruc ar y ben a dóyn yr ynys ar y hen dailngda6t a gossot cyfraithiau yr hai a el6ir etto cyfraithiau Dyfn6al Moel Myd. Ac y maer Saesson etto yn y cynal h6ynt ac ev a r6des y braint yr temlau ar dinessyd ac yr fyrd cyfraeth val y caffai bob dyn na6d ac a foe attynt er a 6nelai o gam a mynet heb genat y elynion ford y mynnai a hefyt lla6er o bethau eraill a oruc ev yr hön a vyd yn ry vlin y draythu val ysgrifenn6ys Gildas h6ynt cans braint nodva a r6des ef yr fyrd a gyrchai y priv dinessyd. A roi y priffyrd yr bobl gyffredin y vynet yr dinessyd ar temlau. ac yn y oes ev ni by na llaidr na thraiss6r ac velly bedy lly6ia6 y cyfoeth yn y 6ed hono daygain mlyned bedy g6naitthyr Coron ai góisgo març vy ev. Ac yn llyndain me6n temyl a 6naethoed y hun y clad6yd. A bedy y var6 y codes tervyse ac anundeb r6ng y dau vab ev Beli a Bran am y vrenhiniaeth ar goron cans pob un a vynai y chael hi ido y hun. Ac yna y g6naeth góyr da doethion dangnefed ryingtynt a rannu y cyfoeth yn dóy ran nit amgen no gady y vely Loegr a choron y dyrnas a ch6bl o gymry a cherni6 hefyt o achos mae hunav oed ev cans o her6yd hen dedyv góyr troyav y mab hunav a gai y dailngda6d y gyt. Ac y vran y parth dra6 y hynyr gan y vot yn darostyngedic y vra6t sev oed hyny y gogled oll. a chadarnhau hyny a 6naethb6yt ryingtynt ac velly mynet pymlyned haibio yn dagnofedys. Ac yna rai a garai dervyse a dayth at Vran a dy6edyt vot yn llese ida6 ac yn góilydys ell6ng y dlyet y vyny y vra6t ac ynte yn un vam undat ac ev ac yn un vrait a dlyet. a hefyt m6y y byost di me6n ymladau a chynnhennion noc y by ev. pan dayth Ed6etro ty6ssoc morien yth 6lat ti a thi ai gyrraist ev un6aith ar fo ymayth ac am hyny torr di y gyngrain 6rad6ydys yssyd rot ti ath vra6t. a dos di at vrenin Llychlyn a chymer di y verch

ev yn graic briot itti a thrôy nerth hônô y gelly di nnyll dy dlyet. Ac yna lldiaô o Vran drôy y gacïau hyny ac yr aeth hyt yn llychlyn y briodi merch brenin llychlyn. Ac 6edy manegi hyny y Veli drôc vy ganto ac anhlîông a lldiaô a oruc yn vaôr am vynet y vraôt heb gynghor y gaissio ford hyny nerth yn y erbyn ev. A chynyll lu maôr a oruc Beli a mynet trôy hymyr a chymryt y caeryd ar dinessyd a roi y ôyr y hun yndynt. A phan gïgle Vran hyny cynyll llu maôr a oruc ynte o Lychlyn ac velly val yr oed ev yn dyfot ar llynges hono parth ai ôlat yn llaôen ar gôynt gidac ev nachav yn cyfarvot ac hôynt Wychlan Vrenin dassia yr hôn oed yn emlit ev o gariat ar y vorôyn a dygassai ev o Lychlyn a fan ôyby hônô mae Bran oed yn parattoi y Lynges a oruc ac ymlad ac ev yn galet nny gafas ev vôrô bachau am y llong ydoed graic Bran yndi a thynny ganto nny daith ev a hi yn ganol y Lynges y hun. Ac yna nachav ystorm o ôynt yn dyfot ac yn gôsgaru y llongau y bob traeth trôy anffortyn ac velly diôarnot y byant yn hôyliad. Ac yna pan glyby ôyr y lat hynny y daly a ônaethant ai dôyn at Veli oed yno yn aros y vraôt o Lychlyn. A chida llongau brênin Dassia ydoed dair llong eraill ac un o nadynt a hanoed o longau Bran y vraôt ev. A da vy gan Veli gael honno y dechrau dial ar y vraôt. Ac ar ben ychydic o dydian gôedy hynny nachav Vran yn dyfot gôedy casglu y llongau ynghyt yr lan yr gogleid. Ac ôedi manegi idad y Veli oresgyn y gyfoeth ev a daly y graic anvon cenat a oruc ev at Veli y erchi idad adveryt y graic ai gyfoeth idad ev drachefn. a dyôedyt onys cae y hanraithiai ev yr holl ynys or mor y gilyd ac y lladau ynte hefyt o chaffai gôrô ac ev. A phan gïgle Veli hynny y naccau a oruc or dau bônec hyny oi graic ai gyfoeth. Ac yna Beli a gynnllôys llu o holl varchogion ynys Brydain a dyfot yr erbyn brân ac arlôyad ymladacev. Ac yn y lle par ôyby Vran hyny dyfot a oruc yn erbyn Beli hyt y lle a elôir llôyn caladyr.<sup>17</sup> ac yna ymgyrchu a orugant yn groylon cans gôyr canmoledic ymrôydr oed bob un o nadynt ac o bob part y syrthian'r gôyr megis y syrthiau y cayrch y cynhauav gan y medelôyr. Ac yn y dîed y gorvy y Bryttaniait ac y ffoes gôyr Llychlyn yn vrîedec parth ai llongau ac yn y vrôydr hono y llas o ôyr Llychlyn bymthengmil ac ni diengis neb o nadynt yn iach. Ac yna o vraid y cafas Bran un oi longau ac yr aeth hyt yn ffraine ar anifer eraill y daethoed gidac ev

a ffoes yr lle cyntav y caôssant ôasgot. Ac yna 6edy cael o Veli y vydygoliaeth galô a oruc atto holl ôyrda y dynas hyt ynghae'r Efrog y gymryt y cynghor am vrenin Dassia. A gellông cenadau a oruc hônô attaô ev y gynnig y brogaeth idad ev a darostyngedigaeth o herôyd y da o dyrnget bob blôydrn er y ellông ev yn ryd ev ai orderch. A hyny a oruc Beli o gynghor y wyrda a chymryt caernit a gôystlon gan vrenin Dassia ai ellông ev yn ryd gida y orderch. Sef a oruc Beli yna 6edy goresgyn yr ynys or mor y gilyd ac nat oed neb ai gôrafynau. Ac yna cadarnhan y cyfraithau a ônaethod a oruc a chrio hedôch trôy yr holl ynys ac yn gadarnav yn y temlau ar dinessyd a roi y braint pennav ar a vyssai ydynt er ioed. Ar amser hynny ymrysson oed am y ffryd ni ôydid y tervyn yn hysbys. Ac yna y gelôis ev atto holl Sairi main ynys Brydain a gorchymyn ydynt wnaythyr y ffryd yn gyfreithlon o vain a chalch. Sef y gônaithbôyt un o nadynt or lle ida penryn cernîc yr mor hyt ymhenryn bladon yn y gogleid a hyny yô hyt ynys Brydain trôy briv dinessyd a vai yn uniaôn ar y fford. ac un arall a beris ev y gônaythyr ar draôs yr ynys nit amgen noc o gaer vynîc ar lan y mor hyt yn horth hamon sev yô hônô Northampton. A dôy ford eraill a erchis ev y gônaythyr yn resgôy ydynt ar vessyr conglau yr ynys drôy dinessyd hefyt val y llail. A fan darvy y gônaythyr ev a beris y cyssegru a rodi ydynt vrait nodva. cans pôy bynnac a gaffai un or ffryd hynny er maint o gamai a ônelai na lefassai neb y lestar <sup>20</sup> ac yna y by Veli yn dangnofedys yn gôledychu. A Bran y vraôt gôedy mynet y ffraine yn ofalys achos trôm oed ganto y deol oi ôlat ai gyfoeth ac nat oed fford idad y chaffel hi drychefn ac ni ôydiat beth a ônai. Ac yna ve aeth ar y daydeved march at dôyssoc fraine a dangos y damôain tryan idad. Ac 6edy naccau y nerthu o hônô yr aeth ev yn union att dywssoc Byrgôin. A hônô a vy laôen ôrtho ac a rodes y gydmaithias ai gariat arno hyt nat oed yn y llys un cymaint y hanryded ac ev sev achos oed hynny ymhob peth ac a ônelai nac yn ryfel nac yn hedôch y bai y dangossai ev voliant ac anryded hyt pan y caroed y tyôssaôc ev yn gymmaint a fai bai maô idad. cans gôr tec oed Vran o edrych arno. Ac aelodau hirvainion oed idad a bonedigaid oed a chyôrain a doeth val y gôedai idad vot. Ac 6edy rodi or tyôssaôc y gariat arno ev velly ac unverch oed ido ac yn ettîfed idad

ac ev a rodes hono yn vraic briot y Vran ac oni bai ida6 ettifed arall ado Byrg6in ida6 yn y ol ev ac o bai vab ida6 ada6 porth a nerth ida6 ev y oresgyn y gyfoeth y hun. A hefyt ydoed yn o dy6ssogion frainc 6edy ada6 porth a nerth ida6 megis yntau. Ac yna y priodes Bran y vor6ynac velly ty6ssogion y6lat a darestyng-a6d ida6. A lly6odri y cyfoeth a roes-b6yt ida6 6rth y la6 y hun.<sup>202</sup> Ac ni by vl6ydyr 6edy hynny yn y vy var6 y ty-6ssa6c. Ac yna ranna6d Bran yr ty6ssogion oed yn y garu ev yr hynn daoed a dy-gassai y ty6ssoc ar y taidiau h6ynt orblaen. Ac velly y r6ymoed ev y cariat h6ynt atto o achos y haelder ev. A chida hyny g6naythyr yr h6n gorau gan 6yr Byrg6in roi b6yt a diot y ba6b ac a delai ac ni chayit un porth ragdynt. Ac yna 6edy bot yr anifer hynny yn gitun ac ev medyl-ia6 a oruc ev pa vod y gallai ev gael ym-dial a Beli y vra6t am a 6naethoed ida6. Ac velly ada6 o ba6b borth a nerth ida6 y vynet y oresgyn y lle a vynna; or byt. Ac yna yn diochir cynyll llu ma6r a oruc a dy-fot y ffrainc a g6naythyr cyngrair ar g6yr hyny ar gael mynet ai lu tr6y y g6lat h6ynt ty ac ynys brydain. Ac yna pan vy barot y llongau ar draeth fflandrys yr aethant yr m6r ar g6ynt yn y hol yny doethant y ynys Brydain. A fan gogleu Veli vot y vra6t yn dyfot a llynges va6r ganto cynyll llu ma6r a oruc ynte a dyfot yn y erbyn y ymlad ac ev. Ac yna val yr oedynt yn mynet y ymgyrchu y dayth Tonwen y mam attynt a bryssia6 a oruc hi tr6y y bydinoed y gaiffio g6elet Bran y mab o achos nas g6elsai er ystalym o amser ac velly yn ar-grynedic ofnec y cerd6ys hyt y lle ydoed Vran yn sefyll a rodi y d6yla6 am y v6n-6gl ev a rodi mynych gysanau a oruc hi a dy6edyt val hynn tr6y igvan ac 6yla6 vy an6yl vab coffa di y d6yfron hyn a signaist di arnynt. coffa di galon dy vam yr hon a thec di na6mis dan y g6regis coffa di y trafel a gefais i yth ymd6yn di. Med6l di hyny hedi6 er m6yn y crea6dyr or nev ath 6naeth di dyro vadeyant yth vra6t a fait ar llit a gymeraist 6rtho cans ni 6naeth ev y ti dim defnyd llit ac nit evo atheoles di oth 6lat ath gyfoeth. Ac ni 6naeth ev dim cam y ti ac ni etholes ev di er gest-yingat arnat namyn er dy drychafu cans g6r darostyngedic oedyt ti ida6 ev o ran vechan or dyrnas a phan gollaist di hono yd6yt ti yn gynebic ida6 ynte. Ac velly ev a vy ach6ysa6l ar dy drychafiat ti me6n yrdas ma6r. cans m6y yrdas y6 bod yn duc o Byrg6in noc ar gyfran o ynys Brydain.

Edrych di nat oi achas ev y tyfod y ter-vysc cyntav ryngoed namyn ty di a dech-ray6ys pan aethost di y vynny merch brenin Llychlyn yn 6raica ytt ac o nerth h6n6 cassio y digyfoethi ynteu<sup>205</sup> ac velly 6edy dy6edyt o heni hi hynny 6rtho tr6y 6ylo troi a oruc ynteu ar lonyd6ch a hed6ch tr6y y l6yr vryt ai ved6l a g6naythyr cynghor y vam a diot y helym ai benfest-ing iam y ben a dyfot hyt y lle ydoed Veli y vra6t. A fan 6elas ynte y vra6t yn dyfot ty ac atto b6r6 y arvau odi6rtho a orucynte a mynet d6ylo ym6n6gl ai vra6. A chym-odi yndiannot a orugant. Ac yna b6r6 or lluoed y harvau odi6rthant a chammol yr hed6ch a mynet o dyno hyt yn Llyndain. ac yna cymryt y cynghor h6y ai g6yrda. Sev oed y cynghor mynet y frainc a gores-gyn yr holl 6ledyd 6rth y mediant y hun. ac 6edy ybot yn Llyndain vl6ydyr y codass-ant ty a frainc a dechrau anraithio y g6lad-oed a orugant. A fan gogle 6yr frainc hyny ymgynyll a 6naethant holl frainc y gyt yr unlle ac ymlad ac h6ynt ac y cafas Beli a Bran y vydygoliaeth a fo a oruc g6yr frainc ai hemlit a oruc y Bryttaniait yny dalasant y brenin ai gymell y darost6ng ydynt. ac yna destry6io y cayryd cedyrn oll a wnaeth-ant ac erbyn pen y vl6ydyr y darostyngas-ant g6bl or dyrnas. Ac 6edy hyuy y daeth-ant ai lluoed ty a Rufain a dechrau g6as-garu y cayryd a orugant ar hyt yr Eidial ac yna goresgyn yr holl 6ladoed a orugant hyt yn Rufain.<sup>207</sup> ar anser h6n6 ydoed yn Ruf-ain dau dy6sa6c ai henw oed Gabius a sor-cena ac yr haini y daroed gorchymyn lly6-odraeth y 6lat. Ac 6edy g6elet or haini na allai un genedl 6rthneb y groylonder Beli a Bran ac o gyt cynghor sened Ryfain y g6naethant dangnefed ac h6ynt a rodi rod-ion ma6r ydynt o arian ac aur ac ada6 tyrn-get ydynt bob bl6ydynt er cady y cyfoeth yn llonydydynt. Ac y cymmerth Beli a Bran wystlon gantynt ar hyny. Ac o dyno y daeth Beli a Bran ai llyoed ty a sermania. Ac yna 6edy dechrau o nadynt ryfely ar y bobloed edifar vy gantynt yr amot a 6naeth-oedynt ar Bryttaniait a thorri a orugant a mynet yn borth y 6yrsermania.<sup>209</sup> A phan gogle Veli a Bran hyny lliido a 6naethant yn va6r a chymryt y cynghor pa vot ym-ledynt ar dau lu cans nit oed ha6d 6mro y llu a dathoed o Ryfain ar cynghor vy ada6 Beli ar Bryttaniait oll gydac ev y ymlad a g6yr sermania a mynet o Vran ai lyoed ynte ty a Ryfain.<sup>210</sup> A fan gogle wyr Ryfain hyny ymado a wnaethant a g6yr sermania achaisia6 y blaen ar Vran ai lu cyn y dyfot y Ryfain.<sup>211</sup> a ffan gly6as Beli hyny dyfot a

wnaeth ev ai lu ar hyt nos yn y herbyn h6ynt hyt o ve6n glyn coeda6c oed ar y fford a llechu a oruc Beli ac lu yno ai rag6t h6ynt. A thrannoeth nachav 6yr Ryfain yn dyfot yr lle h6n6 ac yno y g6elynt h6y arvac y gelynyon yn disglairio ar hyt y glyn ac yna ofni yn va6r a 6naethant gan dybiait mae Bran oed yno a g6yr Byrg6in gydac ev.<sup>213</sup> Ac yna y cyrchu yn gyflym a oruc Beli ac yn y lle fo a oruc g6yr Ryfain a gado y maes cans ni cha6ssynt na g6isga6 y harfav na bydina6. ai herlit a oruc Beli yn y dyc y nos yr aerva ragdo.<sup>214</sup> ac yna gwedy cael y vydygoliaeth o Veli yr aeth ev hyt att Vran y vra6t y trydyd dyd wedy ida6 cisted wrth gaer Ryfain. Ac yna wedy dyfot y dau lu 6rth y gaer ymlad yn dirving a wnaethant a chyn bai va6r y drygiau a wnelynt y wyr Ryfain ac hwynt a 6naethant gorog6yd wrth borth y gaer y grogi y gwystlon oni rodynt y gaer y vynyid ai chynnal hi a orugant er hyny.<sup>215</sup> Ac 6aithiau ymledyt ai peiriannau ac 6aith eraill yn ymsaethu ac h6ynt ac ymlad a orugant o bob ford ac y gellynt. Ac yna g6edy g6eled o Veli a Bran hyny ennynt o lit a wnaethant ac erchi erogi y ped6ar g6ystl ar hygain or hai bonedicav yn y g6yd gair bron y gaer.<sup>216</sup> Sev yna a oruc g6yr Ryfain llyniaethu y llu yn vydinoed a dyfot allan or gaer a roi catar vaes ydynt cans cenadau a dathoed at 6yr Ryfain odiorth y dau dy6ssa6c 6edy cynyll y gwsgaredic lu a dywedyt y bot yn dyfot yn borth ydynt ac erchi ydynt na rodynt y gaer y vynyid er dim ac yna y dayth y bydinoed yn dau lu am benn y Bryttanait a gwyr Byrgwin yn dirrybyd ac y gwnaethant aerva va6r.<sup>217</sup> Ac yna pan 6elas Beli á Bran llad y cidvarehogion tristau a wnaethant a bydina6 y g6yr ai hannoc y ymlad ai gelynyon ai gyrru ynhell yn y hol a wnaethant ac yn y di6ed 6edy lad milioed o bob ty Beli a Bran a gawssant y vydygoliaeth a lad Galins a daly forena ar gaer a ga6sant. A rannu ys6llt a oruc Beli a Bran r6ng y cidvarehogion.<sup>218</sup> Ac yna 6edy ca6fael y vydygoliaeth y trigio6s Bran yn amhera6dr yn Ryfain a darost6ng y bobl a oruc o anvaidra6l groylonder val y dy6bedyr yn ystoria g6yr Ryfain ni thraythais i yma m6y o nadynt cans gormod o vlinder vydai y traethu y gyt.<sup>219</sup> Ac yna ymhoeles Beli yn y ol ty ac ynys Brydain ac a lly6iod ev y dyrnas yn hedychlon y ran arall oi oes. Ac adne6dy y cayryd a oruc ymhob lle ac y beynt yn advaillo a g6naythyr eraill o ne6yd. Ac ymyse yr hain yr adailod ev

gaer ar lan avon 6yse ac yno ydoed archesgopty Dyfed. Ac 6edy dyfot g6yr Ryfain yr ynys hon y gel6it hi caerllion cans yn y bydynt h6y yn trigio y gayaf. A hefyd yn Llyndain y g6nayth Beli borth anryfedis ar lan temys yr h6n a el6ir Bilingsgat ac ar 6arthav h6n6 y g6naeth ev d6r anvaidra6l y vaint a forthva adas dano yn disgyuva yr llongau. A hefyt cyfraithau y dat adne6dod ev ym hob lle. Ac ymrodi y 6irioned a oruc ac yn y amser ev y by amlder o aur ac ariant ymyse y 6oobloed hyt na by y gyffelyb na chynt na ch6edy. Ac nydi6ed pan dayth y dyd tervynedic y vynet or byt h6n y llosged y gorff ev ac y rodet y llyd6 hyny me6n llester aurait ac y clad6yt yn Llyndain o amrafael gelvydyt ymhen y t6r a dy6etb6yd vry.<sup>221</sup> Ac 6edy mar6 Beli y dayth G6rgant Varf-dr6ch y vab ynte yn vrenin a g6r hyna6s pryd oed h6n6 a dilin g6aithredoed y dat a oruc a hed6ch a g6irioned a garai ev. A phan gaisiau neb ryfely arno gle6der y gad a gymerai ac ymlad yn groylon ai elynion ai cymell y 6edy ida6 ac yna brenin Dassia a gaisiod adtal y dyrnged ev yr h6n yr oed yn y daly y dat ev ac ni fynnai y daly ida6 ev.<sup>222</sup> Sev a oruc ynte mynet a llynges ganto am ben brenin Dassia ac ymlad yn groylon ar bobl hynny a llas y brenin a gossot y 6lat yn gaeth ida6 ev y hun vel y byssai y dat or blaen.<sup>223</sup> Ac velly val ydoed yn dyfot y drev tr6y ynussoed Ore y cyfarvy ac ev dec llong ar hugain o 6yr a g6raged ac 6edy gwybot o hona6 y dyfodedigaeth hwynt ymafael a oruc y brenin yn y tywssoc yr h6n a elwit Barthlome ac erchi na6d ida6 a oruc h6nn6 a dywedyt y deol or Ysbaen ai vot yn trailo y moroed yn caissio lle y bress6yia6 yndo ac erchi a oruc ev y Wrgant ran or ynys hon y bresswylio rac diodev mord6y gwailgi a vai h6y cans bl6ydyd a hanner y byssai ar y wailgi er pan dathoed oi 6lat.<sup>224</sup> Ac velly pan wyby Wrgant y dyfodiad a pha genedlaeth ydoed ev a dai rones genat gydac hwynt hyt yn Iwerdon yr hon oed diffaiith yna a rodi hono ydynt o hynny hyt hedi6. Ac yna amlhau a orugant a chyfanhedy y lle h6n6 ac er hynny hyt hedi6 y mae ettifedion yr hain yn Iwerdon. Ac yna wedy tervyny byched G6rgant ai var6 ynghaerllion ar wyse ac yno y clad6yt ev yn y lle y gwnathoed ev la6er o gadernit wedy mar6 y dat ev.<sup>225</sup>

Ac wedy mar6 G6rgant y cymerth Cyhylyn y vab ynte goron y dyrnas ac ev ai llywiod hi yn hed6ch dangnofedys tra vy vy6 ai wraic ynte a elwit Marssia a dysg-

edyc oed hi ymhob celydyt a hono a gafas pob peth o anrwyfodau hi ai gwr priod o athrylithr y gyfraith yr hon a elwis y Bryttaniait cyfraith Marssia a hono a droes Alvrud vrenin or Gymraec yn Saes-nec ac ai gelwis hi Maicheneange o iaith y Saesne.<sup>226</sup> Ac wedy marw Cyhylyn y trigiwys llywodraeth y dyrnas yn lla6 y wraic ev ac yn llaw Saessyllt y mab hi cans nit oed oet ar y mab hi pan vy varw y dat saith mlwyd ac ni allai ev herwyd oet lywia6 y dyrnas ac am hyny y gad6yt y vam gidac ev o achos y doethineb hi ac wedy mar6 y vam y cymerth Sayssyllt goron y deyrnas. Ac wedy ynte Cynvarch y vab a vy vrenin. Ac wedy ynte Daned y vra6t a vy vrenin. Ac wedy Daned y dayth Moryd y vab ynte yn vrenin cans mab oed h6n6 ida6 ev o gariadwraic a h6n6 gwr clodva6r canmoledic vy nadymrodassai yn ormod mewn croylonder cans pan lidiai nit arbedai ev neb ac nas lade os galle a thec oed ev a hael am rodion ac nit oed yn y deyrnas un gwr dewrach noc ev me6n ymlad.<sup>227</sup> Ac yn y amser ev y dayth Morien a llu ma6r ganto hyt y gogled a dechrau anraithia6 y wlat. Ac yna y dayth Moryd yn y erbyn ai lu ynte. A mwy a ladaed Moryd o nadynt noc a ladaed yr holl lu. Ac wedy gorfot o hona6 a chael y vydygoliaeth ni dewis ev un dyn byw or llu ac y erchis ev dwyn pob un atto ar ol y gilyd y gael y llad ac wedy y llad y blingo a gorffwys ychydic a oruc ac erchi blingo yr hai eraill yn vwy ac wedy hyny y llogi. Ac yna ev a damhwainod dyfot ryw groylonder y difa y diraidi ev ai enwired. cans ev a dayth odiwrth vor Iwerdon ryw anifeil ni all6yt erioed gyflewni y groylonder a h6nn6 heb orphwys a lyngcai dynion a nifailiaid fford y cerdai. A fan giglau Voryd hyny ef aeth atto y hun y ymlad ac ef ac ni thygiwys ida6 cans pan darvy ida6 droyla6 y y cwbl oi arvau y neffa6d y bywystvil atto ai lyngcu yn vy6 megis y llyngcau bysgodyn mawr un bychan.<sup>228</sup> A thraiba a vy ida6 ac un o nadynt a elwit Gwrvinia6. A h6n6 a gymerth goron y dyrnas a gwr da oed h6n6 cans nit oed neb a garai gyfiawnder yn vwy noc ev. Ac velly trwy holl dinessyd ynys Prydain adnewyd y temlau a oruc ev ac adail eraill o newyd. Ac yn y oes ev amyl oed aur ac arian ac anoc a wnai ev yr cyffredin lafyrio y dayar ac ynte ai cadwai hwynt rac y neb wnydthur cam ydynt oi arglwyddi ev ai wnyddogion. ar gwaission ievaine a gyfoethogai ev o aur ac arian val na bai rait y neb

draissio y gilyd. Ac yna mar6 vy Wrvinia6 ac yn Llyndain y clad6yd. we yn y ol ynte y dayth Arthal yn vrenin y vra6t ynte ac nit oed debic y defodau ev y vra6t arall cans y bonedigion dlyeda6c a darostyngau ev ac anvonedigion a drychafai ar anryded ac anraithia6 y cyfoethogion ar cyfiawnion ai cymell y roi teyrnget ida6 ev. ac yna y codes gwyr da y deyrnas yn y erbyn ai wrthlad ev ymaeth oi vrenhiniaeth. A gwnaythyr Eleidir y vra6t yn vrenin ai alw a wnaethant Eleidir va6r o achos y drygared a oruc ev ai vra6d cans wedy myued pym mlyned haibio velly ydoed Eleidir yn hely yn forest llwyn y cladyr ac yna y cyfarvy Arthal y vra6t ac ef yn diarwybot ida6 yr h6n a daroed y deol or deyrnas wedy y vot mewn swrn o wledyd yn caissio porth y oresgyn y cyfoeth ac ni chawssai ev dim. Ac am na allai diodev angenoetid yn hwy ymhoelod ev yr ailwaith y ynys Brydain a dauddec marchog gidac ev y gaisio gwelet cydmaithion. A phan y gwelas Eleidir ev yno rydec a oruc atto a mynet dwylo ym6n6gl ac ef yn garedic gan y gyssanu ac wylo a oruc Eleidr o achos y vra6t oi vrenhiniaeth a maint vyssai y anghyfnertth. Ac yna y duc Eleidr y vrawt gydac ev y dinas Alelyt ai gy6cio yno mewn ystavell.<sup>231</sup> a chymryt a oruc Eleidir arno vot yn glav ac anvon cenadau a oruc y bob lle dros wyneb ynys Brydain y erchi y ba6r or tywssogion dyfot y ymwelet ac ev. Ac wedy dyfot pa6b hyt ynghaer Alelyd erchi a oruc yr porthor na ellyngai atto onit un ar unwaith a dyfot yn dista6 rac bot yn vlin ar les y ben ev glywet gormot son a chredy o ba6b hyny. Ac yna gorchmynai Eleidir y wsuaethwyr y daly ev a thorry y ben oni wrhai y Arthal ailwaeth megis y byassai gynt ac velly wedy cadarnhau o nadynt trwy amodau ai b6g6th y tangnofedawd ev ba6b yn hedychlon ai vra6t.<sup>232</sup> Ac yna y dayth Eleidir at y vra6t y gaer Efrawc ac a gymerth y goron iam y ben y hun ac ai roes am ben Arthal y vra6t ac o hyny allan y gel6it ev Eleidir va6r.<sup>233</sup> Ac wedy hyny y by Arthal yn vrenin deng mlyned gan wellhau y dryc defodau anathoed or blaen. Ac o hyny allan perchy bonedigion a oruc a gostwn anvoned a gado y ba6b y eido y hun a chynnal gwirioned ym hob lleacynghaerly clad6yt.<sup>234</sup> Ac yna ailwaith y dyrchafwyt Eleidir yn vrenin. Ac yna y dayth y dau vrodyr ieyav y ymlad ac ev Owain a firedyr a llu ma6r gantynt a chael y vydygoliaeth a wnaethan a daly Eleidir a mynet ac ev y Lundain yngharchar a

ranny y gyfoeth ryngtynt sev y dayth yn ran Owain o hymyr hyt y gorllewyn nit angen Lloegr a chymry a cherniw. a ran Bredyr oed o hymyr hyt y gogled ar gogled oll. Ac ymhen y saith mlyned y by var6 Owain ac y dayth y vrenhiniaeth oll yn llaf Bredyr ac y llywiodd ev y deyrnas yn dangnofedys megis na chofait am un oi vrodyr ac y by var6 Bredyr.<sup>235</sup> Ac yna y cyrch6yd Eleidir oi garehar ac y gwn-aethbwyt yn vrenin y drydyd waith. Ac wedy trolyo y amser yn hedychlon y by var6 ev.<sup>236</sup> Ac yn y ol ynte y gwnayth-b6yt Gorvinia6 y vab ynte yn vrenin a chyffelyby dat vy ev o unia6nder a chy6irder.<sup>237</sup>

Ac yn y ol ynte y dayth Morgan ap Arthal yn vrenin ac y cynhal6ys y dyrnas yn hed6ch dangnofedys.<sup>238</sup> Ac yn y ol ynte y dayth Einion y vra6t yn vrenin ac anhebie vy y defodau ev y vra6t yn lly6-ia6 pobyl ar chweched vl6ydyn y b6ri6yt ev oi vrenhiniaeth am y groylonder ac na vynnai wirioned a hyny ai digyfoethei ev.<sup>239</sup> Ac yn y ol ynte y dayth Eid6al ap Owain yn vrenin y gar ynte a rac ofn y damwain a dathoed y Einion unia6nder a gynhelis ymyse y Bobloed.<sup>240</sup>

Ac yn y ol ynte y dayth Runap Bredyr yn vrenin. Ac yn y ol ynte y dayth Geraint ap Eleidir yn vrenin. Ac yn y ol ynte y dayth Cadell ap Geraint yn vrenin. Yn ol Cadell y dayth Coel yn vrenin. Yn ol Coel y dayth Porex yn vrenin. Yn ol Porex y dayth Cheryn yn vrenin ac y h6n6 y by drimaib nit amgen fylgniws ac Eidal ac Andras ar haini bob un yn ol y gilyd a vyant vrenhinioed. Yn y ol hwynte y dayth Urien ap Andras yn vrenin. Yn y ol ynte y dayth Elvryd yn vrenin. Yn y ol ynte y dayth Clydoc ac yn ol Clydoc y dayth Clydno. Yn ol Clydno y dayth Gorwst. Yn y ol ynte y dayth Mairia6n. Yn y ol ynte y dayth Blaidyt yn vrenhin. Yn y ol ynte y dayth Caff. Yn y ol ynte y dayth Owain gwedy Owain y dayth Sayssyllt gwedy ynte Blegwryd.<sup>241</sup> gwedy ynte Arthmael y vra6t. Gwedy ynte Eidol. gwedy ynte Rydion gwedy ynte Rydderch gwedy ynte Sawlben-ychel. Gwedy ynte y dayth Pirr. gwedy ynte Capeir gwedy ynte Manogan y vab a gwr hyna6s oed h6n6 ac unia6nder a gwirioned a garai.<sup>242</sup> Gwedy ynte y dayth Beli Ma6r y vab ac ynte a wledych-a6d yn vrenin ynys Brydain daygain mlyned. ac y h6n6 y by bedwar maib Llyd a Llefelys a Chasswalla6n a Mynia6. a Llyd oed y mab hunav. Ac wedy mar6 y dat ev a gymerth lywodraeth yr ynys. A

chwairia6 myroed llyndain a oruc a dam-gylchyny y gaer o anairiv diroed a thrigio yno y ran vwyav or vl6ydyn a feri adailat tai ma6rwaithioc o vewn y gaer megis na bai y chyffelyby yn yr holl wnedyd an wledyd ac ev ai gelwis hi Caer Lud ac nydiwed y gel6it hi Caer Lyndain. Ac wedy dyfot estron genedl iddi hi y gelwit hi Caer L6nd6n. A llefelys a garai ev y v6yav oi vrodyr cans doeth a cymhen oed ev. Ac wedy clybot o Lefelys var6 brenin frainc yn diettifed namyn un verch ar cyfoeth yn llaf hono ymgynghori ai vra6t a oruc ev am vyned att dywssogion frainc y erchi y verch. ac yna yn diannot y vorwyn a rodet idav. a choron y dyrnas gyda hi ac ynte ai llywia6d hi tra vy vyw yn hyna6s garedic. Ac yna wedy talyrn o amser tair gormes a dygwyd6ys yn ynys Brydain ni welssid erioed y cyfry6 cans un o nadynt oed genedl a el6it y Coraniait a chymaint oed y gwybodau ac nat oed un ymadrod ac y cyfarffuai y gwynt ac ev nas gwypynt hwy ac 6rth hyny ni ellit drwe ydynt. Ar ail oed diasspat a roit bob nos glammai ywch benn pob aelwyt drwy holl ynys brydain a hono ai trwy galonnan dynion ac anifailiait yn gymaint ac y collai y gwyr y lliw ai nerth ar gwraged y baichogi ar maibion ar merchet a gollai y synwyr ar anifailiait a dawai ev yn diffry6yth ar coedyd. Y drydyd oed er maint vai yr ordainiaeth a vai yn holl llysoed ynys Brydain ni chait byth dim o hona6 ont y troylit y nos gyntaf. Ac velly amlwe oed yr ormes gyntav ar d6y eraill nit oed neb a wypai y hystyr ac yna pryder y gofalai yn va6r a oruc Llyd am vot y ryw ormess-oed hyny yn ynys Brydain. Ac yna cwair-ia6 llongau a oruc ev y vynet ymwelet a Llefelys y vra6t. Ac wedy gwybot o Lefelys hyny dyfot yn y erbyn ynte a oruc a mynet dwylo ym6n6gl ac ev. Ac wedy gwybot o Lefelys ystyr y neges ev yno peri a oruc ev wnaythyr corn hir megis y gellit ymdidan drwydo megis na chai y Coraniait dim o gwynt oi ymadroed h6ynt rac gwybot o nadynt y cyfrinach ac velly yn y corn ymdidanassant. Ac nachai un o nadynt glywet gan y gilyd namyn ymdian chwer6 din dros ben ac adnabot o Lefelys vynet cythrayl yn y corn a feri golchi y corn a gwin a oruc ev. Ac yna y rodes Llefelys y vra6t ryw bryfet ac erchi ido pan delai y drev y briwo h6ynt ai b6r6 me6u dwr oer. A dyfynnu pawb yn gyffredin atto y Bryttaniait ar Coraniait or holl dyrnas a b6r6 y dwr h6n6 ar ba6b o nadynt yn gyffredin. ac a lad yr holl Gor-

naiat y gyt ac nit argyweda ev dim ar y Bryttaniait. Yr ail ormes y syd yth dyrnas di yw draic yr ynys a draic arall o estron genedd y ssyd yn caissia6 a goresgyn hi ac y dyrru ych draic chwi rac lliat a dig-ofaint a diasbot hynny a gly6ch chi. A llyma heb ev val y gell6ch chwi wybot hynny. messur di yr ynys y hyt ai llet pan delych y drev ac yn y lle y ceffych di ganol yr ynys par di glad pwll yn y dayar a ffar di roi cer6ynait o ved or gorau a a geffych me6n cerwyn yn y pwll h6n6 a ro di lenn o bali ar wyneb y gerwyn. A byd dithau dy hun yn y gwiliat hwy yno a thi a gly6y y draigau yn ymlad yn arythr yn yr awyr. Ac wedy darffo ydynt vlino yn ymlad h6ynt a fyrthiant yn rith dau barchell ar warthav y llen ac a yfant y med ac a dynnant y llen gantant hyt yng6aelot y gerwyn ac yno y cysgant. Ac yno lapia di y llenn yn y cylch hwynt ac yn y lle cadarnav a geffych yth dyrnas clad di hwynt yn dyf6n yn y dayar a thra vont hwy yno ni da6 un gormes yr ynys Brydain o un lle arall. Y drydyd ormes yw gwr cadarn lledrithioc y ssyd yn d6yn dy v6yt ti a thiot trwy hyt a lledrith ac a bair y ba6b gysgu. Ac am hyny rait y6 i ti dy hun wiliad dy amser a chad6 dy armerth a rac gorvot arnat gysgu gat gerwyniait o dwr oer gair dy la6 a fan vo y cysgu yth orvot dos yr gerwiniat dwr. Ac yna ymhoeles Llyd y drev. Ac y dyfyn6ys holl wyr y dyrnas ger y vron a b6r6y dwr yn gyffredin arnynt. Ac yn diannot y by var6 y Coraniait ac heb argywedy dim ar y Britaniait ac yn y lle wedy hyny Llyd a bar6ys messyr yr ynys y hyt hi ai llet ac yn Rydychen y cafat y canol. Ac yno y herchis ev wnaythyr pwll val y dy6edassai Lefelys 6rtha6. Ac yn y lle ev a gafas pob peth yn wir val y dywedassai y vra6t ida6. Ac wedy cysgu or perchyll Llyd a lapi6ys y llenn yn y cylch hwynt ac yn ninas Emrys me6n cist vaen y cydi6ys ev h6ynt yn dyfn yn y dayar. Ac o hyny allan y paidi6ys y diasbat dymhestlys hono. Ac yna y peris y brenin arlwyaa6 gwled va6r ac 6edy y bot yn barot gossot a oruc gerwyniait o dwr oer gair y law ac wedy y gwili6ys ev y wled. Ac val yr oed ev velly am la6er or nos ev a gly6ai y cerdau tecav yn y byt yn y cymeryt ev y gysgu sev a oruc ynte ymnet yn dwr yn vynyach ac yna y gwelai ev wr ma6r yn dyfot yn harnaisys y me6n a cha6ell ma6r ganto a roi yr holl armerth o vwyd a llynn yn y cawell nny olwe ev ac yn cychwyn ac ev ymaith. Ac yna erchi a oruc Llyd ido

ev aros a dy6edyt wrtho er y ti wnaythyr collet y mi cyn hynn nis g6nau di bellach oni bydy di trech no mi. Ar gwr dy arhoes ac ymlad yn groylon a wnaythant yn y oed y tan yn goleyo oi cledfydau hwynt ac ny di6ed y gorvy Lyd yr ormes. Ac yna erchi na6d a oruc y gwr dy yr brenin gan dy6edyt y gwnai ia6n ida6 am yr holl golledau a wnathod ev ida6 hyt hyny ac y bydai ev wr cy6yr yr brenin o hyny allan. a hyny a gymerth y brenin ganto. Ac velly y gwrthneba6d Llyd y tair gormes. ac wedy y varw y clad6yt y gorf ev ynghaer Lyndain gair llaw y porth o el6ir yn gymraec porth llyd ac o saesneec lwyd-gad a dau vab a vy ida6 Afarwy a Thenefan. ac am nat oedynt me6n oedran y lywia6 y dyrnas y hyrd6yt Casswalla6n ap Peli ewyrth y brenin. Ac wedy yrda6 Casswalla6n yn vrenin ev amrodes y garu gwirioned a chyffia6nder. Ac er y vot ev yn vrenin ni vynnai ev didymy y niaint namyn roi rann va6r or cyfoeth ydyntsev y rodes y Afarwy Lyndain a iarllaeth gentac y rodes y Denefan iarllaeth Ger-niw ac ev y hun yn vrenin arg6bl. Aramser h6n6 y doeth Ilcassar amheraw6r Ryfain yn goresgyn ynyssoed ac wedy goresgyn frainc ac odyno ev a gafas gwelet ynys brydain a gofyn a oruc pa dir oed gyfair-wyneb ac ev a rai a dy6at wrtho mae ynys Brydain oed hono. Ac wedy gwybot o Ilcassar ystyr yr ynys ar bobl oed yn y chyfanhedy a dywedyt a oruc cyma yn cenedl ni gwyr Ryfain cans gwyr Ryfain ar Bryttaniait o genedl Droyav y doethom cans Eneas wedy ymlad troyav vyy n hendait ni ac ydynt hwynte cans Bryttys ap sylhys ap Ysgannys ap Eneas. a Bryttys a ores-gyn6ys yr ynys racco yn gyntav a thyb yr gennyv na byd anod i mi y darost6ng yr ynys racco dan Sened Ryfain cans yn y mor y maent hwy ac heb wybot ryfely na dwyn arvau nac ymlad. Ac hefyt iawn yw anvon cenadau attynt yn gyntav y erchi ydynt na fellhaynt iwrth wyr Ryfain a thaly tyrnget ydynt me6ys pa6b or cenedloed nny cylch. a hyny heb ymlad rac gorfot arnom ni est6ng y gwaet hwynt ac hwynte yn geraint y ni a chodi boned yn hendait ni Priav. Ac yna wedy y Ilcassar danvon y llythyr hyny ar gorchmynion y Gaswallon wnaythyr velly. Eithr ni by dail6ng gan Gaswallawn hyny ac anvon a oruc ynte lythr att Ilcassar ar ymadrod hynn yndo. Caswalla6n brenin y Bryttaniait yn anvon anerch at Ilcassar amheraw6r Ryfain y vanegi vot yn ryfed gennyv i chwant g6yr Ryfain a maint yw arnynt syched aur ac ariant ac na fynant hwy yn

bot ni yn diodev perigl yn y wailgi yn preswylia6 me6n ynys yn y mor o diaithr tervyn y byt heb gaissio cymell swllt arnom or lle y byom ni hyt hyn yn y gael y ryd a chwild ma6r y ti llesar yw yr hwn a orchmynnaist cans or un voned y disgyn- assom ni a ch6ithau o Eneas ysgwyd6yn. Ac am hyny na chais di yn dwyn ni y gaethiwed tragwda6l am hyny gwybyd di llesar ymladwn ni dros yn ryddit a thros yn gwlat ac or de6y di dros y mor megis yd6yt yn ada6 dyfot yn gynt noc y sengych ar dir ynys Brydain. Ac velly wedy gwelot o llesar lythr Caswalla6n ai attebion cwaria6 llynges a oruc ev a dyfot hyt yn aber Temys ac yn y erbyn y dayth Nynnia6 y vra6t ac Afarwy y nai twysa6c Llyndain a thrahayant iarll Cerniw a Chrada6c vrenin yr Alban a Gwerth- aet vrenin Gwent a Brithael vrenin Dyfet. Sef y doethant yn diannot hyt yzghastell Doral ac yn diannot cyrchu y traeth a orugant ac ymlad yn wychyr o bob parth. ac yna y cyfarwy Nynia6 ac llesar a drychav y gledyv a oruc llesar y gais- ia6 pen Nynnia6 ac erbynait a oruc ynte ar y darian nny lynna6d y cledyv yndi. ac ni alla6d ev dynnu odyno rac tewed y bydinoed nymgymysgu ac hwynt. Ac wedy cael y cledyv o Nynia6 ni safod neb dan y dyrnot ev ac yna y cyfarwy Alibiens iarll nynia6 ac yn diannot y llas ev h6n6. Ac velly llu llesar a las gan v6yav a gyrru fo arno ynte yn wrad6ydys hyt yn frainc. Ac ymgyferbyn ac ev a oruc gwyr frainc ac y ymlad ac ev y gaissio b6r6 y arglwydiaeth iarnynt yr lla6r cans tyb- iaith y daydaynt faely y gyreh ev ar y Bryt- taniaith ai gymell ar fo odyno am glybot vot llongau Casswalla6n ar y mor yn y ymlit ev. Sev a oruc ynte roi swmp anvaidra6l o da y dywsogion frainc a ryddit y ba6b ar a oed dan y gaethiwed ev. Ac velly y tangnofedod ev y bobl. Ac wedy y vyd- ygoliaeth hono y dayth Caswalla6n y Lyn- dain ai gydvarchogion gydae ev y anrydedy y duwau. Ar pymthegvet dyt wedy hyny y by var6 Nynnia6 or dyrnot pen hyny ac y clad6yt gair llaw porth y gogled ar cledyv gidac ev cans yr angau coch y gelwit. y cledyv cans pwy bynnac a han- waydid ac ev mar6 fy dai yn diannot.<sup>253</sup> Ar amser h6n6 y g6naeth llesar gastell odinae rac damhwainio yr ailwayth y wrthlad o wyr frainc. Ac velly ymhen y dwy vlyned y dayth llesar yr ailwaith y gaissio dial y syrhaedau. ar y Bryttaniaith. A phan gogle Gaswalla6n hyny peri a oruc ev blannu polon haym cyn braffed a

mord6yt gwr ar hyt canol Temys ar ford llongeu llesar. ac yn dirybyd y dayth y llongau ar ben y polon nny vri6od y llong- au a bodi milioed or gwyr. Ar sawl a dayth yr tir Caswalla6n ai herbny6ys hwynt a holl gadernit lloegr ac y cafas ev y vydygoliaeth ac y foes llesar hyt yn raeth Moran ac odyna y daeth ev y gastell odinae ac y dayth Caswalla6n hyt yn Llyn- dain ac yna y gwnaeth ev y wled va6r y dywsogion ev ai wsnaethwyr. Ac yna aberthu a oruc ev daydengmil ar hygain o amrafaelion anifailiait ar haini a droyl- assant nos dr6y amrafaelion ch6aryau. Ac yna ydaeth yn ystriv rwng dau was iev- ainc ardercha6c wrth chwara6d paled. ac enw y naill oed Hirlas nai yr brenin ar llall oed Gyhylyn nai Afarwy ac yny darvot hyny y llas Cyhylyn Hirlas nai y brenin. Ac o hyny ydaeth cynwrf ma6r yn y llys ac y lli66ys y brenin yn va6r gan vynnu cael nai Afarwy wrth varn y llys. A fettrys oed gan Afarwy hyny gan dy- 6edyt mae pob cam a wnelit o vewn y dyrnas mae yn Llyndain y dlit g6naythyr ia6n am dano. Ac ynte parot oed y hyny. Ac ni vynnai y brenin namyn cael Cyhyl- yn wrth y 6yllys ev. Ac ni fynnai Afar- wy hyny cany wydiat beth oedd e6yllys y brenin ac am hyny y gade6ys Afarwy y llys a mynet y gyfoeth y hun. Agwelet or brenin hyny a dyfot yn y ol ev a llu ma6r ganto a difa y gyfoeth ev yn ll6yr o dan a hayarn ac yna danvon o Afarwy att y brenin y gaissio tangneded ac heb y gael. Ac yna y medylid Afarwy pa fod y gallai ev 6rthnebu y brenin. ac y cafas yn y gynghor anvon at llesar y erchi ida6 dyfot y ynys Brydain ac y bydai ev ganhorth6y ida6 ac y cadarnhae ev o dyfot ac y dar- ostyngynt hwy ynys Brydain y llesar. Ac yn gadernit ar hyny y danvones Afar- wy Gynan y vab a daydec gwystyl arhygain o vonhedigion ynys Brydain yn wystlon ar hyny.<sup>257</sup> Ac yna cwaria6 llynges a oruc llesar a dyfot y borth Rwydon yr tir. Ac Afarwy ai herbyna6d yn anryded- ys. Ac yna yr oed y brenin yn ymlad a chaer Lyndain. ac wedy clybot o Gaswall- a6n dyfot llesar y ynys Brydain ym- g6airio a oruc y dyfot yn y erbyn a fan dayth yr glyn coeda6c yn agos y gaer gaint fev y gwelas bebyllau g6yr Ryfain.<sup>260</sup> ac yna brwydro a orugant ac yna y bu aerva va6r o bob parth. ac yn y diwed y gyrr6yd y Bryttaniaith y mynyd ychel.<sup>262</sup> a chad6 yno yn wra6l a orugant a llad lla6er o wyr Ryfain.<sup>263</sup> a fan welas y Ryfain6yr hyny damgylchynu y mynyd a orugant y gaissio



negnu y Bryttaniait. ac yna y danvones Caswalla6n at Afar6y y ervynnait ida6 wnaythyr tangnefed ryngto ev ac Ilcasar.<sup>265</sup> a ryfedy a oruc Afar6y a dy6edyt panit lle6 me6n hed6ch gaissio hedychu. Ac yna ef a dayth Afar6y at Ilcasar. ac a dy6at 6rtho fal hynn. Argl6yd heb ev mi ade6ais y ti darostyngedigaeth ynys Brydain a llyma y ti hyny trwy y ti adel Caswalla6n yn vrenin danat ti trwy rodi o hona6 ynte dyrnget y Sened Ryfain. A gwrth6yneb vy gan Ilcasar yr ateb h6n6. Ac wedy g6elet o Afar6y hyny. dy6edyt a oruc ef. Argl6yd er i mi ada6 y ti darostyngedig-aeth ynys Brydain nit ade6ais i y ti distrygio y nghenedl vy hun cany wnaethont dr6c y mi hyt na allont 6naythyr iawn am dano. ac ni chyttuav i difa vnyghenedl.<sup>266</sup> Ac yna rodes Ilcasar dangnefed y Gaswalla6n tr6y rodi tair mil o bynnoed bob bl6ydyr y Sened Ryfain o ynys Brydain. Ac wedy cadarnhau hyny y daethant y gyt hyt yn llyndain ac yno y trigasant y gayaf h6n6.<sup>269</sup> ar gwan6yn rac wyneb yr aeth Ilcasar ev a Ryfain ac yr aeth Afar6y gydac ev y daro wrth y Pontenis yr h6n oed yn cynnal yr amerodraeth yr amser h6n6.<sup>270</sup> ac y trigiod Caswalla6n yn ynys Brydain yn gwledychu saith mlyned ac wedy y var6 y clad6yt ynghaer Efrog. Ac yn ol Caswalla6n y dayth Tenefan ap llyd iarll cernic yn vrenin.<sup>273</sup> Ac yn y ol ynte y dayth Cynvelyn y vab yn vrenin yr h6n a vagasai Ilcasar a rac maint y carai Cynvelyn wyr Ryfain nichassiod ev d6yn y tyrnget arnynt.<sup>273</sup> Ac yn y amser ev y ganet Iesu Grist 4. Ac 6edy gwledychu o gynvelyn deydeng mlyned y ganet dau vab ida6 G6ydyr a G6airyd. Ac wedy mar6 cynvelyn y gwnaethb6yd G6ydr yn vrenin ac wedy ymgadarnhau o hona6 yn y gyfoeth y attala6d ev dyrnget gwyr Ryfain. Ac wedy g6ybot o wyr Ryfain hyny anvon Eloy6casar a wnaethant a llu ma6r ganta6 y ynys Brydain. A fan dayth yr Amhera6dr y tir cyrchu Caerberis a oruc ac ymlad ar gaer. ac wedy nathygi6ys ida6 hynny cau pyrth y drev a orugant a myr maen y warchau yr anifer oed y mewr yn y vaynt vair6 o newyn<sup>275</sup> Ac wedy clybot o Wydr hyny cwairia6 llu ma6r a oruc a dyfot wrth Gaerberis ac yn diannot cyrchu gwyr Ryfain a m6y a ladaï wydr y hun o honynt noca ladaï gan m6yav yr holl lu. Ac yna y dayth Hamon dwyll6r yr h6n a dysgasai yr iaith gan y gwystlon or Bryttaniait yn Ryfain. a b6r6 haibio y arvau y hun a chynryt arvau un

or Bryttaniait a las am danaw a chyrchue ymlith y bydinoed.<sup>276</sup> a fan gafas ev gyfla llad y brenin a oruc. Ac odyno llithro tr6y un a thr6y arall a oruc oni dayth at y vydin y hun. Ac yna b6r6 yr arvau hynny ymaith a chymryt y arvau y hun.<sup>277</sup> Ac wedy g6ybot o wairyd lad y vra6t diosc y arvau y hun a oruc a chymryt arvau y brenin ac anoc y wyr y ymlad yn wra6l a a oruc agyrry fo ar wyr Ryfain.<sup>278</sup> Ac yna y foes Hamon arrann v6yaf or llugydacev hyt y llea el6irporth Hamon neu borth Ham6nt y gel6ir ev hyt yr a6r hon ac yno y llas Hamon.<sup>279</sup> Ac dayth Gwairyd hyt y lle ydoed Glywcasar yn ymlad a chaerberis. A fan welas yr aniferoed yn y gaer y Bryttaniait yn dyfot yn borth ydynt. hwy ymdoethant y maes i ymlad a g6yr Ryfain. a llad lla6er o bob parth ac eissios rac amled gwyr Ryfain h6ynt a enillasant y gaer a a gyrru fo ar wairyd hyt ynghaer wynt. ac yno y dayth Gloyw-casar ai lu a mynnu gwarchau y Bryttaniait yny vaint vair6 o o newyn.<sup>280</sup> a fan wybu wairyd hyny cywairiav y lu a oruc a dyfot allan. a fan welas Gloyw Casar hyny anvon a wnaeth y gaissio tangnefed at y Brittanait. ac yn diannot y gwnaethb6yt tangnefed ryng tynt. ac y rodes Cloywcasar y verch yn wraica y wairyd y gadarnhay y dangnefed. ac wedy hyny o nerth y Bryttaniait y gor esgynnod gwyr Ryfain ynyssoed Orc ar cyt ynyssoed eraill nny cylch.<sup>282</sup> ac wedy llithro y gayav haibio y dayth y vor6yn o Ryfain a diayret oed y ffryd ai theg6ch ac y priodes Gwayryd hono. Ac y gwnaeth Gloywcasar dinas yr hon a elwis ev Caerloyw ar lan Hafren yn y tervyn rung Cymry a Lloegr.<sup>284</sup> Ar amser h6n6 y diodefod Crist yngharisalem.<sup>283</sup> ac y gosodes pedr Ebostol gadair yn anossia ac o dyno y dayth ev hyt yn Ryfain y drigio ac y gynnal y Esgoba6d ac y danvones ev Varc Athro ac Evengyl6r hyt yr Eiff y bregethu yr Efengil a scrifennasai y hun.<sup>286</sup> Ac velly pan vy amser gan Gloyw-casar ef aeth y Ryfain a gadel ynys lly6odraeth ynys Brydain y Wairyd. Ac wedy y vynet ev or ynys hon. y cymerth Gwairyd ynd6ryfic a balchder. ac attal tyrnget gwyr Ryfain a oruc. ac wedy clybot o gloywcasar hyny ev a danvones Vabassian a llu mawr ganto y gymryt tyrnget o ynys Brydain. ac wedy parattoi y llynges yn barot hwynt a doethant yr tir y borth rydipl. Ac yn y herbyn y dayth Gwairyd ai lu. ai llydias y dir a oruc sef y gwnaethont hwynte troi y hwylau a disgin ymhorth tofnais.<sup>288</sup> ac wedy y dyfot yr tir cyrchu caer beh6yl.

goet a orugant ac ymlad a hi.<sup>289</sup> Ac wedy gôybot or brenin hyny. ymgfairio a oruc ynte ai lu ac ar ben y saithved dyd y dayth ev yno a chyrchu gwyr Ryfain ac ymlad ac hōynt. a llad llawer o bob part y dyd hōn6. A thranoeth gan amlet oed wyr Ryfain anod oed y gorvot. Ac yna y dayth y vrenhines y dangnofedy ryngtynt ac y gyt y doethant hyt yn Llyndain. Ac yna anvon a wnaethant y cidvarchogion hyt yn Iwerdon a goresgyn hi. Ac wedy darvot y gayav ydaeth Vaspasian y Ryfain ac y tyng6ys ev Wairyd yn ynys Brydain hyt yni6ed y oes. Ac wedy y var6 ev y clad6yt ev ymanachlog Caerloyw yr hon a wnaethoed Glow-casar. Ac y nol G6airyd y dayth Mayric y vab ynte yn vrenin ac yn oes hōn6 y dayth Rodric vrenin y ffighdiait o seithia a llu mawr ganto yr Alban ai goresgyn a oruc. Ac wedy gwybot or brenin hyny ev a dayth yn y erbyn ac ymlad ac hōynt a oruc a gyrru fo arnynt ac yn y fo hyny y llas Rodric. ac yna y roes Meiric or Alban yr bobl hyny y breswylio yndi ac wedy cyfanedy y lle hōn6 nit oed cymariait yr ffighdiait. ac y daethant hwy at y Bryttaniait y erchi y merchet hōynt yn wraged ydynt. ac ni by daill6ng gan y bryttaniait y roi ydynt. Ac yna yr aeth y ffighdiait hyt yniwerdon a chymryt y Gwydelessau yn wraged ydynt ac or haini y heniw Ysgottiait. Ac wedy y Vairic lonydu yr ynys hon. ev a rodes dangnened ŷ wyr Ryfain tr6y y vod ai gariat. a gosot cyfraithiau ne6yd ym hob lle yn y gyfoeth ac yn hed6ch dangnofedys y gwledychoed tra vy vyw. Ac wedy mar6 Mayric y dayth Coel y vab ynte yn vrenin yr h6n a vagasdyd yn Ryfain. A rac maint y carai ev wyr Ryfain cyt gallai attal y tyrnget nis attalioed tra vy vy6.<sup>290</sup> Ac wedy Coel y dayth Lles y vab ynte yn vrenin ac un annwynt ai dat oed ef. Ac wedy ymgadarnhau o hona6 yn y gyfoeth. ev a danvones att Eleuteriws esgob Ryfain y ervynnait idaw danvon y ynys Brydain dysga6dyr o Gristnoga6l fyd megys y gallai ev gredy y Grist tr6y dysc a fregethau.<sup>291</sup> ac ynte a danvones ida6 dau dysga6dyr Dyfan a Fagan ar haini a bregethauw ida6 o dyfodiad Crist yn gna6d. Ar haini ai golches ev o lan fydlu6n Vedyd a holl bobl y dyrnas wedy ynte.<sup>292</sup> ac yna y roes Lles y temlau oed ossodedic yr gau Du6au. ev a beris y cyssegru yn en6 holl gyfoetha6c Duw ar saint a gossot ydynt amrafaelhion yrdolion y cyfanhedy ac y daly du6a6l wssanaeth y du6.<sup>293</sup> ar amfer hōn6 yr oed wyth Esgobdy a thrygain yn ynys Brydain

a tri arch esgobdy yn benadyr ar y llail. ar tri hyny yn y tri dinas pennav yn yr ynys. Llyndain a chaerefroc. a chaer-llion ar wysc. A fan ran6yt r6ng yr arch esgobdai. wrth Esgobdy Caer Efrog y perthyn6ys deifyr a brynaich ar gogled oll val y gwahanai hymyr. Ac wrth Arch Esgobdy Llyndain Lloegr a Cherniw val y caid6 hafren. Ac wrth Arch Esgobdy Caer llion Cymry o hafren y vynydd cans Caer llion oed benadyr ar y dwy eraill.<sup>294</sup> Ac wedy y roes y brenin ydynt rodion ma6r o dir a dayar. Ac yn nghaer loyw y tervyn6ys y vyched ac ny vanachloc hono y clad6yt yr unvet vlwyddyn ar bymtheg ar hygain a chant g6edy dyfot Crist yngna6t. Ar amser hōn6 y oed yn ynys Brydain wyth temyl ar hygain. A thair temyl hefyt oed odiair yr haini. Ac yr oed yr wyth demyl ar hygain hyny dan vediant y tair eraill ai hargl6yddiaethau oll y vot wrth orchymyn yr haini ac ymh6b un or temlau hyny y gossodwynt Esgob cyssegredic ac ymhob un or tair pennav y gossodet Arch Esgob yn y tri dinas pennav a ennwid or blaen. Ac velly am nat oed ettifed y Les y codes tervysc r6ng y Bryttaniait a gwyr Ryfain. Ac wedi manegi hyny y sened Ryfain hōynt a danvonassant severys sened6r o Ryfain a lleng o wyr ymlad ganto nit amgen ygain mil. ac ev a oresgyn6ys yr ran v6yav ar y Brittanait a rai o nadynt a foes dros daifyr a brynaich a silien yn dy6ssoc arnynt. a mynych ymgyrchu a vy ryngtynt. a gorthr6m vy gan yr amhera6dr hyny. Ac yna y peris ev 6naythyr cla6d r6ng daifr ar Alban o gyffredin dreth or mor y gilyd val y bai ha6s gwrthneby y Bryttaniait. a phan welas Silien na thyciai ida6 ymlad ve ar Bryttaniait a g6yr Ryfain. ef aeth hyt yn Seithia y gaissio nerth. Ac wedy cael o hona6 holl iengtity wlad hono y gyt ev y dayth y ynys Brydain ac yna cyrchu Caer Efra6c a oruc ac ymlas a hi. Ac wedy mynet y ch6edl dros y dyrnas. yna y ran v6yav or Bryttaniait amade6is ar amhera6dr ac a dayth at Silien. Ac yna yn diannot y dayth severys ai lu ganto y ymlad a silien. A silien ai brath6ys ynte yn angeua6l ac o hōn6 y by var6 severys ac y cladwynt ynghaer Efra6c A dau vab oed y severys Bassian ac Etta a mam Getta a hanoed o Ryfain. a mam Bassian o ynys Brydain. ac wedy mar6 y dat y cymerth gwyr Ryfain Getta yn dy6ssoc arnynt o achos hanvot y vam o Ryfain. Ac y cymerth y Bryttaniait Bassian yn vrenin arnynt hwynte am hanvot y vam o ynys Brydain. ac yna y

codes tervyse r6ngy brodyr a di6arnot y g6rd ac yn y c6rd hyny y llas Getta ac y casaf Bassian y vrenhinaeth yn y eido y hun.<sup>299</sup> Ar amser h6n6 ydoed gwas ievanc yn ynys Brydain. Caran oed y henw ac o genedl issel y hanoed a chloda6r oed ev o de6rder wedy y brofi me6n lla6er o vr6ydrau a chyrcu a orvc h6n6 ty a Ryfain ac erchi wnat a oruc y Sened6yr Ryfain y warchad6 ynys Brydain ai longau rac estron genedl a cada6 da ma6ra oruc ev am hyny.<sup>300</sup> Ac yna y dayth ev yr ail6aith i ynys Brydain a chynyll cadernit yr ynys a oruc a mynet yr mor y vynyeh amrafaelion borthayyd a gwnaythyr cyn6rv ma6r ar yr ynyssoed o gylch ido gan y hanraithia6 ei llad ai llosgi. a pha6b ac a garai drais a lledrat a da6ai atto ev yn y oed gymaint y anifer ev ac nat oed arno ofn neb.<sup>301</sup> Ac wedy gwelet o hona6 bob peth yn gynnydganto. Anvon a oruc at y Bryttaniait a gofyn ydynt a gai ev vot yn vrenin arnynt ac ynte a distry6ai wyr Ryfain ac ai helhai or ynys hon ac ai rydhai h6ynt odi6rth estron genedl.<sup>302</sup> Ac wedy ida6 gael y vydygoliaeth. ev a dayth a llu ma6r ganto yn erbyn Bassian a gwyr Ryfain ar y ffishidiaid ac yn y vr6ydr gyntaf y troes y ffishidiait yn erbyn gwyr Ryfain ac yn y vr6ydr hono y llas Caran. A gwnaythyr dirva6r dymestl o Electys ar y Bryttaniait. a thr6m vy gantant hyny a dethol Alysglapit6l6s yn dy6ssa6c arnynt sev oed h6n6 iarll Cerniw a mynet a wnaethant am ben Alectys hyt yn Llyndain lle ydoed ev yn cynnal gwylva yr tadolion du6au a fan adnaby Alectys ystyr y neges parattoi y lu a oruc a chyrcu y Bryttaniait ac yna y Ryfain6yr ai hemlit a oruc y Bryttaniait a llad milioed o nadynt ac yna y llas Alectys.<sup>305</sup> A chayet pyrth Llyndain a oruc gwyr Ryfain. Sef a oruc Beisgalys cydymaeth y Alectys oed h6n6 cymryt arno vot yn dy6ssoc gwyr Ryfain sev a oruc Alisglapit6l6s cylchynny y gaer ac anvon at holl dy6sogion ynys Brydain y vanegi y vot ev yn eisted wrth gaer Lyndain ac

gy6yr yr brenin. Ac yna ydaeth Cad6all-  
on tr6y hymyr am ben Ed6in vrenin. A  
dyfot a oruc ynte a llu or Saeson yn erbyn  
Cad6allon ac yn y lle y llas Ed6in a Gor-  
blot vrenin Orc ai holl luoed. Ac wedy

gorvot o Gadgallon dechrau a oruc dileu y Saeson ai distryg dr6y lad a llosgi a llad y Saessnesau a thynny y baichogi oi crothau y gaisio difa y Saeson o ynys Brydain. Ac yna y llas Offric vrenin ai dau nai a Byanda vrenin Ysgottlont a dathoed yn borth i Offric ai bobl oll a las. Ac yny le ynte y dayth Oswall yn vrenin a Chadgallon ai hamlidiod ev o le i le. ac y foes Oswall o ve6n myr maen a 6nathoed Seferys amhera6dr Ryfain r6ng Daifr a Brynaich. Ac y danvones Cadgallon Baynda ar ran v6yav or llu y emlit ef. ai gylchyny a oruc Paynda ny lle a el6ir maes nefa6l. Sev a oruc Oswall drychav del6 y groc a dy6edyt wrth y gydmaithion dygywyd6n ar yn gliniau on ll6yr e6llys a gwedi6n du6 holl gyfoetha6c yn rydhau ni y gan y ty6sosc croylon Paynda. cans du6 a 6yr mae caissio rydhau yn cenedl ydym ni. a thrannoeth y cyrechod Os6allt y elynion gan ymdiret y du6 a gorvot a oruc ai ordi6es yn Vyrnwy ac yna y lladod Paynda Os6allt vrenin. Ac 6edy llad Os6allt y dayth Os6yt Ael6ynn y vra6t ynte yn vrenin yn y le. A chynyll s6llt a oruc ai hanvon y Gadgallon achos ev oed oruchel vrenin ar g6bl or ynys a g6rhau a oruc Os6yt ida6ev. Ac yna y codes y dau nai vaibion y vra6t y ryfely yn erbyn Os6yt. Ac 6edy na thyciod ydynt cymodi ac ef a 6naethant. ac at Baynda brenin y mars ydaeth Os6yt y ervynait nerth ganto y ryfely ar Gadgallon. Ac y dy6at Paynda na leffasai ev dorri ar brenin tra vai vy6 oi 6rogaeth heb y genat. Ar sulgwyn rac 6yneb daly y lys a oruc Cadgallon yn Llyndain a ch6bl o dywssogion Cymry a Saesson a doethant yno 6rth goron Cadgallon namyn Os6yt Ael6ynn. Ac y gofyn Paynda paham na dathoed Os6yt yno. Am y vot yn glav heb y brenin. nagev 6s gwir heb y Paynda ev a danvones attai y gaisio gennyv gyttuno ac ev y dial y vra6t arnat ti. Ac am na chittunais ac ev anvon cendau a oruc y Sermania y 6ahod y Saeson atto y dial y vra6t arnat ti ac arnav innau ac yn ar6yd ar hyny ev a deholes y dau nai y maes or ynys ac ev a gaisiod vy nghittundeb i yn dervyn di ac am hyny y mae ev yn torri hed6ch ynys Brydain. A dyrro di argl6yd genat y mi y lad ev neu ydeol ymaes or ynys. Ac yna ydaeth Cadgallon nyny gynghor. Ac y dy6at Mredyd vrenin Dyfet wrth y brenin. nidlit ti baidio ar darpar cyntav nit amgen no dehol e6bl or Saeson or ynys hon. Ac am hyny dyro genat y Baynda vynet i ymlad ac Os6yt megis y llado pob un o

nadynt y gilyd. achos na dyly anfydla6n gad6 fyd 6rtho. ac velly y distry6ir h6ynt o g6bl.<sup>642</sup> Ac yna y rodes Cadgallon genat y Baynda ryfely ar Os6yt. Ac y hela6d Paynda ev tr6y lymyr a dechrau llad a llosgi y gyfoeth ev. Ac y cynigiod Os6yt rawnswm ma6r o da y Baynda er cael y hed6ch. Ac nis cymerai ynte namyn ryfely arno. Ac y rodes ar Du6 dervynny ryingtynt. Ac yn y vruydr gyntav y llas Paynda. Ac yna y rodes Cadgallon y vrenhiniaeth ev y Wlvryt ap Paynda. Ac yr aeth h6n6 y ryfely ar Edbart ty6soc y Mars. Ac ny di6et y cymodi a oruc Cadgallon.<sup>645</sup> Ac velly y by Gadgallon yn g6ledychu ynys Brydain ac yn benadyr Cymry a Lloegr 6yth mlyned a daygain yn y syrthiod ev me6n haint a chlevyt ar pymthegvet dyd o vis ragvyr y by var6 ev ac y hira6d y Cymry y gorf ev ac iraidiau gwrthava6r ac ai roesant ev mewn del6 o lattwn a 6naethb6yt trwy gy6reinwaith anifigedic ac a roesant y del6 hono ar varch o latt6n y6ch ben porth Llyndain i rythro ar y Saeson. Ac yn y porth h6n6 y g6naethb6yt egl6ys ai chysegry hi yn en6 Du6 a Marthin ac yno y cenit yfferenau rac enait Cadgallon y g6r a droganod Merdin yn varcha6c efyda6l.<sup>641</sup>

Ac ni ol ynte y dayth Cyd6aladr vendigait y vab yn vrenin. Oet Crist yna.<sup>647</sup> Ac yna y by Gyd6aladr yn dangnefedys yn cynal coron y dyrnas ai lly6odraeth un vl6ydin ar dec ac yna y clefyched Cyd6aladr o hir nychdot. Ac i tyfod tervysc r6ng y Cymry y hunain. cans mam Gyd6aladr oed ch6aer un dat a faynda ai mam hithau oed 6raic vonhedic o dlyedogion Erging ac Eyas cans pan gymodes Cadgallon a Faynda y cymer ef y 6raic hono yn briot yr hon oed vam Gyd6aladr.<sup>648</sup> Ac yn y tervys hyny y dayth mall a ne6yn ar y Bryttaniait yn dial gan du6 am y pechodau megis na chefit dros 6yneb ynys Brydain un tamait bara namyn cic hely ac ni allai yr hai by6 gladdy yr hai mair6 rac ne6yn ar hai a ellynt vyned i ynyssoedd eraill h6y aynt gan ddy6edyd g6ir ddu6 ti an roddaist ni yma yn v6yd blaiddau megis defaid ac yna y y peris Cad6aladr barattoi llynges idda6 y hun y vyned ty a Llyda6 gan ddy6edyd g6ai ni y pechadyriiad rac amled yn pechodau dr6y yr hai y codassam ni ddu6 cans ni a ga6ssam oed y baidia6 ac ym 6naythyr a du6 ac nis gwnaethom ac am hyny y mae Duw yn dehol ninnau on g6ir ddyled canu all6ys na gwyr Ryfain na neb yn g6asgaru ni val hynn namyn dn6 y hun.<sup>649</sup> Ac yna yddaeth Cyd6aladr dan 6ylo ty ac



att Alan vrenin Llyda6 a lla6en vyr brenin 6rtho.<sup>650</sup> ac ni adewid yn ynys Brydain r6ng ne6yn a ball ond yr hai athoedd yr yr diffaith y gaissio by6 ar gic hely ac un v6yddyn ar dec y parha6ys y vall hono yn ynys Brydain. Ac yna g6eddillion y Saesson a danvones hyd yn Sermania y vanegi vod ynys Brydain yn 6ac ac erchi yddynt y chymryt hi yn rad ydynt y hun.<sup>651</sup> Sev a oruc y bobl hyny cynyll anvad rifeidi o wyr a wraged a dyfot yr gogled yr tir a chyfaneddy y g6ladoed o Lychlyn hyd yngherni6 achos nat oed o Vryttaniait ai llyddiai ac o hyny allan y colles y Bryttaniait y llywodraeth ar ynys Brydain.<sup>652</sup> Ac ymhen ysbaidd g6edy hyny y herchis Cyd6aladr nerth y Alan vrenin Llyda6 y dyfod y oresgyn ynys Brydain ar y peganiaid Saesson oed 6edy y goresgyn. Ac yna y dayth angel att Gyddaladr ac a erchis ido nad elai y ynys Brydain canu mynnai Du6 vod y Bryttaniaid yno yny delai yr amsser a droganod Merdin Emrys gair bron G6rtheyrn ac y herchis yr angel y Gyddaladr vnyed y Ryfain y benydio y gorf ac ev a gyfrif6yd yno ymlith yr hai g6ynvydedic ac y dy6ad yr angel 6rtho mae dr6y y obr6yu ev ai 6aithredoed da y caif y Cymry ly6odraeth ynys Brydain yr ail6aith pan vai gyfla6n yr amser tynghevanna6l gan du6 ac ni byd hyny heb yr angel yny del dy esgryn di o Ryfain i ynys Brydain a hyny a geffir pan dangoser esgryn y saint oll a gydi6yd gynt yn Ryfain rac ofn y Sarssiniait a fan gafer hyny y caif y Cymry y mediant ai hargl6ydiaeth o g6bl ar ynys Brydain.<sup>653</sup> Ac yna y dayth Cyddaladr at Alan vrenin Llyda6 a manegi

ida6 pob peth. ac yna y cymerth Alan holl lyvrau Merddin Emrys a chanyau Sibli y edrych oeddynt y gairiau yr angel. a fan gafas yn cy6rd da vy ganto ac annoc y y Gyddaladr vnyed y Ryfain a oruc ev. Ac yna Cyddaladr a danvones Ivor y vab ac Ynyr y nai y gaissio cad6 ynys Brydain o ia6n a dlyed cyfia6n rac diflannu cenedl Gymry.<sup>654</sup> Ac yna y g6rthodes Cyddaladr bob ry6 beth byda6l o gariad du6 ac yr aeth yr Ryfain ac y cymerth y benyd. Ar dayddegved dyd o vis Ragvyr y by var6 ac yr aeth yn enait yr nefoed yr 6ythved v6yddyn a ffed6ar ygain a ch6echant 6edy geni Crist. Ac yna cynyll llu ma6r a oruc Ifor ap Cyddaladr ac Ynyr y nai a dyfod i ynys Brydain a ryfely ar y Saesson 6yth mlyned ar hugain ac ni thyciod ydynt cans y dymestl hono oed 6edy llad y Cymry tryain hyd na ellynt 6rthladd yr estron genedl oddi6rthynt. Ac o hyny allan ni el6id hwynt yn Vryttaniait namyn yn Gymry. Ac o hyny allan y g6naeth y Saesson yn gall cad6 cittundeb ryingtynt y hun ac adailiad dinessyd a chestyll ac velly y b6rassant argl6ydiaeth y Bryttaniait odi6rthynt ac 6ynt y hun yn medy ar holl Loegr dan Edelstan y gwr cyntav or Saesson a 6isgod goron y dynas. Ac o hyny allan y colles pria6d genedl yr ynys y hen6 ac ni allasant y gael o hyny allan ond yn 6astad diodev caethi6ed y Saesson arnynt aithr y ty6yssonion a vy ar Gymry bob ailwers.

Myfi Gwallter Archiagon Rydychen a droes y llyfr h6nn o Gymraec yn Lladin. Ac yn vy henaint y troes i ef yr ailwaith o ladin ynghymraec.

## BRUT G. AB ARTHUR.

ENEAS YSGWYDWYN g6edy ymlad Tro a dystrywedigaeth y gaer y gyt ac Ascanius y vab ev. yr h6n a anet ydaw o Creusa merch Pryav brenin Tro a deuthant ar longheu<sup>1</sup> † hyt yng6lat yr Eydal : ac ys sev llongeu a kavas yr a athoed kan Alexander Parys y Roec o eyryv dwy ar ugaint. Ag ys ev eyryv o dynion a doeth gyt agev 6ythmyl ar ugaint yr r6ng g6yr a g6raged a hen a ieuanc. A g6edy eu dyvot hyt yg gwlat yr Eydal. Latinus brenin yr Eydal ae harvolles wynt yn anrydedus.<sup>2</sup> Ac wedy hynny Twrn brenyn Kwytyl a kyghorvynnws urthau ac a ymladus ag ef. Ac wedy ymlad o nadunt a llat Twrn. Eneas a kavas brenhynyaeth yr Eydal a Lavynya merch Latynus. ag o en6 honno y gelwys ev y Kastell Lavynyum. ac Eneas a g6ledychus ar 6lat yr Eydal pedayr blyned. Ac g6edy mar6 Eneas. ev a kymmerth Ascanius y vap ev y Vrenhynyaeth yr hwn a anadoet yda6 yn Tro o Creusa merch Pryav. Ac a dugassey Eneas kanthau hyt yr Eydal. Ac g6edy hynny Ascanyus a ede6ys Lavynyum y dinas rywnathoed Eneas y tat oy lysvam. Ac a edeil6s ynteu y dinas g6yn ar Avon Tyberym yr hon a el6yr Ruvein yr auron. Ac a duc d6y6eu y tat kanthau hyt y dinas newyd ry6nathoed ynteu. Ac g6edy hynny y geu d6y6eu hynny eu huneyn a ymch6lassant trachevyn hyt yn Lavynyum. Ar eylweyth Ascanius a duc y geu dwyweu hyt y dinas gwynn. Ac wynteu yr eylweyth ac ymchwelassant hyt yn Lavynyum. Ascanyus agen a vagaud Sylvyus y vrat vraut ynteu y gyt a holl gwared ac Amgeled. Ar Sylvyus hunnu mab oet y Eneas o Lavynya merch Latynus brenyn yr Eydal. Ac gwedy gwledychu o Ascanyus teyr blynet ar dec ar ugeynt. ev a edewys Sylvyus y vrawt yn trevtadauc yn y ol gwedy ev. Ar Sylvyus hunnu a ymrodes y letrat serch godinep. ac a vechyoges nyth y Lavynya.<sup>3</sup> Ac gwedy Klybot o Ascanyus hynny ev a orchymynus oy dewynyon ev gwybot pwy a vechogassey y vorwyn honno a pha ryw etyved a vydey

o honey.<sup>4</sup> Ac gwedy gwybot dyheurwyd o nadunt. wynt a dywedassant y bot yn veychyauc hy o vap a ladey y vam ae tat. A gwedy darfei ydau cruydrau llawer o wladoet yn alldudet. or dywed ev a deuey ar vlaenwet gorwchaf Anrydet. Ac ny thwyllus eu dewyndabaeth wynt.<sup>5</sup> Kany pan doeth oet escor oy vam y bu varw hy ar y thevytle ac gwedy hynny y map a rodet arvaeth ac a elwyt Brutus.<sup>6</sup> Ac or diwet gwedy bot y gwas yn pymthec mlwyd ac y gyt ae tat yn hely ev a ladawt y tat o ergyt anodeu. Kany pan ydoedynt y gweyssyon yn trossy y Keyrw yn eu herbyn Brutus a ellyngus Saeth or odeu un or keirw ac o honno y gwant y tat a dan y vron.<sup>7</sup> Ac gwedy marw y tat gwyr y kyvoeth a dyhollassant Brutus kanyt oet teilwng kanthunt gwledychu arnadunt gwr ar rywneley kyvlavaneu mor dybryt ar rey rywnaethoet ynteu.<sup>8</sup> Ac gwed alldudokau Brutus oe wlat ef a kerdws racadau hyt yg gwlat Roec. Ac yno y kavas gwelygort Helen vap Pryaf yn arweyn keythywet adan Arglwydyaeth Pandrassus brenyn Groec. Ar kenetyl honno Pyrr vab Achel gwedy dystryw Tro ae dugassey kanthau ygkeythywed wrth dial agheu y tat arnadunt.<sup>9</sup> Ac gwedy atnabot o Vrutus y kytkenetyl ev a trygwys y gyt ag wynt. A chynydu a oruc ar voliant a chlot a deured a mylwriaeth. hyt pan oed kymeredy a charedyc y gan y brenhyned ar towyssogion ym blaen holl iewentyt yt hanoet o honey. Kany doeth oet ym plyth o doethyon. Dewr a glew ym plyth yr ymladwyr. A pha beth bynnac nac eur nag ariant ae da arall a gasey neu a damwenyey ydau. hynny yn hollaul a wascarey ac ar rodey oy kytemdeythyon yn hael.<sup>10</sup> Ac gwedy mynet y klot wrth hynny tros y gwladoet. dechreu a gwnaethant gwyr Tro ymkynnullau attau ac erchy ydau ynteu bot yn tywyssawc arnadunt. ac eu rydha o keythywet gwyr Groec.<sup>11</sup> Ac wynt a kedernheynt y gallon ef hoey yn yscavyn hynny. kany kyn amlet oed eu heyrif ac yd oedynt seyth myl o wyr ymlad. heb eu

gwraged ac eu meybyon. Ac y gyt a hynny hevyt yd oed gwas yeuanc bonedyc o Roec yr hwn a elwyt Assaracus a hunnu a oed yn kannwrthwyau eu pleyt hwynt hevyt. kanys mam y gwas hwnnw a hanoed o kenetyl Tro. Ac wrth hynny ymdyryat yn vavr a wnaey yndynt hyt pan bey trwy eu nerth ynteu y galley ynteu gwrthwynebu y Wyr Groec. Kanys brawt ydau a oed yn gwaravun ydau try chastell a rodasse y tat ydau pan vvassey varw.<sup>12</sup> Ae vrwy ynteu oed yn keissiau dwyn yr rey hynny y kanthau kanys o karat wreyc yd hanoed ef. Ac gwelet o Brutus amylder o nyver a chestyll Assaracus yn agoret ydau haus vu kanthau ef darestwng y eu harch wynteu.<sup>13</sup>

Ac gwedy y ardyrchavael ef yn tywysawc galw a oruc attau y Trovanwyssyon pobloed o pob lle a chadarnhau cestyll Assaracus a wnaeth o wyr ac arveu a bwyt. Ac ynteu ac Assaracus y gyt ac eu holl nyver y am hynny o wyr a gwraged a kyrchassant y koedyd ar dyffeythwech ac o dyna yd anvones ef llythyr at Pandrasus brenyn Groec ar amadrawd hwn yndunt.<sup>14</sup>

BRUTUS tebyssauc goedyllon<sup>15</sup> kenedyl Tro yn anvon annerch y Pandrasus brenyn Groec. Kanys antheilong ac anbedus oed yglur ettyved Dardan eu traethu yth kyv-oeth di yn amgen<sup>16</sup> noc y dyley eglurder eu boned bynt.<sup>17</sup> Orth hynny yr aeth bynteu yr koedydd ac yr dyffaeithoch. Kanys dewissach kanthun o bwystvyla6l deva6t ymborth ar cyc ac ar lyssyeuoed kan kynhal eu rydyt<sup>18</sup> pellach. noget ymarveru o bob melynster a digriv6ch a fo hwy adan keythy6et.<sup>19</sup> ac os peth h6n6 a goda dy deylcta6t dy ny dyleyr y etmygu idunt uy hynny.<sup>20</sup> Kanys anian pob kaeth y6 ucheneidia6 ar y rydyt ac ymch6elyt ar y hen deylcta6t.<sup>21</sup> Ac 6rth hynny gwna trugar-ed ac 6ynt a chanhyattaa eu rydyt udunt ar dyffeyth6ch ar achubassant gad udunt y presswilya6 neu ynteu kannhyatta 6ynt y wladoed ereyll y gyt ath garyat y keyssya6 dayar a kyvanhedont ac a presswilyont.<sup>22</sup>

GWEDY gwelet ac atnabot o Pandrasus grym a syn6yr y llythyr h6nn6 ryvedu a oruc yn wuy no meynt llavassu or nep ar ry sey yn keythy6et ef yn kyhyt ac y buessynt wy llavassu anvon yr ry6 orchymyn h6nn6 atta6 ynteu.<sup>23</sup> Ac yn dvannot o kyghor y wyrda kynnulla6 llu a oruc a mynet yn eu hol. Ac gwedy mynet yr dyffeyth y tebygassey ef eu mynet yda6 ac yn kerdet hep y kastell a elwyt Esp ar Tanum. Brutus a theyr nyl o wyr ymlad y gyt ac ef yn dyssyvyt ac eu kyrch6s.

Kanys pan kygleu ef eu bot yn dyvot hyt nos y dothoed ynteu a hynny o nyver y gyt ac ef yr Castell h6nn6. Ac eu kyrchu a oruc gwyr Tro ac emrodi y wneuthur aerva or Groegwyssion.<sup>24</sup> Ac yn y lle kylya6 a gwnaethant gwyr Groec a gwas-karu a ffo pawb megys y kaffey kyntaf ac eu brenyn yn eu blaen. A chyrchu a orugant yr avon a elwyt Akalon ag yn bryssya6 tros honno lla6er o nadunt a vodassont. kanys Brutus ae nyver oed yn eu kymell. ac wrth hynny ran o nadunt a ledyt ar y tyr sych. ar ran arall kymellyt y eu body. Ac y velly deudyblyc agheu a ymdangossey udunt.<sup>25</sup> Ac g6edy g6elet o Antigonus bra6t Pandrasus yr aerva honno. Mwy no dyrva6r dolur a kymyrth ynda6 or acha6s honno. a gal6 y ketymdeythyon atta6 ac ymvydyna6 ac ymchwelyt a chyrchu y Trovan6ssyon o wnaeth. Kanys gwell oed kantha6 y lad yn gwrthwynebu ac yn ymlad. nocyt y vody yn llycha6l tonneu yn warad6ydu.<sup>26</sup> Ac wrth hynny otew vydyn. o kytymdeithyon yn 6ra6l kan aunoc yr rey hynny oe holl nerth treygl6 agheua6l dyrnodyeu ac ergydyeu a oruc. ac yn dygrynnoes hynny hagen namyu ac ychydyg ae dym. kanys y Trovanwyssyon a oedynt gwyskedyc o arveu. Ar rey ereyll yn noe hyon. Ac wrth hynny gle6ach y gwneynt y truanhaf aerva o nadunt hep orffo6ys.<sup>27</sup>

GWEDY caffael o Brutus y budugolyaeth kadarhau y kestyl a oruc o hwechant marcha6c. Ac g6edy yd aet yntheu yr dyffeyth6ch yn lle yd oedynt y anhedeu yn eu haros.<sup>28</sup> Ar nos honno Pandrasus trwy dyrva6r drystyt ac goveyleint o acha6s y ffoedygaeth e hunan a dalyledyg-aeth y vra6t. kynnulla6 y waskaredyg l6 a wnaeth y gyt. a phan doeth y dyd drannoeth mynet a oruc ygkylch y kastell. Ac eyste wrtha6. kanys ynda6 y tebygey ef bot Brutus ae vra6t ynteu ygharchar gantha6.<sup>29</sup> ac g6edy dyvot o hona6 yn kyvagos yr muroed. rannu y lu a oruc yn vydynoed ac yn torvoed yn y kylch a gorchymyn y pa6b o nadunt a oruc ludyas ffyrd yr g6archaedygyon y dyvot allan. ac ereyll y ludyas d6fyr ydunt. ac ereyll y ymlad ac 6ynt trwy amravael peyryanneu y geysya6 destry6 y kastell.<sup>30</sup> a pha6b o nadunt yn her6yd y gellynt a wnaethant yr hyn a archassey y brenyn udunt yn creulonhaf ag y gellynt. Ar rey gle6haf ar de6rhaf pan delhey y nos a kymerynt arnadunt p6ys yr ymlad a gadu yr rey a ymladey y dyd y nos y orffo6ys ac y ell6ng y lludet y ar nadunt.<sup>31</sup>

AR g6yr o fe6n y muroed ar kastell hagen nyt oedynt segur 6ynteu namyn tr6y pob amravalynon kelyvdodeu a pheyrnanheu yg g6rth6ynep y eu peyrnanheu 6ynteu yn gwrth6ynebu udunt. Ac yn 6ra6l ymlad ac 6ynt. g6ers yn tavlu a magneleu. g6ers arall yn h6r6 tan g6yllt. g6ers arall yn saethu ac unvryt yn g6rth6ynebu udunt. Ac g6edy bot yn parvanta peyrnant y cladu y mur a d6fyr br6t ac a than g6yllt 6ynt ac llosgasant ac a kymhellasant y gwyr y kylya6 tracheuyn.<sup>32</sup> Ac or dy6ed eyssyoos o peunyda6l lafur ac eissyen bwyt yn eu kody h6ynt a anvonassant eu kennat hyt at Brutus y erchy nerth a chanurthwy y kantha6 kanys ovyn oed arnadunt eu gwanhau a gorvot arnadunt rody eu kastell.<sup>33</sup> Ac wrth hynny goval a kymyrth Brutus ynda6 kan ny wydyt pa wed y galley ynteu rydhau y sa6l varchogyon honno kan nyt oed kantha6 o nyver megys y galley rody kat ar vaes yr Groeg6ssyon. Ac eyssyoos arveru a oruc o gyghor kall doeth. ag ys ef oed h6nn6dwyn kyrech nosam eu pen. a chan nyt oed fford y galley ynteu ey len6y hynny heb kanh6rth6y un o wyr Groec ef a kymyrth atta6 Anacletus kytymeith Antigonus. A noethy y kledyf a oruc a dywedyt 6rtha6 yn y wed hon.<sup>34</sup> Ony wney di yr hyn a orchymnaff y ty ar kledyf h6nn y lladaf y dy ben di a phen Antigonus dy kytymdeyth. Ac y sef y6 hynny. hono y darpereys y d6yn kyrech yn dyrybud am pen g6yr Groec. Ac any ellyr hynny heb geysya6 twylla6 y gwylwyr ar gwersyllen yn kyntaf. a chany yn y rhey hynny yd oed ymch6elyt yr arveu yn kyntaf. 6rth hynny y mynnaff ynneu tr6y dy gallder dy ath synh6yr eu t6ylla6 6ynt hyt na bo dyogelach y my gwedy hynny kyrchu am pen y Groecweysyon ereyll.<sup>35</sup> Ac 6rth hynny yn gall kymer dytheu arnat pwys y neges hon ac am pryt kyntun or nos hon dos ragot hyt ar y gwylwyr ac yn gall trwy ystry6 dy amadrodyon ty twyll h6ynt a dywot rydyot o honot ty ac Antigonus om karchar y ar rydwyn o honot y velly hyt me6n glyn dyrys ai ry ada6 yno hep allu rac pwys yr heyrn y dwyn a uey pellach namyn y ada6 yno yn llechu ymplyth dreyn a myeri a deryss6ch.<sup>36</sup> Ac g6edy hynny dwg dythau 6ynteu hyt y glyn h6nn megys y rydhau Antigonus. Megys y kaffwyf ynneu 6ynt 6rth vy ewylls.<sup>37</sup>

Ac g6edy g6elet Anacletus y kledyf noeth a geiryeu y tewissauc yn gokyvada6 y anghew. yn y lle uvudhau a oruc rac ovyn a thebygu a oruc e gwnaey pob peth nor archey kan kaffael hona6 ynteu y eneyt

ef ac Antigonus. Ac gwedy darvot hynny kan y kadarnhau yn yr anser. yd erchys Brutus yda6 y kerdus ynteu parth ar e lw. Ac yn y lle ynachaf y gwylwyr or gwersyllen yn y achub ac yn y daly ac yn govyn yda6 pa kerdet oed arna6. Ac yn govyn yda6 ae yr bredychu ed oed yn dyvot. Ac yn y lle megys kan dyrva6r lewenyd y dywa6t. yn kyvlym hep ev do6ch y kyt a my y kyrchw Antigonus ar redygum y o karchar Brutus. Ac a adeweys me6n dyrryse yn llechu hep allu y dwyn a vey pellach rac pwys yr heyrn hyt yn y kaff6n kymmorth. Ac vel yd oedynt ynn amheu a dyuedey ynachaf un yn dyvot ac yn y atnabot. ac yn y lle kerdet gyt ac ef hep pedrus a wnaethant. ac gal6 pa6b or gwylwyr ar gwersyllen ereyll y gyt ac 6ynt hyt y koet y dywedassef ef ada6 Antigonus yn llechw.<sup>38</sup> ac gwedy eu dyvot hyt yno kyvodi a oruc Brutus ae kytymdeythyon y gyt ac ef yn arva6ac eu daly yn kwbyl h6ynt ac eu llad hep annot. Ac ody na kyrchu raedu ac am benn brenyn Groec ae lu. Ac g6edy eu dyvot hyt y gyt ac wynt rannu y kytymdeythyon a oruc yn teyr bydyn ac gorchymyn udunt mynet pa6b yn tawel yn kymhen am pen y pebylleu ar llwesteu. ac na dy6ettey nep un geyr hyt pan klywyt llef korn Brutus yn kyntaf yn ar6yd udunt.<sup>39</sup> Ac yna g6edy dyscu o hona6 ef y pa6b o nadunt pawed y gwnelynt kychoyn a oruc ynteu ac vydyn gyt ac ef hyt pan doeth am pen pebyll e brenyn. a pha6b or bydynoed ereyll a kyrchassant yn eu kyveir megys yd erchessyt udunt. ac arhos er arwyd a wnaethant.<sup>40</sup> a hynny nyt annodes Brutus yr rody udunt. gwedy y dyvot ym pebyll y brenyn. G6edy klybot o pa6b o nadunt y rac dywededic ar6yd dyspeylya6 eu kledyveu a orugant paub o nadunt. Ac ygyt ar kledyveu noethyon deffroy a orugant yr rhey kyscadur a rody agheua6l dyrnodyeu. a hep nep trugared g6ahanu yr eneydau ar corfforoed.<sup>41</sup> Ac yn ywed o honno y e kerdynt tr6y y pebylleu ar llwesteu. Ac chwynvan yr rey meyr6 en deffroy yr by6. Ac y velly gwelynt eu gelynyon megys bleidydeu ymplyth deveyt. Ac gwedy klybot or kastellwyr yr aerva honno allan y doethant wynteu a deudyplyc aerva a wnaethant. Gwedy kaffael eyssyoos o Brutus pebyll y brenyn megys y dywedassam ny wchot 6rth y kyghor daly y brenin a oruc. kanys medylya6 a wnaeth bot yn wuy lles a kaffey oe daly noc oe lad.<sup>42</sup> E toryf eyssyoos ar vedyn a oed y gyt ac ef ny orphwyssey o wneuthur antrucara6 aerva or Groegwysyon.

Ac gwedy trelya6 o nadunt y nos yn y wed honno y dyd a doeth.<sup>43</sup> A g6edy gwelet o Brutus yr aerva honuo dyrva6r le6enyd a kymyrth. a rannu y pa6b oe wyr espeyleu yr rey lladedygion. Ac evelly eu kyvoethogy. Ac odyna mynet a oruc ir kastell ar karcharoryon kantha6 hyt tra yd oedynt y wyr ef yn rannu y da ar golut y rygthunt. Ac g6edy darvot hynny kadarnhau eylweyth y kastell a oruc or bwynt ac o wyr ac arveu. Ac ynteu ae nyver kantha6 a kerdassant parth ar dyffeyth6ch y gyt a llawen budug-olyaeth.<sup>44</sup> Ac yna galw atta6 a wnaeth y hynafgwyr ae doethyon a govyn udunt pa beth a gymmerynt y gan Pandrassus. kanynt hyt tra vey ef yn eu karchar wynt ac yn eu medyant ef a wnaey pop peth or a erchynt yda6.<sup>45</sup> Ac yna rey a gyghorynt kymrty y kantha6 ran o Roec a presswyllya6 yndy. ereyll a vynnnt kymrty y kantha6 eur ac aryant ac gwenith a llongheu a chanhyat y vynet yn rhyd y kantha6 y fford y gweley Dyw udunt kaffael gwlat y presswyllynt yndy.<sup>46</sup> Ac gwedy bot yn hyr yn pedrusa6 y velly y kyvodes un o nadunt. ac ys ef y gelwyt h6nn6 Membyr ac erchy gostec a oruc. Ac megys y kygleu pa6b o nadunt yr ymadra6d h6n a dywa6t. A wyrda hep ef bot a pedrus6ch chwy yn yr hyn y syd lessaf yny. Sef y6 hynny kymrty kanhyat y vynet y ymdeyth. kanynt kyt kymeroch trayan Groec y gan y brenyn y presswyllya6 yndy ymplyth gwyr Groec ny cheff6ch chwy hed6ch yn trgywyda6l yndy or dyd hedy6 allan. kanynt y meybyon syd heb eu geny ett6a a goffaant yr aerva hon ac a kyssyant dyal agheu eu tadeu ac eu hentadeu ar en meybyon nynheu. Ac ar eu wyrion o bob ffordd or ac allont. Ac 6rth hynny kymer6n nyunheu Ygnogen merch y brenyn yn wreyc y en tywysa6c ny. ac ygyt a hy eur ac aryant. a gwyn a gwenyth a llogheu. a phob peth or a vo reynt y en fford ny wrtha6. a chanhyat y vynet y ymdeyth.<sup>47</sup> Ac g6edy dywedwyd o hona6 ef yr amadra6d h6n a llawer hevyyt y gyt a hynny dvuna6 a wnaethant pa6b ac ef a dwyn Pandrasus yr lle a wnaethp6yd a mynegy yda6 ony rodey pob peth udunt or a erchynt yda6 wrth eu mynuu y mae or kyntaf agheu y tervynyt y hoedyl ynteu. Ac g6edy y ossot ef mewn gorwchel kadeyr y eyste yn eu perved a dywed6yt wrtha6 hynny. ef a wrthebus udunt kan dywed6yt udunt yr amadra6dh6nn.<sup>48</sup>

KANYS kythraul dwyweu am rodassant my ac Antygonus vem bra6t ac Anacletus yn ych dwyla6 ch6y. ac yn ych karchar.

reynt y6 6rth hynny y mynheu ufudhau y wneuthur yr hyn a vynnoch chwytheu. kanynt nyt oes dym a vo melysach y dyn noe vwched na dym a vo dygryvach a chet boet anvod genhyf. eyssoes dydan y6 kenhyf rody ve merch yr gwas iewanc e syd kemeynt y klot ae volyant a h6nn6 ac wrth henny mi a rodaf ve merch yda6. My a rodaf eur ac aryant. a gwyn a gwenyth a llongheu a phop peth a vo reynt y ech hynt ac ych fford megys y dywettoch. Ac o mynn6ch tryga6 a chyt presswyllya6 a my eg gwlat Groec my a rodaf trayan Groec yw ch6y 6rth presswyllya6 yndy en hyd6ch.<sup>49</sup> Ac yn y lle kynnulla6 llongheu o bop porth yn eg Groec a wnaethp6yd. ac eu llen6y o bob kyvry6 da or a oed reynt udunt 6rtha6. Ac gwedy bot yn para6t pob peth o hynny mynet yn y llongheu a wnaeth Brutus ae kytmedeythyon y gyt ac ef.<sup>50</sup>

Ac YNA g6edy kychofn ar y mor yd oed Ygnogen yn y k6orr ol yr llong yr r6ng dwyla6 Brutus yn wyla6 ac yn drycyrverthu o acha6s ada6 y gwlat. ac that ae mam. ae brodyr ae chenedyl ac hwynep heb ymchwelut y 6rth y gwlat hyt pan ymud6ys y gwlat y genty yg kysea6t y mor. Ac eyssoes ny pheyd6s hy ae drycyrverth hyt pan dygwyd6s dyrva6r hun yn y phenn.<sup>51</sup> Ac yvelly deudyd a nosweyth ar gwynt yn hyr6yd unya6n yn eu hol yn hwyli6 wynt a dacthaut hyt yn ynys a elwyr Legesty a honno diffeyth oed hep nep yn y chevanhedu.<sup>52</sup> Ac yno yd ellyghus Brutus try chan6r arva6c y edrych ansa6d yr ynys honno. Ac gwedy na welsant nep or dynyadon yny chyvanhedu kyvla6n hagen oed o amravael kenedloed anyveilyeyt ac y ladedigaeth y rey yd ynrodassant ac chandunt y eu llogheu y dugant kymmeynt ac a vynnassant o nadunt.<sup>53</sup> Ac yn yr ynys honno y doethant y hen dinas dyffeyth ac yno yd oed hen temhyl y Dyana yn yr hon yd oed delw y dwy6es ac ymrody gwrtheb a chyvarech y pa6b o pob peth or a vynnnt ydy. Ac or diwed wynt a doethant hyt eu llongheu ac a vanagassant y Brutus ac oy kytmedeythyon yr hyn a rywelsynt.<sup>54</sup> ac annoc a orugant yr tewysa6c mynet yr temhyl y ovyn yr delw honno pa wlat a pha dayar a kyrchynyt y ev presswyllya6.<sup>55</sup> Ac o kyffredyn kyghor y doethyon y kymyrth Brutus Gereyn dewin a deu degwyr or gwyr hynaf y gyt ac ef ac yd aethant yr temhyl a pob kyvreyt kanthunt or a oed reynt y aberthu ac ef.<sup>56</sup> Ac gwedy eu dyvot yno Brutus a dodes koron or gwynvydyg kylych y ar llevoed ef ac o heu kynnevaut teyr kynne a osodasant rac bron dr6s

ythemyl, un y Jupiter, ac un y Vercuryus, ac un y Dyana, ac aberth y bob un nadant ar neylldu.<sup>57</sup> Ac ynteu Brutusasevyracbron yr alla6r a llestyr yn y la6 yn lla6n o wyn agwaet ewyc wen. Ae wynep ef ar alla6r y dwy6es, ar amadra6d h6nn a dywa6t.<sup>58</sup> Kyv-oetha6c dwy6es y koedyd, ty syd aruthred yr beyd koet, y ty y mae kanhyat y ker-det trwy awyra6l ffyrd ac uffernolyon tey, a threygla6 dayarolyon dyltet. Dywet imi pa dayar a vynnych y phressuylia6 o honof, yn y lle yr anrydedwyf finneu ty o weryna6l choreu.<sup>59</sup> a gwedy dywedwyd o hona6 ef yr amadra6d h6nn nau weyth ef a dyneua6d y llestreyt h6nn6 y me6n y kynne, ac gwedy hynny gorwed a oruc ar croen yr ewyc wen honno rac bron yr all-aur ac yno y kysk6s. Ac yn y tryded a6r or nos pan vyd melyssaf eu hun gan yr rey marwa6l ef a weley y dwy6es yn sefyll rac y vron ac yn dywedwyt wrtha6 val hyn.<sup>60</sup> Breudwyt Brutus.

BRUTUS adan dygwydedygaeth yr heul tros mor Ffreync y mae ynys yn yr egypta6n a wu kyvanhed gynt gan y kewry, ac yn a6r dyffeyth yw, ac adas yth kenedyl ty, kyrch honno, kanys yno y byd tra-gwydda6l eystedva y ty ac yth lyn gwedy ty, honno a vyd eyl Tro yth veybyon ty. Ac yno oth lyn y genyr brenhyned yr rey y byd darestyghedyc yr holl dayar y hyt.<sup>61</sup>

Ac gwedy gwelet or tewysa6c y gweledygaeth honno dyhuna6 a oruc a phedrusa6 pa beth oed hynny ac falst vreudwyt ac ynteu y dwy6es yn kyndrycha6l yn manegy yda6 y dayar a kyrchey. Ac or dywed gwedy galw atta6 y kytemdeythyon datkanu udunt a oruc yr hyn rywelsey. A dyrva6r lewenyd a kymerassant yndunt ac a annogassant yda6 yn dyannot kyrchu eu llongheu, a hyt tra gwynt rwyd unya6n yn eu hol keyssya6 y wlat ryvanagadoed udunt wrth y phressuylia6.<sup>62</sup> Ac hep un gohyr at y kytemdeythyon yr llogheu y doethant a dechreu rwyga6 y gorwchel vor trwy yspeyt deg nyeu ar ugeynt. Ac ar hynny o yspeyt y deuthant hyt yr Affryc ac ny wydnt wy pa wlat yd oedynt yn y kyrchw. Ac odiyna y doethant hyt ar alloryeu y Phyllystewysyon a hyt yn llyn yr helyc. Ac o dy yna yr hwylyassant yr rwng Rwsseat a mynyd Azare.<sup>63</sup> Ac yno yka6sant ma6r perygyl gan kenedyl pyrate ac gwedy kaffael budugolyaeth buduga6l y nadunt ac eu kyvoethogy o yspeyl ac aureythycu yr rey hynny yd hwylyasant ar hyt avon Malue ac ydoethant hyt y wlat aelwyr Maurytanya.<sup>64</sup> ac yna o eisyeu bwynt yn y llogheu yd aethant ar tyr, ac y byd-

ynasant ac yd anreythasant y wlat honno or emyl pwy gilyd ydy. Ac gwedy llenwy eu llogheu o nadunt o bob da odyna yd aethant hyt yg kolovneu Erculff.<sup>65</sup> ac yno yd ymdangosasant y morvorynnyon udunt a chylchynu eu llongheu ac gwneuthur dyrva6r o temhestyl a govut udunt hyt pan wu agos udunt a body.<sup>66</sup> Ac gwedy dyanc o henny wynt a doethant hyt ym mor Tyrwys. Ac yna yn ystlys y mor h6nn6 gynt a kawsant pedeyr gwelygord o alltudyon kenedyl Tro yr rey ryffoasey y gyt ac Antenor pan wu destryw Tro, a Choryneus yn tewysau arnadunt. Gwr hunaws oed h6nn6 agoreu kyghor6r oed a dewraf a glewhaf or gwyr. Ac o bey ym-tara6 neu ymhwrdd yg rytha6 ef ac un or kewry yruoy y dewred ef a orvydey arna6 megys kyt bey map vydey.<sup>67</sup> Ac gwedy ymatnabot o nadunt a gwybot eu hanvot o un kenedyl wynt a ymkytemdeythysasant y gyt, ac ef ar pobyl a oed y gyt ac ef. Ac o enw eu tewysauc y gel6yt y kenedyl honno Corieueyt yr hynny hyt hedy6. Ac yna Brutus yn kanhurthwyr yda6 ym pobleac ym pobkyvranc.<sup>68</sup> Acodyyna gygt y doethant hyt yn Angyw a hyt ym porth Lygeyr, ac yno y bwryasant anghoreu allan ac y gorffwyasant yno wythnos ac edrychasant ansa6d y teyrnas honno.<sup>69</sup>

Ac yn yr amser hwnnw yd oed Goffar Ffycty yn vrenyn yn y wlat honno, ac gwedy klybot o hona6 ef rydyskynnu llyghes o estra6n kenedyl ar tervyn y teyrnas ef. Anvon kennadeu a oruc ynteu y syllu ac y wybot pa beth a vynnint, ae ryvel ae hed6ch.<sup>70</sup> Ar kennadeu hynny a kyrchasant parth at y llogheu, wynt a kyvarvuasant a Choryneus yn holy. Ar kennadeu hynny a ovynnasant yda6 pa kanhyat oed yda6 ef y hely fforest y Brenyn kanys gosodedyc oed o hyn kynneva6t hyt na lavasey nep hep kanhyat hely yn fforest y brenyn na thervysku ar yr anyveilyeyt a vey yndy.<sup>71</sup> Choryneus hagen a wrtheba6d ydunt hyt na cheysyey es kanhyat y gan neb y hely yn y lle bey da kantha6 hely ynda6. Ac un or kennadeu yr hwn a elwyt Ymbert a annela6d y wua ac a wr-i6s Coryneus a sayth, a gochel e sayth hagen a oruc Coryneus, a chyrechu Ymbert ac a w6a e hun esygau y penn a oruc yn dryllyeu. Ar rey ereyll or kennadeu a ffoasant.<sup>72</sup> ac a vanagasant y eu brenyn agheu kytymdeyth, a thyrstiau a oruc e brenyn a chynnulla6 llw ma6r wrth dyal agheu y kennat yndunt.<sup>73</sup> Ac ysef a wnaeth Brutus pan kygleu eu bot yn dyvot kadarnhau y llogheu a gosot gwraged ar

meybyon yndunt. Ac ynteu ar holl ymladwyr y gyt ac ef a aethant yn erbyn y llu. Ac gwedy ymkyvarvot ygkyt gyrat ymlad o bob parth.<sup>74</sup> Ac gwedy trewlya6 llawer or dyd yvelly kewlyd vu gan Coryneus hwyret yd oed ef yn kaffael y wudugolyaeth a gwelet y elynion yn kyn glewet ac yd oedynt yn gwrthwyneba udunt a hep rykaffael o wyr Tro y wudugolyaeth.<sup>75</sup> Sef a oruc Coryneus galw y lewder atta6. a chynryt y vydyn ehunan ar y parth de-hau ir wr6dyr a chyrchu y elynion. Ac ny orffwysey.<sup>76</sup> ef o kywarsanhu yr rey hynny hyt pan aeth trwy'r holl vydynoed ac eu kymmell ar fo yn holla6l. kans gwedy kolly y kledyf o hona6 y tyghetven a wasanaeth6s bwyall deu fynya6c yda6. a pha beth bynnac na gwr na march a kyvarffey ac ef ar un dyrna6t y gwahaney owarthaf y pen hyt y dayar. Anryved hagen oed gan pa6b or a welhey Coryneus meynt oed ynda6 o nerth ac angerd a chedernyt a dewred a chan eskytweyt a threygla6 y wuyall deuvynya6c honno yn y law ymplith y elynya6l vydynoed y dywedey ef fal hyn. Pa beth a ffowch chwi ofynogyon ergynnedyg. ymchwel6ch ymch6lwech ac ymled6ch a Choryneus. gwaec hwyr rac kewlyd y saul vylyoed honno o wyr en ffo rac un gwr. ac or e wed hon y gwatwar-ey wynt.<sup>78</sup>

Ac ar hyny sef a oruc yarll a elwyt Sywart y gyt a thrychant marcha6c ymchwel-yt a chyrchu Coryneus. Ac yssef a oruc Coryneus gochel y dyrna6t adan y daryan a choffau y wuyall ddeufynya6c a oruc a gossot ar warthaf y penfestyn ae holly yn dwyran a oruc yda6 hyt y dayar. Ac yn y lle yn ddyanhot kymmell yr rey ereyll arffo a oruc kan gwneuthur gwychraf aerva o nadunt. A pha6b or gelynyon yn ey erbyn ef ehun. Ac ynteu yn erbyn pa6b. Ac ar wuyall honno y trychey ef pen y un. ac y arall vreych y wrth y escwyd. y ereyll y gwahaney eu traet ac eu hesceyryeu y wrth eu corfforoed. A gwedy gwelet o Brutus hynny kyrchu a oruc ynteu ae vydyn y gyt ac ef oy kanwrthwyau. ac yna y bu'r lleveyr ar gordery. yna y bu newyda6 mynych dynodyeu o pob parth a dyrva6r eyryf o kalaned. Ac ny bu yna un gohyr y uudugolyaeth a kavas Brutus a gwyr Tro. a Goffar vrenyn ae ffychtyeit y gyt ac ef a ymchwelassant ar ffo ac odyna y kyrchus ef eythavoed Ffreyne y keys-sya6 nerth a chanhwrthwy y gan y kereynt ay kytymdeythion. Ac yn amser h6n6 yd oedynt y deudec gogyvurd yn medu Ffreyne. ar rey hynny a ada6ssant o kyt

duundeb g6rthlad y estra6n kenedyl o ter-vyneu Angyw a Pheyttw.<sup>79</sup>

Ac o acha6s y wudugolyaeth honno ar rydywedassam ny wchot llewenyd a kym-yrth Brutus ynda6. ac o yspeyl yr rey lladeddy kyvoethogy y wyr e hun a oruc. Ac gwedy hynny eylweyth eu llunyaethu wynt yn vydynoed. ac y velly kerdet tros y wlat a mynnu y dyleu hy hyt ar dym. a llenwy y longheu o bob kyvryw olut a da dayara6l. Ac gwedy hynny trwy dan a hayarn dystryw y dynassoed o pob parth. ac odyno kynn y kudyedygyon gollidoed a sswllt. ac ameythiau y tyred yn llwyr. a mynnu dyleu y dyrreyt kenedyl honno yn holla6l trwy creula6n aerva. Ac or dywed y velly ef a doeth hyt y lle y gelwyr yn awr dynas Twrn.<sup>80</sup> Ac gwedy gwelet o honau yna lle adas y dyogeluch a chedernyt ef a vessur6s yna lle kastell. ac ae goruc. hyt pan alley ynteu kaffael yno dyogel6ch o bey rey yda6 urthau. kans ofyn oed arna6 dyvot Goffar Ffychty a brenhyned a tewyssogyon Ffreyne kantha6 wrth ymlad ac ef ac y dyal arna e sarhaed ar rywnathoed ynteu yda6 ef. Ac or dywed gwedy darvot gwneuthur e kastell h6nn6 ef a arhoes yna trwy yspeyt deu dyd. dyvotygaeth Goffar Ffychty kan emdryret oy gallder ef ac oy dohythnep a glewder yr yewenctyt or oed enteu en rac vlaynu arnadunt.<sup>81</sup>

Goffar hagen Ffychty gwedy klybot o hona6 yn dyeu bot y Trouanwyssyon yn kyndrycha6l yn y lle honno ny orffwyssus ef na dyd na nos yn kerdet hyt pan dyvu hyt yno. Ac yn y weles kestyll Brutus ae luesteu ae pebylleu. Ac gwedy edrych yn agar6 o hona6 ar hynny glas chwerrthyn kellweyryedic a oruc a dywedwyt val hyn. Gwyskuch wyr amdana6ch.<sup>82</sup> gwysc6ch ych arveu a bydyn6ch. a hep un gohyr kymmer6n yr hanner gwyr hyn a dalyn wynt megys deveyt ar rann6n wynt yn keyth ym pob lle ar traws yn teyrnassoed.<sup>83</sup>

Ac yn y lle yn dyannot kymryt a wnaeth pa6b y arveu a gwyska6 yn kyvlym am dana6 a thrwy deudeg bydyn ymkyweyrya6 a chyrchu eu gelynyon. Ac yn erbyn hynny or parth arall bydyna6 a wnaeth Brutus y kytymdeythion ynteu nyt yn wreyyga6l hagen namyn yn wra6l ac yn doeth dysku udunt pa wed y deleynt kyrchu neu kylya6. neu ymlad ac yn dyanhot ymlad a orugant yn drut ac yn kalet. ar Trouanwyssyon a wnaethant aerva dyrva6r y meynt oc eu gelynyon hyt ar dwy vyl hayach o wyr gan eu kymmell ar ffo.<sup>84</sup> Ac yn y lle mwyhaf vey nyver

mynychaf yw yna damweinya6 e wudugolyaeth. A chanyys mwy teyrgweyth oed lw Ffreync nogyt un Brutus. kyt ry plykyt wynt ar y dechreu. or dywed ymkyweyrya6 a orugant a chyrcu gwyr Tro a llad llawer o nadunt. ac eu kymmell yr kastell tracheuyn a medylia6 wnaethant eu gwarchae yna wynt yn y vey reynt udunt trwy newyn ymrody yn ewyllys y Ffreync. Ac gwedy dyvot y nos eyssyoys y kaussant gwyr Tro yn y kyghor mynet Coryneus ae wyr kantha6 allan hyt y mewn llwyn koet ker eu llaw a llechu yno hyt y dyd. A phan delhey y dyd mynet Brutus ae lu kantha6 allan y ymlad ae elynyon a phan vey kadarnhaf y wrwydyr dyvot Coryneus ae vydyn kantha6 or parth yn ol oy elynyon ac eu llad. A megys y dywedassant y velly y gwnaethant oy kytvundep. A trannoeth pan dyvu y dyd bydyna6 a oruc Brutus a mynet allan y emlad. ar Ffreync a kyvodassant yn eu herbyn. ac yn y lle y syrthiassant ac y brathwyt lla6er o bop parth.<sup>65</sup> ac yna y llada6d gwas yeuanc o Tro ney y Vrutus y gyt ae un kledyf chwech chant o wyr nyt oed hagen eythyr Coryneus yn y llu gwas dewrach no hwnnw.<sup>66</sup> Ac eyssyoys ydamkylchyn6s llawer oy elynyon ef ac y llas yna ef ac ysef oed y gwas T6rn. ac oe enw ef y gelwyr y dynas yr hynny hyt hedyw T6ron.<sup>67</sup> Ac ar hynny y doeth Coryneus a theyr myl o wyr arva6c ygyt ac ef yn drybud or tu ol y Ffreync a gwneuthur aerva trom o nadunt.<sup>68</sup>

A PHAN welsant y Ffreync hynny kymra6 a chythrud a aeth yndynt o tebygu bot yn w6y noc yd oed y llu ac ymchwelut ar eu ffo. ac eu hymlyt a wnaethant gwyr Tro ac eu llad ac eu gwascaru hyt pan ka6ssant y wudugolyaeth. a chyt bey mawr defnyd lle6enyd y Vrutus or rykaffael o hona6 e wudugolyaeth honno. Tryst eyssyoys oed am ry llad T6rn y ney.<sup>69</sup> a bot y nyver yn lleyhau ae elynyon en amlhau.<sup>90</sup> ac en pedrus kantha6 or dywed padyw e damweynney e wudugolyaeth.<sup>91</sup> Sef a kavas yn y kyghor hyt tra vey er rann wuyhaf oy lu kantha6.<sup>92</sup> mynet yn y longheu y gyt a chlot y wudugolyaeth honno. Ac o kyt kyghor y ketymdeythyon ed aethant en eu llongheu. Ac eu llenwy o pop kyvryw golut a da dayara6l. Ac y gyt hyrwyd gwynt e deuthant hyt er ynys oed adawedyc udunt trwy dwywa6l wrthep. ac y traeth Totens e daethant yr Tyr.<sup>93</sup>

Ac yn yr amser hunnu y gelwyr yr enys hon e wen ynys.<sup>94</sup> a dyffeyth oed eythyr echedyc o kewry en y chyvanhedu. tec

hagen oed y hansa6d o avonoed tec a physca6t yndunt. a choedyd a bwystylet gwyllt endynt yn amyl a bodla6n wuant yr lle wrth presswylya6 ynda6. Ac gwedy gwelet or kewry wynt yn damkylchynu yr enys. fo a orugant yr gogoveu ac yr mynyded. Ac yna trwy kanhyat Brutus yr rannwyt yr ynys. ac e dechreussant y chyvanhedu a dywyllyau y tyred. ac adeylat tey. ac yn ychydyc o amser gwneuthur dyrva6r kyvanned arney. ac y mynn6s Brutus galu yr ynys oe enu ef Brytaen. ar kenedyl Brytaneyt. ac o henny allan er yeyth er hon a elwyt kyn no henny yeyth Tro neu enteu kam Groec a elwyt gwedy henny Brytanec. ac or un ryw dyse hunnu e mynn6s Coryneus gal6 yrann enteu or enys Kernyw ae pobyl. eu Korneuyeyt kanyys pan rannwyt e kavas Coryneus dewys. ac e dewyssus ynteu yr ran honno. kanyys eno yd oedylnt y kewry yn amlhaf ac nad oed dygryvach dym kantha6 enthi noc ymlad ar rey henny ac ym plyth yr rey henny yd oed un anthyghetvonnol y veynt a deudec kyvyd oed y hyt.<sup>95</sup> a chymmeynt oed y angerd ac y tynney derwen er y meynt oe gwreyd megys gwyalen coll vechan. kany yskytweyt vnweyth. Ac val yd oed Brutus dywrnawd yn aberthu y Dyana yn y porthloed rydskynnassey yndy ynachaf y ka6r h6nn6 yn dyvot ar i ugeynvet or keuri ereyll y gyt ac ef ac yn gwneuthur creula6n aerva or Brytaneyt. Ac eyssyoys eu damkylchynu a wnaethant e Brytaneyt ac eu llad oll eythyr y kawr ma6r hunnu ar ry archassey Brutus y gad6 y welet katwent ac ymdrech yr rygtha6 ef a Coryneus. kanyt oed dym dygryvach kantha6 nor ryw katwent honno. ac y ymdrech yd aeth Coryneus ar ka6r a phob un o nadunt a kymyrth gavael ardur ar y gylod. ac ymtara6. a gwascu a oruc y kawr Coryneus atta6 a thorry teyr assen ynda6 un yn yr ystlys deheu a dwy yn yr assu.<sup>96</sup> a llydya6 a wnaeth Coryneus. a dyrchavael y kawr ar y ysc6yd a oruc. ac or veynt y gattey pwys yr agkyghel hunnu redec a wnaeth a chyrcu pen gorwchel carec a b6r6 yr anthyghedvenna6l anyveyl h6nn6<sup>97</sup> y ar y yskwyd trwy yskythred kerrye hyt pan wu yn vyl o dryllyeu ac yn y gochassant y tonneu y waet ef. Ac yr hynny hyt hedyw y gelwyr y lle h6nn6 llam Goemagoc neu ynteu megys y geilw. ereyll ef llam y kawr.<sup>98</sup>

Ac yna gwedy rannu o Vrutus y teyrnas rwnng y wyr ynteu a chwennyachu adeylat dynas. ac ynteu a edrychwys pa le y bey teylwng kantha6 adeylat dynas a vey



kyvurd ar hunn a vynney ynteu y wneuthur. Ac gwedy krwydraw o hona6 llawer o leod or dywed ef a deuth hyt ar avon Themys. ac yno y kavas le a wu adas kantha6 wrth adeylat. Ac yno yd adeylus ef dynas ac e gelwys ef y dynas h6nn6 Tro newyd. Ar enu h6nn6 a parhaus arney hyt yn oes Llwd vap Bely<sup>99</sup> bra6t Kaswalla6n vap Bely y gwr a ymladas ac Wlkessar amherawder Ruveyn. Ac gwedy kaffael o Lwd y vrenhynyaeth y kadarnha6s ynteu y dynas o keyryd a thyroed amvroed anrydedus. ac y gelwys o en6 e hun Kaer Lwd. ac or achos h6nn6 y bu tervysc y rygtha6 ynteu a Nynnya6 y vraut am keyssya6 o hona6 ef dyffody enw Tro.<sup>100</sup> A chanys traeth6a Gyldas en eglur or tervysc h6nn6 urth hynny y peydeys ynheu rac hacrau om tla6t ethrylyth y amatra6d gwr mor kyffrmys hvawdyl a h6nn6.

Ac gwedy darvot y Vrutus adeylat o dynas ty dywedpwynt wuchot.<sup>101</sup> gossot kywda6twyr a oruc ynda6. ar rody kyvreythyeu a brenhyeu udunt trwy yr rey y gellynt buchwedokau gan hed6ch a thagneved ynda6. Ac yn yr amser h6nnu yd oed Hely offeyryat o Sylo ym blaen pobyl yr Ysrahel yg gwlat Indea. ac yd oed yr arch ystafen ygkeythywet e ffylstwyssyon.<sup>102</sup> ac yd oedynt yn gwledychu Tro meybyon Hector kadarn vap Pryaf gwedy ry dyhol plant Antenor o honey ymdeyth. Ac yn yr Eydal yd oed Sylvys Eneas yn trydyd brenhyn gwedy Eneas Yskwdwyn e ewythr brawt y tat y Brutus.

Ac gwedy ky6eyryav a llunyethu pob peth ar hyt yr ynys yn tagnevedus ac adeylat y kaer ar dynas.<sup>103</sup> kysku a oruc Brutus gyt ac ygnogen y wreyc.<sup>104</sup> a thry meyb a anet yda6 o honey. Sef oed enweu yr rey hynny.<sup>105</sup> Loerinus. Kamber. Albanactus. ac ym pen y pedwared wulwydyn ar rugeynt gwedy y dyvodedygaeth y enys Prydeyn y bu varw Brutus.<sup>106</sup> ac a cladwyt yn y kaer a adeylasseu ehun yn anrydedus. Ac yr rannasant y veybyon yr ynys yn teyr ran yr rygthant.<sup>107</sup> Ac y Loerinus kanyr yr hynaf oed y dygwyl6s yr ran berved or ynys yr hon a elwyr Lloegyrr o enw ef.<sup>108</sup> Ac y kymyrth Camber or tu arall y Hafren y rann a elwyr oc enw enteu Kymry.<sup>109</sup> ac y kymyrth Albanactus y gogled yr ran a elwys enteu oc enw ef Alban. A honno a elwyr yn yr amseroed hyn Yskotlont.<sup>110</sup> ac gwedy eu bot e velly yn tagnhevedus trwy hyr amser y deuth Humyr brenyn Huna6t a llyghes kantha6 hyt yr Alban. ac gwedy

ymlad ac Albanactus y lad a oruc a chym-mell y pobyl oed gyt ac ef ar ff6 hyt ar Loerinus.<sup>111</sup> a gwedy gwybot or kyvranc honno o Loerinus.<sup>112</sup> kymryt Kamber y vra6t a oruc y gyt ac ef a chynnulla6 eu llu a chyrchu.<sup>113</sup> yn erbyn Humyr vrenyn Huna6t hyt yg glan yr avon a elwyr Humyr. ac ymlad ac ef yno ae kymmell ar ff6. Ac yn y ff6 h6nn6 y bodys Humyr ar yr avon honno. ac edewys ynteu y enw ar yr avon yr hyn hyt hedy6.<sup>114</sup> Ac gwedy kaffael o Loerinus y wudugolyaeth honno rannu yr yspeyl oy kytemdeythyon a oruc hep ada6 dym ydau ehun eythyr teyr morwyn enryved eu pryt ac eu tegwch a kav-as yn e llogheu. Ar pennaf or teyr morwyn hynny oed verch y vrenyn Germania. ac a dugasseu Humyr kantha6 pan wuassey yn anreythya6 y wlat honno. Sef oed enw y vorwyn honno Essyllt.<sup>115</sup> ac nyd ydoed hawd kaffael dyn kyndeket na chymryt a hy yn yr hollvyt. kanyr gwynnach oed y chna6t mor echtewynnedyc ask6rn morvyl. ac no dym a ellyt dyharebu o hona6.<sup>116</sup> A dyrva6r serch a charyat a dodes Loerinus arney a mynnu y chymryt yn wreic wely yda6. Ac gwedy klybot o Coryneus hynny llydya6 a oruc yn va6r kanyr kyn no hynny ry wnathoed Loerinus amvot y kymryt y verch ef yn wreyc yda6.<sup>117</sup>

Ac wrth hynny kyrchu Loerinus a wnaeth Coryneus a dan treygla6 bwyall deuvynya6c yn y law deheu a dywedwyt wrthau yr amadra6d h6nn. Ae megys hyn Loerinus y tely di y my yssa6l vrac-thau a gwelyeu a kymereys y tros dy tat fy hyt tra wuhvm y yn kynydu tyr a day-ar yda6 ef.<sup>118</sup> kymryt alldues hedyw yn wreyc yt ny udost ty pa le pan henyw. a gwrthot vy merch ynheu. Etnebyd hagen nat prydverth yt hynny ac nat dy pryt hyt tra parhao nerth yn y breych deheu h6nn.<sup>119</sup> yr h6nn a lada6d y sawl kewry tra traethyeu ynys Prydeyn. Ac evelly y okyvadau yn vnych a dan treyglya6 y deuvynya6c wuyall.<sup>120</sup> Ac yna cyssyoes y daethant eu kytemdeythyon o pob parth yr rygthunt y eu tagnhevedu.<sup>121</sup> a chymmell ar Loerinus kymryt merch Coryneus yn wreyc yda6. Ac yna y kyskus Loerinus kan Gwendol-eu merch Coryneus. Ac yr hynny cyssyoes ny leyha6s karyat Essyllt kantha6 namyn y gossot mewnd dayar ty o fewn kaer Lundeyn. ac anwylyeyt yda6 yn y chad6 ac yn y gwassanaethu ac yn y dywallu o pob peth or a vey rey ydy. a hynny yn dyrgel.<sup>122</sup> Ac yno y deuey ef attey hy en kudyac. Ac evelly y bu yn mynnychu

atthey trwy yspeyt seyth mlyned hep wybot o nep cythyr y aunwlyeyt ehun a oed yn y gwarchad6. namyn yn ryth abertliu yn dyrgel yr dwyweu yd aey ef yno.<sup>123</sup> Ac eno eyssyoës beychyogy a kavas Essyllt a merch a wn ydy. ac ys ef enw a dodes ar honno Hafren. Ac yn yr unrhyw amser h6nn6 beychyogy a kavas Gwendoleu a a map a anet ydy hytheu. ac ar y map h6nn6 y dodet Mada6c.<sup>124</sup> Ac ar Coryneus y hentat yr rodet h6nn6 ar vaeth ac oy dysku.<sup>125</sup> Ac em pen espeyt gwedy mar6 Coryneus ymada6 a wnaeth Loerinus a Gwendoleu. ac ar ostec ardyrchavael Essyllt yn vrenhynes. ac wrth hynny llydya6 a oruc Gwendoleu yn dyrva6r eythyr mod.<sup>126</sup> a mynet hyt yg Kernyw a chynnulla6 y llu mwyhaf a allws y kaffael wrth ryvelu ar Loerinus. ac ar lan yr avon a elwyr Sturam emkyvarvot a wnaethant. ac en e wurwydyr honno o ergyt sayth y llas Loerinus. Ac yna y kymyrth Gwendoleu llywodraeth y teyrnas yn y llaw ehun ac arveru o tata6l creulonder. Ac erchy a oruc Gwendoleu body Essyllt a Hafren y merch yn yr afon honno.<sup>127</sup> Ac gwedy hynnygwys a ossodes tros wynep ynys Prydeyn galw pawb or avon honno o enw y vorwyn honno Hafren. Ac y velly y gelwyr yr avon honno o enw y vorwyn Hafren yr hynny hyt hedyw.<sup>128</sup>

Ac gwedy hynny deudec mlyned g6edy llad Loerinus y gwledychus Gwendoleu. a dec mlyned y buasse y Loerinus yn vrenhyn kyn no hynny ac gwedy gwelet o Wendoleu Mado6c y map yn oedrau y galley ynteu bot yn vrenhyn. hy a rodes gwyalen y teyrnas yn y law. ac ae harderchoges ef yn vrenhyn. a hytheu ehunan a vu bodla6n ar Kernyw oy gossymdeytha6 hyt tra vu vyw. Ac yn yr amser h6nn6 yd oed Samuel prophwyt yn gwledychu ym blaen pobyl yr Ysrahel yg gwlat Iudea a Sylvyus Eneas etwa yn vyw yg gwlat yr Eidal. ac Omyr etwa yn traethu y kathleu yn eglur clotva6r.<sup>129</sup>

Ac gwedy urda6 Mada6c yn vrenhin gwreyc a vynna6d a deu vap a vu yda6 o honey. Sef oed yr rey hynny. Mymbyr a Mael. a deugeyn mlyned y bn Vada6c yn hed6ch tagnhevedus yn gwledychu. Ac gwedy marw Mada6c tervysc a kyvodes y rwng y deuvap am e kyvoeth. kanys pob un o nadunt a vynney kaffael e vrenhynyaeth o k6byl. ac eyssyoës Memyr a vynna6d dwyn y enny ef ar perfieythda6t ac wrth hynny ef a wnaeth datleu o eskus gwneuthur llunyeth ar tagnheved yr rygthunt. ac yn y datleu h6nn6 y perys ef

llad Mael y vra6t. ac gwedy llad Mael y kymyrth Memyr llywodraeth yr holl teyrnas.<sup>130</sup> a chymmeynt y creulonder a kymyrth enda6 en erbyn y pobyl hyt pan lada6d ef hayach holl dyledogyon y teyrnas or a tebykey ef keyssya6 kyvody yn y erbyn. Ac y gyt a hynny amadau a wnaeth ae wreyc prya6t or hon y ganodoed yda6 yr ardercha6c was ieuanc Efra6c kadarn.<sup>131</sup> ac arveru ac ymrody y pecha6t Sodoma a hynny yn erbyn dedyf ac anyan yr hyn oed kassach kan Dyw no dym arall.<sup>132</sup> ac val yd oed yn hely dywyrnd6t yn yr ugeynvet wulwydyn oe arglwydyaeth y wrth y kytymdeythyon y mewn glyn koeda6c yd ymkynnullassant yn y pen lluosowgrwyd o vleydyeu kyndeyrya6c. ac yn truanhaf y llyghassant ef.<sup>133</sup> ac yn yr amser hunnu yd oed Sawl un vrenyn yn yr Ysrahel. ac Eurystheus yn Lacedemonya.<sup>134</sup>

Ac yna gwedy marw Memyr yd urdwyt Efra6c y vab ynteu yn vrenhyn. Gwr mawr y twf ac arnyrdy y kedernyt ae dewred oed h6nn6. Ac un wulwydyn eyssyeu o deugeynt y bu yn gwledychu ar ynys Prydeyn.<sup>135</sup> Ef gyntaf gwr gwedy Brutus a aeth a llyghes kantha6 y ffreync ac gwedy llawer o ymladeu a llad dyvesured or pobyl ef a dyvu adref kan wudugolyaeth ac amylder o da a golut eur ac aryant kantha6.<sup>136</sup> Ac gwedy hynny ef a adeyla6d dynas.<sup>137</sup> or parth dra6 y avon Humyr. ac ae gelwys oe enw ehun Kaer Efra6c. ac yn yr amser h6nn6 yd oed Davyd prophwyt yn vrenyn yg Kaerusalem a Sylvyus Latymis yn vrenyn yn yr Eydal. a Gad a Nathan ac Assaf yn prophwydy yn yr Ysrahel. ac y gyt a hynny hefyt Efra6c kadarn a oruc kaer Alclut kyverbyn ac Yskotlont.<sup>138</sup> a chastell mynyd Agned yr h6nn a elwyr yn awr kastell y morynyon ar vynynd dolurus. Ac y gyt a hynny hefyt ef a anet yda6 ugeyn meyb o ugeyn wraged a oedynt yda6. a deugeyn mlyned yn wychyr kadarn y gwledych6s ar holl teyrnas ynys Prydeyn ac ys ef oedynt enweu y mebyon.<sup>139</sup>

BRUTUS Taryan las. oed y map hynaf yda6<sup>140</sup> Maredud. Seyssyll. Rys. Morud. Bleydud. Yago. Bodlan. Kyngar. Yspadaden. Gwa6l. Dardan. Eydol. Yvor. Hector. Kyngu. Gereynt. Run. Asser. Howel. Ac ys ef oedynt enweu y verchet ef.<sup>141</sup> Gloewgeyn. Ignogen. Euda6s. Gwenllyant. Gwawrdyd. Agharat. Gwendoleu. Tanghwystyl. Gorgon. Medlan. Methael. Efrar. Maelvre. Kamreda. Ragau. Gwael. Ertus.<sup>142</sup> Rest. Keyn. Stadud. Efrin.<sup>143</sup> Blayngeyn.

Avallach. Angaes. Galaes teccaf morwyn oed honno ar a wu ygkytoes a hy yn ynys Prydeyn a Ffreync.<sup>144</sup> Gweyrvyl. Perweur. Eurdrec. Edra. Anor. Stadyalt. Egron. Ar rey hynny oll a auvones Efra6c hyt at Sylvyus ygar oed yn vrenyn yn yr Eydal. ac enteu ae rodes wynt yr gwyr bonedykaf a hanoedynt o genedyl Tro. ar meybyon a aethant a llyghes kanthunt ac Asser y bra6t yn tewyssa6c arnadunt hyt yn Germania ac o kanhwrthwy Sylvyus wynt a oreskynnasant y wlat honno ac a gwledychassant yndi.<sup>145</sup>

BRUTUS hagen Taryan las ehun a tryg6s y gyt ac tat yn yr ynys 6rth kymryt y teyrnas gwedy ef a deudec mlyned y gwledych6s ynteu gwedy y tat.<sup>146</sup>

Ac yn ol Brutus Taryan las y deuth Lleon y vap ynteu. Gwr oed h6nn6 a karey ked6ch. ac gwedy gwelet o hona6 y kyvoeth yn llwyda6 ac yn hedychupoppeth 6rth y gyghor ef a adeyla6d dynas yg gogled yr ynys hon ac ae gelwys oe enw ehun Kaer Lleon ac yn amser h6nn6 yd adeyl6s Selyf themyl yr Arglwyd yg Kaerussalem ac y deuth brenhynes Sabba y waranda6 y doethynep ef. ac y deuth Sylvyus ypytus yn lle y tat yn vrenyn yn yr Eydal. ac yn dywedd y oes lleucu a wnaeth. a phum mlyned ar rugeynt e bu yn gwledychu. Ac oy lesked ef ar dywed y oes y kyvodes ef kyt6rada6l tervyse yn y teyrnas.<sup>147</sup>

Ac g6edy Lleon y gwledych6s Run Paladyr vras y vap ynteu yn wlwydlyn eyssyeu o deu ugeynt h6nn6 a duc y pobyl oc eu tervyse ar tagnheved a duhundep. Ac ef hevyt a adeyl6s Kaer Keynt. a Chaer Wynt. a Chastell mynyd Paladyr. yr hon elwyr yn awr Kaer Septon. ac yna tra adeylt y gaer honno y bu eryr yn proffwyda6 ac yn dywedyt darogoneu yr ynys hon. Ar amadrodyon hynny bey tebyk6n y eu bot wynt yn wyr ny ochel6n y eu hyskryvennu wynt megys yr rey ereyll.<sup>148</sup> Ac yn yr amser yd oed Cappys Sylvyus yn vrenyn yn yr Eydal. ac Ageuus ac Amos. ac Hyeu a Iohel ac Azaryas yn proffwydy yn yr Ysrahel.

Ac gwedy marw Run y deuth Bleidud y vap ynteu yn vrenyn ugeyn mlyned ar y teyrnas hon. ar gwr h6nn6 a adeyl6s Kaer Vadon. ac a oruc yndy yr enneynt twymyn yr medygynaeth ac artymyr yr marwa6l.<sup>149</sup> Ar gweythret h6nn6 a aberth6s ef yr dwywes a elwyt Mynerva. ac adan yr enneynt h6nn6 y gossodes ev tan heb dyffody byth yn wrychyon nac yn llwdw. namin pan dechreuey dyffody yna eylweyth yd ymchweley yn tana6lyon pelleneu kerryc. Ac

yn yr amser h6nn6 y gwedy6s Helyas hyt na delhey glaw. ac e bu hep dyvot un davyn glaw chwemys a theyrbl yned yg gwlat Kaerussalem.<sup>150</sup> Ar Bleydud h6nn6 dyrva6r ethrylyth a kavas. ac ef yn kyntaf a dyskus kelvydyt nygromans trwy teyrnas enys Prydeyn. Ac ny orfowys6s ef o dychemygu kelvydodeu a chy6reynrwyd hyt pan wnaeth eskyll ac adaned yda6 ehun a phrovy ehedec trwy orwehelder yr awvr. Ac yna y syrthy6s ynteu ar temhyl Apollo yn Llundeyn. ac yd yssyg6s ef yna yn llawer o dryllyeu. ac yna y kladwyd.<sup>151</sup>

GWEDY rody Bleydud yr tyghetvenneu y dyrchawyt Llyr y vap ef yn vrenyn. A thry ugeyn mlyned y bu ef yn wychyr ac yn 6ra6l yn gwledychu y teyrnas.<sup>152</sup> A Llyr h6nn6 a adeyl6s dynas. ar avon Sorram ag ae gelwys yn Kymraec Kaer Llyr. ac yn Saysnac y gelwyr Leyreester.<sup>153</sup> ac ny bu yda6 ef un map naniyn teyr merchet. ac ys ef oedynt enweu yr rey hynny. Gonorylla. Raga6. Gordeylla. a dyrva6r karyat oed kan eu tat udunt. Ac eyssyoes mwy y karey y verch yeuhaf yda6 nor dwy ereyll.<sup>154</sup> A phan ydoed ef yn llythra6 parth a heneynt medylya6 a oruc pa wed yd adaway y kyvoeth oy verchet gwedy ef. Ac ys ef a wnaeth provy pwy wuyhaf oy verchet ae karey megys y galley ynteu ada6 o honno y ran oreu or kyvoeth kan wr. a galw a wnaeth attaw Gonorylla y verch hynaf ydaw a gofyn ydy pa veynt y karey hy ef. a thyghu a oruc hytheu yr nef ac yr dayar bot yn wuy y karey hy ef noe hencyt ehun. a chredu hynny a wnaeth ynteu a dywedwyt wrthy kan oed kymeint y karey hy ef a hynny yr rodey ynteu hy yr gwr a dewyssey yn ynys Prydeyn a tharyan y kyvoeth genty.<sup>155</sup> Ac yn ol hynny y gelwys ef Ragau atta6 y verch eyl hynaf a govyn y honno pa veynt y karey hytheu ef a thyghu a wnaeth hythau y kyvoeth nef a dayar hyt na alley dywedwyt ar y thava6t leveryd meynt y karey hy ef. a chredu hynny a wnaeth ynteu. ac ada6 y rody hytheu yr gwr a dewyssey a thryded ran y kyvoeth genty.<sup>156</sup> Ac gwedy hynny y gelwys ef Gordeylla y verch yeuhaf yda6 atta6. yr hon a karey ef yn wuyhaf a govyn ydy hytheu pa veynt y karey hytheu ef. Ac yna atnabot a wnaeth Gordeylla rycredu oy tat y yr amadrodyon anlyedus t6yllodrus rydy6edyssyat y chwyorpd 6rth-a6. a phrovy y that a oruc. a gurthep yda6 yn amgen noe y g6rthesbessynt wy yda6 ef. Ac ar e wed honn e rodes hytheu atteb yda6. Ny chredaf y bot merch a allo

karu y that yn wuy noc y dely hy y caru. nac ae dywetto onid trwy gellweyr kan gelu g6ryoned.<sup>157</sup> Ac 6rth hynny myvy ath kereys ty cyryoet megys tat ag et6a hep peydy6 ac arvaeth h6nu6. ac o cheyssy m6y no hynny gwaranda6 dy dyheur6yd meynt dy garyat dy genhyf y a gossot ter-vyn yth orcheston. ac ysef yw hynny yn y meynt y bo de kyvoeth ath yechyt ath de6red. yn y veynt honno y karaf y ty.<sup>158</sup> Ac ena kyffroy a llydy6a a oruc y that wrthy. a thebygu mae o dyhewyt i challon y dy6edassey hy yr amadrodyonhynny a hep annot dy6edwyt wrthy val hyn. kanys yn y veynt honno yd ebruygeyst ty heneynt dy tat ty hyt na charut ty ef megysdechwyoryd ty. Mynheu ath varnhaf ty yn diran.<sup>159</sup> y gyt ac 6ynteu o ynys Prydeyn. Ry dywedaf y kan wyt merch ym na rodwyf y ty y wr os y tyghetven a damweynya hynny. hyn hagen a kadarnhaaf na byly vyth un anryded ath ch6yoryd. kanys m6y eyryoet y kereys y ty dy noc wyntwy. a thytheu ym karu ynheu yn lley noc wynt6y.<sup>160</sup> Ac yna hep un gohyr o kyghor y wyrda ef a rodes y d6y verchet hynaf yd6a yr deu tewysa6c nyt amger tewysa6c Kerny6 ac un gogled a hanner yr ynys kanthunt hyt tra vey vy6 ef. ac gwedy bey var6 ynteu llywodraeth yr holl ynys udunt yn deu hanner.<sup>161</sup> Gwedy hynny Aganyppus breynic Ffreync a kyglu clot teked Gordeylla nat oed nep or a alley y chyffebu o pryt a gosged a theg6ch.<sup>162</sup> ac anvon kennadeu a wnaeth hyt ar Lyr y that oy erchy yn wreyc yd6a. Ac ys ef y dywa6t y that yn attep yr kennadeu kan parhau yn y llyt ae kyffro wrthy. my ae rodaf ep ef yn llawen hep arkyvreu. a hep da kenth. kanys y kyvoeth a rodassey yr merchet ereyll. ae eur ae aryant.<sup>163</sup> ac gwedy mynegy hynny y Aganyppus o karyat y vor6yn ef a auvones y kennadeu eyl6eyth trachevyn a dy6etpwyt.<sup>164</sup> bot yd6a ef dyga6n o eur ag aryant a chyvoeth ac nat oed dym eyssyeu arna6 ef namyn kaffael morwyn vonhedyg dyleda6c or hon y galley gaffael ettyved a kynhaleyy y kyvoeth gwedy ef. kanys ef pyeued tryded ran Ffreync. Ac yn dyannot y rodet Cordeylla y Aganyppus.<sup>165</sup>

A GWEDY llawer o amser a dechreu o Lyr lescu o heneynt y deu racydwededic defyon wchot a kyvodassant yg gwrthwynep yd6a. ac oreskynnassant yr holl teyrnas ac ae dugant y arna6 ae llywodraethyr hon a llywyassey ef en 6ra6l ac en wychyr ac en clotva6r hyt yr amser h6nn6 ac o kyt duhundep eyssyoes Magla6n tewysa6c yr Alban ae kenhelys ygyt ac ef a deu ugeynt

marcha6c kantha6. rac bot yn kewylyd yd6a y vot hep varchogyon y gyt ac ef.<sup>166</sup> Ac eyssyoes gwedy yspeyt dwy vlyned llydy6a a wnaeth Gonorylla y verch 6rtha6 rac meynt oed o varchogyon y gyt ag ef. kanys kyprys a vydey rwng y wassanaethwyr ony cheffynt y gossymdeyth yn yr amylder y mynnynt. Ac wrth hynny hy a dywaut wrth y gwr bot yn dyga6n oy that ugeyn marcha6c yn y wassanaethu ef ac ell6ng yr ugeynt ereyll y ymdeith.<sup>167</sup> Ac wrth hynny llydy6a a oruc Llyr. ac amada6 a Magla6n a mynet hyt at Hen6yn tewysa6c Kernyw yr h6nn yr rodassey ynteu Raga6 y verch eyl hynaf yd6a. Ac gwedy bot yn llawyn y tewysa6c 6rtha6. ny deuth eyssyoes pen y wiwydyn hyt pan wu tervyse yr rwng eu gwassanaethwyr. ac wrth hynny llydy6a a oruc Raga6 a gorchymyn oy that oll6ng y holl ketymdeythyon y gantha6 eythyr pym marcha6c a vydynt yn y wassanaethu.<sup>168</sup> Ac wrth hynny llydy6a oddyeyth mesur a oruc Llyr. ac ymchwelut eylweyth at y verch hynaf yd6a o tebygu trugarhau o honno urtha6 ae kynhal ae varchogyon y gyt ac ef. Sef a oruc hytheu trwy y llyt ae chyffro tyghu y kyvoethu nef a dayar na chassey un gohyr y gyt a hy ony mynhey gollwng pob un y wrtha6. a bot yn vodla6n y wassanaeth un marcha6c. Ac y gyt a hynny dywedwyt 6rtha6 nat oed reynt y wr kyvoet ac ef un lluosowgr6yd y gyt ac ef. na theulu achwanec y un gur ae gwassanaethay.<sup>169</sup> Ac gwedy na chaffey ef dym or a keyssyey gan y verch ellwng y varchogyon a oruc oll y ymdeyth eythyr un y gyt ac ef. Ac gwedy bod y velly rynn6d o hona6. dwyn ar gof a oruc y kyvoeth a hen teylygdant ae anryded. ae vedyant. a thyrstau yn va6r a medylly6a am veynt y trweny ry dygwidassey ynteu yd6a. a medylly6a hevyt gowya6 y verch ar ry athoed yd6a y Ffreynge ac ovynhau hynny hevyt a oruc rac mor dygarat y gellyghassey y kantha6.<sup>170</sup> Ac eyssyoes ny all6s ef a vey hwy dyodef envyget ac amarch kymmeynt ac a oed arna6. Ac yna kychwyn parth a Ffreync a wnaeth.<sup>171</sup> Ac gwedy y vynet y mewn y llong ac na welley nep 6rth y oscord ef namyn ar y trydyd. kan wylaw e dywa6t ef yramadra6d h6nn.<sup>172</sup> Ae chwy yr anweledygon tyghetvenneu pa le y kerd6ch chwy tros ych gnotaedygon hynnt pa acha6s yd ardyrchaua6ch chwy vyvy eyryoet ac ar orwchelder anryded. kanys mwy poen yw koffau prythverth6ch a chyvoeth gwedy y koller kanys dyodef aghanoctyt hep ordyvneyt prythverth6ch kyn no hynny. Mwy y gorth-

rymma hedyw cof yr amser h6nn6 yn yr h6nn yd oed6n damkylchynodyg or sa6l kan myl o varchogyon yn anreythya6 gwladoed vygelynyon. ac yn destryw eu kestyl ac eu dynasoed no dyodef poen yr anghanctyt a wnaeth y gwyr hynny y may yr rey a vydynt yna adan vyn traet ynheu Owy a Dwyweu nef a dayar a da6 amser y gallwyf y talw chwyl en y gwrthwynep yr gwyr hynny yr rey ry oruc ymynheu dyvot yn yr aghanoctyt hon. och Cordeylla vvg karedyg verch y mor wyr yr amadra6d teuty. pan dywedeyst ty pan yw val y bey vvg gallu am medyant am kyvoeth y a gallw rody da o honaf. pan yw yvelly y karut ty vyvy. Ac wrth hynny tra uv vygkyvoeth a gallu rody o honaf pa6b am karey. ac nyt my hagen a kerynt namyn ry rodyon am donyew. a phan kylyws y rey hynny y kyl-yasant wynteu. Ac wrth hynny o pa tal vvg karedyg verch y llavasaf yr ac kewyl-yd kyrchu dy kyndrychyolder o acha6s ry sorry o honaf fy wrthyt ty am yr amadrodyon hynny ath ry ell6ng dytheu dy anrhydedusach noch ch6yoryd ty. yr rey g6edy hey sa6l anrhyded a rodeys y undunt wy am dugant ynheu yn dyanrydedassant ynheu. ac a dan kwyna6 y agkyvnerth ae aghanoctyt yn y wed honno ef a doeth hyt yg Kar-tya y dynas yd oed y verch ynda6.<sup>173</sup> Ac anvon kennat a wnaeth at y verch y venegy ydy y ry6 agkyvnerth rykyvaroed ac ef. ac nat oed ydaw na b6yt na dillat ae vot ynteu yn dyvot y keyssya6 y trugared hytheu. a phan kyely y verch yr amadrodyon hynny wyla6 a oruc a govyn pa sa6l o varchogyon a oedynt y gyt ac ef. ac g6edy dy6ed6yt or kennat nad oed namyn ef ac un es6eyn y gyt ac ef. Sef a oruc hytheu yna kymryt amylder o eur ac aryant ac anvon yn llaw y kennat. ac erchy mynet ae that odynd hyd ym mewn dynas arall. a chymryt. arna6 y vot yn glaf a g6neuthur enneynt yda6 ae artymheru a symuda6 y dyllat. a chymryt attau tryug-eyn marcha6c ac eu kyweyrya6 yn hard kymyrredus o veyrch a dyllat ac arveu. A gwedy darffey hynny anvon o vlaen at Ag- anyppus brenyn Ffreync ac at y verch ynteu a dywed6yt y vot yn dyvot. A g6edy darvot gwneuthur pop peth o hynny. anvon a oruc Llyr kennat at y brenyn ac at y verch ynteu a dywed6yt y vot yn dyvot ar y try ugeynt marcha6c.<sup>174</sup> g6edy<sup>175</sup> ry dehol oe deu dofyon o ynys Prydeyn yn dyanrydedus ac yn dyvot y keyssya6 porth y ganthunt y oreskyn y kyvoeth trachevyn. a phan kygleu y brenyn hynny kych6yn a wnaeth ef ae 6reye ae teulu oe erbyn yn

anrydedus mal yd oed teylwng erbyneid g6r kyvurd ac ef ac a vey yn vrenyn yn kyhyt ac y buassey ynteu. A hyt tra wa ynteu yn Ffreync y rodeys y brenyn yda6 lly6odr-aeth holl teyrnas Ffreync hyt tra vydynt wynteu yn kynnulla6 llu yda6 ef 6rth or-eskyn y kyvoeth ehuu yda6.

Ac yna yd anvonet gwys tros teyrnas Ffreync y kynnulla6 y holl varchogyon ar-va6c urth eu hell6ng y gyt a Llyr y oreskyn ynys Prydeyn yda6 trachevyn. Ac gwedy bot pop peth yn para6t kych6yn a oruc Llyr a Chordeylla y verch y gyt ac ef ar llu h6nn6 kanthunt hyt pan deuthant hyt yn ynys Prydeyn.<sup>175</sup> Acyndyannotym-lad yn erbyn y dofycn a oruc a chaffael y wndugolyaeth. Ac g6edy g6edu pop peth yda6 yn y tryded w6ydynd gwedy hynny y bu var6 Llyr. ac y bu var6 Aganyppus brenyn Ffreync ac yna y kymnyrth Cordeylla lly6odraeth teyrnas ynys Prydeyn yn yllawehunac y clad6yt Llyr mewn dayar ty a wnathoedadan avon Sorram yg Kaer Llyr. Ar temhyl honno ry6nathoed Llyr yn anryded yrdy6ael6yt Biffrontis Iania phan delhey g6ylva y demhyl honno y deuhynt holl creft-6yr y dynas h6nn6 ar rey y wlat hyt yd ymkyrraedynt oy anrhydedu. ac yno y dechreuynt pob g6eyth or a dechreuynt hyt ym pen y w6ydynd or un amser hunnu.<sup>176</sup>

Ac yna g6edy g6ledychu Cordeylla tr6y yspeyt pym mlyned yn heduch tagnevedus y kyvodassant y deu neyeynt meybyon y ch6yoryd nyd angen Margan vap Magla6n a Chunedu vap Henwyn a dechreu ryvelu arney kany6 bl6ng ac antheil6ng oed kanthunt bod llywodraeth ynys Prydeyn urth vedyant g6reye. Pob un hagen or deu was yeueyn hynny moledye a chlotva6roedynt. ac yna kynnulla6 llu mawr a wnaethant. ac ny orffwyssassant hyt pan anreythas-sant y gwladoed. ac or dywed ey daly hythau au charcharu. ac yn y karchar hunnu y dolur kolly y chyvoeth y g6naeth e hun y dyhenyd. Ac odynd y rannassant wynteu y teyrnas yn deu hanner yr ryg-thunt. ac y deuth y Vargan or parth dra6 y Humyr y gogled gan y thervyn. ac y Cunedu y parth yna y Humyr Lloegy a Chymry a Cherny6.<sup>177</sup> Ac gwedy llythra6 d6y vlyned y deuthant ar Vargan y g6yr a keryn dervyse ac anuundep a lleuwy y vryt ae ved6l o tervyse a dywed6yd 6rtha6 bot en ke6ylud ac yn warad6yd yda6 ac ef yn hynaf bot deuparth y kyvoeth yn eydav Kunedu ac ynteu yn ynaef. A Margan yn hynaf ac ar ran leyhaf.<sup>178</sup>

Ac yna gwedy llen6y Margan or amad-rodau hyn a llawer or rey ereyll ef a kyn-

nullôs llw a dechreu anreythya6 kyvoeth Cunedu o lad a llosgi ac gwedy dechreu or ryvel h6nn6 yr rygthunt kynnulla6 llu a oruc Cunedu adyvot yn y erbyn a brwydra6 ac ef a gwneuthur aerva va6r oe lu ae kym-mell ynteu ar ff6 o wlat p6y glyld hyt pan deuth hyt ym mewn maes ma6r yg Kymry ac yna rody kat ar vaes. ac yno y llas Margan. ac oe en6 ef y gel6yr Maes Margan yr hynny hyt hedy6. Ac yno y mae manach-loc Vargan yn a6r.<sup>179</sup> Ac g6edy y wudug-olyaeth honno y kymyrth Cunedu holl teyrnas ynys Prydeyn. ac y gwledych6s Cunedu yn hed6ch tagnevedus teyr blyned ar dec ar ugeynt. Ac yn yr amser yd oedynt Ysayas oc osee yn proph6dyd yn yr Israhel ac a adeyly6yt Ruveyu gan y deu vroder. Remus. a Romulus. yn yr unvet-dyd ar dec cyn kalan mey.<sup>180</sup>

GWEDY marw Cunedu y deuth Rywall-a6n y vap ynteu gwedy ef. g6as yeuanc tagnhevedus a tyghetvenna6l oed h6nn6. ac ef a gwledych6s tr6y karyat a thagneved. ac yn y amser ef y deuth glaw g6aet. ac y buant var6 y dynadon y. gan y Kak6n tr6y y glaw gwaetlyt yn eu llad.<sup>181</sup> Ac yn ol hunnu y deuth Gwr6st y vap ynteu. Gwedy h6nn6 Seyssyll. gwedy h6nn6 Iago ney Gwr6st. .g6edy h6nn6 Kynvarech vap seyssyll yn nessaf Kynvareh G6rfyw dygu. ac y h6nn6 y ganet deu vap Servex a Phorrex.<sup>182</sup> ac gwedy dyg6yda6 eu tat yn heneynt y kyvodes tervysc yr rygthunt wynteu am y vrenhynyaeth. ac ys ef a oruc Porrex o wuyhaf ch6ant y kyvoeth keys-sya6 llad y vra6t trwy vrat. ac gwedy klybot hynny o Fervex ef a ff6es hyt yn Efreync. ac odyu. yd ymchwela6d trachevyn a phorth kantha6 y gan Sywart brenyn Efreync. ac ymlad a oruc a Phorrex y vra6t. ac yn yr ymlad h6nn6 y llas Fervex ar kynnullayt6a a dothoed y gyt ac ef.<sup>183</sup> a g6edy g6ybot oc eu mam wynt yr hon a el6yt Widon ry lad y map. Sef a oruc hytheu medylya6 llad Porrex y map y byw yn dyal y map mar6. Ac gwedy kaffael o honey lle ac amser adas y hynny ac ef yn kyscu hy ae lla6vor6ynyon a doethant yr ystavell. ac yn llawer o dryllyeu wy ae rannasant ac gwedy hynny trwy lawer o amser ky6da6da6l ryvel a tervysc ymplyth y pobyl ar teyrnas a tan pym brenyn yn rannedyg. ar rey hynny pob eylwers yn ryvelu ar y glyld. ac yn newyda6 aerva.

#### DYFYNWAL MOELMUT.

Ac g6edy hynny ym pen yspeyt y kyv-odes molyant a chlot gwas yeuanc clotva6r ac ys ef oed h6nn6 Dyfynwal Moelmut map Klytno tewysa6c Kerny6. ac o pryt

a theg6ch a glewder rac vlaenu a wnaey rac oll vrenhyned ynys Prydeyn. Ac gwedy mar6 y tat a chaffael o hona6 ynteu y kyvoeth. kyvody a oruc Dyvynwal yn erhyn pymet brenyn Lloegyrr a dechreu ryvelu arna6. ac lad a gorescyn y kyvoeth. Ac gwedy llad Pymer kytvuna6 a wnaeth-ant y gyt Nyda6c vrenyn Kymry. ac Stater vrenyn y gogled ac wedy ymarvöll o nadunt dechreu lludha6 am penn kyvoeth Dyvyn-wal ac anreythya6 y gwladoed ac eu lloscy.<sup>185</sup> Ac yn y lle yn dyannhot Dyfyn-wal a deuth yn eu herbyn a dec myl ar rugeynt o wyr arva6c kantha6 ar rody kat ar 6aes udunt. Ac gwedy trenlya6 llawer or dyd ac na weley Dyfynwal y wudugol-yaeth yn damweynnya6 yda6. ef a kym-yrth atta6 ar neylltu chwechann6r or gweyssonon ieueync glewhaf a wydyeu ac erchy y pob yn o hynny gwysca6 arveu eu gelynyon yr rey ryladessynt ac ynteu ehun a wysk6s y arveu ac a wysk6s arveu g6r lladedyg a dywed6yt wrth y kytemdeyth-ynon val hyn. kanlyn6ch ch6y vyvy a gwne6ch megys y gweloch vynheu yn y wneuthur. Ac yna kerdant radunt. a gwnaethant trwy eu gelynyon megys kyt bydynt rey o nadunt yn y doethant hyt y lle yd oedynt Nyda6c ac Stater. ac yna annoc y kytemdeythyon a oruc ac ym perved eu bydyn eu llad yll deu. Ac gwedy hynny yn dyannot y dyodassant wy y gelynya6l arveu hynny y am danunt a chymryt y harveu ehuneyn rac ovyn eu kywarsanguhu oc eu gwyr ehuneyn. Ac yn y lle ymchwelut ar y gelynyon ac eu llad ac eu ff6 a chaffael e wudugolyaeth. Ac odyu kerdet a oruc tros wladoed y brenhyned hynny gan eu gorescyn a gwas-caru y muroed ar kestyl a darest6ng y pobyl 6rth y arglwydyaeth ehun a chymryt ynys Prydeyn or mor pwy glyld yn eyda6 ehun.<sup>186</sup> Ac gwedy darvot yda6 hedychu a tagnhevedu pob peth ev a oruc Coron yda6 o eur a gemeu ac y duc yr ynys ar y hen deylnda6t. ag o dyna gossot kyv-reythyeu arney or rey yd arverant y ssays-son ettwa. Ac o dyna rody nodvaeu a breynhyeu yr dynassoed ac yr temlheu megys y hyscryfenn6s Gyldas tr6y lawer o amseroed gwedy hynny megys y galley y nep a wneley kam kaffael dyogel6ch yndunt ac a rodes yr unryw vreynt h6nnw y eryd-yr y byleynyeut ar tyr dywyllodryon. ac yr pryyffrd a kyrchynt dynassoed ar petheu hynny oll yn kymmeynt eu breynt ac eu rodva ar rey doed yr temlheu.<sup>187</sup> Ac y gyt a hynny yn oes Dyfynwal y pyllywyt kled-veyu a grybdeyl y treiswyr. Ac yn y oes

ef nyd oed neb a lavassey gwneuthur kam na treys ar y gylyd. Ac gwedy kyflenôy deu ugeyn mlyned o honaô gwedy kymryt coron y vrenhynyaeth y bu varô ac yn Llundeyn y cladwyt ker llaw temhyl tagnheved yr hon a wnathoed ynteu wrth kadarnhau y kyvreythyeu rywnathoed.<sup>188</sup>

O VELY A BRAN I TRAETHA HYNN.

GWED marô Dyfnwal y kyvodes tervyse yr rwnô Bely a Bran y deu vap ynteu am y vrenhynyaeth pwy a nadunt ae kaffey. Ac gwedy llawer o kynnhen a datleu y tanguevedut trwy kytemdeythyon a doethyon ar y wed honn. Ac ys ef a orugant rannu y teyrnas yr rygthunt. a gadu y Veli coron y deyrnas a Lloegr a Chymry kanys hynaf oed. kanys o herwyd hen kynevaut gwyr Tro y map hynaf a dyley y deyltgaut. ac y Vran kanys yeuhaf oed or parth arall y Humyr a darestyghedygaeth oy vraôt.<sup>189</sup> Ac gwedy darvot eu tagnhevedu a chadarnhau hynny yr rygthunt pym mlyned y buant trwy hedôch yn llywyau eu kyvoeth. a chyns tervyse ac annundep ny charant hedôch na tagnheved. dychmygwyr kelwyd a doethant at Vran a dywedwyd ôrtha val hyn. pa achaoôs y gwney ty gôryogaeth a darestyghedygaeth y Veli dy vraôt. a pha lesked ath duc y hynny. a thi yn unvam undat ac ef ac yn un voned ac yn un dilyet ac yn un vreynt.<sup>190</sup> Ac y gyt a hynny yn llawer o kyvrangheu ac ymladen provedyc a chlotvaôr wyt. yn y gniver gweyth y deuth Thelff tewyssaôc Moryan yth wlat ti. ti a elleyst gwrthwynebu ydaô. ac yn waradwydus y kymmell ar ffo.<sup>191</sup> Ac wrth hynny torr y tagnheved y syd waradôyd yt y chadô. a chymer merch Elsyng brenyn Llychlyn yn bryot wreyc yt hyt pan vo trôy porth hônno ae nerth y gellych dytheu kaffael de teylygdaôt ath dilyet ry golleyst. Ac ôrth hynny gwedy darvot udunt trwy yr amadrodyon hynny a llawer or rey ereyll llenwy bryt a medôl y gôr yeuanc ef a wnaeth eu kyghor ac aeth hyt yn Llychlyn ac a kymyrth y vorwyn honno yn wreyc ydaô megys y dyskessynt y bradogyon twyllwyr anhyedwyr hynny ef.

Ac gwedy mynegy hynny oy vraut ynteu. nyt amgen y vynet y keyssyaô porth yn y erbyn ef yn y lle sef a oruc ynteu kynnullaô llu a mynet raedaô a goreseyn y kyvoeth ynteu a gossot gwyr ydaô ehun y kadô y dynassoed ar kestyll.<sup>192</sup> Ac yn y lle pan kygleu Vran y chwedleu hynny. ef a kymyrth kanthaô aneyryf luossogrwyd or Llychlynwyr ac gwedy bot yn paraôt y lyghes ymchwelut a wnaeth parth ag ynys

Prydeyn. Ac mal yd oedynt yn rôygaô moroed yn hyfrytaf ganthaô ar gwynt yn rôyd yn eu hol ynachaf Gwythlach brenyn Denmarc yn kyvarvot ac ef. kanys mwyhaf gwreyc a karrey Wythlach oed y vorwyn ar vynnassey Vran. ac ôrth hynny ry dothoed ynteu oy erlyt ef. ac yn dyannot ymlad a wnaethant o longhaôl wrwyder. ac yna o damweyn y kavas Gwythlach y llong yd oed y vorwyn yndy a bwrô bacheu arney ae thynnu hyt ym perved y llongeu ehun.<sup>193</sup> Ac mal yd oedynt y velly yn ymlad a pob parth ar warthaf yr eygyaôn ynachaf yn dyssevyt y gwynhyeu gwrthôynep yn chwythu ac yn temhestlu y weylgy ac yn gwaskaru eu llongeu y amravaelyou traetheu. Ac yna trwy elynyaôl treys y gwynhoed gwedy y vot ar vaôt trwy yspeyt pym nyeu y bôrywad brenyn Denmarc y gyt ae vorwyn kan ergrynmedyc ovyn yr gogleid yr tyr. ac ny wydyat ef hagen pa wlat y bwryessyt ydy.<sup>194</sup> Ac gwedy eu gwelet o wyr y wlat eu daly a wnaethant ac eu dwyn hyt at Beli. kanys yn yr amser hônno yd oed ef ar glan y morbenn oed hynny yn aros dyvodedygaeth Bran y vraôt. Ac gyda llong Gwythlach yd oedynt teyr llong or rey hynny a hanoed o lyghes Vran. ac gwedy mynegy yr Brenyn pa beth oedynt ar damweyn a daroed udunt llawenhau a oruc or ry kyvarvot or damweyn hônno ydaô. kanys yd oed ey vraôt yn mynnuryvelu yn yerbyn.<sup>195</sup>

Ac gôedy yspeyt ychydyc o dydyeu ynacbas Bran gwedy rykynnullaô y logheu ac yn dyskynnu ar tyr yr Alban. A gwedy mynegy y Vran ry daly brenyn Denmarc ae wreyc ynteu. yn y lle anvon kennadeu a oruc hyd at Vely ac erchy ydaô etvryt y kyvoeth ae wreyc ydaô. ac onys advereday tyghu a oruc y kyvoetheu nef a dayar yr anreythyay yr ynys or mor pwy gylyd a y lladey ynteu o chaffey lle y ymkyvarvot ac ef.<sup>196</sup> Ac gôedy mynegy hynny y Vely naccau yn dyannot o kôbyl a oruc. a chynnullaô holl varchogyon arvaôc ynys Prydeyn ae holl dewred a dyvot yn y erbyn hyt yr Alban y ymlad ac ef. Ac gwedy gwybot o Vran yr rynnacau or peth ry archassey a bot y vraôt yn dyvot ar y wed honno. ynteu a deuth yn y erbyn hyt yn llwyn y Calatyr ôrth ymkyvarvot ac ef.<sup>197</sup> ac gwedy kaffael o pob un o nadunt y maes hônno. gossot a orugant eu kytemdeythyon trwy vydynoed a dynessau gyt a dechreu ymlad a llawer or dyd a drewlyôyt yn ymlad. kanys y gwyr deurhaf a moledykaf a danossynt eu deheuoed pob rey oy gylyd o nadunt. Ac y gyt a hynny llawer o

crew a gwayt a ellyghassant o pob parth. kanys yr ergydeu a ellyghynt oe eu holl nerth agheuolion welyeu a dyporthynt. Ena y syrthynt y gwyr brathedyc ymplyth y bydnoed megys y ssyrthyey yt e kyn-hayaf pan vydynt y medelwyr da yn amrysson. Ac or dywed gwedy gorvot or Brytauneyt ffo a wnaethant y Llychlynóyr yn yd oedynt yssyc eu bydnoed y eu llongheu. Ac yn yr ymlad hónnó y llas o nadunt pymtheg myl ac ny dyeghys mil o nadunt yn yach. Ac o vreyd y kavas Bran yna un llong megys y rannós y tyghetven ydaó. Ac odynd yd aeth hyt yn tractheu Ffreync. Ar rey ereyll oll megys y ranney damweyn eu tyghetven udunt y ffoassant.<sup>198</sup>

Ac góedy kaffael o Veli y wudugolyaeth honno galw attaó y wyrda hyt yg Kaer Efraóe a oruc a govyn kyghor udunt peth a ónelyt am vrenyn Denmarc. kanys oe karchar anvon kennadeu a rywnathoed hyt at Veli y gynnye ydau darestyghedygaeth a theyrnget pob blwydyn o Denmarc ac óyrogaeth ynteu yr y ellóng ef ae orderch yn ryd oy wlat. Ac y gyt a hynny y kadarnhau y petheu hynny arvoll a góystlon kymmeynt a vu dogyn kanthaó. Ac gwedy galw y gwyrda megys y dywedpóyd uchot. o kytsynnhedygaeth y holl wyrda ellwng a oruc Beli Wythlach en ryd o karchar ae orderch y gyt ac ef hyt yn Denmarc kan kadarnhau eu hamvot trwy arvoll a gwystlon.<sup>199</sup>

Ac gwedy gwelet o Veli nat oed nep yn y teyrnas a kyhytreu ac ev nac a urthwyn-eppay ydaó namyn bot yn ydaó ef yr holl ynys or mor pwy gylid. ef a kadarnhaus yna y kyvreythyeu rywnathoed y tat. A y gyt a hynny kadarn a gwastat yawnder a gwryoned a ossodes ac a orchmynnós eu kadó tros y teyrnas. Ac yn wuyhaf kadu breynt y dynassoed. a hynny o un ryw vreynt a theylygdaót ac a wnathoed Dyfynwal y tat ynteu kynnoc ef. A chany kynhen ac amrysson a kyvodasseu am y ffyrd kan ny wydyt pa dervyn oed udunt. Urth hynny y brenyn a vynnós góρθhlad pob petruser ac amrysson y órth hynny. A galw y gyt a wnaeth holl seyry maen yr ynys ac erchy gwneuthur y ffyrd hynny o veyn a chalch. un o nadunt o vor Kernyw ar hyt yr ynys hyt ym mor Kateneys yn y gogled. a honno trwy dynassoed a kyvarfey hy yn unyaón. Ac y gyt a hynny ef a erchys bot arall ar traws yr ynys o Vynyw hyt ym porth Hamen a honno hevyt trwy dynassoed a kyvarfey a hy yn unyaón. Ac y gyt a hynny hevyt ef a erchys

gwneuthur dwy fford ereyll yn amrysoew croesygroes. Ac gwedy darvot oll ef ae teylyghós wynt o pob anryded a breynt hyt na lavessey nep gwneuthur ar rey hynny na cham na threys na sarraet oy gylid. A phwy bynnac a vynnó yn llwyr gwyt bot breynhyeu y ffyrd hynny keyssyet ef kyvreythyeu Dyfynwal Moel Mut yr rey a ymchwelw Gyldas o Kymraec yn Lladyn. Ac gwedy hynny a ymchwelw Alvrvt vrenyn o Ladyn yn saysnec.<sup>200</sup> Ac val yd oed Bely yna trwy hedóch a tagn-heved yn wledychu. Bran y vraót ynteu megys y dywedpóyt wchot a wuryt y traeth Ffreync yr tyr yn ovalus pryderus kanys góρθrum a thyrst oed kanthaó yr ry dyhol o tref y tat ac oe wlat ac oe kyvoeth ac nat oed un gobeyth ydaó kaffae dyvot traykevyn oy kyvoeth. A chan ny wydynt pa peth a wnaey. Sef a oruc mynet at tywysogyon Ffreync a deudec marchaue gyt ac ef. a gwedy mynegy udunt y govut ar trweni ar kyvaroed ac ef. ac na chaffey nep kanwrthwy na nerth y gan un o honunt. Or dywed ef a aeth hyt at Segwyn tywysaóe Bwrgóyn. ar gwr hónnó ae harvolles yn anrydedus ef. Ag gwedy trygaó o honaó a phresswlyaó y gyt ac ef kymmeynt wu y kytymdeythyas ac ef ac nad oed er eyl gwr yn y llys a vey kyvurd ag ef. kanys ym pob negys nac yn ryvel nac yn hedóch clotvaór a molyannus yd ymdangossey hyt pan ydoed y tywysaóe yn y karu megys kyt bey map ydaó.<sup>201</sup> kanys gwas tee oed Vran oe welet oe pryt ac oe osceth. ac aelodeu teyrneyd brenhynaól ydaó. Ac y gyt a hynny megys y gwedy doeth a chyvrwys oed yn hely a gwelych ac a hebogeu a gwedy y vynet ygkaryat kymeynt a hónnó gan y tywysaóe. ef a vynnós rody y Vran unverch oed ydaó hep ettyved arall yn y gwreyca. ac ony bey un map yr tywysaóe dygwedydaó y kyvoeth oll y Vran gwedy bey varw y tywysaóe. Ac y gyt a hynny hevyt adaó porth ydaó y oreskyn y kyvoeth yn ynys Prydeyn. Ac nad mwy yd adawey y tywysaóe namyn y holl wyrda yn kyt duun yn adaó yr un peth hónnó. Ac ny bu un gohry y vorwyn a rodet y Vran a tewysogyon y wlat a darystyghasant a llywodraeth y tyrnas a rodet ydaó.<sup>202</sup> Ac ny bu kóbyl yspeyt blódynd gwedy hynny y bu varó y tywysaóe. ac yna góedy hynny tewysogyon y wlat yr rey ry wnathoed Vran yn un ac ef o kytemdeythyas kyn no hynny ny ochelós eu gwneuthur yn róymedyc ydaó oy haylder kan rody udunt eur ac aryant y tywysaóe ar swllt ry kynnullasey



yn, eu hoes 6ynteu kynnoc ef. Ac y gyt a hynny y peth m6yhaſ a karey y Bwr-g6yn6yr haelder o 6uyt a dya6t. ac porth ny cheyt rac nep.

Ag gwedy darvot y Vran tynnu pa6b atta6 ac eu dwyn yn un ac ef. medyla6 a oruc pa wed y galley ef yndyallia ar Bely y vra6t am ry wnathoed o sarahedu yda6. Ac g6edy mynegy o hona6 ef hynny oy wyr ac oy kyvoeth kytdunna6 a wnaethant pa6b ac ef a thyghu yda6 yd eynt y gyt ac ef y pob lle or y mynhey yn y byt. Ac ny bu un gohyr kynnulla6 llw ma6r a oruc a chygrevrya6 a gwyr Ffreync y vynet trwy eu gwlat hyt yn ynys Prydeyn yn hed6ch. Ac odyna gwedy parrattoy y llyghes ar traeth Flandrys ar y weylgy ay gyt a hyr6yd wynt yn eu hol y dyskynnasant yn yr ynys.<sup>203</sup> A g6edy hynny y dyvodedygaeth ef. Bely y vra6t ynteu a kynnull6s holl yeuencyt ynys Prydeyn. ac a deuth yn y erbyn 6rth ymlad ag ef.<sup>204</sup> a phan ydoedynt gwedy gossot eu bydynoed o pop parth ac yn kymyscu hayach ynachaf y mam ylleu oed vvw ett6a yn bryssya6 ac yn kerdet trwy y gossodedygyon vydynoed. ac ys ef oed en6 honno Tonu6en. a dyrva6r ch6ant oed arney g6elet y map ny ry welsey trwy la6er o amser. a gwedy y dyvot trwy ergrynnyedygyon kameu hyt y lle yd oed y map yn sevyll b6r6 y breychyeu a oruc am y wunugyl a damdyblygu damunedygyon kussaneu. a g6edy hynny noethy y bronneu a wnaeth a dywed6yt wrtha6 yn y wed hon ac ygyon yn llesteyrya6 yhamadra6d. koffa dy arglwyd vap hep hy koffay bronneu hyn yr rey a segeyst ty ac ath vaeth koffa hevyt ep hy bru dy vam yn y lle yth wnaeth di pensaer yr anwydew yn dyn or peth nyt oed dyn ac odyna ath duc dy yr byt. a dyrva6r poeneu a doluryeu yn poeny vy ymyscaroed. Ac wrth hynny yr aghyvnertheu ar doluryeu a dyodeveys y yrot koffa ty hedyw a dyro vadeueynt yth vra6t a gorffowys y gan y dechreuedy yrloned y syd kennyt. kаны ny dyley bot un bar kenhyt yn y yrbyn. kan ny wnaeth ef y ty un sarhaet. Os ef dywedy dy y mae ef ath dyholes ty oth wlat ac otref dy dat. eysyoes ot drychy dy hynny yn graff ac yn karedyc ny cheffy yn enwyred ynda6 ef. kаны nyt ef ath ffoes ty hyt pan damweynhyey a vey waeth yt namyn dy kymmell y ada6 peth bychan ac eskynnu ar vey wuch. Darestyghedyc oedut gynt yda6 ef ar ran o ynys Prydeyn. a phan golleyst hynny yth wnaethp6yt yn kyffelyp yda6 ynteu yn vrenyn yn Bwr-g6yn. ac wrth hynny pa peth a wnaeth ef

y ty. onyt o brenyn hyn tla6t dy gwneuthur yn oruchel vrenyn. Ac y gyt a hynny hevyt y tervyse a vu yr ryghoch nyt trwyda6 ef namyn trwyot ti y dechre6yt pan keysyeyst ty porth y gan Vrenyn Llychlyn y geysya6 gorescyn ar dy vra6t.<sup>205</sup> Ac g6edy darvot ydy hy trwy ygyon hedychu y ved6l a oruc Bran a tagnhevedu. ac oe vod dyot y penffestyn ac y gyt ae vam dyvot parth ac at y vra6t. Ac y gyt ac y gweles Beli hynny bot Bran a drech tagnheved kanthia6 yn dyvot atta6 b6r6 y arveu a oruc ynteu a mynet dwyla6 m6n6gyl ae vra6t. Ac yn dyaannot kymmody a wnaethant a dyot eu harveu or bydynoed ac ygyt mynet y kaer Lyndeyn. Ac yno g6edy kymryt kyt kyghor pa beth a wnelynt. parattoi llyghes a wnaethant wrth gych6yn a llw kyfiredyn y orescyn Ffreync ar holl wladoed ereyll yn y amgylch wrth eu harglwydyaeueth ac eu medyant.<sup>206</sup>

Ag gwedy llythra6 yspeyt bl6dydyn y kych6ynasant parth a Ffreync a dechreu anreythya6 y gwladoed. Ac g6edy klybot o hynny yn honneyt tros y gwladoed wynt amkynnnullasant y gyt holl vrenhyned Ffreync yn eu herbyn 6rth ymlad a h6ynt ac eysyoes 6edy damwennya6 y 6udugolyaeth y Beli a Bran y Ffreync yn vrathedygyon a ffoasant. ac yn y lle y Brytanneyt ar Burg6yn6yr g6edy arveru or 6udugolyaeth ae hymlydasant y Ffreync hep orffo6ys hyt pan dalyhasant y brenhyned ac eu kymmell wynteu y wrhau ac y wedu udunt. a chyn y vl6dydyn y keyryd ar dynasoed ar kestyl kedyrn a dy6reydyasant a gorescyn yr holl teyrnas. ac or dywed g6edy darvot udunt goreskyn pob un or teyrnas-oed wynt ac eu holl kynnulleitva a aethant parth a Ruveyn kan anreythya6 y gwladoed ar tyr dy6yllodryon trwy yr Eydal.<sup>207</sup>

Ac yn yr amser h6nn6 yd oedynt deu tywysa6 yn gwledychu Ruveyn. Sef oedynt yr rey hynny Gabyus a Phorsenna ac y llywodraeth yr rey hynny y darestyghy gwlat Ruveyn ae hamerodraeth. Ac g6edy g6elet o nadunt nat oed un wlat a alley gwrth6ynebu dym y dywalder a chreulonder Bely a Bran o kytsynhedygaeth Senedwyr Ruveyn y doethant y erchy tagheved a dyunndep y ganthunt. ac yr kaffael hynny llawer o eur ac aryant yn teyrnget udunt bob pl6dydyn. a gwystlon y kadarnhau hynny. yr gadu udunt wynteu eu kyv-oeth yn hed6ch.<sup>208</sup> Ac g6edy kymryt y gwystlon ar hynny y brenhyned a rodes kygreyr udunt a trossasant eu bydynoed parth a Germany. ac gwedy dechreu o nadunt ryvelu ar y pobloed hynny edyvar

wu gan wyr Ruveyn yr amvot ar rywnath-oedynt a gal6 eu gle6der attadunt a mynet yn porth y wyr Germanya.<sup>209</sup> Ac g6edy kaffael or brenhyned gwybot hynny mwy no messur y bu trum kanthunt. Ac yn y lle kymryt kyghor pa wed yd ymledynt ar deu lu. kymeynt o amylder g6yr o wlad yr Eydal a dothoedynt ac yn yd oedynt yn aruthred ofyn arnadunt. ac gwedy kymryt kyghor o nadunt. Beli ar Brytanyeyt a drygassant y ymlad a gwyr Germanya. a Bran ae lu ynteu a kerdasant parth a Ruveyn y dyal arnadunt torry eu kygrheyr ac wynt.<sup>210</sup> Ac yn y lle g6edy gwybot o wyr yr Eydal hynny yn dyannot ymada6 a gwyr Germanya a wnaethant ac ymch6elut parth a Ruveyn. a cheysya6 blaen Bran kyn kaffael o hona6 eyste 6rth y gaer.<sup>211</sup> Ac gwedy mynegy hynny y Veli gal6 a oruc atta6 ei lu a hyt nos brysya6 a wnaeth hyt y mewn glyn a gavas o vlaen y elynyon y fford y deuynt.<sup>212</sup> Ac yno llechu a wnaeth ac arhos eu dyvodedygaeth a phan yd oed y dyd trannoeth yn dyvot gwyr yr Eydal a doethant hyt yr un lle h6nn6. Ac g6edy g6elet y glyn o nadunt yn echdygyunygu o arveu y gelynyon yn y lle kynhyrvu a orugant a thebygu y mae Bran ar Burg6yn6yr a g6yr Ffreync y gyt ac ef.<sup>213</sup> Ac yna eyssyoes yn dyannot eu kyrchu a oruc Beli yn dyssyvyt ac yn wychyr. Ac ny bu un gohyr yr Ruveynwyr g6edy eu damkylchynu yn dyssyvyt ac yn dyarveu dyarvot heb un urdas yn dypryt kan ffo ac ada6 y maes. Ac yna hep wared a hep trugared eu herlyt ac eu llad a wnaeth Beli hyt pan duc y nos lleuver y dyd y kanthunt ac na ellynt eylenwi y dechreuedygaeth honno.<sup>214</sup> Ac odyna gan wudugolyaeth y kyrch6s at Vran y vra6t yn trydyd yda6 yn ymlad ar kaer. Ac yna gwedy dyvot y deu lu ygyt yn dyannot o pob parth yr dynas ymlad ar dynas ar kaer a cheysyau y dystryw. A hyt pan vei mwy gwarad6yd undunt dyrchavael fyfych a g6naeth rac bron y porth a mynegy yr rey ym mewn mae yn yr rey hynny y crogynt eu gwystlon ony rodynt y dynas.<sup>215</sup> ac ys sef a wnaethant wynteu kan tremygu eu meybyon ac eu lwyryon a chynnal y dynas arnadunt ac eu hamdeffyn eu hun. ac o amravaelyon kelvydodeu a pheyranneu yn erbyn eu peyrarheuw ynteu. Gweythiau ereyll o pob kyvryw kenedloed ergydyeu yd ymledynt. Ac g6edy g6elet or brodyr hynny ennyynu o creula6n ag agar6 yrlloned a wnaethant ac hep annot pery crogy pedwar gwystyl ar rugeynt or rey bonhedkaf a dyledokaf o wyr Ruveyn. ac 6rth

hynny g6rthb6ythach a gle6ach 6uant y gwyr o veun kanyss kennaden Gabyus a Phorsenna rydoded attadunt a mynegy udunt y denynt wynteu trannoeth y nerth udunt.<sup>216</sup> ac arvaethu mynet or kaer allan ar rody kat ar vaes udunt. a phan ydoedynt yn gossot eu bydynoed ynachaf y ty6yssogyon hynny yn dyuot gwedy kynnullau eu gwascaredyc lu. Ac yn dyssyvyt kyrchu y Bwrg6yn6yr ar Brytanyeyt. Ac yn y lle ky6da6twyr a doethant or kaer allan. ac yn kyntaf gwneuthur aerva va6r o nadunt.<sup>217</sup> Ac eyssyoes gwedy gwelet or brodyr aerva yr rey trystau o peth a wnaethant. ac eyssyoer annoc eu kytemdeythyon ac eu kynnulla6 yn eu bydyn. ac yn vynyeh eu kyrchu ac eu kymell trachevyn y kylya6. Ac or dywed g6edy llad llawer o pob parth y 6udugolyaeth a kavasybrodyr. Ac gwedy llad Gabyus a Phorsenna y kaer a kymerassant a ebudyedyc sswllt y ky6da6twyr a rannasant y eu kytvarchogyon yn dytla6t.<sup>218</sup>

Ac gwedy kaffael y 6udugolyaeth honno Bran a tryg6s yn amhera6dyr yn Ruveyn yn darest6ng y pobyl o agklywedyc creulonder. A phwy bynnac a vynno gwybot y weithredoed ef ae dywed kanyss hystorya gwyr Ruveyn ae traetha. 6rth hynny y peydeys ynheu ac wynt kanyss gormot o hyt a blynder adod6n yn y gweythret h6nn pey yscryvenn6n. ac amada6 am arvaeth ac am gweythret vy hunan.<sup>219</sup> Ac yna yd ymchwel6s Beli hyt yn ynys Prydeyn. a thrwy hed6ch a thagnheved y gorfienne6s ef dywoed y 6uched ac y llywus y wlat. ac adnewydu a oruc y keyryd a atveylnt ac adeylat ereyll o newyd. Ac yn yr amseroed hynny ymplyth y weythredoed y lleyll ef adeylus kaer ar avon wysc ker llaw mor Havren yr hon a elwyt tr6y lawer o amser kaer wysc. a honno oed archescopy Dyvet. Ac gwedy dyvot gwyr Ruveyn yr ynys y dyle6t yr en6 h6nn6 ac y gelwyt kaer Llyon kanyss yno y pres6ylynt y gayaf.<sup>220</sup> Ac y gyt a hynny ef a wnaeth yg kaer Lundeyn ar lan Themys porth anryved y ky6reindr6yd yr h6n a eilw y saesson Belyn Esgat. Sef y6 hynny yg Kymeraec Porth Beli. ac ar warthaf h6nn6 y g6naeth Twr anryved y veynt ac y adana6 dyskynva yr llongheu addas y orffowys. ac y gyt a hynny atnewydhau kyvreythyeu ey tat em pob lle trwy y teyrnas o wastat wryoned. Ac en y oes ef kyn kyvoethoked wuant pa6n yn y kyvoeth o eur ac aryant ac na chynt na chwed y kyffelyp. Ac gwedy dyvot tervyn y wuched y vynet or byt h6nn ef a loscet y corff ae lud6 a kudu6yt em mewn llestyr eureyt ym pen y twr

raedygededyc ar ry wnathoed ef yg kaer Lundeyn a hynny o anryved kelvydyt.<sup>221</sup>

## GURANT VARYF TWRCH.

AG gwedy marô Beli yd urdet Gôrgant Varyf Twrch y vap yn y ol ynteu yn vrenyn. Gwr hynaôs prud. A thrwy pop peth erlyn a wnaey gweythredoed a gwyr-yoned a thagnheved a karey. a phan delynt y elynyon y ymlad en y erbyn glewder a kymerey a aghreyff y tat a chreulaôn emladen a dyporthey a chymell y elynyon a wnaey ar dyledus darestyghedygaeth. Ac ymplyth llawer oe weythredoed ef a damweynyôs brenin Denmarc yr hôn a taley teyrnget oy tat ef keyssyaô y attael racdaô ynteu a hep vynnû talu dyledus ufudyaeth ydaô. A thrôm y kymyrth Gôrgant hynny arnaô.<sup>222</sup> Ac yn y lle parattoy llyghes a mynet hyt en Denmarc ac o kaletaf ymladeu ef a ladaôd y brenyn ac a orescynnôs e gôlat ac ac kymhellôs ar y hen taledygaeth teyrnget ydaô.<sup>223</sup> Ac yn yr amser hônno pan ydoed yn ymchêlut adref gôdey e ôudugolyaeth honno trwy enysedd Orc ef a kavas dec llong ar rugeynt eu llaôn o wyr a gwraged ac gôdey govyn o honaô pale pan dewynt. ac ed hanoedynt o honaô ef a doyth Partholym eu tewyssaôc wynt ac adoly rac bron e brenyn ac erchy tagnheved a thrugared y ganthaô. A dywedôyt a oruc ry dyhol ae ry wrthlad o tervynueu er Hyspaen ae vot yn kylchynu ac yn crwydr-aô moroed yn keyssyaô lle y presswylaô ynthaô. ac erchy a oruc y ôrgant ran o enys Prydeyn y presswylaô yndy rac y vot yn godef tymhestyl a mordôy gweylgyoed a vey hwy. kany's blwydyn a hanner ar lythrassey yr pan dyholyessyt oy wlat ag yn gwybyaô trwy yr eigiaôn.<sup>224</sup> Ag gwedy gwybot mae or Hyspaen pan hanoedynt ac gwybot yr arch ed oedynt yn y hadolôyn ef a rodes kyvarôdydeyt gyt ac wynt y dangos y Werdon udunt yr hon a oed dyffeythôch yr amser hônno hep nep yn y chyvaredu. ar rody honno udunt. ac odyna anlhaû a thyvu a wnaethant yndy a gwledychu yndy yr hynny hyt hedyw. Ac gwedy eylesôy o ôrgant varyf tôrch dycuoed y vuched ef y gyt a tagnhefed a hedôch ef a kladôyt yg kaer Llyon ar Wyse yr hon gôdey marô y tat a lavuryssey ynteu y hanrydedu ai thekau o adeilyadeu a muroed a cheyryd arderchaôc.<sup>225</sup>

## CUELYN VAB GWRGANT.

GWEDY marô Gôrgant Varyf Tôrch y kymyrth Cuhelyn y vap ynteu llywodraeth y teyrnas yr hôn ac traethôs yn hygnaôs ac yn war hyt tra ôu yn y oes. a gwreyc vonhedyc doeth oed ydaô a elwyt o enw

Marsia a dyskedyc oed yr holl kelvydodeu. A honno ymplyth llawer o agklywedyc pethau a dychymyngôs oe phryaôc ethrylyth hy a kavas y kyvreyth a elwyt yr rwng y Brytanyeyt Martyan. Ar kyvreyth honno ymplyth petheu ereyll a ymchwelôs Alvryt vrenyn o Vrytanaec yn Saysnec ac a elôys Mechenlage.<sup>226</sup> Ac gwedy marô Cuhelyn llywodraeth y teyrnas a trygaôd yn llaô y raedywededyc vrenhynes honno. ac oy map a elwyt seyssyll. ac yn yr amser hônno seyth mlwyd oed seyssyll. ac wrth hynny nyt oed adas y oedran y llywodraeth y teyrnas. Ac o achas hynny kany's grymus o kyghor a doethinep y kymyrth y vam holl llywodraeth y kyroeth yn y llaw ehun. a phan aeth hytheu o lenver e wuched hon seyssyll a kymyrth coron y teyrnas. Gwedy Seyssyll Kynvarch y vap a doeth yn vrenyn. Ac yn ol Kynvarch y doeth Dan y vraô ynteu yn vrenyn. Ac yn ol Dan y doeth Morud y vap ynteu yn vrenyn a hônno dyrvaôr oed meynt y clot ae haelder pey nat ymrodey y ormod creulonder. A phan llyfey ny arbedey y nep yn y lladey o chaffey o arveu ac ergydeu y veynt honno. Ac y gyt a hynny tec oed o edrych arnaô a hael yn rody. Ac nyt oed yr eyl a vey kyn deuret ac ef yn y teyrnas or a alley ymkyverbynnieyt ac ef.<sup>227</sup> Ac yn y amser ef y doeth brenyn Moryan a llw mawr kanthaô yr gogled a dechren anreythyaô y gwladoed. Ac yn y erbyn y doeth Morud a holl kyunnulleytva ac yeuencyt y teyrnas oed eydaô ef ac yn dyannot ymlad ac ef. a mw y ladod ef ehunan nor rann wuyaf oe lô. Ac gwedy kaffael o honaô ef y ôudugolyaeth ny dyenghys un yn vyw nys lladey. kany's erchi a wnaey dwyn attaô yr un hôn yn ol y gylid hyt pan vey ehun a lladey ôll ac o hynny yd eylanwey yntê y creulonder. Ac gwedy blynaô o honaô gorffowys ychydyc a oruc a gorchymyn eu blyghaô yn vyw. ac gwedy blyghyet en llôsey. Ac ymplyth hynny a phetheu ereyll oy dywalder ae creulonder ef a doeth ac a damweynyôs ryw anthyghetven ydaô y dyal y enwyred arnaô. Ac ys ef oed hynny ryô vwystvyl a deuth y ôrth vor ywerdon. ac ny chlywyt eryroet kyvryv anyveyl y creulonder. a hono hep orffowys a lyghasey y tyr dywyllodron a pressôlyent ker llaô y weylgy. Ac gwedy klybot o Vorud y chwedyl hônno ef a deuth ehunan y ymlad ar bwystvyl hônno. Ac gwedy treulyaô o honaô eu holl arveu en over er enyveyl hônno ae savyn en agoret ae kyrchôs ac ae llyg hôs megys pycs bychan.<sup>228</sup>

## GORVYNYAWN.

PYM meyb hagen a anadoed yda6 a hynaf o nadun oed Gorvynya6n a h6nn6 a kymyrth llywodraeth y teyrnas. kany's nyl oed yn yr amser h6nn6 gwr ya6nach noc ef namwyl a karey gwyrnyoned nac a lywey y pobyl en karedygach. kany's gwastat oed y voes ae devodeu ac anyan. a dyledus anryded a taley yr Dwyweu. ac unya6n wrynyoned yr pobyl. a thrwy holl teyrnas ynys Prydeyn templheu y dwy6eu yn y dynassoed a atne6ydey ac ereyll o newyd a adeyley. ac yn y holl amseroed ef kymmeint a wu o amylder a ryodres yr ynys o verthed a golut ac nat oed nep un or ynnyssed yn y chylch a gyffelypyd ydy kany's annoc a wnaey y brenyn etyr dywollodron y dywylly6a6 y dayar ac eu hamdfffyn rac treys eu harglwydy. Ar gweysyon yeuync dewr ar ymlad6yr a kyv-oethogey o eur ac aryant a meyrch ac arveu hyt nat oed rey't y nep gwneuthur kam na threys ey gylyd. Ac er wrng y gweythredoed hyn a llawer o devodeu da ereyll talu dylhet yr anynan a oruc ac or lleuver hon ed aeth. ac yg kaer Lundeyn y clad-wyt.<sup>229</sup>

## ARTHAL.

A GWEDY Gorvynya6n y deuth Arthal y vra6t ynteu yn vrenyn. ac ym pop peth hagen gwrth6ynep oed y weythredoed y vra6t. kany's yr rey bonedyc ar dyleda6c a lavuryef eu eu hyst6ng ar rey anvonedyc anyleda6c a urdey ac a dyrchafey ar rey berthae6c a chyvoetha6c ef ae aureytheye a chynnulla6 anthervynedyc Swllt. Ac g6edy g6elet o wyrdu y teyrnas hynny ny allasant y dyodef a vey hwy. namyn en kytdunn kyvody yn y erbyn ae 6rthlad o kadeyr y teyrnas.

Ac urda6 Elydyr y vra6t yn vrenyn yr h6nn gwedy hynny o acha6s y trugared a wnaeth ac vra6t a elwyt Elydyr War.<sup>230</sup> Ac ys ef oed hynny gwedy y vot ef yn llywya6 y teyrnas trwy pym mlyned. dywyrna6t o damweyn yd oed yn hely yn fforest llwyn y Caladyr ef a kyvarvu ac ef Arthal y vra6t yr h6nn a dyhollyessyt or vrenhynyaeth. gwedy ry crwydra6 pob gwlad yn keyssya6 nerth a chanwrth6y y orescyn y gyvoeth trachevyn. a hep kaffael dym. A gwedy na alley a vey hwy dyodef yr aghenoctyt ar dodaed arna6 ymchwelut drachevyn y ynys Prydeyn a wnathoed. a dec marcha6c y gyt ac ef. ac yn mynet y owuy y gwyr rywuessyat kydemdeythyon neylltuedyg yda6 gynt ac yn kerdet trwy y koet h6nn6 y kyvarvu ac Elydyr y vra6t yn dyarwybot. Ac y gyt ac y gweles

Elydyr ef redec a oruc a mynet dwyla6 m6n6gyl yda6. a rody llawer o Cussaneu yda6. Ac gwedy wyla6 a chwyna6 yn hyr y trueny ae aghyferth ef ae duc cantha6 hyt yg Kaer Aleclud. ac ae kudyus yn y Castell.<sup>231</sup> a gwedy hynny dychymygu a wnaeth ei fot yn glaf. ac anvon kennadeu a wnaeth tros pob gwlat yn ynys Prydeyn. ac erchy y bawb or tewyssogyon a oedynt adana6 ef dyvot oe edrych. Ac gwedy dyvot o pawb hyt y dynas erchy a oruc y pob un ar neylltu dyvot atta6 oy ystavell yn tawel a hep ffrost. kany's a dywedei bot yn argywedus oy pen o delhynt llawer y gyt o nadunt. Ac ys ef a oruc pob un o nadun kredu hynny a dyvot pob un ol yn ol megys y harchassey. A megys y delhey pob un y gorehmynney Elydyr yr gwasanaeth6yr oed ossodedyc kantha6 y hynny kymryt pob un mal y delhey a llad y pen ony wrhacy eylweyth y Arthal y vra6t. Ac velly y gwnaey y pob un ar neylltu. Ac y velly yn yd oed kymherved ovyn y tagnhevedus pa6b ae vra6t.<sup>232</sup> Ac or dywed gwedy kadarnhau y kerennyd honno y rygthynt Elydyr a kymyrth Arthal y vra6t ag ae duc kantha6 hyt yg kaer Effrawe ac yno y kymyrth ef koron y ain pen ehun ae dody am penn y vra6t ac wrth hynny y kavas ynteu yr enw h6nn6 o hynny allan Elydyr War.<sup>233</sup> ac odyndec mlyned y bu Arthal yn gwledychu a pheyyda6 a wnaeth ar dryc devodeu a wuessyt arna6 gynt. ac odyndec allan anrydedu y bonedygyon ar dyledogyon ac estwng er rey anyleda6c a thalu y pawb y dylhet. Ac or dywed y bu varw ag yg Kaer Lyr e cladwyt.<sup>234</sup>

Ac yna yr eylweyth yd etholet Elydyr yn vrenyn. ac eyssyoes hyt tra ydoed ef yn erlyt gweythredoed a devodeu Gorvynya6n y vra6t yr hynaf yn holl daeony. y ddau froder yeuaf yda6 Iugeyn a Pheredur a kynnullasant llw mawr arva6c o pob parth ac a dechreuassant ymlad ac ef. Ac gwedy arveru o honunt or 6udugolyaeth wynt a dalyassant Elydyr War ac ac carcharassant ef mew'n Twr yg kaer Lundeyn. a gossot keytweyt oy kadw. ac cdyna yr rannasant hwyntey y teyrnas yn dwy ran yr rygthunt. ac ysef y dygwyd6s y ran Iugeyn o Humyr hyd y gorllewyn. Sef yw hynny Lloegy'r a Chymry a Chernyw. Ac yn rann Peredur y dygwyd6s o Humyr h6nt y gogled ar Alban oll. ac gwedy llythraw seyth mlyned marw wu Iugeyn ar teyrnas oll a dygwyd6s yn llaw Peredur. ac gwedy y vot yn vrenyn ar kwbyl o ynys Prydeyn ef ae llywya6d yn hygar

anrhydedus megys yd oed amlóc y vot yn well noy holl vrodyr kyn noc ef. ac na choffeyt kevey Elydyr rac dahet arglwyd oed Peredur. Ac eyssyoes kan ny wuyr agheu arbet y nep hy a deuth o dysswyvt reded ac a duc Peredur or wuched honn.<sup>235</sup> Ac yn y lle yna y kymerwyt Elydyr oy carchar ar trydewayth yd urdwyt ef yn vrenyn. Ac gwedy trewlyaó o honaó holl amser y wuched ef trwy holl daeony a yaónder a gwryoned or wuched hon yd aeth kan adaó agrheyffít gwarder y pawb or a delhynt yn y ol ynteu.<sup>236</sup>

Ac gwedy marw Elydyr War y death Rys vap Gorvynyaón yn vrenyn ac ewyther a evelychus ef o synnwyr a phurder a doethynep a pheyydaó a wnaeth ef a chreulouder ac erlyn gwryoned athrugared yn y pobyl. ac eyryoet ny chyveylyornes y gan lwybyr yaónder a gwryoned.<sup>237</sup>

GWEDY Rys y death Margan vap Arthal yn vrenyn a hónnó o dysc y ryeny a wnaeth yaónder ag a eglurós kenedyl Brytaen o weythredoed da.<sup>238</sup>

Ac yn y ol ynteu y death Eynnya yn y vraót a phell wu odiwrth anwydeu y vraót wu hónnó yn llywyaó y pobyl. Ac yn chwechet wlóydín y bórywyt ef allan oe vrenhynyaeth. kany pellau odiwrth yaónder a gwryoned a wnaeth. a rac deuyssau creulonder. yr hon ae bórywys ef or vrenhynyaeth.<sup>239</sup> Ac yn y le ynteu y death Ydwal vap Iugeyn y gar ef. yr hónn a emyavnhaós o aghreyffít Eynnyaón dilyet a yaónder a dywylleu.<sup>240</sup> Ac yn ol Ydwal y death Run vap Peredur. Ac yn ol Run y death Gereynt vap Elydyr. Ac yn ol Gereynt Cadell y vap ynteu. Ac yn ol Cadell Coel. Ac yn ol Coel Porrex. Ac yn ol Porrex Cheryn. Ac yr Cheryn hónó y bu trymeyp Fulgen ac Eydal ac Andryw a phob un or rey hynny a wledychós yn ol y glyld.

Ac odyna y death Úryen vap Andryw. Ac yn ol Úryen y death Eluid Klydaóc. Ac yn ol Kelydaóc y death Clytno. Ac yn ol Clytno y death Górwst. Ac yn nesaf y órwst Meyryaón. Ac yn ol Meyryaón Bleydud. Ac yn ol Bleydud Caph. Ac yn ol Caph y death Oweyn. Ac yn ol Oweyn Seyssyll. Ac yn ol seyssyll y death Blegywryt.<sup>241</sup> a hónnó ny bu yn yr oessoed na chynt noc ef nac gwedy kouyadur kystal ac ef ar rac dahet y caney ac y gwydyat keluydyt y mussyc y gelwyt ynteu Dyw y gwareu. Ac yn y ol ynteu y death Arthrael y vraót ynteu. Ac yn ol Arthrael y death Eydol. Ac yn ol Eydol y death Rydyon. Ac yn ol Rydyon y death Ryderch. Ac yn ol Ryderch y

death Sawyl Penysssel. Ac yn ol Sawyl y death Pyrr. Ac yn ol Pyrr y death Capoyr. Ac yn ol Pyrr y death Capoyr. Ac yn ol Capoyr y death Manogan y vap gur prud a hygnaós. Ac y ar pob peth unyaón wryoned yr rwng y pobyl a wnaey.<sup>242</sup>

#### BELY MAUR VAP MANOGAN.

Ac gwedy marw Manogan y death Bely mawr y vap en y ol ynteu yn vrenyn a deu ugeyn mlyned y gwledychós ar enys Prydeyn.<sup>243</sup> Ac yr Bely hónnu e bu try meyp Lléd a Chasswallaón. a Nynyaó. A megys y dyweyt rey or kyvaródyeyt pedweryd map a wu ydaó Llleuelys. A Llud oed hynaf or rey hynny. a hónnó gwedy maró y tat a kymyrth lywodraeth y teyrnas. Ac odyna y bu gogonedus adeylyaódyr keyryd a chestyll ef a atnewydós muroed Llundeyn. ac anryvedyc tyroed ac amkylchynós. Ac gwedy hynny a orchmynnós yr kywdawdóyr adeylat tey endy megys na bey en y teyrnassoed ym pell yn y chylch yn un dynas adeyladeu na they kymryt ac vey endy. Ac y gyt a henny ymladó da oed a hael ac ehelaeth yn rody bwyt a dy-aót y paób or ae keyssyey. a chet be llawer ydaó o keyryd a dynassoed honn a karey ef yn wóy noc yr un. ac yno yn honno y preswylley yr rann wóyhaf or wlwydyn. ac wrth hynny y gelwyt hy Kaer Lud. ac or dywed Kaer Lundeyn. ac gwedy dyvot estraón kenedyl y gelwyt hy Lyudyne neu ynte Lyndres.

LLEVELYS.<sup>244</sup> hagen a karey ef en wuyhaf oy vrodyr kany gwr prud a doeth oed. A gwedy klybot o Levelys varw brenyn Ffreync heb adaó ettyved namyn un verch ac adaó y kyvoeth en llaw honno. ef a death at Lwd y vraót ac erchy kyghor a nerth nyt na nwy yr lles ydaó ef namyn er keyssyaó chwaneu anryded ac urdas a theylygdaót y eu kenedyl o galley ef mynet y teyrnas Ffreync y erchy y vorwyn honno yn wreyc ydaó. Ac en e lle y vraót a kyt-synyós ac ef ac a vu da kanthaó y kyghor ar hynny. Ac yn y lle paratoy llogheu ac eu llenwy o varchogion en arvaóe a chychwyn parth a Ffreync. ac yn y lle gwedy eu dyskynnu anvon kennadeu a orugant y vyneg y wyrda Ffreync estyr y neges a dothoed oe cheyssyaó. Ac o kytkyghor gwyrda Ffreync ac tewyssogyon e rodwyt e vorwyn y Levelys a choron y teyrnas y gyt a hy. ac gwedy hynny ef a lywyós y kyvoeth yn prud ac yn doeth ac yn dedwyd hyt tra parhaus y oes

Ac gwedy llythraótalym o amser teyr gormes a dygwydós yn ynys Prydeyn. arnyryklywsey nep or hen oessoed gynt eu kyvryw.

KYNTAFOEDO nadun ryw kenedyl a doeth a elwyt Koraneys. a chymeint oed eu gwybot ac nat oed amadrawd or a kyvarffey y gwynt ac ef nys gwyppynt. ac wrth hynny ny ellyt un drwc udunt.

EYL oed diaspat a dodyt pob nos kalamey wrth pob aelwyt yn ynys Prydeyn. a honno a aey trwy kallonnoed y dynyon yn kymeynt ac y kolley y gwyr eu lliw ac eu nerth. E gwaged a gollynt eu beychyogy. ar mebyon ar merchet a gollynt eu synwyr. ar holl anyveilyeyt a adawey yn diffrwyth.

TRYDED oed yr meynt vey darmerth ar arlwy a parattoet yn llyssod y brenyn kyt bey arlwy blwydyn o w6yt a dya6t ny cheffyt byth dym o hona6 namyn a dreulyn yr un nos gyntaf. Ac eyssyoekyoed oed ac amlwg yr ormes gyntaf. ar dwy ormes ereyll nyt oed nep a wpey pa ystyr oed udunt. Ac wrth hynny mwy gobeyth oed kaffael gwaret or kyntaf nogyt or eyl neu or tryded.

Ac wrth hynny Llud Vrenyn a kymrth pryder ma6r a goval ynda6 kan ny wydyat pa fford y kaffey gwaret or gormessoed hynny. ac o kyffredyn kyghor y wyrda Llud vap Beli a aeth hyt at Levelys y vra6t brenyn Ffreync. kanys gwr doeth a ma6r y kyghor oed h6nn6 y keyssya6 kyghor y kantha6. Ac yna parattoy llyghes a wnaethant a hynny yn argel ac yn dysta6 rac gwybot or kenedyl honno ystyr y negys. nac o nep eythyr y brenyn ae kyghorwyr. Ac gwedy bot yn para6t y llyghes Llud a aeth udunt a dechreu holly y moroed. Ac gwedy klybot o Levelys y chwedleu hynny kany wydyat ef acha6s na neges llyghes y vra6t yn y lle ynteu a kynnull6s llyghes or parth arall dyrva6r y meynt. Ac a aeth ar y mor yn erbyn y vra6t. Ac gwedy gwelet o Lud hynny. ef a edewys y holl logheu ar y weylgy allan o eythyr un llong. ac yn yr un honno y deuth yn erbyn y vra6t. Ac yn y lle pan weles Llevelys hynny. ynteu y me6n un llong arall a deuth yn y erbyn ynteu. Ac gwedy eu dyvot ygyt pob un o nadunt a aeth dwyla6 m6n6gyl oy glyd ac o vrodrya6l karyat pob un a gressa6d yglyd o nadunt.

AG gwedy mynegy o Lud yda6 ystyr y neges y vra6t a dywa6t y gwedyat ehun pa acha6s ry dodoed yr gwladoed hynny. Ac gwedy hynny wynt a kymmerassant kyghor y ymdyan yn amgen no hynny megys nat elhey y gwynt am eu hamadrad a gwybot or Koranyeyt yr hyn a dywedunt. Ac yna y perys Llevelys gwneuthur corn hydr. ac trwy y corn dywedwyt. Ac gwedy bot yn bara6t y korn Llevelys a dywa6t 6rth y

vra6t y rodey ef yda6 ef ryw pryvet a gadu rey o nadunt yn vvw y hyllya6 rac ovyn damweinya6 eylweyth dyvot y ryu ormes honno a chymrvt ereyll or pryvet ac eu brywa6 ym plyth d6fyr ac ef a kadarnhaey bot yn da er rey henny y d6stryw kenedyl Koranyeyt. nyt amgen gwed yd elhey adre. oy teyrnasehungalw pawb y gyt oy pobyl er ag o kenedyl e Koranyeyt y un datlew y vynnau gwneuthur tagnhefed yr rygthunt. Ac yna gwedy delhey pawb ygyt kymrvt y d6fyr h6nn6ay v6r6 yn kyffredyn ar pa6b. Ac ef a kadarhaey y bydynt var6 y Koranyeyt yn kwbyl ac nad eidydgavey nep oe kenedyl ynteu ehun. Ar eyl ormes hep ef ysyd yth gyvoeth ty. dreyc yw honno. y dreyc arall estra6n kenedyl y syd yn ymlad a hy ac yn keyssya6 y gorsecyn. Ac wrth hynny rac llyt y dyt ych dreyc ch6y y dyaspat engrya6l honno. Ac val hyun y gelly kaffael gwybot hynny. messur yr ynys y hyt ae llet. ac yn y lle y keffych y pwynt perved yn ya6n par cladu y lle honno ac gwed hynny par dody kerwyn yn lla6n or med goreu a aller y wneuthur ym mewn y clad h6nn6 a llen o paly ar wynep y kerwyn ac gwedy hynny yth person dy hunan byd yn y gwyllya6. ac yna ty a wely y dreyygeu yn ymlad en ryth aruthyr anyveilyeyt. Ac or dywed yn ryth dreigieu yd ant yr awyr. Ac or dywed oll gwedy darffo udunt blynaw o engrya6l a gyrat ymlad wynt a syrthiant yn ryth deu parchell ar warthaf y llen ac a sudant. ac a dynnant y llen ganthunt hyt yg gwaela6t y kerwyn ag a yvan y med yn kwbyl. ac a kyscant gwedy hynny. Ac yna yn y lle plyka tytbeu y llenyneu kylch wy. ac yn y lle kadarnhaf a keffych yth gyvoeth ym me6n kyst vaen clad wynt a chud ym mewn y daear. a hyt tra w6ynt wy yn y lle honno ny da6 gormes y ynys Prydeyn o le arall.

ACHAUS y tryded ormes yw g6r lletrythauc kadarn y syd yn dwyn dy w6nt di ath darmertheu h6nn6 trwy y hwt ef ae letryth a wna y pa6b kyscu. ac wrth hynny y mae rey y tytheu y dy person duhunan gwyllya6 dy darmerth ath arlwy. A rac gorvot o kyscu arnat bit kerwyn yn lla6n o d6fyr oer ker dy law a phan vo kyscu yn treyssya6 arnat dos y mewn y kerwyn.

Acyna yd ymchwel6s Llud trachevyn oy wlat. ac yn dyannot y dyvynn6s ef pa6b yn llwyr oe kyvoeth ef ac or Koranyeyt. a megys y dyscdoeth yda6 brywa6 y pryvet a oruc ym plyth dwfyr a b6r6 h6nn6 ar pa6b yn kyffredyn. Ac yn y lle yr holl Koranyeyt yn llwyr a wuant var6 hep edygavael nep or Brytanyeyt.

Ag ym pen yspeyt gwedy hynny Llwd a perys messura6 yr ynys ar hyt ac ar y llet. ac yn Ryt Ychen y kavas y perved pwynt. ac yn y lle honno y peris ef cladu y dayar. ac yn y ffos honno gossot kerwyn yn lla6n or med goreu a allwyt y kaffael a llen o paly ar y wynep. Ac ef y hunan y nos honno wu yn wlyyat. ac val yd oed e velly ef a weles y dreygyeu yn ymlad. ac gwedy darvot udunt blyna6 a dyssygya6 yn ymlad wynt a dygwydassant yn y kerwyn ac gwedy darvot udunt yvet y med kyseu a wnaethant. ac yn eu k6se Llwd a plyk6s y llen yn eu kylch. ac yn y lle dyogelaf a kavas yn Dynas Emreys yn Eryry ym mewn kyst vaen y kwdy6s. ac evelly y peydy6s y dyaspat tymhestlus oe kyvoeth.

Ac gwedy darvot hynny y brenyn a perys arlwyta6 gwled dyrva6r y meynt. ac gwedy y bot yn bara6t ef a perys gossot kerwyn yn lla6n o d6fyr oer ker y llaw. ac ef ehun yn y pryaf6t person ae gwylly6s. ac val y byd yuelly yn gwyllya6 ef a klywey llawer o amravaelyon kerdeu a hun ag yn y kymell ynteu ar kyseu. Ac yn y lle sef a oruc ynteu rac y orthrymmu ef or kyseu a llesteyrya6 ar y darpar mynet yn y d6fyr a hynny yn vnych. Ac or dywed ynachaf g6r dyrfa6r y veiynt yn wyskedyc o arveu tr6m kadarn yn dyvot y me6n a chawell kantha6. ac megys y gnotaassey yr holl darmerth ar arlwy or bwyt ar llyn ym mewn y kawell. ac yn kychwyn yn y ymdeyth ac ef. ac yn y lle Llud vrenin a kychwyn6s yn y ol a dywa6t wrtho fal hyn. Arho ep ef arho kyt ry gwnelych ty sarrahadeu a cholledeu nyn kyn no hyn. nyt ey weythyn ony barn dy vylwryaeth yn trech ac yn dewrach no my. Ac yn dyanot ynteu a ossodes y kawell ar y lla6r ae arhos ef atta6. ac yna gyrat ac angerda6l ymlad a wu yr rygthunt. a newidia6 dyrnodien ar tan yn ehedec or kledyveu ac or arveu ereyll. ac or dywed y tyghetven ar rac weles damweynny6 y wudugolyaeth yr brenyn. kan w6r6 y ormess6r yr rygtha6 ar dayar. Ac gwedy gorvot arna6 o rym ac angerd erchy na6d a oruc. Ar brenyn adywa6t 6rtha6 ynteu pa wed ep ef y gallaf i rody na6d yty. gwedy y gniver gollet a sarrahet a wnaethost tytheu ymy. ac ynteu a dywa6t yn ateb yda6 ef dy holl kolledeu eyyoet or ar rywneuthum yty myvy ae hynnyllaf yn kystal ac y dygum. Ac o hyn allan my nys gwna6 y kyfelyp. ac o hyn allan g6r ffydlac6n vydaf hyt bellach. ar brenyn a kymyrth hynny y gantha6. ac y velly y gwaraf6 Llud y teyr gormes hynny y ar ynys

Prydeyn. Ac o hyny hyt yn dywed y oes yn hed6ch ac yn dedwyd y gwledych6s.

Ac yna or dywed gwedy mar6 Llud map Beli Ma6r y kudywyt y korff yg kaer Lundeyn ker llaw y porth a elwyr ettwa Porth Llud. ac yn Saysnec y gelwir ef Lwdys Gady. deu fap hagen a wuessynt yda6. Avarwy vap Llud a Theneuvan vap Llud. ar rey hynny urth nat oed oet arnadunt megys y gellynt llywyaw y teyrnas y gwnaethpwyt Kasswalla6u vap Beli y vra6t ynteu yn vrenyn. Ac yn y lle gwedy y urda6 ef o coron y teyrnas. ef a kymyrth ynda6 haelder a daeony a chlot a molyant yn kymeypnt ac yny ydoed y clot ef yn ehedec tros y gwladoed ar teyrnassoed ym pell y wrth-a6. Ac odyna gwedy damwennya6 yda6 ef yn kwbyl llywodraeth yr holl teyrnas ac nyt oy neyeynt. Eyssyoes Kasswalla6n a ymrodes y warder ac ny mynn6s bot y neyeynt yn diran or teyrnas namyn rody udynt a oruc ran va6r or kyvoeth. ac y sef a rodes y Avarwy vap Llud Kaer Lundeyn. a yarllaeth Swyd Geynt. ac y Teneuvan y rodes yarllaeth Kernyw. ac ynteu ehunan pennadur ar pa6b ac yn arweyn coron y teyrnas.<sup>245</sup>

Ac yn yr amser h6nn6 megys y keffyr yn hystoryacu gwyr Ruueyn gwedy darvot y Wlkessar gorescyn Ffreync ef a damwenny6s y dyvot ar lan Traeth Rwtlen. ac gwedy gwelet o honaw odyna ynys Prydeyn. govyn a oruc yr nep a oed yn eu gylch pa wlat oed honno. a pha kenedyl ae kyvanhedey. ac ae presswyllyey. Ac gwedy kaffael o honaw gwytob enw y teyrnas ar pobyl ef a dywa6t. Mwyn Herc6lff hep ef o un kenedyl henym ni yr Ruueynwyr ar Brytanyeyt kanys o kenedyl Tro y kerdassam ni. Eneas Ysgwydwyn gwedy dystriw Tro a wu hentat nyny yn kyntaf. ac udunt hwytheu y bu hentat Brutus vap Sylvyus Ascanyus vap Eneas. Ac onim twyllir i neu rydivonhedassant wy. kanys megys y tebygaf ny wdant wy dym y wrth vylwriaeth wrth y bot yn presswilya6 odyeythyr y byt ym mewn yr Eigia6n. Ac ysgavyn herwyd y tebygaf y byd eu kymmell wynt y talu teyrnget ac y eu gwneuthur yn tretha6l ac y talu gwestat wassanaeth yr Ruveynnyac6l teylygta6t. Ac eyssyoes ya6n yw yn kyntaf erchi udunt talu teyrnget y wyr Ruveyn kyn eu llaffurya6 nac ymlad ac wynt. megys y mae yr holl kenedloed ereyll o angylch y byt yn talu teyrnget udunt a darestyghedygaeth y Sened Ruveyn. rac kody o honam nynnheu hen vonhed Pryaf yn hentat ny

ae hen teylygta6t. kan ellwng eu gwaet wynteu megys y maent yn kereynt ynn. Ac gwedy anvou o Wlkessar yr amadrod-won hynny meun llythyr hyt at Kasswall-a6n llydya6 yn va6r a oruc ynteu ac anvon llythyr hyt at Wlkessar ar geiryau hyn yn y llythyr.<sup>216</sup>

KASSWALLAUN Brenyn y Brytanyeyt yn anvon annerch y Wlkessar ygyt ar amadrod hwnn. Anryved yw Wlkessar meynt chwant a chybydyaeth gwyr Ruveyn kanys rac meynt sychet arnadunt eur ac aryant na allant dyodef en bot ny megys odyeythyr y byt yn dyodef perygleu yr Eigia6n heb kan ryvygu kymell swllt a tretheu arnam. or lle a ar rykynnalyassam ny eiryuot yn ryd dydreth hed6ch hyt hyn. Ac nyt dyga6n gauthunt hynny namyn keyssya6 gwaret yn rydit. a mynna gosot tragy-ydda6l keythiwet kewyld yty Wlkessar yd wyt yn keyssya6 kanys kyffredyn gwythen boned y syd yr Brytanyeyt ac yr Ruveynwyr yn llythra6 y gan Eneas ar un ryw kadwynyn rac eglura6 kadarn kytmedeythas a dylzey yr rygthunt honno a dylnt y cheyssya6 ae erchy ynn. nyt kymbell keythywet arnam. kanys yr rydyt honno a ordyvnassam ny ac a dyscassom ny yr rody ae chynnal yn w6y noc arweyn gwed keythywet yn y veynt honno y gordyvnassam ny y chaffael ae medu hyt na wdam ar ufydhau y keythywet a honno hagen pey keyssynt y dwyweu y dwyn y kenham. ny a lavuryem yn y veynt y gallem or yn oll nerth oy hattal yn eu herbyn. ac wrth hynny Wlkessar byt etnebededyc yth dy osparth ty yn bot ny yn para6t y ymlad yth erbyn o cheyssy dy dyvot yr ynys honn megys yd wuyt yn goryvada6 dyvot ydy.<sup>217</sup>

AG gwedy gwelet o Wlkessar y llythyr h6nn6 yn dyannot parattoy y lyghes a oruc ac aros gwynt wrth eylenwy ey weythret yr hyn a dywedassey y Kaswalla6n trwy y llythyr ae kennadeu.<sup>218</sup> Ac gwedy kaffael o honaw ef y damwnedyc wynt dyrchavael hwylzeu a wnaethant ac yn Aber Themys y deuth yr tyr ae lu ganthaw ac val yd oedynt y llongheu yn kaffael y tyr ynaachaf Kaswalla6n a holl kedernyt ynys Prydeyn kantha6 yn dyvot y kastell Dorahel yn y erbyn. Ac yno y kymyrth kyghor y gyt ae wyrda pa wed yd ymledynt ac eu gelynyon a pha ansa6d y lludynt y kaffael y tyr. Ac yno y dothoed Bely pen teulu Kaswalla6n a tywyssa6c y vylwryaetha thrwy kyghor y gwr h6nn6 y gwneyt pob peth yn y teyrnas. ac yno hevyt y dothoedynt deu neyeynt y brenyn. Avarwy vap

Llwd tywyssa6c Llundeyn a Thenevan yarll Kernyw. yno hevyt y dothoedynt y trybrenyn a oedynt darestyghedyc ydau nyd amgen Creudu brenyn yr Alban a Gwerthaed brenyn Gwynd a Brythael brenyn Dyvet.<sup>219</sup> Ar rey hynny megys pawb ar rodes kyghor yn newyd y kyrchu gwyr Ruveyn kyn kaffael o nadunt un dynas nac un kastell ar dir ynys Prydeyn. ac y velly llafurya6 y keysya6 y gwrthlad ymdeyth. kanys o cheffynt wy dyvot ym plyth kedernyt e wlat. anha6s a dyrysach oed eu gurthlat. Ac yna o gyttundep kyghor pawb wynt a kyrchasant y traetheu yn y lle yd oed Wlkessar ae lu yn eu pebylleu. Ac gwedy gosot ynt y bydnoed o pob parth wynt a kymysasant eu deheuoed ac eu gelynyon. a newydyad dyrnodyeu ae gyld ac ergydyeu yn erbyn y lleyll. A hep un gohyr o pob parth y syrthynt yr rey brathedyc ar ergydyeu yn eu hymyscaroed. A chyn amlet yr redey y tywarchen or gwaet a chet bey dysyvyt deheuynt yn llynghu eiry yr mor.<sup>250</sup> Ac val ed oedynt y gwrthwynebedygyon vydynoed yn kymyscu ef a damwenny6s trwy y tyghetven kyvarvot Nynnya6 ac Avarwy vap Llud a gwyr Llundeyn ar rey swyd Keynt yd oedynt wynteu yn tywysogyon arnadunt kyvarvot a bydyn yr Amherawdyr. Ac gwedy eu kymyscu ygyt yr amherodra6l vydyn hayach a wascar6s rac y Brytanyeyt o tew vydyn yn eu kywarsangu. Ac gwedy eu bot plyth traphlyth yn deudplygu dyrnodyeu. y damweyn a rodes fford y Nynnya6 y kaffael ym6rya6 ar Amerawdyr. Ac wrth hynny kan dyrvaur o lewenyd y kyrchu a wnaeth Nynnya6 kanys mwyno llawen oed kantha6 kaffael rody un dyrna6t yr ryw wr h6nn6. Ac y gyt ac y gweles Wlkesar ef yn y kyrchu y taryan yn kyvlyn a derchevys yn erbyn y dyrna6t. Ac yn veynt y gadus y nerthoed yda6 ef a ossodes ae kledyf ar Nynnya6 ar y penffestyn. ac yn y lle dyrchavael y kledyf a oruc a cheysya6 yr eil dyrna6t ar e kyntaf hyt pan alley rody agheua6l dyrna6t yda6. Ac megys y gwyl Nynnya6 ef a dodes y daryan yn erbyn y dyrna6t. Ac yna eysyoes y tryga6d kledyf Wlkesar ym pen Nynnya6. ac ny all6s ef kaffael tynnu y kledyf rac kaletet y w6rwydyr kan y bydnoed yn ymkymyscu ac yn newydyad agheuolyon dyrnodyeu.<sup>251</sup> Ac wrth hynny Nynnya6 a kymyrth kledyf Wlkesar ac a w6ry6s y kledyf ehun y 6rtha6. a chledyf yr Amherawdyr yn y law y ruthr6s ef y elynnyon. a phwy bynnac a kyvarffey ac ef ar kledyf h6nn6 y trawey. ar neyll a vydey a llad y pen y



arna6 ae ynteu ef vynet yn vrathedyc megys na bey un gobeyth o honaw. Ac val yd oed Nynnya6 ar wed honno yn dywalhau yn erbyn y elynyon ynachaf Labienus tywysa6c yn kyvarvot ac ef ac yn y lle ar y kyvranc kyntaf Nynnya6 ae llada6d. Ac eysyoes gwedy llythraw yr rann w6yha6 or dyd y Brytanyeyt o kywar-sangedygyon vydnoed a dugynt ruthreu glew kalet a Dw6 yn y kanh6rthwya6 y wudugolyaeth a damweny6s udunt. Ac Wlkesar a kymyrth y logheu ae pebylleu ae luesteu yn kedernyt yda6. Ac gwedy dyvot y nos ef a kyweyrws y longheu ac a aeth yndunt. Ac a wu lawen kantha6 kaffael y mor yn lle kastell yda6. Ac gwedy kyghory oe kytemdeythyon yda6 na chynhalyey ymlad ar Brytanyeyt a vey hwy. ef a wu wrth eu kyghor ac a ymchwel6s trach y kevyn parth a Ffreync.<sup>252</sup>

Ag gwedy hynny Kaswalla6n acha6s y wudugolyaeth honno gygt a dyrva6r lew-enyd a tal6s dyolch dredeu yr D6wyweu ac galw atta6 y kytymdedythyon ar kytlavuryessynt ac ef. ac yn herwyd breynt pob un ae lavur talu udunt eu gwasanaeth o amllhaf rodyon. ac or parth arall govalus oed kanys Nynnya6 y vra6t oed yn vrathedyc ac yn pedrus am y vyw. kanys Wlkesar yn y vrwydyr a rodassey dyrna6t hep allu medegyngyaeth yda6. Ac or dyrna6t h6n6 kyn pen y pymthevet dyd gwedy e vrwydyr y bu varw. ac yg Kaer Lundeyn ker llaw porth y gogled y cladwyt y gyt a brenhynya6l arwilyant. Ac y gyt ac ef yn y bed y dodassant y cledyf a dugassey ynteu y gan. Wlkesar pan ymladassey ac ef. ac esef oed enw y cledyf h6n6 Agheu Coch. kanys pwy bynnac a archollyt ac ef ny hydey byw.<sup>253</sup>

Ag gwedy ymchwelyt o Wlkesar y keuyn ar ffo a dyseynnu o hona6 ar traeth Ffreync medyla6 a wnaethant y Ffreync gwrthwynebu yda6 a mynnu gwrthlad y arglwydyaeth y arnadunt. kanys a tebygint y vot yn wannach megys na bey reyrd udunt y ovyn ef arnadunt. kanys chwedleu kyhoed a dywedyt ym pob lle bot y mor yn kyvlawn o lyghes Kaswalla6n yn erlyt Wlkesar. Ac wrth hynny glewach yr ymrodynt y keysya6 gwrthlad Wlkesar oc eu tervyneu wynt.<sup>254</sup> Ac y gyt ac y gweles Wlkesar hynny ny mynn6s ef mynet ym petruder ymlad ac wynt. namyn agory y trysor a oruc ar rody da yn dyvessur y pob un ar neylltu o nadunt. ac yvelly y dwyn yn tagheved ac yn un ac ef. Ac y gyt a hynny yr pobyl adau rydyt. ac yr rey rykollassey tref eu tat y hynnyll udunt.

Ac yr keyth adau rydyt. ar gwr a oed kynt yn dywal megys llew. yn awr megys oen gwar yn llawen yn talu yr eidaw y pawb. ac ny orphwyss6s ef wneuthur y clayar dredeu hyny hyt pan dagheved6s ef pawb ac eu dwyn yn un ac ef a chaffael y arglwydyaeth arnadunt megys kynt. ac yna eysyoes nyt aey un dyd heyb6a6 hep koffau budugolyaeth y Brytanyeyt a ffoed-ygaeth Wlkesar a hynny kan y watwared-lygaeth.<sup>255</sup>

Ag gwedy llythra6 dwy vlyned parattoy eylweyth y lyghes a oruc Wlkesar vrth vynet tros yr Eigia6n y keysya6 dyal y sarahet ae kewlyd ar Kaswalla6n ac ar y Brytanyeyt. Ac gwedy kaffael o Kaswalla6n gwybot bot yn wyr hynny. kadarnhau y keyryd ar kestyl ar dynasoed. ac eu atnewydu yr rey a atveyley o nadunt. a gosot marchogyon arva6c y eu kad6 a wnaeth. ac ym pob pryf borth yn amkylch yr ynys gosot gwyr arva6c a oruc y eu gwylya6 ac y eu gwarchadw. ac eithyr hynny ar hyt kana6l Themys y flord yd hwylt parth a Llundeyn ef a perys gwneuthur polyon heyrn kyn vrasset. a mordwyt gwr. ac eu plymmu. a gosot er rey hynny a dan d6vyr a phan delhynt y llongheu megys yd elhey yr rey hyuny trwydynt ac y peryclynt o hynny. ac gwedy darvot hynny kynnullu a wnaeth Kaswalla6n holl yewenctyt yr ynys ag ygkylch yr arvordyr arhos dyvodedygaeth Wlkesar ae lyghes kantha6.<sup>256</sup>

Ag gwedy darvot y Wlkesar parattoy pob peth or a oed reyrd yda6 ef a kychwynn6s ar y mor y gyt ac aneyryf amylder marchogyon kan darmerth ac awyda6 gwneuthur damwnedyc aerva o Brytanyeyt. a hynny hep amheu a wnathoedynt pey rydelhey eu llyghes yn yach ganthunt yr tyr ac wrth hynny ny all6s ef dwyn y dyhewyt ar weythret. kanys hyt tra yd-oedynt yn hwylya6 ar hyt kana6l Themys yn kyrchu parth a Llundeyn yd aethant eu llogheu ar y polyon heyrn ar ry dywed-asam ny wchot. a chan yr rey hynny y dyodefasant dysyvyt perygl agheua6l hyt pan vodosant hyt ar vlyoed o varchogyon. kanys gwedy tyll y llongheu ar y polyon heyrn hynny y deuth d6fyr ym mewn a sudau y llongheu a dan y weylgy. Ac gwedy kaffael o Wlkesar gwybot hynny y gyt a dyrva6r o lavur ac govut trosy yr hwylyeu a orugant parth ar tyr ar rey a wuesynt yn y veynt perygyl honno ac a ka6sant o vreyd y tyr. a phan weles Kaswalla6n y ar lan y dymhestyl honno arnadunt llawenhau a oruc o achos

body y saól a vodes o nadunt a thyrstau o achafs dyane yr rey ereyll. ac gwedy rody arwyd o honaó oy kytvarchogyon kyrchu yr Ruveynwyr a wnaethant yn dyannot. Ac ys ef a orugant gwyr Ruveyn eysyoes kyt ry kyvarffey perygyl ac wynt ar avon y gyt ac y kaóstant y tyr yn óraól górhwynebu yr Bryttannyeyt. achymryt euglewder yn lle mur y eu hamdyffyn. ac aerva dyrvaór y meynt a wnaethant or Brytaneyt. Ac eysyoes mwy wu yr hon a kaóstant nor hon a wnaethant kanys llawer a vodes o nadunt. ac urth hynny lley oed eu nyver. Ar Bryttannyeyt pob aór mwyróy vydey eu llw. kanys o pob lle yd ymkyanullynt a mwyvóy teyrgweyth oed eu nyver. ac órth hynny y kan gwanhau yr rey ereyll y kaóstant wynteu y wudugolyaeth. Ac gwedy gwelet o Wlkesar ry orvot arnaó y gyt ac ychydyc oy nyver yd aeth ar flo yn y longheu. a chymryt dyrgelóch y mor ynn amdyffyn ydaó. Ac gwedy kaffael gwynt hyrýd o honaó dyrchavael hwylýeu a hwylýaó hyt yn traeth Moryan. ac yno yd aeth ym meón kastell ar ry wnathoed rac ovyn kyvarvot ac ef y kyffryw danaweyn ar ry kyvarvuassey gynt ac ef y gan y Bryttanyeyt. Ac ysef y gelwyt y kastell Odnea. Ac ys ef achafs y gwnathoed rac ovyn ymchwelut or Ffreynce arnaó yr eylweyth o delhey ar flo y órth y Bryttanyeyt megys y weyth arall. Ac wrth hynny rywnathoed ynteu y kastell hónnó megys y galley ynteu górhóynebu y wrth pwyth pobyl honno o cheysynt wrthwynebu ydaó megys y keysynt gynt.

AG o achafs kaffael o honaó y wudugolyaeth yr eylweyth y ar Wlkesar Kaswallaón a kymyrth dyrvaór o lewenyd yndaó ac a ynvynós gwys tros pob lle yn nys Prydeyn y erchy eu holl wyrda dyvot hyt yn Llundeyn ac eu gwraged y gyt ac wynt y talu gwylýaól anryded dyledus y eu tadolyon dwyóeu. tróy yr rey ry kaósynt budugolyaeth or veynt Ruveynnaó! Amheraódyr hónnó. ac gwedy dyvot paób heb waradrygyant amravaelyon aberthau (a orugant ac y ladedygaeth yr annyveylyeyt yd ymrodasant. ac yna.) a wnaethant deu ugeyn myl o warthec a chan myl o deveyt. ac o amravaelyon kenedloed adar y saól ny ellyt yn haóf y ossot yn ryf. Eithyr hynny deg myl ar rugeynt o amravaelyon koedolyon bóystviled. Ac yn y lle gwedy darvot udunt perffeythyaó eu anryded yr dwyóeu or gwedyllýon ar gormodyon wynteu ehuneyn a wóytasant megys y gnotteyt yn y wyr ryó abertheu hynny. Ac odyna yr hyn a wedyllus or nos ag or

dyd kanthunt wynt ac trewlyasant trwy amravaelyon wareeu. Ac ym plyth y gwareeu hynny ef a damwennyós deu was yeueynce arderchaó. y neyll o nadunt yn ney yr brenyn ar llall yn ney Avaróy vap Llwd kynhennuyn gware palet. ac or dywed llydyaó am y wudugolyaeth. Ac ysef oed enw ney y brenyn Hyrlas. ac enw y llall Kuhelyn. ac enw y llall Kuhelyn. ac gwedy ymlydyaó ac ymkywethyl yskylvu cledyf a wnaeth Kuelyn a llad pen Hyrlas ney y brenyn. Ac gwedy y lad kynhyrvu a oruc y llys oll. ac ehedec y chwedyl at Kaswallaón a llydyaó a chyffroy yn vaór a oruc achafs lladedygaeth y ney. Ac erchy a wnaeth i Avarwy rody Kuelyn y dyodef kyffreyth y llys arnaó rac mynet Hyrlas yn didial os kam y lledesy. Ac gwedy gwelet o Avaróy bot bryt y brenyn yn kyffroedyc yn y erbyn pedrusaó a wnaeth rody y ney yn y ewyllys a dywedwyt bot llys ydaó ef. ac yn y lys ehun y dywedey ef delyw o honaó ynteu rody yaón ac kymryt o paób or a vynhey yaww oy wyr ef. Ac wrth hynny os keysyaó yaón a vynhey ef y gan Kuhelyn. ef a dywedey y mae yn ey llys ef yn Llundeyn y dylley ef gwneuthur yaww tros y ney. a hynny o vreynt a hen dyllet yr kynhoes yr hen wyrda. Ac gwedy gwelet o Kaswallaón na chaffey yaón órth y vynnu ae ewyllys gogyvadaó a thyghu y Avaróy a wnaeth yd anreythye ynteu y kyvoeth ef o tan a haearn ony delhey wrth y ewyllys. ac odyna trwy lýt a bar býsyaó a oruc Kaswallaón y anreythyaó kyvoeth Avarwy hagen peunydt trwy kytyndeythyon a charant yn keysyaó arafhau yrloned y brenyn. a cheysyaó madeueynt y kanthaó. Ac gwedy na alley ef nep fford yn y byt kaffael lleyhau llyt y brenyn medylýaó a oruc pa fford y galley ynteu gwrthwynebu yr brenyn a daly yn y erbyn. Ac or dywed gwedy nad oed fford arall ydaó y galley ef gwrthwynebu ydaó. ef a anvones kennadeu hyt ar Wlkesar a llythyr ganthunt ar synhwyr hon yndunt.<sup>257</sup>

Y WLKESAR. Avarwy vap Llwd tywysawc Llundeyn yn anvon annerch. a gwedy damunedyc agheu damunedyc yechyt a bwched. Edyvar kenhyf y daly yth erbyn di hyt tra vuost di yn kynhal ymladeu yn erbyn vy mrenyn y kanys pey peytón y tydy a orvuasut ar Kaswallaón y gwr gwedy y veynt wudugolyaeth honno a kavas trwy vy nerth y a kymyrth y veynt syberwyt yndaó hyt pan edyw yn keysyaó hynytrefadu y am dykyvoethogy am dyhol om kyvoeth a gorescyn ydau

ehun vygkyvoeth. Ac gwybyd ty nat y velly y dylzey talu y my. myvy yn y kyvoethogy ef. ac ynteu ym dygyvoethogy ynheu. kany myvy yn kwbyl yn ymlad yth erbyn dy. a wnaethum y pethau hyn oll yda6. a mynheu y tyghaf y kyvoethau nef a dayer hyt na heydeys y onyt na rod6n y ve ney y dyodef bra6t y lys ef arnaw. Ac yn y vo goleuach ac eglurach yth doethineb dy acha6s y wryoned. gwrandad dy a my a datkanaf yt yr acha6s y mae y var arnaf y. Gwedy kaffael o honad ef y veynt wudugolyaeth honno trwy vy nerth y. y gwnaetham nynheu gwlyawl lewenyd ac anryded y en tadolyon dwy6eu. ac gwedy perffeythya6 o honam ny pob peth or a perthyney ar e dwy6eu. y damweny6s y rwng deu neyeynt yn tyvu kyvrysed am wudugolyaeth gwarae palet. Ac gwedy kaffael om ney inheu y wudugolyaeth ennyu a oruc y llall o enwyr ylloned a dyspeyla6 cledyf a cheysya6 llad pen vy ney ynheu. ac ys ef a oruc ynteu gochel y kledyf ac yn y kyvrysed h6nn6 eysyoes syrthya6 ney y brenyn ar y cledyf ac y bu var6. Ac gwedy kennatau hynny yr brenyn. gorchymyn ac erchy y mynheu rody ve ney y dyodef brawt y lys ef yn dyal y ney ynteu. Ac gwedy nas rod6n ve ney yn y ewyllys ef e deuth ynteu ae holl lw kantha6 am pen ve kyvoeth ynheu ae anreythya6 ae losky. ac wrth hynny yd wyf ynheu yn erchy de trugared ty. ac yn keysya6 porth a nerth y kenhyt ty y keysyaw ve kyvoeth ymytrachevyn hyt pan vo trwy ve nerth inheu am porth y gellych tytheu goreskyn ynys Prydeyn. Ac o hyn na phedrwsa dym kany nyt oes dym twyll na brat yn yr amadrawd h6nn. <sup>253</sup>

Ac gwedy darlleyn y llythyr h6nn6 rac bron Wilkesar kyghor a kymyrth y gan y anwlyeyt hyt na chreley ef oy over amadrad ac nat aey ef y ynys Prydeyn ony chaffey ef gwystlon a vey da kantha6 hyt pan vey dyogelach kyrechu ynys Prydeyn. ac wrth hynny Awarwy vap Llund a envyngs Kynan y vap ac gyt a hynny dec gwystyl ar rugeynt o veybyon y gwr bonhedykaf yn y kyvoeth oe anwlyeyt ae katant. <sup>259</sup> ac gwedy rody y gwystlon yn hyfryt Wilkesar a kynnull6s y lw ac a kyweyry6s y lyghes. Ac yr y gwunt kyntaf y dyskynu6s ym Porth Rwyntun. ac yn yr amser hunnu yd oed Kaswallad yn dechreu ymlad a Chaer Lundeyn ac yn anreythya6 y gwladod ym y chylch. Ac y gyt hagen ac y kygleu ef rydyvot Wilkesar y dir ynys Prydeyn ymada6 a wnaeth ynteu a Llundeyn a brysya6 a oruc yn erbyn yr

amheradryr ac gwedy dyvot o honad hyt ger llaw glyn oed yn agos y gaer Keynt ef a weles yn y lle honno gwyr Ruveyn ac eu pebyllen ac eu lluesteu gwedy rydyskynnu yn y glyn h6nn6. kany Awarwy vap Llund ae dugasse y hyt y lle honno wynt y keysya6 dwyn kyrech nos yn dirybud am penn Kaswallad. <sup>260</sup> Ac yna heb un gohyr gwedy gwybot or Ruveynwyr bot y Brytanyeyt yn dyvot yn dyanot gwysca6 amdanyt a wnaethant eu harveu a gossot eu marchogyon yn vydynod. Ac yna yd aeth Awarwy vap Llund a phym myl o wyr arva6c y gyt ac ef ac ym mewn llwyn koet oed yn agos udunt ymkudya6 yn h6nn6 hyt pan vey odyo y galley gwneuthur nerth a chanwrthwy y Wilkesar. <sup>261</sup> Ac gwedy darvot yr Brytanyeyt or parth arall gwysca6 am danynt am ympery nyt annodassant o pob parth newydya6 agheuolyon dymodyeu. ymkyrchu a wneynt y bydynoed ac ellwng y gwaet y redec. ac o pob parth y syrthyt y kalaned yn veyrw megys y syrthyt y deyl y ar y gwyd mys Hydref pan vey va6r y gwunt. Ac val yd oedynt y felly yn ymlad ynachaf Awarwy vap Llund ae vydyn kantha6 yn kyvody oy lechva. ac or tu yn ol yn kyrechu bydyn Caswallad yr hon oed yn kynhal kedernyt y Brytanyeyt. ac ar rydarod y Ruveynnya6l vydyn y anreythya6 or ran va6r o honey ac ar aurhon heb allel sevyll yn erbyn y chytywta6twyr. ac wrth hynny kymryt ffo a orugant wy ac adad y maes. Ac yn agos y hynny mynyd oed ac ym pen y mynyd llwyn o coll tew a oed. ac yno y ffoes Kaswallad ae wyr gwedy y dygwyda6 yn y ran wannaf or ymlad. <sup>262</sup> Ac gwedy kaffael o honad ef gorwchelder pen y mynyd yn bra6l kynhal h6nn6 a orugant a gwneuthur agheu y lawer o eu gelynyon. kany eu herlyt a wnathoddynt yr Ruveynwyr ac Awarwy vap Llund wynt gan vywau eu bydynoed avyn vynyth y keyssynt kyrechu ar eu torr yr mynyd ac nys gellynt. kany kerrye y mynyd ae oruchelder a oed amdyffyn yr Bryttanyeyt a llesteyr yr gelynyon. oc o pen y mynyd y gwneynt y Bryttanyeyt aerva dyrva6r y meynt oc eu gelynyon. <sup>263</sup> Ac wrth hynny sef a wnaeth Wilkesar kylychynu y mynyd ae lw a mynnu gwarchae Kaswallad yn y lle honno hyt pan vey rey yda6 ae ymrody yn ewyllys yr amherawdyr ae ynteu y warchae yna hyt pan vey var6 o newyn. <sup>264</sup> Oy a Dyw anryved kenedyl y Bryttanyeyt yr rey dwyweyth a kymhelasant Wilkesar amherawdyr Ruveyn ar ffo. y gwr y daroed yda6 darestwng a gorescyn yr holl vy

wrth y gyghor. ac yr gwr ny allus yr holl-vyt gwrthawynebu yda6. ar Brytannyeyt eyssyoes ar ffo oeddynt yn gwrthwynebu yda6 ef. ac yn para6t y dyodef agheu tros eu gwlat ac eu rydyt. ac urth hynny y kant Lucan ym molyant y Brytannyeyt or Kessar. Ef a dangossos y ergrynnedyc kevnoed yr Brytannyeyt.<sup>265</sup> Ac yna gwedy llythra6 yspeyt deuyd gwedy nat oed y Kaswalla6n na bwyt na dyawt ovynhau a wnaeth gorfot arna6 ymrody ygkarchar Wlkesar, ac wrth hynny anvon a oruc Kasswalla6n kennadeu hyt at Avarwy vap Llud y erchy ydau ef y tagnhevedu ef ac Wlkesar rac ovyn kolly breynt y kenedyl ed hanoed o honey. ac y gyt a hynny hevvt mynegy a wnaeth yda6 kyt ryveley ef ar y kyvoeth ef hyt na mynney ef eyssyoes y agheu ef er hynny.<sup>266</sup> Ac gwedy datkanu or kennadeu hynny y Avarwy. ynteu a dywa6t val hyn. Ny dyleyr karu y twysa6c a vydey araf a gwar en ryvel megys oen ac ar ei hed6ch a vyd dy6al megys llew. Oy a dwy6eu nef a dayar vy arglwyd y e gwr a oed kyn no hyn yn medu o honaf ac arawrhon y mae yn erchy y my y tagnhevedu ef ar amherawdyr. yr h6nn a vuassey damunet kantha6. kyn no hynny kaffael tagnheved y kantha6 ef. Ac wrth hynny y deley ynteu anrydedu ac aryneyga6 y gwr a kymmell6s y gyt ac ef amherawdyr Ruveyn oe kyvoeth ac eylchwyl a all6s y dwyn trachevyn. Ac wrth hynny ny deleyt gwneuthur kam i mynheu y gwr a alley yna gwneuthur y gwassanaeth h6nn6. ac ar awrhon a allaf y tagnhevedu ynteu ar amherawdyr. Ac wrth hynny an doethynep yw yr tewysa6c gwneuthur kodyant a sarhaet oy varehogyon ef. trwy er rhey y kaffo ynteu y wudugolyaeth. kanys nyt y tywysa6c pyeu y wudugolyaeth namyn gwyr a clyngant eu gwaet yn ymlad trostaw. Ac eyssyoes my ae tagnhevedaf ef ar amhera6dyr kanys o gwnaeth ef sarhaet ymy dyga6n o ya6n kenhyf ynheu y vot ef yn erchy vy'n trugared ynheu.<sup>267</sup>

Ac yn dyannot yna kyodi a oruc Avarwy vap Llud or lle yd oed a brysa6 a oruc hyt y lle yd oed Wlkesar a dygwyda6 ar tal y lynyeu a oruc rac bron yr amhera6dyr a dywedwyt wrtha6 ar y wed hon. Arglwyd hep ef dyga6n ar rywnaethost di o dyal ar Kaswalla6n gwna weythyon trugared ac ef. Pa peth a keysy dy kantha6 amgen noc uvudyaeth y ty a thalu teyrnget y wyr Ruveyn o ynys Prydeyn. Ac yna gwedy na rodey Wlkesar yn atheb yda6 ef. Avarwy eylchwyl a dywa6t val

hyn. hyn hep ef a adeweys i yty. ac amvodeys a thydy. sef yw hynny darestwng Kaswalla6n a gorescyn ynys Prydeyn wrth dy kyghor di. llyma hynny wedy rywneuthur. llyma Kaswalla6n yn dares-tyngedyc. llyma ynys Prydeyn o kanurthwy y gwedy y gorescyn. pa peth a dylaf y wneuthur yn amgen no hynny yty. nyt ef a wnel crea6dyr pob peth ymy gwedy y gwelhwyl y vy ewythr y. am arglwyd vrenyn yn erchy yn trugared i. ac yn gwneuthur ya6n y my or sarhaet a wnaeth ef ymy. dyodef o honaf ynheu byth y karcharu ef a myvy yn vyw. Nyt yskavyn llad Kaswalla6n neu y karcharu a myfy yn vyw. kanys nyt kewlyd kenhyf y rody vy kannh6rthwy am porth am nerth yda6 ef ony bydy ty wrth vy kyghor ynheu am dana6 ynteu.<sup>268</sup> Ac wrth hynny yna rac oyn Avarwy Wlkesar a kymyrth ky-tuhundep a thagnheved a theyrnget bob blwydyn y gan Kaswalla6n o enys Prydeyn. Ac ys ef oed eyrif y teyrnget a delyt or enys hon y wyr Ruveyn pob blwydyn teyr myl o punhyoed aryant. Ac o hynny allan kydymdeythyon vuant Wlkesar a Kaswalla6n vap Bely kan rody o pob un o nadunt oy kylyd amravaecylyon rodyon a dilyseu. Ac yna y gayaf h6nn6 y tryg6s Wlkesar yn ynys Prydeyn.<sup>269</sup> A phan dechrewys y gwayanh6yn dyvot yd aeth trwy y mor hyt yn Ffreync. Ac odyna gwedy hynny ym pen yspeyt kynnulla6 llw mawr a wnaeth o pob lle a mynet hyt yn Ruveyn yn erbyn Pompeyus y gwr oed yn kynnal yr amherodraeth.<sup>270</sup>

Ac odyna gwedy llythra6 yspeyt seyth mlyned y bu varw Kaswalla6n. ac yg kaer Efrawe y cladwyt<sup>271</sup> ac yn ol Kaswalla6n y gwnaethpwyt Teneuvan vap Llud y ney ynteu vap y vrawt yn vrenyn yarll Kernyw oed h6nn6. kanys Avarwy vap Llud ry athoed y gyt ac Wlkesar parth a Ruveyn. ymlad6r a ryfel6r da oed Teneuvan a gwr oed a karey yawnder a gwryoned ac ae gwney a pha6b.<sup>272</sup> Ac yn ol Teneuvan y gwnaethpwyt Kynvelyn y vap ynteu yn vrenyn. Marcha6c gwyehyr oed h6nn6 ac amhera6dyr Ruveyn ae magassey ac a rodassey arveu yda6. Ac wrth hynny kymmeynt oed kantha6 karyat gwyr Ruveyn a chyt galley ef attael eu teyrnget racundt hyt nas attaley.<sup>273</sup>

Ac yn yr amser yd oed Kynvelyn vap Teneuvan yn vrenyn yn yr ynys hon y ganet Iesu Grist yn Arglwyd ni. y gwr yr y wyrthvaur waet ef a prynn6s kenedyl dyn o keythywet agahana6c dyaful.<sup>274</sup> Ac gwedy gwledychu o Kynvelyn ynys Pry-

deyn trwy yspeyt dec mlyned y ganet deu vap yda6. Sef oedynt yr rey hynny. Gwydyr oed y map hynaf yda6. a Gweyryd oed y llall. ac or dywed gwedy y ylenwy o Kynvelyn dyeuoed y wuched ef teyrn gwyalen y kyvoeth a llywodraeth y teyrnas a digwyd6s yn llaw Gwydyr. Ac gwedy attael or Gwydyr hwinn6 teyrnget a deley y talu y wyr Ruveyn ef a deuth Gloew Kesar yr h6nn a oed. yn kynhal yr amherodraeth a llw maur kantha6. Ac y gyt ac ef y dothoed Ienli6s Haymo tywysa6c y lu ef oed h6nnu. a thrwy kyghor h6nn6 y gwneyt ac y llunyethit pob peth or wnelyt. Ac yna gwedy dyskynnu Gloew Kesar ym porth kaer Perys ef a dechrewys kaw pyrth y dynas a mwr maen a lludyas y kywdawt6yr y dyvot allan. kanys ef a vynney eu kymmell y wedoyda6 neu ynteu hep trugared eu gwarchae yn y lle honno hyt pan vydynt maru o newyn.<sup>274</sup>

Ac gwedy bot yn honnedyc dyvodygaeth Gloew Kesar yr ynys honn Gwydyr yn dyannot a kynnull6s holl varchogyon ynys Prydeyn ac holl wyr ymlad ac yn erbyn gwyr Ruveyn y deuthant. Ac gwedy gwysea6 a bydyna6 yn dyannot kyrcu gwyr Ruveyn a orugant. ac en wychyr dechreu ymlad a oruc Gwydyr. a mwy a ladey ef ehunan ac uncledyf oe elynyon noc a ladey yr ran wuyhaf oe lw. Ac a6r pob a6r y medyllye Gloew Kesar fo a chyrcu y longheu. ar Ruveynwyr yn holla6l yn gwascaru. pan aeth y twyllwr gan Haymo a b6r6 y arveu ehun y amdana6 a chymryt arveu un o'r Brytanyeyt y ymlad megys kyt bey un o nadunt vey ef a dywedwyt bot y wudugolyaeth ar gorfot yn eu llaw o pherheynt yn ymlad megys yd oedynt. kanys seyth y Brytannyeyt ac eu moes a dyskassey ynteu yn Ruveyn yn plyth gwystlon y Brytanyeyt yn Ruveyn. kanys yn eu plyth y megessyt. Ac odyna trwy blyth y bydynoed dynessau a oruc hyt van vyd kerllaw y brenyn<sup>276</sup> ac gwedy kaffael o honaw ef lle ac amser y gyt ae cledyf llad pen y brenyn a oruc. Ac odyna y gyt ar eskymun wudugolyaeth honno llythra6 a oruc trwy un trwy arall hyt pan vyd ym plyth y lw ehun.<sup>277</sup> Ac yna y deuth Gweiryd vrenyn ac gwedy gwelet o hona6 y vra6t gwedy rylad yn y lle dyot y arveu ehun a oruc a gwyssa6 arveu y brenyn am dana6 ac yn y lle annoc y Brytanyeyt a oruc a gyrru grym ac angerd yndunt ac erchy ymkadarhau ynn ymlad megys kyt bey ef vey Gweiryd. ac yna y Brytanyeyt ymkadarnhau a wnaethant wrth y annoc ef megys kyt bey ef vey

Gwydyr. kanys ny wydyn ettwa rylad eu brenyn. Ac or dywed eyssyoes llythra6 a orugant y Ruveynwyr yn dwyran. ac yn dypryt waradwydus adaw y maes. Ac yna yd aeth Gloew Kesar ar ran oe lw y gyt ac efa chymryt y longheu yn kedernytadyogelwch idaw. A Haymo ar ran arall y gyt ac ynteu a ffoassant yr koedyd ac yr mynydoed kan ny cha6ssant o yspeyt mynet yn eu llongheu.<sup>278</sup> Ac yna tebygu a wnaeth Gweiryd bot yr amhera6dyr yn yr ran honno or llu a bryssya6 a oruc ynteu ac eu herlyt wynt o le pwy gylid hyt pan godi-wedawd wynt ar lan y mor y lle y gelwir yr aurhon oe enw ef Porth Hamunt. neu ynteu Sudhampt6n. kanys eno yd oed porthloed a dyskynva adas y longheu. ac yno yd oed llawer newyt longheu. ac yn yr rey hynny y mynnassey Haymo mynet yndunt pan deuth Gweiryd yn disyvyt ym y ben ac yn dyannot y lad. ac wrth hynny y gelwyt y lle honno yr hynny hyd hedyw Porth Hamunt.<sup>279</sup> Ac yn hynny Gloew Kesar gwedy ymkynnulla6 y kytemdeythyon attaw a dechrewys eylweyth ymlad a chaer Perys yr hon a elwyr yr a6r hon Porth Cestyr. A gwedy kaffael y dynas a gwascaru y muroed erlyt Gweiryd a oruc hyt yg kaer wynt a damkylchynu y dynas ac y gyt ac amravaelyon peyryanheu ymlad ar dynas a cheyssa6 eu dywreya6 ac chywarsangu.<sup>280</sup> Ac gwedy gwelet o Weyryd gwarchae y dynas arna6 kyweyrya6 y lu a oruc ynteu trwy vydynoed ac egory pyrth y dynas a wnaeth a mynet y maes or dynas ac arvaethu rody kat ar vaes udunt. Ac gwedy gwelet o Gloew Kesar wynt yn arvaesu ac yn darmerthu kat ar vaes. Anvon kennadeu a oruc at Weyryd ac erchy tagnheved udunt kanys ovyn oed arna6 glewder y brenyn a dewred a drudanyaeth y Brytanyeyt ac wrth hynny gwell oed kantha6 ef goreskyn trwy synhwyr a doethynep no mynet ym petruder brwydyr ac ymlad ac wynt. ac wrth hynny anvon a oruc Gloew Kesar at weyryd ac erchy tagnheved yda6 ef yn y wed hon rody merch yr amhera6dyr yn wreyka y Weyryd kan daly enys Prydeyn wrth amherodraeth Ruveyn.<sup>281</sup> ac yna o kyghor y wyrda y peyda6d Gweiryd ac ymladeu a bot wrth Gloew Kesar. kanys wynt a dyweddynt nat oed waradwyd yda6 ef darestwng y wyr Ruveyn pan vey yr holl vyt yn gwedu udunt. ac yn talu teyrnget udunt. ac o achaf6s y pethau hynny a llawer o achwysson ereyll arafhau a oruc Gweiryd a bot wrth kyghor y wyrda ac ufudhau yr amhera6dyr. Ac yn dyannot anvon

kennadeu hyt yn Ruveyn a oruc ef yn ol y verch a thrwy kannôrthwy Gweyryd e goryskynnôs Gloew Kesar ynysed Orc ar kytynysed ereyll yn ey chyleh.<sup>252</sup>

Ac gwedy llythra6 y gayaf heybya6 y kennadeu a ymchwelasant or Ruveyn ar vorwyn kanthunt ac wynt ae rodasant oy tat. ac y sef oed enu y vorwyn honno Gennylles a chyn teket oed ac yd oed anryved kan pa6b or a gweley y phryt ac gwedy y rody yn wreyc pwys y Weyryd kymeynt y kara6d Gweyryd hy ac yn y oed mwy kantha6 y serch hy ae charyat noget holl presenna6l da ac alavoed or a welhey ae lygait. Ac wrth hynny y lle kyntaf y kyskôs ef y gyt a hy a vynnôs ynteu y vot yn anrhydedus enwa6c ac yd erchys ynteu yr amhera6dyr gwneuthur dynas hono megys y bey honno yn kadw kof y neythya6r honno hyt vra6t trwy holl oessoed.<sup>253</sup> Ac yn y lle honno yd adeyl6s Gloew Kesar dynas yr hon a elwyr oe enw ef Kaer Gloew yr hynny hyt hedyw yg kyffynyd Kymry a Lloegyrr ar lan Hafren. ac ereyll a dywedant y mae y kan y Loyw wlat Lydan map Gloew Kesar a ganet. yn y dynas h6na6 gwedy hynny y kavas y dynas honno y enw y gwr gwedy Gweyryd a wu tewyssauc ar Kymry.<sup>254</sup> Ac yn yr amser h6nn6 yg Kaerusalem y kymyrth yr Arglwyd Iesu Grist map Dyw dyodevyeint yr pryynu ken dyl dyn a oed yg keythywet aghana6c Dyaf6l trwy yr holl oessoed kyn no hynny. Ac yna yr rydha6s ynteu wynt trwy y angeu ac ellyngedygaeth y waet ef.<sup>255</sup> Ac yno gwedy adeylat y kaer a thagnhevedu yr ynys ymchwelyt a oruc Gloew Kesar yr Ruveyn. a llywodraeth yr ynysed a orchmynn6s y Gweyryd. Ac yn yr amser h6nn6 y dechrewys Pedyr abostol yn gyntaf gossot y kadeyr yn yr Antyoce. Ac odyna y deuth hyt yn Ruveyn ac yno y preswylly6s. ac y cynhelys escoba6t. ac y danfones ynteu Marc evangelystwr hyt yr Eyfyt y pregethu yr evgehyl a yscriven-assey.<sup>256</sup>

Ac gwedy mynet Gloew Kesar o'r ynys a chymryt o Gweyryd synhwyrr a syberwyt a golyant dechreu adeylat y dynasoed ar kestyll a llywya6 y pobyl ar kyvoeth trwy yawnder a gwyrnyoned hyt pan oed y ovyn ae aryneic ar y teyrnasoad a oedynt ym pell ac yn agos yda6. Ac gwedy hynny kymryt syberwyt ynda6 a oruc a thremygu gwyr Ruveyn ac attael ar teyrnget raddunt a hep vynnu daly adanadunt a vey hwy no hyny.<sup>257</sup> Ac gwedy klywet o Gloew Kesar y chwedyl h6nn6 ynteu a enynn6s Vaspasyan y kymhell Gweyryd ar

tagnheved a gwyr Ruveyn ac y talu y gnottaedyc teyrnget udunt. Ac gwedy y dyvot hyt ym porth Rutupy ef a deuth Gweyryd a holl kedernyt ynys Prydeyn 6rth ludyas h6nn6 ae lu yr tyr. kanys kymeint oed o nyver y gyt ac ef megys yd oed ovyn ac aryuneyc ar wryr Ruveyn raddunt. Ac wrth hynny trossy eu hwylyeu a oruc Vaspasyan a dyskynnu ym Perth Totenysy a orugant.<sup>258</sup> Ac gwedy kaffael tyr o nadunt kyrechu a wnaethant Kaer Pen Hwylcoyt.<sup>259</sup> a dechreu ymlad ar kaer. Ac gwedy hynny ym pen y seythwet dyd y deuth Gweyryd ae lu. ac yn dyannot dechrau ymlad a orugant. ar dyd h6nn6 llawer a las o bob parth. ac ny chavas nep o nadunt y wudugolyaeth. ac val y deuth y dyd trannoeth y vrenhynes a deuth y rwng y deu lu ac a oruc tagnheved y rygiant. ac odyna yd anvonasanteu kytrarchogyon hyt yn y Werdon. Ac gwedy mynet y gauaf heybya6 ymchwelut a oruc Vaspasyan y Ruveyn a Gweyryd a drig6s yn ynys Prydeyn. ac gwedy dechreu o hona6 ef trossy parth a heneynt karu a wnaeth ynteu Sened Ruveyn a traethu y kyvoeth trwy hed6ch a gwarder a chadarnhau yr hen kyvreythyeu a gosot ereyll o newyd trwy y kyvoeth. a rody rodyon ma6r y pa6b or ae keysyey y gantha6. Ac y velly y clot ef a eheda6d trwy yr holl Europa. Gwyr Ruveyn a karey a hevvt yd oed ei ovyn arnadunt. kanys mwy a dywedyt am dana6 ef ehunan noc am yr holl vrenhyned. Ac wrth hynny y dyweyt Suvenal wrth Nero yn y koffau ef yn y lyvyrr Brenyn a dygwyd o Vrytaen nid amgen Gweyryd. nyt oed nep glewach yn yr ymlad ar ryvel nid oed nep gwarach yn yr heduch. nit oed nep haelach yn rody da. ac gwedy eylenwy holl dyheuoed y wuched ef a cladwyt yg kaer Gloew ym mewn temhyl a wnaethoedyt yn anryded Gloew Kessar.

Ac yn ol Gweyryd y deuth Meuryc y vap ynteu yn vrenyn gwr anryved y pruder oed h6nn6 ae doethynep. Ac ym pen yspeyt gwedy hynny a Meuryc yn gwledychu yr ynys. Rodryc brenyn y Ffychtweyt a deuth a llyghes va6r kantha6 o Scythya ac a dyskynn6s yg gogled yr ynys hon y lle a elwyr yr Alban. a dechreu anreythya6 y wlat a oruc. ac gwedy klybot o Veuryc hynny kynnulla6 y pobyl a oruc ynteu a mynet yn y erbyn a wnaeth. ac gwedy dechrau ymlad y lad a oruc a chaffael y wudugolyaeth. ac gwedy hynny dyrchavael maen ma6r a wnaeth yn arwyd budugolyaeth yn y wlat a elwyr gwedy

hynny oe enw ef Gwysmeuryc ac yn e maen h6nn6 yd yscrivennwyt tytyl y wudugol-  
 yaeth honno yr hynny hyt hedyw. Ac  
 gwedy llad Rodryc yna y rodes Meuryc  
 rann or Alban yr pobyl orchvygedyc a  
 dothoed ygyt ac ef Rodryc y preswyllya6  
 yndy. ar rann honno o'r wlat a elwyr Ys-  
 cotlond. kanyis yn yr amser h6nn6 dyffeyth  
 oed hep nep yn ei phreswyllya6 nac yn y  
 chyvanhedu. nac yn y dywyllya6. Ac nat  
 oed gwaged udunt erchy a wnaethant yr  
 Brytanyeyt eu merchet ac eu karesen yn  
 wrejka udunt. ac y bu anthelylwg gan y  
 Brytanyeyt hynny ac ny mynnasant rody  
 eu merchet yr pobyl honno. Ac wrth  
 hynny yd aethant wynteu hyt yn y Werdd-  
 on at y Gwydyl ac y gan yr rey hynny  
 y kymmerasant eu merchet ac eu karesu  
 yn wraged udunt. ac or rey hynny yd hyl-  
 yasant eu kenedyl gwedy hynny. Ac ar  
 hynny y peydy6u ar kenedyl honno. kanyis  
 ny bu darpar kennym ny traethu oc eu  
 hystorya wynt nac or Yscotyeit yr rey a  
 dechrewys y kenedyl o'r Gwydyl Ffychty  
 ac or Gwydyl ya6n. Ac gwedy darvot y  
 Veuryc lunyethu yr ynys holl trwy tag-  
 nheved karyat a kynhelys y rygtha6 a  
 gwyr Ruveyn ac oe vod yll6ng eu teyrn-  
 get udunt. Ac o agreyfft y tat trwy  
 yawnder a tagneved y kyvreythyeu yn  
 ad6yn tros yr holl teyrnas a dywylly6s.

Ac gwedy eylenwy o honaw ef y holl  
 wuched ef Coel y vap ef a kymyrth y llyw-  
 odraeth y teyrnas. a h6nn6 yr yn vap a  
 vagessyt yn Ruveyn ac yno y dyskassyf ef  
 moes a devodeu gwyr Ruveyn a chymeynt  
 oed y kytyndeythas ae karyat arnadunt a  
 chyt galley ef attael en teyrnget raedunt y  
 hellyghey oe vod udunt. kanyis ef a welhey  
 yr holl vyt yn darostyghedyc udunt. ac  
 wrth hynny yd ellyghey ynteu udunt eu  
 delyset. ac nyt oed yn plyth brenhyned y  
 dayar gwr well a anrydedy y bonedygyon  
 ar dyledogyon noc oed Koel. kanyis pa6b o  
 nadunt a adey yn eu hed6ch ac y gyt a  
 hynny llawer a rodyon a rodey udunt.<sup>200</sup>

Ac gwedy hynny map a anet yda6. ac  
 ysef oed enw h6nn6 Lles vap Koel. ac  
 gwedy mar6 y tat a chymrty o hona6  
 ynteu koron y teyrnas holl weythredoed da  
 y tat a evelych6s ef eu gwneuthur. megys  
 y dywedyt mae ef oed Koel. ac odyna ef  
 a vynn6s keysya6 gwneuthur y dy6ed yn  
 well noe dechreu. ac 6rth hynny kennadeu  
 a ellygh6s ynteu hyt yn Ruveyn at Eleuter  
 Pap y erchy yda6 anvon atta6 gwyr ffyd-  
 la6n dyskedyc yg crystnoga6l ffyd tr6y  
 pregeth a dysc yr rey y galley ynteu credu  
 y Cryst. Canyis y gwyrthen ar anryvedodeu

a kylywey ef tr6y pregeth6yr Cryst ar let  
 y bydoed rydaroed udunt yglurhau a gis-  
 lehau y 'gallon ynteu 6rth gredu y Crist  
 yachwyda6l.<sup>201</sup> Ac 6rth hynny oy war  
 desyvedygaeth ef ufudhau ef a oruc y Pab  
 h6nn6. ac anvon a oruc deu dyskya6dwyr  
 credyvas. Ac ysef oedynt yr rey hynny  
 Dwy6an a Ffagan. ar rey hynny a pre-  
 gethasant yda6 ef dyvodedygaeth Cryst yg  
 cna6t ac ae golchassant ef or lan ffynnya6n  
 vedyd. ac ae hymchwelassant ef ar Cryst.  
 Ac yna hep un gohry o pob gwlad y  
 pobloed o agreyfft eu brenyn ymkynn6lla6  
 ac or un ryw ffynna6n vedyd honno  
 ymlanhau ac ymkysylltu a theyrnas nef.<sup>202</sup>

Ac gwedy darvot ir gwynvydedyc dys-  
 codryon hynny golchy a dyleu agret trwy  
 holl ynys Prydeyn hayach y templehau y  
 rhey a oedynt aberthedyc yn enryded yr  
 geu dwy6eu yr rey hynny a rodes ynteu ac  
 y kyssegr6s yr holl kyvoetha6c Dduw ac  
 oy seynt ynteu. Ac yn y templeu hynny  
 amrvaelyon kenveynnyoed urdassedyc  
 y talu kynnevodyc wassanaeth dyledus y  
 Dyw a ossodassant.<sup>203</sup> Ac yn yr amfer  
 h6nn6 yn ynys Prydeyn yd oedynt wyth  
 escopty ar rugeynt. a thry archescopty. ac  
 yr try archescopty hynny yd oedynt yr  
 wyth escopty ar rugeynt yn darestyghedyc  
 wedaul y talu dyledus ufudta6t udunt.  
 Ar rey hynny trwy orchynnmynt ac awdur-  
 da6t pab Ruveyn g6edy dyleu yr aghret  
 onadunt a kyssegrassant megys y dywed-  
 p6yt wchot yn anryded Dyw ar seynt. Ac  
 yn y tri dynas bonhedykaf yn ynys  
 Prydeyn yd oedynt y try archescopty nyt  
 amgen Llundeyn a Chaer Efra6c a Chaer  
 Llyon ar Wycs. ac 6rth hynny yr try lle  
 hynny y rann6yt yr wyth escopty ar  
 rugeynt. Ac y Archescopty Caer Efra6c y  
 dygwyd6s Deifyr a Brynych ar gogledd oll  
 megys y gwahana Humyr y 6rth Loegyr.  
 Ac y Archescopty Llundeyn y parth6yt  
 Lloegyr y gyt ae terynceu a Chernyw y  
 gyt a hy. Ar dwy archescoba6t hynny a  
 gwahana Hafren a Chymry yr hon a  
 parth6yt y archescopty kaer Llyon ar  
 Wycs.<sup>204</sup>

Ac or dy6ed g6edy darvot ir gwyrda  
 hynny llunyethu ac urda6 a gossot pop  
 peth yn wedus yn her6yd crystnoga6l ffyd  
 y deu escop hynny a ymchwelassant tra-  
 chevyn hyt yn Ruveyn a phob peth o'r  
 wnathoedynt 6ynt ae datkanassant y Pap  
 Ruveyn. Ac g6edy kymrty kedernyt a  
 thelygta6ty gan y pap yr petheu hynny  
 oll 6ynt a ymch6lassant a llawer o  
 kytyndeythyon ereyll y gyt a h6ynt hyt  
 yn ynys Prydeyn ac o dysc yr rey hynny

ar vyrr yspeyt y kadarnha6yt ffyd a Chrystonogaeth ym plyth y Brytanyeyt. Enweu hagen a g6eythredoed y gwyr p6y bynnac a v6nno eu gwybot keyssyet yn y llyfr a yscryfenn6s Gyldas o wudugolyaeth ymreys wledyc. ar peth a draeth6s y gwr h6nn6 mor yglur a gloeb a hynny nyt rheyt y mynheu y atnewydu hynny o traetha6t a vey dyel6bach no honno<sup>295</sup>.

AG odyna ym plyth y g6eythredoed da hynny y gogoned6s ardercha6c vrenyn h6nn6 Lles vap Coel g6edy gwelet o hona6 ef dywyll gwyr ffyd a Chrystonogaeth yn echdy6ynnygu yn y teyrnas ar kyvoeth dyrva6r lewenyd a kymyrth ynda6 y medyant ar breynhyeu ar tyr ardayar a oed gyt y templheu y geu dwy6eu yr rey hynny a ymchwel6s ynteu yn arver a oed well ac a kadarnha6s yr eglwyseu ac yr seynt. A chans y m6y o anryded ac adurn a dyleyt yr g6yr Dyw ac oy seynt ac oy ebystyl ynteu a achwaneg6s rodyon o tyr a dayar ac eistedvaeu ac o holl rydyt eu hedychu ac eu kadarnbau. ac eu hardyrchavael trwy bob rydyt y gan y brenyna6l anghenda6t. Ac y velly yr r6ng pob g6eythret da ac gylyd yg Kaer Loew y tervyn6s ef dyeuod y wuched. ac yn eglwys y pennhaf eistedva yr escopty y clad6yt yn anrydedus yn yr unvet vl6ydyr ar pymthee a deu ugeyn a chant g6edy dyvot Cryst yg cna6t.<sup>296</sup>

Ac g6edy ardyrchavael Constans en Vrenhyn holl ly6odraeth a ya6nder e teyrnas a kyvradus enteu y Ortheyrn ac emrody ehunan en holla6l 6rth y kyghor en e veynt honno megys na 6uasy ef dym namyn a kyghorey Ortheyrn. kanyſ g6ander y synhwyr ae deall ef a dyssyvey hynny. ac y gyt a henny amgen dysc a dyscassey ef en e cla6styr a llywya6 teyrnas e vrenhynyaeth. Ac g6edy g6elet o Ortheyrn henny dechreu medylya6 a oruc enda6 ehun pa wed e galley enteu emdyrchavael en vrenhyn kanyſ henny em mlaen pop peth a ch6ennychey. Er holl vrenhynyaeth hagen ar rydaroed y gorchymyn oy dosparth ef. ac nyt oed dym y Constans or teyrnas onyt gwascap ac enw. kanyſ ef a el6yt en vrenhyn ac nyt oed nac gar6der nac ya6nder nac ovyn enteu ar nep nac o bell nac o agos or pobloed. E deu vap yeueyn oed deu vroder yda6 enteu nyt amgen Uther Pendragon ac Emreys Wledyc en e crudeu ett6a ed oedynt. ac nyt oed arnadunt oed adas wrth lywya6 e vrenhynyaeth nac y eu g6neuthur en vrenhyned. Eythyr henny hevyt dryc dam6eyn arall a dam6eynnyassey en er enys honn. Sef oed henny ryvar6 holl henafgwyr e teyrnas ac nat oed nep namyn Gortheyrn ehun megys

aryennec oe gallder ae doethyep ac estry6 megys en un kyghor6r en e teyrnas. ar rey ereyll oll megys meybyon a gweyssyon yeueync oedynt g6edy rylad en er ymladeu kyntadeu a hentadeu er rey henny ac eu he6ythred a pha6b or a wuessynt urdedyc a medyannus kyn no henny. ac 6rth henny g6edy g6elet o Ortheyrn henny medylya6 a oruc o pob athrylyth ac o pob estry6 pa wed e galley enteu diosc Constans vanach or vrenhynyaeth yda6 ehun. Ac eyssyoes e peth h6nn6 a annodes ef hyt pan kavas en kyntaf er holl wladoed ar holl kestyll ar dynassoed kadarn arpennyc 6rth y kyghor ae vedyant ac g6edy kaffael o hona6 henny evelly wrth y kyghor ae vedyant erchy a oruc yr brenyn rody y tryssor ae s6llt ae eur ae aryant ae tlysseu en y warchad6 ef ac en y vedyant ae dynassoed ar kestyll. kаныs ef a kadarnhaey rydyvot rybudyen atta6 bot er enysedd yn eu kylch yn emkynnulla6 ac en lludhau am pen enys Prydeyn. ac g6edy kaffael o hona6 henny y gan e brenyn ef a dodes y wyr ehun en e kestyll henny y eu kad6 6rth y vedyant ae ewyllys ehunan. Ac g6edy darvot yda6 henny dechreu medylya6 pa wed e galley ef eyleswy er racy6dedyc vrat. u6chot. ac 6rth henny ef a deuth at Constans a dywed6yt wrtha6 bot en reyt ydau ef ang6hanegu eyryf y teyl6 megys e bey dypryderach a dyogelach yda6 rac y elynyon. ac ena y dywa6t Constans. panyt yth vedyant ty ac yth dyosparth e gorchmynneys holl ly6odraeth a holl pryder e teyrnas. ac 6rth henny g6na dytheu pob peth or a vynnych. a henny hagen gan kad6 fydlonder ymy.<sup>379</sup> Gortheyrn a dywa6t 6rtha6 enteu. Ed edes en dywed6yt ymy ep ef bot e Ffychtieyt en devynnu gwyr Denmarc attadunt ar Llychlynwyr ac y gyf holl er rey henny am en pen nynheu y ryvelu arnam en wuyhaf ac en kadarnhaf y gallont. Ac 6rth henny my a kynghoraf y ty gwaha6d rey or Ffychtieyt ac eu kaffael yth llys ac ar teulu megys e bo er rey henny en kymhervedwyr er rystat tytheu ac eu kenedyl ehunayn. kаныs os gwyr eu bot en mynnu ryvelu arnam ny er rey henny en e lle a allont gwybot brat a gweythreded eu kyf kenedyl ac an rybudyant nynheu val e bo ha6s en emoglet emgallhau en eu herbyn. llyma dyrgeledyc vrat e kytemdeyth. kаныs nyt yr yeohyt nac yr dywytr6yd yr brenyn y dy6edey ef hyn. namyn g6ybot bot en an6astat annyau. Ac Ffychtieyt a bot en ha6d eu trossy ar pob gweythret creula6n. ac g6edy bydynt med6 bot en ha6d eu

kyffroy ar lyt ac yrlloned yn erbyn e brenyn megys e lledynt ef en dyhavarch. Ac os henny a damwenney megys e kaffey enteu fford oy ardyrchavael en vuan en vrenyn megys ed oed en wastat eu y ch6ennych. Ac en dyannot anvon kennadeu a oruc hyt en Escotlont a gwaha6d cant marcha6c or Ffychtieyt ac eu kymryt ar teulu y brenyn. Ac g6edy eu kymryt eu hanrydedu a gwnaey Ortheyrn er rey henny y ar pa6b ac eu kyvoethogy o amravaelyon rodyon. ac en wuy no meynt eu llen6y or b6yt ac or llyn megys ed oedynt 6ynteu en y kymryt ef en lle brenyn. Ac e fford e kerdynt ar hyt er estrydoed ar heolyd ar ky6ydeu ar kanhuau e kenrynt teyl6ng yw Gortheyrn o amherodraeth teyl6ng yw o teyrnwyalen enys Prydeyn. ac antheyl6ng yw Constans.<sup>380</sup> ac 6rth henny mwyv6y ei anrydedey Ortheyrn 6ynteu o amravaelyon rodyon hyt pan vey m6y e keryt enteu y ganthuont 6ynteu. ac g6edy g6ybot o hona6 kaffael eu kareat 6ynt en holla6l ef ae g6naeth 6ynt en ved6 ac a dywa6t wrthynt y vot ef en ada6 enys. Prydeyn ac en mynet y kessya6 mynet en lle arall a vey m6y noc a oed yda6. a dywed6yt na alley ef ar bychydyc kyvoethoed yda6 gossymdeythya6 dec marcha6c a deu ugeynt. ac evelly en tryst mynet oy letty ac eu hada6 6ynteu en yvet en e neuad. ac g6edy g6elet o nadunt 6ynteu henny trystau a wnaethant yn v6y noc y gellyt y credu. a thebygu bot en wyr a dywedassey Gortheyrn 6rthynt. a dywed6yt pob un 6rth y gylid. pa acha6s y gad6n ny y manach h6n en vy6. pa acha6s na llad6n ef hyt pan allo Gortheyrn arveru o'r vrenhynyaeth. kаныs p6y e syd teyl6ng y kaffael ac amherodraeth namyn Gortheyrn e gwr ny orffowys en anrydedu nynhen.<sup>381</sup>

AG g6edy henny yn y lle kyvody a orugant a kyrchu estavell e brenyn a g6edy y lad d6yn y pen a orugant hyt rac bron Gortheyrn. ac g6edy g6elet o Orthayrn y pen trystau a oruc ac wyla6. ac eyssyoes ny bu la6enach enteu eyryoet no a6r honno. ac eyssyoes gal6 a oruc ky6da6twyr Llundeyn atta6 kаныs eno y daroed e kyvlavan honno ac erchy llad e brad yr henny en holla6l kаныs kymere6ssynt arnadunt g6neuthur kyvry6 kyvlavan a honno. ac ed oed eno 6rth henny rey a tebygynt pany6 trwy Ortheyrn ae kyghor e g6nathoedyt e brat h6nn6 ac nas dychymygessynt e Ffychtieyt herwydunt ehuneyn. ereill ae dyheurynt en holla6l gan y ry6 weythret h6nn6.<sup>382</sup> Ac eno eyssyoes ar peth h6nn6 en agheugant tat maetheu a deu vroder nyt

amgen Uther ac Emreys a ffoassant ae meybyon kanthunt hyt em Brytaen vechan. ac eno y harvolles bynt emhyr Llyda6 ac or anryded y dyleynt e perys eu meythryn.<sup>353</sup>

Ac g6edy g6elet o Ortheyrn nat oed nep en e teyrnas a emkyffelyppey nac a emkyvuche y ac ef ehunan a dodes coron e teyrnas am y pen. ac a aeth tros y kyt te6yssogyon.<sup>354</sup> ac or dy6ed g6edy bot en danlle6ychedyc ac en honnedyc yvraduryaeth ef tr6y e gwladoed kyvody a orugant en y erbyn pobloed er enysed en y kyleh er rey a dugessynt e Ffychtyeyt hyt er Alban. kanys llyda6 a 6nathoedynt e Ffychtyeyt 6rth rylad eu kytvarchogyon o acha6s Constans. Ac y gyt a henny hevty goulus oed o acha6s y vot peunynd en kolly y lw en peunyda6l emladeu henny. A hevty goval oed arna6 or parth arall rac ovyn Emreys Wledyc ac Uthr Pendragon y vra6t enteu er rey megys y dy6edassam ny wuchot a ffoessynt hyt en Llyda6 racda6 enteu pan las Constans eu bra6t. kanys odyo peunyda6l ch6edyl a ehedey ar y clusteu enteu eu bot 6ynt en darmerthu e llynghes w6yha6 ac ellynt y chaffael y emch6elyt trachevyn y enys Prydeyn ar y cor fenteu y orescyn eu gwyr teyrnas ac eu gwyr dyltet.<sup>355</sup>

#### DYVODEDYGAETH E SAESSON.

Ac en er amser h6nn6 y dyskynnassant teyrllong hyryon en emylue Swyd Keynt en lla6n o varchogyon arva6c a deu vroder en tewyssogyon arnadunt. Sef oedynt er rey henny Hors a Heyngyst. Ac en er amser h6nn6 ed oed Gortheyrn eg Kaer Keynt en her6yd kynneva6t. kanys mynych e gnottaey myned a phresswyllya6 eno. ac eno e kennatta6t yda6 rydyvot gwyr ma6r anetnebededyc agkyvyeyth em mewnd llongheu ma6r ar rydyskynnu ar y tyr. kyghreyr a rode udant ac erchy a oruc eu d6yu atta6 wynt.<sup>356</sup> Ac en lle g6edy eu dyvot trossy eu lygeyta oruc ar e deu vroder. kanys ragor a dugynt rac eu kytemdeythyon en holla6l o pryt a meynt. a gosged a theg6ch a bonhed. ag 6edy edrych o hona6 ar pa6b o nadunt govyn a oruc pa wlat ed hanoedynt o honey. A pha acha6s e dothoedynt oy wlat yntau. Ac ena em nlaen pa6b e g6rthebus Heyngyst yda6 en e wed hon. kanys ragor oed yda6 o advedr6yd a doethynep rac pa6b oe kytemdeythyon. Argl6yd ep ef. bonhedykaf or brenhyned en Saxonya un o vrenhynyaethau Germanya yn ganet ny. Acha6s en dyvodyat ninnau yth kyvoeth tytheu hynny y6 y kynnyc yty neu enteu y tewysa6c arall a

rodo da a gossymdeyth yn tros en g6asan-aeth en g6rygyaeth. Ac esef acha6s en g6rthladut oc en gwlat. kynneva6t e syd en e wlat honno pan amlhao e kywda6t endy ed emkennullant ygyt holl te6yssogyon e vrenhynyaeth ac e kynnullyr rac eu bron holl yeuengetyt e wlad. Ac odynd ed etholant er rei a welont yn orau ac er rodant prennau udunt. ac megys e del or koelpren udunt yd erchyr udunt mynet y wladoed ereyll y keyssya6 gossymdeyth. ac evelly e rydheyr eu gwlat 6ynteu ehuneyn y gan ormot kywda6t. Ac en e dy6ed h6n e vu ormod o amylder kywda6t en en gwlat ny. ac e deuthant e tewyssogyon y gyt ac e b6ryassant koelprennau ac ed etholassant er yeuengetyd a wely dy rac dy vron ema. ac ed erchassant yn uvudhau yr kyvreith ac yr deva6t a oed osododyc en e wlat hyr e kynnoes ac e gosodasant nynneu en deu vroder en te6yssogyon arnadunt. Ac esef yn gel6yr nynheu Horss y6 vem mra6t a Heyngyst 6yf ynheu. ac o lyn e te6yssogyon pan henynd. Ac 6rth henny ufudhau a wnaetham nynnau yr kyvreithyau gosodedyg or dechreu. ac yr mor e dody mae yth kyvoeth tythau a Mercury6s en tewysa6c yn. A phan kygleu Gortheyrn en6y Mercury6s dyrchavael y wyne6 a oruc pa ry6 gret oed ganthunt. Ac ena e dywa6t Heyngyst wrtha6 enteu en tadolyon dwy6eu a anryded6n ny Saturn6s a Iupyer ar dwy6eu ereyll tr6yr er rei e lly6yr e byt. ac en v6yaf all Mercury6s er h6n a elwyr en en ia6th ni Woden. ac y h6nn6 ed aberthasant en ryeny y ped6eryd dyd o'r Wythnos yr hynny hyt hedy6 ac y gal6asant Wodens dey. ac gwedi h6nn6 ed anryded6n e dwy6es kyvoethokaf er hon a elwyr Fream ac y honno e parthasant e ch6echet dyd er h6n a al6n nynheu oe hen6 hy Ffrydey.<sup>357</sup> Ac ena y dywa6t Gortheyrn oe ech cret chwy er hon a elwyr yn wlat y dywedut ae gal6 en ankret noc en kret dolur y6 kennyf. og ech dyvodedygaeth chwytheu pa dam6eyn bynnac ae dydyko lla6en y6 kennyf kanys en amser kryno e daetha6ch pa Dyw na peth arall ag ech hanyu onho kanys veg gelynyon o pop parth esyd ym ky6arsangu ac ym govalu en va6r en er amseroed hyn. ac o mynn6ch ch6ytheu kymryt kytlafer er emladeu hynny ygyt a ynheu. My ac ech kymmeraf en wyr ym ac ach kynhalyaf en e teyrnas y gyt a my en anrydedus ac o amravaelyon rodyon ac ech kyvoethogaf ac o tyred. Ac en e lle ufudhau a orugant ac emkadarnhau ac ef a thrygau en wyr llys yda6.<sup>358</sup> Ac en e lle enachaf e Ffych-

tyeyt yn kynnulla6 llw ma6r ac en dyvot ac en dechreu anreythya6 e gwlaodod kanthunt e fford e kerdynt. Ac wedy kennattau henny y Ortheyrn enteu a kynnull-6ys y holl varchogyon enteu ac a deuth tr6y Hymyr en eu herbyn. Ac o dyna gwedy eu dyvot en kyvagos e ky6da6twyr or neyll parth ar gelynyon or parth arall en dyannot dechreu ymlad kalet gwychyrr a wnaethant. Ac ny bu reytr yr Brytan-nyeyt dym llavurr hayach en er emlad h6nn6 kanys e saeson a emladasant en 6ra6l ac en wychyrr megys e kymmellasant ar ffo e gelynyon a notheynt orchvygu a gorvot kyn no hynny.<sup>389</sup>

A GWEDR kaffael o Ortheyrn e wudugol-yaeth ar gorfot tr6y nerth e saeson ef am-ravaelyon rodyon en amvyl udunt. Ac i Heyngyst eu tewysa6c er rhodes llawer o tyr a dayar en Lyndesey megys y galley kynhal y varchogyon y gyt ag ef ac ev gos-ymdeithia6. ac odyna megys yd oed ef gwr kall estrey6ys a doeth gwedi caffael o hona6 ef kytemdeithas a charyat e brenin. dywed-yt a oruc enteu en e wed hon wrth e brenin.<sup>390</sup> Argl6yd ep ef mi a welaf da elynyon ty en ryfelu arnat o bob parth yt. ac ychydig oth kywda66tyr hevyr yth garu. kanys pa6b o nadunt esyd yn bygythya6 dwyn Emreys Wledyc o Lyda6 ath vur6 ty or vrenhynyaeth ae urda6 enteu en vrenyn. Ac wrth hynny o rhyng bod iti envynvu kennadeu im gwlat y a gwahod-6n marchogyon odyno ac achwaneg6n en nyfer 6rth emlad. Ac un peth o bey da-kenhyt ty a arch6n pey na thebyg6n vy nackau o hona6t. Ac ar ar hynny e dywa6t Gortheyrn. Anvon tyde kennadeu hyt en Germany a gwaha6d e neb a vynnynch. Ac arch y mynheu er hyn a damunych ac nyth ommedyr. Ac ar henny estwng e penn a oruc Heyngyst a thalu dyolchyaedu ma6r yda6. Arglwyd ep ef ty am kyvoethogeyst o tyr a dayar amyl. Ac eysyoes nyt mal y dyleyt anrydedu tewysa6c ac a enyt o tewyssogyon dyled-6c. kanys y gyt ar peth ar rodut e dylvrt rody ymy ae dynas arpenngy ae enteu kastell megys ym gwelyt en anrydedvs ym plyth e tywysogyon ereyll. kanys teylng-6a6t a dylvet tewysa6c a deleyt y rody y tewysa6c ac a hanffey o lyn tewyssogyon o bob parth.<sup>391</sup> Ac en erbyn hynny e dywa6t Gortheyrn. Gwahardedyg wy i y yngan vy ngwyrda hyd na rod6yf y rhyw rodyon henny ychwy. kanys estra6n ken-edyl y6ch a phaganeyt. Ac 6rth hynny ny ddylyaf y ech gwneuthur chwy en un breynt am kywda6twyr ve hunan. nyt ar

na rybuch6n y ech gwneuthur en unfreynt ac 6ynt. namyn nas llavassaf rac e kywda6twyr a gwyrda a teyrnas.<sup>392</sup> Ac ar henny y dywa6t Heyngyst. Arglwyd ep ef kanhyatta ymy de was ty gwneuthur ar y tyr a rodeyst ty ymy kastell en kym-meint ac i damkylchyna un karrey. megys e gallwyf i emlehai ynda6. y adeylat o byd reytr ym wrtha6. kanys ffydda6n wum y a ffydda6n wuyf a ffydda6n vydaf y ty a gwnaf ynheu y peth a damunych y gwneuthur.<sup>393</sup> Ac wrth henny gwanhau a orug y brenin wrth y ymadrodyon ef a gor-chymmyn yda6 ell6ng y kennadeu hyt en Germany a waha6d marchogyon ar ffrwst en kanurth6y udvnt. Ac odyne heb un gohyr gwedy ell6ng o Heyngyst y kennadeu hyt yn Germany a of a kym-yrth croen car6 ac ae gwnaeth ef en un karrey. Ac odyne ed etholes ef le carreg-6c megys e ryghey bod yda6 y ansa6d ac kederynt. Ac eno e messur6s y gyt ar garrey honno ac en e lle h6nn6 ed edeyl6s ef castell a chaer. Ag wedy darvot y adeylat ef a gavas y en6 or karrey kanys a hi e messur6yt. Ac wedy hynny em Brytanec egelwit e lle h6nn6 Kaer Garrey ac en saesnac Thancaestre kastell e Garrey.<sup>394</sup>

AG en er amser h6nn6 e kennadeu y ymch6lasant o Germany a dev na6 llong kanthunt. ac y gyt a hynny wynt a dlug-ant merch Heyngyst y gyt a hwynt er hon a elwyt Ronwen. Ac nyt ha6d kaffael. en e hyt er eyl a ellyt kyffelybu y phryt ae theg6ch y honno. Ac wedy eu dyvot Heyngyst a wahodes Gortheyrn y edrych er adeylat newyd ar marchogyon newyd dyvot. Ac en e lle e brenin a deuth atta6 a nyver bychan ysgywala y gyt ac ef. a moly a hoffy en va6r a oruc y disevvt adeylat h6nn6. a gwaha6d e marchogyon newyd dyvot y gyt ag ef.<sup>395</sup> Ac odyne gwedy udynt vwytta ag yfed o vrenhynolyon anregyon e deuth e vor6yn dec honno or estavell a ffyol eureyt en lla6n o wyn en y llaw hyt rac bronno e brenin ac ar tal y glynyeu e dywa6t fal hyn Lafyrt kyng wasseyl. Ac esef a oruc Gortheyrn y gyt ac y gweles anryvedu y phryt ac emlen6i oy serch. a govyn yr yeythyd pa peth a dywedasei hy. Ar yeythyd a dywa6t. hy ath el6ys en Arglwyd ac en vrenyn. ac or galwedyygaeth h6nn6 yth anryded6s. A hyn a dyley titheu y wrthep idi hitheu Drync heyl. Ac Gortheyrn a 6rtheb6s ydy Drync heyl. ac a erchis ydy vvet e llynn en kyntaf. ac enteu a kymyrth e ffyol oe llaw hytheu ac ar rodes cusan ydy ac gwedy henny a lewes e wira6t honno.

ac yr hynny hyt hedy6 e mae e kyneva6t honno em plyth e Kymry ar kyvedach. kanys e nep a yvo en kyntaf a dywait wrth y ketymmeyth washeyl. ar llall a 6rthep Drync heyl. Ac ena gwedy med6i Gortheyrn tr6y amravael wirodeu ygyt ac annoc y Dya6l karu a wnaeth e vor6yn ac herchy oe thad kanys Dya6l a ryathoed en y gallon ef pan vey en en6 Crystya6n chwenychw o hona6 enteu kyd dau a gwreyc ancrystya6n hep bedyd.<sup>396</sup> Ac gwedy gwelet o Heyngyst henny megys ed oed gwr estra6n ef gal6 a oruc y vra6t atta6 ar gwyr hynaf oy kytemdeythyon ac emkyghor ac 6ynt. pa peth a wneley or rody y verch yr brenyn. Ac o kytgyghor pa6b o nadunt yr rodassant e vor6yn yr brenyn. ac ed erchassant 6ynteu yda6 ef swyd Keynt trosty hytheu.<sup>397</sup> A hep un gohyr e vor6yn ar rodet yr brenyn. a swyd Keynt ar rodet y Heyngyst hep wybod a hep kanyat Gwrgant e gwr oed yarll ar e swyd honno. Ar nos honno e kysc6s Gortheyrn ygyt ar paganes honno ac y kar6s yn 6uy no meynt. ac o achas6s henny e bu cas ef y gan wyrda e teyrnas. a thry meyb a oedynt yda6 kyn no henny. Sef oedynt e rei henny. Gwrthevyr a Chyn-deyrn a Phasken.<sup>398</sup>

#### GARMAWN.

Ac en er amser h6nn6 e deuthant Garma6n Escop ar Bleyd y kytemdeyth y pregethu geyr Dyw yr Brytannyeit kanys llesteyrya6 a llygru ar yr daroed ffyd a Crystonogaeth en eu plyth o achas6s e paganyeyt saysson. ar kymmerassey en eu plyth neu enteu o achas6s kam cret ar pregethassey Pelagyan. ar gwen6yn h6nn6 tr6y lawer o amser ae llygrassyd. Ac wrth henny trwy pregeth e gwynvydedygyon wyr henny ed atnewydyt ffyd a gwyr Crystonogaeth em plyth e Brytannyeit. kany llawer o anryvedoden a gwrthyheu a dangossey Dy6 peunydu undunt tr6y efrllyt e gwyrda henny. ar rey henny a escryvenn6s Gyldas o eglwr traetha6t.<sup>399</sup> Ac gwedy rody e vor6yn yr brenyn megys e dywetp6yt w6chot. Heyngyst a dywa6t wrth e brenyn. my essayd tat yt a chynghor6r yt y dylaf vot. ac nados tytheu tros vying kynghor ynheu. a thy a a orvydy ar dy holl elynyon trwy nerth vying kenedyl ynheu. Ac gwahod6n ettwa Octa vy map ac Ebyssa y kevynder6 kanys emlad6yr da ynt a chynnyfwyr. a dyw undunt egwlad-oed ker lla6 e mur er r6ng Deyfyr ac Escotland. w6ynt a erbyniant eno ruthreu a kyrcheu e gelynyon angkyvyeyth a delont megys e bych tytheu en hed6ch e parth

h6nn y Humyr.<sup>400</sup> ufvdhau a oruc Gortheyrn yda6 a gorchymmyn yda6 gwaha6d e nep a wpeyef eu bot en kanwrth6y ac en nerth undunt. Ac en e lle anvon kenna6u a oruc Heyngyst hyt en Germany. ac 6ynt a deuthant Odyno Octa vab Heyngyst ac Ebyssa a Cheldryc a thrychanllong en lla6n o wyr arva6c. Ar rey henny a kymyrth Gortheyrn en hygar. ac a rodes llawer o rodyon ma6r udynt. A thr6y nerth e saysson e gorvydey Gortheyrn ar y holl elynyon. ac em pob gwlad e bydei vuduga6l.<sup>401</sup> A Heyngyst eissioes en wastat a wahodey e llongheu. ac anganegy y nyver peunydu. Ac gwedy gwelet o'r Brytannyeit henny ovynhau a orugant brat e saysson. Ac 6rth henny wynt a dywedassant urth e brenyn ac archassant yda6 gwrthlad e saysson paganyeyt oy kyvoeth. kanys ny dyleynt y paganyeit emkysylltu ar Crystonogyon nac emkytemdeythyokau ac wynt. kanys Crystonoga6l kyfreyth a waha6dey hynny. ac y gyt a henny hevyt kymeynt o amylder o paganyeit a dothoed-ynt er enys a megys ed oedynt yn ofyn ac yn aruther yr ky6da6twyr. kanys nid oed gwybot ha6d pwy a vey Crystya6n p6y a vey pagan kanys e paganyeyt a rodessynt eu merched ac eu karesseu en gwraged undunt. ac 6ynteu g6edy rody yr paganyeyt eu merched ac eu karesseu ac wrth henny ed annogyn e Brytannyeit yr brenyn dyhol e paganyeit oe kyvoeth rac ofyn trwy eu brat ac eu hystryw goreskyn o nadunt e ky6da6twyr.<sup>402</sup> ac esef a wnaeth Gortheyrn eyssyoes efelychw ac annot hynny rac meynt oed kantha6 karyat y wreyc ac eu karyat 6ynteu. Ac gwedy gwelet o'r Brytannyeit hynny 6ynt a ymada6sant a Gortheyrn ac o kyt kyghor a chyt duundep kymryt G6rthevyr y vap ac ounvryt y ardyrchavael ae urda6 en vrenhin. ac essef a oruc G6rthefyr en holla6l gwneuthur kynghor e Brytannyeit o pob peth. a dechreu emlad ac estra6n kenedyl ac en wychyr greula6n mynnu eu dyhol or enys hon.<sup>403</sup> a phed6ar kyfranc a phed6ar emlad a wu yda6 ar saysson. Kyntaf o nadunt ar avon Darwenhyd. Er eyl ar ryt Epyffort. Ena ed emkyvarvu Kyndeyrn vap Gortheyrn a Hors bra6t Heyngyst. ac gwedy ymkaffael o nadunt e llada6d pob un y gylad o nadunt. Trydyd emlad a wu ar lan e mor en e lle ed aethant e saysson en wreygya6l en eu llongheu ac e kyrchassant enys Thanet en lle amdiffyn undunt. Ac eyssyoes esef a wnaeth G6rthvyr eu damkylchynu ac o longa6l ymlad beunydu eu govalu. Ac gwedy na ellynt e

sayson a vey h6y dyodef ryvel G6rthyfyr Vedygeyt ar Brytanyeyt arnadunt. wynt a ellynghassant Gortheyrn e gwr a wuasey em pob emlad y gyt ar sayson en kennat hyt at Werthyvyr ar Brytanyeyt y erchy kanhyat udunt y emchwelut hyt yn Germany en yach. A hyt tra ed oedynt e kymry en kymryt eu kynghor ed aethant e sayson en eu llongheu ac e daethant hyt en Germany kan ada6 eu gwaged ac eu mebyon.<sup>403</sup>

Ac g6edy kaffael o Werthyvyr e wudugolyaeth dechreu a oruc talw y pa6b tref y dat ac eu kyvoeth or ar rydugassey e saysson y arnadunt. ac y gyt a henny hevyt karu y wyrda ac eu hanrydedu ac o arch Garma6n ac kynghor atnewydhou er eglwyseu.<sup>405</sup> ac eysyoes en e lle kynghorvynnu a oruc Dyaf6l wrth y daiony ef a mynet a wuaeth eg kallon Ronwen y ell-drewyn ef a honno a lafurya6d y keysya6 agheu y Werthyvyr. ac wedy medylia6 pob ystry6 o diwed hyt a rodes gwen6yn tr6y la6 un o wasanaethwyr yda6 a henny kan rody y h6nn6 llawer o da.<sup>406</sup> Ac y gyt ac y llewes er ardercha6c emladwr h6nn6 e gwen6yn en dyssyvyt klevyachu hep un gobeith o hona6. Ac odyne hep un gohyr dyfynu atta6 a oruc y holl varchogyon a mynegu a wuaeth udunt y vot ef yn mynet yr fford y mae yn reynt y pob perchen cna6t vynet ydy. Sef y6 honno y angheu. a gwascaru udunt y eur ae aryant ae holl daoed or a kynnullesynt y tatau ae hentadeu kyn noc ef. kan dyscu udunt bot en reynt y pa6b mynet y angheu megys yd oed enteu en mynet ac annoc e wyr yewainc glew ar ryfuesynt rac y vron ef en e brwydreu' ac en er emladeu hyt pan ymdyffynnynt ew gwlat en wra6l ac en wychyr a llafurya6 oy dyffryt rac eu gelynyon a rac estra6n kenedyl ag y gytadyscu glewder udunt erchy a oruc udunt gwneuthur del6 arwra6l yda6 a llehau honno en e porthva e gnotteynt e sayson dyvot yr tyr ydy. ac gwedy bey varw enteu gosset y gorph enteu ar y del6 hono. ac yr a6r y gwelei er aghyfyeyth genedyl honno y del6 honno ydymchoelynt h6ynteu y h6ylyeu dracheuyn hyt en germania. kans g6erthevyr vendigeit a dywet na levassei er un or saesson byth dyfod y dir ynys prydein tra g6elynt y wed ef yny borthva honno. Ofi ma6r o beth oed glewder y gwr a debygey vot y ofyn ar y elynyon yn var6 mal yn vy6. Ac eissyoes amgen awnaeth e brytanyeid. kans yg kaer lundein e clad6yt y gorff ef yn anrydedus.<sup>407</sup>

Ac Gedy mar6 g6erthevyr vendigeit eilweith y gossoded G6rtheyrn yn frenhin. Ac yn diannot yd anvones kenhadeu hyt yn germania y erchy y Heyngyst dyfod y ynys prydein. a niver bychan gantha6. a hyunny yn dysta6 da6el rac ennynu teruysc eilweith yn yr ynys o acha6s y Saesson.<sup>408</sup> Ac yna yn diannot sefa a oruc Heyngist kynnulla6 trychanmil o varchogyon arva6e a dyuot a hyunny gantha6 y ynys Prydein. A phan gygleu y brytanyeid dyvod hynny. yn diannot dyuna6 a orugant. a dyfod yn y herbyn ac ymlad ac h6ynt kyn y eu dyvot yr tyr. A diffryt y porthloed rac-tynt. Sef aoruc Heyngyst yna medylia6 o pob med6l twyllodrus pa fiunut e gallei ef dyfot yr tir. Sef val yd ystrywy6s ef hynny. nyt amgen anvon ar G6rtheyrn ac ar ronwen y verch y vot ef yn dyvot y ymwelet ar brytanyeid tr6y garyat a thangnheved. a manegy ydynt nad yr keissya6 triga6 yn ynys Prydein y doodyd ef yna. namyn tybygu bot G6rthevyr yn vy6 ac er nerthu G6ertheyrn y dygassey ynteu y niver h6nn6 yno. Ar niver a vynho G6ertheyrn y attal gydac ef attalyed. Ac ar ni mynho ellyghed ymeyth.<sup>409</sup> A phan wyby G6ertheyrn ystyr y kennad6ry honno. Sef aoruc ynteu yn diannot rody idynt kennad y dyvot yr tir. A g6neuthur oet y ymdydan ar Brytanyeid yny lle a elwyr maes y kymry yn aga6s y vanachloc Ambyr. A hynny ar dy6 kalanmei. Sef aoruc Hingestyr erbyn e dyd h6nn6 prydu t6yll. nid amgen no rody kylllell hyr y bop gwr onadynt yny hossan ygyt ae esgeir. a rhodi yn ar6yd oi wyr pan vinyeyt tynnu eu kylllyll onadynt. doedyd o hona6 ef namyn. draweth hwy sexes. neu onwer saxes. Sef y6 hynny. kymmerwch ych kylllyll. A phan doetey ef hynny llad o bop un onadynt a ellynt v6yhaf or brytanyeid.<sup>410</sup> Ac yr oet dyd y daethant yr lle yd oed eu kynnadyl. Aphan vu amser gan Hengistyr doedyt aoruc yr ar6yd o hyd y lef. Ac yna yn diannot y kymmerth y Saeson eu kylllyll a llad y brytanyeid yna o rivedi onadynt triugeinwr a phed6ar kant. o dy6ysogyon a bar6nyeid a marchogyon. kans pa6b onadynt a doethant yno heb arveu. kany medyllynt dym namyn tag-nheued ar Saeson. Ac h6ynteu tr6y eu brad a doethant yn arva6e 6rth hyuny ha6d idynt lad e g6yr ereill yn diarvot. Ac eissoes nys kawsant yn rat. kanys llawer o honynt h6ynteu a las yna. kanys y Brytanyeid a gymerynt e meini or dayar ar trosolyon. ac yvelly y lldasant lawer or bradwyr Saeson.<sup>411</sup> Ac yno ydoed Eudol

iarll Kayaw. sef yw honno Kaer Loyw. A phan welys ef y damŵeyn hōnn6 e llad-oed Eidol dengwyr a thriugeinwyr or Saeson heb a anovod onadunt. o dorri eu breychieu neu sigaf y penneu. ac wedy na thychia6d ida6 ef hynny ffo a oruc hyt yny dinas ehun. a llawer o pop parth yn y hymlyt. ac velly y gorfu y Saeson yna. A daly Gortheyrn ae garcharu. ac yn y garchar kymhell arna6 rodi idynt y dinasoed ar kestylly y ryfedi a vynnasant er y rydhau ef. Sef y kawsant gantha6 Lundeyn. a chaer Evra6c. a Lincol. a chaer Wynt. Ac yna y kymert h Eidol. gorrfoed y gwyr da a las yno. a phery eu kladu ygkaer Garada6c. ac aelwir yrawran Salisbury mewn myn6ent garlla6 mynachloc Ambyr. Ac ef a berys abad yno engynta.<sup>412</sup>

A wedi rhydhau Gortheyrn llad a orugant y Bryttanyeid. megys bleidyeu yn llad defeid y me6n keil. wedy ydada6ei eu heusor h6ynt. A phan welas Gortheyrn y lladva honno ar Bryttanyeid. y doeth ynteu i emyleu Kymru o dic a llyt 6rth yr yscymun bopyl honno.<sup>413</sup> Ac yna gal6 attaf a oruc holl doethyon y kyuoeth a gouyn kyghor idynt. Sef y kowsasant yn eu kyghor. gwnethur kastell kadarnaf ar a ellyd yny lle kadarnaf a 6pynt. meg y bey h6nn6 yn amdifffyn ida6. Ac ody na y doethant y geissia6 lle kadarn. sef y kowsant y lle ymynyd yryri.<sup>414</sup> Ac y kynnull-6yt g6eithwyr a holl seiri main ynys prydein or a all6yt eu kaffel ac eu d6yn hyt yno. Ac 6edy eu dyfot yno. dechreu y g6eyth a orugant. a gossot sylvain. ac a wnelynt beuny d o weith a lynkau y dayar ac a syrthiau beunoyth. Ac 6edy mynegu i ortheyrn hynny. gouyn a oruc ynteu oy dewinyon. beth a wnaey divlannu y gwaith uelly.<sup>415</sup> Ac yna yd erchys y dewinyon ida6 geissia6 mab heb dad a llad h6nn6. ac a g6aet h6nn6 ira6 y main ar kalch ac uelly y sauey y g6aith. Ac yna yn diannot yd anuones Gortheyrn kenhiadeu y bop lle i geissya6 y kais h6nn6. Ac val y da6 y kenhiadeu yr dinas a elwir kaer Verdyn. wynt a 6elynt s6rn o weission yeu-einc yn g6are yn mynl porth y dinas. sef a orugant y kenhiadeu yna eiste ac edrych ar y g6areu.<sup>416</sup> Ac val yd oedynt velly ynychaf deu or g6eission yn darvot rhyng-thynt. ar neill onadynt a el6yt Merdyn. ar llall a el6yt Duna6t. Ac yna y dywa6t Duna6t 6rth Verdyn. nyt 6yt ti un 6r a myfi. kanys dyn tagheduenna6l 6yt ti heb dat itti. A minheu a han6yf o lyn brenhinoed. o dat a mam.<sup>417</sup> Ac yna pan gigleu y kenhiadeu y gair h6nn6 am Verdyn. gof-

yn a orugant ir niver o bop tu udynt. p6y oed y gwas. Ac yna y dywa6t pa6b onad- ynt na wydhynt h6y p6y oed y dat. y vam ynteu oed 6erch i vrenhin Dyvet. a man- aches vucheda6l y6 ymplith manachesseu ereill yn egl6ys Beder ygkaer Vyrbyn.<sup>418</sup> Ac yny lle yn diannot yd aeth y kenhiadeu hyt ar e swyda6c a oed yn y dinas ar kas- tell. Ac erchi ida6 oblegyd y brenhin anvon Merdyn yn diannot ae vam ygyt ac ef i ymwelet a Gortheyrn. Ac yna yn di- annot ydaeth y lleian ai mab ygyt ac h6ynt rac bron Gortheyrn ir Yri.<sup>419</sup> Sef a oruc Gortheyrn yna aruoll y lleian da honno yn anrydedus. kanys y hanvot o lin brenhina6l.<sup>419</sup> Ac yna govyn a oruc Gortheyrn yr lleian. p6y oed dat y mab. Arglyd vrenhin ebhi mi a doedaf yt wir- woned. val ydoed6n ymplith fy choiered krefyd yn vy hundy ynychaf y dyfot attaf wr ma6r tec teledy6. ac yn rody kussaneu mynych ym. ac yny lle yn diflannu y6rth- yf. Ac yny d6ed yn kytya6 a mi am ada6 yn veichia6c. Ac edrychet dy doethin- eb di arglwyd a alley vot tat ida6 6rth na bu imi erioet achaws a gwr namyn hynny.<sup>420</sup> Ac yna ryfedu hynny a oruc Gortheyrn. a dyvynnu attaf Meugant dewin. a gofyn i h6nn6 a allei hynny vot yn wir. Ac yna y dywa6t Meugant ef a geffyr yn llyvreu doethyon ac yn ystoriau bot llawer o dynyon or ryw enedigaeth a honno udynt. Aphili6s a dywaid pan draetho o du6 ac or seint. bot y ryw gen- etyl ysbrytion yn pres6ylia6 r6g y lleuat ar dayar. ar rei hynny a al6n ni yn deivyl dyg6ydetic. ar rei hynny rann syd onadynt o anyan dynyon a rann arall o anyan ag- ylyon. a phan yvnnont y kymerant korf dynyon ai drych arnadunt. Ac yny wed honno y kytyant a gwraged. ac agatvyd un or rei hynny a ymdaghoses yr wraic hon. ac a grea6d y gwas ieuau h6n.<sup>421</sup> Ac wedy gwrandaf o Vyrbyn pob peth or ymadrodyon hynny nessau aoruc ar y brenhin adoedyt wrtha6. Arglyd eb ef pa achaf y dyep6yt fyfi yma am mam hyt rac dy vron di. Gortheyrn a dywa6t wrtha6 ynteu vyn dewinyon am doethyon a gyghorassant ym geissia6 mab heb dat ida6. ac a gwaet h6nn6 ira6 y mein ar kalch. ac velly ydoedynt h6y y savey y gwaith. Ac yna y dywa6t Merdyn ar ith doethyon ath dewinyon dyvot gar fymron i ami a brovaf arnadynt eu bod yn gelwyd- a6c. ac eu bot yn dechymygu kelwyd.<sup>422</sup> Ac yny lle anryvedu yn va6r aoruc y brenhin y amadrodyon ef. ac erchi d6yn e dewinyon rac bron e brenhin a Merdyn



yygt. Ac yno y dyŋot Merdyn 6rthynt hŋy. kanys ny wda6ch chŋy pa beth yssyd dan y grŋndwal e dechreywydic dwr. yn llesteiryaf y gweith i sevyll 6rth hynny yd archysa6ch chŋy roi vgy gwaet i ae gymysc ar kalch. megys byt sauey y gweith o hynny allan. namyn doydŋch chŋy imi pa beth yssyd dan y grŋndwal. kanys yno y mae y peth ni ad y gweith i sevyll.<sup>423</sup> Sef a wnaeth e dewinyon yna ofynhau a thewi. Ac yna y dywet Merdyn. Arglŋyd vrenhin galŋ dy weithŋyr ac arch idynt gladu y dayar. a thi a geffy lynn dan y dayar. a hŋnnŋ ny ad yr twr seuyll. Gwedy gŋneuthyr hynny. y llynn a gaffat. yr hŋn a wnay y dayar yn anŋastat. ac a 6nay ir gŋaith na saf. Ac eylŋeith nesau a oruc Merdyn at y dewinyon. a gouyn udynt. doydŋch imi eb ef dŋyllwyr geuaŋc pa beth yssyd yg gŋaelaŋt y llynn. Sef a orugant hŋynteu tewi.<sup>424</sup> Ac yna dyŋot Merdyn 6rth Ortheyrn par di arglŋyd ollŋg y llyn yn gyffredin a thi a weli deu vaen geu yny gwaelaŋt. Ac ymae yu y rei hynny dŋy dreic yn kyseu. A chredu hynny aoruc Gortheyrn am welet y llyn. A phaŋb a oed yn ryvedu ar a oed yn gwrandaf. Ac yna edrych ar y gŋas ieuank yn doydyt hynny. Ac An vap y lleian y gelŋyd ef hyt hynny. ac o hynny allan Merdin. o achaŋs y gael ygkaer Verdin.<sup>425</sup>

Ac gŋedy gollŋg y llynn y kad e gyst. ae hegori a vynhaŋd y brenhin. Yna prophŋydolyaeth Merdyn Emrys garbron Gortheyrn. yr hon aelwyr y brofwydyolyaeth vaŋr. y brofwydyolyaeth hon nid yscryvenŋs yma rac y hyt.<sup>426</sup>

Ac 6edy darvot i Verdyn draethu y broffŋydoliaeth. ryfed oed gan baŋb vaint oed synŋyr y mab. Sef y gofynnaŋd y brenhin i Verdyn: pa agheu ae dygai ef.<sup>427</sup> Gochel di eb ef. dan meibyon cŋstenin. kanys y maent yr aŋr hon yn lledu hŋylien ar draeth llydaf. yn dyŋat i enys Prydein i lad saesson. ac ae gorescynant oll. Ac yn gyntaf hŋynt ath loscant thi meŋ tŋr. kanys tydi oth dŋyll a vradychaŋd y tat ae braŋt. Ac a wahodeist Heyngest yma yr lles yt. Ac y mae hynny yn amhorth yt. kanys deu agheu syd yt ogyvadaŋ. un yŋ y Saesson sy yn gorescyn arnad. Ac Emrys ac Uthyr a doant y draeth Toynus yvore yr tir. Ac 6ynt a gochant 6ynebeu y Saesson ou gŋaet. Ac 6edy llader Hengestyr e coronir Emrys. hŋnnŋ a atnewyda er eglŋyseu. ac a gŋenŋyn e lledir ef. Ac yny ol y coronir Uthyr. ac a gŋenŋyn y lledir hŋnnŋ. o dŋyll y Saesson. Ac yn

ol hŋnnŋ y daŋ Baed Kernyŋ. yr hŋn ae llŋnk 6ynt oll.<sup>428</sup>

Ac ny bu hŋy noc hyt trannoeth ony doeth Uthyr ae Emrys ir tir. a deg myl o varchogyon aruaŋc.<sup>429</sup> Ac ymgynnullaŋ a oruc y Brytanyeid oll attunt. a gŋrhau i Emrys. Ac yna y kymerth Emrys y goron. ac y kavas yny gyghor vynet am ben Gortheyrn tua Chymru. Ac 6edy y dyvot hyt yn Erging. kyrchu castell Gronwy. ar ben mynyd Denarch. ar lan Gŋy. avon a daŋ o vynyd Klorach. kanys hyt yno ffoassei Gortheyrn. Yna dŋyn argof a orugant idaŋ lad eu tat ae braŋt. a dŋyn Saesson ohonaŋ yr tyr. ac 6rth hynny eb ef. wyrda ymledŋch yn diŋeiriaŋc ar kastell ackŋ. Ac yn diannot roi tan a orugant yg kylch y kastell. a lloski a oed yndaŋ o da a dynyon. Ac y llas Gortheyrn ae y llosced.<sup>430</sup> Aphan gycleu Hengestyr llad Gortheyrn. a dewred Emrys ffo a oruc y Saesson or tu hŋnt y Hŋmyr. ac ymgadarnhau yno.<sup>431</sup> Yna yr aeth Emrys ar y hol ac y bu drŋc ganthaŋ welet yr eglŋyseu 6edy distryŋiaŋc or Saesson. a dywedyt yr adnewyday o doe dracheuyn.<sup>432</sup> Yno y daeth Heyngest ae lu i vacs Beli. ar vedŋl dŋyn kyrch disyŋyt am ben Emrys.<sup>433</sup> Ac ni ochelaŋd Emrys y lle hŋnnŋ. Ac yno bydinaŋ a oruc a rhoi gŋyr Llydaf or naill tu. ae wyr ehun blith draphlith. a gŋyr Dyvet gan y hystlys. a gŋyr Gŋyned yn y koet garllaŋ a oruc Emrys. val y galley ymlid y Saesson pan ffoynt.<sup>434</sup> Ac yn y tu arall yr oed Hengestyr yn annoc y wyr ynteu. ac yn y dysku. Yno y bu aerua vaŋr o bop tu. ac or dŋed yffoes Hingestyr ae wyr i gaer Kynan ar kastell. Ay ymlid a oruc Emrys. ac yno ymvydinaŋ a llad llaŋer o bop tu. Or diwed gwyr Llydaf a dyllaŋd y Saesson trŋdydynt. Ac yr oed Eidal iarll kaer Loyŋ yn ymgeisyaf a Hingestyr.<sup>435</sup> Ac or dŋed yr ymgaŋsant. Ac ymlad ony bu y tan oe harueu val mellŋ lluchedenaf ymlaen taran. Ac val y budynt velly. ny chaf Gwrlas iarll Kernyŋ ae vydin yn dyvot attynt ac yn gŋascaru y Saesson. Sef a oruc eidal yna y hyder hynny kymryd Heyngyst erbyn barfle y benfestyn ai dŋyn ym plith y vydin. a dyŋedyt o hyt y lef. kyfarsengwch y Saesson. kanys kad Hingestyr.<sup>436</sup> Yna y ffoes Octa vab Heyngyst a ran vaŋr or llu hyt yg kaer Efraŋc. A Osa y geuynderŋ a ran arall i gaer Alklŋyt. Ac yuo ymerbyn ac Emrys.<sup>437</sup> Ac 6edy gorrvt o Emrys arunt. ef a gavas y gaer. Yno y bu dridydu yn pery cladu y kalaned a ledesyŋ.<sup>438</sup> Yna 6ovyn kyghor

a oruc pa beth a 6naid i Hingestyr. Ac un oy gyghor oed Eidol escob kaer Loy6 bra6d Eidol iarll. A phan 6elys Heyngyst y dy6a6t. pe erbhnyeu pa6b rydhau Hingestyr mi ae llad6n vy hun val y g6naeth Sam6el brof6yt pan 6eles Agag brenhin Amalech y perys y dryllia6 6edy y daly a dy6edyt 6rtha6. val y g6naethost di y meibyon heb vameu. minneu a 6naf dy vam ditheu heb vab. Yna y duc Eidol iarll kaer Loy6 Hengestyr y ben bryn ac yno torri y ben ae gladu a roi karned arna6 val y g6naed am Sowdan.<sup>439</sup>

YNA yr aeth Emrys ae lu hyt yg kaer Efra6c i geissya6 Octa. Yna y kavas y Saeson yn y kyghor. dyvot allan a chad6yn yn lla6 pob un. a thamet o bryd ympen pob un. a dy6edyt 6rth Emrys. Argl6yd gorch6ygedic y6 yn du6yeu ni. ach du6 choi sy gadarn ysyd yn kymhell y sa6l vonedygyon hyn yn ych e6yllys ch6i yn yr ag6ed hon. A llyma ni a chad6yn yn pob un. par di argl6yd yn r6yma6 os mynny. Yna 6edy kymryt kyghor y dy6a6t Eidol escob val hyn. Egobanite a doethant oy bod y erchy tagneued y popyl yr Israel ac ay ka6sant. Ac ny byd g6aeth yn trugared no h6ynteu ir Ide6on. Ac odyna yd aeth Osa ay popyl ynteu yn trugared Emrys. Yna y roet Octa ay niver yn gaithyeit i Emrys yn Ysgotlant.<sup>440</sup>

Yna y gel6ys Emrys atta6 y holl ieirll ac var6nyeit ar archescob i gaer Efra6c. Ac yn y kyghor y ka6sant yn gyntaf g6eirya6 y temleu neu yr egl6ysseu a distr6assei y Saesson. Ac ar gost y brenhin ehun y peris g6eirya6 yr egl6ysseu. Ac yn en6edic egl6ysseu yr archescoptey. Ac ympen y pymthecvet dyd 6edy hynny yd aeth Emrys i Lundein. a phery yno hevyt adne6ydhau yr egl6ysseu. Ac yny lle ar ol hynny y perys adne6ydhau y kyvreithyeu dr6c a oedyt yn y kynhal. nid amgen no roi yr meibyon ar wyrion ar gor6yrion eu g6ir dylhet o dired a dayared a dylnt. ac a daroed eu treisya6 amdanadynt. A dilin gwirioned ympop lle ae chynhal.<sup>441</sup> Ac odyna yd aeth y brenhin parth a chaer Wynt i 6neuthyr yno val y g6naethoed ym pob lle. Ac 6edy darvot ida6 llunyaethu pob lle ay hedychu yd aeth hyt y lle ael6yr yr a6r hon Salsbru. i edrych yno y niver a barassey hengestyr eu llad yno o ieirll a bar6nyeit a marchogyon urda6l. A thrychan manach oed yno o g6vent ym mynyd Ambri. Ac Ambri a seill6s y vanachlog honno gyntaf. A thrist vu gan Emrys 6elet a lle honno. mor diadurn a hyny. A dyuyau a oruc atta6 hyt yno holl seiri

mein a phren o holl ynys Prydein i darparu g6neuthur yno adurn parhaus tragy6yda6l tec anrydedus y u6ch ben y vedra6t hono o dyledogyon a ladyssit yno yn 6yr-yon yn amdiffyn tref eu tat rac y brad6yr paganyeit.<sup>442</sup> Ac 6edy eu dyvot hyt yno ygyt dechymygu g6eith a orugant. oc eu holl ethrylith ay wneuthur yn diannot yn barhaus dragywyda6l. Ac 6edy pallu eu hethrylith ganthunt. nessau a oruc Tramor archescob kaer llion ar y brenhin. a dy6edyt 6rtha6 val hyn. Argl6yd eb ef. gal6 attat Verdyn bard Gortheyrn. A h6nn6 a wyr dechymygu g6eith enryved. o anniffyc ethrylith tragywyda6l.<sup>443</sup> Ac y dyvyn6yt Merdyn yno 6edy y gafel ar lan fynha6n Galades yg g6lat E6ias. kans yno y tram6yey ef yn vynyth. Ae arvolla a oruc y brenhin ida6 yn lla6en ac yn enrydedus. Ac erchi a oruc ida6 dywedyt y daroganeu a deley rac lla6.<sup>444</sup> Ac yna y dywa6t Merdyn. Argl6yd eb ef. nid ya6n draethu or ry6 betheu hynny. namyn pan y kymhella anghereit. Pei as dywet6n ni yn amser ni bei reit wrthynt. tewi a wnaei er ysbryt ysyd yn dysgu inheu. A phan vei reit 6rtha6 y ffoei racof.<sup>445</sup> Ac ni mynn6s e brenhin i dirrya6yef namyn govyn ida6 pa ffunyt y dechymygey ef datkan y g6eith ar 6edra6t yno. Llyna val y kyghoraf eb enteu. mynet hyt en Iwerdon y lle mae kor y kawri. ym mynyd Kilara. kans yno y maent mein enryued eu hansa6d. Ac nyt oed neb yn yr oes honno. a wypai dym y 6rth y mein hynny. Ac ny cheffit h6yuth6 nac o gryfder nac o gedernyt. Ar mein hynny. Arglwyd. pei bydunt 6y yma val y maent yno. h6ynt a seuynt yn dragywyda6l.<sup>446</sup> Ac yno y dywa6t Emrys dr6y ch6erthin val hyn. pa ansa6d eb enteu y gellyd eu d6yn h6ynt odyno. Ac yna y dywa6t Merdyn. na chyffroa di argl6yd ar ch6erthin yn ormod nac ar wat6ar nac ar or6acder. kans ny dywedafi namyn prudder a g6iryoned. A mein rinweda6l yty6 y mein. ac amryuaelyon vedeginyaetheu arnadunt. Ar kewri gynt ac eu duc h6ynt yno. o eithaoued yspaen. ac ae rodassant yn y mod y maent yno. Sef achaf6s y g6naethant h6y hynny. pan deley glevyt ar un onadunt sef y g6einid enneynt yg kymherved y mein. ac yna y golchynt y mein ac y dodunt yn yr enneynt. Ar neb onadunt a vei glaf. o ba heint bynhac y bei iechyt a gaffei o vynet yr enneynt. A llysseu a rodynt heuyt yn yr enneynt, ac or llyssieuoed hynny yd iecheynt eu g6elioed.<sup>447</sup>

A phan gigueu y Brytanyeyt kynnedeu

y mein. yn diannot y daethant y eu kyrchu. Ac yn benaf arnadynt yd anvonet Uthyr ben dragon. aphymptheg myl o wyr arua6c ygyt ac ef. Ac yna yd anvonet Myrdin gyf ac 6ynt. am y vot yn gelvyd ac ethrylith ma6r ynda6.<sup>448</sup>

Ac yn yr amser h6nn6 yt oed Gillam6ri yn vrenhyn yn I6erdon. A phan gieled Gillam6ri h6nn6 eu bot yn dyvot. kynnulla6 llu aoruc ynteu a dyvot yn erbyn y Brytanyeyt. A gouyn ydynt ystyr eu dyuotyat yno. A phan 6yby ystyr eu hnt. ch6erthin aoruc a dywedyt 6rthynnt nyt ryved genyfi eb ef gallu o genedyl lesg anreithya6 ynys prydein. canys ynvyt ynt pan delynt h6y hyt yn I6erdon. i bery i genedyl I6erdon ymlad a h6ynt am geryc. Ac yn diannot ymvydina6 aorugant ac ymgyrchu ac ymfust nny gymhell6yt Gillam6ri i ffo ac a dyengys oe wyr.<sup>449</sup> Ac yn gyflym diannot mynet a oruc y Brytanyeyt hyt ym mynyd Kilara. y lle yt oed y mein. Ac yna y dywa6t Merdyn 6rthynnt. Arver6ch or dechymyc goreu a 6ypoch i d6yn y mein ymeith. Ac yn diannot pa6b onadynt a lavurya6d or a 6ydynt obop kelvydyt a dechymyc i geissya6 d6yn y mein. Ac ny dygrynnoes udynt dim. Sef aoruc Merdyn yna chwerthin. A heb lavur or byt arna6. onyd y anodun ethrylith 6edy dar6ot ida6 gweiry6a6 pop peth or a vey reit. nyt amgen peyriannau a chelvydoteu ereill. Merdyn a duc y mein oll oc eu lle nny vuant yn y llogheu. Ac yn diannot herwyd dyuot y 66ynt. yni vuant ym mynyd Ambri. A dyvynnu hyt yno a beris Emrys a oed yn ynys Brydein o ieirll a bar6nyeit ac yscolheigygon urdisaid 6rth adurna6 y lle honno. o odida6c adurn. Ac 6edy ymgynnull pa6b ygyt hyt yr un lle h6nn6. pan daeth y dyd gossodedic h6nn6. Emrys Wledic a wisga6d coron y deyrnas am y pen ac yn vrenhina6l a anrydeda6d gwylva y Sulg6yn tr6 espeyt tridieu a theirnos. Ac yn henny o espeyt ac amser or anryded ar teilygdodeu a oedynt yn wac heb perchanogyon na dyledogygon arnadynt. er rei henny a rodese brenhin oy wasanaethwyr enteu ac oy wyrda i dalu eu llavur udynt. A d6y archescoba6t oedynt yn 6ac heb vugelyd endynt. nid amgen kaer Efra6c a chaer Llion ar Wyc. Ac o gyffredin gyghor e gossodes ef ena Sampson en archescob ygkaer Efra6c. g6r ardercha6c goruchel oe gre6yd ae vuched oed h6nn6. Ac ygkaer Llion e gossodes Dyvric yn archescob. e gwr a rac welsei d6ywa6l edrychedigaeth i vot yn etholedic ir lle honno. Ac 6edy darvot ida6 llun-

yaethu henny. a llawer o betheu ereill a perthyneu ar ly6odraeth y deyrnas. ef a orchymyna6d i Verdyn gossot a llunyaethu e mein ar rydygessynt oywerdon egheilch e bedra6t ar e wed e g6ely ef i vot yn ia6n. A Merdyn yna o arch a gorohymyn y bren<sup>]</sup> hin ae gossodes ena h6ynt ar e wed ar ansa6d eod oedynt ym mynyd Kilara en I6erdon.

Ac yn yr amser h6nn6 Pasken vap Gortheyrn. e gwr a ffoasoes ygyt a Saeson hyf yn Germany a gyffroei y bopyl honno ae holl varchogyon arva6c en erbyn Emrys Wledic. i geisia6 dial e dat arna6. kan ada6 udynt antervynedic amylder o dir eur ac aryant. or tr6y eu nerth h6ynt ac eu kant6rth6y e galley enteu gorescyn teyrnas ynys Prydein. Ac or diwed g6edy darvot ida6 dr6y ei ada6eu ef llygru holl ieuengetyd e g6lat. paratoy a gwnaeth<sup>e</sup> llyghes v6yaf a allei. a dyvot hyt yg gogledd er ynys. a dechreu anreithya6 e g6lad oed. Ac 6edy kennatau henny ir brenhin enteu a gynnulla6d y holl lu ac a aeth en eu herbyn. ac a elwys ar ymlad ydy6al elynyon. Ac h6ynteu oc eu bod a ymladasant ar ky6ada6twyr. Ac eisoes kan vod Du6 e ky6ada6twyr a orvuant ac a gymhellasant e gelynyon ar ffo.

Ac 6edy kymhell Pasken ar ffo ny llavassa6d ef ymchoelyt tracheuyn i Germany. namyn trossi y h6yliu a chyrechu hyt at Gillam6ri brenhin I6erdon. A h6nn6 ae herbynya6d yn anrydedus. Ac 6edy datkanu o hona6 y antyghetven ae direidi i Gillam6ri. truanhau 6rtha6 a oruc. ac ada6 nerth a chanh6rth6y ida6. A ch6yna6 y sarhaet ar ryga6ssei enteu ygan y Brytanyeyt. pan dygessynt Kor e Ke6ri odyno. Ac or diwed g6edy kadarnhau kerennyd er rydynt. paratoy llogheu ag6naethant a mynet endynt. ac i gaer Vyny6 e daethant yr tir.<sup>450</sup> Ac g6edy honni eu dy6odedigaeth 6ynt tros y g6ladoed. Uthyr Pen-dragon a kynyrth holl varchogyon a holl wyr arva6c er enys. ac a aeth parth a Chymru 6rth emlad yn eu herbyn. kanys Emrys Wledic y vra6t ef a oed yn glaf ygkaer wynt. ac ny allei dyvot i'r ll6yd 6rth henny.<sup>451</sup> Ac g6edy g6ybot henny o Basken a Gillam6ri ar Saeson ygyt a h6ynt lla6enbau aorugant en va6r. kanys tebygu a g6neynt vot en ha6s udynt goreskyn e deyrnas o acha6s klevyt e brenhin. Ac val yt oedynt evelly en m6rmuria6 am hynny em plith e llu nessau a oruc un or Saeson at Pasgen. ac esef oed y en6 ef Eopa neu neu Eppa neu Oppa. a dy6edyt val hyn 6rth Pasgen. Pa beth eb ef o da

ar rodut ti yr nep a ladey Emrys Wledic. A Phasgen a dy6a6t 6rtha6 enteu, dioer eb ef. p6y bynhac a alley eskynnu hynny en eu ved6l ai d6yn ar berfeithda6t ar i 6eithred. mi ar rod6n ida6 mil o bunhyoed o aryant am ann6ylyt ynheu am kytemdeithas hyt tra vyd6n vy6. Ac os e dyg-hetven a kanhiataey i mi arveru o goron teyrnas ynys Prydain mi ae g6na6n ef en s6yda6c ym a henny a gadarnha6n tr6y arvoll.<sup>452</sup> Ac ar hynny e dywa6t Eopa mi a dyscais eb ef yeith e Brytanyeit. ac eu deya6t mi ae g6n. a chyvar6yd 6yf yg kelvydyt medeginyaeth. Ac 6rth henny. o chy6iri di er hyn yt 6yt en i ada6 i mi. minheu a dychymygaf vy mot yn gristya6n ac yn vryt6n. Ac en rith medyg mi a doaf at e brenhin. a mi a wna6 dia6t ida6 er hon ae llado enteu. A hyt pan vo kynt e kaff-6yf ym6elet ar brenhin mi am g6naf yn vanach credyfus ryola6dyr. ac en dyscedyc o bop dysc.<sup>453</sup> Ac gwedy ada6 o hona6 henny Pasken tr6y kedernyt aruoll a ade6ys ky6ira6 pop peth ida6 megys y hada6ssey. Ac 6rth henny nny lle Eopa a berys eillya6 y varyf a chneivya6 y ben ac eillya6 y gorun a chymryt abit manach andana6. a llestri ac offer medyc. a chymryt y hynt e tu a chaer Wynt. Ac or diwed g6edy i dyvot ir dinas ac ir gaer daga6s y 6asanaeth ae gelvydyt agwnaeth i wassanaethwyr e brenhin. A chymedeithas a gavas ygan er rey henny. kanyis ny damunyt ena dym gwell na chaffael medyc da.<sup>454</sup> Ac g6edy y dyvot rac bron e brenhin ef a ade6ys i g6neuthur en iach o mynhey e brenhin arveru or diotyd ar rodey enteu ida6 ef. A heb un gohir erchi a gwnaethp6yt ida6 gwneuthur dia6t i'r brenhin. Ac en diannot kymyscu gwen6yn a oruc ar dia6t ae rodi ir brenhin. Ac g6edy y chymryt o Emrys ac hyvet ene lle erchi a wnaeth er yskymun vrad6r h6nn6 ida6 dodi dillat arna6 a. llechu a chysku. kanyis evelly m6yaf a chadarnaf ed ymgymerei e gwen6yn ac ef. Ac ufydhau aoruc e brenhin i dysc yr yskymun vrad6r h6nn6 a chysku megys kyt bei o henny e kaffey enteu iechyt a g6aret. Ac ni bu en gohir ygyt ac er reda6d e gwen6yn tr6y fenestri y gorf ef. en e lle yt euth er angeu en ol er hon ni g6yr nac ni myn arbet i nep. Ac yn henny er r6ng un ac arall llithra6 ag6naeth er yskymun vradwr h6nn6. ac nit emdangosses yn e llys o henny allan.<sup>455</sup> A hyt tra yt oedyt yn g6neuthur henny egkaer Wynt yd ymdangosses seren enryved y meint ae lleufer. ac vn baladyr idi ac ar ben y paladyr

h6nn6 et oed pellen o dan ar lyn dreic. ac o eneu honno e kerdynt deu baladyr. a hyt y neill onadynt a welyt en estynu tros teruynau Freinc. ar llall a welyt en kerdet parth ac I6erdon. ac en teruynu en seith baladyr bychein.<sup>456</sup>

A phan amdangosses e seren honno anryued ac ofyn a drewys pa6b or ae g6eles. A dirva6r ofyn a gymerth Uthyr bra6t e brenhin en e lle et oed yg kymru en kyrcu y elynyon. Ac gofyn i ba6b or doethyon ygyt ac ef. pa beth a ar6ydokaey e seren honno. Ac ym plith pa6b or rei henny ef a erchys dyvynu Merdyn Emrys ir lle. Ac 6edy dyuot Merdyn a seuyll rac y vron. ef a erchys ida6 danlle6ychu pa beth a ar6ydokaey e seren rady6ededic v6chot.<sup>457</sup> Ac en e lle 6yia6 aoruc Merdyn. a gal6 y esbryt atta6 a dy6ed6yt val hyn. O kollet heb 6aret. O emdiva6t bobyl brydein. O agheu e bonedica6f vrenhin. kanyis difodedic y6 er ardercha6c vrenhin e brytanyeid Emrys Wledic. Ac yn i agheu ef et aballen ni en holla6l pey na rodey du6 ini kanh6rth6y. Ac 6rth henny bryssia di Uthyr. bryssia ac na ohir g6neuthur br6ydyr ath elynyon. kanyis e vudygolyaeth a vyd yth la6. Ti a vydi vrenhin ar holl enys Prydein. Ti a ar6ydokaa e seren ar tana6l dreic adan e seren. E paladyr a estyn parth a Freinc h6nn a ar6ydokaa mab kyfoetha6c a vyd itti. a chyfoeth h6u6 ae vedyant a amdifyn. e teyrnassoed a vydant adana6 en ho la6l. E paladyr arall a estyn parth a mor I6erdon a ar6ydokaa merch a vyd itti. a meibyon honno ae h6yrion a fydey udunt pob eilwers teyrnas Brydein.<sup>458</sup> Ac val yt oed Uthyr yn pedrusa6 ae gwir ae kel6yd a dy6edassey Merdyn. am e seren. megys y dechreuassey kyrcu parth ae elynyon aoruc. Ac 6edy i dyvot hyt ker llaf Myny6 ac nat oed namyn ymdeith hanner dyd erryghynt.<sup>459</sup> A g6ybot o Basken a Gillam6ri ar Saesson eu bot en dyuot h6ynteu a aethant en eu herbyn h6ynt. Ac g6edy eu dyuot hyt pan ym6elsant o pob tu. h6ynt agossodassant eu bedynoed ac adechreuassant emlad. Ac h6ynt yn e wed honno en emlad e marchogyon o bob parth o las megys e derveyd en er ry6 dam6ein h6n6. Ac or diwed g6edy treulia6 lla6er or dyd gorfot aoruc Uthyr. Ac g6edy llad Pasken a Gillam6ri e vudygolyaeth a gavas Uthyr. A dechreu ffo agwnaethant e gelynyon at eu llogeu. Ac yn e ffo h6n6. e lledyt h6ynt ygan y ky6-da6twyr en eu hymlit. Ar vudygolyaeth a dyg6y6ys en lla6 e te6yssa6c a christ yn

y kanhóρθóy.<sup>460</sup> Ac góedy e veint lavur hónnó. megys y gallaóđ gyntaf ef a aeth parth a chaer Wynt. kanys kennadeu a dothoedynt attaó a menegi idaó dygóyded-igaeth e brenhin ar rydarvot yr archescob ac yr escyb ac i abadeu e teyrnas i gladu ger llaó manachloc ambri yn mynóent kor y kewri. er hon a parassei ef i góneuthur hyt tra etoed en vyó. kanys pan glywsant i varólaeth ef et ymgynnullasant er escyb ar abadeu ar escoleigyon ar holl deyrnas. megys y dylent órth aróyliant gó kymeynt kyvórd a hónnó. kanys hyt tra etoed en y vyóyt e gorchymynassei enteu i gladu en e lle hono. Ac órth hynny ygyt a brenhiniaóđ aróyliant eno eu kladasant.<sup>461</sup>

Ac góedy henny en et oedynt galóedigyon er escoleigyon. ar lleigyon. ar bobyl ygyt. Uthyr braóe e brenhin a kymyrth coron teyrnas enys Prydein. Ac o gyt annoc paóe en gyfredyn ef a uróyot en vrenhin. Ac o dyna kofau aoruc e dehongyl agónaethoed Merdyn or racyóededic seren uchot. ef a erchys góneuthur llun dóy dreic o eur ar kynhebygróyđ er hon a emdangossasei ygyt ar seren. Ac góedy góneuthur er rei henny o anryued kywreinróyđ. ef a ofrymaóđ eneill onadynt eg er eglóys penhaf yg kaer Wynt. ar llall a attelys kanthaó órth i aróein en y vlaen en lle aróyđ pan elhey i vróydyr ac i kat ac i emlad. Ac or amser hónnó allan e gelóyt ef Uthyr Pendragon. Ac órth henny e kaus ef er enó hónnó órth i darogan ef o Verdyn tróy e dreic i vot en vrenhin.<sup>462</sup>

<sup>221</sup> A belii a wnaeth y porth yn llundein enryued y weith. Ac oe enw ef etwa y gelwir ef porth belii, y danaw ef y mae discynua y llogeu. Ac yno oes ef bu amyldor o eur ac aryant, megys na bu y gyffelyb yn yr oesod gwedy ef. A phan doeth y diwed ae uarw, y lloset y escryn yn lludw. Ac y dodet y mywn llystyr eur ympen y twr awnaethoed ehun yn llundein. B.

<sup>222</sup> A gwedy marw belii: y doeth Gwrgan varfy trwrch y vab ynteu yn vrenhin. Gwr a euelychwys

gweithredoed y tat trw tagneuyd amwnder. A chynhal y teyrnas rac estrawn genedyl yn prud. A chan kymell y elynyon yn dyledys y darestwg idaw. Ac ym plith y weithredoed y damweinwys nakau o vrenhin denmark y teyrngat a talyssei y tat. Ac a dalai ynteu y talu idaw." B.

<sup>225</sup> Acheweiraw llyges a oruc gwrgan a mynet hyt yn denmarc. A gwedy creulawn ymlad a llad y brenhin y kymhellwys y bobyl y wedawl darystygedigaeth idaw. ar teyrngat val kynt y ynys prydein. B.

<sup>226</sup> A phan yttod yn dyuot parth ac ynysseid orc tracheuyn. nachaf yn kyuaruot ac wynt dec llog ar hugeint yn llawn o wyr a wraged. A gwedy gouyn udunt o pyle pan hanoedynt. A phyle yd eynt, y kyuodes eu tywyssawc ac adoli y wrgant. Sef oed y enw. bartholonn. A gwedy nawd idaw. A dywedut a oruc y rydeol or yspaen. Ac bot ulwydyn a hanher yn krwydraw y moroed yn keissaw lle y kyuanhedu yndaw. Ac erchi idaw ran yn ufyd darystygedic o ynys prydein y chyuanhedu dan tragwydawl geithiwet yr neb a uei vrenhin arnei. kany ellynt diodef mordwy yn vwy no hynny. B.

<sup>227</sup> A gwedy gwybot eu neges. truanhau a wnaeth gwrgant wrthtunt. Ac anuon kyuarwydyt udunt hyt yn iwerdon a oed diffeithle yna y rodes gwrgant yr ynys honno yr gwrydyl yn gyntaf eiroet. Ac yna yd aethant hyt yn y werdon. Ac y kynhydassant yr hynny hyt hediw. Ac yna doeth gwrgant y ynys prydein. Ac yno y bu uarw. Ac y cladwyd yg kaer lliion ar wysc. y lle ar daroed idaw ef y teccau. B.

<sup>228</sup> A gwedy gwrgan y doeth kuhelin y vab ynteu y vrenhin. A hyt tra parawys y oes. yn tagnouedus y traethwys y teyrnas. A marcia oed enw y wreic. A honno oe ethrylith a dechymygrwys kyfreith. Ac alwei y brytanviet kyfreith marcia. Ar gyfreith honno a troes alurty vrenhin o gymraec yn saesneic. B.

<sup>229</sup> Gwedy marw kuhelin y doeth y vrenhinyaeth yn llaw varcia a seissyll y mab. kanyt oed ar y mab oet nam seith mlwyd pan fu varw y tat. Ac wrth hynny y gadwyt y vrenhinyaeth yn llaw y wreic kans doeth ethrelithus oed. A gwedy marw marcia y bu yn vrenhin seissyll. A gwedy seissyll y doeth kynuarth y vab yn vrenhin. Ac yn ol kynuarth. y doeth. dan y vrawt ynteu yn vrenhin. Ac yn ol dan. y doeth morud y vab yn vrenhin. Ar gwr hwnw clotauwr uu pei nat ymrodei y greulonder. pan littyet nyt arbedei neb mawy noe gilyd. Teg oed ynteu a hael. Ac nyt oed un dyn dewrach noc ef. B.

<sup>230</sup> Ac yn y amser ef y doeth brenhin moren yr gogleid a llu mawr gantaw. Ac y doeth morud nny erbyn. A gwedy bot ymlad y ryduot y kanas morud y uudugolyaeth. Ac erchi a oruc dwyn pawb oe elynyon wedy y gilyd attaw y en llad y gyflenwy y greulonder. A hyt tra vei yn gorffwys. yd archei eu blygaw yn vwy rac y vron. A gwedy eu blygaw eu llosci. Ac ar hynny y doeth ryw awystuill athrugar y ueint y wrth vor y werdon. A dechreu llyngoc y ganarfeic ac ef o dyn. Ac y aeth ynteu ehun y ymlad ac euo. A gwedy treulaw y aruen yn ouer. y llyncwys yr anieul ef mal pysgodyn. Ac o hynny allan ny welat nac ef nar enefeil. B.

<sup>231</sup> A phymp meib a uu y uorud. A hynaf oed gorboniawn. A hwnw a gymyrth llywodraeth y teyrnas yn llaw. A hwnw a uu tagnouedus ac araf. Ac ymlaen pop peth y talei teilwg anryded y dweye. Ac uniaun wirioned yr pobyl. Ac attnewydhaun temleu y dweye ar dinasoed a oruc. a gwneuthur ereill o newyd. Ac yn yr amser hwnw kymeint uu amlder eur ac aryant a guldooed ereill. Ac nat oed un or ynyssoed a allei ymgyllybu idi. Ac ym pen hynny oll y kyuoethogei ynteu yn hael pawb or tlodyon mal na bei reit y neb. wneuthur treis na lleadrat na chribdeilei ar y gilyd. B.

<sup>232</sup> A gwedi marw gorboniawn yn llundein. y droychauwyrt arthal y vrawt yn vrenhin. Ac nyt tebic vu ef yw vrawt kyn noc ef. y bonhedigyon a estygei. Ac ar andlyedogyon a urdei. A gwedy na allwys y dyledogyon y diodef duunaw yny erbyn awnaethant ac diwreidaw o gadeir y teyrnas y ymdeith. A dodi elidyr y vrawt yny le. B.

<sup>233</sup> Ac ym pen pump mlyned gwedy y vot yn vrenhin. yd oed yn hela diwarnawt yn fforestlwyn y kaladry nachaf arthal y vrawt y gwr a dyolassit oe vrenhinyaeth gwedy riuot yn crwydraw gwladod ereill am y geissyaw y gyuoeth tracheuyn. Ac yn chwasei dim. Sef a wnaeth elidyr truanhaw wrthaw ae dwyn gantaw hyt yg kaer alclut ae dodi yny ystauell ehun. ymgaeledus. B.

<sup>234</sup> A chymyrt eleuyt arnaw awnaeth elidyr. Ac anuon ar y holl wyrdia y erchi udunt dyuot yw wybot. A gwedy eu dyuot yn llwyr hyt y dinas. Erchi y pop un onadunt dyuot y ymwelet un ar ol y gilyd. Ac y delhei pop un. gwyr yn parawt gantaw y en daly ac y llad oll wrehyent y arthal. A gwedy gwelet hynny ac ofyn eu llad. y gwrahyssant y arthal. B.

<sup>235</sup> Ac odyna y doethant hyt yg kaer efrawc. Ac yna y kymyrth elidyr y goron y am y pen ehun. Ac y dodes am pen y vrawt. Ac wrth hynny y gelwit ef elidir war. B.

<sup>236</sup> Ac odyna y gwledychwys arthal deg mlyned gan ymchoelut y chwyl yny gwrthwyneb. urdaw y dyledogyon a gestyg yrei andlyedawc. A gwneuthur iawnder a phawb. A phan vu varw y cladwyd yg kaer llyr. B.

<sup>237</sup> Ac yna eilweith y deuth elidyr yn vrenhin. Ac ym pen rynnawd y kyuodes ywein a pheredur y deu vroder ieauf yn eu erbyn. A gwedy ymlad ac ef. daly elidyr ae rodi yn llundein ygkarchar. Arannu yr ynys y redunt. nyt amgen lloegyrt a chymry y ewein. ar gogleid y peredur. Ac ym pen seith mlyned y bu varw ywein. Ac y doeth y kyuoeth yn llaw peredur. Ac ym pen yspeit gwedy hynny y bu varw peredur. B.

<sup>238</sup> Ac yna y doeth elidyr y tryded weith yn vrenhin. A phan aeth or byt hwn yd edewis agreiffeu da yny ol. B.

<sup>239</sup> A gwedy marw elidyr y doeth rys mab gorboniawn. A hwnnw adelis yn ol weithredoed elidyr y wneuthur o gwbyl. B.

<sup>240</sup> A gwe y marw rys. y doeth morgan vab arthal. A hwnnw o dysc y rieni awnaeth iawnder. B.

<sup>241</sup> A gwedy marw morgan y doeth einyawn y vrawt ynteu. A phellau aoruc ynteu y wrth weithredoed y vrawt. Ac am y greulonder y bwrwyd ef y chwechet ulwydyn oe teyrnas. B.

<sup>242</sup> Ac yna y doeth idwal vab ywein y geuynderw ynteu y vrenhin. A hwnw a wnaeth iawnder rac ofyn damwein einyawn. B.

<sup>243</sup> Ac yn ol idwal y d. run vab peredur. Ac yn ol run y doeth gereint vab elidyr. Ac yn ol gereint y doeth kadell y vab ynteu. Ac yn ol kadell y doeth coel. Ac yn ol coel y d. porrex. Ac y porrex y bu tri mab. fulgen. ac idwal. ac andryw. A phob un or rei hyny a deuth yn ol y gilyd. Ac yn ol y rei hyny y doeth uryen. Ac yn ol uryen y d. eluyd. Ac yn ol eluyd y d. clydaw. Ac yn ol clyaw. y doeth clydno. Ac yn ol clydno. y doeth gorwast. Ac yn ol gorwast. y d. meiryawn. Ac yn ol meiryawn. y doeth. bleidut. Ac yn ol bleidut y d. caph. Ac yn ol caph. y d. ewein. Ac yn ol ewein. y d. seissyll. Ac yn ol seissyll y d. blegywryt. B.

<sup>244</sup> Ac ny bu yn yr oesod kantor kystal ac ef. Ac rac dahet y kanei y gelwit dnw y gwaryeu. Ac yn ol blegywryt y doeth arthmael y vrawt. Ac yn ol arthmael y d. eidol. Ac yn ol eidol y doeth. rydyon. Ac yn ol rydyon y d. ryderch. Ac yn ol ryderch y d. sawyl pen uchel. Ac yn ol sawyl y doeth pyrr. Ac yn ol pyrr y d. capoir. Ac yn ol capoir. y d. manogan y vab. B.

<sup>245</sup> Ac yn ol manogan. y d. beli mawr y vab ynteu. A deu ugeint mlyned y bu vrenhin yn ynys prydein. B.

<sup>244</sup> Ac y veli y bu tri meib. lud. a chaswallon. a nynnyaw. A gwedy marw beli mawr. y gwnaethpwyt llud y vab yn vrenhin. Y gwr a vu gwedy hynny. gogonedus adeilawdyr kaeroed a dinasoed. hwnw a atne-wydwys muryoed llundein ae tyreu. A chyt bei llawer idaw o dinasoed. hwnw eissoes a garei ef yn vwy nor un. Ac wrth hynny y gelwit hi kaer lud. Ac wedy hynny y gelwit ef yn llundein gan lygru y henw. A phan vu varw llud y cladwyt yn llundein. geir llaw y porth a elwir etwa oe enw ef porth lud yn gym-raec. Ac yn saesnac ludygat. A deu vab y idaw ynteu. auarwy a theneuau. B.

<sup>245</sup> A phan vu varw llud nyt oet ar un or meibon val y gelit ywneuthur yn vrenhin. Ac wrth hynny y gwnaethpwyt kaswallaw yn vrenhin. Ac ymcyrchauel aoruc ynteu y haelder a daeonl hynny oed y glot ef ae volyant yn hedec tros y teyrnas pellaf. Ac wrth hynny y kaunas ynteu vot yn vrenhin. Ac eissoes herwyd y haelder. ny mynwy e vot y meibon yn di ran or teyrnas. namyn rodi y auarwy llundein a iarllaeth keint. Ac y theneuau iarllaeth kornyw. Ac idaw ynteu chun coron y teyrnas. B.

<sup>246</sup> Ac yn yr amser hwnw megys y kefir yn ystoria gwyr rufein. gwedy daruot y wlkessar oressen freinc a dyuot hyt ar lan y mor ar traeth rywten. A gwedy arganuot ohonaw odyno ynys prydein. A gwybot py tir oed a phwy oed yn y chyuanhedu. y dywawt pan yw un genedyd oed wyr rufein ar bryt-tanyeit. Kans o enac yz hanoedynt wy ar bryttanyeit. Ac eissoes om tebic i. neur derw udunt dygen-edlu y wrthym ni. kany wdant beth yw milwriaeth wrth eu bot y mywn eigawn o dieithyr y byt yn presswylyaw. Ac wrth hynny mi a tebygaf bot yn hawd eu kynell y talu teyrget y rufeinawl amher-awdyr megys y tal yr holl vyt. Ac eissoes yawn yw anuon y erchi teyrget ud. blayn llafuryaw gwyr kymneint a gwyr rufein yn eu kynell y talu teyrnet. A rac coti praf hen eu hentat wy gan ellwg gwaet an kereynt. Ar ymadrawd hwan a dotes wlkessar y mywn y llythyr. Ac anuones at gaswallawn vab beli brenhin prydein. A phan dyganwyt y llythyr y gaswallawn. sorri a wnaeth. ac anuon llythyr ar wlkessar tra therwyn a oruc kaswallawn yn y mod hwn. B.

<sup>247</sup> Kaswallawn brenhin prydein yn anuon anerch y wlkessar. O ryuedu meint sychet a chwant gwyr rufein y aur ae aryant mal na allant dyodef yn bot ni yg kwr y byt. val yd ym ni. heb ef. y dyodef perygl yr eigawn y mywn ynssed heb gymell teyrnet arnadunt. A menegi idaw nat digawan gantaw keissaw teyrnet. namyn tragwydwawl geithiwet. A bwrw eu rydit y gantunt. yr hon yd oedynt wy yn buchedocaeu ohonei. A menegi y wlkessar nat herwyd kaitheiwet y dylcei adolwyn udunt. namyn herwyd kereynd. kans o un llun pan anhoedynt. kans rydit a ordyfnassant wy yn gymeint ac na wydynt peth oed geithiwet. Ar rydit honno bei keissei y dwyet y dwyn y genym. ni alafuryem yny meint y gallem y amdifffyn. Ac wrth hynny menegi y wlkessar an bot ni yn parawt y ymlad dros an gwlat ac an rydit os eno ageu dyuot y ynys prydein. B.

<sup>248</sup> A gwedy menegi. grym a llythyr y wlkessar. kynnnullaw llyghes a wnaeth ynteu wrth dwyn ar weithret yr ymadrawd a anuonassei ynteu yny llythyr ar gaswallawn. B.

<sup>249</sup> A chweddy kaffel damuneddy wynt drychael hwyleu a dyuot aber temys yr tir. Ac yna y doeth kys-wallawn a holl gedyrnynt ynys prydein gantaw yn eu herbyn. a beli tywysawc y ymladu ac benteulu ae deu nyeint auarwy tywysawc llundein. a theneuau tywysawc kernyw. a chreidu vrenhin prydein. a gwerthaed vrenhin gwyned. a briaethal vrenhin dyuet. Ac y am hynny ieirll a barwyneit a marchogyon urdolyon. B.

<sup>250</sup> Sef y kawsant yny kyghor. kyrchu ulkessar yny bebylleu kyn kaffel ohonaw dyuot yr wlat. gan tebygu bot yn anhaws y wrthlad gwedy y kaffei ae dinasoed ae kestyll. A gwedu llunyaeu eu bedinoed a chyrchu gwyr rufein yny pebylleu yn diannot. Ac yna y bu kyn galetiet y wrwydyr hynny oed y tyweyrch yn rydec o waet. mal pei delhei deheuwynt yn deisyuyt y toti eira a rew. B.

<sup>251</sup> Ac ual yd oedynt yn yr ymfust hwnw y kyuaru y vdydn yd oed nynhyaw vab beli ac auarwy vab llud yn y llywynw a bydin ulkessar. a llinaru bydin yr amherawdyr. Ac ar hynny yd ymguaruun nynnyaw ac ulkessar. a diruawr lywenyd a gymyrth nynnyaw yndaw am damweinau idaw gyuaruot a gwr kyruod a hwnw. Ac yndiannot y gyrchu a oruc. A phan welas ulkessar nynnyaw yny kyrchu a chledyf noeth troi y taryan yn wychyr gyflym a oruc ac erbynyeit y dyrnawt a oruc arnei. a megys y gadwys y nerthoed idaw gosot a wnaeth ynteu a chledyf ar nynnyaw nchaf y helym. ar pestefyn yr eil yn gyflym mal y bei angheuawl. A phan welas nynnyaw hynny erbynyeit y dyrnawt a oruc ay daryan. a chymeint vu y dyrn-awt ac y glynhws y cledyf yny taryan. ac rac ruthyr bydinoed yny kyrchu pan y bu reit yr ymherawdyr adaw y cledyf yny taryan heb y gafel o honci. B.

<sup>252</sup> A chweddy kafel o nynnyaw y cledyf hwnw acrua diruawr y meint a wnaeth oe elynyon. a gwedy treulaw llawer o dyd yny wed honno y brytanyeit a ganas y uudugolyaeth. a ffo ulkessar ae u yw llogeu. a chymyrth y mor yn lle castell udunt. a llawen vu gantunt gafel hyny odigelweh ac yny kyghor y kawssant na dilynyn ymlad ar brytanyeit hwy no hynny. A hwylaw a wnaethant parth a freinc. B.

<sup>253</sup> A gwedy kaffel y uudugolyaeth honno diruawr lywenyd a gymyrth kyswallawn yndaw. ac yn gntaf talu molvant y eu duweu. Ac odyna rodi rodyon mawr oe wyr o tir a daear ac eur ac aryant a goludoed ereill val y dirperei y enryded. Ac eissoes yr hynny goulus oed a bot nynnyaw yn vrathedic a chyn pen y pythewnos y bu varw. ac y cladwyt yn llundein. ac y dodet y cledyf a dugassei yny taryan rac ulkessar yn yr ysyrin y gyf ac ef. sef oed enw y cledyf agen glas sef achaws y gelwit velly nyt oed dim cr y anwaetei arnaw a vei vuw. B.

<sup>254</sup> Ac odyna gwedy dyuot ulkessar hyt yn traeth freinc. sef a wnaeth y freinc medlyyaw bwrw y ar-glywydyaeth y armdunt wynteu wrth y dyuot ar ffo y wrth y brytanyeit. a thebygu y uot y wanach o hynny. ac attunt heuyt yr dathoed bot y weigli yn gyflawn o lyghes gan gaswallawn yn y hmyllit. Ac wrth hynny glewach oed y freinc yn keissaw y wrthlad oe teruynen. B.

<sup>255</sup> A gwedy gwelet o ulkessar hynny ymgallau a oruc ynteu ac nyt ymrodes y pederuster ymlad ar pobyl greulawn honno namyn agori y tryssor a rodi y pawb anylder o eur ae aryant a bodlonhau pawb or bon-hedigyon ac eu tagneuedu velly ac eu dwyn yn un ac ef. Ac y gyf a hynny adaw eu breint ac eu dyulet y pawb or ae kollassei a rydit y a wei kaeth. Ar gwr a oed gynt yn anhrugaraw megys llew dywal gwedy y hespelllaw ae treissaw ar awr honno yd oed hwnnw megys enw gear yn adaw talu ac edrud pop peth udunt ac ny orffowyswys or gwarodogrwyd hynny trwy eu hedychu yny duc oll yn un ac ef. Ac yn yr amser hwnw nyt oed na chywyd nac ymdidan gan neb namyn am ulkessar a budugolyaeth y brytanieit. B.

<sup>256</sup> Cynn pen y dwy vlyned eilweith paratoti llyghes aoruc ulkessar y geissaw dial ar gysswallawn y sarbaet awnaethoed idaw. A phan gileu gaswallawn hynny cadarnhau y kestyll aoruc ac adeilyat ereill o newyd a gosot keitweit kedeurn yn pop porthua yg kelych ynys prydein. a gwneuthur sycheu o hym plymhedic ar hyt kenawl temys a gosot y rei hynny wrth gadwyneu y tyllu y llogeu ydydanunt o delyn yno ac odyna yd eeth kyswallawn a holl gedyrnynt yr ynys gantaw y kadw yr aruortir ractaw. B.

*Yma y mae dalen ar goll yn llythyr B.*

<sup>257</sup> A gwedy nas kaffai auarwy tagneued yn un mod yd anuones y geissaw nerth at ulkessar ymherawdyr rufein. trwy llythyr yny y mod hwn. B.

<sup>258</sup> Auarwy tewyssawc llundein yn annon anerch y ulkessar. A gwedy damunaw gynt y ageu damunaw weithon yiechyt. edinar yw genyf dala yth erbyn ti pan vu yr ymlad rot a chaswallawn an brenhin ni. kans pei peidasswn i ti a gaffodut. y uudugolyaeth. A chymaint syberwyt a gymyrth ynteu gwedy kael y uudugolyaeth trwy vy nerth i. Ac y mae ynteu weithon ymdigynoeithi y inheu. Ac velly y mae ef yn talu drwc tros da y un. Miui ae gwnaethof ef yn tref tataw. ac ynteu y syd ymditretatu inheu. Miui ae gossodeis ef yr eilweith ar y vrenhinaeth. Ac ynteu yssyd yn wenychu vrn deal inheu. a minheu a alwaf tystolyaeth y nef a dayar na hedeisi y var. o nyt na rcdwn vy nei oe dienydu y wiryon. Ac edrychet dy doethineb ti deunydy y lit ef. damweinaw awnaeth y deu nyeint y ni ware palet. a gwedy goruot om nei i. sef awnaeth nei y brenhin lliidiaw. a chyrcu y llall a chledfyd. ac yn hynny y serthwys nei y brenhin ar y cledfyd hynny aeth trwydaw. A gwedy dyuot hynny ar y brenhin yd erchis ynteu vy nei i yw dienyd tros y llall. Ac wrth nasrodeis y mae ynteu yn anreithaw vvg kyuoeth ac yn distryw ac wrth hynny yd wyf y gwediawd ty trugared ti. ac yn erchi ty nerth y gynhal vvg kyuoeth hyt pan vo trw vrn nerth inheu y kefych tithieu gwrescyn ynys prydein. ac nac amhenet ty Bruder ti dim o hyn. kans or denawt hon yd aruerant y rei marwawl gwedy eirloned tagnouedu. A gwedy ffo ymchoelut ar y uudugolyaeth. B.

<sup>259</sup> A gwedy edrych y llythyr o ulkessar. sef agauas yny gyghor ef ae wyrdra nat elynt y ynys prydein yr geireu y tewyssawc. hynny delhei wylston a ellit y credu. A gwedy kynhetau hynny y auarwy yd anuonens kyan y vab a deg gwystyl arrugeint o dyledogogon y gyuoeith gygt ac ef. B.

<sup>260</sup> A gwedy dyuot y gwystlon kychwyn ar y mor aoruc ulkessar ar llu mwyaft a ganas y gygt ac ef. A dyuo y dofyr yr tir. A phan gogleu gyswallawn hynny lle oed yn ymlad allundein ymadaw ar dinas aoruc. A brysyau yn erbyn yr ymherawdyr ae llw. Ac val yd oed yn dyuot parth a cheint nacha wyr rufein yn pebyllyaw yny lle hwnw kan auarwy ae dugassei wynt yno wrth dwyn kyrch deissyuyt am pen kyswallawn y ellwg ygaer y gantaw. B.

<sup>261</sup> A phan welas gwyr rufein y brytanyeit yn dyuot attunt gwiscaw eu harueu a chweiryaw eu llu yn vydinoed awnaethant. Ac yna y kymyrth auarw vab llud pumil o wyr aruawc ae dwyn y lwyn coet a oed yn agos. val y gallei pan vei amser dwyn kyrch dirybud am pen kyswallawn ae lu. B.

<sup>262</sup> A gwedy daruot llunyaethu y bydinoed y gwnaethpwynt aerua greulawn o pob parth. kans y gwyr lladedic a dygwyeud mal deil mis hdyref gan wynt kadarn. Ac val yd oedynt ya yr ymfust hwnnw kychwyn a oruc auarw ae varchogyon gantaw or llwyn. bydin gyswallawn or tu dracheuyn ar vydin honno a oed anreithied or tu arall gan ruther gwyr rufein. Ac yna rac kywarsagheddygaeth y kywtawtwyr ehun ny allwys senyll y ryctunt namyn kyuryt eu ffo. Ac yn agos udant yd oed mynyd karegawc. a llwyn o goet dyrys a oed ym pen y mynyd. A hyt yno y ffoes kyswallawn ae lu. B.

<sup>263</sup> A gwedy dygwyaud yn y ran waethaf or ymlad a chael goruchelder y mynyd gwyrthwynebu yn wrawl awnaethant y ge gelynyon a oed yny ymlit gan geissaw trigaw ar y tor. Ac essayoes serthed y mynyd ae drysswch ae geric a oed ymdiffyn yr brytanyeit mal y gelynt wneuthur aerua vawr or gelynyon. B.

<sup>264</sup> Ac yna sef awnaeth ulkessar codi y lu yg kylych y mynyd y worchialw rac dianc heb odyo. kans y vedwl oed kymell y brenhin y darostwg idaw trw newyn. yr hwn ny allassei y gymell trwy ymlad. B.

<sup>265</sup> O enryved genedyl y brytanyeit a gymellawd dwy weith y gwr hwnw ar ffo yr hwn ny allwys yr holl vyt gwyrthwynebu idaw. Ae wynteu yr awr hon yn ffoedigyon rac hwnnw. Ac eissoes yn gwyrthwynebu yn wrawl idaw. Ac yn parawt y diodef ageu dros eu gwlat. B.

<sup>266</sup> Ac ym pen yr eil dyd gwedy gwarchae kaswallawn velly. Ac nat oed na bwyt na diawt udunt. ofynhau a oruc bot yn dir idaw rac newyn ymrodi y garchar yr amherawdyr. Sef a oruc anuon ar auarwy y erchi idaw tagnouedu ac ulkessar rac yw genedyl golli eu teilygdawt ar y teyrnas gwedy darffei idaw daly kaswallawn. A menegi idaw kyt ryfelei ar talym ar auarwy yr darestwg ae gopsi ny mynhei ef y ageu yr hynny. B.

<sup>267</sup> A gwedy menegi hynny y auarwy y dywawt ynteu nat oed hawd karu tywysawc a vyd gwar ar ryfel megys oen a chreulawn. a dywal val llew ar yr hedwch. Oi a duw nef a dayar yr awrhon y mae ef yn gwediaw i y gwr a oed arglwyd arnafi gynheu yr awr hon y mae ef yn damunaw tagnouedu trwy darystegedigyaeth ac wilkessar y gwr a oed gan wilkessar kynno hyn. gaffel tagnoued y gantaw. Ac wrth hynny y dylvei ef edrych ar wneuthur iawn yr gwr y gallwys ef dwy weith trwy y nerth wrthlad ymherawdyr rufein dwy weith or teyrnas ar trydyd weith y dwyn idi oe anuod. Ac wrth hynny nyt oed iawn dadleu ar gam ac enwir a miui kan gelleis i wneuthur y gwysaetheu hynny yna. Ac yr awr hon y gweuthym hon. Ac wrth hynny annoethinab yw gweuthur sarhaedeu na cham yr neb y kaffer vudugolyaeth trwydaw yn wastat kany eill un tewissawc gaffel budugolyaeth heb y gwyr a ellyghant y gwaet yn ymlad drostaw. Ac yr hyny eissoes og gallafi ni a wnaft tagnoued ac ulkessar kan deryw dial yn digawn arnaw ef y syrhaet awnaeth y mi. Pan ydyw yn gwediaw yn utrugared i. B.

<sup>268</sup> A chychwyn a oruc auarw a dyuot gan uryh hyt y lle yd oed ulkessar a darestwg rac y vron gan dywedut yr ymadrawd hwn. llyma weithon goleu ac amlwg yt bot yn digawn y dieleisti ty lit ankaswallawn gwna weithon trugared ac ef. Beth a ymnynt amgen gantaw ef noc uffylltawt a darystgedigyaeth a thalu teyrngtet y rufeinawl teilygtawt. A gwedy na rodes ulkessar atdeb idaw y dywawt auarwy wrthaw val hyn tidi ulkessar heb ef hyn a adeweis i y tidi. gwedy goryudit ar gaswallawn. darystgedigyaeth a theyrngtet y ti o ynys prydein. llyma kyswallawn gwedy goruot arnaw. llyma ynys prydein yn darystgedig ytt trwy vy nerth i. beth a dylafai yti y wneuthur ymlaen hynny nyt ef dww grawdyr nef a dayar a wnel diodef ohonafi gyrcharu kyswallawn vy arglwyd. Ac ynteu y gweuthur iawn y mi am y syraedeu a wnaethoed ym. Edlnebyd ti ulkessar nat hawd lad kyswallawn. a miui yn vvy y gwr nyt kywilyd genyf rodi vy nerth idaw o ny bydy ti wrth vvg kyghor. B.

<sup>269</sup> Ac yna rac ofyn auarwy arafhau a oruc ulkessar a thagnouedu a kyswallawn. A chymryt teyrngtet o ynys prydein pop plwydyu. sef oed meint y teyrngtet teirmil o punoed. Ac yna yd aethant ulkessar a chyswallawn yn gytymdeithon. Ac y rodes pop un y gilyd rodyon mawrweirhawc o eur ac aryant a thlysseu. Ac y bu ulkessar y gauaf hwnw yn ynys Prydein. B.

<sup>270</sup> A dechreu gwanwyn y cychwynwys ef rydaw a freinc. A ym pen yspeit o amser kynnullaw llu mawr awnaeth ulkessar. Ac ar llu hwnw yd aeth ef parth a rufein yn erbyn pompeis y gwr a oed yn lle amherawdyr yna y dala yn erbyn ulkessar. A chan ny perthyn ar y deunydy i mi traethu o weithredoed gwyr rufein. hyny uo hebruyedic y rei hynny yd amhoelwn ar yn treuthawt nyhunein. B.

<sup>271</sup> Ac ym pen yspeit seith ulyned gwedy mynet ulkessar o ynys prydein. y bu varw kyswallawn. Ac y cladwyt yg kaer efrawc kan vrenhinawl arwilyant. B.

<sup>272</sup> Ac yn ol kyswallawn y gwnaethpwynt teneuan vab llud yn vrenhin. kans auarwy a athoed y rufein y gygt ac ulkessar. A hwnw a traethwys y teyrnas. trwy hedwch a thagnoued. Gwr dewr oed teneuan ac agarei gyfawnder yn vawr. B.

<sup>273</sup> A gwedy marw teneuan y deuth gynueilyn y vab yn vrenhin. marchawc gwych trybelit oed hwnw

anagassei ulkessar ac ae wrdassei mewn arueu a chymeint un garyat gwyr rufein gan gynuelyn. A chyt gallei attal eu teyrnget oc eu anuod y rodei udunt heb oruot y chymell. B.

<sup>274</sup> Ar amser hwnnw y ganet iessu grist or arglwydes veit wry y gwr y brynwys y kristynogyon yr creu y gallon. B.

<sup>275</sup> A gwedy bot kynuelyn yn vrenhin deg mlyned y bu deu vab idaw Gwydyr. a gweryd adar weudawt. A gwedy marw kynuelyn y gwnaethpwt gwedyd yr vrenhin ac y dechreuws attal teyrnget gwyr rufein. Ac yna y doeth gloyw ymherawdyr rufein a llu ganthaw y ynys prydein y gymell y teyrnget tracheuyn. a thywysawe y ymladeu y gyt ac ef sef oed y enw lilius hamo yr hwn ni wnaei ef dim eithyr trwy y gyghor. ac y porchestyr y deuthant yr tir. ac y gwnaethant mur maen ar pyrth y dinas mal na chaffei neb o ryw ynnet allan. kans. eu bryt oed y gwarchae ae darestwg uelly. B.

<sup>276</sup> A gwedy dyuot y chwedyl ar wydyr kynnull aoruc ynteu holl ymladwyr ynys prydein nny herbryn. A gwedy dyuot y deu lu y gyt bydinaw o pop parth awnaethant a dechreu ymlad a molestu y elynyon a oruc gwedyd yr wyechr a mwy a ladei ehun no ran vwyaf oe lu. Ac ar hynny yd oed yr ymherawdyr ae lu yn kyrcu eu logeu y ffo pan aeth y twyllwr Bradwr gan lilius hamo. a chymrty arueu un or brytanyeit a ryladyssit ac yn yr arueu hynny annoc y brytanyeit megys kyt bei un o nadunt. ac adaw udunt y uudug-olyaeth o perheyn velly kan ieith a dyuodeu y brytanyeit a dycassei ym plith y gwystlon a oed yn rufein o ynys prydein a cherdot yn astrywys trwy y bydinoed hyny deuth geir llaw y brenhin. B.

<sup>277</sup> A phan gauas gyfile taraw y brenhin hyny vu y pen hyt y maes a chledyfi. A llithrow trwy y bydin- oed gan yr yseymnu vudugolyaeth honno hyny deuth ar y lu ehun. B.

<sup>278</sup> A gwedy gwelet o weiryd adarveinidaw rylad y brenhin bwrw y arueu ehun y wrthaw a gwiscaw arueu y brenhin. ac annoc y gytemdeithon a gyrru angerd y ymlad yndunt megys pei euo wei y brenhin. A phawb a vu wrth y dysc. Kans ny wydynt rylad eu brenhin. A gwedy ymlad yn drut wynt awnaeth- ant aerau creulawn or eu gelynyon. Ac or diwed ffo aoruc gwyr rufein yn dwy ran. Gloyw ar lleill ran oe lu yn vriwedic aeth yw llogeu. A chymrty y rei hynny yn diogelwech idaw. a lilius a ran arall a gyrch- wys y koet kany chafas yspeit y vrynet yr llogeu. B.

<sup>279</sup> A thebygu awnaeth Gweiryd vot Gloyw yn ffw yr koet y gyt a hamo. Ac wrth hynny ny orffowys- wys oc eu hymllit hyny gordiwedawd ar lan y mor ynny lle a elwir oe enw ef nordhamtwn. yno yd oed porthua adas y discynnno llogeu. Ac val yd oed hamo yn kaffel y llogeu y doeth gweiryd yn deissyuyt am eu pen. ac yno y lad. Ac yr hynny hyt hediw y gelwir y porthua honno nordhamtwn yn saesnac. Ac yn gymraec porth hamo. B.

<sup>280</sup> A thra tytoed Weiryd yn ymlit hamo. yd oed loyw ar hyn a diagassei oe lu ganthaw gwedy rymchoelot tracheuyn. Ac yn ymlad ar dinas a elwit yna kaer peris. Ac elwir weithon porchestyr. Ac yn dianot gwedy kaffel y gaer ae goresgyn a gwascaru y muroed. kychwyn awnaeth yn ol gweiryd a ryathoed hyt yg kaer wynt. A gwedy y dyuot hyt yno dechreu ymlad ar gaer. A medylaw awnaeth ef gwarchae gweiryd hynny delhei nny ewyllys rac newyn. B.

<sup>281</sup> A gwedy gwelet o weiryd y warchae ef uelly. kyweiryaw a oruc ef y lu yn vydinoed. A chyrcu allan wrth rodi kat ar vaes. A phan welas yr amherawdyr weiryd mor lew a hynny. Sef awnaeth anvon attaw y geissaw tagneued a duundeit y gantaw. kans ovyn oed gantaw glewder a chadernyt y brytanyeit. Ac wrth hynny diogelach vu gantaw trwy synwyr a doethineb eu gwaret yna. noc ymrodi yn pedruster ymlad ac wynt. Sef yd anunes y gan y genhadeu. rodi y uerch y weiryd yn wreic idaw gan gymell bren- hinyaeth ynys prydein dan goron rufein. B.

<sup>282</sup> Ac o gyghor wyryda ae doethon. y kymyrth gweiryd y tagneued honno. A chymrty merch yr am- herawdyr yn wreic idaw. A dywedut awnaeth y wyrdaw wrthaw heuyt nat oed waradwyd idaw darestwg y amherawdyr rufein. pan vei yr holl vyt yn wedawl idaw. Ac uelly trwy y ryw amydrodyon hynny ufydhau a oruc gweiryd wrth eu kyghor. A darestwg yr amherawdyr. Ac yn dianot yd anunes gloyw yn ol y uerch wrth y rodi y weiryd. A thrwy porth gweiryd ae ganhorthwy gwedy hynny y gorescynnwys gloyw yr ynyssoed ereill nny glych. B.

<sup>283</sup> A gwedy mynet y gayaf hwnnw heibaw. y doeth y kynhadeu o rufein a merch yr amherawdyr gantunt. Ac y dodassant hi ar y that. Sef oed y henw gwenwissa. Ac enryuedawt oed y thegwech o pryt a gosced. A gwedy y roi y weiryd mwy y karei ef hi nor holl vyt. Ac wrth hynny y mynwys ynyrydedu y lle kyntaf y kysewys genthi o tragyydwawl gof. Ac erchi a wnaeth yr amherawdyr adeilat dinas nny lle hwnnw y gadw koff rywnenthur neithoreu kymeint a reihynny trwy yr oessoed. B.

<sup>284</sup> Ac ufydhau awnaeth yr amherawdyr y hynny. Ac adeilyat dinas a chaer. A galw hwnnw oe enw ef kaer loyw. Ac yg kyffinyd kymyr a lloegy y mae ar lan hafren. ereill a dyweit mae o achaws mab yr amherawdyr a anet yno. Ac a elwit gloyw gwlat lydan. y gelwit y gaer velly. Ac nyt ef. B.

<sup>285</sup> Ac yn amser gweiryd y kymyrth yr arglwyd iessu grist diodeifeint ym pren kroc yr prynu cristynogyon o geithwet uffern. B.

<sup>286</sup> Gwedy adeilyat y dinas. a hedychu yr ynys yd ymchoeles yr amherawdyr parth a rufein. A gorchy- mun y weiryd llywodraeth yr ynyssoed nny glych gyda ac ynys prydein. Ac yn yr amser hwnnw y seilwysa pedyr eglwys gyntaf yn yr antioec. Ac odyna y doeth y rufein. Ac yno y delis teilygdawt tadawl escobawt ac yd anunes marc euegylwr hyt yr eiffit y pregethu euygil iessu crist ascriuenassei ehun o weithredoed mab duw. B.

<sup>287</sup> A gwedy mynet yr amherawdyr y rufein y kymyrth gweiryd yndaw synnwyr ac afnewydhau y kaeroed nny lle y bydunt yn adveilyaw. A llywyaw y teyrnas aoruc trwy wrolder a gwiryoned megys yd oed y enw ae ofyn yn ehedec y teyrnasyoed y boptu. Ac yn hynny eissoes kyuoody syberwyt yndaw ac attal teyrnget gwyr rufein. B.

<sup>288</sup> Ac wrth hynny yd anunes gloyw vabasyanus a llu mawr gantaw hyt yn ynys prydein. y tagnouedu a gweiryd. neu y gymell teyrnget y wyr rufein arnaw. A gwedy eu dyuot hyt ym porth rwydyn. Nacha Weiryd a llu mawr gantaw yn dyuot yn eu herbryn. hynny oed aruthyr gan wyr rufein amlet eu nifyr. Ac wrth hynny. ny lauassyant kyrcu y tir yna. namyn trossi y hwyleu a chyrcu raedunt hyny doethant y traeth tutneis yr tir. B.

<sup>289</sup> A gwedy kaffel o vabasyanus y tir ef ae lu y doethant parth a chaer penhwylgot. yr hon a elwir yr awr hon Exon. *Dalen ar goll yma.* B.

<sup>290</sup> A gwedy eilenwi o veuruc y vuched y deuth koel y vab ynteu yn vrenhin ynny ol. Ac yn rufein y magyssit koel. a moes gwyr rufein ae deuaut a dycassei. Ac wrth hynny yd oed yuron yn rwymedic oe karyat wynt ac yn talu teyrnget udunt heb y warauun. kans yr holl vyt awelsei nny yr amser hwnnw yn darystydegid udunt. ac ar vryder ny bu yn ynys prydein vrenhin well a nyrydedei dylydegyon y teyrnas ny choel nac ae katwei yn hedychach. Ac vn mab a anet idaw. sef oed y enw. lles. B.

<sup>291</sup> A gwedy marw koel y deuth lles y vab yn vrenhin. ac holl weithredoed da y tat a erlynwys. Ac awnaeth yn gyneint ac y tebygit mae ef oed koel ehun. a medylaw a wnaeth hyt y gallei vot yn well y

ved noe dechreu. Ac annon aoruc hyt ar eleutherius pab y erchi idaw danuon attaw wyr ffydlawn a pregethei idaw gristynogaeth a chret a bedyd. kans gwyrtheu awnathoed yr bybstyl yn pregethu ar hyt y byt adaroed udunt kyffroi a golehan y gallon ae vedwl at duw. Ac wrth yd oed ynteu yn damunaw gwir fyfod o dihwyt y wryt. Ac ynteu ae kaus. B.

<sup>292</sup> A gwedy gwelet or pap y greuydus damunet sef yd anuones attaw deuwr greuydus ffydlawn dyscotron seiledic yny lan fyfod gatholic y brygethu idaw ae yw pobyl dyuodedigyaeth yr arglwyd iessu grist yg knawt ae golehodigyaeth wynteu trwy lan ffydlawn vedyd. Sef oed enweu y gwyr. dunau. a phagan. A gwedy dyuot y gwyr da hynny y ynys prydein a phregethu y les vab koel ae vedydyaw ae ymchoelut ar grist oed holl gallon. a dechreu a oruc y bobyl yny lle rydec attadun. ac o dysc ae egreiffit eu brenhin credu y duw ac eu bedydyaw yn enw iessu grist trwy fyfod lan gatholic. Ac velly y rifaw ymplith y gleinyon ac eu talu y grist eu creawdyr wynt. B.

<sup>293</sup> A gwedy daruot yr gwynuededigyon athrawon hynny dileu kamgret or holl ynys y temleu a oed gwedy seilaw yr geuduweu a gysegrwyt ac aberthwyt yr gwir duw hollgyothawc. Ac yr bybstyl ac yr seint. A gosset yndunt amryuolyn gennuinoed o vrdas yr lan eglwys y talu dwydwawl wassanaeth yndi y eu creawdyr. B.

<sup>294</sup> Ac yn yr amser hwnnw yd oed yn ynys prydein yn talu enryded yr geuduweu wyth temyl ar ugeint. A their prif temyl y ar hynny a oed vwch noe wynteu. Ac wrth gyureitheu y rei hynny y darystygei y rei ereill oll o arch yr ypotolaw wyr hynny y ducpwyt y temleu hynny rac y geu duweu. Ac ymmpyn or wyth temyl ar ugeint yn teir ran. vfydhau yr tri archescoben ac eisteduau y tri archescob a oed yn y lleoed bonhedicaf yn yr ynys. nyt amgen llundein. a chaer efrawc. a chaer lllion ar wysc. Ac yr tri dinas hynny y darystygei yr wyth ar ugeint. A gwedy ranu yr ynys yn teir ran. y discynawd y archescob kaer efrawc deuyr a bryneich ar alban megys y kerda humyr. Ac y archescobawt lundein lloegyr a chernyw. Ac odyne kymry oll mal y keidw hafren wrth archescobawt kaer lllion.

<sup>295</sup> A gwedy daruot yr deu wrda gatholic hynny llunyaethu pop peth yn wedus or a perthynai parth ar lan ffyd. ymchoelut a wnaethant trach eu keuyr parth a rufein. A datganu y eleutherius pap pop peth or a wnathoedynt. Ac y kadarnhawd y pap pop peth ar y llunyaeth y edewssynt wynteu. A gwedy kaffel onadunt wynteu y kedernyt hwnnw y deuthant y ynys prydein a llawer o getymdeithon dwyawl gyg at wynt a thrwy dysc y rei hynny yn enkyt bychan y bu kadarn fyfod y brytanyeit. A phwy bynac ac aynno gwytob enweu y gwyr hynny. keisset yn llyuyr aascruenwys gildas o volyant y emrys wledic. kans yr hyn a yscruenei wr kymeint ahwnnw o eglur traethawt nyt reit y un y atnewdyr. B.

<sup>296</sup> A gwedy gwelet o les diwyllyt cristynogawl ffyd yn kenydu yn teyrnas diruawr lwyenyd a gymyrrth yndaw. ar kyuoeth ar tired ar breineu a oed y temleu y geuduweu kyn no hynny a rodes ef y duw ar seint yntragwydawl dan ygnwecau yn vawr o tir a dayar a breineu a rydid a noduau. Ac ym plith y gweithreded hynny y teruynawd lles y vuched ac y aeth or byt y teyrnas mab duw. ae gorff a gladwyt yg kaer loyw yn y eglwys penas jny dinas. Sef amser oed hynny vn vldwyn arbymtheac a deugeint a chant gwedy dyuot crist ymruy yr arglwydes veir wyry. B.

<sup>297</sup> A gwedy marw lles ac nat oed vn mab idaw y wledychu yny ol y kyuodes teruysg y rwg y brytanyeit. Ac y gwanhawys arglwydiaeth gwyr rufein. A gwedy klybot hynny yn rufein. Sef awnaethant annon seuerus senedwr a dwy leg o wyr aruawc gantaw y gymell yr ynys wrth y harglwydiaeth val kynt. A gwedy dyuot seuerus a bot ymladen lawyr rygtag ar brytanyeit gwerescyn ran or ynys aoruc. a ran arall ny allwys y gwerescyn namyn o vynyth amladen y poeni hyny deholet dros deifor a brynych yr alban a sulyen yn tewyssawc armadunt. Ac sef a wnaeth y dylwedogyon hynny kynnullaw llu mawr or enysseid ac goulau eu kiwtawtwyr trwy vynyth ryfel a brwydyr. B.

<sup>298</sup> A thrwm vu gan yr amherawdyr diodof eu ryfel y wastat. sef awnaeth erchi dyrchanel 'mur rwg yr alban a deifor a bryneich or mor byw gilyd ac gwarchae val na cheffynt dyuot dros teruyn y mur hwnnw. Ac y gosodet treul keffredin wrth edeilat y mur. Ar mur hwnnw a parhawys trw lawer o amseroed ac ae attelis yn vynyth y wrth y brytanyeit. A gwedy na allwys sulyen kynhal ryuel a vei hwy yn erbyn yr amherawdyr. sef yd aeth hyt yn sithya y geissyaw porth y gan y ffichteit y werescyn y guoeth tracheuyn. A gwedy kynnullaw holl ieuencit a dewred y wlat honno. A dyuot awnaeth y ynys prydein yr tir a llyghes uawr gantaw. ac am pen kaer efrawc y doeth ac ymlad ar gaer. B.

<sup>299</sup> A gwedy mynet y chwedyl honno yn honneit tros y teyrnas yd ymadewys y ran vwyafr or brytanyeit ar ymherawdyr a mynet at sulyen. Ac yr hynny ny pheidwys yr amherawdyr ae darpyr namyn kynnullaw gwyr rufein arhyw a trigassei y gyf ac ef or brytanyeit. a chyrcu y lle yd oed sulyen ac ymlad ac ef. A phan oed gadarnaf yr ymlad y llas seuerus. ac y brathwyd sulyen yn agheawl. ac y cladwyd seuerus yg kaer efrawc. a gwyr rufein agynhelis y dinas arnadunt a deuvab seuerus. nyt amgen. bassianus. a geta. Basianus a hanodet y vam or ynys hon. a gyta. a hanodet o rufein. A gwedy marw eu taf sef awnaeth gwyr rufein dyrchanel gyta yn vrenhin wrth hanuot y vam o rufein. Sef awnaeth y brytanyeit ethol bassianus yn vrenhin ac oachaws hanuot y vam or ynys hono. Ac wrth hynny ymlad awnaeth y deu vroderac ynyr ymlad hwnnw y llas gyta. Ac y kaus bassianus y vrenhinyaeth trwy nerth y brytanyeit. B.

<sup>300</sup> Ac ynyr amser hwnnw yd oed gwas ieuenic clotuawr yn ynys prydein sef oed y enw karawn. Ac ny hanodet o vrenhinawf genedyl namyn o lin isel. A gwedy kaffel clot o honaw yn llawer o ymladeu. kychwyn a oruc parth a rufein y geissaw kanhat gan sened rufein y wrechadw arvortir yr ynys rac estrawn genedyl. Ac adaw oda wdunt yr hynny digawn bei kenhettit idaw vrenhinyaeth yr ynys. B.

<sup>301</sup> A gwedy twyllaw o honaw y sened trwy ewidyon twyllodrus. A chanhattau a wnaethpwyt idaw y negesseu ac ymchoelut adre ae negesseu gantaw trw gedernyt llythyreu. ac inselleu y sened wrthunt. A gwedy y dyuot y ynys prydein kynnullaw amylder o logeu a oruc a galw attaw holl ieuencit ynys prydein a chyrcu traethu a gwneuthur kywryf mawr yn yr holl teruynau. Ac y gyf a hynny dwyn kyrcu mynych y enysseu yny gyloch ac eu anreithaw ac eu llosgi a distryg eu kestyll a llad eu tir dwyllodron a thra yttodet yn hynny pawb or kribedilwyr ereill a gwrchei attaw y wrehu idaw. Ac ar pen yspeit vechan kymeint oed y nifer ac nat oed hawd y vn tywysawc seuyll jny erbyn. B.

<sup>302</sup> Ac wrth hynny sef a oruc karawn ymdyrchanel o syberwyt ac anuon ar y brytanyeit y venegi pei gwneilynt euo yn vrenhin gwedy darfei idaw gwascaru gwyr rufein ae llad yd yndiffynnei ynys prydein rac estrawn gendyl ac rac pob gormes a geissei dyuot idi. B.

<sup>303</sup> A gwedy kaffel o honaw duundeb ymlad a oruc a bassianus ae lad a chymryt llawodraeth yr teyrnas jny ehun kans effichteit a dugassei sulyen ganthaw a wnathoed brat bassianus. A phan dylnt y ffichteit kyborthwyaw eu brenhin nyt ef awnaethant wynteu namyn kymryt gwerth gan garawn a llad bassianus. Ac sef a oruc gwyr rufein nyuudy a heb wybot pwy a vei y gwyr ehunec ac adaw y maes a ffo. A gwedy kaffel o garawn y udugolyaeth honno y rodes ynteu yr effichteit yr alban yn lle hynny y preswlaw ac yr hynny hyt hediw y maent yno. B.

<sup>304</sup> A gwedy clybot yn rufein rywarescyn o garawn ynys prydein a llad gwyr rufein ac gwascaru. sef a wnaeth gwyr rufein anuon alectus a their llog o wyr aruawc gantaw y geissaw llad y creulawn hwnnw a dwyn yr ynys wrth arglwydiaeth gwyr rufein. a heb vn goir gwedy dyuot alectus yr tir ac ymlad a charawn ae lad a chymryt llewodraeth yr ynys nyn law ehun. ac gwneuthur creulonder a molest ar y brytanyeit o achaws rymadaw o hanut ac arglwydiaeth gwyr rufein. a gwrhau y karawn. B.

<sup>305</sup> Sef awnaeth y brytanyeit heb allu diodef hynny gwneuthur ascliptotus tewyssawc kernyw yn vrenhin arnadunt ac odyna kynnullaw llu y ymlad a gwyr rufein. Ac yna yd oed alectus yn llundein y gwneuthur gwylua ydy tatolyn duweu. Ac eissoes pan goglew alectus bot y brytanyeit yn dyuot am y pen peidaw ac aberthu a oruc a mynet o dieithyr y dinas ae kedernyt gantaw. A gwedy bot ymlad y rydunt. aerua diruawr y meint a las o pop parth. A goruot a gauas y brytanyeit a gwascaru bedinoed gwyr rufein ac kymell ar ffo. Ac yny ffo hwnnw y llas alectus a llawer ovilioed ygyt ac ef. B.

<sup>306</sup> A gwedy klywet o lilius gallus kedymdeith alectus rygaffel or brytanyeit y nudugolyaeth sef awnaeth ynteu. kynnullaw yr hyn adigassei oe getymdeithon a chyrrhu kaer lundein a chae y pyrth arnadunt o tebygu gallu gochel eu ageu uelly. Ac eissoes sef awnaeth ascliptotus eu gwarchae yno ac annon at pawb or ynys y venegi rydaruot idaw ef lad alectus a bot ynteu yngwarchae yr hyn a diagassei oe lu yg kaer lundein ac wrth erchi y bawb dyuot yn gyttuun ac eu holl porth gantunt y geissaw diwreidaw gwyr rufein or ynys hon. kans tebic oed gantaw bot yn hawd hynny hyt tra vydynt ygwarchae velly. B.

<sup>307</sup> Ac wrth y wys honno y doethant pawb or a hanoed or brytanyeit. Ac gwedy dyuot pawb hyt yno agwneuthur amryuol perianeu y ymlad ar gaer yn drut ac yn galet. A phan welas gwyr rufein hynny annoc awnaethant eu tywysawc y ymrodi y trugared ascliptotus. ac erchi idaw eu ellwg or ynys heb dim o da gantunt namyn y eneideu kan daroed oll y llad o nyt vn leg a oed etwa yn ymgynhal. B.

<sup>308</sup> Ac wrth y kyghor hwnnw yd ymrodassant y ewyllys y brenhin. ac val yd oedynt yn kymryt kyghor am eu ellwg sef awnaeth gwyr gwyned eu kyrchu ac ar yr vn ffrwt a gerdei trw lundein. llad gallus ae gytymdeithon oll. Ac yr hynny hyt hediw oenw ef y gelwir y nant hwnnw yn gymraec nant y kellawc. ac yn saesneec galwsbrwc. B.

<sup>309</sup> A gwedy goruo ar wyr rufein y kymerth ascliptotus coron y teyrnas ae llywodraeth trw duundeub pawb. a thraethu y gyuoeth a oruc o vnyawn wiryoned a hedchw trwy yspeid deg mlyned a gwaryd crib deil y treiswyr. a phylu cledyfeu y lladron. B.

<sup>310</sup> Ac yna y cyuodes creulonder dioclicianus amherawdyr rufein trwy yr hwn y dilewyt cristynogyaeth o ynys prydein. yr hon a gynhalyssyt yn gyuan yndi yr yn oes lles vab coel y brenhin kyntaf agymerth cret a bedyd yndi. kans maxen tywysawc ymladeu yr amherawdyr creulawn hwnnw a deuth yr ynys hon a llu mawr gantaw. ac o arch yr amherawdyr. y diuawyt yr eglwyssu ac y llosect ae llyfreu or yscrythyr lan yn lwmr ac merthyrydwyt yr ytholedigyon effeireit. a cristynogyon a oed ufyd dan wed mab duw. ac yna y damlewychwys duw y trugared ac ny mynwys bot kenedyl y brytanyeit yn llychwin o tewyllwch pechawt. namyn goluhau ohanunt ehunein egluraf lampeu o verthyri. Ac yn awr y mae bedeu y rei hynny ac eu hescyrn yn greireu mawr weirhawc yna a oed y merthyryd yn gwneuthur gwyrtheu hyny bei kwynvannus y kristynogyon clybot rywneuthur o paganeyit y kyryw distryw hwnn ar eu priawt genedyl. B.

<sup>311</sup> Ac yn plith y bendigeidyon verthyri y diodefws seint alba o varolan. Ac ygyt ac ef iulius ac aron o gaer lllion ar wysc. Ac yna y kymyrth seint alban anthibalus a y cudywys yn ty chunan rac y verthyru. A gwedy na thygye y kymyrth y wisc ehun ymdanaw ac ymrodes yn merthyrolyaeth drowst gan euelychu crist y gwr a rodes y eneit tros y deueit. ac odyna y deu yr ereill trwy aglywedec poeneu ar eu korfforeod ae hellwg y wlat nef. B.

<sup>312</sup> Ac yna y kyuodes iarll kaer loyw yn erbyn ascliptotus. A gwedy ymlad ac ef ae lad. y kymyrth ehun coron y teyrnas. A gwedy menegi hynny y sened rufein. llawenhau awnaethant o ageu. y brenhin a gynhernassei eu arglwydiaeth. A gwedy dwyn ar gof onadunt eu kollet yr pan gollasnt arglwydiaeth ynys prydein sef awnaethant annon constans senedwr o rufein y gwr a waryscynassei yr yspaen wrth rufein. gwr doeth glew aoad hwnnw ac alafuryei yn vwy no neb y chwanecau arglwydiaeth gwyr rufein. B.

<sup>313</sup> A phan goglew goel bot y gwr hwnnw yn dyuot y ynys prydein ofynhau aoruc ymlad ac ef kan klyweit nat oed neb a allei gwrthwynebu idaw. Ac wrth hynny pan doeth constans yr tir. Sef awnaeth koel annon attaw y erchi tagnoued ac y gynec idaw darystygedigyaeth o ynys prydein o ganhadu y goel y vrenhinyaeth a thalu teyrngt y wyr rufein. A gwedy datganu hynny y constans y rodes tagnoued udunt. Ac y kymyrth gwystlon y gan y brytanyeit ar hynny. a ehyn pen y mis gwedy y kleuchwys coel o orthwrw heint. Ac yn yr wythuet dyd y bu varw. B.

<sup>314</sup> Agwedy marw coel y kymyrth constans coron y teyrnas ac vn verch coel yn wreic idaw. sef oed y henw elen verch coel. a honno a vu elen ludyawc. ac ny chat yn yr enyssead a gyffypei idi o pryt a gosced. ac nyt oed yg kyluydodeu a allei ymgfyfibu idi. kans y that a parassei y dyscu velly wrth nat oed idaw etiued namyn hi. mal y bei haws idi lwyaw y theyrnas gwedy ef. B.

<sup>315</sup> A gwedy kymryt o constans. elen y wreic idaw. ac y ganet mab idaw o honai. Ac y dodet ar y mab Custenin. Ac ympen deg mlyned gwedy hynny y bu varw constans. ac y cladwyd yg kaer efrawc. Ac yd edewis y custenin y vrenhinyaeth. ac ympen ychydic o vlnwyded ymdangos aoruc kustenin vot yndaw voned mawr a delyet. ac ymrodi y haelder adlycet adaoni agwneuthur iawnder yny arglwydiaeth ac ymdangos mal llew dywal y rei drwc. a megys oen yr rei da. B.

<sup>316</sup> Ac yn yr amser hwnnw yd oed yr creulawn engiriawl yn amherawdyr yn rufein. Sef oed y enw maxen. ar bonhedigyaeth a gywarsagei o gyffredin arglwydiaeth. Sef awnaeth y dyledogyon hynny. gwedy yr creulawn amherawdyr y dehol wynt otref y tateu ae dyuot hyt ar custenin ac ynteu ae arulles wynt yn llawen vonhedigeid. B.

<sup>317</sup> A wgedy dyuot llawer or rei hynny ar custenin y gyffroi awnaethant gan gwynaw wrthaw en alltuded ac eu trueni yn vnyych gan annoc idaw gwrescyn maxen kans o genedyl rufein y hanoed custenin. ac nat oed ae dylhyel wynteu yn gystal ac euo. Ac wrth hynny adolwyn idaw dyuot ygyt ac wynt y werescyn tref eu tateu ac edrut vdunt eu dyltet ac y waret gormes o rufein. B.

<sup>318</sup> A thrw yr ymadrodyon hynny kyffroi aoruc custenin. A chynnullaw llu mawr a mynet ygyt ac wynt hyt yn rufein. a gorescyn yr ymarodraeth yn eidyaw ehun. ac odyna y kanas llewodraeth yr holl vyt. Ac yduc tri ewythyry y eln ygyt ac ef. llywelyn athryayarn ameuruc. ar rei hynny a ossodes custenin yn vrdas sened Rufein. B.

<sup>319</sup> Ac yn yr amser hwnnw y kyuodes eudaf yarll ergig ac euas yn erbyn y tywysogyon a adawsei custenin yn kadw llewodraeth yr ynys danaw ef. A gwedy ymlad eutaf ar gwyr hynny ac eu llad kymryt aoruc ehun coron y teyrnas allawodraeth ynys prydein yn gwbl ywy law. B.

<sup>320</sup> A gwedy menegi hynny y custenin annou aoruc tryhayarn ewythyry elen a their llog o wyr aruawc



yygt ac ef y werescyn ynys prydein tracheuyn. A gwedy dyuot tryhayarn yr tir yr a elwir kaer peria. y kausa y dinas hwnnw kyn pen deulyd. B

<sup>321</sup> A phan gogleu eutaf hynny. kynnullaw holl ymladwyr ynys prydein a dyuot nny erbyn ef hyt yn ymyl kaer wynt. yr lle a elwir maes vryen. Ac yno y bu vrwydyr y rydunt. Ac y gorau eutaf. Ac val yd oedynt yn vrwiedic ladedic y wyr yd aeth tryhayarn. nny logeu ar ffo. Ac yna trwy vorawl hynnt yd aeth hyt yr alban. a dechreu anreithaw y gwladodae ae llosgi. a llad y bileiplu. B.

<sup>322</sup> A gwedy dyuot y chwedyl hwnnw attaw. kynnullaw llu a oruc eutaf a mynet nny erbyn hyt yr alban. Ac nny wlat a elwir westmarlont roi brwydyr y tryhayarn. ac eissoes kilyaw or vrwydyr honno awnaeth eutaf. heb vudugolyaeth. Sef awnaeth tryhayarn y ymlit ynteu o le y le hyt y ynys prydein. a dwyn y arnaw y dinassoed ar kestyll. a choron y teyrnas. B.

<sup>323</sup> A gwedy digyuoethi eutaf yd aeth ynteu hyt yn llychlyn. Ac eissoes tra yttoed eudaf velly ar dehol. Sef awnaeth adaw gan y getymdeith ae gereint llafuryaw y geissaw diua tryhayarn. Sef awnaeth iarll y kastell kadarn. kans mwy ykarei ef eutaf no neb mal yd oed tryhayarn diwarnaw y dyuot o lundein. llechu ar y ganuet y mywn glyn koedawc ar y fford y deuei trahayarn. Ac nny lle hwnnw ymplith y gytuarchogyon yllas tryhayarn. B.

<sup>324</sup> A gwedy clywet o eutaf hynny dyuot awnaeth y ynys prydein a gwascaru y rufeinwyr a gwiscaw ehun coron y teyrnas ac ar vyrder ymgyuoethogi o eur ac aryant hyt nat oed hawd kaffel neb a vei arnaw y ofyn. ac o hynny allan y Kynhelis eutaf ynys prydein hyt yr amser y buant grassian a valawnt yn ymherodron yn rufein. B.

<sup>325</sup> Ac yg kylyoh diwed oes eutaf ymgyghor awnaeth ae wyrda pywed ydawei y gyuoeth gwedy ef. kanyt oed etiued idaw namyn vn verch. rei a gyghorei idaw rodi y verch y vn o dyledogyon rufein ae gyuoeth genthi mal y gellit kynhal y teyrnas yn tagnouedus gadarn rac llaw. Ereill a gyghorei idaw rodi y verch y vrenhin o wlat arall ac eur ac aryant digawn genthi a rodi y gyuoeth y kyanan meiriadawc y nei. B.

<sup>326</sup> Ac eissoes cradawc iarll kernyw ae kyghores ef y roi y verch ae gyuoeth gwedy ef y vaxen wledic. kans o hynny y tybgei ef kaffel tragwydawl hedweh kans nab oed vaxen ylywelyn ewythyr yelen luyd-yawc y vam ynteu ahanood o dyledogyon rufein. Ac ar vyrder o vrenhinawl gendyl y hanoed. a chynhyruu y llys a oruc kyanan yn vawr am roi ykgyghor hwnnw yr brenhin. kans y vedwl ef oed gaffel y vrenhinaeth. Ac wrth hynny adaw y llys trwy eirloned. B.

<sup>327</sup> Ac yna eissoes anuon awnaeth cradawc veuruc y vab oed wr mawrdec cloutawr o haelder a dewred. A phybeth bynac adywetei ef ae kadarnhaei oe korff a arueu. B.

<sup>328</sup> A gwedy dyuot meuruc rac bron maxen. kymeredic vu ganthaw ymlaen pawb. sef yd oed yna teruysc mawr a rafen rwg maxen ae deu vrodor gracian a valawnt. kans y rei hynny a daroed gwrthlad maxen or tyrted ryl or ymherodraeth. a hynny oed wrthrwg gantaw. B.

<sup>329</sup> A phan welas meuruc y vot yn gywarsygedic gan y vrodyr. sef ylyyawt meuruc wrthaw yr ymadrawd hyn. maxen heb ef paham y diodefyt ty ty tremygu val hyn. afford yt y ymwared. dabre y ynys prydein a chymer coron y teyrnas. kans eutaf vrenhin yssyd hen a chlausu. ac nyt oes adamuno namy kaffel dyledawc o rufein y rodi y vn verch idaw ae vrenhinaeth genthi. kanyt oes idaw etiued namyn hi. Ac wrth hynny y kausa eutaf nny kyghor rodi y ti y verch ae teyrnas genthi. ac or achaws hwnnw yd ymanuont inheu hyt yma. ac o mynny tithew dyuot yygt a mi hyt yno pop peth o hyn avyd parawt itt. A gwedy keffych amyllder o eur ac aryant a marchogyon ynys prydein y gelli gorescyn yr amharodron hyn ar holl vyt kans o ynys prydein y kausa custenin dy gar amherodraeth rufein. A gwedy hynny yr holl vyt. llawer yygt ac ynteu o ynys prydein agenedassant rufein. B.

<sup>330</sup> Ac wrth yr amherodron hynny y kewynwys maxen yygt a meuruc hyt ynys prydein. ac ar y fford yn mynet y darestygwys kaeren ffreinc ae dinassoed. ac y gwerescynwys wynt. A chynnullaw llawer o swllt y roi yw varchogyon ac amlahu y teulu. A gwedy gwerescyn ffreinc o honaw kychwyn aoruc ar y mor a gwynt rwyd nny o d dyuot y nordhantwn yr tir. B.

<sup>331</sup> A phan canhatawt hynny at y brenhin diruawr ofyn agymerth o tebygu mae y elynnyu yn keissaw gwerescyn y guoeth. agalw attaw aoruc kyanan meiriadawc y nei. ac erchi idaw kynnullaw holl ymladwyr ynys prydein a mynet nny herbyn. a chynnull awnaeth kyanan lu diruawr a chychwyn parth a nordhamp-twn yr lle yd oed pebylle maxen. B.

<sup>332</sup> A gwedy gwelot o vaxen lu kymeint a hwnnw yn dyuot ny erbyn ofynhau awnaeth o pop vn o dwy-fford. o veint y llu. ac o wybot glewder y brytanyeit ac na yttoed ynteu yn gobethaw tagnued. a galw attaw a oruc y henafigwyr a meuruc vab cradawc ac erchi kyghor udunt am hynny. B.

<sup>333</sup> Ac yna y dywawt meuruc. arglwyf heb ef nyt oes ynn ymlad a gwyr racco ae nyt yr hynny y doetham yma. nac yr kyffroi y gwyr racco yn dybryt yn herbyn namyn tagnued yssyd iawn y erchi vdunt a letty hyny wypon vedwl y brenhin ymdanau. a dywedut yn bot a chanadwri genym ygan ymherodron rufein ar eutaf vrenhin y brytanyeit. Ac velly trw ymadrodyon claeur keissaw tagnuedu ac wynt. B.

<sup>334</sup> A gwedy bot yn ranc bod gan hawb y kyghor hwnnw. kymryt awnaeth meuruc deudegwyr o wyr llwydan a cheint o eliwyd nny llaw deheu y pop vn onadunt a dyuot hyt rac bron kyanan. B.

<sup>335</sup> A phan welas y brytanyeit y gwyr aduwyn hynny yn arwein oliw yd ny deheuedo yn arwyd tagnued. Sef awnaethant kyuodi hyny herbyn yn arededus. Ac mal y doethant rac bron kyanan y anerch awnaethant o pleit y herodron rufein ae sened. A menegi idaw ryanuon maxen achanaadwri gantaw y gan ymherodron rufein ar eutaf. B.

<sup>336</sup> Ac yna y gouynwys kyanan py achaws yr dathoed llu kymeint a hwnnw gantaw ynteu. A dywedut nat oed tebic y kerdedyat y kenadeu namyn y elynnyu avynynt anreithaw gwladod. B.

<sup>337</sup> Ac yna y dywawt y kenhaden nat oed teilwg kerdet gwr kyurad a hwnnw heb luossogrywd yygt ac ef. kans velly y mae teilwg kerdet yygt a phob vn o ymherodron rufein rac kaffel kewilyd gan eu gelyny. kerdet llu y eu kadw y fford y kerdont tagnued a geissant. tagnued ayyborthynt. B.

<sup>338</sup> *Hyd yma, eithyr lle mae nodau 'r gwrthwyneb, mae llywyr A yn canlyn, air yn air, y traethawl ganol, dan enw BRUT G. AB ARTHUR.*—A heni emae eni dagaws ar'i weithret. canis er pan discenasam ni ar dir er enis hon ni wnaetham na threis na chollet na sarad i neb namin er da arall lawinllaw wrth vot pawb. A.

Ac arwyd yw hynny yr pan doethant yr tir hwn yn wnaethant na threis na sarhaet y neb am prynu eu kyfreidre yr y eur mal gwyr hedweh heb geissaw dim yn rat gan neb. B.

<sup>339</sup> Sev aoruc cenan ensa roti hetwch vtunt. adwin maxen get a vint hit en llundein i emveled ac eutaw. A.

Ac val yd oed kyanan yn pedrussaw beth a wnelhei ae ymlad ac wynt ae peidaw dynessau aoruc cradawc iarll kernyw ar gwyrda ereill a chyghori hedychu ac wynt. a chyt bei drwc gan gyanan rodi hedweh awnaethpwynt udunt. Ac yna y doeth maxen y gyt ac wynt hyt yn llundein. Ar eutaf a datganu idaw mal y daroed. B.

<sup>340</sup> Ac wedi i devod i lundein ed aeth caradawc iarll corniw. a meuric i vab a gwirda ereill gidac wint hit

rac bron eutaw, a dewedid wrthaw val hin aoruc caradawc. Arglwit vrenin eb ev. llima e cighor a gighores doethion de ceirnas it, wedi i anvon o duw hit attad ema. A hin arglwit ed oetud dvhun eni danunaw, nid amgen no cheisaw deliedawc en wra ith verch o deliedogion ruvein, canis ediw heneint en cimwet athi. Afan roted it arglwit er eil cighor am roti de ceirnas i cenan meiriadawc de nei ni bu da genid heni, na chan heb oth cighor ochafut deliedawc o ruvein. A llima wedi anvon heni arglwit o duw hit attad, ac o emeroedron ruvein. Ac ogwrthodi di arglwit e gwas ieuanc da hwn, enebit vod en gystal delied e gwas hwnw o vonet agwaed ar enis hon athitheu canis car agaws i gwstenin iw a nei i goel an brenin ninheu. A.

Ac yna y kymyrth cradawc iarll kernyw gwyrd a gyt ac ef, a gwedy eu dyuot y rac bron eutaf dywedut awnaeth wrthaw ual hyn, arglwyd heb ef llyma yr hyn yd oed y gwyr ath garei ti yny danunaw erioct a duw ny danuon hediw yma wrth dyuot titheu yn kadw fydlonder wrth duw. Sef yw hynny tra vuost yn ymgyghor ath wyrda beth awnehit am elen ty verch ath gyuoeth kan yttoedut yn treiglaw parth a heneint, mal nat oed hawd ytt llywyaw ty teyrnas yn hwy no hynny. Ac y rei agyghorei itt roi coron y teyrnas y gynan dy nei. A rodi dy verch y dyledawc o wlat arall, kans ofyn oed arnadunt dyuot darystygiedgyaeth arnunt or delhei vrenhin aghyuyeith. Ereill a gyghorei itt rodi dy verch y vn o dyledogion rufein, kans velly y tebygnt kaffael hedwch a rufeinawl anherodraeth y emdiffyn. A llyma hediw arglwyd gwedy ryanuon o duw y gwas ieuanc hwn yma ytti yr hwn a henyw o rufeinawl emeroedron a brenhinholyn vrytanyeit. Ac y hwnw y kyghorwn ui ytti rodi dy verch ath gyuoeth genthi. Ac y gyt a hynny edrych ti vot yn kystal y dyltet ef ar teu ditheu ar ynys prydein, kans kar agos yw ef y gustenin a nei y koel yn brenhin ninheu. Ac wrth hynny ny dylit gwaraun yr gwr hwnw y verch ar vrenhinyaeth. B.

<sup>341</sup> Ac en diannod odvhun gighor eudav ae wirda iroted elen i vaxen ar vreniniaeth genti. Afan gicleu cenau meiriadawc heni lliidiaw aoruc amined hid er alban, a chennullaw llu aoruc eno i venu rivelu ar vaxen. A.

Ac yfyddau awnaeth eutaf yr kyghor hwnw a rodi elen y verch ae gyuoeth gwedy ef y vaxen. A gwedy gwleot o gynan hynny lliydaw aoruc, a mynet parth ar alban. A chynnnullaw llu mawr y ryfelu ar vaxen. B.

<sup>342</sup> Ac aniver mawr cantaw ev adoeth drwi avon hwnir ac anreithiaw adarwu vwiaw itaw aoruc. Afan gicleu vaxen heni cennullaw llu aoruc enteu a dawed en erbin cenan, aroti brwidir ar vaes itaw, a giru cenau ar fo. Ac enteu eilweth a gennullawc llunewit a rivelu ar vaxen, ac or diwet, wint a gimmodasent ac aethant en ungar unesgar. A.

A dyuot ae lu trwy humyr a dechreu anreithaw y gwladod. A gwedy menegi hynny y vaxen kynnullaw lu mwyaaf a allwys awnaeth a mynet yny erbyn y roi kat ar vaes y gynan ae yrru ar fo. Ac ny pheidwys kyan namyn kynnullaw y lu ac anreithaw y gwladod. Gweithieu kan vudugolyaeth gweithieu hebddi yd ymchoelie vaxen y wrthaw. Ac or diwed gwedy gwneuthur kollet mawr o pop vn yw gilyd, dyuot awnaeth ketymdeith y rydunt ac eu kymodi, ae dwyn yn vn garyat. B.

<sup>343</sup> Acwedi minet pum mlinet heibiaw arwaethu aoruc maxen mined i orescin freinc, afan vu barawd gantaw i darpar, mined aoruc hit en lliadw, elle aelwir wedi heni pridain vechan. A.

Ac ympen yspeit pump mlyned syberwau awnaeth maxen o amlder eur ac aryant a marchogyon. Ac yny lle parattoi llyghes, a holl ymladwyr ynys prydein, ac allwys y gaffel o loeod ereill. A gwedy bot pop peth yn parawt, kychwyn aoruc parth a llydaw y wlat aelwir weithon brytaen vechan. B.

<sup>344</sup> Ac emlat en wichir aoruc ac aet eno o freinc. A dali aoruc e freinc aet eno en erbin maxen. Ac imbal oet henw eu tewisawc, allat er imbal hwnw awnaethpwid apimthemcil oe wir. Allawen vu vaxen am heni, agalw attaw cenau meiriadawc a dewedid wrthaw val hin odieithir iniver. Cenau eb ev, weldi ema wlad da, agoreu ran iw hon o freinc, abrisiwn i orescin e ranu ereill cin cliwed or gwladod ena divid ima. Achid collut ti beth o enis pridein om divid i eno, minheu ae hennillwn itti ema, ami ath urtav di or lle en vrenin ar ewlad hon. A hon awit eil pridein o hin allan. Ani ae llanwn oc an cenedil nvhun wedi darvo imi vwrw estronion genedil otima emdeith. A.

A gwedy dyuot yno dechreu ymlad ar popyl aocd yndi a llad huppall te tywysawc. A phymthegmil o wry aruawc y gyt ac ef. A phan welas maxen meint yr aerua awnathoedit ar y gelynyon. A gwybot o honaw bot yn hawd gwedy hynny eu darestwg o gwbyl galw kyan awnaeth attaw dan werthin a dywedut wrthaw val hyn ar neilltu o dieithir y lloed. Kyan heb ef llyma vn or gwladod goreu yn ffreinc gwedy darostwg y ni, gobeith yw genyf weithon kaffel y rei ereill. Ac wrth hynny brysyswn y gymryt y kestyll ar kaeroed ar dinassoed kyn mynet y chwedyl hwnw yn honeit dros y gwladod. Ac ymgynnullaw pawb ygyt yn erbyn kans o kaffwn y teyrnas hon nyt oes pedruster genyf gaffel holl ffreinc yn einym. Ac wrth hynny na vit ediuar genyt ganhatau y mi dy dyllyhet ar ynys prydein, kans py beth bynhac a gollych ti yno mineu ae entllaf yti yma. Ac yn gyntaf mi ath wnaf yn vrenhin ar y wlat hon. Ac ae kyuanhedwn oc an kenedyl nehuncin gwedy darffo yn vwrw estrwn genedyl o honeit yn llwyr a hon vyd eil brytaen. A hyt y gwelir ymi gwlat ffrywthlawn yw hon o ymryual yteu ac auonoed kyflawn o pyscawt. A choedyd a fforestyd tee adas y hela. Ac yhyt y gwn nyt o gwlat garusidach no hon. *Dalen ar goll yma*. B.

<sup>345</sup> Achemrit er urtas hwnw aoruc cenau meiriadawc, ac ataw cinnal fitlonder i vaxen o heni allan. Ac en diannod id aethant otina hit en rodwn, ac ae gwelie wint ae ae cliwei, fo awneit ractint efort i tsebint cafel noted er eu heneidieu. Ac nid eiriechint winteu neb or a diwarf ac wint nas ractintit, onid wraget. A.

<sup>346</sup> Agwedy darvod itint estwg y cwbil or gwladod, cadarnhau aorugant e cestil ar caeroet. Agwneuthur llaweroed ini lleoet ni buesint erioed er y gint. Ac ewelli egoruc maxen efort e certawt eni itoet i oven ae erig ac ar bop tewisawc afob brenin or ai cliwei. Ac enteu vaxen en amilhaw beumit i varchogion ac en roti utunt eur ac ariant a meirch ac arveu a dillad a thir a daiar a bwid a diawd. A.

<sup>347</sup> Ac ev agennullws ena o riwedi o vilhoet eni tebigei ev vod en digawn i orescin freinc. Ac ena e gohirlawt ev eni lenwis ev eno or brytanied. Ac eno ed anvones maxen cenadeu i enis pridein i dwin attaw eno o riwedi or bobil isaw ev breint ac eu gwaed o lavurwir edaiar, nid amgen no chaamil a degmil arugeint o varchogion, a heni orivedi adnepwid ar vaxen ena o enis pridein hid en lliadw. Ac eni igosodes maxen wint i ginnal e wlad hono, nid amgen nor niver isel ibreint ac eu gwaed i dewill edaiar, ar niver marchogion in arglwiti arnatunt winteu ac i eu amdfin rac eu gelinion, ac oheni allan igelwid lliadw en ail pridein. A.

<sup>348</sup> Ac eno ed edewis maxen cenau meiriadawc in vrenin ac ed aeth enteu parth ac eithavoet freinc, ac i gorescinws cwbil o freinc idan i thervineu a germania oll hevid adan i thervineu, agwedi darvod itaw gorescin e gwladod heni, igosodes eistetva i deirnas en a dinas aelwir treveris. Ac odina rivelu aoruc ar e deu amerawdir aetint ena in ruvein, nid amgen gratian ac avalawnt, a deu vroder oetint, a llat e naill aoruc maxen, a dehol e llall o ruvein. A.

<sup>349</sup> Ac ed oet ena wir freinc en rivelu ar cenau meiriadawc adawsit en vrenin en lliadw, ac en benaw or

britanieid. A chenan aoruc ar e freine. Acwedi hetichu arnaw i cavas eni cighor circhu gwraget hid en enis pridein. en wreicaeu oe gid varchogion. rac bod amgen riw en eu hetivetion no britanieid. A.

<sup>350</sup> A dunawd aetw vrenin ar gerni ena. Ac riw dunawt hwnw i gorchlaminasei vaxen liwodraeth er enis. A merch aetw i dunawd hwnw enrivet i thegwech. A chenan meiriadawc aetw en caru hono. Ac anvon aoruc enan enad at dunawd i erchi itaw e verch hono en wreica i genan. Ac anvon hevid llawer o rivedi o wraget ereill o enis pridein hid en lli daw. A.

Sef oed y dunawt hwnnw brawt y gratawo iarll kernyw. ac a athoed yn lle y vrawt yn vrenhin. A phenadury a heuyt oed ef yn ynys prydein. kans idaw ef y gorchymunasei vaxen tywysogaeth y teyrnas tra vei o honei. B.

<sup>351</sup> A dunawd aoruc heni val ed oet genan eni erchi. Nid amgen no ferri o dunawd cennullaw o verched deliedogion vnvil ardeg. A cheunullaw o verched e bobil anvonetic devgenimll. A heni oll o niver a beris dunawd eu dwin hid en llundein. aferi cennullaw llogeu ac eu dwin i lundein i anvon e nifer hwnw i lidaw. A.

A gwedy dyuot y genhadwri honno ar dunawt ydydhau aoruc idi. Ac anvon gwys tros wyneb y teyrnas y gynullaw y gwraget hynny mal yd archassit idaw. Sef oed eiryf y gynnullawt o verchet dyledogion yn vil ardeg ac o wraged a oed is y breint deugein mil ac erbyn dyuot y gynulleitna honno hyt yn llundein y kynnullawt kymeint ac a ellit o loegu wrth eu hanuon hyt yn llydaw. B.

<sup>352</sup> Ac ar hid temis ed hwiliassant eni doethant ir mor. allawer o niver hwnw aetw well gantint eu marw en er enis hon noc eu mined i lidaw. Ac wint a rotint govunedoet ovined egreivit a mined en lleianeu rac eu mined oc eu gwlad. A.

A chyt bei lawer ym plith hynny o wraged a wynnychei vynet velly yw roi y wyr gwlat arall. eissios yd oed yno lawer aetw well gantint eu marw yny gwlat ehun noc adaw eu kenedyl ac rieni ar wlat y ganyssit yndi. ac ereill adewissei kadw eu diweirdeb. A gwassanaethu duw trw aghenocit no mynet y wlat arall y aruer o euylter knawt ae digrifwech. Ac yna pan yttoed y llyghes yn parawt ar gwynt yn rwyd dodu awnaethpwyt y gwraget yny llogeu a dechreu hwylyaw ar hyt temys yr mor. B.

<sup>353</sup> Acwedy eu hwiliaw eni vuant en agaws i draeth lli daw. Ac ena i civodes gwynt gwrthwneb iwrth emil e tir. ac eu gwascaru ir mor allan eni votes e ran vwiau onatint. Ac a dieghis en viw onatint a vwririd i enisocit agcivieith a llat llawer onatint. Ac adaw ereill en viw in geith ne in garcharorion. Ac wint evelli ene civeiliorn truan hwnw e civarvu ac wint ar e mor gwinwas a melwas. Canis e gwir heni a erasei gratian amerawdir ruvein a llyghes vawr gantaw hid en germania i rivelu ar gwladoet oboptu itaw a wetasei i vaxen. Ar gwinwas hwnw aetw vrenin ar hunawd. Ar melwas hwnw aetw vrenin in peithwv. Ac i rivelu ar vaxen i girasei gratian emerawdir wint ell deu. A.

Ac mal yd oedynt yn dyuot yn gynaagos y traethu llydaw y deuth gwynt gorthwyneb kythrawl ac ar ennyt vechan gwascaru eu llogeu. A bodi y ran vwyaf o gwraget. ac ereill onadunt a vyrwynt y enysedd aghyuieith ym plith estrawn genedloed. Ac yno y merthyrywt ac y llas rei. ac ereill a attelit yg keithiwet. Ac ereill a gyuaru a llyghes dirauwr a anonassei gratian amherawdyr hyt yn germania y ryfelu ar yruarortir yn erbyn a wedassei y vaxen. Ac yn tywysogyon arnadaut gwinwas vrenhin hunawt a melwas vrenhin peitaw. B.

<sup>354</sup> Ac ena i deliis a deu heni a gawsant o morwinion. ac ni menit dim igantint namin emrewitu ac wint eid bei drwc cantint. sef aoruc e bradwir escimin heni llat e ran vwiau onatint in diannod. Afan gicleu e bradwir heni vod enis pridein heb gedernid enti ni orfwissasant eni doethant ir alban ir tir ar gallu mwaiw a allasant egid ac wint. Ac en diannod anreithiaw e wlad a llat e gwerin val i gellasant gantaw. enid edewid en er enis hon. pan aeth maxen ohonei namin pobil lesc i diwill edaiar. ar rei heni heb na meirch nac arven. A dirvawr aerva awnaethant ar bobil er enis hon. a dwin eu holl daoet ichinwawl. A.

Agwedy kyuaruot y moryon ar yscymunedic pobyl honno gwedy gwelet o nadunt tecced o gwraget keissaw awnaethant yndiauarchu ac wyut ac eilenwi y godineb. A gwedy na mynei y morynywn kytsynnyaw ac wynt yn yr ewyllys hwnw. Sef awnaeth y bradwyr hynny llat y ran vwyaf o nadunt ac yn diannod pan glywssant bot ynys prydein yn anreithedic oc eu marchogion ac yn wedw oc eu brehinn. Sef awnaethant brysyau eu hynt parth ac ynys prydein. A chymryt gynt ac wynt porth vwyaf a allasant y gaffel o enysedd y pobtu a dyuot yr alban yr tir a dechreu anreithaw y gwladoed a oed heb amdflynywyr arnadaut a llat y bileinlu ar tir dywylodron. B.

<sup>355</sup> Afan wengwid heni i vaxen. sev ed anfonnes enteu ima gwr aelwid gratian amerawdir a dwi leg o wir gid ac ev. en arwawc i amdfin e britanieid. Acwedi divod e gwr hwnw ima emlat aoruc en wrawl ae elinion. ac eu cimhell ar fo eni foint in iwerdon. Ac en er amser hwnw i llas maxen wledic in ruvein igan gedimdeithion gratian. Ac a dieghis o britanieid otino a daethant hid in lli daw ar genan meiriadawc. a adawsei vaxen en vrenhin ar elle hono. A.

A gwedy menegi hynny y vaxen yd anuones graciardogymryt a dwyleg o wyr aruawc gantaw y amdfin y brytanyeit. A gwedy dyuot graciard hyn yn ynys prydein dechreu ymlad a oruc ae elynon a gwneuthur aerua vawr a oruc onadunt. Ac eu kymell ar ffo hyt yn iwerdon. Ac yn yr amser hwnnw y llas maxen yn ruvein ac y gwascarwy a oed y gyt ac ef o brytanyeit. ac y ffoassant hyt yn llydaw ar gnyan meiriatawc. B.

<sup>356</sup> Afan gicleu gratian rot cimeriawdir llat maxen wledic in ruvein i cimerth enteu coron e deirmas ami heb ehun. a chemrid entaw redic a balchder eni bu dir ir britanieid dvhvnae eni erbin ai lat. Afan gicleu gwinwas a melwas rilat gratian. sev aorugant winteu ena dvhvnae ac wint e gwilt ar esgotieid ar llichlinwir. A divod a heni gantint i enis pridein ac anreithiaw er enis aorugant o mor pwi gilyt o dan a haiarn. Ac ena in diannod ed anvones e britanieid genadeu i ruvein i erchi nerth oc eu hamdfin igan eu gelinion. A.

Agwedy clybot o graciardogymryt ryld maxen yn rufein. kymryt a oruc ynteu vrenhinyaeith ynys prydein. A gwedy y uot yn vrenhin. kymeint vu eu creulonder yny arglwydiaeth. hyt pan vu reit yr brytanyeit o diwed y lad. am y greulonder. A phan gicleu y radywededigion elynon uehot affoassynt y iwerdon ryld graciard. kynnullaw awnaethant wynteu y gwylid ar ysgotteit ar denmarwyr ar llechlynwyr y gyt ac wynt. A dyuot hyt ynys prydein. ae hanrheithaw o tan a hayarn o mor y gilyd. Ac wrth hynny anuon llethreyu awnaeth y brytanyeit hyt yn rufein. A dagreunaw gwynuan yndunt gan adaw tragwyddawl darystygedigaeth undunt yr gollwg canhorthwy undunt. B.

<sup>357</sup> Ac ena ed anvoned llog o wir arwawc. afan doethant i dir er enis hon emlat aorugant en diannod ac eu gelinion ac eu cimhell oholl dervineu enis pridein. Ac oachaws emlat ar riw elinion heni. ac eu gwrthlat otima emdeith. Ac am heni i parasei severws gwneuthur aruthrach gan genedil elinion divod ar e britanieid. A difeith oet er alban ena. ac ena o dvhvndeb cwblw oc enis e gwnaethpwid e mur val i buasei gint o mor pwi gilit. A.

Ac yna yd anuonet llog o wyr aruawc attadunt. A gwedy eu dyuot hyt yn ynys prydein. Ac ymlad

ar gelynyon ac eu dehol o holl turynyne ynys prydein, ac eu gwrthlad o gwbl, a rythau y bopyl lesc. Ac yr gwrthlad gelynyon yd archaei Seuerus amherawdyr gynt wneuthur mur rvg deuyr ar alban or mor y gilyd, kanyr yr alban y gnotael pob gormes or a delhei y ynys prydein dyuot yn gyntaf. Ac yna eilweith y kaussant yn eu kyffredin gyghor atnewyddhau y mur hwnw, ac wneuthur yn gwbl or mor y gilyd. B.

<sup>358</sup> Acwedi darvod eoplau e gweith e menegis gwir ruvein ir britanieid na ellint hwi en wastad diwod o ruvein trwi berigleu hint ac aneirw o gost a threul wrth wir a meirch ac arveu rac crwidredigion ladron agceiweith. Ac ni ad senetwir ruvein vn amdfin arnawch namin disewch chwihunein emlat drosawch eneidieu, athros awch plant, athros awch trev tad. A.

A gwedy daruot euclup y gweith hwnnw y menegis gwyr rufein yr brytanieit hyt na ellynt wy kymryt llafur ac aneirw o treul o wyr ac arueu ac eur ac aryant ar uor ar tir yn keissaw amdfifyn popyl mor lesc a hynny. A bot sened ruvein yn blinaw o treulaw eu da, ac eu swllt mor wastad a hynny yn kerdet mor a thir, ac yn diodef agheulyon perigleu drostunt, a bot yn well gantunt dilyssu eu teyrngt no hynny. Ac y gyt a hynny bot yn iawnach udunt ehunein kymryt dyse ac aruer o ymlad mal y gellynt amdfifyn eu gwlat, no dodi eu hemdret yr wastat ar wyr rufein. B.

<sup>360</sup> Ac ena wedi menegi vtnt er amadrawt hwnnw ed erchid ir britanieid diwod en llwir hid en llundein, canis mined otino ruvein ed oet cwbl o a hanoeit o ruvein. Ac wedi eu diwod lundein ed erchis gwyr ruvein i gubelin archesoch discu e britanieid i emlat. A gorchemin itaw pregethu vtnt en drwiadil hvawdil eni vitnt discedic. A.

A gwedy daruot udunt venegi yr ymadrodyon hynny yr brytanieit, erchi awnaethant kynnullaw ieuenc-tit ynys prydein ac holl ymladwyr ac eu dwyn hyt yn llundein yn eu herbyn wynteu, kanyr ar ymhoel y oedlyt tu a rufein. A gwedy eu dyuot yn llwyr hyt yn llundein pregethu udunt yd erchut y kuhelyn archesoch llundein a menegi udunt yr ymadrodyon yd oed wyr rufein yn adaw gantunt. B.

<sup>361</sup> Sew val e dechreua cubelin pregethu vtnt. Awirda eb ev. cid archer imi dewedid wrthwch chwi is mwi im cimellir i i willaw noc i diwedid pregeth ac amadrotyon wbel, sev achaws iw heni truaned iw geniw er imtivedi ar gwander a damweiniws inni, er pan aeth maxen an gwir da ar meirch ar arveu. Ac nad edewit ena namin attethol pobil a chwilewidwr a llawurwir daiar. Ac am heni pan doeth awch gelinion attawch ich cimbellwid in awch eilweith megis devedid civeilornus heb vugel wrthunt. Ac ni minwch arver nac o emlat ac arveu, nac o disc nac o anian enoch chwichwhwn, nac ar veirch na heb veirch. Ac ni daw neb o ruvein bellach i awch amdfin er mateu eu teirged. Afei bitewch chwi er amser i buant e marchogion da in enis pridein, pa beth a debigewch chwi ai fo diniawl anian iwrthwch. Ac e gwrthwyneb anian e genir e dinion, canis ev a enir mab ir milein ac ev a vit marchawc, ac ev a enir ir marchawc hwnw mab in vilein. Ac am heni o minwch chwi vod en dinion gwnewch val e deli dinion i wneuthur a galw ar grist a deliwh i vod en nerth iwch i ennin in finiant a glewder i amdfin awch gwlat. A.

A megys y dechreuis yr archesoch yr ymadrawd. Arglwyd heb ef kyt archer y mi pregethu yehwchi, ys mwy ym kymhellir y wylaw noc y pregethu, rac truanet genyfi yr ymduedi ar gwander a damweiniws y chwi gwedy aspellaw o vaxen ynys prydein oet marchogion ac ymladwyr. Ac a dieghis o honawch hitheu, pobyl aghefryrwyys ywch y ymlad, namyn yr achubedic o amryuolyn negesseu a chefnewidyeu yn vwy noc ar dyse ymladeu. Ac wrth hynny pan doethant awch gelynyon am awch pen, y awch kymhell-assant y adaw awch keibeu. A megys deueit keueilornus heb ugeul arnadunt awchgwascaru, kany mynysawch kymyscu awch dwylaw ac erueu nac a dyse ymlad. Ac wrth hynny py hyt y keisswchi bot rufeiniawl arglywidieth yn vn gobeth ich. A phy hyt yd ymredwch yn estrawn genedyl nyt oed dewrach no chwi pei nar attewch y lesced awch goruot. Ednebydwch heuyt bot gwyr rufein yn blinaw ragoch. Ac yn eddiuar gantunt y gynuter perigyl a gymerassant drassawch yn wastat. Ac weithon y maent yn dewissaw madeu eu teyrngt iwch yn mlaen diodef y kyfryw lafur hwnw bellach. Pei bydwchwi yn yr amser y bu y marchogion ynys prydein, beth a tybygwi, ac yr hynny y tebygwi fo dynyawl anyan y wrthywch a geni dynyon ygorthwyneb anyan y megys pei genit or biein yarhawe ac or marchawc vilein. Ac yr hynny eisoes diseynnu dyn y gan y gilyd, ny thebygafui colli o nadunt wy eu dynyawl anyan yr hynny. Ac wrth hynny, kans dynyon ywch gwnewch megys y dylly dynyon, gelweh ar grist hyt pan vo euo rodho ywch lewder ardyt. B.

<sup>362</sup> Afan darvu i gubelin dervinn ar i emadrawt ed oet e britanieid oeu eu metwl ac eu brid ac eu hini wedi emlenwi o finiant a glewder. A.

A gwedy turynyne o archesoch yr ymadrawt yny wed hon, kymynt uo y kynhwryf yny pobyl, a megys y tebygnt yn deissyuit eu bot gwedy eu kyflenwi o lewder o vn rryt. B.

<sup>363</sup> Ac ena i civodes gwir ruvein oc eu discu en frwithlawn i amdfin eu gwlat rac estrawn genedolet, ac adaw vtnt exemplareu i wneithir arven wrthint, a dyscu vtnt wneithir cestil ar lan e mroet elle i bei borthloeteu da a discinvaeu llogeu, ac ewelli e gellwch ginnal ich gwlat rac awch gelinion. Ac eisioes haws iw gwneithir ehebawc or barcutan no gwneithir milein en disoedic en diswid. Apwibnac aroto disc o doethineb i vilein cinhebic iw hwnw a gwascaru gemeu mawrweirthiawc dan draed moch. A.

Ac yn ol y parably hwnnw y rodes y rufeiniwyr kadaron dyscydigaethyeu arymladeu yr pobyl honno, ac adaw ageifit udunt y wneuthur arueu. Ac erchi udunt adeilyat kestyll ar lan y mor yny porthueyd y bei diseynua eu llogeu, wrth gadw eu gwlat o nadunt rac eu gelynyon, haws yw eisioes gwneuthur hebawc or barent, no gwneuthur bilein yn dyscedic ar vrwydyr. A phy bynhac a rodo dyse o am dim doethinab idaw, kynhebic yw yr neb a wasareit geineu mawrweirthawc dan traet moch. B.

<sup>364</sup> Ac otina en diannod ad aeth gwir ruvein emdeith. Ac eni lle ar ol heni e doeth Gwinwas a melwas ir alban ir tir. A gwir llichlin gyd ac wint, a gwir denmarc. Afob riw genedil or a allesint cafel eu duhvndeb. Ac ar hint gorescin aorugant cwbl or wlad hid e mur awnatot sever. Ac angliwed onatvnt mined gwir ruvein emdeith otima ehovnach lawer i gorescinasant ar enis hon iar e bileinlu llesc digalon. Ac eu cimhell ir cestil ac ir muroet ac ir ceirit. Ac otino i tenid wint a bachan ac wrth rafeu, ac ena i dieneid wint. Canid oet in enis pridein dim or marchogion ena en hanvod ohonei ehun. A.

Ac yna kychwyn awnaeth gwyr rufein y ymdeith megys ar oden na delhynt yr ynys hon tracheuyn. Ac ar hynny nachaf yny lle raedywedidigion elynyon uchof, gwynwas a melwas yn dineu or llogeu yr tir a llawer o niveroed gantunt or gwedydyl ar yscoteit ar yfichteit ar llychlynwyr, a gorescyn yr alban yn diannot o vynn y mur. A gwedy gwybot o nadunt yr vynet gwyr rufein y ymdeith heb obeith y ymchoelut tracheuyn, efnach noc y gnoteynt yd ymransasant y distryw y mur. Ac yna y gossodet yw amdfifyn wynteu y bileinlu diaruot, parawt ar fio pei lleussynt. Ac ny orflowseyt y gelyon o vwrw agheulyon ergydeu yn eu plith. Ac o vwrw bachan gwrthuiniawc yn eu plith wrth linyneyn. Ac y uelly y trymion vileinlu or kestyll a tynnyt hyt y llawr attadunt. A digawn o didan a oed gan y neb a gaffei agheu ebrwyd arnaw, rac y ryw amryuolyn poyneuy awnelynt ywneuth' ar eu kenedyl yu gwyd. B.

<sup>365</sup> Ac is mawr o beth iw gwelod dwiawld dial ar bopil am eu pechodeu. Ac ewelli hagen i bit pan adawer metiant a lliwodraeth mawr gan vileinieid gwenwinic creulawn. Ac wedi darvod eu hestwg hid

ar dim haiach, ed anvonasant winteu lithir hid en ruvein ar agitius aoet amerawdir ena in ruvein. A.

Oi a duw mawr a beth yw gwelet dwywawl dial ar e pobyl am eu pechodeu hen. kanys pei bydynt yna y sawl varchogyon a dugassei vaxen gantaw trwy enuydrwyd. ny doei pobyl y ynys prydein a allai oruot arnadunt. A thra tytoedynt yw gwerescyn y gwledyd awneynt yw kylch. Ac uelly yw gadaw brenhynyaeth y vileinlu. Beth weithon a dywedafi. namyn yna yd edewyt y dinasoed yn wac. Ac wrth hynny y kauas gwedillon y pobyl truan yn eu kyghor anuon llythyreu hyt yn rufein ar agicius amherawdyr rufein yny mod hwn. B.

<sup>364</sup> Cwinvan ac vcheneidieu e britanieid en dagaws i agitius amerawdir ruvein. ac en cwinaw wrthaw val hin. E mor essit en in cimhell ni ar an gelinion ir tir i en llat. ac en gelinion an cimbellawt ir mor i an boti. Achanid oes i ninheu namyn vn o dev peth. arglwit amerawdir ed im en damunaw de divod titheu arglwit en amdfin. A ni a dalwn itti e deirnged wviaw a dalwid erioed o enis pridein. A.

Kwynnan y brytanyeit yn eu dangos y agicius amherawdyr rufein. Ac yn menegi bot ymor yn en kymell yr tir ar toreu gelynyon y en llad. A bot en gelynyon yn en kymell yr mor y en bodi. Ac uelly menegi nat oed udunt namyn o vn o deu peth. ac en bodi or mor ac en llad ar y tir. B.

<sup>367</sup> Ac ni chavas e cenadeu eu gwarandyn en ruvein namyn eu gillwg drachevin en drist allwinin. A. Ac ymchoelut awnaeth y kenhadeu yn trist heb eu gwarandaw. B.

<sup>366</sup> Gwedy divod e cenadeu velly. sev agavas e bobil druan hono en eu cighor anvon cuhelin archescob llundein hid en llidaw i geisaw nerth igan eu cidvroder. Ac en vrenin in lli daw ed oet ena aldwr e pedwerit brenin oet hwn wedi cenan meriadawc. A.

Ac yna y kawssant yn eu kyghor anuon kuhelyn archescob llundein hyt yn llydaw y geissaw nerth y gan eu kercent. Ac yn yr amser hwnnw yd oed aldwr yn vrenhin yn llydaw. y pedwered gwedy kynan meriadawc. B.

<sup>369</sup> Ac ena igorvt cuhelin archescob i neges wrth aldwr am nerth i amdfin enis pridein. A dewedid itaw na dileu neb coron e deirnas a lliwodraeth en gestal ac evo er pan vu gwstenin. Ac am heni arglwit ep cuhelin engwiweir en diannod a dered i gemrid coron enis pridein. A.

A gwedy dyuot kuhelyn hyt yn llydaw ae welet or brenhin ef yn wr dywawl. y erbynneit yn enrededus: Ac amouyn ac ef achaws y hynt ac ystryw y negys. Ac yna y dywawt kuelyn wrthaw. Arglwyd heb ef digaw yw damllywechediet itti vy neges i. A thi a allut kyffrot ar dagreu o glybot y trueni yssyd arnam yn ynys prydein. yr pan anreithwys maxen wledic hi oe hymladwyr yn llwyr. Ac y gossodes yny hon yr hon yd wyt yn vrenhin arnel. A gwyn y vyt a welas pei gwledychut titheu hi trwy hedwch. kanys y rei yssyd yno agheuryrws ynt ar ymlad. Ac ny allan wrthwynebu yr gelynyon. Ac y gyt a hynny neur deryw y wyr rufein vlinaw mal na chaffwn gantunt wynteu dim o amdfifyn. Ac wrth hynny yd yn ninheu yn gwediaw ty trugared titheu hyt pan rodych ti nerth ac amdfifyn o honot tuhun y teyrnas yd wyt dyledawc arnel. kanys ny dily neb y coronhan yn well no thidi o coron custenin a maxen wledic. kanys y gwyr hynny yssyd gereint itti. Ac wrth hynny parotta lyghes adyret y gymryt coron ynys prydein. A minheu ae rodaf itti. B.

<sup>370</sup> Ac ena i diawd aldwr wrth cuhelin. A wrda eb ev nid avi odeirnas vechan hon ed wiv eni chafel en llonit esmwith diovalus divygyth. ac o ruvein ac o bob breniniaeth. nid av i enis pridein. dan e bigithieu. ac amled iw gelinion a digasogion itti. Ac is gwell civoeth bechan in llonit digenvil. no chivoeth mawr en avlonit ovalus dan vigwth a thalu teyrnged i wir ruvein. Ac er heni wrda eb ev mi a rotaw en nerth gidathi i ginnal enis pridein custennin vimrawd a dwivil o wir arwawc gid ac ev. canis. bigwth essit arnavi o wir freinc nid adawavi vigcivoeth. A.

Ac ar hynny y atebawd y brenhin yr archescob. Hawrda heb ef. eff a uu amser nawrthodwn i teyrnas ynys prydein o bei ae rodei ym. kans mi a tebygaf nat oes teyrnas firwythlonach no hii tra gefitt hedwch. ac yr awr hon y mae wedy y ryuel y dy distryw. Ac wrth hynny kas yw genyfi hii a chan po tewyssawc arall. ac ny all vn tewyssawc y chynhal heb talu teyrnged y wyr rufein. Ac wrth hynny wrda pwy ni bei well ganthaw gyfoeth bychan yn ryd no chyuoeth mawr a thragywydawl geithiweh. Ac eissoes heb ef. kanys yr ynys a dywedy ti a uu eidunt wy uy rieni uiena minheu a rodaf yn ganhorthwy itti. Gustenin vy mrawt a dwyul o uarehogyon y gyt ac ef y edrych a vynnno duw idaw allu distryw y gormeisseit. A chymeret ef y goron ehun. Or myn duw idaw y chaffel. Ac ny adawafi mwy o wyr yn awr rac ryuel o frince dyuot ymma. B.

<sup>371</sup> Ac ena llawenhan aoruc cuhelin archescob a diolwch heni en vawr e rot hwnw en vwi no mesur. A galw custenin itaw aoruc cuhelin a dywedid val hin wrthaw. custenin a orvit. custenin a orchivica. custenin a wledicha. llima an gobeth ni ac an amdfin ac an lllenit ac an brenin. Ac ene lle pan gawsant eu parotrwit divod aorugant enis pridein. A.

Ac diolch awnaeth y yr archescob idaw yn uawr. ac yny lle galw custenhin. a dywedut wrthaw val hyn. Crist a oruyd heb ef. crist a wledycha. crist a orchynyt da. llyma vrenhin ynys prydein. Beth gwedy hynny yny lle gwedy bot y llogheu yn parawt kychwyn awnaethant y ynys prydein. B.

<sup>372</sup> Ac ena i doethant i borth tocteis ir tir. ac en diannod cennullaw llu aorugant arnatint. ac eu geru ar fo. Afan glwid e danwain hwnw dros gwbil or enis emgennullaw aoruc cwbil o. bobil enis pridein eni doethant hid elle aelwid cicoster. A.

Ac yna dyuot y porth titneis yr tir. Ac yn diannot kynnullaw y brytanyeit y gyt ac wynt. a chyrehu y gelynyon. ac ymlad ac wynt. a chaffel y uduogulyaeth. a gwedy mynet hynny yn honneit tros wyneb y teyrnas ymgynullaw awnaeth y brytanyeit hyt yn cyrestryr. B.

<sup>373</sup> Ac ena i rotes cuhelin archescob coron teirnas enis pridein am ben cwstenin. ai vendigaw ai alw oheni allan custenin vendigaed. A roti en wreica itaw gwreic ahanoet o deliedogion ruvein ac a vagassei cuhelin archescob in llundein: A.

A gwisac coron y teyrnas am y pen custenhin vendigeit. A rodi gwreic idaw a hanoed o dyledogyon rufein. ac a uagassit yn llys a kuhelyn. B.

<sup>374</sup> A thi meib a vu itaw ohono. sev oet eu henw. constans ac emris wledic ac uthur bendragon. a henav oet onatint constans. a chuhelin ai rotes ar vaeth ev emewn manachloc amphibal' egcaer wint. Ac eno ed aeth ene crevit hwnw. Ar deu vab ereill a beris cuhelin eu roti hevid ar vaeth. A.

Ac or wreic honno y bu idaw tri meib. Sef oed y rei hynny. constans ac emrys ac uthur pendragon. A chonstans a rodes ef y mab hynaf idaw ar vaeth y vanachloc amphibalus yg kaer wynt. ac y yd y wneuthur yn vanych. Ar deu vab ereill a rodet ar cuhelyn archescob. B.

<sup>375</sup> Agwedi mined deudag mlinet o oes custenin en vrenin i doeth un or fichteit a vnaesi wr itaw gint. a galw custenin attaw ar neiltu en rith hustig neu givrinach. ac in heni iwan a chillel drwitaw eni chill i eneid. A.

Ac ym pen deudag mlyned gwedy hynny y doeth un or effichteit ar auuassei wr idaw kyn no hynny. A

galw y brenhin attaw megy y gyfrwch yny lle yskyvalaf. A gwedy gyrru pawb y wrthtunt y lladawd y twyllwr y brenhin a chylllell. B.

<sup>376</sup> Gwedi colli custenin velli tivu aoruc andagnhetet irwg gwirda e civoeth am wneithir brenin o un o veibion custenin, sev aoruc gwrtheirn gorthieun ena iarl oet hwnn ar went ac ergig ac euas, metiliaw obop fort, ac obop estriw pa funit i cafei ev o vreniniaeth itaw ehun. Ac or diwet i cavas eni gighor mined hid i vanachloc egaer wint ed oet constans enti igerevit, a diwedid aoruc wrth constans val hin. A.

Ac yna gwedy llad custenhin vendigeit y kyuodes annuundab y rwg gwyrda y teyrnas am wneuthur brenhin, kany rei a vyznei wneuthur emrys wledic yn vrenhin, ereill a vyznei uthur pen dragon, ereill a vynhynt wneuthur un oe kenedyl ehun. Ac or diwed gwedy na duunynt am hynny. Sef awnaeth gwrtheyrn gwrtheneu, iarl a oed hwnn ar went, ac ergig, ac uas, wrth geissyaw ehun y vrenhiniaeth or diwed, mynet hyt yg kaer wynt y lle ydoed constans yn vanych. A dywedut wrthaw val hin. B.

<sup>377</sup> Henav mab wit ti heb e gorthieirn o blant cwestenin, ac ni ellir brenin o er un oth vroder mor int ievinc. A mi ath wnav di en vrenin, a mwiaa ditheu vinheu or civoeth a mi amchwelaw attad wineb e civoeth oll. A.

Constans heb ef, ty tat ti ar y uu varw, at vrodyr yssyd ievinc ydy wneuth' vn o nadunt yn vrenhin, ac wrth hynny o bydy ti wrth vy kyghor i bo ychwanacau vy medyant i, mi a para ty tynnu or abit hon ath wneuth' yn vrenhin hyt bo gorthwyneb gan yr urdas. B.

<sup>378</sup> Ac ena emoginniannu aoruc constans ac ataw i ortheirn gadu itaw ev lliwiaw e deirnas ogwbwl wrth i gighor. Ac ena i peris ev diosc er abid iam dano a roi dillad e bid amdanaw, ai dwin or vanachloc o anvot er abad ar covent. Afan daeth i lundein gwisco dillad breninawl ar goron. A.

A phan gicleu constans yr amadrodyon hynny llewenhau a oruc. Ac adaw trwy aruoll rodi pob peth idaw or a uynhei. Ac yndiannot y tynnu awnaeth gwrtheyrn or vanechit. Ac o vreid kaffel canhat y dyrchauel yn vrenhin. Ac yn yr amser hwnn marw uassei kuhelyn archescob. Ac wrth hynny ny chaffat un escob ae kyssegrei yn vrenhin wrth y tynnu or creuyd. Ac eissoes nyt ebyrgoues gwrtheyrn namyn mynet ehun yn lle escob, a rodi coron y teyrnas am y pen. B.

<sup>379</sup> Ac wedi urtaw constans en vrenin enteu awnaeth gorthieirn en oruchel swidawc dano ev ar enis, ac en wneuthuredic a wnelei. Ac gwedi i vod velli metiliaw aoruc gorthieirn, pa vot e gallei ev vined en vrenin. Ena i diwed ev ir brenin, weled lliges ar e mor, a menegi i bitei da estorio a cestill arvordir. Gwnewch eb e brenin, a heni awnaeth gorthieirn, aferi i bawb or switwir degu itaw ev, a roi swit dair blinet itvnt. A.

Gwedy dyrchauel constans yn vrenhin, y rodes ynteu holl lewodraeth y teyrnas yn llaw gwrtheyrn. Ac ef heuyt a ymrodes wrth y gyghor, kany amgen dysc a dyscassei ehun yny clautwr no llywyaw teyrnas. A gwedy kaffel o wrtheyrn medyant kymeint a hwnn yny law, medyllyaw aoruc py wed y gallei gaffel ehun y vrenhiniaeth a distryw constans. Ac or diwed gwedy ystrywyaw pop peth menegi awnaeth y constans bot dygyuor llu am eu pen o wledyd ereill. Ac arglwyd vrenhin heb ef goreu yw itti ychwanacau dy teulu mal y bo tibrysterach itt rac dy clynyon. Ac yna y dywawt constans ponyt yth law ti y rodeis i medyant a llywodraeth y teyrnas. Ac wrth hynny gwna titheu pop peth or a uynych gan gadw ffydlonder y minheu. B.

<sup>380</sup> Ena e daeth gorthieirn ir alban a dethol pedwarugein o wir or meibion dewrav a deledocav a gorev eu campeu or fichtiaid, ni dwin at e brenin iw galin wrth ben i varch. Ena i diwed gorthieirn wrth e brenin darvod itaw pop peth, a dwin e meibion or alban, ac i gellid o doei riveli i dali en wistlon, gorthieirn a rigawt bot, e meibion. A.

Ac yna y dywawt, ef a dywespyt imi heb ef bot y ffiichteit yn mynnu dwyn gwyr llychlyn a denmarc yn yn ac wynt wrth ryuelu arnam ni. Ac wrth hynny y mae goreu gward rei o nadunt yn wyr itti yn wastat yd lys val y gallont whedleua it a gywybot medwl eu kenedyl ar y twyll yth erbyn. A phony welwchi vrat gwrtheyrn kanyt o achaws kynhal iechyt y brenhin yd ystrywei ef yr yr ymadrodyon hynny, namyn gywybot bot mae ysecaun aocd annwynt y rei hynny a hawd troi y medwl a llad y brenhin. A gwedy darfei hynny, medyllyaw wnaeth mae hawd a oed idaw gaffel y vrenhiniaeth yny law ehun gwedy hynny. A gwawd awnaeth gwrtheyrn cant marchawc yn wyr yr brenhin o yscotteit ac or effichteit ac eu anrydedu awnaeth udunt o eur ac aryant a meirch a dillat hyny tytydynt wynteu yny gymryt yn lle brenhin. Ac yna y kenynt wynteu gowydeu idaw ar hyt yr yholyd y fford y kerdynt. Gwrtheyrn yssyd teilgw o amherodraeth a theyrnwyalen ynys prydein, a chonstans yssyd anheilgw. B.

<sup>381</sup> Ac wedi bod nosweith en wtres wrth e tan wedi mined e brenin i gescu, ena i diwed gorthieirn, ir ai ar echidid goweth a oet itaw, i geisiaw da iw roi tvnt, onid wid ti eb wint en cael a vinich or enis. Nac wiv eb ev ond ergig ac euas, afe tai mwi chwi ae ceñch. Ena ir aeth gorthieirn i giscu. A.

Ac or diwed gwedy kaffel gywybot o wrtheyrn rygaffel eu karyat yn llwyr. Gwedy eu medwi nosweith y dywawt gwrtheyrn wrthtynt y uot ef yn adaw ynys prydein y geissyaw kyuoeth a uei vwy yn lle arall, kany allei ef herwyd y dywedei kynhal dec marchawc a deugeint yn diwall or bychydic kyuoeth a oed idaw ef. A gwedy dywedut wrthtunt kymeint a hynny mynet parth ae letty awnaeth yn trist. Ac eu adaw wynteu yn y neuad yn yuet. A gwedy gwelot or effichteit hyny, tristau awnaethant wynteu yn vwy noc yd hawd y credu, a thebygu pan yw pruder a dywedassei wrtheyrn wrthtunt a dywedut awnaethant y rydunt pa achaws na ladwn yr atuanach hwn, megys y caffo gwrtheyrn gwedy hynny cadeir y teyrnas. Pwy a dily brenhiniaeth yn well noc ef, ar gwr an rydedwys ninheu yn wastat. B.

<sup>382</sup> Sev awnaethant rwg metdawd a geirieu gorthieirn circhu estavell e brenin a llat e brenin a divod, bit di vrenin os meni, ena e peris gorthieirn dali e rai hin ae carcharu rac dial arno ev er alanas. A.

Ac yn diannot kychwyr awnaethant a dwyn ruther am y brenhin y ystauell ae lad. A chymryt y pen gantunt hyt rac bron gwrtheyrn. A phan welas ynteu hynny megys trwsdan o dieithyr ac wylaw a oruc. Ac eissoes ny buassei lawenach erioet o vynn noc yd oed yna. A galw a oruc attaw kywtawtwyr llundein, kany yno y gwathnoedit y gyffauan honno, ac erchi udunt daly oll y bratwyr hynny, ae dihenydhaw am wneuth' kyffauan kymeint a honno nyt amgen llad y brenhin. A rei o wyr y teyrnas adwyedei panwy gwrtheyrn a rywnathod y vrat honno, ac nas gwnaei y ffiichteit oe dechymyng e hunein. B.

<sup>383</sup> Afan gicleu kuhelin archescob llat e brenin drwi vrad gorthieirn, fo aoruc ar deu bav ereill at emir lliaw i cevindrheu i lidaw rac ovin twill. Ena i croges e tewisogion in llundein e gwir a ladasei e brenin, a gorchimin er enis in llaw gorthieirn. A.

—Ei ac eissoes sef awnaeth tatmaethu y meibion ereill, emrys ac uthur pendragon ffo ac wynt hyt yn llydaw rac ofyn gwrtheyrn, ac na bei oe eu hetieud y dyllychi y teyrnas o difoddei rei hynny. Ac yn yr amser hwnn yd oed emyr llydaw yn vrenhin yn llydaw, ar gwr hwnn a aruolles y meibion yn llawen. B.

<sup>361</sup> Ena pan wibu e fichtiaid grogi i meibion, cinnull a orugant a rivelu ar gortheirn. Ena i gwiscawt gortheirn e goron a mined en vrenin heb ganiad. A.

Ac yno pan welas gwrtheyrn nat oed a allei ymerbynneit ac ef. Sef awnaeth ynteu kymryt, coron y teyrnas ac wiscaw am y pen enu. A gwercsyrn y tywyssogyon ereill. B.

<sup>362</sup> Ac wedi mined gortheirn en vrenin auvon aoruc i geisaw pawb i deol e fichtiaid, necau aoruc e britanieid ac erchi itaw o gwnaethoet dwll vtwt wneuthur lawn ne derbin a delei ato. A.

Ac eisoes gwedy clybot y vratwryaeth honno ym pop lle yn honneit. Sef awnaeth gwyr yr ynysoedd ymdyunaw y gyt wrth ryuelu a gwrtheyrn, kany y ffichteit a dyffynassynt or Alban attunt y dial eu kytuarchogyon ar parassei wrtheyrn y llad am rylad o nadunt wynteu constans vab custenin vendigeit. Ac yn diruawr ouyn a phryder a oed ar wrtheyrn or neill parth o achaws y vot yn kolli y wgr trwy benydawyl ymladeu a brwydreu. Ac or parth arall rac ofyn emrys wledie ac uthur pen dragon, kany y rybud tra gilyd a doei attaw y venegi eu bot yn dyuot a llyghes dyruawr gantunt y werescyn, ac y dial agheu eu brawt arnaw. B.

<sup>363</sup> Afan oet en minu gado er enis, am na chai nerth o yn lle, a gweled llied e britanieid wrtho, ac ev ar venit cent, i gwelei dair llog enrivet i meint ar vor freinc. Anvon aoruc i wibod pwi oetint. A.

Ac ar hynny nachaf teir llog hiryon yn llayn o varchogyon aruawc yn disceynnu yr tir yn swyd geint, a deu wr yn deu vroder yn tywyssogyon arnadunt. Sef oed eu henweu, hors, a hengyst, ac yn uffern y maent. Ac yr amser hwnnw yd oed wrtheyrn yn dinas dorobern. Sef y dinas yw hwnnw kaer geint. A chenhadu a deuth ar wrtheyrn y venegi idaw rydyuot gwyr mawr hedwch heb wybot panhaoddynt y mywn lloghen hirion. A rodi nawd awnaeth gwrtheyrn udunt. Ac erchi eu dwyn attaw. B.

<sup>364</sup> A wint a venegasant mae o germania i doethesint, a divod o been i vined oe tir, canis velli i gwneint pob seith mlinet, ae bod ar e mor er esblwitin a hanfer, ac ervin cael lle i preswiliaw in enis pridein. Hors a hingestir i gelwid e deu dewisaw acet arnint. Anvon aoruc e brenin en i hol. Ac wedi e divod govin aoruc e brenin i bwi i credint, i wden heb hwi i credwn. Ar pedwerit dit or withnos a elwid oe enw ev wodensday. Ac gaiduw arall a elwid froeu ac oi enw ev i gelwid froeday. A.

A gwedy ev dyuot rac eu vron, arganuot awnaeth gwrtheyrn y deu vroder a oed tywyssogyon ar y rei ereill, kany a oed arnadunt o pryt. A gouyn awnaeth o pyle pan hoedynt, a phy negys y dothoedynt y teyrnas ynteu. Ac yna y rodes hengyst atdeb idaw, kany ystrywysaf a oed ef a mwyaf y drwc pei gallei. Ac yn y wed hon y dechreus yr ymadraw. O tidi vonedificaf or brenhined gw wlat Saxonia yn ganet ni, vn yw honno o wladod germania. Achaws an dyuodedigyaeth ninheu yw, y rodi yn gwassanaeth itfi neu y tywyssawc arall a wnel da yn. Ac nyt oes achaws y an gwrthlad oc an gwlat namyn adywedwn ni ytti heuyt. Gwlat vechan gruys gw yn gwlat ni. A phan amaont y pobyl yno mal noc eignot yno. Sef yw eu keneuawt kynnullaw holl wyr iueinc y wlai ger bron eu tywyssogyon. A bwrw prenneu y rydunt. A megys y del y coelbren udunt yd etholir, ac yd ellyghir y wladod ereill y mywn lloghen megys y gwely ti y geisaw gosymdeith. A ninheu y deu vroder a wely ti yn tywyssogyon arnadunt kany o lin brenhined yd henyd. Sef yw vy enw, hengyst. A enw vy mrawt hors. Ac uelly doetham hyt dy vrenhiniaeth titheu yn yd oed mercurius an duw ni yn an tywysaw. A phan gogleu y brenhin kyrbwyll mercurius drychael y wyneb a oruc. A gouyn py ryw cred ysyd genhwchl. Ac yna y dywawt hengyst yscymun. Arglwyd heb ef an taidolyon dwyeu a enrydedwn nyt amgen, Saturnus a lubiter. Ar dwyeu ereill yr syd yn llywyaw y byt. Ac eisoes yn penhaf yd anrydedwn i mercurius, yr hwn a alwn ni yn an eith ni wogen. Ac y hwnnw y partwys an rieni ni y pedywred dyd or wythnos, ac alwn ninheu oe enw ef wogenes day. A hwnnw a elwir yn kymraec duw merchyr. Ac yn nesaf y hwnnw yd enrydedwn ni y dwyes kyuoethoccaf or dwysen, yr hon effreini. Ac y honno y kysegrwys an rieni ni y chwechet dyd or wythnos. Ac yn an eith ni y gelwir ffriday. Sef yw hynny duw gwener. B.

<sup>365</sup> Afan welis e brenin deledirwrwit e gwir ciarid i gwraget aoruc a divod igid i lundein. Sev oet heni wedi dechreu bid 4361. A.

Yna y dywawt gwrtheyrn am awch cret chwi yr hon ysyd iawnach y galw yn aghyret noc yn gret, dolurus yw genyfi, llawen yw genyfi ineu ych dyuodedigyaeth, kany ny bu reidac ym erioet, kany vy gelynyon ysyd ym kywasagu o pop parth. Ac o mynwch chwitheu kylauryaw a minheu wrth ymlad, im gelynyon, minheu awch kyuoethogaf chwitheu o tir a dayar ac eur ac aryant a da ara l. Ac yn diannot ufydhau awnaethaw y hynny. A gwrhau yr brenhin. A thygu fydloner idaw. B.

<sup>366</sup> Ena i cennallawt e fichtieid in erbin gortheirn. A thwri nerth e saxoniaid i gorru gortheirn arnunt. A.

Ac yny lle nachaf y ffichteit yn dinen or Alban a llu diruawr y veint gantunt ac yn anreithaw y gwladod. A phan gogleu wrtheyrn hynny kynnullaw y varchogyon awnaeth ynteu a mynet yn eu erbyn. A gwedy dyuot y deu lu y gyt ac ymlad, ny bu reit hayach yr kiwtawtwyr ymlad y dyd hwnnw, kany y saeson a ymladassant yn kynwryolet. Ar gelynyon a oedynt yn pylu y kiwtawtwyr hyn yu reit udunt ymchoelut ar fo yn gewilydus. B.

<sup>367</sup> A llawenhau aoruc gortheirn ena, a roi tir ir saeson aelwid lindesi. A.

A gwedy kaffel o wrtheyrn y vudugolyaeth honno trwy nerth y saeson ynteu yny lle a amlawys rodyon udunt wyntau. Ac y hengyst y rodes ef, yn swyd lindesi tir a dayar megys y gallei ymossedithaw yn da o honaw, ef ae varchogyon. Ac odyo mal yd oe hengyst ystrywys a ffalst, gwedy gwybot o honaw rygaffel ketymdeithas y brenhin. Sef y dywawt wrth y brenhin ym wed hon. B.

<sup>368</sup> Ac ena pan gawsant ginnwis anvon i germania i ol deunaw llog i wir emlat. Ena i daeth hors a hingestir at e brenin i geisaw caer ne gastel i emgadw. A.

Arglwyd heb ef dy elynyon ysyd yn ryuelu arnat o pop parth. A chyt gwelir imi heuyt echydie o wyr ty teyrnas ath gar, kany en kanmwyaf a glywaf eu bot yth ogyuodaw ti am dwyn emreis o lydaw am ty pen yth diot oth teyrnas. Ac wrth hynny os da genhyt titheu, kyghor yw genyfi anuon kenhadu hyt vyg gwlat i y wawd marchogyon odyo, megys y bo mwy an niuer y ymlad ath elynyon titheu. Ac y gyt a hynny heuyt yn arch a archaf yt bei na bei rac ofyn vy gomed o honei. Ac yna y dywawt gwrtheyrn anuon ti heb ef ty genhadu hyt yn germania y wawd marchogyon odyo. Ac odyo arch y minheu ac nyth nekeir o honaw. Ac yn estwg y pen awnaeth hengyst a diolech idaw hynny. Tidi arglwyd heb ef a kyuoethogeisti o tir a dayar. Ac eisoes nyt megys y gwedei enredu tewyssawc a hanfei o lin brenhined, ti adlynt rodi m i ae kastell ae dinas y gyt ac y rodut megys ym gwelit inheu yn enrydedus ym plith y tywyssogyon. B.

<sup>369</sup> E brenin a diwed na livasei ev i roi rac e britanieid. A.

Ac yna y dywawt gwrtheyrn. Hawrda heb ef y gward i awnaethpwyt rac rodi y ryw rodyon hynny itti kany estrawn genedyd ychwi a pheganeyt. Ac nyt atwen inheu ych moes chwi, nac awch deuwat megys y gallwyf awch kefflybu ym kytwawtwyr, kany pei dechrewn i awch enrededu chwi megys priawt kiwtawtwyr yr ynys gwyrda y teyrnas a guodynt ym erbyn gan wrthwynebu ym. B.

<sup>393</sup> Hwinteu a ovy nasant gyvled a chroen ich i deilad kaer. B.

Ac yna y dywawt hengyst. Arglwyd heb ef canhatta titheu yth was wneuthur kymeint ac y gyrhaedo karrei y damgylchynu o vntu ar y tir a rodeist yn mal y bo diogelach ym ymgadw mywn hwnnw rac yv gelynyon. kansys fydlawn vum ac wyf a ydfaf. B.

<sup>394</sup> Ar brenin ai roes. Ena ir aethant adref a holl i e croen ich mwiaf a gawsant en garrei vain. a gwneuthur dinas e garrai ai galw doncastel. A.

Achanhadu awnaeth y brenhin hynny idaw. a gorchymun idaw ellwg kenhadu hyt yn germania y geissaw porth o newyd. Ac yna heb yn gohir ellwg a oruc hengyst hyt yn germania. ac ody na kymryt croen tarw awnaeth ynteu ac holl i yn vn garrei. Ac ody na dewis y lle kadarnhaf a allwys y gaffel ar hyt y tir a rodassit idaw. ac ar garrei honno mesuraw lle yr kastell a dechreu y adeilyat yn dianot. A gwedy daruot adeilyat y gaer y gelwit yn gymraec kaer y garrei ac yn saesnac tancasty. ac yn lllading castrum corrigie. Ac or enw hynny y gelwit y gaer yr hynny hyt hediw. Ac velly yd oed hengyst yn gwneuthur lleoed kadarn ae vryt ar twylliaw y brytanyeit a gwneuthur drwc droa da. Ac y uelly y gwna y peganyeit saeson escymun vlyth. B.

<sup>395</sup> Ena e daeth llogheu o germania. a ronwen verch hingestir. Ena i gwahot e brenin i wlet aorugant i weled er adeilad. B.

Ac yna ydoeth ykynnadeu o germania a deunaw llog yn llawn o uarchogyon gordethol yn aruawc gantunt. A merch hengest ygt ac wynt. Sef oed y henw ronwen. Ac nyt oed yr eil aellit ychfyflybu idy rac ytheccet. A gwedy dyuot yn niuer hwnnw. Sef awnaeth hengyst gwawd gwrtheyrn y edrych yr adeilat deisyuyt a wnthodit. Ac y edrych y marchogyon newyd dyuot. A gwedy dyuot y brenhin yno a niuer kyfartal gantaw a moli awnaeth y gweith newyd. A chymryt ymarchogyon yn wyr idaw. B.

<sup>396</sup> Ac val etoet e brenin ar diwet i vwid ev a welai vorwin arnivet ifrid en divod a gwin attaw. a gostwg a diwedid lenly king wasel. Ar brenin aoruc arriededu e vorwin a rivetu ifrid ac emlenwi oe serch a govin ir ieithit pa beth a diwedasei hi a fa beth a dilei enteu i doedid egwrthwneib iti hitheu. Ar ieithit a diwawd hi ath elwis in vrenin. ac or galwedigaeth hwnw ith arriedetoet. A hin a deli ditheu i wrthwneib iti hitheu Drink heil. A gortheirn a wrthebawt iti. Drink heil. A gortheirn a wrthebawt iti. Drink eil. ac a erchis iti ived e llin en gintaw ac enteu a gimerth e fiol oi llaw hi ac a rotes cusan iti. Ac wedi heni a ewawt e wirawd hono. Ac otina gwedi gortheirn drwi amraveilion wirodeu gidac annoc e cithrel. caru e vorwin aoruc ai herchi iw thad. A.

A gwedy daruot udunt uwyta o vrenhinolyn anregyon nachaf y vorwyn yn dyuot or ystauell agorulwch eur yn llawn o win yny llaw. ac yn dyuot hyt rac bron y brenhin. A gwedy rodi idaw ar tal y deu lin. kyfarch gwel idaw aoruc. A heiliyaw arnaw mal hyn. lofart king wasseil. A phan wela y brenhin pryt y norwyn. anryuedu aoruc yn vawr y theccet. Ac yny lle ymlenwi oe charyat. a gouny yr ieithyd peth a dywedassei y vorwyn. a phy beth a dylעי ynteu ydywedut gywrtheb idi hitheu. Ac yna y dywawt y ieithyd wrthaw. Arglwyd heb ef hi ath elwis ti yn arglwyd. ac yn vrenhin. yn y ieith hi. Ac heilwys arnat yr hyn a dylעי titheu y wrtheb yw hyn. Sef yw hynny. drink heil. Ac yna rydyaww gwrtheyrn wrthi. drinc heil. Ac erchi yr vorwyn yvet y gwin. Ar yr hynny hyt hediw y mae deuwat honno yn plith y kyuedachwyr yn yr ynyd hon. drinc heil wesseil. Ac yna gwedy medwi gwrtheyrn neidaw awnaeth diawl yndaw. A pheri idaw kytsynnyw ar paganes yskymun heb vedyd arnei. B.

<sup>397</sup> Ac wedi gwled o hengest heni megis et oet ev wr estriwus ev galw aoruc i vrawd attaw. ar gwir henav oe gidemeithion ac emgighori ac wint beth a wnelei am roti i verch ir brenin. Ac o gidgighor pawb onatint i rotasant e vorwin ir brenin. Ac er archasant winteu swit ceint itaw ev erti hi. A.

<sup>42</sup> Ac odynd yd aeth parth a chaerwyt. y lunyaethu yno megys ylleoed ereill. Ac odynd yd aeth parth ar uanachloc a oed kerllaw kaer geradawc. yr hon aelwir salsburi. y edrych y lle yrilladassit tywytygogyon ar ieirll ar barwneyit wrth vrayt yr yscymun hengyst. yno yd oed vanachlawc athrychant mynach o gwruent yndi ymnynd ambri. Sef oed yr ambri hwnnw; y seilawdyr kyntaf a uu yr uynachloc. A gwedy gwelet o brenhin ylle yd oed ygywda hynny yngorffowis kyffroi ar warder awnaeth y brenhin. Ac ellwg ydagreu ac ylaw. A medylaw a oruc gwneuthur y lle hwnnw yn anrydedus. kans barnedic oed gantaw bot yn teilgw o volyant ac ardund tragwydawl y tywarchen yd oed ysawli tywytygogyon dyledogyon hynny yn gorffywys gwedy eu rylad yn wiryon yn amdiffyn tref eu tat. ac eu rydit. B.

<sup>43</sup> Ac yna y dyuynwyt ar emreis holl seiri pren a mein o gafat yn teyrnas. Ac yd erchit udunt o eu holl ethryllith ac eu kywreirwyd dychymygu gweith enrydedus wch pen y gwyr hynny. Ac a parabei yntragwydawl. y gadw koff a molyant y gwyrda hynny hyt dyd brawt. A gwedy pallu eu hethryllith y pawb o nadunt. Ac na dydynt beth awneynt. dynesau a oruc tramor archescob kaer lliou. ar y brenhin. alywedut wrthaw val hyn. Arglwyd vrenhin heb ef ossit neb aallo dechymygu y ryw weith adyweddy di. myrdin vard gwrtheyrn a dichawan y dechymygu o ethryllith ae gywreirwyd. kanyt oes yth teyrnas dyn uvy y ethryllith ae gywreirwyd noc ef. Ac yn gyndrychawl a raclaw. ac oe y ymadrawd. ac oe weithret. Ac wrth hynny heb ef. Arch y deunynt attat. a gorchymyn idaw arueru oc eu ethryllith hyt pan wo drwydaw ef. y kwlafer y gweithret ysdyd thyr vryt y wneuthur. B.

<sup>44</sup> Ac yna yd anuonet kenhadu ygeissaw myrdin wrth y dwyn ar y brenhin py le bynhac ae keffit. A gwedy crwydraw llawer oleoed onadunt. wynt ae kawssant ef yg wlat eas. ar lan ffinawn galabes. kans yno y gnotaei genniweir. A gwedy eu menegi idaw eu negys: wynt ae duciant ef gantunt hyt ar y brenhin. Ae aruoll yn llawen aoruc y brenhin idaw. Ac erchi idaw datganu yr brenhin daroganeu a delynt rac llaw. kans digryf oed gantaw warandaw pethen enryded. B.

<sup>45</sup> Ac yna y dywawt myrdin. nat oed iawn traethu o ryw betheu hynny drwy pan y kymbellei aghenreit. kans bei' ae dywetwn. i. yn amser ny bei reit wrthaw: tewi awnaei yr yspryt ysdyd ym dangos. i. a ffo y wrthf awnaei pan vei reitia vrtho. B.

<sup>46</sup> Ac wrth hynny ny cheisswys y brenhin y uolestu nae gymell oe anvod y dywedut daroganeu. Gofyn awnaeth emreis bei i mod y gwnaei datgan y gweith yd oed yn mynnu y wneuthur. Ac yna y dywawt myrdin. Arglwyd heb ef. o mynnu ti canhiatua bedrawt y gwyrda hyn o dragwydawl weithret. anuon hyt yn iwerdon. y gyrchu kor y kewri ysdyd ym mynyd kilara. Ar gweith ysdyd yno. nyt oes yn yr oes hon a allo manegi ony bai ethryllith mawr ai harwedei. kans kymeint ynt y mein ac na cheffit kedernyt na dewrad allei dim wrthunt. Ar mein hynny bei bydynt yma yny wed y maent yno gwedy eu gossoet ygkylch y vedrawt. wynt a seuynt yno yn dragwydawl. B.

<sup>47</sup> Ac yna sef aoruc emreis chwertwin. a dywedut val hyn. py ansawd eb ef y gellir dwyn mein kymeint ar rei hynny. ac kynbellei a hwnnw. ac na cheffit yn ynys prydein cedernyt a ellit gwneuthur y gweith hwnnw onadunt. Ac yna y dywawt myrdin. Arglwyd heb ef. na chyffroa ti ar werthin yn orwae yr hyn. kanyt yr gwatwar na gorwacter y dywetsis yr ymadrawd hwn. kans kymyscedic rinwedawl tytynt y mein hynny a iachwydawl. Ac adas y amryual vedeginyaetheu. Ar kewri gynt ae ryduc yno wynt pan tytoedynt yn pressywyl iwerdon. Sef achaws oed hynny: pan delhei heint neu gleynt ar y onadunt. sef y gweit einen yg kymherued pedryul y mein. Ac y golchynt y mein. ac y byrri ymryn yr einen. ac yny dwfyr rinwedawl hwnnw y kaffei y claf iechyt o pob heint o'r veai arnaw. Ac odynd y kymyscit llyssen ar dwfyr hwnnw. Ac a hwnnw y icheit gweliocd y rei brathedic. kanyt oed yno y maen heb vedeginaeth rinwedawl arnaw. B.

<sup>48</sup> A gwedy klybot o brytanyeit bot y ryw rinwedeu hynny ar y mein. wynt a gawssant yn eu kyghor kyrchu y mein. Ac ymlad a gwyr iwerdon ocheissyn eu lludyas. Ac yna yd etholet vthyr bendragon brawt y brenhin. A phymthec mil o wyr arnaw ygyt ac ef y vnyet yr negys honno. A myrdin ygyt ac neges. B.

<sup>49</sup> Ac yn yr amser hwnnw yd oed gillamwri yn vrenhin yn iwerdon. Gwas ieanac enryded y volyant ae glot. Aphan gogleu y gwr hwnw rydyuot y brytanyeit yw wlat. kynnullaw llw mawr awnaeth a dyuot yn eu herbyn. Ac eissoes pan wybu achosson eu dyuodedigaeth. Sef awnaeth chwertwin. A dywedut wrth y gytymdeithon val hyn. Awyrda heb ef. nyt ryued genyfi gallu o genedyl lese anreithaw ynys pdein rac eu henuytet. ac eu symlet. kans pwy agigleu eirot gynt y ryw enuydrwyd hwn. py achaws tybygwi. ybei well mein iwerdon. no mein ynys pdein pan doynt y gymhell kenedyl iwerdon y ymlad yn eu herbyn o achaws y kerrie hynny. Gwiswch ymdanawch heb ef gwiswch. ac ymlwedwch dros awch gwlat. Ac ymdiffynwch cor y kewri. kans a miui yn vryw ny chaffant wy yn grenyn o hadunt. A phan welas vthyr y gwyydyl yn parawt y ymlad ac wynt. Sef awnaeth ynteu yndianton eu kyrchu wynt yny doedynt parawt y bydinoed. A heb hayach ohirgoruot o brytanyeit. allad y gwyydyl. a chymell gillamwri ar ffo. y doeth y brytanyeit hyt ymnyd kilara. y lle yd oed y mein. *Dalen ar goll yma.* B.

<sup>50</sup> Ac yna y kymhellwyf pascen ar ffo. ynteu ny lauuryws ef yna kyrchu germania. namyn trossi y hwyelu tu ac iwerdon. Ac yna y erbynnwys Gillamwri ef yn enrededus. Agwedy datganu y treneni o honaw. Truanhau aoruc gillamwri wrthaw. Ac adaw nertidaw. Achwynaw wrthaw ynteu y serhahet a gawssai ynteu gan vthyr pendragon. pan doeth y gyrchu cor y kewri y treis y arnaw. Ac wrth hynny ymaruoll awnaethant ar dyuot ygyt y ynys prydein y geissaw y gorescyn ar tor ymrys wledic. A gwedy bot eu llogeu yn parawt. kychwyn awnaethant parth ac ynys prydein. A dyuot y vnyw y tir. B.

<sup>51</sup> A phan gogleu emreis hynny. Sef awnaeth anuon vthyr pendragon ac amylder o wyr arnaw hyt yg kymyr wrth ymlad ac wynt. kans kleuychu awnathoed emreis o wrthrwg gleuyt. mal na allei dyuot yr llud. B.

<sup>52</sup> A phan gogleu y gelynyon hynny llawenhau awnaethant yn vawr o tebygu bot yn hawd vduent gorescyn yr ynys o achaws hwnnw. A hyt tra tytoed y godwrdd hwnnw ar murmur yny llw dynessau aoruc o'r saeson a elwit eoppa ar pascen val gwrtheyrn. A dywedut wrthaw val hyn. Py veint oda heb ef a rodut ti yr neb alathai emreis. Ac y dywawt pascen wrth eoppa. Dioer. heb ef. bei kaffyn y dyn a allei wneuthur a dyweddy ti. mi a roddw idaw teir mil o punneu aryant. am karyat tra vydynd vyw a gaffei. Ac ygyt a hynny oes tynghetuen a vei y minneu arner o goron yn yr ynys hon. mi ae gwnawn yn iarll kyuoethawc. a hynny trwy aruoll a garhawn. B.

<sup>53</sup> Ac yna y dywawt eoppa wrth pascen. miui a dysceis iechyt y brytanyeit. a mi a wn eu moes ac eu

deuawt. Ac ygyt a hynny kyfrwys wyf ygeluydyt medeginaeth. Ac wrth hynny o chywiri ti imi yr hyn ydwyt yny adaw. mineu a dywedaf vy mot yn vrytwn kristawn. ac yn vedecy. Ac velly mi agaffaf vynet rac bron y brenhin. Ac gwedy delwyf yno mi a rodafi idaw diawt trwy yr hon y bo marw yny lle. Ac val y bo haws yn heuyt gaffel mynet hyt y lle y bo y brenhin. mi acellaf vryn pen am baryf. A y dywedaf wy mot yn vanach. ac yn gyuarwyf ym pop keluydyt medeginaeth. B.

<sup>451</sup> A gwedy daruot vdunt ymgynghernhaw trwy aruoll am pop peth or aadawssei pop vn y gilyd o nadunt. Sef awnaeth eoppa eillaw y varyf ae gorun. A chymryt gwisc manach amdanw. a chymryt offer medycy gantaw. A mynet parth a chaer wynt. A gwedy y dyuot hyt yno. menegi awnaeth y weisson ystauell y brenhin y uot yn vedecy goreu or byt. Ac yny lle kaffel ketymdeithas y rei hynny. kanyt oed dim a damunynt wy yn vwy na medycy da. B.

<sup>455</sup> A gwedy y dwyn yn dianot rac bron y brenhin. Adaw awnaeth gwneuthur iechyt idaw ochymerei diodyd medeginaeth gantaw. Ac yna yd erchit idaw yny lle wneuthur diawt vedeginaeth ae rodi yr brenhin. Ac sef awnaeth y bradwr yna gwneuthur diawt. a chymyscu gwenwyn ahi. ae rodi yr brenhin. A gwedy yuet or brenhin y diawt. Erchi aoruc y bradwr yscymun idaw orffows. achyscu. hyt pan vei vwy yd argywedey y gwenwyn idaw. Ac ufydhaw awnaeth y brenhin wrth gyhor y bradwr. Achyscu. megys kyt bei kymryt iechyt deissyuyt a wnelei or diawt. Ac eissoes heb vn goir redec awnaeth y gwenwyn ar hyt y gwythi. Ac ym pop lle ar hyt y korff. Ac yn ol hynny nachaf yr agheu yn dyuot yr hwn nyt arbetei neb. Ac yn gwanhaw yr eneit ar corff. Ac ym plith hynny eissoes llithraw awnaeth yr yscymun vradwr hwnnw rwg vn ac arall y maes or llys. Ac ny velat o hynny yny llys. B.

<sup>456</sup> Ac yna tra ytoedut ynwneuthur y pethue hyn yg kaer wynt : yd ymdangosoes seren ryued y meint ae eglder. ac yn paladyr idi. Ac ar pen y paladyr pellen o tan ar lun dreic. Ac o eneu y dreic deu paladyr yn kerdet. Ar lleill onadunt a welit yn ymestynnu dros eithauoed ffreinc. Ar llall parth a mor iwerdon. Ac yn rannu yn seith paladyr bychein. B.

<sup>457</sup> Aphan ymdangosoes y seren hono. ofyn mawr a gymyrth pawb or llu yndunt rac er enreuedawt hwnnw. Ac sef awnaeth vthur pendreic eissoes pan welas y seren. gan diruawr ofyn. galw attaw y doethon. Agouyn vdunt peth aarwydoccaei y seren honno. Ac ym plith pawb o hynny yd erchis keissaw merdin. kans yno yr dothoed wrth wneuthur pop peth or auei reit yn yr ymladeu hynny. trwy y gyghor ef. A gwedy y dyuot hyt rac bron vthur. erchi awnaethpwyt idaw venegi beth a arwydoccaei y seren honno. B.

<sup>458</sup> Ac ar hynny sef awnaeth myrdin wylaw yndrut. Ac eissoes galw y yspryt attaw. A dywedut yr ymadrawt hwn. O gollet heb allu y ennill. owded genedyd y brytanyeit o achaws marwolyaeth emrys wledic an brenhin ni. Ac yny varwolyaeth ef y daruydwn ni oll. Pei na rodei duw nerth yn o fford arall. Ac wrth hynny tywyssawc bonhedic bryssya dithyeu. Ac yn diannot ymlad ath elynyng. kans yth law y mae y vudugolyaeth. A thi vyd brenhin ar holl ynys prydein. kans ti a arwydoccaei y seren ar dreic tanawl ydan y seren. Ar paladyr awely yn estynnu dros ffreinc. a arwydoccaei mab kyuoethawc a vyd y tithen. Ar holl teyrnasoed a amdfyfn ac a vyd idaw. Ar paladyr arall a arwydoccaei merch a vyd itt. A meibion honno ae hwyrion a vyd vdunt yr ynys ol y ol. B.

<sup>459</sup> Ac eissoes kyt bei petrus gan vthyr beth ar ydywedassei vrydin ae gwir ae kelwyd. Sef awnaeth kyrcu y elynyng megys y darparassei. kans ef a dothoed yn gyneset y vynyw. Ac nat oed y rydaw a hi namyn ymdeith hanher vn diwarnawt. B.

<sup>460</sup> A gwedy clybot o pascen a gillamwri bot vthyr yn dyuot parth ac attunt. Sef awnaethant wynteu dyuot yn erbyn vthyr wrth ymlad ac ef. A gwedy bydinaw onadunt a dechreu ymlad onadunt. y llas o pop parth megys y mae gnawt ryw damwein hwnnw. Ac eissoes gwedy treulaw llawer or dyd yny wed honno. y dygydwys y uadugolyaeth yn llaw vthyr. A gwedy llad pascen a gillamwri. fo aoruc yr agkyfyaeth bobyl honno. y ymdeith y eu lloegu gan eu hynlit ac ae llad. Ac yna yndiamryson y kauas vthyr y vudugolyaeth. B.

<sup>461</sup> Ac odyna bryssawc aoruc yn gyntaf ac y gallwys parth a chaer wynt. kans kenhadu a dothoed attaw y venegi idaw marwolyaeth emrys wledic y vrawt. Ar y daruot y escyb yr ynys y gladu geir llaw manachaloc ambri o vywn y cor y kewri y lle ar awnathoed ehun yny vywyt. Ac yd archysef y gladu yno. B.

<sup>462</sup> Ac yna trwy annoc y bobyl o ysgolheigyn a llygon y kymyrth vthyr y goron y am y pen. Ac yn diannot y kysegwrwy vthyr yn vrenhin. Achoffan aoruc y dehogyl ar awnathoed vrydin am y seren. Ac wrth hynny yd erchis vnteu gwneuthur dwy delw dreic o eur ar y llun y gwelsei ar pen y paladyr y seren. A gwedy daruot eu gwneuthur wynt trwy enryued ethrylith megys yd archadoed. y gosodes y brenhin yneill o nadunt yg kaer wynt. Ac y gadwys y llall wrth y harwein yny vlaen ynteu pan elhei yr ymladeu. Ac or amser hwnnw allan y gelwit ef vthyr pendragon. Sef yw hynny yn gymraec vthyr pen dreic. Ac or achaws hwnnw. kans myrdin ae daroganaei yn vrenhin trwy y dreic. B.

<sup>463</sup> Ac yna sef awnaeth octa mab hengyst. ac osa y geuynderw. gwedy marw emrys. ac eu bot wynteu yn ryd oe aruoll a oed y rydynt ac ef. dechreu ryfela ar vthyr. A gwawd attunt y saeson a dathoedynt gyt a phascen. Ac anuon kenhadu hyt yn germania y wawd ereill odyno. B.

<sup>464</sup> A gwedy kynnullaw diruawr attadunt o lu. dechreu hanreithaw y gwloaed yn eu kyloch awnaethant. Ac ny orffowsysont or kreulonder hwnnw : hynny orescynnyth y dinassoed ar kestyll o hynny hyt yg kaer efrawc. Ac eu distryw o gwbyl. B.

<sup>465</sup> Ac val yd oedynt yn ymlad ar dinas hwnnw. nachaf vthyr yn dyuot ae holl gedernyt gantaw. Ac yn diannot ymlad aoruc ac wynt. Ac eissoes gwedy bot brwydyr y rydynt. y kymbellwyt y brytanyeit ar ff. Ac eu herlit a oruc y saeson wynt hyt y mynyd damen tra parahwys y dyd yn ole. Sef kyfyrw le oed y mynyd. vchell oed a chelli garragawc phen phen. Ac yno y kyrcwys y brytanyeit y nos honno. B.

<sup>466</sup> A gwedy eu ymgynnullaw ygyt. Erchi awnaeth vthyr yw henafgwyr kymryt kyghor ebrwyd peth awnelynt yn erbyn y genedyd a oed yny kywarsegu yn gymeint a hynny. Ac ar hynny yn gyntaf y dywawt Gorleis iarll kernyw yr ymadrawd hwn. kans hynaf gwr oed a phrudaf y gyghor. Arglywd vrenhin heb ef nyt reit vn amgylchynu ymadrodyon na chyghoreu gorwac. namyn hyt tra paraho etwa tywyllwch ynys y mae iawn y ninheu arueroe ac an glewder. megys y mynham an rydit an buched kans oe arhown y dyd. ny barnafi bot. yngryno yn ymgyaruot ac wynt. kans luosyawe ynt a chwanoawc y ymlad. A ninheu llei au niuer. Ac wrth hynny tra paraw tywyllwch ynys bydinwn a chyrechn wynt yn eu pebyllen. kany thebygant lanasu o honam ni dyuot yn eu kyuyl. Ac o gwinnaw velly : ny phedrusaf vi gan porth duw gaffel a vudugolyaeth. B.

<sup>467</sup> A ranc vu gan bawb o nadunt y kyghor ef. Ac yn diannot gwiscaw awnaethant a bydinaw. Ac o vn dihwyt kyrcu eu gelyngyn. Ac eisoes gwedy eu dyuot yn gynaagos vdunt. eu hargannuot awnaeth y gwilwyr or gwersyllen. Ac yny lle dyffroi eu kytymdeithon trwy sein eu hutgyrn. Ac yna sef awnaeth



y gelynyon yn ofnauc wyuodi rei a gwiscaw eu harueu. ereill y ffo. Ac yna eisoes sef awnaeth y brytanyeit tewhau eu bedinod. A chyrcu ar eu tor yr pebyllen. Ac ny dygrynos yr gelynyon dim yn eu herbyn. kans hyngweir rac dyscedic yr doethoed y brytanyeit am eu pen. Ac wynteu amharawt oedynt. Ac yna y llas o nadur hyt ar viloyed. Ac or diwed daly octa, ac ossa. B.

<sup>466</sup> Ac odyna gwedy y vudugolyaeth honno yd aeth y brenhin kyt yg kaer al clut y atnywydhau tagnuedw trwy y teyrnas. A chymeint o iawnder a gwirioned awnaeth dros wyneb y teyrnas. Ac nas gwnaethoed yn brenhin kyn noc ef. A thrwy y holl diwed ef ofyn a vydei ar y neb awnelei kam neu ae kynhalei. Ac yno kospi heb drugared nny dial. B.

<sup>467</sup> A gwedy daruot idaw hedychu yr alban dan y theruynw yd aeth odyno hyt yn llundein. Ac yno y dodes octa ac ossa yg karchar. A gwyr neilltuedic yd y cadw. Ac val yd oed wylua pasc yn dyuot annon awnaeth y brenhin kenhadu y pob lle or ynys. y dyuynu pawb oe wyrida ieirlla barwnyeit hyt yn llundein. wrth enrededu yr wylua honno trwy lywenyd. A gwiscaw coron y teyrnas am pen eu brenhin. Ac y rodi y iawn ae dylwyf y pawb. Ac ymgynnullaw awnaeth pawb wrth y wyls honno. a dyuot hyt yn llundein o pop lle dros wyneb y teyrnas. Ae enrededu awnaeth y brenhin yr wylua honno. megys y darparsey gan lewenyd. A diruawr lewenyd a gymmyrth pawb o welet eu brenhin yn herbyneit mor lawen a hynny. B.

<sup>470</sup> A chymeint o dyledogyon adoehtant yno wynt ac eu gwaged ac eu meibion ac eu merheb. ac a oed teilwg y ryw wled honno. Ac ym plith y gwyrda hynny y dothoed gorloes iarl kernyw. ac eigyr verch amlawd wledic ywreic ygyt ac ef. Pryt y wreic honno ae thegwch aorchuygei holl wraged ynys prydein. B.

<sup>471</sup> A phan welas y brenhin y wreic honno ym plith y gwageda ereill. ymlenwi awnaeth oe charyat yn gymeint ac na hanbwyllie o dim namyn treiglaw y holl ynni ae vedwl yglych y arnyuedu hi. Idihi yd anonit y golwython. Idihi yd anuonit y gorlycheu eureit. ar gwiroden yndunt. ar heil mynych. ar anregyon.

<sup>472</sup> Ac wedy kaffael gwybot hynny or iarl y gwr hithou. lliatiw aoruc ac yn diannot adaw ylls heb genhat y brenhin. A chymeint vu y lit ac na allwyt y ymchoelut trafecynw rac ofyn kolli y wreic. yr hon a garei ynteu yn vwy no dim daerarwl. Ac wrth hynny lliadiw a oruc y brenhin am adaw y lys heb y ganhat. A gwedy nat ymchoelei yr neb. tygu awnaeth y brenhin trwy y lit yd anreithei gyuoeth gorlois.

<sup>473</sup> Ac yna heb vn gohir tra yttoed y lit yn parahu. kynnullaw llu mawr awnaeth y brenhin. A chyrcu kernyw. a dechreu llosgi y dinassoed ar kestyll. Ac yr hynny eisoes ny lauasswys gorlois ymerbyneit ac ef. kans llei oed y niuer. no niuer y brenhin. Ac wrth hynny sef y kaus yns gyghor kadarnhau y gestell. ac velly arhos porth o iwerton attaw. A chan oed mwy y ofyn am y wreic noc ymdanaw ehun. Sef awnaeth y gossot hi yg kastell tintagol ar lan y traeth nny lle kydarnaf nny gyuoeth. Ac ynteu ehun aeth y kastell dimlot. rac eu kaffael ell deu ygyt. B.

<sup>474</sup> A phan gogleu y brenhin hynny. Sef awnaeth ynteu mynet parth ar kastell yd oed gorlois yndaw. A gwedy y gylchynu dechreu ymlad ac ef. ae warchas mal na chaffei neb dyuot ohonaw na mynet idaw. A gwedy mynet wythnos heibaw. koffau aoruc vthyr karyat eigyr. A galw vlphyn o ryt garadawc y gedemeith a menegi idaw y vedwl nny wed hon. Dioer. heb ef mawr yw ynof ui karyat eigyr. Ac nyt diheu genhyf na chollwyf vy eneit ony chaffaf y wreic. wrth vvg kyghor. Ac wrth hynny dyro ym gyghor trwy yr hwn y gallwyf. eilenwi yf ewyllys. kanyt oes pederuster gennyf vy aballu ony chaffaf y wreic. B.

<sup>475</sup> Ac y dywawt vlphyn. Arglwyd heb ef a allei kyghor itt pryt na bo fford nny byt yd ymgaffer a hi. kans y kastell y mae hi yndaw yssyd ar pen karrec nny weigli yn gaedie or mor o pop parth idaw. Ac nyt oes fford nny byt y galler mynet idaw. na dyuot o honaw namyn ar hyt othry cyr vn karrec gyuyg yssyd or hyt y tir. Ar garrec honno trywyr ae katwei yn aruawc rac holl teyrnas ynys prydein. Ac eisoes arglwyd heb yr vlphin pei myrdin vard a rothei y weithret wrth ty vedwl ti mi a tebygaf y gallut ti gaffel y wreic wrth ty gyghor ti. B.

<sup>476</sup> Ac y velly erchi aoruc y brenhin dyuyynu myrdin attaw. kans nny llud yd oed. y gwedy dynot myrdin. erchi awnaethpwyd idaw rodi kyghor yr brenhin trwy hwn y gallei ef gaffel eigyr wrth y ewyllys ef. B.

<sup>477</sup> A gwedy gwybot o vyrdin meint oed garyaf y wreic ae serch yns brenhin doluryaw aoruc yn vawr. A dywedut wrthaw val hyn. Arglwyd heb ef o mynny ti gaffel y wreic wrth dy ymppy val yd wyt nny damunaw. reit yw it arueru o geludydedu newyd ny chlywspwyt erioet yth anser ti. kans mi awn geludyd trwy yr hwn y gallaffi rodi drych gorlois arnat ti. hyt na bo neb a adnabo na bo gorlois vych di. A mi awnaf vlphin yn rith iwrddan o tintagol gwas ystauell y brenhin oed hwnnw. A minheu a gymeraf drych arall arnaf. ac af yn tyddat gyt a chwil. Ac y velly y gelly ti yn ehoun vynet y gastell tintagol. A chaffel y wreic wrth ty gyghor ti. B.

<sup>478</sup> A gorchymyn aoruc y brenhin y annwyleit warchadw y kastell yn da. a chynhal yr ymlad. Ac ymrodi aoruc ynteu y geludyed. Ac yna y rodes myrdin arnaw ef drych gorlois. ac ar vlphin drych iwrddan o tintagol. ac arnaw ehun drych brithael arall megys nat oed neb or ae gwelhei awypei na bei y gwyr hynny vydynt nny gwir drych. B.

<sup>479</sup> Ac odyna kymryt eu hynt awnaethant parth a chastell tintagol. A phandoethant yno : yd oed yn egllychwr. A gwedy menegi yr porthawr bot y iarl yn dyuot. egori y pyrth a oruc yndiannot. Ac eu ellwyf y mywn. kanyt oed neb or ae gwelhei awypei na bei y iarl vei. Ar nos honno kyscu aoruc y brenhin gyt ac eigyr gan ymrodi y damunedic serch. kans y falyst drych a rodassei vyrdin arnaw atwyllasser y wreic. Ac ygyt a hynny geireu twyllodros dychymyguawr a dwedei ynteu. kans dywedut wrthi awnaeth y rydyuot yn ledrat or kastell. kany allei yr dim bot heb y gwelet rac meint y amgeled ymdanei. wrth wybot py ansawd a vei arnei ac yr a kastell. A chredu awnaeth hitheu yr ymadrodyon hynny. a gwneuthur y ynnu ef. Ar nos honno y kaus hi veichiogi. Ac or beichogi hwnnw y ganet Arthur. y gwr clotuorussaf a vu oe genedyl wedy hynny. megys y dengys y weithredoed. B.

<sup>480</sup> Ac yna gwedy clybot nat yttoed y brenhin nny llu. Sef awnaethant yn aghyghorus ymlad ar mureod a cheissaw distryw y kastell. A chymbell y gwarchaedic iarl allan y rodi kat ar vaes a niuer bychan gantaw gan tybgyu gallu gornot. Ac val yd oedynt yn ymlad o pop parth. nny lle ym plith y rei kyntaf y llas gorlois. Ac y gwascarwyf y getymdeithau. Ac y kaat y kastell ar golut a oed yndaw. nyt trwy ynnyawn goelbren y ranwynt. namyn herwyd y bei dewred anwyf o gedernyt nny cribdeilaw. B.

<sup>481</sup> A gwedy daruot y gyuran honno. y deuthpwyt y venegi y eigyr rylad y iarl a chaffel y kastell. A phan welas y kenhadu y brenhin eisoes yn drych gorlois yn eisted ar neillaw y eigyr. kywylydaw awnaethant yn vawr. A ryuedu yn vwy no meint gwelut yno yn eu blaen. y gwr yd oedynt yn dywedut y rylad. A phan gogleu vthyr dywedut y chwedyl hwnnw. sef awnaeth ynteu cwerthin. a dodi y dwylaw am vwnnygyl y iarlles. A dywedut wrthi val hyn. Dioer arglwydes nym llas etwa. ac eisoes dolur yw genhyf dyuot y brenhin am an pen ninheu a chaffel y kastell hwn heuyt. Ac an kaffel ninheu yndaw ef an deu. ac wrth hynny miui a af yn ewyllys y brenhin rac kyuaruot a ni a vo gwaeth no hynny. B.

<sup>482</sup> Ac ar hynny kychwyn awnaeth y brenhin a mynet ar y llw. A bwrw drych gorlois y arnaw. A mynet yny drych ehun. A gwedy menegi yn wir ar daroed, doluryaw yn vawr aoruc am agheu Gorlois. Ac eissoes o parth arall llawen vu o achaws bot eigr yn ryd o rwmyn priodas. Ac odyna ymchoelut aoruc y brenhin parth a chastell tintagol y gymryt y kastell idaw ehun. Ac y gymryt eigr yn wreic idaw heuyt. Ac ohynny allan y trigassant y gyt yn rwymedic o diruawr garyat. Ac y ganet vduent arthur ac anna. B.

<sup>483</sup> Ac ym pen yspeit gwedy dydyeu ac amseroed heibaw. cleuychu awnaeth y brenhin o wrthrwrm heint. A gwedy yuot llawer o dived yny cleuyt hwnnw, blinaw awnaeth y gwyr a oed yn kadw octa ac ossa. Ac eu ellwg o karchar. A mynet y gyt ac wynt tyt yn germania. Ac wrth hynny kynhwryf a gymryth yr holl teyrnas, kans beunydydytgenit udunt bot y saesson yn paratōi llyghes, ac yn ymchoelut tracheuyn y oresscyn ynys prydein. Ac ar hynny wynt a doethant a llyghes diruawr y meint gantunt, ac amylder o niuer y gyt ac wynt y tir yr alban. A dechreu llosgi y wlat ae anreithaw. B.

<sup>484</sup> Ac yna y gorchymynwyt y leu vab kynuarch llw ynys prydein wrth ymlad ar gelynyon hynny. Iarll oed hwnnw a marchawc prouedic oed hwnnw cloutawr, a synhwyrus. Ac wrth veint y glot ae volyant y rodassei y brenhin, anna y verch idaw y wreic. A llywodraeth y teyrnas yny law tra yttōed ynteu glaf. A gwedy mynet lleu a llw ynys prydein gantaw a dechreu ymlad ar gelynyon yn vnych y ffoei ef raodunt wy yr dinassoed, ac yn vynyachaf y kymhellei ynteu wynt y ffo y wrthaw. A mynych gyfranc a vu rydunt heb wybot pieinei y vudugolyaeth kans syberwyt y kiwtawtwyr ehun a oed yny gwanhaw, kanyt oed teilwg gantunt nfydhau wrth gyghor y iarll. B.

<sup>485</sup> A gwedy anreithaw yr ynys hayach, menegi hynny awnaethpwyt yr brenhin, a lliidaw aoruc y brenhin y vwy no meint. A gwedy dyvynnu attaw y holl wyrdā: eu hagreiffaw aoruc yn dost, ac yn drut, am eu syberwyt. A thrwy y lit tygu yd aei ehun yn eu blaen yr ymlad. Ac yny lle erchi paratōi elor idaw wrth y arwein, kany ellit yn amgen no hynny y dwyn rac y gleuyt ae wander. A gwedy eu kyfrideu yn parawt, gossot awnaethpwyt y brenhin yn yr elor. A dyuot ac ef hyt y dinas a elwit verolan yny lle yd oed y saesson yny distryw. B.

<sup>486</sup> A gwedy clybot o saesson bot y brytanyeit yn dyuot ac eu brenhin gantunt ar elor. Sef awnaethant eu hygaellussaw, a megys anheilygu ymlad ar neb a arwedit ar elor o wyr kyfurd ac wyntwy. Ac wrth hynny. Sef awnaethant mynyt yr dinas y mywn, ac o syberwyt megys na bei ofyn arnadunt adaw pyrth y dinas yn agoret yn eu hol. B.

<sup>487</sup> Ac eissoes menegi hynny y vthyr pendragon, erchi aoruc ynteu mynet ampen y dinas ae gylchynu, ac ymlad ac ef. Ac ufydhaw aoruc y kiwtawtwyr, a dechreu ymlad ar mueroed yn wrawl. A megys yd oed y brytanyeit gwedy ryoruot hayach ar y mueroed, ac yn gwneuthur aerua vawr o saesson pei na wrth-wynepēt udunt ar y diwed. Ac yna sef awnaeth y saesson daly ydiuarwch am ar awnaethoedynt ani anuessuraw y brytanyeit. Ac or diwed eissoes mal yd oedynt yn ymlad yn drut ac yn galet, y doeth y nos yr hon y wahanwys pawb y wrth y arueu. Ac yna pan welas y saesson bot eu syberwyt yn argywedvu vduent a bot y brytanyeit hayach gwedy ryoruat arnadunt. Sef awnaethant mediyaw trannoeth mynet allan a roi kat ar vaes udunt. A phan daporthes yr heul y dyd tranyoeth, yd aeth y saesson o dinas, a gossot y marchogyon yn vydinoed. A phan welas y brytanyeit hynny llun-yaethu aoruc wynteu y marchogyon yn vydinoed. Ac yn diannot kyrchu y saesson, ae gwrthwynebu awnaethant wynteu yn wrawl. A gwedy treulaw llawer o dyd uelly y vudugolyaeth y kauas y brytanyeit. A llad octa ac ossa, a chymryt eu ffo aoruc y rei ereill oll. B.

<sup>488</sup> Achymeint o lewenyd a gymryth y brenhin yndaw ac ual yd oed heb allu ymdreiglaw ar y elor. Ac yna kyuoedi a oruc yny eisted heb nerth neb rac llywynd yn unwed, a pheidiussuyt iechyt adelhei idaw yn yr awr honno, a dywedut dan chwerthin yr ymadrawd hwn, y bratwyr twyllwyr am gwlwynt i yn hanher marw wrth yv mot yn gorwed ar yr elor yn glaf, a gwir oed hynny, eissoes gwelly ywgenyf i vy mot yn haner marw gan oruot arnunt wy no phytuewn iach a goruot o nadunt wy arnafi, kans gwerthwroech yw mervi yn glotauwr gan enryded no buchedocau yn gywilydus gan weradwynt. B.

<sup>489</sup> Ac yna gwedy goruot ar y saesson mal y dwespwyt uchof, yr hynny ny pheidyassant wy eiryet o ceu drycystryw namyn mynet hyt yr alban a ryuelu yno heb orffywys ac eu erlit a ynnassei vthyr ual y buassei darpar gantaw ac nys gadwys wyrdā idaw, kans trymach uu y heint a gwanach gwedy vudugolyaeth no chyn. B.

<sup>490</sup> Ac or achaws hwnnw glewach oed y gelynyon yn ryuelu ar y brytanyeit, ac o pop fford ymrodi y gnotaeic urat gan geissaw gorescyn yr ynys ae distryw ac ymplith pop peth prydu awneynt yny wed y gellynt gwneuthur brad y brenhin yn gyntaf. A gwedy dyffigyaw pob ystrwy sef awnaethant annu kenadeu yn rith aghenogyon hyt verolan, y dinas yd oed y brenhin yn glaf yndaw, wrth wybot ansawd y llys ae cheredyat. B.

<sup>491</sup> A gwedy eu dyuot yno a chaffel gwybot pop peth wynt awelsant ffynyon loeyw eglur, ac or dwfyr hwnnw ygnotaei y brenhin yuet pryt na allei yuet ony pryw dim arall yny byt. Ac yna gwedy kaffel or yscymunedigyon vratwyr gwybot hynny sef awnaethant wynteu yny lle kyrochu parth ac yno, a dam-gylchynu y ffynyon o wenwyn. Ac ynghylch y glaneu megys y bei wenwynawc y dwfyr arettei ohonai, ac yna gwedy yuet o brenhin o dwfyr gwenwynic hwnnw o ebrwydedic agheu y bu varw, a mwy no chant o dynyon ygyt ac ef, a lewes o dwfyr gwenwynic, ac sef awnaethant llenwi y ffynyon o dayar a gwneuthur kruc mawr ar y gwarthaf. B.

<sup>492</sup> Ac yna gwedy honni marwolaeth y brenhin y deuthant yr archescyb ac escyb ac abadeu o pop lle yny teyrnas. Ac odyna kymryt korff eu brenhin ae dwyn ynyrdedus hyt ym manachloc ambri, ac yno mewr cor y kewri geir llaw emreis y wratw y cladwyt trwy vrenhinawl rwylyant. B.

<sup>493</sup> Ac yna gwedy marw vthyr pendragon yd ymgynnullassant holl wyrdā ynys prydein o yscolheigyon allygion hyt yg kaer vudei ac o gyt synedigaeth pawb yd archassant y dyfic archescob kyssegru arthur yn vrenhin arnadunt, kans eu agen ae kymhellei. Sef achaws pan gogleu y saesson marwolyaeth vthyr, yd ymhoelassant wynteu hyt yn germania y geissa porth, a neur dathoed attunt llyghes vawr a golgryn y tewysawc arnadunt, ac neut daroed udunt gwerescin tu traw y hwmyr sef oed hynny y tryded ran or ynys. B.

<sup>494</sup> A phan welas dyfic arthur a thrueni y pobloed kyt doluryaw ac wynt awnaeth a chyssegru arthur yn vrenhin, a gwisaw coron y teyrnas am y pen. A phymthegmlwyd oed arthur yna. Ac ny chlywyssit ar neb kyn noc ef y ryw dauodeu a oed arnaw o nerth a chedernyt a glewder a daeoni, a chymeint a racvryd-assei duw idaw ac nat oed yn eithauoed y byt dyn o a glwyf dywedut ymdanaw nys kare, a chwaethach o ae gwelci, a hynny yn anedic gantaw. B.

<sup>495</sup> A gwedy y hardahu o vrenhinolynon arwydon y teyrnas ymrodi y haelder aoruc yn gymeint ac nat oed hawd idaw gaffel kymein o da ac aoed reit idaw y rodi yr sawl varchogyon a lithrei attaw, ac eissoes pwy bynag a vo hael nyanawl ygyt a phrouedic volyant kyt boet eissey arnaw ar talyrn, ny at duw wastat

agenocit y argywedw idaw. Ac wrth hynny sef awnaeth arthur kan oed yaw ef molyant y kytymdeithocan haelder a daeoni llunyaethu ryfel ar saesson hyt pan vei oc eu da wynt ac eu swlft. y gallei kyuoethogi y varchogyon ae telu ae iawnder a dangossei hynny idaw. kanys ef a dylpei holl vrenhinyaeth ynys prydein o wir tref tatawl dyllyed. A chynnullaw aoruc holl ieuentit ynys plein. A chychwyn parth a chaer efrawc. B.

<sup>496</sup> A phan gogleu golgryn hynny kynnullaw y saesson ar yscotteit ar fichteit aoruc ynteu ygyt ac ef a dyuot yn erbyn arthur hyt yg glan dulas. ac eidyna y periglws y deu lu yn vawr. Ac eisoes y uudug-olyaeth a gauas arthur a chymell golgrun ar ffo hyt yg kaer efrawc. ae werchae yny dinas. B.

<sup>497</sup> A phan gogleu baldwlf a oed a hwemil o wyr aruawc ganthaw ae wyrchae. sef awnaeth ynteu kyrcu parth ac yno a hynny o niuer gantaw y geissaw gellwg y wratw kans pan ymladassei arthur a golgrun yd oed baldwlf ar lan y mor yn aros dyuot geldrig tywyssawc a llugantaw o germania yn porth udunt. A gwedy dyuot baldwlf hyt ar deg milldyr y wrth y gaer. medylaw aoruc dwyn kyroh nos am pen arthur ae lu. B.

<sup>498</sup> Ac nyt amgelwys hynny rak arthur. Sef a oruc ynteu anuon cadwr tewyssawc kernyw a wechant marchawc gantaw a theirmil o pedyt y rac vlaenn y fford y tybygnt y dyuot. B.

<sup>499</sup> A gwedy kaffel o cadwr gwybot y fford wynt dwyn kyroh aoruc am eu pen ac eu gwascaru ae kymell ar ffo. A diruawr tristyt a gymyrth baldwlf wrth na allwys gellwg y urawt or gwarchae ydoed yndaw. A medylaw awnaeth pwed y gallei gaffel ymddan ae wratw. kans ef a tybygei y keffynt holl rydit a gwaret pei keffynt ffuryf y gytstryryw peth a wnelynt. ac gwedy nat oed fford angen. sef awnaeth allaw y wallt. a gwnethur diwyl erestyn arnaw. a chymryt telyn yny law a cheridet trwy bebyllen Arthur gan yndangos yn erestyn. A gwedy na thybygei neb wrthaw y vot yn twyllwr mal yd oed. Sef a oruc dynesaw parth ar gaer dan ganu telyn. B.

<sup>500</sup> A gwedy y adnabot o rei gwarchaedic. sef awnaethant estynnu raffeu idaw. ac wrth y raffeu y tynnu y mywn. A gwedy gwelot o honaw y wratw mynet dwylaw mynwyl ac ef aoruc. A gwedy medylaw o nadynt bwed y gelynt ymyrthan odyno nachaf y kenhadu yn dyuot o germania a wechanllug gantunt ynlawn o varchogyon aruawc a cheldric yn tywyssawc arnadunt. a discyn yr alban y tir. B.

<sup>501</sup> A gwedy clybot o arthur hynny. sef y kauas yny gyghor nat eistedei wrth ygaer hwy no hynny rac pedrustrer ymlad a chynulleitua gymeint a honno. o delynt am y pen. A mynet odyno awnaeth hyt yn llundein a galw attaw holl wyrda ynys prydein ieirill a barwnyeit a marchogyon urdawl ac escyb ac abadeu. Ac oc kytkyghor yd anuonet kenhadu hyt ar hywel vab humyr llydaw oed vrenhin yn llydaw y venegi idaw ef yr ormes a oed ar y bryttanyeit gan genedyl saesson paganyeit. nei y arthur vab chwaer oed hywel. B.

<sup>502</sup> A phan gogleu hywel y ryvel a oed ar y ewythyrr paratoi llyghes awnaeth. ac ethol pymthegmil o varchogyon aruawc ygyt ac ef. Ac ar y gwynt kyntaf agauas yny ol kychwyn aoruc parth ac ynys prydein. a dyuot y norhamton yr tir. ae aruoll a oruc arthur yn anrydedus mal y dylit y wr kyuard a hwnnw. B.

<sup>503</sup> A gwedy mynet ychydic o dihenod hebaw kychwyn awnaethant odyno parth a chaer lwygoet am pen y saesson yscymun a oed yny chwarsagu. ar tref honno y syd yn llyndyssei ar pen mynyd uchel rwg dwy auon. ac aelwir o enw arall lincol. A gwedy eu dyuot yno ymlad awnaethant yn diannot ar saesson ac yn yr un dyd hwnnw y dygwydws wemil or saesson rwg eu llad ae boli. a chymryt eu ffo aoruc y saesson: ac ny orffowyswys arthur oc hynlit odyno hyt yn llwyn kelydon. B.

<sup>504</sup> Ac yno yd ymgynnullasant wynteu oc eu ffo a pop lle. a medylaw awnaethant eilweith gwrthwynebu y arthur. A gwedy dechreu ymlad o pop parth aerau ny bu vychan awnaethant or bryttanyeit gan y aadiffyn chunein. se aruer owyseawt y deri y ochel ergydyon y bryttanyeit. a phan welas arthur hynny erchi a oruc trychu y gwyr or parth hwnt yr llwyn ac eu gosot yn gae yn kylych mal na cheffynt mynet odyno hyny ymrodynt y wyllys arthur neu wynteu a veynt veirw o newyn. A gwedy gwnethur y kae a rannu y byddioed yg kylych y llwyn. Ac velly y buwyt tri dieu a their nos. B.

<sup>505</sup> A gwedy nat oed dim bwynt gan y saeson sef awnaethant rak eu marw rak newyn anuon kenhadu ar arthur y adolwyn y hellwg yn ryd y eu llogeo. Ac adaw idaw ynteu y eur ae haryant ae holl swlft. A theyrngot pop plwdyn o germania a gwystlon ar hynny. Sef y kauas arthur yny kyghor kymryt hynny gantunt. A roi kanhat udunt y vynet yn ryd. B.

<sup>506</sup> Ac val yd oednt yn rwygaw moroed yn mynet tu ac eu gwlat y bu ediuar gantunt wneuthur yr ambot hwnnw ac arthur. Ac yny lle trossi eu hwyleu dracheuyn parth ac ynys prydein. A dyuot y traeth totnais yr tir. A dechreu anreithaw y gwladodet hyt ymor hafren. Allad ybileinlu. Ac odyna kerdet ractunt hyt yg kaer vadwn. A dechreu ymlad a hi. B.

<sup>507</sup> A gwedy menegi hynny y arthur. ryuedu aoruc meduc y twyll arnadunt yn gymmeint ac yto rynt y haruoll mor ebrwyd a hynny. Ac yn diannot crogi eu gwystlon ac ymadaw ar yscotteit a mynet parth ac yno. Ac eisoes goualw oed am ryadaw hwel vab emyr llydaw yn glaf yg kaer alelut. B.

<sup>508</sup> A phan welas y peganyeit yn ymlad ar gaer y dywawt yr ymadrawd hwn. kyny ny teilwg gan twyllwyr saesson bradwyr kadw aruoll wrthyfi miui a kadwaf ffyd wrth duw gan geissaw dial gwaet vy kiwtawtwyr arnadunt. gwiscwch awch arueu a chyrchwch yn wrawl y twyllwyr raco. A chan porth duw ni oruydwn arnadunt. B.

<sup>509</sup> A gwedy dywedut o arthur yr ymadrawd hwn y kyuodes dyfric archescob kaer lion. a senyll ar pen bryn uchel. A dechreu y ymadrawd val hyn. hawyrda heb ef y rei ysyd arderchawc o gristynogawl ffyd gatholic kofwefch waet yc kiwtawtwyr yr hwn ysyd ellygedic y gan escymyn estrawn genedyl saesson. kans gwaradwyd tragrywdawl ywch ony lafurywch y geissaw dial ych kenedyl arnadunt. ac wrth hynny ymlwedwch dros awch gwlat a diodefwhc aegu trosti orbyd rial ywch. A pwy bynac a damwinau idaw yr aegu honno. y mae yn ymroi ehun yn yr aberth y duw gan enelychu krist y gwr a ymrodes yn wir aberth tros y popyl. B.

<sup>510</sup> A gwedy kymryt bendith y gan y gwynnydedic archescob. bryssyaw a oruc pawb yny gyueir y wisawc y aruen. Ac yna y gwiscwyt am arthur llurca a oed teilwg y vrenhin. ac am y pen y dodet helym eureit. a dreic escithredic a gwen taryan arthur aosodet ar yscwyd yn yr hon yd oed delw yr arglwydes ueir. kans ym pop lle kalet ac yg y galwei ef arnei ac y koffaei. Ac ar y glun y dodet kaletuwlwhc y cletyf goreu awnaethodit yn ynys aualla. Ac yny law y rodet gwaewc aelwit ron goruchel. a llydan oed hwnnw ac adas. B.

<sup>511</sup> A gwedy daruot gwiscaw bydinaw o pop parth a ymgrychu awnaethant. a llad llawer o vilioed. Ac val yd oed yr eul yn gestwg ar dyd yn daruot. Achub awnaeth y saeson y mynyd a oed yn agos. A chymryt hwnnw yn lle kastell udunt gan ymdiret y eu kedernyt ac yn amyllder y niuer. Ac eisoes pan arwedwys yr heul y dyd trannoeth. yscymnu awnaeth arthur ae lu y pen y mynyd. A llawer oc wyr a golles yn escymnu y mynyd. kans haws oed yr saeson ymlad o oruchelder y mynyd. noc yr bryttanyeit wrthwynebu nac argywedw udunt wy yny gwrthwynebu. A gwedy treulaw llawer or dyd yn ymlad yny

wed honno, lliidiau ablyghau aoric arthur owelet y saesson yn ymlad mor wrawl a hynny, ac nat yttoed ynteu yn kaffel y nudugolyaeth. Ac ar hynny tynnu kaletuwlych o'e wein o arthur gan alw enw duw ar anglwydes neir, ac o'e vuan vuan ruthyr, kyrchu y lle tewaf y gwelet vydinoed y saesson. Ac ny orffowyswys hynny ladawd ae vn cledyf ehun deg wy'r a thri ugeint a phedwar canwr. A gwedy gwelet hynny or brytanyeit, glewhau awnaethant wynteu, a gwneuthur aerua diruawr y meint or saesson. Ac ny urwydyr honno y llas colgrin, a baldwf y vrwat, a llawer o bilioed y gyt ac wynt. A phan welas keldric yr aerua trom honno o'e gytymdeithon, ffo awnaeth ynteu. B.

<sup>512</sup> A gwedy kaffel o arthur y nudugolyaeth hono, sef awnaeth anuon kadwr teywysawc kernyw y erlit y saesson a ryfoassei, hyt tra bryssei ynteu parth ar alban yn erbyn yr yscoteit oed wedy dyuot am pen kaer alclut, y lle yd oed wedy dyuot am pen kaer alclut, y lle yd oed hywel vab emyr llydaw yn glaf. Ac wrth hynny y bryssei ynteu rac kaffel y gaer am pen hywel. B.

<sup>513</sup> Ac yna y kychwynwys kadwr a degmil o varchogyon aruawc gantaw. A gwedy kaffel y llogeu ac eu briuawc ychoelut ar y elynyon aoric. Ac eu llad heb trugared rei o nadunt a gyrchei diogelwch y llwyneu ar koedyd, ereill y mynyded ar gogoueu y geissaw yspeit rac eu hangeu. A gwedy nat oed dim diogelwch udunt, sef awnaethant kyrchu yny tanet hynny oed yn ladedigyon eu bydinoed. Ac eu herlit aoric kadwr hyt yno gan wneuthur aerua diruawr y meint. Ac ny orffowyswys hynny ladawd keldric, a chymell y rei ereill y darestwg y arthur. B.

<sup>514</sup> A gwedy gwneuthur tagnoued ac wynt y kerdwys kadwr parth a chaer alclut yr hon a doroed y arthur y rathau y gan yr yscoteit ar effichteit. Ac odyno y kychwynnassant parth a muryreiff ynteu yr yscoteit ar effichteit, a ymladassant teit gweith ac arthur kyn no hynny. Ac y ffoassant hyt yno. Ac yna yd athoedyd y enyssod a oed yn llyn llumonwy y geissaw eu ymdiffryn yny lle kadarn hwnnw, kans yny llyn hwnnw y mae trugein ynys, athrugein auon a daw idaw. Ac ny ret o honaw namyn un. A thrugein karrec a nyth eryr ym pop karrec. Ac unweith pop plwydyn yd ymgynnullant ygyt. Ac y dangossant ar y lleisseyu y damwein addehai yr teyrnas o hynny hyt ym pen y vlwydyn. Ac yr lle hwnnw y ffoassei yr yscoteit ar effichteit. Ac ny dygrynoes udunt: kans kynnullaw llogeu ac ysraffer awnaeth arthur, ac ae gwarchae velly trwy yspeit pythevnos, hynny vu varw hyt ar viliod. B.

<sup>515</sup> Ac val yd oedyn uelly nachaf gillamwri brenhin iwerdon, a llyghes anueidrawl y maint yn dyuot yn porth yr popyl truan yd oedit yny gwarchae. Sef awnaeth arthur ymadaw ar yscoteit, ac ymchoelut y arueu yny gwedydyl, ac eu kymell ar ff. A gwedy ffo y gwedydyl ymchoelut aoric arthur ar yr yscoteit ar effichteit y vynnun y dileu hyt ar dim. Ac val yd oed arthur gwedy ymrodi y kreulonder yn erbyn y bobyl honno nachaf escyb y truan wlat ae offeireit ae yscolheigyon yntroetnoeth ac escyrn y seint ar crogeu yn dyuot wediaw trugared arthur dros edlybin y truan pobyl honno. A gwedy adoli ar tal eu glinueu ac adolwyn idaw gadu udunt y ran vechan a oed gantunt or ynys y arwein tragwydawl geithiwet y danaw ef. A chyffroi a oruc arthur ar warder a thrugared arodi yr gwyrda seint hynny eu adolwyn. B.

<sup>516</sup> Ac yna gwedy daruot hynny, sef awnaeth hwel vab hemyr llydaw edrych ansawd y llyn, a ryuedu y sawl auon a deuei idaw ac nac aei o honaw namyn un. Ar sawl ynys, ar sawl garrec, ar sawl nythot eryrot, sef awnaeth arthur dywedut wrthaw vot llyn arall yny wlat honno a oed ryuedach no hynny, sef oed y ansawd vgein troetued yny hyt ac ugein yny llet a phump yny dyfnet yn pedrogl, ac ym pedeir koghol yd oed pedeir kenedyl o pyscawt ac ny cheir vn byth yn ran y llall. Ac y mae llyn arall yg kymry arlan hafren, sef yw y henw llyn liwan. A phan lanwo y mor vet atei ylwnc ynteu megys morgerwyn, ac ny byd kyuywch a y kudo y glaneu yr meint uo y llaw. A phan treio y mor y wyda ynteu megys mynyd mawr tan taftu toneu a chymerw. A phwy bynac a vo yn seuly yn agos idaw ae wyneb attaw breid uyd idaw dianc heb y lyncu or llyn, or bei y geunr ar y llyn nyt oed perigl yr nesset y bei idaw. B.

<sup>517</sup> A gwedy daruot hedychu yr yscotei yd aeth y brenhin hyt yg kaer efraw y enrydedu gwil yndoludc a oed yndyuot yn agos. A gwedy ydyuot yno a gwelet distrywedigaeth yr eglwysseu, a gwedy rywrthlad y gwynuaydedic sampson archescob ar dwywolyon wy'rda ereill effeireit, a gwedy peidaw a dwywav wasanaeth o gwbyl, doluryaw aoric arthur yn vavr, am hynny. Ac galw y wy'rda ygyt, ac o getuundeb pawb y gossodes priaf y gaplan ehun, yn archescob yg kaer efraw, ac y peris adeilart yr eglwysseu lloosedigyon o newyd. A gossot kouenedu kreuydus y talu deduawl wasanaeth yn amseroed herwyd gossod-edigaeth y fydd lan catholic. Ar dyledogon ar daroed yr saesson ydiwreidaw eu gossot aoric arthur ar eu dylwet ae medyant o gwbyl tracheuyn. B.

<sup>518</sup> Sef oedynt yno tri broder a hanoedynt o vrenhinawl uoned a delyet, llew wab kynurach, ac uryen, v. k. ac aron v. k. ar rei hynny a dyllynt tywysogaeth y gwladodet hynny. Ac yd oed yn y heidun kyn dyuot y saesson y eu gwarescyn. Ac yna y rodes arthur y aron vab kynuarch brenhinaeth yscotlont, ac y lew vab kynuarch iarllaeth lodoneis dan y pherthneye, kans yn oes emrys y rodassit anna verch uthyr pendragon yn wreic idaw yr hon a oed vam y walchmei, a medrawt. Ac y rodes y uryen vab kynuarch ryget dan y pherthneye. A gwedy daruot llunyaethu pop peth a dwyn yr ynys ar y hen teilygdawt. A rodi y pawb y dylwet, y kymyrth y brenin gwreic a hanoed o dyledogyon rufein. A gwenhwyuar oed y henw. Ac yn llys kadwr iarll kernyw y magyssid. A phryt athegwech y wreic honno a orchyngei holl wraged yn ynys prydein. B.

<sup>519</sup> Ac erbyn dyuodedigaeth yr haf rac wyneb parattoi llyges a oruc arthur y vynet y werescyn iwerdon. A gwedy dyscyn yr tir y deuth gillamwri brenhin iwerdon, ac ymneirff o luossogwyd ygyt ac ef. A gwedy dechreu ymlad sef awnaeth y genedyl noeth truan diaryf heb yn goir kymryt en ff. Ac yna y delit gillamwri ac y kymhellwyt y darestwg y arthur. Ac o agreiff hwnnw y deuth holl tywysogyon iwerdon, a gwedhau y arthur o'e eu bod. B.

<sup>520</sup> A gwedy daruot gwerescyn iwerdon mynet ae lyghes a oruc y islont. A gwedy ymlad ar popyl ef ae gwerescynnwys. A gwedy clybot or ynyssoed ereill nat oed un wlat a allei gorthwynebu y arthur, sef doldan vrenhin goltont, a gwinwas vrenhin orc, dyuot o'e eu bod y wrhau y arthur, ac y rodi teyrnged idaw. A gwedy mynet y gyaf hwnnw heibaw ymchoelut a oruc arthur y ynys prydein. A chadyrnhau tagnoued yndi. Ac ybu yndi ar vntu deg mlyned. B.

<sup>521</sup> A gwawd attaw awnaethpwy't marchogyon prouadwy clotuawr o wladoed ereill y chwanaccaw y teillu. A chymeint oed syberwy't llys arthur, ae teulu o vaes a gwbydoe a daconi a haelder a milwryaeth ac nat oed dim gan neb or ae clywei o ny allei ymgyllybu idi, ac nyt oed dim gan vn dyledawc o pedeir bannoed y byt ony bei vn diwygat ac vn o teulu arthur. Agwedy ehlydec dros pedeiruanodet y byt y ryw wr oed arthur, yd oed pawb or brenhined yn ergynru rac ofyn y gwarescyn o honaw, sef awneynat kadarnhau y kestyll ae kaeroed agwneuthur ereill o newyd rac ofyn. B.

<sup>522</sup> Gwedy clybot o arthur hynny ymdyrchael aoric ynteu o glybot bot y ofyn ar pawb yn gymeint a hynny. A medyllyaw awnaeth gwerescyn holl europa, sef oed hynny y tryded ran or holl vyt. A pharatoi llyghes aoric arthur, a mynet tua llychlyn a gwarescyn y lew vab kynuarch oed nei y sychelyn vrenhin

llychlyn a vuassei varw. Ac a gymynassei y vrenhinaeth y lew y nei sef awnaeth y llychlynwyr y wrthot ef. ac ar vrdaw rikwlf yn vrenhin arnadunt. sef awnaeth hwnnw kadarnhau y dinassoed ar kestyll gan vedwl daly yn erbyn arthur. B.

<sup>543</sup> Ar amser hwnnw yd oed walchmei yn oet deudegmlwyd yn gwasanaethu suplicius pap. gwedy y arthur y anuon y dysuc moes a milwryaeth. A chan y pap hynny y kymyrth ef arueu gyntaf. B.

<sup>544</sup> A gwedy dyuot arthur y traeth llychlyn. nachaf rikwlf a llu mawr ganthaw yn dyuo yn yny erbyn. a gwedy gollwg llawer o greu a gwaet o pop parth y llas rikwlf a llawer y gyt ac ef. ac y kauas arthur y vudugolyaeth a dechreu doddi tan yny dinassoed. Ac ny orffowyswys arthur ae lu yny daruu vdu gorescyn llychlyn a denmarc. ac eu darestwg wrth arglwydiaeth arthur. Ac yna y gossodes arthur lew vab kynuarch yn vrenhin yn llychlyn. B.

<sup>545</sup> Ac odyua yd aeth arthur ae lu hyt yn ffreinc a dechren anreithaw y gwlaodoed hi o bob parth udunt. Ac yn yr amser hwnnw yd oed ffrollo yn tewyssawc yn ffreinc dan les amherawdry rufein yn llywaw ynny. trythal. A gwedy clywet o ffrollo dynodedigyaeth arthur. ac yd oed yn wneuthur ar ffreinc. kynnullaw holl uarchogyn ffreinc aoruc. a dyuot yn erbyn arthur a dechreu ymlad. Ac ny allawd ffrollo seuyll yny erbyn. kans kymeint oed lu arthur ac nat oed hawd en gossot mywn rif. rwg ynys prydein ar enysedd ereill awaryscynassei. a ran oreu o wyr ffreinc oed heuyt y gyt ac ef. A gwedy gwelet o ffrollo y syrthaw yny ran waethaf o ymlad. Adaw y maes a oruc. ac ychydic o nifer kyrchu paris. A gwedy yngynnullaw aoruc y ffloedigyn lu attaw a chadarnhay y dinas ar veder y gynhal yn erbyn arthur. B.

<sup>546</sup> A thra yttoed ffrollo yn aros porth attaw nachaf arthur yn dyuot yn deisyuyt am pen y gaer. ac yn rannu y lu yny chylych ual na chaffei neb dyuot o honei onyt wrth y gyghor ef. ac ar pen y mis doluryaw aoruc ffrollo o welet y pobyl yn meirw rac newyn. Sef awnaeth anuon ar arthur y ofyn a yvneii y dyuot eldeu y le ny allei neb kanhorthwy y vn mwyr noe gilyd. ar vn a orffei kymerei kyuoeth y llall ae wyr yn diymlad yr deu lu. Sef achaws y kenygwys hynny gwr mawr aruthyr anueidrawl y dewred oed ffrollo. Ac o achaws hynny mawr oed y ymdiret y goruydei ar arthur. ac y rythae y bobyl. B.

<sup>547</sup> Allawen vu gan arthur y gynadwri honno. A gwedy kydarnhau yr amot hwnnw rydunt wynt a doethant eldeu y mewr ynys wastat a oed odieithyr y gaer yn gaedic or auon. ar lluoed o pop parth yn edrych py damchwein a vei rydunt. B.

<sup>548</sup> A gwedy dyuot eu ylldeu yn gyweir adurnedic o arueu ar deu varch enryded y meint ae buaet mal nat oed hawd gwybot pwy bieuydei y vudugolyaeth. a gwedy dyrchauel eu harwydyon gosot aoruc pop yn ar y llall o holl nerthoed. sef awnaeth arthur gan ochel dyrnawt ffrollo gosot arnaw yn pen y vron hynny y doed y ar y varch y lawr ac yn gyflym kyuodi a oruc ffrollo a gosot ar varch arthur ae leif hyt pan syrthiawd yn agheuawl o dyrnawt. A phan welas y brytanyeit eu brenhin yn dagwydaw. breid y gallwyt eu attal heb torri y gyghreir. Ac mal yd oedynt yn mynny y thorri. Nachaf arthur yn kyuodi ac yn dyrchauel y taryan yn erbyn dyrnawt arall ffrollo gan y gyrchu ynteu yn gyflym. A gwedy eu dyuot y gyt ac ymgyuogi yn hir gosot awnaeth ffrollo ar arthur y tal. Ac bei na phlyceit y cledyf ar awch yr helym ar pestefyn ef auasei agheuaw. A gwedy gwelet o arthur y waet yn kolli ac yn kochi y arueu enyau o flamychedic lit aoruc. A galw y nerthoed ae wrhydri attaw. a gosot ar ffrollo. a thrwy y helym ae holl arueu hyny aeth y cledyf drwydyaw hyt y llawr. Ac ynteu yn deu hanner y bobtu yr cledyf. A gwedy bot yn honneit hynny yr deu lu. Agori pyrth y gaer awnaethpwyt ae rodi y arthur. A gwrhau a orugant y ffreinc idaw yn diannot. B.

<sup>549</sup> A gwedy y vudugolyaeth honno sef aoruc rannu y lu yn dwy ran. a rodi y hywel vab emyr llydaw y neill ran. y werescyn peittaw. ar ran arall gan arthur ehun y darestwg y gwlaodoed ereill yny glych a vei orthwyneb idaw. a mynet a oruc hwel hyt yg gwasgwyn a pheitto ac anki. A gwedy llawer o ymladeu y gwerescynwys y kestyll ar kaeroed ar dinasoed. ac y kymellwys y brenhined y darestwg idaw. B.

<sup>550</sup> A gwed mynet yspeit naw mlyned hebaw. a darestwg holl teruyneuo ffreinc wrth ywed ef. y deuth arthur hyt yn paris y daly llys. a galw attaw archescyb ac escyb ac yscolheigon a lleygon holl teyrnas ffreinc. Ac yna y rodes arthur y vedwyr pen trullat iarlleth nordmandi. Ac y gei y penswydwr iarlleth yr ankiw. Ac yr gwyrda ereill dyledawc aod yn wasanaeth. y gwlaodoed ereill yg kylych hynny. Ac yny wed honno hedychu pawb ac eu gwneuthur yn vodlawn. A gwedy daruot llunyaethu y gwlaodoed hynny yn dyledus. pan yttoed y gwanwyn yn dyuot. y deuth arthur tracheun y ynys prydein. B.

<sup>551</sup> A gwedy y dyuot darparu awnaeth trwy diruawr llywenyd daly llys a gwisaw coron y priawt teyrnas am y pen. A galw pawb o brenhined ar tywysogion a wyrysycynasei arthur hyt y wled honno. sef amser oed hynny y sulgwyn. Ac aruaethu awnaeth aruoll pawb trw llywenyd. ac ydnewydhan tagneued y rydunt trwy y teyrnas oed. B.

<sup>552</sup> A gwedy menegi o honaw y vedwl yw annwyleit oe eu kytyghor y kawsant gwneuthur y wled honno yg kaer lliou ar wysc ygwlatuorgant. kans teccaf lle oed yn ynys prydein. achyuoethoccaf o eur ac aryant a goluodoed ereill. ac adasaf y nrydedu gwyliua kymeint o honno. kans or neill parth yr dinas yd oed yr auon vonhedic yn arwein y llogeu ar brenhined yndunt o pedyrannoed byt. ac or parth arall yr dinas yd oed y gwyrgloden a llwynen ar fforestyd yny theccau. ac o newn yr gaer ar dinas yd oed y tei brenhinawl goreureit. ac euo oed yr eil dinas a oed gynhebic y rufein o tectet y thei ac amlet y chyuoeth o eur ae aryant a meint y syberwyt. A dwy eglwys arbenic a oed yndaw. vn yn enryded y iulius verthyr. a manachloc gwerydon. A honno oed tryded archescopyt ynys prydein. ac yn yr amser hwnnw arderchawc oed dinas kaer lliou o deucant yscol ac ythraon da yn kanu yndunt amryualion gelydueden. B.

<sup>553</sup> A chymein a parattoet yna o armerth ac a oed teilwcy yryw wled honno. Ac yna yr anuonet y po gwlat o a warescynasei arthur y wawd y brenhined ar tywysogion ar ieirll ar barwneit ar marchogyon urdawl ar gwyrda y gymryt eu iawn ac eu dilyet. B.

<sup>554</sup> Ac yna y doethant wrth ywys honno. Aron vab kynuarch brenhin yscotlont. ac vryen vab kynuarch brenhin reget. a kyswallawn llawhir brenhin gwyned meuruc vrenhin dyuet. a chadwr. i. kernyw. a thri archescob ynys prydein. archescob llundein. ac archescob kaer effrawc. a dyfirc archescob kaer lliou. a hwnnw a oed penaf. a legat dan pab rufein. Ac yam hynny tywysogion y trefyd mawr bonhedic. morud iarl kaer lowr. mor iarl kaer wranon. anarawt o amwythic. marcharut o gaer weir. yr hon aelwir warwic. ywein o gaer leon. kynuarch o gaer geint. gwallawc o salysberi. vryen o kaer vadon. ionatha o dorgestyr. bosso o ryr ychen. dunawt vab pabo post prydein. kene vab koel. predur vab rud. gruffyd v. vognet. kygyn v. klawd. edelyn vab coleodawc. kygar vab angaw. massen colfawt. run vab noethon. kynuelyn vab trunyat. kariel vab kadell. kynllith vab noethon. Ac ygyt a hynny llawer oowyda a oed reir y datgan. ac or enyssoed y doeth yno gillamwri vrenhin iwerdon. gillamwri brenhin islont. doldan vrenhin gotlant. winwas brenhin orc. llew vab kynuareh brenhin llychlyn. echel vrenhin denmarc. a o ffreinc y doeth hothin tywysawc rwyntun. lodgar tewysawc bolwyn. pedwyr petrullat tewysawc nordmandi. burel tewysawc senomon. kei pen swydwyr tewysawc ankiw. gwindard tywysawc peittaw. ar

deudee gogyuurd o ffreinc, a gereint garaffus yn eu blaen, hywelvab hemyr llydaw, a llawer o wyrda oed darystgedic idaw ynteu. Ae ar vryder ny thrigawd vu tywyssawc or parth yma yr yspen ny delhei wrth y wys honno. A chymeint o adurn muloed a meirch a gwiscoed ac arueu aoed gan pawb o hynny. Ac yd oed vlin a ryhir y datganed. B.

<sup>535</sup> A gwedy ymgynullaw pawb yr gaer, a dyd y wilua yn dyuot, y gelwit y tri archescob y llys wrth wisaw y teyrnwisc am y brenhin. A choron y teyrnas am y pen. Ac y dyfric archescob y gorchymynwyf yr yfferen, kans yn archescopy ef yd oedit yn daly llys. A gwedy daruot gwisaw am y brenhin, kychwyn awnaethpwyf ac ef parth ar eglwys yr archescopy. Ar neill archescob or parth deu idaw yn kynhal y wisaw, ar llall or parth asseu. Ac arawn vab kynuarch brenhin yr alban. A chatwallawn law hir brenhin gwyned. A meuric brenhin dyuet. A chadwr brenhin kernyw, yn herwyd eu breint yn arwein petwar cledyf noethon eureit ymblaen y brenhin yn mynet yr eglwys wrth efferen. Ac o pop parth udunt y cwenoed o veneich a chanynwyr ac yscollheigon yn amryual urdasoed yn eu possession, yn canu amryual geinydigyaethu ac organ yn dwyn eu brenhin wrth efferen. Ac or parth arall yd oedit yn dwyn y vrenhines yn wiscedio o vrenhinaw wisaw. A choron o lawryd ami phen, ac escyb athrawon yny chylch hitheu y eglwys y manachesseu wrth efferen. Ac oe blaen hitheu gwraged y pedwar brenhin yn arwein pedeir clomen pur wynnyon ar eu dwy law. Ac y gyt a hynny y gwrageda kyneint yn ny canlynt wynteu parth ar afferen. A gwedy daruot y possession ym pob vn or dwy eglwys, kyneint oed yr organ geinydaeth a rac digrifet oed y gwarandaw hyt na bydynt y marchogion adathoeddynt yno py vn gyntaf or dwy eglwys a gyrchlyf gan daet y kenit ym pop vn onadunt, namyn kerdet yntorwet or eglwys yr llall, ac ni megynt vlinder by treiglynt y dyd oll wrth wassaneth yr effereneu. B.

<sup>536</sup> A gwedy cwplau dywyawl wassanaeth ym pop vn or dw eglwys gwaret awnaethpwyf y am y brenhin ar vrenhines brenhinolyn wiscedio, a gwisaw ymdanadynt yscanyon wiscedio. Ac odyna yd aeth y brenhin yr neuad y vwytta ar gwyr oll y gyt ac ef, ar vrenhines yr ystauell a gwraged oll ygyt aithheu. B.

<sup>537</sup> A gwedy gossot pawb y eisted herwyd eu annyded y kyuodes kei y vynydd, a mil o dyledogyon y gyt ac ef yn adurnedic o ermyn wiscedio ywasanaethu o gegin. Ac or parth arall y kyuodes bedwyr a mil ygyt ac ynteu yn adurnedic, oamryual wiscedio ywasanaethu or vedgell trw amryualyon lestri gorulycheu a fioleu eureit ac aryant a chyrn buelyn goreureit y wallaw amryualyon wirowed, y paw herwyd y dirperei y enryded. Ac or parth arall ym neuad y vrenhines yd oed aneirf y wasanaethwyr yn adurnedic o amliw amryualyn wiscedio, y rodi yr gwraged eu gwasanaeth yn annydedes herwyd eu kynheuwat. Ac yna ydoed amliw dyuot ynys prydein yw hen ansod ae chyuoeth ae treffyllwch yn gymmeint ac nat oed yn teyrnas aellit y chefflybu idi. Ac a vei o varchogyon clotuawr o vn ryw wisaw ac arueu yd aruerynt ar gorderchwraged o vn ryw diwygat yd aruerynt. Ac ny bydei teillw yna gan vn wreic gymryt yn gwr yn rorderch idi o nvt yn a vei proedic teirgweith ymlirywaeth. Ac velly dweirach yd ymwnal y gwraged, a chlotuorach yd ymwnal y marchogyon ymlirywaeth. B.

<sup>538</sup> A gwedy daruot bywytta ac yfet a chyuoedi y ar ybyrda mynet allan awnaethant oediethyr y dinas, rei y chware pedyt, ereill i torri pelydyr, ereill y tafu dyscleu plwm yr awyr, ereill y vwrw maen, ereill y ymwan, ereill y chware gwydbwll. Athra tyboedunt oediethyr y gaer yny chwarye hynny, yd oed y gwraged mwyaf agerynt ar van y gaer yn edrych arnadunt, ac yn ymdangos vdunt val y bei vwy ynni pawb onadunt wynteu yny gwarye. A phwy bynhac a vei vudugawl yny chware yn diannot y talei y brenhin idaw ygyuarws. B.

<sup>539</sup> A gwed treulaw tridieu a theyrnos yny wed honno y pydywryd dyd y gelwit ar pawb yr vn lle y tal eu gwasanaeth vdunt mal y dirperei pawb yn annydedus. Ac yna y rodet y dinasoed ar kestyl ar brenhin-aethu ar gwlaoded, ar archescobodaethu ar escobodaethu. Ac y lle ybydynt yn wac. B.

<sup>540</sup> Ac yna y gwrthodes dyfric y archescobawt ac yd aeth hyt yn henlli y gwplau diwed y vuched o penydaw ac y gosodet dewi ewythyf y brenhin yn archescob yny le ynteu a theilw oed y hynny o lyndid a buched a santolyaeth, ac yn lle y gwynudydic sampson archescob kaer efrawc y gosodet teilaw y escob llandaf herwy y vuched ae deudeu da yny ganhorthwyaw. Ac yn y gwnaethpwyf morgann yn esco yg kaer vudei, a julian yg kaer wynt, ac eteluyt yg kaer alclut. B.

<sup>541</sup> Ac val yd oedynt y llunyaethu pop peth yn dyledus, nachaf y gwelynt yn dyuot deuddegwyr o wyr aeduet eu hoet enrydedus eu gwed a cheinc o eliwyd yny llaw deheu y pop yn arwyd y bot yn kenhadeu. A gwedy eu dyuot rac bron arthur, annerch o pleit ymherawdyr rufein awnaethant, a rodi llythyr yny law gwedy y ysricuennu yn y mod hwn. B.

<sup>542</sup> Lles amherawdyr ruvein yn anvon amerech y arthur vrenhin y brytanyeit, yr hyn a haedwys enryued yw genyfi dy greulonder ti ath enuydrwyd ath seberwynt, na choffei ty, ti rywneuthur y sawl sarahadeu awnaethost y rufeiniawl amherodraeth pan dugost yn gyntaf y gantunt eu teyrngot o ynys prydein yr hwn agauas wikesar ac ymherodron gwedy ef, Achyn no ninheu. Ac odyna y goresceyst ffreinc a burgwyn, a holl enysoed yr eigawn a rei aoedynt trethawl y rufeiniawl amherodraeth tra tytoedynt ny racuedu. Ac wrth hynny yd ym ninheu yn ryuеду eithyr mod hwyrnt yd wyt titheu yn ymchoelut ar ty synhwyr. Ac yn ymydnabot a thuhunan, kans gormod gwll yw gwneuthur codyant y sened rufein, ar holl vryt yn dylieu bot yn darystgedic ydi. Ac wrth hynny sef y barnwys sened rufein bot yn iawn y titheu wneuth iawn or sawl sarahadeu hynny mineu a archaf yti dyuot hyt yn rufein erbyn kalan awst nessaf y wneuthur iawn or sawl sarahadeu hynny mal y barno sened rufein arnat, ac ony deu ti yno yny racydywedic teruyn hwnnw etnebyd ti y doafi yth teruyn ti a phy beth bynac a gribdeileisti oth enwired mineu ae dygaf yny bwynt gymherued y cledyfeu yn rannu rom. B.

<sup>543</sup> A gwedy daruot darllein y llythyr rac bron arthur ar brenhined ar tywysogyon aoed ygyt ac ef, kyuoed awnaethant a mynet odyna parth a thwr y kewri y ymggyhor wrth ateb y gennadwyr honno, a thra tytoedynt yn escynnu gradeu y twr. Sef awnaet kadwr tewysawc kernyw dan chwerthin yn llawen oe vryt ae vedwl, hyt hyn arglwyd y bu arnafi ofyn mawr heb ef rac gwarescyn o llesced y brytanyeit trwy hir tagnoued a seguryt trwy ymrodi y wledeu a medawt a gobinab, kany oes pedruster hyn wledycha medawt a charyat y gwraged a seguryt a thaplas a gwydbwll, koll y glewder ar nerthoed, a llychwinaw y clot ar enryded, ac agaws y y pmp mlyned yssyd yr pan ydym ninheu yn amrodi y wledeu a seguryt, ac wrth hynny y mae duw yn kyffroi gwyr rufein yn an herbyn y rodi deunyid ini y vwrw llesged a seguryt y wrthym, ac ymgoffau ac an milwryaeth, ac ar hynny wynt a doethant hyt yn twr y cewri. B.

<sup>544</sup> A gwedy kyueisted pawb onadunt herwyd y annyded arthur a dywawt ual hyn, arglwydi vgyt kytuarchoyon proedic y keueis ych kyghoreu eirioet hyt hyn yn rwyd ac yn dyrys, ac wrth hynny synhwyrch yn awr hon. A medylwych o vn vryt py ateb a dylwyn y talu yn erbyn yr ymadrodyon hyn, kans by beth bynhac aracuedydio doethon yn da pan deler ar weithret haws yd y odef, a heuyt herwyd a tybygafi nyt reit ynni ofyn gwyr rufein, kans trwy anlyet y maent wy yn keissaw teyrngot o ynys prydein wrth dyuot wikesar ac ymherodron ereill gwedy ef a llu mawr gantunt ac otreis ac anundeb anieni nyncu

a gwarescyn y wlat. ac gweunthur yn trethawl vdunt trwy treis achribdeil. A phy beth bynhac a dyker trwy treis a chymhell ny dylir kaffel kedernyt yw gynhal. Ac wrth hynny kan ydiw yr ymherawdyr rufein trw snlyet yn keissaw yn bot ni yn trethawl idaw ef. ninheu trw dyltet a iawn aholwn teyrnget idaw ynteu o rufein. ar kadarnaf ohonam kymeret ygan y gilyd. kans gwrescynwys wlkessar ac ymherodron ereill ynys prydein oc eu kedernyt. ac or achaws hwnnw kymell teyrnget ohonaf. yn awr yn kynhebic y hynny. mineu a varnaf dyltet ohonaf ineu teyrnget o rufein. kans vy rieni yneu gynt a waryscynassant rufein. nyt amgen. beli. a bran. meibon dyfnawl moel mut. ac a grogassant y pedwar gwystyl ar vgeint rac bron y gaer ac a vu eidunt y gaer trwy lawer o amser. A gwedy hyuny kustenin val eben a maxen wledic yw kereint ineu auant amherodron yn rufein. ac o nny prydein y gweryscynassant. ac wrth hynny pony bernwch chwitheu dyltet o honaf inhen teyrnget o rufein ac o ffreinc ac or enyssoed ereill. ni wrthcbaf i idaw ef kans amdiffynwys pan y gweryscynais i wynt. B.

<sup>545</sup> A gwedy daruot y arth' teruny y ymadrawd velly. hwel vab hemyr llydaw a atebawd ual hyn ymlaen pawb. dioer heb ef. gwedy medyltye pawb ohonaf arneilltu a menegi o pop yn ohonam y synnwyr yn wahanedic a gallu o hynny oll bot yn vn kyghor wedy hynny nyt ydwyfi yntebgy bot vn kyghor a vo gwell. a nac ateb a vo eglurach nor hwn y rodeisti yr awr hon arglwyd. Ac wrth hynny y delywn ninheu trw diergryn sanedgyaeth dwyn ardylyet a phruder y kyghor arodeisti. kans o myny ti kyrcu rufein herwyd y synnwyr ar dyltet a dywedeisti arglwyd ny phedrussaf kaffel y vudugolyaeth hyt tra vohom trwy iawnder yn amdiffyn yn breint ac yn rydit. yr hon y mae yn gelynyon yn keissaw y dwyn y arnaw trwy enwred kans pwy bynac ageisso dwyn delyet ygan arall trwy enwred. ef yrlit a iawnder dyledus yw y hwnnw kollit yr hyn auo idaw ehun. ac wrth hynny kans gwyr rufein duss yndarparu yn keithiaw ni a dwyn an rydit y arnaw ninheu a dygwn y arnawt wy yr eidun os daw a ry lle ac amser y ymguaruot ac wynt. llyma gyuaruot damunedic yr holl vrytanyeit. llyma darwganeu sibli yn dyuot trwy geugant tastolyaeth bot or brytanyeit tri brenhin a warescynyt rufeinawl amorodraeth. ac o hynny amlwac yw dyuot y deu. beli a chustenin. ac arawr hon yd yn yth kaffel titheu yn trydyd kan yttyn in adaw blawed anrydedaw amherodraeth rufein it. Ac wrth hynny brysssa titheu y gymryt y peth ny ydiw dudw yn annot y rodi tyt trwy y haelder ef. brysssa y darestwg yr hwn yssyd yn hynnu bot yndarystygiedic. brysssa y dyrchael tywy ath teulu yrei ny ochelant or byd reit rodi eneideu yth dyrchael titheu ac yth vrdaw. Ac yn nerth yr neges hon miui achwenecaa ty lu ti o degmil o varchogion aruawc. B.

<sup>546</sup> A gwedy hyny y dyrchewis arawn vab kynuarech y ymadrawd ynteu nny wed hon. yr pan derchewis vy arglwyd i heb ef. damlewychu y vedwl ae darpar kymeint lyweny adiscynwys ynofi ac na allafi y venegi ar uny tauot kanyt oed dim genhyf y sawl teyrnysoed a weryscynassam gan dianc gwyr rufein a germania heb y darestwg a dial arnadut yr areuaeu trymon awnaethant wynteu gynt on a rieni ninheu. A chan yttyn yn darogan bot kyffranc rom ni ac wynt mwy no diruawr lyweny yssyd ynof. y. am hynny a chymeint yw arnaf sychet yw gwaet a phef bythwn heb diawt tri dieu a their nos a gwelet ffynon rac vy mrou. arglwyd heb ef gwyn y vyt arhoei y dyd hwnnw yn yr hwn y kaffem ymguaruot ac wynt melys o welioed vydei genyf i y rei agymerwn tra ythwn ynkeissaw dial vy rieni ac ynamdiuffyn yn gwlat ac an rydit. Ac yn dyrchael an brenhin. ac chwanacau ty lu mi arodaf dwy vil o wyr aruawc heb eu pedyt. B.

<sup>547</sup> A gwedy dywedut o pawb y dull. adaw awnaeth pawb yn herwyd y gyuoeth. y nifer goreu aallei yn porth y arthur. Ac yn y kahat o ynys prydein ehun heb a adawei hywel vab emyr llydaw trugeinmil o varchogion aruawc. Ac or enysod ereill nyt amgen iwerdon ac yscottlont a gotlont ac orc llychlyn a denmarc y riuwyt weugeinmil o pedut. kanyt oed aruer o varchogion gantunt. Ac o ffreinc nyt amgen o rwuthun. a phorthvu a normandi. senoman a pheitaw ar angwi. y riuwyt petwar vgein mil o varchogion aruawc. Ac ygan y deudec gogyfurd o ffreinc y rifwyt deg mil o varchogion aruawc. Sef oed y rif hynny oll ygyt o varchogion. Deucant a their mil a phetwar uegin mil a chan mil heb eu pedyt. yr hyn nyt oed hawd eu gossot yn rifi. B.

<sup>548</sup> A gwedy gwelot o arthur pawb yn amrodi yn llawen nny wassanaeth. rodi canhat a oruc y pawb ouadunt y vynet y en gwlat y ymparattoi erbyn kalan awst. A gorchymyn awnaeth y pawb dyuot yny terun hwnnw y porthua dofyr yn llwy: a chychwynu odyo y gyt yn erbyn yr amherawdyr. Ac yna yd anuones arth' ar yr amherawdyr trwy genhedeu y not ef yn ymparattoi wrth vynet parth a rufein. Ac nyt yr ufydhan y sened rufein. namyn yr kymell arnadut wy trwy delyet iawn. yr hyn yd oedunt wy trwy anlyet yny erchi idaw ef. A chychwyn awnaeth y brenhined ar tywysogion y eu gwlat wrth paratoi eu lluoed mal yd adewssynt yr arthur. B.

<sup>549</sup> A gwedy gwarandaw o les amherawdyr rufein ateb arthur y gan y kenhadeu. Anuon gwys aoruc ynteu ar vrenhined y dwyrein. o gyghor sened rufein y erchi y pawb onadunt luydyaw y gyt ac ef am pen arthur oc darestwg. Ac yna y doethant wrth y wys honno epistropus vrenhin groec. mustensar vrenhin yr affrik. ac eliffant vrenhin yr yspaen. a hirtagus vrenhin parth. a boccus vrenhin midiff. a sertorius vrenhin libia. a serer vrenhin ituria. pandrassius vrenhin yr eiff. euader vrenhin ziria. missippia vrenhin babilon. politetes duc bititna. teuser duc frigia. elion vrenhin borth. ipoliti brenhin creta. Ac y am hynny tywysogion mawr a ieirll a barwyneit a marchogion urdaw. Ac o urdas sened rufein lles amherawdyr. kadell. meuruc. lepitus. gadius. mettelus. cocta. quintinus. mistinus. catulus. quyntus. karaussius. Sef oed eiryf eu marchogion. seith mil a phetwar kan mil. B.

<sup>550</sup> A gwedy bot y rei hynny yn parawt erbyn kalan awst kychwyn awnaethant parth ac ynys prydein. B.

<sup>551</sup> A gwedy kaffel o arthur wybot ybot yndyuoit gorchymun awnaeth ynteu llewodraeth y teyrnas y vedrawt y nei vab y chwaer. ac i wenhuwr vrenhines. Achychwyn awnaeth arth' y gyt ae lu parth a nordhamtwn wrth kychwyn odyo nny lyghes. B.

<sup>552</sup> Ac ual yd oed yn rwygaw moroed yn damgylchynedic o luosogrywd anyiryf o logeu. mal am hanner nos y dygydwys hun diruawr y thrymet ar arthur. Sef y gwelhei trwy y hun arth yn ehedec yn yr awyr. a murmur hwnnw ae odwrd alawei y traethn o ofyn ac ergenedigyaeth. Ac odyna y gwelhei dreic yn ehedec y wrth y gorllewin ac o ehtewenedigrwyd y llygeit ygolhehau y wlat. ac y gwelhei wynt ynkenydu ymlad ryued y rycunt. Ac or diwed. y gwelhei y dreic yn kyrcu yr arth ac oethanawl anadyf nny losci ac nny vrw yn llosecid yny dayar. ac ar hynny dyffroi a oruc arthur a datgann y vroidwyt yr gywda a oed yny kylch. Ac erchi vdunt ydeogyl. Sef mal ydehoglassant. dywedut mae arthur a arudocaei y dreic a doeth y wrth y gorllewin. Ar arth a dywedyt a arwydoceaei y rwy agwynuil o gawr a ymladei ac ef. A budugolyaeth y dreic a arwydoceaei y nudugolyaeth a damweinei y arthur. Ac nyt vely y tybygasei arthur bot y dehoglat namyn o achaws y gyuaruot a vei rydaw ac ymherawdyr rufein. A phan oed y wawr dyd trannoeth y golehan y doethant y aber bawerflo y tir llydaw. Ac nny lle hwnnw tyynu eu pebylleu wrth arhos eu llu ygyt. B.

<sup>553</sup> Ac val yd ydoedant gwedy discynu. nachaf kenhadeu or wlat yn menegi y arthur rydyuot kawr enryed y veint o eithauod yr yspaen. a chribdeilaw elen nith hywel vab emyr llydaw a dwyn y treis y ar

y cheitweit. a mynet ahi hyt y mynyd mihagel. a mynet pobyl y wlat yny hol. Ac ny degrywys vdunt o dim ny erbyn ef ar vor nac ar tir. Os ar vor yd erlynunt wy ef. llenwi eu longeu o donou ac eu sodi a wnai. os ar y tir ydelhei attaw a lalei. B.

<sup>554</sup> A gwedy dyuot y nos honno mal am yr eil awr kyuodi awnaeth arthur a chei a bedwyr ygyt ac ef achychwyn yn distaw o plith yllu parth ar mynyd yd oed y kawr. a chymeint oed ymdiret arthur yny nerthoed ac na tybgei vot yn reit idaw saethugyaw ylu yr yriw aghyguil hwnnw o gawr. A gwedy eu dyuot yn agos wy a welnyt deu ynyd a thanllwyth ar pob vn ac ethryckin or mor rwg y deu vynynt hyt na ellit mynet onyt mewn llog neu ysraf. A gwedy kaffel ysraf onadunt anouon bedwyr awnaethant or blaen y geisaw diehrwyd am y kawr. A phan deuth parth a phen y mynyd lleiaf. nachaf y clywey gweigawl gwynuan adrycarueth. sef awnaeth ynteu megys pedrusaw ac ofynhaw o tebygu mae y kawr a oed yno. Ac eisoes galw y nerthoed attaw. a chyrcu pen y mynyd. a phan deuth yno: nyt oed yno namyn gwraich wawr yn eisted wrth tanllwyth wawr ac yn wylaw yweh pen bed newyd cladu.

<sup>555</sup> A phan welas hi vedwyr y dywawt dan icuon. awylyaw. o tydi drettaf or dynyon paryw direidi athuc ti yr lle hwn. ny ellir adrawd y saw poen ysyd parawt it. yr awr hon y daw yr yscymunedic kawr. yr hwn aduc elen yn lathrut. yr hon cledeis yr awr hon yny bed newyd hwn. Ac am duc inheu ygyt kans y mamyaeth oedwn hyt yma. A gwedy keisaw kydyaw a hi ac nys gallwys a duw a aldaw inheu yn tystol-yaeth rydwyt treis o honaw arnaf ac wrth hynny ffo tithu vvg karedic i ra ofyn yduot ef herwyd y genheuw ef y gydyaw a miui. ath ordiwes titheu yny wed hon athreulaw blodeu dyieucenit ath lad. B.

<sup>556</sup> A thruanhau awnaeth wrthi o dynawl annyau ac adaw kanhorthwy idi yn ebrwyd. A dyuot ar y gytymdeithon aoruc a menegi vdunt ar ywelsei. B.

<sup>557</sup> A chwynaw aoruc arthur yn wawr varwolyaeth y vorwyn ac erchi y gytymdeithon y adu ef or blaen y ymlad ar kawr. ac o gwelynt bot yn reit idaw dyuot o ganhorthwyaw. A phan deuthant parth a phen y mynyd wynt awelynt yr aghyguil kawr a bereideu ogig moch coet gathaw yn eu pobi. ac ny hysu yn lletamrw. B.

<sup>558</sup> A gwedy arganuot o honaw y gwyr y dyuot yn dirybud bryssyaw aoruc y kymryt y ffon. A chymeint oed y ffon ac yd oed anahwd yr deu vilwr dewraf y dyrchael y wrth y llawr. a dispelyaw cledyf aoruc arthur a dyrchael y taryan yny clywit sein y dynawt dros wyneb y traetheu. ac yny pylwys clusteu arthur gan y sein. Ac yna ennyu o lit awnaeth arthur a dyrchael caletvlych a tharaw dynawt mawr yny tal hyny ytoed ywaet yn lithraw ar hyt y wyneb ac yn tywyllu drem y lygeit. Sef awnaeth ynteu mal baed coet kyrcu yr helw ar hyt yr hychwayw kyrcu arthur ar tor y cledyf ac ymauel ac ef am y wregis ac kymell hynny vu y deulin yr llawr ac eisoes kaffel o arthur yn reduawl ethrelithius lithraw y ganthaw a throi cledyf yny kylych hyny kanas oe holl nerthoed gossot ygarwarth y pen hyt yr ymhenyd allef adodes y kawr a syrthiaw y lawr megys derwen pan syrthei gan wynt. a chwerthin awnaeth arthur ac erchi y vedwyr llad y pen oe dwyn yn plith y llu yw dangos anryuedawt. B.

<sup>559</sup> Ac yna ydywawt arthur narygawsei ef erioet yr eil gwr gan dewret a hwnnw gwedy ymlad o honaw a ruta kawr yn mynyd eryri yr hwn a daroed idaw rywneuth' plis o varued brenhined. ac wrth hynny erchi y arth' ehunan vlygaw y varaf yn llwyr wrth y danuon idaw ef. ac am vot arthur yn penhaf or brenhinedoet yr enryded y arthur y gadysssei ef lle baraf arthur yn vchaf ar y pilis. ac oyny blygei arthur y varaf iffyd erchi idaw dyuot y ymlad ac ef. ar vn a orfei o nadunt kymerei varaf y llall ac pilis. ac or ymlad y goru arthur a dwyn y varyf ac pilis y arnaw ae lad. a gwedy hwnnw ay rygawsei arthur vn gwr kyn gadarnet ar llall. B.

<sup>560</sup> Ac odyna ydoethant a phen y kawr ar y llu. A phan welas pawb y pen moli awnaethant y gwr a rathyassei y wlat o ryw ormes hwnnw. Ac eisoes tristau aoruc hywel am ageu y nith. ac erchi gwneuthur eglwys ywch y bed ac o enw y vorwyn y gelwir y mynyd hwnnw etfwa. bed elen. B.

<sup>561</sup> A gwedy ymgynnullaw pawb y gyt. kyrcu aoruc arthur odyno parth ar dinas aelwit awgustatanum. A gwedy y dyuot y lan auon wen y dywespyt wrthaw vot yr amherawdyr yn lluestu yn agos. A chymeint olu ganthaw ac nat oed hawd y neb y arhos. A phebyllaw awnaeth arthur ar lan yr auon y lle y gallei lunyaethu y lu or bei reit idaw. B.

<sup>562</sup> Ac o dyna yd anuones ar yr amherawdyr bosso o ryt ychen a gereint garannys y galchmei vab gwyr. ac erchi idaw vynet o teryueneu ffreinc neu ynteu bot yn barawt y rodi kat ar vaes tarnnoeth y arthur y wybot pwy oreu o ydlyet onadunt ar ffreinc. ac annoc awnaeth ieuencit llys arthur y walchmai wneuthur ryw wrthgarfyd yn llys yr ymherawdyr val y bei reit teruyssu yluoed o pop parth ran wan- noccet oednt y gaffel brwydyr a gwyr rufein. B.

<sup>563</sup> A gwedy dyuot y kenhadu hyt rac bron yr amherawdyr erchi awnaethant idaw adaw teruyneu ffreinc y gan arthur neu vot ymparawt trannoeth y rodi kat ar vaes idaw. ac val yd oed yr amherawdyr yn dywedut nat mynet o honai adlylei namyn y amdiffyn. y dywawt gagius nei yr amherawdyr bot yn vwy bocssach ac orhofter y brytanyeit noc eu gallu. a bot yn hwy y tauodeu noc eu cledyfeu. allidia a oruc gwalehmei am dywedut or gwranc mor trymegedic a hynny wrthaw a dispelyaw cledyf a llad y pen. ac yn gyffyn kaffel y meirch. ac eu hymllit a oruc gwyr rufein y keissaw dial y gwr arnadunt. Sef awnaeth gereint ymchoelut ar y gwr nessaf a oed yny ordiwes ae lad. A chyghoruyru a oruc bosso amrylad pop vn oe gytymdeithon wr ac ynteu etwa heb lad vn ac ymchoelut awnaeth ynteu ar y gwr nessaf idaw ae vwr yr llawr ae vrathu yn agheuawl. Sef awnaeth marchell mut ymlit gwalehmei yndi udyyaw ac val ydoed yn ymordiwes ac ef ymchoelut aoruc gwalehmei arnaw a llad y pen a gorchymun idaw ot ymgaffel a gaius yn uffern dwedut bot yn hwy cledyfeu y brytanyeit neu tauodeu. ac ymchoelut aoruc y deu getymdeith a llad y deuwr nessaf udunt. Ac yr bot gwyr rufein oc eu holl dihewyt yny kywarssagu: ny allyssant nac eu llad nac eu dala. B.

<sup>564</sup> Ac val yd oednt yn dyuot parth a llwyn coet. nacha wemil or brytanyeit yndyduot yn canhorthwy undunt gwedy rycolyt erlit ar y kenhadu ac yndiannot dodi gawr arnadunt ae kyrcy yndeiissyuit ae kymell ar ffo. ac odyna y erlit gan dala rei a bwrw ereill. B.

<sup>565</sup> Ac ar hynny y deuth pedrius senedwr a degmil owyr arwawe gantaw yn ganhorthwy y wyr rufein. Ac ar hynny y kymellwyt y brytanyeit ar ffo yr coet y dothoednt o honaw ac nyt heb wneuthur diruawr collet wywr rufein. Ac yna y doeth bedwyr vab mut a phumpmil yn porth yr brytanyeit. Sef awnaeth y rei a oed yn dangos y kfeueu y ffo. dangos eu dwyruon yn gyffyn gan ymchoelut ar y gelynyon. Ac ny didoreu y brytanyeit py damchwein y dagwydynt yndaw gan gaffel clot oc eu milwryaeth doethach oed wyr rufein kans pedrius senedwr oed yny dysyu y wneuthur diruawr gollet or brytanyeit gweithu gan gyrcu gweithu gan gilaw.

<sup>566</sup> A phan welas bosso o ryt ychen hynny galw attaw y getymdeithon aoruc a dywedut wrthutwl val hyn. A vnbyn teulu heb ef kans heb wbot yn brenhin y dechreussam ni yr ymlad hwn reit oed y ninheu ymweglyt rac yn dygwydaw y ran waethaf or ymlad. a chywylydyaw an brenhin. Ac wrth hynny ymlyn- nywn vyndioed gwyr rufein y edrych atto duw yn ae llad pedrius ae dala. B.



<sup>367</sup> Ac vfydhau awnaethant wrth ygyghor ef ac o gynhebio wilwryaeth kyrcu y lle yd oed pedrius yn dyscu y getymdeithon a doddi aoruc bosso y law dros vgygwyl pedrius ac tynnu gantaw yr llawr. ac ym-pentyrru awnaeth y brytanyeit yn porth y vosso. Ac yna y bu aerua galet o pop parth. yna y bu y kynhwyr ar lleuein ar gorderi ar ymurathu ar ymsag ar ymdaraw. yna y gwelit pwy oreu adigoneu or aryf yd arueri o honaw a diodef yn ymanedus awnaeth y brytanyeit ruthor gwyr rufein a dyuot a phedrius yn garcharawr hyt ym perued eu lln. Sef awnaeth gwyr rufein yna gwedy dala eu llywawdr kymryt eu fio. Sef awnaeth y brytanyeit y hymlit. a bwr rei adaly ereill ac eu llad ac ny diwed gwedy gwneuth' diruawr gollet o wyr rufein. ymchoelut awnaeth ar kyrccharoryon hyt eu pebyllieu gan lewenyd a budugolyaeth. a menegi y arthur argauaroed ac wynt. B.

<sup>368</sup> A diolwch awnaeth ynteu hynny vduot yn vawr gan adaw echwanecau eu enryded am eu gwasaenath ny apsen. Athrancoeth y rifwyt gwyr wrth anuon y karcharoryon parth a pharis tra veit yn kymryt kyghor ymdanunt. ac yna yd erchut y kadwr iarll kernyw a bedwyr pen trullyat a deu dewysawc o ffreinc. borel a richert eu hebrwng hyt yn diogel rac eu ellwg o wyr rufein. B.

<sup>369</sup> A gwedy clybot or amherawdyr hynny sef aoruc ynteu ellwg pymphedgmil o wyr aruawc y geisaw gellwg y karcharoryon ac yn tywysogyon anradunt. viteis senedwr a chedmil vleid. a cwinito caricius euander vrenhin siria. a sertorius vrenhin libia. Ac y kerdwys y nifer hwnnw. hyny kawstant le adas y eu ragot ac ymgudyaw yno ar bore trancoeth kychwyn awnaeth y brytanyeit ar karcharoryon. ac ual y deuthant parth ar lle yd oed y pyt. kyuodi aoruc gwyr rufein ac eu kyrcu ae gwasgaru. B.

<sup>370</sup> Ac eisoes kyt kyrcu y brytanyeit yn dirybud ny chat yn diaruot. gosot rei awnaethant wrth eu karcharoryon. a llunyaeueth ereill yn vdynoed wrth ymlad ae gelynyon. ac ymlaen y vdydin acoed yn kadw y karcharoryon y dodet borel a bedwyr. Ac ny cheiswys gwyr rufein vn reel namyn pawb yn y gyueir keisaw ellwg eu kyrcu aroryon. Ar brytanyeit a gollaise y karcharoryon yn waradwydus pei na delei quitart tywysawc peitaw a theirmil o wyr aruawc gwedy ry gaffel brat gwyr rufein. A gwedy dyuot canhorthwyr y brytanyeit gorthwynebu y gelynyon yn wrawl. B.

<sup>371</sup> Ac yna y dygwydwys borel tewysawc o parth y brytanyeit a llawer y gyt ac ef. Ac eisoes ny allas-ant wyr rufein namyn kymryt eu fio parth ae pebyllieu. A sef awnaeth y brytanyeit eu hymlit ac eu llad a dala ereill. Ac yna y llas viteis senedwr. ac euander brenhin syria. A gwedy kaffel or brytanyeit y vudugolyaeth honno. yd anuonasant y karcharoryon hyt ym paris. ac odyna ymchoelut tracheuen gan adaw budugolyaeth y eu brenhin. kans niuer mor uychan a hwnnw a gawsei uudugolyaeth ar y sawl elynyon hynny. B.

<sup>372</sup> A gwedy gwelet or amherawdyr meint y gollet ar dechreu y luded tristau aoruc yn vawr a medyllyaw peidaw ae darpar am ymlad ac arthur. a mynet or lle hwnnw hyt yn afar y aros porth o newyd attaw. B.

<sup>373</sup> A gwedy clybot o arthur hynny. mynet aoruc ynteu hyt nos y eu ragot yr fford y delynt trannoeth. A gwedy y dyuot yno llunyaeuethu ywyr a oruc trwy naw bydin. a wegwyr a hweugein a wechant a wemil ym pop bydin. a doddi leg o wyr yg gwersyll erbyn pan vei reit wrthunt. *Dalen ar goll yma.* B.

<sup>374</sup> Ac y kymyrth brenhin midif y ar y varch ae dwyn ganthaw hyt y lle yd oed gorf bedwyr. Ac yno y vriaw oll yn drylleu man. B.

<sup>375</sup> A gwedy daruot idaw hynny kyrcu awnaeth ym plith y getymdeithon a gyrru grym ac angert yndunt hyny oed y ofyn yn vawr ar eugelynyon. Ac oe dysc ef ae angert kynryt grym awnaethant yndunt. A gwneuth' aerua diruawr y meint oe gelynyon. B.

<sup>376</sup> Ac o parth gwyr rufein y syrthwys elfiant vrenyn yspsen. A missippia vrenhi babilon a cwintus mulinus a mar senedwr ac nifer ygyt ac wynt yr hyn ny ellit riff anadunt. B.

<sup>377</sup> Ac o parth y brytanyeit y dygwydwys lodgra tywysawc bolwyn. A hotlinus tewysawc rotwyn. A chursalam o gaer geint a gwallawc o amwythic. ac uryen o gaer vadwm. B.

<sup>378</sup> Ac o achws hynny y gwanhawys y bydinoed yd oedynt yny llywyaw. A chilyaw frach eu keuen hyt ar vdydin yd oed hywel vab emyr llydaw a gwalchmei yny llywyaw. Aphan welas y gwyr hynny eu ketymdeithon yn kiliaw ennynnu awnaethant wynteu o lit ac angert megys flam o tan; a dwyn ruthor ym plith eu gelynyon. Ac annoc y ketymdeithon a oed yn kiliaw a chymell ar ffio y gwyr acoed yny hymlit gan eu bwrw ae briwyaw ae llad. Ac ny orffowyswys gwalchmei ac wynt hyny doeth ar vdydin yr amherawdyr. B.

<sup>379</sup> Ac yna y dygwydwys o parth y brytanyeit kynuarch tywysawc tringer a dwy vil ygyt ac ef. B.

<sup>380</sup> Ac yna gwedy gwelet o hywel a gwalchmei eu gelynyon nat oed well gwyr noc wynt. Ac aerua gymeint a honno oe eu ketymdeithon: kymryt angert o newyd yndunt y ymlad a bydin yr amherawdyr o pob tu idi megys llucheit yn llad a gefarfei a hwynt. Ac yn bwrw rei ac yn llad ereill gan annoc eu kedymdeithon. B.

<sup>381</sup> Ac ar hynny yd ymgauas gwalchmei ar amherawdyr yr hyn yd oed yny damunaw. Ac nyt oed dim well ynteu gan yr amherawdyr noc ymgaffel a marchawc kystal a gwalchmei y gymell anraw dangos peth a allei y milwryaeth. kan clywsei nat oed rarchawc well no gwalchmei. Ac ymerbyneit awnaethant yn drut ac yn galet ac yn gadarn mal na welat rwg deu wilwr ymlad agyffyllypei idaw. Ac ar hynny eisoes tewhan aoruc gwyr rufein am eu pen mal y bu reit y wyr llydaw gilyaw tracheuen ar arthur ae vedin. B.

<sup>382</sup> A phan welas arthur yr aerua ydoeddit yny wneuthur oe wyr. kyrcu aoruc y elynyon gan annoc y wyr y ny wed hon. Py beth awnewchwi wyr. Paha y gedwchwi y gweigawl wyr hyn y genwch. Koffewch awch deuodeu y rei a darestyngawd deg teyrnas arugein wrth yr arglwydiath i. Koffewch yeh rieni y rei awnaethant wyr rufein yn treth vduot pan oedynt gadarnach nor awr hon. Koffewch awch boned awch rydit yr hwn y mae yr haner gwyr hyn yn keisaw y dwyn y genwch. nac aet yr vn o nadunt y genwch yn yw. Nac aet. Ac ar hynny gwasaru eu elynyon ae bwrw ac eu llad aoruc. A pho awneynt wynteu radclaw ef. megys yffoiei anneauileit rac llew creulawn newenawc. Ny differi y aruen neb or a gyfarfei ac ef. B.

<sup>383</sup> A phan welas y brytanyeit eu brenhin yn ymlad yny wed honno. ymgynnullaw awnaethant wynteu yn eu bydinoed. A medillaw mynet tros wyr rufein. Ac eisoes gwrthwynebu yn wechyr aoruc gwyr rufein vduot. Ac o dysc lles eu hamherawdyr wynteu llauuryaw a thalu aerua elchwyl yr brytanyeit. A chymeint yu yna yr erua o pop parth achyt bei yr awr honno y dechreut yr ymlad. kans or neillparth yd oed yr arderchawc vrenhin arth' yn kyrcu ac yn llad y elynyon ac yn annoc y wyr ac or parth arall ydoed llei amherawdyr rufein y dyscu ywyr ynteu ac yny moli. ac ny orffwysei ynteu namyn ym pop koghol yr llu. kyrcu y elynyon ac eu bwrw ae llad. Ac yna o pop parth y bu aruth' aerua anawd y thraethu hyt nat oed awypei pydiw y damwheinei y vudugolyaeth. B.

<sup>384</sup> Ac val yd oedynt yn yr ymphust hwnnw nachaf morud tywysawc kaerloyw yr hwn adywespywt uchot y adaw yn gwesyllt yn kyrcu y elynyon yn deisyuyt. A lleg ordethol ganthaw o wyr aruawc. Ac yn

gyffym yn eu herchyruynu. Ac yn mynet drostunt. Ac yna y dygwydws llawer o vilioed onadunt. Ac ym plith y bydinoed y gwant yn a chledyf lles amherawdyr rufein. Ac or dyrnawt hwnnw yndiannot y bu varw. Ac ny dyweit y llyuwr pwy ac lladawd. A chyt bei trwy diruawr lauwr a goiut: y brytanyeit a ganas y vudugolyaeth. Ac yna y gwascarwys gwyr rufein yr koedyt ac yr mynyded. ac yr keystyll pawb val y dyceei y tyghetuen. y geisaw nawd ac amdiffyn. Ac eisoes eu hylmit awnaeth y brytanyeit. ac eu daly ac eu llad. ac ereill o nadunt oc eu bod a amrodasant yn garcharogynt. A hynny awnaethpwynt o vrawt dwydwawl trugared kanyb en ryeni wynteu yn enwir engriawl awnaethant gyt yntrethawl vduant y brytanyeit yr hyn yd oedynt wynteu yno heuyt yny geisaw oc eu holl ynni. B.

<sup>585</sup> A gwedy gwasattau hynny. erchi a oruc arth' gwahanu corffoered y wyr y wrth eu gelynyon. Ac eu kyweiryaw o vrenhinawl arwlytant. Ac eu hanuon yr manachlogoed a vei ansodedic yny gwlaoded ydy hanfei pawb o nadunt. Ac yna yd anuonet corff bedwyr hyt ym peitaw. Ac yny vynyent ysyd or parth deheu yr dinas gerllaw y gaer y cladwyt yn enrydedus. A chorff kei aducpwynt hyt yr angiv. Ac y mywn manachloc meudwyyr a oed y mywn forest geirllaw kastell ydcanwm y cladwyt yn anrydedus. Hodlinus tywyssawc rwythin a ducpwynt y dinas tyrnau yn flandrus ac yno y cladwyt ygywyrda ereill lladedigyon ierill a barwyneit a marchogyon urdawl a ducpwynt yr manachlogoed nessaf y eu eladu yn anrydedus. Ac ygyt a hynny owarder trugared arthur yd erchis eladu corffoered eu gelynyon yn llwyr. Ac anuon korff lles amherawdyr y rufein. Ac erchi menegi vduant na dylieit ef talu teyrnaget vduant yny prydein amgen no honno. B.

<sup>586</sup> Ac yno y trigwys arth' y gayaf hwnnw. Ac y darystygwys teyrnasoed bwrgrwin idaw. A phan yttoed yr haf rac wyneb yn dyuot. Ac arth' yn eseynu mynyded mynheu wrth vynet y orescyn rufein. nachaf genhaden o ynys prydein yn menegi idaw bot medrawt y nei val y chwaer gwedy rywisawc coron ynys pdein trwy greulonder a brat. A rygysu can wenhwyar vrenhines gan lygru kyfreith dwydwawl y neithoure. B.

<sup>587</sup> Ac wrth hynny ynchoelut awnaeth arth' tracheu. Ac ellwg hwel vab embyr llydaw y tagnouedur y gwlaoded hynny a llu freine gantaw. A chychwyn a oruc ynteu a gwyr yr ynyssoed gyt ac of parth ac ynys prydein. B.

<sup>588</sup> Ac neur daroed yr bradwr yscymun gan vedrawt anuon selinx tewyssawc y saesson hyt yn germania y wawd y nifer mwyaf a allei y gaffell hyt yn ynys pdein yn porth idaw gan rodi vduant or tu traw y humur oll. Ac ychwanec y hynny yr hyn a rodassei wrethryn gwrtheneu y hors a hengist yn swyd geint. A gwedy kadamhau yr amot hwnnw y ryduent. y doeth y tywyssawc hwnnw ac wythcant llong yn llawn o varchogyon paganyeit aruawc gantaw. A gwrhau y vedrawt megis y vrenhin. Ac yn achwanec y hynny neur daroed yr yscotteit ar ffichteit ar gwylidyl duunaw ac ef yn erbyn arth' y ewythy. Sef oed erif y llu rwg kristynogyon a phaganyeit petwar vgein mil. B.

<sup>589</sup> Ac o hynny o niuer gantaw y doeth yn erbyn arthur hyt yg glan y mor y porth hamo. A rodi brwydyr idaw yn dyuot oc llogheu yr tir. A yna y dagwydassant. arawn vab kynuarch vrenhin yr yscotteit. a gwalmchei vab gwyr nei arthur. Ac ar nyt oed hawd oc rifaw y gyt ac wynt. Ac yn lle arawn vab kynuarch y dodet ywein vab vren yn vrenhin. gwyr a nu glotauwr gwedy hynny yn llawer o volyanneu. Ac eisoes kyt bei trw diruawr lafur: arthur ae lu a ganas y tir. A gwedy llad llawer o nadunt. kymell medrawt i lu ar ffo. A chyt bei mwy o lawer niuer medrawt. eisoes trwy dysc gwastat a fenydyawl aruer ar ymladeu doethach oed niuer arth' nor lleill. Ac wrth hynny y bu reit vedrawt kymryt oc ffo ef a lu. Ac yny lle eisoes ymgynnullaw awnaethant ar vedrawt y ffoedigyon o pop man. A chyrcu hyt nos y gaer wynt a chydarnhau y dinas yn eu kylch. B.

<sup>590</sup> A phan doeth y chwedlu hynny ar wenhwyar vrenhines. Sef awnaeth hitheu anobeithau yn vavr. a mynet o gaer efrawc hyt yg kaer lliion ar wysc. Ac ymroi yn vynaches yn mynachloc Iulius verthyr a oed yno. Ac yno y bu hyt agheu. B.

<sup>591</sup> Ac ym pen y tryded dyd gwedy eladu y lladedigyon kychwyn awnaeth arth' am pen kaer wynt yn flamychedic o lit am rygolli kymeint oc lu a hynny y gan vedrawt ae lu. A phan wybu vedrawt eu bot ygghylech y dinas bydinaw awnaeth ynteu gan anuoc y getymdeithon ac eu molli am eu dewred. achyrcu allan y rodi kat ar vaes yw ewythy. Agwedy dechreu y vrwydyr honno diruawr aerau y las o pop parth. Ac eisoes mwyaf y las parth medrawt. Ac or diwed kymell arnaw adaw y maes a ffo yndybryt. Ac ny handywys arthur yna goir wrth gladu y cylanan o achaws rydiane y bratwr y gantaw y sawl weith hynny. Namyn gan diruawr vrys kymryt y lynt parth a chernywn hyny deuth hyt ar auon gantaw y lle yd oed vedrawt yny haros gan veddylaw o honaw bot yn tegach idaw y lad yna neu ynteu a orffei no ffo yn gywilydus o le y le. a vei hwy no hynny. Ac yd oed gantaw oc lu ettwa chwe gwyr a whechant a thriugeint mil. Ac o hynny y gwnaeth wech bydin a wegwyr a weugein a wechant a wemil ym pop vn o hynny a thywysogyon ar pop vn o nadunt. Ac or hyn nyt aeth yny bydinoed y gwnaeth lleg ordethol y gyt ac ef ehun. A gwedy daruot idaw llunyaethu y vydinoed yny wed hono adaw awnaeth y pawb o nadunt os ef a orffei medyant mawr eur ac aryant meirch ac enryded a cyuoeth. Ac erchi vduant o vn vryt ymlad ygyt ac ef. B.

<sup>592</sup> Ac or parth arall gossot awnaet arthur y lu ynteu trwy naw bydin. Athywyssogyon doeth neilltudeidic ar pop rei o nadunt. Ac anuoc y pawb awnaeth ynteu llad y pyganyeit yscymun a dugassei y bratwr yscymunedic gan vedrawt attaw. y geissyaw digyuoethi y ewythy. Ac ychwanegu y ymadrawd a oruc yny wed honn. wrth y llu a welwchi racco yn awch erbyn o amruayalon ynyssoed yd henyt. Ac aghyfrwys ynt y ymlad. Ac wrth hynny ny allant wrthwynebu iwch na seuyll ych erbyn. A gwedy danot vduant anuoc eu llued o pop parth. A hyt pan yttoed y rei buw yn ynyuod gan gwynuan y rei meirw mal yd oed truan ac irat a dolurus yserienu. kanyb o pop parth y bratheit y gwyr. ac y brethit wynteu. Ac y lladei y gwyr. ac y lledit wynteu. B.

<sup>593</sup> Agwedy treulaw llawer or dyd yny wed honno kyrc awnaeth arthur ac vydin megys llew dywal newawe y vidi y gwadat bot y bratwr twyllwr gan vedrawt eseynu. Ac agori ffyrd ar gledyfen udunt. A gwnethur aerau arnugarawc o nadunt. Ac ar yr rath' honno y llas y bratwr twyllwr gan vedrawt. a llawer o vilioed ygyt ac ef. Ac yr hynny eisoes ny ffocs y rei ereill. Namyn kynhal eu brwydyr galettaf or a vu erioet yn ynys prydein na chynt na chwedly. hyt pan dygwydassant yr holl tywyssogyon o pop parth ac wynt ac eu bydinoed. Ac o parth medrawt y llas cheldric. ac elaes. ac edbrich. a humys. tywyssogyon y saesson. Gillamwri. a gillaphadric. a gilasar. a gilari o gwylidyl. yr yscotteit ar y ffichteit oc eu holl niuer hayach alas. Ac o parth arthur y llas etbric brenhin llychlyn. ac ebel brenhin denmarc. a chadwr llemenic. a chasswallawn a llawer o vilioed y gy ac wynt y rwg y brytanyeit a chenedloed ereill. Ac ygyt a hynny heuyt yr arderchawc vrenhin arthur a vrathwynt yn agheawl. ac y dupwyt hyt yn ynys aualach. y iachau y welioed. Ac ny dyweyt y llyfyr ymdanaw a no hispissach no hynny. Coron teyrnas ynys pdein a gymynnwys arth' y gustenin vab kadwr y gaer hun yn agos. A sef amser oed hwnnw dwy vlyned a deugent a phump cant gwedy geni mab duw or arglwydes veir vorwyn. y gwrn pnawd ni yr y waet. B.

<sup>594</sup> A gwedy gwneuthur custenin yn vrenhin. y kyuodes y saesson a deu vab vedrawt gantunt y vynnudaly nny erbyn. Ac ny dygrynoes vdunt. Ar neill o veibon medrawt a gauas custenin yn llundein, ar llall ygkaer wynt. Ac y lladawd trwy greulawn agheu eldeu. B.

<sup>595</sup> Ac yn yr amser hwnnw y doeth deinyol sant y orffowis or byt hwn. Ac yna yd etholet theon escob kaer loyw yn archescop yn llundein. Ac yn yr amser hwnnw yd aeth dewi y gwynnydedic archescob kaer lliou ar wyse or byt hwn y orfowys. Ac y mynyw y mywn manachloc aseiliasei ehun y cladwyd, kans padric adaroganasei y lle hwnnw idaw ef. kyn noe eni. Ac yna yd etholet kynawe escob llan padarn yn archescob yg kaer lliou ar wyse nny le ynteu. B.

<sup>596</sup> Ac erlit y saeson awnaeth custenin megys y dywespywt uchot. ar neill mab y vedrawt a ordiawad yg kaer wynt gwedy y ryffo hyt yn eglwys amphibalus. Ac yno rac bron yr allawr y lladawd. ar llall a gauas yn llundein y mywn manachloc a oed yno. ac yno rac bron yr allawr y llas. Ac odyna ym pen y tryded vlwydyn y llas custenin y gan gynan wledic. Ac y cladwyd yg bkwr y kewri geirllaw uth' pendragon yn emyl salisberi. B.

<sup>597</sup> Ac yn nesaf y gustenin y doet kyanan wledic yn vrenhin nei y custenbin. Gwas ieuanc a oed hwnnw enryued y volyant ac dewrad ae daeoni. A hwnnw a gauas llywodraeth yr holl ynys. A theilwg oed ynteu y hynny. pei na chareit teruyse yn ormod y rwg y kiwtawyr ehun. Ac ewythyr idaw heuyt yr hwn a dylcei wledychu gwedy custenin a ryuelwys arnaw ac ae delis. Ac ae dodes yg karchar. A gwedy llad y deu vab y kymeth ehun llywodraeth yteyrnas. Ac yn yr eil vlwydyn oe vrenhynyaeth y bu vawr. B.

<sup>598</sup> Ac yn nesaf y gynan wledic y doeth gwertheuyr yn vrenhin. Ac yn erbyn hwnnw y kyuodes y saeson. a dwyn eu kenedyl attunt ogermania. Ac eisoes gwedy kreulawn ymlad. goruot awnaeth gwertheuyr arnadunt. A chymryt llewodraeth y teyrnas nny law ehun. A pheider blyned gan hedwch y kyuhelis. B.

<sup>599</sup> Ac yn nesaf y hwnnw y doeth maelgwn gwyned yn vrenhin yn ynys pdein oll. Ac ar vu kyn noc ef tekaf gwas oed vaelgwn. kywarsagawdyr a diwreidwr vu ynteu ar lawer o greulonyon vrenhined. kadarn a dewr oed y vilwryaeth. lael oed am rodyon. Ac ar vu geir: eglurach oed no neb pei nat ymsolei ym pechawt sodoma. Ac o achaws hynny y bu gas gan duw ef. Maelgwn eisoes a gauas coron yteyrnas yn llywodraeth. Ac y gyt a hynny: ef a orescynwys ywhech ynys yn gyntaf brenhin gwedy arth' wrth coron teyrnas ynys pdein. Sef oedynt iwerton. Ac ysrlont. A gotlont. Ac orc. A llychlyn. A denmarc. A rei hynny trwy greulonyon ymladeu y darystygwys. Ac or diwed yd aeth y mywn eglwysa geir llaw y gastell ehun. yn deganhwy. Ac yno y bu varw. B.

<sup>600</sup> Ac yn nesaf y vaelgwn y doeth keredic yn vrenhin Gwr oed hwnnw agarei teruyse ac annundeub yn ormod y rwg y kiwtawyr ehun. Ac wrth hynny y bu gas ynteu gan duw. a chan yteyrnas. A gwedy gywybot or saeson y anwastatryd ef. Anuon awnaethant ar gotmwnt vrenhin yr affric hyt yn iwerdon. adothoed a llygher diruawr gantaw y werescyn iwerdon. B.

<sup>601</sup> Ac yna trwy vrat y saesson y doeth gotmwnt yr alban yr tir. A thrugein llong a chant llong gantaw. yny ran bonno yd oedynt y saesson. twyllwyr heb vedyd arnadunt. Ac yn y ran arall yd oed priawt genedyl yr ynys. A theruyse ac annundeub y redunt. Agwedy duunaw y saesson a gotmwnt. ymlad awnaethant. a cheredic vrenhin. Agwedy ffo keredic y erlit o dinas pwy gilyd hyt yn circestir. B.

<sup>602</sup> Ac yna y doeth ymbret nei y lewis vrenhin freinc. A gwrhau y gotmwnt gan ammot y ganborthydw ynteu or gotmwnt hwnnw wrth werescyn teyrnas freinc ar tor y ewythyr. kany herwyd y kadarnhai ef yn aghefreithawl yr list deholissit ef y ymdeith ohono. Ac or diwed gwedy kaffel y dinasae losci: ymlad. kat ar vaes awnaethant. A cheredic vrenhin. Ae gymhell ar ffo trwy hafren llyt yg kymry. Ac ny orffowyswys gotmwnt yna oe dechreudic illonod o lad a losci y dinassoed ar kestyll ar treunydyd wlat. hyny daru idaw dileu holl wyneb y teyrnas hayach or mor y gilyd o yscolheigon a llyggon heb trugared o flam a chledyf a distrywei hyt y prid. Ar hyn a diaghei or truan aerua honno a ffyont y ynnyalwch y geissiw amdiffynt eu heneiteu. B.

<sup>603</sup> Fy both genedyl lese gywarsagedic o diruawr gorthrwm. puner pechawt a syberwyd y rei a uydent gynt yn wastat yn sychettoacau gwaet ac annundeub a teruyse rwg en kiwtawtyr e hun. y velly genedyl truan ynys prydein y gweneheist ti. kany tithew kyn nohyn a gymelleist kynedloed y teyrnassoed pell y wrthyth y darestwg it. Ac weithon megys gwinllan yd wyt tithew gwedy rymchoelut yn werwed. A cheithwet hyt na elly bellach amdiffyn dy wlat o law dy elynyon. Ac wr hynny truan seberw genedyl. kymr dy peny. ac ednebyd y geir a dweyt yr arglwyd yn yr yvigil pop ty teyrnas ar hanher ac awahaner yndi ehun. a distrywir ac a diffeithir ar ty a syrth ar y gilyd. Ac wrth hynny kany ymlad ac awaundeub y giwdawt e hun. A mwc teruyse a chyghoruynt a tywyllwys dy vryt ti. kany ty syberwyt ti ny mynwys ufydhau y vn brenhin. wrth hynny y gwely tithew y creulonaf paganeit yn distryw dy wlat. Ac yn bwrw y tei ar tor y gilyd. yr hyn a wyl dy etued ti hyt dyd brawt. kany wynyt a welant estronyon genedloed yn medu eu tei. ar kestyll ar dinassoed. athref eu tat. o rei ymaent deholedic. y rei onyt duw ae peir ny allant en kynydu byth tracheuen. B.

<sup>604</sup> Agwedy dauot yr creulawn yseymunedic hwnnw a gwyr yr affric ygaf ac ef anreithaw yr ynys ae llad ae losci or mor y gilyd megys y dywespywt vchot i y rodes loegyrr yr saesson a vo distryw o nadunt arneit. kany trwy eu brat wy yr dothoed gotmwnt yr ynys. Ac wrth hynny kilhwys atlybin y brytanyeit y emyleu yr ynys y gynry a cherynw. A gwneuthur mynych ryuel o dyno am pen eu gyllynon. B.

<sup>605</sup> Ac yna gwedy gwelet o teon archescob llundein. ac archescob kaer efrawe yr eglwysseu ar keneuinoed dwydwawl ae gwasanaethen gwedy en distryw hyt y dayar. Sef awnaethant kymryt eseyrn y seint a ffo ac wynt yr lleod diffeithaf a gawssant yn ynnyalwch eryri. rac ofyn eu distryw yn gwbyl or yseymun dinyded saesson y sawl ar erif o eseyrn seint e hentadeu aoad gantunt. A rac kolli hynny ot ymrodynt wynteu oe bod ymertheroiaeth. Ac ereill onadunt yn llongeu hyt yn llydaw. Ac aruyder yr holl eglwysseu or a oedynt nny dwy archescobawt llundein a chaer efrawe. A edewit yn diffeith. B.

<sup>606</sup> Ac yna trwy lawer o amser y colles y brytanyeit coron ynys pdein ae theilygtawt. Ar hyn a trigassei gantunt wynteu or ynys nyt y dan vn brenhin creulawn yd oed darystygedic gan vnych ymanreithaw. Ac yr hynny henyt ny chauas y saesson y goron. namyn daly dan dri brenhin aorugant. B.

<sup>607</sup> Ac yn yr amser hwnnw yd anones Giryol pap austin y pregethu yr saesson hyt yn ynys prydein. kany y ran yd oedynt or ynys. yr daroed dileu cristonogyaeth o honei yn gwbyl. A chan y brytanyeit ydoed ffyd gatholic didramgywd yr yn oes leuterius pap. B.

<sup>608</sup> A gwedy dyuot austin: y kauas seith escobawt yn gyflawn o preladaeyt credyfus. a manachlogoed lawer nny rei yd oedynt keneuinoed dydwawl yn talu dydwawl wassanaeth herwyd eu hurdas y duw. Ac ymplyth y manachlogoed hynny yd oed vanachloc arbenic yndinas bangor y maelawr. Ac nny vanachloc honno y dywedit bot yngymmeint erif y chwuent o veneich. a gwedy ranhet yn seith ran. y bydei trychant manach ympon ran heb eu pryoret ae awdywyr. A hynny oll yn ymborth o laur y dwylaw. Sef oed enw eu habat dunawt. Gwr enryued y ethrylith ae dysc nny keluedodeu. B.

<sup>609</sup> Ac yna y keisswys austin gan yr escob darestwg wrt gytlauriaw ac ef wrth pregethu yr saesson drwc. Ac yna y dangosoes dunaw trwy amryuallon awdurdodedu yr ysyrth lan hyt na dyllynt wy pregethu eu fyth wy y eu gelynyon kanya archescob a oed udunt ehuneit. A chenedyl y saesson yn ormes arnadunt. Ac wrth hynny na mynhyt na prygethu yr saesson. na chedymdeithas ac wynt na chyffrannu eu fydd ac wynt mwy noc a chwn. B.

<sup>610</sup> A gwedy gwelet o edelbert brenhin keint y bryttanyeit yn ymwrthot a phregethu yr saesson ygyt ac austin. Sef awnaeth ynteu blyghau. Ac anuon hyt ar edelfet brenhin y gogle. ac ar y brenhined ereill or saesson. y erchi vdunt luydyaw am pen dinas bangor y gyf ac ef. ydial ar dunawt ac ar yr ysgolhegon. A tremygassei awstin. ac pregeth yr saesson. A gwedy kynnullaw diruawr lu o nadunt. dyuot awnaethant ar llu hwnnw gantunt hyt yg kaer leon y lle ydoed brochuael yscithraw yn eu herbyn. Ac yno yr dothoedynt y meneich a chredyfwyr o pop manachloc or aoad ynteyrnas y brytanyeit. Ac yn vwyaf oll o dinas bangor y wediaw ar duw gyf ac kenedyl. Ac yna gwedy ymgynnullaw y lluoed o pop parth: dechreu ymlad awnaethant ysaesson ar brytanyeit. Ac or diwed y bu reit y brochuael adaw ymaes ar dinas. Ac eissoes nyt heb wneuth' diruawr aerna oe eilynyn. B.

<sup>611</sup> A gwedy kaffel o edelfet y dinas. A gwybot yr achaws yr dothoedynt yno y sawl gredyfwyr hynny ymchoelut y arueu awnaeth nny credyfwyr. Ac ynyr vn dyd hwnnw gan goron mertherolyaeth yd ellygyt y wlat nef deucanwr a mil o veneich. B.

<sup>612</sup> Ac odynd megys yd oed y creulawn hwnnw ar saesson y gyf ac ef yn kyrcu dinas bangor. Gwedy clybot or brytanyeit y greulonder: ymgynnullaw awnaethant holl tywysogyon hyt yn mangor. Ac yna y doeth bledrys tewyssawc kernyw. A naredued vrenhin dyuet. katuan vrenhin gwyned. Mab oed hwnnw y iago vab beli vab enyawn vab maelgwn gwyned. A gwedy dechreu y vrwydry honno: drut a chalet ac aruth vu yr aerna o pop parth. Ac eissoes trwy drugared duw y goruau y brytanyeit. Ac y brawyt edelfet. ac y kymellwyt ar ffo. adiangassei oy lu ef. Ac heuyt y llas hwech a thriugeint adegmil oe vwr. Ac y dygwydrys bledrys tywysawc kernyw o parth y brytanyeit. B.

<sup>613</sup> A gwedy hynny tywysogyon y brytanyeit a ymkynnullasant hyt ygkaer leon. ac o kytygghor yna yd urdwyt katuan vab iago yn vrenhin arnadunt. Ac yna wedy gwisawc o honaw coron y teyrnas y kymellawd edelfet trwy humyr. Yna yr ymkynnullws yr holl vrytanyeit yn borth i katuan. a chyrcu trwy humyr gan erlit edelfet. Gwedy gwelet o edelfet hynny. sef aoric kynnull attaw yr holl saeson. a bydinaw yn erbyn y brytanyeit. B.

<sup>614</sup> A gwedy bot y deu lu yn barawt y gyrcu y gilyd. sef y tagnouedwyt rwg katuan ac edelfet kan kytymdeithon. kan rodi y parth traw y humyr y edelfet. ac adaw llyoegr a chernyw a chymru yn medyant katuan ygyt a choron y deyrnas. B.

<sup>615</sup> A thra yttoedynt ewelly yn kynhal tagnoued a chytymdeithas. sef awnaeth edelfet ymwrthawt ac wraic briawt. ac o herwyd y kas oed ganthaw wrthi y dehol aoric oc y kyuoeth. Ac yna kan vot eisoes yn veichaw. sef y kyrcuawd y wreic hyt at katuan y geisaw porth mal y gallei odynd kymodi ac edelfet. ac ny thgywys hynny idi. sef awnaeth hitheu yna trigraw yn llys katuan. hyt pan eskorei oc y beich-ogi. B.

<sup>616</sup> Ac yn yr amser hwnnw y ganet heuyt mab y katuan oc ei vrenhines. Ac yna y rodet y meibon hynny ar vaeth ygyt yn ol y deuawt y dylvei brenhinaw etived. Sef oed enweu y meibon. nyt amgen mab katvan aelwyt katwallawn. ac etwin oed enw y llall. Ac yna pan yttoedynt weisyon ieueinc y rodet wynt ar selyf brenin llydaw. er dyacu udunt. mal y dyseynt yno moessa ac arueu. B.

<sup>617</sup> A selyf a aruolles y meibion yn llawen ac yn anrydedus. ac ymphen yspeit o amser y tyfawd gan selyf y meint kariat udunt hyt nat oed nep yn y ryw gymdeithas ac ef. ar gweisyon hynny ympob achaws a daghosynt y dewrad ac eu kampeu molyannus hyt y kerdrws eu klot tros y gwlaoded. B.

ogonyant a chlot y llihdredic vyf yma a gwedy gogonedusson uudugolyaethau ac enryded o oluodod.<sup>1</sup> a gwedy ef y g6ledych-a6d Gwilym Goch y uab. ac yna y g6rth-lad6yt Rys uab Te6d6r oe gyfoeth ae teyrnas y gan veibon Bledyn uab Kynuyn nyt amgen Mada6c a Chad6ga6n a Ridit. ac ynteu a gilya6d y Iwerdon. ac yn y lle gwedy hynny y kynhulla6d llyges ac y ymchoela6d drachefyn. ac yna y bu vr6ydyr Llych Crei.<sup>2</sup> ac y llas meibon Bledyn. ac y rodes Rys ab Te6d6r diruawr yn holl ynys Prydein. ac yna y bu uar6 Sulyen escob Myny6 y doethaf or Brytanyeit ac ardercha6c o grefydu fuched. Wedy clotuorussaf dyscedigaeth y disgyblon a chraffaf dysc y pl6fyd y petwar ugeinuet vl6ydyn oe oes. ar unuet eisseu o ugein oe gyssegredigaeth nos galan Iona6r. Ac yna y torret Myny6 y gan genedyl yr ynyssed. ac y bu uar6 Keduor uab Goll6yn. a Llywelyn y uab ac vrodyr a waha6dyssant Ruffud uab Maredud. ac yn y erbyn yd ymladawd Rys ab Te6d6r. ac ae gyrra6d ar ffo. ac yn y diwed y llada6d. Deg mlyned a phetwar ugein a mil oed oet Crist pan las Rys ab Te6d6r brenhin Deheubarth y gan y Ffreinc a oed yn press6yla6 Brecheina6c. ac yna y dyg6yda6d teyrnas y Brytanyeit. Ac yna yd yspella6d Kad6ga6n uab Bledyn Dyuet yr eildyd o Vei. ac o dyna deuwis wedy hynny amgylch calan Gorffena y deuth y Ffreinc y Dyuet. a Cheredyga6n y rei ae kynhallasant etwa. ac y gadarnhaysant y kestyl, a holl tir y Brytanyeit a achubasant. Ac yna y llas y Moel C6l6m ab D6ncha6th brenhin y Pictait ar Alban-yeit y gan y Ffreinc. ac Edward y uab. ac yna y g6edia6d Margaret urenhines g6reic y Moel C6l6m ar Du6 dr6y ymdiret ynda6 g6edy clybot llad y g6r ac mab hyt na bei vy6 hi yn y var6a6l vuched yma. a g6randaw aoruc Du6 y g6edi kanyr erbyn y seithuet dyd y bu uar6. Ac yna yd aeth Gwilim Goch<sup>3</sup> yr hwnn kyntaf a oruu ar y Saeson o glotuorussaf ryfel hyt yn Normandi y gad6 ac y am diffyn teyrnas Ropert yvra6t yr h6nn a athoed hyt yg Kaerusalem y ymlad ar Sarasinyeit a chenedloed ereill agkyfyeth ac y amdifyn y Cristonogyon. ac y haedu m6y o gлот.

<sup>1</sup> Rhwng Gronw a Llywelyn meibon. MS. Ll.

<sup>2</sup> Doethion. MS. Ll.

<sup>1</sup> Ef a gladwyd yn nhref lan yn Normandi. MS. Ll.

<sup>2</sup> Llechryd. D. P.

<sup>3</sup> Brenhin y Brytanieid. MS. Ll.

A Gŵilim yn trigyaŵ yn Normandi y gŵrthladaŵd y Brytanyeit lywodraeth y Ffreinc heb allel godef eu creulonder. a thorri y kestyl yŵ Gŵyned. a mynychu anreithaŵ<sup>1</sup> a lladaueu arnunt. ac yna y duc y Ffreinc luoed hyt yŵ Gŵyned. ac kyuerbynyeit a oruc Kadŵgaŵn uab Bledyn. ac kyrchu a goruot arnunt. ac gyrru ar ffŵ ae llad o diruaŵr ladua. ar vrŵdyr honno a ŵnaethpŵyt yŵ koet Yspŵys. ac yn diwed y vlŵdydyn honno y torres y Brytanyeit holl gestyll Keredigyaŵn a Dyuet eithyr deu nyt amgen Penuro a Ryt y Gors. ar bobyl a holl anifeileit Dyuet a dugant arnunt. ac adaw a wnaethant Dyfet a Cheredigyaŵn yn diffeith. Y vlŵdydyn rac ŵyneb y diffeithaŵd y Ffreinc Gŵhyr a Chedweli ac ystrat Tywi. ac y trigyaŵd y gŵladoed yn diffeith. a hanher y cynhaeaf y kyffroes Gŵilim vrenhin lu yn erbyn y Brytanyeit. a gŵedy kymryt or Brytanyeit eu hamdiffyn yn y coetyd ar glynned yd ymchoelaŵd Gwilim adref yn orŵac heb ennill dim. Y vlŵdydyn rac wyneb y bu uarŵ Gwilim uab Baldwin yr hŵnn a rŵndwalaŵd gastell Ryt y Gors. ac yna y 'gŵrthladaŵd Brytanyeit Brecheinaŵc a Gŵent a Gŵenllŵc arglŵydiaeth y Ffreinc. ac yna y kyffroes y Ffreinc lu y Went. ac yn orŵac heb ennill dim yd ymchoelassant. ac y llas yn ymchoelut drachefyn y gan y Brytanyeit yn y lle a elwir Kelli Carnant. Gŵedy hynny y Ffreinc a gyffroassant lu y Brytanyeit. a medyliaŵ diffeithaŵ yr holl wlat heb<sup>2</sup> allu euplau eu medŵl yn ymchoelut drachefyn y llas gan veibon Idnerth ab Cadŵgaŵn Gruffud ac Iuor yn y lle a elwir Aber Llech. ar kiŵdaŵtŵyr a drigyassat yn eu tei yn diodef yn diofyn yr bot y kestyl etwa yn gyfan ar kastellwyr yndunt. Yn y vlŵdydyn honno y kyrchaŵd Uchtrut uab Etwin a Howel uab Goronŵ a llawer o bennaethu ereill gyt ac ŵynt. ac ymlad a deulu Kadŵgaŵn o deulu Kadŵgaŵn uab Bledyn y gastell Penuro ac hyspeilaŵ oe holl anifeileit a diffeithaŵ yr holl wlat. a chyt a diruaŵr anrhaith yd ymchoelassant adref. y vlŵdydyn rac ŵyneb y diffeithaŵd Geralt ystiwart yr hŵnn y gorchymynnassit idaŵ ystiŵardaeth kastell Penuro teruynneu Mynyŵ. ac yna yr eilweith y kyffroes Gŵilim vrenhin Lloger aneiryf o luoed a diruaŵr uedyant a gallu yn erbyn y Brytanyeit. ac yna y gochelaŵd y Brytanyeit eu cynrŵŵf wynt heb obeithaŵ yndunt e hunein namyn gan ossot gobeith yn Duw creaŵdyr pob peth drŵy ymprydiaŵ a gŵediaŵ a rodi

cardodeu a chymryt garŵ bennyt ar eu kyrff. Kan ny leuassei y Ffreinc kyrchu y creigeu ar coedyd. namyn gŵibyaŵ yŵ gŵastadyon veussyd. yn y diwed yn orŵac yd ymchoelassant adref heb ennill dim. ar Brytanyeit yn hyfryt digrynedic a ymdiffynnassant eu gŵlat. Y vlŵdydyn rac ŵyneb y kyffroes y Ffreinc luoed y dryded weith yn erbyn Gŵyned a deu dywyssaŵc yn eu blaen a Hu<sup>1</sup> Iarll Amŵythic yn bennaf arnunt. a phebylliaŵ a orugant yn erbyn ynys Von. ar Brytanyeit gŵedy kilyaŵ yr lleoed kadarnaf udunt oe gnotaedic defaŵt ac a gaŵssant yn eu kyghor achubeit Mon. a gŵahaŵd attunt 6rth amdiffyn udunt llyghes ar uor o Iwerdon drŵy gymryt y rodyon ar gobreu y gan y Ffreinc a dŵugant y Ffrainc i Fon. ac yna yd edewis Kadŵgaŵn uab Bledyn a Gruffud uab Kynan ynys Von ac y kilyassant y Iwerdon rac ofyn tŵyll y gŵr e hunein. Ac yna y deuth y Ffreinc y mywn yr ynys. ac y lladassant rei o wyr yr ynys. ac ual yd oedynt yn trigyaŵ yno y deuth Magnus brenhin Germania a rei oe loegu gantaŵ hyt ym Mon drŵy obeithaŵ caffel gorescyn ar wlatoed y Brytanyeit. A gŵedy clybot o Vagnus brenhin<sup>2</sup> y Ffreinc yn mynych vedyliaŵ diffeithaŵ yr holl wlat ae dŵyn hyt ar dim dyfryssyaŵ a oruc y eu kyrchu. ac ual yd oedynt yn ymsaethu y neill rei or mor ar rei ereill or tir y brathŵyt Hu iarll yn y ŵyneb. ac o law y brenhin e hun yn y vrŵdyr y digŵydaŵd. ac yna yd edewis Magnus vrenhin drŵy deisyfyt kyghor teruynneu y wlat. A dŵyn a oruc y Ffreinc oll a maŵr a bychan hyt ar y Saeson. A gŵedy na allei y Gŵndyt godef kyfreithu a barneu a threis y Ffreinc arnunt. kyuodi a orugant cilweith yn eu herbyn. ac Owein uab Edwin yn dywysaŵc arnadunt y gŵr a dugassei y Ffreinc gyt y Von. Y vlŵdydyn gwedy hynny yd ymchoelaŵd Kadwagaŵn uab Bledyn a Gruffud uab Kynan o Iwerdon. A gwedy hedychu ar Ffreinc o nadunt ran or wlat a achubassant. Kadŵgaŵn uab Bledyn a gymerth Keredigyaŵn a chyfran o Bowys. a Gruffud a gavas Mon. ac yna y llas Llywelyn uab Kadŵgaŵn y gan wyr Brecheinaŵc. ac yd aeth Howel mab Ithel y Iwerdon. yn y vlŵdydyn honno y bu uarŵ Rythmarch doeth uab Sulyen escob y doethaf o doethyon y Brytanyeit y dryded vlŵdydyn a deugein oe oes y gŵr ny chyfodod yn yr ossoed cael y gyffelyb kyn noc ef. ac nyt haŵd credu na thebygu cael y gyfryŵ gŵedy

<sup>1</sup> Anrheitheu. MS. Ll.

<sup>2</sup> A heb MS. Ll.

<sup>1</sup> Huw.

<sup>2</sup> Frenhin.

ef. ac ni chaſſei dysc gan arall' eiryoet eithyr gan y dat e hun gŵedy adassaf enryded. y genedyl e hun. a gŵedy kloitorussaf ac atnebydussaf ganmaſl y gyfnessavyon genedloed nyt amgen Saeson a Ffreinc a chenedloed eraill or tu draſ y uor. a hynny drŵy gyffredin gŵynuan paſb yn dolryaſ eu callonneu y<sup>2</sup> bu uarſ. yn y vlŵydyn rac ſyneb y llas Gwilim Goch brenhin y Saeson yr hŵnn a gnaethpŵyt yn urehin gŵedy Gŵilim y dat. ac ual yd oed hŵnnŵ dydgŵeith yn hela gyt a Henri y braſt ieuaf idaſ. a rei oe marchogyon gyt ac ſynt y brathŵyt a saeth y gan Wallter Turel marchaſc idaſ oe anuod pan yttoed yn bŵrſ karſ y medraſd y brenhin ac ae lladaſd. a phan welas Henri y vraſt ynteu hynny gorchymyn a oruc corff y vraſt yr marchogyon a oed yn y lle. ac erchi udunt gwnenthur brenhinaſl arŵylant idaſ.<sup>3</sup> ac ynten a gerdaſd hyt yg Kaer wynt yn y lle yd oed Sŵllt y brenhin ae vrenhinolyn oluodod. ac achub y rei hynny a oruc. a galſattaſ holl tylŵyth y brenhin. a mynet odyne hyt yn Llundein ae gorescyn. yr honn y syd benhaf a choron ar holl vrenhinyaeth Loeger. ac yna kytreddassant ataſ Ffreinc a Saeson y gyt. ac o vrenhinaſl gor<sup>4</sup> y goſſodassant ef yn vrenhin yn Lloeger. ac yn y lle y kymerth ynteu yn wreic briaſt idaſ Vahallt uerch y Moel Cŵlſm brenhin Pryden<sup>5</sup> o Vargaret vrenhines y mam. A honno drŵy y phriodi a ansodes ef yn vrenhines. kanyſ Gwilim Goch y vraſt ef yn y vyŵyt a aruerassei o orderchadeu. ac 6rth hynny y buassei uraſ heb etiued. Ac yna yd ymchoelaſd Robert y braſt hynaf udunt yn uudugaſl o Gaerusalem. ac y bu uarſ Tomas archescob Kaer Efraſc. ac yn y ol ynteu ydenessaſd Gerrart a uassei escob yn Henfford kyn no hynny. ac ay derchafaſd Henri urehin ef. ar deilygdaſt a oed uch yn archescob yg Kaer Efraſc. ac yna y kymerth Anſel archescob Keint drachefyn y archescobaſt drŵy Henri urehin yr hŵnn a adaſſei yn amſer Gŵilim Goch vrenhin o achaſs enſired hŵnnŵ ae greu-londer. Kany welei ef hŵnnŵ yn gŵneuthur dim yn gyfyaſn o orchymmyneu Duſ. nac o lywodraeth urenhinaſl teilygdaſt. Blŵydyn gŵedy hynny y bu uarſ Hu Vras Iarll Kaer Llion ar Wyc. ac yn ol y dynessaſd Roger y uab kyt bei bychan y oet. ac eiſſoes y brenhin ae goſſodes yn

lle y dat o achaſs meint y carei y dat. Ac yn y vlŵydyn honno y bu uarſ Goronſ uab Cadŵgaſn ac Owein uab Gruffud. Can mlyned a mil oed oet Crist<sup>1</sup> pan uu agkyttundeſ rŵg Henri Vrenhin a Robert Iarll amŵythic ac Ernŵlf y uraſt gŵr a gauas Dyuet yn rann idaſ. ac a wnaeth Gastell Penuro yn uaſruryduſ. a phan gogleu y brenhin eu bot yn gŵneuthur tŵyll yn y erbyn megys y deuth y chŵedyl arnunt y galſaſd attaſ y wybot gwiryoned am hynny: ac ſynteu heb allel ymdiret yr brenhin a geiſſassant achaſs y vŵrſ escus. a gŵedy gŵybot o nadunt adnabot or brenhin eu tŵyll ac eu brat. ny beidassant ymdangos ger bron y gendrycholder ef. Achub a orugant eu kedernit a galſ porth o bob tu udunt. a gŵahaſd attunt y Brytanyeit a oedynt dareſtygedigyon udunt yn eu medyant. ac eu pennaetheu. nyt amgen Kadŵgaſn. Iorwerth a Mareud veibon Bledyn uab Kynuyn yn borth udunt. ac eu haruoll yn vaſrŵrydic enrydedus udunt a orugant. ac adaſ llawer o da udunt a rodi rodyon. a llawenhau y gŵlat o rydit. ac ygkyfrŵg hynny kadarnhau eu keſtyll ae kylchynu o ffoſſyd a muroed. a pharattoi llaſer o ymborth. a chynnullaſ marchogyon a rodi rodyon udunt. Robert a achubaſd pedwar casteli. nyt amgen Arŵndel. a Blif a Bryg ynbyn<sup>2</sup> yr hŵnn yd oed yr holl twyll yr hŵn a rŵndwalassei yn erbyn arch y brenhin. ac Amŵythic. Ernŵlf a achubaſd Penuro e hun. a gŵedy hynny kynnullaſ lluoed a orugant. a galſ y Brytanyeit y gyt a gŵneuthur yſclyfyaetheu. ac ymhoelut yn llawen adref. A phan yttoedit yn gŵneuthur y petheu hynny y medyliaſd Ernŵlf hedychu ar Gŵydyll ac erbynyeit nerth y gantunt. ac anuon a wnaeth kenadeu hyt yn Iwerdon. nyt amgen Geralt yſtiwart. a llawer o rei ereill y erchi merch Murtart<sup>3</sup> yn briaſd idaſ. a hynny a gauas yn haſd ar kenadeu a deuthant y eu gŵlat yn hyfryt. A Murtart a anuones y uerch a llawer o logeu aruaſc gyt a hi yn nerth idaw. A gŵedy ymdyrchael or Ieirll y myſn balchder o achaſs y petheu hynny. ac<sup>4</sup> ny chymerassant dim hedŵch y gan y brenhin. Ac yna y kynnullaſd Henri urehin llu bob ychydig. ac yn gyntaf kylchynaſd castell arŵndel drŵy ymlad a hi. ac odyne y kymerth castell Blif a hyt yg gastell Brug. ac ympell y 6rthaſ y pebyllyaſd. a

<sup>1</sup> Ddyn arall MS. Ll.

<sup>2</sup> Y am y. MS. Ll.

<sup>3</sup> Ac e a gladdwyd yn Nghaer Wynt. MS. Ll.

<sup>4</sup> Goron. MS. Ll.

<sup>5</sup> Pictreit. ib.

<sup>1</sup> Neu o bobtu hynny. MS. Ll.

<sup>2</sup> Yn erbyn MS. Ll.

<sup>3</sup> Urenhin.

<sup>4</sup> Om. MS. Ll.

chymryt kygor a oruc py vod y darestyghai ef y ieirll neu y lladei. neu y gôrthladei or holl deyrnas. Ac o hynny pennaf kyghor a gauas anuon kenadeu at y Brytanyeit ac yn wahanredaol at Iorwerth uab Bledyn. ae wahaôd. ae alô ger y uronn. ac adaô mgy idaô noc y gaffei y gan y ieirll. ar kyfran a berthneyi y gael o tir y Brytanyeit. Hynny a rodes y brenhin yn ryd y Iorwerth uab Bledyn tra vei vyô y brenhin heb tóng a heb tal. Sed oed hynny Powys a Cheredigyaôn a hanner Dyuet. kany y hanner arall a rodassit y uab Baldwin a Gôghyr a Chedweli. a gôedy mynet Iorwerth uab Bledyn y gastell y brenhin anuon a oruc y anreithaô cyfoeth Robert y arglôyd. ar anuonhedic lu hônô gan Iorwerth gan gyfleôni gorchymyn Iorwerth a anreithasant gyfoeth Robert y arglôyd drwy grîdeillaô pob peth y gantunt a diffeithaô y wlat a chynnullaô diruaôr anreith gantunt or wlat. kany y iarll kyn no hynny a orchymynassei rodi cret yr Brytanyeit heb debygu caffel gôrthôyneb y gantunt. ac anuon y holl hafodyd ae anifeileit ae oludoed y blith y Brytanyeit heb goffau y sarahedeu a gaôsei y Brytanyeit gynt. y gan Rosser y dat ef a Hu uraô y dat. a hynny oed gudyedic gan y Brytanyeit yn vyuyr. Kadôgaôn uab Bledyn a Mareud y uraô a oedynt etwa y gyt ar iarll heb ôybod dim o hynny. A gôedy clybot or iarll hynny anobeithaô a oruc a thebygu nat oed dim gallu gantaô o achaaô mynet Iorwerth y ôrthaô. kany pennaf oed hônô or Brytanyeit a mgyaf y allu. ac erchi kygreir a oruc ual y gallei y neill ae hedychu ar brenhin. ae adaô y deyrnas o gôbyl. Ygkyfrôg y petheu hynny yd athoed Ernôlf ae wyr yn erbyn y wreic ar llyges aruaôc a oed yn dyuot yn borth idaô. ac yn hynny y deuth Magnus brenhin Germania eilweith y Von. A gôedy torri llawer o wyd defnyd ymchoelut y Fanaô drachefyn. Ac yna herwyd y dywedir gônethur a oruc tri chastell. ae llenwi eilweith oe wyr e hun. yr rei a diffeithassei kyn no hynny. ac erchi merch Môrchath<sup>1</sup> oe uab. kany pennaf a oed hônô or Gôydyl a hynny a gauas yn llawen. a gossot a oruc ef y mab hônô yn vrenhin yn Manaô. ac yno y trigyaud y gaef hônô. A gôedy clybot o Robert Iarll hynny anuon kenadeu a oruc ar Uagnus. ac ny chauas dim oe negesseu. A gôedy<sup>2</sup> gwelet or iarll y vot yn warchaedic o bob parth idaô. keissau kennat a fford y gan y

brenhin y adaw y deyrnas. Ar brenhin ae kanhataôd. ac ynteu drôg adaô peth a vordôyaôd hyt yn Normandi. Ac yna yd anuones y brenhin at Ernôlf y erchi idaô un or deu peth ae adaô y deyrnas a mynet yn ol y uraô ae ynteu a delhei yn y ewyllys ef. A phan gîgleu Ernôlf hynny dewissaf uu gantaô vynet yn ol y uraô. a rodi y gastell<sup>1</sup> a oruc yr brenhin. ar brenhin a dodes gôercheitweit yndaô. Gôedy hynny hedychu a oruc Iorwerth ae vrôdyr a rannu y kyfoeth y rydynt. A gôedy ychydic o amser y delis Iorwoerth Varedud y uraô. ac y carcharaôd yg karchar y brenhin. A hedychu a wnaeth a Chadôgaôn y uraô. ac y rodi Cheredigyaôn a rann o Powys. Ac odyna mynet a wnaeth Iorwoerth at y brenhin. a thebygu yr brenhin cadô y edewit ôrthaô. ar brenhin heb gadô amot ac ef a duc y gantaô Dyfet ac ae rodes y neb un uarchaôc a elwit Saer. ac ystrat Tywi a Chedweli a Gôghyr a rodes y Howel a Gronô. ac y kyfrôg hônô y delit Gronô uab Rys ac y bu uraô yn y garchar. Yn y vlôydyn rac ôyneb gôedy dyrchauael o Vagnus vrenhin Germania hôyleu ar ychydic o logeu. a diffeithaô a oruc tervyneu Prydein. A phan welas y Prydeinwyr hynny megys morgrugyon o dylleu y gogofeu y kyuodassant yn gadoed y ymlit eu hanreith. a phan welsant y brenhin ac ychydic o nifer y gyt ac ef kyrchu yn ehofyn a orugant a gossot brôdyd yr erbyn. a phan welas y brenhin hynny kyweiryô bydin a oruc heb edrych ar amylder y elynyon a bychanet y nifer ynteu. herwyd moes yr Albanôyr drôg goffau y aneiryf uudugolyaetheu gynt kyrchu a oruc yn agkyfleus. A gôedy gônethur y vrôdyd yr llad llawer o bob tu yno o gyfarsagedigaeth lluoed ac amylder niferoed y elynyon y llas y brenhin.<sup>3</sup> Ac y dosparthôyt y dadleuoed ae negesseu. a phan doeth ef yna yd ymchoelaôd yr holl dadleu yn y erbyn e. ac ar hyt y byd y dadleuwyt ac ef ac yn y diwed y barnôyd yn gamlyrus. a gôedy hynny y barnôyt y garchar y brenhin. nyt herôyd kyfreith. namyn herôyd medyant. ac yna y pallaôd y holl obeith ae kedernit<sup>4</sup> ae hechyt<sup>4</sup> a didanôch yr holl Vrytanyeit. Y vlôydyn rac ôyneb y bu uraô Owein uab Etwin drôg hir glefyd. ac yna yd ystores Rickart uab Baldwin gastell Ryt y Groes. ac y gyrrôyt Howel uab Gronô ymeith oe

<sup>1</sup> Castell i'r brenhin. MS. Ll.

<sup>2</sup> Ac yna y gelwit Iorwoerth uab Bledyn y Amwythic drwy dwyll i. cyghor y brenhin. MS. Ll.

<sup>3</sup> Gedernid. MS. Ll.

<sup>4</sup> A Iechyd. MS. Ll.

<sup>1</sup> Mwrthach. MS. Ll.

<sup>2</sup> Gwybod. MS. Ll.



gyfoeth y gŵr a orchymynnassei Heiri vrenhin keitwataeth ystrad Tywi a Ryt y Gors. ac ynteu a gynnullaŵd anreithu drŵy osci tei a diffeithaŵ hayach yr holl gladoed a llad llaŵer or Ffreinc a oedynt yn ymchoelut adref. ac ynteu a gychwynnaŵd<sup>1</sup> y glat o bob tu. ac ae hachubaŵd ar castell a drigyaŵd yn digyffro ae wercheitweit yndaŵ. Ygkyfrŵg hynny y gŵrthladaŵd Henri vrenhin Saer marchaŵco Penuro. ac y rodes keitwataeth y kastell ae holl deruyneu y Heralt Ystiwert yr hŵn a oed dan Eŵnŵl Ystiwert. Y vlŵdydyn honno y llas Howel uab Goronŵ drŵy dŵyll y gan y Ffreinc a oedynt yn kadŵ Ryt y Gors. Gŵgaŵn uab Meuruc y gŵr a oed yn meithryn mab y Howel a wnaeth y urat ual hynn. Galŵ a wnaeth Gŵgaŵn Howel y ty ae wahaŵd. ac anuon yr castell a galŵ y Ffreinc attaŵ. a menegi udunt eu teruynedic le ac aros amser yn y nos. ac wynteu a deuthant amgylch pylgein a chylchynu y dref ar ty yd oed Howel yndaŵ. a doddi gaŵr. ac ar yr aŵr y dyhunaŵd Howel yn dilesc a cheissaŵ y arueu. a duhunaŵ y gedymdeithon. a galw arnunt. ar cledyf a rydaroed idaŵ y doddi ar ben y wely ae wayw is y traet. a rydygassei Gadŵgaŵn<sup>2</sup> tra yttoed yn kyseu. a Howel a geissaŵd y gedymdeithon ŵrth ymlad a thebygu eu bot yn baraŵt. ac neur daroed udunt ffo ar yr aŵr gyntaf or nos<sup>3</sup> ac yna y goruau arnaŵ ynteu ffo. a Gŵgaŵn ae hynlidyŵd yn graff yn y delis megys y hedewis. a phan deuth kedymdeithon Gwgawn attaŵ tagu Howel a orugant. ar tagedic yn uarŵ haeach a dugant at y Ffreinc. ac ŵynten gŵedy llad y benn a ymchoelassant yr kastell. Yn y vlŵdydyn honno y gŵelat Sren enryfed y gŵeletyat yn anuon paladyr o heni yn ol y chefyn. ac o braffter colofyn y meint<sup>4</sup> a diruaŵr oleuat idi<sup>5</sup> yn darogan yr hyn a vei rac llaŵ.<sup>6</sup> Kanys Henri amheraŵdyr Rufeingŵedy diruaŵryon uudugolyaetheu. a chrefudussaf vuched y Grist a orffŵyssaŵd. ae uab gŵedy ynteu gŵedy cael llaŵer o enryded ac eistedua amherodraeth<sup>7</sup> Rufein a wnaethpŵyt yn amheraŵdyr. Ac yna y danuones Henri urenhin Lloeger marchogyon i darestŵg Normandi. a chyhŵrd ac ŵynt a wnaeth Robert iarll o Vethlem. a gŵedi goruot

arnunt eu gyrru ar ffo. a gŵedy na rymheint dim. anuon a orugant at y brenhin y geissaŵ nerth. ac yna y brenhin e hun gyt ac amylder o uarchogyon a diruaŵr lu a vordŵyaŵd drŵod. ac yna y kyhyrdaŵd ar iarll yn dilesc. ac ef ae ganhorthŵywywr ac yn gyfarsagedic o dra lluosogrŵyd y kymerth y ffo. ae ymlit or brenhin yny delis ac ef ae wyr. a gŵedy eu dala ae hanuones y Loeger y eu carcharu. a holl Normandi a darestyŵys<sup>1</sup> wrth y vedyant e hun. Yn<sup>2</sup> y vlŵdydyn honno y llas Meuruc a Griffri veibon Trahaearn uab Karadaŵc. ac<sup>3</sup> Owein uab Kadŵgaŵn. Y vlŵdydyn rac ŵyneb y diegis Maredud uab Bledyn oe garchar ac y deuth y wlat. Ac yna y bu uarŵ Edwart uab y Moel Cŵlŵm. ac yn y le ef y kynhelis Alexander y vraŵt y deyrnas. Y vlŵdydyn gŵedy hynny y danuonet neb un genedyl diadnabydus herŵyd kenedlaeth a moesseu ny ŵydit py le yd ymgudyssynt yn yr ynys dalyon o vlŵynyded y gan Henri vrenhin y wlat Dyfet. ar genedyl honna a achubaŵd holl gantref Ros gyr llaŵ aber yr avon a elwir Cledyf gŵedy eu<sup>4</sup> gŵrthlad o gŵbyl. ar genedyl honno megys y dywedir a hanoed o Fflandrys y gŵlat<sup>5</sup> yr honn yssyd ossodedic yn nessaf ger llaŵ mor y Brytanyeit. O achas achub or mor a gorescyn eu gŵlat hyt yn y ymchoelet yr holl wlat ar agkrynodeb heb dŵyn dim ffrŵyth gŵedy bŵrŵ o lanŵ or mor diwlw wimon ar tywot yr tir. ac yn y diwed gŵedy na cheffynt le y pressŵylaŵ. kanys y mor a diueuassei ar draŵs yr aruordired ar mynyded yn gyflaŵn o dynyon hyt na allei baŵr bressŵylaŵ yno a achas amylder y dynyon a bychanet y tir y genedyl honno a deissyfaŵd Henri urenhin. ac a adolygassant idaŵ gaffel lle y presswlynt yndaw. ac yd anuonet hyt yn Ros drŵy ŵrthlad odyno y priodolyn giwdaŵtwyr. y rei a gollassant eu priaŵt wlat ae lle yr hynny hyt.<sup>6</sup> Ygkŵfrŵg hynny Geralt Ystiwart Penuro a rŵndŵalaŵd kastell Kenarch Bychan ac ansodi a wnaeth yno. a llehau yno y holl oludoced. ae wreic ae etifedyon ae holl anwylyt. ae gadarnhau a wnaeth o glaŵ a mur. Y vlŵdydyn rac wyneb y paratoes Kadŵgaŵn uab Bledyn wled y bennaduryeit y wlat. ac y gŵahodes yr wleda wnathoed Owein y uab o Powys. ar wled honno a wnaeth ef y Nadolic yr enryded y Duw. A gŵedy

<sup>1</sup> Gylchynawdd. MS. Ll.<sup>2</sup> Gwgawn. MS. Ll.<sup>3</sup> Om MS. Ll.<sup>4</sup> Faint. MS. Ll.<sup>5</sup> Iddaw. ib.<sup>6</sup> Ac ychydic amser wedi hynny y gweled dwy leuad, y nail yn y dwyrein ar llall yn y gorllewin. MS. Ll.<sup>1</sup> Ddodes. MS. Ll.;<sup>2</sup> Niwedd. MS. Ll.<sup>3</sup> Gan. MS. Ll.<sup>4</sup> Om. MS. Ll.<sup>5</sup> Wlad. MS. Ll.<sup>6</sup> Heddyw. MS. Ll.

daruot y wled a chlybot o Owein vot Nest uerch Rys ab Teóðr góreic Geralt ystiwart yn y dywededic gastell fry. mynet a oruc y ymwelet a hi. ac ychydic o niuer y gyt ac ef megys a chares ida6 ac velly yd oedynt. kanys Kad6ga6n uab Bledyn a G6ladus uerch Ri6alla6n mam Nest a oedynt gefynder6 a chefnither6. kanys Bledyn a Riwalla6n meibon Kynfyn a oedynt urodyr o y Agharat uerch Varedud vrenhin. A g6edy hynny o annoc Du6 y doeth ef nossweith yr kastell ac ychydic o nifer y gyt ac ef val amgylch pedwar gwyr ardec. a g6edy g6neuthur cla6d dan y trotheu yn dirgel heb gybot y geitweith y kastell. ac yna y doethant yr castell yd oed Geralt a Nest y wreic yn kysgu yndaw. a doddi ga6r a wnaethant ygkylch y castell. ac ennynu tan yn y tei 6rth y llosgi. a dyhuna6 a oruc Geralt pan gogleu yr a6r. ac yna y dy6a6t Nest 6rtha6. Na dos allan heb hi<sup>2</sup> yr dr6s. Kanys<sup>3</sup> yno y mae dy elynyon yth aros. namyn dyret ym ol i. a hynny a wnaeth ef. a hi ae har6eda6d ef hyt yg geudy a oed gyssylldedic 6rth y castell. ac yno megys y dywedir y dihegis. a phan 6ybu Nest y dianc ef llefein a oruc a dywedut 6rtha6<sup>4</sup> y g6yr yssyd<sup>5</sup> allan beth a lefwech yn ofer. nyt yttiwi yma y neb a geiss6ch. neur dihegis. A g6edy y dyuot 6ynteu y my6n. y geissa6 a orugant ym pob mann. a g6edy nas ka6ssant. dala Nest a wnaethant ae deu uab ae merch a mab ida6 ynteu o garatwreic. ac yspeilia6 y castell ae anreitha6. a g6edy llosgi y kastell a chynnulla6 aureith a chytya6 a Nest ymchoelut a wnaeth y wlat. ac nyt yttoed Kad6ga6n y dat ef yn gedrycha6l yna yn y wlat. kanys ef a athoed y Powys 6rth hedychu y rei a odynt yn anuhyn ac a athoedynt y 6rth Owein. A phan gogleu Kad6ga6n g6eithret h6nn6 kymryt y<sup>6</sup> dr6c arna6 gan sorri a oruc ef hynny o acha6s y treis kyt a wnaethoedit a Nest uerch Rys. Ac rac ofyn lli6ya6 o Henri vrenhin am sarhaet y Ystiwart. ac yna ymchoelut a oruc a cheissa6 talu y wreic ae anreith y Eralt ystiwart drachefyn y gan Owein ac nys kauas. Ac yna o ystryw y wreic a oed yn dywedut 6rth Owein ual hynn. O mynny uygkael i yn ffyddla6n ytt am kynnal gyt a thi. hebr6g vym plant att eu tat, ac yna o dra serch a charyat y wreic y gellyga6d y blant yr ystiwart. A phan

gigleu Rickart escob Llundein hynny y g6r a oed yna ystiwart y Henri vrenhin yn Am6ythic. Medylya6 a oruc dial ar Owein sarhaet Geralt ystiwart. A galw atta6 a wnaeth Ithel a Mada6c meibon Ridit uab Bledyn a dywedut 6rthynt ual hynn. a vynn6ch chwi regi bod y Henri vrenhin a chaffel y garyat ae gedymdeithas yn dragywyda6l. ac ef ach ma6rhaa yn bennach no neb och kyttirogyon. ac a gyghor6ynna 6rthy6ch ych kyt teruynwyr och holl genedyl. ac atdeb a wnaethant mynwn heb 6ynt. E6ch chwitheu heb ef a del6ch Owein uab Kad6ga6n os gell6ch ac onys gell6ch g6rthled6ch or wlat ef ae dat. kanys ef a wnaeth gam a sarhaet yn erbyn y brenhin. a dirua6r gollet y Eralt ystiwart y wahanreda6l gyfeillt am y wreic ae blant ae gastell. ae yspeil ae anreith. a minheu a rodaf gyt a chwi fydlonyon gedymdeithyo6n. nyt amgen Llywarch uab Trahaearn y g6r a lada6d Owein y vrodyr. ag Uchtryt uab Etwin. ac 6inteu gwedy credu yr edewidyon hynny a gynnullasant lu. ac a aethant y gyt ac a gyrechassant y wlat. ac Uchtryt a anuones kenadeu yr wlat y venegi yr kiwta6twyr pwy bynnac a gilyei atta6 ef y caffi amdifffyn. a rei a gilyassant atta6 ef ereill y Ar6ystli. ereill y Vaelenyd. ereill y ystrat Tywi ar rann v6yaf y Dyuet yd aethant yr lle yd oed Geralt yn vedyanus. A phan yttoed ef yn mynnu eu diua 6ynt. ef a dam6eina6d dyuot G6allter ucheluær kaer Loy6 y g6r a orchymynnassei y brenhin ida6 llywodraeth ac amdifffyn Lloeger hyt ygkaer Vyrdin. A phan gigleu ef hynny eu hamdiffern a oruc. a rei o nadunt a gilya6d y Ar6ystli. ac y kehyrda6d gwyr Maelenyd ac 6ynt ac y lladassant. ar rei a gilya6d att Uchtryt a dihaassant. ar rei a gilya6d y ystrat Tywi Mareduð uab Ryderch ae haruolles yn hegar. Kad6ga6n ac Owein a ffoassant y log a oed yn Aber Dyfi a dathoed o Iwerdon ychydic kyn no hynny a chyfnewit yndi. Ac yna y deuth Mada6c ae ura6t yn erbyn Uchtrut hyt yn Ryt Cornnec.<sup>1</sup> ac yno pebyllya6 a orugant. ac yn y diwed y doeth Uchtrut attunt. a g6edy eu hymgynnulla6 y gyt kerdet hyt nos a orugant a diffeitha6 y g6ladoed yn y vu dyd. ac yna y dywa6t Uchtrut. o reing<sup>2</sup> bod y chwi nyt reit hynny. kany dylwir tremygu Kad6ga6n ac Owein. kanys gwyr da grymmus ynt a dewron. a medylya6 llawer y maent. ac agatuyd y mae porth udunt lyt nas

<sup>1</sup> Ynddi. MS. Ll.<sup>2</sup> Om. ib.<sup>3</sup> Yng nghylch MS. Ll.<sup>4</sup> Wrth.<sup>5</sup> A oedynt. MS. Ll.<sup>6</sup> Arall. MS. Ll.<sup>1</sup> Cornnec. MS. Ll.<sup>2</sup> Reig.

gwydam ni. ac ōrth hynny ny beda y ni dyuot y deissyft am eu pen namyn yn eglur dyd gyt ac urdassa6c gyweirdeb nifer. ac or geireu hynny bop ychydic yd hedych6yt 6ynt ual y gallei dynyon y wlat dianc. A thrannoeth y daethant yr wlat. a g6edy y g6elet yn diffeith. ymgerydu<sup>1</sup> e hunein a wnaethant a dywedut llyma wenyeith Uchtrut. a chuhuda6 Uchtrut a wnaethant a dywedut<sup>2</sup> y neb<sup>3</sup> a ymgedymdeithockau<sup>4</sup> ac ystryw ef. A g6edy g6ibia6 pob lle yn y wlat ny cha6ssant dim namyn gre y Gad6ga6n. a g6edy cael honno a llosgi y tei ar yscuboryeu ar ydeu a wnaethant. ac ymchoelut a orugant y cu pebyllau drachefyn. a diua rei or dynyon a ffoassynt y Lan Badarn. a gadel ereill heb eu diua. A phan yttoedynt uelly clybot a wnaethant bot rei yn trigya6 yn nodua Dewi yn Llan Dewi Breui yn yr egl6ys gyt ar offeir<sup>5</sup>. Anuon a wnaethant yno drycysprytolyn agkyweithas<sup>6</sup> a llygru a wnaethant yr egl6ys ac diffeitha6 o g6byl. A g6edy hynny yn orbac hayach yd ymchoelassant eithyr cael anuolyanus anreith o gyfleoed seint Dewi a Phadarn. A g6edy hynny yn mord6ya6d Owein y Iwerdon gyt ac ychydic o gedymdeithon. ar rei yd oed achas6 undunt trigya6 yn y ol kanys buassynt 6rth loscedigaeth y castell. ac y gan M6rchat<sup>7</sup> y brenhin pennaf yn Iwerdon yd aruollet ef yn hegar. kanys ef a vuassei gynt y gyt ac ef. a chyt ac ef y magyssit yn yr ryuel y diffeith6yt Mon y gan y deu iarll. ac yd anuonyssit y gan y vra6t a rodyon y Murtart. Ac yna yd aeth Kad6ga6n yn dirgel hyt ym Powys. ac anuon kenadeu a wnaeth y geissa6 hedychu a Rickart ystiwart y brenhin. a chael kygreir ganta6 a wnaeth y geissa6 hedychu ar brenhin py 6ed bynnac y gallei. Ac aruoll a oruc y brenhin a gadel ida6 drigya6 my6n tref a g6ssei y gan wreic oed Ffrages merch Pictot Sage. Ac yna yd achuba6d Mada6c ac Ithel meibon Ridit<sup>8</sup> ran Gad6ga6n ac Owein y uab o Powys y rei a lywassant yn anvolyanus. ac ny buant hedycha6l rygthunt e hunein. Ygkyfr6g hynny g6edy hedychu o Gad6ga6n y cauas y gyuoeth. Nyt amgen keredigya6n g6edy y phrynu y gan y brenhin yr cant punt. A g6edy clybot hynny ymchoelut a wnaeth pa6b or a

wascaryssit kyloch o gyleh. kanys gorchymyn y brenhin oed na allei neb gynnal neb or rei a oedynt yn press6yla6 Keredigya6n. kyn no hynny na gwr or wlat na gwr dieithyr vei. A rodi a oruc y brenhin y Gad6ga6n drwy yr amot hyn yma. hyt na bei na chedymdeithas na chyfeillach y rygta6 ac Owein y uab. ac na adei ida6 dyuot yr wlat. ac na rodei ida6 na chyghor na nerth. Ac o dyna yd ymchoela6d rei or gwyr a athoed gyt ac Owein yr Iwerdon. a llechu yn dirgeledic a wnaethant heb wneuthur dim arg6ywed<sup>1</sup> a g6edy hynny yd ymchoela6d Owein. ac nyt y Geredigya6n y doeth namyn y Bowys. a cheissa6 anuon kenadeu at y brenhin.<sup>2</sup> Ygkyfr6g hynny y bu anuned r6g Mada6c ar Ffreinc. o achas6 y lletraden yd oed y Saeson yn y wneuthur ar y tir. ac o dyon yd oedynt yn g6neuthur cameu yn erbyn y brenhin ac yn dyuot at Vada6c. Ac yna yd anuones Rickert ystiwart at Vada6c y erchi daly<sup>3</sup> y gwyr a wnaethoed y kam yn erbyn y brenhin. ac ynteu a 6rth6yneba6dy hynny ac nys dalla6d.<sup>4</sup> Ac yn gamweda6c heb wybod beth a wnei. namyn keissaw kyveillach gan Owein uab Kad6ga6n. a hynny a gauas. a g6neuthur hed6ch r6g a rei a oedynt yn elynyon kyn no hynny. ac ymaruoll uch benn creireu a wnaethant hyt na hedychei un ar brenhin heb y gilyd. ac na vredeychei un o nadunt y gilyd. ac yna y kerdynt y gyt py le bynnac y dyckei ytyghetuen<sup>5</sup> 6ynt. a llosei tref neb un wrda a orugant. a phy beth bynnac a ellynt y dwyn gantunt nac yn veirch nac yn wiscoed 6ynt ac ducsant na neb ryw dim arall or a geffynt. Y vl6ydyn rac 6yneb y koffaa6d Henri urenhein garchar Iorwoerth uab Bledyn. ac anuon kenat atta6 y 6ybot beth a rodei yr y ell6g oe garchar. kanys blin yw bot yn hir garchar. Ac ynteu a edewis mwy noc a allei dyuot ida6. a dywedut y rodei pob dim or a archei y brenhin. ac yn gyntaf ynteu a erchis g6ystlon o veibon goreugwyr y wlat. yr eilweith yd erchis Ithel mab Ridit y vra6t a thrychant punt o aryant py fford bynnac y galle dyuot undunt. nac o veirch. nac o ychen nac o neb ryw fford y gallei dyuot undunt. Ac yna y rodet mab Kad6ga6n uab Bledyn yr h6n a anyssit or Ffranges yr h6n a elwit Henri ac y tal6yt can more drosta6. Ac yna y rodet y 6lat ida6 ef. a lla6er a dala6d. Ac

<sup>1</sup> Ymgredu. MS. Ll.<sup>2</sup> Dyweddi. ib.<sup>3</sup> Om. ib.<sup>4</sup> Ymgydymdeithaw. MS. Ll.<sup>5</sup> Offeirait. MS. Ll.<sup>6</sup> Kyweithas. MS. Ll.<sup>7</sup> Murtarch. MS. Ll.<sup>8</sup> Riddid. MS. Ll.<sup>1</sup> Argwywed.<sup>2</sup> Ac ni lefasawdd neb arwein ei genadwri hyd at y brenhin. MS. Ll.<sup>3</sup> Talu. MS. Ll.<sup>4</sup> Talawdd. ib.<sup>5</sup> Dyingedfen. MS. Ll.

yna y gellygŷt mab Kadŷgaŷn. Ac yg-kyfrŷg y petheu hynny y gŷnaeth Owein a Madaŷc ac eu Kedymdeithon llaŷer o drygeu yg gŷlat y Ffreinc ac yn Lloeger. A pha beth bynnac a gefynt nac o ledrat nac o dreis. y dir Iorwoerth y dygynt. Ac yno y pressŷlynt. Ac yna anuon kenadŷri a oruc Iorwoerth attunt yn gar-edic a dywedut ŷrthynt ual hynn. Duŷ an rodes ni yn llaŷ an gelynyon. ac an darestygaŷd ni yn gymeint ac na allem ni gŷneuthur dim or a vei ewyllys gennym. Gŷarhadedic yw ynni baŷb or Brytanyeit hyt na chyffredino neb o honam ni a chŷ-chŷi nac o vwyt nac o diaŷt. nac o nerth nac o ganhorthŷy. namyn aŷch keissaŷ ach hela ym pob lle. ach rodi yn y diwed yn llaŷ y brenhin oc aŷch carcharu neu oc aŷch llad. neu ych dihenydyŷ neu yr hynn a vynei a chŷi. Ac yn bennaf y gorchymynŷt i mi a Chadŷgaŷn nat ymgredem a chŷi. Kanys ni digaŷn neb tebygu na damunaŷ tat neu ewythyŷ da y eu meibon ae nyeint. kanys od ymgedymdeithŷn ni a chŷi. neu vynet haeach yn erbyn gorchymynneu y brenhin. nia gollŷn an kyfoeth ac an karcherir yn y vom veirŷ neu an lledir. Ac ŷrth hynny mi aŷch gŷediaf megys kyueillt. A un<sup>1</sup> aŷch gorchymynnaf megys arglŷyd. Ac ach eirrolaf megis car nad eloch ford ym kyuoeth i na ford y gyuoeth Kadŷgaŷn mŷy noc y gyuoeth gŷyr ereill yn kylch. Kanys mŷy o anuodedigaeheu a geissyr yn erbyn ni. noc yn erbyn ereill yn bot yn gylus. A thremygu hynny y gnaethant a mŷyfwy eu kyuoeth a vynyhynt. a breid y gochel-ynt kyndrycholder y gŷyr e hunein. A Iorwoerth a geissaŷd eu hymlit a chynnull-aŷ llaŷer o wyr a oruc ac en hela. Ac ŷynteu ae gochelassant bob yehydic. Ac yn un dorof ygyt y kyrchassant gyuoeth Uchtrut hyt ym Meiryonyd. A phan gigneu veibon Uchtrut hynny ae teulu rei a ellygassant Uchtrut y amdiffyn y tir. anuon a orugant y Veiryonyd y beri y baŷp dyuot attunt y ŷrthlad y gŷyr oc eu tir. Kanys yn gyntaf y dathoedynt y Gyfeilaŷc yn y lle yd oed meibon Uchtrut. Ac ny allyssant eu gŷrthlad. Ac yna yd ymgynnullaŷd gwyr Meiryonyd heb ohir ac y deuthant at Veibon Uchtrut. Ac ual yd oed Owein a Madaŷc yn y lletyeu ygkyfeilaŷc. Trannoeth y boreu aruaethu a orugant mynet y Veiryonyd y letyaŷ heb wneuthur dim drŷc amgen. Ac ual yd oedynt yn dŷyn eu hynt. nachaf wyr Meiryonyd ygkyfrŷg mynyded ac anyalŷch

<sup>1</sup> Mi.

yn dŷyn y bydin gyweir yn kyfaruot. Ac yn eu ruthraŷ. ac yn dodi gaŷr arnunt. ac ŷynteu heb dybyŷ dim ŷrthynt ar y kyrch kyntaf y ffoassant. ac y deuth Owein. A phan gŷelas gŷyr Meiryonyd ef yn kyrchu yn ŷraŷl ac yn baraŷt y ymlad. ffo yn deissyfeit a orugant. Ac ŷynteu ae hym-lydyassant hyt eu gwlat. a diffeithaŷ y wlat a orugant. a llosgi y tei ar ydeu a llad yr yserybyl kymeint ac a gaŷssant heb dŷyn dim gantunt. A gŷedy hynny yd aeth Madaŷc y Bowys. Ac Owein a ymchoelaŷd ef ae wyr y Geredigyaŷn y lle yd oed y dat yn gŷledychu ac yn pressŷylaŷ. a thrigyaŷ a oruc ef ae gedymdeithon yn y lle y mynnaŷd. a choffau dyuodyat y dat kyn no hynny yr kyuoeth. Kanys y gedymdeith oedynt<sup>1</sup> y dyfet y yspeilaŷ y wlat ac y dala y dynyon. ac eu dŷyn yn rŷym hyt y llogeu a dathoed gan Owein o Iwerdon. Ac yna yd oedynt yn trigyaŷ yn tervyneu y wlat. Ac eilweith yd aethant y gaŷl ynvydyon a chŷanegi eu rif. a chyrrhu dros nos y wlat ae llosgi. a llad paŷb or a gaŷssant yndi. ac yspeilaŷ ereill. a dŷyn ereill gantunt ygkarchar. ac eu gŷerthu y eu dynyon neu eu hanuon yn rŷym yr llogeu. A Gwedy llosgi y tei a llad cymeint ac a gaŷssant or anifeileit. a chymeint ac a gaŷssant a dugant gantunt. ac a ymchoelassant fford y Keredigyaŷn ŷrth letyaŷ a thrigyaŷ a mynet a dyuot. heb edrych dim o achŷysson Kadŷgaŷn nac o wahard y brenhin. A rei o nadunt dreilgweith a oedynt yn kadŷ fford yd oed henaŷgŷr or Flemhissieit yn dyuot idi. a elwit Wiliam o Vreban. ae gyferbynieit a wnaethant ae lad. Ac yna mynet o Gadŷgaŷn gyt a Iorwoerth y lys y brenhin y vynnau kael ymdidan ac ef. Ac ual y buant yna nachaf braŷt yr gŷr a ladyssit yn y lle yn menegi yr brenhin ry lad o Owein ae gedymdeithon y vraŷt. Pan gigneu y brenhin hynny gofyn a oruc y Gadŷgaŷn beth a dywedy am hynny. nis gŷnni arglŷyd heb y Kadŷgaŷn. Yna y dywaŷt y brenhin kany elly di kadŷ dy gyfoeth rac kedymdeithon dy uab hyt na ladon vgy gwyr eilweith mi a rodaf dy gyfoeth yr neb ae katwo. a thitheu a drigy y gyt a mi drŷy yr amot hŷnn yma na sethrych di dy briaŷt wlat. a mi ath borthaf di om hymborth i yn y gymerŷyf gyghor am danat. A rodi a oruc y brenhin idaŷ peunydy yg kyfeir y dreul pedeir ar hugein. Ac yna y thrigyaŷd heb dodi gefyn arnaŷ. namyn yn ryd y fford y mynnei eithyr y wlat e hun. A gŷedy clybot o Owein

<sup>1</sup> A aethant. MS. Ll.

yspeila6 y dat oe gyuoeth. kyrchu Iwerdon a oruc ef a Mada6c uab Riddit. A g6edy hynny anuon a oruc y brenhin at Gilbert uab Rickert yr h6nn a oed de6r molyannus galluus. a chyfeillt yr brenhin a g6r ardercha6c oed yn y holl weithredoed erchi idaw dyuot atta6. ac ynteu a deuth. Ar brenhin a dywawt 6rtha6 yd oedut yn wastat yn keissa6 ran o tir y Brytanyeit y genyf. Mi a rodaf ytt yr a6r honn tir Kad6ga6n dos a goresgyn ef. Ac yna y kymerth yn llawen ygan y brenhin. Ac yna gan gynulla6 llu gyt ae gedymdeithon y deuth hyt yg Keredigya6n ac y gorescynna6d. Ac yd adeila6d deu gastell yndi. Nyt amgen un gyferbyn a Llan Badarn yn myl aber yr auon a elwir Ystwyth. Ar llall geir lla6 Aber Teifi yn y lle a elwir Dingereint. y lle gr6ndwalassei Roger iarll kyn no hynny gastell. A gwedy yehydic o amser yd ymchoela6d Mada6c ab Riddit o Iwerdon heb allel godef andynolyn voesseu y G6ydyl. Ac Owein a drigya6d yno yn y ol dalym o amser. A Mada6c a aeth y Powys. ac nyt aruollet nac yn hegar nac yn drugara6c y gan Iorwoerth y ewythyrrac y gynnal yn gylus y gan y brenhin her6yd kyfreith a drycweithret ot ymgyffredinei ae nei o dim. Ac ynteu yn wibia6dyr a lecha6d h6nt ac yma gan ochel kydrycholder Iorwoerth. Iorwoerth a wnaeth kyfreith hyt na bei a veidei dywedut dim 6rtha6 am Vadawc. na menegi dim am dana6 g6elit na welit. Ygkyfr6g hynny aruaethu a wnaeth Mada6c g6neuthur brat Iorwoerth 5 ewythyrr. A dala kyfeillach a oruc a Llywarch uab Trahaearn. Ac ymaruoll y gyt a wnaethant yn dirgeledic. ac eissoes yr tervyn h6nn6 yd aethant. Y vl6ydyn rac 6yneb y paratoes Mada6c urat Iorwoerth. a cheissaw amser a chyfle a wnaeth y gyflenwi y ewyllys. A phan ymchoela6d Iorwoerth y Gaer Eina6n y kyrcha6d Mada6c a chedymdeithon Llywarch y gyt ac ef yn borth ida6 kyrch nos am ben Iorwoerth. A dodi ga6r a orugant ygkylch y ty lle yd oed Iorwoerth. a dyhuna6 a wnaeth Iorwoerth gan yr a6r. a chad6 y ty arna6 ef ae gedymdeithon. a llosgi y ty a wnaeth Mada6c am benn Iorwoerth. a dodi ga6r o orugant. A phan welas kedymdeithon Iorwoerth hynny kyrchu allan a orugant dr6y y tan.<sup>1</sup> Ac ynteu pan welas y ty yn dyg6yda6 keissa6 kyrchu allan a oruc ae elynyon ae kymerth ar vlaen gwewyr. ac yn atlosgedic y lad. A phan gogleu Henri vrenhin ry lad Iorwo-

erth rodi Powys a wnaeth y Kad6ga6n uab Bledyn. A hedychu ac Owein y uab. Ac erchi y Gad6ga6n anuon kenadeu yn ol Owein hyt yn Iwerdon. A gwedy g6ybot o Vada6c ar rei a ladyssant Iorwoerth ygyt ac ef rywneuthur agkyfreith o nadunt yn erbyn y brenhin llechu y mywn coedyd a orugant. ac aruaethu g6neuthur brat Kad6ga6n. A Chad6ga6n heb vynny arg6edu y neb megys yd oed noes ganta6 a doeth hyt yn Trall6g Llywelyn ar vedyr trigya6 yno a phress6yla6 lle yd oed hyr6yd<sup>1</sup> ac agos y Vada6c. Ac yna anuon yspiwyrr a oruc Mada6c y 6ybot py le y bei Gad6ga6n. Ar rei hynny a doethant drachefyn ac a dywedassant y neb yd oed- ynt yn y geissa6. ym pell y mae h6nn6 ae yn agos. Ac ynteu ae wyr yn y lle a gyrcha6d Kad6ga6n. A Chad6ga6n heb tybya6 dim dr6c a ym6naeth yn llese heb vynnu ffo. a heb allel ymlad. wedy ffo y wyr oll ae gael ynteu yn unie ae lad. A gwedy llad Kad6ga6n anuon kenadeu a wnaeth Mada6c at Rickert escob Llundein y g6r a oed yn kynhal lle y brenhin ac yn y lywya6 yn Am6ythic y erchi ida6 ef y tir y g6nathoedit y kyflafanue hynny ymdana6. A g6edy rac vedylya6 or escob yn gynnil y ach6ysson ef heb rodi messur ar hynny y oedi a oruc. ac nyt yr y garyat ef. namyn adnabot o hona6 deuodeu g6yr y wlat mae llad a 6naei bop un o nadunt y gilyd. Ac gyfran a vuassei ida6 ef ac y Ithel y 6ra6t kyn no hynny a rodes ida6. A phan gogleu Varedud uab Bledyn hynny kyrchu y brenhin a oruc y erchi ida6 tir Iorwoerth uab Bledyn y vra6t. ar brenhin a rodes kad6ryaeth y tir ida6. yn y delei Owein uab Kad6ga6n yr wlat. Ygkyfr6g hynny y deuth Owein ac yd aeth at y brenhin. A chymryt y tir ganta6 tr6y rodi g6ystlon. ac ada6 llawer o aryant. A Mada6c a edewis llawer o aryant a g6ystlon ac amodeu ger bronn y brenhin. A g6edy kymryt nodyeu ymoglyt a oruc pob un rac y gilyd yn y vl6ydyn honno hyt y diwed. Yn y vl6ydyn rac 6yneb y delit Robert iarll uab Roser o Vedlehem y gan Henri vrenhin. ac y carchar6yt. Ac y ryvela6d y uab yn erbyn y brenhin.

Deg mlyned a chant a mil oed oet Crist pan anuones Maredud uab Bledyn y teulu y neb un gynh6ryf y tir Llywarch uab Trahaearn y d6yn kyrch. Yna y damweina6d ual yd oedynt yn d6yn hynt dr6y gyfoeth Maredud<sup>2</sup> uab Riddit. Nachaf 6r yn kyuaruot ac 6ynt a dala h6nn6 a orug-

<sup>1</sup> Ac adaw Iorwerth y tan MS. Ll.

<sup>1</sup> Herwyd. MS. Ll.

<sup>2</sup> Madawc. MS. Ll.

ant a gofyn ida6 py le yd oed Vada6c uab Ridit y nos honno yn trigya6. A g6adu yn gyntaf a 6naeth y g6r hyt nas g6ydat ef. Ac odyna g6edy y gystuda6 ae gymell adef a oruc y vot yn agos. A g6edy r6yma6 h6nn6 yspiwyr a aroyssant yno.<sup>1</sup> a llechu a 6naethant yn y oed oleu dyd dranoeth. A g6edy dyfot y bore o deiss-yfyt g6nn6ryf y dugant kyrc hyt ida6. a dala<sup>2</sup> a orugant a llad lla6er oe wyr. ae d6yn ygkarchar at Maredud. ae gymryt yn lla6en a oruc ae gad6 y my6n gefyneu. Yna y deuth<sup>3</sup> Owein ab Kad6ga6n yr h6n nyt yttoed gartref. A phan gibleu Owein hynny ar frys y deuth. ac y rodes Maredud ef yn y la6 ae gymryt yn lla6en a oruc ae dallu. A rannu rygtunt a 6naethant y rann ef o Bowys. Sef oed hynny Kerein-a6n a thraean Deud6r ac Aber Riw.<sup>4</sup> Y vl6ydn rac 6yneb y kyffroes Henri vrenhin llu yn erbyn G6ydned. ac yn bennaf y Powys. A g6edy barnu ar Owein gwneuthur agkyfreith y guhuda6 a oruc Gilbert uab Rickert 6rth y brenhin. a dywedut bod g6yr Owein yn g6neuthur lledrateu ar y wyr ef ae tir.<sup>5</sup> Ar drygeu a 6nelei ereill a dywedut ar 6yr Owein. A chredu a oruc y brenhin bot pob peth or a dywa6t y kyhud6r yn wir. Ygkyfr6g hynny kyhuda6 a wnaeth mab Hu iarll kaer Llion (ar Wyse) Gruffud uab kynau. a Gron6 uab Owein. Ac aruaethu o gyttundeb mynnu dileu yr holl Vrytanyeit o g6byl hyt na cheffynt Vrytana6l en6 yn dragy-6yda6l. Ac 6rth hynny y kynulla6d Henri vrenhin llu or holl ynys o Penryn Peng6aed yn Iwerdon<sup>6</sup> hyt ym Penryn Blataon<sup>7</sup> yn y Gogled yn erbyn G6ydned a Phowys. A phan gibleu Varedud uab Bledyn hynny mynet a wnaeth y geissa6 kyfeillach y gan y brenhin. A g6edy adnabot hynny o Owein kynulla6 y holl wyr ac holl da a 6naeth a muda6 hyt ym mynydoed Eryri. kanys kadarnaf lle a diogelaf y gael amdifffyn ynda6 rac y llu oed h6nn6. Ygkyfr6g hynny yd anuones y brenhin tri llu. Un gyt a Gilbert tywyssa6c o Gerny6. a Brytanyeit y Deheu, a Ffreine a Saeson o Dyfet ar Deheu oll. ar llu arall or Gogled ar Alban a deu

tywyssa6c arnunt. Nyt amgen Alexander mab y Moel C6l6m. a mab Hu iarll kaer Llion. Ar trydyd gyt ac ef e hun. Ac yno y deuth y brenhin ae deulu y gyt ac ef. hyt y lle a elwir Mur Gastell. Ac Alexander ar iarll a aethant y Pennaeth<sup>1</sup> Bach6y. Ygkyfr6g hynny yd anuones Owein genadeu at Ruffud ac Owein y uab y erchi udunt g6neuthur kadarn hed6ch y rygtunt yn erbyn y gelynyon y rei yd oed-ynt yn aruaeth y dileu yn g6byl neu y g6archae yn y mor hyt nat enwit Brytana-6l en6 yn dragywyda6l. Ac ymaruoll ygkyt a wnaethant hyt na wnelei un heb y gilyd na thagnefed na chyfundeb ae gelynyon. Gwedy hynny y danuones Alexander uab y Moel C6l6m ar iarll gyt ac ef genadeu at Ruffud uab Kynan y erchi ida6 dyfot y hed6ch y brenhin. ac ada6 llawer ida6 ae d6ylla6y gyttuna6 ac 6ynt. Ar brenhin a anuones kenadeu at Owein y erchi ida6 dyfot y hed6ch ac ada6 y g6yr ny aller gaffel na phorth na nerth y gantunt. Ac ny chytsynya6d Owein a hynny. Ac yn y lle nachaf un yd dyfot atta6. ac yn dywedut 6rtha6 byd oualus a g6na yn gall yr hynn a 6nelych. Llyma Ruffud ac Owein y uab g6edy kymryt hed6ch y gan uab y Moel C6l6m ar iarll g6edy rodi ida6 o nadunt kael y tir yn ryd heb na threth na chyllit na chastell ynda6 hyt tra vei vy6 y brenhin. Ac etwa ny chytsynya6d Owein a hynny. Ar eilweith yd arua6th6ys y brenhin anuon kenadeu at Owein. a chyt ac 6ynt Varedud uab Bledyn y ewythyrr yr h6nn pan welas Owein a dywa6t 6rtha6 edrych na h6yr-heyech dyuot at y brenhin rac racfaenu o ereill kael kedymdeithas y brenhin. ac ynteu a greda6d hynny a dyfot a wnaeth at y brenhin. Ar brenhin ae haruolles yn lla6en dr6y ua6r garyat ac enryded. Ac yna y dywa6t y brenhin 6rth Owein kan deuthost ti attaf i oth vod a chan credaist vygkenadeu minheu ath va6rhaaf di ac ath dyrchafaf yn uchaf ac yn pennaf oth genedel di. A mi a dalaf it yn gymeint ac y kyghorvynno pa6b oth genedyl 6rthyt. A mi a rodaf it dy holl tir yn ryd. A phan gibleu Ruffud hynny anuon kenadeu a oruc at y brenhin y geissa6 hed6ch y ganta6. Ar brenhin ae kymmerth ef y hed6ch dr6y dalu o hona6 dreth ua6r ida6. Ac ymchoelut a oruc y brenhin y Loegyr. ac erchi y Owein dyuot y gyt ac ef a dywedut y talei ida6 a vei gyfya6n. a dywedut 6rtha6 hynn a dywedaf yt. Mi a af y Normandi ac o deuy di y gyt a mi. mi a

<sup>1</sup> Arfon yspiwyr a wnaeth yno. MS. Ll.

<sup>2</sup> Ae ddaly. Ib.

<sup>3</sup> Yn i ddoeth.

<sup>4</sup> Ac yng nghylch yr amser yma y bu ddaear grynn mawr yn Amwythio o fore hyd hwyr. A hefyd yr amser hwnnw yr ymddangosys seren gyffionnawc ac y bu aiaf caled yn ol hynny, a marwolaeth a phrinder. MS. Ll.

<sup>5</sup> Dir. Ib.

<sup>6</sup> Kernyw.

<sup>7</sup> Blathaon.

<sup>1</sup> Pennant. D. P.

gyweiraf ytt bop peth or a edeweis it. a mi ath wnaeth yn uarchaoc urdael. A chanlyn y brenhin a wnaeth dr6y y mor. Ar brenhin a gywiraed ida6 pob peth or a edewis ida6. Y vl6ydyn rac 6yneb yd ymchoela6d y brenhin o Normandi ac Owein uab Kad6ga6n gyt ac ef. Ac y bu uar6 Ieffrei escob Myny6. ac yn y ol ynteu y deuth g6r o Normandi yr h6nn a elwit Bernart yr h6nn a dyrchaf6yt yn escob ym Myny6 y gan Henri vrenhin o anuod holl yscolheigon y Brytanyeit gan eu tremygu. Ygkyfr6g hynny y deuth Gruffud uab Rys Te6d6r brenhin Deheubarth o Iwerdon<sup>1</sup> yr h6nn a athoed yn y vaba6l oetran y gyt a rei oe gereint hyt yn Iwerdon. Ac yna y trigya6d yn y bu 6r aedvet. Ac yn y diwed g6edy diffygya6 o tra hir alltuded yd ymchoela6d y dref y dat. A h6nn6 a drigya6d amgylch d6y vlyned g6eitheu y gyt a Geralt ystiwart castell Penuro y da6 gan y ch6aer. a honno oed Nest uerch Rys uab Te6d6r g6reic Geralt Ystiwart. g6eitheu ereill gyt ac gereint. g6eitheu yg G6yned.<sup>2</sup> g6eitheu yn absen o le y le. Yn y diwed y enhudwyt 6rth y brenhin. A dywedut vot med6l pa6b or Brytanyeit gyt ac ef. dr6y y ryuygu o vrenhina6l vedyant Henri vrenhin. A phan gigleu Gruffud y chwedleu hynny aruaethu a wnaeth ar vynet at Ruffud uab Kynan y geissa6 amdiffyn y hoedel. A g6edy anuon kenadeu ef a edewis o deuei atta6 y aru6lli yn llawen. A g6edy clybot o Ruffud uab Rys hynny ef a Howel y vra6t a aethant atta6. yr Howel h6nn6 a vuassei ygkarchar Ern6lf uab Roser iarll castell Baldwin yr h6nn y rodassei Wilim Vrenhin ida6 kyfran o gyuoeth Rys uab Te6d6r. Ac yn y diwed y diagassei yr Howel h6nn6 yn annafus g6edy trychu y aelodeu or carchar. Ac yna yd aru6llet 6ynt ac ereill gyt ac 6ynt yn hegar y gan Ruffud uab Kynan. Ac ygkyfr6g hynny g6edy clybot or brenhin mynet Gruffud ab Rys at Ruffud ab Kynan anuon kenadeu a wnaeth at Ruffud uab Kynan y erchi ida6 dyuot atta6. Ac ufud uo Ruffud y vynet at y brenhin. Ac megys y mae moes y Ffreinc twylla6 dynyon tr6y edewidyon ada6 lla6er a wnaeth Henri vrenhin ida6 o chymerei arna6 dala Gruffud uab Rys ae anuon yn vy6 atta6 ef. ac ony allei y dala y lad ac anuon y benn ida6. Ac ynteu dr6y ada6 hynny a ymchoela6d y wlat. Ac yn y lle gofyn a wnaeth py le yd oed Ruffud uab Rys yn trigya6. A

menegi a 6naethp6yt y Ruffud uab Rys dyuot Gruffud uab Kynan o lys y brenhin ae geissa6 ynteu yn y ewyllys. Ac yna y dywa6t rei 6rtha6 a oedynt yn trigya6 y gyt ac ef dr6y ewyllys da. gochel y gedrycholder yn y 6yper py fiord y kerdo y chwedyl. Ac 6ynteu yn dywedut hynny nachaf un yn dyfot ac yn dywedut. Llyma varchogyon yn dyfot ar vrys. a breid yd athoed ef dros y dr6s nachaf y marchogyon yn dyfot y geissa6. Ac ni alla6d amgen uo chyrehu Eglwys Aber Daron arna6d. A g6edy clybot o Rufud uab Kynan y dianc yr eglwys anuon gwyr a oruc y tynnu ef or eglwys allan. Ac ny ada6d escyb a [bieuffynt] beuafyeit<sup>1</sup> y wlat hynny rac llygru na6d yr egl6ys. A g6edy y ell6g or eglwys ef a ffoes yr Deheu. ac a deuth y Ystrat Tywi. A g6edy clybot hynny llawer a ymgynnulla6d atta6 o bop tu. ac ynteu a duc kyrch anhegar aniben<sup>2</sup> y Ffreinc ar Flemhissyeit yn y daruu y vl6ydyn honno. Y vlwydyn rac wyneb y kyrcha6d y Grufud ab Rys a dywedassam ni uchot. yn y vr6ydyr gyntaf y castell oed yn ymyl Arberth ac y lloscos. Odyna yd aeth hyt yn Llan ym Dyfri lle yd oed gastell neb un tywyssa6c a elwit Rickert P6ns6n y g6r y rodassei Henri vrenhin ida6 y kantref Bychan. ac y profes y torri ae losgi. ac nys galla6d kanys ym6rthlad ac ef a wnaeth keitweit y castell a chyt ac 6ynt Maredud uab Ryderch uab Krada6c y g6r a oed yn kynnal Ystiwerdaeth y dan y dywededic Richert. y rac castell eissoes a losges. A g6edy ymsaethu or t6r ac ef a brathu llawer oe wyr a saetheu. a llad ereill yd ymchoela6d drachefyn. A g6edy hynny y danuones y gedymdeithon y wneuthur kyrch a chynn6r6f ar gastell a oed yn ymyl Aber Tawy. a h6nn6 a bioed iarll a elwit Henri Bem6ud. A g6edy llosgi y rac gastell. ac amdiffyn or keitweit y t6r a llad rei oe wyr yd ymchoela6d drachefyn. A g6edy clybot hynny ac ymgynnulla6d atta6 lla6er o ynvydyon ieueinc o bob tu wedy y d6ylla6 o chwant anreitheu. neu o geissa6 atnewydu Brytana6l teyrnas. Ac ny thal ewyllys<sup>3</sup> dim o ny byd Du6 yn borth ida6. G6neuthur a oruc yselyfaethu ma6r yn y gylch o gylch. Ar Ffreinc yna y gymerassant gyghor a gal6 pennaethu y wlat attunt. Nytr amgen Owein uab Carada6c uab Ryderch y g6r y rodassei Henri vrenhin ida6 rann or Kantref Ma6r. a Maredud uab Ryderch yr h6nn a dywed-

<sup>1</sup> Hennafeid. ib.<sup>2</sup> Am benn. MS. LL.<sup>3</sup> Dyn. MS. LL.<sup>1</sup> I Ddyfed. MS. LL.<sup>2</sup> Gwydd. MS. LL.

Clar y gŵr y llydyssit Einaen uab Anaraet y nei oe achaes. a thori castell Aber Rheidawl. a chastell Mabwynyaen ae llosci. ac atorescynn holl Geredigyaen a mynychlu lladuau a lloscuau ar y Fflemisseit. a dŵyn mynych anreithu y gantunt. A gwedy hynny yd ymaruolles yr holl Gymryr ar ymŵrthlad a cheitweit y Ffreinc a hynny yn gyfun y gyt. Y vlŵydyd rac wyneb y diffeithaed Dauyd uab Owein Gŵyned Tegigyl. ac y mudaed y dynyon ae hanifeileit y gyt ac ef hyt yn dyffryn Clŵyt. A gwedy tebygu o brenhin y bydei ymlad ar y castell a oed yn thegygyl kyffroi llu a oruc drŵy diruaer vrys a dyuot hyt yn Rudlan a phebyllu yno deirnos. A gwedy hynny ymchoelut y Loegyrr. a chynnullaŵ diruaer lu y gyt ac ef a detholedigyon ymladwyr Lloegyrr a Normandi a Fflandrys ac Angiw a Gwasgŵin a holl Brydein a dyuot hyt y Groes. Oswallt gan darparu alltudaŵ a difetha yr holl Vrytanyeit. Ac yn y erbyn ynteu y deuth Owein Gŵyned. a Chatwaladyr ueibon Grufud ab Kynan a holl lu Gŵyned y gyt ac ŵynt. Ar arglŵyd Rys ab Grufud a holl Deheubarth y gyt ac ef. ac Owein Keveilaec a Iorwoerth Goch uab Maredud a meibon Madaec uab Maredud a holl Bowys y gyt ac ŵynt. a Deunaŵ<sup>1</sup> Madaec uab Iorwoerth<sup>2</sup> ae holl gyfoeth y gyt ac ef.<sup>3</sup> Ac y gyt yn gyfun diergyneid y doethant hyt yn Edeirnaen. a phebyllu a wnaethant yn Coruaen. A gwedy trigyaŵ yn hir yn y pebylleu yno heb arueidaw o un gyrchlu at y gilyd y ymlad. llidyaw a oruc y brenhin yn diruaer. a chyffroi y lu hyt yghoet Dyffryn Keiriaec. a pheri torri y coet ae bŵrŵ yr llaer. Ac yno yd ymerbynyaed ac ef yn ŵraŵl ychydic o Gymryr etholedigyon y rei ny wydynt odef eu goruot yn aŵsen y tywyssygon. A llawer or rei kadarnaf a dygwyaed o bob tu. Ac yna y pebyllaed y brenhin ar bydinoed. y gyt ac ef. A gwedy trigyaŵ yno ychydic o dydyeu y kyfarsagwyt ef o diruaer dymestyl awyr a thra llifeireint glaŵgyd. A gŵedy pallu ymborth idaŵ yd ymchoelaed y pebylleu ac lu y vaestir Lloegyrr. Ac yn gyflaen o diruaer lit y peris dallu y gŵystlon a vuassei ygkarchar gantaŵ. yr ys talym o amser kyn no hynny. Nyt amgen deu uab Owein Gŵyned Kadwallaen a Chynwric. a Maredud uab yr arglŵyd Rys a rei ereill. A gwedy kymryt kygor y symudaed y lu hyt yg kaer Lleon. ac yno

<sup>1</sup> Wicew Wicwm. ib.

<sup>2</sup> A. MS. Ll.

<sup>3</sup> Ufuddocau. ib.

<sup>1</sup> Deu uab.

<sup>2</sup> Idnerth.

<sup>3</sup> Wynt. MS. Ll.

pebyllia6 a oruc llawer o dydyeu yn y doeth llogau o Dilyn ac or dinassoed ereill o Iwerdon atta6. A gwedy nat oed diga6n ganta6 hynny o logeu rodi rodyon a oruc y logeu Dilyn ae gell6g drachefyn ac ynteu ae lu a ymchoela6d y Loegy. Yn y vl6ydyn honno y kyrcha6d yr argl6yd Rys kaer Aber Teiui ae chastell. ac y torres. ac y llosges. a dirua6r anreith a duc. Ac achub Castell Kil Gerran a oruc. a dala Robert Ysteuyn ae garcharu. Y vl6ydyn honno dr6yng nat Du6 ac annoc yr Yspryt Glan y doeth koeint o vyneich y Ystrat Fflur. Ac yua y bu uar6 Llywelyn uab Owein G6yned y g6r a ragores mod pa6b o de6red a doethineb ar doethineb o ymadrod. ar ymadra6d o voesseu. Y vl6ydyn rac 6yneb y doeth y Ffreinc o Benuro ar Filemisseit y ymlad yn gadarn a chastell Kil Gerran. A g6edy llad llawer oe g6yr yd ymchoelassant adref yn llaw wac. Ac eilweith yd ymladassant a Chilgerran yn over heb gaffel y castell. Y vl6ydyn honno y distrywyt dineis Basin y gan Owein G6yned. Y vl6ydyn honny y g6rthlad6yt Dieruut<sup>1</sup> uab M6rchath oe genedyl ac yd aeth hyt yn Normandi at vrenhin Lloegy y eruyneit ida6 y dodd yn y gyfoeth drachefyn wedy c6yna6 wrtha6. Ac yn y vl6ydyn honno y g6rthlad6yt Iorwoerth Goch uab Maredu6 oe genedyl ac oe gyfoeth yn Mochnant y gan y deu Owein. Ar deu Owein hynny y rannasant Vochnant y rygtunt. ac y deuth Mochnant uch Raeadyr y Owein kefeila6c a Mochnant is Raeadyr y Owein Vychan. Y vl6ydyn rac 6yneb y kyfeira6d Owein a meibon Grufud ab Kynan y Wyned a Rys ab Grufud ab Rys o Deheubarth yn erbyn Owein keueila6c. ac y dugant y ganta6 Gaer Eing6n. ac y rodassant y Owein Vychan uab Mada6c uab Maredu6. Odyua yd ennillasant Davalwern a honno a rodet yr argl6yd Rys kanys oe gyfoeth y dywetit<sup>2</sup> y hanfot. Ny bu ua6r wedy hynny yn y doeth Owein keueila6c a llu or Ffreinc y gyt ac ef am benn castell kaer Eina6n yr h6n a wnathoed Kymry kyn no hynny. A g6edy ennill y kastell y dorri a wnaethant ae losgi a llad yr holl gastellwyr. Yn diwed y vl6ydyn honno y kyrcha6d Owein a Chatwaladyr tywysogyon G6yned. ar argl6yd Rys tywysa6c o Deheubarth ae lluoed gyt ac 6ynt am benn castell Rudlan yn Tegeigyl. ac eisted 6rtha6 dri mis a orugant. A gwedy hynny cael y castell ae dorri. ae losgi. a chastell

arall y gyt ac ef yr molyant y Gymry yn hyfryt uuduga6l pa6b y6 g6lat. Y vl6ydyn rac 6yneb y llas G6rgeneu abat a Llawden y rei y gan Gynan ac Owein. Y vl6ydyn rac 6yneb y rydha6yt Robert uab Ysteuyn o garchar yr argl6yd Rys y gyfeillt. Ac y duc Diernut<sup>1</sup> uab M6rchath<sup>2</sup> ef hyt yn Iwerdon gyt ac ef. Ac yr tir y doethant y L6ch Garm6n. ac ennill y kastell a wnaethant. Y vl6ydyn rac 6yneb y llas Meuruc uab Adam dr6y d6yll yn y g6sc y gan Varedud Bengoch y gefynder6. yn diwed y vl6ydyn honno mis Tachwed y bu uar6 Owein G6yned uab Grufud ab Kynan tywysa6c G6yned. g6r dirua6r y volyant ac anueidra6l y brudder ae uned ae gedernit. ae de6red yg kymry.<sup>3</sup> wedy aneiryf uudugolyaetheu. heb omed neb eiryoet or arch a geissei. wedy kymryt penyt a chyffes ac ediuar6ch a chymun rinweden corff Crist. ac ole6 ac aghenn.

Deg mlyned a thrugein a chant a mil oed oet Crist pan lada6d Davyd ab Owein Howel uab Owein y bra6t hynaf ida6. Y vl6ydyn rac 6yneb y llas Thomas archescob g6r ma6r y grefyd ae sancteidr6yd ae gyfya6nder. ae gyghor ac annoc Henri vrenhin Lloegy y punhet dyd g6edy du6 Nadolic ger bronn alla6r y drinda6t yn y gapel e hun yg Gheint ae escoba6l wise ymdana6. a del6 y groc yn y la6 y llas<sup>4</sup> ar diwed yr efferen. Yn y vl6ydyn honno y mord6ya6d Rickert iarll Terstig<sup>5</sup> uab Gilbert vwa kadarn a chadarn varcha6clu gyt ac ef y Iwerdon. Ac yn y kyrch kyntaf y kymerth Porth Lachi. A gwedy gwneuthur kyfeillach a Dieruut<sup>6</sup> vrenhin ac erchi y verch yn bria6t. ac o nerth h6nn6 y cauas Dinas Dilyn dr6y wneuthur dirua6r aerua. Ac yn y vl6ydyn honno y bu uarw Ropert uab Llywarch. Ac y bu uarw Dieruut vrenhin Largins. ac y clad6yt yn y dinas a elwit Fferd. Ac yn y vl6ydyn honno y mag6yt teruyse y r6g brenhin Lloegy a brenhin Ffreinc am lad yr archescob. Kanys brenhin Lloegy a rodassei yn veicheu y vrenhin Ffreinc Henri tywysa6c B6rg6in a Thybawt ieuanc y urawt meibon oed y rei hynny yr Tibawt tywysawc Byrgwin. a iarll Ffildrys a llawer o rei ereill pan wnaeth kymot ar archescob hyt na wnaei argywed ida6 byth. A g6edy clybot o Alexander bap rylad yr archescob anuon llythyreu at

<sup>1</sup>Diernut.<sup>2</sup>Mwrtach MS. Ll.<sup>3</sup>A dewredd y Cymry. MS. Ll.<sup>4</sup>A chleddyfeu. ib.<sup>5</sup>Trist. Strifing.<sup>6</sup>Diernut.<sup>1</sup>Diernut.<sup>2</sup>Dyweid. MS. Ll.

vrenhin Ffreinc a wnaeth. ac at y meicheu ereill. A gorchymun udunt drôy yscymunda6t kymell brenhin Lloegyr y dyuot y lys Rufein y wneuthur iawn am agheu yr archescob. Ac 6rth hynny anesm6ytha6 a wnaethant o bop aruaeth ar y tremygu ef. A phan welas Henri vrenhin hynny dechreu g6adu a oruc hyt nat ac gyghor ef y llas yr archescob. ac anuon kenadeu at y pab a wnaeth y venegi na allei ef vynet y Rufein dr6y yr ach6ysson hynny. Ykyfr6g hynny y kilya6d rann uab6r vl6ydyn. A thra yttoedit yn hynny tu dra6 yr mor y kynulla6d yr argl6yd Rys uab Grufud lu am benn Owein Keueila6c y da6 ar uedyr y darest6g. Kany y genifer g6eith y gallei Owein g6rthwynebu yr arglwyd Rys y g6rth6ynebei. A Rys ae kymhella6d y darest6g idaw. Ac y kymerth seith 6ystyl ganta6. Ygkyfr6g hynny ofynhau a wnaeth y brenhin yr ebostola6l ysgymunda6t ac adaw goladoed Ffreinc ac ymchoelut y Loegyr. a dywedut y mynnei vynet y darest6g Iwerdon. Ac 6rth hynny ymgynnulla6 a oruc atta6 holl dywyssogyon Lloegyr a Chymry. Ac yna y deuthatta6 yr argl6yd Rys. or lle yd oed yn Llwyn Danet amgylch yr wyl y ganet yr arglwydes Veir. Ac ymgyfeilla6 a wnaeth ar brenhin dr6y ada6 drychan meirch. A phedeir mil o ychen a phetwar gwystl ar hugeint. A gwedy hynny y dynessa6d y brenhin y Deheubarth. Ac yn yr hynt honno ar auon Wysc y duc ganta6 Iorwoerth uab Owein uab Crada6c uab Grufud. Ac o acha6s hynny y distrywa6d Iorwoerth ae deu uab Owein a Howel a anyssit ida6 o Agharat uerch Uchtrut escob Llan Daf. A Morgan uab Seisyll uab Dyfynwal. o Agharat uerch Owein chwaer Iorwoerth uab Owein gyt a llawer o rei ereill dref Gaer Llion ac y lloset hyt y castell. ac y diffeitha6d y wlat hayach o g6hyl. Ac yna y deuth y brenhin a dirua6r lu ganta6 hyt ym Penuro yr unfet dyd ar dec o galan Hydref. ac y rodes yr argl6yd Rys Geredigya6n ac Ystrat Tywi ac Ystlwyf ac Euelfre. Ac yn yr haf h6nn6 yd adeilassei yr argl6yd Rys gastell Aber Teini o vein a mortar yr h6nn a distrywassei kyn no hynny pan y duc y ar iarll Clar ac y dileawd Robert uab Ysteuyn o Nest uerch Rys ab Te6d6r. ar Nest honno a oed vodrup y Rys a Robert yn gefynder6 ida6. A brodyr Robert oed Dauyd escob Myny6. a G6ilim Bastard. Meibon oed y rei hynny y Eralt ystiwert. Ac yna yd aeth Rys o gastell Aber Teini hyt yg kastell Penuro y ymdidan ar bren-

hin y deudecuet dyd o galan Hydref. a du6 Sad6rn oed y dyd h6nn6. Ac yd erchis Rys gynnulla6 y meirch oll a ada6ssei yr brenhin y Aber Teini ual y bynt tara6t 6rth eu hanuon yr brenhin. A thrannoeth du6 sul yd ymchoeles Rys ac ethol a wnaeth whe meirch a phetwar ugeint 6rth eu hannon drannoeth yr brenhin. A gwedy dyuot hyt y Ty G6ynn clybot a wnaeth ryuynet y brenhin y Vyny6 y bereina6 ac offryma6 a wnaeth y brenhin ym Myny6 deu gappan cor o bali ar vedyr cantoryeit y wasanaethu Du6. Ac offryma6 hefyt a wnaeth dec swllt. Ac eruynneit a oruc Dauyd uab Geralt y g6r a oed escob ym Myny6 yna yr brenhin v6ytta y gyt ac ef y dyd h6nn6. a g6rthot y g6aha6d a oruc y brenhin. o acha6s gweglyt gormod dreul yr escob. Dyuot cissoes a oruc ef ar escob a thrychan6r gyt ac 6ynt y gina6a. a Rickert iarll g6r a oed o Iwerdon y ymgyueilla6 ar brenhin. Kany o anuod y brenhin y dathoed o Iwerdon. a llawer o rei ereill a gina6ssant oc eu seuyll. Ac yn ebr6yd gwedy kinya6 yd yskynna6d y brenhin ar y veirch. Gla6 ma6r oed yn y dyd h6nn6 a du6 g6yl Vihagel oed. Ac yna yd ymchoela6d y Benvro. A phan gigleu Rys hynny anuon y meirch yr brenhin a oruc. A g6edy d6yn y meirch rac bronny y brenhin kymryt a wnaeth un ar bymthec ar hugeint a etholes. a dywedut nat y bot yn reit ida6 wrthunt y kymerssei 6ynt. namyn yr talu diol6eli y Rys a vei v6y no chynt. A g6edy regi bod uelly yr brenhin dyuot a oruc Rysat y brenhin. a chael da6n<sup>1</sup> a wnaeth gyr bronny y brenhin. a rydhau a oruc y brenin ida6 Howel y uab. a vuissei ganta6 yn 6ystyl yn hir kyn no hynny a rodi oet a oruc y brenhin ida6 am y g6ystlon ereill a dylpei Rys y dalu yr brenhin. Ac am y dreth a dywetp6yt vry yn y delei y brenhin o Iwerdon. Parattoi llyges a wnaethp6yt ac nyt oed adas y g6ynt udunt. Kany amser nywla6c. a breid y keit yna yt aeduet yn un lle yg kymry. A gwedy dyuot<sup>2</sup> Galixtus bap. Erchi a wnaeth y brenhin gyrru y loegeu o borthua yr mor. Ar dyd h6nn6 ysgynnu y llogeu a orugant. Ac etto nyt oed gymmwynassgar y g6ynt udunt. Ac acha6s hynny ymchoelut a wnaeth drachefyn yr tir. ac ychydic o niuer y gyt ac ef. Ar nos gyntaf wedy hynny yd ysgynnawd y loegeu gan 6yla6 o hona6 ef e hun ac o ba6b oe wyr. a thrannoeth du6 Sul oed yr unuet dyd ar bym-

<sup>1</sup> Ac urdas. MS. Ll.

<sup>2</sup> Dyuot Gwyl. MS. Ll.

thee o galan Racuyr dr6y hyr6yd awel wynt y dyblyga6d y logeu ar dir Iwerdon. Y vl6ydyr rac wyneb y bu dirua6r var6ol-yaeth ar y llu oed gyt ar brenhin yn Iwerdon o achas6s newydder y diargrynedigion wynoed. ac o achas6s kyfygd6r o newyn. Am na allei y llogeu a newidyeu yndunt vord6ya6 attunt y gayaf. dr6y dymestla6l gandared mor Iwerdon. Y vl6ydyr honno y bu uar6 Katwaladyr ab Grufud ab Kynan vis Ma6rth. Ac yn y vl6ydyr honno yd ymchoela6d brenhin Lloegyr o Iwerdon. gan ada6 yno var6neit a marchogyon urd-olyon drosta6 o achas6s y kenadeu a dathoed atta6 y gan y pab a Lowys vrenhin Ffreinc. A du6 G6ener y Croglieth y doeth ym Penuro. ac yno y trigya6d y pasc h6nn6. a du6 Llun Pase yd ymdidana6d a Rys yn Talacharn ar y fford. Ac odyo yd aeth y Loegyr. A gwedy mynet y brenhin o Gaer Dyf hyt y Kastell Newyd ar Wysc anuon a wnaeth y erchi y Iorwoerth uab Owein dyuot y ymwelet ac ef. ac y ymdidan am hed6ch. A rodi kadarn gygreir a oruc ida6 ac oe veibon. A phan yttoed Owein uab Iorwoerth gwas ieuanc grymmus hegar yn parottoi o gygor y dat ac wyrda y vynet gyt ac dat y lys y brenhin. y kyfaruu 6r<sup>1</sup> iarll Brista6 ac ef ar y fford yn dyuot a Gaer Dyf ac y lladyssant. A gwedy y lad ef yna y difeitha6d y dat a Howel y vra6t a llawer o rei ereill heb ymdiret or achas6s h6nn6 yr brenhin o neb un mod cyfoeth y brenhin hyt yn Henfford a Chaer Loyw dr6y lad a llogsi ac anreitha6 heb drugared. Ac yna heb odric yd aeth y brenhin y Ffreinc wedy gossot yr argl6yd Rys yn Iustus yn holl Deheubarth. Ygkyfr6g hynny y delit Seisyll ab Dyfynwal a Ieuau uab Dyfynwal a Ridit dr6y d6yll y gan wyr y brenhin. ac y carchar6yt yg kastell Abergefenni. Y vl6ydyr rac wyneb y bu dirua6r ardynmyr ar hinda ar hyt y gayaf ar g6an6yn a mis mei hyt dyd Ieu kychavel. Ar dyd h6nn6 y kyuodes dirua6r dymystyl yn yr awyr o daraneu a myllt a chorwynt a chawadeu kenllysc. a gla6 y rei a dorres keigeu y g6yd. ac a vyrya6d y coedyd hyt y lla6r. a ry6 bryuet a doeth y vl6ydyr honno y yssu deil y g6yd. yn y diffroyth- a6d hayach pob ry6 brenn. Y vl6ydyr honno ar vl6ydyr kyn no hi y collet llias6s or dynyon ar aniuelleit ac nyt heb achas6s. Kanys yn y vl6ydyr honno y ganet mab yr argl6yd Rys o uereh Varedud uab Grufud y nith uereh y vra6t. Ygkyfr6g hynny pan yttoed Henri vrenhin hynaf y

<sup>1</sup> Wyr. MS. LL.

tu dra6 yr mor y death y uab Henri ieuaf. vrenhin newyd atta6. y ofyn ida6 beth a dyliei y wneuthur. Kanys kyt bei vrenhin ef llawer oed ida6 o uarchogyon. ac nyt oed ganta6 fford y dalu kyuar6sseu a rodyon yr marchogyon o nys kymerei yn ech6yn y gan y dat. Ar amser h6nn6 oed Ra6ys. Ae dat a dywa6t 6rtha6 y rodei ida6 ugein punt o v6nei y wlat honno beunyd yn dreul ac na chaffei m6y. Ac ynteu a dywa6t na chly6ssei ef eiryoet bot brenhin yn 6r pae ac na bydei ynteu. A g6edy kymryt or mab gyghor ef a aeth y dinas T6rs y geissa6 aryan ech6yn y gan v6rdeisseit y diuas. A phan gigneu y brenhin hynny. anuon kenadeu a oruc y brenhin at y b6rdeisseit. y wahard udunt dan boen y holl da. nat ech6ynynt dim oe uab ef. A heb ohir anuon a oruc wyr da y warchad6 y uab rac y vynet odyo yn dirybud y un lle. A g6edy adnabot or mab hynny peri a oruc medwi nossweith y g6ercheitweit a oed arna6 o lys y brenhin. A gwedy eu hada6 yn vedwon yn kysgu dianc a wnaeth ac yehydic o nifer y gyt ac ef hyt yn llys brenhin Ffreinc y whegr6n. Ygkyfr6g hynny yd anuones Howel y uab hyt att yr hen vrenhin tu dra6 yr mor ar vedyr trigya6 yn y llys a g6assanaethu ar y brenhin a haedu y ged-ymdeithas o bei vy6.<sup>1</sup> ac ual y gallei y brenhin ymdiret y Rys o bei vy6.<sup>2</sup> ar brenhin a aruolles y mab yn enrydedus. a dirua6r diolch a wnaeth y Rys. Ac yna aflonydu a oruc y brenhin ieuanc ar gy-uoeth y dat dr6y nerth y whegr6n. a Thyb- a6t iarll B6rg6yn. a iarll Fflandrys. A thra vyd y brenhin yn ymryson uelly tu dra6 yr mor y dechreua6d Iorwoerth uab Owein o Gwynll6g ymlad a Chaer Llion. y pymthecuet dyd o galan A6st du6 Merchyr. Ac a ostyga6d y dreis oe rym ac nerth. Du6 Sad6rn wedy hynny. g6edy dala du6 Gwener y dyd kyn no hynny y g6yr a oed yn kad6 y baeli. A throstunt 6ynteu drannoeth y rodet y kastell. A g6edy hynny yr eilweith yr eil dyd o vis Medi y kyreha6d Howel uab Iorwoerth Went is Coet. A thrannoeth du6 G6ener y darestyga6d yr holl wlat eithyr y kastell, ac y kymerth wystlon o uchelwyr y wlat. Y vl6ydyr honno y goreskynna6d Dauyd uab Owein G6yned ida6 e hun ynys Von g6edy dehol o hona6 Uaelg6n uab Owein y vra6t hyt yn Iwerdon. Y vl6ydyr rac 6yneb y goreskynna6d Dauyd uab Owein holl 6yned gwedy g6rthlad o hona6 y holl

<sup>1</sup> A fei fwy. MS. LL. 4<sup>2</sup> A fei fwy. ib.

vrodyr ae holl ewythred. Y vl6ydy n honno y delis Dauyd uab Owein Vaelg6n y vra6t ac y carchara6d. Y vl6ydy n honno y bu uar6 Kynan uab Owein G6yned. Yn y vl6ydy n g6edy hynny y delis Howel ab Iorwoerth o Gaer Llion. heb 6ybot oe dat Owein Penn Car6n y ewythyr. A g6edy tynnu y lygeit oe benn y peris y yspadu rac meithrin etifed o hona6 a wledychei<sup>1</sup> Gaer Llion. Ac y gyrrasant ymeith ody no Iorwoerth a Howel y uab. Yn y vl6ydy n honno y hedycha6d Henri vrenhin hynaf. a Henri ieuaf. g6edy dirua6r distry6edigaeth Normandi ae chyfnessaseyt wledyd. Ac yna y delis Dauyd uab Owein dr6y d6yll Rodri uab Owein y vra6t un uam un dat ac ef. ac y carchara6d my6n gefynneu am geissa6 cyfran o dref y dat ganta6. Ac yna y priodes y brenhin Davyd h6nn6 Dam Em ch6aer y vrenhin Lloegyr dr6y debygu gallel o hona6 gaffel y gyuoeth yn llonyd hedycha6l or acha6s h6nn6. Ac yna y diegis Rodri o garchar Dauyd y vra6t. A chyn diwed y vl6ydy n y g6rthlada6d ef Dauyd o Von ac o Wyned. yn y doeth dr6y auon Gon6y. Ac yna yd ymbarattoes yr Argl6yd Rys ab Grufud 6rth uny net y lys y brenhin hyt yg Kaer Loy6. Ac y duc gyt ac ef dr6y gygor y brenhin holl dywyssogyon y Deheu a uessynt yg g6rthwyneb yr brenhin. Nyt amgen Katwalla6n uab Mada6c o Vaelenyd y gefynder6. ac Eina6n Clut o Eluael y da6 gan y uereh. ac Eina6n uab Rys o Werthrynion y da6 y lall. A Morgan ab Crada6c ab Iestyn o wlat Vorgan o Wladus y chwaer a Iorwoerth uab Owein o Gaer Llion. A Seisyll uab Dyfynwal o Went uch Coet. y g6r a oed yna yn bria6t a G6ladus chwaer yr Argl6yd Rys. Hynny oll o dywyssogyon a ymchoelassant yw g6lodoed yn hedycha6l gyt ar argl6yd Rys y g6r a oed garedickaf gyueillt gan y brenhin yn yr amser h6nn6. dr6y ymchoelut Kaer Llion drachefyn y Iorwoerth ab Owein. Yn y lle wedy hynny y llas Seisyll uab Dyfynwal dr6y d6yll argl6yd Brecheina6c a chyt ac ef Rufud y uab a llawer o Bennaduryeit G6ent. Ac yna y kyraha6d y Ffreinec lys Seisyll uab Dyfynwal. a g6edy dala G6ladus y wreic y lldyasant Gadwaladyr y uab. Ar dyd h6nn6 y bu y druanaf aerua ar wyrda G6ent. A g6edy y gyhoededicka danllywychedic d6yll honno ny beida6d neb or Kymry ymdiret yr Ffreinec. Ac yna y bu uar6 Cadell uab Grufud dr6y

<sup>1</sup> Ac yna o ddeisyfyd gyrech y goresgyn y Ffreinec Gaer Llion. MS. Ll.

orthr6m glefyt. ac y clad6yt yn ystrat Fflur wedy kymryt abit y krefyd ymdana6. Ac yna y llas Rickert abat Cleryna6t my6n manachla6c yn ymyl Reiny s<sup>1</sup> y gan neb un anffydla6n uynach o vrath kylllell. Y vl6ydy n rac 6yneb y bu uar6 Kynan abat y Ty G6ynn a Dauyd escob Myny6. Ac yn y ol y denessa6d Pys yn escob. Ac yna y kynhalya6d yr argl6yd Rys 6led arbennic yn castell Aber Teui. ac y gyssodes deu ry6 amrysson un r6g y beird ar prydydyon ar llall r6g telynoryon a chrythoryon a phibydyon ac amrauaelon gerd arwest.<sup>2</sup> a d6y gadeir a ossodes y uudugolyon yr amryssoneu. Ar rei hynny a gyuoethoges ef o dirua6ryon rodyon. Ac yna y cauas gwas ieuanc oe lys e hunan y uudugolyaeth o gerd arwest. a gwyr G6yned a gauas y uudugolyaeth o gerd dawa6t. A pha6b or kerdoryon ereill a ga6ssant y gan yr argl6yd Rys kymeint ac a archyissant hyt na 6rthlada6t neb. Ar wled honno a gyhoedet vl6ydy n kyn y g6neuthur ar hyt Kymry a Lloegyr a Phrydein ac Iwerdon a llawer o wladoed ereill. Yn y vl6ydy n honno yn y Gra6ys yd ymgynulla6d kyghor hyt yn Llundein 6rth gadarnhau kyureitheu yr egl6ysseu yno geir bronn cardinal o Rufein a dathoed yno 6rth y neges honno. A g6edy meithryn cynn6ryf y r6g archescob Keint ac archescob Iore y tervysg6yt y gyghor. Kanys y dyd kyntaf or kyg. or yd achubassei archescob Iore eistedua y gadeir or tu deheu yr cardinal yn y lle y dilyer ac y gnottaei archescob Keint eisted. A thrannoeth pan doethant ger bronn y cardinal wedy amrysson yg g6yd yr holl lys am y teilygdodeu. y deuth y rei or tu drachefyn y archescob Iore ac yd ymchoelassant y gadeir yn y vyd g6egil yr archescob yr lla6r ar gadeir ar y uchaf ac 6ynteu ar y dra6s ef gan y sathru ae traet. ae ffusta6 ae dyrneu. A breid y diegis yr archescob yn vy6 ody no. Y vl6ydy n rac 6yneb y llas Eina6n Clut. ac y llas Morgan uab Maredudd. Ac yna yd adeila6d yr argl6yd Rys gastell Rayadyr G6y. Y vl6ydy n rac 6yneb y ryuela6d meibon Kynan yn erbyn yr argl6yd Rys. Ac yna y llas Kadwalla6n. Ac y dechreu6yt coueint y Manachla6c Gaer Llion yr honn a elwir Deuma.

Pedwar ugeint mlyned a chant a mil oed oet Crist pan uu uar6 Alexander bap. Ac yn y ol yntcu y doeth yn bap Lucius. Ac yna y bu uar6 Adaf escob Llanely6 yn

<sup>1</sup> Remys.

<sup>2</sup> Genedloedd arwest.

Ryt ychen. ac y cladôyt y myôn manach-  
laôc Osnei. Y vlôydyr rac ôyneb y llas  
Randôlff Depoyr a llawer o varchogyon y  
gyt ac ef y gan ieuencit Cser Wynth. Y  
vlôydyr rac ôyneb y bu uarw Henri ieuaf  
vrenhin Lloegy. Ac y bu uarô Rickert  
archescob Keint. Y vlôydyr rac ôyneb y  
bu uarô Ryderch abat y Ty Gwynn. A  
Meuruc abat y Cwm Hir. Y vlôydyr rac  
ôyneb amgyleh y Garaôys y doeth padri-  
arch Caerussalem hyt yn Lloegy y eruyn-  
ieit nerth y gan y brenhin rac distryô or  
Ideôon ar Sarassinyeit holl Gaerussalem.  
A chyt ac amyllder o varchogyon a phedit  
yd ymchoelaôd drachefyn y Gaerussalem.  
Yn y vlôydyr honno duô calan Mei y  
symulaôd yr heul y lliô. ac y dywaôd rei  
uot erni diffyc. Y vlôydyr honno y bu  
uarô Dauyd abat Ystrat Fflur. Ac y bu  
uarô Howel uab Ieuaf arglôyd Arôystli.  
ac y cladôyt yn enrydedus yn Ystrat Fflur.  
Ac yna y bu uarô Einaôn uab Kynan.  
Y vlôydyr rac ôyneb y bu uarô Lucius  
bap. Ac yn y le yd urdôyt y trydyd  
Urbanus yn bap. Yn y vlôydyr honno  
amgyleh mis Gorffenna yd aeth Cofeint  
Ystrat Fflur y Redynaôc Velen yg Gôyned.  
Ac yna y bu uarô Pedyr abat yn dyflryn  
Clôyt. Ac yna y llas Katwaladyr uab  
Rys yn Dyfet. ac y cladôyt yn y ty Gôynn.  
Yn y vlôydyr honno y bu uarô Ithel abat  
Ystrat Marchell. Ac yna y llas Owein  
uab Madaôc gôr maôr y uolyant. Kanys  
cadarn oed a thec. a chareidic a hael. ac  
adurn o voesseu da y gan deu uab Owein  
Kyueilaôc. nyt amgen Gôenôynôyn a  
Chatwallaôn. a hynny drôy nossaôl vrat a  
thôyll. Ac yna y delit llywelyn uab  
Katwallaôn yn enwir y gan y vrodyr. ac  
y tynnôyt y lygeit oe benn. Ac yna y  
diffeithaôd ac o losgaôd Madaôc<sup>1</sup> uab Rys  
Dinbych. Y gôr a oed daryan a chedernit  
yr holl Deheu. Kanys egluraf oed y glot  
a thec a chareidic oed gan baôp. kyt bei  
kymedraôl y veint garw wrth y elynyon.  
hegar ôrth y gedymdeithon. paraôd y rod-  
yon. budugaôl yn ryuel. Ar holl dywys-  
ogyon kyt amhinogyon ac ef ae hergryn-  
ynt. kyffelyb y lew yn y weithredoed. Ac  
megys keneu lleô aruthur yn y helua. y  
gôr a ladaôd llawer or Fflandraswyr ac ae  
gyrraôd ar ffo. Y vlôydyr rac ôyneb y  
doeth y Sarassinyeit ar Ideôon y Gaeruss-  
alem gan dôyn y groc gantunt duô  
Merchur y Lludô a goresgn Kaerussalem.  
a chlymeint ac a gaôssant o Gristonogyon  
yndi llad rei a wnaethant a dôyn ereill  
yg keithiwet. Ac o achaôs hynny y

<sup>1</sup> Maelgwyn.

kymerth Philip brenhin Ffreinc. a Henri  
vrenhin Lloegy. ac archescob Keint ac  
aneiryf o luossogrôyd cristonogyon ac  
arôydon croes Crist arnunt. Y vlôydyr  
rac wyneb y bu uarô Henri vrenhin. ac  
yn y ol ynteu y coronet Rickert y uab yn  
vrenhin y marchaôc goreu a gleôaf. Y  
vlôydyr honno y goreskynnaôd yr arglôyd  
Rys gastell Seint Cler. ac Aber Coran. a  
Llan Ystyffan. Yn y vlôydyr honno y  
delit Maelgôn uab Rys y gan y dat drôy  
gyghor Rys y uraôd ac y carcharôyt.

Deg mlyned a phedwar ugein a chant a  
mil oed oet Crist pan aeth Phylip vrenhin  
Ffreinc. a Rickert vrenhin Lloegy ac  
archescob Keint a diruaôr iuossogrwyd o  
ieirll a barôneit y gyt ac ôynt y Gaerussal-  
em. Yn y vlôydyr honno yd adeilaôd yr  
arglôyd Rys Casteli Ketweli. Ac y bu  
uarô Gwennlian uerch Rys vloden a thegôch  
holl Gymry. Y vlôydyr rac wyneb y bu  
uarô Grufud Maelaôr yr haelaf o holl ty-  
wysogyon Kymry. Y vlôydyr honno  
heuyt y bu uarô Gôiaôn escob Bangor  
gôr maôr y grefyd ae enryded ac deilyg-  
daôd. Ac y bu diffyc ar yr heul. Y  
vlôydyr honno y bu uarô archescob Keint.  
Ac yna y llas Einaôn or Porth y gan y  
vraôd. Ac y goresgynnaôd yr arglôyd Rys  
gastell Niuer. Ac y bu uarô Owein uab  
Rys yn Ystrat Fflur. Y vlôydyr rac  
ôyneb y diehegis Madaôc uab Rys o garchar  
arglôyd Brecheinaôc. Ac y goresgynnaôd  
yr arglôyd Rys gastell Llan y Hadein. Ac  
y bu uarô Grufud uab Cadôgaôn. Y  
vlôydyr rac ôyneb y delis neb un iarll  
Rickert vrenhin Lloegy ac ef yn dyuot o  
Gaerussalem. ac y dodet yg karchar yr  
amheraôdyr. A thros y ellygdaôd ef y bu  
diruaôr dreth dros ôyneb holl Lloegy y  
gymeint ac nat oed yn helô eglôyswyr na  
chrefydwyr nac eur nac aryant hyt yn oet y  
carecleu a dodrefyn yr eglôysseu ar ny orffei  
y dodî oll yn medyaunt sôdyogyon y brenhin  
ar deyrnas ôrth y rodi drosaf. Y vlôydyr  
honno y darestygaôd Rodri uab Owein  
ynys Von drôy nerth Gôrthrych vrenhin  
Manaô. A chyn penn y vlôydyr y gôrth-  
ladôyt y gan veibon Kynan uab Owein.  
Y vlôydyr honno nos nadolic y doeth  
teulu Maelgôn uab Rys a bliuieu gantunt  
y dorri castell ystrat Meuruc. ac yd ennil-  
assant y kastell. Y vlôydyr honno y  
kauas Howel Seis ab yr Arglôyd Rys  
gastell Gôis drôy urat. Ac y delis Phylip  
uab Gôis keitwat y kastell ae wreic ae deu  
uab. A gôedy gôelet or dywededic Howel  
na allei ef gadô y kestyll oll heb vôrô rei yr  
llaôr. ef a ganhadaôd y deulu ac y deulu y

vraôt torri castell Llan y Hadein ae distry6. A phan giglen y Fflaudrassyeit hynny kynnulla6 a wnaethant yn dirybud yn erbyn y deu uroder. ae kyrehu. a llad llawer oe gwyr. ae gyrru ar ffo. Ac yn y lle g6edy hynny ymchoelut a wnaeth y Kymry. ac ymgynnulla6 ygkyloch y castell. ac 6rthy hewyllys y distry6yt hyt y lla6r. Y vl6ydyn honno y delis Anara6t Vada6e a Howel y vrodyr ac yd yspeila6d 6ynt oe eu llygeit. Y vl6ydyn honno y r6des Maelg6n uab Rys gastell Ystrat Meuruc y vra6t. Ac yd adeila6d yr Argl6yd Rys eilweith gastell Rayadyr G6y. Y vl6ydyn honno y delit yr arglwyd Rys y gan y veibon ac y carcharwyt. Ac y rydhaawd Howel Seis y dat gan dwyllaw Maelgwn uab Rys. Ac yna y torres meibon Katwallawn gastell Rayadyr Gwy. Ac yd ymchoela6d Rickert vrenhin o Gaerusalem. Ac yna kyfuna6d Llywelyn ab Torwoerth a Rodri uab Owein a deu uab Kynan ab Owein. yn erbyn Dauyd uab Owein. Ac y g6rthladyssant 6y holl gyfoeth Dafyd eithyr tri chastell. Y vl6ydyn rac 6yneb y deuth Rosser Mortyuer a llu ganta6 y Vaelenyd. A g6edy g6rthlad meibon Caedwalla6n yd adeila6d gastell y Gamaron.<sup>1</sup> Ac yna y gor6skynna6d Rys a Maredudd meibon yr Argl6yd Rys dr6y d6yll gastell Dinef6r a chastell y Cantref Bychan dr6y gyt synnedigaeth g6yr y kymhydeu.<sup>2</sup> Ar rei hynny a delit yn y vl6ydyn honno dr6y d6yll y gan y tat yn Ystrat Meuruc ac a garchar6yt. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 escob Bangor. Ac yna y kynnulla6d yr argl6yd Rys lu. ac y kyreha6d kaer Vyrdin. Ac y llosses hyt y prid eithyr y castell e hun. Ac od yna y ky6h6ynna6d a dirua6r lu ganta6 oe wyr e hun ac 6 wyr argl6ydi ereill a odynt gyfun ac ef y ymlad a chastell Col6yn. ae gymell y ymrodi. A g6edy y gael. ef ae llosses. Ac yn ebr6yd odyno y ky6h6ynna6d ae lu hyt Maes Hyfeid ae losgi. A g6edy llossgi y dyd h6nn6 yn y dyffryn yn gyfagos y kyweira6d Ros er Mortymer a Hu Dysai yn vydinoed arua6e. o ueirch a llurugeu a helmeu a tharyaneu yn dirybud yn erbyn y Kymry. A phan welas y ma6rvrydus Rys hynny ynwisa6 a wnaeth megys Llew dyfal o gallon a lla6 gadarn a chyrchu y elynyon yn 6ra6l ae hymchoelut ar ffo ae hymlit ae traethu<sup>3</sup> yn diel6 kyt bei g6ra6l. yn y g6yna6d y marswyr yn dirua6r yr ormod aerua or rei eidunt. Ac yn y

lle yd ymladada6d a chastell Paen yn Eluael a blifieu a magneleu. Ac y kymella6d y ymrodi. A g6edy y gael y bu gyfundeb y rygta6 a G6ilim Brewys. Ac am hynny yd edewis y castell h6nn6 yn hed6ch. Yn y vl6ydyn honno yd ymlada6d Henri archescob Keint Iustus holl Loegy. a hyt ac ef gynnulleitua o ieirll a Bar6neit Lloegy. a holl tywysogyon G6yned yn erbyn castell G6en6yn6yn yn Trall6g Llywelyn. A g6edy llauuys ymlad ac ef ac amryuaelon peiranneu a dechymgyon ymladeu yn y diwed o enryued gelyfyd 6ynt a ennillassant y castell dr6y anuon m6yn6yr y gladu y dana6. ac y wneuthur flossyd dirgeledic y dan y dayar. Ac uelly y kymhell6yt y kastellwyr y ymrodi. Ac eissoes 6ynt a diagyssant oll yn ryd ae g6isgoed gantunt ae harueu eithyr un a las. Ac odyne kyn diwed y vl6ydyn honno y kynnulla6d G6en6yn6yn y wyr y gyt ac yd ymlada6d yn 6ra6l ar dywededic gastell ac ae kymhella6d y ymrodi ida6. dr6y amot hefyt rodi rydit yr castellwyr y vynet yn iach ae dillat ae harueu gantunt. Y vl6ydyn honno y bu uar6 Grufud abat Ystrat Marchell. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu dirua6r dymhestyl o uar6olyaeth ar hyt ynys Prydein oll a theruyneu Ffreinc yn y vu var6 anciryf or bobyl gyffredin. a diuessured or bonedigyon ar tywysogyon. Ac yn y vl6ydyn dymestla6l honno yd ymdangosess Antropos oe ch6oriyd y rei a el6it gynt yn du6iesseu y tyghetuennod y kyghoruynnus wen6ynic nerthoed yn erbyn y veint ardercha6e dywyssa6e hyt na allei ystoriau Ystas ystoria6r na chathleu Fferyll uard menegi y meint g6ynuan a dolur thrueni a doeth y holl genedyl y Brytanyeit pan dorres agheu yr e mellidgedic vl6ydyn honno ol6yn y tyghetuennu y gymryt yr Argl6yd Rys ab Grufud dan y hadaned dan darestygedic uedyant agheu y g6r a oed benn a tharyan a chedernit y Deheu a holl Gymry. a gobeith ac amdiffyn holl genedloed y Brytanyeit. Y g6r h6nn6 a hanoed o vonhedickaf lin brenhinoed. Ef a oed eglur o amylder kenedyl. a grymuster y ued6l a gyffilyba6d 6rth y genedyl. Kyghor6r y dyledogyon. ymladgar yn erbyn kedyrn. diogel6ch y darestygedigyon. ymlad6r ar geuyrd. Kyffiro6r yn ryueloed. kyweir6r yn y bydinoed ae reol6r. c6ymp6r y toruoed. ac megys baed<sup>1</sup> neu le6 yn ruthra6 uelly y dywalei y greulonder yn y elynyon. Och am ogonyant yr ymladeu. taryan y marchogyon. ymdifyn y wlat.

<sup>1</sup> Yng Nghamaron. MS. LL.

<sup>2</sup> O bobtu. MS. LL.

<sup>3</sup> Saethu.

<sup>1</sup> Yn wherun. MS. LL.



tegŵch arueu. breich y kedernit. Ilaŵ yr haelon. llygat y dosparth. echtygynnŵr yr aduŵynder. uchelder maŵrurytrŵyd. defnyd grymssder. Eil Achelarŵy o nerth cledyr y dŵyuronn. Nestor o hynaŵster. Tideus o leŵder. Samson o gedernit. Ector o brudder. Ercŵlf o wychter. Paris o vryt. Ulixes o lauar. Selyf o doethineb. Ajax o uedŵl. a grŵndwal yr holl gampeu.

Gŵedy marŵ yr arglŵyd Rys y dynessaŵd Grufud y uab yn y ol yn y llywodraeth y kyfoeth yr hŵnn a delis Maelgŵnn y uraŵt pan doeth y dywedeid Vaelgŵn wedy ryalltudaŵ kyn no hynny oe gyfoeth ae wyr y gyt ac ef. a theulu Gŵenŵynŵn y gyt ac ŵynt hyt yn Aber Ystŵyth. A goresgyn y dref ar castell. a llad llawer oe bobyl. a dŵyn ereill ygkeithiwet a goreskyn holl Geredigyaŵn ae chestyll. A gŵedy dala Grufud y uraŵt yd anuones y garchar Gŵenŵynŵn. A hŵnnŵ herŵyd y ewyllys ae hanuones y garchar Saeson. Ac yna y goreskynnaŵd Gŵenŵynŵn Arŵystli. ac y delis Llywelyn uab Iorwoerth a Danyd ab Owein Gŵyned. Y vlŵydyn honno y bu uarŵ Owein Kefeilaŵc yn Ystrat Marchell wedy kymryt abit y crefyd ym danaŵ. Ac yna y bu uarŵ Owein ab Grufud Maelaŵr. ac Owein or Brithdir. a Howel uab Ieuf. a Maelgŵn uab Katwallaŵn o Vaelened. Y vlŵydyn honno y delit Trahayarn Vychan o Vrecheinaŵc gŵr arderchaŵc bonhedic cadarn. a nith yr arglŵydes yn briaŵt idaŵ pan yttŵed yn dyuot drŵy Lan Gors y lys Wilim Brewys y arglŵyd ac y gefynnŵyt yn greulaŵn. Ac yn Aber Hodni y llusgŵyt 6rth raŵn Meirch drŵy yr heol yd hyt y crocwyd. ac yno yllas y benn ac y croget herŵyd y draet. ac ar y crocwyd y bu dridien. wedy diane y wreic ae uab ae uraŵt ar ffo. Y vlŵydyn rac ŵyneb y goreskynnaŵd Maelgŵn ab Rys Aber Teiui. a chastell ystrat Meuruc wedy mynet Grufud y uraŵt yg karchar Saesson. Ac yna y daeth coueint y Cŵm Hir y bressŵylaŵ y Gymer. Y vlŵydyn honno y goreskynnaŵd y meibon Ieuf yr arglŵyd Rys gastell Dineŵr. Y vlŵydyn honno yd aruaethaŵd Gŵenŵynŵn geissaŵ talu y hen delyglaŵt yr Kymry. ae hen briodol-der ae teruynneu. A gŵedy kytsynyaŵ ac ef ar hynny holl dywyssogyon Kymry kynullaŵ diruaŵr lu a oruc. a mynet y ymlad a chastell Paen. A gŵedy bot yn ymlad ac ef deir 6ythnos hayach heb ŵybot y damwein rac llaŵ. A phan ŵybu y Saesson hynny gellŵg a wnaethant Rufud uab Rys a oed ygkarchar y gantunt a chynullaŵ kedernit Lloegyrr y gyt ac ef ar uedyr hed-

ychu ar Kymry. Ac yna ny mynnaŵd y Kymry hedŵch y gan y Saesson namyn gŵedy caffael y kastell. byggythaŵ a wnaethant losgi y dinassoed a dŵyn y hanreitheu. A heb diodef or Saesson hynny ŵynt ae kyrchassant. ac yn y vrŵydyr gyntaf ae kymellasant ar ffo drŵy wneuthur diruaŵr aerua o nadunt. Ac yna y llas Anaraŵt ab Owein ab Kadwallaŵn. a Ridit ab Iestyn. a Rodri uab Howel. ac y delit Maredud uab Kynan ac y karcharŵyt. Ac uelly y deuth a Saesson drachefyn drŵy undugolyaeth wely y kyuoethogi o yspeil y Kymry. Y vlŵydyn honno y goreskynnaŵd Grufud uab Rys yn ŵraŵl y rann oe gyuoeth y gan Vaelgŵn y uraŵt eithyr deu castell nyt amgen Aber Teiui ac Ystrat Meuruc. Ar neill o nadunt nyt amgen Aber Teiui a tygaŵd Maelgŵn uch benn amryuaelon greireu yg gŵyd myneich wedy kymryt gŵystlon y gan Rufud dros hedŵch y rodei y castell. ar gŵystlon y gyt yn oet dyd y Rufud. Ar llŵ hŵnnŵ a dremygaŵd ef heb rodi nar castell nar gŵystlon. Dŵywaŵl nerth eissoes a rydhaaŵl y gŵystlon o garchar Gŵenŵynŵn. Y vlŵydyn honno y bu uarŵ Pys rescob Mynyŵ. Y vlŵydyn rac ŵyneb y goreskynnaŵd Maelgŵn uab Rys gastell Dineirin a adeilassei Grufud uab Rys. a chymeint ac a gauas yno o wyr llad rei a wnaeth a charcharu ereill. Ac yna y goreskynnaŵd Grufud ab Rys<sup>1</sup> gastell Kil Gerran. Y vlŵydyn honno ual yd oed Rickert vrenhin Lloegyrr yn ymlad a chastell neb un varŵn a oed 6rth ŵyneb idaŵ y brathŵyt a chŵarel. ac or brath hŵnnŵ y bu uarŵ. Ac yna y drychauŵyt Ieuan y uraŵt yn vrenhin.

Deucant mlyned a mil oed oet Crist pan un uarŵ Grufud uab Kynan ab Owein<sup>2</sup> yn Aber Conŵy wedy kymryt abit y crefyd ymdanaŵ. Yn vlŵydyn honno y gŵerthaŵd Maelgŵn uab Rys Aber Teiui a llaŵed<sup>3</sup> holl Gŵmry yr ychydic werth y Saesson rac ofyn ac o gas Grufud y uraŵt. Y vlŵydyn honno y grŵndwalŵyt m nachlaŵc Lenegwestyl yn lal. Y vlŵydyn rac ŵyneb y goreskynnaŵd Llywelyn uab Iorwoerth gantref Llynn wedy gŵrthlad Maredud ab Kynan o achasŵ y dŵyll. Y vlŵydyn honno nos wyl Sulgŵyn yd aeth coueint Ystrat Ffur yr eglŵys newyd a adeilassit o aduŵynweith. Ychydic wedy hynny ygkylich gŵyl Bedyr a Phaŵl y llas Maredud uab Rys gŵas Ieuan advŵyn campus yg Karny wyllaŵn ae gastell ynteu yn Llan ym Dyfri.

<sup>1</sup> Drwy dwyll. MS. LL.

<sup>2</sup> Gwynedd. ib.

<sup>3</sup> Gan allwed.

Ar cantref yd oed ynda6 a oresgynna6d Grufud y ura6t. Ac yn y lle wedy hynny wyl Iago Ebostol y bu uar6 Grufud ab Rys yn Ystrat Fflur. wedy kymryt abit y krefyd ymdana6. ac yno y clad6yt. Y vl6ydyn honno y cryna6d y dayar yg Kaerussalem. Y vlydyn rac 6yneb y g6rthlad6yt Maredud ab Kynan o Veironnyd y gan Howel ab Grufud y nei ab y ura6t ac yd yspeil6yt yn ll6yr eithyr y uarch. Y vl6ydyn honno yr 6ythuet dyd g6edy Du6 G6yl Bedyr a Pha6l yd ymlada6d y Kymry a chastell G6erthrynya6n a oed eida6 Rosser Mortymer ac y kymhellasant y kastellwyr y rodi y kastell kyn penn yr 6ythnos. ac y losgassant ef hyt y prid. Y vl6ydyn honno amgylch g6yl Veir gyntaf yn y kynhayaf y kyffroes Llywelyn uaf Iorwoerth lu o Powys y darest6g G6en6yn6yn ida6 ac y oreskynn y 6lat. Kanys kynn bei agos G6en6yn6yn ida6 o gerennyd. gelyn oed ida6 her6yd g6eithredoed. Ac ar hynt y gelwis atta6 y tywysogyon ereill a oedynt gereint ida6 y ymaruoll ar ryfelu y gyt yn erbyn G6en6yn6yn. A g6edy g6ybot o Elisy ab Madac hynny ym6rthod a wnaeth ar ymaruoll yg g6yd pa6b. Ac oe holl ynni aruaethu a wnaeth wneuthur hed6ch a G6en6yn6yn. Ac am hynny wedy hedychu o egl6ysswyr a chefydwyr y r6g G6en6yn6yn a Llywelyn a digyf-oethet Elisy. Ac yn y diwed y rodet ida6 ygkarda6t y ymborth gastell a seith tref bychein y gyt ac ef. Ac uelly g6edy goresgynn castell y Bala yd ymchoela6d Llywelyn drachefyn yn hyfryt. Y vl6ydyn honno amgylch g6yl Vihangel y goresgynna6d teulu Rys ieuanc ab Grufud ab yr Argl6yd Rys gastell Llan ym Dyfri. Y vl6ydyn rac 6yneb y goresgynna6d Rys ieuanc gastell Llan Egwat. Ac yna y bu uar6 Dauyd ab Owein yn Lloegyr wedy y deol o Lywelyn ab Iorwoerth o Gymry. Y vl6ydyn honno y goresgynna6d G6en6yn6yn a Maelg6n ab Rys dr6y dychymgyon gastell Llan ym Dyfri. a chastell Llan Gada6c. ac y c6pla6yt castell Dineirth. Y vl6ydyn rac 6yneb y brath6yt Howel Seis ab yr argl6yd Rys yg Kemeis dr6y d6yll y gan wyr Maelg6n y ura6t. ac or brath h6nn6 y bu uar6. ac y clad6yt yn Ystrat Fflur. yn unwed a Grufud y ura6t. wedy kymryt abit y krefyd ymdana6. Y vl6ydyn honno y colles Maelg6n ab Rys allwedu y holl gyfoeth. Nyt angen Llan ymdyfri a Dinef6r. Kanys meibon<sup>1</sup> y ura6t ac hennilla6d arna6 yn 6ra6l. Y vl6ydyn honno y deuth G6ilim Marsgal a

<sup>1</sup>Gruffudd. MS. LL.

dirua6r lu ganta6 y ymlad a Chil Gerran. ac y goresgynna6d. Y vl6ydyn rac 6yneb y bu uar6 Hubert archescob Keint. y g6r a oed lygat yr pab a phen prelat holl Lloegyr. Y vl6ydyn honno y peris Maelg6n uab Rys y dyd kyntaf or g6edieu yr haf y neb un 6ydel Abwell lad Kediour ab Griffri. g6r da adu6yn ae bedwar arderehogyon veibon gyt ac ef a hanoedynt o dylveda6c voned. Kanys y uam oed Susanna uerch Howel. o uerch Mada6c uab Maredud. Y vl6ydyn rac 6yneb y deuth Ieuan cardinal hyt yn Lloegyr. ac y kynnulla6d atta6 holl escyb ac abadeu Lloegyr. ac aneiryf o egl6yswyr a chefydwyr 6rth wneuthur sened. Ac yn y sened honno y kadarnhaa6d kyfreith yr egl6ys dr6y yr holl deyrnas. Y vl6ydyn honno y g6naeth Maelg6n ab Rys gastell Aber Eina6n. Ac yna y rodes Duw amyllder o bysca6t yn Aber Yst6yth yn gymeint ac na bu y kyfry6 kyn no hynny. Y vl6ydyn rac 6yneb y g6ahard6yt y gristonogaeth y gan y pab yn holl teyrnas Lloegyr o achas g6rth6ynebu o Ieuan vrenhin etholedigaeth archescob Keint. Y vl6ydyn honno y g6rthlada6d Ieuan vrenhin Wilim Bre6ys a G6ilim ieuanc y uab ae g6raged ae h6yron o gyghoruyn a chas hyt yn Iwerdon dr6y amarch a chollet ar yr eidunt. Y vl6ydyn honno y delis y brenhin Wen6yn6yn yn Am6ythic. Ac y goresgynna6d Llywel uab Iorwoerth y holl gyfoeth ae gestyll ae llysoed. A phan 6ybu Vaelg6n ab Rys hynny rac ofyn Llywelyn ab Iorwoerth y byrya6d gastell Ystrat Meuruc yr lla6r a llosgi Dineirth ac Aber Yst6yth. Ac nyt edewis eissoes Lywelyn y aruaeth namyn dyunt a wnaeth hyt yn Aber Yst6yth ae hadeilat. a chynryt cantref Penwedica6c e hun. a rodi y dryll arall o Geredigyon uch Aeron y veibon Grufud ab Rys y nyeint. Y vl6ydyn honno y goresgynna6d Rys Vychan uab yr argl6yd Rys gastell Llan Gada6c. heb goffau yr amot a wnathoed ae nyeint pan rodyssant ida6 gastell Dinef6r. Y vl6ydyn rac 6yneb yd ymlada6d Rys ac Owein meibon Grufud a chastell Llan Gada6c ac y llosgassant gan lad rei or kastellwyr a charcharu ereill. Y vl6ydyn honno yd aeth Ieuan urenhin a dirua6r lu ganta6 hyt yn Iwerdon. ac y duc y ar ueibon Hu Dylasai y tir ae kestyll. A g6edy kymryt g6rogaeth y gan ba6b o Iwerdon. a dala g6reic Wiliam Brewys a G6ilim ieuanc y uab ae wreic ae uab ae uerch yd ymchoela6d y Lloegyr yn enrydedus. Ac yna y llada6d ef Wilim ieuanc ae uam o anrugara6c agheu yg kastell

Windylsor. Y vlôydyn honno yd adeilaðd iarlrl Kaer Lleon gastell Deganôy yr h6nn a doryssei Lywelyn uab Iorwoerth kyn no hynny rac ofyn y brenhin. Ac yna hefyt yd adeilaðd y iarlrl h6nn6 gastell Terfynna6n. ac y diffeithaðd Llywelyn ab Iorwoerth gyfoeth y iarlrl h6nn6. Ac yna g6edy hedychu o Rys Gryc ar brenin. dr6y nerth y brenhin y goresgynna6d gastell Llan ymdyfri. Kanys y kastellwyr wedy anobeitha6 o bop fford a rodassant y kastell. ac un amws ar bymthec ynda6 Du6 g6yl Veir y Medi dr6y amot cael or kastellwyr y cyrif a phob peth or eidynt yn iach. Y vlôydyn honno amgylch g6yl Andras y goresgynna6d G6en6yn6yn y gyuoeth drachefyn dr6y nerth Ieuan vrenhin. o lewynyd hynny yd hedycha6d Maelg6n ab Rys ar brenhin a heb goffau y ll6 ar aruoll a nuassei y rygta6 a Rys ac Owein meibion Grufud ab Rys y nyeint. kynnulla6 dirua6r lu o Ffreinc a Chymry y rygta6 a Phenwedic ac y doeth hyt yg Kil Kennin. ac yno pebyllya6 a oruc. Ac yna y kynnulla6d Rys ac Owein meibon Grufud trychan6r o etholedigyon deuluoed a hyt nos kyrchu llu Maelg6n a orugant a llad llawer a dala ereill a gyrru y dryll arall ar ffo. Ac yn y vr6ydyr honno y delit Kynan ab Howel nei Maelg6n. a Grufud ab Kynan pen cygor6r Maelg6n. ac y llas Eina6n ab Crada6c ac aneiryl o rei ereill. Ac yna y diegis Maelg6n ar y draet yn ffo yn warat6yds. Y vl6ydyn honno y kadarnhaa6d synyscal Kaer Loyw gastell Buellt. wedy llad or Kymry lawer oe wyr kyn no hynny. Y vl6ydyn honno y bu uar6 Mahallt y Brewys mam meibon Grufud uab Rys yn Llan Badarn ua6r. wedy kymryt kymun a chyffes a phenyt ac abit y crefyd ac y clad6yt y gyt ac g6r pria6t yn Ystrat Fflur.

Dec mlyned a deucant a mil oed oet Crist pan duc Llywelyn ab Iorwoerth greulonyon gyrcheu am ben y Saeson. ac am hynny y llidya6d Ieuan vrenhin. ac aruaethu a wnaeth digyuoethi Llywelyn o g6byl. A chynnulla6d dirua6r lu a oruc tu a G6yned ar uedyr y distry6 oll. A chyt ac lu ef y dyfynna6d atta6 hyt yg Kaer Lleon hynn o dywyssogyon Kymry. G6en6yn6yn o Powys. a Howel ab Grufud ab Kynan. a Mada6c ab Grufud Maela6r. a Maredud ab Rotbert o Gedewein. a Maelg6n a Rys Gryc meibon yr argl6yd Rys. Ac yna y Muda6d Llywelyn ac giwda6t y perued y wlat ac da hyt yn mynyd Eryri. a chiwta6t Von a da yn un ffynynt. Ac yna y deuth y brenhin ae lu

hyt yg kastell Degan6y. Ac yno y bu kymeint eisseu b6yt ar y llu ac y g6erthit yr 6y yr keina6c a dimei. a g6led uoethus 6ed gantunt gael kic y meirch. Ac am hynny yd ymchoela6d y brenhin y Loegyr amgylch y Sulg6yn ae neges yn amherffieith. wedy colli yn warat6yds la6er oe 6yr ac oe da. A g6edy hynny amgylch calan A6st yd ymchoela6d y brenhin y Gymry yn greulonach y ved6l ac yn v6y y lu. Ac adeilat lla6er o gestyll yg G6yned a wnaeth. A thr6y auon Gon6y yd aeth tu a mynyd Eryri. Ac annoc rei oe lu y losgi Bangor. Ac yno y delit Rotbert escob Bangor yn y egl6ys. ac y g6erth6yt wedy hynny yr deu cant heba6c. Ac yna heb allel o Lywelyn diodef creulonder y brenhin dr6y gyghor y wyrda yd anuones y wreic at y brenhin yr honn oed verch yr brenhin y wneuthur hed6ch y rygta6 ar brenhin pa ffuryf bynnac y gallei. A g6edy caffel o Lywelyn diogelr6yd y vynet att y brenhin ac y dyuot ef a aeth atta6 ac a hedycha6d ac ef. dr6y rodi g6ystlon yr brenhin o vonhedigyon y wlat. ac uegin mil o warthec a deugein emys. a chanhattau hefyt yr brenhin y berued wlat yn dragywyda6l. Ac yna yd hedycha6d ar brenhin holl dywyssogyon Kymry. eithyr Rys ac Owein meibon Grufud ab Rys. ac yd ymchoela6d y brenhin y Loegyr dr6y dirua6r lawenyd yn uuduga6l. Ac yna y gorchymynna6d ef yr tywyssogyon hynny gymryt y gyt ac 6ynt holl lu Morgann6c a Dyuet. a Rys Gryc. a Maelg6n ab Rys ae lluoed. a mynet am beun meibon Rys ab Grufud ab Rys y gymell arnunt y dyuot y la6.<sup>1</sup> neu gilya6 ar dehol or holl deyrnas. Ac yna y kymhella6d Synyscal Kaer Dyf. g6r a oed dywyssa6c ar y llu. a Rys a Maelg6n meibon yr argl6yd Rys y lluoed ae kedernit a chyrchu Penwedic a wnaethant. A g6edy na allei Rys ac Owein meibon Grufud ymerbynyeit ar ueint allu h6nn6. ac nat oed le ryd udunt yg Kymry y gyrchu ida6 anuon kenadeu a orugant att Ffa6c6n y wneuthur y hed6ch. A hedychu ac ef a wnaethant. a chanhattau a wnaethant yr brenhin y kyuoeth r6g Dyfi ac Aeron. ac adeilat a oruc Ffa6c6n gastell yr brenhin yn Aber Yst6yth. Ac yna yd aeth Rys ac Owein meibon Grufud ar g6ndit Ffa6c6nn y lys y brenhin. ae kymryt a oruc y brenhin yn gyfeillon ida6. A thra yttoedynt 6y yn mynet y lys y brenhin. eduarhau a oruc Maelg6n uab Rys a Rys Gryc y vra6t y hamodeu ar brenhin. a chyrchu a wnaethant am benn y castell

<sup>1</sup> Y brenhin. MS. Ll.

newyd yn Aber Ystôyth ac dorri. A phan doeth Rys ac Owein veibon Grufud ab Rys o lys y brenhin wedy hedychu ac ef kyrcu a wnaethant Is Aeron cyuoeth Maelgôn uab Rys a llad a llogsi ac anreithaô y kyuoeth a wnaethant. Ac yno y llas gôas ieuanc da dewr oed hônno. Y vlôydyr rac ôyneb wedy na allei Lywelyn ab Iorwoerth dywyssaôc Gôyned diodef y genifer sarhaet a wnaei wyr y brenhin idaô a edewyssit y castell' newyd. ymaruoll a oruc a thywyssogyon Kymry nyt amgen Gôenôynôyn a Maelgôn ab Rys. Ma Madaôc ab Grufud Maelaôr. a Maredud ab Rotbert. a chyuoði a oruc yn erbyn y brenhin. a goresgyn yr holl gestyll a wnathoed yg Gôyned eithyr Deganôy a Rudlan Marthauâl ym Powys a wnathoed Robert Vepônt hônno a oresgynnassant. A phan oedynt yn goresgyn hônno y doeth y brenhin a diruaôr lu y gyt ac ef y gôrthlad ac ef e hun a than ac llogses. Y vlôydyr honno y croges Robert Vepônt yn Amôythic Rys ab Maelgôn a oed yg gôystyl y gan y brenhin. heb y uot yn seith mlôyd etto. Ac yn y vlôydyr honno y bu uarô Robert escob Bangor. Y vlôydyr rac ôyneb y bu vrôydyr. yn yr Yspaen y rôg y Cristonogyon ar Sarassinieit.<sup>2</sup> yn y vrôydyr honno y dywedir dygôydaô deg mil o wyr a their mil o wraged. Y vlôydyr honno y croget yn Lloeger trywyr arderchaôc o genedyd a phrif tywyssogyon Kymry. Nyt amgen Howel ab Katwallaôn. a Madaôc uab Maelgôn. a Meurc Barach. Y vlôydyr honno y rydhaaôd Imossens bap y tri thywyssaôc. Nyt amgen Llywelyn ab Iorwoerth. a Gôenôynôyn a Maelgôn ab Rys or llô ar ffydlonder a rodassynt y vrenhin Lloegyr. A gorchymyn udunt a wnaeth yn uadeueint oe pechodeu dodi gonalus garedicrôyd y ryuelu yn erbyn enwired y brenhin. A gôahard y Gristnogaeth a baryssei yr ys pûmp mlyned kyn no hynny yn Lloegyr a Chymry. y rydhaaôd y pab y tri thywyssaôc gynneu oe kyuoethu a plaôb ar a uei un ac ôynt. Ac ôynneu yn gyfun a gyuoedassant yn erbyn y brenhin. Ac a oresgynnassant yn ôraôl y arnaô y berued wlat. a dugassei ynteu kyn no hynny y ar Lywelyn ab Iorwoerth. Y vlôydyr rac ôyneb wedy gôeled o Rys ieuanc y uot yn dirrann o gyfoeth anuon kenadeu a oruc att y brenhin y erwynneit idaô drôy y nerth ef peri idaô rann o dref y dat. Ac yna yd anuones y brenhin att Synyscal

Henfford. ac att Ffaôcôn Synyscal Kaer Dyf. a gorchymyn beri y Rys Gryc rodi castell Llan Ymdyfri ar wlat. neu ynteu a gilvei o deruyneu y wlat ar dehol. A gôedy dyffynnu Rys Gryc y atteb ôrth orchymynneu y brenhin. A dywedut a oruc yn atteb na rannei ef un erô a Rys ieuanc. Ac yna llidyaô a oruc Rys Ieuanc. a chynullaô diruaôr lu o Vrecheinaôc. a dyuot y dreis a oruc y Ystrat Tywi. a phebyllyaô yn y lle a elwir Trallôc Elgan. wedy yr wythueth dyd o wyl Seint Ilar. A thrannoeth duô Gôener y doeth attaô Owein y vraôf. a Phaôcôn synyscal kaerdyf ae lluoed. A thrannoeth kyrcu a orugant gyuoeth Rys Gryc a chyweinyaô y bydinoed. a dodi Rys ieuanc ae vydin yn y blaen. a Ffaôcôn ae vydin yn y canaôl. ac Owein ab Grufud ae vydin yn ol. Ac ny bu bell yn y gyfaruu Rys Gryc ac ôynt. Ac yn y vrôydyr ar vydin gyntaf y goruueyt ar Rys Gryc ae wyr. ac y kilyaôd ar ffô wedy llad llawer oe wyr o dala ereill. Ac yna yd aeth Rys ieuanc ar uedyr ymlad a chastell Dineôr. Ac cissoes Rys Gryc ae raculaenaôd ac a gadarnhaaôd y gastell o wyr ac arfeu. A gôedy llogsi Llan Deilaô kilyaô ymeith a oruc Rys Gryc. Ac cissoes Rys ieuanc a gôrchaôd y castell. a thrannoeth dodi peiranneu a dechymgyon y ymlad ar castell. A gôneuthur ystolyon ôrth y muroed y wyr y drigaô dros y muroed. ac uelly y goresgynnaôd ef y castell oll eithyr un tôr. ac yn hônno yd ymgymerth y kastellwyr ôrth ymlad ac amdiffyn ac ergydeu ac a pheiryaneu ereill. ac o dy allan yd oed saethydyon. ac arblastwyr. a môynwyr. a marchogyon yn ymlad ac ôynt. Ac uelly y kymhellôyt arnuot kyn y prynhaôn talu y castell a rodi tri gôystyl a wnaethant drôy amot cael y dillat ae harueu ae haelodeu yn iach. Ac uelly y gônaethpôyt. A gôedy cael y castell y kilyaôd Rys Gryc ae wreic ae veibon ae deulu att Vaelgôn y uraôf. wedy cadarnhau castell Llan Ymdyfri o wyr ac aruen ac aghenreiteu ereill. Ac eilweith yd aeth Rys ieuanc y Vrecheinaôc. Ac yna kynullaô diruaôr lu a oruc o Gymry a Ffreinc. a chyrcu Llan Ymdyfri. A chynn pebyllu o nadunt ef a rodes y castellwyr y castell idaô drôy amot cael y heneideu ae haelodeu yn iach. Y vlôydyr honno y kymerth Ieuân vrenhin benyt am y kameu a wnathoed yn erbyn yr eglôys. a galô drachefyn archescob Keint. ar esgyb ar ysgolheigon a ymrodassant y alltued o achaôs gôahard yr eglôysseu. Ac o achaôs

<sup>1</sup> Cestyll. MS. LL.<sup>2</sup> Ac or Sarassinieid. MS. LL.

Rein oed y henw. ac y kymyrth gwyr ydeheu ef yn bennaf arnadunt. Ac y damunws yntev gwyned yn erbyn Llywelyn vab Seisyll y brenhin clotuorussaf awydit or mor pwy gilid. ac yny oes ef ny bu eissieu da yny gyfoeth. na neb gouodus. nac vn dref wac na diffeith. A gwedy dyuot y lluoed hyt yn aber gweili: y kyrchws Rein yr ymlad yn valch bocsaachus gan annoc y wyr. ac yn hynny y goruuywt arnaw ef. ac y ffoas yn llwynogeid ffyrnic. ac y llas y wyr yn olofrud. ac yd anreithwyt yr holl wlat. Gwedy hynny y doeth Eilaf y dir kymmre athorri Myniw. a diffeithiaw dyfed. Anno dom. M<sup>o</sup>.xxi. y bu varw Llywelyn vrenhin vab Seisyl. Ac yna yd oed Ryderch vab Iestin yn kynnal dyheubarth. Anno dom. M<sup>o</sup>.xxiii. y bu varw Morgynnyd escob. Ac val yd oed Chnout yn kynnal kwnsyli yn llundein. ef adoeth Turkill daneis ac Irici. ac ereill or a uassey ymrat Edmud drwy gynghor Edrich y erchi yr brenhin ev kyuarwysseu. a menegi yr achos. A gwedy menegi ydaw: ef aduc yar Turkill Estsex. ac yar Irici northvmrylond. ac iar brenhin westsex y gyuoeth yntev. Ac yna y lliadiawd Edrich brenhin Mers. a dywedut vrth y brenhin: ystrwe alauur uu yr einym twillaw yn arglwiidi dyledauc. ac ev dwyn yaghen ereill ogareat arnat ti: athitheu yn talu y nynheu yn gyndrwc ahynn. Canys ydwyf yn adef dy dwill heb y brenhin yn gwid kyhoed lloeyr: lledwch y benn abwrywyt y gorf yn temys. A hynny awnaethpwyf. a dehol ylleill or ynys. Ac yna y perys y brenhin gwneuthur eglwys yn assessdon. y wediaw dros yr eneidev alas yno gyt ac edmund gint. ac ymphob eglwys or a oed yny gyfoeth ef aberys gwediev drostunt. A thrwy gynghor emme y wreic. ef aberys atkyweiriaw yr holl eglwissev. yny gyfoeth. agwneuthur manachloc veh penn corf edmund verthir. a dwyn corf alphegi verthir o lundein hyt yngeint. Anno dom. M<sup>o</sup>.xxiiii. y bu dece' nouenalis. Anno dom. M<sup>o</sup>.xxv. bu varw kynan vab seisyll. Anno dom. M<sup>o</sup>.xxx. y gorchmynnws Chnout brenhiniaeth denmarc y hardechnout y vab. Anno dom. M<sup>o</sup>.xxxii. yd aeth Chnout y ruvein. ac y gorchmynnws y gyfoeth y emma y wreic. agorchymyn y baup bot yn hyvyd yv gorchymyn yny delei ef. ac erchi y baub talu y duw yr hwnn adlyphei. nyt amgen alwissenev dros yr ereidyr. a degu' yr aniveilleit y vlwydyn y genit. acheiniauc pedyr. ac aust degum y frwitheu. a gwil Marthin dechreu yr hadeu yr eglwissev

plwif : yr hwnn aelwyt yn saesnac churchc kuth. yny y vlwydyn honno y bu varw Robert brenhin freinc. ac y gwnaethpwyt Henri y vab yn vrenhin yny le. ac y llas Ryderch vab Iestin y gan yr yscotieit. Ac ydoed Iago vab Idwal yn kynnal gwyned gwedy Llywelyn. Ac Edwin a Howel. meibion Moredud dyheubarth. Anno dom. M<sup>o</sup>.xxxii. y bu gweith irathuy y rhwng y meibion edwin : a meibion ryderch. Ac y doeth Robert Wiscard or poile. Anno dom. M<sup>o</sup>.xxxiii. y llas Moredud vab edwin y gan veibion kyanan. ac y llas Caradauc vab ryderch y gan y saeson. ac y doeth Chnout o ruvein. Anno. dom. M<sup>o</sup>.xxxiiii. y gwnaeth Herlewin manachloc yn lle y gelwyr Herlewines becc. Anno dom. M<sup>o</sup>.xxxv. y rodes Chnout y eglwys caer wynt tri hide o dir yn lle y gelwir Hillam. agelor seynt berini escob. a channwillpren maur o aryant gorreureit a chwe breich maur ydaw yr hwnn yssyd yno ettwa. a dwy vaner. Anno dom. M<sup>o</sup>.xxxvi. y bu varw Chnout ac y clathpwyt ef yngkaer wynt. Ac ydoed Hardechnout y vab dyledauc yna yn trigav yn denmarc. Ac y dyrchafwit Harald Harefot yn vrenhin. canys wynt adywedant bot hwnnw yn vab y Chnout o verch elfelin iarll. a rac y uanet y gelwit ev velly.

A gwedy kadarnhau Harald yn vrenhin ef a deholas emme vrenhines or ynys. Anno dom. M<sup>o</sup>.xxxvii. yr anfydloneon agynhaliasant Meuric vab Hywel. ac y llas Iago vab Idwal brenhin Gwyned : y gan Grufud vab Llywelyn ac a oresgynnws y gyfoeth ac ay gwledychws. ac a oruu ar lawer o kyfrangheu. yn gyntaf yn ryt y groes ar hafren. ac yn llan badarn vaur. ac a oresgynnws deheubarth. ac a deholes howel vab edwin oe gyuoeth. Anno dom. M<sup>o</sup>.xxxviii. y bu varw Hermini escob Myniw. Anno dom. M<sup>o</sup>.xxxix. y bu gweith pencadeir yn yr hwnn y goruu Grufud ar Hywel. ac agymyrth y wreic ac ayllwriad hi. Anno dom. M<sup>o</sup>.xl. y bu varw Herald brenhin lloeyr. ac y clathpwyt yn eglwys paul yn llvndein. ac yd-aethpwyt y gyrchu Hardechnout hyt yn denmarc. canys nat oed neb yna adyvet-  
tei vn geir am veibion edelred yrei a oed yn normandi. Ac yna y bu gweith pwll dyuach. En yr vn vlwydyn ydeliit Grufud ygan wyr dilyn.

A gwedy dyuot Hardechnout yn vrenhin. ef a anvones yn ol y vam or lle y diholessyt hyt yn normandi. Ac yn yr amser hwnnw yd oed Godwin iarll yn

bennaf o loegyrr a dan y brenhin. Ac y kynghorassant yr brenhin tynnv corf Harald or kyssegyr allad y ben ay vwrw yn themys. y dial yr amharch a wnathoed yw vam. a hyuny awnaethpwit. Anno dom. M<sup>o</sup>.xli. y bu varw Hywel vab Oweyn arglwid gwlat vorgant yny heneint. Anno dom. M<sup>o</sup>.xlili. y kymyrth hywel vab edwin llynghesseu or gwydil yn borth ydaw : ac y kyuaruu Grufud vab Llywelyn ac wynt yn aber tywi ac ymlad ac wynt yn wychyr creulon. ac yn yr ymlad hwnnw y goruu Grufud. ac y syrthyws Hywel. Ac y bu varw Gwilfre a Matt' manach. Anno dom. M<sup>o</sup>.xliiii. y bu varw Ioseph escob teilliau yn ruvein. Ac y bu lladua vaur y rwng meibion Ryderch Grufud a Rys : a Grufud vab Llywelyn. Ac yno yr anvones Gotwin iarll hyt yn normandi y geisiau elured ac edward meibion edelredi y dyuot y loeyr y gymryt ev dilyet. Ac yno yr anvones Robert ev hewythyrr eluryt y gyt ar twillwyr hyt yn lloeyr a llawer o veibion bonedigeon y gyt ac ef. Ac Edward a ettelhis y gyt ac yntev. Agwedy ev dyvot y borth hamont yr tir. wynt a anvonassant ar Godwin y venegi ev dyuot. ac yd erchys yntev ydunt kyuaruot ac ef ar vynydd Guldedwn. ac ef adoeth yn ev herbyn hyt yn Guldeforde ac anvon gwyr arvauc yn ev herbyn. ac erchi ydunt lle gweleint y mynyd vchaf plannv kyff yn daear agyssot y meibion bonhedigion o normandi y eiste yn amgylch y kyff a rwymaw elvredus wrth y kyff yn ev perved. a sevyll or gwyr arvauc yn amgylch y meibion. ac ev cled-yfev noetheon yn ev llaw. a degymmv y meibion allad y deccet tra gellit ev degymmv. Agwedy na ellit : erchi tynnv ev llygeit a llad ev trwynev. ac ev clustiev. ac ev gweussed. ac ev tafodev. ac ev dwylav. ac ev traet. ac ev crogi wyntev. Ac odena dinoethi elured arwymaw ydwyllaw dra ygevyn yam y post. athynnv pennev y goludeon ford y vogel allan. ac ev festinghiaw a hoylion heiern yny kyff. ay droi yntev yn wisic y ystlys yny ydunt y holl coludyon gwedy yr droi yngchylch y kyff megys raf. Ac erchi ydunt na ettyt yr vn dianc onadunt rac ymliv geir bron y brenhin rydad ohonaw yny mod hwnnw y vrant ny didorei yntev yogavv am. y weithret honno. megys tybiaw a wnav na chredit. Ar gwyr creulon a wnaethant o gwybyl : megys yd erchis y creulon arall ydunt. canys y brenhin a oed glaf. A chet yw menechyt ydaw ny allei namyn. tewi rac cadarnhet Gotwin. Ac yn lle gwedy hyny y bu varw Hardechnout yn

lambicly yn ymyl llundein ac y clatpwyf ef yn yr escopte yngkaer wint. Ac y rodes emme y vam dros y eneit yr escopty llawer o wisgoed maur weirthiauc. ac eur ac areant a mein gwyrth vaur. a dwy lys nyt amgen. West Wode a Piper Mvnster. Agwedy marw Hardechnout y rodet gwarchatwedigaeth y vrenhiniaeth y Gotwin nny dehosit brenhin arall ogyt synedigaeth yvrenhines ar dynas. Ac yn yr amser hwnnw yd oedeward vab eluret yn ymdivat yn normandi: canys marw uauasse ygenedyl oll eithyr wiliam vap yduc robert a oed yn was ieuanc y gyt abrenhin freinc. Agwedy gwelet pob peth gwedy ryballu ydauw. bwry y eneit yn antur aoruc a chyrcu lloegyr. adyuot hyt yn llvndein lle yd oed Gotwin yn trigaw yn wastat. Achael ryt ohonaw boregweith ydyuot yr ystauell lle yr oed Gotwin yn neffro. assyrthiaw yn groes ger bron ygwely. ac wylaw gan ywediaw. Ac ykyuodes Gotwin nny eiste agovyn ydauw pwy wyt ti dyrcha dy wyneb agat vi edrech pwy wyt. Arglwyd heb ef nebun tlaunt wyf agwas ytt. ac ym mebit ym alltudwyd yn wirion. ac yn dywediaw dithev arglwyd am nawd ym eneit. Agwedy ywelet yn tosturiaw mor dygn ahynny: trugarhau aoruc wrthaw. athynghu y wyneb krist na bydei eneit vadev. kyvot weithon heb ef ac adef pwy wyt. Arglwyd heb ef can gefeis gras ythdeuryd. Edward wyfi a mab yeuaf y edelred' vrenhin o emme verch richard duc normandi. Canys edeweis vot yn da wrthyt mynheu a vydaf heb ef. tyng di ybydy vab ymy ac wrth yngorchymyn: a minheu avydaf dat ytti: ac ath wnaf yn vrenhin ar loegyr. Ac y tynghaud yntev. Dos ti heb ef hyt yngkaer wint ac aro vi yno. ac yntev a aeth agweithiev ybydei yn llys yr escob gawthiev ereill yn llys y vam heb y adnabot o neb. Ac yno y perys Godwin dyvynnyv paub or tywyssogeon hyd ygkaer wint vrth dethol brenhin. Agwedy dyvot paub onadunt ygyt hyt yr escopty ger bron y vrenhines: ymdidan aorugant llawer am ydetholedigiaeth. Agwedy daruot y baub dywedut y ewyllis: dodi aoruc Godwin ylaw ar ben y mab adywedut. llyma auch brenhin chwi heb ef. llyma Edward vab edelred vrenhin o Emme vrenhines ywreic awelwch ymma. Ahwn adetholaf vi yn vrenhin: ac awnaf gwriogaeth idaw yn gyntaf dyn ohonawch. Agwedy gwelet onadunt Godwin yn gwneuthur gwriogaeth idaw: y rynghws bod ybaub hynny. M<sup>o</sup>.xliii.

A gwedy kyssegru Edward yn vrenhin: ef a rodes y charter y bop brenhin gwedy ef or agoronheit ynghaer wint nev yngkaer vyranghon nev yn west mvnster. caffel or kovent hanner more ygan ybrenhin. achant torth o vara symnel. a hanner tynnell owin. ar llythyr hwnnw yssyd yngkadw yn west mvnster. Ac ef agymyrth yn wreika idaw Edith verch Godwin. Ac enrydedu ythat awnay ymlaen paub. Emme y vam nyt maur awnay ymdanei. Anno dom. M<sup>o</sup>.xliiii. gwedy clywet yn normandi vot Edward yn vrenhin y doeth llawer oy getmeithion odyuo y geissiaw gossymeith ganthaw. ac y doeth ysgolheic robert oed y henw: ac y peris ef y wneithur yn escob yn llvndein yn gyntaf. Ac odyuo yn archescob yngeint. ar hynn aannogei hwnnw y brenhin aygwai. Ac ef a beris dehol Gotwin ay veibion or ynys: a rodi yr eidunt ev gelyneon. Ac ef aberys dwyn iar yvrenhines yholl da byt ay rodi hitheu mewn manachloc Warwelle yngkarchar ac'yehydic o dreul ydi. Ac ef aberys carcharv Alwin' escob caer wint. adywedut vot kytenawt rynghaw ar vrenhines. A mwy y credei ybrenin ef: nogyt yw lygeit ehvn. Ac aberys dwyn yarnaw y holl lleectir odieithyr dinas caer wint. Anno dom. M<sup>o</sup>.xlv. y llas o goreu gwyr Grufud vab Llywelyn yn ystrattywi amkan ydeugeint achant. ac yn dial y rei hynny: y diffeithws Grufud dyvet ac ystrattywi. Ac nny vlwydyn honno ybu eiry maur abarhaws o galen yonawr hyt wyl badric. Agwedy bot Aldwin' escob yngkarchar yn hir val y dywetpwyf vchot. Anvon llythyrev a oruc ar esgyb lloegyr y rei aod gedymeithion ydau y ervynyeit yr brenhin kymryt yganthaw pob gyffryw gwirioned or adamvnei ehvn. hyt na buassei eryoet achwyssiaul or kelwyd a yrwit arnaw. Ac y cafas y brenhin drwy gynghor robert arch escob peri twymnaw naw llad haearn yn wyn yas: apheri ydunt kerdet naw cam ar y naw lath haearn. ac o galleynt hynny yn diargywed. gwirion oedynt. Ar profedigiaeth honno awneythpwyf ydunt yn oet dyd tervynedic yn eglwys seint Swithon yngkaer wynt. Ar nos kyn bot y provedigiaeth trannoeth: ydudpwyf y vrenhines o warwelle hyt yno. Ac yno ybi hi yn gwiliaw ac yn gwediaw ger bron seyn Swithon y nos honno. Agwedy hanner nos ysyrthiawt kysgu arney. ac yr ymdangosses seyn Swithon ydi: adywedut wrthi. nev yr giglew duw dy wedi canys wyt wirion. ac nac argys-syrya yr mynet yr provedigiaeth: canys

nyt argyweda arnawch dym. Athran-  
noeth y doeth holl tywyssogeon yr ynys  
hyt yno dieithyr robert archescob agym-  
yrth arnaw y vot yn glaf yn dofyr. val y  
gallei fo or ynys. o dienghynt yn di poen  
or profedigiaeth. Agwedy dyuot pawb  
ygyt onadunt. wynt adiarchenwynt ac  
adodet kykyllev ar ev llygeit ac a dywys-  
swyt nav cam ar hyt yr haearn twym heb  
argywedu arnadunt. a phob dyn yn wylaw  
ac yn gwediaw duw amdanadunt. canys  
ny welsant eryoet kyfriw provedigiaeth ar  
dyneon a hwnnw. Ac yna y dywat yr escob:  
arglwydi heb ef paham ydygwch chwivi  
odiethyr yr eglwis pa nyt yn yf eglwis y  
bydy provedigiaeth. Ac yna y tynnwynt y  
kykylle ac y dangossat ydaw y gwyrthiev  
awnathoe d duw yrdunt. aphaub yn wylau  
otra llewenyd. ac yn diolch yduw y wyrthiev.  
Ac yna yducpwynt wynt ger bron y  
brenhin y dangos ev traet ydaw na man-  
nassei yf yr haearn arnadunt. Ac yna  
yssyrthyws y brenhin yn groes ger ev bron.  
adywedut: Mi abecheis yn duw ac ynoch  
chwithev auch trugared ynghardaut yd  
archaf. Ac wynt ay madeussant idaw.  
Ac yntev arodes ydunt wyntev ev holl tir  
adugessit yrnadunt. Ac y rodes y bren-  
hines y eglwis seyn Swithon naw llys yn  
lle y naw cam a gerdassei ar yr haearn  
twym. Ac yrodes yr escob nav llys ereill  
odref y dat ehvn. Ac y rodes y brenhin  
dwy llys nyt amgen. Meones a Portland.  
a. v. hides yn lle gelwit Wrockes Hele.  
Ac y bu ymrysson rwng yr escob ar vren-  
hines pwy mwyaf arodei y eglwis seyn  
Swithon onadunt orodeon ereill. Agwedy  
klywet o robart arch escob hynny: ef a  
edewys yr ynys ac ny doeth byth ydi  
drachevyn. ac y bu yr archescobaut yn wac  
yn hir o amseroed. Anno dom. M.xlvi. y  
cafes Godwin ay veibion comot ar brenhin  
drwy wediev y vam. ac y rodet ydunt ev  
holl dylayet val y buassei orev erioet.  
Anno dom. M.xlvii. y diffeithwynt y dehev  
oll. ac y bu varw Edwin' escob caer wint.  
ac yny le y dodet Stigand' yr hwn awnaeth  
y groc vaur a delw veir. a delw iewan. ac  
ay gwisgaut o eur ac aryant. ac ay rodes  
y eglwis caer wint. o rod emme vrenhines.  
Anno dom. M°.l. y pergilaud llynghes o  
iwerdon yn dyheubarth. Ac yd atwnaeth  
edward vrenhin deneguldun yr hwn  
awnathoed edelred ydat gynt. Anno dom.  
M.lii. y bu varw emme vrenhines ac y  
clathpwynt y eglwis seyn Swithon yngkaer  
wint. Anno dom. M.liiii. ar dyd gwyl  
vchel val ydoed Godwin iarll yn eiste ar  
neill llaw yr brenhin wrth y uuyt yn

Hodiam. y doeth ybwtler affioleit olyn  
ydunt. ac yn hynny pallu or neill troet  
ydav ay achubeit or llall. a gowenv aoruc  
Godwin. agovyn or brenhin paham y  
chwardei. mor ehegyr yd achubawt y neill  
braut yllall heb ef. Rofi aduw heb y  
brenhin velly ygwain vymbraut ymmi pey  
gedessit yn vew. Sef awnaeth Godwin  
etivaru adyvat. athorri tameit bychan o  
vara. a gwediaw ar duw boet y anghew ef  
bei hynny o vara odoeth angev yw vrant  
oe yweithret ef. Ac yr aur ydodes y bara  
yny enev: ef aeath kythreul yndaw. ac ny  
chavas arvot yr byt: onyt ymchweilit  
ylygeit athagu. Agwedy gwelet or bren-  
hin hynny: ny chyffroas arnaw dim.  
namyn erchi y dynnw oger y draet ya dan  
y bwrt ymeith. Ahynny a wneithpwynt ac  
yducpwynt ef hyt yngkaer wint ac yno yn  
yr eglwis vaur y clathpwynt yn enrydedus.  
Ac y rodes Githa y wreic y eglwis caer  
wint dwy lys nyt amgen vleodona' a  
crawcu'ham allawer o rodeon ereill. Ac  
y eglwyssev ereill hi arodes rodeon llawer.  
Ac y Harald y rodet ygyvoeth canys oed  
braut yr vrenhines. Anno dom. M.liii. y  
lladaut Grufud vab Llywelyn: Grufud  
vab Ryderch. Agwedy hynny ykyweir-  
iaud ef y lu ytu ahenford. Ac y kyuodes  
anneirif olu saesson a Randwlf yn dywys-  
sauc arnadunt adyuoet yny erbyn aorugant.  
ac ymlad ac ef y wychyr creulon. allad  
llawer oboptu. ac or diwed drwy dirvaur  
dymhestyl ygyrrwynt wynt ar ffo gan ev  
llad hyt yn henford. athra uant ar ev  
bwyt y kyrechassant y gaer ay thorri ay  
llosgi ay dibobli. a dwyn anreith vaur  
ganthunt adref. Anno dom. M°.lvi. y  
doeth Magus vab Harald brenhin denmare  
y diffeithiav kyvoethew y saeson drwy  
nerth Grufud vab Llywelyn tywyssauc  
kymre. Anno dom. M°.lvii. y bu varw  
Oweyn vab Grufud. Anno dom. M°.lviii.  
y bu varw Siward iarll north hwmbyrlond  
o heint y gallon. ac ef adyvat gwae vi yn  
varchauc druan or gyniver brwydyr ybvm  
yndi na bvm vaur o nerh arvev. rac vi  
marw val beuch. ac erchi gwisgav y arvev  
ymdanav val y gallei marw yndunt canny  
allei amgen. Anno dom. M°.lx. y doeth  
Harald vab Godwin mew'n bat pisgot wyr  
y chware. ac y kyvodes tymhestyl yny mor  
ac ydvc wynt hyt yn pwittif. Ac y deliis  
iarll pwittif wynt. ac ay hanvones hyt ar  
William duc normandi kevnderw y  
Edward vrenhin. Ac yna y tynghaud y  
kymerei verch William yn wreic briaut  
ydav. ac nat elei yn vrenhin gwedy Edward  
byth. A gwedy bu tynghu ohonaw

hynny: y ellwng adref awneythpwy. Anno dom. M<sup>o</sup>.lxi. y bu varw Grufud vab Llywelyn eurdorchawc brenhin kymre ac ev, hamdiffynnwr gwedy llawer o anreithew a chyffrangkev budugawl ar y elyneon gwedy llawer owledeu adigriuuch ardeon maur o eur ac areant adillat maur weirthauc. yr hwn oed cledyf atharean dros wyneb holl kymre. Ac yny vlwydyn honno y bu varw Ioseph escob Myniw. Anno dom. M<sup>o</sup>.lxii. y bu pm' dece' nouenal'. Anno dom. M<sup>o</sup>.lxiii. yd aeth Vvnochath vab Brian y ruvein ac yno y bu varw. Anno dom. M<sup>o</sup>.lxvi. y perys Edward vrenhin kyssegru West Mvnster. duw gwil y meibion gwedyr nodolic. A nos ystwyll y bu varw yntev. Aduw ystwyll yduc-pwyt ef y Westmvnster yr lle y cladpwy. Ac yn yr vn dyd hwnnw y kyssegrwyt Harald vab Godwin yn vrenhin yn erbyn yllw annvdon aradassei kyn no hynny y William duc normandi kefynderw Edward vrenhin. Ar Harald hwnnw ny hanoed o lin brenhined. canys yn Edward ydiffygiawd llin brenhined y saesson. Canys tat Edward oed Edelred. vab Edgar. vab Edmwnd. vab Adelstan. vab Edward. vab Alured. vab Edwlf. vab Egbirth y brenhin kyntaf or saesson a oresgynnws teyrnas lloeyr yn vn. Mam Edward oed Emme verch Richard. vab William. vab Rolond. duc normandi.

Agwedy gwneythur Harald vab Godwin yn vrenhin: ef a ymdangosses yn yr awyr llawer o weledigaethev yny vlwydyn honno megys faglev tan: ac ofyn maur ar baub or ay gwelas rac dyuot symvdediaeth ar yr ynys. Acyn y vlwydyn honno y doeth Harald brenhin Norwei. a Tostiun' y vraut a chwechant llong ologeu maur hyt yn aber tine avon. Ac yny erbyn yntev y doeth Harald brenhin lloeyr ay lu yntev. Ac yna y buwyt yn keissiaw kyngreiriaw ryngthunt. ac yny gyngreir hwnnw y llas brenhin norwei ay vraut ac y gwasgarwyt ev lluoed. Ac yna y collas y rei goreu o lu brenhin lloeyr. Ac yna yd ymwnaeth yn gyn gallet hyt na lavassei neb gwrthnebu yw greulonder ac ny alley neb ymdiriet ydaw ef. Ac odynd y duc ef y llu kyntaf hyt yn ynys wicht yn erbyn William duc normandi. a oed yn keissiaw goresgyn arnaw. Ac yna y ftoas ylu oll ywrthaw: ac y dieithrws yntev yr ymlad. Agwedy gwelet o William ysgaelustra Harald am danaw: kynvllaw llu advoynd aoruc adyvot hyt yn penenose ydir. ac yno heb olud gwneithur castell yn lle gelwit hastinges. Agwedy gwybot o Harald

hynny: dyuot aoruc ac ychydic olu y yngyuarvot ac wynt. Ac yn yr ymlad hwnnw y llas Harald ay holl niver. Ac yr anvonet y gorf hyt ar y vam. ac y clathpwyt ef yn waltham. Ac odena ydoeth Aldred archescop caer efrac. ac Wlstan escop caer vranon. ac Wallter escob henford ar iarll Gadwin. ar iarll Morcard y rei ny buassei yn yr ymrysson ar rei pennaf o lundein yn erbyn y duc William hyt yn berthamstude ac y dugasant ef hyt yn llvndein. ac y rodassant y dinas ydav. ac y gwnaethant gwriogaeth ydaw. ac y detholassant ef yn vrenhin. ac y kyssegrwit ef ygan Aldred arch escob caer efrac. yn west mvnster ar duw nodolic. a oed ar duw llvn yny vlwydyn honno. Anno dom. M<sup>o</sup>.lx<sup>o</sup>.vii<sup>o</sup>.

Agwedy vrdaw William bastart yn vrenhin: ef a vynei gwisgaw y goron teir gweith yny vlwydyn nyt amgen duw nodolic ynghaer vranhon. ar pasch ynghaer wynt. ar sulgwyn yn west mvnster yn llvndein. Ac ef aberys gwneithur manachloc yn waltha' lle y buassei y kyfranc yryngthaw a Harald vrenhin. ac yny lle y cat corf Harald y gwnaethpwyt yr allor vaur. Anno dom. M<sup>o</sup>.lx<sup>o</sup>.viii<sup>o</sup>. y ducpwyt Matild gwreic nebun duc yn vrenhines ar loeyr ac y kyssegrwit ynghaer wynt. ygan Aldred archescob caer efrac. Ac yny vlwydyn honno ybu ymlad rwng meibion Kynvyn. nyt amgen Bledyn a Riwallawn. a meibion Grufyd: Moredud. ac Ithel. ac yn yr ymlad hwnnw y srthiawt meibion Grufud. ac y llas Riwallawn vab Kynvyn. Ac y gwledychws Bledyn gwedy wynt. Ac yn gwledychu dyheubarth yd oed Maredud vab Oweiu ab Edwin. Anno dom. M<sup>o</sup>.lx<sup>o</sup>.ix<sup>o</sup>. y perys tri ieirll nyt amgen. Hereward'. a Morgar. a Siward. ac Agelwin' escob durham kynvllaw ev gallu hyt yn Enry mevn gvern. Ac y kymellwyt wynt ymrodi yr brenhin oll: dieithyr Herewardu' adihenghys yn yr awr honno. Ac odena y duc William y lu y darystwing prydyn. ac y bu dir yr brenhin ymrodi ydaw. Odynd y duc William ylu dros vor hyt yn dinas Cynomannus ac ydarystwingws idaw ydinas ar wlat. Anno dom. M<sup>o</sup>.lxx<sup>o</sup>. y perys William chwilliaw yr holl manachlogoed or a oed yny deyrnas or yd adaussei y saeson daoed yndunt yw dwyn idav ehvn. Ac yny vlwydyn honno y llas Maredud vab Oweyn ygan yfreinc ac y gan Caradauc vab Grufud vab Ryderch ar lan rympli avon. Ac y llas Macmael y clotvorusaf ar cadarnaf ar gorev or auu o vrenhin yn iwerdon eryoet. a hynny yn disyvyt. yny

vlwydyn honno yduc Stigandus arch escob keint iar escob caer wint y escobaut. ac y doeth yntev yr kwnssyli hyt yngkaer wint y gwynaw yngwyd y brenhin a holl esgyb lloegyr a legat o rvuein a deu effeiriad yr cardinalieid Ieuan a Pheris. Ac yna y ducpwyd y arch escobaut iarnaw ac y dodet yngharchar nny nu varw. Anno dom. M<sup>o</sup>.lxxi<sup>o</sup>. y gwnaeth y brenhin cwnssyli yn windessowr ac yno y kynnydws ef y effeir- iet. ef arodes archescobaut caer effrauc y Thomas. ac escobaut caer wint y Walkelin. ac escobaut swthsex yr hwnn adrossat y chichesty r a rodes ef y Stigand arall. ac escobawt excestyr yr hwnn adrossat y lin- colny arodet y Reinigiu'. ac archescobot keint arodet y abbat Lanfranco. Ac yny vlwydyn honno y diffeithwyd keredigeon a dyvet y gan y freinc. ac y diffeithwyd mynyw a bangor y gan wyr anfydlawn. ac y bu varw Bleudyd escob mynyw: ac y kymyrth Sulyen yr escobot. Anno dom. M<sup>o</sup>.lxxii. y diffeithwyd keredigiawn yr eil weith y gan y freinc. Anno dom. M<sup>o</sup>.lxxiii<sup>o</sup>. y llas Bledyn vab Kynvyn drwy dwyll y gan Rys vab Oweyn a goreu gwyr ystratyiwi. gwedy y ryvot yn kynnal brenhiniaeth kymry gwedy Grufud y vraut yn rymhus adwvyn: Ac yny ol yntev y doeth Trahaearn vab Caradoc y gevinderyw y gynnal gwyned. A Rys vab Owein: a Ryderch vab Caradoc yn kynnal deheu- barth kymnre. Grufud hagen nei Iames a oed yn gwarchadw manaw. ac y llas Kynwric vab Riwallawn y gan y gweyndit. yny vlwydyn honno y bu ymlad Camdwr y rwng meibion Cadwgavn nyt amgen Goronw a Llywelyn gyt a Caradauc vab Grufud or neill parth: a Rys vab Oweyn a Ryderch vab Caradauc or parth arall. y rei a oruwyt arnadunt. yny vlwydyn honno y bu ymlad bron yr erw rwng Grufud: a Trahaearn. Anno dom. M<sup>o</sup>.lxxiii<sup>o</sup>: y llas Ryderch vab Caradauc. y gan y gevynderw Meirchawn vab Rys vab Ryderch o dwyll: Anno dom. M<sup>o</sup>.lxxv<sup>o</sup>. y bu ymlad gweun y nygyl rwng meibion Cadwgavn yr eil weith: a Rys vab Oweyn. ac y goruwyt ar Rys yr eil weith: Anno dom. M<sup>o</sup>.lxxvi<sup>o</sup>. y bu ymlad pwlwgudie y rwng Trahaearn brenhin y gweyndyt: a Rys vab Oweyn. ac y goruu Trahaearn. canys duw adoeth yny erbyn y dial gwaet Bledyn vab Kynvyn y gwr goreu ar trugarocka or a uu o vrenhin eryoet. A gwedy llad gwyr Rys y foas yntev val carw gwyllt ofnus. yn diwed y vlwydyn honno y llas Rys a Hywel y vraut. ygan Caradauc vab Grufud. Ac

yny vlwydyn honno yd edewys Sulyen y escobot. ac y kymyrth Abraham hi. Anno dom: M<sup>o</sup>.lxxvii<sup>o</sup>. y dechrews Rys vab Teudwr gwledychu. Anno dom: M<sup>o</sup>.lxxviii. y diboblat mynyw yu druan ygan wyr anfydlon. ac y bu varw Abraham escob mynyw. ac y kymyrth Sulyen eil- weith yr escobot yn eidaw. Anno dom. M<sup>o</sup>.lxxix. y bu ymlad mynyd carn. ac yno y llas Trahaearn vab Caradauc a meibion Riwallawn: Caradauc a Grufyd. a Meilir. y gan Rys vab Teudwr canys Grufud nei Iago ac yscottieit lliidiauc adoeth yn borth idav. Gwrgenev vab Seisyll alas odwyll: ygan veibion Rys seis: yny vlwydyn honno yd aeth William duc normandi a brenhin lloegyr a chymre y bererindaut hyt yn mynyw. athri meib a uu idaw nyt amgen Robert. a William. a Henri. Anno dom. M<sup>o</sup>.lxxx. y dechrewt edeilat caer dyf. Anno dom. M<sup>o</sup>.lxxxi. y bu dece' nouenalis sick. Anno dom. M<sup>o</sup>.lxxxiii. yd edewys Sulien y escobaut. ac y kymyrth Gwilfret hay. Anno dom. M<sup>o</sup>.lxxxiiii. y bu varw Terdelach brenhin yscottieit nev y gwtydyl. Anno dom: M<sup>o</sup>.lxxxvii<sup>o</sup>. y bu varw William bastart duc normandi a brenhin y saesson ar kymre ar yscottieit gwedy llawer o uudugolathew a gorvodigaethev yn ymladev calet: a rodeon gwyrth vaur diamdlavt. yn oetran y deyrnas vn vlwydyn arugeint. y oedran yntev ehv oed namyn vn vlwydyn tru- geint. y gorf yntev agladwyd yn normandi mewn dinas aelwit caine. A gwedy yntev ydoeth Wyllyn goch y vab yn vrenhin: Yny vlwydyn honno y diholat Rys vab Teudwr oe gyvoeth hyt yn iwerdon ygan veibion Bledyt vab Kynvyn: Madoc: Cadwgon: a Ririt: Ac yny lle y doeth ef drachevyn allynghes ganthaw ac arodes kyffranc y veibion Kynvyn yny llech ryt. ac yno y llas deu vab y Vledyt vab Kyn- vyn nyt amgen no Madoc a Ririt. Ac y goruu ar Rys vab Teudwr rodi dreth vaur yr llynghes a dathoed yn borth idaw.

Agwedy gwneithur Willym goch yn vrenhin ny bu vrenhin creulonach noc ef. Anno dom. M<sup>o</sup>.lx.xxviii. ydudcpwyd kist Dewi or eglwis yn lledrat. ac o dieithyr y dinas y torrat ac yspeilywt. Yny vlwydyn honno y krynws y dacar yn dirvaur dros wyneb kymre. Ac yny vlwydyn honno y ducpwyd corf seynt Nicholas o dinas Mirrea ac y dodet mewn yscrin yn lle y gelwir Barwin. Y nauvet dyd o vis mei. Anno dom. M<sup>o</sup>.lx.xxix. ybu varw Sulien escob Myniw dysgiander y kymre amdif- fynnwyr yr eglwysev. doethineb y krevyde-

ev. nos calan Ionaur pan oed y oet ran. pedwar vgeint blyned. Ac vn vlwydyn eissiev o vgeint y buassei yn escob. Yny vlwydyn honno y torrat Mynyw ygan gwyr anfydlon or ynyssod. Ac y bu varw Kediur vab Gollwyn. y veibion yntev Llewelyn ay vrodyr a wahodassant Grufud vab Moredud yn erbyn Rys vab Teudwr. ac yn ymmyl llan dydoch ybu ymlad ryngthunt. ac y goru Rys arnadunt gan ev hmylit ac ev llad adaly ereill onadunt. Anno dom. M°.lx.xxx. y divaws Willim goch brenhin lloegyr deudec eglwys adeugeint o vam eglwyssev heb gappellev yny forest newyd yn ymmyl Swtham twne. Anno dom. M°.lx.xxxi. y llas Rys vab Teudwr brenhin deheubarth y gan y freinc a yttoed yn trigaw yna yn brecheiniauc. ac yna y syrthws brenhiniaeth kymre. Yny vlwydyn honno Cadwgon vab Bledyn a anreithws dyvet ychydig kyn kalan mei. A deu vis gwedy hynny yn cychl kalan gorfennaf y goresgynnws y freinc dyvet a cheredigion. ac y gwledychassant yr hynny hyt hediw. A holl kymre a vedassant a gwneithur keystyll yndi a chadarnhav ereill. Yny vlwydyn honno y llas Moelculm vab Dwnchath brenhin y pictieit nev yscottieit. ac Edward y vab. y gan y freinc. A gwedy klywet o Margaret wreic Moelculum y lad ef: gwediaw a oruc ar duw. nac arhoe hi pellach pen yr wythnos yn vew. Ac y gwarandewis duw y gwedi hi: kyn y seithvet dyd ybu varw. Anno dom. M°.lx.xxx.ii. Willim goch vab William bastart a aeth hyt yn normandi y amdifyn kyvoeth Robert y vraut. yr hwnn a athoed y Gaervsalem dros y gristionogaeth y ymlad a sarasynniet. ac a gavas y clot uuyaf or byt tra drigws yno. ar lawer o uudugolaethev. Ac yny vlwydyn honno y bv mynych ymgyrchu yrwng y kymre ar freinc a oed yn gwledychu yna keredigion a dyvet. adwyn anreithiev amynych lladauev o bop parth. Ac yn hynny y kyvaru Cadwgon vab Bledyn ac wynt yngkoet yspes yn mynet am benn Gwyned: ac ymlad ac wynt yn wychyr calet. allad lluosogrwyd onadunt. a chymell ylleill ar fo. gan ev hmylit ac ev llad heb drugared. Achyn diwed y vlwydyn ef a oresgynws ev holl keystyll eithyr Penvro a Ryt cors. ac aduc ev hanreithiev yn llwyr ganthaw yu wlat. Anno dom. M° lx.xxxiii. y diffeithws y freinc gwyr a chetweli ac ystrattywi. Ac y doeth Wyllym goch y loegyr. ac am hanner y kynhayaf yduc ef y lu y gymre. Ac yr amdifynws y glynnev y kymre: ac y daeth y brenhin adref yn llav wac. Yny

vlwydyn honno y detholet Ancelin' yn arch escob keint. Anno dom. M°.lx.xxxiiii. y gyssodes y brenhin treth ar y saeson. Ac y bu varw William vab Baldewyn y gwr adechrews castell ryt cors drwy gorchymyn y brenhin. A gwedy y varw yd edewyt y castell yn wac o wercheitweit. Gwyr brecheynave. a gwyr gwent. a gwyr gwenllyvc a wrthnebassant gorthrymder y freinc. Ac yna y kyffroas y freinc ev llu hyt yngwent. ac ny chafsant vn lles yr hynny namyn llad llawer onadunt yny lle ygelwyt kelli carnawc. Odena yn lleygys gwedy hynny yd aethant ac eu llu hyt yn brecheynawc ac ny chaussant vn lles yr hynny. namyn ev llad ygan veibion Idnerth vab Cadwgan. nyt amgen Grufud ac Ivor yn lle y gelwir Aberllech. ac ev keystyll aedewit yn gyfan. ac ev tlodeon adrigassant yn ev tei yn ergrynedic: Yny vlwydyn honno y doeth Vchdryt vab Etwin. a Hywel vab Gronw ygyt athwissogeon ereill atholwyth Cadogon vab Bledyn ac agyrchassant castell penvro. ac a yspeiliassant yr holl wlat. ac ay hanreithiassant. ac ay diffeithiassant. ac y doethant adref yn iach ac ev llwythe o da ganthunt. Anno dm. Mo.lx.xxxv. y rodet swid castell penvro y Gerald wasanaethwr. ac y diffeithws e tervynev mynyw. Yny vlwydyn honno y dygyvores Willim goch vrenhin anneirif o lu yn erbyn y kymry. Ac ymdiret a oruc y kymre yn duw: drwy ev gwediev. ac vn prydiev. ac alwissenev. a phenydiev. a dodi ev gobeith yn duw. Ac aflonydu ar ev gelyneon: hyt na lavassei y freinc mynet yr coedid nac yr anealweh. namyn rodiaw y tiroed rwid yn vlin lludedic. Ac odyo ymchwelut adref yn llaw wac. Ac velly yr amdifynws y kymre ev gwlat yn he drwy llewenyd. Ac yny vlwydyn honno y bu varw seyn Wlstan escob caer-vrangan: ac y clathpwit yny escopty ehvn. Ac yny ol yntev y doeth yn escob Henri y vraut y gwr awnaeth kyvreithev da yn lloegyr. Anno dom. M°.lx.xxx.vi°. y doeth y freinc y drydeweith allu mawr ganthunt hyt yng Gwyned adeu dywyssauc arnadunt. nyt amgen Hugone Goch iarll amhwythic. a Hugo' vras iarll caerlleon. Agwedy ev dyuot hyt yn gwyned: y kil-iws y gweyndit yr annealweh mal y gnottahassant gynt: ac y doethant wyntev hyt yn agos ar y mor kyverbyn a mon. y lle y gelwyt aber lliennauc. ac y gwnaethant gastell yno. A gwedy gwelet or gweyndyt na ellynt ym erbyniet ac wynt: achubeit mon aorugant y geissiau amdifyn ygan wyr iwerdon nev herw longhev yar vor.



Agwedy gwybot or freinc hynny: kymryt aorugant Oweyn vab Edwyn yn ev blaen y vynet y von. Pan wybu Cadugon vab Bledyn. a Grufud vab Kynan hynny: ovynehau ev twyl aorugant. ac adaw yr ynys achyrchu iwerdon. Ac yna y doeth y freinc y von ac adrigassant yno ac a ladassant rei or kymre a edewit yno. Ac yn yr amser hwnnw yd oed Magn' brenhin Norwei yn gwiliaw mor ygeisiaw gwassan-aethev a llogheu ganthaw. agwelet tir kymre adyut tu ac ynys von aorugant. Ac yn ev herbyn y doeth y freinc ac ymseithu ac wynt. ac yn yr ymseithu hwnnw y brathwit iarll amwithic nny wyneb olaw brenhin norwei nny golles y eneit. Ac yna o dissyvyt gyghor yr edewys brenhin norwei terynev yr ynys. Ac yr edewys yr holl freinc ynys von ac y doethant y loegyrr at seasson. ac adaw Oweyn vab Etwyn yn dywyssauc y gwr y aduc y freinc y von kynt kyn no hynny. Ac yna ydaeth y gweyudit yr eilweith yn gwrthnebed. can ny ellynt dyborthi kyfreithiev na brodiev na threis y freinc. Anno dom. M<sup>o</sup>.lx.xxx.vii<sup>o</sup>. y doeth Cadugon vab Bledyn. a Grufud vab Kynan o iwerdon aheadychu ar freinc a rodi ran ydunt oc ev kyuoethev. Cadugon agymyrth keredigion aran o bowys. Grufud awerchetwys mon. Llywelyn vab Cadugon a las y gan wyr brecheynauc. Howel vab Ithel a aeth y iwerdon. Ac nny vlwydyn honno y bu varw Rychemarch vab Sulien escob. y gwr doethaf or kymre. ac ny bu kyn noc ef y gyffelib. eithyr y dat nys dysgws neb ef. ac ynghylch teir blyned adeugeint oed y oetran pan uu farw. Anno dom. M<sup>o</sup>.lx.xxx.viii<sup>o</sup>. val ydoed Willim goch brenhin lloegyrr a Henri y vraut yn mynet y hely yr forest newyd adywetpwytt vchot. allawer o varchogean ygyt ac wynt. ef arodes y uaha yn law Sir Walter Tirel atheir saeth yw dwyn. agwedy ev dyvot yn forest y kymyrth y brenhin y uaha a dwy or saetheu a seuyll adan bren y aros ergit. a gossot y marchauc vrdaul adan bren aral kyverbyn ar brenhin. a gorchymyn ydau seith y mwyaaf a welei or hyd-gant. A hynny aoruc yntev a saeth y brenhin ehvn: a datlamhv y saeth yar gevyn vn or keiriw nny uu adan vron y brenhin. ac or ergyt annodun honno y bu varw. Agwedy gwelet hynny o Henri y vraut: ef a orchymynws yr gwyr kyweiriav y gorff yn enrydedus vrenhiniaul ay dwyn y gaer wint. ac yntev onerth traet meirch a aeth or blaen. canys yno yd oed swllt y brenhin ay angued. Agwedy

cladu y brenhin yngkaer wint: ef awahodes paub or tywyssogean gyt ac ef hyt yn llundein canys penna eistedva oed or ynys honno. ac nny ydyrdwytt ef yn vrenhin. canys arver awnaeth Willim goch agor-derch wraged heb gaffel vn etived ded-vaul.

A gwedy gwneithur Henri yn vrenhin. ef agymyrth Mahalt verch Moelculu. brenhin y pictieit yn vrenhines ydaw o Margaret y mam hithev. Ac ef a dywedit yna bot Robt. y vraut ef yr hynaf yn dyuot o dir casusalem gwedy yr oruot yno onadunt: Ac nny vlwydyn honno y bu varw Thomas archescob caer efvrauc. Ac nny ol yntev y doeth Gerard' y gwr a uu escob yn henford kyn no hynny. canys Henri vrenhin avynnei y dyrchael y vrda a vei euch noc y bussei gynt. Ac An-cellin' a adaussei archescobot keint rac kreulonder Willym goch: canys ny wnaef dim nac yr duw nac yr y orchymynnev. Ac yno y perys Henri vrenhin y ansodi drachevyn nny archescobot. Anno dom. M<sup>o</sup>.lx.xxxix. y bu varw Hyw vras iarll caer lliion. ac y rodes y brenhin y gyvoeth y Rog. y vab kyt bei ieuang o garyat y dat. Ac yna y bu varw Gronw vab Cadugon. a Gwynn vab Grufud. Anno dom. M<sup>o</sup>.C. y bu dece' nouenal' gyntaf. Ac y kynydwys ryvel rwng Henri vrenhin: a Robert iarll amwythic debelem oed y lyssenw ac Ernwlff y vraut yr hwnn y doeth dyvet nny rann o goelbrenn. ac y gwnaeth castell penvro yn gadarn ydaw. A gwedy klywet or brenhin y chwedleu hynny drwe oed ganthaw: ac anvon aoruc y edrych a oed wir hynny. ac y dyfynu y gwyr attaw. Ar gwyr nyt oed da yd ymdiredeint yr brenhin. a cheisiav esgusodi. ac ny vynnawit yr esgussot drostunt. Ac yna y kill-iws y gwyr y ev kedernyt: a gwahaud nerthoed attadunt nyt amgen meibion Bledyn vab Kynvyn. Cadwgon. a Iorwerth. a Moredud, ec ev gallu. Ac a allasant uuyaf ar dor hynny or a gymerei da ac enryded yganthunt yr trigaw yn vn ac wynt. Ac yna cadarnhau ev kestyll o muroed asosid aphor ryw kedernit or a wyppit a orugant. Ac yna yd achubaud Robert petwar castell. nyt amgen. Arwndel. Blydense. Brugge. yr hwnn y bu y ryvel oe achos. am y wueythur heb gorchymyn y brenhin. ac amwithic. Y Ernwlff nyt oed onyt castell Penvro ehun. Agwedy kynullau ev gallu attadunt: kyrcu anreithu aorugant. adychwelut adref yn llawen hvvryt, Ac yna anvon a oruc Ernwlff: Gerald papifer a llawer o

kennadeu ereill y gyt ac ef hyt yny Iwerdon. y ervynneit merch Murcard brenhin iwerdon yn wreicka ydaw. Ac y cavas y ervin. Ac yr anvonet llawer o herw logheu agallu maur yndunt yn nerth yv dav gan y verch. ac am hynny ysgeyll-sach oed ganthunt am hedychu ar brenhin. Agweddy clywet or brenhin hynny yn lleygys kynullaw llu a oruc. dyvot am ben castell Arundel ay goresgyn. ac odyo y doeth y Blydense alionno a edewyt ydaw ac y kymyrth yny vediant. ac yna y doeth hyt yn Brugge ac y kymyrth kyghor pa furf ygallei ef gorev daristwng yr iarll ay oy daly. ay y dehol or ynys. Ac yno y cavas yny gyghor anvon y wahaud Iorwerth vab Bledyn yn dirgeledic attaw. ac adaw aneirif o da ydaw mwy noc yr edewys yr iarll ydaw. Arodi ydaw yn ryd didreth tra vei vew y brenhin: powys a cheredigion a hannar dyvet. Ar hanner arall doeth y vab Bladwyn git ac ystrattywi a chetweli a gwyr. Ior. vab Bledyn hagen a gyrchws castell y brenhin ay holl anreithieu or a oed ydaw ehv. a hynny drwy gorchymyn y brenhin. Ac a anvones y wyr y cribdeiliaw kyvoethev Robert iarll amwithic. acy diffeithiaw gan goffau yr angkyfreithiev awnathoed Roger y dat a Hvgyn y vraut yr kymre kyn no hynny. ac ni wdiat yr iarll vot neb or kymre yngwrthnebed idav. Agweddy kynullav yr anreithiev gwypaf ar goludoed mwiaf amynet ymeith ac wynt: yd oed Cadwgawn a Moredud yn vn ar iarll heb wybot dym ohynny. Agweddy clywet or iarll hynny: annoeithiav a oruc yn vaur canys cadarnaf oed Iorwerth or kymry. ac anvon ar y brenhin a oruc y geisiav kyghreir y gantaw: nev yntev gadel ford ydaw y adaw yr ynys. Ac Ernwlff y vraut a aeth yn erbyn y wreic ar nerth a oed gyt ahi o herw logheu. ymplith hynny ydoeth Magnus vrenhin yr eil weith y von. ac a vriwaud adeiliadev prenn: ac adychwelaud y vanaw ac a dechreuawt yno tri chastell. ac a anvones hyt yn Iwerdon y geisiav merch Mwrcardi vrenhin yn wreicka yw vab yntev. A hynny a gavas yn llawen. Ac yno y trigawd Magnus y gayaf honno ac awnaeth y vab yn vrenhin ar vanaw. Pan gogleu Robert iarll hynny: anvon a oruc y geisiav amdiffyn yno. heb gaffel dim. Agweddy gwelet o honaw y vot yn argaeat aboptu: y rodes y brenhin ydaw kanneat y adaw yr ynys. ac y mordwyaud yntev hyt yn Normandi ac adav pob peth. Ac yna anvon or brenhin ar Ernwlff y vraut y

wybot pa vn oed orev ganthaw ay dyvot yn ewyllys y brenhin: ay mynet yn ol y vraut ac adav y gyvoeth. Ac y bu dewis-sach ganthaw mynet yn ol y vraut ac adav y gyvoeth ay gastell yr brenhin. Ac ydodes y brenhin gwercheitweit yny castell. yn lleigys gwedy hynny y bu tagneved y rwg Iorwerth vab Bledyn ay vrodyr. yn lle gwedy hynny y delhiis Iorwerth Moredud y vraut. ac ay duc ygarchar y brenhin. Cadwgawn hagen awnaeth hedwch ac ef: ac ydaw y rodet keredigiaw na ran o bowis. Odyna Ior. a gyrchws llys y brenhin o dybygu caffel yr edewidion a edewit ydaw gynt. Agweddy gwelet or brenhin hedwch: ef a dattynnws dyvet ar castell. ac ay rodes y varchauc vrdaul Saher oed y henw. ac ystrattywi a chetweli a gwyr arodet y Hywel vab Goronw. yn hynny hagen ydalpwyd Goronw vab Rys odwill: ac yn ygarchar y bu varw. Anno dom. M<sup>o</sup>.C<sup>o</sup>.i. yd aeth Magn' brenhin g'maynia o vanaw y diffeithiaw tervynev llychlyn. ac y kyuodes y llychlyn wyr yn gyfluhitac ymlit yr anreith ac ymordiwes ac wynt. ac ymlad yn wychyr creulon ac wynt a llad llawer o boptu ac yno y llas Magn' vrenhin ay holl wyr. Ac yno y doeth o y vrth y brenhin. doetheon o eskyb a Iorwerth vab Bledyn hyt yn amwithic yn rith dosparthu negeseu y brenhin. Ac yna galw ar Iorwerth attadunt: a gwedy ydyvot yn ev plith yr holl negesseu arodet yny erbyn ef. Ac y buwyd yn kyhennv dadlev arnaw hyt y bu yr dyd. ac y barnwit ef yn euawc. ac nyt o gyfreith namyn o gallu. Ac yno y dalpwyd ef ac y ducpwyd y garchar y brenhin. Anno dom. M<sup>o</sup>.C<sup>o</sup>.ii. Owein vab Edwin o hir nyctawt ybu varw. Ricard vab Baldwin a ystoreas castell ryt cors Hywel hagen vab Goronw y gwr y gorchymynnassei y brenhin idaw gwarchadwedigiaeth ystrattywi a ryt cors ac ev tervynev: a wrthladwyd ac a anreithiwyd allosgi yr ydev ar tei. ac adaw y tir yn diffeith. ac ymchwelut or freinc adref drachevyn heb argyved arnadunt. Ac yntev a droas ynghylech y wlat hwnt ac ymma ac a achubws y castell heb tygiaw dym ydaw: canys y castellwyr a yttoed yn trigaw yny castell yn digyffro. Yn hynny y duc y brenhin y ar Saher castell penvro ar wlat yn gwbyl. ac ay rodes y Gerald y gwr auuassei geitwat yno atan Ernwlff gynt. Anno dom. M<sup>o</sup>.C<sup>o</sup>.iii. y llas Howel vab Goronw y gan y freinc a oed gastellwyr yn ryt cors. Sef mal y llas. Gwgawn vab Meuric a oed tatmaeth mab y Hywel a mwiaf gwr or

byt yd ymdiriedev idaw. a gwahawd a oruc ef Hywel yw dy: ac anvon ar y castellwyr y venegi hynny. A gwedy mynet Hywel y gysgu yn lle adas y tybygassei: y duc Gugawn yn lledrat odigantlaw y gledyf ay waiw ay aruev oll ereill. Aphan oed bylgeint nyfach gawr am ben y ty ar eil ar dryded. Sef aoruc yntev kyuodi yn llym agalw ar y wyr adyogassey ev bot yn barawt y ymlad y git ac ef: ac wynt gwedy yr ffo yr pan glywssant y gaur kyntaf. Ac yno keisiaw y aruev heb gaffel dym: ac yno y foes Hywel ac y hymlynawd Gwgawn ef obell gan ymoralw ay gedymeithion ac nyt ymedewis ac ef yny delhiit. ac yllas y benn ac y ducpwynt yr castell. Yn y vlwydyn honno yr ymdangosses seren aoad auryved y gwelet. Ac ybu varw Henri amheravdyr ruvein gwedy llawer o undugolaetheu a chrewydus unched: ac y gwnaethpwit yuab yn amheravdyr yny le. Yny vlwydyn honno yr anvones Henri vrenhin Lloegyr lluydaristwg normandi idaw. ac yn ev herbyn ydoeth Robert iarll ac Ernwlff y vraut a Robert de belem a William o moretania y gevynderw ac ev kymhel ar fo drachevyn. Agwedy gwybot o brenhin hyny: kynullaw llua oruc mwiaf or agavas adydot ehvn y gyt ac wynt hyt yn normandi: ac yn ev herbyn y kyuodes yr iarll ac ymlad ac wynt yn wychyr kalet. a rac amlet lluoed y brenhin: y foas yr iarll. ac yny fo hwnnw y delhiit ef a Gwilliam y gevynderw. ac y ducpwit wynt hyt yn lloegyr yngkarchar. ac ydaristynghwit normandi yr breuhin. Yn diwed y vlwydyn honno yllas Meurie. a Grifri. meibion Trahaearn vab Caradoc: y gan Oweyn vab Cadwgon. Anno dom. M<sup>o</sup>.C<sup>o</sup>.iiii. y dienghis Moredud vab Bledyn oe garchar ac ydaeth yw wlat. Ac y bu varw Herwald escop llandaf: ac y doeth yny le yntev Worgan. Ancellin archescob ay kyssegrws yngkeint. Pan oed oet crist mil achant apymp mlyned ydoeth yflemisseit oflandres gyntaf hyt ar Henri vrenhin y ervynyeit lle yganthaw ydunt ybresswiliaw yndaw: a menegi idaw ry dyuot or mor tymhestylev y ev gwlat wyntwy a rydiva yr ydev ar frwithev amynet ac ef yr mor. ac am hynny ni alleint ynbresswiliaw yny dymhstelus wlat honno. Ac yna yr anvonet wynt hyt yn Ros. ac yr achubassant y wlat honno yn llwyr. a Dyvet hyt yn aber cledif. a dehol y gweiniet or wlat honno yn llwyr. Ac yna yr adeiliaud Gerald gwassanaethwr yr eil weith castell penvro yn lle y gelwit kengarth vachan ac

aduc yno y holl engued ay wreic ay veibion. ac a wnaeth claud a phalis yn amgilch y lle hwnnw a phort achlo arnav. Anno dom. M<sup>o</sup>.C<sup>o</sup>.vi<sup>o</sup>. ygwnaeth Cadwgon vab Bledyn gwled darparedic yn erbyn nodolic a gwahawd y rei pennaf or wlat a oruc attaw: a gwahawd Oweyn y vab o powys aoruc. Ac y kigleu Oweyn: bot Nest verch Rys vab Tewdwr yn wreic briawt y Gerald wassanaethwrac yngkastell penvro ac yn deckaf or gwaged. ac yn gyntaf ydaeth ef yw bedrych ac ychydic o gedymdeithion ygyt ac ef yn rith ybot yn gares ydaw. canys Cadwgon vab Bledynt a Gwladus verch Riwallawn mam y Nest a oed keyvynderw achyfnitherw. ac wynt ylldeu yn gefynderiw. a Bledynt a Riwallawn yn deu vroder. Agwedy y gyflenwi o gythreulaeth ac o gareat y wreic y doeth ef ynos honno amben y castell a dyuot y mewn yn diarwybot. adodi gawr amben yr ystauell lle ydoed Gerald yn kysgu a Nest y wreic: a dodi tan yny tei. ac yna y deffroes Gerald a Nest heb wybot peth a oed hynny. Ac yna yd erchys Nest y Gerald nat elei yr drws allan namyn dyvot ygyt a hi yrgeudy. ac yn adyrchael ystyllen y gevdy ay ellwng ford yno allan. Agwedy gwybot ohonei y diang yn diogel: dyvot yr ystavell a oruc a gweidi a dywedut nat oed yno neb onyt li ay meibion. Ac yna ydoethant ymewn ygeisiaw Gerald heb gaffael dim o honaw. Ac yna y daliassant Nest ay deu vab. ar trydyd mab amerch agat ogaradas. ac y hyspeiliassant y castell yn llwyr ay llosgi ay hanreithiaw a dyuot hyt ympowys ar anreith a orugant. Ac yn lleigys gwedy hynny y doeth Cadwgon hyt ynpowys a hedychu rwng y rei oed annvhn rynth unt ac Oweyn y vab. Agwedy klywet o Gadwgon yr anghyfreith awna thoed Oweyn y Gerald: ovynehau a oruc ybrenhin yn vaur ac erchi edryt y wreic drachevin ar anreith ydaw. Ac yna yd erchys y wreic ydaw edryt y blant yw tat ony wnelei amgen no hynny: ahynny aoruc yntev. A hynny o Garyat y wreic: anvon y deu vab ay verch ydaw. ac attal ev mam ganthaw yntev. Ac yn yr amser hwnnw yd oed Richard escob llundein yn wassanaethwr yr brenhin ny ammwithic. A gwedy klywet o honaw hynny: anvon a oruc y wahaud attaw deu vab Ririt vab Bledyn. nyt amgen Ithel. a Madauc. ac adaw ydunt o enryded mwy nogyt y holl kymre yr keisiaw daly Owein am y kywilid a wnathoed yr brenhin ay wassanaethwr. Ac adaw yn ganhorthwy ydunt: Llywarch vab Trahaearn canys Oweyn aladassei y

vraut ef: ac Vchdryt vab Edwin. Ac yna yr ymgredassant ac ef: achynnullaw llu a orugant. Ae anvon a oruc Vchdryt yn dissyuyt yr wlat y erchi y baub or avyn nei y amdiffyn dyvot attaw. A llawer onadunt adoethant hyt yn arwistli. llawer hyt yn meilenyd. ereill hyt yn ys-trattywi. ar ran uuyaf onadunt a foas hyt yn Dyvet lle yd oed Gerald yn mynnv diffeithiav. Ac yna yd erchys y brenhin y Wallter escob caer loyw kymryt saesson gyt ac ef. a mynet yamdiffyn caer vyrdyn. Ac yna y kirchassant arwistli ac y kyuaruant agwyr maylenyd ac y diffeithassant wynt. y rei adoeth ar Vchdryt a dianghassant. y rei a aeth y ystrattywi Maredud vab Ryderch ay derbynawd yn enrydedus. Cadwgon hagen ac Owein a gausant llong yn aber Dyfi a doythassey o Iwerdon achyfnewidiev ychydic kyn no hynny: ac a gillassant ymeith. Madawc ay vraut a Llywarch ac Vchtryt a doethant hyt yngkastell ryt cornouet. amynnassu kyrchu kyrch nos amben y wlat ac am ben Cadwgon ac Owein. Ac yna y kynghores Vchtryt aros yny vei dyd amynet yr wlat yn reolus: rac bot nerth dirgeledic ganthunt. A hynny aorugant. Athrannoeth pan doethant yr wlat ny chat dym yndi onyt greoed Cadwgon. Ac yna y bu pawb onadunt yn ymgeryd ay gilyd ac yn goganu Vchtryt yn vaur am hynny. Ac yna yllosgassant ytei ar ysguboriev ar ydev ac a dychweillasant y ev kestyl drachevyn. gwedy diffeithiaw y gwledyd kan mwiaf. a rei or kiwdowntwyr a foas y lan padarn: ereill y dir dewi: ereill adienghys heb ev diffeithiaw. Agwedy klywet onadunt bot rei yn trigaw gyt ac effeirieit yn llan dewi vrevi: wynt ay kyrchassant. ac eu dodi mewn geol drwc yn ev gwlat wynt ev hvn. ac anreithiaw yr eglwissev yn llwyr. lle buessunt. A gwedi klywet Owein ay gedymeithion hynny: wynt a aethant hyt yn Iwerdon at Murcard brenhin Iwerdon. ac ef ay derbynaws yn enryded' wynt. Cadwgon a drigws ympowys ac anvon kennadev at y brenhin y geisiaw kigkreir. ac y cavas trigaw mewn tref a gaffei gan y wreic: canys fraghes oed. merch y Piccot de Sain. Ac yn hynny y doeth Madoc ac Ithel meibion Ririt ac achubeit ran Cadwgon ay veibion o bowis. ac y traithassant yn anadvvyn. Ac yn hynny y cavas Cadwgon hedwch yr cant punt o areant ay gyuoeth. adan amot na chaffei Oweyn byth y ganthaw na nerth na chighor na sengi y dir o hynny allan. Ac nat attalie neb or a doethassei y keredig-

iawn kyn no hynny y ev chyvanhedu o ystrawn genediloed: namyn ev gellwng yn ryd. Gwedy klywet o Owein ry gael o Gadwgon y gyvoeth ef a doeth ef ay gedymeithion y dir kymre. ac nyt y keredigion a gyrehws: namyn y bowis. Ac yno keisiaw kennadev y wneith' y hedwch ar brenhin. Ac nyt oet neb ay llavassev. Ac yn yr amser hwnnw ydoed Madoc ap Ririt ac anyhvndeb y ryngthav ar freinc ac ar saesson. Sef achos oed derbynnyeit lledradev y ev gyuoeth awnay ac ev canmawl. A gwedy anvon o Ricard wassan-aethwr attaw y geisiaw y lladron: y nackau ar gwbyl a oruc. Ac am hynny yd oed yn forfet yn erbyn y brenhin. Agwedy na wydiat peth a wnay: ymgedymeithiaw a oruc ac Oweyn vab Cadogon. amynet yn vn gar vn esgar ohynny allan. Gwedy ev bot yn elynon kyn no hynny. Pan oed oyt crist. mil. c. a vii. mlyned y doeth cof y Henri vrenhin carchar Iorwerth vab Bledyn. ac anvon attaw aoruc y wybot ganthaw peth arodei yr y ellwng o garchar. A rac hyt y buassei yngkarchar mwy y hwdawei nogyt gallei ef ay holl wyr dyuot ydaw. Sef oed hynny: tri chant punt o areant. nev ev kywerthyth o beth arall. Ac yr hynny y dillyngwyt ef yn ryd. Ac o hynny y rodes y brenhin y vab Cadogon or fraghes a dywetpwyt vchot. Henri oed y henw: cant more. Ac yna y rodet y gyvoeth ydaw: ac y talawd yntev yn lle y vab Cadogon. Ac yn yr amser hwnnw yd oed Oweyn a Madau ac ev kedymeithion yn gwneythur llawerodrygev ar y freing ar saesson. A pha drwc bynnac y galleint: y dir Iorwerth ykyrcheint ac ef. ac yno ytrigeint ac y treulieint. A gwedy menegi hynny y Ioru': gorthrwm y kymyrth arnaw rac ovyn anvod ybrenhyn. Ac anvon aoruc attadunt y ymgystlwn kerenyd ac wynt: aphregethu ydunt. Ac ervynneit ydunt gochel y gyuoeth ef: ar hwn Cadogon. Canys odeynt yn ewyllys y brenhin pan wppyt seghi o Oweyn neu gedymeith ydaw: tir yr vn onadunt. A gwedy menegi hynny: ydunt mynychach y bydent yno no chynt. Ac yna yd erchys Iorwerth ev gwrthlad oy gyuoeth. ac yd aethant wyntev y gyuoeth Vchtryt hyt yn meirionnyd. A gwedy klywet o veibion Vchtryt hynny: anvon aorugant y erchi ev dehol oc ev tir wynttwy. Ac yna y doethant wyntev gyntaf y kyueiliauc lle yr oed meibion Vchtryt. Ac yn ev hol wyntev y doeth gwyr meirionnyd heb olud. Athrannoeth y kyuaruant ac Oweyn ac

a Madoc ac ev kedymeithon : ac ymlad ac wynt yn wychyr creulon. Agweddy gwelet o Oweyn a Madoc y gwyr yn ymlad mor wrawl ac wynt : kymryt ev hynt ar fo a orugant. Ac ev hylmit aoruc y gwyr ereill hyt ev kyvanhedev ac yna llosgi y tei ar ydev a llad yr ysgrbyl yn llwyr. Ac yno y trossas Madoc y Bowys. Ac y trosses Oweyn y keredigiawn y gyuoeth ydat heb goffau goruot ar y dat ymbrynv ygan y brenhin ychydic kyn no hynny. Ac hynny oy achos ef. Ac yn yr amser hwnnw ydoeth kedymeithyon Oweyn y vynet y yspeiliaw ac y rwymaw y dynneon ac yn ev dwyn ganthunt hyt y llongheu a doethassei gan Owein o Iwerdon kyn no hynny. ac yn trigaw velly yn ymylev y wlat ac yn gwneythur gwaethaf ac ygell-ynt. Odena wynt a alwassant attadunt ynvydeon o keredigeon y amyhlau ev rif. ac adoethant hyt nos am ben tref ac a ladassant a gaussant vwyaf. ac ereilla yspeiliassant ereill a anreithassant. ereill adugant yw llongheu. A llosgi y dref a llad yr anyveileit ar ny allasant y dwyn ganthunt hyt yngkeredigion. ac yno ytrigassant heb ganeat Cadogon nac hwn y brenhin. Odyo wynt ydoethant y warchadw ford : ford y deuwei primas ofandrys William Braban oed y henw ay lad aorugant ydaw. Agweddy klyweto Cadogon hynny a Iorwerth y vraut : kyrchu llys y brenhin aorugant y ymdigerydu urthaw. Ac yno y doeth manac yr brenhyn ry lad o gedymeithion Owein vab Cadogon William de Braban. Agweddy menegi hynny ydaw ymliw aoruc y brenhin a Cadogon yn chwerv. am na allei lludias Oweyn na y gedymeithion yw gyuoeth. Agorchymyn y Cadogon nat elei or llys. adywedut y gwarchatwei ef y gyuoeth rac Oweyn pryt nas gallei ef. Ac yno y trigawd Cadogon yn llys y brenhin yn digarchar. apheideir arugeint ydaw bevnyd o bwrs y brenhin. a chware ford y mynnei eithyr nat elei y gymre yv gyuoeth ehvn. Agweddy klywet o Oweyn ry dwyn y gyvoeth y ar y dat : mynet aoruc y Iwerdon gyt a Madoc vab Ririt. Gweddy hynny yn lle anvon aoruc y brenhin yn ol Gilbert vab Richard a oed wr da galluus a chedymeith ydaw. Agweddy dydyvot : ef adyvat wrthav. Ti a ervynneist ym llawer gweith kyn no hyn ran o gymre : ac nys geveist. weitheon my arodaf yt tir Cadogon vab Bledyn. Ac ynteu ay diolochas yn vaur yr brenhin. Achynnullaw llu aornic amynet y oresgyn keredigiawn. A gwneithu deu gastell yndi. vn yn aberystwith kyuerbyn ac eglwis padarn. Ac

arall yn aber teivi lle gelwir dyngereint yr hwn a dechreuaut Rosser iarll. Ac yn lle gwedy hynny y doeth Madoc vab Ririt o Iwerdon. Ac y trigawd Oweyn yno talim o amser gwedy hynny. Ac y doeth Madoc hyt ymphowys ar Iorwerth y gevynderw. Ac ydoed yn gyvreith pwybynnac agyvythei ac ef y vot yn anreith odef. Ac am hynny ny dywat Iorwerth wrthaw mwy yr y vot : noc nabei. Ac yna ymgedymeithiaw a oruc Madoc a Llywarch vab Trahayarn y geisiaw bredychu Iorwerth y gevynderw. Pan oed oet crist mil achant ac wyth mlyned y doeth Iorwerth hyt ynkereinawn athrigaw yno nosweith. Ar nos honno ydoeth Madoc gan ganhorthwy Llywarch vab Trahayarn a rodi gawr assyrthiaw am ben y ty : a chan yr awr honno y dyffroas Iorwerth ay gedymeithion a chadw y ty arnadunt a orugant yn gadarn. Ac yna y dodet tan yny ty yw llosgi : a gwedy gwelet oy gedymeithion hynny : fo a orugant drwy yr tan allan ay adaw yntev yny ty. Aphan wyl y ty yn syrthiaw keisiaw didor drwy yr tan allan a oruc. Ac yna y derbynnieit ar waywyr awnaethpwit ay lad yny tan. A gwedy klywet or brenhin ry lad Iorwerth : rodi a oruc powys y Gadogon : ac adaw hedwch y Oweyn y vab. ac erchi y gyrchu adref. A gwedy llad Iorwerth ydaeth Madoc arherw adan goet. ac y geisiaw bredychev ar Gadogon hagen adoeth yn hedycheid heb mynnv argyweddu ar neb hyt yn Trallwg Llywelyn a hynafgwyr gyt ac ef or wlat y vynnv edeiliat castell yno. ef adoeth Madoc gwedy cael brat arnaw. Ac yntev yn wr prud heb welet yn da heb allel ymlad heb allel fo. agweddy fo y wyr oll y cat ef ehvn ac y llas. Agweddy llad Cadogon anvon a oruc Madoc ar Richart escop llvndein adywetpwit vchot yr hwn a oed yn medu yna swid amhwithic. ac erchi ydaw talu pwith idaw y gweithret honno mal y hadawssei gynt. yr escop a vedyliawt am hynny : ac a rodes hedwch ydaw ar kyuoeth a uassei yn eidaw Ithel y vraut kyn no hynny. Ac nyt yr ygaru namyn yr chwenychu ev kyuoeth ac wynt pob vn onadunt yn llad y gilid. Agweddy klywet o Maredudd vab Bledyn hynny : kyrchu y brenhin aoruc y geisiaw kyuoeth Iorwerth y vraut. Ac y rodes y brenhin ydaw gwarchatwedigaeth y kyuoeth yny delei Oweyn yr wlat. Agweddy dyuot Owein yr wlat dyuot ar y brenhin awnaeth achymryt y dir y ganthaw ac adaw llawer o da ydaw. a doddi gwercheitweit yny gyuoeth. Ac y doeth Madoc vab Ririt y hedychu ar brenhin ac adaw

llawer o da yr hynny. a rodi gwystlon am y da. Ac ymogelei ef ehvn rac y genedyl os mynnei.

Pan oed oet crist M.C. a nav mlyned. y peris Henri vrenhin daly Robert iarll vab Roger de Belem ay rodi yngkarchar. Ac y bu anyhvndeb rwg y vab ar brenhin am hynny. Ac y bu varw Ancellin' archescob. keint.

Pan oed oet crist mil achant a deng mlyned yd anvones Maredud vab Bledynt ydolwith y aflonydu ar gyuoeth Llywarch vab Trahayarn. Ac y damchweinws kyaruot onadunt a gwr y Vadoc vab Ririt. Ac y govynnassant ydaw pale yd oed Madoc; ac nys managei. Agwedy y gymhel arnaw: ymenegys y vot yn agos attadunt. Ac yna dodi gwiliadwreith arnaw y nos honno. Athrannoeth pan oed dyd: dyuot yn dissyuyt am ben allad llawer oy wyr ay daly yntev ay dwyn ar Voredud. Ac y derbynniawd yntev ef yn llawen ac y dodes gevyn arnaw. ac y ketwys yny doeth Oweyn vab Cadogon. Ac yna y rodi y Oweyn: allawen uu Oweyn oy gael. ac aberys y dallu. Ar hyn aoed idaw o gyuoeth ymhowys wynt ay rannassant rygthynt. sef oed hynny: kereinon. athraen deudwr. ac aberriw.

Pan oed oet crist. M.C.xi. y kyffroas Henri vrenhin y lu y tu a gwyned a phowys. canys nev yr daroed y Gilbert vab Richard kyhudaw Oweyn wrth y brenhin. y vot yn derbynneit lledradev yw gyuoeth o gyuoethu ereill: ac yn eu kynnal. Ac nev yr daroed y vab Hywe iarll caer llion kyhudaw Grufud vab Kynan. a Goronw vab Oweyn hevyt. Ac yna y maneseynt diva holl kymre hyt na bei atkyuot vduent tragwyd. Ac yna kynullaw llu aoruc y saesson or van eithiaf o Gyrnyw lle gelwir pengwair: hyt y vanni eithiaf o brydyn lle gelwir penblathaon. Achyt tyngkv nat edewit dyn bew yn kymre. A gwedy klywet o Voredud vab Bledyn hynny kyrchu y brenhin a oruc: a dygymot ac ef. Oweyn vab Bledyn ay wyr a aethant hyt yn Eryri. canys hausaf oed vduent yno amdiffyn rac ev gelyneon. Ac yna y gysodas y brenhin tri llu: vn gyt a Gilbert iarll. holl dehev lloegy a chyrynw. y vynet y deheubarth kymre. Arall gyt ac Alexander vab Moelkylum a mab Hywe iarll caer llion a holl prydyn y gyt ac wynt. Trydyd gyt ar brenhyn ehvn. y brenhin a doeth gyt ar deu lu hyt yn lle gelwir mur castell. Alexander ay gedymeith adoethant hyt ym pennant bachwy. Ac anvon ar Grufud y erchi ydaw dyvot

y hedwch y brenhin. ac adaw llawer idaw yr dyuot. ac eiswis y sommi oed pei delei. Ar brenhin a anvones ar Oweyn y erchi idaw dyuot y hedwch ac atdaw y neb ny allei vn amdiffyn ydaw. Ac yntev ay nackaawd. Ac ar hynny y doeth nebun wr ar Oweyn amenegi yr hedychu Grufud a mab Moelculum ar iarll ac adaw onadunt ydaw y holl tir dieithyr y kestyll yn didreth ymywyt y brenhin. ac yr hynny ny chytynniawt ef ac wynt. Ac eilweith yr anvones y brenhin ar Oweyn kennadev a chyt ac wynt Moredud vab Bledyn y gevynderw. ac y dywat yntev wrth Oweyn na thremycka di kennadwri brenhin lloygyr: namyn achub di y garyat ymlaen ereill athi ay keffy. Ac yntev a gredawt ydunt ac a doeth gyt ac wynt y lys y brenhin. ac y derbynnwynt wynt yn enrydedus gan ev canmawl. Ac yna ydywat y brenhin wrthaw. Oweyn heb ef canys doethost attaf oth vod achredu gerieiv vygkennadev ii: minnev ath ardyrchavaf ragor rac neb oth kenedyl. ac a dalaf y bwith o rodeon teilwg yt. Ac a rodaf yt dy holl tir yn ryd. val y bo kenvigen gan dy genedyl. Agwedy klywet o Grufud yr hedychu Oweyn ar brenhin: anvon a oruc yntev ar y brenhin ygeisiaw hedwch: ac y cavas gan dirvawr dreth. Ac yna y dychwelawt y brenhin y loygyr. ac y dywat wrth Oweyn canlyn di vi heb ef. ac a vo teilwg ytti y gaffel my ay rodaf ytt. ac o deuwy gyt ami y normandi: my agyflawaf pob peth or a edeweis yt. a hynny a oruc yntev aphaub onadunt auu kywir wrth y gilid.

Pan oed oet crist M.C.xii. y doeth Henri vrenhin y normandi ac Oweyn gyt ac ef. ac y bu varw Geffrei escop mynyw. ac y perys y brenhin gwneithur yn escop yno Bernard ysgolheic o normandi. bei drwe bei da gan holl ysgolheigion hymre. Yn yr amser hwnnw y gwnaelipwynt gwas ieuanc Grufud vab Rys vab Teudor yn vrenhin yndeheubarth kymre. ac y peris rei oy genedyl ydaw mynet hyt yn Iwerdon yny vei yn oetran. gwedy bot yno yn hir ef adoeth yw wlat. ac y bu ygkylch dwy vlyned gweithev gyt ay genedyl gweithev gyt ay daw Gerald arglwyd penvro canys Nest verch Rys ac yntev oyd chwaer a braut. Ac or diwed y kyhudwit vrth y brenhin. a dywedut bot gobeth holl kymry vrthaw. Ac yna y peris y brenhin y geisiaw. ac y foas yntev hyt ar Grufud vab Kynan o dybygu cael diang y eneit. Ac y doeth kennadev ygan y brenhin y erchi y Grufud vab Kynan dyvot y ymwelet ar brenhin. A hynny agiglev

Grufud vab Rys gyt a Hywel y vraut yr hwn a uassei yngkarchar Ernulf vab Rosser iarl Montgomeri. ac y rodassei Gwiliam vrenhin gynt ydaw ran o gyvoeth Rys. agwedy torri y alodev y ellwg ymeith aoruc. Ac y doeth yntev ar Grufud uab Kynan ac y bu lawen wrthaw. Agwedi dyuot Grufud vab Kynan y lys brenhin llawen unwyt wrthaw ac adaw llawer o da idaw yrperi Grufud vab Rys ydaw ay yn vew ayn varw. Ac yr ymedewys yntev ac wynt. A gwedy y dyvot adref ymovyn a oruc am Grufud vab Rys. Ac y cafas yntev yny gyghor kiliaw iadan y olwe yny wpypey pa chwedlev adelei ganthaw or llys. A gwedy amovyn amdanaw mor vrysahynny: anvon a oruc ar veirch ac ar draet yw geisiaw. nacha un yn doddi gvaed am gwelet marchogean mor vrys y dyuot. Nacha yntev obreid cael y drws a chyrchu eglwys aber daron a chael y nodua oc ev blaen. A gwedy klywet o Grufud vab Kynan y dianc yr eglwys. anvon a orye y wyr yw dynn or eglwys ymmeith: ac nys gadawd yr escyb a gwyr yr eglwys. A gwedy y adaw onadunt ef yno: fo aoruc hyt yn ys-trattywi. Ac yna ymgynnullaw llawer attaw a dechreu ryuelu ar y flemisheit ar freinc.

Pan oed oet crist. M.C.xiii. Grufud vab Rys a losgas castell kyverbyn ac arberth. Ac odeno y doeth hyt yn llan ym dyvri achyrchu castell Ricard vab Pynson y geisiaw y thorri ay llogsi. ac y gwrthnebawt y castellwyr gyt a Moredud vab Ryderch vab Caradauc a oed gwercheitwat ar y wlat honno adan Ricard yna. ac y llogat y llys ac y brathwyt llawer allad ereill heb caffel dym or castell. Odena ef a anvones y gedymeitheon y geisiaw castell Henri iarl yn aber tawy. ac y llogassant y llys allad rei or gwyr heb cael dym or castell. A gwedy klywet hynny llawer oweision ieneinc yuyt a doeth yn borth idaw ac anreithiaw yn ev hamgylch yn olofrud. Ac yna yd aeth y freinc yn ev kyghor a galw attadunt tywysogean ywlat. nyt amgen noc Oweyn vab Ryderch. a Ryderch vab Teudwr ay veibion Moredud ac Oweyn. ev mam wynt oed Hynyd verch Vledynt y mwiaf or kymry gwedy Grufud vab Llywelyn. canys wynt oedynt vrodyr vn vam o Agharat verch Voredud brenhyn kymre. Ac Oweyn vab Caradauc o Wenlliant verch Vledynt adywetpwyt vchot. a llawer or rei ereill. Agwedy ev dyuot y gyt: govyn or freinc udunt. a oedynt gywir wynt y Henri vrenhin lloegyr. ac y dywedassant ev bot. Ot ydywch heb yr

wynt: chwi bieu cadw castell caer vyrdyn yr brenhin. A llyna val y ketwir. Oweyn vab Caradauc ay keidiw pethewnos. a Ryderch ay veibion pethewnos arall: a Moredud vab Ryer ch vab Caradauc y trydyd pethewnos. A gorchymyn y Vledyn vab Kediur castell Robert Courtemayn yn aber comryn. Yn hynny anvon a oruc Grufud vab Rys disgwileit y gaer vyrdyn y edrych o gellit nev y thorri. Ac yn ar amser hwnnw yd oed Oweyn vab Caradauc yny gwarchadw. Ac y doeth Grufud ay niver a doddi gaur amben y gaer. Sef a oruc Oweyn bwrw neit achyrchv lle klywei yr awr ac ymlad yn wythyr odybygu bot y gymedeithion gyt ac ef: sef a orugant wy. y adaw ef a fo. ac yna y llas Oweyn. ac y llogat hyt y castell ac ny bu da ydieghis y castell hevty. Odeno y dychweillasant y ev gynottaedie lle gan yspeiliaw y koidyd. ac y syrthiawd attaw anvedred oweision ieuweinc ynvyt or wlat honno. ac y doethant y losgi castell hyt yngwhyr allad llawer owyr aod yndaw. Ac yd edewys William olundein y gastell rac ovyn Grufud. ar wlat ay holl ysgrbyl. dyeithyr y gwyr aedewis y wlat. Ac yno y kyflewnyt adyvat Selif. kyn y kwymp y dyrcheif yr yspryt. A gwedy gwelet or anosparthus bobyl o dyvet hynny: ymgveirav y Geredigion aorugant dwrwy ganhorthwy Kediur ap Gronow. a Hywel ap Idnerth. a Thrahayarn ap Ithael. y rei a oed gereint agos ydunt; ac am hynny oed well ganthunt pendeiviaeth Grufud no holl wyr keredigion. Ac or kynghor hwnnw yd hanuu wayth holl kymre. canys adaw dyuet awnaethant yn llawn o flemisheit. a freinc. a saesson. a llawer o amrauylion kenedloed a oed gyt a gwyr keredigion. ac yr hynny yd oed callonueiv gelynyaul vrth wyr keredigion am y galanassev awnaythessynt arnadunt gynt. ac ar ev kenedloyd. yr bot hagen Henri vrenhin lloigyr yn darystwg rei oe nerth. ereill ev dehol dros vored or kymmry. ereill o eur ac areant. ereill o rodeon amrauayleon hyt na wydeat neb ev rif eithyr duw ehvn. nyt argywedawd Grufud dim yr hynny. namyn kyrchu keredigion ysgoit aoruc ac ymlad diwyrnavt a lle kadarn a daroed y Gilbert vab Richard ar flemisheit y adeiliat lle gelwyt blaenporthgwydni. ac or ymlad hwnnw y llas llawer or rei aod y mewn: ac vn or rei allan. ac alogassant y ran mwyaf or dref ac y darystwgassant y kymmwt ydunt. ac y foas y saesson ac adaw ev hanreithiev ac ev tei yn diffeith: ac y doeth y kymry ac anreithaw y wlat

ay llosgi hyt yn penwedic. ac odena y goruuant ar gastell ystratpeythill a llad llawer yndav ay losgi. o wyr Rys gvas-naithwr. canys efo bioed y castell. Odyna y doythant hyt y Glasgruc lle messurwit castell milltir o lan badarn. ac yno fy gvnaethan an adasrwyd dwyn ysgrbyl or eglwis yn bwyllwr ydunt. Athrannoeth yd oed yn ev bryt mynet am benn castell aberystwyth yr hwn a losgessyt gynt a llad y castellwyr. A gwedy klywet o Rys hynny: anvon a oruc o hyt nos hyt yn ystrat meuric y gastell a adeiliasse Gilbert y arglvyd ef. y ervynneit nerth y ganthunt. ac y rodassant yr hynn gorev or a allasant. Trannoeth y doeth Grufud ap Rys. a Ryderch y ewythyr ay deu vab Maredud ac Oweyn ac ev llu yn dirool y gyrcu castell aber ystwyth. le yd oed Rys was-snaythwr ay nerth yn diarwibot ydunt. A gwedy ev dyuot hyt ar villtir ywrth y castell lle gelwit ystrat antarron y gymryt ev kyghor y vynet am ben y castell. canys ar ben mynyd yd oed y castell ac ar lan avon ystwyth a phont a oed ar yr avon. Agwedy gwelet or freinc trevlav y dyd ganthunt yn ymggyhor: anvon a orugant seithydeon hyt y bont y ev digiav ac y geisiav ev twyllav ydyvot y ymseithu ac wynt. A gwedy gvelet or kymmre hynny: kyrcu y bont aorugant yn dirool ac ymseithu ac wynt yn wychyr calet. ac yn yr ymseithu hynny: y llas march vn or castellwyr. ac yna kyrcu y bont aorugant heb kymryt kystlwn ganthwnt yn doethant y ben y brynn. A gwedy gwelet or freinc henne ellwng aorugant llu o varchogeon llurugauc ydunt y ev llad yn olofrud. A gwedy gwelet or gwyr ereill hynny: fo a orugant rei ac ev anreithv y wladoed ereill. ereill heb anreithv. Ac y foas Grufud ap Rys hyt yn ystrattywi. canys lle anneal oed hwnnw. A gwedy klywet or brenhyn hynny gvahavd Oweyn ap Cadogon aoruc attaw y ervynneit ydau ac y Lywarch ap Trahayarn mynet gyt ay vab a llu ganthunt am ben Grufud ab Rys. ac adav talu pwyth ydunt pan deleynt drachevyn. canys mwyafoed y ymdiret ydunt yll deu. ac y hadawsant wyntheu hynny. A gwedy kynullav ev lluoed ygyt wynt a doethant hyt yn ystrattywi: ac agytyghassant nat adaweint na gwr na gvreic na mab na merch heb lad ford y kerdynt. Agvedy klywet or wlat hynny fo a orugant rei yr coydyd. rei y wladoed ereill. rei y gestyll cyfnessa attadunt lle tybygynt kael amdifyn. Ac yno ydywet-pwyt y diayreb. y ki a lyf y gvayw y llader

ac ef. Agwedy ellwng y llu adan y coet. y doeth Oweyn ac ychydid o tylwith. XC. yr coet ac y cabsant olev dynyon ac ysgrybhl yn fo tu a chaer vyrdyn. ac ev hymlit a oruc ac ev daly yn agos ar y castell ac ev dwyn ar y getymeithion drachevyn. Ac val yd oed yn dyuot nyhaf Gerald wasnaythwr a llu or flemissieit yn dyuot y gaervyrdyn yn erbyn mab y brenhyn. nyhaf vn or foadureon adan weidi mavr: a menegi ry darvot y Oweyn ev daly ac ev hanreithav. a gwedy klywet or flemissieit ynvty hynny: coffau a orugant yr hen glwifev a wnathoed Oweyn ydunt gynt llosgi y gastell ay anreithaw adwyn y wreic y dreis a medyliaw am hynny a oruc Gerald arglwyd penvro ay lu a dyuot yn direbud am ben Oweyn ar anreith. a thybygu o Oweyn panyw yn borth ydau y dathoedynt. agwedy eu dyuot y gyt ymseithu a orugant oboptu: ac yno y brathwyt Oweyn yny syrthiawt. A gwedy kwyrhav Oweyn ychydic adienngys or a oed gyt ac ef. Agwedy klywet o Lywarch ap Trahayarn ay gedymeithion ry lad Oweyn: ymchwelut y ev gwlat a orugant o achos bot brodyr Oweyn yn kynnal y ran ef o powys dieithyr adugassei Oweyn y gan Moredud sef oed hynuy kereinion a ran Madoc ap Ririt ab Bledyn. Henwev y vrodyr oed: Madoc ap Cadwgon a gat o Wenlliant verch Grufud ap Kynan. Eynion ap Cadwgon a gat o Sanan verch Dyfnaval. Morgant a gat o Ello verch Kedivor ap Collwyn twyssavc dyvet. Henri a Grufud a gat oy wreic briawt merch y Picot de Sai twyssauc o freinc. Moredud a gat o Euron verch Hoydlyw ap Cadwgon ap Elystan. Oweyn a gat o Iwedyd verch Edwyn. Ac yn hynny kytydyhvnaw a oruc Eynon ap Cadwgon a Grufud ap Moredud ap Bledyn y vynet am ben castell Vchdryt ap Edwyn yr hwn a oed yng kymer yn meirionnyd. Canys Cadwgon ap Bledyn arodassey meirionnyd a chyueiliave y Vchdryt ay veibion yr bot yn borth ac yn ganorthwy y Cadwgon ay veibion yn erbyn gwrthwynebed or odelei arnadunt. Agwedy llad Oweyn heb achos. gorthwrwm oed gan y genedyl hynny: a dyuot am ben y castell ay losgi a fo o rei or castellwyr ac ereill adoeth y hedweh yr gwyr. Ac yna yr achubassant meirionnyd. kyveiliawe a phenllyn. ac a rannassant rynthunt. kyueiliauc a machdwy a hanner penllyn y Grufud ap Moredud. a meirionnyd y veibion Cadwgon.

Pan oed oet crist. mil. C.xiiii. o vlwynyded y doeth tervysc rwng Henri brenhyn



lloegyrr a brenhyn freing am normandi. canys yno yd oed y brenhyn yn trigav. yny wlydyn honno y bu varw Gilbert vab Richard o hir nyctawt.

Pan oed oet crist mil. C.xv. mlyned: y bu ryvel rwng Howel ab Ithel yr hwn a oed yn kynnal ros a rywynnave: a meibion Oweyn ap Edwin. Ririt a Llywarch ac ev brodyr. Ac yna anvon a oruc Howel ap Ithel yn ol Maredud ap Bledyn a meibion Cadwgon yn borth ydaw. canys wynt a oed yn kynnal y rannev hynny or wlat gan yawn. A gwedy menegy ydunt hynny: wynt a doethant ac ev tylwith amkan petwar cant o wyr da gyt ac wynt hyt yn dyffryn klwit canys ywlat honno oed eidunt meibion Oweyn ap Edwyn. A gwedy klywet onadunt bot Howel. a Moredud. a meibion Cadwgon yn dyuot: wynt a gynullasant ev nerthoed wyntev gyt a meibion Vchtryt ev keyvnderw a freyng o gaer lleon. Ac a doethant yn ev herbyn ac ymlad yn wychyr creulon oboptu a llad llawer: ac or diwed y foas meibion Oweyn ac adienghys or eidunt. Ac y llas Llywarch ap Trahayarn. a Iorwerth ap Nud oed wrda enrydedus a llawer gyt a hynny. Ac ereill avrathwyt ac uuant veiriw or brathev. Howel ap Ithel a vrathwyt ac aducpwyt adref ac ympenn y deugeint diev ybu varw. Moredud a meibion Cadwgon a ymchwilyssant adref heb lyvassel trigav yny wlat rac ovyn y freinc.

Pan oed oyt crist mil. c.xvi. o vlynydded y bu varw Murcherdach brenhyn iwerdon.

Pan oed oyt crist mil. c.xvii. y tagnavedwyt rwng brenhyn lloegyrr: a brenhyn freinc. A gwedy ev tagnavedu yd erchys brenhyn lloegyrr parattoi y longhev y dyvot y logyrr. ac wynt abarattoet ac adewisswit y gorev o nadunt y dwyn deu vab a merch yr brenhyn drwod gyt a deu cant or rei gorev eithyr y brenhin ehyn owyr a gwraged. A dechrev nos hwyllav a orugant yny doethant hyt ynghevyn gweilgi: ac y doeth tympestel arnadunt ac ev hodi heb diang yr vn onadunt. Ar brenhin oed mewn llong arall heb vynet ywrth y tir hayach. ac adienghys yr tir drachevyn. Agwedy klywet ohonav ry vodi y veibion nyctawt adoc yndaw: yny uu abreid ydaw diang ay eneit.

Pan oed oyt crist mil. c.xviii. mlyned y priodas Henri vrenhyn merch yr duc or Almaen. kyn no hynny ybuassei merch Moelculum yn orderch ydaw ac y buassei varw. Ar haf hwnnw y duc ef llw mawr yn erbyn Moredud ap Bledyn a meibion

Cadwgon. Einion. Madoc. a Morgant. ac anvon onadunt wyntev ar Grufud ap Kynan arglwid mon y ervynneit ydaw dyvot yamdiffin ev tervynev rac y brenhin. Ac yntev a wnaeth hedwch adan llav ar brenhin ac adaw ev diva wynt o deleynt yw gynoeth ef. A gwedy klywet onadunt vot y brenhin yn dyvot auvon gveision ieweinc y ymseithu ac wynt allad llawer onadunt a brathu ereill. amedrut y brenhin a saeth a rac daet yr arvev nyt argywedawt arnaw. Ac yna anvon yn ol Moredud a meibion Cadwgon a dyuot ar gret y ymwelet ac ef. ac yna y gwnaethant hedwch ac ef yr. x mil o warthech. Ac yna y dychwelawd y brenhin y loegyrr.

Pan oed oet crist. m. c.xix. hedwch uu y vlywdyn honno. Pan oed oet crist. m. c.xx. y llas Grufud ap Eulhayarn y gan Grufud ap Rys. Pan oed oet crist. m. c.xxi. y bu varw Eynion ap Cadogon. ac y gorchymynnws y Voredud y vraut y ran obowis a meirionnyd yr hwn adugassei y gan Vchdryt. ac y doeth Moredud ap Bledyn y gevynderw. ac Ithel ap Ririt ap Bledyn a ellyngghessit o garchar Henri vrenhyn. adwyn yr Moredud ap Cadogon y randiroed a orchymynnws y vraut ydaw. Agwedy klywet o Grufud ap Kynan ry wrthlad Moredud ap Cadwgon y gevynderw anvon a oruc y deu vab Cadwallawn ac Oweyn allu gantant ac goresgynassant meirionnyd hyt yn llyn.

Pan oed oet crist. m. c.xxii. y lladawt Moredud ap Bledyn Ithel ap Ririt ap Bledyn y gevynderw. ychydic gwedy hynny y lladawt Cadwallawn ap Grufud ap Kynan y tri ewythyrr. Gronw. Ririt. a Meilir. meibion Oweyn ap Edwyn. Canys Angharat e' Owein oed wreic y Grufud ap Kynan a mam y Gatwallawn. Owein. a Chatwaladyr. a llawer o verchet. Yny vlywdyn honno y lladawt Morgant ap Cadogon Moredud y vraut o dwyll.

Pan oed oet crist. m. c.xxiii. y doeth y rei auuassei yn keisiav normandi gynt. a dwyn peth o normandi o vedyant Henri vrenhyn. Pan oyd oet crist. m. c.xxiiii. y kyhudawt y freinc Grufud ap Rys vrth y brenhin. ac yducpwyt y tir aroassei y y brenhin ydaw kyn no hynny iarnaw. Ac yn diwed y vlywdyn ybu varw Daniel vab Sulien escop mynyw y gwr gorev or kymre ac yn archdiagon athagnauedwr gwyned a phowis.

Pan oyd oet crist. m. c.xxv. you varw Grufud ap Moredud ap Bledyn. Ac y delhis Llywelyn ap Owein: Moredud ay doddi yu llaw Payn vab Ihon y gadw

Yngastell brugge. Yn diwed y vlwydyn ydaeth Morgant ap Cadogon y Gaerusalem am lad o honaw y vrawt. agwedy y dyvot drachevyn hyt yn cyprys y bu varw.

Pan oyd oet crist. m. c.xxvi. y lladawt Moredud ap Llywarch y gevynderw gan vab Meuric. A deu gevynderw gan meibion Grifri a dynnawt ev llygeit. A Ieuaf ap Oweyn a dallawt y dev vroder ac ay deholas or wlat ac y llas wynt. Pan oyd oet crist. m. c.xxvii. y llas Iorwerth ap Llywarch ygan Llywelyn ap Oweyn ym powys. Ac yn lleigys gwedy hynny y tynnwit llygeit y Llywelyn hwnnw ac y dispadwyt y gan Moredud ap Bledyn. ac y llas Iuaf ap Oweyn ygan y gevynderw. a Llywarch alas a Madoc y vab. y gan Meuric y gevynderw. Pan oyd oet crist. m. c.cxxviii. y tynnwyt llygeit Meuric ay geillef. Pan oyd oet crist. m. c.cxxix. y llas Iorwerth ap Oweyn. ac y llas Cadwallavn ap Grufud y gan y gevynderw Cadwgon ap Gronw. ac Einion ap Oweyn yn nanhevdwy. ac ybu varw Moredud ap Bledyn amdiffynnwr gwyr powys. Pan oyd oet crist. m. c.cxxx. nyt oed dym adyckit ar gof. nar dwy vlyned nessaf gwedy hynny.

Pan oyd oet crist. m. c.cxxxiii. y bu varw Robert Courteheyse oyd ylyshenw yn gaerloiw mab William bastart ac yn iarll y normanniet ac y clathpwit yn gaerdyv. Pan oyd oet crist. m. c.cxxxiiii. ybu varw Henri vrenhyn Lloegyr. iii. d. noueb'. yn normandi ac y clathpwynt yn Redinges.

Ac ydoeth Stevyn uab iarll bloys a nei yr brenhyn oed hwnnw a darystyngaut dehev lloegyr yn wravl. Pan oyd oet crist. m. c.cxxxv. y llas Richart a Gilbert y vab ygan Morgant ap Oweyn. Gwedy hynny y duc Oweyn a Chatwaladyr tywyssogon kymre ev llu hyt yngkeredigion. ac alogassant castell Wallt' de Bec. achastell aberystwyth. gyt a Howel ap Moredud. a Madoc ap Iorwerth. ac alogassant castell Richart delamar. a chastell dineyrth. a chaerwedros ac odyno dychwelut adref yn hyvryt lawen. Ac yn diwed y vlwydyn y doethant hyt yn kardigan ac amkan y chwe mil o bedyt kant. a dwy vil o wyr meirch arvauc. gyt a nerth Grufud ap Rys. a Howel ap Moredud o vrechinauw. a Madoc ap Ior. a deu vab Howel adugant ev lluoed hyt yn aberteiui. Ac yn ev herbyn wyntev y doeth Stevyn konstabyl y dref a Robert vab Martyn. a meibion Gerald. a William vab. ... a holl flandrysieit a normanniet ac ev marchogon hyt yn aber dyvi ac ymlad yn wychyr kalet.

ac yn dissyvyt y foas y flandryswyr. ac y llas llawer onadunt: ereill a losgat. ereill a las traet ev meirch ac adalpwyt: ereill a vodas. ereill a dychwelassant yn glaf adref. Agwedy gorut arnadunt y doeth Owein a Chatwaladyr adref ac aneirf o garcharoreon ac anreithiev a llurugev ac arvev a gwisgoed mawrweirhawc gantunt y hyvryt lawen.

Pan oyd crist. m. c.cxxxvi y bu varw Grufud ap Rys arglwid deheubarth. A Grufud ap Kynan tywyssauc gwyned gwedy llawer o weithredoed da. Yn y vlwydyn honno y doeth meibion Grufud eilweith y keredigion ac y llogassant castell ystratmevric. a chastell ystevyn. a chastell sire Humfray a chaervyrdyn.

Anno. m. c.cxxxvii. Ac yna y doeth yr amherodres y darystwg lloigyr y Henri mab hi or amherawdyr. canys merch oed hi y Henri vrenhin kyntaf vab Willam bastart. Ac yny vlwydyn honno y bu diffie ar yr heul. xii. kl'. o ebrill:

Pan oyd oet crist. m. c.cxxxviii. y llas Kynwric ap Owein y gan wyr Madoc ap Moredud. Ac ybu varw Wallter vab Richart y gwr a seilawd gyntaf manachloc tyndyrn. Pan oyd oet crist. m. c.cxxxix. y bu varw Madoc ap Idnerth. ac y llas Moredud ap Howel y gan meibion Bledyn ap Gwynn. Pan oyd oet crist. m.c.xl. y llas Howel ap Moredud ap Ryderch or cantref bychan drwy dwyll. Ac y llas Rys ap Howel. Pan oyd oet crist. m.c.xli. y llas Howel ap Moredud ap Bledyn. ygan yr eidaw ehvn. yn ymryson hagen yllas Howel a Chadogon. meibion Madoc ap Idnerth.

Pan oyd oet crist. m.c.xlii. y delihis Robert iarll caerlogw Stephyn vrenhin yn lincol. iii. kl'. ap'l. Ac y llas Annaravt vab Grufud gobeith achedernyt deheubarth y gan wyr Catwaladyr. A gorthrwm oed gan Owein y vrawt hynny canys merch Catwaladyr arodesit ydaw. ac yr hynny Howel ac Owein a dugant ran Catwaladyr o karedigion ay gastell yn aberystwyth alogas. ac y doeth Miles iarll henford megys karw ay varchogion gyt ac ef. ac y llas o ergyt saeth. A gwedy alltudav Catwaladyr oe gyuoeth ef adoeth a llynghes ganthaw y aber menei or gwydyl Occer vab Occer a mab Turkyll. a mab Cherulf. Ac yno y kymodat rwg Oweyn a Chatwaladyr. A drwe oed gan y Gwydyl hynny canys oed amot ydunt dwy vil o vorkev yr dyvot gyt ac ef. A gwedy nas gavssant: wynt adalyassant llawer ac a dugassant gantunt yn attauel ev da.

Agwedy klywet o Oweyn hynny. ymlad ac wynt a oruc allad llawer a daly ereill. Ac ereill a diengys yn waradwydus hyt yn dilyn. Yn y vlwydyn honno yd aeth pererinion o gymre tu a chaerussalem ac y bodassant yn y mor. Ac yr atkyweirawt Hugyn vab Randwlf castell kymarona a maelenyd. a chastell colunwy. Ac eluayl agavas y freinc ac ay darystwngassant hi. Ac y bu varw Innocent bab. ii. kl. apl. Anno. iiii<sup>o</sup>. y delihis sir Hywe Mortymeir Rys ap Howel ac y llas rei oy wyr. ac ereill adalywyt. Ac y diffeithwyt aber-teiui ygan Howel ap Owein. a Chynan y vraut. ac y goresgynnassant castell caer vyrdyn. ac edeiliat castell mab Vchtryt. Anno. v<sup>o</sup>. y bu varw Sullien vab Richemart mab maeth eglwys llan padarn. ar kyv-iawnaf or kymre. x. kl. octob. Ac y llas Meuric ap Madoc ap Ririt. a Moredud ap Madoc ap Idnerth. y gan Hyw Mortimer. Yny vlwydyn honno y cavas Cadell vab Grufud castell dinwyleyr yr hwn a adeil-awd Gilbert iarll. A chastell caer vyrdyn drwy Howel ap Oweyn ar gwyr a oed yngarchar gyt ac ef. Ac odynd y doeth Cadell ay vrodyr Moredud a Rys y gastell llan ystiphan ac ymlad yn gadarn ac wynt a llad llawer oc ev gelyneon a brathu ereill. Yn lleigys gwedy hynny y freinc ar flandyssieit ac ev tywyssogean meibion Gerald. a William or hay adoethant yn dissyvyt y ymlad arvn castell hwnnw. Aphan welas Moredud ap Grufud hynny a oed wercheitwat ar y castell kyt bei mab o cetran anoc y wyr y ymlad yn wrawl aoruc. Agwedy gwelet or freinc nat oed namyn nyver bychan nny castell: bwrw ysgolygon amgylch y gaer aorugant. aphan oedynt yn agos ar bylchev: y byrywt wynt yr klawd. ac y llas ereill val ydoed ev tyghetvener. ac ereill ev kymhell ar fo. Yn diwed y vlwydyn y bu varw Run ap Owein gorev gwr y darper or kymre a theckaf. Ac y cat castell yr wydgruc ac y torrat yn yssic. ac y llas llawer or castellwyr ac ereill adalpwyt vn garcharoreon. Agwedy menegi i Owein hynny hof oed gantaw achyvodi llywenyd yndaw ac ymadaw ay holl dolur ay dristwech am y vab. Anno. vi<sup>o</sup>. yd aeth Lewys brenhin freinc ac amherawdyr yr almaen. a ieirll a baroniet. lluosogirwyd y Garusalem. Yny vlwydyn yd aeth Cadell ap Grufud ay vrodyr Moredud a Rys am ben castell y wis. ac anvon yn ol Howel ap Owein yn borth ydunt. Agwedy klywet o Willam vab Geralt ay vrodyr hynny. anvon y wahawd Howel a orugant o barthret y

brenhin ac adaw llawer o da idav yr dyvot yn borth ydunt. ac yntev adoeth ac a ym-diffynnawt y castell oy nerth ef. Ni bu bell gwedy hynny nny tyvawt tervysc rwg meibion Owein Howel a Chynan. a Chad-waladyr eu bewithyr braut ev tat. Odena y doeth Howel a Chynan hyt yn meirion-nyd y darystwg y wlat ydunt. ac y gastell kynvayl a adeiliassey Catwaladyr. ac a oed yngeidwadayth Morvran abbat y ty gwyn. Ac ymlad ar castell allad rei abrathu ereill. a dianc ereill yn vew o getmeithas. Yn y vlwydyn honno y bu varw Robert iarll y gwr auu yn kynnal ryvel yn erbyn Stephyen vrenhin. xii. mlyned. Anno. vii. y bu varw Vchdryt escob llandaf gwr da santeid. ac y rodaf nny le Nichol vab Gourgant yn escob. ac y bu varw Bernard escob mynyw gwr da santeid ac y bu escob. xxxiii. Ac nny le yntev y doeth David ap Gerald archdiagon keredigion. Ac y bu varw Robert escob Henford gwr dakredyfus a da wrth tlodeon. Ac nny le yntev y kyssegrwyt Gilbert abaf caer loyw. ac nny vlwydyn honno y bu maruolaeth mawr yngymre. Anno. viii. y gwnaeth Owein ap Grufud ap Kynan brenhin gwyned castell yn Ial. ac y gwnaeth Cat-waladyr ap Grufud castell llanrystut ac a rodes y ran o keredigion y Cadwgn y vab. Yn diwed y vlwydyn yd adeilawd Madoc ap Moredud castell Croesoswallt. Ac a rodes yw neynt. Owein. a Meuric meibion Grufud y ran o kyveilyaue. Anno. ix<sup>o</sup>. Cadell ap Grufud a atkyweiriawt ketweli. Yny vlwydyn honno y delhiis Owein brenhin Gwyned Kynan y vab. Ac y delhiis Howel ap Owein Cat-waladyr y kevynderw ac adu y gyvoeth ay gastell iarnaw. Ac y doeth Cadell a Moredud a Rys meibion Grufud ac ev lluoed y keredigion hyt yn Ayrn. Ac y daeth Madoc vab Moredud brenhin Powys yn nerth y Randwlf iarll Caer. yn erbyn Owein Gwyned. Ac y llas llawer oc ev gwyr yn konsyllt. agyrru ereill ar fo. Anno. dom. M.C<sup>o</sup>. I. Cadell. Moredud a Rys meibion Grufud aganattassant keredigion y Howel ap Owein dieithyr castell pengwern. castell llan rystut a gavas o hir ymlad ac alas y castellwyr oll. Ac yr atkyweiriawt Cadell ay vrodyr castell ystmeuric. Ac val yd oed Cadell yn mynychu hely bevnyd y doeth gwyr Dynbych ay guraw yn yssic ay adaw yn lle marw. Ychydig gwedy hynny y cavas Moredud ap Grufud a Rys y vraut Gohyr ac alosgassant castell aberlychwr. ac a adeiliasant castell dinwyleyr. Ac id

adeiliaud Howel ap Owein castell vab Gumffrei yn dyffryn calettwyur. Anno .i. Owein ap Grufud a yspeiliaud Cunedu y nei. a Chatwallawn y vraut oy lygeit ay geilliey rac bot etived ydunt. A Madoc ap Moredud a ladawt y Stephen vab Baldwyn. Ac yr alltudwit Catwaladyr o von ygan Owein y vraut. Ac y bu varw Symeon archdiagon kelynnawc gwr da enrydedus. Anno. ii<sup>o</sup>. y cavas Moredud ap Grufud a Rys y vraut castell peuwedic. a chastell dynbych o vrat nos yr hwn arod-essyt y gadw y Willam vab Gerald. A chastell aber avyn agafasant allad llawer allosgi adyvot ac anreith dirvaur adref. Ac y doeth Rys ap Grufud a marchochu mawr ganthaw ac a diffeithawt castell ystrat kyngen. Ac odyne y diffeithawt yr eil weith kyveiliawc. Yny vlwydyn honn y bu varw Daudi brenhin ysgottieit. ac y doeth Henri tywyssauc y dir lloygyr. Ac y bu varw Randwlf iarll caer lleon. ac ydaeth Cadell ap Grufud y perindawt ac y rodes mediant yv vrodyr Moredud a Rys yny deley drachevyn. Anno. iii. y bu varw Stephvyn brenhin lloygyr y gwr ay kynheliis drwy enwired ac nyt trwy ethol-ediaeth. ac yny ol yntev ydoeth eilweith Henri mab Geffrei plawntegenet iarll peytw a gat o amherodres rweyn a oed verch y Henri brenhin vab Willam bastart. ac a gymyrth Elianor brenhines freinc attaw ac a gynheliis y dymnas yn gadarn. Yny vlwydyn honno y bu varw. Grufud ap Gwynn. Anno. iiiii. y bu varw Moredud ap Grufud ap Rys o keredigion ac ystrattywi a dyvet. ac y bu varw Geffrei escob llandaf. ac y bu varw Roger iarll henford. Anno v<sup>o</sup>. y kiglev Rys ap Grufud bot Owein Gwyned y ewithyr yn dyvot allu maur ganthaw y keredigion. ac ydoeth yntev yny erbyn hyt yn aber dyvi y ymlad ac ef. ac y gwnaeth yno fos a chastell. Yny vlwydyn honno y gwnaeth Madoc ap Moredud tywysauc powys castell yngereinawn kyverbyn kymher. ac y diengys Meuric nei Madoc o garchar. Ac y kyssegrwit eglwys veir yn meivot. Ac y bu varw Terdelach brenhin Connach. Anno. vi<sup>o</sup>. yduc Henri vrenhin y lu hyt yn morva kaer lleon ac yno gossot y bebyllev. ac yn y erbyn yntev ydoeth Owein Gwyned ay lu hyt yn dinas bassig. ac yno mesurav lle castell a dyrchavel klodiev mawr. a gwedy klywet or brenhin dynny anvon tywysogyon ierll a barwnieit a llu mawr gantunt hyt yno. Ac yn ev herbyn y doeth Daudi ap Owein ac ev hmylit hyt yn traeth caer gan ev llad yn

olouurud. A gwedy gwelet or brenhin hynny kynnullav y lu ygyt a oruc a mynet ar hyt y traeth hyt yn rudelan. ac ydaeth Owein y tal llwyn pennant y vessurav castell. ac odyne gweithur codiant yr brenhin ay wyr. ac odyne ydaeth Madoc tywyssauc powys a thalm o lu y brenhin gyt ac ef ar longhev hyt yn aber menei. ac yno cyrchu mon ac yspeiliau eglwys veir. ac eglwys pedyr. A hynny a dangossas duw ydunt. trannoeth y doeth ieigtyt mon y ymlad ac wynt. ac y foas y freinc ac y llas llawer onadunt. ac ereill a vodas. ac ychydic obreid adienghis yr lloghev. ac yna llas Henri vab y Henri vrenhin a thywyssogyon y llonghev oll. ac yna yr hedychwt rwng y brenhin ac Owein. Ac y cavas Catwaladyr y dir. ac ydaeth y brenhin y loegy. ac y cavas Ior. Goch ap Moredud castell Ial ac ay lloggas. Anno. vii<sup>o</sup>. y llas Morgant ab Owein o dwyll y gan wyr Iuor ap Meuric. ac y kymyrth Ior. y vraut caerllion a holl tir Owein yn eidaw ehvn. ac y kynheliis Rys ap Grufud ryvel a brenhin lloygyr gwedy hedychu holl tywysogyon kymmyr ac ef. ac a berys y holl deheubarth mvdaw hyt yn diffeith- wch tywy. Agwedy klywet or brenhin hynny. anvon kennadev attaw y erchi ydaw dyvot yv lvs kyn dygyvor kymre a lloygyr a freinc am y ben. ac yny gynghor y cavas kyrchu y llys a hedychu ar brenhin a oruc. Ac yna y rodes y brenhin ydaw y cantref mawr achantrefod ereill ymplith kyuoeth- ev barwnieit ereill. rac torri ac ef rac llaw. Ac y kymyrth Rys hynny ay gynnal yn hedwch canys o dwyll y gwnaethpwyt ac ef hynny. Yn hynny y doeth Rog' iarll Clar oed wr kadarn a chwannave y gyuoethev yn gymre. ac ervynneit yr brenhin caffel goresgyn ar y kymmre. ac y cavas. Ac y doeth y keredigion a hedychu a Rys. a gwedy hynny ef a doeth hyt yn ystrat meuric ac ystoriaw y castell. a chastell hwnfrev ar dyvi. achastell din- wrth. a chastell llan rystud. a oyd eidaw Wallt' Cliford. achastell llan ymdyvri. ac a berys kyrchu anraith o gyvoeth Rys. Ac y perys Rys menegi hynny yr brenhin. ac id erchis y brenhin gweith' iawn y Rys ac nys gwnay. Agwedy gwelet o Rys nachaffei dym: ef a oresgynnavt holl kestyl keredigion or a gadarnhaassey ierll abarwnyeit yno. ac ay hanreithiawt. Agwedy klywet or brenhin hynny. ydoeth yr eilweith y deheubarth kymre a chymryt gwystlon ygan Rys ap Grufud adychwelut y loegy. ac yn lle ydaeth drwy vor. Anno. viii<sup>o</sup>. y goresgynnws Rys holl gestyll

dyvet or awnaethassey y freinc ac ay llogas. ac adoeth amben kaervyrdu. Agwedy klywet o Reinallt vab Henri vrenhin hynny kynnullaw a oruc attaw y freing a sayson ar flandryswyr ar kymre ydyuot amben Rys. Ac yna ykiliawd Rys ay wyr ar eidunt hyt yn mynyd kynen rychtir mein. Agwedy dyuot Reinallt ay iarll brustev a iarll clar a deu iarll ereill a Chatwaladyr ap Grufud. a Howel. a Chynan. meibion Owein a lluoed mavr ganthunt hyt yn Dynwylleir. a messuraw castell yno. A gwedy na chafsant dim ywrth Rys yd aythant adref yn llaw wac. Agwedy klywet o Rys hynny: ellwng a oruc yntev ywyr adref. Anno. ix°. y bu varw Madoc ap Moredud tywyssave powys. ac y clathbwyt y eglwys tysiliav yn meivot. Ac yn lleigys gwedy hynny y llas Llywelyn y vab yn hwn yd oed gobeith holl powys. Ac y dalpwyt Cadwallawn ap Madoc ap Idnerth ygan Einaun Clut y vraut. ac y rodes yntev yngharchar Owein ap Grufud. ac y rodes yntev ef yr freinc. ac y dienghis yntev ohyt nos ogyghor ywyr ay vrodyr maeth. Anno. M°.c°.lx. gwedy marw Adrian y barnwit y goruodedigaeth o freinc a lloegyr y Alexander ac y dyrchafwyt yn bap. Anno. i°. y bu varw Agharat wreic Grufud. Ac y bu varw Meuric escob bangor. ac y cavas Howel ap Ieuaf castell walwern yngkyueiliauc drwy dwyll. ac am hynny y kymyrth Owein ap Grufud tristwch yndaw am varw y vam. {hyt na allei dim y digrifhau. Agwedy mynet hynny heibiau y doeth Owein ay lu hyt yn llandyunan yn Arwystli a chynullav anreith dirvaur. ac y doeth gwyr arwistli gyt ev harglwyd Howel ap Ieuaf ac ymlit yr anreith hyt yngordwr hafren. ac yna ymchwelud o Owein attadunt ac ev mylit ac ev llad obreid y dienghis ev traen yn vew. Ac yna y doeth gogonyant mewn Owein ac yr atkyweiriawt y gastell drachevyn. Anno. ii°. y kessegrwyd Thomas Chaunseler cil Henri vrenhin yn archesgob ygeint. Ac y torrat castell Carregova y gan Owein ap Grufud ac Owein ap Madoc. a Moredud a Howel. Ac ydaeth Henri vrenhin allu dirvaur ganthaw y deheubarth kymre hyt ympencadeir. ac a gymyrth gwistlon gan Rys ap Grufud ac a dychwelavd y loegyr drachevyn. Yny vlwydyn honno y llas Eynon ap Anaraut ygan wr idaw ehvn Wallt' ap Llywarch yny gwysc. Ac y llas Cadwgon ap Moredud y gan Wallt' vab Richard. Ac y kymyrth Rys ap Grufud y cantref mavr ar tir yn dinefwr yn eidaw ehvn. Ac y

bu varw Kedivor vab Daniel archdiagen keredigion. Ac y bu varw Henri vab Arthen yr ysgolheic gorev or kymre or a oed yn un oes ac ef. Anno. iii°. y gwelas Rys ap Grufud nat yttoed y brenhin yn kwpplau y edewyt. ac na allei bychedockau val ydoed. rac tlodi. ef a gymyrth tir Rog' iarll clar a hynny o annoc Eynio' y nei ac a oed tywyssanc llu idaw ac alas. Ac a oresgynavt holl keredigiavn yr eilweith. ac a losgas castell ab' reidaul a chastell mabwynnyaun. ac a anreithaut y flandryswyr yn vynyth gan ev llad ac ev llogsi. Ac yn lle gwedy hynny y kytdydhunavt y kymre. a gwrthot kethiwet y freinc iarnadunt. Anno. iii°. y diffeithawd Dauid ap Owein tegeyl ac aduc y gwyr ac ev holl allu gyt ac ef y dyffryn klwit. Agwedy klywet or brenhin hynny ef adoeth yno a mynnassu gwneithur castell yno. ac y gymmyrth gwystlon ac ydaeth hyt yn rudelan. ac yno y bu tri diev yn messurav castell ac a dychwelawt y loegyr. Ac eilweith y doeth a dethol ymlad wyr o loegyr. a normandi. aflandrys. ac angiw. a gasgwyn. a phrydyn. hyt yn croes Oswallt. Ac yny erbyn yntev y doeth Owein a Chatwaladyr meibion Grufud ap Cynan a llu gwyned. a Rys ap Grufud o deheubarth. ac Owein kyueiliauc. a Iorwerth coch. a meibion Madoc ap Moredud a holl powys. a deu vab Madoc ap Idnerth ac eu holl lluoed hyt yn Edeirnon. Ac yno messurav castell yn Corvayn. Agwedy klywet or brenhin hynny. dic uu ganthaw. a dyuot ay lu amben coet aber keiriauc ay lad hyt y llawr. Ac y doeth ychydic or kymre heb wybot yw tywyssogyon ac ymlad yn wraul allad llawer or rei gorev oboptu. Ac odena yduc y brenhin y lu hyt yn mynyd berwyn. ac yna pebyllu adyuot glaw arnadunt yny uu veiriw llawer onadunt rei o annwyt ereill o newyn. Ac yno y cavas yny gyghor dychwelut y loegyr. apheri dallu y gwystlon a oed ygkarchar ganthaw y kynt. nyt amgen. deu vab Owein vrenhin. Catwallawn. a Kynwrica Moredud. meibion Rys. a llawer or rei ereill. o lit wrth y kymre. Eilweith y cavas yny gyghor dyvot hyt yngkaer lleon ac yno kyweiriav y castell yny delei llynghes o Dulyn. ac o Iwerdon attaw. Ac ny bu digau ganthaw hynny namyn arvon drachevyn y gyrchu niver avei uuy. ac ydaeth yntev y loegyr drachevyn. Yny vlwydyn honno y cavas Rys ap Grufud Aberteivi ac a losges y castell ac ay drylliaut ac a duc anreith diruawr odyno. ac a achubaud castell kilgarran ac adelhiis

Robt vab Stephvyn ac a dodes yngharchar. Yny vlwydyn honno ydaeth govent gyntaf ystrat flur. ac y bu varw Llywelyn ap Owein. Anno. v<sup>o</sup>. ydoeth y freinc o benvro ar flandrysyr y ymlad a chastell kylgerran ac y llas llawer onadunt adychwelut adref yn llaw wac. Ar eil weith ydoethant ac ny dygrynhoas dim ydunt. Yny vlwydyn honno y distrywiavt Owein ab Grufud dinasbassig. ac yd alltudwit Diermid vab Mwrchad oy vrenhinyaeth. ac y doeth yntev hyt yn normandi y gwynav vrth brenhin lloegyr ac y ervynneit idaw y gyvansodi nny gyuoeth drachevyn. Yny vlwydyn honno yd alltudwit Ior' coch oy dir yn mochnant y gan y deu Owein. ac a rannassant rygthunt. Mochnant ewch rayadyr y Owein kyueiliauc. ac is rayadyr y Owein vachan. Anno. vi<sup>o</sup>. y doeth Owein a Chatwaladyr meibion Grufud owyned. a Rys ap Grufud odeheubarth a gyrru fo ar Owein kyueiliauc adwyn kereinavn yrnay. ay gorchymyn y Owein ap Madoc o walwern. Ni bu bell gwedy hynny nny doeth Owein kyueiliauc allu oy freinc ganthav ac a dorassant castell kereinavn ac ay llogassant. allad yr holl castellwyr. Yn diwed y vlwydyn honno y doeth Owein a Chatwaladyr tywysogion gwyned a Rys ap Grufud o deheubarth hyt yn rudelan. ac yno ybuanant tri mis yn adeliat castell gvedy torri y castell y gafsant yno ay llogsi achastell prestattvn ac ymchwelut adref y ev gwlat yn hyrvyt lawen. Anno. vii<sup>o</sup>. ydoeth Fredric amheraudyr ruvein a llu mavr ganthav hyt yn ruvein athorri eglwys pedyr agwneithur afrool mavr. ac y dielys yr holl kyuoethauc llad y lu yntev kynmwiaf. Ac y llas nei y Wrgenev abat y gaa Kynan ap Owein. Anno. viii<sup>o</sup>. ydill-yghwyt Robt ap Stephyn o garchar Rys. Ac y doeth Diermyt vab Mwrchath a marchauc lu mavr ganthav hyt yn Iwerdon ac y llochgarmon y doeth y dir ac ay gorgesynnnavt. ac nny vlwydyn honno y bu varw Robt iarll leicester. Anno. ix<sup>o</sup>. y llas Meuric ap Adam o buellt ygan Moredud pengoch y gevynderw o dwyll nny gvsc. Ac y bu varw Owein ap Grufud ap Kynan tywysauc gwyned gvedy llawer o goruodedigaetheu. Anno. dom. M<sup>o</sup>.c<sup>o</sup>.lxx<sup>o</sup>. y lladaut Daid ap Owein Howel y vraut yr hynaf. Anno. i<sup>o</sup>. y pymphet dyd gvedyr nodolic y llas Thomas archescob keint nny escopwisc wrth allor ydrindaud nny eglwys ehvn yngkeint achledyfeu ygan Richard Bryton' a Hugus normyrvilc. a William Tran. a Reinallt vab yr arth. o annoc

Henri vrenhin lloegyr. am na adei idav trethu yr eglwiscv yn erbyn gvahard y tryded Alexander pab. A yna ygvorsev hyn. Ann' millen' centen' septuagen'. Prim' erat p'ma' corrui ense Thomas. Yny vlwydyn honno y daeth Ric' vab Gilbt Stragbow iarll amhwydic Iwerdon ac a gymyrth merch Diermit vrenhin yn wreic briaud idav. ac awnaeth ladva vaur yn dulyn. Ac yn lleigys y bu varw Diermyt ac y glathpwit ef yn ferna. Ac y bu farw Robt ap Llywarch. ac y bu tervysc rwg brenhin freinc abrenhin lloegyr am lad Thos archescob. canys rodassei meichev y vrenhin freinc na chwyvit wrthaw. nyt amgen no Henri duc borgwyn a Theobaldu' y vraut. Agwedy klywet o Alexand pab anvon at brenhin freinc ar meichev. a gorchymyn ydunt kymhell brenhin lloegyr hyt yn ruvein ywneithur iawn am ry lad yr archescob. Ac anvon o brenhin lloegyr hyt yn ruvein y esgussodi drostaw na allei dyvot yna. Yn hynny ydoeth Rys ab Grufud idaristwng Owein kyveiliauc y dav gan y verch ac agymyrth seith or gwistlon ganthav. Yn hynny ydoed ar y brenhin ofyn ysgymunoliaeth o ruvein. Ac yd oed nny vryt vynet ydarystwng Iwerdon. Ac y doeth pavb oy dywysogyon attav o loygyr achymre. Ac y doeth Rys y ymhedychu ar brenhin ac yaeth nny ewylls o trychan meirch. a. iii<sup>o</sup>. mil o ychen a. xiiii. o wystlon ar hynny. Odyno yd aeth y Gaerllion ar wysc ac aduc ydinas yar Ior. ab Owein ap Caradoc ap Grufud. Am hynny yd aeth Ior. ay deu vab Owein a Hywel. ev mam oed Angharat verch Vchrit escob llandav. a Morgant ap Seisyll ap Dyfnawal o Dudgu verch Owein chwaer yr dywededic Ior. o llawer gyt ac wynt a anreithiassant ywlat ac a distriw-assant ydref hyt y castell. Ac y doeth y brenhin a llu maur ganthav y benvro. ac yno ef arodes y Rys keredigion. ac ystrat-twy. ac arwistli. ac alvael. 'Ar haf hwnnw Rys a atkyweiriavt castell abteivi yr hwn adristiwasse gynt. pan delhiis Robt. vab Stephyn o Nest verch Rys ap Teudwr. Ac ef aberis kynnullav y meirch a edevssyt yr brenhin ac adoeth y ymwelet ar brenhin hyt ym penvro. ac odeno yd aeth y brenhin hyt yn mynyw y perindot ac arodas yn offirwg deu cantelcop o bali a dyrneit o aryant amgilch chweigeint. ac y gvahodes yr escob ef. ac y kymyrth gvahaud ac yehydic o niver ygyt ac ef. Ac yna y doeth Richard iarll oywerdon y ymgetmeithiaw ar brenhin: canys oy anuod y daeth y Iwerdon. Agwedi bwit duw

gwyl vihangel ar law mawr y doeth hyt yn penvro. Ac yno y doeth Rys a chwe meirch a phetwar ygein meirch. Ac o hynny ny chymyrth y brenhin namyn vn arbymthech arugeint. gan ev diolch y Rys yn vaur. Agweddy ev dyuot hyt y ty gwin yggyt. ef a rodes y Rys Howel y vab auuasseyy yngwystyl yn hir yn lloegy. Ac yspeit am y gwystlon a oed yny vryt ev kymryt o newyd. ac am yteyrnget yny delei o Iwerdon. Ac yna y peris paratoy llynges y vynet Iwerdon. a duw gwil Calixti pab yd ellynghaud y llu yr llogheu. Ac y doeth gwynt gwrpwith ac a yrawt y brenhin yr tir drachevyn. Agweddy ev dyvot Iwerdon y trigassant yno y gayaf heb argyweddy dim ar y gwidyl. Anno. ii<sup>o</sup>. y bu marvolayth maur ar lu y brenhin rei o newin. ereill o newyd bwydev. ereill o diffic na ellyt dwyn kyfnewidiev ar vor yn amser gayaf. Yny vlwydyn honno y bu varw Catwaladyr ap Grufud ab Kynan. Ac ydoeth ybrenhin yn wythnos y diodeifein hyt yn penvro ac ychydic o niver gyt ac ef. ac adaw y varwnieit ay varchogeon yn Iwerdon. Ahynny o achos kennadev y pab a rei brenhin freinc. Ac yno ybu duw pasch athrannoeth ac y casaf Rys yndidan ac ef yn talacharn yn mynet ytu a lloegy. Agweddy dyvot y loegy o honaw auvon a oruc kennadev at Ior. ap Owein ierchi ydaw dyvot y ymidan ac ef ac y gadarnhau hedwch ryngthunt. Ac ydoeth Owein ap Ior. o arch y dat ydyuot gyt ac ef ylys ybrenhin. ac y doeth gwyr iarll brustov o caer dyf ford y castell newyd ar wysg ac y lladassant ef yn was ievanc klotvaur. A gwedy menegi hynny yw dat ac y Howel y vraut ac yr lleill a oed vn ac wynt. nyt ymdiredassant yr brenin ohynny allan namyn gwneith' gwaethaf ac y gellynt ar gyvoeth ybrenhin olad allosci ac ganreithaw heb drugared. hyt ynkaer low ahyt yn henford. Ac yna y gwnaeth ybrenhin Rys ap Grufud yn vstvs ar deubarth kymre. ac yntev aaeth yfreinc heb olud. Yn hynny mys aust yeavas Seissill a Dyvynwal a Ieuan ap Seissill ap Ririt. castell Aber Gevenny odwyll ygan wyr y brenhin. Anno. iii<sup>o</sup>. ybu yr hin degaf yn amser gayaf hyt difev kyuarchavel ac yna y doeth taranev aglaw achenllysc athorri brie y coet hyt ydaear. ac yssu o bryvet y deil yn llwyr hyt na alley y gwydvilot ymborth. ac y peryglavt llawer or bobyl ac or ysgrybyl. Yny vlwydyn honno y ganet Meuric ap Rys ap Grufud. a mab y verch Moredud y vraut. Ac ydaeth Henri ieuanc vab Henri brenhin

lloegy dros vor at y dat. agovyn yw dat peth awnay canys nat oed ydaw ymborth onyt agaffei gan ydat. Ac yd erchys y dat rodi ugeint pvnt or monei hwnnw beunydydaw. Ac y dywat yntev na chiglev rodi lfreiv y vab brenhin erioet ac nas mynnei yntev. Ac yny gyghor y cavas mynet ydinas twrws a chymryt areant yn echwyn gan y bwrdeissieit ydref. Aphan giglev y brenhin hynny: gvaharth aoruc na rodyt ydaw vn geiniavc. ac anvon gwyr oy lys ehvn yw daly ay warchadw yny darffei ydaw kymryt kyghor amdanaw. Ac y perys yntev medwi y gweircheitweyt athra uuant yn kysgu. ydaeth ymeith ac ychydic owyr gyt ac ef hyt at brenhin freinc y chwegrwn. Yn hynny yr anvones Rys ap Grufud Howel y vab dros vor at Henri vrenhin yw wassneithu. ac y bu llawen ybrenhin wrthaw a diolch yn vaur y Rys y anvon yno. Yn hynny yd oed Henri ieuanc drwy nerth y chwegrwn a Theobaldus duc bwrgwyn a chyghorwr flandrys yn ewyllyssu gwrthnebu y gyvoethev ydat. Duw m'chergwith. xv. kl. aust y doeth Ior. ap Owain amben Caerllion ac ymlad ardinas nyw kavas. a daly gwyr y dinas yny gafas y gastell. Odeno ydaeth Howel ap Ior. o hyt nos y gastell gwent. athrannoeth y darystynghavt y wlat idaw dieithyr ycastell. ac agymyrth gwystlon or rei goreu or wlat. ac yna y gyrrawd David ap Owein owyned Maelgwn y vraut hyt yn Iwerdon ac agymyrth Mon y eidaw ehvn. Anno. iiiii<sup>o</sup>. y bu varw Kynan ap Owein. Ac y gwrthladawt Dd. ap Owein y vrodyr ay gevynderiw o wyned ac ay kymyrth yn eidaw ehvn. Ac a garcharawt Maelgwn y vraut. Anno. v. peris Howel ap Ior. ogaerllion heb wybot yv dat daly Owein y gevynderw athynnv y lygeit ay geillev rac kaffel etived o honaw canys ef oed wir etived ar caerllion. Ac yn disyvyt ydoeth y freinc ac alltudaw Ior. a Howel y vab odeno. Ac y tagnavedwyt rwg Henri vrenhin lloegy a Henri ieuanc y vab gwedy distrywiaw llawer o Normandi agwladod eirell. Ac y delhiis David ap Owein. Rodri y vraut dro dwll ac ay dodas mewn garchar kyfync a gevyne arnav. am geisiaw ran o dref y dat iganthaw. Ac yna y kymyrth Dd. ap Owein Emme chwaer yr brenhin yn briawt odybygu caffel am hynny kynnal y gyvoeth yn hedwch. Ac yn hynny y dienghys Rodri o garchar y vraut. achyn diwed y vlwydyn ef aduc Mon iarnav a Gwyned ewch Conwy. Duw gwyl Iago apostol ydaeth Rys ap Grufud y Gaerlow yr kwnsili a holl twwys-

sogeon kymre gyt ac ef or a uassei yn erbyn y brenhin. nyt amgen. Catwallawn ap Madoc y gevynderw o vaelenyd. Eynion Clut y daw gan yverch o elvayl. Eynion ap Rys y dav gan y verch o gwerthrynnyon. Morgant y nei ap Gwlad' y chwaer. tat Caradawc ap Iestin owlat vorgant. Grufud y nei vap Nest ychwaer braut Iuor vachan ap Meuric o semhenyd. Ior. ap Owein o gaerllion. a Seissyll ap Dyvynwal o went ewchaf abriodassei Gwladus chwayr y Rys ap Grufud. Agwedy ev dyvot yno y brenhin arodes hedweh ydunt. ac arodes Caerllion y Ior. ap Owein. Ac y llas Seissill ap Dyvynwal o dwll yn gastell ab' gevenni ygan arglwyd brecheynave. Ac yllas Gefrei y vab a goreugwyr gwent. a Gwlad' y wreic adalpwyt. a Chatwaladyr y mab alas. Agwedyr lladua mordruan ahonno ny allawd kymro ymdiriet y dwyll y freinc ohynny allan. Cadell vab Grufud o orthrwm heint gwedy kymryt habit crevyd amdanaw yn ystrat flur y bu varw ac yno y clathpwynt. Ac Richard abat clerval mewn manachloc yn ymyl dinas ranson y doeth manach ay vrathu a chylllell ac or brath hwnnw y bu varw. Anno vi°. y bu varw Kynan abat y ty gwyn. A Daidid escob mynyw. ac yny le yntev y doeth Perys. Ar nodolic hwnnw y gwnaeth Rys ap Grufud y wled vavr yngastell ab' teiui. y ymyrson pwy orev o gerd tant. nev gerd tavot dros wynob kymre. a lloegyr. a phrydyn. ac iwerdon. a pheri gwneith' dwy gadeir. vn yr gorev or telynoryon. arall yr gorev or beird. Ac or telynoryon gorev oed gwas ieuane or llys. or beird gorev oed rei gwyned. ar wled honno o gyhoydwynt blwydyn kyn y wneith'. Yny vlwydyn honno y gwnaethpwynt kwnsili yn llvndain am hanner y grawys y gadarnhav kyfreithev yr eglwysev. ac y tyfawd ymyrson y rwng archescop keint. ac archescop caer efrac am eistedvaev yngwyd y cardinaeliet o ruvein. kyrchu aoruc archescop keint lle delehe vot. Athrannoeth yd achubawt archescob caer efrac y lle hwnnw yngwyd y cardinaliet. ac y doeth nebvn or tu drachefyn idaw ay dynnv efay gadeir yny uu yn wysg y wegyl yr llaur. ay guraw a dwylaw ac a thrayt yn yssic. abreid un idaw diang ay eneit. Anno. vii°. yllas Finon clut. A Morgant ap Moredud alas hevyyt. Ac y gwnaeth Rys ap Grufud castell rayadyr gwy. Anno. viii°. meibion Kynan a ryvelassant ar arglwyd Rys. Anno. ix°. y llas Catwallawn. Ac y pryphethwynt Covent yn nant teyrnon. ereill ay geliu manachloc devma.

ereill manachloc caerllion ar wysg. Anno dom. M°. c.lxxx. ny bu dim or a dyokit ar gof yny vlwydyn honno. Anno. i°. y bu varw Alexander bap. Ac yny le ydetholet Luci'. Ac y bu varw Adaf escob seynt Assaph yn ryt ychen ac y clathpwynt ef yn Osyney. Anno. ii°. y llas Randwlf de Poer ac ychydic o varchogeon gyt ac ef. ygan gweission ieuenc o went. Anno. iii°. y bu varw Henri vrenhin ievanc trydyd Henri oed hwnnw. yn mywynt ydat. Ac y bu varw Richard archescob keint. Anno. iii°. y bu varw Ryderch abat y ty gwyn. ac y bu varw Meuric abat y Cumhir. Anno. v°. y doeth y padriarch. o garusalem o loegyr y geisiaw nerth gan Henri brenhin lloegyr. canys daroed yr Ideon a Saracineit distriw caerusalem yn llwyr. Ac y dychwelavt drachevyn ac amdeler o wyr meirch a phedyt ganthaw. Duw kalanmei y symvdavt yr heul y lliw megys. pan vei diffic arnei. Yny vlwydyn honno. Dd. abat ystrat flur auu varw. A Howel ap Ieuaf arglwyd arwystli. ac Einion ap Kynan. ac y clathpwynt wynt yn ystratflur yn enrydedus. Anno. vi°. y bu varw Luci' bap. ac yny ol ydoeth Vrban' tryded. ac y daeth covent ystrat flur hyt y redynave velen yngwyned. ac y bu varw Perys abat clervall. ac yllas Catwaladyr ap Rys o dyvet yn lledrat ac y clathpwynt yny ty gwyn ar daf. Anno. vii°. y bu varw Ithel abat or trallwng. Ac y llas Owein ap Madoc y gorev or kymre drwy dwyll yn garrec gova nosweith ygan veibion Owein kyveiliae. Gwen oynwyn a Chaswallawn. Llywelyn ap Catwallawn a dalpwyt ygan y vrodyr ac adynhwynt y lygeit. Maelgwn ap Rys o debeubarth adiffeithavd dinas Dynbych ac ay llosgas. Ac vegys llew yn hela y doeth llawer or flandryswyr ac y lladavt ef wynt oll. Anno. viii°. y doeth paganieit a saracineit y Caerusalem dechrev y grawys ac adugant y groc y diodefavt duw arnaw gantwnt. ac yspeiliau ydinas allad llawer or cristonogyon adly ereill yngkarchar. Ac amhynny ydaeth Philip brenhin freinc. a Henri brenhin lloegyr. a Baldewyn archescob keint alluosogrwid o gristonogeon a chroes. Anno. ix°. y bu varw Henri vrenhin.

Ac yny ol yntev y doeth Richard y vab y vrenhin. y marchauc gorev ar devraf. Yny vlwydyn honno y cafas Rys ap Grufud castell seinther. ac abercorran. allan ystyphan. Ac aberys daly Maelgwn y vab ay garcharu y gwyr a oed blodev y marchogeon ac andiffynnwr debeubarth kymre.



Anno dom. M<sup>o</sup>.c.xc. ydaeth Phelip brenhin freinc. a Richard brenhin lloeyr. a Baldewyn archescob y Gaerusalem a dirvaur llu ganthunt o ieirll a barwnieit. ac y gwnaeth Rys ap Grufud castell yn ketweli. Ac y bu varw Wenlliant verch Rys blodev gwaged kymre otegwh. Anno. i<sup>o</sup>. y bu varw Grufud Maylor brenhin Powys yr haylaf or kymre. Ac y bu varw Gwion escob bangor gwr mawr ygrefyd. Ac y bu diffic ar yr heul. Ac y bu varw Baldewyn archescop keint. Ac y llas Einion or porth y gan y vraut. Ac y cavas Rys ap Grufud castell dyneinir. Ac y bu varw Owein ap Grufud yn ystratflur. Anno. ii<sup>o</sup>. y dienghis Maelgwn ap Rys o garchar arglwyd Brecheinoc. Ac y cavas Rys ap Grufud castell llanmadein. Ac y bu varw Grufud vab Cadwgon. Anno. iii<sup>o</sup>. y dalpwyd Richard vrenhin lloeyr yn dyvot o Gayrusalem ygan nebun iarll ac y rodad yngkarchar yr amherawdyr. nny oruu ar loeyr gwystlaw kareglw y manachlgoed ar eglwyswac ac ev eurllestri yr yellwng or karchar. nny vlywdyn honno y darystygawd Rodri vab Oweyn ynys von. a hynny o nerth meibion Godrich. A chyn diwed y vlywdyn y gwrthladwyd ef or ynys y gan veibion Kynan. Ac y cavas gwyr Maelgwn vab Rys castell ystratmevric. yn wrawl nos nodolic drwy ev peiriannev. Ac y cavas Howel seis vab Rys pennaeth deheubarth castell gwys drwy dwyll. Ac adelhiis Phelip vab Gwis ay wreic ay deu vab. Agwedy gwasgaru a castell kyt dyhunaw a oruc a Maelgwn y vraut y distrywiaw castell llannuhadein. Agwedy gossot oet dyd. ydoeth y flandryswyr yr dywededic castell ac ymlad yn diobeith ac wynt a gwneith' lladva dirvaur onadunt. a chymhell ev gwyr ar ffo. Ac ymgynnulla a oruc y kymre am ben ydywededic castell ac ydistriwiwt. Ac y delhiis aranaut y deu vroder. Madoc. a Howel. ac ytnnawt ev llygeit. Anno. iii<sup>o</sup>. y rodes Maelgwn vab Rys castell ystrat meuric yr hwn ar-odassei Rys ap Grufud idaw. yntev ay rodes yv vraut dros y wystlon. Ac y gwnaethpwyd yr eilweith castell rayadyrgwy. Ac y dalptwyd Rys y gan y veibion ac y carcharwyt a Howel seis o dwyll ar Maelgwn y vraut a ellyngawd Rys y dat o garchar. Ac y kymyrth meibion Catwallawn castell de Nyuer yr hwn a oed eidiau Maelgwn a chastell rayadyrgwy ac ay llogassant. Ac y doeth Richard vrenhin y loeyr o gaerusalem. Llywelyn ap Ior. a deu vab Kynan Rodri ac Owein

adugant kyvoeth Daud ap Owein yrnaw onyt tri chastell ay gymhell yntev ar fo. Anno. v<sup>o</sup>. y doeth Rosser y mortimer allu ganthaw hyt yn Maylenyd ac y gwrthladwyd deu vab Catwallawn o gastell kymaron. Ac y casfas deu vab Rys ap Grufud. Rys a Maredud. castell dinefwr o dwyll a chastell y cantref bychan. a gwyr y wlat honno a gytsynawt ac wynt. ac y delhiis ev tat wynt o dwyll ac yn ystrat meuric y carcharwit wynt. Anno. vi<sup>o</sup>. y bu varw escop bangor. Ac kynvyllaut Rys ap Grufud llu amben caer meryn ac ay llogas ac ay diffeithawd. Ac odydo ydoeth allu dirvaur amben castell Colvnywy. ac eiste wrthaw ac eu kymhell ev rodi. a gwedy y rodi y llogsi ay dystriw a orugant. ac odena y byssiassant hyt yn radynor ac ay llogassant. ar dyd hwnnw y doeth Rosser Mortimer. a Hvgyn o say. allu diruavr o wyr arvauc ymladgar yn ev bydinev ynbarawt y ymlad. Agwedy gvelet o Rys hynny : kyrchu yelynyon aoruc megys llew ac ev kymhell ar ffo ac ev hymlit yn wraul ac ev eythu gan ev llad yn olofrud. ac ni orfwisard nny doeth hyt yn chastell paen yn Eluael ac yna eiste wrth y castell a gwneithur ermygion y ymlad ar castell. Ac y doeth Willyam brewys ac y tagnavedwyd ac ef. Nny vlywdyn honno y doeth Henri archescop keint vstus holl loeyr a chynvllaw tywyssogion kymre y dyvot amben castell wenhwynwyn yn trallwng ac ymlad ac ef obop amriw ymladdev. ac ny thygiawd ydunt dym. canys val y bwr-ieyn ermygion y ben y castell ydyuot y mewn : pan deleint hyt y bylchev y bwrit wynt hyt yn waelawt clawd nny dorrynt eu mynyglev ereill bodi. Ac or diwed wynt arodassant y castell gan ev gellwg yn ryd ar eidunt gantunt. a hynny awnaethpwyd. Odena ydoeth Gwenwynwyn ay gynvllaitva oy wyr ac eistev wrth yr vn castell hwnnw. a chymhel ar ycastellwyr rodi y castell gan ev gellwng yn ryd ar eidunt gantunt. Ac y bu varw abat y trallwng. Anno. vii<sup>o</sup>. y bu maruolaeth maur yn gymre afreync. a hynny or tywyssogion gorev. Ac y bu varw Rys ab Grufud tywyssawc deheubarth kymre blodeu y marchogion ar gorev or auu o genedyl gymre er oet iii<sup>o</sup>. kl. maii. gwedy llawer uudugolaythev. Agwedy marw Rys y gwledychawd nny le Grufud y vab. Ac nny erbyn y doeth Maelgwn y vraut ay wyr agwyr Gwenwynwyn hyt yn ab' ystwyth ac adelhiis Grufud ac aladawt llawer oy wyr acharcharu ereill adarystwng ydaw holl keredigiawn ai gestyll ac anvon

Grufud y garchar Gwenwynwyn. Ac yntev ay rodes yngkarchar saesson. ac adarystyngws idaw holl Arwystli. Ac y delhiis Llywelyn ap Ior. Daid ap Owein. Yny vlwydyn honno gvedy kymryt habit kefryd amdanav ybu varw Owein kyveiliauc ac y clathpwyd yn ystratmarchell. Ac y bu varw Owein ap Grufud Maelor. Ac Owein or brithtir vab Howel ap Ieuf. A Maelgwn ap Catwallawn o velli nyd. Yny vlwydyn honno y doeth Trahayrn vychan ovrecheinave gwr da doeth kadarn.

a nith verch chwaer y Rys ap Grufud yn wreic briawt y dadlev yr arglwyd William de breusa hyt yn llancors. ac y dalpwyd et yn greulon ay rwyuhav yn gadarn achadwynev gerit y draet ay luscaw wrth y march kryihaf drwy holl ystrytoed Aberhodni hyt y crogwyd. ac yno llad y ben ay grogi ger y draet. ac y clathpwyd yn..... Ac y dial y vraut ay vab ay wreic. pan yw yny ford greulon y divethawd y gwyrda gwirion hynny y torras Maelgwn vab Rys Aberteivi.

## LLYMA

## VRUT Y TYWYSOGION,

VAL Y BU RYFELLOEDD, A GWEITHREDOEDD ENSEILLIAD, A DIALEDDAU, A RHYFFEDDODAU.  
GWEDI EU TYNNU O'R HEN GOFION CADWEDIG A'U BLYNYDDU YN  
DREFNEDIG GAN GARADAWG LLANCARFAN.

*Yr Hanes uchod a gopiwyd o Lyfr George Williams o Aber Pergwm Ysgweier, genyf i Thomas Richards Curad Llan Grallo, yn y flwyddyn 1764. A minnau Iorwerth ab Iorwerth Gwilym ai copiais o Lyfyr y Parchedig Mr. Richards yn flwyddyn 1790. Ac ai dadgopiais ef i Owain Myfyr, yn Mesyryd y flwyddyn 1800.*

## BRUT Y TYWYSOGION.

OED Crist 660, y bu farw Cadwallawn ab Cadfan brenhin y Britanniaid ac y daeth ei fab ef Cadwaladr fendigaid yn Frenhin yn ei le; a gwedi dengmlynedd yn heddwch y daeth y Clefyd mawr a elwir y Fall felen ar holl ynys Prydain, a hynny a ddechreuos pan oedd oed Crist yn 674. Ac achaws y Fall honno ydd aeth Cadwaladr a llawer o bob goreuwyr y Bryttaniaid i Lydaw lle ydd oedd eu cydwladwyr wedi gwledychu yn hir o amser cyn no hynny; ac achaws y clefyd nis gellid rhyfelu yn ynys Prydain na llafariaw daear, ac o hynny y digwyddes newyn mawr oni bu farw niferoedd rhyfeddawl o'r Cymry a'r Saeson; a'r Newyn, a'r Fall, a barhëis unmlynedd ar ddeg, onid aethant yn dost eu gormail holl bobloedd ynys Prydain. A gwedi dyfod diwedd ar y dialeddau hynny, fe ddodes Gadwaladr ynys Prydain a'i choron yn nawdd ac adnau Alan Brenin Llydaw, ac a aeth i Ruyain wrth gyngor Angel a welsei efe yn ei lesmair, ac yno y bu efe bum mlynedd ac y bu farw yno, a phan ddel ei esgryn ef oddiyno yml i ynys Prydain y cant y Bryttaniaid eu Braint a'u Coron yn ol y dywaid yr Angel wrth Gadwaladr.

OED Crist 683, y danfones Alan brenin Llydaw ei fab Ifor ac Ynyr ei Nai a dwy Lynges gadarn i ynys Prydain, a rhyfel a fu ryngddynt a'r Saeson, a gorfod ychydig

arnynt, yna y cymmerth Ifor arnaw Benaduriaeth y Bryttaniaid. A gwedi hynny y daeth y Saeson yn ei erbyn ef a llu cadarn, a chad ar faes a fu ryngddynt lle y gorfu Ifor a'r Bryttaniaid wedi ymladd creulawn. ac ynnill Gwlad Cerniw, a Gwlad yr Haf, a Dyfneint yn gwbl. Ac yna y gwnaeth Ifor y Brodyrddy mawr yn ynys y Fallen er diolch i Dduw am ei gyfnerth yn erbyn y Saeson.

OED Crist 698, y bu'r glaw gwaedliw yn ynys Prydain, onid aeth y llaeth ar ymenyn a'r caws yn gochliw gwaed; ac Ifor a aeth i Rufain lle y bu farw gwedi cynnal Penadurdawd ar y Bryttaniaid wyth mlynedd ar hugain, yn fawr ei glod ai ddoethineb, efe a ddodes lawer o Dir-oedd at Eglwysi yng Nghymru a Lloegr.

OED Crist 720, Bu Haf tesawg rhyfeddawl oni bu farw coedydd a llysiâu ac ysgrublaid gan sychder ac angerdd y poethder, ac ym mis Medi yr un flwyddyn y bu'r llifeiriaint disyfed ac y torres Eglwys Llancafarn, a llawer o'r Tai, ac y boddes aneirif o'r Gwartheg a'r Defaid oni bu dra mawr y colledion, a'r un peth mewn llawer man arall, a'r un amser y bu llanw aruthrawl ym Mor Hafren oni thorres argaeau, ac y collwyd llawer o'r ynysdir ar hyd lan y mor ym Morganwg, a Gwent, a Gwlad yr Haf, a dirfawr y colledau o hynny.

Yr un flwyddyn y doded Rhodri

Molwynawc yn Frenin ar y Brytaniaid, a rhyfel mawr a fu ryngthaw ef a'r Saeson lle trechasant y Bryttaniaid mewn dwy Gadfaes yn anrhydeddus. Yr un flwyddyn y bu Gad Garthmaelawg, ac un arall yng Ngwynedd, a Chad Pencoed ym Morganwg lle y gorfu'r Bryttaniaid ymbob un'r tair.

Yr un flwyddyn y bu farw Beli ab Elphin, ac y torres y Saeson di gred lawer o Eglwysydd Llandaf, a Mynyw, a Llanbadarn, ac y lladdasant Aidan Escob Llandaf a llawer o ddoethion ei Blwyf.

Oed Crist 728, y bu Cad Mynydd Carno yng Ngwent lle y gorfu'r Bryttaniaid gwedi colled dirfawr ar wŷr, ac y gyrrwyd y Saeson drwy Afon Wysg, lle y boddasant laweroed o honynt, achaws llif oedd yn yr Afon.

Oed Crist 733, Bu Cad Ddefawdan lle gwedi ymladd hir a thra chreulawn y gorfu'r Saeson ar y Bryttaniaid.

Oed Crist 735, y bu waith Henffordd, lle gwedi ymladd tost a chreulawn y gorfu'r Cymry ar-y Saeson.

Oed Crist 750, y bu farw Tewdwr ab Beli, a Rhodri Molwynawc gwedi gwladychu deng mlynedd ar hugain yn glodfawr am gyfiawnder a gwroldeb, ac ai claddwyd yng Nghaerllion ar Wysg, a diweddfaf o Eppil Brenhinoedd ynys Prydain a gladdwyd yno oedd efe.—Yn yr un flwyddyn y bu waith Mygedawc lle y gorfu'r Bryttaniaid ar y Gwyddyl Ffichti gwedi ymladd creulawn.

Oed Crist 754, y gwnaethpwyd Cyнан Tindaethwy yn Frenhin ar Gymru oll o fodd yr holl Frenhinoedd a'r Arglwyddi. Yn yr ail flwyddyn y bu ail waith Henffordd lle y gorfu'r Cymry, ac yno y llas Cyfelach Escob Morganwg.

Oed Crist 755, y symudwyd y Pasg yng Ngwynedd o gyngor Elfod Escob Bangor, ond nis caid hynny gan yr Escobion eraill, ac achaws hynny y daethant y Saeson ar y Cymry yn Neheubarth, lle bu Cad Coed Marchan, a gorfuiwyd ar y Saeson yn anrhydeddus.

Oed Crist 757, y bu drydedd waith Henffordd lle y Gorfu Gwyr Deheubarth ar y Saeson, ac y llas Dyfnwal ab Tewdwr y rhyfelwr glewaf o du'r Cymry, wedi iddaw wneuthur yn orchestawl o neb yn y Gad honno.

Oed Crist 765, y diffeithiwyd Tiroedd y Mers gan y Cymry ac y gorfuant ar y Saeson, ac ai hyspeiliasant yn ddirfawr, achaws hynny y gwnaeth Offa Brenin y Mers y clawdd mawr a elwir Clawdd Offa

yn derfynfa rhwng Gwlad Gymru ar Mers, fal y mae fyth yn parhau.

Oed Crist 776, y codes Gwyr Gwent a Morganwg ac a aethant am benn y Mers, ac y torrasant Glawdd Offa yn gydwasted a'r ddaear, a gwedi hynny dychwelyd ag yspail fawr.

Oed Crist 777, y symudwyd y pase yn Neheubarth, ac y bu farw Ferinol fab Eidwar, ac achaws hynny y bu ryfel teisban rwng y Deheuwyr au Brenin a dinistr-aw mawr arnynt ganthaw, oni orfu arnynt ladd y Brenin am hynny yn amser Háf, am hynny y gelwir yr haf hwnnw yr haf gwaedlyd, ac ni rodded fyth wedi hynny i Frenin y Deheuwyr ei air yn air ar y wlad.

Oed Crist 784, y diffeithiwyd y Mers gan y Cymry, ac Offa a wnaeth glawdd yr ail waith yn nes attaw, a gadael lle Gwlad rwng Gwy a Hafren lle mae Llwyth Elystan Glodrydd lle ydd aethant yn un o bum Brenhinllwyth Cymry.

Oed Crist 795 y daeth y Paganaiid duon gyntaf i ynys Prydain o Wlad Denmarc, ac a wnaethant ddrygau mawr yn Lloegr, wedi hynny daethant i Forganwg, ac yno ladd a llosgi llawer, ond o'r diwedd gorfu'r Cymry arnynt au gyrru i'r mor gwedi ladd llawer iawn o honynt, ac yna myned i'r Werddon lle y diffeithiasant Rechreyn a lleoed eraill.

Yr ail flwyddyn y bu gwaith Rhuddlan lle y lladdwyd Meredydd Brenin Dyfed, a Charadawc ab Gwyn ab Collwyn Brenin Gwynedd.

Oed Crist 804, y bu farw Arthen Brenin Ceredigiawn, a Rhydderch Brenin Dyfed, a Chadell Brenin Teyrnllwg, a elwir yr awr honn Powys.

Oed Crist 809, y bu farw Elford Archescob Gwynedd, ac y bu diffyg ar yr haul, ac y bu Terfysg mawr ym mhlith y Gwyr Eglwysig achaws y Pase, canys ni fynnai Escobion Llandaf a mynyw ymroddi dan Archescob Gwynedd lle yr oeddynt eu hunain yn Archescobion hŷn o Fraint.

Oed Crist 810, duawdd y lleuad ddyw nadolic ac y llosges y Saeson Mynyw, ac y llosged Teganwy gan dan llychaid gwylltion, ac y bu farwolaeth ddirfawr ar yr anifeiliaid hyd holl ynys Prydain ac y tlododd Brenhiniaeth Vón a Brenhiniaeth Dyfed oblegyd Rhyfel a fu rwng Hywel Fychan a Chynan ei frawd, o gorfu Hywel ynys Fón

Oed Crist 814, bu Taranau a lluched ofnadwy dros benn yn torri a llosgi Tai a

choedydd yn aruthr, ac y bu farw Gruffydd ab Cynan achaws Brad Elisse ei frawd.

Yr un flwyddyn y bu ryfel yr ail waith rhwng Hywel a'i frawd Cynan, ac a laddes lawer o'i wyr ef, ac yna Cynan a gynhulles attaw Gad niferawg dros benn, ac am benn ei frawd Hywel y rhuthros, ai yrru o Fôn hyd ym Manaw. Ymhen ychydic wedy hynny bu farw Cynan Tindaethwy Brenin Cymry oll. A merch oedd etifeddes iddaw a briodes a Gwr Pendefig ai enw Merfyn Frych; ei Fam ef Nest ferch Cadell Deyrnllwg fab Brochwel Ysgithrawc.

Oed Crist 815, y llas Griffri ab Cyngen ab Cadell Deyrnllwg.

Oed Crist 818, y dechreues Merfyn Frych ac Essyllt ei wraig wladych Gwynedd a Phowys, a'i flwyddyn honno y bu waith Llanfaes ym Môn.

Oed Crist 819, y drygwyd Dyfed yn ddirfawr gan Genwlff Brenin Mers.

Oed Crist 823, y diffeithwyd Gwlad Bowys gan y Saeson, gan ddwyn y meibion bychain i gyd oddiar eu mamau a'u meithrin yn Saeson, canys arferid hynny gan y Saeson, a'r un flwyddyn y llogasant Deganwy.

Oed Crist 829, y dug Egbert Brenin Caerwynt y danaw Bernwlff Brenin y Mers drwy ymladd drydlew, ac yn ebrwydd gwedi hynny y dug efe y danaw y saith Brenhiniaeth Seisnig, a galw Gwlad Loegr yn Inglongt, a galw'r Iaith Ingles.

Oed Crist 830, y bu diffyg ar y lleud yr wythfea dydd o Fis Rhagfyr, a'r undiarnod y bu farw Morydd ab Llywarch Llwyd Brenin Ceredigion.

Oed Crist 831, y daeth Saeson y Mers ar hyd nos yn ddarwybod, ac a llogasant Fonachdy Senghenydd, ydd oedd hwnnw vn y man y mae v Castell yn awr, ac oddi yno y daethant hyd yng Nghastell Treoda ac ai llogasant: a dianc oddiyno dros For Hafren a llawer ganddynt yn lledrad, lle ydd oedd llw cyngrair y pryd hynny rwng Gwyr Morganwg a Gwent a Saeson y Mers.

Oed Crist 833, y daeth y Paganiaid o Ddenmarc i Loegr, ac a ddiffeithiasant lawer o fannau yn yr ynys, ac yn mhen tair blynedd myned i Gymru, ac yn un a'r Cymry ymosod ar y Saeson lle y gorfu'r Saeson arnynt.

Oed Crist 835, bu farw Cadwallon, yr oed efe n wr pendefig mawr ei barch a'i ddoethineb.

Oed Crist 838, Gwaith Cyfeiliawc lle bu ymladd tra thost rhwng y Cymry a Berthwryd Brenin Mers; ac yno y llad

wyd Merfyn Frych Brenin y Bryttaniaid: ac yn amser Merfyn y gorfu ar y Bryttaniaid ac oedd yn Lloegr yn byw ymroddi yn Saeson neu adael eu Gwlad a'u cartref-oedd ym mhen tri Mis. Yr un flwyddyn y bu waith Fferyllwg rhwng Gwy a Hafren lle bu law ucha'r Cymry.

Oed Crist 840, y bu farw Escob Mynyw, ac y bu ail waith Fferyllwg lle lladdwyd llawer o bob tu, fal nas gellid barnu'r llaw uchaf nac i'r un na'r llall o honynt.

Oed Crist 843, Rhodri Mawr ab Merfyn Frych a ddechreuws wladychu ar y Cymry a gorfod ymddifadu ar Bryttaniaid ac oeddynt yn byw yn Lloegr, a myned yn un a'r Saeson a wnaethant hwy. A rhyfel mynych a mawr a fu rhwng Rhodri a Berthwryd Brenin Mers. Yr hwnn Ferthwryd a fynnwys gynhorthwy gan Ithelwlf ei frawd ac a ddaeth a llu dirfawr i Fôn gan ddiffeithiaw Gwlad y ffordd y cerddynt, fal y gwnai'r Paganiaid id grêd a bedydd. Myned a wnaeth Rhodri yn eu herbyn a llu dewisawl o'r Cymry gydag ef; ac yn gynhorthwy iddaw y daeth Meuryg ab Hywel Brenin Morganwg a Llu cadarn, a'r Meuryg hwnnw a laddwyd yn y frwydr honno, eithr gyrru ffo ar y Saeson yn y diwedd, gwedi ymladd tost a chreulawn. Ac yna gwnaethpwyd Ithel ab Hywel yn Frenin ar Forganwg a Gwent yn lle ei frawd, ac efe yn myned a Llu cadarn gydag ef i Wynedd yng nghyferth Rhodri y gosodasant gwyr Brecheiniawc arnaw ac ai lldasant yn iawn i Ferthwryd am fil o wartheg yspail a gawsant ganlaw am hynny o alanas, ac o hynny y dechreuws y ddiahebb Bradwyr Brycheiniawc.

Oed Crist 850, y bu Gwaith Ffinant ac y llas Cyngen ab Cadell Deyrnllwg yn Rhufain gan ei wyr ei hun.

Oed Crist 860, bu Cad Wythen lle lladded llawer o Gymry a Saeson fal nas galled y llaw uchaf nac i'r naill na'r llall o honynt, a'r un flwyddyn y daeth y Paganiaid duon i Dir Gwyr ac a'u gyrrwyd ymaith gyda galanasdra mawr.

Oed Crist 865, y lladded Cynan nawdd nifer, y dewraf a'r ardderchoccaf yn ei ddydd o Ryfeiwyr Cymru.

Oed Crist 868, y bu gwaith Brynnonnen, ac y daeth y Paganiaid duon lawer gwaith yn yr un flwyddyn i Gymru a Lloegr, a chael y gwaethaf ym mhob Gossawd.

Oed Crist 870, y torres y Paganiaid duon Gaer Alclud, ac a ddifethasant Llundain a Gwlad y Mers o'i bronn.

Yr un flwyddyn y bu waith Llangollen a lladdfa fawr yno.

Yn yr un flwyddyn y boddes Gwgan ab Morydd ab Llywarch Llwyd Brenin Ceredigion yn morio dros afon Llychwr yng Ngwyr er gyrru'r Paganiaid duon o'r Wlad honno.

Yn yr un flwyddyn y bu waith Bangor lle y lladdwyd y Saeson wrth y niferoedd a cherrig a dreiglwyd arnynt oddi ar y Brynniau, ac ym mhlith y rhai hynny Escob Bangor.

Oed Crist 871, bu farw Einion Fonhedig Escob Mynyw, ac o gwnaethpwyd Hubert Sais yn escob yn ei le ef.

Oed Crist 872, y bu Waith Bangolau ym Môn, lle gorfu Rhodri a'r Cymry ar y Paganiaid duon mewn Brwydr galed: a gwedi hynny yr un flwyddyn Gwaith Manegid ym Mon, lle difethwyd y Paganiaid duon.

Oed Crist 873, y bu Waith Dyw Sul ym Môn, ac yn honno y llas Rhodri mawr, a Gwriad ei frawd, a Gweirydd mab Owain Morganwg, gan y Saeson; ac yna yn eu llawn angerdd y cymmerth Gwragedd Môn arfae ac a ruthasant ar y Saeson au lladd yn greulawn oni orfu arnynt ffo.—Yr un flwyddyn y bu Waith Rhiw Saeson ym Morganwg, lle y gorfu'r Cymry ar y Saeson, au lladd vn aruthrawl.

Rhodri Mawr a ddodes drefn newydd ar Lywodraeth Cymry hyd y cerddai ei fraint ef, nid amgen Ceredigion a Chadell ei fab hynaf a'i cafas, ac iddaw ei Lys yn Ninef wr; Gwynedd a ddodes ef i Anarawd ei Fab, ac iddaw ei Lys yn Aberffraw ym Môn, Powys a roddes ef i Ferfyn ei Fab, ac iddaw ei Lys ym Mathrafal, ac ar yr hynaf o honynt Deyrnedd i Frenin Llundain, ac i'r hynaf Deyrnedd gan y ddau eraill, a'r Tri Thywysawg Taleithiawg eu gelwid am iddynt yn anad fu o'u blaen hwynt wisgaw Taleithiau am eu coronau fal y gwnelai Frenhinoedd yng Ngwledydd eraill, lle cyn no hynny ni wysgyn Frenhinoedd a Thywysogion Cenedl y Cymry namyn hualau euraid. Ac i'r hynaf o'r Thywysogion Taleithiawc y dodes Rôdri'r Unbennaeth, ac arch a gorchymyn arnynt ymddiffyn Gwlad a Chenedl y Cymry rag rhuthr gelynon, a rhag anllywodraeth.

Oed Crist 876, ydd aeth Gadell ab Rhodri mawr yn Frenin Ceredigiawn, ac Anarawd ab Rhodri yn Frenin Gwynedd, a Merfyn ab Rhodri yn Frenin Powys.

Oed Crist 877, y gorfu Gadell ab Rhodri ar Ferfyn ei frawd, a dwyn oddiarnaw ei wlad sef Powys, ac yna efe a wladyches holl Gymry.

Oed Crist 880, y bu waith Conwy rhwng

Anarawd ab Rhodri a'r Saeson, lle cafas y Cymry'r fuddugoliaeth, a lladd llawer o'r Saeson, ac achaws hynny y gelwid y Gadfaes honno Dial Rhodri.

Oed Crist 883, bu farw Cydwithen y gwrolaf a'r doethaf o'r Bryttaniaid, a dirfawr y golled i Wlad Gymru; a'r un flwyddyn y bu farw Cydifor Abad Llanfeithin, gwr doeth a dysgedig oedd efe a mawr ei dduiwoldeb. Efe a ddanfones chwech o wyr doethion ei gor i ddodi addysc i Wyddelod y Werddon.

Oed Crist 890, y gorfu ar wyr Ystrad Clud ymadael a'u Gwlad, y rhai ni fynnent ymunaw a'r Saeson, a dyfod i Wynedd, ac Anarawd a roddes iddynt gennad i wladychu'r wlad a ddyged oddiarnaw gan y Saeson ni amgen na Maelawr, a Dyffryn Clwyd, a Rhyfoniawg, a Thegeingi, os gyrru ymaith y Saeson a fedrynt, a hynny a wnaethant yn ddihafarch, a'r Saeson a ddaethant yr ail waith achaws hynny yn erbyn Anarawd lle bu waith Cymryd, ac y bu'r Cymry yn fuddugolgyrch ar y Saeson, au gyrru o'r Wlad yn ollawl, ac felly y rhyddhaed Gwynedd oddi wrth y Saeson drwy Nerth Gwyr y Gogledd.

Oed Crist 891, y daeth y Paganiaid duon i Gastell Baldwin, ac a ddiffeithiasant Bowys, ac a feddianasant y goreu o'r tiroedd yno drwy nerth y Saeson a Brad rhai o'r Cymry.—Y flwyddyn honno y bu farw Henydd ab Bledri, gwr hynod o Gymro.

Oed Crist 892, y daeth Narawd Brenin Gwynedd i ddiffeithiaw Ceredigiawn, sef cyfoeth Cadell ei Frawd, ac a losges yr holl dai a'r ydau yn Nyfed ac Ystrad Tywi yn greulawn iawn. Yr un flwyddyn y llas Merfyn Brenin Powys gan ei wyr ei hun. Yr un flwyddyn y rhuthrasant y Paganiaid duon am ben Caer Wysg ac aladdasant y Saeson: a llawer o'r Bryttaniaid a oeddent yn gwladychu vno a ddaethant at Owain Arglwydd Morganwg, ac a gawsant diroedd a thrigfannau ganthaw, lle arosasant hwy a'u heppil. Ac yng Ngwyr y maent yn Seisnigion.

Oed Crist 893, daeth y Paganiaid duon i Gynru dros Fôr-Hafren ac a losgasant Lanelltyd Fawr, a Chynffig, a Llangarfan, ac a wnaethant ddrygau mawrion ym Morganwg, a Gwent, a Brecheiniawc, a Buellt, ac ar ei gwaith yn dychwelyd yng Ngwaunllwg, a nhwy yn anrheithiaw Caerllion ar Wysg y daeth Morgan Tywysawg Morganwg a Chad yn eu herbyn, au gyrru tros Fôr i Wlad yr Haf lle y lladdwyd llawer o honynt gan y Saeson a Bryttaniaid y Wlad honno: a'r haf v flwyddyn

honno y gwelwyd pryfed o rywiau dieithron yn y Werddon ar wedd Gwaddod a dau ddaint hirion i bob un o naddynt, a bwytta'r holl ydoedd a wnaethant, a'r holl Bordin, a gwraidd pob Gwellt a gwair onid aeth newyn ar y wlad, a'r Paganiaid au dng yno fal y tybid. ac a fynnent eu dwyn hefyd i ynys Prydain. Oed gwedi doddi Gweddian, at Dduw ac Elusenau i Dylodion, a Theilyngdawd ar fuchedd, fe ddanfonos Duw Rew cadarn, a hithau eisioes hyn hâf, oni buant feiryd y pryfed hynny.

Oed Crist 834, y bu farw Hywel ab Rhys ab Arthfael Arglwydd Morganwg yn ei lawn henaint yn Rhufain ym mhen tridiau wedi ei fyned yno, sef ei oed chweugeinmlwydd a phedair.

Oed Crist 895, y bu farw Arthfael hen, ab Rhys Arglwydd Morganwg a Brenin ar h Gantref Gwent, yn chweugeinmlwydd d, ei wraig ef oedd Ceinwen ferch Arthen Brenin Ceredigion, a gwedi myned yn hen ni fynnei efe a wnelai a Theyrnedd, am hynny rhoddi'r frenhiniaeth i Hywel ei frawd.

Oed Crist 900, y daeth Igmwnt a'i Baganiaid duon i Fôn, ac yna gwaith Rhos Meilon.—Yn y flwyddyn honno y symudwyd Mynyw, ac y bu farw Llywarch ab Henydd. Yr un flwyddyn y bu farw Cadell ab Rhodri mawr, ac y gwnaethpwyd Hywel ei fab yn Frenin Ceredigion, deu fab arall oedd iddaw sef Meyryg a Chlydawe. Ac yna gwladychawdd Anarawd ar holl Gymru, yn ol y gosodes Rodri Mawr.

Oed Crist 906, y bu farw Asser ddoeth archesgob y Bryttaniaid, ac y daeth Elystan Brenin y Saeson i Gymru, ac a ddug danaw holl Frenhinoedd y Cymry. A'r flwyddyn honno y bu waith Dinerth, a hefyd yr un flwyddyn y diffeithwyd Mynyw gan Uthyr a Rballt goch, ac y llas Maclawg ab Peredur Gam.

Oed Crist 913, y bu farw Narawd ab Rhodri Mawr Brenin y Bryttaniaid, ac yna Hywel ab Cadell a wladyches holl Gymru, ac Eidwal Foel yn Frenin Aberffraw, ab Narawd ab Rhodri Mawr.

Oed Crist 914, y llas Clydawe ab Cadell gan Feuryg ei frawd, ac y diffeithwyd Mon gan wyr y Werddon, a chyn diwedd yr Haf y cad rhyfel cydgenedl achaws i Feuryg ab Cadell ladd ei Frawd Hywel.

Oed Crist 918, y daeth Edelffleda Brenhines y Mers yn erbyn Morgan Tywysawg Morganwg a Gwent, ac y bu waith y Castell Newydd lle y bu farw Edelffleda ac y ffoes y Saeson.

Oed Crist 926 aeth Hywel Dda fab

Cadell Brenin Cymry oll i Rufain, a chydag ef dri escob, sef oeddynt Martin Escob Mynyw, a Mordaf Escob Bangor, a Marchllys Escob Teilaw, a chyda hwnnw Blygwryd ab Owain Pencyfeistedd Llandaf, Brawd Morgan Brenin Morganwg, a'r achaws eu myned yno, ymgynghori a Doethion y modd y gwellheid Cyfreithiau Gwlad Gymru, a gwybod Cyfreithiau Gwledydd a Dinasoedd eraill, a'r Cyfreithiau a fuant gan Amherodron Rhufain yn ynys Prydain yn amser eu hunbennaeth hwy, a gwedi caffael gwybodaeth o'r pethau hynny, a chyngor Doethion, dychwelyd i Gymru, lle y galwes Hywel attaw holl Bencenedloedd Gwlad au Teisbanteulaoedd, a phob Doethion a Dysgedigion o wyr Llên a Llëygion yn Ddygynnull Gorsedd hyd y Ty Gwynn ar Daf yn Nyfed. A gwedi chwiliaw a gaffad o bob Gwlad a Dinas y caed yn oreuon o'r cyfan Cyfreithiau Dyfnwal Moelud, a thrwy ddyg ac athrawiaethgar ymgais Blegywryd Athraw y trefnwyd y rhai hynny, ac au doded wrth Farn y Dygynnull oni chaed, gan nymt eglurhâd, a gwelhâd, ac adlanwad ar y rhai hynny, a gwedi myned wrth Farn a Rhaith Gwlad yn y Dygynnull y cadarnhaed y cyfreithiau ac au rhodded yn ddeddfedigawl ar holl wlad Gymru, a gwedi hynny myned i Rufain yr ail waith o Hywel, a chael Barn Doethion yno, a gwybod bod y cyfreithiau hynny yn gydderddedogion a Chyfraith Duw ac a chyfreithiau Gwledydd a Dinasoedd Tiroedd Cred a Bedydd, y daeth yn ei ol i Gymru, ac y dodes ei gyfreithiau wrth farn y Cantrefi, a'r Cymmydau, a Rhaith Gwlad, ac o hynny ydd aethant yn gadarn yn holl Arglwyddiaethau Cymru, ac ym mhob Llys Arglwydd a Chenedl hyd nad oedd a gaeai yn eu herbyn, ag nad oeddent o arall yn un Llys Gwlad ac Arglwydd yng Nghymru, ac achaws daed ei gyfreithiau y gelwir ef Hywel Dda.

Oed Crist 933, y llas Owain fab Gruffydd gan wyr Ceredigion, ac y dug Elystan Brenin y Saeson holl Arglwyddi a Breninoedd Cymru y danaw, ac felly y bu hyd oni bu farw Elystan, a hynny yn oed Crist 940. Ac yna'r Cymry a ynnillasant eu rhyddid a hynny drwy wrolder a doethineb Eidwal Foel, ac Elisseu ei frawd, a Chadell ab Arthfael ab Hywel Arglwydd Morganwg, ac Idwal fab Rhodri mawr, ac achaws hynny hwy a laddwyd gan y Saeson ym Murn a Chynllwyn.

Oed Crist 942, bu farw Ussa fab Llawr, a Lambert Escob Mynyw.

Oed Crist 943, y bu farw Marchlwys Escob Llandaf, ac y bu cynddaredd ar y cwn oni orfu lladd y maint ac oedd yn y wlad, ac y bu farw Elen gwraig Hywel Dda, yr un flwyddyn, ac Eidwal Foel ab Narawd wedi marw, y cymmerth Hywel Lywodraeth holl Gymry arnaw.

Y flwyddyn honno y daeth y Saeson hyd vn Ystrad Llyr ac a wnaethant yno y mawr ddrygau, gan ysbeiliaw a diffeithiaw'r Wlad y ffordd y cerddynt.

Yr un flwyddyn y diffeithiwyd Ystrad Clud gan y Saeson gan ladd yn dost a gaent, yn eu ffyrdd o'r Bryttaniaid a berthynai yddynt; a'r un flwyddyn y peryglwyd Cynan ab Elisheu a Gwenwyn a roesid iddaw.

Oed Crist 948, y bu farw Hywel Dda fab Cadell Brenin Cymry oll, y doethaf o'r cyfiawnaf o'r holl Dywysogion: efe a garai heddwch a Chyfiawnder ac a ofnai Dduw, ac a lywodraethai yn gydwybodus vmhob iawnder tangnefus, ac efe a gerid vn fawr gan bawb o'r Cymry, a chan lawer o Ddoethion y Saeson a gwledydd ereill, ac achaws hynny y gelwid ef Hywel Dda. Ac yna y cymmerth Owain ei fab Lywodraeth Ceredigiawn.

Oed Crist 949, y llas Cadwgawn ab Owain gan y Saeson, ac y bu waith Carno rhwng meibion Eidwal Foel a meibion Owain ab Hywel Dda, a meibion Eidwal a ddifeithiasant Ddyfed yn filain a thost.

Oed Crist 950, y daeth meibion Eidwal yr ail waith i Ddyfed ac ai hanrheithiasant ac a laddasant Dynwallawn Brenin Dyfed, ac Owain Tywysawg Ceredigiawn a gynhulles gad yn eu herbyn, ac ai hymlidies hwynt yn eu hol i Wynedd mor galed oni foddas lawer o honynt yn Afon Dyfi.

Oed Crist 952, y dug Owain ab Hywel Dda Gad hyd yng Ngwynedd, ac yno y bu waith Aberconwy, a lladdfa fawr iawn o oob tu, oni orfu ar bawb droi yn eu hol o'r ddau du, rhag a'u gwanhæd y ddwyblaid yn y frwydr honno.

Oed Crist 953, y boddes Haearnddur fab Merfyn ac y diffeithies meibion Eidwal Geredigion, a meibion Hywel Dda a'u gyrwys yn eu hol gan eu lladd yn dost.

Oed Crist 955, y bu Eira dirfawr ym Mis Mawrth, a llifeiriant aruthrawl oni thorres lawer o'r Tai ac y boddes lawer o 'dynion ac ysgrublaid yng Ngwent, a Gwenllwg, a Morganwg, a lleoedd eraill, ac ar ol hynny bu trathesog yr haf, ac y bu llawnder ydau a phrinder Aswellt, oni orfu ar lawer gloddio gwreiddiau Gwellt a Rhedyn yn ymborth i'r gwartheg a'r Ceff-

ylau, ac y cafwyd gwair wedi hynny ar y tîr yng Ngwyliaw Nadolig yn ddirfawr ei gnwd ac yn iachus ei ansawdd, fal y gwardwyd y diffyg a'r prinder o ryfeddolder mawr.

Oed Crist 958, y daeth Owain ab Hywel Dda yd yng Ngorwennydd ac ai diffeithwys yn dra milain, ac oddiyna hyd yn Euas ac Ergin gan ddwyn y gwledydd hynny o drais oddi ar Forgan Mawr Brenin Morganwg, a phan y gwybu Edgar Brenin y Saeson hynny, chwiliaw ansawdd yr amryson a orug, ac o hynny caffael Gwybodaeth a deall mai Iawn oedd i Forgan Mawr y gwledydd hynny can mai yng Nghyfoeth a Theyrmedd Morganwg ydd oeddynt er yn oes oesoedd, ac ym mhlwyf Teilaw Llan Dâf, ac arfaethu Dygynnull a wnaeth Edgar o'r Arglwyddi Cyfoeth, a'r Ieirll, a'r Escobion yng Ngwlad Gymru ar Mers, a gweled eu Barn, a phan wybuwyd hynny, cadarnhau Braint i Forgan ar y Gwledydd hynny dros fyth, a hynny ar Allawr Deilaw yn Llan Dâf, ai osod mewn ysgrifen, a melldith Duw a'r Saint ar a dorrai nawdd y Fraint a wnaed felly.

Oed Crist 959, y torres Owain ab Hywel Dda Gor Llan Ildud yng Ngorwennydd achaws cael ynddi Lenogion pendefig o Saeson, a myned oddi yno i Gor Cattwg yn Nant Garfan a orug, ai thorri yn filain.

Oed Crist 960, y llas meibion Gwyn ab Collwyn, ac y bu'r fall fawr ym mis mawrth, a hynny hyd Gallan Mai o'r bu farw llawer iawn o Gymry a Saeson hyd yn y lladdwyd yr haint gan yr Haf a'r Tës.

Oed Crist 961, y daeth Meibion Abloic Brenin y Werddon i Gaer Gybi ac ai diffeithiasant yn gwbl, a dwyn arch Cybi y ganddynt i'r Werddon, lle bu ganmlynedd, ac oddi yno aethant i Wlad Leyn gan ei diffeithiaw yn drathost a hynny a fu o frad meibion Idwal a hwy'n trawswladychu ar y cyfoetheu yng Ngwynedd a Phowys.

Yr un flwyddyn y bu farw Padarn Escob Llan Daf, ac y doded Rhodri ab Morgan mawr yn ei Le, a hynny o anfordd y Pab, ac achaws hynny ai gwenwynwyd ef, a doded ar yr offeiraid na phriodynt heb fyned yng nghennad y Pab, ac o hynny y bu Terfysc dirfawr ym mhlwyf Teilaw oni farnwyd yn oreu cennad priodas i'r offeiraid.

Yr un flwyddyn bu farw Rhydderch Escob Dewi, a Chadwallawn ab Owain ab Hywel ab Cadell, ac y gwnaethwyd Monachlog y Rhydau.



Oed Crist 962, y diffeithiwyd Gwynedd gan Edgar Brenin a Saeson, ac y dodes ef Gwŷr Denmarc yn ynys Fôn, lle y gwledychasant er gwaetha Gwyr y Wlad.

Yr un flwyddyn y daeth Edgar hyd yng Nghaerllion ar Wysg, ac y trefnwyd heddwch cadarn rhyngtho a Morgan Tywysawg Morganwg ac ammod i Forgan dalu canmuw gyflith i Edgar bob blwyddyn ac am hynny ymrwymaw i Edgar gyfnerthu Morgan ym Mraint Teyrnedd Morganwg, ac yno y daeth Owain ab Hywel Dda, ac ymrwymaw o honaw dalu cedi i Edgar bob blwyddyn yn ol y doded ar Dywysawg Dinefwr yng Nghyfraith Hywel Dda, gwedi hynny myned i Wynedd a chael attaw Iago ab Idwal a gyrru arnaw yn lle Teyrnged a ddylit o hên ddeddf Trichanpen blaidd yn y flwyddyn, a rhydd lle mynnynt eu lladd yn holl ynys Prydain ac o hynny y cad heddwch yng Ngwynedd: a'r Deyrnged honno a dalwyd yng Ngwynedd dros bum mlynedd a deugain hyd nas gellid Blaidd yn holl ynys Prydain. Gwedi hynny y troes Brenin y Saeson y Deyrnged yn aur ac ariant a gwartheg fal y buasei gynt.

Oed Crist 966, y lladdwyd Rhodri ab Eidwal y gan Wyddelod Môn, ac achaws hynny y diffeithwys Iago ab Eidwal Aberffraw lle ydd oedd y Gwyddelod yn gwladychu ac ef ai laddes hwynt yn eu holl anneddffaoedd ym Môn, ac nis gallasant fyth wedi hynny ymluyddu yn erbyn y Cymry, gwedi hynny myned hyd yn Arfon, a Lley, ac Ardudwy, a gyrru'r Gwyddelod, yn gwbl o'r Gwledydd hynny ac nis gallwyd Cenedl o honynt fyth wedi hynny yng Ngwynedd: a llawer o honynt a ffoasant hyd yng Ngheredigion, a Dyfed, a Gwyr, ac Einion ab Owain ab Hywel Dda a aeth yn eu herbyn, ac au gorchfyges yn aruthrawl, ac a laddes Wyr Denmarc a ddaethant yng Nghyfnerth y Gwyddelod, ac a ddyges Ysbail fawr o'r Gwledydd yng nglann Morddwr Llychwr, ac yn niwedd yr un flwyddyn y daeth ef ailwaith hyd yng Ngwyr, ac y diffeithwys dai a thiroedd y rhai a roddasant nawdd a gwasgawd i'r Gwyddelod a'r Daeniaid anffyddlaw.

Oed Crist 967, y daeth Einion ab Owain ailwaith i Dir Gwyr dan rith ymlid yr anffyddloniaid, ac ai diffeithwys yn gwbl, ac yna y daeth Owain ab Morgan yn ei erbyn ac ai gyrres yn ffo, ac a ddug holl wyr Gwyr dan ddamdwng iddaw, fal ag ydoedd a hen iawn a baint a phan glybu Edgar Brenin y Saeson hynny, dyfod a Llynges hyd yng Nghaerllion ar Wysg a

orug, a gyrru Llywodraeth ar Owain ab Hywel Dda, ai ddwyn yn wr damdwng iddaw, a gwedi hynny myned yn heddwch yn ei ol hyd yng Nghaer Odornant.

Yn yr un flwyddyn ydd ethyw cas dirfawr rhwng meibion Idwal, sef Iago ac Ieuau, ac yn ebrwydd wedi hynny y daliodd Iago ei frawd Ieuau ac ai dug yng Ngharchar ac ai dallawdd a hëyrn llosg o dan, ac achaws hynny ydd aeth Hywel ab Ieuaf yn erbyn ei Ewythr Iago ac a ddifeithiodd ei diroedd ac a ddug ysbail dirfawr o iarnaw.

Oed Crist 968, ydd aeth Hywel ab Ieuaf yr ail waith yn erbyn Iago ei ewythr, a chydag ef lu dirfawr o Saeson, a diffeithiaw Lley, a Môn, a doddi Saeson yn holl diroedd Iago, a chadarnhau y tiroedd hynny iddynt, a hauped gwaeth i ynys Fôn o hynny, can nas galled ei gwared fyth wedi hynny, ac achaws hynny y doded enw Anglisei ar ynys Fôn, sef hynny ynys y Saeson; a gyrru Iago ab Idwal ar ffo a wnaethpwyd, ac y cymmerth Hywel ab Ieuaf y Deyrnedd arnaw, achaws delli ei Dad, ac a daliodd Feuryg ei ewythr ac a dynnodd ei lygaid am ei waith yn dallu Ieuaf Tad Hywel.

Yr un flwyddyn y daeth Macht ab Harallt i ynys Fôn ac a ddifeithwys Benmon lle ydoedd deccaf cyn no hynny yn holl ynys Fôn, ac ebrwydd wedi hynny y daeth Gotffrid ab Harallt yn erbyn ynys Môn ac ai diffeithes, ac Edgar a roddes gennad i wyr Gotffrid aros ym Môn yn gyfanneddawl ac ymunaw yno a gwyr Edwin a wnaethant yn un ormes, ac nid aethant fyth o honi, ac nis gellid fyth gwedi hynny gwared brad o'r ynys, ac Edgar yn gweled fal ydoedd dyfod a orug a llu dirfawr i Gaerllion Gawr, a myned yn erbyn gwyr Iago au lladd yn greulawn yn holl Gymru.

Oed Crist 972, y bu farw Edgar Brenin y Saeson, yr hwnn a wnaethai Fonachlog Bangor fawr, a llawer o Fonachlogydd eraill yng Nghymru a Lloegr, ac a wnaeth Iawn i Eglwyseu Cymru am a wnaethai efe iddynt o ddrwg yn ei Ieuencid.

Oed Crist 975, ydd aeth Dunwallawn Brenin Ystrad Clud i Rufain lle y cymmerth Gorun, a'r un flwyddyn y bu farw Idwallawn fab Owain a Brawd Morgan Mawr Tywysawg Morganwg, gwr oedd efe a garai heddwch a Llywodraeth, ac yngneidiaeth gyfiawn, ac a beris adnewyddu trefn a llywodi aeth gynnefodawl yn ei wlad, a chys-tal ei ddeall a'i wybodau ai haelioni, fal y bu galar i bob Gwlad yng Nghymru ei farw

Oed Crist 976, y dug Einion fab Owain anraith yr ail waith ar Wlad Gwyr, ai hysbeiliaw ai diffeithiaw yn greulawn onid aeth newyn ar y wlad, ac Ithel ap Morgan Mawr a ddug Lu yn ei erbyn o'i wyr goreuon ai ymlid i ffo a wnaethant, a dwyn ei ysbail oddiarnaw, ai roddi'n rhaid y rhai a ysbeiliwyd ganthaw.

Oed Crist 978, ydd aeth Hywel ap Ieuan waith arall yn erbyn ymddifferyn Iago ei Ewythr, a chydag ef lu mawr o Saeson, ac anrheithiaw Lley'n a Clebynog fawr a wnaethant, a thorri yr Eglwysi yn aruthr, a dilygeidiaw llawer o gymmbleiddiddion Iago, a diffeithiaw yn greulawn.

Yr un flwyddyn y dalwyd Iago gan wyr Hywel ei nai, a Hywel a wladychwys ei gyfoethu; a gwedi hynny y lladdwyd Idwal Fychan ab Idwal Foel, a diffeithiaw Lley'n ac ynys Fôn, a Chystenyn ab Iago ab Idwal a ddaeth i Fôn, a chydag ef lu o'r Daeniaid duon, a chydag ef y codasant y Saeson a'r Daeniaid a wledychynt yr ynys a diffeithiaw'r wlad honno yn dost aruthrawl, a Gotffrid ab Harallt a Chystenyn a aethant oddiyno hyd yn Lley'n, a diffeithiaw'r wlad honno hefyd yn yr un modd, ac yn eu herbyn y daeth Hywel ab Ieuf, a chad dost a fu ryngddynt, ac yno y llas Cystenyn ddu yng Ngwaith Hirbarth.

Oed Crist 980, y daeth Hywel ab Ieuf a Llu mawr o'r Saeson gydag ef i gyfoethu Einion ab Owain ab Hywel Dda, ac y bu ymladd tost ryngthynt ym Mrwydr Llanwenawc, a Gotffrid ab Aarallt yn gweled hynny a ddaeth ai Lu hyd yn Nyfed ac ai difeithiasant, ac a dorrasant Eglwys Ddewi Mynyw.

Oed Crist 981, y daeth Hywel ab Ieuan ai Lu, a chydag ef Lu mawr o Saeson i Frecheiniawc, a holl gyfoeth Einion ab Owain, ac a ddifeithiasant y Wlad yn greulawn, ac yn eu herbyn y daeth Einion, ab Owain a gwyr Dyfed ac a laddasant y Saeson a lladdfa dost; ac eraill o honynt a ffoasant, ac yn eu ffo y lladdwyd llawer llawer o honynt.

Oed Crist 892, ydd aeth Einion ab Owain ab Hywel Dda hyd yng Ngorwenydd ac y bu waith Pencoed Colwynn, lle y gyrrwyd ffo ar Einion ai wyr hyd yng Nglan y Mor, lle bu Cad yn eu herbyn gan Wfr Morganwg a Gwent, ac yn honno y llas Einion ab Owain, ac yna ydd aeth y Deyrnedd ar Faredydd ab Owain ab Hywel Dda.

Oed Crist 984, ydd aeth Hywel ab Ieuan i Loegr yn erbyn y Saeson a fuant yn ymladd ym mhlaid Iago ei Ewythr, ac

yna y llas ef a llawer iawn oi wfr; ac yna y cymmerth Gadwallawn ab Ieuan arnaw Lywodraeth holl Wynedd, ac yn ei erbyn y daeth y Saeson a'r Gwyr Duon, ac yn eu penn Ionafal ab Meuryg ei gefnder, ac yno y llas Ionafal.

Oed Crist 985, y dug Maredydd ab Owein ab Hywel Dda Gad fawr ganddaw i Wynedd, a brwydr a fu yno ryngtho a Chadwallawn ab Ieuan ai Frawd Meuryg, ac yno y llas Gadwallawn, ac y dug Faredydd Wlad Wynedd danaw ac a lywodraethawdd arni, ac a ddoddes Lywodraeth ar Fôn, ac Arfon, a Meirionydd, lle nid oed Llywodraeth ddyledus wedi bod er yn hir o amser.

Yn yr un flwyddyn y dug Bleidyddion Ieuf ab Idwal Gotffrid ab Harallt y drydy waith i Fôn, a chydag ef y gosodasant y Cymry a'r Daeniaid ar Lywarch ab Owain, Brawd y Tywysawg Maredydd, ac ai daliasant a dwy fil o'i wyr, ac a dynasant eu llygaid o'u pennau; a'r flwyddyn honno y bu farw Ieuf ab Idwal yng Ngharchar, lle y bu yn unig lawer blwyddyn wedi ei ddilygeidiaw, a gwedi hynny gorfu ar Faredydd ab Owain ffoi o Wynedd i Geredigiawn lle y bu mawr a thaer ei wroldeb yn amddiffyn ei gyfoeth yn erbyn cyrch y Daeniaid, a'r Saeson, a Gwyr Gwynedd.

Oed Crist 986, y bu farwolaeth fawr ar yr ysgrublaid yn holl Gymru, onid aeth Drudaniaeth mawr ar yr enllyn yn y Wlad: a'r un flwyddyn y llas gwyr Daenmarc gan y Saeson yn un noswaith oni chaed arny y llaw uchaf dros hir o amser wedi hynny, a'r flwyddyn honno daeth y Daeniaid duon i For Hafren mewn Llyngeseu, ac a ddaethant i Dir yng Ngherniaw a Dyfnaint a Gwlad yr Haf, ac a diriasant yng Ngwyr ac yno llosgi Cor Cennydd ac eraill o'r Eglwysau, ac ysbeiliaw gwfr y Wlad.

Oed Crist 987, daeth y Daeniaid i foroedd Deheubarth, a dyfod i Dir yng Ngheredigion, a diffeithiaw Llanbadarn, a Llandydoch, a Llanrhystud, a gwedi hynny myned hyd ym Mynyw a diffeithiaw yr Eglwys a dwyn ei thlsau, ac wedi hynny myned ar hyd for Hafren hyd ym Morganwg a diffeithiaw Cor Ildud, a Chor Cattwg, a Chor Cyngar, a Llan Daf, ac eraill o'r Eglwysi goreu yn y Wlad, a hefyd llosgi ydau a lladd ysgrublaid onid aeth newyn angerddawl ar y Wlad, ac y bu farw llawer o ddynion achaws hynny.

Oed Crist 990, ydd aeth Maredydd ab Owain i Faeshyfaid a holl gyfoethu Arglwyddi y Saeson rwnng Gwy a Hafren, ag Edwin ab Einion a ddaeth attaw a chydag

ef ydd oedd Llu mawr o Saeson a Daeniaid, ac ymladd a Mareddydd ai yrru ar ffo. Oet Crist 991, y daeth Edwin ab Einion ni wyr, ac yn borth iddaw Adelff Tywysawg o Sais a chydag ef Lu dirfawr, ac anrheithiasant holl diroedd Mareddydd, sef Ceredigiawn, a Dyfed, a Mynyw, y Gwyr isaf, a Chedweli.

Yr un flwyddyn ac amser ydd oedd Mareddydd yn anrheithiau Cyfoeth Ithel ab Morgan Tywysawg Morganwg, ac yn heddychu rhwng Edwin a Mareddydd a myned 'au holl nerthoedd ac anrheithiau Gwlad Forgan yn aruthrawl, ac yna Hywel ab Morgan brawd Ithel a ddangosoes ei ewyllys i wyr y wlad, ac y gofhaenai efe hwynt lle bai onid dau a ddelai gydag ef, ac ar hynny ymgynnullasant bobl y wlad attaw yn wyr ac yn wragedd, ac yn feibion ac yn ferched, pob un ag arf a geffid wrth law, ac yn erbyn Mareddydd ac Edwin a gyrru ffo arnynt a dwyn oddi arnynt eu hysbail, a ladd eu gwyr yn dost yng Ngwaith Cors Einion yng Ngwyr, lle y llas Gadwallawn fab Meredydd.

Oed Crist 993, bu newyn mawr yng Nglyfoeth Meredydd, a llawer o farw ar ddynion o haint y Saeson, sef yr haint chwynslyd.

Yr un flwyddyn y daeth y Daeniaid Duon i Ynys Fôn, ac a ddiffeithiasant yr holl ynys fal y mynnant, canys nid oedd ar Wynedd yr amser hynny na Phenn na Pherchen, na Llys na Llywodraeth, na neb a safai yn mblaid y wlad rhag estron ac anrhaith, am hynny y cymmerasant y Cymry attynt Idwal ab Meuryg, ac ai dodasant yn Dywysawg arnynt, ac y cawsant borth gan Ithel Tywysawg Morganwg, a gyrru ffo a lladdfa fawr ar y Daeniaid a wnaethant, ac Idwal a fu'n Dywysawg clodfawr a chyfiawn, ac a wnaeth lywodraeth ar Wynedd, a threfn a weddai ar heddwoch a rhyfel, canys ef a ddysged gan Hywel ab Morgan Mawr, ac efe yn Benn Doethlion Cymry yn y Gwybodeu a ddylai Tywysawc eu deall au cynnal, tra fu efe ar ffo yn Llys Ithel Tywysawg Morganwg, ac yn nawdd Cor Llanfeithin yn Nant Garfan, a mynych y torred y Gor honno yn amcan ei ddal a'i ladd gan Einion ab Owain a Mareddydd ab Owain, a chan y Daeniaid a'r Saeson.

Yn yr un flwyddyn y bu frwydr Llan-gwm, lle ydd amcanai Feredydd ab Owain adynnil Gwynedd, ac Idwal a orfu arnaw, ac yn y frwydr honno y llys Tewdwr ab Einion ab Owain ab Hywel Dda, nai mab brawd i Faredydd.

Oed Crist 994, y daeth Swaen ab Harallt a'r Daeniaid duon gydag ef i Wynedd lle y bu cad Penmynydd yn Môn, y lle y llas Idwal ab Meuryg Tywysawg Gwynedd. Ac y diffeithwyd Matharn gan y Saeson, ac hwy ai llosgasant.

Yr un flwyddyn y bu farw Mareddydd ab Owain ac o hynny y cafwyd gwell byd am heddwoch a llywodraeth yng Nghymru.

Yr un flwyddyn y bu farw Ithel Tywysawg Morganwg ac yr aeth Gwrgan ei fab yn ei le, a Thywysawg doeth heddychgar ydoeth efe, ond Iestyn ei fab a garai aflywodraeth, ac a fynnai ryfel ac anheddwch, ac yn y flwyddyn honno y priodes ef ferch Bleddyn ab Cynfyn Tywysawg Powys ai henw Denis, ac efe a gafas gan Wrgan ei Dad Gwmmwd Tref Essyllt, ac yno y gwnaeth ef Gastell, a dodi arnaw enw Denis Powys, ac a gymmerth attaw Aedd-an ab Blegywryd ab Morgan Mawr, ac a fwriadasant Ryfel er ynnill Cyfoeth Mareddydd ac ymbarottoi Gwyr at hynny, a danfon a wnaethant at y Daeniaid au gwahawdd i Geredigion, ac yno a daethant ac y llosgasant Arberth. Ar flwyddyn honno hefyd y priodes Llywelyn ab Seisyllt Arglwydd Maes Essyllt Yngharad ferch Meredydd ab Owain, ac efe yn wr ieuanc nid mwy nac oed pedwar blwydd ar ddeg.

Oed Crist 996, y daeth y Daeniaid i Ddyfed o gyngor a phorth Iestin fab Gwrgan, ac Aedd-an ab Blegywryd, ac a losgasant Fynyw, ac a laddasant Forganeu Escob Dewi.

Oed Crist 1000, y dug Aedd-an ab Blegywryd Gad hyd yng Ngheredigiawn, ac ynnill Cyfoeth Mareddydd a orug; herwydd nid oedd Llywelyn ab Seisyllt hyd yn hyn yn oed Gwr i gael Braint ar Gyfoeth Yngharad ei Wraig, a myned hyd yng Ngwynedd y mynnai Aedd-an, ac yn ei erbyn ef y daeth Cynan ab Hywel, a bu Cad ar Faes ryngthynt lle gorfu Aedd-an, ac o hynny ynnill Gwlad Wynedd ai Chyfoetheu. Gwedi ynnill o Aedd-an holl Gymru o'r Mor beuglydd, efe a beris drefnu Llywodraeth a Chyfreithiau, ac adgyweiriaw Eglwysseu a Chorau a dorresid yn Rhyfel, a chan nad oedd iddaw fab efe a drefnwys yn etifedd iddaw Rydderch fab Iestin ab Gwrgan.

Oed Crist 1001, bu farw Morgan Mawr Tywysawg Morganwg yn ddifawr ei oedran, nid amgen na chanmlwydd a naw mlwydd ar hugain, a gwedi gadael ei Fraint yn nwyllau ei feibion ai wyron yn hir o flynyddau cyn ei farw achaws benaint ac anallu; efe a gladdwyd dan allawr

Deilaw yn Llan Daf, a chystal ei gariad yn ei wlad a chymmaint ei glod am Ddoethineb fal pan elai yn rhyfel nid oedd a arhosai gartref ac nad elai yn ei Lu nac o wr nac o fab a fedraï afael ar Arfau, eithr mwy a fynnai gynnal yn heddwch nac yn rhyfel ac eissoes ni chaid o wrol ei wrolach, ac efe a fu lwyddfawr ei orchwyl a doeth ei gynghyd a chyfiawn ei ymgais, a mawr ai carai Edgar Brenin y Saeson, achaws hynny rhai o'r Tywysogion eraill nis cerynt ef, lle nid oedd a wnai well erddynt, nac erddynt Genedl y Cymry, a chymmaint addwynder ei Lys yn ail i Lys Arthur onid aeth hynny yr ddiarhebiion gwlad a chenhedl, ac y dywedir Mwynder Morganwg, ac Addwynder Morganwg.

Oed Crist 1015, a Llywelyn ab Seisyllt yn ei lawn oedran, efe a feddylies ynnill Cyfoeth Dinefwr a ddylyssid o Frainit iddaw ef oi wraig, canys iawn iddi oedd Cyfoeth ei Thad Meredydd ab Owain, ac Aeddau a ddodai hawl ei fod yn etifeddu o hen Frenhinoedd Cymru nid amgen na Bran ab Llur Llediaith ai Welygordd, a rhoddi Cad ar Faes a wnaeth Llywelyn ab Seisyllt, ac yn honno y llas Aeddau ab Blegywryd ai bedwar Nai, ac yna cymmerth Lywelyn ab Seisyllt y Lywodraeth arnaw, ac efe a gerai heddwch a chyfiawnder, ac yn ei amser ef y bu Gwlad Gymru dros ddeuddeg mlynedd yn ddiryfel, ac ydd aethant y Cymry yn gyfoethawg, dros benn a fu arnynt er yn hir o amser ac oesoedd, a gwedi hir Lwyddiant.

Oed Crist 1020, y bwriadawdd Meuryg ab Arthfael ab Blegywryd adynnill Teyrnedd Cymru oddi ar y Tywysawg Llywelyn ab Seisyllt, a rhoi Cad ar Faes, a gorfu Llywelyn, gan ladd Meuryg ab Arthfael ai gledd ei hūnan.

Oed Crist 1020, ydd ymddangoses Crwydriad o Ddyn Ysgottyn, a alwai ei hun ar Enw Rhun i wyr Deheubarth gan ddywedyd mai mab Mareddydd ab Owain ab Hywel Dda ydoedd ef, a rhai ni cher-ynt Lywelyn ai dodasant yn Dywysawg arnynt, a doddi Cad ar faes a wnaethant, a myned yn ei erbyn a wnaeth Lywelyn, a bu brwydr yn Abergwili, lle gwedi lladdfa drom a dirwaedlyd o bob tu y lladdwyd Rhun. Yna myned i Wynedd a wnaeth Llywelyn, a gosod yn iawn yno, a haeddu cariad ei wlad ai Genedl yn ddirfawr, gwedi hynny daeth i Ddeheubarth lle ydd oedd mawr ei Gariad.

Oed Crist 1021, daeth Eulaff i ynys Prydain gan ddrygu ffordd y cerddai, a dyfod hyd ym Mynyw, a thorri'r Eglwys

a diffeithiaw Dyfed yn greulawn, a Hywel ab Seisyllt, brawd Llywelyn ab Seisyllt a aeth yn eu herbyn, ac efe a lladdwyd yn y frwydr honno. Yna daeth yr Ysgottiaid i Gaerfyrddin a chydag hwynt Hywel a Mareddydd meibion Edwin ab Einion a llu mawr o Wyr, ac yn eu herbyn Llywelyn ab Seisyllt a Chynan ab Seisyllt ai feibion, a gyrru ffo ar Auluff, a gwedi hynny; y llas yno Llywelyn ab Seisyllt. A mab iddaw a elwid Gruffydd ar ei ol a fu Dywysawg Gwynedd. Gwr oedd Llywelyn ni wnelai Ryfel, nac ymladd namyn yn erbyn ai gwelai yn ei erbyn.

Gwedi marw Llywelyn ab Seisyllt y cymmerth Rhydderch ab Iestin attaw lywodraeth Deheubarth megys iawn iddaw, ac efe'n etifedd Aeddau ab Blegywryd.

Oed Crist 1023, bu farw Morgynnydd Escob Dewi, a Bledri Escob Teilaw Ysgolhaig pennaf Gwlad Gymru, achaws hynny y gelwid ef Bledri ddoeth, a chystal y carai wybodau fal y dodes ar yr offeriaid gynnal addysg Llyfrau Llên bob un yn ei Eglwys, mal y gwyppai bawb a ddylynt parth Duw a dynion.

Yr un flwyddyn y priodes Yngharad gweddw Llywelyn ab Seisyllt a Chynfyn ab Gwerystan Arglwydd Cibwyr.

Oed Crist 1029, daeth yr Ysgottiaid ar hyd y mor i Diroedd Gwrgan ab Ithel Tywysawg Morganwg, ac yn eu herbyn Gwyr y Wlad, fal au lladdwyd gymmaint yng Ngwaith Toniwlwg onid oedd y gwaed hyd egwyddedau'r meirch ar bychandaud ni laddwyd o honynt a ffoasant hyd Fôr i wlad yr Haf.

Oed Crist 1030, y gwelwyd goleuni rhyfeddawl yn yr wybren hyd nos onid oedd golau fal dydd. Y flwyddyn honno y peris Ioseb Escob Teilaw na wnelid na gwaith na gorchwyl ar y Sulau ar Gwyliau, ag a wnaeth i'r offeriaid ddydsu darllain yr ysgrythyr lan heb dal heb ged, ac na wnelynt ac ymrysonau.

Yr un flwyddyn y bu farw Gwrgan Tywysawg Morganwg, Gwr doeth heddychgar ydoedd, ac a wnaeth lawer o eluseni, ac a roddes diroedd i'r Tylodion dros fyth, ac a ddodes nawdd a braint i bob gwr a lafuriai dir er dwyn yd a ffrwythau, sef gair iddynt ymhob cynnadd Gwlad, ac nas gellid swydd arnynt o anffod, ac efe a gymmerth attaw yn borth iddaw Hywel ab Morgau Hen ei ewythr Brawd Tad gan ei ddoethed fal y gallai yn well o hynny lywodraethu yn heddwch a chyfiawnder. Ac yna wedi marw Gwrgan y cymmerth Hywel y Lywodraeth yn gwbl attaw ei

hun, ac Iestin ab Gwrgan a fynnai hynny, ond nas gallai fedru ar hynny gan anfodd Gwlad, canys cyuddrwyg ei gampau ydoedd fal nas cerid gan neb a gaid yn wŷr da diargywedd.

Oed Crist 1031, y llas Rydderch ab Iestin gan yr Ysgodogion Gwyddelig a ddygwyd i Ddeheubarth gan Hywel ab Edwin ab Einion ab Owain ab Hywel Dda, ai frawd Meredydd, felly cawsant Hywel a Meredydd adfeddu Tywysogaeth Deheubarth.

Yn yr un flwyddyn y dodes Iestin ab Gwrgan gad ar faes yn erbyn Hywel a Meredydd ymhlaid meibion Rhydderch ab Iestin ei fab, ac iddynt lawer o geraint yn eu plaid, ac y bu waith Traethrwy, lle gyrwyd ffo ar Iestin a meibion Rhydderch; a'r flwyddyn ar ol hynny y bu waith Machwy lle y llas Meredydd ab Edwin gan feibion Cynan ab Seisyllt brawd Llywelyn ab Seisyllt, er dial galanas eu hewythr, ac ymhen ychydig wedy hynny y daeth y Saeson i Went, ac yn eu herbyn Caradawc ab Iestin lle y llas ef; yna daethant y Saeson i Forganwg, ac y bu waith Ystradywain lle y lladdasant Gynan ab Seisyllt ai holl feibion, yna daeth Rhotpert ap Seisyllt, Arglwydd Maes Essyllt a brawd Cynan ab Seisyllt, ir frwydr, ac annog y Cymry drwy son am a wnaethant gynt; yna myned yn erbyn y Saeson, ac yng Ngwaith Llan Cwywan eu lladd yn flin, au gyrru ar ffo o gwasgar, a dwyn yn ysbail oll a feddnt, yna heddychwyr rhwng Iestin ab Gwrgan a Rhotpert ab Seisyllt. A merch oedd i Rhotpert ab Seisyllt ai henw Arddŷn o Efliau ferch Gwrgeneu gwraig gyntaf Rhotpert, ac unid blentyn o'r wraig honno, ac anwyl iawn ydoedd ganthaw, ac Iestin ai ceisiodd yn wraig iddaw gwedi marw Denis ferch Bleddyn ab Cynfyn ei wraig gyntaf, a hynny nis cai o fodd ei Thad gan ei hyned Iestin; yna gwiliaw wrthi a wnaeth Iestin, ai gordderchu o drais ac anfodd, yn unweddi ac a wnaethai ag eraill o ferched Pendefigion, a blin iawn y bu gan Rhotpert hynny, ac er dial ar Iestin, efe a wahoddes attaw Ruffydd ei nai, ac ai annoges yn erbyn Iestin ab Gwrgan, a chynnull attaw lawer o wyr a wnaeth Gruffydd, ac yng nghyntaf myned yn erbyn Hywel ab Edwin a doddi cad ar faes, ac yn honno y gorfu Ruffydd, ac y ffoes Hywel ab Edwin at Iago ab Idwal Tywysawc Gwynedd, yna myned yn erbyn Iago a orug Gruffydd, a chydag ef [Lu dirfawr o wyr dewisawl, a brwydr daer a fy ryngddynt, lle y lladd-

wyd Iago, ac y cymmerth Ruffydd attaw Lywodraeth Gwynedd, ac felly ydd aeth ef yn Frenin ar Gymru o For Udd hyd ym Mor Hafren.

Gwedi ynnill o Ruffydd ab Llywelyn Lywodraeth holl Gymru, efe a ymrodde ar ddaioni tuag at ei wlad ai genedl drwy amddiffyn rhag estron a rhag anrhaith ac aflywodraeth, a deddfu a fai deg a chyfiawn, a gwared rhag cam.

Oed Crist 1037. bu Waith Pencadair rhwng Hywel ab Edwin a Gruffydd ab Llywelyn, a gorfu ar Hywel ffoi, a'r uu flwyddyn y bu waith Rhyd y Grog ar Hafren, lle y gorfu Ruffydd ar y Saeson au gyrru ar ffo.

Oed Crist 1038, y bu waith Llanbadarn lle y gorfu Ruffydd ab Llywelyn ab Seisyllt ar Hywel ab Edwin, ac y dug oddi-arnaw ei wraig ac ai cedwis yn ordderch iddaw, a thyna'r unig weithred, o'r holl weithredoedd a wnaeth Ruffydd, a beris anfoddlondeb i'r Doethion.

Oed Crist 1040, y bu waith Pwll Dyfach rwng Gruffydd a Hywel, canys Hywel a ddaeth y drydedd waith i Ddeheubarth, ac yn ei blaid lawer o'r Daeniaid duon, a Gruffydd yn eu herbyn, a gyrru ffo arnynt, ac yn osgil y rhai hynny y daeth llu arall o Ddaeniaid a Saeson gan ddiffeithiau Dyfed yn greulawn, a Hywel ai wyr yn eu ffo a gyfarfuant ag hwynt ac au hymldiasant yn galed gan eu lladd a'u dal, ac eraill a ddianghasant yn ol iddeu longeu.

Oed Crist 1042, a daeth Cynan ab Iago ab Idwal i Wynedd o'r Werddon a llu mawr ganthaw i Wynedd, a dal y Tywysawc Gruffydd ab Llywelyn, a chodi arfau a wnaeth Gwŷr y Wlad ac achub y Tywysawc o ddwylaw y Gwyddelod, au gyrru'n ol i'r Mor yn fawr eu colled.

Oed Crist 1043, y bu dwyll a brad rwng Hywel ab Edwin a meibion Rhydderch ab Iestin ac a laddasant gant a hanner o wyr ffyddlonion Gruffydd ab Llywelyn ab Seisyllt yn Ystrad Tywi yn oreu-gwyr y Wlad honno.

Yr un flwyddyn y bu Eira dirfawr ar Galen Ionawr, ac ni thoddes dan wyl Badric, ac y colled llawer o'r ysgrublaid.

Yr un flwyddyn y bu farw Hywel Arglwydd Morganwg yn gant a dengmlwydd ar hugain oed, y gwr doethaf o Dywysawg yng Nghymru oedd efe, a goreu ei gariad gyda phawb oi genedl, ac efe a garai heddwch a phob cyfiawnder, ac yn ei le y doded Iestin ab Gwrgan, a gwaethaf oedd efe a welwyd erioed o Dywysawg yng Nghymru, ac ni charai efe na heddwch na chyfiawn-

der, ac ni wnathoedd erioed nas dygai ormes a chribddail ar ei wlad ai genedl, achaws hynny ni chafas ai cyfnerthai, lle caid a fai yn ei erbyn, o ddoeth a deddfawl.

Yr un flwyddyn y llas Hywel ab Edwin yng Ngwaith Abertywi gan Ruffydd ab Llywelyn gwedi ymladd caled.

Yr un flwyddyn y bu farw Ioseb Escob Teilaw Gwr tra doeth, a duwiawl, a dysgedig, efe a wnaeth Drefn dda ar wyliau Mabsant, sef nas caid amgen na gweddiaw Duw, a dangos daioni, a gwneuthur elusenau arnynt, a chyunal cof-dyledus am Dduw ai Saint, au gweithred-oedd moleidiw.

Oed Crist 1050, y dug Ruffydd ab Llywelyn Lu dirfawr o Gymru a Gwyddelod yn erbyn y Saeson, a doddi cad ar faes yn Henffordd, a gorfu Ruffydd ar y Saeson gwedi ymladd caled, a lladd a llosgi dirfawr.

Yr un flwyddyn y daeth Caradawc a Rhys dau fab Rhydderch ab Iestyn a llu mawr o wyr Morganwg a Gwent yn erbyn Gruffydd ab Llywelyn er ynnill oddiarnaw Lywodraeth Deheubarth, a Gruffydd yn eu herbyn, ac ymladd a fy ryngddynt annhebig i a fu erioed namyn y Gad Gamlan, a lladdwyd cymmaint o bob plaid oni orfu ar y ddau Lu ymchwelyd yn eu hol heb a ellid ei alw yn ynnill i nac un na'r llall o honynt, a gwaedlytted yr aerfa ryngddynt, a thra buant feibion Rhydderch ab Iestyn yn nghyrc h y frwydr honno dyfod a wnaeth y Saeson o Wlad yr Haf a llosgi cestyll Caradawc, ab Rhydderch ab Iestyn, sef Dindryfan a Threfufered ym Morganwg, a dwyn ysbail anfeidrawl yn yd, a gwartheg, a defaid, a daoedd o bob rhyw a gefynt, a llosgi a thorri tai, a diffeithiaw yn aruthrawl, yn erbyn heddwch ac oedd drefnedig a chadarn a dam-dyngedig rwng Tywysawg Morganwg a Brenin ac Ieirll y Saeson.

Yn yr un flwyddyn y daeth Cynan ab Iago a llu dirfawr oi Genedl o'r Werddon ar oddeu Gwynedd, ac ynnill ei gyfoeth oddiar Ruffydd ab Llywelyn, ac fal yr oeddynt ar y mor tua Chymru y daeth gwynnygeu temhestlus oni foddos y llongau ar gwyr gan mwyaf, ac yng nghylch yr un amser y daeth rhai o wyr Gwent a Morganwg i Ystrad Tywi a chael yno rai na charent Ruffydd ab Llywelyn, ac a chwentyhent ymddyweddu a Charadawc ab Rhydderch, hwy a laddasant lawer o ffyddlonion Gruffydd ab Llywelyn, ac ysbeiliasant ereill yn dost, yna dyfod a wnaeth

Ruffydd yn eu herbyn, a diffeithiaw Dyfed, ac Ystrad Tywi, a Gwyr, yn aruthrawl.

Oed Crist 1056, ydd aeth Rhys ab Llywelyn ab Seisyllt, brawd y Tywysawg Gruffydd i Forganwg a Gwent, gan ladd a diffeithiaw gyfted ac y cerddai, a gwyr y wlad a ddygasant gyrch yn ei erbyn, ai yrru hyd ym min y Mers ai ddal ai fyrhau o benn, a danfon y penn at Edwart brenin y Saeson hyd yng Nghaerloyw lle ydd ydoedd y pryd hynny.

Oed Crist 1057, daeth Gruffydd ab Rhydderch ab Iestyn yn oed gwr ac a gynnnullwys lu niferawg iawn, a myned yn erbyn Gruffydd ab Llywelyn tywysawg Gwynedd a bu cad ar faes ac ymladd trwch a gwaodlyd ac y llas Ruffydd ab Rhydderch.

Yr un flwyddyn cyfunawdd Algar iarll Caerllion Gawr a'r tywysawg Gruffydd ab Llywelyn a rhyngddynt cynnull llu dirfawr a myned yn erbyn y Saeson lle ydd oedd a elwid Rhanwlff yn dywysawg arnynt yn y Mers, ac yn y frwydr honno y gorfu Ruffydd a gyrru ffo ar y Saeson, ai hynlid yn galed hyd yng Nghaer Henffordd, a myned i galon y dref ar eu hol, au lladd yn ddiarbed, onid oedd na cheffid byw o ddyn yn yr holl dref, ac efe a ddog ysbail ddirfawr oddiyno, ar goreugwyr arbededig y dug yng ngharchar.

Yr un flwyddyn ydd aeth Edwart frenhin yn erbyn Gruffydd ac Algar hyd yng Ngwynedd lle bu cad ar faes, a gorfu Ruffydd ar y Saeson yn anrhydeddus yna clybu efe am y diffeithiaw yn Neheubarth gan eraill o'r Saeson, a myned yn eu herbyn au gyrru ar ffo cywilyddus.

Oed Crist 1059, daeth Macht ab Harallt i Gymru a llu dirfawr yn ei osgordd, a'r tywysawg Gruffydd a Macht yn ymglyfyn eu lluoedd a aethant yn erbyn y Saeson, ac a ddiffeithiasant wlad Loegr hyd ym mhell yn ei herffed; a dychwelasant yn ol i Gymru ac ysbail fawr ganddynt.

Oed Crist 1060, bu farw Owain ab Gruffydd ab Rhydderch ab Iestyn oi wenywaw; yna Caradawc ab Rhydderch ab Iestyn a gyfloges Harallt i ddyfod a llu ganthaw i Ddeheubarth, yna yn un a llu mawr o wyr Morganwg a Gwent ydd aethant yn erbyn Gruffydd, yr hwn a ddaethai a llu mawr iawn ganthaw o wyr Gwynedd, a Phowys, a Deheubarth, a bu cad ar faes lle ai lladdwyd drwy frad a thwyll Madawc Min escob Bangor, yr un ac a wnaeth y twyll o ba un y lladdwyd ei dad Llywelyn ab Seisyllt. Gwedi lladd

Gruffydd ab Llywelyn ef a dorwyd ei benn ac a dyged yn anreg i Harallt. Oed Crist pan fu hynn oedd 1061; ac fel hynny y colles Ruffydd ei fywyd, ac anrhydedd-usaf oedd efe ai dad o'r holl dywysogion a fuant hyd yn eu hamser yng Nghymru; a goreu am wroldeb a rhyfel, ac am heddwch ac am lywodraeth ac am haelioni, a chyfiawnder, ac o'u doethineb au deall y dugasant gyfunbeb ar Wynedd, a Phowys, a Deheubarth, fal y gadarn y Cymry yn erbyn y Saeson a phob gelynlion ac estroniaid, ac ni chaid Morganwg a Gwent yn gyfun a hynny achaws gwelyth y gwledydd hynny, nid amgen meibion ac wyrion Iestin ab Gwrgan, er yn amser Aeddau ab Blegwryd Hên, ab Owain ab Hywel o wehelyth Bran ab Llyr Llediaith, a hynny fu'r achaws nas gallasant y Cymry ddadnyll teyrnedd ynys Prydain.

Oed Crist 1062, gwedi lladd Gruffydd ab Llywelyn fe ddoded Mareddydd ab Owain ab Edwin yn dywysawg Deheubarth gan Harallt ac Edwart brenhin y Saeson. Brodyr unfam y tywysawg a las, sef Gruffydd ab Llywelyn, a gawsant Wynedd a Phowys; nid amgen Bleddyn ab Cynfyn ab Gwcrystan arglwydd Cibion a Rhiwallawn ei frawd hwy a ddoded yn dywysogion Gwynedd a Phowys ym mraint etifeddion tywysogion Dinefwr o Gadell ab Rhodri Mawr. Sef etifeddes y dywysogaeth honno ydoedd Yngharad ferch Mareddydd ab Owain ab Hywel Dda, a fu'n wraig bried Llywelyn ab Seisyllt; ac wedi lladd Llywelyn hi a briodes Gynfyn ab Gwcrystan, Arglwydd Cibwyr yng Ngwent, ap Gwaithfoed, ab Gloddien, ap Gwrydr Hir, ap Caradawc, ap Llew Llawddëawg, ap Ednyfed, ap Gwinau, ap Gwaenoc goch, ap Crydion, ap Corf, ap Cynawg, ap Iorwerth Hirflawdd, ap Tegonwy, ap Tëon, ap Gwineu dda i freuddwyd, ab Bywlew ab Bywdeg, ab Rhun-Rhuddbaladr, ab Llary, ab Casnar Wledig brenin Gwent, ap Gloyw Gwlad Lydan arglwydd Caerloyw, ab Lludd, ab Beli Mawr, ab Manogan brenin ynys Prydain.

Ar brodyr hynn, sef Bleddyn a Rhiwallawn a ddugasant deyrnedd gwlad Bowys o wehelyth Brochwel Ysgithrawc, peth nid oedd iawn ei fod.

Yr amser hynn ydd oedd Cynan ab Iago cyfiawn berchen Gwynedd ar gil yn y Werddon, ac nid oedd a elai yn ei blaid yng Nghymru, canys ni cherit ei wehelyth achaws eu creulonderau yn lladd a dilygeidiau a'u gwrthladdent yn eu hannefodoldeb.

Oed Crist 1066, daeth William Dug Normandi yn ormeswr i Ynys Prydain a bu cad ar faes ryngtho a Harallt; a gwedi ymladd tost a chreulawn, y llas Harallt ac y dug Wiliam y deyrnedd o drais a thrawsfeddiant; ac fal hynny y collasant y Saeson Unbennaeth Ynys Prydain, gwedi bod yn ei dal o drais chwechanmlynedd.

Oed Crist 1068, digwyddes anghydfod yng Ngwynedd, sef Mareddydd ac Ithel, meibion Gruffydd ab Llywelyn a ddugasant gad ar faes yn erbyn Bleddyn a Rhiwallawn; er dadennill Gwynedd a ddodesid gan y Saeson o drais oddi wrthynt, ac yn eu herbyn y daeth Bleddyn a Rhiwallawn, a chydag wynt lu dirfawr o Saeson, canys ym Mhowys ydd oedd Saeson yn gwladychu yn heddwch y Cymry yn ogydrif a nhwy, ar ffo rhag gormes y Normaniaid, achaws hynny nid oedd, wrth ag oedd Llu Bleddyn a Rhiwallawn, mawr llu gwyr Gwynedd gyda Mareddydd ac Ithel, eithr gwroldeb ai cynhaliai yn erbyn eu deurif, eithr achos twyll a brad colli'r maes a wnaethant, yno y llas Riwallawn o'r naill du, ac Ithel ab Gruffydd o'r tu arall, a gorfu ar Feredydd ffoi, a Bleddyn ai dilynwys yn drachaled gan ei yrru i'r mynyddoedd yniialaf yng Nghymru, lle y bu farw o newn ac anwyd. A gwedi hynny drwy gyfnerth y Saeson y gwladychawdd Bleddyn ab Cynfyn yn unig frenin Gwynedd a Phowys, a Mareddydd ab Owain ab Edwin drwy gyfnerth Saeson yn dywysawg Deheubarth.

Oed Crist 1069, aeth Caradawc ab Rhydderch ab Iestin, a chydag ef lu cyfnerth o Normaniaid Wiliam Fastardd, yn erbyn Mareddydd ab Owain brenin Deheubarth, a chad drom ar faes a fu ryngddynt lle y llas Mareddydd, ac yna cael o Garadawc dywysogaeth Deheubarth, a'r frwydr honno a elwir Gwaith, Llanfedwy, ac ar lan afon Elerch y mae'r lle y bu'r gâd.

Yr un flwyddyn daeth y Normaniaid i Ddyfed a Cheredigiawn ac ai diffeithiasant yn filain, a Charadawc ab Rhydderch a ddug lu dewisawl o wŷr Gwent a Morganwg a Gwyr yn eu herbyn, a'u gyrru yn ol i'r llongau, a dwyn oddiarnynt eu hysbail, a hynn o waith gwroldebus a ddug i Garadawc lawer a gariad gwŷr Dyfed a Cheredigiawn y rhai cyn no hynny ni charent wehelyth Caradawc

Oed Crist 1070, y bu farw Caradawc ab Rhydderch o glefyd a ddaeth arnaw achaws clwyf a gafas yn rhyfel, a Rhydderch ab Caradawc ab Iestin a gymmerth y lywodraeth yn ei le ef.

Yr un flwyddyn y bu farw Bleuddyd Escob Dewi, ac ydd daeth Sulien yn Escob yn ei le ef, a hwnnw a elwid Sulien ddoeth, ac yr oedd ef yn wr duwiawl a golychwyd-awl.

Oed Crist 1071, y daeth y Normaniaid yr ail ossawd i Ddyfed a Cheredigiawn, ac y eu erbyn Rhydderch ab Caradawc, a'u gyrru'n ffoedigion gyda cholled mawr.

Oed Crist 1072, y daeth Rhys ab Owain ab Edwin o Fanaw lle bu ar gil, ac a gynnullwys lu mawr o wyr Ystrad Tywi a Brycheiniawc, a doddi cad ar faes yn erbyn Bleddyn ab Cynfyn ai ladd, gwedi hynny myned yn erbyn Deheubarth, a danfon cenhadon heddwch yn gyntaf at Rhydderch ab Caradawc, a Rhydderch a gyfarfu ac ef mewn heddwch, a chyttunaw a wnaethpwyd rhoddi cyfran yn Llywodraeth y Dehau i Rys ab Owain, ac o hynny gwared o Ryfel a diffeithiaw gwlad, ac ammod ganddynt i'r olaf ei fywyd y cwbl o'r Dywysogaeth.

Wedy marw Bleddyn ab Cynfyn, Trahaearn, ab Caradawc ei nai, a wladychawdd yng Ngwynedd; ac yn y Deau Rhydderch ab Caradawc ei ewythr ef, a Rhys ab Owain ab Edwin yn cydlywiaw'r Wlad yn llonydd ac yn heddwch.

Oed Crist 1074, y llas Rhydderch ab Caradawc gan Feirchiawn ab Rhydderch ei gefnderw o genfigen a dig am yr ammod ryingthaw a Rhys ab Owain, ac am ddwyn Gwŷr y wlad dan ddamdwng yr Ammod a ddoded ryingthynt er tynghedu'r Lywodraeth i'r hwyaf ei fywyd.

Yr un flwyddyn daeth Goronw a Llywelyn, meibion Cadwgawn ab Bleddyn ab Cynfyn, a llu ganddynt, a chydag wynt Caradawc ab Gruffydd ab Rhydderch ab Iestin, a Chyfnert cadarn o Forganwg a Gwent er dial galanas eu Tad eu, a chad ar faes a ddodasant, ac yn eu herbyn Rhys ab Owain, a gorfu meibion Cadwgawn a Charadawc ab Gruffydd ar Rhys ab Owain, a buddugoliaeth enrydeddus a fusseid iddynt, eithr Gruffydd ab Cynan ab Iago a ddaeth o'r Werddon a llu cadarn ganthaw, a goresgyn ynys Fôn, a gorfu ar feibion Cadwgawn ymchweyd i amddiffyn eu cyfoetheu rhag gossawd Gruffydd ab Cynan, ac o hynny ni aflonyddwyd Rhys ab Owain, ychydig ar ol hynny ydd aeth Trahaearn ab Caradawc yn erbyn Gruffydd ab Cynan a gyrru ffo arnaw, a gorfu arnaw fyned yn ei ol i'r Werddon.

Gwedi myned fal hynny meibion Cadwgawn a ddodasant Gad ar Faes yr ail waith yn herbyn Rhys ab Owain, yna

Rhys a ddaeth yn eu herbyn, a brwydr dost a fu rhyngthynt mewn lle a elwir Pwllgwttic, lle gorfu meibion Cadwgawn ar Rys ab Owain, ac efe a ffoes, a Trahaearn ab Caradawc ai dilynes mor galed onis daliwyd ganthaw, a dal hefyd Hywel ei frawd, ac efe au lladdawdd eill dau er dial galanas ei ewythr Bleddyn ab Cynfyn, a gwaith didrugaredd oedd hynny, canys Tywysogion o fraint a chyfiawnder oedd-ynt.

Ynghylch yr un amser ydd ymwrthodes Sulien escob Dewi ai Escobaeth, a dewiswyd yn ei le ef Abram, gwr doeth golychwydawl.

Oed Crist 1077, daeth Rys ab Tewdwr o Lydaw ac a ddodes hawl ar Dywysogaeth Deheubarth megis ettifedd cyfiawn, a llawer iawn o wyr gorau y wlad a gymhleidasant ag efe, canys mawr oedd y gair iddaw am ddoethineb a gwybodau Llywodraeth, ac efe yn ei lawn henaint ai bwyll a gafawdd ewyllys da gorengwyr y wlad, canys nid oedd a garai Iestin ab Gwrgan ai wehelyth, achaws y cerynt Ryfel yn well na heddwch yn amgen nag a wnelynt eu cynneifaid o'r Welygordd honno, ac yna diogelwyd Rhys yn ei Lywodraeth.

Oed Crist 1079, y diffeithwyd Mynyw gan Saeson lladronaidd, ac y bu farw Abram Escob Dewi, a gyrru yr Escobaeth yr ail waith ar Sulien Ddoeth, canys nid oedd a wyddai gyngor i wlad a chenedl aflonydd gystal ag efe.

Oed Crist 1080, daeth Gruffydd ab Cynan yr ail waith i Gymru, a chydag ef lu mawr o Ysgodogion y Werddon, ac ymunaw a wnaeth efe a Rhys ab Tewdwr a myned yn erbyn Trahaearn ab Caradawc, a chad a fu rhyngthynt, lle lladdwyd Trahaearn, a chydag ef Gruffydd a Meilir meibion Rhiwallawn ab Gwynn ab Collwyn, ac ar Fynydd Carno y bu'r ymladd, a chreulawn a thost y bu, a lladdwyd dros rhif o'u gwŷr y ddwyblaid, a Gwaith Carno y gelwir y frwydr honno, gwedi hynny meddiannu Gwynedd a wnaeth Gruffydd ab Cynan, a Rhys ab Tewdwr a gafas Ddeheubarth, a'r ddau Dywysawg yn ettifeddion cyfiawn y Gwledydd hynny.

Yr un flwyddyn y daeth William Fartardd i Gymru ym mhererindawd, ac a ddug roddion i'r Eglwysi, ar Escyb, offeriaid, ac i'r monachlogydd a'r mynaich, a myned hyd ym Mynyw, a Sulien arches-cawb Dewi a ymwrthodes eilwaith ai escobawd, a Gwilfrid ai cymmerth yn ei le.



Yn yr un flwyddyn daeth Gwŷr Rhys ab Tewdwr am benn Iestin ab Gwrgan ac a dorassant Castell Denis Powys, a Chastell Llaniltlyd, a Chastell Dindryfan, y rhain oeddynt Gestyll Iestin ab Gwrgan, achaws hynny bu Cad ar Faes gan Iestin, a diffeithiaw Ystrad Tywi a Brycheiniawc, a dwyn ysbail fawr, wedi hynny ymroddi a wnaeth ef i adeilad Caer Dyf, ac yny o gwnaeth ef Gastell cadarn, ac o wnaeth Gastell Cynffig, a Chastell Trefufered, yn gadarnach nac a fuant cyu no hynny.

Oed Crist 1085, cyweiriwyd yr heddwch rhwng Iestin ab Gwrgan a'r Brenin Bastardd yn ail ac y bu er yn hir o amser rhwng Tywysogion Morganwg a Brenhin-oedd y Saeson, ai ddodi'n gydygyttwng mewn ysgrifen deg fal y mae yn weledig yn Eglwys Teilaw yn Llandaf.

Oed Crist 1087, bu farw Wiliam Fاستardd Tywysawg y Francod a Brenin y Saeson—a'r un flwyddyn y daeth meibion Bleddyn ab Cynfyn, sef Cadwgawn a Madawc a Rhirid a llu mawr yn erbyn Rhys ab Tewdwr, a rhag eu caderned gorfu arnaw ffoi i'r Werddon. Yna Iestin ab Gwrgan a ddiffeithiawdd ei gyfoeth; eithr yn ebrwydd wedi hynny efe a ddaeth a llynges drom ganthaw i Ddeheubarth a doddi Cad ar Faes, a gyrru ffo ar ei elynion, a Gwaith Llechryd y gelwir y Frwydr honno, yno lladdwyd Madawc a Rhirid, a Chadwgawn a ffoes ni wyddit i ba le o'r Byd.

Ynghylch yr un amser y dygwyd ni wyddys gan bwy ysgrin Dewi a'r Trysorau auraid ac arianaid o Eglwys Mynyw.

Yn yr un flwyddyn aeth Iarll Henffordd ai Luoedd, ac ynghyfun ac ef wyrion Iestin ab Gwrgan au lluoedd ac a ddiffeithiasant Gaerwrangon, a Chaerloyw, a'r gwledydd o amgylch gyfled ag y cerddynt, a gyrru ar y Brenin adweddu Rhyddydd a Breiniau i'r gwledydd oll yng Nghymru a Lloegr, fal y bu er yn oes oesoedd.

Oed Crist 1088, bu farw Sulien Escob Dewi, y doethaf a chlodforusaf o'r holl Escyb yng Nghymru, goreu ei gynghor, ai addysg, ai grefydd, ac amddiffynwr pob heddwch ac iawnder.

Yr un flwyddyn y bu daeargryn mawr hyd holl Ynys Prydain, ac ydd yspeiliwyd Eglwys Mynyw yr ail waith o'i thrysoreu gan forherwyr Seisnig, a llosgi i'r dref a wnaethant, a lladd a ddelai yn eu ffyrdd.

Ynghylch yr un amser y bu farw Cadifor ab Collwyn Arglwydd Dyfed, ai feibion ef, sef Llywelyn ac Einion, ai frawd Einion ab Collwyn, a annogasant Ruffydd

ab Maredydd i ddodi cad ar faes yn erbyn Rhys ab Tewdwr, a dyfod a'u lluoedd ynghyd a wnaethant, a brwydr dost a fu, eithr gorfu Rhys ab Tewdwr arnynt yng Ngwaith Llandydoch, a dalwyd Gruffydd ab Maredydd ac ai byrhawyd o benn, a lladdwyd Llywelyn ac Einion meibion Cadifor, ac Einion ab Collwyn Brawd Cadifor a ffoes at Iestin ab Gwrgan Tywysawg Morganwg a Gwent, yr hwn oedd yn rhyfela yn erbyn Rhys, ac adrawdd ei ansawdd iddaw. Einion a fuasai yn wr swydd yn rhyfela gyda Brenin Lloegr ai Farchogion yn Ffrainc a gwledydd eraill, a charedig mawr rhyngddo a'r Brenin ai Farchogion ac Iestin wedi gwybod hynny a addunedwys i Einion ei Ferch yn briodwraig os efe a ddygai gyfnerth iddaw o Loegr yn erbyn Rhys ab Tewdwr, a chyda y ferch honno yn Gyfoeth Arglwyddiaeth Meisgyn, myned i Lundain a orug Einion, ac ammodi a Rhobert fab Amon Tywysawg y Corbwyl yn Ffrainc a chefnderw y Brenin Coch, i Ddyfod yn gyfnerth i Iestin ym Morganwg; a Rhobert a weithiawdd ar ddeuddeg eraill o Farchogion urddasawl nes eu hynnill oi blaid yn un ansawdd ag yntau; dyfod a wnaethant i Forganwg ar frŷs, ac unaw lluoedd ac Iestin, a myned i wledydd Rhys ab Tewdwr, a lladd a llosgi cyfled a'r Tir a gerddynt, a phan glybu Rhys hynny, myned yn eu herbyn, a chyfarfod y ddau Lu gerllaw Brecheiniog, yn y lle a elwir Hirwaen Wrgan, a brwydr waedlydfawr a fu ryingthynt lle gorfu ar Rys ffoi, ai ymlid a wnaeth Iestin ai ddal yng Nglynn Rhodneu, a lladd ei benn, ac enw y lle y bu hynny *Penn Rhys*, gwedi hynny ymlid ei wyr au lladd yn greulawn, a dal Gronwy mab Rhys, a lladd ei benn ynteu, a mab arall oedd i Rys o'i ordderch a elwid Cynan yn wr dewr a thrachalonog, ac efe yn ymchwelyd tuag Ystrad Tywi wedi lladd ei dad ai wŷr ymlidiwyd ef mor galed a thost oni orfu arnaw amcanu dianc drwy Lyn a elwir Cremlyn, lle y boddes ef a llawer o'i wŷr, ac am hynny Pwll Cynan y gelwir y lle fyth wedi hynny, mab arall i Rys a elwid Gruffydd ac nid oedd ond Plentyn pan las ei dad.

Gwedi hynny ymgynnull a wnaeth Gwyr Rhobert ab Amon ai farchogion au Gwyr ar Dwyn Colwynn lle y talawdd Iestin iddynt eu bodd yn aur coeth, ac o hynny hyd heddyw gelwir y lle y Filtir Aur, ac ymchwelyd yn eu hol a wnaethant tua Llundain, ac Einion ab Collwyn a aeth at

Iestin i erchi'r ferch iddaw yn wraig a'r cyfoeth a addawsai gyda hi, eithr nacau hynny a wnaeth Iestin, gan chwerthin am benn Einion, a dywedyd y gwnai efe'n well ai Ferch na'i rhoddi ar enw Bradwr Gwlad ag Arglwydd, yna Einion a lid-iawdd yn ddirfawr, a chan gynddaredd ei ddigofaint myned ar ol Rhobert ab Amon ai osgordd a dangaws iddynt y dirmyg a wnaethai Iestyn arnaw, a dangaws hefyd maint oedd anghariad gorengwyr y wlad honno tuag at Iestin, o brased y wlad, a hawsed ei hynnill oddi ar Iestin, yr hwn achaws ei frad a'i dwyll ni chai gyfnerth gan un Tywysawc yng Nghymru. Blasus oedd gan y Dieithraid wrandaw ar Einion, a hawdd y cymmerasant ei gynghor, ac yna myned at Rhotbert ab Seisyllt a orug Einiawn a dangaws iddaw'r cyfan, ac efe a ddug eraill o'r Pendefigion ni charent Iestin i'r un ansawdd, a gwedi cynnull o'r Pendefigion hynny eu gwyr yng nghyd ac yngyfunaw a'r Dieithraid, myned yn erbyn Iestyn, ac yna bu Gwaith y Mynydd Bychan yn myl Caer Dydd, lle gyrrwyd ffo ar Iestin. Ymhlaid y dieithraid yn erbyn Iestyn daeth Cadifor ap Cedrych ap Gwaithfoed Arglwydd Ceredigiawn, ac efe a fuasai cyn no hynny ym mhlaid Iestin yn erbyn Rhys ab Tewdwr, ac ni chyflawnai Iestyn ammod ac efe yn ol a addunedai Cedrych ab Gwaithfoed Arglwydd Cibwyr a henyw o Forganwg, ac a aeth yn Ngheredigiawn yng ngosgordd Rhydderch ab Iestin, lle y rhodded iddaw Bendefigaeth a Chyfoeth, ac o garedigrwydd ar Iestin y daeth efe ai Wŷr i Forganwg, a gwedi gwleed ei frad myned yn ei erbyn ac ym mhlaid y dieithraid.

Gwedi gyrru ffo ar Iestin ai yspeiliaw oi wlad, Rhobert ab Amon ai wyr a gymmerasant yn eiddaw iddynt eu hunain goreuon y Frodir a'r Tiroedd breision, ac i Einion y mynyddir a'r garwaf a'r anffirwythlonaf o'r wlad, ac fal hynny gwledychasant y Ffranced yn y wlad honno, gan yrru pawb a gaent ym mhlaid Iestin ar ffo a dwyn eu tiroedd. A llyma enwau y dieithraid Ffreinig a'r lleoedd a gymmerasant iddynt eu hunain. †

Rhobert ab Amon yn Dywysawg arnynt a gymmerth iddaw ei hunan y Deyrnedd a Llywodraeth y Wlad oll, a Chastell Caer Dydd, a Chastell Trefufered, a Chastell Cynffig, a'r Tiroedd a berthynai iddynt.

I Wiliam De Lwndwn y doded Aberogwr a'r Tiroedd a bieuffai'r Arglwyddiaeth honno.

I Riccard Grinfil y doded Arglwyddiaeth

Glynn Nedd a Thref freiniawl Castell Nedd ac ai perthynai o diroedd.

I Rhobert De Sancwintin doded Arglwyddiaeth Llan-Fleiddan Fawr, a Thref freiniawl y Bont Faen.

I Riccart Siwart Tal y Fan ai Arglwyddiaeth.

I Gilbert Wmffrefil Arglwyddiaeth Pen Marc.

I Rosser Berelos Arglwyddiaeth Llan Dathan.

I Reinallt Sili y rhodded Arglwyddiaeth Abesili.

I Peter Leswr, Arglwyddiaeth Llanbedr ar Fro.

I Ieuan Ffleming Arglwyddiaeth Llan Ufelwyn.

I Olifer Sainsion Arglwyddiaeth Abernarn.

I William Desterlin Arglwyddiaeth Llanwerydd.

I Baen Twrbil y daeth Arglwyddiaeth y Coetty o briod Assar ferch Meuryg ab Gruffydd ab Iestyn ab Gwrgan.

Einion ab Collwyn a gafas Sainghenydd a Meisgyn.

Caradawc ab Iestin a gafas Aberafan a'r holl diroedd rhwng Nedd ac Afan yn Arglwyddiaeth Rial.

Madawc ab Iestin a gafas Arglwyddiaeth Rhuthyn.

Hywel ab Iestin a gafas Llan Tryddydd.

Rhys ab Iestin a gafas Arglwyddiaeth Soflen rhwng Nedd a Thawy.

Nest Ferch Iestin a rodded yn Briod i Einion ab Collwyn.

Rotpert ap Seisyllt a gafas Arglwyddiaeth Maes Essyllt.

Wedy gorfod ar Iestin efe a ffoes dros y Mor i ynys y Fallon, ac oddi yno fe aeth i Gaer Faddon ac oddi yno daeth i Went, lle y bu farw ym Monachlog Llangeny.

Gruffydd ab Rhydderch ab Iestin a gynnullu Lu mawr o'r Gwŷr a ffoasant rag y Dieithraid, ac amddiffyn Caerllion ar Wysg, a Gwlad Went, ac ymgadarnhau yno yn erbyn y Dieithraid, a Charadawc ab Gruffydd ab Rhydderch ab Iestin yn Dywysawg ar y Cyfoetheu yng Ngwent a Gwaen Llwg a'r Cynnal yng Nghaer Llion ar Wysg, lle y buasai cyn no hynny Brifgynnalf Morganwg a Gwent, parth Teyrnedd a Dygynnull Gwlad.

Yr amser y bu fal hynn ym Morganwg ydd oedd Meibion Cadwgawn ab Bleddyn ab Cynfyn yn diffeithiau Dyfed a Cheredigiawn, a Huw Iarll Caerllion Gawr yn diffeithiau Tegeingl a Rhyfoniawc hyd Afon Gonwy, ac yn dwyn y Tiroedd ar

Cyfoethen oddiar Wyr y Gwledydd hynny, ac yn dod i'r Ffreinc ynddynt, a'r Huw yma, tra bu Gruffydd ab Cynan yn amcanu Cyfnerth i Rys ab Tewdwr, a ddaeth hyd yn Aberlleiniawc ym Môn ac a wnaeth yno Gastell ac ymgadarnhau ynddaw hyd y dydd heddyw, a thrachefnau meibion Cadwgawn ab Bleddyn y dug Iarll y Mwythig y rhannau mwyaf o diroedd Powys a Cheredigiawn, ai fab Arnwlff a ddug lawer o diroedd Dyfed, a Bernard Niwmarc a ymgadarnhâes ym Mrechein-iawc, ac eraill a gymmerasant diroedd mewn parthau ereill o Gymru, ac ym mhob mann yn gwneuthur Cestyll a Dinas-oedd cylchwaliedic rhag eu niweddu gan wŷr y Wlad, a'u ffordd dwyn ysbail ar un a'i roddi yn obr i arall, ac fal hynny yn obr i arall, ac fal hynny yn twyllaw annoethiaid a'r rhai ni charent eu cenedl a'u Tywysawc, ac o drech dichell na gwroldeb y gweithiasant y Ffrancod yn unwedd ag y gwnai'r Saeson cyn noe wynt yn y rhyw fodd ac y difreinasant y Cymry o'u Llywodraethau, a'u Cyfoethau, a'u Tiroedd, a llygru Gwyr y Wlad a'u Gobr-wyon.

Oed Crist 1090, y dug Rosser Mwn-gwmri Gastell Baldwin ac ai gwnaeth yn drachadarn, ac ai galwawdd ar ei enw ei hunan, sef Mwn-gwmri.

Oed Crist 1091, gwalgylched y Bont Faen, gan Robert Sancwintin, a gwedi hynny y gwnaeth ef Gastell Llanfeiddan, ac yn yr un flwyddyn y gwnaeth Rosser Berelos Gastell Llandathan ac a rannes ei diroedd a Marchell ap Gwyn ap Arthrwys yr hwn a fuasai berchen ar y cyfan o honynt, ac a ddodes fodd i fyw i'r rhai a golledwyd.

Oed Crist 1092, y dechreuwyd adeilad Castell Llanddunwyd, a Threfufered, a Chynffig, yn gadarnhach nag oeddynt o'r blaen, canys a choed cyn no hynny y gwneid Cestyll, a chyn y bu hir wedi hynny y gwnaeth y Ffrancod eu Cestyll ar hyd y wlad er diogelwch iddynt eu hunain, ar amser hynny hefyd y dug eraill o'r Ffrancod y tiroedd goreu yn Nyfed a Cheredigion, ac a wnaethant yno Gestyll a Dinas-oedd.

Oed Crist 1093, aeth y Brenin Coch i Ffrainc yn erbyn ei frawd Rhobert, ac ai daliodd ef, ac ai dug yng Ngharchar i Gastell Caerdydd, lle y bu hyd farw.

Yr un flwyddyn y bu prinder yd ac enllyn drwy holl Ynys Prydain, achaws y rhyfeloedd a fuasai dros amryw flynydd-

oedd ym mhob rhan o'r Ynys, a llawer a fuant feirw o newyn.

Oed Crist 1094, y dug y Ffrancod eu lluoedd hyd yn Ngwyr, a Chedweli, ac Ystrad Tywi, ac a ddifeithiasant y Gwledydd hynny, a Wiliam De Lwmdrys a wnaeth gastell cadarn yng Nghedweli, a thra buant yno codasant Wyr Morganwg a Gwaun Llwg yn un Llu, ac a dorrasant Gestyll a Ffrancod, ac a laddasant agos y cyfan o'u Gwyr, a Phaen Twrbil Arglwydd Castell y Coetty yn Dywysawg ar Wyr y Wlad, ac ni fynnai ef ei diroedd namyn ym mraint Assar ei Wraig, yr honn oedd Etifeddes Meuryg ab Gruffydd ab Iestin ac efe a ddug ei lluoedd hyd Gaer Dydd, a dechreu torri'r Castell, a phan weles Robert ab Amon hynny, gofyn yr achaws, a Phaen Twrbil ai dangoses, nid angen nog y mynneir Cymry fyued wrth Freiniau a Defodeu cyseffnion eu Gwlad a Chyfreithiau Hywel Dda, a chael eu Tiroedd yn rhyddion, a chan faint y Llu fe weles Robert yn oreu gwneuthur hynny a fodd-haeir Cymry, ac yna doded llonyddwch yn y wlad, ac y cafas Baen Twrbil ei diroedd ai Frait yng Nghyfiawnder ei wraig, a Gwyr y Wlad eu tiroedd yn rhyddion, a'u breiniau a'u defodau fal y dylit i'r Cymry, fal y buant erioed cyn amser y Ffrancod. A gwedi dod i'r Drefn honno ar Forganwg ai chadarnhau, fe ddaeth llawer o Genedl y Cymry o Ddeheubarth a Gwynedd i Forganwg er diogelach Byd nag a gaent yn y Gwledydd eraill.

Ynghylch yr un amser y dug Ruffydd ab Cynan a Chadwgawn ab Bleddyn eu lluoedd i Ddyfed a Cheredigiawn, ac a laddasant lawer o'r Ffrancod, gan nas gallai'r Cymry oddef ym mbellach yr anghyfraith, a'r ammraint, a'r trahäuder, a ddodai'r Ffrancod arnynt, ac yna cafas y wlad lawer o'i Braint a'u Rhyddydd.

Yn hym o amser fe ddaufones y Ffrancod Lu mawr i ddifeithiau Gwynedd, a Chadwgawn ab Bleddyn a ddug Lu yn eu herbyn a bu waith Coed Yspys lle gorfu Cadwgawn ar y Ffrancod, a gyrru ffo arnynt, a lladd llawer, a Gruffydd ab Cynan a Chadwgawn a gyrchasant Loegr, a diffeithiau Henffordd, a'r Mwythig, a Chaer Wrangon, a lladd aneirif o'r Saeson, a phan wybu'r Brenin coch hynny, myned yn eu herbyn, eithr ni bu nes iddaw o hynny, canys y Cymry ai darweinasant i'r mynyddoedd, ac yna, heb gad ar faes, y laddasant hanner ei wŷr a gorfu arnaw ddychwel yn fawr ei golled ai gwilydd.

Yr un flwyddyn bu farw Gwilym ab

Baldwin cyn gorphen gwalgylchu Castell Rhyd Cors, a'r Cymry a ddaethant yn ddisyfyd am benn ei wyr ef ac ai lladdasant, ac a dorrasant y Castell.

Cyn hir wedi hynny yr ymluyddes gwyr Morganwg, a Gwent, a Gwŷr, a Gwaun Llwg yr ail waith, a'r Francod yn eu herbyn, ac yng Ngwaith Celli Darfawc y gorfu'r Cymry arnynt, au lladd yn ddi-drugaredd, a gyrru ffo gwarthus arnynt. Ac ym mhen ychydic ymluyddes y Ffrancod yn erbyn y Cymry, a chydag wynt gyfnerth anfeidrawl o'r Saeson, a'r Cymry a gymmerasant arnynt ffoi o'u blaen i Fynyddoedd Brycheiniawc, yna troi ar eu gelynion, au lladd yn ddiarbed y rhan fwyaf o'honynt, ac ychydic buan eu traed a ffoasant gyda chywilydd a cholled, a'r Cymry yn dychwelyd yn eu hol cyfarfuant yn eu herbyn Iarll Arwndel, ac Iarll Caerloyw, ac Arnallt Harewrt, a Nel Vegwnt, ac eraill o Ieirll a Thywysogion y Ffrancod yn Gyfnerth i Rhobert ab Amon ai wŷr, a bu cad ar faes, ac yng Ngwaith Celli Gaer y lladdawdd y Cymry bob un o'r Ieirll hynny a'u gwŷr a lladdfa dost, ac a ddygasant ysbail fawr oddiarnynt, a ffoi'n ol iddeu Cestyll y Ffrancod a'u cadarnhau gwedi hynny, ac ameanu myned i Loegr, eithr ofer eu Gwaith, canys Gruffydd a Chydifor meibion Llywelyn Brenn Arglwydd Sainghenydd a ruthrasant a llu yn eu herbyn. Ac au lladdasant gan mwyaf; a'r gweddilliaid, ffoi i Loegr; yna cafas yr hen Drigolion eu Tiroedd a llongyddwch, a rhai o'r Ffrancod a ymgadarnhasant yn eu Cestyll a genhadhâasant i'r Cymry eu cyfiawnder, sef eu Tir yn rhydd, a'u Braint yn rhâd, au Cyfreithieu yn ddefodawl.

Oed Crist 1095, daeth Ychfryd a Hywel meibion Gronw, a meibion Cadwgawn ab Bleddyn hyd yng Ngheredigiawn a Dyfed, a diffeithiaw tiroedd a chestyll y Ffrancod, au lladd lle au ceffid yn ddiarbed; ac yna dychwelyd i Wynedd ag ysbail fawr dros benn; a chyn hir wedi hynny y diffeithiawdd Gerallt Rhaglofydd y Brenin Coch holl derfyneu Mynwy, a'r Cymry yn ei erbyn, a gorfu arnaw ymchwel i Gastell Pentro.

Oed Crist 1096, daeth y Brenin Coch i Gymru er dial y lladd ar ei genedl a wnaethai'r Cymry, eithr y Cymry a weddiasant yn hyderus ar Dduw ac a ddodasant eluseni a chyfiawnder, a myned yn erbyn Llu dirfawr y Brenin ai lladd yn ddiymosgryd oni orfu arnaw ymchwelyd yn wâg ei law ac yn fawr ei gywilydd.

Yn yr un flwyddyn y troes Pendefigion Môn yn erbyn eu Tywysawc cyfiawn, ac a ddodasant eu hunain yn nawdd Huw Iarll Caerllion ac arglwydd Aberlleiniawc, ac ar eu hol gwyr y wlad a llawer o'r milwyr arfawc, canys brâd a drigawdd yn y wlad hono er amser Edwin Brenin y Saeson. Yna gwyr y wlad a gymmerasant eu Tiroedd gan Huw Iarll, a gorfu ar Ruffydd ab Cynan a Chadwgawn ab Bleddyn ffoi i'r Werddon a gadael iddynt. Yna daethant y Ffrancod a'r Saeson i Ynys Fôn, a doddi Owain ab Edwin yn rhith Tywysawg yno er boddhau'r Cymry, a'r Owain hwnw'n benn Brâd yn ail y bu Einion ab Collwyn ym Morganwg, ac efe a ddug y cwbl o luoedd Gruffydd ab Cynan yn un a llu'r Iarll Huw, a chydag wynt yn gyfnerth Huw Goch Iarll y Mwythig, a diffeithiaw'r wlad a wnaethant, a lladd y maint ac oedd o bobl y Wlad yn ffyddloniaid Gruffydd eu Tywysawc cyfiawn, yn wryw ac yn fenyw, yn wr ac yn blentyn.

Oed Crist 1097, bu Morlif aruthrawl oni foddos y morfaidur hyd fin Mor Hafren ym Morganwg a Gwent agos y cwbl, ac yn bennaf hynny Glan Mor Gorwenydd, a boddi Castell Llan Dathan a'r Tir lle ydd oedd ei le; a llawer o ddynion, ac ysgrublaid, ac ydau, a gollwyd; a'r un amser y boddes Morfa Rhianedd yn Arfon, a'r un peth yn Lloegr, a Ffraine, a Gwerddon.

Oed Crist 1098, daeth Magnus ab Harallt Brenin Denmarch ar oddeu adynnill Coron Loegr, a dyfod i dir yn Ynys Fôn efe a ddodes gad ar faes yn erbyn Huw Iarll Caerllion a Huw Goch o'r Mwythig, a saethu Huw Goch yn ei lygad ai ladd, a gyrru ffo ar y Ffrancod a'r Saeson, a doddi Owain ab Edwin yn Dywysawc ar Fôn a Gwynedd, ac yn niweddi y flwyddyn honno dychwelaidd Gruffydd ab Cynan a Chadwgawn ab Bleddyn i Wynedd o'r Werddon, a Gruffydd allu o Ysgotiaid y Werddon ganthaw a ddadynnillwys Fôn; acadennill Ceredigiawn Cadwgawn, a chydya hynny Gwlad Arwystli a Meirionydd.

Yr un flwyddyn y llas Llywelyn ab Cadwgan ab Bleddyn gan Wyr Brecheiniawc ym mhlaidd Bernard Niwmarc, a gorfu ar Hywel ab Ithel o Degeingl ffoi i'r Werddon.

Yn yr un flwyddyn bu farw Rhyddmarch Escob Dewi, (mab oed ef i Sulien ddoeth Escob yr un Eglwys, a doethaf o Genedl y Cymry) heb iddaw nac ail nac eilydd, namyn ei Dâd, am ddysg a doethineb, a dwyfoldeb, a gwedi Rhyddmarch darfu addysg i ddisgyblion yn Mynwy.

Oed Crist 1099, y daeth Harri Bwmwnt i Dir Gwyr yn erbyn meibion Caradawc ab Iestin, ac a ddynnilles lawer o'r tiroedd oddiarnynt, ac a wnaeth Gastell Abertawy, a Chastell Aberllychwr, a Chastell Llan-Rhidian, a Chastell Pen Rhys, yn y man y llas Rhys ab Caradawc ab Iestin, ac ymgadarnhau yno, a dwyn Saeson o wlad yr haf yno lle cawsant diroedd, a mwya gormes o'r holl Ffrancod y bu efe yng Ngwyr.

Yn yr un flwyddyn bu farw Huw Iarll Caerllion, ac y bu gorfoleddu mawr yng Ngwynedd glywed hynny, a'r gorfoledd a beris ddigofaint i Robert ei fab, ac efe a ddaeth a liu i Arllechwedd yn erbyn y Cymry, a nhwy heb neb o'u blaen a'u gyrasant ar ffo gyda cholled a chywilydd.

Yn yr un flwyddyn bu farw y Brenin Coch, ac y dug Harri ei fab y goron, lle nad oedd iawn iddaw hynny, achaws ei frawd Rhobert oedd hynaf, ac ettifedd o iawn a Dyled.

Oed Crist 1100 y llosged o Caerloyw a doddi hynny hefyd ar Ruffydd ab Rhydderch ab Iestin, ar Brenin Harri a ddanfonnes Lu yn ei erbyn, ac yn myned dros for o Gaerodornant efe a godes Dymmhestl aruthrawl oni foddess y Llongau ar gwŵr, a gwedi hynny y gwybu'r Brenhin Harri y cam a wnaethpwyd a Gruffydd o ddodi hynny araw.

Yn yr un flwyddyn y daeth llawer o'r Cymry a ffoasant rag y Ffrancod yn ol i Forganwg, ac a gymmerasant Diroedd yn fodd i fyw, a'r Ffrancod a welasant yn oreu gadael iddynt ac ymheddu a nhwy, a'r un amser y troes y Cymry yng Ngwynedd ar y Ffrancod, a mynau modd i fyw; a gadael iddynt a wnaethpwyd a hynny yn y diwedd a droes yn gadernyd i'r Ffrancod, ac yn wanhäad i'r Tywysogion.

Oed Crist 1101, y troes Iorwerth ab Bleddyn ab Cynfyn yn mhlaidd y Brenin Harri, ac yn erbyn y Francod, gan ddiffethiaiw eu tiroedd a'u cestyll a'u gwŵr, a hynny o gynghor y Brenin Harri dan addewidion gobrwyon anrhydeddus, ond y Brenin au twyllawdd, a gwedi cael ei gyfnerth yn erbyn Iarll y Mwythig (yr hwn oedd anffyddlon i Harri,) efe a ddodes gwyn yn erbyn Iorwerth ei fod yn bwrriadu brad a thwyll yn ei erbyn; a bwrw Iorwerth yng Ngharchar yn annhrugarawg ac yn anghyfiawn; a cholled mawr a fu o hynny i'r Cymry. Ynghylch yr un amser bu farw Gronw ab Rhys ab Tewdwr yn Llundain yng ngharchar y Brenin.

Oed Crist 1103, y gwnaed Castell Rhyd

Cors o newydd ac yn gadarnach nag ydoedd o'r blaen, a Rhisiart Baldwin, ai cadwai yn ei feddiant, a yrrwys Hywel ab Gronw oi gyfoeth; yna gwyr y Wlad a fynnasant Hywel yn ei ôl, a myned gydag ef yn erbyn Rhisiart, a lladd ei wŵr, a diffeithiaiw eu tiroedd, a dwyn eu dâoedd, a pheth nas gallasant ei ddwyn ei losgi, yn yd, ac yn wair, ac yn dai, a phob peth a gymmerai dân a llosg, a dwyn y wlad y danaw a llywodraethu arni.

Yn yr un flwyddyn y bu farw Owain ab Edwin o nychdawd yr ysgyfeinwst, ac ynghylch yr un amser y bu farw Herwallt archesgob Llan Dâf, ac y gwnaed Gwrfau yn escob yn ei le yr hwn a beris adeilad Eglwys Llan Dâf yn ardderchocchach nac y bu erioed o'r blaen, ac a beris godi'r Eglwysydd a dorresid i lawr achaws Rhyfel-oedd Iestin ab Gwrgan.

Oed Crist 1105, gwelwyd seren gynffonog ryfeddawl ei maint ai gosgedd, ac yna bu farw Henri amberawdr Rhufain, a'r un flwyddyn y lladdawdd Owain ab Cadwgan ab Bleddyn Feuryg a Gruffydd meibion Trahaearn ab Caradawc, a'r un flwyddyn y lladdwyd Hywel ab Gronw gan y Ffrancod o dwyll Gwgan ab Meuryg ei dad maeth a rhag ofn gwyr y wlad y ffoes Gwgan ab Meuryg at fyr Rhobert ab Amon yr hwn a roddes iddaw wobwr fawr o aur ac ariant am ei waith ac ai croges am ei frâd.

Yng nghylch hyn o amser y dihangess Meredydd ab Bleddyn o garchar ac ef a ddadynnilles ei gyfoeth yn ddiwrthred.

Oed Crist 1106, chwythawdd y gwynt oedd y tywod yn aruthrawl dros wyne'r Tir Galedin hyd onid aeth yn for dwyn ll y buassei'r traethau a'r tywynau, a gorfu ar wŵr y Wlad honno fyned lle gallent am fywyd, a llawer o honynt a ddaethant i Loegr, ac a wnaethant drychineb mawr, a'r Brenin Harri au gyrawdd i Gymru lle tiriasant yn Nyfed yn y lle a elwir y Rhws, lle gwledychasant rai flynyddau ac yna diflannu.

Oed Crist 1107, y gwnaeth Cadwgan ab Bleddyn ab Cynfyn wledd anrhydeddus, ac a wahoddes attaw Bennaduriaid a Bonheddigion y wlad o bob ardal yng Nghymru iddei Gastell ef yn Aberteifi ac er dangos y goreu o barch i'r gwesteion, efe a wahoddes y Beirdd ar Cerddorion Tafawd a Thant goreu a gaid yn holl Gymru ac a ddodes gadeiriau iddynt a chynadl gorchestion herwydd Defawd Gwleddau y Brenin Arthur, ac yn y wledd honno y dodes ef iddynt ddefodau, a breiniau, a rhoddion anrhydeddus, ac au gollynges yn

obredig o roddion ac yn freiniedig o anrhydedd bob un ar ddychwel i'r lle yr henyw, ac yn y Wledd honno y gwelais Owain ab Cadwgawn Nest ferch Rhys ab Tewdwr yr honn oedd Gwraig Gerallt Rhaglofydd Castell Penfro ac ai serchawdd yn ddirfawr rhag ei theccod o bryd a gwedd, a bonheddicced ei moes; ac ym mhen ychydig efe a gynhullawdd attaw gyfeillion ac a weithiawdd o'u cyfnerth oni chafas ffordd i'r Castell a dwyn Nest o drais ac anfodd, ac i Bowys a hi, ac ai cadwawdd yno er a wnelai ei dād a'r Brenin Harri er ei ddarwedd i roddi'r wraig yn ei hól i Gerallt, ac yn gweled hynny, y Brenin a gyffroes Bendefigion Powys yn erbyn Owain, a hwy ai hymldiasant oi wlad, a hefyd ymlid Cadwgawn ei dad o'i gyfoeth a ddiffeithiaw ei diroedd oni orfu arnaw efe ai fab Owain ffoi i'r Werddon.

Oed Crist 1108, daeth Cadwgawn yn ol o'r Werddon ac a ddodes ei hun yn nawdd y Brenin, ac a ddangos nad oedd iddaw a wnelai yng ngwaith ei fab Owain, yna heddychu a'r Brenin er canpunt a chael meddiant ar ei gyfoeth.

Cyn pen blwyddyn daeth Owain o'r Werddon i Bowys ac a wnaeth ei ymgais er heddychu a'r Brenin ac nis gallei yna cymmodi a wnai ef a Madawc ab Rhirid ab Bleddyn, lle'dd oedd cas a gelyniaeth ryngthunt o'r blaen, ac ymdynghedu y naill a'r llall, ac yna diffeithiaw'r Wlad a drygu ffordd y cerddynt, ac nid oedd o gâr na chyngor a gai amgen arnynt.

Oed Crist 1109, y prynawdd Iorwerth ab Bleddyn ac oedd wedi bod yn hir yng ngharchar ei ryddydd ai gyfoeth er trichanpunt, a gwedi dyfod iddei gyfoeth ymlid Owain a Madawc oi Wlad a orug, a ffoi a wnaethant i Gexedigion a Dyfed gan ddrygu ag eitha gallu lle'dd elynt, a dwyn y cyfan o'u hanraith i Dir Iorwerth, ac ym mhen ychydig y lladdasant rai o swyddogion y Brenin, ac achaws hynny y digiawdd y Brenin yn fawr wrth Gadwgawn nas gwrthladdei ei fab Owain, a dwyn oddi arnaw ei gyfoeth, a gwahardd ei wlad iddaw, a'r cyfoeth ei roddi i Gilbert ab Rhiccart, a chynnal Cadwgawn yn anrhydeddus yn Llundain heb ei ddodi yng Ngharchar, ac nas caffai mewn modd na mesur o'r Byd fyned yn ol i Gymru.

Ymhen ychydig wedi hynny daeth Madawc ab Rhirid o'r Werddon i Gymru a chydag ef ysgymyniaid o Wyr Gwyddelig, ac ym Mhowys y cyttrefasant yng Nghyfoeth Iorwerth ei ewythr, a phan wybu Iorwerth hynny, ymlid Madawc ai wyr

oni orfu arnynt ymguddiaw mewn creigiau gogofawg, a Llywarch ab Trehaearn a gasai Iorwerth a ymunawdd a hwynt, ac hwy a wiliasant ar Iorwerth lle ai cawsant mewn ty Car iddaw yng Nghaer Einion ac a ddaethant am ei benn ac ai lladdasant, ac a losgasant y Ty a phob peth ynddaw, a phan glybu Henri Frenin hynny, rhoddi Powys i Gadwgawn ai ddodi yn ei wlad ai gyfoeth, ac anfon at Owain i'r Werddon ac ymheddychu ac ef dan ammod iddaw draddodi Madawc ai wyr yn ei ewyllys ef fal y gwnelai gyfraith arnynt, a phan ddealles Fadawc hynny dychymmig Brad yn erbyn Cadwgawn, ac ym mhen ychydig dyfod yn ddiarwybod am ei benn ai ladd yn annhugarawc yna, ydd aeth Owain at y Brenin ac a brynes ei dir ai gyfoeth ganthaw er gwerth canpunt, yn ychen a meirch, yna Madawc a gafas heddwch y brenin er gwerth, ac a gafas ei dir ai gyfoeth er gwerth canpunt yn arian.

Oed Crist 1110, daliwyd Madawc ab Rhirid gan Mareddydd ab Bleddyn, ac a rodded i Owain ab Cadwgawn yr hwn a dynnawdd ei lygaid ef ac ai gollynges yn rydd, eithr ei gyfoeth ac y dug Owain a Mareddydd yn rannedig ryngddynt.

Ynghylech hynny o amser y bu farw Rhobert ab Amon yn ei Gastell yn Newsbri o lwyrr Wallgof aruthrawl, yna'r Brenin a roddes ferch Rhobert a elwid Mabli iddei fab Rhobert a gafas ef yn ordderchfab o Nest ferch Rhys ab Tewdwr, un a fu wedi hynny yn wraig Gerallt o Gastell Penfro, a'r Rhobert hwn a fynnai yrru Cyfraith y Brenin ar Wlad Forgan, a phan wybu'r Cymry hynny Ifor ab Cedifor, a elwir Ifor Bach, a ddodes i hunan yn eu blaen ac a ruthrasant am benn Castell Caer Dydd ac ai torrasant yn ddisyfyd, a dal Rhobert ai wraig a'u cau yng ngharchar oni ddodes ef yn ol i'r Cymry eu rhyddid a'u breiniau au cyfreithiau, herwydd y buant er amser Hywel Dda, a chael gan y Brenin ymrwymaw ei law ai lw na wnelai efe a Gwlad Forgan namyn caredigrwydd a gadael iddo; a mynnu arnaw na ddoded ar neb o'r Cymry na swydd na gwaith na chymmhorth heb i bob gwr a ddodid hynny arnaw ei dir yn rhydd ai fraint yn ddyledawl modd ac oedd gyfiawn i Genedl y Cymry, a gwedi cael cadarnhâd ar hynny gan Robert a'r Brenin, Ifor ai wyr a ymheddychasant a'r Brenin ac a Rhobert; a phawb adref, a phawb iddei le ai ansawdd.

Oed Crist 1111, cychwalwys Robert Dinas Caerdyf, a thynny afon am y Dref

ac am y Castell ac ydd adferwyd Cor Illyd, ac y gwnaeth Rhobert Consyl Arglwydd Morganwg Fonachlog Margan, a Morys De Lwndwn a wnaeth Frodordy'r Wenni.

Ynghylch yr un amser y daeth Riccart Grinfil a gawsai Arglwyddiaeth Glynn Nedd yn ol i Gymru wedi bod yn ymwelod a Bedd Crist, ac a wnaeth Monachlog Glynn Nedd, ac a roddes rann fawr o'i diroedd at ei chynnal, a'r rhann arall efe ai rhoddes i a fuant y perchenogion cyfiawn o Genedl y Cymry; ac efe a ddug wr gydac ef o Wlad y Ganon ai enw Lalys, yn wr gorchestol ar Gelfyddyd Saerniaeth ac efe a wnaeth Fonachlogydd a Chestyll ac Eglwysi, sef y rhai y soniwyd am danynt, ac a gafas Diroedd yn Llangewydd ac a wnaeth Dref Trelalys, ac a symudes yr Eglwys yno, a gwedi hynny myned i Lundain yn Saernydd y Brenin Harri, a dysgu'r gelfyddyd i lawer o Gymry a Saeson.

Ynghylch hyn o amser yr oedd Owain ab Cadwgan yn drygu yn ddiymddarwedd o'i amgylch wedi hir ymarfer a drygau hyd nas gallai ar ei galon amgen; a Gruffydd ab Cynan a fynnai adennill ei gyfiawnder o ddwyllaw Huw Iarll Caerllion, a phan glybu'r Brenin hynny, cynnull Llu dirfawr o bob ardal o'r ynys a dyfod yn erbyn y Cymry; yna Gruffydd ab Cynan ag Owain a ddygasant eu gwyr au daöedd i Fynyddoedd Eryri, a gwyr y Brenin o ddilyn arnynt a laddwyd a lladdfa dost, ac nis gellynt niwed i'r Cymry; a phan weles y Brenin hynny danfon Cenhadon at Ruffydd a doddi ammodau heddwech ac ni weles Gruffydd yn iawn yr ammodau ac a wrthneuwadd, yna Owain gan ofn y Brenin a aeth yn ei heddwech, a phan weles Gruffydd ab Cynan hynny myned a wnaeth yntau yn heddwech, ac ni chaffai gystal gan y Brenin ag a gawsai Owain, canys y mwyaf ei dwyll o Bendefigion y Cymry mwyaf ei ddawn ai anrhydedd y ar law y Brenin, a'r Tywysawg Gruffydd a gadarnhâwdd i'r iarll Huw ai wfr eu tired yn Nhegeingl, ac yn Rhyfoniawc, ac ym Môn, fal nas gellid yn ei erbyn fyth gwedi hynny. Gwedi hynny ydd aeth Owain ab Cadwgan i Lys y Brenin ac ai gwnaed yn Farchawg, a myned gyda'r Brenin i Normaudi, a chael anrhydedd mawr ganddaw fal y gweddai i Frawd oddiar law Brenin o Sais.

Oed Crist 1112, y daeth Sir Owain ab Cadwgan yn ol o Normandigia da'r Brenin, ac a ddaeth i Gymry, lle ydd ymofwyawdd v Brenin ac ef yn anrhydeddus.

Yr un flwyddyn y bu farw Griffri Escob Dewi, ac y gwnaeth y Brenin wr a elwid Berned Norman yn Escob yn ei le heb na chennad na chyfarch ysgolheigion y Cymry; ac yna colles escob Dewi ei fraint ac ai dug escob Caint.

Oed Crist 1113, danfoned am Ruffydd ab Rhys ab Tewdwr o'r Werddon ac ai gwnaed yn frenhin Deheubarth, drwy gyfnerth ei gydfrawd Gerallt Arglwydd Castell Penfro ac oedd briawd a Nest ei chwaer ef, a'r Brenin wedi clywed hynny a feddyliawdd ei orfod mawn pryd cyn y gallai ymluyddu, a phan wybu Gruffydd hynny myned yn nawdd Gruffydd ab Cynan a chael rhiith anrhydedd ac addewidion hynaws ganthaw, ac ar fyrr wedi hynny y torres Hywel ab Tewdwr o garchar Arnwlff Iarll yng Nghastell Baldwin a myned at ei frawd yn nawdd Gruffydd ab Cynan, a phan ddaeth hynny i Glyw'r brenin danfon cenhadon anrhydeddus at Ruffydd a orug, a gosgordd anrhydeddus i arwain y Tywysawg iddei Lys yn Llundain, a gwedi ei arfolli dros amser yn ardderchawc, a doddi rhoddion anrhydeddus iddaw yn aur ac yn ariant ac ym meini gwyrrth, re ddangoses y Brenin ei feddwl i Ruffydd, ac enbytted iddaw ef ac i wlad Wynedd roddi cyfnerth a chefnogaeth i Ruffydd ab Rhys, ac addaw i Ruffydd ei diroedd yn rhydd ai fraint yn ei ewyllys ei hunan, a chyfnerth a fai achaws iddaw os efe a ddanfonai y naill ai Gruffydd ab Rhys yn Garcharor iddaw neu ynteu ei benn ef, a Gruffydd ab Cynan a ymdynghedawdd a'r Brenin y gwnai ef hynny, ac annhrugarocced oedd ei waith, a gwarthused ei wneuthur, ac ef yn ei ddiawd yn Llys y Brenin a ddywedawdd y cyfan yng nghlyw Car i Gerallt ac a ddanfones attaw geannad cyflym, a gwedi dangaws hynny i Nest chwaer Gruffydd ab Rhys hi a ddanfones genhadon brysfawr at ei brodyr yng Ngwynedd, a hwy a ddodasant eu hunain yn nawdd yr Eglwys, a phan ddaeth Gruffydd ab Cynan yn ol i Wynedd gofyn a orug am Ruffydd ab Rhys ai frawd Hywel, a phan glybu efe eu bod yn nawdd yr Eglwys yn Aberdaron, danfon Llu er eu cyrchu attaw, a'r Eglwyswyr ni adawent i hynny fod, na thorri nawdd Duw a'i Saint. a thra bu felly'r ymdynny rhwng yr Eglwyswyr a swyddwyr y Tywysawg, daeth Llong o Ddyfed hyd yn Enlli, a morwyr a drugarhäent wrth Ruffydd ab Rhys ai dug at y Llong yn Enlli, ac yna diane o Ruffydd ab Rhys ai Frawd at ei enedl yn Ystrad Tywi.

Gwedy dyfod o Ruffydd ab Rhys hyd yn ei wlad, sef Ystrad Tywi, dechreu ym-luyddu, a gwŷr ei genedl ac ai carai yn ymnifeiriaw tuag attaw, a chan ossawd ar genedl y Saeson, eu diffeithiaw a'u torri a diffeithiaw terfynue Dyfed a Cheredigiawn, yna danfones y Brenin Owain ab Caradawc, ac Owain ab Rhydderch, a Rhydderch ab Twdwr, ac eraill ai carai ac arch iddynt wrthladd Gruffydd ab Rhys, a Gruffydd a aeth yn erbyn Castell Abertawy a wnaethai Harri Bwmwnt ac a losges oi gylch, ac nis gallawd ei dorri eithr diffeithiaw Tir Gwyr, a dwyn ysbail ddirfawr hyd yn Ystrad Tywi, yna myned i'r Cantref Bychan ai diffeithiaw, a gwarchae Castell Llanymddyfri, eithr Meredydd ab Rhydderch ab Caradawc ai differes yn gadarn, ac nis gallai Rys amgen na llâd rhai o'r castellwyr, a llosgi tai, a diffeithiaw tiroedd Richard De Pwys, yna myned yn erbyn Castell Caerfyrddin ai faluriaw a llosgi'r Dref yn ulw, a dwyn ysbail fawr hyd yn Ystrad Tywi.

Yn y flwyddyn honno bu marwolaethau trymion ar y Saeson achaws echrushaint, ac nis gallai'r Brenin gael gwyr wrth ei raid, a haint hefyd ar yr anifeiliaid onid aeth prinder ymborth yn drwm ar Loegr, ac nid felly yng Nghymru, a hynny a fu gyfnerth i Ruffydd ab Rhys, ac yn hynny o amser daeth y Ffandrysiad yr ail waith i Loegr achaws y Mor yn diffeithiaw eu tiroedd lle y torres Morlif y Tywyneu flynyddau o'r blaen, a'r Brenin ac eisieu gwŷr arnaw yn erbyn rhuthrau Gruffydd ab Rhys, a ddanfones at ei gastellwyr, ai swyddogion, a'r Ffrancod, a'r Cymry, ai carai, ac arch iddynt arfoll y Flandrysiad a doddi modd i fyw iddynt yn ammod iddynt fod yn wyr cad a gossawd wrth achaws y Brenin ai ffyddloniaid, ac felly y bu, a'r Dieithraid hynny a gawsant y Rhws yng Ngwlad Penfro Dyfed, ac a wledychasant yno yn wyr ffydd i'r Brenin, ac efe a ddodes Saeson yn eu mysg er dysgu iaith y Saeson iddynt a'r awr honn Saeson ydynt, ac yn ormes Dyfed a Deheubarth, achaws eu twyll a'u celwyddocrywydd, yn anad neb a wle lychant o fewn i derfynau Ynys Prydain.

Oed Crist 1114, y dug Ruffydd gastell Cedweli oddiar Wiliam De Lwndwn, ac a ddiffeithiawdd ei gyfoeth, ac a ddug ysbail fawr o'r Wlad honno, yna daethant Benedefigion ei genedl attaw o Geredigiawn nid amgen Cadifor ab Gronw, a Hywel ab Idrnerth a Thrahaearn ab Ithel, a llawer eraill o wyr dewisawl yn eu gosgorddau, a

thruw gyfnerth y rhai hynny yr ennilles Gruffydd ab Rhys lawer o diroedd a chyfoeth ei Dâd, a thorri llawer o gestyll, a dwyn ysbeiliau mawrion, a phan glybu'r Brenin hynny danfon a orug at Owain ab Cadwgawn a elwid yn Neheubarth Owain Fradwr, a Llywarch ab Trehaearn ab Ithel ac addaw rhoddion a breiniau anrhydeddus iddynt am fyned yn erbyn Gruffydd ab Rhys, ac yna myned wrth arch y brenin a wnaeth Owain a Llywarch; a phan wybu Gerallt Rhaglofydd Castell Penfro ddyfod Owain y Geredigiawn daeth ar gof iddaw a wnaethai Owain am Nest ei wraig, a bwriadu dial hynny o Sarhâad, a myned efe ai wyr am benn Owain ai wŷr, a chynn nemawr o ossawd y lladdwyd Owain a saeth, ac fal hynny y darfu iddaw am a wnaeth o ddyrgau i Genedl y Cymry, fwy nag a wnaethpwyd erioed o'i flaen gan y gwaethaf o fradwr a wybuwyd erioed am danaw: o honaw ef y bu dechreu Gwylliaid Mawddwy, a geffir fyth yn arneithiaw gwlad ym mhell ac agos.

Ynghylch hynny o amser cyrchawdd Gruffydd Ceredigiawn ac a dorres Castell Porth Gwythain ac a laddes y castellwyr, yna goresgyu yr holl wlad o'i amgylch hyd ym Mhenwedec, yna ynnill Castell Ystrad Peithell. Gwedi hynny ymossawd am Gastell Aberystwyth lle lladdwyd llawer o'i wŷr o dwyll, ac y gorfu arnaw ymchwelyd yn ei gollod.

Yr un flwyddyn y gwelwyd goleuni rhyfedd yn yr Ogleddwybr ar hyd Nos.

Oed Crist 1115, aeth Rhobert Consyl yn erbyn Gruffydd ab Rhys a phan ddaethant hyd yn Ystrad Tywi efe a golles agos ag oedd yn ei Lu o'r Cymry, y rhai ai gadawsant ef am na fynnent fyned ym mhlaid Estron yn erbyn Gwr o dywysawg cyfiawn o Gymro diledryw, yna Rhobert a ddychweles adref hyd yn Newsbri, ac ni ymddiriedai efe aros yng Nghastell Caerdydd am y gwyddai nas cerid ef yn y wlad honno, achaws y chwennychai newid Defodau Cenedl y Cymry.

Yn yr un flwyddyn y bu ymrysson rhwng Hywel ab Ithel a Rhirid ab Bleddyn, a gynhelynt Rôs a Rhyfoniawc, a Llywarch ab Edwin, a phan nas galled cymmod iddynt anfon a orug Hywel at Feredydd ab Bleddyn a meibion Cadwgawn ab Bleddyn am Gyfnerth, a dyfod a wnaethant a phedwar cant o Wyr Meirch hyd yn Nyffryn Clwyd, ac yno y bu ymladdfa dost yn y llas goreuon Gwyr Gwynedd a Phowys, ac o'r cyfnerth a gafas y gorfu Hywel ar ei elynion, ac yno y llas



Llywarch, a Rhirid a ffoes, a chyn nemawr y bu farw Hywel achaws clwyf a gafas ef yn yr ymladd; yna'r ymchweles meibion Cadwgawn i Wlad Feiriawn, a dwyn ganthynt ysbail ddirfawr, yn yd a gwartheg.

Oed Crist 1116, y bu llifeiriant aruthrawl yn Loegr am wyl y nadolic ac y boddes llawer o'r ysgrublaidd, ac y bu drudaniaeth a'r ymborth mewn llawer mann achaws hyny, ac y daeth Saeson lledragar i ysbeiliaw Gwlad Gymru.

Oed Crist 1118, daeth Harri Frenin i Bowys a Llu cadarn ganthaw yn erbyn Meredydd ab Bleddyn a meibion Cadwgawn, sef y rhai hynny Einion, a Madawc, a Morgan, a phan glybuan, danfon at Ruffydd ab Cynan ac erchi Cyfnerth ganthaw ac nis caent hynny canys ni thorrau Ruffydd heddwch y Brenin, ac ni chaent ei nawdd, a phan wybuan hynny ymgaloni yn gadarn, gan nas gellynt amgen, ac yn erbyn y Brenin a gyrru ffo arnaw a lladd llawer oi wŷr yna, heddychwyd ryngddynt a'r Brenin yr hwnn a ymchwelawdd yn ei ol yn ei golled, ac y casas Bowys lonyddwech dros ychydig amser, ond nid rhy hir.

Oed Crist 1121, bu farw Einion ab Cadwgawn a chymunaw ei dir ai gyfoeth i Faredydd ei Frawd, eithr Meredydd ab Bleddyn ei ewythr, ac Ithel ab Rhirid ab Bleddyn ei gefnder a ddugasant ei Diroedd Cyfoeth oddiarnaw, a phan glybu Gruffydd ab Cynan y modd y bu hynny, danfon Cadwallawn ac Owain ei ddau fab a llu cadarn i Feirion er gyrru cyfiawnder, a doddi yn ol i Feredydd ab Cadwgawn ei Nai ei gyfoeth ai Diroedd, a gorfuant Gadwallawn ac Owain ar Feredydd ab Bleddyn, ac adynnill y wlad i Feredydd ab Cadwgawn, a diffeithiaw Tiroedd Llywarch ab Trehaearn yn greulon am gyfnerthu Meredydd ab Bleddyn.

Yn yr un flwyddyn ymheddychwyd rhwng y Brenin Harri a Gruffydd ab Rhys, a chaniadhau iddaw ei Gyfiawnder ai Dir yn rhydd, sef Ystrad Tywi, a Chantref Penwedig yng Ngheredigiawn, a Chantrefydd Caerwedros a'r Cantref Bychan, a Chaethinawc, a Chaeaw, a Myfennydd, a Thiroedd eraill; eithr y Brenin a weles eu bod y Tiroedd yn amhennodawl eu terfyneu modd y caffai achaws ban fai da ganthaw i achwyn ar a wnelai Ruffydd ial y gwelwyd yn y diwedd.

Oed Crist 1122, y llas Ithel ab Rhirid gan ei ewythr Meredydd ab Bleddyn, a Chadwallawn ab Gruffydd ab Cynan a dynnawdd Lygaid ei ewytredd Gronw, Rhirid a Meilir, meibion Owain ab Edwin,

a gwedi hynny eu diaelodi, ac ym mhen ychydig wedi hynny efe au lladdawdd. Ac ynghylch yr un amser y lladdawdd Morgan ab Cadifor Meredydd ei frawd ai law ei hun.

Oed Crist 1124, bu farw Meredydd ab Bleddyn yn ei henaint peth nid mynych y gwelid ar Deulu Bleddyn ab Cynfyf. Yr un flwyddyn carcharwyd Meredydd ab Llywarch yn drachyfiawn gan Owain ab Gruffydd ab Cynan, achaws iddaw dynnu llygaid meibion Griffri, eithr efe a dorres ei garchar ac efe a ddaliwyd ac a dynnwyd ei lygaid gan feibion Meuryg ab Griffri, ac a ddoded ar benn mynydd ynial lle y bu farw o newyn a rhyndod, ac fal hynny y dialwyd arnaw am ei greulonder.

Oed Crist 1125, y tynnawdd Ieuan ab Owain lygaid ei ddau frawd, mal ydd arferid yn Nheuluoedd Gwynedd a Phowys.

Oed Crist 1126, lladdawdd Llywelyn ab Owain Iorwerth ab Llywarch, ac yn ebrwydd wedi hynny y tynnwyd llygaid Llywelyn gan Feredydd ab Rhirid, ac yng nghylch yr un amser y lladdwyd Ieuan ab Owain gan yr un Meredydd, ebwydd wedi hynny y lladdwyd Llywarch ab Madawc gan Feuryg ei gefnderw, a chynn hir o amser wedi hynny y tynnwyd llygaid Meuryg ac ai dispaddingwyd, a hynn herwydd arfer eu Teuluoedd.

Yng nghylch yr un amser Morgan ab Cadwgawn, ac efe wedi bod a llaw gref yn y gwaith o ladd a dilygeidiaw, a gymmeres attaw ei gydwybod, ac yn ei edifeirwech a aeth ym mhererindawd i Gaersalem; ac ar ei ddychwel bu farw yn Ynys Suprys yn Mor Groeg.

Oed Crist 1129, y llas Iorwerth ab Owain gan Gadwallawn ab Gruffydd ab Cynan, yna Einion ab Owain a fynnai ddial angau ei frodyr ar Gadwallawn, ac efe a Chadwgawn ab Gronw ab Idnerth yu gwybod y lle y delai Gadwallawn yn Nanheudwy, a aethant yng nghlynllwyn, a phan ddaeth ef y ffordd honno, rhuthraw arnaw ai ladd, ai roddi'n fwyd i Gwn.

Oed Crist 1130, y dodes y Ffrancod gwyn at y Brenin yn erbyn Gruffydd ab Rhys, yna'r Brenin a roddes orchymyn difreiniaw Gruffydd a dwyn ei gyfoeth a'i diroedd oddiarnaw, a phan ddanfones Gruffydd i wybod achaws y cwyn ni chai efe gan neb ei ddangaws; yna Gruffydd a gynhullawdd ei genedl ai luoedd, ac amddiffyn ei hunan ai wlad, ac yn gyfnerth iddaw yd aeth Hywel ab Meredydd o wlad Frecheiniawc a llu cadarn, a myned yn erbyn y Ffrancod a'r Saeson a ddaethant i dir Rhys, a gyrru ffo arnynt, ac ni fynnai

Rys lladd lle y gallai amgen, a gwedi gyrru ffo ar ei elynion Gruffydd a ddanfones genadon anrhydeddus yn nawdd Daniel ab Sulien Escob Dewi i wybod achaws y cwyn a ddodasid arnaw, ac ni chai ateb gan y Brenin, eithr efe a gafas lonydd dros amser wedi hynny.

Oed Crist 1133, bu farw Gwrfan Escob Teilaw yn Llan Dâf, gwr doeth haelionus ydoedd, ac efe a roes feddiannau anrhydeddus i Eglwys Llan Dâf ac i'r Monachlogydd a ddrygesid yn Rhyfel Iestin ab Gwrgan a Rhobert ab Amon. Gwr oedd a waharddai bob drwg-ddefawd ac annwyfoldeb, ac a ddyddiai yn drywyngar ym mhob ymrysonau, ac achaws ei waith felly y cadwed fwy o heddwch yn ei blwyf nac a gaid yn un rhan arall o Gymru. Yn ei amser ef y gwnaethwyd Eglwys Llan Dâf yn fygedicach nac y bu erioed cyn no hynny.

Yr un flwyddyn y bu farw Rhobert fab y Brenin Bastardd yng Nghastell Caer Dydd ac ai claddwyd yng nghaerloyw wedi bod yng ngharchar yng Nghaer Dydd un mlynedd ar bymtheg ar hugain, a'r un flwyddyn y llosged y rhan fwyaf o Dref Caerloyw gan wylliaid o Saeson a ysbeiliwyd o'u tiroedd gan y Brenin coch lle y gwnaeth ef y Gelliwig newydd yn Lloegr.

Oed Crist 1134, bu farw Harri Frenin yn Ffrainc ac y gwnaethpwyd Ystyffan ei Nai yn frenin yn ei le, a bu llongyddwch y flwyddyn honno yng Nghymru.

Oed Crist 1135, y Brenin Ystyffan a ddanfones at Ruffydd ab Rhys i orchymyn iddaw ddyfod attaw yn ddiodor i ateb cwynyn a roesid arnaw gan y Ffrancod, a Gruffydd heb wybod achaws cwyn a gynhullawdd ei wŷr, ac ymluyddu, ac yn gyfnerth iddaw daeth Cadwaladr ac Owain meibion Gruffydd ab Cynan, a myned yn ddisyfyd yn erbyn ei elynion yng Ngheredigiawn, a lladd aneirif o'r Ffrancod a'r Saeson, a thorri cestyll iddynt, a dwyn ysbail fawr hyd nas gellid bwyd ac ymborth iddynt ymgynnal yn ei erbyn ef, ac attynt y daeth Hywel ab Meredydd a Rhys ab Madawc ab Idneith a Llu Mawr, yna ydd aeth Gruffydd i Aberystwyth ac a dorres y Castell yn garnedd, a gwedi hynny lladdasant y Ffrancod a'r Saeson a gadwent Geredigiawn a Dyfed, a'u gyrru ar ffo dros for i Lloegr, a dodi'r Cymry a ddoded allan o'u Tiroedd gan y Dieithraid yn ol yn eu Trefydd a'u Tiroedd, a'r Ffrancod a'r Saeson ar eu ffo rhag Gruffydd ab Rhys gerllaw Glynedd, a daeth meibion Caradawc ab Iestin yn eu herbyn, ac au lladdawdd dros dair mil o naddynt, a gyrru ffo

ar eraill, ac ychydig o Saeson o ddianghasant i wlad Gwyr lle y cawsant nawdd y Cestyll a wnaethai Harri Bwmwnt yno.

Gwedi adyngnill ei diroedd fe wnaeth Gruffydd ab Rhys Wledd anrhydeddus yn Ystrad Tywi; lle y gwahoddes efe attaw bawb a ddeuant yn heddwch o Wynedd, a Phowys, a Deheubarth, a Morganwg, a'r Mers, a pharottoi pob moethus o fwydydd a diodydd, a phob ymryson Doethineb, a phob diddanwch Cerdd arwest a cherdd dannau, a chroesawi prydyddion, a cherdd-orion, a chynnal pob chwareuon hud a lledrith, a phob arddagos, a phob campau gwrolion, ac i'r wledd honno y daeth Gruffydd ab Cynan a'i feibion, a llawer o'r Pendefigion ym mhob Ardal yng Nghymru, a chynnal y Wledd dros ddeugain niwâr-nawd; ac yna gollwng pawb tua'u cartrefi, a dodi rhoddion anrhydeddus i a'u dirperynt o Feirdd, a Cherddorion, a Doethion, a Champusion o bob rhyw.

Gwedi'r Wledd honno fe ymroddes Gruffydd ab Rhys i alw attaw y Gwyr Doethion a'r Ysgolheigion, a myned yn eu cyngor, a dodi Trefn a Chyfraith ar bawb o fewn ei gyfoeth, a threfnu Llys ym mhob Cantref, a Rhaglys ym mhob Cwmwd, a'r un peth a wnaeth Gruffydd ab Cynan yng Ngwynedd, a drwg y bu gan y Ffrancod a'r Saeson weled y pethau hynny, a dodi cwyn yn erbyn y ddau Dywysawg at y Brenin Ystyffan a wnaethant, ac am nas gwyyddai Ystyffan a fai oreu ni ddodes ef ateb i'r cwynau.

Oed Crist 1136, bu farw Gruffydd ab Rhys y gwrolaf, a'r doethaf, a'r trugaroccaf, a'r haelionusaf, a'r cyfiawnaf, o'r holl Dywysogion, a mawr y bu'r galar o'i farw, a Rhys ei fab a gymerth ei le, ai fam ef oedd Gwenllian merch Gruffydd ab Cynan.

Yr un flwyddyn bu farw Gruffydd ab Cynan Tywysawg Gwynedd wedi gorësgyn o honaw Wynedd tros chwech a deugain o flwynyddoedd, a galarus pawb yng Ngwynedd ar ei ol, can ni chaffad er yn hir o ameserau cyn noc ef ei gystal o Dywysawg yn y wlad honno o'i Genedl, sef Gwehel-yth Rhodri Mawr.

Oed Crist 1137, Owain ab Gruffydd ab Cynan, a elwir Owain Gwynedd, a ddechreuawdd rioli Gwynedd, ac efe a ddug gyrch yn erbyn y Ffrancod a'r Saeson yng Ngheredigiawn a Dyfed, ac a dorres Gestyll Ystrad-Meuryg, a Chastell Pont Ystyffan a wnathai'r Brenin, a Chastell Caerfyrddin, a llosgi'r Dref ai hysbeiliaw, a dwyn anrhaith ddirfawr ganthaw i Wynedd.

Oed Crist 1138, y llas Cynfrig ab Owain Gwynedd, gan Fadawc ab Maredydd ab Bleddyn ab Cynfyn.

Yn yr un flwyddyn y bu ymryson rwng y Brenin Ystyffan a'r Tywysogion Seisnig, a'r Brenin a ddug warchae ar Gaer Lyncol lle yddoeddylt y Tywysogion yn eu llawn gynghyd, yna Rhobert Consyl a ddug Lu Mawr o'r Cymry yn erbyn y Brenin yn gyfnerth iddei chwaer Mawd yr honn oed briawd ac ymtherawdr yr Almaen, a chydac ef Rhanwlff Iarll Caerllion a llu o wyr Rhyfoniawc a Thegeingl, a Gilbert Iarll y Clâr a llu mawr o Wyr Dyfed, a llawer o Bendefigion Ffrancod a Saeson, a gwarchae ar y Brenin, a'i ddal, a'i ddodi yng Ngharchar, a goreu am wroldeb y gwelwyd y Cymry; ac yn yr ymladdfa yno y cymmerth Iorwerth ab Owain ab Caradawc y blaen ar Iarll y Clâr, a digiaw'n fawr ei lid a wnaeth yr Iarll, ac efe'n gweled Iorwerth wrtho i hunan yn ymyl afon yn pysgotta, fe aeth attaw ac a roddes iddaw Fonclust, gan ei alw yn Gymro gwladaidd na wyddai fonheddigeiddrwydd, yna Iorwerth a darawawdd yr Iarll ai ddwrn oni bu farw, a phan glybuwyd hynny yng Nghymru myned a wna'i'r Cymry yn erbyn Castell meibion Ychtryd, (lle ydd oedd yr Iarll wedi ffoi o Gastell Caerfyrddin,) a gyrru ffo ar y Castellwyr, a hwy ai ysbeiliasant ac a'i llogasant; yna y dug Owain ab Gruffydd holl Geredigiawn y danaw, ac a fynnes Gêd ganthynt.

Oed Crist 1140, y llas Hywel ab Meredydd ab Rhydderch, Arglwydd y Cantref Bychan, gan y Ffrancod, ac yng nghylch yr un flwyddyn y llas Hywel ab Meredydd ab Bleddyn gan ei genedl ei hun, ac y bu ymryson rwng Hywel a Chadwgawn meibion Madawc ab Idnerth, ac y lladdasant y naill y llall.

Oed Crist 1142, y bu ymryson rwng Anarawd ab Gruffydd ab Rhys a Chadwaladr ab Gruffydd ab Cynan, Anarawd oedd briawd a merch Cadwaladr, ac efe a fynnai gyfnerthu Rhys ab Gruffydd ei frawd, ac ni fynai Gadwaladr hynny; a geiriau digofus a fu rymgthynt oni wanes Gadwaladr Anarawd yn ei ais ag y bu farw, a phan glybu Owain y Tywysawc hynny, myned yn ei ddig a llu mawr hyd yng Ngheredigion a gyrru ffo ar Gadwaladr dros y mor i'r Werddon, a dwyn Aberystwyth ai holl diroedd; eithr Cadwaladr a ddug gydac ef o'r Werddon Lu dirfawr hyd yn Arlon, a dodi Cad ar Faes yn erbyn Owain, ac ynteu a gynnulawdd ei wŷr, eithr Hywel ab Gruffydd ab Cynan,

yn gweled ei frodyr ar ddarpar ymladd, a aeth ryngddynt, ac a weithiawdd arnynt yn y cyfryw fodd onid ymheddychasant, a phan welei'r Gwyddyl hynny, ac na chant ysbail, dal Cadwaladr, ac nis gollyngynt yn rhydd oni thalawdd ef iddynt ddwyfil o wartheg, a gwedi cael hynny yn heddwch hwy a ddygasant lawer yn anrhaith, yna myned yn eu herbyn a wna'i Owain, a'u lladd, a dwyn oll a feddynt o'r gwartheg a phob peth arall.

Oed Crist 1143, diffeithiawdd Rhanwlff Iarll Caerllion Faelienydd ac ai dug y danaw, ac a wnaeth Gastell Elfael y Chastell Colunwy.

Oed Crist 1144, y diffeithwyd Aberteifi a Cheredigiawn, ac y lladdwyd llawer o'r Ffrancod a'r Saeson, ac a ddynillwyd y wlad honno gan Hywel a Chynan meibion Owain Gwynedd.

Oed Crist 1145, y cyweiriawdd Iarll y Clâr Gastell Caerfyrddin a Chastell Meibion Uchtryd.

Yr un flwyddyn y bu farw Sulien ab Rhyddmarch mab maeth Eglwys Llanbadarn Fawr, doethaf ei gynghor a dwyfolaf ei ddysg o'r holl Eglwyswyr ym mhlwyf Dewi; a diflinaf ei waith tra fu byw er attal drwg a chrenlonder.

Yn yr un flwyddyn y dynillles Rys ab Gruffydd a Chadell ei frawd Gastell Dinefwr, a Chastell Caerfyrddin, ac ni lladdai amgen nag a gaffai yn arfawc yn ei erbyn. Gwedi hynny ynuillawdd ef Gastell Llanstyffan ac a laddes lu mawr o'r Ffrancod, a'r Saeson, a'r Ffandrysiad a ddaethant yn ei erbyn. Yna mewn llawn ddigofaint y gelynton a gynnulasant lu dirfawr ac ymossawd ar y Castell yn dra ffyrnig, ond Meredydd ab Gruffydd, gwr doeth a chalonaug a'u gyrrawdd yn eu gwrthol gan eu lladd yn dost, oni orfu arnynt ymollwng o'r Gwarchau.

Yn un flwyddyn y dug Owain Gwynedd Gastell yr Wyddgrug ac a laddes luoedd dirfawr o'r Saeson a fynnynt ei gynnal ai amddiffyn, ac efe ai torres i'r llawr, lle nis gallai neb cyn no hynny ei ynnill.

Yngylch hynny o amser ydd aeth llawer o Saeson, a niferoedd mawrion o'r Cymry ym mhererindawd i Gaer y Salem oni weled diffyg yn fawr o fod hebddynt.

Cylech yr un amser y dodes Robert Consyl fodd i wyr ieuaine ddysgu creffteu a chelfydddeu, ac a ddug Athrawon o Ffrainc, a chyn no hynny crefftwr pob Gwr iddaw ei hunan yng Nghymru namyn y creffteu breiniawl; sef Gofaniaeth saer-  
niaeth, ac ysgolheigiaeth y rhai hynny.

Oed Crist 1146, ynnill Castell Gwys gan Gadell a Rhys, a Meredydd, meibion Gruffydd ab Rhys ab Tewdwr, a Hywel ab Owain Gwynedd yn gyfnerth iddynt, ac efe a wnaeth Beiriannau cyrfin a dorrai muriau mewn modd rhyfeddawl, ac a furiai gerrig mawrion i'r Castell ac o hynny ei ynnill.

Yr un flwyddyn y diffeithiwyd cyfoeth Cadwaladr ab Gruffydd gan ei neieint ac aethant am benn Castell Cynfael a gadwid tros Gadwaladr gan Ferlyn Abad y Ty Gwynn ar Dâf yr hwn ai amdifflawdd yn wrol, ac ni chaid er na gwerth na gwobr ganthaw ollwng y Castell iddynt, achaws hynny maenu'r Castell oni thorwyd ef i'r llawr, a lladd y Gwŷr oll ac oedd ynddaw namyn Merfyn, a hwnnw ni leddynt gan mai mab maeth Eglwys ydoedd, eithr ei ellwng ar ddianc, yna diffeithiaw tiroedd rhai a fyfnynt eu gwrthladd, a dwyn ysbail fawr.

Yr un flwyddyn y bu farw Rhobert Consyl Tywysawg Morganwg ac Iarll Caerloyw, Gwr yn bennaf o neb a gynhelis Ryfel yn erbyn y Brenin Ystyffant, a diffeithiaw ei diroedd, fal nas casaf y Brenin nemmawr o Lonyddwch ganthaw.

Yr un flwyddyn y bu farw Uchtryd Escob Llan Dâf, gwr mawr ei ddysg a'i ddwyfoldeb, efe a wnaeth Drefn ar y Suliau a'r Gwyliau, a Gwyliau Mab Sant, a'u cynnal yn olychwydawl lle nas gwnelid hynny o fodd ac arfer; ac yn ei le ef y gwnaed Nicolas ab Gwrgant yn escob yn ei le ef.

Oed Crist 1147, y bu farwolaethau mawrion yng Nghymru, achaws haint, a bu farw Berned Escob Dewi, a Dafydd fab Gerallt a wnaed yn Escob yn ei le.

Yr un flwyddyn y bu ymrisonau rhwng wyrion Iestin ab Gwrgan a Wiliam ab Rhobert Consyl, ond heddychwyd rhyngthynt drwy athrywyndeb Nicolas Escob Teilaw, ac y doded baint ffair a marchnad ym mhob Arglwyddiaeth; ac nas gellid caeth o Gymro Dyledawg hyd nas profid arnaw gwyn galanas, gwedi hynny ymlonyddu a wnaethant y Cymry, a llawer a ddaethant wedi hynny o Drefn i Forganwg i wladychu achaws diogelwch a gaid yno rhag anghyfraith y Ffrancod yn Nyfed, a Cheredigiawn, a manau eraill.

Oed Crist 1148, gwnaethpwyd Castell Llan Rhystyd gan Gadwaladr ab Gruffydd, ac y dodes y Castell a chyfoeth attaw i Gadwgawn ei fab, ac ni wnai hwnnw a fai iawn yn ei wlad, achaws ydd aethant ei wyr ef at Hywel ab Owain Gwynedd a

damunaw arnaw gymeryd eu blaen, ac y rhoddent gyfoeth Cadwaladr ar ellwng iddaw, a bu fal hynny.

Oed Crist 1149, cyweiriawdd Cadell ab Gruffydd ab Rhys Gastell Caerfyrddin yn drachadarn, wedi hynny myned yn erbyn Cedweli a diffeithiaw'r wlad, a dwyn ysbail fawr; yna ymgfunaw Gwyr ac ymgais ai frodyr Meredydd a Rhys, a myned yng Ngheredigiawn, ac ynnill y Wlad is Aeron a'r holl diroedd a feddai Hywel ab Owain, a gwedi gossawd hir a blin am Gastell Llan Rhystyd ei ynnill a lladd yr holl Gastellwyr ynddaw, ac yna ynnill Castell Ystrad Meuryg ai gyweiriaw a doddi Castellwyr ynddaw, ac yna ymchwydd i Ystrad Tywi a chanddynt ysbail fawr dros benn'yn ydoedd, a gwartheg, a ddoedd eraill.

Oed Crist 1150, Cadell ab Gruffydd, ac ynteu yn hely yn Nyfed, a rhai o Saeson Gwyr yn gwybod yr amser y byddai yno, dodasant Gynllwyn er ei ladd, a gwedi dyfod arnaw, a gyrru ffo ar ei gyfeillion, rhuthrasant yn ei erbyn, eithr efe yn wr glew a chadarn a ymdiffynawdd ei orsaf ac a laddawdd rai o'i elynion, a gyrru ffo ar y lleill, eithr efe a gafas glwyf trwm, a nychu'n flin o'i achaws yn hir o amser, a phan welasant hynny ei frodyr Meredydd a Rhys, cyrchu Gwyr a'u lluoedd, a galw am y cynllwynwyr, a phan nas cânt, ymosawd ar y wlad ai diffeithiaw, a thorri Castell Aber Llychwyr yn garnedd, a llosgi Castell Llan Rhidian, a dwyn ysbail fawr ganthynt i Gastell Dinefwr, a chadarnhau'r Castell hynny, a doddi Castellwyr ffyddlon a gwybodus ynddaw.

Ynghylch yr un amser daeth Rhanwlff Iarll Caerllion a Llu dirfawr o Saeson a Ffrancod i Wynedd, ac Owain ab Gruffydd yn ei erbyn a llu o'r ffyddloniaid, ac yn gyfnerth i'r Iarll Madawc ab Meredydd Tywysawg Powys, a bu Cad ar faes, ac yng Ngwaith Cwnsyllt y gorfu Owain ar ei elynion, a'u lladd yn aruthrawl, a gyrru ffo ar y rhai a weddilliwyd.

Cylch yr un amser y mynnes Nicolas ab Gwrgan, Escob Teilaw, adgyweiriaw nawdd yr Eglwysi a dorred er yn amser Iestin ab Gwrgan, ac y doded yn gywair eu nawdd cyssffin i Eglwysi Llan Daf, a Llan Carfan, a Llan Illtud, a Llan Doche, a Llan Ffagan, a Chaer Llion, a Chaer Went, ac i'r Eglwysi eraill herwydd a fu gynt; ac y deddfwyd Nawdd a weddai i'r Mynachlogydd newyddion, hyd onid aeth Rhan fawr o Blwyf Teilaw yn Nawdd yr Eglwysi, ac y bu achaws hynny lonyddwch

ym Morganwg yn amgen nac un mann arall yng Nghymru, a gwedi hynny adgyweirwyd yr Eglwysi a fwriesid i lawr, ac y gwnaed newyddion lle nad oedd o'r blaen, ac o hynny gwell yn trin eu tiroedd, ac nid cystal yn rhyfel, Gwyr Morganwg a Gwent.

Oed Crist 1151, y tynnes Owain Gwynedd lygaid Cunedda fab Cadwallawn, ei Nai fab ei frawd, ac ai dyspyddawdd, a chylch yr un amser y torres Gadwaladr ab Gruffydd ab Cynan y Carchar ai doded ynddaw gan Hywel ab Owain ei Nai, a myned i Fôn, ac efe a ddug rann fawr o'r ynys y danaw, eithr Owain ei Frawd wedi clywed hynny a gynhullawdd lu yn ei erbyn, a chan fyned i Fôn efe ai gyrrawdd ar ffo, ac a ddug yn ôl yr Ynys iddaw ei hun.

Cylch yr un amser yr aeth Meredydd a Rhys, meibion Gruffydd ab Rhys, yn erbyn Castell Penwedie, ac ai ynnillasant oddiar Hywel ab Owain wedi cynnal y gwarchae yn hir ac yn flin, gwedi hynny ynnillasant Gastell Tinbych yn ddisyfyd, ac a laddasant y Castellwyr, canys i'r Castell hwnnw y ffoesynt y rhai a gynllwynasant er ladd Cadell ab Gruffydd eu brawd. A phethau 'n myned fal hynn fe ddanfones Rhys at Forgan ab Caradawc ab Iestin ei gefnder, (canys Gwladys ferch Gruffydd ab Rhys ab Tewdwr oedd Gwraig Caradawc, a Mam Morgan.) ac erchi cyfnerth gantaw ac y gorrynt y Ffrancod a'r Saeson o bob Gwlad yng Nghymru, a danfon yr un neges at Fadawc ab Meredydd Tywysawg Powys, ac nis caffai hynny ar law un o naddynt; yna ydd aeth Rhys i Gyfeiliawc ac ai diffeithiawdd yn flin, a dwyn ysbail drom oddiyno; a Meredydd a ddug ei Lu yn erbyn Morgan ab Caradawc i Forganwg, ac ymossawd am ei Gastell yn Aberafan, ai faluriaw, a dwyn ysbail fawr; eithr Morgan ai Wyr a ffoasant, ac a ddodasant eu hunain au Gwŵr yn nawdd yr Eglwysi a'r Monachlogydd, ac yn nawdd Wiliam ab Rhobet Tywysawg Morganwg.

Ynghylch hynn o amser bu farw Einion Mebydd Celynoe Fawr, doethaf o ysgolheicion Gwynedd; efe a gynghorai ddoethineb, a chyfiawnder, a thrugaredd, ond bychan y caffai o'i gynghor yn y Wlad honno.

Oed Crist 1152, bu farw Rhanwlff Iarll Caerllion, gelyn cadarnaf Owain Tywysawg Gwynedd.

Yn yr un flwyddyn y gwnaethpwyd Galffrai ab Arthur (offeiriad Teulu Wiliam ab Rhobert) yn Escob, eithr cyn ei fyned yn ei Ansawdd efe a fu farw yn ei Dy yn

Llan Dâf, ac a cladded yn yr Eglwys yno. Gwr ydoedd ni chaid ei ail am ddysg a gwybodau, a phob campau dwyfawl. Mab Maeth oedd ef i Uchtryd Archescob Llan Daf, a nai mab brawd iddaw, ac am ei ddysg a'i wybodau y doded arnaw Febyddiaeth yn Eglwys Teilaw yn Llan Daf lle y bu ef yn Athraw llawer o ysgolheigion a phendefigion.

Oed Crist 1154, bu farw y Brenin Ystyffan, a Harri ei gefnder a wnaed yn frenin yn eile, a elwir Harri yr ail.

Pan oedd Ystyffan yn Frenin fe ddaeth gydag ef laweroedd o'r Fflandrysiad i Ynys Prydain, a'r rhai hynny ai carent, ac efe a ddodai lawer o roddion ac anrhydedd iddynt, canys goreuon o'i Bleidyddion oeddynt, a gwedi dyfod Harri'r ail ni chaent aros yn Lloegr, achaws hynny daeth niferoedd mawrion o honynt i Gymru, a llawer o'r Saeson a gerynt Ystyffan, a'r dieithraid hynn a aethant yn wyr damdngw i Bendefigion y Ffrancod yng Ngheredig-iawn a Dyfed.

Oed Crist 1156, annogawdd Cadwaladr ab Gruffydd a Madawc ab Meredydd y Brenin Harri i ddiffieithiaw Gwynedd, a phan wybu Owain y Tywysawg hynny, ymluyddu yn ei erbyn, ac yng Ngwaith Coed Eulo y llas y Saeson mal eu lleibiaw, a gorfu Owain arwynt yn anrhydeddus, lle nid oedd o wyr gantaw namyn un ym mhen pob deg o Wyr Harri, a thra bu hynny ar waith y dug Iorwerth ab Meredydd Gastell Iâl gan ei faluriaw, yna'r Brenin a ymheddyches a'i Tywysawg, ac y cafas Gadwaladr ei gyfoeth.

Yn yr un flwyddyn y llas Gwrgan ab Rhys ab Iestin gwr dysgediccaf o Brydydd a gaid yn ei amser y gan Ifor ab Meuryg o Sainghenydd, a Morgan ab Owain ab Caradawc a fynnai ddial hynny, a myned am benn Ifor ai ladd a dwyn ei diroedd, a'u rhoddi yng Ngyfoeth Iorwerth ab Owain ei frawd Arglywydd Caerllion ar Wysg.

Oed Crist 1157, ymheddychawdd Rhys ab Gruffydd a'r Brenin Harri, a'r Brenin ni chadwai'r heddwch, eithr danfon Iarll y Clar i ddiffieithiaw Tiroedd Rhys, ac ef a laddwyd llawer o'r Cymry ac ysbeiliaw eu dâoedd; yna ydd aeth Rhys am benn Castell Llanynddyfri ac ai ynnillas, ac Einion ab Anarawd nai Rhys a ynnilles Gastell Wmffrai ac a laddawdd y Castellwyr, ac a ddug oddiyno ysbail fawr yn feirch, ac arfau, a pheirianau maenus. Yna daeth Rhys i Geredigiawn, ac a ddiffieithiawdd holl diroedd y Ffrancod a'r Saeson, ac a dorrawdd eu holl Gestyll yn falur, ac

a ddug yr holl wlad y danaw a dyfod a wnaeth y Brenin yn ei erbyn, eithr gweled Cenedl y Cymry yn amnifeiriaw yn ddirfawr o bob man at Rys, efe a ddangoses ammodau heddwch, a Rhys a ymwystlawdd a'r Brenin er cynnal heddwch, a doddi gwystlon a wnaeth Rhys, a doddi Cestyll yng ngwystl i Rys a wnaeth y Brenin, ac efe yn myned i oresgyn y Castell hynny y castellwyr nis gellyngynt iddaw, yna cynnull ei luoedd a wnaeth Rhys a diffeithiaw Dyfed, ac efe a dorres y Cestyll yn garneddau. Yna daeth Rheinalt mab y Brenin i Gymru, a chan addaw Deheubarth i Owain Gwynedd efe a gafes ei gyfnerth, a Chadwaladr brawd Owain, a Hywel a Chynan ei feibion, a ddaethant a'u llooedd yn erbyn Rhys, eithr efe a droes oddiar eu ffordd, a galw attaw ei llooedd ymbarottoi yn erbyn ei elynion, a phan wybuant hynny ymchwelyd i Wynedd.

Oed Crist 1159, bu farw Madawc ab Meredydd ab Bleddyn Tywysawg Powys, ac y rhanned ei gyfoeth rwng ei feibion, ac yng nghylch yr un amser y daliwyd Cadwallawn ab Madawc ac Idnerth gan Owain Gwynedd, yr hwn ai dodes yng Ngharchar y Brenin yn Llundain.

Oed Crist 1160, bu ymladd a diffeithiaw cydtiroedd rhwng Owain ab Madawc Arglwydd Cyfeiliawc a Hywel ab Cadwgan Arglwydd Cyfoeth Elystan Glodrydd, heb nemmawr ynnill a gorfod i'r un na'r llall.

Oed Crist 1161, adnewyddwyd Braint ar a lafuriai Dir a Daear ym Morganwg, ac yn ebrwydd wedi hynny y doded yr un Drefn yng Ngwynedd a Deheubarth a Phowys, ac efe a gaid ar y Brenin ei nawdd ar bawb a wnaent hynaf fal nas diffeithid y Tiroedd Ydardd yn rhyfel.

Oed Crist 1162, daeth Harri Frenin yn erbyn rhys ab Gruffydd, a Rhys yn ei erbyn yntau, a doddi Cad ar Faes o'r ddau du, eithr Gŵyr da Gwlad Brecheiniawc a drywanasant rwng Rhys a'r Brenin a doddi Gwystlon o Du Rhys Einion ab Anarawd ei nai, a nai arall iddaw Cadwgan ab Meredydd ab Gruffydd, a'r Brenin a ymwystles i Rys y Cantref mawr a Dinefwr, eithr Neiaint Rhys a laddwyd, yna gorgesgyn y Cantref mawr a Chastell Dinefwr heb a ddodai 'n ei erbyn a wnaeth Rhys, a myned yn erbyn Rhosser Daer Iarll Caerloyw a laddasai ei Neiaint a ddodai'r Brenin yn nawdd y Rhosser hwnnw, a Rhys a ddynnilles Gastell Aber Rheidiawl a'r Cestyll ereill o eiddaw'r Iarll yng

Ngheredigiawn, au Maluriaw; gwedi hynny ynnill Castell Aberteifi a dwyn y Wlad y danaw, a myned yn erbyn y Fflandrisiaid au lladd, a llosgi a feddynt, a dwyn ysbail ddirfawr o'u Gwlad.

Oed Crist 1163, daeth Brenin Lloegr a Llu dirfawr i Gymru, a Rhys ab Gruffydd ac Owain Gwynedd a aethant yn gydyfnerth yn ei erbyn, a bu Gwaith Berwyn, lle gyrwyd ffo ar y Brenin, ac yn ei ddig ai lid achaws hynny efe a dynnawdd llygaid y gwystlon a gawsai er amseroedd yn ol gan Rys ag Owain, sef oeddynt meibion Rhys, Cynwrig a Meredydd; a Meibion Owain Gwynedd, Rhys a Chadwallawn, a dallu hefyd trichant o'r Cymry a ddaliwyd yn Rhyfel, a hynn a wnaeth y Brenin ai law ei hŷn.

Oed Crist 1164, daeth Harri Frenin eilwaith yn erbyn y Cymry, a gwedi dyfod hyd yng Nghaerllion gawr, a chlywed bod Rhys ab Gruffydd ac Owain Gwynedd yn ymluyddu 'n gadarn yn ei erbyn er dial a wnaeth ef a'u meibion, efe a ddymchweles yn ei oli Lundain.

Gwedi hynny ydd aeth Rhys ab Gruffydd yn erbyn Cilgeran ai ynnill, a dwyn ysbail, a diffeithiaw tiroedd ei gefnder Rhobert ab Nest ferch Rhys ab Tewdwr a Gerallt Rhaglofydd Castell Penfro, a'i ddodai yntau yng Ngharchar, a rhoi rhoddion anrhydeddus i'r Castellwyr, ac yn erbyn Rhys daeth Llu mawr o'r Fflandryisiaid a Saeson Dyfed hyd yng Nghil Geran, ac ymossawd am benn y Castell, a Rhys a'u gwrthladdawdd ac a laddes lawer o honynt, a gyrru ffo ar y llail.

Yng nghylch yr un amser y dug Owain Gwynedd Gastell Basing oddi ar y Brenin, a ladd y Castellwyr, a doddi Gwŷr ei hunan ynddaw, a'i gyweiriaw yn gadarn.

Yn yr un flwyddyn y dug Owain ab Madawc ab Meredydd, ac Owain ab Gruffydd ab Meredydd ei gefnder holl gyfoeth Iorwerth ab Owain, ac ai rhanasant ryngthynt, achaws hynny ydd aeth Owain Gwynedd, a Rhys ab Gruffydd, yn eu herbyn, a'u gorfod, a rhannu goreuon ei gyfoeth ryngddynt; eithr Owain Cyfeiliawc a gafas gyfnerth a Saeson, ac a losgawdd Gastell Caereiniawn i'r llawr.

Oed Crist 1169, bu farw Owain Tywysawg Gwynedd, gwedi gwladychu deuddegmlynedd ar hugain, a gwedy hynny ydd aeth amryson rhwng ei feibion am a gai fyned yn ei le, eithr Hywel ab Owain a gymmerth araw'r llywodraeth, canys hynaf oedd efe, ei fam oedd Pyfog merch Ar-

glwydd urddasawl o'r Werddon, a gwedi bod yngoresgynaeth y Dywysogaeth dwy flynedd yn heddwrch bu farw ei chwegrwn, ac efe a aeth i'r Werddon i oresgyn y cyfoeth a gawsai yn hawl ei fam ai wraig, canys unig ettiffeddes oedd hi, a thra bu efe yno, Dafydd ab Owain ei Frawd a gynhullawdd genedl ei fam, sef oedd hi Crisiant merch Gronwy ab Owain ab Ednywain, a chyda hynny daeth attaw lawer eraill ni charent Hywel, a phan weles efe gadernyd yn gyfnerth iddaw, cymmerth arnaw'r Llywodraeth, a goresgyn Gwynedd, a Hywel yn clywed hynny, efe, a ddaeth yn ebrwydd i Wynedd, ac a ddodes Gad ar faes yn erbyn ei frawd, eithr llawer mwy nifeiriawg Llu Dafydd nag un Hywel, a gwedi ymladd caled gyrrwyd ffo ar Hywel ai Wŷr, ac efe a glwyfwyd dan ei ais yn fin eithr Rhirid ei frawd ai dug i Long, ac yna i'r Werddon lle y bu Hywel farw ac efe a roddes i Ririd ei frawd ei gyfoeth yno.

Oed Crist 1172, aeth llawer o Bendefigion y Ffrancod a wledychynt Forganwg, a Gwyr, a Dyfed, a Cheredigiawn, i'r Werddon, ac yn blaenu arnynt ydd oedd Richart Iarl Ystrigyl, a lluoedd mawrion gyda nhwy, ac anffyddlonion y Cymry gan weled llwyddiant Rhys ab Gruffydd a aethant gyda nhwy, a hwy ynnillasant helaethled o'r Werddon, ac ai goresgynasant, a hynn a fu ddaionus i Rys ab Gruffydd a Chenedl y Cymry yn Neheubarth a Morganwg.

Yn nghyfle'r amseroedd hynny ymllyddes Owain Cyfeiliawg yn erbyn Rhys ab Gruffydd, a Rhys a ddodes Gad ar faes yn ei erbyn, a myned hyd yng Nghyfeiliawc lle gorfu ef ar Owain, a Rhys ni ddiffeithiai Diroedd Cenedl y Cymry, eithr dwyn Gwystlon oddiar Owain, a gadael iddaw ei gyfoeth, a dychwelyd i Ystrad Tywi.

Ynghylch yr un amser aeth Harri Frenin i'r Werddon, ac efe yng Nghaer Dydd, fe aeth Rhys heb na gwr na gwas gydag ef yno; ac yn arfoll i'r Brenin erchi iddaw orchymyn a fai raid iddaw o'i gyfoeth ef, a bu garedig hynn gan Brenin, ac efe a gadarnhâawdd i Rys ei holl Diroedd, a Rys a roddes i'r Brenin yr Ossymmaeth iddaw ei hun ai luoedd bedwar cant o wartheg breision, ac yd, a med, a bragawd, a ellid ei gael yn ei gyfoeth, ac a wnaeth wledd anrhydeddus i'r Brenin ai Wŷr Llys yn Aberteifi; ac yna ydd aeth y Brenin i'r Werddon, eithr daeth echrysaint ar ei wŷr, a bu farw llawer o honynt: achaws hynny

gorfu ar y Brenin ymchwelyd yn ei ôl i Ynys Prydain, a Rhys ai orfolles yn anrhydeddus yn Aberteifi, ac a ddodes iddaw roddion a weddai iddaw ar ei ffordd yn cyrchu Llundain.

Yng nghylch yr un amseroedd, a'r Brenin ar ei fnyed i'r Werddon, efe a ddug Gaerllion ar Wysg oddi ar Iorwerth ab Owain ab Caradawe ab Rhyderch ab Iestin, ac a ddodes ei wyr ei hun yn y Castell, eithr Iorwerth a alwes attaw ei genedl, ac ymluyddu yn erbyn Gwŷr y Brenin, ac adynnill y dref a'r castell, a danfon y Castellwyr i'r Werddon at y Brenin: a phan ddaeth y Brenin ar ymchwel o'r Werddon efe a ddanfones at Iorwerth ab Owain attaw i'r Castell Newydd ar Wysg, a gosod ammodau heddwrch iddaw, ac addaw gwared a diogelwch iddaw ddyfod attaw, a myned yn heddwrch yn erbyn y Brenin a wnaeth Iorwerth, a danfon Owain ei fab ag anrhegion i'r Brenin o'r pethau a weddai iddaw yn ei gerdded; eithr gossawd ar Owain a wnaeth Gwŷr y Brenin ai ladd, a gwedi clywed o Iorwerth hynny nid elai at y Brenin, eithr ymluyddu yn ei erbyn, a gyrru pob enaid o Sais o Wlad Gwent, a lladd llaweroedd o honynt, a chan fyned tros Afon Gwy, diffeithiaw'r Wlad hyd Gaerloyw, a lladd a llosgi ffordd y cerddai, ac oddiyno hyd yn Henffordd, un ei waith, un ei gerdded, a gwedi llosgi'r Dref honno ai hysbeiliaw; dychwelyd i Gaerllion ar Wysg a chadarnhau'r Dref a'r Castell, a dodi Castellwyr ffyddlonion ynddaw, ac ynghyfle'r amser hynny y dug Sitsyllt ab Dyfnwal Gastell Abergefeni, a Seisyllt ab Rhirid a ddug Gastell Cerrig Hywel, canys y Brenin a bienffai'r Cestyll hynny, a lladdwyd y Castellwyr, ac Iorwerth a ddodes ynddynt wŷr ei genedl yn gastellwyr ffyddlonion, a Hywel ab Iorwerth a ddug holl Went is Coed yn ewylllys Iorwerth; ac a ddug yr hynaf o feibion dengwr ar hugain o uchelwyr y wlad yn wystlon.

Oed Crist 1173, y dodes Dafydd ab Owain Gwynedd ei holl frodyr yng ngharchar, eithr Maelgwn a gadawodd Ynys Fôn yn ei erbyn dros dair blynedd, gwedi hynny aeth Dafydd a Llu cadarn yn ei erbyn ac ynnill yr Ynys, ac a garcharawdd Maelgwn, yn ebrwydd wedi hynny efe a dorres ei garchar, ac a dorres garcharau ei genedl ai frodyr, a ffoi i Forganwg, rai o naddynt, ac eraill i'r Werddon.

Oed Crist 1176, aeth llawer o Gymry Gwent a Morganwg i'r Werddon lle cawsant diroedd. A chylch yr un amser daeth

Iorwerth ab Owain Gwynedd i Gaerllion ar Wysg at Iorwerth ab Owain ab Caradawc yn ffo rhag Dafydd ab Owain ei frawd, yna danfones Dafydd at ei frawd ac addaw iddaw Diroedd a weddai iddaw o dodi Neiaint iddaw yng nghadwedigaeth Iorwerth ab Owain ab Caradawc yn Wystlon er cadarnhau hynny. Gwedi hynny dychwelawdd Iorwerth i Wynedd, ac y cyflawnhâawdd Dafydd ab Owain ac ef yn hynny, a gwedi hynny ei yrru o'i wlad, a Iorwerth a ddodes y Gwystlon yn Nawdd y Brenin, lle nas gallai Ddafydd eu lladd.

Oed Crist 1177, ymheddychawdd Iorwerth ab Owain Arglwydd Caerllion a'r Brenin, ac a gafas ei diroedd yn rhydd, ac yng nghylch yr un amser y llas Seisyllt ab Dyfnwal Arglwydd Gwent uwch Coed o dwyll Wiliam Brews Arglwydd Aberhodni, a chydag ef lladd ei feibion, ai geraint, a thrugain a deg o'i genedl, a thynnu llygaid Hywel Pencarn adodi hynny ar Iorwerth ab Owain o Gaerllion, sef y dianghes Iorwerth o'r Brad hynny, a thorri ffordd ai gleddyf drwy ganol y Cynllwynwyr.

Yr un amser y torres Rhodri ab Owain Gwynedd ei garchar ac a ddynnilles ynys Fôn, a phawb yn ei gyfnerthu, achaws nid oedd a garai Ddafydd ab Owain, a Chadwaladr ab Owain a ddynnilles Nant Conwy a Rhyfoniawc, ac y daeth Maelgwn ab Owain yn ei ol o'r Werddon.

Yng nghylch yr un amser bu farw Cadell ab Gruffydd ab Rhys, a chylch yr un amser Ddafydd ab Gerallt Escob Dewi a fu varw, ac y cynllwynes y Ffrancod y y ffordd y clywynt fyned Einion Clyd Daw Rhys ab Gruffydd, ac ai lladdasant ef, yna ydd aeth Rhys yn eu herbyn ac a ddiffeithiawdd eu tiroedd hwy ym Maelienydd, ac a wnaeth Gastell Rhaiadr Wy.

Yng nghylch yr un amser Iorwerth ab Owain o Gaerllion a Hywel ei fab a ddiiffeithiasant diroedl Wiliam Brews, ac a ddygasant ysbail fawr; ac ni arhosai ef yn hwy yng Nghastell Abergefeni, eithr myned i Aberhodni ac ymgadarnhau yno.

Cylch yr un amser daeth meibion Cynan ab Owain Gwynedd yn erbyn Rhys ab Gruffydd, a Rhys yn eu erbyn hwynt a orfu arnynt, a gyrru ffo cywilyddus arnynt.

Oed Crist 1179, y llas Morgan ab Gruffydd ab Ifor Bach, ab Cydrych, gan y Saeson yng Nghaerloyw. Gwr oedd ef a fu gyda Iorwerth ab Owain yn diffeithiaw'r Wlad amgylch Caerloyw, lle yr ymgampiai

yn wychaf o neb, ac achaws hynny y lladdwyd cyt bod heddwch yr amser hynny a nawdd y Brenin i bawb a ddelynt yn heddwch o Gymry i Loegyrr, a'r Cymry a garant Forgan a aethant le clywaint y byddai Rhanwlff a'i wŷr ar eu ffordd tuag Aberhodni, ac am ei benn ef, ai ladd efe a'i wŷr, canys efe a fynawdd ladd Morgan ab Gruffydd ab Ifor Bâch, a'r Brenin a fynnai fyned yn erbyn y Gwenhwyfon a'u harglwyddi, ond Rhys ab Gruffydd a ddangoses y modd y bu i'r Brenin, ac yna cafwyd ei heddwch.

Oed Crist 1183, y llas Gadwaladr mab Rhys ab Gruffydd gan y Ffrancod, ac yng nghylch yr un amser y llas Owain Fychan gan feibion Owain Cyfeiliawc, ac y dallwyd Llywelyn ab Cadwallawn ab Gruffydd ab Cynan gan ei frodyr ei hun. Ac yng nghylch yr un amser bu farw Nicolas ab Gwrgan Escob Llan Dâf, Gwr a garai'r Cymry ac a ddodai gynghorion ac addysg iddynt a'i ddwyfoldeb mawr, ac yn ei le y doded Wiliam De Salmars.

Oed Crist 1184, bu farw Madawc ab Iddon Brenin Gwent achaws dynawd a gafas gan Domas ei frawd yn ei ddiawd, gwr oedd Fadawc a wyddai laweroedd o Gelfyddodeu a Gwybodau, ac ni chaid ei gystal yn ei amser, a goreu o Brydydd a Damhegydd ar a wyddid am danynt yng Nghymru.

Oed Crist 1186, yddoedd Herwyr o Saeson yn mhob mann yn Ynys Prydain yn ymgadw dan Goeddyd ac yn ysbeiliaw'r Gwledydd, a dyfod i Gymru a wnaethant, ac yn Nyfed ymgynnal yn nawdd y Flandrysiad, a Maelgwn ab Rhys ab Gruffydd a ymosodes arnynt, ac a losges y Tai lle 'dd oeddent hyd y llawr, gwedi hynny eu hymlid hyd yng Ngwyr a'u lladd a'u gyrru tros Fôr i Loegr lle ydd hanoeddynt.

Oed Crist 1189, bu varw Harri Frenin, a Richard Galon Llew ei fab a wnaed yn frenin yn ei le.

Oed Crist 1190, dynnilles Rys ab Gruffydd Gastell Abercorran, a Sain Cler, a Llanystyphan, ac a wnaeth Gastell Cedweli yn deccaf a chadarnaf o'r holl Gestyll, a gwedi hynny dynnilles ef Gastell Dinefwr, yng nghylch yr un amser y bu varw Owain ei fab a Gwenllian ei fereb, ac yng nghylch yr un amser bu farw Gruffydd Maelawr Arglwydd Maelawr, doethaf a haelaf o Bendefigion ei Wlad.

Yng nghylch yr un amser dynnilles Rhys ab Gruffydd Gastell Llanhuadain, ac a ddug y Wlad honno yn ei ewyllys.

Oed Crist 1192, carcharawdd Rhys ab



Gruffydd ei fab Maelgwn achaws gwallgof oedd arnaw, a chyn hir wedi hynny ef a dorres ei garchar ag a ddug Gastell Ystrad ag ai goresgynnawdd. A chylch yr un amser y dug ei frawd Hywel ab Rhys Gastell Gwys, ac a ddodes y Castellwyr yng ngharchar.

Yng nghylch yr un amser y tynnwyd llygaid Howel a Madawc meibion Rhys gan eu brawd Anarawd, yna Maelgwn ac Anarawd a ddaliasant Rys eu Tâd ac ai dodasant yng Ngharchar, eithr efe a ryddhâwyd gan ei Wyr, ac a ddug Gastell Dinefwr oddiar Faelgwn ei fâb, ag yng nghylch yr un amser y goresgynnes Lywelyn ab Iorwerth ab Owain Gwynedd Dywysogaeth Gwynedd, a difreiniaw ei ewythr Dafydd ab Owain yr hwn nis carid achaws ei greulonder a'i atgasrwydd yn

lladd a thynny llygaid pob un nad elai yn ei ewyllys, yn ail i arfer y Saeson.

Oed Crist 1194, dodes Rhys ab Gruffydd ei feibion anfyddlon yng Ngharchar, ac y dug Gastell Caerfyrddin ac ai maluriawdd i'r ddaear, gwedi hynny efe a ddynnilles Gastell Clunwy gwedi hir amser yn ei ammos-awd, ac efe ai maluriawdd i'r ddaear. Gwedi hynny ynnill Castell Maes-hyfaid, wedi ymladd cadarn ai elynion, lle gorfu efe arnynt, gan eu lladd a gyrru ffo cywilyddus arnynt. Gwedy hynny y dug ef Gastell Elfael oddiar Wiliam Brews, ac a ddaeth yn ei ol i Ystrad Tywi yn orfoleddus.

Oed Crist 1196, bu varw Rhys ab Gruffydd, y gwrolaf, a'r doethaf, a'r haelionusaf, a'r clodforusaf o'r holl Dywysogion; a Gruffydd ei fab a oresgynnes y Lywodraeth yn ei le.

## AC FELLY TERFYNA BRUT Y TYWYSOGION.

*Yr hanes uchod a ysgrifenydd o Lyvyr GEORGE WILLIAMS, Esq, o Aberpergwm, genysf fi THOMAS RICHARDS Curad Llangrallo, yn y flwyddyn 1764.*

*A minnau IORWERTH AB IORWERTH ai hysgrifenaïs o Lyvyr y PARCHEDIG MR. RICHARDS yn y flwyddyn 1790.*

## BRUT IEUAN BRECHFA.

SEF COF AM DYWYSOGION, A RHYFELAU, A RHYFEDDOLION, O BETHAU, A DIALEDDAU, AC ERAILL O BETHAU COFADWY, A DYNNEWYD O LYFRAU CARADAWC LLANCARFAN AC ERAILL O HEN LYFRAU CYFARWYDDYD. A YSGRIFENODD IEUAN BRECHFA.

*O Lyfr Rhys Thomas Argraphydd.*

CHWECHANT a phedwar ugain a chwech oedd oed Crist pan aeth Gadwaladr Fendigaid i Rufain lle y bu farw, ac yna collasant y Cymry Unbennaeth ynys Prydain. Yna daeth Ifor ab Alan Brenin Llydaw i Gymru ac ai gwnaethpwyd yn Dywysawg, ac o hynny ym Maes, Tywysogion a lywynt genedl y Cymry.

Deuddegmlynedd y saith gant oedd oed Crist pan wnaethpwyd Monachlog ynys Afallen gan Ifor ab Alan o Lydaw, yr hwn a fu Dywysawg ar Genedl y Cymry unmllynedd ar bumtheg ar hugain, gwedi hynny efe a aeth i Rufain lle y bu farw.

Ugain mlynedd a saith gant oedd oed Crist pan fu'r Haf Tessawg, ac y bu farw Beli ab Elphin.

Deg a dugain a saith gant pan fu farw Tewdwr ab Beli, a Rhodri Brenin y Brutaniaid.

Trigain mlynedd a saith gant pan fu brwydr rhwng y Brutaniaid a'r Saeson yng ngwaith Henffordd, ac y bu farw Dyfnwal ab Tewdwr.

Deg a thrugain a saith gant pan symudwyd Pasc y Brutaniaid, ac y bu farw Ffermael fab Eidwal, ac y bu dystryw ar y Deheuwr gan ei Brenin eu hunain, ac y gorfu ar y Deheuwr ladd eu Brenin yn amser haf.

Wythganmlynedd oedd oed Crist pan laddawdd y Saeson Garadawc Brenin Gwynedd yng Ngwaith Morfa Rhoddlan, ac y bu farw Arthen Brenin Ceredigion, a Rhydderch Brenin Dyfed, a Chadell Brenin Powys, ac Elbod Archescob Gwynedd, ac y bu diffyg rhyfeddawl ar yr haul.

Wyth cant a deg, duodd y lleuad Diw Nydolig, ac y lloged Mynyw, ac y bu farwolaeth mawr ar Anifeiliaid, ac y lloged Tyganwy gan dan lluchaid Gwylltion,

ac y bu waith Llan Faes, ac y tloded Brenhiniaeth Fôn a Brenhiniaeth Dyfed oblegid Rhyfel a fu rhwng Hywel fychan a Chynan ei frawd, ac y goresgynawdd Hywel ynys Fôn gan orfod o hir ymladd arni.

Wythgant ac Ugain pan ddystrywyd Castell Tegonwy gan y Saeson, ac y dugasant Frenhiniaeth Powys oddi ar y Brutaniaid, ac y bu farw Hywel Fychan, ac y lladdodd Gwyddelod Mon ac Arfon lawer o'r Cymry.

Wythgant a deg ar hugain bu diffyg ar yr haul yr wythfedydd o Ragfyr, ac y bu farw Morydd ab Llywarch Llwyd Brenhin Ceredigiawn.

Oed Crist wythgant a thrugain pan wledychawdd Meuryg Escob Mynyw, ac y bu Waith Fferyllwg, ac y llas Ithel Brenin Gwent gan wyr Brecheinawg, ac y torres Paganiaid o Saeson yr holl Fonachlogydd ag Eglwysi yng Ngwent, a Morganwg, a Dyfed, a Cheredigiawn.

Wythgant a thrugain a deg y Paganiaid duon a dorrasant Gaer Alclud, ac y boddes Gwgan fab Morydd fab Llywarch Llwyd Brenin Ceredigiawn, ac y bu Waith Bangor, ac y bu farw Einiawn Escob Mynyw, ac y lladdwys y Saeson Rodri Mawr.

Wythgant a thrugain a deuddeg y rhanwyd Gwlad Gymry yn dair Brenhiniaeth rhwng tri meib Rhodri Mawr, sef Cadell y mab bynaf a gafas Geredigiawn a Dyfed. Anarawd yr ail a gafas Wynedd, a Merfyn y drydydd a gafas Bowys, a gadael rhwng Gwy a Hairen i wehelyth Caradawc Freichfras, a Morganwg a Gwent i wehelyth Morgan Mwynfawr, ouid aeth pump Brenhinllwyth ar Wlad a Chenedl y Cymry.

Wythgant a phedwar ugain bu farw

Hywel ab Rhys ab Arthfael Arglwydd Pen rhaith Morganwg yn chweugeinmlwydd oed yn Rhufain gan angerdd y Tes.

Wythgant a phedwar ugain a deg daeth y gwŵr duon i gastell Baldwyn ac ai ynnillasant, ac y bu farw Henydd ab Bledri, ac a daeth Nynawd i ddiffieithiaw Cerèdigiawn ac ystrad Tywi, ac y diffeithiwyd y gwyr duon yn Lloegyr, a Gwent, a Morganwg, a Gwlad Frychan, ac y diffyg-iawdd bwyd yn y Werddon, canys Pryfed dierth tebig i waddau a ddaethant yno, a dau ddant hirion gan bob un o hanynt, a'r rhai hynny a fwyttaint yr holl Lafur a llysiau'r meusydd, a thrwy weddïau a theilyngdawd y bobl ef au gwrthladdwyd, ac nis gwelwyd y rhyw bryfaid a'r rhai hynny fyth wedi hynny yno.

Naw cant a thair ar ddeg bu farw Anarawd Tywysawg Gwynedd, a'r amser hwnnw y lladdawdd Meuryg ab Cadell ei frawd Celydawc, ac o'r achaws hynny y bu Rhyfel rwng cydgenedl.

Naw cant a thair a dengain aeth Hywel dda fab Cadell i Rufain a chydaef dri Escob, sef Marc Escob Bangor, Mordaf Escob Mynyw, a Theiby'r Escob Llan Asaff, ac oll Defnydd y Deyrnas gydag ef, sef achaws ei fyned i Rufain ydoedd ymgyngori a Doethion a Dwyfolion, rhag bod y gyfraith a wnai efe ai Idoethion yn erbyn Cyfraith Duw a Chyfraith Dinas-oedd eraill, ac o achaws yr ymladdau, a fuasai o'r blaen rhwng cydgenhedloedd y gwnaeth ef ei gyfreithiau, ac achaws cam arfer yn erbyn Cyfraith Dyfnwal Moel Mud, a chynnull Doethion y Cymry i'r Ty Gwyn ar Daf yn Nyfed a lluniaethu cyfreithiau o farn a chydgyngor y rhai hynny, au dodi yn nawdd Duw a'r saint, ac yn nawdd Gwlad a Llys, a goreu cyfreithiau y cad Cyfreithiau Hywel Dda. Ac agos i'r amser hynny y bu farw Elen Gwraig Hywel Dda, ac am yr un amser y daeth Awlaff o'r Werddon i Gymru a Llu o'r Gwyr duon ac arall o'r Gwyddyl, gydag ef, a daethant i Dir yng Ngwyr, ac yn eu blaen y daethant, a Llywelyn ab Syllt a gyfarfu ac Awlaff, ac ai gyrodd o'r Wlad i Loegr, a chan ganlyn y gelynion, fe ddanfonodd at Edmunt Brenin y Saeson am gynhorthwy, ac yna daeth Cad fawr a'r Saeson ym mhlaid Llywelyn ai Gymry, a lwy a yrrasant y Gwyddyl a'r Gwyr duon o'r ynys gyda choledion mawr: a gwedi addunedu o honaw nas drygai ynys Prydain fyth wedi hynny fe aeth Awlaff i'r Werddon lle ai gwnaethpwyd yn frenin.

Nawcant a phedair a deugain bu farw Idwal ab Rhodri, ac y lladdodd y Saeson Elised ab Rhodri, a Lambert Escob Mynyw, ac ysbeiliwyd Ystrad Lur gan y Saeson, ac yno y tagwyd Edmunt Brenin y Saeson gan ei wyr ei hūnan, ac am yr amseroedd hynny bu farw Hywel Dda ap Cadell, a Chadwgan ab Owain a laddwyd gan y Saeson, ac y bu Waith Carno rhwng meibion Eidwal Dyfed a meibion Hywel Dda.

Oed Crist Nawcant a deuddeg a deugain bu lladdfa fawr rhwng meibion Eidwal Dyfed a meibion Hywel dda yng Ngwaith Abercywyn, ar amser hwnnw y diffeithiodd meibion Eidwal Dyfed Geredigiawn.

Nawcant a thrugain y lladdwyd meibion Eidwal ab Rhodri gan y Saeson, ac y bu Haf Tessog, ac y diffeithwyd Caer Gybi gan feibion Eidwal Dyfed, ac y dystryw-yd y Tywyn, ac y bu farw Meuryg ab Cadfan, ac yna ynnillodd y Saeson Arglwyddiaeth meibion Eidwal, ac y lladdwyd Rhodri ab Eidwal, ac y diffeithwyd y Berfraw, a rhyw faint yn ol hynny y dalodd Iago ab Eidwal ei frawd Ifan ac ai rhoddes yng ngharchar a chwedi hynny efe ai crogodd, ac am yr amser hynny rhyfeloedd Einion ab Owain ac a lladdodd Farc ac Eyrleid.

Nawcant a deuddeg a thrugain y diffeithawdd Catbrig ab Eyrleid Fôn, ac efe a wnaeth drasael dirfawr i'r ynys, ac yna y daeth Etgar Brenin y Saeson a llu dirfawr yn erbyn holl Gymru hyd yng Nghaerllion ar Wysg, ac a ddanfonas ei wyr i ysbeiliau'r Wlad, ac nid arbedynt na Llys na Llann, eithr dwyn dâoedd a thlysau Eglwysi a manachlogydd, ac y gwrthladdodd Iago ab Idwal o'i gyfoeth, ac a roddes Wynedd i Hywel Ddrwg ab Ifan, ac nid oedd drwg o'r Byd nas gwnelai hwnnw o ladd, a thynnu llygaid, ac yspeliaw, a thwyllaw.

Nawcant a thrugain a phymtheg bu farw Edgar Brenin y Saeson, ac y daliwyd Iago ab Ifan ab Eidwal, ac a gorfu Hywel ab Eidwal, ac y goresgynodd ei gyfoeth, ac yna y lladdwyd Eidwal, ac y gorfu Cystenin ab Iago ar Hywel Ddrwg ab Ifan, am hynny o amser daeth Gotbrig ab Eyrleid i Ddyfed ac i Fynyw ac ai dystrywodd, yna bu Gwaith Llanwenog, ac y diffeithwyd Brecheiniog ai holl gyfoeth gan y Saeson, a hwy a laddasant Hywel ddrwg ab Ifan, ac y goresgynodd Cadwallawn ab Ifan ei gyfoeth ef drwy fuddugoliaeth yn erbyn y Saeson, nid amgen ynys Fon, ac Arfon, a Meirionydd, a holl

Wladoedd Gwynedd, a hynny drwy ddeall a synwyr, a'r amser hwnnw y tynnwyd Llygaid Llywarch ab Owain, ac yna daeth Gotbrig ap Eyrllaid a'r llu du gydag ef i ynys Fôn ac y daliwyd dwy fil o ddynion, a'r dryll arall a ddug Meredydd ab Owain ganthaw i Geredigiawn ac i Ddyfed, ac y bu farwolaeth fawr ar anifeiliaid yn holl ynys Prydain, ac y bu farw Owain ab Hywel, ac y diffeithiwyd Cenhedlaeth Llanbadarn, a Mynyw, a Llanylltyd, a Llan Garman, a Llan Rhystyd, a Llandydoch, ac y bu ddirfawr farwolaeth yn ynys Prydain, ac yn yr amser hwnw y bu drudaniaeth yn holl ynys Prydain, megis y bu farw y bobl gan newyn.

Nawcant a phedwar ugain pan ddiffeithiodd Owain ab Einion Frenhiniaeth Meredydd ab Owain, nid amgen Dyfed a Cheredigiawn, a'r amser hwnw y bu newyn dirfawr yng Nghyfoeth Meredydd, ac y bu frwydr rhwng meibion Meurgy a Meredydd, yn ymyl Llangwm, ac y gorfu meibion Meurgy yn erbyn Meredydd, ac yna lladdwyd Tewdwr ab Einion ab Owain ab Hywel dda fab Cadell, a Rhys mab Tewdwr a ffoes i'r Werddon rhag pydoldeb y lleddid ef.

Nawcant a phedwar ugain a deg y diffeithiwyd Môn gan y genedl ddu, bu am yr un amser ryfelu a lladdgarwch mawr rhwng Pendefigion Gwynedd a Phowys, bu rhyfel hefyd rhwng Meredydd ab Owain ac Ithel ab Morgan Brenin Morganwg, achaws anhraith Gwyr Meredydd yn eu newyn, gan ddrudaniaeth, ar amser hwnnw y dechreuwyd bwyta Cregyn y mor yn Neheubarth a Gwyr. Am yr amseroedd hynny y gwnaethpwyd Eidwal ab Meurgy yn Dywysawg gan wŷr Mon lle nid oedd na thywysawg na neb a elai ym mlaen Gwŷr Gwynedd, achaws hynny y diffeithid y Wlad honno gan y genedl ddu yn afrifed, ym mhen ychydig y daeth Suoen ab Eyrllaid i Wynedd ac a laddodd Eidwal ab Meredydd, i'r hwn yr oedd mab o Etifedd ai enw Iago. A chyn pen nemmawr y bu farw Meredydd ab Owain heb adael ei ail ar ei ol, a merch iddaw ai henw Angharad a briodes Llywelyn ab Seisyllt. A gwedi marw Llywelyn hi a fu briod a Chynfyn ab Gwerystan, ac o honi hi y bu Bleddyn ab Cynfyn.

Oed Crist un Mil, Aeddán ab Blegwryd a gafas oresgynnaeth ar Wynedd o synwyr a deall, ac efe a lywodraethodd Gwynedd yn dangnefus ddeuddeg mlynedd.

Mil a deg Oed Crist, a Llywelyn ab Sitsyllt wedi cyrhaedd oedran gwr efe a

ddodes hawl ar Lywodraeth Dyfed a Cheredigiawn, ac a gafas oresgynnaeth arni, ac a ddodes Gad ar faes yn erbyn Aeddán ab Blegwryd ac ai lladdodd, yna cafas ef oresgynnaeth ar Lywodraeth Gwynedd, ac efe a ddodes ei frawd Hywel ab Sitsyllt yn Dywysawg ar y wlad honno, ac felly rhyngddynt y llywodraethent holl Gymru yn anrhydeddus a chyfiawn, ac yn yr Amser y buant y bu gyfoethawg y Cymry, a'r ddaier yn gnydfawr, ar blynnyddoedd yn rywiawg, a heddwch a chyfraith yn cael eu lle yn y wlad, ac i'r holl deuluoedd eu Tai, ac i'r holl dai eu Teuluoedd: ac i bob Tir ei lafurwr, ac i bob Llafurwr ei dir, fal y daeth Llawnder digonawl i'r Wlad, ac i'r holl wlad ei llawnder digonawl.

Mil a deg, daeth Rhun mab Meredydd ab Owain, o Ysgottes a fu'n ordderch iddaw, i Gymru, ac a fynnai oresgynnaeth ar Dywysogaeth Deheubarth, a Llywlyn ab Sitsyllt a ddodes Gad ar faes, ac yng Ngwaith Glan Gwili y lladdwyd Rhun, a gorfu ar ei wyr ffoi yn golledus, am yr amseroedd y bu hynn daeth Awlaff ym mlaen y Llu du a'r Ysgottiaid Gwyddelig i Ddyfed ac ai diffeithiasant gan dorri Mynyw ac ei ysbeiliaw, a Hywel ab Seisyllt a ddaeth yn eu herbyn a dewisolion o Wyr Gwynedd ac au lladdodd fwy na'u hanner a gyrru ffo ar eraill yn ôl i'r llongau, a dal llawer au doddi yng Ngharchar, a gwedi hyn fe aeth Hywel a Meredydd Meibion Edwin ab Owain ab Hywel Dda yn erbyn Llywelyn ab Sitsyllt, ac efe a laddwyd yn y frwydr honno, gan adael ar ei ol fab a elwid Gruffydd, a chan y cai Hywel a Meredydd edrych o'i hamgylch, gwelid yn eu herbyn Rhydderch ab Iestyn ab Gwrgan, a chydag ef Lu afrifed o Wyr Morganwg a Gwent yn Gad ar faes, a gorfu ar Hywel a Meredydd ffoi, yna cafas Rydderch oresgynnaeth ar Lywodraeth Deheubarth.

Mil a deg ar hugain daeth Hywel a Meredydd o'r Werddon i Ddeheubarth a Llu cadarn o'r Ysgottiaid Gwyddelig yn erbyn Rhydderch ab Iestyn, ac efe a laddwyd, a'r ddau frodyr megis etifeddion cyfiawn a gawsant oresgynnaeth a'r Dywysogaeth Deheubarth, ar fyrr wedi hynny y lladdodd meibion Cynan ab Seisyllt Meredydd ab Edwin a Hywel ei frawd, ac yna lladdodd y Saeson Cynan ab Seisyllt, ac ar fyrr o amser wedi hynny y cafas Ruffydd ab Llywelyn ab Sitsyllt Lywodraeth y Dehau, ac efe a roddes faes i'r Saeson yn emyl Rhyd y Groes ar Hafren, ac a gafas y fuddugoliaeth, am yr un amser y bu Waith

Pencadair, ac yno y bu brad ddirfawr a thwyll afrifed rhwng Gruffydd ab Rhys ab Iestin a meibion Rhydderch ab Iestin yn erbyn Gruffydd ab Llywelyn ab Seisyllt, yna laddwyd amgylch saith ugain o oreugwyr Gruffydd ab Llywelyn, sef o wyr Ystrad Tywi a Dyfed. Am yr amser hynny y bu eira dirfawr ddydd Calan Ionawr, heb doddi hyd Wyl Badric, yn yr amser hwnnw y bu ddiffaith holl Ddeheubarth.

Mil a deugain, bu Waith Pwll Dyfach rhwng meibion Meredydd ab Edwin a Gruffydd ab Llywelyn; ac i Ruffydd y goreu. Ac efe a laddodd a gyrru ffo ar y Cenedloedd Duon a ddaethant i Ddyfed a Cheredigion ar oddau diffeithiaw'r wlad, yna fe aeth meibion Meredydd i Wynedd, ac o dwyll anffyddloniaid feddalwyd Gruffydd ab Llywelyn gan wyr Cynan ab Iago addaethant i Wynedd ar ymgais gorynnill y Dywysogaeth, eithr Gwyr y Wlad wedi clywed hynny a ymgynnullasant ac achubasan Ruffydd o ddwyllaw Gwyr Cynan, a gyrrwyd ffo arnynt.

Mil a deg a deugain daeth y Llu du o'r Werddon i Ddeheubarth ac add aethon gyda Gruffydd ab Llywelyn ap Seisyllt yn erbyn y Saeson, ac yn Henfordd y bu faes rhyngthynt ac y cafas Gruffydd y fuddugoliaeth, ac yna y bu llawer o ladd a llosgi.

Mil a thrugain bu farw Gruffydd ab Llywelyn ab Seisyllt pen, a tharian, 'ac amddiffynwr yr holl Fruttaniaid; a'r un amser y daeth Wiliam y Bastardd i Loegr a dododd gad ar faes yn erbyn Harolt ac ai laddodd, ac a ddug oddiar y Saeson Goron y Deyruas, ail i'r modd y dygai'r Saeson hi oddiar y Cymry gynt. A hynn a wnaeth ef achaws adduned a wnaethai Harolt y cai ef y Goron ar ol Edwart Sant Brenin Lloegr, ac ni chywirai Harolt yr adduned, eithr dwyn y goron iddaw ei hunan gwedi marw Edwart, eithr ni hir lwydd anudon. Am yr amseroedd yma bu anundeb mawr rhwng Bleddyn ab Cynfyn a Rhiwallon ab Cynfyn yn erbyn Meredydd ab Ithel, ac y bu farw Meredydd ab Ithel o anwyd a newyn yn cilio i ynialoedd rhag Bleddyn ab Cynfyn, a gwedi marw Meredydd heddychwyd rhwng Bleddyn a Rhiwallon ab Cynfyn, yna cynhaliodd Bleddyn ab Cynfyn Wynedd a Phowys au cyfoethau yn erbyn Rhiwallon ab Cynfyn; a Meredydd ab Owain ab Edwin yn cynnal Deheubarth, ac yn ol hynny y bu frwydr rhwng Goronwy ab Llywelyn a meibion Cydwgan ab Gruffydd.

Mil a thrugain a deg y bu frwydr Llan-

fedwy ym Morganwg rhwng Meredydd ab Owain ab Edwin brenin Deheubarth a Charadawc a Gruffydd meibion Rhydderch ab Iestin am Dywysogaeth Deheubarth, a Charadawc ai ennilles ac a laddodd Meredydd, yna goresgynnodd Garadawc y llywodraeth, ac ar fyrr y lladdwyd Bleddyn ab Cynfyn o dwyll Owain ab Edwin, yna Trehaearn ab Caradawc a oresgynnes Wynedd ac ai llywodraethodd, ai frawd Rhydderch ab Caradawc a Rhys ab Owain a oresgynnasant Ddeheubarth, ac am hynn o amser daeth Gruffydd ab Cynan ab Iago i Gymru o'r Werddon a llu mawr gantho ac a ennillodd Fôn, eithr gorfu arno ffoi i'r Werddon cyn nemmawr o wledychu yng Ngwynedd. A gwedi hynny ar fyrr y lladdwyd Rhydderch ab Caradawc ab Iestin o dwyll Meirchion ab Rhys ab Rhydderch ei gefnderw. A Rhys ab Owain ei hunan a gafas Ddeheubarth, eithr cyn amser hir efe a laddwyd gan Brahaearn ab Caradawc ym mrwydr Pwllgwttig.

Mil a thrugain a deg daeth Rys ab Tewdwr o'r Werddon a llu cadarn yn ei blaid ac a ennilles Ddeheubarth lle'r oedd efe yn difedd cyfiawn i'r dywysogaeth honno, a Rhys a ddanfonodd am Ruffydd ab Cynan yn ol i Gymru o'r Werddon, ac ai cynhorthwyodd yn erbyn Trehaearn ab Caradawc ac ai lldasant wedi ymladd a cholli gwaed yn afrifed.

Mil a phedwar ugain gorfu ar Rhys ab Tewdwr ffoi rhag lluoedd meibion Bleddyn ab Cynfyn i'r Werddon ond ymhen dwy flynedd efe a ddychwelodd a llu cadarn gydag ef ac a gafas gynhorthwy ai carai, ac a ennillodd dywysogaeth Deheubarth.

Mil a phedwar ugain a deg y bu ymladdau gwaedlyd rhwng Iestin ab Gwrgan Tywysawg Morganwg a Rhys ab Tewdwr; ac Einion fab Collwyn Arglwydd Dyfed ymhlaid Iestin, ac yng ngwaith Rhyd yr Ymladd y cafas Rys ab Tewdwr y goreu ar Einion, yr hwn a orfu arno ffoi at Iestin, ac Iestin ai danfonodd i Lundain i gyflogi cynhorthwy gan y brenin Wiliam goch, ar brenin a ddanfones syr Robert fab Hamwn ddeiniog tywysawg y Corbwyll yr hwn oedd gefnderw iddaw, a chydag ef ddeuddeg o farchogion rhyfelgar a llu mawr o wyr at Iestin yn gynhorthwy yn erbyn Rhys ab Tewdwr, ac ym Mrwydr Hirwaun Wrgan y lladdwyd Rhys a goreuon ei Wyr, ac Iestin ni wnai iawn i Einion yn ol ei adduned iddaw, yna troes Einion ai wyr yn ei erbyn ac a ynnillodd ar syr Robert ab Hamwn ai farchogion fal y troesant au gwyr yn erbyn Iestin a chyda

nhwy lawer o bendefigion ac Uchelwyr Morganwg, y rhai a gasäant Iestin am ei dwyll, ai ormes, ai ymrysonusder; ac ym mrwydr y Mynydd Bychan wrth Gaerdyf y gwaethwyd Iestin, ac y gorfu arhau ffoi, a syr Robert fab Hamwn a gymerodd gyfoeth Iestin, ac a roddes diroedd a chyfoethau y rhai a gefnogaint Iestin i'r deuddeg marchawg a ddaethant gydag ef: ac i Einion y Blaeneudir; ac fal hynny y diwedodd ar Iestin a fu, efe ai feibion, gyhyd o amser yn ormes Deheubarth a Gwynedd, annhebig i'r hynafiaid a fuant iddaw yn dywysogion a gerynt heddwch, a chyfiawnder, a doethineb. Am hynn o amser y dug Huw iarll Caerllion Gawr goreuon tiroedd Gwynedd a Môn, a Bernart Nywmarc a ddug Frecheiniog, ac ym mhen deufis wedi gyrru Iestin o'i wlad a dygodd y Ffrancod Geredigiawn a Dyfed dan ddarostwng iddynt. A'r un haf a dygodd Iarll Arwndel goreuon gwlad Bowys, ac achaws creulonder ymladdgar tywysogion Gwynedd a Phowys, a gormes Iestin ai feibion yn Morganwg, a collasant y Cymry eu breiniau au cyfoethau, yn ail ac y bu achaws a wnai Gwrtheyrn Gwrtheyneu, lle troesant yr holl Fruttaniaid yn Lloegr yn wŷr i dywysogion y Saeson er cael meddiannu eu däoedd yn heddwch a llonyddwch, a cyfiawnder.

Mil a chant aeth y Cymry yng Ngwyr, a Morganwg, a Gwent, a Brecheiniog yn nyfnder nos am ben gwyr y Ffrancod ac au laddasant yn eu gwelyau yr un modd ac y lladdodd y Saeson cyn no hynny y Gwyr Duon, ac adoresgyn eu tiroedd a wnaeth llawer o'r Cymry, a thorri rhai o'r Cestyll, yna'r gwyr mawr o'r Ffrancod a ymroddasant i wneuthur cestyll cedyrn yn mhob man lle'r oeddynt yng Nghymru, ac a ddodasant wobrau i bawb o'r Cymry a fyddaint yn wŷr iddynt, ac felly gwanhäwyd y tywysogion dyledog yn fawr.

Mil ac ugain a chant y gwnaed eglwys Llandaf, ac eglwys Llanbadarn fawr, ac eglwys Mynyw a'r Ty Gwyn ar Daf yn newyddion lle yddoeddent dorriedig achaws rhyfeloedd a diffeithiaw; yng nghyfnod yr amseroedd hynn yr oedd bradeu a thwyll ymhlith bonheddigion Gwynedd a Phowys yn annog y Ffrancod yn erbyn y tywysog-

ion tiffeddiaethol, a gorfu ar y tywysogion rhoddi rhanneu mawrion o'u tiroedd ir Ffrancod, ynghyfyfychau'r amseroedd hynn daeth Gruffydd ab Rhys ab Tewdwr o'r Werddon i Gymry, ac a gafas dywysogaeth Deheubarth, ac a lywodraethawdd yn anrhydeddus. Am hynn o amseroedd yr oedd tywysogion anrheithgar a chreulawn ym Mhowys a brenin y Saeson yn eu cefnogi yn erbyn tywysogion Gwynedd a Deheubarth, ac o achaws hynny yr oedd colli gwaed afrifed yng Nghymru.

Mil a deg ar hugain a chant, priodawdd Owain ab Gruffydd ab Cynan Wyddeles o ferch Arglwydd urddasol o'r Werddon a elwid Pyfog a honno oedd fam Hywel ab Owain Gwynedd ac a ddamchweiniodd yr arglwyddiaeth i Hywel yn ol marwolaeth Ffyfog ei fam, ac yna yr aeth Hywel ab Owain i'r Werddon i oresgyn ei gyfoeth; dyna'r achos y mae'r Bruttaniaid yn dywedyd mae eiddo hwynt llawer o dir y Werddon yn dragywyddol o hynny allan, yng nghyfyfyched hynn o amser bu farw Gruffydd ab Cynan, goreu o dywysogion Gwynedd o hil Rhodri Mawr, ac ar ei ol y bu Owain ei fab yn dywysawg Gwynedd.

Mil a deugain a chant y lladdwyd Hywel ab Meredydd ab Rhydderch, arglwydd y Cantref Bychan, o dwyll a brad Saeson Dyfed, a chyn y bu hir y daeth meibion Owain Gwynedd i Aberteifi yn erbyn y Ffrancod a Saeson Dyfed, ac a gawsant fuddugoliaeth anrhydeddus arnynt.

Agos i'r un amser fe ennillodd Gruffydd ab Rhys gastell Caerfyrddin, a chastell Llanstyphan, ac a waethodd y Ffrancod yn afrifed, a gwedi hynny efe ai feibion a ennillasant gastell Gwys a chastell Cynfael.

Mil a deg a deugain a chant, aeth meibion Gruffydd ab Rhys i Geredigion ac a ennillasant y wlad oddiar Hywel ab Owain Gwynedd, ac a oresgynasant gestyll Ystrad Meuryg, a Llanrhystyd, ac au gwnaethant yn gedyrn, ac a ddodasant ynddynt wyr dewisol am galonid gwrol a gwybodau rhyfel, a chwedi hynny ennillasant gastell Llychwr yng Ngwyr ac ai torrasant, a gwedi hynny ennillasant gastell Penwedie yng Ngheredigion.

## BUCHEDD

NEU

HANES GRUFFUDD AB CYNAN.<sup>1</sup>

Yn nyddieu Edwart vrenhin Lloegr a Therdellach vrenhin Ywerddon i ganet Gruffudd frenhin Gwynedd yn Iwerddon yn Ninas Dilyn ac yng Cwmwt Colomkell i magwyt, y lle a elwir yng Gwyddeleg Surth Colomcell, a thair milldir yw hynny iwrth y lle yd oedd ei fam ai famfaeth. Ei dad oedd Cynan frenhin Gwynedd, ac fam oedd Raguel verch Awloedd frenin dinas Dilyn a phummet ran Iwerddon, ag wrth hynny bonheddiccaf gŵr oedd y Gruffudd hwnnw o frenhinawl genedl a llynysoedd goruchel; megys i tysta ach a bonedd ei rieni. Canys mab oedd Gruffudd i Gynan frenin mab Iago mab Idwal ab Elised mab Meuric mab Idwal foel,<sup>2</sup> mab Anarawt, mab Rhodri Mawr, mab Essyllt ferch Cynan o gastell Tindaethwy, mab Idwal Dyre, mab Cadwaladr fendigaid mab Cadwallawn mab Catvan ap Iago<sup>3</sup> ap Beli ap Rhun<sup>4</sup> ap Maelgwn Gwynedd, mab Caswallawn Lawhir, Mab Einiawn Yrth mab Cunedda frenhin, mab Ederm, mab Padarn Peissrudd mab Tegit, mab Iago, mab Gwidawg, mab Cein, mab Gwrgain, mab Doli mab Gwrddoli, mab Dwfyn mab Gorddwfyn, mab Auwerit, mab Onwedd mab Dwywng,<sup>5</sup> mab Brychwein, mab Ywein, mab Afallach, mab Aflech mab Beli Mawr, &c.

<sup>1</sup> O hên Llyvyr Sir Rich. yn eiddo Thomas Pennant Gwynn o Wdyr. Ex per-  
o'r Dwning, yswain, ac o  
vetusto Codice transcript. law, Davydd Jones o  
examina<sup>t</sup> ad Exemplar Drevriw, allan o Llyvyr o  
Plaswardense Itad, librum waith Huw Roberts o  
Guil. Owen Arm. de Nantelwyd, yn y vlywydd-  
Porkington. Mae Paladyr yn 1651.

Ach Gruffudd yn ddiffygiol yma; cais yn Llyvyr Achan John Jones.

Yr amryw ddarllen-  
iadau yn cydganlyn a'r  
hanes hwn a dynwyd allan  
o Llyvyr y parchedig  
Richard Davis o Vangor,  
yr hwn a ysgrivenasai, yn  
y vlywyddyn 1788, o Llyvyr

Gwelir mai addas yr  
iaith i lavariad gogledd  
Cymru ydyw yr amryveil-  
iad yn y darlenniad, eithr  
mewn bell van.

<sup>2</sup> Allan yn Ll. Gwydyr.

<sup>3</sup> Rhun. Ll. R. D.

<sup>4</sup> Allan yn rhai ll.

<sup>5</sup> Diawng. Yn Ll. Pork-  
ington.

Rhodri mawr oedd mab Mersfyn frych mab Gwryat, mab Elidir mab Sanddef, mab Alcwn, mab Tagit, mab Gweir<sup>1</sup> mab Diwg, mab Llywarch Hen, mab Elidir Lydanwyn mab Meirchiawn gul, mab Gorwst Ledlwn, ab Cenau mab Coel Godebawc, mab Tegvan gloff, mab Dehewaint,<sup>2</sup> mab Urban, mab Gradd, mab Rifedel, mab Rhideyrn, mab Endeyrn, mab Endigant, mab Enid, mab Endos, mab Endoleu, mab Afalach, mab Aflech, mab Beli mawr, Mab Manogan, mab Eneit, mab Cyrwy, mab Crydon, mab Dyfynfarch,<sup>3</sup> mab Prydein, mab Aedd mawr, mab Antonius, mab Seirioel, mab Gwrwst, mab Rhiwallawn mab Cunedda, mab Rhegau ferch Llyr,<sup>4</sup> mab Rhund,<sup>5</sup> mab Bleidd mab Llywelyt, mab Bruttus Darianlas,<sup>6</sup> mab Efrog, mab Membyr, mab Madawc, mab Loctrinus mab Bruttus tywyssauc o Rufein<sup>7</sup> mab Silvius, mab Ascanius, mab Eneas ysgwyddwyn,<sup>8</sup> mab Anchises, mab Capis, mab Assaracus, mab Trois<sup>9</sup> mab Herichonius<sup>10</sup> mab Dardanus, mab Jubiter mab Sadwrn,<sup>11</sup> mab Cælus mab Cretus mab Siprius, mab Cetyn, mab<sup>12</sup> Ieuan, mab Japheth, mab Noe hên, mab Lamech, mab Methusalem, mab Enoc, mab Jareth, mab Malaleel, mab Cainan mab Enos, mab Seth mab Addaf, mab Duw.

Bonhedd Gruffudd o barth ei fam. Gruffudd frenin fab Rannillt Raonel<sup>13</sup> Afloedd<sup>14</sup> frenin dinas Dilyn a phummet ran Iwerddon, ac Ynys Fanaw a hanoedd gynt o deyrnas<sup>15</sup> Prydain, a brenin oedd ar lawer o ynnysoedd eraill, Denmarc a

<sup>1</sup> Gwên.

<sup>2</sup> Deheufreint.

<sup>3</sup> Dyfynarth, Dyfynarch.

<sup>4</sup> Mab Reget verch.

<sup>5</sup> Rud.

<sup>6</sup> Ysgwyddwyn.

<sup>7</sup> Brutus.

<sup>8</sup> Ysgwydd dwyn.

<sup>9</sup> Tros.

<sup>10</sup> Enrichonsius.

<sup>11</sup> Saturnus.

<sup>12</sup> Nid yw mewn ereill.

<sup>13</sup> Racuel verch.

<sup>14</sup> Auloedd.

<sup>15</sup> Neu ynys.

Galwei a Rhenneu a Mon, a Gwynedd yn yr hwn le<sup>1</sup> i gwnaeth Afloedd gastell Cadarn ae tom ae ffos ettwa yn amlwec, ag a elwit Castell. Afloedd frenhin, yng Cymraeg hagen i gelwir Bon y Dom. Afloedd ynteu oedd fab i Swtric frenin mab Afloedd frenhin Cirian, mab Sutric mab Auloedd frenhin ab Horfflagyr vrenhin, mab brenin Denmarc. A bit honneit bod Hæralt Harfflagyr ai ddeu froder yn feibion i frenhin Llychlyn, ac Alyn ei vrawt oedd vrenhin cyssegredicaef ac enwoccaf ym plith holl Denmarc, ac a lladdawdd Tur tywyssawc ym brwydr, a thra yttuoedd hwnnw yn ei yspeiliaw ac yn tynnu torch fawr o eur i am ei fwnwgl mal i gnottaie<sup>2</sup> y brenhinedd ar bonheddigion ei arwain gynt y glynodd ei dwylaw wrth y dorch ac linieu wrth ei groth; a hwnnw a fu y gwrth cyntaf a wnaeth. Duw yrddaw ac o hynny allan i cymmerasant yr holl Daenisseit efo yn sant, ac ir anrhydeddasant or dydd hwnnw allan, a llawer o eglwyseu a adeilwyt yn ei enw<sup>3</sup> ac yn<sup>4</sup> ei anrhydedd ef yn Denmarc, ar Mordwywyr a alwant arnaw yn wanredawl<sup>5</sup> ag a aberthant iddaw, ag a offrymmant iddaw lawer o roddion pan peryglont yn y mor: e tywyssawc ae lladdawdd ynteu a elwit or weithret honno<sup>6</sup> Thwrciawl, am ladd<sup>7</sup> o honno y brenhin gwirion.

A bit honneit rygerdded ar for<sup>8</sup> or tri bader rhagddywedig hynny<sup>9</sup> i gyrechu Milwriaeth gan frenhinawl lynges, ac yn y diwedd wynt a ddoethant y gyt hyt yn Iwerddon.

Harallt Harfflagyr eissioes a gerdasei cyn no hynny<sup>10</sup> a dirfawr lu ganthaw ac ydd amgylchynws<sup>11</sup> holl Iwerddon gan greulonder a lladd ei chiwdawt, ac eu<sup>12</sup> ffo, ag goreseyn ar hyt ac ar llet, ac ydd adeilws<sup>13</sup> ynteu dinas<sup>14</sup> Dulyn a llawer o ddinasoedd ereill a Chestyll a lleoedd cadarn,<sup>15</sup> ag felly cadarnhau a gwastadhau i deyrnas yn ei chylch ogylech<sup>16</sup>, ag un oi frodry a ossodes yn un or dinasoedd a adeilassei yr hon a elwit yn eu hiaith hwy Porthlarg, ae etifedd ynteu a fuant frenhinedd y dinas hwnnw<sup>17</sup> yr hynny hyt heddyw.

Harallt eissioes<sup>18</sup> a wladychwys<sup>19</sup> tros wynep Iwerddon, ac ynyssoedd Denmarc

## O LYVIR R. D.

- |                               |                      |
|-------------------------------|----------------------|
| 1 Yn y lle.                   | 10 Yn gynt no hynny. |
| 2 Gweddai i.                  | 11 A ymgylchodd.     |
| 3 Enw ef.                     | 12 Gan eu hymlid.    |
| 4 Yw.                         | 13 Yr adeiliodd.     |
| 5 Waredawl.                   | 14 Ddinas.           |
| 6 Gweithret hwnnw.            | 15 Cedyrn.           |
| 7 Ei ladd.                    | 16 Hamgylch.         |
| 8 Bit fal yr aethant i'r mor. | 17 Ddinas honno.     |
| 9 Hwnnw                       | 18 Isessya.          |
|                               | 19 Wladychodd.       |

y rhei sydd yn y mor cyfarystlys a thau ynys Prydein, megys i mae ynysedd Sikkade<sup>1</sup> y rhwng mor Tyren a Denmark. Eu<sup>2</sup> trydydd brawt ynteu nid amgen Rodwlff a gerddws<sup>3</sup> ae lynges i Ffreinc ac yno i gwastadhaws<sup>4</sup>, ag i gorfu ar y Ffreinc o ymladd, ac i gorrescynnws<sup>5</sup> ran fawr o Ffreinc, a elwir yr awron Normandi, kanys<sup>6</sup> gwyr Norddwei<sup>7</sup> ae presswylia, sef yw y rhei hynny cenedl o Lychlyn, ar ddaear honno a rannwyd yn ddeuddeg rhann herwydd y Barwnieit ar Tywysogion a ddaethant yn gyntaf i rann o Ffreinc a elwir Brytaen<sup>8</sup> neu Lydaw, wynt a adeilassant yno ddinasoedd lawer. Rhodwn<sup>9</sup>, nid amgen y gan Rhodwlff frenhin adeiliaiawdr a enwyt, megis Rhufain y gan Romulus, a Rhemys y gan Remo, a llawer o ddinasoedd ereill a Chestyll a lleoedd cadarn<sup>10</sup> a orug. O hwnnw ydd<sup>11</sup> henynt<sup>12</sup> breninedd<sup>13</sup> Normandy<sup>14</sup> a<sup>15</sup> orescynnasant Loegyrr, o frwydyr nit amgen, Gwilym brenin ai ddeu fab ynteu y rhei a ddoethant<sup>16</sup> yn ei le, Gwilym Gleddyf-hir a Henri ac Ystyffan ei nei neiaint yr rhei oeddynt gyd oeswyr, ac fegis hynny i bu bonhedd Gruffudd frenhin o barth ei fam herwydd tad ei fam.

Eilweith o barthred ei henfam, nid amgen mam ei fam. Gruffudd frenhin oedd fab Raguel ferch Failcorkre<sup>17</sup> ferch Dimlwg<sup>18</sup>, mab<sup>19</sup> Tethel frenin Lain e pumhet rhan<sup>20</sup> Ywerddon. Alam hagen mam Afloedd frenhin oedd ferch i Uien brenhin Muen<sup>21</sup> dwy ran o Iwerddon. Ac odd yna Gwrmlach<sup>22</sup> oedd fam Swtric frenin, merch oedd honno i Fwrchath frenin Laine, ac i hwnw i bu dri meisb clotwawr, nid amgen Dwnchath frenhin Muen<sup>23</sup> a Swtric frenin Dinas Dulyn, a Moelchelen frenin Midif. Moel-Mordaf eissioes oedd fab i'r frenhines honno o Fwrchath frenin Laine. I Ruffudd frenin ir oedd ddeu froder unfam, brenhinedd Withw, nid amgen Ranallt mab Mathgany<sup>24</sup> yr hwn a ennillws<sup>25</sup> ddwy rann<sup>26</sup> Iwerddon ym pythefnos a mis<sup>27</sup> oe ddewredd. Llemhidydd<sup>28</sup>

## O LYVIR R. D.

- |                 |                      |
|-----------------|----------------------|
| 1 Cyclades.     | 16 Ac a.             |
| 2 Y.            | 17 Yr aethant.       |
| 3 Aeth.         | 18 Failcoxere.       |
| 4 Gwastadhoad   | 19 Dunlwg.           |
| 5 Gorescynnodd. | 20 Ferch.            |
| 6 Sef.          | 21 Pymtheg. rhan.    |
| 7 Normandi.     | 22 Innen.            |
| 8 Brydain.      | 23 Gwmlach.          |
| 9 Rhodwn.       | 24 Innen.            |
| 10 Cedyrn.      | 25 Mathganyan.       |
| 11 Yr.          | 26 Ennilodd.         |
| 12 Henwynt.     | 27 Ran or.           |
| 13 Breninoedd.  | 28 Mewn chwech wyth. |
| 14 Normandi     | 29 Llamhidydd        |



anrhyfedd oedd, nit oedd or holl Wyddyl a allai na gwrthwynebu, na chyffelybu iddaw yn ei neit. Ae farch ynteu oedd odidawc yn<sup>1</sup> amrafaelion gampeu o fuan-der. Islimach<sup>2</sup> oedd ei enw, kymmeint oedd ei neit ef, ac farch tebyccaf oedd i Cynar<sup>3</sup> March Achelarw neu i Bucephal March Alexander amperawdyr.

Y Brawt arall i Ruffudd oedd Ethmin-ach Gawyn brenin Wltw.

Can deryw rhifaw bonedd a charant<sup>4</sup> Gruffudd frenin herwydd byd, rhifwn weithion ei fonedd herwydd Duw, herwydd i dyweit Tad Sant, yn<sup>5</sup> fonedd ef ac o fonedd pop dyn yn yr exponyat a wnaeth ar y<sup>6</sup> wers or sallwyr<sup>7</sup> Chwi yw<sup>8</sup> y dwyweu a meibion y goruchelaf yw pawb. Wrth hynny Gruffydd oedd fab i Gynan mab Addaf mab<sup>9</sup> Duw, wrth hynny yn i bo canmoledig Gruffydd frenin, o fonedd bydawl ac un dwywawl, cerddwn weithian ar ddargon<sup>10</sup> Merddin Fardd y Brutanyeit o honaw. Ef ae darogauws<sup>11</sup> Merddin ef in i fal hyn.<sup>12</sup>

Llymminawc lledffer a ddaroganer diarfor<sup>13</sup> dygosel llygrer<sup>14</sup> i enw llygrawd<sup>15</sup> llawer. Sef yw hynny yn Lladin. Saltus ferinus praesagitur cujus nomen corruptor, quia multos corrumpet<sup>16</sup>.

O garediccaf frodyr Cymry! Cofladwy iawn yw Gruffydd frenin, yr hwn<sup>17</sup> a gan- mawl ei fonedd bydawl a darogan Merddin fal hyn.

A chan<sup>18</sup> deryw hynny bryssiwn iw<sup>19</sup> briodlioni weithredoedd herwydd yr eddewit genym trwy hen gyfarwyddyt a Christ a fo Awdwr a Chynhelwr<sup>20</sup> yn hynny, ac nit Diane nac Apollo.

*Historia Incipit.*

Wrth hynny pan yttoedd Gruffydd etwa yn fab da ei ddefodu a thrythyll ei fagiat, ac yn yscynnu ar<sup>21</sup> slyddyndedd ieuencid<sup>22</sup> yn nhy ei fam, ac yn troi ym plith ei chenedl: ym plith hynny i manegei<sup>23</sup> iddaw peunydd, pwy a pha ryw wr oedd ei dad, a pha tref tad oedd iddaw, a pha ryw

O LYVIR R. D.

- 1 Mewn.
- 2 Isliniach.
- 3 Cinar.
- 4 Ceraint.
- 5 Oi.
- 6 Y.
- 7 Psaltwyr
- 8 Yn.
- 9 In.
- 10 Ddarogan.
- 11 Daroganodd.
- 12 Ym fal yn.
- 13 A wnaeth diarfor.
- 14 Llygrwr.
- 15 Llygrwyd.
- 16 Saltus ferinus praesagitur venturus de mari insidiatrus cujus nomen corruptor, quia multos corrumpet.
- 17 Yr.
- 18 Chanys.
- 19 Yno.
- 20 Chynhaliwr.
- 21 Preswylaw ym.
- 22 Iefenctid.
- 23 I fam.

frenhiniaeth, a pha ryw treissiwyr oedd yn ei phresswylaw. A phan gogleu<sup>1</sup> ynteu hynny gorthrwm i cymmyrth, a thrist fu lawer o ddyddieu, ac wrth hynny i cerddws<sup>2</sup> ynteu i lys Murchath freniu a chwynaw wrthaw ef yn bennaf, ac wrth<sup>3</sup> frenhinoedd Iwerddon<sup>4</sup> y lleill, bot<sup>5</sup> estrawn genedyl yn Arglwyddi<sup>6</sup> ar ei dadawl deyrnas, ac adolwyn iddynt yn ysmala roddi cannorthwy iddaw y geissiauw tref ei dat, a thruanu<sup>7</sup> wrthaw a orugant<sup>8</sup> ac addaw cannorthwy iddaw pan ddelei amser. A phan gogleu<sup>9</sup> yr atteb, llawen fu adiolwch hynny i Dduw, ac uddunt wynteu.<sup>10</sup> Yn y lle escynnu<sup>11</sup> llong a orug<sup>12</sup> a dyrchafael hwylieu i'r gwynt a cherddet môr parth<sup>13</sup> a Chymru, a chaffel Porth Abermenei, ac yna ydd<sup>14</sup> oeddynt yn arglwyddiau yn enwir ag yn erbyn deiliaid Trahaearn ap Caradawc a Chynwrig fab Rhiwallawn brenhynyn o Bowys, ar<sup>15</sup> holl Wynedd, ac<sup>16</sup> rhannu rhynddynt<sup>17</sup> a ddaroedd<sup>18</sup> eiddunt.

Ac yna ydd anvones Gruffuda gennadeu ar wyr Mon ag Arfon a thri meib Merwydd o Leyn, Asser a Meiriawn a Gwgawn a gwyrdw craill i erchi uddunt ddyfod ar frys igyfrwch<sup>19</sup> ag ef, ag heb ohir wynteu<sup>20</sup> a ddoethant a chyfarch gwel iddaw, a dywedyd wrthaw o ddamuned rhyddoethost:<sup>21</sup> ena ydd adolygws<sup>22</sup> ynteu oe holl ynni<sup>23</sup> uddunt hwy i gynnorthwyo i gaffael tref<sup>24</sup> ei dad, canys ef<sup>25</sup> oedd eu Harglwydd priodawr<sup>26</sup> ag wrthladd (y)gyt ag ef yn wychyr<sup>27</sup> eu hampridorion arglwyddi wedi dyfod<sup>28</sup> o le arall. Ac yn i bei terfynedic y Cyfrwch, a gwahanedic y kynghor<sup>29</sup>, i cerddws<sup>30</sup> drachefyn y weilgi parth a chastell Rhuddlan hyd at Robert (o) Ruddlan Barwn enwog dewr<sup>31</sup> o gadernyt, nei i Hu<sup>32</sup> Iarll Caer, ac weddiaw a orug am<sup>33</sup> gynnorthwy yn erbyn ei elynion a oeddent ar tref ei dad, a phan gogleu<sup>34</sup> ynteu pwy oedd ef ac i ba beth rhyddoethoedd<sup>35</sup>, a pha

O LYVIR R. D.

- 1 Glybu.
- 2 Cerddodd.
- 3 Wrth y llail o
- 4 Y Werddon.
- 5 Fod.
- 6 Arglwyddiaethu.
- 7 Thrugarchau.
- 8 Wnaethant.
- 9 Glybu.
- 10 Hwytneu.
- 11 Trefnu.
- 12 Wnaethant.
- 13 Tua.
- 14 Yr.
- 15 A.
- 16 Ai.
- 17 Y rhynddynt.
- 18 Darfod.
- 19 Gyfarfod.
- 20 Chyn bir hwy.
- 21 I ddymuno beth y daethost.
- 22 Y yr adolygodd.
- 23 Yr eiraiwl iawn.
- 24 Trefi.
- 25 Efe.
- 26 Priawd.
- 27 I gyd yn wrawl.
- 28 Dyfodiad.
- 29 Gyngor.
- 30 Cerddodd.
- 31 A dewr
- 32 Huw.
- 33 Ar fod yn.
- 34 Glybu.
- 35 Y daethai.

arch aedd yr eiddaw, ef a erddewis bot<sup>1</sup> yn gynnorthwywr iddaw.

Ac yn hynny y doeth gwraig brudd Tangwystyl y henw, ei gares ei hun, gwraig Lywarch Olbiwch i gyfarch gwell i Ruffydd ei char, ag i ddarogan ei fod<sup>2</sup> yn frenin rhagllaw, a rhoddi<sup>3</sup> iddaw y Crys meinhaf a goreu a phais wedi<sup>4</sup> ei wneuthur o yscin Gruffudd<sup>5</sup> frenin mab Llywelyn frenin<sup>6</sup> mab Seisyll: Canys Llowarch ei gwr hitheu oedd wahauredolaf<sup>7</sup> gwas ystafell<sup>8</sup> a throssoryer<sup>9</sup> i Ruffydd mab<sup>10</sup> Llywelyn.

Odd yna Gruffydd a esgynnws i<sup>11</sup> long ag a ymchoeles oe reidwyf<sup>12</sup> hyt yn Abermenei.

Odd yna ydd anfonws<sup>13</sup> ymladdwyr Meibion Merwydd a oeddent yng Celynog<sup>14</sup> ar<sup>15</sup> Noddfa rhag ofn gwyr Powys a oedd yn eu gogyfaddaw a boneddigion ereill oc eu<sup>16</sup> cenedyl a thri ugeinwyr o etholedigion o Degeingyl o gywaeth<sup>17</sup> y Rhobert a enwyt uchod, a phedwar ugeinwyr o Ynys Fon, hyt yng Cantref Lleyrn i ymladd a Chynwric frenhinyn eu treisiwr<sup>18</sup>: Odd-yna i cerddassant yn<sup>19</sup> ystrywys ag i doethant<sup>20</sup> am ei benn yn ddirybudd ag i laddassant ef a llawer oe wyr.

Ac yna ydd<sup>21</sup> oedd Gruffudd yn Abermenei nid amgen y porthloedd<sup>22</sup> a ddywed- pwyd uchod yn aros pa dynghetfen a ddamweiniail uddunt: ac yna i cerddws<sup>23</sup> or blaen ar frys gwraang<sup>24</sup> o Arfon, Ein- iawn oedd ei enw, i fynegi: y chwedyl hyrwydd yn gyntaf, nyt amgen ryladd ei<sup>25</sup> orescynnwr, ac erchi yn goelfein enwedig. gwraig deg Dylat oedd ei<sup>26</sup> henw, gor- dderch i Fleddyn frenin cyn no hynny, megis i doeth gynt nebun wreang<sup>27</sup>, mab i wr o Amalec ar<sup>28</sup> redeg ar Ddafydd hyt y<sup>29</sup> Philistim<sup>30</sup> or frwydr ryfuaasai ym Mynydd Gelboe a theyrnwialen a breich- rwy Sawl frenin ganthaw, ar breichrwy a roddes Dafydd iddaw ynteu yn llawen yn i goelfein am ei chwedl llawenydd.

Oddyna i doethant<sup>31</sup> yn<sup>32</sup> ol gan fudd

O LYVYR R. D.

<sup>1</sup> Addawodd fod.

<sup>2</sup> Fod ef.

<sup>3</sup> Ac i roddi.

<sup>4</sup> Gwedi.

<sup>5</sup> Ab.

<sup>6</sup> Ab.

<sup>7</sup> Wahanredawlaf.

<sup>8</sup> I Gastell.

<sup>9</sup> Thyssorwr.

<sup>10</sup> Ab.

<sup>11</sup> Esgynnodd iw.

<sup>12</sup> Ymchoelodd iw daith.

<sup>13</sup> Anfonodd.

<sup>14</sup> Nghelynog.

<sup>15</sup> Ar i.

<sup>16</sup> Oi.

<sup>17</sup> Gyfoeth.

<sup>18</sup> I treisiwr.

<sup>19</sup> Hwytneu yn.

<sup>20</sup> Daethant.

<sup>21</sup> Yr.

<sup>22</sup> Porthloedd.

<sup>23</sup> Y cerddodd.

<sup>24</sup> Gwr.

<sup>25</sup> Ddarfod lladdi.

<sup>26</sup> I.

<sup>27</sup> Wrianc.

<sup>28</sup> Ar i.

<sup>29</sup> Yn y

<sup>30</sup> Philistia.

<sup>31</sup> Daethant.

<sup>32</sup> Yn i.

ugoliaeth y nifer a anfonessit ir cyrch ac yn y lle ydd<sup>1</sup> annogasant wynteu<sup>2</sup> iddaw ef cerddet rhagddaw ar<sup>3</sup> coel da hwnnw i orescyn Mon ac Arfon a Lleyrn ar Cantref- oedd<sup>4</sup> Cyffinydd i Loegyr, a chymryt gwryogaeth<sup>5</sup> y gan y gwerin<sup>6</sup>, o cherddet x velly a<sup>7</sup> gogylychnu<sup>8</sup> holl Wynedd ei wir<sup>9</sup> tref tad ef,<sup>10</sup> a roddassei Duw yn eu llaw hwy oe drugaredd ef. Ac yn y<sup>11</sup> bei wneuthuredic<sup>12</sup> y pethau hynny oc eu<sup>13</sup> hannog wy i dyddwg<sup>14</sup> dirfawr lu parth a Chantref Meirionnydd yn y lle ydd<sup>15</sup> oedd<sup>16</sup> Trahaiarn yn ei erbyn ei orescynnwr ef (y llall), a brwydyr a fu y rhyngthunt yng glyn Cyning<sup>17</sup> y lle yn<sup>18</sup> Gymraeg Gwaet- erw, neu y tir Gwaetlyt, o achaws y frwydr a fu yna: a Duw a roddes buddugoliaeth iddaw oe Elynion yn y<sup>19</sup> dydd hwnnw, a llawer o filoedd a ddigwyddasant o barth Trahaiarn, a breidd i diengis<sup>20</sup> ynteu yn gwynfannus ag ychydic gyt ac ef or frwy- dyr. A Gruffudd ac nifer ae hymlynws ynteu<sup>21</sup> trwy faes tiredd<sup>22</sup>, a mynyddedd ar gyffinydd<sup>23</sup> ei wlat ei hun, ac or achos hwnnw i dercheft<sup>24</sup> Gruffudd oe obryn<sup>25</sup> yn frenin Gwynedd, ac i<sup>26</sup> llawenhaws<sup>27</sup> ynteu megis Cawr i redeg ei<sup>28</sup> ffordd gan rhyddau Gwynedd or Arglwyddi a ddoth- oedd<sup>29</sup> iddi o le arall ag<sup>30</sup> oeddynt yn ei<sup>31</sup> gwledychu yn enwir megys ydd<sup>32</sup> amddeff- ynwys<sup>33</sup> Judas Macabeus gwlat yr Israel y gan<sup>34</sup> y brhinedd Paganieit, ar cenedl- oedd Cyd-derfyn, a ruthrei i eu plith yn fynych. A gwedy gwneuthur y felly pob peth, dechreuws Gruffudd gwasattau ei<sup>35</sup> deyrnas a lluniaethu ei werin ac eu llyw- iaw yngialen<sup>36</sup> haiarnawl yn ogonianhus<sup>37</sup> yn yr Arglwydd.

*Bellum contra Rhuddlan et Francos.*

Ac gwedi llithraw oddyna<sup>38</sup> ychydic o amser o annog gwyrda<sup>39</sup> y wlat i cynull-

O LYVYR R. D.

<sup>1</sup> Yno yr.

<sup>2</sup> Hwytneu.

<sup>3</sup> Or.

<sup>4</sup> Cantrefoydd.

<sup>5</sup> Gwryogaeth.

<sup>6</sup> Brenin ai werin.

<sup>7</sup> Ac.

<sup>8</sup> Angylchu.

<sup>9</sup> I iawn.

<sup>10</sup> Nid yw yn Ll. P. P.

<sup>11</sup> Oni.

<sup>12</sup> Wneuthur.

<sup>13</sup> Au.

<sup>14</sup> I ddwyn.

<sup>15</sup> Yr.

<sup>16</sup> I orescynnwr arall ef.

<sup>17</sup> Cyfing. q.

<sup>18</sup> A elwir yn.

<sup>19</sup> Y.

<sup>20</sup> Diengodd.

<sup>21</sup> Ymlidiaudd.

<sup>22</sup> Feusydd.

<sup>23</sup> Mynyddoedd hyd ar

derfynau.

<sup>24</sup> Derchafodd.

<sup>25</sup> Or dydd hwnnw allan

ac i gelwid.

<sup>26</sup> Y.

<sup>27</sup> Llawenhaodd.

<sup>28</sup> Yn rdedeg y.

<sup>29</sup> Ddaethai.

<sup>30</sup> Ac a.

<sup>31</sup> Yn.

<sup>32</sup> Yr.

<sup>33</sup> Amddefynnodd.

<sup>34</sup> Yn erbyn.

<sup>35</sup> Dechreuodd gwastath-

<sup>36</sup> Gwerin ac llywaw a

gwialen.

<sup>37</sup> Ogoneddus.

<sup>38</sup> A chweddi ennyd o

ddyddiau (neu ar ol).

<sup>39</sup> Gwyr da.

ws<sup>1</sup> llu mawr ac i cerddws<sup>2</sup> parth a Chastell Rhuddlan i ymladd a Robert gastellwr ac ar marchogion ereill dywal o Ffreinc a ddatheoddynt y diwedd<sup>3</sup> hwnnw o Loegy, ag oddyna i doethoeddynt<sup>4</sup> i wladychu Cyffnydd<sup>5</sup> Gwynedd. A gwedi byddinaw o honaw a dyrchafael ei arwyddion<sup>6</sup> y balli ag i llosges, ac i dug anrhaith fawr: llawer or Marchogion llurigawc helmawc or Ffreinc a ddigwyddasant i ar<sup>7</sup> eu Meirch yn ymladd, a llawer o bedyt a breidd i diengis<sup>8</sup> ychydig o naddunt yn y Twr. A phau gogleu<sup>9</sup> Brenin Iwerddon ae farwnieit bot mor hyrwydd damwein Gruffudd eu car ac eu<sup>10</sup> mab Maeth, a hynny i llawenhasant<sup>11</sup> wynteu yn fawr.

*Rebellio et Insurrectio contra Griffinum.*

Ac oddyna<sup>12</sup> tri meib Merwydd a holl wyr Llein a ddyunasant<sup>13</sup> yn erbyn Gruffudd eu Harglwydd priodawr, ag a laddasant hyt y nos yn eu lettyeu yn y wlat or Gwyddydd ddeuddengwyr a deugeint o farchogion Gruffudd ae teulu. A phan gogleu<sup>14</sup> Trahaiarn hynny yn orchfygedic ac yn floedic, llawenhau a wnaeth<sup>15</sup>. Oddyna yr Annundeb hwnnw (y) rhwng Gruffudd ae wyr, ac yn y lle<sup>16</sup> i cerddws<sup>17</sup> ynteu ar<sup>18</sup> wyr Powys ac annoc uddunt ddyfod ygyt ac ef am ben Gwynedd yn amler torfoedd i ddial arnaddunt Cynwric y gar.

Ac wrth hynny i daeth Gwrgeneu a Seisyll<sup>19</sup> brenin Powys ae nifer y gyt a Trahaiarn ae nifer ynteu o gyt ddyundeb<sup>20</sup> i fynnu gorescyn brenhiniaeth Gruffudd frenin.

A phan gogleu<sup>21</sup> tri meib Merwydd, a gwyr Lleyan ac Eifonydd hynny, i bredychasant wynteu Gruffudd frenin eu harglwydd priodawr megys gwyr anudonol anffyddlon, a chynnorthwyaw eu gelynyon a bot yn dywysogion uddunt ir<sup>22</sup> Cywoeth, a dau froder o Fon Tudur a Gollwyn a wnaethant yn gyffelyb i hynny wedi cymryt eu Cyfarwys<sup>23</sup> yn Colynawc<sup>24</sup> fawr y

gan Ruffudd. A phan glybu Ruffudd y brad ar dyundeb a<sup>25</sup> oedd yn ei erbyn y<sup>26</sup> gan ei wyr ei hun ae elynion i doeth yn eu herbyn a gwyr Mon ac Arfon ag ychydig o wyr Denmare ar Gwyddydd ganthaw, a brwydr<sup>27</sup> ddirfawr o gyfodes, (ac) aerfu fawr a fu o bob parth, a llawer a ddigwyddasant o lu Gruffudd frenin, a llawer a ddaliasant yn y frwydr, Cerit ei dadmaeth a Farudri<sup>28</sup> tywyssawc y Gwyddydd ac arglwydd Cruc Breuan (sef oedd<sup>29</sup> hwnnw goruchel fynydd sant Brendan hermidwr enrhyfedd a naw cantref yn ei gylch) ac o orengwyr Mon i digwyddasant dengwyr a thriugeint ac eissioes<sup>30</sup> Gruffudd frenin yn eistedd ar ei farch yn y fyddin ae gleddyf llathrait yn medi ei fradwyr ae elynion megys Agamemnon brenin y groegwyr gynt yn ymladd Tro<sup>31</sup>. Ac yna i Cyrchws<sup>32</sup> Tudor gwas o Fôn, pen bradychwr<sup>33</sup> Gruffudd, gan frydiaw gleif ac i trosses Cyfeiliorn ef iw gyrchu yn ei goryf ol iw gyfwy, a phan weles Gwynoc<sup>34</sup> Barwn o Fon hynny i tynnws<sup>35</sup> ef or frwydr ae anfon hyt ei long a oedd yn Abermenel, ac yna<sup>36</sup> ydd aethant hyt yn ynys Adron, sef y lle hwnnw (oedd) ynys y Moelrhoniait, oddyna hyt yn Lluch Garmaw yn Iwerddon i cerddasant: ar gyfranc honno<sup>37</sup> a elwir Bron yr Erw, neu Erw yr Allt yr hynny hyt heddyw.

Na ryfedded y bobyl hagen<sup>38</sup> bot gweithieu gorfot, ac weithiau ffo herwydd damwein, canys brad y sydd yr y dechreu, fal hynny i gwnaeth pobyl yr Israel a fredychasant ac a roddasant eu brenhin dyledawc ac eu<sup>39</sup> harglwydd, nit amgen Judas Machabeus i Demetrius frenhin Anffyddlon, ac ynteu eissioes mal ymladdwr Duw, cyffelyb i gawr ac i lew, a ymddialws<sup>40</sup> ei hun yn dda or ddwy bleit. Ulcassar<sup>41</sup> amperawdyr Rhufein gwedi goresgyn o honaw yr holl fyt ae wastattau o ymladdeu, i laddawdd seneddwyr Rhufain ef o frad a phwyntleu ynghabidyldy<sup>42</sup> Rhufein.

Arthur hefyd Brenhin brenhinedd<sup>43</sup> Ynys Prydein, a rhyswr honeit clotfawr a wnaeth ddeuddeg prif ymladd yn erbyn y Saesson ar Fictyeit<sup>44</sup> ac yn gyntaf o naddunt i bu

O LYVYR R. D.

<sup>1</sup> Cynnullodd. <sup>15</sup> Or anghytundeb.  
<sup>2</sup> Cerddodd. <sup>16</sup> Yno y.  
<sup>3</sup> O ffreinc a ddaethant i ddiwedd. <sup>17</sup> Gyrrodd.  
<sup>4</sup> Oddiyno y daethant. <sup>18</sup> At.  
<sup>5</sup> Cyffnydd. <sup>19</sup> Mab Ithel mab Gwergystan. L. Pl. et Pork. et verso Lat.  
<sup>6</sup> Arwyddion yranrheith-iodd. <sup>20</sup> Nid ynt yn Ll. P. P. y geiriau. brenin Powys ae nifer gyt a Trahaiarn ac ynteu o gyt ddyundeb.  
<sup>7</sup> Oddiar. <sup>21</sup> Glybu.  
<sup>8</sup> Diengodd. <sup>22</sup> Er.  
<sup>9</sup> Glybu. <sup>23</sup> Y cyfarfuant.  
<sup>10</sup> At. <sup>24</sup> Nghellinawc.  
<sup>11</sup> Yn fawr. <sup>25</sup> Adduned.  
<sup>12</sup> Yno. <sup>26</sup> Gan.  
<sup>13</sup> Addunasant. <sup>27</sup> Brad.  
<sup>14</sup> Glybu. <sup>28</sup> Marndri.  
<sup>29</sup> Sef lle oedd.  
<sup>30</sup> Fal yr oedd.  
<sup>31</sup> Troca.  
<sup>32</sup> Cyrohodd.  
<sup>33</sup> Bradwr.  
<sup>34</sup> Gwyn, Gwynn.  
<sup>35</sup> Tynnodd.  
<sup>36</sup> Oddiyna.  
<sup>37</sup> Er hynny hyd heddyw.  
<sup>38</sup> Ormod.  
<sup>39</sup> Au.  
<sup>40</sup> Ymddialodd.  
<sup>41</sup> Julius Cæsar.  
<sup>42</sup> Cabidyldy.  
<sup>43</sup> Ffichtiad.  
<sup>44</sup> Ffoadwr.

O LYVYR R. D.

<sup>25</sup> Adduned. <sup>35</sup> Tynnodd.  
<sup>26</sup> Gan. <sup>36</sup> Oddiyna.  
<sup>27</sup> Brad. <sup>37</sup> Er hynny hyd heddyw.  
<sup>28</sup> Marndri. <sup>38</sup> Ormod.  
<sup>29</sup> Sef lle oedd. <sup>39</sup> Au.  
<sup>30</sup> Fal yr oedd. <sup>40</sup> Ymddialodd.  
<sup>31</sup> Troca. <sup>41</sup> Julius Cæsar.  
<sup>32</sup> Cyrohodd. <sup>42</sup> Cabidyldy.  
<sup>33</sup> Bradwr. <sup>43</sup> Ffichtiad.  
<sup>34</sup> Gwyn, Gwynn. <sup>44</sup> Ffoadwr.

orchfygedic a ffoawdr<sup>45</sup> ef, o achos brat ynghaer Lwyd Coet sef oedd y lle hwnnw Dinas y Llwyn Coet<sup>46</sup> yn yr ymladdeu ereill i bu ruddgawl ynteu, ac i talws<sup>47</sup> ir Saesson ar Ffictieit<sup>48</sup> eu ormeswyr cyt bei henwr ef, chwyl<sup>49</sup> teilwng yn y gwrthwyneb.

*Griffini fuga ad Hiberniam.*

A gwedi dyfot Gruffudd i Iwerddon<sup>50</sup> i cwynws<sup>51</sup> yn dost wrth y brenin a'i dywysogion rhag ei fradwyr ae ormeswyr, ac annioddef<sup>52</sup> fu ganthunt wynteu<sup>53</sup> hynny, ae annog o orugant iddaw<sup>54</sup> ymchwelyt drachefyn yn gyflym a llynges gyweir o reidwyf<sup>55</sup> a rheidiau ac ymladdwyr.

Ac wrth hyn ynteu a ymchoelws<sup>56</sup> parth ae wlat gan rwyaw<sup>57</sup> dyfn-foeodd a degllong ar hugeint llawn o Wyddyl a gwyr Denmare, ac yn Abermenei i desgynnasant, ac yna i<sup>58</sup> cawssant Trahaiarn yn gwledychu yn y wlat. A phan gigleu<sup>59</sup> Trahaiarn ddyfod y llynges frenhinawl honno, tristau ae ucheneidiaw a oruc<sup>60</sup>, ac ergryn ac ofn ai dygyrchws<sup>61</sup>, a mudaw gwyr Llyn ac Arduwy ac eu da a oruc attaw hyt yng Cantref<sup>62</sup> Meirionnydd a gafas o naddunt, a Gruffudd ynteu ae lu a ddugant y rhann<sup>63</sup> arall o Leyn ac Arfon hyt ym Mon, fal i gellynt bot yno yn ddiogel dan ei amddesfyn ef.

Oddyna i lliidiws y Daenyssait ef<sup>64</sup> a gwyr ei dy ai dylwyth ei hun can ni cheint eu gorddyfneit mal ir addawodd iddunt ac ir arheithiassant gan mwyaf Môn o<sup>65</sup> dreis i arnaw ac ymchoelyt i eu<sup>66</sup> gwlat ac eu llongeu yn llawn o ddynion a golud-oeodd<sup>67</sup> ae ddwyn ynteu ganddynt, ac nit oe fodd<sup>68</sup>. Ac ni bu lei yna<sup>69</sup> i Ruffudd brat y Daenyssait noc un<sup>70</sup> Cymry.

Oddyna y tyfawdd<sup>71</sup> llawer o ddrwg a gofid yng Gwynedd.

1. *Invasio Vendotice. i. e. North Wallace per Normannos*<sup>72</sup>.

Ac ym plith hynny wedi ychydic o

O LYVIR R. D.

<sup>45</sup> Sef oedd.

<sup>46</sup> Llwyd.

<sup>47</sup> Talodd.

<sup>48</sup> Ffictieit.

<sup>49</sup> Hyd onid aeth ef yn y henwr hwyliad.

<sup>50</sup> Ir Werddon.

<sup>51</sup> Cwynodd.

<sup>52</sup> Anoddef fu hynny.

<sup>53</sup> Hwytneu.

<sup>54</sup> Wnaethant i.

<sup>55</sup> Oreiddwyf, oreiddwyf

<sup>56</sup> Ymchoelodd.

<sup>57</sup> Rwygaw.

<sup>58</sup> Yno y.

<sup>59</sup> Glybu.

<sup>60</sup> Ochrneidio a wnaeth.

<sup>61</sup> Cyrchodd.

<sup>62</sup> Gantref.

<sup>63</sup> Ran.

<sup>64</sup> Ac oddiyno y lluddiws

<sup>65</sup> y Danisiaid ef.

<sup>66</sup> Wrth.

<sup>67</sup> Arnaw ae ymchwelyd

<sup>68</sup> iw.

<sup>69</sup> Golud.

<sup>70</sup> Oi bodd.

<sup>71</sup> Nid oed hi yno le.

<sup>72</sup> O herwydd brad y Danisiaid a fu gwaeth na'r.

<sup>73</sup> Oddiyno y tyfodd.

<sup>74</sup> Nid oes y geiriau hyn

na gwahaniaeth yn Ll.

R. D.

amser i cynnullws Hu<sup>73</sup> iarll Caer a llawer o dywysogion eraill, nit amgen Rhobert o Ruddlan a Gwarin o Amwythig<sup>74</sup> a Gwalter iarll Henffordd y llu mwyaf yn y byd o farchogion a phedit ac a ddugant ganthunt Gwrgeneu mab Seissyll a gwyr Powys ac a gerddasant y mynyddedd yn i ddoethant hyt yn Lley<sup>75</sup> ac yn y Cantref hwnnw i lliestasant wythnos gan ei ddestryw<sup>76</sup> beunydd ae anrheithiaw a lladd aerfa fawr o gclanedd a hadawsant.<sup>77</sup>

Ac oddyna i bu ddiffieith<sup>78</sup> y wlat wyth mlynedd: ac oddyna pobl y wlat<sup>79</sup> honno a wascarasant yn ddielw ar hyt y byt yn rheidussion, a llawer o naddunt a aethant i alltudedd i wladoedd<sup>80</sup> eraill, trwy hir flwyddynedd, ac o freidd i doeth o naddunt i eu gwlat<sup>81</sup> a honno fu<sup>82</sup> y bla gyntaf a dyfodiat agarw<sup>83</sup> y Normanyeit yn gyntaf i ddaear Wynedd, wedi eu dyfodiat<sup>84</sup> i Loegr.<sup>85</sup>

Ac yn hynny wedi bot Gruffudd blwyddynedd<sup>86</sup> yn Iwerddon megis yn trwyddet gyda Diermit<sup>87</sup> frenin, ag y gyt ar gwyrda eraill, efe a gynnnullws llynges vrenhinawl o Borthlarc a roddassei y brenhin iddaw yn llawn oe ddaenyssait<sup>88</sup> a Hwyttyl a Brytanyeit, a gwedi lledu hwyliu ar y mor, ar gwynt yn hyrwydd oe eu hol, ar mor yn dangnefeddus<sup>89</sup>, ef a ddoeth i Borth Cleis garllaw Archescobty Mynyw.

Ac yna i cerddws Rhys ab Tudur<sup>90</sup> brenhin Deheubarth Cymru ar Escob ar athrawon ae<sup>91</sup> holl Clas yr Arglwydd Dewi, ac un eglwys Fynyw<sup>92</sup>, hyt y borth a Rhys gyntaf a ymadroddes<sup>93</sup> fal hyn a'r Arglwydd Gruffudd. Hanbyr well Ruffudd, Brenin brenhinedd<sup>94</sup> Cymru, attat ti ydd wyf i yn ffo rhac<sup>95</sup> dy fron i digwyddaf ar dal fyngliniau i erchi dy gynnorthwy ath nerth. Pwy wyt titau heb y Gruffudd, ac i ba beth rhyddoethost<sup>96</sup> yma? Rhys wyf i heb ynteu mab Tudur<sup>97</sup> Arglwydd y Cywaeth hwn o fewn ychydic, ac yr awron yn wrthladdedig ac yn ffoedig ac yn ddiff-

O LYVIR R. D.

<sup>73</sup> Y Cynnullodd Huw.

<sup>74</sup> Gwarin o Mwythig. yn Ll. R. D.

<sup>75</sup> Mynyddoedd hyd yn

Llyn. [tryw.] <sup>76</sup> Diennic.

<sup>77</sup> Lluestasant gan i dis-

<sup>78</sup> Ac i gadawsant. <sup>79</sup> Or danisiaid.

<sup>80</sup> O hynny y bu diffaith. <sup>81</sup> Hwylus ar mor yn

<sup>82</sup> dawel. <sup>83</sup> Ac yna y cerddodd

<sup>84</sup> Rhys ap Theodr.

<sup>85</sup> Ac esgob acathrawona.

<sup>86</sup> Mynyw.

<sup>87</sup> Ymadroddodd.

<sup>88</sup> Brenhinedd.

<sup>89</sup> Ydwf fi yn ffo gar.

<sup>90</sup> A bu. <sup>91</sup> Y daethost.

<sup>92</sup> Dir Gwynedd wedi i

dyfod. <sup>93</sup> Tewdwr.

lanedig haeach<sup>98</sup> ydd wyf yn ymddirgelu yn y noddfa hon. Pwy ath ffoes di heb y Gruffudd? Arglwydd heb ynteu tri brenhin or gwlad oedd<sup>99</sup> pennaf o Gymry ac eu lluoedd a ddeseynassant im Cywoeth y diwedd hwn a pheunydd i maent yn<sup>100</sup> anrheithiaw. Pwy heb y Gruffudd y brenhinedd<sup>1</sup> a gerddant trwy dy wyr di ath gywoeth mor fyddinawc a hynny?<sup>2</sup> Caradawc mab Gruffudd heb ynteu<sup>3</sup> o Went uch Coet ac is Coet ae Wenhwysson a gwyr Morgannwc a llawer o Albryswyr Normanyeit<sup>4</sup> ganthaw, Meilir mab Rhiwallon ae Bowyswyr ganthaw, Trahaiaru frenin a gwyr Arwystli. A phan gogleu Gruffudd enw eu<sup>5</sup> ormesswyr ffroeni o gynddaredd a oruc<sup>6</sup> a gofyn iddaw pa beth a roddei yr ymladd trostaw yn erbyn y gwyr hynny? Dyoer heb y Rhys, hanner fy nghyfoeth a roddaf yt, ag y gyt a hynny gryyogaeth a wnaf<sup>7</sup>. A chyfun a hynny a fu Gruffudd<sup>8</sup>.

A gwedi ymddyunaw o naddunt yn y lle honno a bendith<sup>9</sup> yr Escob, Gruffudd a gerddws yn yr undydd rhacddaw, ae,<sup>10</sup> Ddaenyssyeit ae Wyddyl a llawer oe Wyndyt rhifedi wyth ugeinwyr a Chynddelw mab Comos o Fon oc eu<sup>11</sup> blaen. Rhys ynteu ac ychydic Ddeheuwy, a gerddws gydac hwy<sup>12</sup> yn llawen ganthaw ei fryt oe gynnorthwvy.

Ac wedi cerddet dirfawr ymdeith diwyrnawt yng cylch gosper wynt a ddoethant i Fynydd yn y lle ydd oedd<sup>13</sup> lluesteu y dywededigion frenhinedd uchod.

- 6 Gocheled ymryson, cared heddwch, a  
bydded di-vavrovalon.
- 7 Bydded lawen, bydded hael, a bydded  
gyviawn.
- 8 Bydded wrth un wraig, yn gadarn yn  
ei fydd, ac yn lân ei gydwybod.
- 9 Bid vvyrygar y bore, gweithgar yn  
nawnddydd, a chyveillgar yn echwydd.
- 10 Bid dyddan ei vvyrydawl, diuiwed ei  
gampau, a'i awyr yn iachus.
- 11 Bydded nid hên ei wisg, yn lanber ei  
gylched, ac yn vodlon i'r byd à vo.
- 12 Bydded ysgawn ei wisg, ysgawn ei  
ymborth, ac ysgawn ei galon.
- 13 Bydded serchwag ei vryd, a bywiawg  
ei awen, ac yn amyl ei gyveillion.
- 14 Cadwed gyvraith ei wlad, a rheawl ei  
alwad, a gorchymynion ei Dduw.
- 15 Ac o wneuthur val hyn, bydd iachus  
ei gorf. ac esmwyth ei veddwl, a glân  
ei gydwybod.
- 16 Bydd hir ei einioes, a'i ddiwedd yn  
wynvyd, a'i Dduw yn ei garu.

Catwg Ddoeth ai Cant.

## 131. MYVYRDODAU CATWG DDOETH.

Nid oes dim heb ryw rinwedd arno,  
Nid ellir drwg heb ryw dda o hano,  
Nid rhaid i ddedwydd nac ach nac eiddo,  
Ni ellir i ddeddawl well nog y sydd  
ynddo,  
Nid iawn i undyn ond ai digono,  
Nid cyviawn bwyd ond i à lavurio,  
Nid oes doethineb ond i ai dysgo,  
Nid oes gariad ond i à garo,  
Nid oes i'r cybydd ond à gymmero,  
Nid oes ar neb wneuthur y peth nas gallo.

Nid oes o Dduw i neb ond à veddo,  
Nid iawn i undyn bob peth à vyno,  
Nid hardd ar undyn ond hyn a'i gweddo,  
Ni ddifyd gwybodaeth ar a'i ceisio,  
Ni wiw clod ond i a'i dirpero,  
Ni veth digonedd i à wnel am dano,  
Nid oes o'r ymryson well-na'i ado,  
Nid oes o gyvoeth i neb ond a'i boddlono,  
Ni chedwis Duw rag neb à vai da iddo,  
Nid tynged i neb ond à ganlyno.

Catwg Ddoeth ai Cant.

## 132. NIDIAU.

Nid penaeth ond à vo pen arno ei hun,  
Nid cadarn ond à vo drech na'i hun,  
Nid gwaithvuddyg ond à orchvygo ei hun,  
Nid gorchest ond i wr lywodraethu ei hun,  
Nid athraw y gwr na ddysgo dda iddo ei  
hun,  
Nid deallus ond à ddeallo ei hun,  
Nid adnabyddus ond à adnebydd ei hun,  
Nid gwybodus ond à vwybydd ei vai ei hun,  
Nid celvydd ond à vedro wellhau ei hun,  
Nid call ond à wêl folineb ei hun,  
Nid gwilgar ond à wilio arno ei hun,  
Nid doeth ond à ddiwygio ei hun,  
Nid glew ond à wrthladd ei hun,  
Nid cyvarwydd ond à wyr ymsyrth ei hun,  
Nid cyfrwydd onda wyr avrwydddeb ei hun,  
Nid caeth ond à ymostwng iddo ei hun,  
Nid rhydd ond na vo rywyr wrtho ei hun,  
Nid ymgais ond à ymgais ddiweiaw ei hun,  
Nid fôl ond à veddwl yn dda am dano ei  
hun,  
Nid perchenawg ond perchen arno ei hun,  
Nid gwr ond à barcho ei hun.

Catwg Ddoeth ai Cant.

## 133. CASDDYNION CATWG DDOETH.

- 1 Hen heb grevydd.
- 2 Ieuanc heb ddysg.
- 3 Gwasanaethwr heb ovn.
- 4 Gwraig heb gywilydd.
- 5 Mâb heb voes.
- 6 Merch heb syberwyd.
- 7 Hên godinebus.
- 8 Doeth heb weithredoedd da.
- 9 Tylawl balch.
- 10 Cyvoethawg gormesgar.
- 11 Esgob heb ddeall.
- 12 Brodyr heb gariad.
- 13 Trevgordd heb gyviawnder.
- 14 Plwyv heb addysg.
- 15 Goludawg heb elusen.
- 16 Athraw heb amynedd.
- 17 Bardd heb ddosbarth.
- 18 Teulu heb drevyn.
- 19 Cenedyl heb vwyboda.
- 20 Gwlad heb gyvraith.



- 21 Cyvraith heb ddeddvolder.  
 22 Cymodogaeth heb heddwch.  
 23 Plant heb uvydddawd.  
 24 Gwerin heb gariad.  
 25 Llys heb haelioni.  
 26 Gwledd heb gerddau.  
 27 Cynnadyl heb arweddu.  
 28 Ysgolaig heb awen.  
 29 Creft heb vreiniau.  
 30 Dieithyr heb roesawau.  
 31 Dinas heb bendodau.  
 32 Cyvar heb atgorau.  
 33 Gorsedd heb arverau.  
 34 Gwr heb gampau.  
 35 Ty heb olau.  
 36 Perllan heb avalau.  
 37 Gardd heb lysiau.  
 38 Cyvaill heb gynneddvau.  
 39 Call heb gymhwyllau.  
 40 Gosgordd heb dynghedau.  
 41 Araeth heb ymbwylliaidau.  
 42 Barn heb ddangosau.  
 43 Gwr heb rinweddu.  
 45 Doethineb heb huolder, yr hyn sydd  
 sydd yn debyg i gleddyv yn llaw dyn  
 clav o'r parlys.  
 46 Huolder heb ddoethineb, y sydd debyg  
 i gleddyv yn llaw dyn ynvyd.  
 Ac velly tervyna.

Catwg Ddoeth ai Cant.

134. LLYMA GYNHORION Y RHODDES CAT-  
 WG DDOETH I ARAWN VAB CYNVARCH  
 BREIN Y GOGLEDD PAN AI GOLLYNGES  
 EV O'I VEBINDAWD.

Tro y clust byddar at bob drygiaith,  
 Tro dy gevyn ar bob drygwaith.  
 Tro y llygad caud at bob anverth,  
 Tro'th olwg a'th galon at bob prydverth.  
 Tro dy law egor at bob tylodi,  
 Tro dy veddwl at bob haelioni.  
 Tro dy bwyll at gynghorau doethion,  
 Tro dy serch at bethau dwyvolion.  
 Tro'th ddyhewyd ar bob daioni,  
 Tro'th holl awen ar ymragori.  
 Tro dy ddeall i ddeall dy hunan.  
 Tro'th holl wybodau y'nglyngyd anian.  
 Tro'th holl gynneddvau ar à vo dedwydd,  
 Tro'th galonidid a'th nerthoedd oll ar  
 Dduw Ddovydd.

Catwg Ddoeth ai Cant.

135. LLYMA SYNIADAU CATWG DDOETH.

PA hynav y dyn gwaethav ei gampau,  
 Pa vwyav y gallu lleiav y bydd gwyllys,  
 Pa vwyav y brys mwyav y rhwystyr,  
 Pa vwyav y cas mwyav y cywilydd,  
 Pa uchav y dring enbytav y cwyp,  
 Pa decav y bore hacrav yr ucher,

Pa vwyav y frost mwyav y celwydd,  
 Pa decav y dŷn mwyav y pyd a'i erys,  
 Pa ddyvnav yr avon lleiav oll ei thrwst,  
 Pa isav y galon uchav y bydd i'r enaid,  
 Pa ddoethav y dyn uvyddav ei gamp,  
 Pa dylotav dwyvawl goreu vydd ei gyn-  
 neddyv,

Pa gallav y dyn anamlav ei eiriau,  
 Pa decav y chware goreu vyth ei adael,  
 Pa haelav y rhoddwr mwyav vyth ei  
 ynnill,

Pa vwyav y gwir mwyav oll y bydd ei dâl,  
 Pa iawnnav y gwaith iawnnav i gyd y dyw-  
 edd,<sup>1</sup>

Pa gyvyngav gan ddyv ehengav gan Dduw.  
 Catwg Ddoeth ai Cant.

136. CYNHORION A RODDES CATWG DDOETH  
 I ASSWR VAB CYNHAIARN.

NA vydd debyg i'r ei yn dy gyves,  
 Na vydd debyg i vwch<sup>2</sup> yn dy vuches.  
 Na vydd debyg i lyfant yn dy loches.  
 Na vydd debyg i vlaidd wrth dy gyvnes.  
 Na vydd debyg i gath yn dy anwes,  
 Na vydd debyg i hwch yn dy wales.  
 Na vydd debyg i'r mor yn dy vynwes,  
 Na vydd debyg i wraig yn dy hanes.

Catwg Ddoeth ai Cant.

137. CYNHORION EREILL A RODDES CATWG  
 DDOETH I'R UN GWR.

CYHUDDA dy hun ac nid arall,  
 Darostwng dy hun ac nid arall,  
 Addysga dy hun cyn y dysgot arall,  
 Adnebydd dy hun er adnab arall,  
 Cerydd dy hun na cherydd arall,  
 Gwna les i dy hun o gwnei les i arall,  
 O weled dy hun yn folach nog arall  
 Y dichyn itti vyned yn ddoethach nog  
 arall.

Catwg Ddoeth ai Cant.

138. CYNHORION EREILL CATWG DDOETH  
 I'R UN GWR.

NA vydd swrth na diawg segurlydd,  
 Na châr veddwi val y gwna ynvyd.  
 Na châr verched anllad eu campau,  
 'Mogel dyngu a phob cras eiriau.  
 Bydd haelionus y lle bo achos,  
 Gwna ddaioni, a gwna'n ddiaros.  
 Na wna gam, na chymmer ormod,  
 A'th gynudogion bydd mewn cymmod.  
 Cais vyth ymgynnal yn ddiwégi,  
 Yn mhob trova tra vych ynddi.  
 Ymro i Dduw yn y cwbyl o'th vuchedd,  
 A meddwl ba vodd y daw'n y diwedd.

Catwg Ddoeth ai cant.

<sup>1</sup> Diwedd.

<sup>2</sup> Vuwch. I. M.

139. LLYMA Y GORDDAU A DDANGOSES  
CATWG DDOETH I DALIESIN PEN BEIRDD,  
YN YMOLLWNG AG EV.

TAWEDIGRWYDD yw mam pob callineb,  
Amynedd yw mam pob doethineb.  
Pwyll yw mam pob gwybodau,  
Trevyn yw mam pob darbodau.  
Angen yw mam pob celvyddydd,  
Rhinwedd yw mam pob dedwyddydd.  
Ymgais yw mam pob rhagoriaeth,  
Awen yw mam pob cerddoriaeth.  
Ystyr yw mam pob deallau,  
Anystyr yw mam pob gwallau.  
Arver yw mam pob meistrolaeth,  
Cadernyd yw mam pob buddugoliaeth.  
Cydwybod yw mam pob deddvoldeb,  
Cariad yw mam pob dwyvoldeb.  
Catwg Ddoeth ai Cant.

140. EREILL I'R UN GWR, SEF Y CAMPAU  
A VYDDANT AR WR.

- 1 Bod yn ddoeth yn ei ddadyl.
  - 2 Bod yn oen yn ei ystavell.
  - 3 Bod yn lew yn nhrin a brwydyr.
  - 4 Bod yn baen ar yr hœol.
  - 5 Bod yn vardd ar ei leithig.
  - 6 Bod yn athraw yn ei deulu.
  - 7 Bod yn gynghor yn ei genedyl.
  - 8 Bod yn ddyddiwr yn ei gwmwd.
  - 9 Bod yn veudwy yn ei lan.
  - 10 Bod yn ddeddvwyr yn ei wlad.
  - 11 Bod yn gydwybodawl yn ei weithred.
  - 12 Bod yn ddedwydd yn ei vywyd.
  - 13 Bod yn ddiwyd yn ei dyddyn.
  - 14 Bod yn gyviawn yn a wnelo.
  - 15 Bod a wnelo wrth vodd Duw.
- Catwg Ddoeth ai Cant.

141. NERTHODD CATWG DDOETH.

NERTH dysg ei ymgais,  
Nerth athraw ei ddosparth,  
Nerth doeth ei bwyll,  
Nerth call ei ystyriaeth,  
Nerth celvydd ei wybodau,  
Nerth glew ei galonddid,  
Nerth gwestwr ei syberwyd,  
Nerth alldud ei heddlonder,  
Nerth bardd ei awen,  
Nerth teuluawg ei ddiwydrwydd,  
Nerth cyviawn ei gydwybod,  
Nerth dedwydd ei amynedd,  
Nerth dwyvawl ei Dduw.  
Catwg Ddoeth ai cant.

142. ANSODDAU CATWG DDOETH.

Ni ludd cyviawnder tangnev,  
Ni ludd cerydd serch,  
Ni ludd barn cariad,  
Ni ludd cariad pwyll,

Ni ludd glewder drugaredd,  
Ni ludd dwyvoldeb lawenydd.  
Catwg Ddoeth ai Cant.

143. NIDIAU.

NID nerth ond rhyddydd,  
Nid rhydd ond cariad,  
Nid cariad ond dewis,  
Nid dewis ond deall,  
Nid deall ond gallu,  
Nid gallu ond gwybod,  
Nid gwybod ond gwirionedd,  
Nid gwirionedd ond cadernyd.  
Nid cadernyd ond anghyvnewidiawl,  
Nid anghyvnewidiawl ond Duw.  
Catwg Ddoeth ai Cant.

144. MODD ARALL AR YR UN.

NID nerth ond rhyddydd,  
Nid rhyddydd ond cariad,  
Nid cariad ond dewis,  
Nid dewis ond gallu,  
Nid gallu ond gwybod,  
Nid gwybod ond deall,  
Nid deall ond ystyr,  
Nid ystyr ond canvod,  
Nid canvod ond gwirionedd,  
Nid gwirionedd ond cadernyd,  
Nid cadernyd ond anghyvnewidiawl,  
Nid anghyvnewidiawl ond Duw,  
Nid Duw ond nerth, &c., &c.<sup>1</sup>  
Catwg Ddoeth ai Cant.

145. NIDIAU EREILL.

NID bôd ond byw,  
Nid byw ond cartrev,  
Nid cartrev ond teulu,  
Nid teulu ond ymgynnal,  
Nid ymgynnal ond meddiant,  
Nid meddiant ond eiddo,  
Nid eiddo ond eiddo Duw,  
Nid eiddo Duw a water,  
Nid eiddo Duw ond er ai govyn,  
Nid ai govyn ond angen,  
Nid angen ond anian,  
Nid anian ond daioni,  
Nid daioni ond bodd Duw,  
Nid bodd Duw ond cyviawn,  
Nid cyviawn ond cariad.  
Catwg Ddoeth ai Cant.

146. EREILL.

NID gwlad heb genedyl,  
Nid gwlad heb gyvraith,  
Nid gwlad heb vraint,  
Nid gwlad heb ammaeth,  
Nid gwlad heb f'd,  
Nid gwlad heb gelvyddyddau,  
Nid gwlad heb ddoethion,

<sup>1</sup>Ut supra.

Nid gwlad heb athrawon,  
 Nid gwlad heb nawdd,  
 Nid gwlad heb greydd,  
 Nid gwlad heb ddwyvoldeb,  
 Nid gwlad heb Dduw yn ben.

Catwg Ddoeth ai Cant.

## 147. EREILL.

Nid cadernyd ond cyvraith,  
 Nid cyvraith ond cynghor,  
 Nid cynghor ond doethion,  
 Nid doethion ond addysg,  
 Nid addysg ond deallau,  
 Nid deall ond à vo iawn,  
 Nid iawn ond cariad,  
 Nid cariad ond nas gellir ei orvod.

Catwg Ddoeth ai Cant.

## 148. EREILL.

Nid byw heb veddiant,  
 Nid meddiant heb wlad,  
 Nid gwlad heb gartrev,  
 Nid cartrev heb deulu,  
 Nid teulu heb wraig,  
 Nid gwraig heb blant.  
 Nid plant heb uvydddau,  
 Nid uvydddau heb addysg,  
 Nid addysg heb athraw,  
 Nid athraw ond tad,  
 Nid tad ond dedwydd,  
 Nid dedwydd ond doeth,  
 Nid doeth ond cyviawn,  
 Nid cyviawn ond cariad,  
 Nid cariad ond Duw.

Catwg Ddoeth ai Cant.

## 149. EREILL.

Nid bonedd ond gwybodaeth,  
 Nid golud ond gwybodaeth,  
 Nid doethineb ond gwybodaeth,  
 Nid urddas ond gwybodaeth,  
 Nid anrhydedd ond gwybodaeth,  
 Nid nerth ond gwybodaeth,  
 Nid câr ond gwybodaeth,  
 Nid cyraill ond gwybodaeth,  
 Nid harddwch ond gwybodaeth,  
 Nid clôd ond gwybodaeth,  
 Nid meddiant ond gwybodaeth,  
 Nid deall ond gwybodaeth,  
 Nid rhwydd ond gwybodaeth,  
 Nid braint ond gwybodaeth,  
 Nid addwyn ond gwybodaeth,  
 Nid deddvawl ond gwybodaeth,  
 Nid cyviawn ond gwybodaeth,  
 Nid dedwydd ond gwybodaeth,  
 Nid cadarn ond gwybodaeth,  
 Nid daioni ond gwybodaeth,  
 Nid gorvod ond gwybodaeth,

Catwg Ddoeth ai Cant.

## 150. NIDIAU BRODYRDE.

Nid gwlad ond gwerin,  
 Nid gwerin ond brodyrde,  
 Nid cadarn ond brodyrde,  
 Nid amug ond brodyrde,  
 Nid edmug ond brodyrde,  
 Nid cystlwn ond brodyrde,  
 Nid cyvawd ond brodyrde,  
 Nid cynnadyll ond brodyrde,  
 Nid corawd ond brodyrde,  
 Nid cynnal ond brodyrde,  
 Nid cyvraid ond brodyrde,  
 Nid cysswyn ond brodyrde,  
 Nid cyttrev ond brodyrde,  
 Nid cyssulw ond brodyrde,  
 Nid cywaith ond brodyrde,  
 Nid cywaeth ond brodyrde,  
 Nid cyttrym ond brodyrde,  
 Nid cymyn ond brodyrde,  
 Nid cymhwyl ond brodyrde,  
 Nid cychwedyl ond brodyrde,  
 Nid cydnerth ond brodyrde,  
 Nid cyvnerth ond brodyrde,  
 Nid cyvar ond brodyrde,  
 Nid cydvod ond brodyrde,  
 Nid cydwedd ond brodyrde,  
 Nid cyvun ond brodyrde,  
 Nid cymmraint ond brodyrde,  
 Nid cymmrawd ond brodyrde,  
 Nid cov ond brodyrde,  
 Nid cyvannedd ond brodyrde,  
 Nid cymmyred ond brodyrde,  
 Nid cymhrain ond brodyrde,  
 Nid cyvurdd ond brodyrde,  
 Nid cyvoeth ond brodyrde,  
 Nid cymmod ond brodyrde,  
 Nid cymmedyr ond brodyrde,  
 Nid cymhorth ond brodyrde,  
 Nid cywir ond brodyrde,  
 Nid cysgordd ond brodyrde,  
 Nid cyvraith ond brodyrde,  
 Nid cenedyl ond brodyrde,  
 Nid Cymry ond brodyrde,

Catwg Ddoeth ai Cant.

## 151. NIDIAU EREILL.

Nid hawdd dangaws annoeth,  
 Nid hawdd dysgu anwar,  
 Nid hawdd deddvoli anwir,  
 Nid hawdd cadarnau gormes,  
 Nid hawdd ysgog serch,  
 Nid hawdd gorvod ar athrylith,  
 Nid hawdd gwrthladd angen,  
 Nid hawdd newid nawtur,  
 Nid hawdd symud awen,  
 Nid hawdd dilëaw cariad,  
 Nid hawdd cymmod à châs,  
 Nid hawdd gochel drygioni,  
 Nid hawdd drwg o ddaioni,

Nid hawdd gwarthruddiau cyviawn,  
 Nid hawdd hudaw call,  
 Nid hawdd llygru cywir,  
 Nid hawdd digiau dedwydd,  
 Nid hawdd rhadloni lliidiog,  
 Nid hawdd gyru pwyll ar ddiriaid,  
 Nid hawdd ovni glew,  
 Nid hawdd hyder ar llwvyr,  
 Nid hawdd darbwyll anwybodus,  
 Nid hawdd deall dichell,  
 Nid hawdd addwynâu balch,  
 Nid hawdd cau yn erbyn à wŷr pawb,  
 Nid hawdd ynnill gelyn,  
 Nid hawdd ammeu gwirionedd,  
 Nid hawdd rhadloni ceuvigen,  
 Nid hawdd taw ar gydwybod,  
 Nid hawdd gorthaw ar y gwir,  
 Nid hawdd digaloni dwyvawl,  
 Nid hawdd gwarau anynad,  
 Nid hawdd llygru dedwydd,  
 Nid hawdd gyru à vnyer ar ddoeth,  
 Nid hawdd ond ymvoddau ar ddaioni,  
 Nid hawdd ond uvyddau i Dduw,  
 Nid hawdd twyllaw Duw.

Catwg Ddoeth ai Cant.

152. ARALL UNRHYW.

Nid hawdd gwybod y cyvan,  
 Nid hawdd ammeu gwirionedd,  
 Nid hawdd cadarnau celwydd,  
 Nid hawdd difrwythaw cyviawnder,  
 Nid hawdd gweled y pell,  
 Nid hawdd canvod à vydd,  
 Nid hawdd casau pechawd cynnwynawl,  
 Nid hawdd boddloni pawb,  
 Nid hawdd galw doe yn ôl,  
 Nid hawdd cydymddwyn à gormes,  
 Nid hawdd attal amser,  
 Nid hawdd diwreiddiau serch,  
 Nid hawdd dilêaw cariad,  
 Nid hawdd ysgog fyddlondeb,  
 Nid hawdd llygru cywirdeb,  
 Nid hawdd rhadloni trachwant,  
 Nid hawdd gostegu cenvigen,  
 Nid hawdd gyru pwyll ar valch,  
 Nid hawdd darbwyll annoeth,  
 Nid hawdd darwedd anwybodus,  
 Nid hawdd deall dichell,  
 Nid hawdd ovni glew,  
 Nid hawdd annog llwvyr,  
 Nid hawdd dyspwyllaw anwar,  
 Nid hawdd gwerinaw diriaid,  
 Nid hawdd dygnu dedwydd,  
 Nid hawdd arail annysg,  
 Nid hawdd dangaws anneallus,  
 Nid hawdd gorvod ar ddoeth,  
 Nid hawdd dattawd athrylith.  
 Nid hawdd newid nawtur,  
 Nid hawdd gwrthladd angen,

Nid hawdd symud awen,  
 Nid hawdd cymmod à châs,  
 Nid hawdd cywilyddiau deddvawl,  
 Nid hawdd gwad ar à wŷr pawb,  
 Nid hawdd cau yn erbyn cydwybod,  
 Nid hawdd gwarthruddiau daioni,  
 Nid hawdd digaloni dwyvawl,  
 Nid hawdd ond gwneuthur daioni,  
 Nid hawdd ond boddiaw Duw,  
 Nid hawdd dianc o ddrwg,  
 Nid hawdd twyllaw Duw.

Catwg Ddoeth ai Cant.

153. EREILL.

Nid anvodd ond prid,  
 Nid prid ond prid o anvodd,  
 Nid prid o anvodd ond ediveirwch,  
 Nid edivar awr angau ond anvoddiaw  
 Duw.

Catwg Ddoeth ai Cant.

154. EREILL.

Nid gwladwr heb urddas,  
 Nid urddas heb vonedd,  
 Nid bonedd heb ddysg,  
 Nid dysg heb voes,  
 Nid moes heb syberwyd,  
 Nid syberwyd heb ddeddvoldeb,  
 Nid deddvoldeb heb gyfiawnder,  
 Nid cyviawnder heb uvyddâd,  
 Nid uvyddawd heb ddwyvoldeb,  
 Nid dwyvoldeb heb gariad,  
 Nid cariad ond Duw.

Catwg Ddoeth ai Cant.

155. EREILL.

Nid divyr ond cyweithas,  
 Nid cyweithas ond syber,  
 Nid syber ond trwsiadus,  
 Nid trwsiadus ond gweddusder,  
 Nid gweddusder ond uvydddawd,  
 Nid uvydddawd ond anmalchineb,  
 Nid anmalchineb ond cariad.  
 Nid cariad ond à vo gas gantho boen i un  
 byw a bod.

Catwg Ddoeth ai Cant.

156. EREILL.

Nid gwybod heb weled,  
 Nid gweled heb awen,  
 Nid awen heb ei harver,  
 Nid arver heb serch,  
 Nid serch ond o bwyll,  
 Nid pwyll ond ystyriaeth,  
 Nid ystyriaeth ond ar ddaioni,  
 Nid dim<sup>1</sup> ond o Dduw, am hyny  
 Nid gwybod ond o Dduw,  
 Nid awen ond o Dduw,  
 Nid pwyll ond o Dduw,

<sup>1</sup>Nid ond o Dduw. LL

Nid daioni ond o Dduw,  
Nid dim ond y sydd o Dduw.  
Catwg Ddoeth ai Cant.

## 157. EREILL.

Nid call ond à wrendy gynghor,  
Nid pwyll ond à wyr gynghor,  
Nid doeth ond à gais gynghor,  
Nid deall ond à ystyr gynghor,  
Nid hawdd dodi cynghor,  
Nid cwbyl nemawr o gynghor,  
Nid amyl y gwedd un cynghor,  
Nid trahäus ond ni pheirch gynghor.  
Catwg Ddoeth ai Cant.

## 158. EREILL.

Nid bód ond Duw,  
Nid byw ond Duw,  
Nid da ond Duw,  
Nid doeth ond Duw,  
Nid gwybod ond Duw,  
Nid gallu ond Duw,  
Nid cariad ond Duw,  
Nid cyviawn ond Duw,  
Nid hollwybedydd ond Duw,  
Nid cadarn ond Duw,  
Nid diddarvod ond Duw,  
Nid barn ond barn Duw,  
Nid arglwydd ond Duw,  
Nid tragwydd ond Duw,  
Nid anveidrawl ond Duw,  
Nid hollawl ond Duw,  
Nid digon ond Duw,  
Nid dim ond Duw.  
Catwg Ddoeth ai Cant.

## 159. EREILL.

Nid nerth ond Duw,  
Nid bywyd ond Duw,  
Nid cyvnerth ond Duw,  
Nid cynneiliawdyr ond Duw,  
Nid cywyl ond Duw,  
Nid câr ond Duw,  
Nid cyvaill ond Duw,  
Nid ceidwad ond Duw,  
Nid agos ond Duw,  
Nid yn mhob man ond Duw,  
Nid à wŷr y cyvan ond Duw,  
Nid à varn yn gyviawn ond Duw,  
Nid à wna à vyno ond Duw,  
Nid cael ond cael Duw,  
Nid gobaith ond yn Duw,  
Nid gwared ond Duw,  
Nid dim ond yn Duw.  
Catwg Ddoeth ai Cant.

## 160. EREILL.

Nid hawdd symud awen,

Nid hawdd newid nawtur,  
Nid hawdd gorvod ar athrylith,  
Nid hawdd dihenu anian,  
Nid hawdd gorthaw ar gydwybod,  
Nid hawdd ammeu y gwir,  
Nid hawdd cynnal celwydd,  
Nid hawdd ovni glew,  
Nid hawdd annog llwyr,  
Nid hawdd darbyll anwybodus,  
Nid hawdd gwrthladd à wŷr pawb,  
Nid hawdd rhadloni cenvigen,  
Nid hawdd gyru pwyll ar ddiriaid,  
Nid hawdd llygru dedwydd,  
Nid hawdd dirywo rhyw,  
Nid hawdd divenwi serch,  
Nid hawdd gwrthol ar gariad,  
Nid hawdd lluddio cyviawnder,  
Nid hawdd trechu ar gelvyddyd,  
Nid hawdd difawd gwybodau,  
Nid hawdd galw y drwg yn ôl,  
Nid hawdd attal daioni,  
Nid hawdd rhadverth o drachwant,  
Nid hawdd trymysg ar gall,  
Nid hawdd dangos balch,  
Nid hawdd cywilyddio deddwawl,  
Nid hawdd mevlw dwyrawl,  
Nid hawdd à vnyer i ddoeth,  
Nid hawdd dyspwyll ar annoeth,  
Nid hawdd celwyddu synwyrâu,  
Nid hawdd cuddiaw rhag amser,  
Nid hawdd dianc rhag awr ddiwedd,  
Nid hawdd gwâd ar bechodau,  
Nid hawdd gochel barn,  
Nid hawdd twyllaw Duw,  
Catwg Ddoeth ai Cant.

## 161. EREILL.

Nid glew ond à orvydd arno ei hunan,  
Nid cadarn ond à vo drech no ei hunan,  
Nid gwybedydd ond à edwyn ei hunan,  
Nid llyw and à lywio ei hunan,  
Nid gwliedydd ond à wilio arno ei hunan,  
Ni ochel ond à ochelo ei hunan,  
Ni orvydd ond à orfo arno ei hunan,  
Ni ymgeidw ond à ymgeidw rhag ei hunan,  
Nid deallus ond à ddeallo ei hunan,  
Nid doeth ond à wyl folineb ei hunan,  
Nid call ond à ystyr ei hunan,  
Nid athraw ni addysg ei hunan,  
Nid câr ond à vo gâr iddei hunan,  
Nid gelyn neb ond ei hunan,  
Nid gwall ond à ato iddei hunan,  
Nid gwybod ond cydwybod dyn ei hunan,  
Nid trevyn ond à drevno arno ei hunan,  
Nid iawn ond à iawnäo arno ei hunan,  
Nid dim o vlaen Duw ond à vo dyn ei hunan.  
Catwg Ddoeth ai cant.

## 162. EREILL

NID iawn ond cyviawn,  
 Nid da ond cyviawn,  
 Nid hardd ond cyviawn,  
 Nid cadarn ond cyviawn,  
 Nid paräus ond cyviawn,  
 Nid cywir ond cyviawn,  
 Nid llwydd ond cyviawn,  
 Nid braint ond cyviawn,  
 Nid rhydd ond cyviawn,  
 Nid hawl ond cyviawn,  
 Nid deddyv ond cyviawn,  
 Nid diddarvod ond cyviawn,  
 Nid digon ond cyviawn,  
 Nid pen ar bob peth ond cyviawn,  
 Nid cyviawn ond Duw.  
 Catwg Ddoeth ai cant.

## 163. EREILL.

NID goludawg ond ä ddonio Duw,  
 Nid diogel ond ä nawdd Duw.  
 Nid tlawd ond ä vo gäs gan Dduw,  
 Nid dawn ond rhadverthwch Duw,  
 Nid doeth ond o addysg Duw,  
 Nid dedwydd ond ä vo tros Dduw,  
 Nid ynnill ond bodd Duw,  
 Nid digon ond Duw.  
 Catwg Ddoeth ai cant.

## 164. LLWYRAU.

LLWYRAV gallu gallu Duw,  
 Llwyrav gwybod gwybod Duw,  
 Llwyrav gwyllys gwyllys Duw,  
 Llwyrav nawdd nawdd Duw,  
 Llwyrav cariad cariad Duw,  
 Llwyrav gwaith gwaith Duw,  
 Llwyrav dig dig Duw,  
 Llwyrav dyrnawd dyrnawd Duw,  
 Llwyrav barn barn Duw,  
 Llwyrav dial dial Duw,  
 Llwyrav gobrwy gobrwy Duw.  
 Catwg Ddoeth ai Cant.

## 165. TRECHAU.

TRECH gwir no chadarn,  
 Trech ammod no clyvraith,  
 Trech ä gais nog ä geidw,  
 Trech ä gâr nog ä gäs,  
 Trech traha no thrais,  
 Trech anian nog addysg,  
 Trech awen nog athraw,  
 Trech athrylith no phwyll,  
 Trech pwyll no chäd,  
 Trech arglwydd gwan no gwäs cadarn,  
 Trech gwlad nog arglwydd,  
 Trech serch no chawr,  
 Trech ymgais nog ymddiried,  
 Trech tynged nog arfaeth,

Trech Duw no drwg obaith.  
 Catwg Ddoeth ai Cant.

## 166. TRECHAU EREILL.

TRECH clöd no chynneddyv,  
 Trech pwyll no dichell,  
 Trech awen nog ystyr,  
 Trech nawtur no dysg,  
 Trech dygwydd no deall,  
 Trech arver nog arfaeth,  
 Trech diwydrwydd no golud,  
 Trech celvyddydd no llu brenin,  
 Trech glew no gwlad,  
 Trech pwyll no glew,  
 Trech serch no chawr,  
 Trech llavur no direidi,  
 Trech rhaid no dewis,  
 Trech ymgais no chywoeth,  
 Trech bryd no nerth,  
 Trech gwir no chadarn,  
 Trech cyviawnder no thrais,  
 Trech Duw no dim.  
 Catwg Ddoeth ai Cant.

## 167. SYNIADAU.

ADVD ä ddod addysg,  
 Addysg ä ddod wybodaeth,  
 Gwybodaeth ä ddod ddoethineb,  
 Doethineb ä ddod varn,  
 Barn ä ddod gydwybod,  
 Cydwybod ä ddod ddaioni,  
 Daioni ä ddod ddwyvoldeb,  
 Dwyvoldeb ä ddod vywyd tragwydd.  
 Catwg Ddoeth ai Cant.

## 168. DEUPARTHAU.

DEUPARTH gwaith ei ddechreu,  
 Deuparth taith ymbarotöi,  
 Deuparth fordd ei gwybod,  
 Deuparth gorchest ymgais,  
 Deuparth llwyddiant diwydrwydd,  
 Deuparth dwyvoldeb dedwyddydd,  
 Deuparth dedwyddydd uvydddawd,  
 Deuparth trev cu harverau,  
 Deuparth clöd myned yn mhell,  
 Deuparth awen moliant,  
 Deuparth parch arver,  
 Deuparth pryd ymdrwsiaw,  
 Deuparth bonedd dysg,  
 Deuparth dysg hyder,  
 Deuparth dawn cwyllys,  
 Deuparth rhodd syberwyd,  
 Deuparth cêrdd datgan,  
 Deuparth anrhydedd moes,  
 Deuparth celvyddydd ei rhin,  
 Deuparth athrylith arver,  
 Deuparth daioni cariad,  
 Deuparth fydd yn nghalon,  
 Catwg Ddoeth ai Cant.

## 169. YMHOBAU CATWG DDOETH.

Ymhob daioni y mae ai gobrwy,  
 Ymhob drwg y mae ai cysb,  
 Ymhob dig y mae pechawd,  
 Ymhob nwyv y mae trythyllwg,  
 Ymhob dyn y mae awen,  
 Ymhob awen y mae rhagor,  
 Ymhob cās y mae gelyniaeth,  
 Ymhob gormodd y mae traha,  
 Ymhob avraid y mae direidi,  
 Ymhob trachwant y mae lledrad,  
 Ymhob coel y mae celwydd,  
 Ymhob gwybod y mae gwir,  
 Ymhob cyfredin y mae iawn,  
 Ymhob cēl y mae cywilydd,  
 Ymhob taw y mae doethineb,  
 Ymhob dewis y mae cyvyngder,  
 Ymhob cyvyngder y mae addysg,  
 Ymhob creft y mae celvyddyd,  
 Ymhob celvyddyd y mae rhin,  
 Ymhob clwyv y mae pyd,  
 Ymhob rhyvel y mae goval,  
 Ymhob pechod y mae foledd,  
 Ymhob twyll y mae cynllwyn,  
 Ymhob llid y mae murn,  
 Ymhob cudd y mae twyll,  
 Ymhob traha y mae pechawd,  
 Ymhob gwlad y megir glew,  
 Ymhob madden y mae cariad,  
 Ymhob cariad y mae Duw.

Catwg Ddoeth ai Cant.

## 170. EREILL UNRHYW.

YMHOB dyn y mae enaid,  
 Ymhob enaid y mae deall,  
 Ymhob deall y mae meddwl,  
 Ymhob meddwl y mae rhyw ddrwg neu  
 dda,  
 Ymhob gorchest y mae ymgais,  
 Ymhob ymgais y mae diwydrwydd,  
 Ymhob diwydrwydd y mae ennill,  
 Ymhob ennill y mae anrhydedd,  
 Ymhob anrhydedd y mae urddas,  
 Ymhob urddas y mae braint,  
 Ymhob braint y mae dyledswydd,  
 Ymhob dyledswydd y mae gwared,  
 Ymhob gwared y mae daioni,  
 Ymhob daioni y mae cariad,  
 Ymhob cariad y mae Duw.

Catwg Ddoeth ai Cant.

## 171. GOREUAU.

GOREU o'r galluan synwrau,  
 Goreu o'r synwrau deall,  
 Goreu o'r deall pwyll,  
 Goreu o'r pwyll dewis,  
 Goreu o'r dewis cyvoeth,  
 Goreu o'r cyvoeth doethineb,  
 Goreu o'r doethineb daioni,

Goreu daioni cariad,  
 Goreu cariad tangnev,  
 Goreu tangnev tangnev Duw.

Catwg Ddoeth ai Cant.

## 172. NAMYNAU.

NAMYN Duw nid oes à wŷr,  
 Namyn Duw nid oes gallu,  
 Namyn Duw nid oes cyviawn,  
 Namyn Duw nid oes gariad,  
 Namyn Duw nid oes gadarn,  
 Namyn Duw nid oes myn,  
 Namyn Duw nid oes gwyllys,  
 Namyn Duw nid oes handid,  
 Namyn Duw nid oes ymmod,  
 Namyn Duw nid oes nawdd,  
 Namyn Duw nid oes gobaith,  
 Namyn Duw nid oes ymddiried,  
 Namyn Duw nid oes gyvnerth,  
 Namyn Duw nid oes wared,  
 Namyn Duw nid oes bywyd,  
 Namyn Duw nid oes dim.

Catwg Ddoeth ai Cant.

## 173. TRIODD CATWG DDOETH.

- 1 TRI dyn anhawdd eu credu, rhodiadur o bell, darllenwr llyvyr anghyviaith, ac à vo hŷn no'i gymodogion.
- 2 Tri ovn á gadarnâa galon dyn, ovni gwedyd y cywan á glywo gan arall, ovni trallwyddiant, ac ovni digiaw Duw.
- 3 Tri ovn á wanâa galon dyn, ovni dywedyd <sup>1</sup> y gwir, ovni tylodi advdyg, ac ovni diawl.
- 4 Tripheth á gaif dedwydd, cariad perfaith, bywyd heddychlawn, a llawenydd nevawl.
- 5 Tair breniniaeth dedwydd, gair da y byd, cydwybod lawen, a gobaith cadarn am y byd à ddaw.
- 6 Tripheth á gaif y drwg annedwydd, tlodi, gair drwg, a phoen cydwybod.
- 7 Tripheth á gaif y gwallus, cywilydd, colled, a gwatwar.
- 8 Tripheth á gaif y divalch, amllder, llawenydd, a chariad ei gymodogion.
- 9 Tripheth á gair o godi yn fore, iechyd, cyvoeth, a santeiddrwydd.
- 10 Tripheth á gaif y cysgadur, cywilydd, aviechyd, ac advdyd.
- 11 Tripheth á gaif y cywir, dawn, parch, a fyniant.
- 12 Tripheth à gaif anghywir, byd drwg, gair drwg, a diwedd drwg.

<sup>1</sup> Gwedyd.

- 13 Tripheth á gaif dyoddevus, cariad, heddwach, a'i wynvyd ar bob gwrthwynebiad.
- 14 Tripheth á gaif cynhenus, cynhen, cywilydd, ac amharch.
- 15 Tripheth á gaif trugarawg, dawn, cariad, a thrugaredd Duw.
- 16 Tripheth á gair o hir ddilyn drwg, newyn, carchar, ac ufern.
- 17 Tripheth á gaif dwyvawl, digonedd bydawl, heddwach cydwybodawl, a llawenydd newawl.
- 18 Tripheth á ddylid eu hystyr gan bob dyn, o ba le y daeth, yn mha le y mae, ac i ba le ydd á.
- 19 Tri chydymaith y diawl, balchedd, cenvigen, a thrais.
- 20 Tri anghyartall byd, berthedd, cariad, ac angen.
- 21 Tri glŵth byd, mor, arglwydd, a dinas.
- 22 Tri dyn á ddygant eu dadleuon i ben yn hawdd, hael, doeth, a chyvoethawg.
- 23 Tri ardymyr einioes dŷn, gobaith, cariad, a llawenydd.
- 24 Tri magwriaeth traha, rhyvyg, cyvoeth, a rhysiant.
- 25 Tri buddugoliaeth doeth, urddas, gredv, a chanmawl.<sup>1</sup>
- 26 Tripheth over iawn, hustyng á byddar, hiraethu am varw, a chynghori gwraig yn erbyn ei gwyllys.
- 27 Tripheth ni wél dyn hanner ei ddigon o honynt, einioes, iechyd, a chyvoeth.
- 28 Tri rhyw o dda y sydd ac nis byddir gwell erddynt, à gafer o anudon, à gafer o ddadlau anghywir ac yn erbyn cywir, ac à gafer am drev-tadaeth oni phrynir tir o honynt neu gost máb mewn ysgol.
- 29 Tripheth á yspeiliant lle delont, dwr, tan, a mellidith Duw.
- 30 Tri chas á drig vyth, rhwng priawd a'i lysblant, rhwng cwn a moch, a rhwng Cymry a Saeson.
- 31 Tripheth rhaid aros yn hir cyn a'u cefir, cywirdeb o drachwant, doethineb o valchder, a chyvoeth o ddiogi.
- 32 Tri sail doethineb, synwyr i ddysgu, côv i gadw, a chymbendawd i adrawdd.
- 33 Tair gormes doeth, gwraig, diawd, a dryganian.
- 34 Tair bôst fôl, bostiaw maswedd, bostiaw cyvoeth, a bostiaw bonedd.
- 35 Tri chwerthin fôl, am ben y da, am ben y drwg, ac am ben nas gwyr beth.
- 36 Tripheth nid call iawn ei gwneuthur, canu cloch i vyddar, pisaw yn erbyn y gwynt, ac addysgu hennydd.<sup>1</sup>
- 37 Tripheth á gaif pob diymgais a'i ddyled, tlodi, amharch, a chydwybod vlin.
- 38 Tripheth à gaif gwr o dlodi, iechyd, addysg, a nawdd Duw.
- 39 Tripheth a ynnill gwr o ynnill cyvoeth, cás rhyngtho a dŷn, cás rhyngtho a'i hun, a chás rhyngtho a Duw.
- 40 Tri dyn y sydd, dyn i ddyn, dyn i Dduw, a dyn i ddiawl: dyn i ddyn a wna dda dros dda a drwg dros ddrwg, dyn i Dduw a wna dda dros drwg, dyn i ddiawl a wna ddrwg dros dda.
- 41 Tri cholled y corf a bair ynnill i'r enaid, colli câr, colli iechyd, a cholli cyvoeth.
- 42 Tri rhyw gelwydd y sydd: celwydd ar air, à bair i arall wedyd na vo gwir; celwydd ar weithred, à bair i arall weithredu yn erbyn y gwir; a chelwydd arddangos, neu o ymddwyn, à bair i arall veddwl a chredu y peth na vo gwir.
- 43 Tri dyn melltigidig y sydd, à dor orchymyn Duw yn ddieltivar: ni wypo ddim o dda ac ni chais ei ddysgu, ac à wypo lawer ac nas dangoso i neb arall.
- 44 Tripheth nis gellir bod hebddynt, tudded, trwydded, a gwasgawd.
- 45 Tripheth gwell no chyvoeth, iechyd, rhyddydd, a synwyr.
- 46 Tripheth à ddylai gristion eu gwneuthur, ovni Duw yn vwy no dim, gwasanaethu Duw o vlaen neb arall, a charu Duw uwchlaw pob dim.
- 47 Tripheth angenrheidiawl i bechadur eu gwneuthur, cydnabod ei bechodau, ymgais à daioni, ac ymochel ag ai denai at ddrwg.
- 48 Tri gelyn enaid crision, y byd, y enawd, a'r cythraul.
- 49 Tri meddyg enaid, ympryd, gweddi, a chardawd.
- 50 Tripheth nis gellir ddim o dda hebddynt, gwir, heddwach, ac haelioni.
- 51 Tri ychydig à bair colli lawer, ychydig o anwydau drwg, ychydig o wall, ac ychydig o anghyviawnder.

<sup>1</sup>Urddas, goddev, a chanmawl. Ll. ar.<sup>1</sup>A throi meddwl hennydd. Ll. ar.



- 52 Tri chynghor Lasar, câr dy Dduw, canys eve a'th wnaeth; gobeithia yn Nuw, canys eve a'th gynnal; ac ovna Dduw, canys eve a'th varn.
- 53 Tripheth serchawg eu gweled, diriaid yn myned yn ddedwydd, cybydd yn myned yn hael, a phechadur yn myned yn santaidd.
- 54 Tripheth a ddyly gristion eu coviaw yn wastad rhag pechu yn varwawl, gorchymynion Duw, llawenydd nev, a phoenau ufern.
- 55 Tripheth sy'n arwyddocau vod dŷn yn gadwedig, casau pob drwg, caru pob daionus, ac ymgais â Duw ar weddiâu.
- 56 Tripheth y sydd ar Dduw yn arbenigion, bod yn hollalluawg, yn ollgyvoethawg, ac yn olldrugarawg.
57. Tripheth â ynuill gariad Duw, fydd lân, gobaith cryv, a chariad diysgawg.
58. Tripheth a gymhellant i weddio ar Dduw, hir glevyd, hir advyd, a hir dristyd.
- 59 Tripheth sydd yn gwaethygu y byd, seguryd, balchder, ac avraid.
60. Tripheth y sy'n trallodi y byd, cenvigen, llid, a thrachwant.
- 61 Tripheth y sydd ac nid dim hebddynt, nerth Duw hollalluawg, cariad Duw holldrugarawg, a doethineb Duw hollwybodawl.
- 62 Tripheth â ddysg dyn o vod yn segur, meddwl drwg, dywedyd yn ddrwg, a gwneuthur drwg.
- 63 Tripheth anhawdd i wir gristion eu gwneuthur, caru drwg, balchiaw yn ei ddâ, ac esgeulusaw ei ddyled i Dduw a dŷn.
- 64 Tripheth â ganlyn seguryd, campau drwg, gair drwg, a diwedd drwg.
- 65 Tripheth daionus i ddŷn, meddwl yn dda, gwedyd yn dda, a gwneuthur yn dda.
- 66 Tripheth ni all dŷn eu cuddiaw, cariad mawr, câs mawr, a chyvoeth mawr.<sup>1</sup>
- 67 Tripheth â arwain ddyn i dlodi, chwareuon, glythineb, a phuteindra.
- 68 Tripheth â gaif dŷn wrth ymgyvreithiaw, cost, goval, a thraferth.
- 69 Tripheth anhawdd i ddŷn eu gwneuthur yn gwbyl, adnabod ei hun, gorchvgygu ei chwant, a chadw ei rin.
- 70 Tripheth cyntav â dwyllant ddyn, geiriau tég, chwant ynnill, ac anwybodaeth.
- 71 Tripheth gwerthfawrocav i ddŷn, iechyd, rhyddyd, a rhinwedd.<sup>1</sup>
- 72 Tripheth ardderchawg ymhlith pethau bydawl, casâu folineb, caru rhinwedd, ac ymgais am ddysg yn wastad.
- 73 Tripheth sydd raid i gristion ryvela yn eu herbyn, y byd, y cnawd, a'r cythraul.
- 74 Tripheth sy raid wrthynt i wneuthur pob gwaith, gwybodaeth y modd ai gwnair, gallu iddei wneuthur, ac ewyllys iddei ddwyn i ben.
- 75 Tripheth â geidw gwr mewn iechyd, ymborth mesurawl, llavur cymmedrawl, a gwres noturiawl.<sup>2</sup>
- 76 Tripheth da pan vôt gymmesur, a drwg pan vôt anghymmesur, dŵr, tân, a gwynt.
- 77 Tripheth gwrthwyneb gan ŵr ymadael â hwynt, gwlad lle ai ganed ac ai maged, ceraint â gavoedd yn gywir iddo, a chyvoeth â gavgloedd drwy lavur ei ddwyllaw ei hûn.
- 78 Tripheth sydd yn cadw trevyn a dosparth ar bob peth o'r byd, rhiv, pwys, a mesur.
- 79 Tripheth â ddaw ar ddyn heb yn wybod iddo, cwsg, pechawd, a henaint.
- 80 Tri sylvaen doethineb, ieuencid mabawl i ddysgu, ceudawd i gadw â ddysger, a synwyr call yn ymarver a gwybodau.
- 81 Tripheth â ddylai ddyn bryderu yn ddiysgog eu gwneuthur, gwrandaw yn uvydd, ateb yn gall, ac ymdangos yn wybodus.
- 82 Tripheth â ennillant enw da i ddyn, gwedyd ychydig, gwneuthur daioni, ac ymlavuriaw.
- 83 Tair cymmeddyv ddrwg ar ddŷn, balchedd heb haelioni, trachwant heb gyvianwnder, a llid heb drugaredd.
- 84 Tri modd y sydd i adnabod dŷn, ei ymadrawdd, ei ymddygiad, a'i arverion.
- 85 Tripheth anhawdd i ddŷn eu gwneuthur, oeri y tân, sychu y dwr, a boddloni y bŷd.
- 86 Tripheth â wna wr yn vlaenawr ar ei gymodogion, bod yn ddoeth, bod yn hael, a bod yn gyvoethawg.
- 87 Tripheth â bair i wr gariadeigymodogion, bod yn heddychwyr, bod yn gynnorthwywr, a bod yn hyforddwr.<sup>3</sup>

<sup>1</sup> A chydwybod lan. Ll. ar.<sup>2</sup> Trafaelu cymmedrawl. Ll. ar.<sup>3</sup> Bod yn athrywynwr. Ll. ar.

- 88 Tair cynneddyv anweddus ar ddŷn, bod yn daer ei gais, yn galed i roi, ac yn ddrwg ei dyb.
- 89 Tripheth canmoladwy ar ŵr, bod yn ddoeth ei ymadrawd, yn gyvianw ei weithredodd, ac yn gochel pob gormodd.
- 90 Tripheth rhyvedd sydd yn y byd gan vod cymmaint o wahaniaeth rhyngthynt, wynebau dynion, llaverydd dynion, ac ysgriveniadau dynion.
- 91 Tripheth nid ydynt yn gorphwys un amser mewn dŷn, y galon yn gweithiaw, yr anadyl yn goreiliaw, a'r enaid yn meddwl.
- 92 Tri rhyw oddynion anhawddeu cael yn yr un meddwl, y call a'r fol, yr hael a'r cybydd, a'r cywir a'r twyllwr.<sup>1</sup>
- 93 Tri rhyw o ddynion à gollant eu har avwch yn debyg i rai allan o'u pwyll, helwyr, corelwyr, ac ymladdwyr.
- 94 Tri rhyw o ddynion y sydd heb bris am à vo iawn a chywir, meddwyr, anudonwyr, a bradwyr.
- 95 Tri rhyw o ddynion y sydd heb ovni Duw, bradwyr, treiswyr, a chybyddion.
- 96 Tri rhyw o ddynion cythreulig y sydd, bradwyr, cynllwynwyr, ac athrodwyr.
- 97 Tri dyn ni ddylid eu gwawdd i dŷ, twyllwr gwenieithus, testunwr gwatwarus, a bradwr cenvigenus.
- 98 Tripheth nid hawdd eu cael pan vnyer, benthig arian gan ocrwr yn ddilog, pleidiaw dadyl mewn llys cyvraith yn ddiwobrwy, a chiniaw moethusvwyd mewn ty cybydd.
- 99 Tri chās gan Dduw a chan ddyn, celwyddwr, cynhenwr, a chybydd angawr.
- 100 Tripheth angenrhaid i ddyn à elo i davarn, pen cadarn, bola gwydyn, a chod drom.
- 101 Tripheth à geif dyn mewn tavarn, divyrwch ai gwna'n dlawd, digrivwch ai gwna'n bechadur, a llawenydd ai gwna'n drist.
- 102 Tripheth à bair amlâu gwahoddiadau i ddŷn, gwedyd jchydig, a'r hyn à weto'n gall ac athrawaidd; llawenydd tawel heb vawr ymdravod arno; ac ymddwyn anormesgar yn mhob peth.
- 103 Tripheth à bair i ddyn golli gwahodd-edigaeth, bwyta gormodd, gwedyd gormodd, a cheisiaw gormodd.
- 104 Tair ymgais hardd a chanmoladwy ar ŵr, llavuriaw ei dir, amlâu ei wybodau, a chynnyddu mewn rhinwedd.
- 105 Tripheth à wna ysgrivenydd da, cov tragywyddawl am bob ardderchawg o gamp a gweithred, rhoi addysg dangosawl i'r oesodd ar ei ôl, a pheri cofaad a mawl iddei enw dros vyth.
- 106 Tripheth y gâd prydydd da ar ei ol, cov am voliannus, dyddanwech i'r meddwl, ac addysg i'r gwybodaethgar.
- 107 Tripheth à erys ar ôl pob dyn da rhinweddavawr, gair ac enw da iddo ei hun; addysg dda i'r etiveddion a'r lle y bu; ac amgerddediad da ar bob peth à dravodes ev ar ymddwyn a gweithred.
- 108 Tripheth gwell no golud y gâd dedwydd iddei blant a'u hetiveddion, addysg o bwyll, addysg arddangos, ac annogiad i'r wneuthur val y gwnaeth yntau, achos y parch a'r clod à gefir iddo.
- 109 Tripheth à wna ddyn dedwydd, ymwellau beunydd yn ei vuchedd, ymvoddloni yn wastadawl i'r peth à vo, ac uvyddâu yn ddbaid i orchymynion Duw.
- 110 Tripheth ni vydd gwell yr etiveddion o honynt, golud cybydd angawr, clod cyveillion tavarn, a gorchestion chwaryddiaeth.<sup>1</sup>
- 111 Tripheth nid gwr un dyn hebddynt, gwraig, cartref, a chelvyddydd.<sup>2</sup>
- 112 Tripheth hofaidd i wr eu meddu, gwraig rinweddus, ty trevnus, a thir cyvanneddus.
- 113 Tripheth à nerthant wr i ymgvyoethogi, gwraig yn casglu, tylwyth divrad, ac yntau'n lavuriad.
- 114 Tripheth à wnant wr yn hoenus, ei ei wraig yn ei garu, ei ymgais yn fyru, a'i gydwybod yn esmwyth.
- 115 Tripheth a welir ar ddedwydd, ei dylwyth yn ei garu, ei dda'n cynnyddu, a'i Dduw yn ei nerthu.
- 116 Tripheth canmoladwy ar wraig, ei hwyneb yn ddawnus, ei hymadroddion yn synwyrus, a'i harverion yn ddaionus.
- 117 Tripheth à barant gymmeriad mawr i ŵr, ei wraig yn dda ei champau, ei dir yn driniedig, a'i gynneddva'u'n rinweddus.<sup>3</sup>

<sup>1</sup> A gair am orchestion, &c. Ll. ar.<sup>2</sup> Cref. Ll. ar.<sup>3</sup> Ac yntau'n ddedwydd, Ll. ar.

- 118 Tripheth à geif gwr o vod ei wraig yn rinweddus a da ei champau, ei dylwyth yn uvyddion o gariad arno, ei blant yn voneddig eu moesau, a pharch gan ei gymodogion.
- 119 Tripheth gweddus i ŵr eu bod yn ei dŷ, ei wraig yn ddiwair, ei dylwyth yn ddianair, a'i delyn yn ei chywair.
- 120 Tripheth cysurvawr i ŵr eu bod gantho, ei wraig yn ei wely, ei dân yn ei aelwyd, a'i arian yn ei gôd.
- 121 Tripheth à wnant ŵr yn voddlon iddei giniaw, ei wraig yn vedrus, ei vwyd yn voethus, a'i gylla'n iachus.
- 122 Tripheth hofaidd i ŵr ar ei giniaw, cylllell awchus, pwyned flaenlle, ac alawr glân.
- 123 Tripheth hof mewn teulu, trevyn dda, gwybodau daionus, a llawnder digonawl.
- 124 Tripheth à wnant annhrevnusder mewn tŷ a theulu, y gŵr yn vedd-wyn, y wraig yn ysgymun, a'r plant yn anhydyn.
- 125 Tripheth à bair i wraig gael tyb ddrwg am dani, bod yn chwannawg i gytgam â gwyr a gweision, bod yn chwannawg i amheuthynion, a gwedyd yn ddrwg am wragedd ei chymodogion.
- 126 Tripheth à wnant wraig yn anniwair, tegwch ei phryd, folineb yn ei phen, a balchder yn ei chalon.
- 127 Tripheth à wnant wr yn angenus, ei wraig yn voethus, ei dylwyth yn wallus, ac yntau 'n avradus.
- 128 Tripheth ni ddygant i ŵr gymmeriad mawr, ei wraig yn veistres, ei dy 'n anghynhes, a'i dir yn ores.
- 129 Tripheth anesmwyth ar wr yn ei dŷ, ei wraig yn ymdaeru, ei gronglwyd yn dyveru, a'i sawell yn mygu.
- 130 Tripheth gwell i ŵr ei grogi no 'u meddu, tylwyth anghywir, plant anuvyddion, a gwraig veddw.
- 131 Tripheth y fydd à gwyn ei vyd y dyn a'u cafo, iechyd corforawl, gwraig rinweddawl, a rhadverthwch Duw.  
Ac velly terfyna.
174. LLYMA DRIOEDD Y WRAIG DDA.  
*Gwraig dda a ddyfai vod—*
- 1 Yn gywilyddgar, yn ddiystryw, ac yn uvydd.
- 2 Yn ddianllad ei meddwl, yn ddiavrad, ac yn gyviawn ei bwriad.
- 3 Y naill law'n casglu, y llall yn cyvranu, a'i phen yn pryderu:
- 4 Yn dda ei chydwybod, yn radlawn ei thavawd, ac yn gywir iddei phriawd.
- 5 Yn ddivalech ei chalon, yn hardd ei harverion, ac yn drugarawg wrth dlodion.
- 6 Ei gorchwyl yn gryno, yn vedrus ei dwylaw, ac ar Dduw yn gweddïaw.
- 7 Ei hymddyddan yn serchus, ei gwisg yn weddus, a'i thy yn drevnus.
- 8 Yn gyvlym ei llaw, yn gyvlym ei llygad, ac yn gyvlym ei deall.
- 9 Ei chorff yn lluniaidd, ei hymddwyn yn hofaidd, a'i chalou yn bur.
- 10 Ei hwynebpryd yn ddawnus, ei phen yn ddeallus, ac yn wybodus.
- 11 Yn gymdogaid, yn ddivalech, ac yn haelionus ei meddwl.
- 12 Yn hyforddi 'n gall, yn gwiliaw rhag gwall, ac yn meithrin ei phlant yn famawl.
- 13 Yn caru ei gwr, yn caru heddwch, ac yn caru Duw.
- 14 Yn voddlon i'r byd à vo, yn cynnal mesuroldeb ymhob peth, ac yn govalu am vod yn gyviawn.
- 15 Yn ameanu y goreu, yn gwarchadw rhag y gwaethav, ac yn gweled à vo reitav.
- 16 Yn rhoi bwyd yn ei bryd, yn gorwedd gyda'r ddavad, ac yn cwnu gyda'r hedydd.
- 17 Yn amyneddus, yn dangneveddus, ac yn rinweddus.
- 18 Yn voneddig ei moesau, yn roesawgar ei geiriau, ac yn gristionogaid ei devodau.
- 19 Yn gymmedrawl ei geiriau, yn deall amserau, ac yn deuluaid ei gwybodau.
- 20 Yn ddoeth ei llawenydd, yn wellëugar ei cherydd, ac yn gydwybodlawn ei chreyydd.
- 21 Yn vaddeugar, yn gymodgar, ac yn wirioneddgar.
- 22 Yn wareheidwad ei meddiant, yn athraw iddei phlant, ac yn veddyges ei theulu.
- 23 Yn difawd cynhenau, yn gwasgar gwybodau, ac yn rhoi y blaen i bob goreu.
- 24 Yn cywilyddiaw diriaid, yn llawenâu dedwydd, ac yn boddâu Duw.

A'r wraig à vytho, val hyn á gerir gan ei gwr a'i theulu, a chan hawb ai hadnapo, a chan Dduw: a gwyn ei vyd y gwr ai médld.

Er hyny—

khyw wraig á gar myned lle myno, a a chael créd ar á weto, a chafael á geisio,

a gwneuthur val y chwennycho, a gwar-  
eded Duw bob dyn rag hono.

A rhy amyl y gwelir y cyvryw wragedd.

Ac velly tervyna.

175.

DA vyddai genyv wybod mwy nog à wn  
am danat : dywed imi ba vath ydwyd o  
ddyn, ebai Daliesin wrth Gatwg, ac yn  
atted iddo y dywed Catwg, gwell y  
dylit ti wybod am danav no mi vy hun,  
canys ti á glywi drach vy nghevyn y  
peth na ddaeth erioed i'm clust i am  
danav, a gwlad á biau barnu, ac nid mi  
no neb arall á wŷr yr holl wir am dano  
ei hunan.

176. TRIODD EREILL CATWG DDOETH.

- 1 Tair camp ddwyvawl ar ddŷn, maddeu  
y cam à wnelir iddo, gwelláu pob  
peth à allo, ac ymwrthod á phob  
anghyviawn o ddyn ac o gamp.
- 2 Mewn tripheth ydd ymdebyga ddyn i  
Dduw, cyviawnder, gwybodau, a  
thrugaredd.
- 3 Tripheth nis gellir hâr arnynt, amser,  
ehengder, a gwirionedd.
- 4 Tri y sydd ac nis gellir vyth iddynt eu  
llawn dâl, rhieni, athraw da, a Duw  
Dâd.
- 5 Tripheth goreu yn ein meddiant y dwg  
y balchder oddiarnom, ein arian, ein  
amser, a'n cydwybod.
- 6 Tair priv anvadgamp dŷn, llesgedd,  
twyll, a balchder.
- 7 Tair priv vadgamp dyn, diwydrwydd,  
cywirdeb, a gostyngeddrwydd.
- 8 Tair priv ddwyvolgamp dyn, haelioni,  
cariad, a maddeu y cam à gafo.
- 9 Tripheth à gâr Duw, tég o rîv, tég o  
bwys, a thég o vesur.
- 10 Tri adnabod anheggor doeth, ei Dduw,  
ei hunan, a thwyll y bŷd.
- 11 Tripheth y dylai bob dyn eu hystyried,  
o ba le y daeth i'r byd, at ba ddy-  
ben y daeth i'r bŷd, ac i ba le ydd á  
o'r byd nis gwyr ba awr neu wined.
- 12 Tripheth y sydd, a buan yr un à allo  
gydgerdded ag wynt, llucheden,  
meddwl dyn, a chynnorthwy Duw<sup>1</sup>.
- 13 Tripheth nis gellir eu cael, tloidi o roi  
cardawd, golud o ledrad, a doethineb  
o lwyddiant.
- 14 Tri dyn à vyddant wrth vodd Duw,  
athraw cywir, llavurwr da, a dydd-  
iwr rhwng ymrysonau.
- 15 Tripheth dwyvawl yn mysg dynion,  
creft, llavuriaeth, ac ysgolêdicawd.

<sup>1</sup>Ac ewyllys da. Ll. ar.

- 16 Tripheth annwvawl i ddyn ymyryd  
ag wynt, swydd arglwydd, oerydd-  
iaeth, a rhyvel.
- 17 Tripheth ni chair heb i bob un ei gyv-  
aill, dydd heb nos, diogi heb newyn,  
a doethineb heb barch.
- 18 Tripheth y sydd, cymghor, colled, a  
chwylydd, na chymmer o'r cyntav,  
á geif y ddau ereill.
- 19 Tripheth nid hawdd eu rhivo, banynau  
y goleuni, geiriau benyw siaradus, a  
a dichellion cybydd.
- 20 Tripheth à dyvant ynghyd, oedran,  
pechawd, a govid.
- 21 Tripheth y sydd ac wrthynt y bernir  
ar ddŷn, ei olwg, ei ymmod, a'i  
lavar.
- 22 Tripheth ydynt lai no dim, benyw heb  
ddiweirdeb, gŵr heb wybodau, ac  
athraw heb amynedd.
- 23 Tripheth yw rhan y goludawg, mwy-  
vwy y trachwant, vwy y goval, a  
lleilai yr ymwynâad.
- 24 Tripheth goreu yn y byd er llês dyn,  
tloidi, clevyd, a phlant; canys o'u  
meddu y cair gwybod llawer gwir  
nis gellid hebddynt.
- 25 Tri meddyg annifygiawl i bob clwyv a  
chlevyd, anian, amser, ac amynedd.
- 26 Tripheth à geir o dylodi, iechyd, pwyll,  
a santeiddrwydd.
- 27 Tripheth nid gwell eu cael no'u colli,  
trallwydd, trachlod, a thraurddas.
- 28 Tri anverth byd, ieuanc heb voes,  
gwraig heb gywilydd, a gŵr heb  
gydwybod.
- 29 Tri gwynvyd gwr doeth, tir rhyw-  
iawg, gwraig ddiwair, a mab add-  
wyn.
- 30 Tripheth ni waeth bod hebddynt no'u  
meddu, llygad dall, cell heb vwyd,  
a cheudawd heb ddyg<sup>1</sup>.
- 31 Tripheth o redd á ddygant eu perch-  
enogion ar gyveiliorn, ieuencid,  
llwyddiant, ac anwybodaeth.
- 32 Tri chydvod doethineb, haelioni a go-  
lud, gwybodau ac anmalchineb, a  
dewdrer a thrugaredd, ac nid na  
doeth na gwr lle nis cefir yn nghyd-  
vod y pethau hyn.
- 33 Tripheth à ddygant wr drwy y byd,  
iechyd, creft, a champau da.
- 34 Tripheth à geif cybydd o'i gyvoeth,  
poen yn casglu, goval yn cadw, ac  
ovyn colli.
- 35 Tripheth à ddygant eu cyrch ar y  
gwanav, gelyn, cyvoeth, a balchder.
- 36 Tripheth na chreder dros yr hanner á

<sup>1</sup>A cheudawd heb wybodaeth. Ll. ar

- vostier o honynt, am olud, am ddeall, ac am ddaioni.
- 37 Tripheth na ddangos i neb y cyvan o honynt, à vo yn dy gîst, à vo yn dy ddeall, ac à vo yn dy veddwl, canys o veddu, a deall, a meddwl vwy ac yn angen nog arall y bernir mawredd arnat.
- 38 Tripheth ni ddengys gwr à vo call, gwaelawd ei gôd, gwaelawd ei wybodaeth, a gwaelawd ei galon.
- 39 Tripheth à ddylid eu frwynaw'n dda, march ieuanc nwyvus, merch ieuanc amhwyllus, a thavawd siaradus.
40. Tripheth tebyg y naill i'r llall, ysgubawr dëg heb yd, fiol dëg heb, ddiawd, a merch dëg heb ei gair da.
- 41 Tripheth ys dir cael o honynt gant govid am un dyddanwech, helwriaeth, rhyvel, a serch ar venyw.
- 42 Tripheth à yr gwr<sup>1</sup> o'i dy, cronglwyd ddyverllyd, sawell vyglyd, a gwraig geintachlyd.
- 43 Tripheth nid da y cyvan o honynt, gwneuthur y cyvan à chwennycho lid, credu y cyvan à weto ben gwlad, a dangos y cyvan à wyper.
- 44 Tripheth mawr o ymchwydd ymborth ar waed, gele, horen, a rhyvelwr.
- 45 Tri da iawn yn weision, a drwg iawn yn veistri, tân, dŵr, a gwynt.
- 46 Tripheth er cael beunydd á geisiant yn ddiorphwys, môr, meddwyn, a chybydd.
- 47 Tripheth a droant y byd wyneb i waered, pendodaeth gwraig, digywillyddra merch, ac anwybodaeth mab.
- 48 Tripheth à wnant briodas hapus, cydoedran, cydronedd, a chydveddiant.
- 49 Tri dyn nid call eu crédu, diert h am ei vonedd, hen yn canmawl y dydd à vu gynt, a gwr à vostio ei ddoethineb.
- 50 Tripheth ni welir ymgais arnynt ond mewn eisieu mawr, Duw, hen gefyl dall, a chachdy.
- 51 Tripheth gogyval a'u gilydd, cerdded ar ben a dwylaw, llyvu y baw oddiar din arall, a bod yn valch rodresgar yn ceisiau mawredd byd.
- 52 Tripheth cyfelyb iddeu gilydd, cleddy gloew à ryda o'i hir gadw yn ei wain, dŵr gloew à ddrewa o hir sevyll yn lonydd, a doethineb à vydd varw o'i hir anarver.
- 53 Trichardawd i'r oes à ddêl, planu coed, gwellâu celvyddydd, a magu plant yn ddeddvolion.
- 54 Tripheth à wnant lawnder mewn gwlad, planu coed, llavuriaw tir, a chribaw a nyddu.
- 55 Tripheth a ddylid sylwi'n bën av ar bob peth, anian, agwedd, a gweithred.<sup>1</sup>
- 56 Tripheth à bair iechyd, gwaith cymmedrawl, ymborth cymmedrawl, a llawenydd cymmedrawl.
- 57 Tri ymborth dyn à barant iechyd, hir-oes, a synwyr gloew, ydvwyd, blithrwyd, a garddvwyd.
- 58 Tri ymborth à barant aviechyd, byroes, a synwyr pwl, cigvwyd, cyveithvwyd, a gwyrawdvwyd.
- 59 Tair cynneddvgamp ar ddyn ai parant yn iachus a hiroedawg, gwaith o lavuriaw'n gymmedrawl, codi'n fore, a llawenydd diniwed.<sup>2</sup>
- 60 Tair cynneddvgamp ar ddyn à barant vyroes ac aviechyd, trallavur, trachwsg bore, ac anynadrwydd.<sup>3</sup>
- 61 Tri newid mynych à barant hiroed, newid bwyd, newid gwaith, a newid dyddanwech.
- 62 Tripheth o'u hadver à estynant einioes dŷn, y wlad ai magwys yn blentyn, yr ymborth ai maethwys yn blentyn, a'r divyrwech ai dyddanwys yn blentyn.
- 63 Tri ychydig ar y pryd à wnant lês mawr, ychydig o vwyta ac yved, ychydig o oval, ac ychydig o davawd.
- 64 Tripheth da i ŵr a garo iechyd, digon o gwsg y gwanwyn, digon o vwyd yr hâw, a digon o dân y gauav.  
Ac velly tervyna hyn o driodd Catwg Ddoeth.

## 177. TRIODD EREILL.

- 1 TRI anrhydedd bydawl goruch pob un arall, aredig trev tād, arddadlu hawl yn dda, a dwyn plant ar vonedd.
- 2 Tripheth nid oes namyn dedwydd neu ddoeth à veidr ymochel ag wynt, godineb, med lwdawd, ac overedd.
- 3 Tri dyn iawn rhoddi bywd iddynt, ymdeithydd, golychwydwr, a llavurwr.
- 4 Tri charelyn dyn, tân, dŵr, ac arglwydd.
- 5 Tri gorvoledd dedwydd, dirwest, tangenevudd, a gwadaledd.
- 6 Tri gorvoledd diriaid, glythineb, ymladd, ac anwadalwech.
- 7 Tri bendith ni adant ar ddyn na ne-

<sup>1</sup> Anianoldeb, agweddoldeb, a gweithredoldeb. Ll. Twm Sion ab Evan.

<sup>2</sup> Llavor cymmedrawl. Ll. ar.

<sup>3</sup> Anghymmedrolwaith, sev y naill ai rhywaith ai rhyddiogi, hirgws bore, ac anvoddlondeb. Ll. ar.

<sup>1</sup> A yrant wr.

- wyn na noethni, bendith ei dad fydd, bendith ei arglwydd priodawr, a bendith bardd llinolingerdd.
- 1 Tri bendith arall y sydd well no'r cyvan, bendith tad a mam, bendith clav a chlwyvus, a bendith dyn advydig.
- 9 Tripheth à ardderchavael gŵr, gwraig ddiwair ddiwyd, arglwydd diwyd diwith, a diffeisedd.
- 10 Tripheth à ddarostwng gŵr, tir drwg, gwraig ddrwg, ac arglwydd tir drwg.
- 11 Tri rhyvel yn heddwch, gwraig ddrwg, tir drwg, a drwg arlwydd.
- 12 Tri ymborth gŵr, hela, aru tir, a chyvnewid.
- 13 Tri thywysogaeth dedwydd, bod yn dda ei wasanaeth, yn dda ei anian, ac yn dda ei gyvrinach: a hyny ni chyngain namyn a chreyddus neu voneddig.
- 14 Tri glŵth byd, brenin, môr, a dinas.
- 15 Tripheth à syrth ar ddyn heb yn wybod iddo, cwsg, henaint, a phechawd.
- 16 Tri melus byd, methu, fynu, a pechu.
- 17 Tri chadarn byd, arglwydd, drud, a diddim.
- 18 Tripheth ni ellir yn iawn hebddynt er maint à wnelont o ddrwg, tan, dwr, a brenin.
- 19 Tri merthyrolaeth heb ladd, haelder tylawd, diweirdeb dyn ieuanc, a chaingynnal heb gyvoeth.
- 20 Tripheth nid hawdd eu hofi, milgi hwyr, bardd annigriv, a gwraig hagr.
- 21 Tri dyn à ddylid bod yn drugar wrth-ynt, alltud, gweddw, ac amddivad.
- 22 Tripheth à ddylid eu diolch, gan hawsed hyny o dal am danynt, gwa-hawdd, anrheg, a rhybudd.
- 23 Tripheth à gynnal hir ddireidi ar ddyn, drygion, dryganian, a glythineb.
- 24 Tri chadernyd dedwyddydd ar ddyn, cynneddvau daionus, hawddgarwch, a goddevusder.
- 25 Tri rhywydd hynt, golychwyd, ciniaw, a chydymaith da.
- 26 Tri avrwydd hynt, diaspad, dryghin, ac ymladd.
- 27 Tri gogyvlawnder dedwyddydd, caingynnal arno ei hun, dadlau syniannus. ac ymoddev yn gadarn.
- 28 Tripheth hardd ar ddyn, gwybodaeth, campau da, ac addvwynder.
- 29 Tripheth cās ar ūdŷn, anwybodaeth, dryggampau, ac atgasrwydd.
- 30 Tri anhebgor gwybodaeth, calon yn meddwl, iaith i dddadgan, a cheudawd i gadw.
- 31 Tri chyw o'r un nyth, fermwr tavawd,<sup>1</sup> bardd dosparth, a dwyvawd cyfes.
- 32 Tripheth à gywirant eu gair yn ddiffuant, angu, dial Duw, ac ediveirwch.
- 33 Tripheth ni oddevant gellwair, iechyd, llwyddiant, ac amser.<sup>2</sup>
- 34 Tripheth ni ellir santeiddrwydd lle bythont, gloddest, balchder, a thrachwant.
- 35 Tri nōd santeiddrwydd, cariad perfaith, uvyddawd gwrawl, a thawedig-rwydd serchawg.
- 36 Tri nōd lloidydd, tavawd holgar, llygad chwilgar, ac wynebpryd brawychus.
- 37 Tripheth à ddengys gywiriad, genau tawedawg, llygad diymdawr, ac wyneb divraw.
- 38 Tripheth anhebgor tuag at wneuthur pob peth, gwybodaeth, gallu, ac ewyllys.
- 39 Tripheth à geif dedwydd, cariad, heddwch, a llawenydd.
- 40 Tripheth à geif diriaid, casineb, cystrin, a thristwch.
- 41 Tripheth gwrawl uvyddau iddynt, i'r gwir, i'r byd à ddēl, ac i'r ceiliawg pylgain.
- 42 Tri chās Duw a dyn, golwg ymladdgar, tavawd twyllodrus, ac asbri drygionus.
- 43 Tripheth nid da myned yn eu cylch mew'n brys, rhyvela, gwleddoca, a dadlaethu.
- 44 Tri nōd doethineb, cartrevgarwch, ymgais, ac amynedd.
- 45 Tripheth goreu gadael iddynt, ei dieithyr, lliv disyved, a doeth yn ei olwg ei hun.
- 46 Tri harddwch gwlad, ysgubawr, evail, ac ysgol.
- 47 Tripheth, er eu dryced, gwell eu meddu no bod hebddynt, ofeiriad, brenin, a gwraig.
- 48 Tri anawd llavurwr, gwas diawg, hād lledryw, a thir tragolwg.
- 49 Tripheth anghysurus, ty heb wraig, cell heb vwyd, a chorff heb iechyd.
- 50 Tripheth ar ddyn sy'n boddau Duw, cyviawnder, trugaredd, ac uvydd-cywiad.

Aç velly tervyna.

*Catwg Ddoeth ai cant.*

<sup>1</sup> Creftwr tavawd. Ll. ar.

<sup>2</sup> Ac oedran. Ll. ar.

## 178. LLYMA ETTO DRIODD CATWG DDOETH.

- 1 TRIODD Catwg ab Gwynlliw à ddysgant dripheth, boddâu Duw, llesâu dŷn, a gwellau gwybodau a syberwyd.
- 2 Tri chyverlodonau dyn, deall, cariad, a goluch.
- 3 Tri ardymyhr einioes dyn, gobaith, cariad, a llawenydd.
- 4 Tripheth à geif dyn goddevus, cariad dynion da, bodd ei gydwybod ei hunan, a rhadverthi Duw.
- 5 Tripheth à geif tyn trugarawg, cariad y byd, tangnev calon a meddwl, a bôdd Duw.
- 6 Tri chosp y sydd am bechawd, cosp cyvraith gwlad, cosp cydwybod, a chosp Duw.
- 7 Tripheth à geif dyn o gredu yn Nuw, digonedd bydawl, tangnev cydwybodawl, a llawenydd newawl.
- 8 Tripheth sy'n dallu y byd, twyll, goruchaviaeth, a thraserch ar ddyn a dynolion.
- 9 Tripheth sy'n arwain y byd ar ddidro, addewidion arglwyddi, gwisgodd myneich, a syberwyd merch.
- 10 Tripheth à dralodant y byd, cenvigen, anwiredd, a thrachwant.
- 11 Tri phriv lygredigaeth y byd, balchder, glythineb, a seguryd.
- 12 Tripheth à northant ddyn i sevyll yn erbyn yr holl vyd, gweled ansawdd a phrydverthwch gwirionedd, gweled dan bais y celwydd, a gweled y modd y mae y gwir a'r celwydd yn diweddu.
- 13 Tripheth à geif dedwydd, cariad, heddwch, a llawenydd.
- 14 Tripheth angenrhaid i bechadur, cydnabod ei bechodau, edivarâu, ac ym-egniaw daioni yn iawn am danynt.
- 15 Tripheth y sydd a'r naill yn debyg i'r llail o honynt, hen varch dall yn canu telyn a'i garnau, hwch mewn sidanwisg, ac annhrugarawg yn ymddadwrdd am ddwyvolder.
- 16 Tri addysg y rhydd seguryd, i veddwl yn ddrwg, i wedyd yn ddrwg, ac i weithredu'n ddrwg.
- 17 Tair ysgol doeth, cydwybod, pwyll, ac addysg.
- 18 Tair ysgol annoeth, cosp cyvraith, dygwydd drwg yn mywyd, ac ufern yn y byd à ddaw.
- 19 Tri chadernyd doethineb, cov, ystyr, ac arver.
- 20 Tripheth anweddus ar ddyn, tybied ei hunan yn ddoeth, tybied arall yn

- annoeth, a thybied y gwedd iddo à vyno.
- 21 Tri ychydig à ddangosant lawer o ddoethineb, ychydig balchder, ychydig trachwant, ac ychydig chwedl-eua.
- 22 Tripheth serchawg ar ddŷn, tangnev-edd, doethineb, a charedigrwydd.
- 23 Tripheth ni waeth eu colli na'u cadw, cyvoeth, ieuencytyd, a chariad y byd.
- 24 Tripheth y sydd a gwâe a'u collo, gwybodau doethineb, cydwybod lân, a chariad Duw.
- 25 Tripheth y sydd a melltagedig y neb a'u symuto, fin tir, hynt dwr, ac arwydd fordd ac arllwybyr.
- 26 Tripheth à wnânt ŵr yn vlaenawr ar ei gymodogion, meddiannau, gwybodau, a haelioni.
- 27 Tripheth à geif dyn diwyd, blaenor-iaeth, cyvoeth, a chlôd gan ddoeth-iaeth.
- 28 Tripheth à geif dyn cywir, dawn, a pharch, a fyniant.
- 29 Tri ynnill dyn dedwydd, cariad ei wlad, heddwch dioval, a llawenydd newawl.
- 30 Tri ynnill dyn dyoddevgar, cariad, llonyddwch, a chlynnorthwy.
- 31 Tri hardd byd, dwyvawl, celvydd, a syber.
- 32 Tri pheth ar un à vydd, ac anhawdd yw cael ar arall eu cyvunwedd, wyneb, llavar, a deall.
- 33 Tair fynon gwybodaeth y sydd, pwyll, ansawdd, a gorvod.
- 34 Tripheth a ddylai ddyn à vynai addysg, gwrandaw yn graf, golygu yn graf, a thewi yn ddiadoriant.
- 35 Tri dyn gwahanryw y sydd, dyn i Dduw à wna dda dros ddrwg, dyn i ddyn à wna dda dros dda a drwg dros ddrwg, a dyn i ddiawl à wna ddrwg dros dda.
- 36 Tripheth y sydd ac nid hawdd ynnill dyn oddiarnynt, ei gred, ei awen, a'i genedyd.
- 37 Tripheth à geif gŵr o deithiaw i wlad estrawn, newyn, anwyd, a gwatwar.
- 38 Tair llathvesur pob dŷn, ei Dduw, ei ddiawl, a'i ddiawr.
- 39 Tripheth à gair o ddilyn drwg; cywil-ydd, colled, a chosp.
- 40 Tripheth à ddylai à gafo gymwynas, ei ddiolch, ei goviaw, a thalu y pwyth.
- 41 Tripheth à ddylai bob un ei wneuthur, gwrandaw'n uvydd, attep yn gall, a barnu'n hynaws.
- 42 Tair camp à ddangosant ddoethineb,

- dyoddev yn gall, meddeu y cam, ac ymgais am wybodau.
- 43 Tripheth â ennilliant enw da, gwedyd ychydig, gwneuthur daioni, a llavuriau am gynnalïaeth.
- 44 Tair fordd yr adnebydd dyn, ei ymadroddion, ei arverion, a'i gyveillion.
- 45 Tripheth sy'n cadw y byd mewn trewyn, rhiv, pwys, a mesur.
- 46 Tair cynneddyv anwedus ar ddŷn, taerni cais, caled i roi, a drwg dybiau.
- 47 Tripheth â gadwant gorf a meddwl mewn iechyd, ymborth mesurawl, llavur cymmedrawl, a llawenydd cydwybodawl.
- 48 Tair afaith cynghor, dwyn ewyllys da, rhyddydd llavar, a gwybodaeth parth ac at yr achos.
- 49 Tri athrawon yniau dŷn, synwyr awenaidd o reddv ac anian, pwyll o ystyrïaeth a chydwybod, a damweinoldeb cylch einïoes, ac hebddynt nis gellir gwybyddiaeth gyviawn.
- 50 Tripheth anhawdd eu cael; tân oer, dwr sych, a thrachwantus deddvawl.<sup>1</sup>
- 51 Tripheth anhawdd eu gwneuthur, tori syched â thân, sychu y gwlyb â dwr, a boddloni y byd.
- 52 Tripheth ni adant ddyn mewn newyn a noethni, bendith tylawd a thrahodus, bendith arglwydd priodawr, a bendith bardd llinolingerdd.
- 53 Tripheth ardderchawg ar ddyn; gwroldeb, dysg, a phwyll.
- 54 Tripheth o'u tra arver â vyrâant einïoes dyn, cigvwyd, medddwawd, a thrachyd â gwaig.
- 55 Tripheth o'u hadver â estynant einïoes dyn, y wlad ai magwys yn blentyn, yr ymborth ai maethwys yn blentyn, a'r myvyrdawd ai dyddanwys yn blentyn.
- 56 Tripheth gwell no chyvoeth, iechyd, rhyddydd, a phwyll.
- 57 Tripheth â gryvâant y meddwl a'r deall, gweled llawer, ystyried llawer, a dyoddev llawer.
- 58 Tripheth a gryvâant y corf, gorwedd ar wely caled, wybren oerllyd, a bwyd sych.
- 59 Tripheth â ddichonant bob peth, ac hebddynt nis gellir dim, nerth corf a meddwl, gwybodaeth, a serch awenbwyll.
- 60 Tripheth nis gellir deddvoldeb o Dduw hebddynt, maddeu gelyn a chamwedd, haelioni barn a gweithred, a glynu wrth â vo cyviawn deled â ddelo.
- 61 Tripheth â geif dyn cywir, fyniant, anrhydedd, a diwedd da.
- 62 Tripheth â geif dŷn twyllodrus, drygvyd, drygair, a drwg ddiwedd.
- 63 Tripheth â geif dŷn deddvawl, iechyd, llwyddiant, ac anrhydedd.
- 64 Tripheth â geif dyn o godi'n fore, iechyd corforawl, cyvoeth bydawl, a bywyd tragwyddawl.
- 65 Tair bost fôl, ei gyvoeth, ei vonedd, a'i oferedd.<sup>1</sup>
- 66 Tripheth â vostier ar ddoeth, ei ddeall, ei gelvyddydd, a'i gynneddvau dâ.
- 67 Tri chwerthin fôl, am ben y drwg, am ben y dâ, ac am ben nis gŵyr beth.
- 68 Tripheth â geif dyn govalus, parch, amledd, a boddlonedd,
- 69 Tripheth a geif dyn gwallus, cywilydd, eisiwedu, a galar.
- 70 Tripheth fy'n harddu meddwl, casau folineb, rhinwedd hylaw, ac awydd dysgu.
- 71 Tripheth ardderchawg ar ddyn, caru gwybodaeth, gwneuthur daioni, a bod yn gyviawn yn yr hyn â wnelo.
- 72 Tri thwyll dŷn, gair tég, chwant ynnill, ac anwybodaeth.
73. Tri dŷn ymgadwer rhagddynt: yr avlawen, y testunwr, ac a chwarddo am ben y drwg.
- 74 Tri gevellod cyntavanedig y cythraul, balchedd, anwiredd, a chenfigen.
- 75 Tripheth â geif dyn divaleh, esmwythder meddwl, cariad ei gymodogion, ac awenbwyll ddwyvawl.
- 76 Tripheth â geif dyn dedwydd, llwyddiant, anrhydedd, a thangnev cydwybod.
- 77 Tripheth y ceif dyn annedwydd, dirmyg, avlwyddiant, a phoen meddwl.
- 78 Tripheth â gair o dlodi, iechyd, pwyll, a nerth Duw.
- 79 Tripheth â geif dyn dwyvawl, gair dâ, byd dâ, a diwedd dâ.
- 80 Tri dŷn nid call credu gormodd iddynt, rhodiadur o bell, darllenwr llyfrau anghyviaith, a gwr hŷn no'i gymodogion.
- 81 Tri cholled y corf â bair ennill i'r enaid, colli golud a meddiant, colli iechyd corforawl, a cholli câr a chyvaill.

<sup>1</sup>Dwyvawl. LL. ar.<sup>1</sup>A'i vaswedd. LL. ar.



- 82 Tri chynghor Lasar, car dy Dduw a'th wnaeth o ddim, ymgais a Duw a'th brynwys a gwaed ei Vab Iesu Grist, ac uvyddâa i Dduw a'th varn drwy air ei Vab Iesu Grist.
- 83 Tri athraw dŷn, un yw dichwain, sev addysg o weled a chlywed; ail yw deall, a hwnw á ddaw o ytsyr ac ymbwyll; trydydd yw awen yniawl o ddawn Duw yn radverthwch cynhenid.
- 84 Tair priv ddyledswydd dŷn parth gwlad a theulu, ynnill meddiant drwy ddiwydrwydd a chywirdeb; llesau ei wlad a'i genedyl ymhob gorchwyl à wnelo; a gyru addysg deddvoldeb ar bob un lle ydd elo.
- 85 Tri ovyn à gadarnâant galon dŷn, ovni credu y cyvan à glywo gan arall, ovni llwyddiant bydawl, ac ovni anvoddau Duw.<sup>1</sup>
- 86 Tri ovyn à wanâant galon dŷn, ovni gwedyd y gwir, ovni advydirwydd, ac ovni diawl.
- 87 Tair sylvaen deddyv a chynneddyv, trevn, cyviawnder, a thangnev.
- 88 Tripheth canmoladwy ar ŵr, ymadrawdd doeth, trevnu 'n hardd, a gweithredu 'n gyviawn.
- 89 Tri diogelder dyn, iechyd, rhyddyd, a chydwybod dda.
- 90 Tripheth anhawdd i ddyn eu gwneuthur yn gwbyl, adnabod ei hun, gorchvygu ei chwantau, a chadw ei rin.
- 91 Tripheth à gynnaill gŵr ymhob peth à wnelo, serch ar à wnelo, gwybod y modd ai gwneuler, a bod cyviawn yn marn cydwybod ai gwnelo.
- 92 Tripheth à geif gŵr o'i gyvoeth trais, cas rhyngtho a dyn, cas rhyngtho a'i hun, a chas rhyngtho a Duw.
- 93 Tripheth serchawg eu gweled, diriaid yn myned yn ddedwydd, cybydd yn myned yn hael, a phechadur yn myned yn ddwyvawl.
- 94 Tripheth à ellir o gyvoeth cyviawn, digonedd bydawl, llusendawd brawdawl, a dâioni gwladawl, ac o'r tri hyn bodd Duw nevawl.
- 95 Tripheth à eilw fôl yn anmhwyl, ceisio gwybodaeth dôed à ddêl, rhoddi cardawd heb veddwl am à ddêl, a dyoddev dros wir a chyviawn heb ovni am à ddêl.
- 96 Tripheth ni ellir cudd arnynt, cariad, cás, ac awenbwyll.

<sup>1</sup> Digiaw Duw. LL ar.<sup>2</sup> Santaidd. LL ar.

- 97 Tripheth hawdd eu gweled lle bont, cyvoeth, gwybodaeth, a gwroldeb.
- 98 Tri chelwydd y sydd, celwydd ar air à bair i arall wedyd y peth na vo gwir, celwydd ar weithred à bair i arall weithredu o grêd yn erbyn à vo gwir, a chelwydd ymddwyn à rhith, à bair i arall veddwl a barnu yn wrthwyneb i'r gwir.
- 99 Tripheth à wnant ŵr yn hoenus, ei wraig yn ei garu, ei orchwyl yn llwyddaw, a'i gydwybod wrth vodd Duw.
- 100 Tripheth y dylai ddyn eu cadw yn wastadawl o vlaen ei lygaid, ei ddyledswydd bydawl, ei gydwybod, a deddvau Duw.

Ac velly tervyna—Catwg  
Ddoeth ai Cant.

## 179. TRIODD ETTO AMRYVAL

- 1 TRIPHETH nid hawdd eu hattal, frwd rhaiadyr, saeth o vwa, a thavawd ynyvd.
- 2 Tripheth ni hir barâant, tês Mawrth, bwa y gwlaw, a pharch cellweirgar.
- 3 Tri nôd cristion, caru gelyn, celu à wna o ddaioni, a chymodi rhwng caseion.
- 4 Tair athrawiaeth nid call a'u crêd, á rotho gŵr yn mhllaid à vo ar ei lês a'i lwyddiant ei hun, à rotho ag ynddi gâs at arall, ac á rotho gŵr doeth yn ei olwg ei hun.
- 5 Tri dyn nyw mawr gerir, balch, llwvyr, ac achwyngar.
- 6 Tri dyn hawdd eu hebgor, na wnelo lês i neb, na pharo lawenydd i neb, ac nas gadawo lonyddwch i neb.
- 7 Tair priv gynneddyv y sydd ar ddyn i ddiawl, balchder cenvigenus, cybydd-dra trachwantus, a gwenaith dwyllodrus.
- 8 Tri chynghor yr aderyn melyn, na vawr alara am à ddarfo, na chrêd yr hyn na allo vod, ac na chwenych na allech ei gael.
- 9 Tripheth à yrant ŵr allan o'i dŷ, mwg, to anniddos, a gwraig anynad.
- 10 Tripheth sy 'n dyvethu y bŷd, brenin fôl ei gynghor, ynad heb gydwybod, a mab heb ovyn.
- 11 Tri nôd cywir y sydd ar ddŷn i ddiawl, ac nis gall ymddyhebu ag wynt, ei air, ei olwg, a'i ymmod.

- 12 Tri gwreiddyn pob drwg, trachwant, celwydd, a balchder.
- 13 Tair cynneddyv y sydd yn nglyn a dyn i ddiawl, trachwant, cenvigen, a balchder.
- 14 Tripheth ebrwydd y darvyddant, rhyv-yg heb urddas, cadernyd heb gydwybod, a golud heb gyviawnder.
- 15 Tri nodau cywirion ar ddyddyn à ddangosant beth ydyw, gair, goawg, ac ymddwyn.
- 16 Tri chynghor à roddes Branwen verch Llyr, na dddwg alar am a dderyydd, na chrêd yr hyn na ddychyn vod, ac na chais nas gallot ei gael.
- 17 Tripheth à ddifeithiant y byd, brenin fêl heb gynghor, barnwr heb gyviawnder, a gwas heb ovyn.
- 18 Tripheth ni hir barâant, rhwysg heb urddas, cadernyd heb gydwybod, a pharch heb haeddiant.
- 19 Tri dyn ni vyddant wrynygion vyth, à wreicâo wrth gynghor ei gnawd, à wleddo wrth gynghor ei vlys, ac ac à ymladdo wrth gynghor ei wŷn.
- 20 Tri dedwyddwch teulu, gwarcheidwad cywir, bugail govalus, a negeswr doeth.
- 21 Tair dedwyddgamp gŵr, bôd yn llawen yn ei dŷ, bod yn dda yn ei eglwys, a bod yn ddyddiwr rhwng ei gymdogion.
- 22 Tripheth nid hawdd eu gweled, balch yn hael, ieuanc yn ddoeth, a hên yn voesgar.
- 23 Tripheth ni wnant avles i neb, celu drygvoes, rheoli drygnaws, a difawd drwg veddlwl.
- 24 Tripheth à geif gŵr deddvawl, digonedd bydawl, heddwch ysbrydawl, a llawenydd newawl.
- 25 Tripheth à wnant ddyddyn yn ddiawl, balchder, cenfigen, a lledrad.
- 26 Tripheth ni cheir ddyddyn à welo 'n ddi-gon o honynt er à gafo, iechyd, hoedyl, a chyvoeth.
- 27 Tri dyn à gerir gan Dduw, cadarn cyviawn, dewr trugarawg, a hael diedivar.
- 28 Tripheth à wŷrant varn gyviawn, cariad cyveillion, ovyn cedyrn, a chwant da bydawl.
- 29 Tri glŵth byd, mor, dinas, ac arlwydd.
- 30 Tripheth ni mad-ddiwedd a'u hymddirieto, iechyd yn henaint, hindda y gauav, a gwynfyd o bethau y byd.
- 31 Tripheth à dwyllant à ymddirieto iddynt, addewid gordderchwyr, fyddlondeb taiawg, ac amser ieuencyd.
- 32 Tripheth nid oes ond y twyll o honynt, serch trythyll, diniweidrwydd arglwyddiaeth, a dwyvoldeb clâw gwelyvawg.
- 33 Tripheth ni ddylid eu credu, breuddwyd hên wrach, llw gordderch, a chwedyl heb warant.
- 33 Tripheth à geif cybydd angawr, poen yn casglu, goval yn cadw, a thristwch yn colli.
- 35 Tair sail doethineb, dysg yn ieuencyd, cov yn cadw, a synwyr yn deall.
- 36 Tripheth ni dderyyddant vyth, cardawd vlodeuawg, enaid dyn, a chariad perfaith.
- 37 Tripheth nid oes namyn Duw a'u gŵyr, dechreu pob peth, achos pob peth, a diwedd pob peth.
- 38 Tri gavael y sydd ar Dduw, deall pwyllgar, cariad goddevgar, a chydwybod ystyrgar.
- 39 Tri phriv roddedigion Duw, awen, deall, a rhadverthwch.
- 40 Tripheth à ddygant ddyddyn at Dduw, amynedd, cariad, a chydwybod.
- 41 Tair priv gynneddyv dwyvoldeb, deall yn gyviawn, cariad perfaith, a goddev cadarn.
- 42 Tri chyverlyniad doethineb, awen, ystyr, ac ymgais.
- 42 Tri chyverddonau doethineb, gwarâu gwyllovaint, mwyâu tangnev, a gwellaau deddvau.
- 44 Tri rhagweinyddiaid doethineb; addysg ddeddvawl, arver weithredawl, a serch awenawl.
- 45 Tri arddangos awen o Dduw, ymddwyn doeth, ymgais er gwell, ac ymddal ar bwyll.
- 46 Tri arddangos doethineb, ymddal ar bwyll, ymddal ar awen, ac ymddal ar welliedigaeth.
- 47 Tripheth à ddyvydd o dangnev, amlâad meddiannau, gwellaad moesau, a mvyâad gwybodau.
- 48 Tripheth ni waeth bychodedd no gromodedd onaddynt, gwleddoldeb, goludoldeb, a boddoldeb.
- 49 Tri dyn goreu pa bellav y bont, gwenieithwr truthgar, athrodwr cynhengar, a chwedleuwr celwyddgar.
- 50 Tri chydgyveillion prifordd y nevodd, tlawd amyneddgar, doeth ymbwyllgar, a gwelliedydd goddevgar.

- 51 Tri dyn ni welir amgen iddynt no chas yn vyw a chlôd yn varw, doeth tangnevgar, athraw gwireddgar, a chyvaill cywir ceryddgar.
- 52 Tri arddangos dynoldeb, haelioni serchus, ymddwyn cariadus, a gwybodau moliannus.
- 53 Tripheth ni lwydd â el yn eu herbyn, anianoldeb, govynoldeb, a darwein- ioldeb.
- 54 Tri rhyvedd byd, caru rhyvel yn vwy no heddwch, caru gormes yn vwy no chymmes, a charu gau yn vwy no gwir.
- 55 Tripheth â ddylid eu dambwyll ar bob dyn, nertholdeb, tueddoldeb, a devnyddioldeb.
- 56 Tri gwrthgevyddion daioni, balch- der, llid, a thrachwant.
- 57 Tri chyvoldion<sup>1</sup> doethineb; deall, ystyriaeth, ac addysg.
- 58 Tri rhagvoldion doethineb; deddvol- deb, tangnevoldeb, a dwyvoldeb.
- 59 Tri chyvystyr doethineb; rheidioldeb, moddoldeb, a buddioldeb.
- 60 Tripheth â gau yn erbyn doethineb, balchder, trachwant, ac oвуoc- rwydd.
- 61 Tri harddwch gwlad, llavuriaeth dde- allus, cymydogion cydvyddus, a llywodraeth gydwybodus.
- 62 Tripheth â bair llwyddiant a golud, gwneuthur o ŵr â vo raid iddo ei hunan yn lle ymddiried i arall ei wneuthur, gwneuthur â ellir hed- dyw yn lle oedi hyd y voru, a gwneuthur devnydd pwyll ac ystyr o bob peth â ddelo ger bron synwyr a deall.
- 63 Tri phwyll y sydd dros dewi, rhag dywedyd y peth nas dylid, rhag dywedyd y modd nas dylid, a rhag dywedyd y lle nas dylid.
- 64 Tri phwyll y sydd dros ddywedyd a deued â ddêl, addysg rhag anwy- bodaeth, cynghor rhag amryson, a gwirionedd rhag celwydd argy- weddus.
- 65 Tripheth nis gall namyn Duw yn unig, gwneuthur yr hyn na vu er- ioed o'r blaen, gwybod â ddaw, a barnu ar gydwybod.
- 66 Tripheth nid oes namyn Duw a'u gŵyr, dechreu, cynnal, a diwedd.
- 67 Tripheth goreu eu gadael i Dduw, barn, gobrwy, a dial; canys nid oes ond eve â ŵyr â ddylid o un nac arall o'r tri.

<sup>1</sup>Tri chynvoldion.

- 68 O dripheth y gwybyddir a vu, y sydd, ac a vydd; yn gyntav, o vyw mor gyviawn, o barth ymgais â Duw; yn ail, o vod mor rhydd oddiwrth a gaethai arnat â Duw; yn dryd- ydd, o garu a chasau yr un pethau ag a wnai Duw: ac o hyn y gweli pob gwirionedd, a phob hardd, a phob iawn, a phob dyled, a phob hygar, a phob addas, yn un an- sawdd ag a'u gwêl Duw; ac y gwyb- yddi di ba bethau a ddygwyddant yn ddiymball; canys nis dichyn am- gen nog y myn Duw bob peth yn ei amser herwydd y soniwyd am eu noturiaethau a'u cynneddvau; canys yn Nuw y mae nerth a'u dichon, a gwybodaeth a ŵyr eu medru, a chariad at bob iawn a'u myn, ac nas goddev amgen.

Ac velly tervyna—Catwg  
Ddoeth ai Cant.

#### 180. TRAETHAWD LAS CATWG DDOETH.

- GWNA ddaioni unwaith ti ai gwnai yr ail waith rhag cywilydd, a'r drydydd waith o voddlondeb, a'r bedwerydd waith o serch, a chwed i delo serch atto ti ai gwnai dros vyth; canys nis gellir diwedd serch cynneddvawl: nid oes na varw namyn serch.
- A gafu air da unwaith ev â chwennych ei gadw a'i gynnal, o cheif yr ail waith eve â lawenâa o'i achos, o cheif y teir- gwaith eve ai serch, ac o'i serchu, eve â ymgadarnâa yn ai dirper; a chadarn o serch cadarn tragwydd.
- O chwennychi troi dyn oddiwrth ei vai rho iddo air da, ac etto ac etto, han- pid gwell gŵr o'i ganmawl, hanpid gwaeth a woganer, a gollo a'i bôdd yn unpeth ai cais yn arall, a gafu ai bôdd yn unpeth, bynag y bo, eve ai ceidw gyhyd ag y ho galladwy iddo; canys dyn â ymgais ai bôdd; canys nid byw ond bôdd, ac addwyn i bob un ai bôdd.
- A elwir yn gall â gais vod yn gall, ac o chais ev â lwydd, ac o lwydd ev â chwennych, ac o chwennych ev â serch, ac o serch eve â ymgadarnâa ynddo.
- A vernir yn gall â ymgais i vod yn gall, o ymgais cael, o gael gobaith, o obaith adymgais, o adymgais pwyll, o bwyll cyvlwydd; ac ni ddifyg nerth a llwydd lle a'u hymgyrch gobaith, pwyll, ac ymgais.

Lle chwennycher gyru daioni moler ev:  
 mawl á gyfry ystyr, ystyr á bair  
 bwyll, pwyll á bair serch, serch á bair  
 egni, egni á lwydd, llwydd á ddwg  
 lawenydd, llawenydd á gyrch ei ad-  
 gael, adgael á gyrch lwybrau y cael,  
 ac yn un naw's á hyn yr hen ddiar-  
 hebawd.

Nid daioni ond gallu,  
 Nid gallu ond cyfraw,  
 Nid cyfraw ond serch,  
 Nid serch ond mawl,  
 Nid mawl ond daioni.

Mawl á wna dripheth, nid amgen,  
 Y gobaith yn gadarn,  
 Y pwyll yn ddechymygvawr,  
 A'r gorchwyl yn hawdd.

Ac wrth hyn bid weledig modd y dylai  
 athraw parth ei ddarymgais, er dysgu  
 a dangos gwybodau daionus, a phob  
 gwir, a phob gorau, a phob rhyw a  
 rhith, ar ddaioni, sev y dylai eve—

- 1 Dangos rhyw a rhin,
- 2 Moli daioni,
- 3 Cyfroi serch.
- 4 Cadarnáu gobraith.
- 5 Amlygu llês.
- 6 Dychymyg moddoldeb.
- 7 Frwythloni deall.
- 8 Cevnogi pwyll.
- 9 Dangos cyviawn ac anghyviawn.
- 10 Arwain ystyr.
- 11 Hawddáu gorchwyl.
- 12 Cadarnáu gwirionedd.
- 13 Datrin twyll.
- 14 Deall ei ddigon a'i vodd ar y pethau  
hyn.
- 15 A bod à eirch ar arall ymhob cyfur.  
 Ac velly tervyna'r draethawd lês:  
 Catwg Ddoeth ai Cant.

#### 181. OSAU CATWG DDOETH.

Os dilys o dyst dy wybodaeth fyrv, na  
 ddawr a'th amheuant.  
 Os call pob ymgais ag amcanwyd, na  
 ddawr a'th watwarant.  
 Os doeth o lwyr ystyrbwyll dy varn, na  
 ddawr ai gwrthvarnant.  
 Os cyviawn a phwyllgar dy vuchedd, na  
 ddawr a'th oganant.  
 Os iawn a'th geir bob gair a gweithred na  
 ddawr a'th ryveiant.  
 Os dedwydd o ddevawd a'th welir, na  
 ddawr a'th ddivriant.  
 Os bydd à vo cyvraid yn dy gell, na ddawr  
 à loddestant.  
 Os gwir á vydd ar vlaen dy davawd, na  
 ddawr a'th gelwyddant.

Os parch a'th ddyvydd am iawnder o gamp,  
 na ddawr a'th enllibant.  
 Os tlawd o wneuthur elusen a phwyll, na  
 ddawr a'th ddibrisant.  
 Os dyoddev er mwyn boddâu dy Dduw, na  
 ddawr a'th ddirmygant.  
 Os wyd o gorf a chydwybod yn iach, na  
 ddawr a'th wrthenwant.  
 Os gwell o'th gymhlegety y gwelir y byd,  
 na ddawr a'th wrthvynant.  
 Os rhodiwr hyd fyrrd cyviawnder wyd, na  
 ddawr a'th wrthgyrchant.  
 Os drwg á syrth yn ddirym dan dy draed,  
 na ddawr à deyrnasant.  
 Os perchir dy gampau gan deulu nev, na  
 ddawr a'th annharchant.  
 Os cynnull awenddysg a'th holl nerth wyd,  
 na ddawr a'th wrthbwyllant.  
 Os cyvaille cydwybod dangnevgar lân, na  
 ddawr a'th adawant.  
 Os gobraith a'th gysur i'th ddydd a'th awr,  
 na ddawr a'th ryvlinant.  
 Os llawen dy galon wrth vodd Duw ner,  
 na ddawr a'th rywestlant.  
 Os mawr wyd yn ngolwg Duw dovydd  
 dad, na ddawr a'th vychanant.  
 Os engyl a'th nawdd yn nydd a nos, na  
 ddawr a'th erlidiant.  
 Os Duw yn mhob amewydd a saiv o'th  
 blaid, na ddawr a'th erbyniant.  
 Os cefi'n y diwedd wlad nev i'th rân, na  
 ddawr a'th ysbeiliant.

Catwg Ddoeth ai Cant.

#### 182. LLYMA OREUAU A DDODER AR GATWG DDOETH MEWN RHAI LYVRAU, AC AR GEDIVOR VARDD MEWN UN LLYVYR ARALL: CHWILIED A GAFO LE.

GOREU ar gardawd ei rhoi yn y dirgel,  
 Goreu ar venyw ei drwg yn ddiymgel.  
 Goreu y chwareuon ymwrthod a'r cyvan,  
 Goreu pob ynnill adynill dy hunan.  
 Goreu o'r gwyr yr hawddgarav ei ddev-  
 awd,  
 Goreu o'r gwragedd y byrav ei thavawd.  
 Goreu ar lenecyn ymgynghor a'i athraw,  
 Goreu ar lances o ddevawd yn ddistaw.  
 Goreu o'r campwyr y lleiav ei draferth,  
 Goreu moesgarwch ymarwedd yn bryd-  
 verth,  
 Goreu pob chwareu yw gado y croen gar-  
 trev.  
 Goreu ar wladwr ei gael yn ei addev,  
 Goreu cymodawg cymodawg didervysg,  
 Goreu ar athraw cydvynel a'i addysg,  
 Goreu gwaith criston ymroi ar gyviawn-  
 der,  
 Goreu athrylith athrylith o vwynder.

Goreu boneddig boneddig gwareddawg,  
 Goreu ar antur anturiaw'n galonawg.  
 Goreu divyrwch cân adar boreuddydd,  
 Goreu cyveillach ymgyvrin â dedwydd.  
 Goreu creftwriaeth llavuriaw tòn daiar,  
 Goreu doethineb doethineb avlavar.  
 Goreu gwaith undydd rhoi bywd i newyn-  
 awg,  
 Goreu cyverddawn hynawsder trugarawg.  
 Goreu gwaith celvydd ymarbwyll a'i am-  
 can,  
 Goreu adnabod ymnabod dy hunan.  
 Goreu gweithredon gweithredon trugaredd,  
 Goreu gwaith ystyr iawn ystyr y diwedd.  
 Goreu pob meddiant meddiannu llaw gelv-  
 ydd,  
 Goreu trysorau trysorau gwybedydd.  
 Goreu pob cynnull yw cynnull gwybodau,  
 Goreu gwaith ymbwyll deddvoli cynnedd-  
 au.  
 Goreu gwroldeb darostwng ei valchder,  
 Goreu pob ymddwyn ymddwyn yn ddi-  
 drawsder.  
 Goreu gorchestion gorchestu tangnevedd,  
 Goreu pob deall yw deall gwirionedi.  
 Goreu pob awen cywirdeb cynneddvawl,  
 Goreu diwydrwydd ymydydion ddarbod-  
 awl.  
 Goreu gwaith synwyr ymddyspwyll difu-  
 ant,  
 Goreu pob dirwest ymddirwest rhag tra-  
 chwant.  
 Goreu pob gochel yw gochel cybydddawd,  
 Goreu pob golud yw golud cydwybod.  
 Goreu deddvoldeb deddvoldeb o grevydd,  
 Goreu y goreuon, boddloni Duw ddovydd.  
 Catwg Ddoeth ai Cant.

## 183. NIDIAU ODLEDIGION.

Nid gallu ond nerth i'w arver,  
 Nid da un peth nas cymmerer.  
 Nid doethineb heb ddarwybod,  
 Nid gwybodaeth heb ddangos nôd.  
 Nid dewr ond un â darawo,  
 Nid doeth ond dewr â beidio.  
 Nid addysg heb ddoethineb,  
 Nid callder ond cywirdeb.  
 Nid ymgynnal heb ddarbod,  
 Nid crevydd ond cydwybod.  
 Nid darbod ond cyviawnder,  
 Nid cydwybod ond daionusder.  
 Nid daionusder ond o fwiard,  
 Nid bwriadus ond o gariad.  
 Nid cariad ond uvydddawd rhad,  
 Nid uvydddawd ond i Dduw dovydd dâd.  
 Nid caru Duw ond cadw ei orchymyn,  
 Nid gwir gwir ond ei gredu a'i ganlyn.  
 Catwg Ddoeth ai Cant.

## 184. HARDD BETHAU CATWG DDOETH.

HARDDWCH mâb ei addwynder,  
 Harddwch merch ei gwylder.  
 Harddwch gŵr ei ddoethineb,  
 Harddwch gwraig ei fyddlondeb.  
 Harddwch teulu syberwyd,  
 Hardd ar bob gŵr celydydd.  
 Hardd ar hên ei wybodau,  
 Hardd ar ieuanc glân gampau.  
 Hardd ar vlaenor ystyriaeth,  
 Hardd ar athraw dysgeidiaeth.  
 Harddwch llavar gwâr oslev,  
 Hardd ar bawb byw yn nghartrev.  
 Hardd ar gyvaill cywirdeb,  
 Hardd ar gymodogaeth undeb.  
 Harddwch cerdd ei gwirionedd,  
 Hardd ar ddwyvawl glân vuchedd.  
 Hardd ar arglwydd haelioni,  
 Hardd ar bob dŷn daioni.  
 Hardd ar vrenin cyviawnder,  
 Hardd ar wladwr gwrolder.  
 Harddwch eglwys ei rhiniau,  
 Harddwch llys llês gorddodau.  
 Harddwch gwlad glan arverion,  
 Harddwch cenedyl ei doethion.  
 Harddwch dinas ei moesau,  
 Harddwch dysg gloew ddosparthau.  
 Harddwch dedwydd santeiddrwydd,  
 Hardd ar bob tlawd boddlonrwydd.  
 Harddwch awen ei hasbri,  
 Harddwch pob peth ei deithi.  
 Harddwch doeth ei amynedd,  
 Hardd ar bob hardd tangnevedd.  
 Catwg Ddoeth ai Cant.

## 185. LLENWYDDION CATWG DDOETH.

## 1.

AWENGAR a leinw ei ddeall â gwybodau,  
 Celvydd a leinw ei gov â dosparthau,  
 Anianus â leinw ei chwant a'i serchiadau,  
 Gloddestgar â leinw ei vol â phob moeth-  
 au,  
 Diwyd a leinw ag yd ei ysguboriau.  
 Darbodus â leinw ei gell â chyvreidiau,  
 Haelionus a leinw newynawg â bwydau.  
 Deddvol â leinw ei bwyll â rhinweddau.

## 2.

Drygionus â leinw ei vro ag anvawl pob  
 doethion,  
 Daionus â leinw y bŷd a'i glôd o gylchon.  
 Doeth â leinw ei vryd a phwyll fyddlawn,  
 Tangnevgar â leinw ei vro a deddvolion,  
 Cybydd â leinw ei gist ag aur ddigon,  
 Diawl a leinw ufern â chybyddion.  
 Dedwydd â phob daioni a leinw ei galon,  
 Duw â leinw ei nevodd â dedwyddon.  
 Catwg Ddoeth ai Cant.

## 186. DAMUNEDAU CATWG DDOETH.

1.

BYDDED imi wŷr drygion,  
A phob enaid anghriston,  
Hyd olaith yn elynion.

2.

Na vydded ryngwyv dangnev  
A gelynion brenin nev,  
Ac nas carant ei saint ev.

3.

Nam bydded le bwyv i'm traill,  
Mâb diriaid imi'n gyvaill,  
Addwyn a'u bodd bawb eraill.

4.

Bwyv gâr i bob cynneddvawl,  
Ar wedd sant, canys Duw a'u mawl,  
Boed ev i mi gâr dwyvawl.

5.

O'm cyrch doeth dwyvawl vuchedd,  
Yn mygyr ovwy tangnevedd,  
Bwyv a'i ervyll mal ai gwedd.

6.

Brenin a thad ac athraw,  
Boed imi a'm parch iddaw,  
A vo dwyvawî i'm cyviaw.  
Catwg Ddoeth ai Cant.

## 187. ENGLYNION A GANT CATWG DDOETH.

1.

UN ansawdd lle bo'n lledrad,  
Cudyn gwlan a'r holl ddavad,  
Drwg yw Drwg yn mhob tyviad.

2.

Un achreth ar groen y tân,  
Bid mawr eirias bid bychan,  
Drwg yw drwg yn mhob anian.

3.

Un angeu á ddaw o haint,  
Ai bach ai mawr gwynovaint,  
Drwg yw drwg, drwg yn mhobmaint.

4.

Ni ddawr ai dyfo'n anghlod,  
Ai mawr ai bach y pechod,  
Drwg yw drwg yn mhob travod.

5.

Ni vawr bwys parth argywedd,  
Ai mawr ai bach y caredd,  
Drwg yw drwg yn mhob agwedd.

6.

Na ystyr maint y pechawd,  
Ystyr maint anuvydddawd,  
Dod bob peth ar ei waelawd.  
Catwg Ddoeth ai Cant.

## 188. DEIVREGAWD A GANT CATWG DDOETH.

Ni omedd yr haul ei dês i'r 'ynvyd à boer  
yn ei wyneb,  
Ni omedd Duw nêr ei lês i'r diriaid er  
maint ei gasineb,  
Ni adawodd Duw neb heb nerth à weryd  
o bob folineb,  
Ni ettail Duw dad ei nawdd i'r dedwydd  
à garo doethineb,  
Ni ddianc dros vyth rag cosb y drygwr à  
wna drawsineb,  
Ni ddifyg ond aros y dydd anrhydedd i bob  
gwarineb,  
Ni waeth pan ddêl awr ddiwedd ar ddyn  
ai dyvu'n grocsineb,  
Ni veth ar ai cais oleuni Duw yn eithav  
gloewineb.  
Catwg Ddoeth ai Cant.

## 189. NIDIAU ODLEDIGION.

NID hir y pery yr abwy lle bo llawerodd<sup>1</sup>  
o vrain,  
Nid melus bydd erddigan lle bo gormod-  
edd o sain,  
Nid hawdd yw cysgu'n csmwyth lle bo  
gormodedd o chwain,  
Nid mawr y cerir gorwedd lle bo gormod-  
edd o ddrain,  
Nid hyvryd rhodiaw llwybrau lle bo gor-  
modedd o vain,  
Nid mawr synwyrâu geneth lle gormod o'i  
phrid yn gain,  
Nid mawr moesgarwch llances ni wisg am  
ei thavawd wain,  
Nid call undyn o'i wybod à ddymgais ag  
un o'r rhai'n.  
Catwg Ddoeth ai Cant.

## 190. GWASGAREDD CATWG DDOETH.

1.

DIRIAID á glud i ddedwydd,  
O vorodd ac o vynydd,  
O gwll daiar alavon,  
Ac o eigion avonydd.

2.

Eiry mynydd bydd ar vai,  
Bei canfai bawb ai dyddysgai,  
Ni chefid annysg yn neb rhai.

<sup>1</sup> Gormodedd.

3.

Cain cynwyre gwynt am lwyv,  
Gnawd gwynvyd gwr ei gymwyr,<sup>1</sup>  
Gwae ni chein à vo dawn dwyv.

4.

Ar bob bôd ac ai bob byw,  
Yn mhob rhith ac yn mhob rhyw,  
Gorev tangnev tangnev Duw.

5.

Cyrchid diriaid yn abell,  
Cyrchid doeth ei ystavell,  
Gwae à syrth mefyl o'i avell.<sup>2</sup>

6.

Cyrchid dedwydd ei adail,  
Cyrchid diriaid y dan ddaill,  
Gwae à syrth mefyl o'i gesail.

7.

Gwell enw nôd no nerth unben,  
Gwell dysg no golud cyvrben,  
Gwell awen no dysg cymhen,  
Gwell cydwybod nog awen.

8.

Cais ddedwydd yn ei addeu,  
Cais ddiriaid pob anghartrev,  
Doeth ni ysgar a'i ystrev.

9.

Gnawd i lwrw ei ladd yn fo,  
Gnawd i ddewr ddianc o daro,<sup>3</sup>  
Gnawd i wâs gwych à vyno:

10.

Godidawg wyneb o gâr cu,  
Gyda mynych athrevu,  
Gwae ev ni wêl gâr o'i du.

11.

Ni chyll un dedwydd ei swydd,  
Ni chyll iawn yngais ei lwydd,  
Ni chyll ymbwyll ei amrwydd,

12.

Cyd bo dy lwybr dan wasgawd,  
Ni'th ddyvu pwys pob gosawd,  
Na cherydd a'i dêl anfawd.

13.

Gwilia ba gyrch dy fwriad,  
Iawn i ddoeth wiliaw'n wastad,  
Ni wyl dyn a'i dyddaw'n vrâd.

14.

Gwilia dro dy droed beunydd,  
Anamlwg yt a'th orvydd,  
Gwell angen no chywilydd.

<sup>1</sup> Ai gynnwyr?<sup>2</sup> Ai asell?<sup>3</sup> Wrth daro.

15.

Gwilia verw dy vryd beunoeth,  
Gwell pwyll i ddyn nog aur coeth,  
Gwell angeu no byw annoeth.

16.

Gwilia bwyll dy ben beuawr,  
Anmhwyl o'th bell nid nemawr,  
Gwell bedd no bywyd gwydvawr.

17.

Gwilia'th davawd ac à wnel,  
Ond llavar nid diymgel,  
Pob un á glyw lle nas gwêl.

18.

Gwilia wrth dy Dduw beunydd,  
Na ddifygia di'n dy fydd,  
Gwell no byd buchedd dedwydd.

19.

Tavawd ni chêl ei yni,  
Gwaethav dysg ymdavodi,  
Nid hwyr lle hawdd dirieidi.

20.

Ystyr pob gair a'i ddiwedd,  
Dir tâl i bob amynedd,  
Ac ni thwyll pwyll pen a'i medd.

21.

Yn mhob gwall yn mhob blinder,  
Amynedd a'th vudd lawer,  
Rhag pob clwyv eli amser.

22.

Ystyr a'th vydd o bob tu,<sup>4</sup>  
Na ddidawr naw's o'th neilltu,  
Nid rhy hên neb i ddysgu.

23.

Dod ddarbod à veddylych,  
Ar dy law a'i lwy'r edrych,  
Gwybydd pan cyn y gwnelych.

24.

Dig, bid dawn Duw er cerydd,  
Ac er dangos barn Dovydd,  
Hawdd y diwedd dig dedwydd.

25. 4

Edrych dy gamp a bydd gall,  
Cymmer hyn ar dy ddeall,  
Cas gan ddrwg drwg yn arall.

26.

A golles air am dano,  
Da o gamp á gaid arno,  
A golles nas bu'n eiddo.

27.

Gwna y goreu yn mhob angen,  
O'r peth à vo'n dy berchen,  
Gwell no dim gwasgawd brwynen.

28.

Cymmer à vo'n dy veddiant,  
A thitmwya dy fawrchwant,  
Haws no'u cadw cynnull ariant.

29.

Gwilia gyfroi dy galon,  
Ac nas cefi'n vall i'th vron,  
Gwaeth no chledd cerydd doethion.

30.

Gwybydd droion dy veddwl,  
Yn mhob ainc yn ing arddwl,  
Ni hawdd baid pechawd â chwl.

31.

Yn mhob rhwy, yn mhob rhyvel,  
A welir hawdd ei ochel,  
Nid drwg ond drwg yn ymgel.

32.

Ni mad ddiwedd trythyllwg,  
Cyd nas cafer yn ngolwg,  
Gwaethav gelyn calon ddrwg.

33.

A wnêl ormes o drawsedd,  
A thrais, a thrai tangnevedd,  
Ovned ev na ovno vedd.

34.

A wnêl drwch o'i greulonder,  
Yn ngwlad, a phob difeithder,  
Ovned na ovn ond Duw nêr.

35.

A wnêl anneddyv ar gampau,  
A phob anrhaith, a phob gau,  
Ovned pob diovn angau.

36.

Cynghor á roes mâb Morvryn,  
I arglwydd mawr drwg o ddyn,  
Ovna na ovn un gelyn.

37.

Cynghor á roes Cadeiriaith,  
I ddiriaid á wna'n anrhaith,  
Ovna na ovn ei olaith.

38.

Cynghor gan Vâb Duw á gaid,  
Ac ev o'i bèn ai dywaid,  
Ovner ev à ladd enaid.

Catwg Ddoeth ai Cant.

191. CHWEDLAU Y VRAN.

1.

Brân á gant chwedyl yn nyfryn,  
Wrth chwiliaw am ei gronyn:  
Nid dysg dysg heb ei ddilyn.

2.

Brân à gant chwedyl ar uchder  
Derwen, uch deufwd aber:  
Trech deall no grymusder.

3.

Brân á gant chwedyl yn ngellydd,  
Man y cafi awr lonydd:  
Digon Duw da i ddedwydd.

4:

Brân á gant chwedyl o vrig dêr,  
Man ai clywai yr holl adar:  
Ni chenir cloch i vyddar.

5.

Brân á gant chwedyl gan wawr,  
Wrth ai holai'n ei hattawr:  
Doeth ni threydd nyw ymdawr.

6.

Brân á gant chwedyl yn mlaen traeth,  
Wrth nas gelynt ymarvaeth:  
Nid meddiant ond gwybodaeth.

7.

Brân á gant chwedyl yn nidrain,  
Ac o bell clywid ei sain:  
Gorvydd dewr ar bob dichwain.

8.

Brân á gant yn ngelliau,  
Lle 'ddoedd beilchion yn nadlau:  
Un gyvlwr pawb yn angau.

9.

Brân á gant o vrig gwydd,  
Yn nghlyw holl adar coedydd:  
Doeth á ymdwng á Dovydd.

10.

Brân á gant chwedyl yn nghilvach,  
Wrth à gâed yn nghyveddach:  
Nid pyd ond drwg gyveillach.

11.

Brân á gant chwedyl o vrig òn,  
Wrth adar o gybyddion:  
Tlawd pawb nyw gwel eu digon.



12.

Brân á gant chwedyl yn nifaith,  
Wrth ag oedd ei chydymaith:  
Ys gwynvyd bodd heb obaith.

13.

Brân á gant chwedyl yn gall,  
Wrth nad elynt gan ddeall.  
Gwledd nid gwledd ar barth arall.

14.

Brân á gant chwedyl wrth ei chyw,  
Am ydd elynt yn nghydvyw:  
Pob peth a gar ei gyvryw.

15.

Brân á gant chwedyl gan bwyll:  
Wrth á gafai'n annarbwyll:  
Wrth ddall ni wiu dal canwyll.  
Catwg Ddoeth ai Cant.

*Ac velly tervyna llyvyr cyntav y GWYDDVARDD CYVARWYDD, ac yn canlyn (ar ol Athrawiaeth y BARDD GLAS ac ereill) y mae yr ail llyvyr, a honno gwalystawd y Diarhebion Cymreig yn ddosparthus o lythyr, herwydd trevyn y llythyrenau Cymreig, pob diarheb yn ngwalystawd ei llythyren gyssevin, mal y bai hawdd ei chael; a'r cwbyl wedi ei dynu o'r hen lyfrau doethineb lle 'ddoedd á gant CATWG DDOETH yn nghymysg a phethau ereill cynnotur a'r pethau á geir yma; dan obaith y bydd hyn er lês a chynnydd gwybodaeth a doethineb i'm gwlad a'm cenebyl, y rhov ddiolch a chlod i Dduo am yr ewylllys a'r nerth á gevais gantho i orphen á gymerais mewn llaw.*

THOMAS AB IEVAN.

# ATHRAWIAETH GERAINT VARDD GLAS.

LLYMA GYNGHORION Y BARD DDUW O'R  
GADAIR I BOB GWR DOETH A DDYMU  
RENGU BODD DUW A DYNION YN Y BYD  
YMA AC YN Y BYD ARALL: SEV YDYNT.

- 1 Car dy Dduw yn vwy no dim, canys eve á wyr bob peth, a wêl y sydd yn mhob calon, ac yn mhob cydwybod, ac nid oes dim yn nghudd ragddo, ac ar bob gweithred, a gair, a myvyrdawd, a meddwl, eve a ddod varn gywir a chyviawn.
- 2 Car dy gymodawg yn gymmaint a thi dy hunan, a gwna erddo à ddymunid iddo ev ei wneuthur i tithau; ac o hyny y cai di dy Dduw itti yn gymodawg agos i'th gynnorthwy ar bob achos, yn ddiwyll ac yn ddiadoed.
- 3 Car dy enaid yn vwy no'th dri gelyn, nid amgen y byd, y cnawd, a'r cythraul, canys pa lês ai oddi wrth amgen à garot, os â'th enaid ar goll o'th anghariad tuag atto?
- 4 Car di bawb a'th garo dithau, bid gas genyd à vo'n casau Duw: Duw a eirch it garu'th gymodawg yn ail i'th hunan, Duw ai gorchymyn itti, ac nid car ti i Dduw os tydi na wnei oll o'i orchymynion ev; ac na wrthot ti y neb a'th garo, canys Duw ni wrthyd y neb ai car; eithyr gwrthyd yr hwn na wnelo, yn y bo gallu, val y gwna ev, canys ni char hwnw Dduw, *onis* na gwarthäer ac nas anuvyddäer y neb à garer.
- 5 Whechryw gariad y sydd yn y byd, nid amgen, un yw cariad nevawl, ail yw cariad ufernawl, trydydd, cariad noturiawl, pedwerydd, cariad gorchymynawl, pummed, cariad corforawl, chwechved, cariad gymydawl: sev hyny cariad nevawl, caru Daw a'i saint, a phob santaidd, a phob daioni a daionus, a phob hardd a gweddus, a phob annrygionus; cariad ufernawl yw caru pob pechawd, canys cas yw pechawd gan Dduw er lleied y bo, a gelyn hevyd i ddyw, er bychaned y bo; cariad noturiawl yw i ddyw garu ei

rieni, a'i briawd, a'i blant, a'i vrod-yrdde, a'i genedyl, a'i gymdeithion; cariad gorchymynawl yw i ddyw garu ei dad a'i vam, a'i gymrawd, a'i dad ysbrydawl, a'r estron, a'r tlawd, a'i gymodawg, a'i elyn. Ac yn y cariad hynny y car ev Dduw, canys nid llai no charu a wneir à wneler ei orchymynion yn uvyddäawl; cariad corforawl yw i ddyw garu ei gymhar cyvreithlawn, a'i dda byd hyd y bo cyviawn, a'i eppil, a'i geraint, a'i o genedd ai amgen; cariad ysbrydawl yw i ddyw garu ei enaid ei hunan, ac enaid pob Cristion fyddlawn, a phob daioni, a phob gwirionedd, a phob iawn, a'i Dduw, a'r dyn à garo ymhob cariad yn fyddlawn ys dir y cerir ev gan Dduw; a llwyraff cariad cariad Duw; ac o vodd arall yn ddiarheb, namyn Duw nid oes gariad; ac arall a ddywed, namyn cariad nid oes Duw; ac un arall, namyn cariad nid oes gwynvyd; ac etton, namyn cariad nid oes nev; a namyn cas nid oes gythraul; namyn cas nid oes ufern.

Sev ai dywawd Y Bardd Glas o'r Gadair.

LLYMA EREILL O GYNGHORION Y BARD DDUW O'R  
GADAIR.

NA ddos i'r cyngor na'th elwir iddo yn gyntav, canys divlas gan bob un yr hyn à gynnygir heb ei ovyn.

Arver dy hun ar gampau daionus a channoladwy, canys o hyny y cei vodd Duw a dyn, ac o hir ymarver ag wynt, ys dir y greddvant ynot, val nas gelli amgen no champau à wnant vodd dy gymodawg a bodd dy Dduw.

Bydded itti gyvalleu o wraig briawd gyfreithlawn, val nas whenychot odineb, a mal y gwypot y cariad à ddylyt at briawd a phlant, ac ydd ymarverot ag ev, canys heb ymarver à phob cariad ni elli wybod pob daioni, ac heb wybod daioni o bob rhyw nis gelli ymddarbod yn griston fyddlawn a pherfaith, na gwneuthur

bodd Duw; ac heb vodd Duw nis gelli vnyed i deyrnas nev.

Dysg dy blant ar ddaioni, ac i wybod ac i wneuthur à vo gyviawn a thrugar, ac i ddeall govynion cariad o bob rhyw; canys diarheb á ddywed, gwell i blentyn heb ei eni no heb ddysg, canys am bob daioni à wnelo dyn y mae Duw yn bendithiaw ei dád, a'i vam, a'r sawl ai dysgwys; ac am bob gweithred ddrwg à wnelo, y mae Duw yn melldithiaw ei ei dád a'i vam, ac a'i dysgwys, am vagu tivedd a dyn heb ddysg; a phob daioni à wnelo ddyn, o ddysg y gwna ev hwynt; a phob drwg à wnelo, difyg dysg yr achos; ac eithyr dysg nis gellir daioni, val y dywed diarhebydd, a phynag heb ddysg à wneler yn dwyn rhith daioni o ansawdd anivel y daw, yr hwn ni w'yr na drwg na da, achos hyny nis dylit yn dâl iddo.

Na vnycha oddigartrev, canys yn nghartrev pob un y mae ei ddyn a'i dda; a diarhebon á ddywedant, gormes pob anghartrev, a goreu trev yw cartrev; a gwedi treiglaw pob trev hawddvyd i gartrev; ac medd ereill, cais ddedwydd yn ei gartrev; ac elwaith cais ddoeth yn ei dyddyn; ac etton, cais annoeth yn mhob man eithyr yn ngartrev; a hevyd, cais ddiriaid ni wyddys yn mha le; ac arall, na dyn na da ni lwyddant i anghartrevawg; ac arall hevyd á ddywed, na charo ei gartrev yn y byd hyn, ni cheif gartrev yn y byd á ddaw; ac arall, ni charo ei drev ni cheif y nev; canys o gartrevogion y ceir gwlad a chenedyl, ac o anghartrevogion, herwyr, a divrawd, a gormes, ac ymdrin, ac arverion gwyddelig.

Na ddyro echwyn heb edrych i bwy: os i ddyn cywir ti á gai dripheth, nid amgen, clód, a chariad yr anghenus, a'th vendithiaw i'th drachevyn fordd y clywer am danat; ac o hyny cariad dy wlad a diolch tragwyddawl gan Dduw: os i anghywir, ti á gai dripheth arall, nid amgen, cóst, a blinder, a digovaint am eu ceisiau, heb itti ronyn o ddiolch gan na Duw na d'yn.

Bydd gywir i'th arglwydd cyvoeth, ac na ddos gantho yn à vyno cyn y gwypot ai iawn ai amgen y bo; dos yn ei gyviawnder, ac na ddos yn ei ymdrin lle na bo govynion gwlad, ac na ddos yn gartrevawg yn nghyvoeth brenin amgen, lle na bo cwyn gormes, a lle bo dos yn nghyngor dy wlad a'th genedyl, hyd y bo'th gymrawd; canys diarheb á ddywed,

gweddw barn un, cadarn barn llawer; a threch gwlad nog arglwydd; a'r cyviawn á geif ei le; a'r gwir á ddaw'n wir; ac un arall, tég a ddaw'n dég yn y diwedd.

Trin dy dir, ac na thrin dir arall yn llôg. Saved pob un ar ei draed ei hunan, val y mae diarheb, na vydd ormes ar neb am à vo'th raid, lle na bot hên a than dy nam; a diarheb arall a ddywed, Duw a gâr à garo ei hunan, ac nis câr ei hunan nas caro yr iawn. Covia ddiarheb arall, goreu cyvlog gwás à vo gwás iddo ei hunan. Gwybydd dri pheth, gwneuthur dy d'ý, dy arad, a dy lyvyr: a'r neb na wypo y tripheth hyn, ni wybydd ei raid o gelvyddyddau gwlad. Na vydd ddiawg, hedyn pob drwg yw diogi: nid tlawd ond diawg; nid goludawg ond diwyd; nid rheithgar ond gweithgar; nid doeth na vo doeth drosto ei hunan; nid call ond call er ei lês ei hunan: llês hunan llês gwlad, llês gwlad llês byd.

Na'th weler mewn un drwg, ac nag aros lle bytho; bid arnat vraw ac ymswyn ei weled, a chlywed am dano. O myni wybod mesurlath drwg, ti ai gwybyddi wrth à vnyit ac wrth nas mynit i arall wneuthur itti: yn hyny hevyd y cefi vesurlath daioni; a llyna briv bwnc gwybodaeth à ddodes Crist yn addysg i bob criston, ac ai dodes yn brivorchymyn.

Na watwar neb, na dyn clâv, na dolurus, na dyn clôf, nac à vo dall, na byddar, na hagyar, nac à vo dan un nam corforawl, nac à vo difyg synwyr arno, nac à vo dlawd, nac à vo anverth a drwg ei gampau, na neb oblegid bai ac anav à vo arno; eithyr cysura di y clav a'r dolurus, a'r anavus, a'r clwyvus, ac à vo vlinderus, a phortha y tlawd, a chynnorthwya y gwân, a dod addysg ar y drwg ac anverth ei gamp, a dangos iddo dy gyngor, a rhybuddia ef yn hybwyll, ac na watwar neb o'r rhai à ddangosed, canys gnawd yw i'r neb ai gwnel syrthiaw yn yr unrhyw, naill ai yn y byd hwn ai yn y byd tragwyddawl.

Na ryarver à gormodd ymgvveilliaw á neb ryw o ddyn; canys goreu gan bob dyn ei hunan, ac ni châr ev ryhir ymgrych ag ev; canys o hyny ni vydd iddo ev ei hunan, modd y bo gorhof gantho; a divlas y bydd ar ba bynag o ddyn, na vo hamdden iddo herwydd à garai, ac à ddymunai; ac ni hir gâr ev y neb nas gedy yn ei ansawdd, ac nid rhyw i neb eithyr ei ansawdd; mal y mae diarheb,

a diarheb arall, nid dwyn oddiar neb ond ei ddwyn oddiarno ei hunan; nid lledrad ond oddiar à vo serch; nid anrhaith ond divuddiaid i wr ei hunan; ac etton, nid rhwym ond rhwymaw awen; ac arall, nid anghyvaill ond rhygyvaill; nid yspail ond yspeiliaw amser.

Gochel dramwy gormodd i davarn, canys tripheth a geif dyn o'i hir ddilyn; nid amgen, colled da byd, colled iechyd corf, a cholled enaid, ac o'r tricholl, colli Duw a'i saint.

Gochel drwg-wragedd, canys nis gellir llês oddiwrthynt, eithyr y mawr avles. Tri enw y sydd ar wraig ddrwg, nid amgen, porth ufern, rhwyd y cythreuliaid, a'r gwenwyn melus; a diarheb arall à ddywed, gwraig ddrwg yw y drycav o bob drwg, a gwraig ddrwg yw y llwybyr i bob drwg arall; ac o ddal pwyll ar à welir yn mynd, odid o vil un drwg nad gwraig ddrwg a vu yn achos iddo, y naill ai o gynhyrviad ai o gynnaliad: bys ymhob drwg yw gwraig ddrwg.

Na vavr ogana ddyun canmoledig er maint à vo dy gás arno, ac er maint y bo ei gas ev arnat ti; canys ni choelir ei gas ar neb; val y mae diarheb, ac arall, cas ni ddywed à vo gwir ar ei gas; ac arall, ni choelir neb ar ei gas; ac arall, ni chydvydd cas a gwirionedd.

Na vavr ganmola ddyun goganedig, er maint y bo dy gariad arno; canys ni chredir y dyn hyn yn erbyn llawer o ddyun; canys à ddyweto bob un gwir yw; ac arall o ddiaheb, ni ellir camsyniad ar bawb; ac arall, celwydd o ben un, gwir o benau pawb.

Na haedd velltithion dynion y ddaiar; canys Crist ei hun a ddywed, à velltigr ar y ddaiar, minnau ai melltigav yn y nêv, hyd pan ddelynt i'r iawn, nid amgen treiswyr, a lladron, a chyhuddwyr, ac anudonwyr, a godinebwyr, a murnwyr, a chybyddion, ac nas parchont y suliau, a meddwon, a gloddestwyr, a'r diawg, a'r llidiawg, a'r twyllwyr o bob rhyw, a'r athrodwyr, a'r cynhenogion, a'r beilchion, a phob trahâus; canys Duw nis gad yn rhydd yn y nêv à vont ar y drygau hyny, ac nis gellir yn y nêv amgen no bodd Duw.

Na ymddiried yn ormodd i olud bydawl; canys tripheth nis gellir craf a gavael arnynt, amser, gwynt, a golud bydawl; canys nid golud trysor nas travoder, ac à dravoder ni wyddys ei helynt, ai yn ei ôl, ai amgen y daw.

No vostia yd ddim, canys nid oes itti na

byd, na iechyd, na chyvoeth, na gallu o'r byd, ond benthg anniogel, ac am hyny cam y dywedi di vod itti veddiant ar y peth à ellir ei ddwyn rhagod pan y mynir gan Dduw.

Cydneydd di dy hun, achos tri goruchavion doethineb y rhoddes Duw i ddŷn, nid amgen, adnabod ei Dduw ai gwnaeth, adnabod ei hun, sev o galon a deall a chydwybod, ac adnabod ei dda ei hun oddiwrth dda arall, ac à vo da iddo ei hun yn amgen nog à vo da i arall, ac o'r gwybodau hyn y mae doethineb.

Na chrêd yn ormodd gyhudded dy wraig ar neb; gnawd yw i'r wraig ethrawd y y neb à vo ei gwr yn ei garu vwyav; canys ni char gwraig à garo ei gŵr, nag à garo ev; a lle bo hael y gŵr, gnawd y wraig yn anhael; canys tripheth ni châr gwraig, cariad ei gŵr at arall, gwybod o'i gŵr à wnelo hi, a dangos cyvrinach.

Gwna ddaioni a'th olud bydawl tra bych yn meddu arnynt, val y bo it dal a gobrwy erbyn y pan elych yn maes o'th veddiant, val y dywaid Io oludawg, "Dyro tau tra vo tau, wedi tau nid ti a biau," canys nid tlawd tragwyddawl ond cybydd chwanawg, canys ni chymmer hwnw hanner digon yn y byd yma, ni cheif yntau ddim yn y byd arall pan el oddyma. Rhodd i dlawd rhodd i Grist, ac eve ai tal itti ddydd brawd; val y mae diarheb, à roddir i dlawd a delir dydd brawd.

Mogel pan voch ddedwydd rhag syrthiaw yn niriiedi, canys gwrthwyneb yw gweled dedwydd yn myned yn ddiriaid, val y dywaid y ddiaheb, pa dyna y llinyn cyntav y tyr; a hof gweled diriad yn myned yn ddedwydd, neu bechadur yn myned yn santaid, neu gybydd yn myned yn hael, neu ynvyd yn myned yn ddoeth, neu valch yn myned yn war, neu wyddelig yn myned yn addwyn; a diarheb arall, nid gwaradwydd ymwella; nid gogoniant ymwaethu; a diarheb arall, gorau gorchwyl ymwella, gwaeth no phob gwaethav ymwaethu.

Dod mawr ddiolch i Dduw beth bynag y rhotho ev itti; canys am dri achos dyledig dyn i ddiolch i Dduw ei roddion: cyntav, nid yw Duw dan ddyled i neb, a phawb dan ei ddyled ev; ail yw, ni ellir cymhell arno roddi ond à vno ev ei hun y rhydd; trydydd, ni ddyry Duw i neb ond à vo er llês iddo, ai golud ai tloidi y bytho; ac am hyny, iawn yw rhoi diolch i Dduw am beth bynag y rhotho: ac ni rydd y cythraul dda i neb

ond er drwg iddo; a phob golud cybydd, a phob mawredd beilchion, a phob cafael o dwyll, a phob elwch gloddest, a meddwdawd, a godineb, cythraul a'u rhydd er dinystyr i enaid dyn. Canys nid o Dduw y daw i neb o ddyndd à vo er avles, nac iddo ei hun nac i arall. Rhodd Duw i ddedwydd rhodd i bawb, rhodd diawl i ddiriaid nid rhodd i neb; eithyr addawd à ddrwg oddiar ai rhothor yn ngavael ac oddiar oll à wnelo a hi ac ai perthyn.

Parcha bawb, a phawb a'th barchant dithau; ac yn enwedig rho barch i'r neb à vo gwell no thi ger bron Duw, a Duw a'th barch dithau. Parcha bawb à vo'th well ger bron dyn rhag cael cas ac anmharch oddiwrtho; parch y neb à vo is no thi, er cael clôd gan ddynion a gobrwy gan Dduw, canys Duw ei hun a ddywaid, lle hytho cariad perfaith rhwng dau y byddai yntau yn drydydd.

Car di'th dygystal er cael ei vodd a'i gymdeithas, ac or gwnai di velly, ti a gai garedigrwydd a gair da gan bawb; car na vo'th dygystal er boddau Duw, a chael bendith y neb cyryw à garot; a lle rhotho dlawd ei vendith Duw ai rhy hevyd, ac a ry atto yn gadarn a thra mesur hyd nas gellir na hyd na lled arno; car hevyd dy well, a diogelwch a gai yn dy wlad a'th gvvystred; ac y mae dydd yn aros y goreu ac ys dir y daw, y bydd da iddo gariad ei waeth ac à vo'i oris, ac yna eve a'th gymmer yn oddygystal ag eve ei hunan: sev o garu pob rhyw; ev a'th gerir dithau gan bob rhyw, ac o gael cariad pob rhyw y daw itti glôd, a pharch ac ynnill, a chydwybod lân ac ymadverthwch Duw.

Na vydd lidiawg, na balch, nac ystyvnig, na diriaid, gnawd drwg ddiwedd i à vont velly; ond bydd di addwyn, a gwar, a mwyn, a charedig, a maddengar, canys gnawd yw i à vo velly gael goruchafiaeth, val y dywed Crist, "dyodd-evus a orvydd ar bob peth," a llid ysydd vab i valchedd, a balchedd yn vab i ddiawl, a gwrthwyneb i Dduw, a gelyn dyn, ac eginyn pob drygioni, ac nis gellir a gymmaint ei ddrwg yn y byd a balchedd: nid oes ond y drwg o bob rhyw herwydd y bo-achos iddo, ac ai cynnail, ac nid llai iddo ei waith no chynnal pob drwg, anhebgor iddo hyny o gyvynwaith ag ai cynnail yn ei ansawdd.

Na sôra wrth Dduw er bychaned o'i dda bydawl à rotho ev itti yn y byd hwn;

canys po leiaf vo y meddiant lleiaf vydd y cyvtriv, a pho leiaf vo y cyvtriv lleiaf vydd y goval, a pho leiaf y goval, mwyav vydd y llawenydd; canys pan vo raid itti atdeb am bob gwerth ás ar à vu ar dy helw erioed, pa vodd y cevaist, ai yn ddrwg ai yn dda, yna y gelli ddywedyd mae gwyn ei vyd yr hwn à vu leiaf iddo o dda byd, ac y gweli'n oreu ar y neb à vu leiaf ei veddiant yn y byd yma, lle nas gosodes ev a vu o dda bydawl ar dda, ac er llês y neb na chawsant gan Dduw ond y bychandawd a'r tlodi. Yna y dychon dyn ddywedyd mae gwae ev pan aned, pan fo y cyvtriv yn vawr, ar llaw yn ddiiddim; y varn yn agos, a'r brawdwr yn gyviawn, a'r holwr yn llwyr, gan wybod y cyvan, a'r gydwybod yn euawg, a'r carchar yn barawd; ac yna y gwelir yn amlwg mae goreu yw i ddyndd y maint à ddanvono Duw iddo yn ddi-bechawd, ac nid à ddymunai y corf ei gael, ac à vynai y trachwant yn ei avael; canys pwy bynag à ddilyno ei wylls, a chwant y corf, yn y byd yma, ve gyll gwyllys yr enaid yn y byd arall; canys à lavurio yn gwir, ac à gymedrola yn hybwyll, ac a drugarao 'n haelionus, ac à weddio yn deilwng, ac à vucheddo yn gyviawn, ac à vo mewn cariad perfaith, ev a ddenvyn Duw iddo ai gwasanaetho yn y byd yma yn ddi-bechawd, ac a rydd iddo wnyvyd a golud tragwyddawl yn y byd à ddaw: a phoed gwir hyny gan bawb yn y byd yma.

A phoed velly y bo.

Sev y Bardd Glas o'r gadair ai dywed.

LLYMA DDEWISBETHAU Y BARDD GLAS  
O'R GADAIR.

BORE tawelgain,  
Ac adar cydsain;  
A meillion yn vrith,  
Gan ddevni byrwlith;  
Digwmwl wybren,  
A maeslawr addien;  
A gwaawrgan hedydd,  
A mwyalch ar wydd;  
Crechwengerdd eos,  
O gilgoed agos;  
Crychnant raianllawr,  
Blodeuawg ambawr;  
Llaverydd adar,  
Hin heulaidd glaiar;  
Iachusber wybyr,  
A charw ar frith lwybyr;  
Cydgerdd bytheiaid,  
Llais wyna devaid;

Cyweirben delyn,  
 Nwyvuser ynglyn;  
 Caniadaeth traserch,  
 O berrin gwenverch;  
 Medrusverch lawen,  
 Frwythlonder awen;  
 Glaslwyn caruaid,  
 Geiriau serchogaidd;  
 Cyveillach addwyn,  
 Gweled camp dryllwyn;  
 Hen vedd blasuser,  
 Cynneddawl vwynder;  
 Rhian dlos berfaith,  
 A doethgain arait;  
 Llwybrvrys cynnevin,  
 Celu pob cyfrin;  
 Mwythusber gilwg,  
 Serch heb drythyllwg;  
 Cusanu gwenverch,  
 Ar lawr g'âs lanerch;  
 Llatai cywirgall,  
 Cyvaill da'i ddeall;  
 Parabyl caredig,  
 Casâu hên eiddig;  
 Rhodle dirgelvan,  
 I garu meingan;  
 Caru a'm caro,  
 Call a'm cynghoro;  
 Cartre'u'n ael nant,  
 Sychbridd areulbant;  
 Ty bychan cynhes,  
 Gerwyneb gwyndes;  
 Llyvyr doeth awenbwyll,  
 Deallus gymhwyll;  
 Govwy prydyddion,  
 Groesawu doethion;  
 Cynnadledd cerddau,  
 Cywreiner chwedlau;  
 Cael vy nghyveillon,  
 O bryfwnt beirddion;  
 Cael vy nghariadverch,  
 Yn rhwymau traserch;  
 Ac o'i chael bun gu,  
 I'm byw ei chelu.

Y Bardd glâs o'r Gadair ai Cant.

CASDDYNION Y BARDD GLAS O'R GADAIR.

- 1 DYN heb grevydd a rhinwedd dda.
- 2 Mâb heb ddysg a chelvyddyd.
- 3 Merch neu wraig heb gywilydd.
- 4 Gwâs heb ovn ac uvydddau.
- 5 Tylawd rhyvalch.
- 6 Balch ar ei gampau drwg.
- 7 A ymfrostia'n à vo cywilydd iddo.
- 8 Cyvoethawg o ledrad a gormes.
- 9 Bardd annivyr annevodus.
- 10 Esgob heb wybodau daionus.
- 11 Gwr na charo ei garennnydd.
- 12 Plwyv heb ofeiriad.

- 13 Oerwr digydwbybod.
- 14 Brenin cribddeilgar.
- 15 Brawdwr heb gyviawnder trugarawg.
- 16 Doeth heb weithredoedd da.
- 17 A chwârdd am ben pob peth heb ystyr-  
iaw paham.
- 18 A froma'n ddiachos.
- 19 A gavas ddysg heb ymwella'u'n ei  
fywyd.
- 20 Ni welwys ac ni vyn weled.
- 21 Cadarn yn erbyn pob ymbwyll.
- 22 Ovnus ymhob peth.
- 23 Celwyddawg cynneddawl.
- 24 A ddywed i'e gyda phob un.
- 25 A ddadyl yn erbyn pob un.
- 26 A ddywed ei veddwl lle nas ceisier.
- 27 A ery'n ôl ymhob rhwystri.
- 28 Athrodwr cynnwynawl.
- 29 Gweneithlwr wrth bawb.
- 30 A garo drin ac ymladd heb achos.  
Y Bardd Glâs o'r Gadair ai dywed.

ABER i longau,  
 Ysgol i lyvrau,  
 Tolvordd i lwau,  
 Gorsedd i ddadlau,  
 Melin i gydau,  
 Llys i seigiau,  
 Marchnad i gyvnewidiau,  
 Arwyl i weddïau,  
 Neithior i gerddau,  
 Cadlas i warëau,  
 Deall i wybodau,  
 Cydwybod i rinweddau.  
 Y Bardd Glâs o'r Gadair ai Cant.

GORDDODAU.

PERCHI gwr er ei vawed,  
 Prynu bwyd er ei brieded,  
 Eiriach llyn er ei iached,  
 Treulo yr aur er ei gysdled,  
 Ovnî clâv er ei lesged,  
 Cosbi y corf er ei vryted,<sup>1</sup>  
 Cablu y byd er ei gryved,  
 Aru y tîr er ei leied,  
 Cau y buarth er ei gwaced,  
 Eryln taith er ei meithed,  
 Gorphen gwaith er anhawsed,  
 Ymlid gâl er ei ddewred,  
 Rhoi elusen er ei thloted,  
 Gwnenthur iawn er ei doded,  
 Arvold tlawd er ei waelod,  
 Caru y gwir er ai cydred,  
 Gochel diawl rhag ei ddrwyed,  
 Caru Duw gan ei ddâied.

Y Bardd Glâs o'r Gadair ai Cant.

LLAWER cryv drwg ei arlaith,<sup>2</sup>

<sup>1</sup> Vrynted. Ll. ar.

<sup>2</sup> Artaith. Ll. ar.

Llawer gwan da ei araith.  
 Llawer gwir drwg ei wedyd,  
 Llawer doeth dwys ei advyd.  
 Llawer tég drwg ei ddeunydd,  
 Llawer hagr hygar y bydd,  
 Llawer tlawd mât<sup>1</sup> ei vuchedd,  
 Llawer berthawg drwg ymarwedd.  
 Llawer llên drwg ei wyddor,  
 Llawer mul mât ei gynghor,  
 Llawer diriaid ar ei varch,  
 Llawer dedwydd mewn dir anmharch.  
 Llawer cam yn dwyn enw barn,  
 Llawer cyfiawnder dan draed yn sarn.  
 Y Bardd Glâs o'r Gadair ai Cant.

ADVYD á rydd addysg,  
 Addysg á bair gwybodaeth,  
 Gwybodaeth á ddyry ddoethineb,  
 Doethineb á gais ddaioni,  
 Daioni á dry'n ddwyvoldeb,  
 Dwyvoldeb á gyrch wynvydoldeb.  
 Y Bardd Glâs o'r Gadair ai Cant.

ATHRONDDYSG Y BARDD GLAS O'R  
 GADAIR.

YN y talcen y mae y deall,  
 Yn y gwegil y mae y côv,  
 Yn y iâd y mae y dosparth,  
 Yn y deall, a'r cov, a'r dosparth, yn un, y  
 mae y pwyll,  
 Yn yr ysgyvaint y mae yr anadyl,  
 Yn y ddwyvron y mae y chwant,  
 Yn yr avu y mae y gwrês,  
 Yn y gwythi y mae y gwaed,  
 Yn y bustyl y mae y digofaint,  
 Yn y dduwg y mae y llawenydd,  
 Yn y galon y mae y cariad,  
 Yn y rhai hyn i gyd y mae y serch,  
 Yn y serch y mae yr enaid,  
 Yn yr enaid y mae y meddwl,  
 Yn y meddwl y mae y fydd,  
 Yn y fydd y mae Mâb Duw,  
 Ym Mâb Duw y mae y bywyd didranc,  
 Yn mywyd didranc y mae y gwynvyd.

Anorphen, a gwyn ei vyd à wnelo yn  
 iawn a'r ynïau à ddodes Duw ynddo,  
 er cyrhaeddyd gwynvyd anorphen hyd  
 vyth bythoedd. Amen.

Y Bardd Glâs o'r Gadair ai dywed.

SAITH DEUNYDD DYN.

- 1 DAIAR, ac o hano y mae y corf.
- 2 DWR, ac o hano y mae y gwaed a'r  
llynor.
- 3 Haul, ac o hano y mae y gwrês a'r  
goleuni.
- 4 AWYR, ac o hano y mae yr anadyl a'r  
ymmod.

<sup>1</sup> Da. LL. ar.

- 5 Nwyvre, ac o hano y mae y teimlad a'r  
serch.
- 6 Ysbryd glân, ac o hano y mae y pwyll  
a'r deall.
- 7 Duw, ac o hano y mae y bywyd tragyw-  
ydd.  
Y Bardd Glâs o'r Gadair ai dywed.

LLYMA SAITH GYNNEVNYDDION BYD.

- 1 CYNNAV, daiar, ac o hano pob corf a  
chaled, a phob saw cadarn.
- 2 Ail, dwr, ac o hano pob llyn ac îr.
- 3 Trydydd, awyr, ac o hano pob anadyl  
ac ymmod.
- 4 Pedwerydd, haul, ac o hano pob gwrês  
a goleuni.
- 5 Pummed, nwyvre, ac o hano pob teimlad,  
a serch ac ymwyv.
- 6 Chweched, ysbryd glân, ac o hano pob  
deall, a phwyll, ac awen, a gwybodau.
- 7 Seithved, Duw, ac o hano pob bywyd,  
a chadernyd, a chynnal hyd vyth  
bythodd.

Ac o'r saith cynnevyddion y mae pob  
bôd a byw: a phoed ar drevyn Duw  
y cyvan oll. Amen.

Y Bardd Glâs o'r Gadair ai dywed.

SAITH RHODDION YR YSBRYD GLAN.

- 1 DEALL, yn yr enaid, i ryndu.
- 2 Pwyll, i ddosparthu.
- 3 Synwyrâu, i weithredu,
- 4 Nerthodd corforawl, i allu.
- 5 Cariad, i serchu y da, a chasâu y drwg.
- 6 Awen, i ddychymyg a myvriaw gwyb-  
odau.
- 7 Cydwylbod, i varnu ar bob daioni a  
drygioni: ac o'r rhai hyn y tardd pob  
gwybodau a chelyd lyd, a phot lla-  
wenydd, a dyddanwech, a gwynvyd.  
Y Bardd Glâs o'r Gadair ai dywed.

LLYMA YR UN PETH YN AMGEN O DDOS-  
PARTH.

- 1 DEALL, yn y meddwl, yn rhynu.
- 2 Pwyll, yn y deall, yn dosparthu.
- 3 Gwybodau, o bwyll, yn arail barn.
- 4 Nerthodd corforawl, yn gweithredu yn  
ol y bo barn.
- 5 Serch, o nerthodd synwyrâu, yn caru yr  
iawn, ac yn casâu y cam.
- 6 Cynneddvau daionus, yn dyvod o wneuth-  
ur à vo iawn, herwydd barn o bwyll a  
deall, a herwydd serch corforawl.
- 7 Cydwylbod, yn trevnu rhag myned ar  
gam yn à wneler, ac o hyn y bydd  
boddâu Duw, ac ymgynnal yn ei ys-  
bryd ev.

Y Bardd Glâs o'r Gadair ai dywed.

## ARALL.

O RYNIAD y pen y tardd y pwyll,  
 O ymdawr y pwyll y tardd yr ystyr,  
 O dravodion yr ystyr y tardd y deall,  
 O dravodion y deall y tardd y meddwl,  
 O gadernyd y meddwl y tardd gwylllys,  
 O chwantau yr wyllys y tardd yr ymgais.  
 O arverion yr ymgais y tardd y prawv,  
 O graf y prawv y tardd y gwybodau,  
 O ganvod y gwybodau y tardd y serch,  
 O irder y serch y tardd y cariad,  
 O ansawdd cariad y tardd pob daioni.  
 Y Bardd Glâs o'r Gadair ai dywed.

## ARALL.

O YNIAU y corf y tardd y synwyrâu,  
 O ynïau yr enaid y tardd y pwyll,  
 O brawv pwyll a synwyrâu y tardd y deall,  
 O lavur y deall y tardd y gwybodau,  
 O nwyv y galon y tardd yr awen,  
 O ansawdd yr awen y tardd y serch,  
 O ymddwyn y serch y tardd yr athrylith,  
 O ansawdd yr athrylith y tardd y cyn-  
 neddvau,  
 O ddarwain y cynneddvau y tardd y camp-  
 au,  
 O afaith y campau y tardd pob drwg a da,  
 O ystyr pob afaith y tardd barn.  
 O ddysbwyll barn y tardd y gwybodau,  
 O gynghor gwybodau y tardd cydwybod,  
 O gydwybod y tardd y dyledau,  
 O wneuthur à vo dyled y boddëir Duw,  
 O voddâu Duw y ceir gwynvyd tragywydd.  
 Y Bardd Glâs o'r Gadair ai dywed.

## 'ARALL.

O DDIRDER angen y daw yr ystyr,  
 O'r ystyr y daw y pwyll,  
 O'r pwyll y daw y deall,  
 O'r deall y daw y meddwl,  
 O'r meddwl y daw y serch,  
 O'r serch y daw yr awen,  
 O'r awen y daw yr ymgais,  
 O'r ymgais y daw y gwybodau,  
 O'r gwybodau y daw y barn,  
 O'r barn y daw cydwybod,  
 O'r cydwybod y daw y dewis,  
 O'r dewis y daw y weithred,  
 O'r weithred y daw pob drwg a da.  
 Bardd Glâs y Gadair ai Cant.

## 'EREILL.

NID gŵr heb ddysg,  
 Nid dysg heb ddawn,  
 Nid dawn heb awen,  
 Nid awen heb serch,  
 Nid serch heb ymgais,  
 Nid ymgais heb lwydd,

Nid llwydd ond o ddaioni,  
 Nid daioni ond cyviawn,  
 Nid cyviawn ond cariad,  
 Nid cariad ond uvyddawd,  
 Nid uvyddawd ond i Dduw.  
 Bardd Glâs y Gadair ai dywed.<sup>1</sup>

O MYNI gadw dy vudd cadw dy gartrev,  
 O myni gadw dy gartrev cadw dy vrait,  
 O myni gadw dy vrait cadw dy vro,  
 O myni gadw dy vro cadw dy dda,  
 O myni gadw dy dda cadw dy ddwrn,  
 O myni gadw dy ddwrn cadw dy wyneb,  
 O myni gadw dy wyneb cadw dy air,  
 O myni gadw dy air cadw dy gôv,  
 O myni gadw dy gôv cadw dy bwyll,  
 O myni gadw dy bwyll cadw dy awen,  
 O myni gadw dy awen cadw dy gydwybod,  
 O myni gadw dy gydwybod cadw gorchy-  
 mynion Duw, ac o gadw y rhai hyny, ti  
 à gedwi y cyfan.

Y Bardd Glâs o'r Gadair ai Cant.

GOLUDAWG pob gweithgar,  
 Doeth pob pwyllgar,  
 Llwyddiannus pob ymgeisgar,  
 Hybarch pob cariadgar,  
 Diogel pob tangnevgar,  
 Call pob ystyrgar,  
 Addwyn pob meddylgar,  
 Dysgedig pob awengar,  
 Awenaid pob aniangar,  
 Dihavarch pob celvyddgar,  
 Cadarn pob gwybodgar,  
 Gwybodus pob cerddgar,  
 Cerddolion pob cydwybodgar,  
 Cydwybodgar pob dwyvawl,  
 Dwyvawl pob ambwyllgar.

Y Bardd Glâs o'r Gadair ai Cant.

## BEILCHION Y BARDD GLAS O'R GADAIR.

BALCH geivyr ar y rhew,  
 Balch hwyaid ar y gwlaw,  
 Balch hedydd ar y tês,  
 Balch mychiad ar wynt,  
 Balch costog ar ei domen,  
 Balch baw ar bèn pren,  
 Balch Sais ar ei anrhaith,  
 Balch Cymro ar ei wlad.

Y Bardd Glâs o'r Gadair ai dywed.

HOF pob newydd,  
 Diddestyl pob hên,  
 Rhyvedd pob anghynnevin,  
 Doeth pob dieithyr,  
 Call pob hyfordd,  
 Dall pob anghyvarwydd,  
 Rhwydd pob parawd,  
 Da pob gwellâd,

<sup>1</sup> Gwel Llyyrr Catwg.



Mawr pob daioni,  
 Hawdd pob galledig,  
 Hylaw pob medyr,  
 Cryv pob gwybodus,  
 Gwân pob anallu,  
 Nerth pob gallu,  
 Hardd pob trevnus,  
 Llwyddus pob diwydrwydd,  
 Braint pob gwybodaeth,  
 Cyvoeth pob creft,  
 Moliannus pob ymgais,  
 Digon pob boddlondeb,  
 Diogel pob dedwydd,  
 Cadarn pob cyviawn,  
 Llawen pob serchawg,  
 Hygar pob awenaidd,  
 Nwyvus pob gobaith,  
 Glew pob dwyvawl.

Y Bardd Glâs o'r Gadair ai dywed.

LLYMA GYVORDDODAU Y BARDD GLAS O'R  
 GADAIR.

1.

Gair á bair iaith,  
 Iaith á bair ddangos,  
 Dangos á bair ystyr,  
 Ystyr á bair addysg,  
 Addysg á bair ymbwyll,  
 Ymbwyll á bair ddeall,  
 Deall á bair wybod,  
 Gwybod á bair ymgais,  
 Ymgais á bair gallu,  
 Gallu á bair gwyllys,  
 Gwyllys á bair gwneuthur,  
 Gwneuthur á bair celvyddydd,  
 Celvyddydd á bair dosparth,  
 Dosparth á bair iawn ar bob peth,  
 Iawn ar bob peth a bair bodd Duw,  
 Bodd Duw á bair bywyd tragywydd.  
 Nid bywyd ond iawn ar bob peth,  
 Nid iawn yn mhob peth ond bywyd,  
 Nid bywyd o iawn ar bob peth ond yn  
 Nuw,  
 Nid byw ond à vo iawn ymhob peth,  
 Nid byw ond à vytho yn Nuw,  
 Nid yn Nuw ond à vo iawn yn mhob  
 peth,  
 Nid yn nechreu ond gair Duw,  
 Nid yn niwedd ond yn Nuw.

2.

Gair á wna iaith,  
 Iaith á ddengys,  
 Dangos á bair ystyr,  
 Ystyr á ddysg,  
 Dysg á bwyll,  
 Pwyll á ddeall,  
 Deall á wybydd,

Gwybod á ymgais,  
 Ymgais á eill,  
 Gallu á wyllys,  
 Gwyllys á wna,  
 Gwneuthur á gelvydd,  
 Celvydd á ddsparth,  
 Dosparth á wna iawn,  
 Iawn á à yn vywyd,  
 Bywyd bôd yn Nuw,  
 Bôd yn Nuw bôd á byw tragywydd,  
 Byw tragywydd bôd yn Nuw,  
 Bôd yn Nuw bôd yn iawn,  
 Bôd yn iawn bôd yn nosparth,  
 Bôd yn nosparth bôd yn nghelvydd,  
 Bôd yn nghelvyddydd bôd yn ngweithred,  
 Bôd yn ngweithred bôd yn ngwyllys,  
 Bôd yn ngwyllys bôd yn ngallu,  
 Bôd yn ngallu bôd yn ymgais,  
 Bôd yn ymgais bôd yn ngwybod,  
 Bôd yn ngwybod bôd yn neall,  
 Bôd yn neall bôd yn mhwyll,  
 Bôd yn mhwyll bôd yn nysg,  
 Bôd yn nysg bôd yn ystyr,  
 Bôd yn ystyr bôd yn nangos,  
 Bôd yn nangos wrth à levair,  
 Bôd wrth à levair bôd ar air cyviawn,  
 Bôd gair yn gyviawn bôd wrth wir,  
 Bôd wrth wir bôd yn Nuw.

3.

Gair cyviawn gwir,  
 Gair anghyviawn celwydd,  
 Nid gwir cadarn ond gair cyviawn,  
 Nid celwydd cadarn ond gair anghyviawn,  
 Nid cadarn ar bob cadarn ond gwir,  
 Nid gwir cadarn heb ei wybod,  
 Nid gwybod ond o'i ddangos yn gyviawn,  
 Nid dangos cyviawn ar wir ond o iaith  
 gyviawn.  
 Nid celwydd ond iaith anghyviawn.

4.

Nid cyviawn ond iawn ar bob peth,  
 Nid iawn ar bob peth ond bywyd,  
 Nid bywyd ond iawn ar bob peth,  
 Nid iawn ar bob peth ond yn Nuw,  
 Nid bywyd ond yn Nuw,  
 Nid byw ond à vytho yn Nuw,  
 Nid yn Nuw ond à vo iawn ymhob peth.

5.

Gair á levair,  
 Llavara á ddengys,  
 Dangos á ystyr,  
 Ystyr á ddysg,  
 Dysg á veddwl,  
 Meddwl á bwyll,  
 Pwyll á ddeall,  
 Deall á wybydd,

Gwybod á ymgais,  
 Ymgais á eill,  
 Gallu á wyllys,  
 Gwyllys à wna,  
 Gwneuthur a gyrch dyben,  
 Dyben pob peth iawn,  
 Iawn ymhob peth bywyd,  
 Bywyd o iawn bywyd tragwyddawl,  
 Bywyd tragwyddawl bôd yn ngwir,  
 Bôd yn ngwir bôd yn Nuw,  
 Bôd yn Nuw bôd yn iawn,  
 Bôd yn iawn bôd wrth air Duw,  
 Nid gair ond gair Duw,  
 Nid llavar ond gair Duw,  
 Nid dangos ond gair Duw,  
 Nid ystyr ond gair Duw,  
 Nid dysg ond gair Duw,  
 Nid meddwl ond gair Duw,  
 Nid pwyll ond gair Duw,  
 Nid deall ond gair Duw,  
 Nid gwybod ond gair Duw,  
 Nid ymgais ond gair Duw,  
 Nid gallu ond gair Duw,  
 Nid gwyllys ond gair Duw,  
 Nid gwneuthur ond gair Duw,  
 Nid dyben ond gair Duw,  
 Nid iawn ond gair Duw,  
 Nid bywyd ond gair Duw,  
 Nid gair Duw ond gwir,  
 Nid gwir ond cyviawn ar air a llavar,  
 Nid gair ond cyviawn o air,  
 Nid gair ar bob gair ond gair Duw.

## 6.

Nid iawn ar bob peth ond bywyd,  
 Nid bywyd ond iawn ar bob peth,  
 Nid iawn ond o allu,  
 Nid gallu ond o wybod,  
 Nid gwybod ond o ddeall,  
 Nid deall ond o bwyll,  
 Nid pwyll ond ystyr,  
 Nid ystyr ond o addysg,  
 Nid addysg ond o ddangos,  
 Nid dangos ond gair,  
 Nid gair ond gair cyviawn,  
 Nid gair cyviawn ond gair Duw,  
 Am hyn nid gair ond gair Duw.

## 7.

Gair à levair bob peth,  
 Llavar à ddengys bob peth,  
 Dangosedig à ystyr bob peth,  
 Ystyr à ddsyg bob peth,  
 Dysg à bwyll bob peth,  
 Pwyll à ddeall bob peth,  
 Deall à wybydd bob peth,  
 Gwybod à ymgais bob peth,  
 Ymgais à ennill bob peth,  
 Ennill pob peth ennill à vo iawn yn mhob  
 peth,

Ennill à vo iawn ymhob peth ennill bywyd  
 tragwyddawl,  
 Ennill bywyd tragwyddawl ennill y cyvan.

## 8.

Heb air nis gellir iaith,  
 Heb iaith nis gellir dangos,  
 Heb ddangos nis gellir ystyr,  
 Heb ystyr nis gellir addysg,  
 Heb addysg nis gellir pwyll,  
 Heb bwyll nis gellir deall,  
 Heb ddeall nis gellir gwybod,  
 Heb wybod nis gellir gallu,  
 Heb allu nis gellir gwyllys,  
 Heb wyllys nis gellir ymgais,  
 Heb ymgais nis gellir gweithred,  
 Heb weithred nis gellir iawn,  
 Heb iawn nis gellir bywyd,  
 Heb vywyd nis gellir bod.

## 9.

Gair yn nghan iaith yn nghan,  
 Iaith yn nghan dangos yn nghan,  
 Dangos yn nghan ystyr yn nghan,  
 Ystyr yn nghan addysg yn nghan,  
 Addysg yn nghan pwyll yn nghan,  
 Pwyll yn nghan gwybod yn nghan,  
 Gwybod yn nghan, ymgais yn nghan,  
 Ymgais yn nghan, gallu yn nghan,  
 Gallu yn nghan, gwyllys yn nghan,  
 Gwyllys yn nghan, gweithred yn nghan,  
 Gweithred yn nghan, pob peth yn nghan,  
 Pob peth yn nghan, marw,  
 Marw, na vytho yn Nuw,  
 Na vytho yn Nuw, ni vydd yn môd.

## 10.

Gair cyviawn, iaith gyviawn,  
 Iaith gyviawn, dangos cyviawn,  
 Dangos cyviawn, ystyr cyviawn,  
 Ystyr cyviawn, addysg gyviawn,  
 Addysg gyviawn; pwyll gyviawn,  
 Pwyll cyviawn, deall cyviawn,  
 Deall cyviawn, gwybod cyviawn,  
 Gwybod cyviawn, ymgais cyviawn,  
 Ymgais cyviawn, gallu cyviawn,  
 Gallu cyviawn, gwyllys cyviawn,  
 Gwyllys cyviawn, gweithred gyviawn,  
 Gweithred gyviawn, pob peth yn gyviawn,  
 Pob peth yn gyviawn, bywyd cyviawn,  
 Bywyd cyviawn, bywyd yn Nuw,  
 Bywyd yn Nuw, bywyd tragwydd.

Ac velly tervyna Cyvarddodau y Bardd  
 Glás o'r Gadair.

AMRYW BETHAU GWIW EU DAL AR GOV.

Pump peth nid doeth ymddiried iddynt:  
 I gi dieithyr, i gefyl llôg, i wraig siar-  
 adus, i wás balch, ac i gorbwll avon.

Pedwar peth ni ddylai neb eu rhwystro:—

Un à vyno briodi yn gyvreithlawn, un yn myned i ysgol, un à vo yn gynnorthwy anghenus, ac un yn amcanu ymadael â'i ddrwgvuchedd.

Pedwar peth nid da myned yn eu cylch mewn gormod brys:—

Rhyfel neu ymladd, gwledd heb wahoddiad, ymgymhwyl â fol, a phriodi gwraig.

Pedwar peth à yrant ŵr tu hwnt w bwyll:—

Newyn taer, serch gwyllt, trachwant rheipus, a llid cynddeiriog.

Tri dyn nid call credu y cyvan à ddywedant:—

Darllenwr llyvyr anghyviaith, rhodiedydd o bell, a gwr hŷn no'i gymodogion.

Saith peth cás ar verched:—

Bwyta gormod mewn gwledd, yved gwin lle bo iechyd, siarad o'r neilldu â gwyr a gweision, derchavu golygon mewn eglwys, edrych yn hir drwy y fenestri, myned allan o'u tai heb eu gwŷr, a goganu gwragedd eu cymodogion.

Chwech casbeth gan Dduw, a'r seithved casach no'r cyvan:—

Llygad ymladdgar, tavawd twyllodrus, llawenâu gweled drwg, ymgveilliaw ag anghynneddvawl, tyst anudonaidd, ac athrodwr ymhlith brodyr a chymodogion.

Pump dirgel goreu gadael iddynt:—

Pa vodd y mae ar arall, amcanion arglwydd mawr neu vrenin, bwyd y pysgod, newidiadau y byd, a dirgelion Duw.

Pedair fordd lithrig ac amyl y syrthier anynt:—

Lle bo ia, addewidion tég, wyneb glanverch, a blys cyvoeth.

Pedwar peth hanpid gwaeth o'u gormodau:—

Esmwythder, iechyd, cyvoeth, parch, neu anrhydedd.

Pedwar gwyn à gair, a'r bummed yn ddysglair:—

Blodau y drain, eira Ionawr, tés hâv, a chalon lân iselvryd.

Tri gwyn a'r bedwerydd à dywyn:—

Gwyn à gafer ar elyn, gwyn serch, gwyn llawenydd o bell, a gwyn calon à vaco gydwybod lân.

Tri pheth anghyfredin:—

Ieuanc heb lawenydd, hên ysgubawr heb lygod, a hên ddyd anghybyddgais.

Pedwar peth nid amyl eu gwelir:—

Dyn glwth yn iachus, dŷn balch yn ddoeth, dyn cysgadur yn ddysgedig, a dyn o gybydd yn gwir.

Pedwar peth à ddylent vod gartrev yn wastadawl:—

Tavlawd iair, sawell dán, cáth, a gwraig dda.

Naw casbeth llavurwr:—

Iair na ddodwant, hwch heb vychain, gweithiwr diawg, gwas anghywir, morwyn dew, cath gysgadur, merch buteinaidd, plant anuvyddion, tir annhirion, a gosgod heb arian.

Tri pheth raid chwiliaw yn hir cyn a'u cefir:—

Arian yn nhy yr avradlon, cyvoeth gan meistyr ysgol, a synwyr mewn bol bras.

Chwech peth nid da gwaint rhyngddynt:—

Cyvaill da à llawenydd, merch ddigywilydd à flangell, foadur à fordd dég, ysgolaig à'i lyvrau, baban à brônau llaethawg, a lleidyr à chrogbren.

Chwech peth à ddigalonant wr:—

Tir drwg, arglwydd caled, gwraig anvedrus, merch anniwair, mab gwrthysig, a chymodawg wrth vit y gyvraith:

Naw peth ni chyttunant ynghyd:—

Llyvryn a rhyvel, gweithiwr da ag un nas talo iddo am ei waith, gwr sychedig à fiol vechan, cwn a chathau mewn cegin, garddwr a gviywr, cofwrn mawr a thyloidi, hên ŵr a gwraig ieuanc, hael a chybydd, a gwr doeth a dyn coegvalch tavodrydd.

Pedwar peth anesmwyth lle bont:—

Ty dyverllyd, sawell vyglyd, gwraig geintachlyd, a chymodawg cynhenllyd.

Chwech peth gwareded Duw bobun rhagddynt:

Cenedyl anwybodus, cyvaill o drachwant, gelyn o genvigen, teulu annedd-vawl, cyvraith anghyviawn, a chydwybod euawg.

Ac velly y tervyna.

LLYMA DRIODD AM A WEDDANT VOD AR DDYN AC AR DDOETHINEB.

TRIPHETH anhawdd eu cael, tân oer, dwr sych, a thrachwantus deddvawl.

Tripheth anhawdd eu gwneuthur, tori syched à thân, sychu y gwlyb à dwr, a boddloni y byd.

Tripheth gereu eu gadael i'r sawl a'u carol chwaryddiaeth, gloddest, ac ymrysonau.

Tripheth nid da gadael iddynt, llong o flaen y gwynt, gwraig yn ei gwŷn, a mab yn ei anwybodaeth.

Tripheth à wnant wr yn hoenus, ei

wraig yn ei garu, ei gyvoeth yn mwyau, a Duw yn ei nerthu.

Tripheth canmoleddig ar wr, ymadrawdd doeth, gweithredodd cyviawn, ac heb ddywedyd na gwneuthur gormodd.

Tripheth canmoleddig ar wraig, wyneb dawnus, ymadrawdd synwyrus, ac arverion daionus.

Tri dyn nis dylid eu gwahawdd i dŷ, twyllwr gwenieithus, testynwr gwatwarus, a bradwr cenvigenus.

Tripheth hof i'w cael, gwraig rinweddus, ty trevnus, a thir cyvanneddus.

Tripheth à wnant wr yn gyvoethawg, ei wraig yn gasglai, ei dylwyth yn ddivrad, ac yntau yn llavuriad.

Tripheth à wnant wr yn voddlon i'w giniaw, ei wraig yn vedrus, ei vwyd yn voethus, a'i gylia yn iachus.

Tripheth anesmwyth ar wr yn ei dŷ, ei wraig yn ymdaeru, ei aelwyd yn mygu, a'i dy yn dyveru.

Tripheth sy yn cadw y byd mewn trevn, rhif, pwys, a mesur.

Tripheth ynghyd rhaid yw eu cael cyn y bo un da o honynt, meddwl yn dda, dywedyd yn dda, a gwneuthur yn dda.

Tair fordd sy yn arwain i dldi, chware, glythineb, a phuteindra.

Tri dyn à gollant eu haravwch val o'u pwyll, helwyr, corelwyr, ac ymladdwyr.

Tripheth anhawdd i ddŷn, adnabod ei hun, gorrwod ar ei chwant, a chadw ei rin.

Tripheth anhawdd eu cuddiaw, cariad, cás, a balchder.

Tripheth gwerthvawrocav i ddyn, iechyd, rhyddyd, a rhinwedd.

Tair fordd y sydd i adnabod dyn, wrth ei arverion, ei ymadroddion, a'i gyveillion.

Tripheth à gadwant wr mewn iechyd, ymborth mesurawl, llavur cymmedrawl, a gwres noturiawl.

Tripheth à ennill enw da i ddyn, dywedyd ychydig, gwneuthur daioni, a diwydrwydd yn ei alwad.

Tripheth ardderchawg ar ddyn, caru rhinwedd, casáu folineb, a dysgu yn wastadawl.

Tripheth à ddylai bob un ei wneuthur, gwrandaw yn uvydd, atteb yn gall, ac ymgais am wybodaeth.

Tripheth à ddylai à gafo gymwynas, ei goviaw, ei ddiolch, a thalu y pwyth i'r cynthav à vo ei raid wrtho.

Tripheth sydd well no chyvoeth, iechyd, rhyddyd, a synwyr.

Tripheth à geif dyn divalch, amledd, llawenydd, ac esmwythder.

Tripheth à geif dyn o gyvodi y bore, iechyd, cyvoeth, a santeiddrwydd.

Tripheth à geif dyn cysgadur, cywilydd, aviechyd, a thlodi.

Tripheth à geif dyn cywir, dawn, a pharch, a fyniant.

Tripheth à geif dyn twyllgar, drygair, drygvyd, a drwg ddiwedd.

Tripheth à geif dyn dyoddeus, cariad, parch, a chynnorthwy.

Tripheth à geif dyn anynad, cás, cywilydd, a gadael iddo yn ei angen.

Tripheth à geif dyn diwyd, clôd, blaenoriaeth, a chyvoeth.

Tripheth à geif dyn gwallus, cywilydd, gwatwar, a cholled.

Tripheth à geif dyn dedwydd, cariad perfaith, bywyd heddychawl, a llawenydd newawl.

Tripheth à geif dyn diriaid, cás, gelyniaeth, a phoen calon.

Tripheth à geif dyn trugarawg, cydwybod lân, bodd doethion, a thrugaredd gan Dduw.

Tripheth à geif dyn creulawn, cydwybod ddirboenus, anghlod doethion, a digofaint Duw.

Tripheth à geir o ddilyn daioni deddawl, cariad yr holl vyd o ddoethion, digonoldeb bydawl, a thâl gan Dduw yn y byd à ddaw.

Tripheth à geir o hirdilyn hirddrwg, carehar, eisiwedd, a phoen tragwyddawl.

Tripheth à geif dyn dwyvawl, digonedd boddâawl, heddwch cydwybod, a gobrwiau newawl.

Tripheth à geif dyn pechodgar, difygion bydawl, poen cydwybod, a chosp tragwyddawl.

Tripheth à geif dyn doeth, llwyddiant, urddas, a llawenydd.

Tripheth à geif dyn annoeth, avlwyddiant, gwarthrudd, a thristwch.

Tripheth à ddylai dyn eu hystyried, o ba le y daeth, yn mha le y mae, ac i ba le ydd a y'n diwedd.

Tri gelyn enaid dyn, y byd, y cnawd, a'r cythraul.

Tri meddyg enaid dyn, gweddi, dirwest, a chardawd.

Tri ychydig a wnant golli llawer, ychydig o wall, ychydig o dwyll, ac ychydig o anwydau drwg.

Tri chydymaith diavol, cenvigen, trais, a balchder.

Tripheth sy'n arwyddaw bod dyn yn gadwedig, caru y daionus, casau y drygionus, a buchedd haelionus.

Tripheth à wnant wr yn vlaenawr ar ei

gymodogion, cyvoeth, haelioni, a doethineb.

Tripheth sy yn gwaethygu y byd, balchder, llid, a thrachwant.

Tripheth à ddiweddant yn ddrwg, celwydd, cenvigen, a dichell.

Tripheth à geif cybydd, poen yn casglu, goval yn cadw, a cholli y cyvan yn y diwedd.

Tripheth à gant gariad Duw, fydd, cariad, a gobaith.

Tripheth à geif hael ei galon, llawenydd o'i eunill, gwynvyd yn rhoddi, ac ennill anveidrawl yn y diwedd.

Tripheth ni ellir drwg lle bont ynghyd, deddvoldeb, gwybodaeth, a chariad.

Tair rhinwedd arbenig doethineb, haelioni, diwydrwydd, a phwyll.

O dripheth y cyrhaedder doethineb, awen, addysg, ac ystyriaeth.

Velly y tervyna.

O Lyvyr Edward Lewys, yswain, o Ben Llin, yn Morganwg.

LLYMA RAI TRIODD EREILL O'R UN LLYVYR.

TRIPHETH à wnant wraig yn anniwair, wyneb tég, pen fol, a chalon valch.

Tripheth à wnant i wraig gael meddwl yn ddrwg am dani, bod yn chwannawg i gytgam à gwyr a gweision, caru amhethynion, a dywedyd yn ddrwg am wragedd ei chymodogion.

Tripheth à barant i wraig briawd gael cas yn lle cariad, bod yn anynad, chwenych blaenori, a bod yn dda wrth ei bola ei hunan.

Tripheth ar wraig briawd à bair iddi gariad gan ei gwr, serchusder ymadrawdd, ymuddawd yn ei hymddwyn, a diwydrwydd yn ei gorchwyl.

Tripheth ar wraig à wnant ei gwr yn flaenawr ar ei gymodogion, medrusder, diwydrwydd, a doethineb.

Tripheth ar wraig à dyn arni amharch y byd a chas ei gwr, bod yn hir ei bore, bod yn warseddgar, a bod yn vudrogen.

Tair anurddas gwraig, bod yn chwedleugar, bod yn achwyngar, a bod yn athrodgar.

Tripheth à ddygant urddas i wraig, ymadroddion pwyllgar, boddlondeb i'r byd à vo arni, a bod yn heddychgar ymhlith ei chymodogion.

Y mae ereill ar goll, achos briaww y llyvyr.

TRIPHETH à attaliant wahoddedigaeth i wr, bwyta gormodd, dywedyd gormodd, a cheisiaw gormodd.

Tair cynneddv anweddu ar wr, taerni

yn ceisiaw, caled yn rhoi, a bod yn ddrwg ei dyb.

Tripheth à ddangosant wr yn ddoeth, dywedyd ychydig, gwneuthur llawer drwg ddiwydrwydd, a bod yn haelionus ei varn.

Tri achos y sydd i wr ddywedyd celwydd yn esgusedig, i gadw bywyd dyn diniwed, i gadw heddwch cymodogion, ac i gadw gwraig yn voddlon.

Tripheth à wnant wahoddiad mynych i ddyn, ymddwyn serchawg, llawenydd syber, a gochel gormesu.

Tripheth à ennillant gariad i wr ba le bynag ydd elo, cyvarwyddyd, tangnevoldeb, a syberwyd.

Tripheth à ddygant barch i wr ymhlith ei gymodogion, byw arno ei hunan, bod yn ddoeth ei gynghor, a bod yn gymmwynasgar.

Ac ni wyddys ba vaint ragor ar goll achos y briw yn y llyvyr.

Tripheth à wnant wr yn ddysgedig, addysg ar lyvyr, pwyll yn ystriaw, a deall craff.

Tripheth à wna ysgrivenydd da, cofadwriaeth dragwyddawl am wyr a gweithredodd ardderchogion, rhoi dangosiad i'r do à ddel, a gwneuthur ei enw ei hun yn barchedig dros byth.

A'r cyvan à ganlyn ar goll.

Tripheth amryvel o fyrdd eu gocheliar: benyw o'i blaen, march o'i ôl, ac ofeiriad o bob tu.

Tri chelwyddawg y sydd ag nid oes eu cymheiriad: arglwydd dros ei vaint, ofeiriad dros ei swydd, a merch dros vab à garo.

LLYMA Y NAW CELVYDDYD WLADAIDD.

GARDORIAETH,  
Govaniaeth,  
Saerniaeth,  
Barddoniaeth,  
Telynorïaeth,  
Gwehyddiaeth,  
Llywyddiaeth,  
Meddyginiaeth,  
Newidyddiaeth,

Y rhai hyn oeddynt ar wybod ac arvergan yr hen Gymry, cyn bod iddynt ddinasodd, a dosparth teyrnedd.

Y NAW CELVYDDYD DINESIC.

LLYTHRYDDIAETH,  
Rhivyddiaeth,  
Meidryddiaeth,  
Seryddiaeth,  
Pleidyddiaeth, ;

leithyddiaeth,  
Milwriaeth,  
Llongwriaeth,  
Yngneidiaeth,

Y rhai hyn á ddychymygyd gwedi  
ymgyviaw o'r Cymry mewn trevi a  
dinasodd, a gwneuthur dosparth ar  
deyrnedd a chelvyddyddau breiniawl.

*O Llyvyr y parch. Evan Evans.*

LLYMA DDEWIS BETHAU BARD D IVOR  
HAEL.

*(O Llyvyr Mr. Cobb o Gaer Dydd.)*

BOREGWAITH háv tawelglawr,  
Byrwlith ar veillion,  
Berwserch awengerdd,  
Perfeithdlos niain,  
Wybrsygn digwmwl,  
Coedgeirw ar frithlwybr,  
Cytgerdd bytheiaid,  
Doethveirdd eiriaw cerdd,  
Llatai gwirgall,  
Cusanu mygrverch,  
Casáu eiddig,  
Celu cyvrinchwedl,  
Llatai cywirgall,  
Cywydd carueiddserch,  
Telyn gyweirber,  
Teuluwr digrivgall,  
Can cymmhriawdlev,  
Cilwg mwythudlws,  
Cyvaill cywir,  
Lleverydd adar mân,  
Crechwengerdd eos,  
Llais cerygnant raianloyw,  
Llev mordon,  
Llwybrvrys gynnevin,  
Llawenverch vedrus,  
Meidrol gariadwiw,  
Modryb serchawgbwyth,<sup>1</sup>  
Parabl caredigber,  
Crychddwr graianwyn,  
Cywraint ehawngall,  
Perllan gaeadgerth,  
Deildy caeredberth,  
Cael vy nghariadverch, a'i chelu i'm  
bywyd—  
Cariad ír vwriad ar vorwyn liwgach,  
Lunieiddvalch ðn addwyn,  
Hiraeth am winvaeth wenwyn  
Y sydd am y dydd i'm dwyn.

*Davydd Morganwg, Bardd Ivor Hael*  
a'i cant; sev oedd hwnw Davydd ab  
Gwilym.

Ac val hyny y cevais hwn yn Llyvyr Mr.  
Cobb; llyvyr á ysgrifenyd yn swydd  
Vrecheiniawg ynghylch y vlwyddyn

<sup>1</sup> Modryb serchawglwys.

1600. Davydd Maeliennydd a'i cant  
medd ereill: ve gasgloedd Davydd Mael-  
ienydd, sev Davydd Bâch ab Madawg  
Gwladaidd, lawer o'r cyvryw bethau yn  
nghyd; ond pwy mewn gwirionedd á  
gant yr un uchod nis gwn; mi a'i gwel-  
ais yn Ngwynedd dan enw Dewisbethau  
Mabwaith Hengrys o Iâl; Dewisbethau  
Talesin, mewn llyvyr arall; Dewis-  
bethau serchawg yw enw arall á gair  
arno mewn rhai llyfrau.

*Iolo Morganwg.*

CASBETHAU BARD D IVOR HAEL.

*(Llyvyr Mr. Cobb, o Gaer Dydd.)*

BOREU tywyll niwlog,  
A brasbigawg oerlraw,  
A chapán dollvriw,  
A theneuwynt rhynchwyth,  
Ac hosanau byrion,  
A chunog surllyd,  
A bara caledlwyd,  
A llymru y nós,  
A hên chwedleu y dydd.  
A havod heb laeth,  
A barynllys heb win,  
A gwynt drwy bared,  
Ac adwy ddreiniawg vudr,  
A chwerwrith lasdwr,  
A chig mynyglau geivr,  
A gorwedd ar oerlawr,  
A chrechwen piod,  
A chwn yn ymladd,  
A gwrysgwern wleb,  
Ac ysgol ddamchwelgar,  
A negeswr anghywir,  
A gwraig gul ymgeingar,  
A bardd gwlaideiddgamp anghyvarwydd,  
A cherdd heb awen,  
A bwyd heb halen,  
A gwledd heb lawenydd.

*Davydd Morganwg a'i dyward.*

CASBETHAU OWAIN CYVEILIAWG.<sup>1</sup>

*(O Llyvyr Mr. Cobb.)*

CRYNWAS heb gamp,  
Crynvarch heb rygng,  
Crynavon heb bont,  
Bardd annigriv,  
Cyvarwydd gwladaidd,  
Syberwyd anghyvarwydd,  
Dysgedig anmhenigamp,  
Hen avallen ber heb frwyth,  
Hen arglwyddes weddw,  
Hen varch Sais,  
Hen fch Cymro,  
Henswrth deulüwr,

<sup>1</sup> Ieuan Gyfylog, medd Llyvyr Mr. Cobb o Gaer  
Dyv; Cyfoled ag Ieuan Gyfylog, meddant yn Mor-  
ganwg.

Hen esgid crydd,  
 Hen hosanau gwraig y taeliwr,  
 Havod heb laeth,  
 Hendrev heb vara,  
 Dyn bach cul dolevgar,  
 Dyn mawr achwyngar,  
 Gwraig ymgeingar,  
 Mammaeth vrasnoeth.  
 Adwy vudr ddreiniawg,  
 Fordd arw gerygawg,<sup>1</sup>  
 Gordderchwraig serth,  
 Priawd anniwair ordderchiaith.<sup>2</sup>  
 Newyn gwedi bwyd,  
 Gwynt oer drwy bared,  
 Milgi bychan anghraf,  
 Gwraig gul gedorhir,  
 Hirnos heb chwedlau talpentan,  
 Hen chwedlau liw dydd,  
 Siarad mewn gwely,  
 A chorddi mewn castell.

*Owain Cyveiliawg a'i cant.*

Ac ereill o lyfrau á ddywedant mai Davydd Maeliennydd a'i cant, yr hwn á elwid Bâch Buddygre, a Davydd Bâch o Vuddygre, a Davydd Bâch ab Madawg Gwladaidd, ac yn mhlwyr Llanystyphan yn Muddygre Maeliennydd ydd oedd eue yn byw. *Velly Llyvyr Mr. Cobb.*  
 Chwilied yn mhellach á welo yn addas, ac o bwys.

*Iolo Morganwg.*

DEWISBETHAU YR HEN VARDD LLWYD O  
 VORGANWG.

TYDDYN bâch rhywiawg;  
 Pell pob cyvoethawg;  
 Heddgar gymodawg;  
 Gwraig ddiwair serchawg;  
 Mab á gâr wybod;  
 Merch glof ar davod;  
 Gwâs diwyd fyddlawn;  
 Morwyn syw radlawn;  
 Cywledd heb veilchion;  
 Llŷs heb anudon;  
 Ymddal á doethion;  
 Gochel ymryson;  
 Mawrygu gwirion;  
 Coledd pob gweinion;  
 Haeddu parth calon  
 Bôdd Duw a dynion;  
 Gochel pob travod  
 A vag anghydvod;  
 Gochel llawenydd  
 A'm daw'n gywilydd;  
 Gochel pob awydd  
 A'm gwnai'n ry gybydd;  
 Gochel pob devnydd

<sup>1</sup> Fyrdd graianawg.

<sup>2</sup> Priawd anwadal gordderchveddl.

Drygserch annedydd;  
 Boddlonder beunydd  
 I'r traill a'm dyvydd;  
 Cyvaill a'm cerydd  
 Lle bwyv anvebydd;  
 Myvyrgil didrain,  
 Ymddadl á chywraïn;  
 Pabell gaeadwerdd,  
 Awen edlingerdd;  
 Areulgwm sychbant  
 Am loew garegnant;  
 Annedd dirgelvan  
 O dŷ gwyn bychan;  
 Llwybrau llonyddgyrch  
 Hyd wyrddion lenyrch;  
 Cefyl camgadarn,  
 Anvynych davarn;  
 Negeswr didwyll,  
 Cynghorwr trybwyll;  
 Cyvarch mwneiddlais,  
 Moliannus ymgais;  
 Cyvedd heb veddwi,  
 Cerydd heb sori;  
 Ymddwyn cynneddvawl,  
 Syber anianawl;  
 Campus gelvyddyd,  
 Teuluæth ddiwyd,  
 Awengerdd bwyllber,  
 Cartrevgamp syber,  
 Llyvyr doeth cyweithas,  
 Coviaw cymmwynas;  
 Eglwysgor cyvlith,  
 Haelioni trylith;  
 Enllynwyd o vlith,  
 A bara gwenith;  
 Graianddr ddiold,  
 Dirwest oddevod;  
 Trevnus ymddarbod,  
 Gorchwyl yn barod;  
 Doethbell vyvyrdod  
 Ar bob madwybod;  
 Corf iachus gwisgi,  
 Bryd ar ddaioni;  
 Perllan gaeadberthj  
 Gerwyneb anterth;  
 Amgall ymadverth,  
 Cyveillion prydrverth;  
 Boreuwawr godi,  
 Ymdawr diwegi;  
 Mynych wyddeli,  
 Anvynych drevi;  
 Dangos deddvoldeb,  
 Gwrthladd folineb;  
 Arail amynedd,  
 Casâu pob trawsedd;  
 Arwedd pob ystawd  
 Wrth vodd y Duwdawd;  
 A glân gydwybod  
 I'r bedd yn barod.

*Yr Hên Vardd Llwyd o Vorganwg a'i cant; sev oedd hunw Rhys Llwyd Brydydd ab Rhys ab Rhicart, o Vlaen Cynllau; tād Lewys Morganwg.*

Mi á welais yr un uchod dan énw Thomas Llywelyn o Regoes.

*Iolo Morganwg.*

DEWISBETHAU GWR DOETH, NID AMGEN  
NOG

Ei vrenin yn gyviawn,  
Ei arglwydd yn gadarn,  
Ei wraig yn ddiwair,  
Ei vorwyn yn syw,  
Ei wás yn ddiwyd,  
Ei gyvaill yn gywir,  
Ei gár yn garedig,  
Ei vâb yn wrolgamp,  
Ei verch yn addwyn,  
Ei gymodog yn ddiwyll,  
Ei dir yn dirion,  
Ei dŷ yn ddiddos,  
Ei ychain yn gryvion,  
Ei ddevaid yn rywiawg,  
Ei vôch yn hirion,  
Ei varch yn vawr,  
Ei vilgi yn vuan,  
Ei hebog yn chwannawg,  
Ei vwyd yn iachus,  
Ei ddiod yn vain,  
Ei ddillad yn glydion,  
Ei wely yn esmwyth,  
Ei ystavell yn lân,  
Ei dân yn oleu,  
Ei deuluwr yn ddoeth  
Ei saer yn gelvydd,  
Ei ôv yn feryllt,  
Ei osb yn vardd,  
Ei vugail yn fyddlawn,  
Ei arwr yn wybrydd,  
Ei dylwyth yn syber,  
Ei ddosparth yn gall,  
Ei dravod yn ei amser,  
Ei drevn yn ymddwyn,  
Ei velin yn agos,  
Ei eglwys yn ngobell,  
Ei wlád yn heddwch,  
Ei dád ysbyrdol yn ddedwydd,  
Ei gydwybod yn lân,  
A'i Dduw yn drugarawg.

*Ac velly tervyna.*

(O Llyvyr Edward Sanders o Lansanfraid  
Vawr.)

DEVISAV GWR TALIESIN.

GWR à vo yn athraw yn ei dŷ,  
Yn oen yn ei ystavell,  
Yn vardd ar ei vwrdd,  
Yn ddoeth yn ei ddadyl,  
Yn walch ar yr hëol,

Yn llew yn y drin,  
Yn iwrch ar y maes,  
Yn varch yn ei wely.

*Llyvyr y Bardd Coch o Von.*

DEWIS BETHAU HYWEL BWR BACH.  
(*Llyvyr Mr. Sanders.*)

EISYDDYN gwasdadlawr,  
Rhywiocdir meillionawg,  
Caeadberth ysyddaid,  
Fynonddwr iachusdardd,  
Tewgoed eosgyrch,  
Trevedlawr araul,  
Tŷ cynhes calcheidwyn,  
Perllan yn ngwynoed,  
Gardd lyseuber,  
Yttardd tymhorgael,  
Rhywiogion o wartheg,  
Sidanwisg ddevaid,  
Bychain o gefylau,  
Esmwythvryn duthvarch,  
Gweinyddwas fyddlawn,  
Gweinyddes sywdeg,  
Erylgi da,  
Llawengerdd medel,  
Tân da yn y gauav,  
Cymodawg llonyddgar,  
Cyvaill cywir,  
Cynghorbwyll serchawg,  
Mwysgerdd adar,  
Llais telyn o bell,  
Agos melin a marchnad,  
Cynhauvdeg ŷd a gwair,  
Rhodva ddirgelfordd,  
Llyvyr doeth,  
Teuluæth dawgar,  
Annhaw cerygnant,  
Gwraig serchawg ddiweirgall,  
Mab gwybodgar,  
Merch uvyddgamp,  
Iach corf a meddwl,  
Byw yn ddedwydd,  
A marw mewn heddwch á Duw.  
Duw i'm oes da yw i mi,  
Duw enwaf er daioni,  
Duw 'mhob modd i'n rhynoddi,  
Da yw o nêr Duw i ni;  
Duw Nav á vynav enwi'n ddifynwr,  
Duw i eiddilwr da i addoli.

*Hywel Bwr Bach a'i cant.*

DEWIS BETHAU DEIO MAELIENYDD.

BOREU tawelglaer,  
Tewwlith ar veillion,  
Gwawrgan ehedydd,  
Crechwenber eos.  
Crychnant raianllawr,  
Cylched serchoglawr,  
Lleverydd adar.



Llwr dywyllgoed,  
 Carw ar frithlwybr,  
 Cydgerdd bytheiaid,  
 Nwyvusber gywydd,  
 Cyweirber delyn,  
 Caruaidd lasvedd,  
 Medrus lawenverch,  
 Serchiaith ganiad,  
 Perfeithdlos riain,  
 Doethion vydreiriau,  
 Cilwg mwythusdlws,  
 Celu cyvrinach,  
 Llwybrvrys cynnevin,  
 Cusanu glanverch,  
 Llatai gywirgall,  
 Caredigber barabl,  
 Casáu eiddig,  
 Dirgelvan garu,  
 Caru a'm caro,  
 A chael vy nghariadverch a'i chelu i'm  
 bywyd.

Cariad hir vwriad ar vorwyn—liw calch,  
 Lunieiddvalch lôn addwyn,  
 Hiraeth am wenaeth winwyn  
 Y sydd nôs a dydd i'm dwyn.

Dwyn serch at lwysverch edlaesvain—yr wyy  
 Er oed unarugain,  
 Glasgorf yn dwyn pryd glwysgain,  
 Ail Enid valch, 'Luned vain.

*Deio Maelienydd a'i cant (Llyvyr  
 Mr. Sanders)*

Y mae hwn mewn llawer hên lyvyr yn  
 Morganwg ac o amgylch yn cael ei  
 dadogi ar Ddavydd ab Gwilym; a gellir  
 barnu yn ddiagon hybwyll nad oedd  
 Davydd Maelienydd amgen yn y byd na  
 chynnulludd y cyvryw bethau â hwn  
 yma.

CASBETHAU SION GOCH O'R HENDREV.

LLYSEIRIAU coegnith,  
 Chwerthin heb achos,  
 Mursen o daiogaeth,  
 Wylaw heb alar,  
 Cellwair â henddyn,  
 Dirmygu doeth,  
 Holi overedd,  
 Chwedl heb ei govyn,  
 Celwydd heb achos,  
 Gwir heb alw am dano,  
 Llawenydd yn anmhryd,  
 Ysmalâwch henddyn,  
 Pruddder ieuanc,  
 Anghovio câr a chyvaille.  
 Cyveillach ag ynvyd,  
 Rhoi ar y elyn,  
 Hof distadledd,  
 Anmerchi rhagorder,

Gormod chwedleua,  
 Divannu o serch,  
 Rhyadrawd â glywer,  
 Llavar wrth dawedawg.  
 Gormod ar drevn,  
 Dosparth ryvanylvaith,  
 Beio ar y bwyd a'i vwyta,  
 Beio ar waith Duw,  
 Pendronod Cymro,  
 Mydryddiaeth Sais,  
 Doethineb Gwaenllwg,  
 A chwaryddiaeth Llundain.

*Sion Goch o'r Hendrevargod a'i cant.  
 (Llyvyr Sanders.)*

CASBETHAU HEN GOCH Y DANT.

CYVAILL meddw,  
 Mab trythyll,  
 Gwas diawg anghywir,  
 Cymodawg anynad,  
 Glwth bolvras,  
 Cybydd anghawr,  
 Anwr ovnog yn bostio gwroldeb,  
 Cynghorwr byrbwyll,  
 Drwg ar gamp o ddevawd,  
 Chwerintha'r bob achos,  
 Ieuanc mewn swydd,  
 Hen mewn advyd,  
 Deddvol mewn eisiwed,  
 Teulu heb syberwyd,  
 Gwr heb gelvyddyd,  
 Goludog heb haelioni,  
 Anwadal o varn,  
 Na chreter ei air yn ei wlad,  
 A vo aml ei elynion o'i genedl ei hun,  
 Cardotyn o Sais,  
 Ac anghartrevawg o Gymro.  
 Doethineb Da yw'th enau—yn siarad  
 Dy seirian orddodau,  
 Boed yn reddv dy gynneddvau  
 O ynni mad yn y mau.

*Iolo Morganwg a'i cant.*

DEWIS BETHAU SION CWM TRIDWR.

*(Ll. Sanders.)*

MYVYR encilgoed,  
 Trem serchawg,  
 Wynebpryd siriol,  
 Boddlondeb i'r byd â vo,  
 Cov am gâr a chyvaille,  
 Hofi rhagorgamp,  
 Blasu y bwyd â vo,  
 Ymddwyn syber,  
 Hunander hybwyll,  
 Hunanovnocrwydd,  
 Cyvanred ymgais,  
 Ymorheula pen mynydd,  
 Ymwervela caeadlwyn,

Gwrthruthraw rhuthr.  
Teuluwr gwybodbell,  
Canmoliaeth cydwybod,  
Caru à garo,  
Maddeu à gasão,  
A Duw yn maddeu i bawb.

*Sioni Cwm Taidwr a'i cant.*

Dywedai llyvyr Sion Bradford mai Sion y Cent oedd Sioni Cwm Tridwr; mai hynod am awen a deall oedd yn vachgen; ond (vel ag y bu erioed, ac y bydd byth) ei gymodogion á genvigenent wrtho ac a'i anmharchent yn anghyvion, ac yntau yn vachgenyn tylawd wedi colli tãd a mam, nid oedd gantho vodd yn y byd i vyw ond à ennillai wrth weithio gyda fermwyr ac ereill. Un diwarnod oer iawn yr oedd eve yn bugela'r brain ac ve ddaeth i dy ei veistr i ymdwymo: govynwyd iddo pam y delei oddiar y maes a gadael y brain ar yr fãd? Y mae y brain, ebai ve, yn ddiogel yn nghastell Caerfili. Yn nghastell Caerfili? ebai ei veistr, ac a'i pwyodd yn greulawn gan ei droi i maes o'r tã. Y bachgen á gymmerwys ei fordd tua phen uchav Gwent, ac ni welwyd ev mwyach yno. Ei veistr á aeth i maes yn mhen ychydig, a thua'r cae gwenith, lle nid nid oedd gymmaint á brân iddei gweled: rhyveddu yn vavr; ond o du á Chaerfili clywed grawg a llevau anghyfredin gan vrain; myned tuag yno, a gweled y brain wrth y milodd mewn gwirionedd; ac er nad oedd na drws na fenestr yn nghaead, nis gallai gymmaint ag un o'r brain ddiac i maes; myned i mewn, a cheisio eu gyru i maes o'r twr; ond yn lle myned i maes ymgrynõi am ei ben ev a phigo ei lygaid o'i ben; yna daeth ar gov iddo y sarãed a'r anmharch á wnaeth ev ar y bachgen tylawd, à alwai eve Sioni Cwm Tridwr, a danvon i chwilio am dano; ond nid oedd neb à wyddai ronyn am dano.

Sioni, bydded à vyno, á aeth yn y blaen tua gwlad Went, ac i blwyv Cent, à elwir yn Saesoneg Censiestr; ac yno mewn tã gwr mawr ve gavas le gwas mewn ystabl, i edrych ar y cefylau a'u bwydo; eve á orweddai bob nês dan y preseb; ac mor ovalus oedd ev am y cefylau, val y dalwys y gwr boneddig sulw nid bychan arno; ac eve á roddai rywvaint o arian ar brydiau iddo; ac á'r arian hyny y prynai y glasvachgen lyvrau a phapur ac á ysgrifenai ryw beth neu i gilydd yn vnych. Daliwyd sulw ar hyn, a gwelwyd y gallai y bachgen

vod yn wasanaethus mewn fordd amgen-ach yn y teulu na bod yn yr ystabl; ac anaml iawn yr oes hõno y ceid neb à vedrai ddarllen, ac ysgrivenu, yn mysg uwch o radd no'r bachgen tylawd; cymmerwyd ev i'r tã a holwyd ev, a deallwyd y medrai Ladin: derbynwyd ev i barch, a rhoddwyd iddo swydd a chyvlog à weddai i ysgolãig; a phan ddaeth i'r oedran govynedig, urddwyd ev yn ofeir- iad. Bu dros rywvaint o amser yn ngwasanaeth yr eglwys yn Emlyn; ond yn mhen tro ve gavas eglwys plwyv Cent, yn ngwasanaeth pa un y bu hyd varw; ac yno y claddwyd ev dan wãl y ganghell, nid yn yr eglwys nac i maes o heni, yn ol ei ddymuniad. Yr oedd yn wr hên iawn yn marw; ydd oedd ev yn gweled y mawr lygredigaethau goeddent wedi ymlusgo i mewn i'r eglwys; ac yn dwyn ei dystiolaeth yn vavr yn eu herbyn; am hyny cyvrivid ev yn un o'r Loleriaid. Yr oedd yn byw yn nghylch yr un amser á Davydd ab Gwilym; ac ve allai ychydig ar ei ol ev, yr hyn sy debyg wrth yr ymryson rhyngtho á Rhys Goch o Eryri y' nghylch drwg ymarweddiad beirdd yr amser hyny. Hyn yw sylwedd hanes Sion Bradford. Dywedir chwedl y brain am Gattwg Llan Carvan, yn gystal ag am Sion Cent; ac un o overgoelion yr oes dywell hõno yw hi.

*Iolo Morganwg.*

DEWIS BETHAU YR HEN GAP DU.

*(Llyvyr Sanders.)*

MVVYR yn nirgel,  
Llyvyr doeth,  
Ysgriven deg,  
Memrwn cywaith,  
Digon o daw,  
Hinin taweldes,  
Canwyll vavr,  
Tan da y gauav,  
Awenvardd gwybodgar,  
Cyvarwyddydd amlwg,  
Hanes wirioneddol,  
Cywair ar gywir,  
Cyviawn o ddiareb,  
Doeth awengerdd,  
Iaith gyviawn,  
Ymadrawd gall,  
Parabl ddilediaith,  
Mãb dystaw gwrandaingar,  
Gwylverch ddiwair,  
Tã cynnesglyd,  
Ymdaith ar draed,  
Cwnnu yn voreu,

Ceiniog mewn llaw,  
Synwyr yn mhen,  
Ynni yn y galon,  
Doeth heb olud,  
A gwraig heb davod,  
*Wiliam Cap Du a'i cant.*

## LLYMA Y NAW CELVYDDYD WLADAIDD.

GARDDORIAETH,  
Govaniaeth,  
Saerniaeth,  
Barddoniaeth,  
Telynorïaeth,  
Gwehyddiaeth,  
Llywyddiaeth,  
Meddyginiaeth,  
Newidyddiaeth.

Y rhai hyn oeddynt ar wybod ac arver gan yr hen Gymry, cyn bod iddynt ddinasoedd, a dosparth teyrnedd.

## Y NAW CELFYDDYD DINESIG.

LLYTHRYDDIAETH,  
Rhivyddiaeth,  
Meidryddiaeth,  
Seryddiaeth,  
Pleidyddiaeth,  
Ieithyddiaeth,  
Morwriaeth,  
Llongwriaeth,  
Yngneidiaeth.

Y rhai hyn â ddychymygyd gwedi ymgyriaw o'r Cymry mewn trevi a dinasoedd, a gwneuthur dosparth ar deyrnedd a chelvyddydau breiniol.

*O Lyvyr y Parch. Evan Evans.*

## NAW LLAWENYDD Y NEF.

*(O Lyvyr Brith y Coed Sion Bradford.)*

DYDD heb nôs, sev goleuni heb dywyllwch;  
Heddwch heb ryvel, sev cariad heb gâs;  
Iechyd heb glevyd, sev hyvrydwch heb vlinder;  
Llawenydd heb dristwch, sev bodd heb anvodd;  
Golud heb drythyllwch, sev meddiant heb bechod;  
Deall heb anneall, sev gwybodaeth heb anwybodaeth;  
Urddas heb warthrudd, sev parch heb annharch;  
Rhyddid heb gaethiwed, sev à vyner heb vod ar gam;  
Bywyd heb angau, sev Duw a digon.

*Amen, a phoed velly y bo.*

## HEBAU.

HEB ystyr heb bwyll;  
Heb bwyll heb ddysg;

Heb ddysg heb Dduw;

Heb Dduw heb ddim.

Wrth hyny y gwelir mai heb ystyr heb ddim; gan hyny priv erddyl pob dŷn ymarver ag ystyr, ac o ystyr pwyll, ac o bwyll dysg, ac o ddysg Duw a phob daioni.

*O'r un Llyvyr.*

*(Modd arall, o'r un Llyvyr.)*

HEB bwyll heb ddysg,

Heb ddysg heb Dduw,

Heb Dduw heb ddim.

Wrth hyny y gwelir mai heb bwyll heb ddim, gan hyny priv ddyledigaeth dyn ymarver a phwyll, ac o bwyll y bydd dysg, ac o ddysg ydd adnebyddir Duw, ac o adnabod Duw pob daioni.

## TRYWIAU.

TRYW i vâb iâr ddarogan,

Tryw i hwch dyrvu,

Tryw i lwynog ei ddichell,

Tryw i wâdd dywyllwch,

Tryw i eidion bori meillion,

Tryw i daiawg ddirieidi,

Tryw i ddoeth dedwyddyd,

Tryw i ddedwydd dwyvoldeb,

Tryw dwyvoldeb i Dduw,

Tryw i Dduw eithavedd daioni,

Catwg Ddoeth a'i dywawd.

*O Lyvyr Harri Sion o Bont y Pw!*

Bu cariad a'i drawiad o dryw,

Rhyngo i'n sail a'r dŷn syw oreu 'i serch,

Ail Elen lon lanav o liw,

Dyn ddivai vwyna 'n vvw veinwen verch.

Davydd Lewys o Verthyr Tudvyl a'i cant, 1760.

Ai nid *Rhyw* â ddylai vod yn lle *Tryw*?

Dichon mai Tryw yw yr iawn; bydded à vyno, gwreiddyn *Ystryw*, *Trywedd*, ac ereill ydyw; a'i ystyr yw ve allai, *Anian*, *Ansawdd*, *Tueddiad*, *Anwyd*, mal yr arverir y gair etwa ar gyfinau Morganwg a Brecheiniawg.  
*Iolo Morganwg.*

## CYNGHORION Y DRYW O'R LLWYN GLAS.

*O lyvyr Mr. Cobb o Gaer Dyp.*

BYDD ddwyvol a golychwydgar;

Bydd gyviawn a gwirgar;

Bydd ddewr a doeth ymbleidgar;

Bydd wastad a dosparthgar;

Bydd hybwyll a gochelgar;

Bydd gwybodawl a barngar;

Bydd drugarawg a llusengar;

Bydd gadarn ac ymgeisgar;

Bydd ddeddwawl ac amcangar ;  
 Bydd ddaionus ac iawngar ;  
 Bydd gan addysg yn wybodgar ;  
 Bydd hywaith a gorchwylgar ;  
 Bydd gywir a chyveillgar ;  
 Bydd vvyvr ac ymdawgar ;  
 Bydd uvydd ac ymchwilgar ;  
 Bydd fyddlawn a chymwynasgar ;  
 Bydd ddeddvol a dyoddevgar ;  
 Bydd ddiwair a sywydgar ;  
 Bydd ddiwyd ac ymbwyllgar ;  
 Bydd arav ac ystyrgar ;  
 Bydd hywedd a devodgar ;  
 Bydd gynneddvol a moesgar ;  
 Bydd hael ac ewyllsgar ;  
 Bydd gòrawg ac ymroddgar ;  
 Bydd eorth a meddylgar ;  
 Bydd ddoeth ac ymovyngar ;  
 Bydd gelvydd ac awengar ;  
 Bydd dadawl a chartrevgar ;  
 Bydd weddaidd ac arosgar ;  
 Bydd wrth gynghor a gwrandawgar ;  
 Bydd drevnus a rheolgar ;  
 Bydd voneddig a hawddgar ;  
 Bydd hynaws ac amyneddgar ;  
 Bydd o Dduw yn vaddeugar ;  
 Bydd gymodog heddychgar ;  
 Bydd benteulu llywodraethgar ;  
 Bydd wladwr ymdrechgar ;  
 Bydd i'th geraint yn ymddiriedgar ;  
 Bydd i'th elyn yn annialgar ;  
 Bydd dawl a thangnevgar ;  
 Bydd o vuchedd dda yn obeithgar ;  
 Bydd i'th wlad yn gyvlesgar ;  
 Bydd i'th blwyf yn wellêugar ;  
 Bydd i'th dyddyn yn dravodgar ;  
 Bydd i'th deulu yn athrawiaethgar ;  
 Bydd i'th lŷs yn gyvnerthgar ;  
 Bydd gan nawdd Duw yn ymnoddgar ;  
 Bydd rhag anraith yn ddialgar ;  
 Bydd i'r iawn yn gyvnerthgar ;  
 Bydd val Duw yn gariadgar.

*Ac velly y tervyna.*

LLYMA GYNGHORION GWAS Y DRYW.

*(O'r un llyvyr.)*

1.

CAIS addysg a chynghor, a gwna val y bo  
 pwyll.

2.

Nac ymddiried i neb ond i Dduw, a'r nerth  
 a roddes eve iti.

3.

Goreu gallu, gallu o bwyll; gallu o bwyll,  
 gallu o Dduw.

4.

Goreu dysg, dysg awen.

5.

Goreu cyvaill, cydwybod lân.

6.

Gwrolav o bob gweithred, ymwellâu.

7.

Bydd yn oll o honot dy hunan, yn nawdd  
 a nerth Duw, ac nid o ddŷn nac o dda,  
 nac o ddeddv nac o ddyoddev, amgen  
 no chydwybod lân, ac à vynai Duw.

*Ac velly tervyna.*

ARVOLLION.

*(O'r un llyvyr.)*

ARVOLL câr â doethineb;  
 Arvoll dierth â gwllêdd;  
 Arvoll benyw â syberwyd;  
 Arvoll boneddig â gwrolder;  
 Arvoll balch â gweniaith;  
 Arvoll dysgedig â thawedigaeth;  
 Arvoll ieuanc â chân a serchogrwydd;  
 Arvoll hên â hawddgarwch;  
 Arvoll dedwydd â dwyvoldeb;  
 Arvoll Duw â dedwyddyd.

*Ac velly tervyna.*

YR WYTH BRIVWYD.

CRIBDAIL neu dwyll,

Lledrad,

Balchder,

Godineb,

Diogi,

Glythineb,

Cenvigen,

Creulonder.

Ac yn eu gwrth y mae wyth weithred  
 y Drugaredd; nid amgen,

Gwirionedd,

Cywirdeb,

Ymgais,

Hawddgarwch,

Diweirdeb,

Cymmedroldeb,

Cariad,

Heddwch.

*(O'r un llyvyr.)*

WYTH DEFNYDD DYN.

*(O'r un llyvyr.)*

O'r ddaiar y enawd,

O'r dwr y gwaed,

O'r awyr yr anadl,

O'r calas yr esgyrn,

O'r halen y teimlad,

O'r haul, sev y tân, ei gynhyrviad,

O'r gwirionedd ei ddeall,

O'r ysbryd glân, sev Duw, ei enaid, sev y  
 bywyd.

## TRIODD.

*(O Llyfyr Iago ab Dewi.)*

1 TRI PHETH à edrych dŷn am danynt, a goreu ganto nas gwelo: gwadn ei esgid yn codi, pryv ar ei ysgwydd wedi cribo ei ben, ac un arall yn caru ei wraig.

2 Tri dedwyddgamp gwr: codi ei blant ar ronedd, adeilad trev ei dād, a dwyn ei ddadl i ben.

3 Tri goreugamp gwreng: bod yn llawen yn ei dŷ, yn ddeddvol yn ei eglwys, a dyddio rhwng cymodogion.

4 Tri anharddweh gwledd: pwynd ryver, cylllell vinbwl, a'r saig yn rybell.

5 Tri pheth milain eu natur: meddyg, eiddig, a phorthor.

6 Tri pheth, medd Selyv Ddoeth, à yr y gwr allan o'r tŷ à drico ynddo; mwg, devni drwy'r tô, a gwraig anynad.

7 Tri anwybod dŷn: gyru mud yn llatai, ymweled à dall, ac ymhustyng à byddar.

8 Tri pheth ni wella ar neb o'r diwedd: hyder lledrad, haelder tylodi, a dewrder o veddwadwl.

9 Tri pheth anhawdd eu cael: taeliwr diorwag, melinydd cywir, a thavarnwraig ddirachwant.

10 Tri pheth nid boddlon Duw iddynt: dŷn ni wellào ei vuchedd yn y grawys, ni vwyào ei boen yn y cynhauav, ac ni wellào ei vwyd y nadolig.

11 Tri anurddas gwr mewn gwledd: pesychu yn ei ddiod, briwo ei law gan gyllell, a cholli ei bottles.

12 Tri anweddusrwydd gwledd: tòri o bob pen i'r saig, rhoi yn y pen gymmaint ar unwaith val nad allo ateb ei gydymaith, ac yved à'i damaid yn ei savn: a phedwerdd anweddusder goganu y bwyd a'i rwyta.

13 Tri pheth y dylai bawb ddiolch lle a'u cefir: gwahawdd, rhybudd, ac anrheg.

14 Tri pheth ni vaddeu Duw i ddŷn: ei oganu, ei anghredu, a'i anobeithio.

15 Tri pheth à ddyvetha'r byd: brenin ynryd heb gynghor, ynad heb gydwybod, a gwās heb ovn.

16 Tri dŷn ni hydd gwyrenig byth: gwr à wreico wrth gynghor ei gnawd, à lewo wrth gynghor ei vòl, ac à addawo wrth gynghor ei wraig.

17 Tri pheth y ceif dŷn dyoddeus: cariad, parch, a chanmoliaeth.

18 Tri pheth à geif dŷn cyndyn: cynhen, cywilydd, ac anmlarch.

19 Tri pheth à geif dŷn divalch: amllder bydol, esmwythder cydwybod, a llawenydd nevol yn dragywydd.

20 Tair priv gynne ldy y sydd ar ddiawl: balchder cenvigenus, cybyddra trachwantus a chelwydd twyllodrus.<sup>1</sup>

21 Tri nodau diawl: gair, golwg, a gweithred; ac nis geill eu gochel.

22 Tri màb sydd yn yr ysbryd: màb i Dduw, màb i ddŷn, a màb i ddiawl; màb i Dduw à wna dda dros ddrwg, màb i ddŷn à wna dda dros dda a drwg dros ddrwg, màb i ddiawl à wna ddrwg dros ddrwg a drwg dros dda.

23 Tri pheth ni hir baràant: rhyvyg heb urddas, cadernyd heb gydwybod, a phechod heb edivreirwch.

24 Tri chynghor yr Aderyn melyn: na alara am à ddarfo, na chred beth na alla bod, ac na chais na allech ei gael.

25 Tri lle y tywynoedd goleuni ac ni thywyna byth mwy: eigion y môr pan oedd Moesen yn foi rhag llu Pharao, llawr yr Iorddonen pan oedd Iesu yn myned i gael ei vedyddio gan Ieuan Vedyddwr, a phyrth ufern pan aeth Crist i gyrchu allan eneidiau yr etholedigion.

26 Tri gwreiddyn pob drwg: celwydd, trachwant, a balchder.

*Ac velly terryna.**O Llyfyr yn Llan Bryn Mair, medd Iago ab Dewi.*

## TRIODD.

1 TRI PHETH à gâr Cymro: tân, halen, a diodydd da.

2 Tri pheth à gâr Sais: bwyd, a thir, a masnach pob peth.

3 Tri pheth à gâr Gwyddel: trais, a thwyll, a cherdded.<sup>2</sup>

4 Tri pheth à gâr Scot: pysgod, gwybodau, a gwleddydd pellenigion.<sup>3</sup>

5 Tri pheth à gâr Franc: gwraig, march, ac arvau llivedig.<sup>4</sup>

6 Tri pheth nid hawdd eu dal: carw ar vynydd, llwynog y'ngloed, a cheiniog cybydd anghawr.

7 Tri annedwyddweh teulu: cadw mur-sen, drygwas diog, a llettyva ofeiriad.

8 Tri pheth nid gwell y byd o ddim ag à wnant, er maint eu sôn am ddoethineb, a chelwyddyd, a dwyvoldeb: cybydd anghawr, bardd gorchest, ac ofeiriad teulu.

9 Tri pheth y bydd gwr yn ceisio eu

<sup>1</sup> Neu val hyn, mewn llyfyr arall:—

Tri chynneddv à wnant ddiawl: cenvigen o valchder, dichell er twyll, a chybyddra o drachwant. Neu o vodd arall:—

Tair priv gynddev à wnant ddiawl cyfilywr: balchder cenvigenus, cybyddiaeth o drachwant, a thwyll-ddechell er gwaethygu arall.

<sup>2</sup> Cherddi, Triodd Gwynedd.

<sup>3</sup> Nid yw yn Triodd Gwynedd.

<sup>4</sup> Llivedig. Tdd. Gwynedd.

gweled beunydd, ac ni vyn eu gweled byth: twll yn ei esgid, adwy yn ei gae, ac arall yn bod gan ei wraig.

10 Tri dŷn à vynant eu tamaid yn vrâs ac yn voethus: coges, gordderchwraig, ac ofeiriad teulu.

(*Llyvyr Twm Robert.*)

*Ac velly tervyna.*

### TRIODD CERDD.

*O lyvyr y Plâs Gwyn, yr hwn ydoedd adysgriviad o lyvyr Rhobert Vychan o Hengwrt, gan Evan Evans.*

1 Tair cainc y sydd ar Gerdd Davawd: clerwriaeth, teuluwriaeth, a phrydyddiaeth.

2 Tair cainc à berthynant ar glerwriaeth: ymsènu, dyvalu gair tra gair, a danwarded.

3 Tair cainc à berthynant ar deuluwriaeth: sev, testuniaw, a dyvalu gwers tra gwers yn deuluaidd arav, a gordderchgerdd deuluaidd drwy eiriâu ymwys.

4 Tair cainc à berthynant ar brydyddiaeth: cywyddau, ynglynion, ac odlau cerddwriaidd anhawdd eu caniad a'u dychymyg.

5 Tair enaid cerdd y sydd: mesur, synwyr, a chynganedd.

6 Tri thwyll y sydd ar gerdd: twyll gynganedd, twyll awdl, a thwyll gymmeriad.

7 Tri bai cyfredin ar gerdd: thôr mesur, drwg ystyr, a cham ymadrawdd.

8 Tri thôr mesur y sydd: hir, byr, a thwyll yn yr awdl.

9 Tri rhyw ddrwg ystyr y sydd: cam dychymyg, amherthynas, ac eisieu enaid.

10 Tri cham ymadrawdd y sydd: unig a lliosog ynghyd, gwryw a banyw ynghyd, a gwydd ac absen ynghyd.

11 Tri amherthynas cerdd: moliant a gogan ynghyd, rhwy ac eisieu ynghyd, ac eisieu berv.

12 Tri rhân ymadrawdd y sydd: enw, a rhagenw, a berv.

13 Tri rhyw ymadrawdd y sydd: ymadrawdd perfaith, cyviawn, ac addurnedig.

14 Tri rhân prydyddiaeth y sydd: sillav, gair, ac ymadrawdd.

15 Tri bai gwahanredawl y sydd ar gerdd davawd: prost ac unodl yn gyd, lleddv a thalgron yn gyd, a thrwm ac ysgavn yn gyd.

16 Tri bai gwahanredawl ereill y sydd ar englyn unawdl: carn-y-morddiwes, tin ab, a drygosodiad; sev yr achos y gelwir yn wahanredawl, neu yn wahanedig, am eu bod yn rhyw vanau yn veiau, ac mewn mânau ereill heb vod.

17 Tri pheth à berthyn ar wr wrth gerdd davawd: cerdd, a chôv, a chyvarwyddydd.

18 Tair cainc y sydd ar gerdd davawd: cywyddau, ynglynion, ac odlau.

19 Tri chov y sydd: achau, arvau, a rhandirodd.

20 Tri chyvarwyddydd y sydd: hengerdd, ystorïau, a barddoniaeth.

21 Tri pheth à berthynant ar glerwriaeth: goganu, ymbil, a gwarthruddiaw.

22 Tri pheth a berthynant ar deuluwriaeth: haelioni, digrivwch, ac emynhaedd, neu ervyn da yn deuluaidd.

23 Tri pheth à berthynant ar brydydd: clodvori, digrivâu, a gwrthwynebu gogan-gerdd.

24 Tri pheth a hofant gerdd: dyvnder ystyr, godidawg veddwl, ac awdurdawd y prydydd.

25 Tri pheth a anhofant gerdd: baster ystyr, sathredig dychymyg, ac anurddas y prydydd.

26 Tri pheth à gyweiriant gerdd: addurn-gyvansoddiad ymadroddion, amllder Cymraeg, a dychymygvawr gerddwriaeth.

27 Tri pheth à urddant gerdd: deheurwydd, neu hyawdledd parabl, awdurdawd y prydydd, a chyvarwyddiaid à wypont varnu.

28 Tri pheth a anurddant gerdd: ei datganu yn anamser heb ei govyn, ei channu yn amherthynas i'r neb nas dylai, ac eisieu cerddwyr à wypont varnu ar gerdd.

29 Tri pheth à amlâant awen cerdd: hengerdd, barddoniaeth, ac ystorïau.

30 Tri pheth à bylant awen: anghyvarwyddydd, angherddwriaeth, ac anghanmawl.

31 Tri pheth à lwgyr awen oll: tra meddwdawd, tra godineb, a thra ysgymyndawd.

32 Tri pheth à ddyly cerddawr eu gochel: llyna, nei ddiota, puteinio, a disio, neu dablera.

33 Tri pheth à ddyly cerddawr eu canmawl: haelder, a digrivwch, a cherddwriaeth.

34 Tri pheth a ddistrywia gerddawr: noethi, ac anghydnabod ac anghanmawl.

35 Tri pheth à vawrànt gerddawr: gwisgodd, cydnabod, a chanmawl.

36 Tri pheth ni chyingain mewn cerddawr: anwadwlwch, ysmalâwch, ac angherddwriaeth.

37 Tri gwarant cerdd: cerddwriaeth, hengerdd, a meddwl da.

38 Tri pheth y cau cerdd arnynt heb vyned yn eu herbyn: hengerdd yr hên gerddorion, dychymygvawr gywreindeb y

prydydd newydd, a chelvyddyd o gerddwriaeth ni aller myned yn ei herbyn.

39 Tri pheth ni ddily cerddawr eu credu yn hawdd: gogan clêr lle pryto prydyddion, cam-ganu o bencerd l canmoledig, a pheth ni allo bod herwydd y doethion.

40 Tri pheth à ddily cerddawr eu gwneuthur: iawn ganu, iawn ddysgu, ac iawn varnu.

41 Tri pheth ni ddily cerddawr eu gwneuthur o'i vodd: cam-ddysgu, cam-varnu, a goganu yn ddiachos.

42 Tri pheth à lawenycha cerddawr: ei ganmawl, gwrandaw ei gerdd yn ganmoledig, a rhoi rhoddion iddo.

43 Tri pheth à goddant gerddawr ac a'i trisânt: ei amherchi, goganu ei gerdd, a'i nacâu.

44 Tri gwarthrudd cerdd: ei anghredu, ei goganu, a'i cham-varnu.

45 Tri anheggor cerdd: eglur barabl, hyder òvorn, a cherddwriaeth.

46 Tri pheth à gyweiriant gerdd ac a'i teilyngant: deheurwydd parabl, cywreindedb synwyr, ac anianawl ddeall.

47 Tri pheth a anghyweiriant gerdd, neu ymadrawdd: pwl ddatgeiniad, ac anghywrant synwyr, ac anystyriol ddeall y parablwyr.

48 Tri pheth ni ddily cerddawr eu cyvaddev: cyvrinach, cywilydd cydymaith, a chelwydd argyweddig.

49 Tri pheth ni ddily cerddawr eu celu: barn uniawn ar gerdd, a gwir diwaradwydd, a chlôd dyledus.

50 Tri pheth anwedus ar gerddawr: frost, gogangerdd, a chroesanaeth.

51 Tri pheth à ganmolant gerddawr: haelder, digrivwch, a devodau da.

52 Tri pheth à waradwyddant gerddawr: cybyddiaeth, gwladdeiddrwydd, a drygddevodau.

53 Tri pheth à ganiedir i gerddawr: clodvori pawb, barn gyviawn, a dyddanwch.

54 Tri pheth à bair caru cerddawr: cyttundeb, cynnilrwydd, a chlodvori dynion da.

55 Tri pheth à bair casâu cerddawr: anghyttundeb, anghynnilrwydd, a goganu dynion da.

56 Tri frwythlawn gerddawr: prydydd, bardd, ac ystoriawr.

57 Tri over gerddawr: clerwr, bardd y blawd, a hudol.

58 Tri pheth à wna frwythlawngerdd: dyddanu meddwl, gwellaù còv ac athrylith, a distrywio dryg-veddyliau.

59 Tri pheth à wna over-gerdd: methu, llygru synwyr, a mwyâu pechod.

60 Tri sylvaen doethineb: ieuenctid i ddysgu, còv i gadw, a synwyr i ddeall.

61 Tri chyweirgorn cadwedig cerdd dawrd: calon i veddyliau, ceudawd i gadw, a thavawd i draethu.

62 Tri pheth à ddily vod ar voliant gwr: clôd, gweddi, a chynghor.

63 Tri pheth à ddily vod ar ovyngerdd: deisyv, dyvalu, a diolch.

64 Tri pheth à ddily vod ar varnuad: argyllaeth, cwynvan, a dadolwch.

65 Tri pheth à ddily vod ar ogangerdd, pei perthyn i gerddawr eu gwneuthur: edliw, divenwi, a rhegu.

66 Tri pheth à ddily vod ar rieingerdd: moliant, serchawgrwydd, a chariad.

67 Tri rhyw brivgerdd y sydd: cerdd davawd, a cherdd dant, a cherdd vegin.

68 Tair privgerdd davawd y sydd: prydu, datganu, a chanu gan dant.

69 Tair privgerdd prydyddiaeth y sydd: gwengerdd, rhieingerdd, ac unbengerdd.

70 Tair rhàn cerdd y sydd: sillav, gair, ac ymadrawdd.

71 Tair rhan sillav y sydd: llythyren, amser, ac accen.

72 Tair rhàn gair y sydd: llythyren, sillav, ac amser.

73 Tair rhyw lythyren y sydd: bogail, llythyren vud, a llythyren dawdd.

74 Tri rheolaeth sillav: ei hÿd, ei phwys, a'i natur.

75 Tri pheth à berthyn ar gynghanedd groes: cydatteb, cyvnewid, a gorphwysva.

76 Tair rhàn iaith y sydd: rhàn veddylidig, rhàn ddywededig, a rhàn ysgrivenedig.

77 Tair gwarant ymadrawdd y sydd: llythyr, lliaws, ac arver: ac nid gwarant camarver.

78 Tri braint y sydd i bennill o gywydd: pencerddaidd, disgyblaidd, ac iselradd, neu dincerddaidd.

### *Triodd ereil o gorf yr un Gramadeg.*

Tri rhyw gynghanedd lysg y sydd: llusg levn, llusg o gyswllt, a llusg ddwbl gyswllt:—

1. *Levn*:—"Odid i'n gael dy haelach."
2. *O gyswllt*:—"Ni à dyn gall dan alltud."
3. *Ddwbl gyswllt*:—"Y gwr cadrvraich paladrivriv."

Tri rhyw sain y sydd:—

1. *Sain levn*:—"Llyr i gadw gwyr gydag ev."
2. *Gadrivriv*:—"Pab Rhuvain bro Eurgain braf."
3. *O gyswllt*:—"Vy ngherdd am y ddager ddu."

Tri rhyw groes gyswllt:—

1. *Cyan gyswllt*, val y mae:—"A theg yw'r llwyth Eigr a Llŷr."
2. *Haner gyswllt*:—"Gwinllanau Fraine yn llawn frwyth."  
A "Dug voliant i Gyveiliog."
3. *Dwbl gyswllt*:—"Drwy'r gwelydr a'i aur goler."

Tri rhyw groes-gynghanedd y sydd:—

1. *Croes-rywiawg*:—"Cu adardy coed irdeg."  
"Coed irdeg cu adardy."
2. *O gyswllt*:—"A thêg yw'r llwyth Eigr a Llŷr."
3. *Disgyniedig*:—"Pwy ni'th gâr penaeth gwrol."

Tri rhyw gymmeriad llythyrênol, cynghaneddol, a synwryol:—

1. *Llythyrênol*:—  
"Calon dynion dwy Wynedd,  
Credo'r beirdd o'r cryd i'r bedd."
2. *Cynghaneddol*:—  
"Canu bum yn Mryn Cunalit;  
Cwyno'r wyv accw'n yr allt."
3. *Synwryol*:—  
"Ni ddwg neb yn ddiagon abl  
Bleth vanaur heb lwyth venabl."

Y gynghanedd bengoll á ddeolwyd ac á gaethwyd yn y sevydliad diwedddav á vu ar gynghaneddion a mesurau, yn amser yr awdur ariandlysawg Davydd ab Edmwnd; eithr mewn paladr englyn unawdl union, ac yn y cyfle hwnw y gadawyd hi yn gymmeradwy. Gynt yr oeddid yn arver o gynghanedd braidd gyfwrdd; a hðno á vydd pan vo un clo cynghan neu ddau yn nghanol braich o gerdd, a'r deupen yn colli, val hyn:—

"Y gwr hael o hil Rhodri."

A hðno hevyd á ddeolwyd yr un amser, neu cynt.

Cynghanedd groes rywiawg N goll, y cyntav á vydd val hyn:—

"Ond treulio da trwy lid oll."  
"Ni thynir byth hwn i'r bŷd."  
"Nid yw hawdd ei dihuddaw."

Rhydebyg á vydd pan vo yr orphwysva gynghaneddol ar awdl mewn accen ddisgyniedig, ac yn debyg bob un i'w gilydd; o achos na bydd ond un gydsain neu ddwy yn ei diweddiad yn ei llestair i gydodli yn gwbl, val hyn:—

"Iewan vy nghariad ieuanc."  
"LLAWER diwrnod LLAWEN."  
"Rhydeg vu yr anrhydedd."

O bydd y vath beth yn yr accen dderchavedig, ni ellir dim mo'i alw yn rhydebyg: ac nid yw vai; val y canoedd Davydd ab Edmwnd i verch, herwydd ei gwallt:—

"I mae a pheth am ei phen,  
Yr hâv val y Rhiw Velen."

Ymsathr odlau, á vydd pan vo yr orphwysva gynghanedd, neu rân o'r sillav hðno yn ymsathr ar awdl, val hyn:—

"Y Gwr o Gaerleon Gaur."

Canys balch yw'r awdl, ac hi yn llygad y gerdd; ac am hyny ni oddev ddim i'w brivo:—

"Y mab rhy hydr y'mhob brwydr."

Weithiau ereill y bydd ymsathr odlau, pan sathrer dau bennill neu dri mewn cywydd wrth eu gilydd yn unawdl, val hyn:—

"Goreu gwr a deddvw'r da,  
Gwir ammod yw'r gwr yma;  
A goreu un a gara',  
A goreu dim yw gwr da."

Weithiau y cenir unawdl cyrch yn bvest cyrch, val hyn:—

"Nerth yw dy ran wrth dy rym:  
Aeth yn dy rás a'th wayw'n drwm;  
Aethost iawnlwyth Ystanlai,  
Lle nad ai y llew na dim."

Ynglyn o'r hên ganiad, ynglyn garhir, ynglyn milwr, ac ynglyn cildwrn, overvesurau ynt, ac nid ydynt yn y pedwar mesur ar ugain.

#### TRIODD TALIESIN.

(*O Gell Gymysg O. Myvyr.*)

Tri pheth á ddifeithia y byd: brenin fól heb gynghor, ynad heb gydwybod, a gwas heb ovn.

Tri pheth ni hir barâa: rhyvyg heb urddas, cadernid heb gydwybod, a hir bechawd heb ediveirwch.

Tri dŷn ni bydd gynllwyniog byth: y gwr á wreica wrth gynghor ei gnawd, y gwr á wryta wrth gynghor ei vol, a gwr á ymladdo wrth gynghor ei wraig.

Tri glwth byd: môr, dinas, ac arglwydd.

Tri pheth á ddyly pawb ddiolch lle y cafi: gwahawdd, rhybudd, ac anrheg.

Tri phechawd ni chyvaddevir: ovn ar elyn, poen serch, a drwg dyb eiddig am ei wraig.

Tri chodiad serch: anerch, cael, a chusan.

Tri ymlyniad serch: cywydd, englyn, a llatai.

Tri rhwydddeb serchog: noswaith dywell, tylwyth cysgiadur, a dór dawedawg.

Tri awrwydddeb serchog: noswaith vèr wlawiawg, gwrrach anhunawg, a chi tom llavarddrud.

Tri ymlyniad serchog: digrivwch, haelioni, a syberwyd.

Tri llavarwch serchog: havdy, còg, a llatai.



Tri avlavarwch serchog: cornant, eiddig, a chyfylog.

Tri annhorth serchog: yspeilwynt hydrev, brawd pregethwr, a chi.

Tri dŷn sy noturiawl i dri pheth: melinydd i ladrata, brawd pregethwr i gardota, a broliwr i ddywedyd celwydd.

Tri pheth ni cheif dŷn ddigon er à gafu: iechyd, hoedl, a chyvoeth.

Tair sail doethineb: ieuencid i ddysgu, côv i gadw, a synwyr i ddeall.

Tri pheth ni ddyleir eu credu: breuddwyd gwrach, a llw gordderchwraig, a chwedl heb warant.

Tri pheth sy dda gan gybydd: twca carn-vas, esgidiau uchel clytiawg, a goganu hael.

Tri pheth ni hwyrach iddeu sorâu eu perchenog à wneler yn dda am danynt: gwraig, march, a chi.

Tri pheth à geif dŷn dedwydd: cariad perfaith, bywyd heddychlawn, a llawenydd newawl.

Tri pheth à geif dŷn drwg annedwydd: tylodi, avlwyddiant, a phoenau.

Tri pheth à geif dŷn gwallus: cywilydd, gwatwar, a cholled.

Tri pheth à geif dŷn am godi y bore: iechyd, cyvoeth, a sauteiddrwydd.

Tri pheth nid hawdd eu coeliaw: llw porthmon, addewid gordderchwr, a gair heliwr am ei gi.

Tair dedwyddgamp gwr: codi ei blant ar vonedd, adeiliad trev ei dâd, a dwyn ei ddadl i ben.

Tair dedwyddgamp gwr a gwraig: bod yn llawen yn eu tŷ, bod yn dda yn eu heglwys, a bod yn ddyddiwr eu cymydogion.

Tri avraid byd: crib i wr moel, drych i wr dall, a bwedl i wr unllawiwg.

Tri pheth ni hir bery: llestr pridd i wraig veddw, llestr gwydr i veddyg from, a hoelion cocos melinydd anghywraint.

Tri pheth sy gystal â'r goreu: bara a llaeth rhag newyn, pais wen rhag anwyd, a mab gwreng ar adwyr.

Tri pheth a vâg iechyd i ddŷn: digon o dân vis Mawrith, digon o gysgu vis Mai, a digon o vwyd vis Gorphenav.

Tri pheth à geif dŷn cysgadur: cywilydd, aviechyd, a methiant.

Tri pheth à geif dŷn cywir: dawn, parch, a chanmawl.

Tri pheth à geif dŷn fals: drygvyd, drygair, a drygweddi.

Tri pheth a gaif dŷn goddevus, cariad, parch, a fyniant.

Tri pheth à geif dŷn trugarawg: dawn, cariad, a thrugaredd.

Tri pheth à geif dŷn o ddylyn hirddrwg:

carchar cystuddiawl, newyn penydiawl, ac ufern dragwyddawl.

Tri pheth à geif dŷn deddwawl: digonedd bydawl, heddwch corforawl, a llawenydd newawl.

Tri pheth à ddyly dŷn eu hystyried: o ba le y daeth, yn mha le y mae, ac ovni pa le yr â.

Tri pheth ni ellir eu divlanu byth: cyvoeth Frainc, porvadir Cymru, a falsder Lloegyrr.

Tri chydymaith sydd i ddiawl: balchder, cenvigen, a lledrad.

#### LLYMA ENGLYNION CAIN CYNNWYRE.

(O *Lyfyr Ioseph Iones.*)

CAIN cynnwyre gwynt am lwyv,  
Gnawd gwynvyd gwr ei gynnwyv:  
Gwae ni chein à vo dawn Dwyv.

Cain cynnwyre gwawl hyd vŷr,  
Gnawd pwyll yn y bo myvyr:  
Gwae ni chlyw air a'i cynghyr.

Cain cynnwyre gwynt am lwyn,  
Gnawd cudd yn ni bo ymddwyn:  
Nid glew à bair mwyav cwyn.

Cain cynnwyrw gwynt am ddâr,  
Gnawd diogel pysg yn nhonniar:  
Nid ar davawd llavar câr.

Cain cynnwyre tarth am vôr,  
Gnawd cadarn llong wrth angor:  
Namyn Duw nid oes gynghor.

Cain cynnwyre llwyd tonaau,  
Hygoll dôs yn nghydverau:  
Nid mawr y câr doeth chwedlau.

Cain cynnwyre amlwg baint,  
Gnawd cwsg yn more gan vrain:  
Fawd i ddiawg nid rhyvaint.

Cain cynnwyre gwllith ar ddrain,  
Gnawd cre yn more gan vrain:  
Fawd i ddiawg ni ryvain.

Cain cynnwyre gwllith am berth,  
Gnawd anghais y cyd bei nerth:  
Nid rhwydd yd na bo yn merth.

Cain cynnwyre cânwel brith,  
Yd geisyt buain braenar ith:  
Fawd a gyrch yn mhob rhith.

Cain cynnwyre esgud mîl,  
Gnawd yn mherth eaws hywil:  
Gwawd ebrwydd neud obryn gîl.

Cain cynnwyre tarthawg byrn,  
Esgudnaid ceirw tros ebyrn:  
Gnawd aml ei amewydd trachwyrn.

Cain cynnwyre gwynt ar led,  
Gnawd diogelder yn nhrevred:  
Ni ddaw mâd mynych dreigled.

Cain cynnwyre pluv hyd waes,  
Nid aml i ddigared waes:  
Namyn iawnder ni eawir aes.

Cain cynnwyre amlwg hoeth,  
Ceisyd mâb megin ys maeth:  
Nid goreu golud cyvoeth.

Cain cynnwyre caled llêch,  
Blaidd ar vaen ni vedr odech:  
Ni aned ni wyddiad bêch.

Cain cynnwyre gwynhawg bâl,  
Gnawd i euawg hîr oval:  
Gwell cyviawnder nog aur mâl.

Cain cynnwyre yn ngholais,  
Trengid maran yn mlaen bais:  
Ni ddifyg gallt o bei cais.

Cain cynnwyre hydd yn ngwâl,  
Anrheithid rhywynt annal:  
Gnawd i ddiawg hîr oval.

Cain cynnwyre gwawl am lân,  
Dwyn ais yn na bo gwaeddan:  
Namyn Duw nid oes wyddan.

Cain cynnwyre gwynt am gawn,  
Gorhoïd rhïedd rhwysg llawn:  
Namyn Duw nid oes uniawn.

Cain cynnwyre lluwch ar vân,  
Cyrc'h ar uchel gan daran:  
Nid mawredd sydd oreu rhan.

Cain cynnwyre pwl pill sêr,  
Gorchwythid gwynt uwch aber:  
Trwch á ddaw er à wneler.

Cain cynnwyre glâs addail,  
Llawen aethnen o'i gwynddail:  
Pob dedwydd Duw a'i arail.

Cain cynnwyre gwae berchen tâl  
Yn y bo hawl ac attal:  
Ys dir am y gwŷd dial.

Cain cynnwyre croch tòn drên,  
Cyrc'hid carw dan vrig derwen:  
Edwyn anfaidd ei pherchen.

Cain cynnwyre, fug yn nghawdd,  
Gnawd gwrn y bo a'i amllawdd:  
Chwedl á dŷv yn ei hadrawdd.

Cain cynnwyre amlwg mall,  
Bid diogel dryw yn ei ball:  
Ys nid goreu gwynvyd gall.

Cain cynnwyre rhancus brân,  
Gnawd gwynt yn gwasgar lluwch mân:  
Gwae eiddil rhag cis baran.

Cain cynnwyre llwyd ceinon,  
Tawgar o'i dynder avon:  
Nid mawr serch lle mawr y sôn:

*Ystyfan Bardd Teilaw a'i cant.*

CERDD Y BARDD GLAS O'R GADAIR, O LLYVYR  
JOSEPH IONES O GAER DYV, A YSGRIV-  
ENWYD Y'NGHYLCH Y VLWYDDYN, 1590:

DEG gormes caredvoriön  
A ddiväant y byd o'i vron,  
Lle y bont gwae hwy 'r dynion !

Trais y cedyrn a'u hymdrin  
Ar y llavurgar werin,  
Gwae a'u teiml; gwae dysgethrin !

Esgeulusder esgobion  
Yn ceryddu drwg ddynion,  
Gwae wynt ddydd brawd ger bron Huon !

Chwant, o gribddail ac ocr noeth,  
Ennill döodd a chyvoeth,  
Gwae wynt yn mrawd, wyr annoeth !

Anudon digywilydd  
Ymhlith cenedl annedwydd,  
Gwae wynt yn mrawd ger Dovydd !

Gorwagedd brwysg y'ngwisgodd,  
Yn ngwrth doethion hen oesodd,  
Gwae a'u nawdd rhag Nêr nevodd !

Llyvreiddra cenedl werin  
Yn ovni egor y mân,  
Gwae wyntwy 'n nydd cyvrwysdrin !

Oervel ymhlith cerennydd  
Yn difawd cariad gwledydd,  
Gwae y rhai'n gan rhwysg tre'sydd !

Meddwadawd a phob glythineb,  
Hyd nas cyll neb ei wyneb,  
Gwae wynt rhag eu folineb !

Godinebau cyhoeddus,  
Heb neb a'u beirn yn veius,  
Gwae wynt rai annosparthus !

Trin cyvraith yn anghyviawu,  
Heb ovalu am uniawn,  
Gwae a'u gwnel rhag a'u cyvrddawn !

Gwae wynt wy, medd y Bardd Glâs,  
A warchetwis ei addas,  
Gwae a'u bont rhag anurddas !

Gwae wynt wy âl y gethern  
A wladychant oer vigwern,  
Gwae wynt rhag a'u cysb, ufern !

Amboed anyngoll vywyd,  
Nam boed ymgydrin a gwŷd,  
Ac a'm dawn Duw am gweryd.

Amboed anhylwgr vuchedd,  
Yn ystyriaw vy niwedd,  
Ys mau nawdd Ner tangnevedd.

Amboed hybwyll vyvyrdawd  
Yn ymysgar â phechawd,  
Ys Duw a'm nawdd yn nydd brawd.

*Y Bardd Glâs o'r Gadair a'i cant.*

Yr oedd y Bardd Glâs o'r Gadair yn byw  
yn amser Alfred brenin Lloegyrr; ac á

aeth at y brenin hwnw yn *Vardd Teliaw*  
iddo, medd Edward Davydd o Vargam.  
—*Pa beth yw Bardd Teliaw?*

LLYMA ENGLYNION A VUANT RHWNG CAR-  
ADAWG LLANCARVAN A GWGAN VAR-  
AWG O LANDATHAN.

(*O lyfyr Ioseph Iones o Gaer Dŷ, 1590.*)

Gwgan Varvawc, hanpyll gwell,  
A'm rothwy eb ryvawr gymhell  
Eiriau cynghor a'm cywell.

Ai da gan Dduw garu merch,  
Ac arail amddi draserch?  
Am bo'th addysg i'm annerch.

Gwgan mwyav gwybedydd  
Er à welais yn ngwledydd,  
Ai da cân a llawenydd?

Gwgan gwybedydd cyvrgain,  
Mygr fawd myvyrdawd mirain,  
Ai da canu mawl rhiaïn?

Gwgan gwybedydd cyfrgall,  
Myerav ys gwn ei ddeall,  
Ai da gadael i anghall?

Gwgan gelvyddyd barddas,  
Gwr ni rygyll ei urddas?  
Ai da gogan, ai addas?

Gwgan briv awen gytgerdd,  
Ail eos barddes dól werdd,  
Ai da i Ddovydd gwengerdd?

Gwgan gelvyddyd gyvlawn,  
Gwr à geidw y'mhob uniawn,  
Ai da dysg lle na bo dawn?

*Caradawc Llancarvan a'i cant.*

ATEB GWGAN VARVAWG.

HANPYLL gwell, ti Garadawg  
A wen-viniad ceirvoddawg,  
Wyd gyvaill Gwgan Varvawg.

Llyma vy nghyngor iti,  
Can nid teg imi dewi,  
Cyt y gwyddost gwell no mi.

Duw à wnaeth merch yn nghyntav  
O asswyn assen Addav,  
Mal a'i carai'n anwylav.

Ac am hyn, wr cerddgyvrain,  
Man y bo beirdd cyvurddain,  
Bodd Duw caru gwenriain.

Duw à wnaeth cân ac awen,  
Er peri nev yn llawen;  
Ac am hyn da cerdd gymhen.

O adael anghall á wna  
Heb addysg a'i dyspwylla,  
Nid ymchwel vyth ar y da.

Duw à wnaeth dŷn o'r ddaiar,  
Ac a'i pyrth yn athrugar,  
Ev ai mawl am hyn a'i câr.

Caradawg ymbwyll dyddan,  
Gwr ni lithr yn ei amcan,  
I bob drwg addas gogan.

Caradawg ymbwyll cyviawn,  
Ys gyrid dyn yn mhob iawn,  
Lle bytho dysg ys dir dawn.

*Gwgan Bardd Iestin a'i cant; sev  
Gwgan Varvawg o Landathan.*

## Y DIARHEBION CYMRAEG,

A GASGLOEDD YR HEN GYRYS O IAL, AC A ARGRAFED YMA YN OL ADYSGRIVIAD Y PARCH. EVAN EVANS, YN 1775, O LYVYR A YSGRIVENOEDD GWILYM MAURICE O LANSILIN, YN 1675, O GASGLIAD Y PARCH. DR. JOHN DAVIES, O VALLWYD.

### AT YR HAWDDGAR GYMRO.

DYMA i ti, y Cymro anwyl, weddillion doethineb yr hen Gymry gynt; sev yw DIARHEBION DY WLAD, yn gywirach, ac yn amlach nog y printiwyd hwynt o'r blaen.

Y rhai à ddodwyd yma yn anghwaneg sy à serenod o'u blaen, val hyn \*. Ac y mae ambell un o honynt yn o dywyll; a'r rhai hyny á nodir val hyn A.

Y casgyl cyntav o'r Diarhebbion hyn á elwid gynt *Madwaith Hên Gyrys o Iâl*; o herwydd val hyn y mae wedi eu hysgrifenu o'u blaen hwynt yn yr hen lyfrau—*Madwaith Hên Gyrys o Iâl, yr hwn á elwid*

*Bâch Buddygre, a Gwyddvarch Gyvarwydd; a'r hên wyrda gynt á ddywawd y Diarhebbion hyn val y buent gadwedig gwedi hwynt i roddi addysg i'r neb á synia'i arnynt.*

Pa amser yr oedd yr *Hên Gyrys* yma nis gwn i. Cymmer di addysg a gwybod-aeth oddiwrth y Diarhebbion hyn; ac velly y teli di iddo ev bwyth ei lavur yn eu casglu hwynt, ac i minnau bwyth vy llavur yn eu taclu, ac yn eu gosod allan er dy vwyn di—A bydd wych,

JOHN DAVIES.

### DIARHEBION.

A ACHWYNO heb achos, gwneler achos iddo.  
 A addev rydau.  
 A aeth ynghyd aeth o'r byd.  
 A arbedoedd ei lwyn á golloedd ei vwyn.  
 A arbeto ei rach arbeted ei gynnogyn.  
 Abl i bawb a'i bodlono.  
 Abl i bawb a'i gweinyddo.  
 Abl i bawb ei gydradd.  
 Abl yw soeg i vôch.  
 Ac yna mi á ddefroais.  
 Achles calon cwrwv.  
 Achos bychan y daw blinder.  
 Achos heb achos o hono.  
 Achos i'r bysen vod ar y barth.  
 Achub maes mawr á dryg-varch.  
 Achub yr adeg.  
 Achwyn rhag achwyn rhagddo.  
 Adail dedwydd yn ddiddos.  
 Advyd pob hir dristwch.  
 Adneu cyhyryn gan gath.  
 Adneu gan berchen.  
 A Duw yn y (o'r) blaen.  
 A gair Duw yn uchav.  
 Adwaen laeth can nis ddyvnyv.  
 Adwaen mab a'i llawch.  
 Adwyawg cae anhwsmon.

Addas i bawb ei gydradd.  
 Adwyth diriad heb achos.  
 Addaw mab addaw vaen.  
 Addaw mâch ac addaw mab.  
 Addaw mawr a rhodd vechan.  
 Addaw y môr a'r mynydd.  
 Addaw tég á wna ynydd yn llawen.  
 Addev yw tewi.  
 Addved angeu i hên.  
 Addug yr hydd i'r llyn.  
 Addug yr hydd i'r maes mawr.  
 Adduned herwr hirnos.  
 A ddwg angau nid adver.  
 A ddwg da drwg gynglor?  
 A ddyvo can-car á ddyvydd can-nos.  
 A ddyvo i dorth ai dyhaith,  
 Ev á ddyvydd à wnel ei waith.  
 A ddygo y gôd ymborthed o honi.  
 A êl i'r gwre adawed ei groen gartrev.  
 A ddsyger i'th vâb ddywsul ev a'i gwybydd ddywllun.  
 Aed lew i gynhwrv cãd Duw a'i ddfifer.  
 A êl i lys heb neges doed a'i neges ganto.  
 A êl i'r gwre adawed ei groen gartrev.  
 Aelwyd a gymhell.  
 Aerwy cyn buweh.

A esgyno yn hwyr ebrwydd y disgyn.  
 Aeth ynghyd aeth o'r byd.  
 Aviach pob trwm galon.  
 Avieuthus pob mammaeth.  
 Avlan dwylaw diawgswrth.  
 Avlan genau anudonawl.  
 Avlednais pob gwyllt.  
 A vo a'i vryd ar ddebed (gerdded)  
 Ni wna dda cyn ei vyned.  
 A vo aml ei vara,  
 Tan ganu aed i laetha.  
 A vo aml ei veibion,  
 Bid wâg ei goluddion.  
 A vo aml ei vâl rhoed yn ei uwd.  
 A vo caled yn nghyngaws,  
 Dadleued ar bob achaws.  
 A vo dda gan Dduw ys dir.  
 A vo digywilydd á vydd digolled.  
 A vo diried ar vôr diried vydd ar dir.  
 A vo goreu i ryvel goreu i heddwch.  
 A vo hên arched weddi.  
 A vo hyborth hywir vydd.  
 A vo marw ni ymogelir.  
 A vo marw er ei vvgwth a'i vaw y cym-  
 muner.  
 A vo nesav i'r eglwys  
 Vydd pellav oddiwrth baradwys.  
 A vo pen bid pont.  
 A vo trechav treisied,  
 A vo gwanav gweiddied.  
 Avrad yw gwrthod.  
 Avrad pob avraid.  
 Avrwydd pob dyrys.  
 A vu ben cwd aeth yn din cwd.  
 A vu ddyn aeth yn adyn.  
 A vyno barch bid gadarn.  
 A vyno glôd bid varw.  
 A vyno Duw dervid.  
 A vyno ddrwg i'w gymydog iddo ei hun y  
 daw.  
 A vyno gymbell bid glâv.  
 A vyno iechyd bid lawen.  
 A fôl nid doeth ymryson.  
 A gavas y carn á gavas y llavn.  
 A gafo ddyrnod y bore hyd ucher ydd âa  
 ag ev.  
 A gair Duw yn uchav.  
 A Duw o'r blaen.  
 A garo ei vam cared ei elltrewyn.  
 A garo ei gilydd nid adnebydd ei gabl.  
 A garo ei gilydd nis dirmyg.  
 A garo yr iau, cared ei waryau.  
 A garo ei gwr, cared ei chwegr.  
 A gasgler ar varch Malen tan ei dôr ydd âa.  
 A gatwer á geir wrth raid.  
 A grawn cybydd á ys glwth.  
 A grëa y vrân vawr á grëa y vrân vechan.  
 A gwyn cwyn bychan,

Cwyn mawr á ddarogan.  
 A gwyn rwy ni rygwynvan.  
 A gyvodes á golles ei le.  
 A gymmero ddysg cadwed.  
 Alwysen tam o garw.  
 A'i wregys ar dro.  
 A lygrwys Duw á lygrwys dyn.  
 Allan o olwg allan o veddwl.  
 Allwedd calon cwrwv da.  
 Amaerwy adnabod amynedd.  
 Amaerwy direidi drwy anian.  
 Amcan cyn gwneuthur.  
 Amcan á vydd gan bawb.  
 A'm caro i cared vy nghi.  
 Angeledd y ci am y cwd halen.  
 Am gwymp hên y chwardd ieuanc.  
 Am gwymp hên y chwardd gwên gwas.  
 Amlach yw y brain no'r gweilch.  
 An! tro ar veddwl serchog.  
 Anlav cwrwv tra hitler.  
 Amlav y mêl tra hitler.  
 Aml bai lle ni charer.  
 Amlwg cas a chariad.  
 Amlwg gwaed ar ben crâch.  
 Anlwg gwaed ar varch gwelw.  
 Ammau pob anwybod.  
 Ammheuthun pob dieithrvwyd.  
 Ammod á dyr ddeddv.  
 Amser i vwyd amser i olochwyd.  
 Amser sydd i bob peth.  
 Anavus pob drygvoesawg.  
 Anav yn ngiau angau yn ngwythi.  
 Aneglur genad yw ceudawd.  
 Anfawd i'r dyn a'm twylloedd ddwywaith.  
 Anfawd i minnau o'm twylla y drydedd  
 waith.  
 Ancirian pob diriad.  
 Anmharawd pob anallu.  
 Anmraint pob tôr devod.  
 Angau angen dyhewyn dir.  
 Angau á ddyvrys.  
 Angau garw drud a'i heirch.  
 Angel pen fordd a diawl pen tân.  
 Angen á bair i hên wrâch duthio.  
 Angen á bryn ac á werth.  
 Angen á dyr ddeddv.  
 Angen á ddysg hên i redeg.  
 Anghall mall dall á dwyllir.  
 Anghariadus pob diriad.  
 Anghenawg pob tylawd.  
 Anghwbl pob eisiau.  
 Anghymmen pob fôl. <sup>78</sup>  
 Anghynhes pob oer.  
 Anghwanacid mevl mawrair.  
 Anghyvarwydd á dyr ei din yn cachu.  
 Anhael pob cybydd.  
 Anhapus pob trwch.  
 Anhawdd i weniath  
 Dwyllaw ond unwaith.

Anhawdd chwythu tân â brawd yn ngenau.  
 Anhawdd gwreica a fynu yn yr un  
 vlwyddyn.  
 Anhawdd rhedeg oni ellir cerdded.  
 Anhyderus pob onnawg.  
 Anhydyn pob avrywiawg.  
 A noddo Duw rhynoddir.  
 Annoeth llithrig ei davawd.  
 Annog gi ac na ddos gantho.  
 Annos ci i gell agored  
 Anrhaith gyvludwydd (gyvludd vydd)  
 Taiawg yn nhy ei gilydd.  
 Anwadal barn pob ehud.  
 Anwar vu (vu i) Velyn ei vrain.  
 Anwydawg chwannawg i dân.  
 Anwyl gan bawb â gâr.  
 A oddevo á orvydd.  
 A oddev rydau.  
 A ogano á ogenir.  
 Arav dân á wna vrâg melys.  
 Araith doeth a drud ni ddygymmydd.  
 A iâno i liaws rhâned yn hynaws.  
 Arbed geisiau ac arbed gael.  
 Arbed law ac arbed droed.  
 Ar bob da Duw sydd athraw.  
 Ardd cyd byth, ardd cyn ni bych.  
 Ar ddiwedd y mae barnu.  
 Arv á geidw leddwch.  
 Arver á wna meistri.  
 Arvawg á gafu rybudd.  
 Arv doeth yw pwyll.  
 Arglwydd á gymhell.  
 Arglwydd biau â wrthoter.  
 Arglwydd gwan gwae ei was.  
 Arglwydd pawb ar ei eiddo.  
 A'r gwellaiv y llas y weirglawdd.  
 Ar hindda mae gweithio  
 Rhag newyn pan ddelo.  
 Ar hindda y mae cynuta,  
 Rhag anwyd y gaua'.  
 Arian á bryn ac á werth.  
 Ar ni allo trais thwyll.  
 Ar ni ochelo y mwg ni ochel ei ddrwg.  
 Ar nid yw pwyll pyd yw.  
 Ar ni oddevo gwas bid was iddo ei hun.  
 Ar ni phortho ei gath porthed ei lygod.  
 Ar ni roddo â garo ni cheif â ddamuno.  
 Ar ni wano yn ddraen ni wan yn gipyll.  
 Arovyn drwg vugel.  
 Ar ol gwlaw tês a ddaw.  
 Ar ol cymmylau  
 Yr â'r wybren yn olau.  
 Arwaesav á ddiwydd ddifaith.  
 Arwaesav ar leidyf ei ddal. (vynag)  
 A'wydd drwg mwg yn nifaith.  
 A'wydd nad cîg bwch.  
 Aseth ni phlyco nid da.  
 Asglodyn gwern yn mhen cath.  
 Asgre lân diogel ei perchen.

Asgwrn yr hên yn yr angen.  
 Astrus pob anav.  
 Atvai gell i gi mynych ydd âa iddi.  
 Atgas direid-ddyn.  
 Atteb arnav gan ddysgedig.  
 Athraw pawb yn ei dy.  
 Athrodwaith o genvigen.  
 Aur gan bawb á chwennych.  
 A wahanoedd cnawd gwahanoedd ddolur.  
 Awchus arv á eillio.  
 Awdur cerdd a'i gwnel.  
 Awgryn pawb nis gwybydd.  
 A wnel drwg aröed y llall.  
 A wnel drwg ymogeled.  
 A wnel dyn Duw a'i barn.  
 A wnel Duw nid âa yn adwaith.  
 A wneler yn rhin nant  
 Ev a'i gwybydd cant.  
 A wnel mâd mâd á ddyly.  
 A wnel mawr-ddrwg á rydd mawr llw.  
 A wnel dwyll ev á dwyllir.  
 Awr ddrwg cafaeliad falswr.  
 A wreiddio mewn drygioni,  
 Anhawdd vydd ei gynghori.  
 Awydd á dyr ei wddyv.  
 A yvo lawer bid veddw.  
 A ymgyweirioedd á gychwynoedd.  
 A yso dam y mâb ysed ei vevyl gantho.

Bai ar wrach dðri ei ehlun.  
 Bai ar varch dðri ei droed.  
 Balchder heb droed.  
 Balchder a'i gydymmaith  
 A gavas gwypmp ar unwaith.  
 Balchder o bell.  
 Bara ac ymenyn yw un tamaid.  
 Barv nid ardd ni chwadd ei chlas.  
 Bâs pan wahëner hyny.  
 Basav dwvr yn yd levair.  
 Bawddyn wrth ei grybwyll.  
 Be á bawd y gweud gwe.  
 Be cafai bawb á vynai,  
 Ni byddai hiraethawg neb rhai.  
 Bellach, bellach, val chwedl y bardud.  
 Bendith i'r hwch blew y bloneg.  
 Berwid calon llew (glew, lew).  
 Bid anian dedwydd.  
 Bid anniwair diveriawg (deueiriawg).  
 Bid anwadal ehud.  
 Bid aha byddar.  
 Bid ddrwg gwraig o vnych warth.  
 Bid ddriad ddyrganianus.  
 Bid ehud drud er chwerthin.  
 Bid evain alltud.  
 Bid gwrandaŵ glau wrth awr.  
 Bid gyva ran rybuchir.  
 Bid hyvagi gwyar ar on.  
 Bid lās lluarth.  
 Bid lawen iach.

Bid lawen meddw.  
 Bid lyvn dy baderau,  
     Bid rydlyd dy arvau.  
 Bid nych cwyn clâw.  
 Bid reiniad yn nghyvarch.  
 Bid reniad yn nghyvarth.  
 Bid trist pob galarus.  
 Bid wagelawg lleidr.  
 Bid wâr antur glew wrth awr.  
 Bid wastad gwraig o'i mynych warth.  
 Bid wraig ddrwg o'i mynych warth.  
 Bid wyw gwr heb vagwriaeth.  
 Bid wyw (vyw) march â gnith wellt mai.  
 Blaengar ymadrawdd pob fôl.  
 Blawd yn y gîst.  
 Blingaw y gâth hyd ei losgwrn.  
 Blodau cyn mai, mal pei (gorau) na bai.  
 Blys pob peth vydd ar wan.  
 Bo amlav y bleiddiaid,  
     Gwaethav vydd i'r devaid.  
 Bob eilwers y rhêd y cwn.  
 Bod yn glâw a marw eisys.  
 Bo hynav y dyn gwaethav vydd ei bwyll.  
 Bo hynav vo y rhyg tebycav vydd i'w dâd.  
 Boloch ovnawg vydd daw.  
 Boloch vydd daw.  
 Bonedd â dywys, dillad â gynnwys.  
 Bore brwynawg bradawg ieir.  
 Bore coch a mawredd gwraig.  
 Bore i bawb pan goto.  
 Bo tynav y llinyn cyntav y tyr.  
 Braith ei gôd â gynnull.  
 Brawd i vud pob anghyviaith.  
 Brawd i sevyll ar adwy.  
 Brawd yw celwyddawg i leidr.  
 Brawd yw cynnwynas i ddireidi.  
 Brawd yw mygu i dagu.  
 Brenin vydd unllygeidiawg yn mysg y deilliaid.  
 Brenin y bwyd yw y bara.  
 Breuddwyd gwrâch wrth ei hewyllys.  
 Brodyr pob cerddorion.  
 Buan barn pob ehud.  
 Buan y saetha ynvyd ei vollt.  
 Budd cyn tymp.  
 Bu mor edivar ganddo a'r gwr â laddoedd ei vilgi.  
 Bu weil i'r gwr â grwydrws nog â vu varw rhag newyn.  
 Bwrw a'th unllaw, cais a'th ddwyllaw.  
 Bwrw câth (caeth) i gythraul.  
 Bwrw ceir dros gyffion.  
 Bwrw dwyvyr am ben gwr marw.  
 Bwrw gwyddir ar ol yr hwyaid.  
 Bwrw heli yn y môr.  
 Bwrw nôs dros benben.  
 Bwystlawu genau callawr.  
 Bwyta y mêl o'r cwch.

Bwyta divyn valy rhuddo. *Sevarlech yn pobî.*  
 Bychan vydd mam y cynvyl.  
 Bychodedd minialed.  
 Bydd vyw march a'th vi wellt mai.  
 Byddar â geif gyfelyb.  
 Byr ddryganian â wna hir oval.  
 Byr veddwl â wna hir oval.  
 Byr-ddydd ni dderyydd cyngor.  
 Byrhoedlawg digasawg saint.  
 Byw ar garu y mae Dyddgu.

Cadarnach yw yr edau yn gyvrodedd nog yn ungor.  
 Cadw dy lîn ev âa yn eurllin.  
 Cadw dy wlân ev âa yn eurwlan.  
 Cavas dda ni chavas ddrwg.  
 Cafad malu cafad ei werth.  
 Cais varchawg da dan droed ei varch.  
 Cais yn y mwlwg.  
 Caledach glew no maen.  
 Calon ni gynnydd cysgid.  
 Calon y Sais (estrou) wrth Gymro.  
 Cân grwth na chân.  
 Cau ddieuod ag ysu o'r llygod y cwlltyr.  
 Can ebrwydded yn y varchnad  
     Croen yr oen â chroen y ddavod.  
 Can boethed a'r tân.  
 Can veddwed a'r dwsel.  
 Can velysed a'r mêl.  
 Can gynted a'r gwynt.  
 Can iached a'r brithyll.  
 Can iached a'r glain.  
 Can loywed a'r dwvyr.  
 Can oered a'r iâ.  
 Can wynded a'r eira.  
 Can wired a'r evengyl.  
 Can rewydd ni bydd pell rin.  
 Càn-car sydd i ddyn a chan-esgar.  
 Can ehud ni ddaw'r pa faig.  
 Canymdaith ei ei losgwrn.  
 Càn mil gwraig.  
 Canmoled pawb y rhyd mal y cafo.  
 Cant mwyn mâb yn y tŷ.  
 Càn pen càn synvyr.  
 Canu heb gywydd.  
 Càn wst gan henaint.  
 Cared chwaer ddiriad.  
 Câr cywir yn yr ing y gwelir.  
 Carth gwaelawd y bellen.  
 Câr y wraig aed i'r gell,  
     Câr y gwr aed ymhell.  
 Cās dyn yma cās Duw vry.  
 Cās vydd â oreilitio.  
 Cās vydd y neb â geisio.  
 Cās myharen mwyeri.  
 Cās gwirionedd lle ni charer.  
 Caseg glôf clôf ei hebawl.  
 Castell pawb ei dŷ.  
 Cau y drws wedi myned y devaid allan.

Cau tin wedi bramu.  
 Ceinmygyr pob newydd.  
 Ceisied a gre ei vam â gollo.  
 Ceisied pawb ddwy'r i'w long.  
 Ceisiaw diriad yn ei dyddyn.  
 Ceisiaw bod yn Lleucu cyn bod yn Vabli.  
 Ceisiaw ei vam yn y vorwyn ieuanc.  
 Celvydd celed ei arvaeth.  
 Cell arglwydd y weilgi.  
 Cell havodwr ei vuarth.  
 Ceneu mligi a morwyn ni cheif eu mwyn  
 a'u maco.  
 Ceneu yn ei wâl a gâst lem.  
 Cenvigen â ladd ei pherchen.  
 Cenvigen wrth well.  
 Cennyl gwraig mawrdda.  
 Cènad vud drud a'i cretwy.  
 Cènad hwyr drwg ei neges.  
 Cerddwys â rwynwys.  
 Cerid chwaer ddiriad can ni charer.  
 Ceugant yw angau.  
 Ci chwyrnawg halawg ei bais.  
 Ci â helio bob llwdyn ni bydda da ar yr un.  
 Clwm anghenawg ar y geiniawg.  
 Clwm gwrâch ar ei dimai.  
 Clwm eiddil moch ellwng.  
 Clywir corn can ni weler.  
 Clywitor corn can ni weler.  
 Cnu y ddavad varw.  
 Coel càn-hadain.  
 Coel gwrâch o'i heistedd.  
 Coeliaw llai ch:st no golwg.  
 Coes yn lle morddwyd.  
 Còv â lithra, llythyr â geidw.  
 Còv gan bawb à gâr.  
 Còv pob diwedddav.  
 Covyl gwâs diawg.  
 Cofa dy dîn pan'entrewych.  
 Cogor iâr yn ydlan.  
 Coll, medd y vrân pan gafo ddigon.  
 Colled à hofed.  
 Colles dy lad cystal i'r vuwch.  
 Colles ei glydwr à gyrhoedd ty i adwr.  
 Còsp ar ben iâr.  
 Cospi yr arth yn ngwydd y llew.  
 Còs dîn taiawg ev a gâch yn dy ddwrn.  
 Cráf ci, caledach asgwrn.  
 Cráf vydd llygad y gwestwr.  
 Crafach no'r evail.  
 Crechwen yn ngenau ynvyd.  
 Crevydd iâr wrth ei gylvin.  
 Croesaw dwvyr i long.  
 Cryd ar hên angeu ys dir.  
 Crynu val y vorwialen.  
 Crywyn cyn môch, môch á ddamwain.  
 Cuall cleddyv byr o wain.  
 Cu annair wedi praidd (buwch).  
 Cwmp ar galedlawr.  
 Cwmp y gwr yn y rhych.

Cwyn bychod ceiliawg yn aerwy.  
 Cyd boed da nid gwîr dda.  
 Cyd boed da nid Mordav.  
 Cyd boed doeth diriad ys drud.  
 Cyd boed hir hav-ddydd dybydd ucher.  
 Cyd celer naw-nos, ni cheilir naw-mis.  
 Cydvwyta â mâb arglwydd, ac na chyd-  
 chwara.  
 Cyd gwichio y ven hi á ddwg ei llwyth.  
 Cydles i bawb galw yr ychain.  
 Cyd yso gîg march, bid ar gîg ebawl.  
 Cyva ran rhybuchir.  
 Cyvaill blai id bugel diawg.  
 Cyvareddion gwrâch waethwaeth.  
 Cyvarwydd dwvyr yn ei ddyvrille.  
 Cyvarwydd llaw lle y doto:  
 Cyvled mantell ar ei gwrthwyneb ag ar ei  
 gwyneb.  
 Cyvled mantell, mewn celli,  
 Gwrthwyneb a'i hwyneb hi;  
 Ac nid cyvled gweled gwîr  
 Ar ei wyneb ar anwir.

*Ior Vynghwyd.*

Cynnewid â hael,  
 Cyvoed vydd da â dedwydd.  
 Cyvoethawg i werthu, tylawd i brynu.  
 Cyvrin pen â chalon.  
 Cyfes pob rhwydd.  
 Cymmwythach corach a simach.  
 Cymmwedd Corach a Sinach.  
 Cymmyrid haiarn hoedyl dyn.  
 Cynddrwg a'r Vad Velen.  
 Cynghusedd wedi brawd.  
 Cynghor hên nith attwg (addwg).  
 Cynghor iâch i glâv.  
 Cynghori'm gwâs yn hên.  
 Cynghori diriad nid hawdd.  
 Cynghor y gobenydd.  
 Cynnadyl taiawg yn ei dŷ.  
 Cynnwyl cinyn gan gadechyn.  
 Cynt y llysg yr odyn no'r ysgubawr.  
 Cyntav ei ôg cyntav ei gryman.  
 Cyrch cabrytai.  
 Cyrched vryn à ddysgwyllo.  
 Cyrch ci ar y vreau.  
 Cysgu val y pathew.  
 Cyssul hên nith addwg.  
 Cystal ar draed â marchogaeth fôn.  
 Cystal Hywel â Hwlyn.  
 Cystal modvedd o léd â modvedd o hŷd.  
 Cystal y march a'i advarchwerth.  
 Cywala gweddw gwraig unben.  
 Cywrys am vwyd, carant am ovid.  
 Chwannawg annoeth i ymliw.  
 Chwannawg trwch i drin.  
 Chwannawg mâb i hynt,  
 Chwannawg adref à vo cynt.  
 Chwara ac na vriw, cellwair ac na chywil  
 yddia.



Chware broch yn nghôd.  
 Chware hên gi a chenu.  
 Chware hwch a pharchell.  
 Chwarëid mab noeth, ni chwery mab new-  
 ynwag.  
 Chwarëus yn awr, nid chwarëus yn  
 mlwyddyn.  
 Chwarddiad dwvyr dan iâ:  
 Chwedlau y gwreigedd yn y velin.  
 Chwevravr chwyth neidyr o'i (i'w) nyth.  
 Chwêg medd, chwerv pan daler.  
 Hoyw vydd gwîn gloyw gan glêr,  
 Chwerv, poen dielw, pan daler.

*D. ab Gwilym.*

Chwegach bywd cybydd (cilydd).  
 Chwerddid bryd wrth â garer.  
 Chwerthin á wna ynvyd yn boddi.

*Moody madness, laughing wild,  
 Amid severest woe.—GRAY.*

Chweirys, gnawd o anianawd (anynewd).  
 Chwil gan nôs.

Da angau ar eidiawg (eiddiawg).  
 Da daint rhag tavawd.  
 Da daint rhag tavawd, daw dydd,  
 Yn nghilvach savn anghelvydd.

*Iolo Goch.*

Dadleu gwedi barn.  
 Dadlau mawr mynych ac engi ar lygoden.  
 Da gwaith Duw roi cynn byrion i'r vuwch  
 â hwylio.  
 Da gweddai y bêr i'r golwyth.  
 Da gwr val pawb.  
 Da hîl ceirch gan ddrwg gynnogyn.  
 Daint y ci wrth yr hwch.  
 Dala dy dŷ am y vo,  
 A diovryd â atvo.  
 Dala llyswên erbyn ei llyw.  
 Dall vyddar pob trwch.  
 Dall pob anghyvarwydd.  
 Dall yn barnu ar liwiau.  
 Da mab y gôf.  
 Damwain pob hely.  
 Dangos llwyr i gyvarwyre.  
 Dangos diriaid i gwn.  
 Dangos dy vys i valawg yntau ai heirch  
 yn llwyr.  
 Dangos llwybr i gyvarwydd.  
 Dangos nêv i bechadur.  
 Dangos y llo ac na ddangos y laeth.  
 Dau bryd newynawg á wna y trydydd yn  
 lwth.  
 Dau waith á vydd gan gywraint.  
 Dawn y dydd ydyw y boran.  
 Da y cynnydda meddwl gwr da.  
 Da y gwel-och gwell y dêl.  
 Da yw â saiv ac ni waner.  
 Da yw côv mab.  
 Da yw Duw, a hîr yw byth.

Da yw y maen gyda'r evengyl.  
 Da yw y sant y creter iddo.  
 Dechreu blaen carai o voly.  
 Dedwydd á gâr dadolwch.  
 Dedwydd á geif ddraen yn ei uwd.  
 Dedwydd i'r ai gwyl ai câr.  
 Dedwydd Dovydd ai rhydd rád.  
 Devnyddvavr pob anghywraint.  
 Dellis da yn yd vu.  
 Delor a ddrwg drwg i'w nyth.  
 Deuid (devod) y ci wrth yr hwch.  
 Deuparth clôd yn mhenglog.  
 Deuparth fordd ei gwybod.  
 Deuparth fydd y'ngalon.  
 Departh gwaith ei ddechreu.  
 Deuparth parch yw arver.  
 Deuparth pryd ymdrwsio.  
 Deuparth bonedd yw dysg.  
 Deuparth dysg yw hyder.  
 Deuparth taith ymbarotoi.  
 Deuparth trev eu harverau.  
 Deuparth cerdd ei gwrandaew.  
 Deuparth rhôdd yw ewyllys.  
 Deuwch brydnawn.  
 Dewin pob eiddig.  
 Dewin pob diawg.  
 Dewis ai yr iau ai y vwyall.  
 Dewis o'r ddwy vach ddu hwch.  
 Dewis pawb o'i giniaew.  
 Diane ar Glwyd a boddi ar Gonwy.  
 Diau gynnadl taiawg o'i dŷ.  
 Dibech vywyd gwyn ei vyd.  
 Diddrg didda megys hengi.  
 Diengid gwan, erlid rhygadarn.  
 Difaith llyfant dan iâ.  
 Diferwy Duw ddiawg.  
 Dig pawb rhag ai câr.  
 Digawn Crist trist yn llawen.  
 Digawn da diwyd genad.  
 Digon Duw da i unig.  
 Digon o gwrth a thelyn.  
 Digawn yw chwareu rhynawd.  
 Digon yw digon o vél.  
 Digriv gan bob aderyn ei lais.  
 Digu pawb o anafyl y pibydd.  
 Dihuniad â brydero.  
 Dillad â gynnwys.  
 Dillyn ieuanc carpiawg hên.  
 Dillyn yn llaw henvab.  
 Dinas a ddifydd ddifaith.  
 Dir yw gadael peth o'r dwvyr heibio.  
 Diriaid a gabl ei orau.  
 Diriaid a geif ddraen yn ei uwd.  
 Diriaid a glud i ddedwydd  
 Ac o vôr ac o vynydd.  
 Diriaid ni vyn wrandaew.  
 Diriaid ni hawddvaidd heddwch.  
 Dirmygir ni welir.  
 Dirwest o dyn.

Dirwest a chred a gweddi  
 A orvydd bob caledi.  
 Disymmwrth vydd dryglaw i anmhwyl.  
 Diwedd hên cadw deवाद.  
 Diwyl yw angan,  
 Diwylach â edau.  
 Diwytav i Vleiddan ei gènad ei hunan.  
 Dyled ar bawb ei addaw.  
 Dod dy law ar dy gâlon.  
 Dod venthyg i noeth  
 Nis cei dranoeth.  
 Doeth â dwyllir deirgwaith ;  
 Ni thwyllir drud ond unwaith.  
 Doeth pawb tra tawo.  
 Dogyn sydd ar bob peth.  
 Dolurus câlôn dolurvawr  
 Drud à dal dau cyvled.  
 Drud à d' b wrth ei vam.  
 Drud i ddal, doeth i estwng.  
 Drud ganu deulw.  
 Drwg à drevn wrth ei drwyddedawg.  
 Drwg o lÿs ni ater gwâd.  
 Drwg pawb o'i wybod.  
 Drwg pawl ni savo vlwyddyn.  
 Drwg pechod o'i hîr erlid.  
 Drwg wrth dranoeth.  
 Drwg un drwg arall.  
 Drug y ceidw diawl ei wâs.  
 Drwg yw y deg ewin.  
 Drwg yw y drwg, a gwaeth yw y gwaethav.  
 Drwg yw y fordd ni cherdder ond unwaith.  
 Drwg yw y drygwas, a gwaeth yw bod  
 hebddo.  
 Drwg yw peth ni thâl ei ovyn.  
 Drwg y swydd nis tâl ei gwasanaethu.  
 Drych i bawb ei gymydawg.  
 Drygwaith dwywaith y gwneir.  
 Drythyll pob digraid (diriaid).  
 Drythyll maen yn llaw esgud.  
 Drythyllwg drwg ei ddichwain.  
 Duw á vedd, dyn à levair.  
 Duw a ranoedd, nêv a gawcedd.  
 Duw a ran yr anwyd val y rhan y dillad.  
 Duw biau gwneuthur.  
 Duw cadarn à varn bob iawn.  
 Dwrdd gan deulu.  
 Dybydd hinou gwedi gwlaw.  
 Dwyn oddiar draed y saint.  
 Dwyn y carth o'r pared.  
 Dybydd rew i lyfant.  
 Dycer ni weler ei ran.  
 Dycid anmhwyl ei ran.  
 Dycid chwant dros beiriant.  
 Dycid Duw dafar o law.  
 Dychyverydd trwch â thrîn.  
 Dyddaw drwg, hanbyddir gwell.  
 Dyval à dyr y gareg.  
 Dyvydd dihirwaith aros.  
 Dihirwaith aros.

Dygas gwaith erlyn.  
 Dygyn yw addaw à garawr.  
 Dygymmyrid haiarn hoedyl dyn.  
 Dygystudd deurudd dagrau.  
 Dyly mâch ni ddyly ddim.  
 Dylun hael onid êl yn gi.  
 Dylluan yn llaw henvab.  
 Dyrnod gwâs hir yw ei gâs.  
 Dyro lyn i ddoeth ev a vydd ddoethach.  
 Dyryswys y garthen.  
 Dysg ddedwydd â gair; dysg ddiriaid â  
 gwial.  
 Dysg gan ynvyd ymogelyd,  
 A chan y doeth dysg wneuthyd.  
 Dysgu grâdd i henvarch.  
 Dywed llavar ni wypo.  
 Dywal dir vydd ei laith.  
 Dyweddi o wnc, galanas o bell.

Ebawl yr ebawl i Dduw.  
 Ebrill garw parchell marw.  
 Echwyn yw nag.  
 Edivar cybydd am draul.  
 Edwyn pawb adain.  
 Edrych dannedd march rhodd.  
 Eddewid gwreigedd daueiriaiwg.  
 Eddewid gwraig odid yw.  
 Eddewid nis gwneir nid yw.  
 Eddyw (ethyw) corn heb ysgyvarn.  
 Edwyn hengath levrith.  
 Ev a aeth ar gyrn a phibau.  
 Ev a baroedd ei ran yn egin.  
 Ev a ddaw hâv i gi.  
 Ev a vydd am y maidd, ac ni bu am y  
 caws.  
 Ev a geif dyn ddysg o'i vebyd hyd ei  
 henaint.  
 Ev a gair cynghor gan ynvyd.  
 Ev a gair gwall ar y callav.  
 Ev a gwsg galarus,  
 Ac ni chwsg govalus.  
 Ev a wyr dyn pen êl,  
 Ac ni wyr pan ddél.  
 Ev a wÿr y gâth pa varv a lÿv.  
 E vu ddewr ond ve ddarvu.  
 Ev y molir pawb wrth ei waith.  
 E vynai y gâth a'r ddwy gyfon.  
 E vynai y gath bysgod, ond ni vynai  
 wlychu ei thraed.  
 Egor dy gwd pan gaech barchell.  
 Ehang yw y byd i bawb.  
 Ehegyr vydd dryglaw i anmhwyl.  
 Eidduned herwr hirnos.  
 Eilvam modryb dda.  
 Eiriach law, nag eiriach droed.  
 Eiriawl ni garawr ni gyngain.  
 Eithyr gallu nid oes dim.  
 E las a gavas rybudd, ac ni las a'i cym-  
 myrth.

Elid bryd yn ol breuddwyd.  
 Elid ei i gell agored.  
 Elid gwraig yn ol ei henllib.  
 Elid llaw gan droed.  
 Elid rhyw ar barth pa yw.  
 Elid un i gant; elid cant i un.  
 Elid ysgubor gan ddrygorth.  
 Elid y wrâch i'r vreuan  
 Er ei genau ei hunan.  
 Elusen tam o garw.  
 Enw heb senw.  
 Enwawg meichiad o'i vôch.  
 Enwir divenwîr ei blant.  
 Erchi i ynvyd redeg.  
 Ergryn llwyr lliaws addoed.  
 Ergyd ar gais  
 Ergyd yn llwyn cyssul heb erchi.  
 Er heddwch nac er rhyvel  
 Gwenynen varw ni chasgla vél.  
 Esgud drygvab yn nhÿ arall.  
 Esmwyth gwaith yw gwrandaw.  
 Esmwyth gwaith yw methu.  
 Esmwythdra o'i ddilyn á ddianc; o'i ochel  
 a dlaw attad.  
 Ewyllys y gwyngam am ei lawdyr.  
 Ewyn dwr eddewid gwas.

Fawd pawb yn ei dâl.  
 Flwring i dlawd ei geinog.  
 Fol pob tylawd.  
 Fordd bell i wr o Benllyn.  
 Fordd Llan Vaglan yr eir i'r nev.  
 Fordd Llan Vechan ydd ai y wenyne yn  
 ei phreseb.  
 Fo rhac drycedir, ac na fo rhag drwg  
 arglwydd.

Gadu gwraig un veyl a'i chymeryd á  
 dwy.  
 Gadu y nos waethav yn olav.  
 Gair dannod yw am un á vethoedd.  
 Gair drwg anianol  
 A lysg drwg yn ei ol.  
 Gair gwraig val gwynt yn vaweidiau.  
 Gair gwraig gwneleu.  
 Gair gwraig val gwynt yn cychwyn.  
 Gair gwraig val gwynt yn ngwden.  
 Gair gwr o gastell.  
 Gair gwr yn gwreica.  
 Galanas o bell, dyweddi o agos.  
 Gedwch le i'm modryb i neidiaw.  
 Gelyn gan gerlyn ei gar.  
 Gelyn i ddyn ei ddynion (ddamwain)  
 Gollwng drygwr i ysgubor gwrda.  
 Genau mwyaleh ag arch blaidd.  
 Genid rhybyched rhwng llaw a llawes.  
 Genid i'm wfs yn nhÿ Duw.  
 Geuawg ni gafo gopinod.  
 Glân y gwyl yr avyr ei myn,

Bid ev ddu, bid ev wyn.  
 Glew a vydd llew hyd yn llwyd.  
 Gnawd adneu yn llan.  
 Gnawd aelwyd difydd yn ddfaith.  
 Gnawd avlwydd gan ddiriaid.  
 Gnawd à vo dogyn diovryd.  
 Gnawd am annerch un arall.  
 Gnawd am air serth un arall.  
 Gnawd anav ar ddiriaid.  
 Gnawd ar eiddil ovalon.  
 Gnawd a'i tyr gan orchymyn.  
 Gnawd bod anav ar annoeth.  
 Gnawd brônrain balch.  
 Gnawd buan o vain.  
 Gnawd buan o vras.  
 Gnawd gorfawg o vain.  
 Gnawd cyssul dedwydd yn ddoeth.  
 Gnawd dial anghwbl gan anghelvydd.  
 Gnawd dirrawd ar blant enwir.  
 Gnawd digarad yn llys.  
 Gnawd dyn atgas heb olud.  
 Gnawd eddewid gwraig gwaith ryphall.  
 Gnawd fo ar fraeth.  
 Gnawd gan rewydd rychwerthin.  
 Gnawd gorphwysva lle bo croes.  
 Gnawd gwarth o vynyeh gyswyn.  
 Gnawd gwedi llyn lledvrydedd.  
 Gnawd gwîn yn llaw gwledig.  
 Gnawd i veddw addev ei veddwl.  
 Gnawd i wraig dda vod yn arav yn ei  
 chell a'i chlôd yn mhell.  
 Gnawd lledrad yn ddiymgel.  
 Gnawd dwvyr lle bo lrwyn.  
 Gnawd llwyr dal llwyr dwng.  
 Gnawd mab taer yn vilain.  
 Gnawd mân ar rân cynviad.  
 Gnawd merydd yn nro.  
 Gnawd mynych awn i vechdaith.  
 Gnawd o ben drythyll draha.  
 Gnawd o egin meithrin das.  
 Gnawd osb er nas gwahodder.  
 Gnawd pob dedwydd yn niddos.  
 Gnawd rhiau eu rhadau yn wasgarawg.  
 Gnawd rhygas gwedi rhyserch.  
 Gnawd seithug ar lwyr.  
 Gnawd serchawg ynlyniad.  
 Gnawd syn syml anghyviaith.  
 Gnawd tawel yn delaid.  
 Gnawd uch pen dedwydd diddos.  
 Gnawd gwedi rhedeg attregwch.  
 Gnawd gwedi traha tramgwydd.  
 Gnawd gwedi traha tranc hir.  
 Gnawd gwedi traha attregwch.  
 Gnawd y ceir colled o vraw.  
 Gnawd yn ol dryc-hin hindda.  
 Gnawd y bo cydwyr y bydd cyrch.  
 Gnawd y bo dwvyr y bydd brwyn.  
 Gnawd yw dyanc glew o ing.  
 Gnotav cyrch gan vore.

Gnotav cwmp o'r uchelder.  
 Gochel davarn ac na ochel ildio.  
 Godroid buwch o'i phen.  
 Goval dyn Duw a'i gweryd.  
 Govyn i mam á wyv vi leidy.  
 Gogann y bwyd a'i vwyta.  
 Gogyveirch pawb ar ni wyped.  
 Amser á à heibio,  
 Wrth chwareu ac wrth weithio.  
 A vo byw yn dduwiol á vydd marw yn ddedwydd.  
 Adar o'r unlliw a ymgasglant i'r unlle.  
 Am y novio vo, ni waeth ganddo pwy à voddo.  
 Aml ddyrnod á dyr y gareg.  
 A varchoco y march pedoled.  
 A gano yn ei wely á gria cyn cysgu.  
 Anivel a vydd yr eidion pei tòrid ei gynfon.  
 Amgen no nhwy, pedvai amgenach no'u gilydd.  
 Arglywydd, eb y naill arglywydd wrth y

llall, Beth a wnawn am vlawd potes:  
 Ai codi melin i valu pecaid? Adeillo  
 melin i valu mesur?  
 A ddyweto y gwîr tòrid ei ben.  
 A ddigio heb achos cymmodod heb iawn.  
 Avlwyddiannus pob diriaid.  
 A gavoedd y dyn a gavoedd y da.  
 A garo y byd, aed i'r bont.  
 Amravaelus pob ymladdgar.  
 Amlwg tom ar varch gwyn.  
 Anhawdd tynu henvarch o rygyng.  
 A garer neu gasêir a welir o bell.  
 Ar ol rhodio pob lle, hawddvyd i gartre'.  
 Ail i chwedyl chwiliais.  
 A bryn dir a bryn geryg.  
 A bryn vlawd a bryn eisín.  
 A bryn gîg a bryn esgryn.  
 Addaw gyda mab, a thalu gyda merch.  
 A chwennycho ddrwg i arall, iddo ei hun y daw.  
 A ystedd yn dlawd, a yndwym yn gyv-  
 oethawg.

Allwedd arian a egyr bob clo.  
 A geir yn rhodd a gerdd yn rhwydd.  
 Arwydd ddrwg ar ddyn gweled ei ber-  
 vedd.  
 A vu ddyn aeth yn adyn.  
 Amlach yw y brain no'r gweilch.  
 A recho ar y bryn  
 A rech lle nas myn.  
 A recho yn y nant,  
 A rech yn ngwydd cant.  
 Ammod a dyr gyvraith.  
 Ar ni roddo à garo,  
 Ni cheif à ddymuno.  
 Angen à yr hên i redeg.  
 A vo dda gan Dduw nidyr garo vydd.  
 Adwydd ni weler nist yw.  
 Advyd a ddwg wybodaeth, a gwybodaeth  
 ddoethineb.  
 Advyd a bair i rai edrych o'u deutu.  
 A garo Duw a gospa.  
 A gadwo Duw cadwedig vydd.  
 A losgo ei odyn a vyn i arall losgi.  
 Anhardd pob drwg voesawg.  
 Antur hir ledred heb ddial.  
 Ar ni allo drais twylled.  
 Ar ol yved syched sydd.  
 A rhinweddau da gorthrechir drwg.  
 A ymoreuro ymoreured à'r gorau.  
 A eiriach ei wialen,  
 A ddiwyna ei vachgen.

Berwi y dwvr a'i davlu allan.  
 Bachgen diriaid a wna wr da.  
 Blewyn i gi a'i brathoedd.  
 Brau din brau davawd.  
 Blingo hwch à chyllell bren.  
 Bara gwyn sych.  
 Bara gwyn a chig moch a chwrrw, a bair i  
 wr werthu ei dir.  
 Berwant yn eu hisgell eu hunain.  
 Bwyd yr ynvytav a vwytir gyntav.  
 Bid gwrn biw, bid llwyd blaidd.  
 Bid rhwng y din a'r wialen.  
 Brith yn ieuanc, carpiawg hên.  
 Byr ei hun, hir ei hoedyl.  
 Bwyta llymru à mynawyd.  
 Bwrw dwvr i Havren.  
 Bydded y gerdd yn ol y testyn.  
 Bwrw ergyd ar gais.  
 Beth gwedi celwydd? cernawd:  
 Boddi y melinydd.  
 Balch yw geivyr ar y rhew.  
 Balch yw hwyaid ar y gwlaw.  
 Bawddyn wrth ei grybwyll.

Can valched o'i gwd ag yntau o'i sách.  
 Can wirioned à diawl dwyvlwydd.  
 Can galled ag Ieuan Cydewain.  
 Can lased a'r genninen.

Can gyvrwysed à barcud vis gorphenav.  
 Ceir gweniaith gan bob un.  
 Ceir y drwg ymhob man.  
 Can wyned a'r cân.  
 Can ddued a'r vrân.  
 Can haeled à Nudd.  
 Can goched a'r gwaed.  
 Can gryned a'r bêl.  
 Can valched à chribau y bleiddiau.  
 Cochwallt y gwaethav o'r holl ddynion.  
 Cwrw yn mol twrv yn mhen.  
 Cysgu val y pathew.  
 Cystadl yved o'r cawl à bwyta o'r cig.  
 Cwyn rhugl rhag cwyn rhagddo.  
 Cwrw Aber Conwy goreu pei pellav.  
 Cyvri'r cywion cyn eu deôr.  
 Cyhyd ag ystol ufern.  
 Cywir yn ing y gwelir.  
 Cywain y cwbl i'r bol val y gigfran.  
 Cynt i'r gell nog allan.  
 Cymmerwch y mynydd o'i ben e dderyydd.  
 Cynt meddwl no gweithred.  
 Cyvathrach i wvyta, cenedl i ymladd.  
 Cyvathrach o agos, galanas o bell.  
 Cyvrwy i hwch.  
 Cyvrwy i vuwch.  
 Cyving ac ehang yw dewis.  
 Coel gwrâch yn y lludw.  
 Cydwybod lân diogel ei pherchen.  
 Cás gan ynvyd a'i cynghoro.  
 Canys ve vethws ebai y ddylluan.  
 Cás gan y gâth y ci a'i bratho.  
 Ceir pob peth am arian.  
 Cêv pob diweddav.  
 Cynt i'r dorth nog i'r caud pobi.  
 Cystal à llwybyr aradyr.  
 Cynghor yn ôl.  
 Cyvoethawg pob dedwydd.  
 Cymmer dy barch a gwrthod dy amharch.  
 Cyvuwch a'r sêr.  
 Chwynwch eich gardd eich hun yn gyntav.  
 Cadw peth val carth rhag tân.  
 Cardota Gwyddelwern.  
 Colli y clustiau cyn cael y cyrn.  
 Can esgor i ieuanc.  
 Castell pob dyn yw ei dŷ.  
 Canmawl dy vro a thrig yno.  
 Cadarn ovyn a wna gadarn nacâu.  
 Cadarn wrth gadarn.  
 Cadw ci a chyvarth vy hun.  
 Cwlmw oediawg a ddetyd.  
 Chwannawg mab i'w hynt,  
 A chwannawg adref à vo cynt.  
 Chwi a'i cewch à fônod ar eich cevn.  
 Cosyn glân o gawsellt budyr.  
 Chwi piau y byd, cewchwech ynddo.  
 Clâv o'r un clwyv.  
 Crâch a ddywed crâch gyntav.  
 Cneua mewn brwyn.

Cadw dy avraid, ti a'i cei wrth dy raid.  
 Ceisiaw swllt yn ngwalva blaidd.  
 Cnoi awel.  
 Côv a lithyr, llythyr a geidw.  
 Col, medd y vran pan gafo hi ddigon.  
 Chwareu plant yn y pistyll.  
 Chwareu am bob peth ac ymladd am y  
 bwyd.  
 Câr a glyw, bid varw bid yvw.  
 Cerid yr avyr ei myn,  
 Bid o ddu bid o wyn.  
 Câs gweled a geisio.  
 Cariad a orchvyga bob peth.  
 Ceintach wedi brawd.  
 Cymmaint ar y werthyd ag ar y bellen:  
 Cïudo heli i'r môr.  
 Cneivier wedi praidd.  
 Cneuan yn ngenau hen-hwch.  
 Cymydawg da ydyw clawdd.  
 Curaw ei chwch wrth y graig.  
 Curaw un o dwll ac o draves.  
 Cyntav ei ôg cyntav ei gryman.

Digon o dân er llosgi Llundain.  
 Duw gatwo pawb rhag meddwl ei vam.  
 Da cael us gan ddrwg dalwr.  
 Da cyngor gwraig heb ei ovyn.  
 Drwg y dialoedd ei gam, a vwyaoedd ei  
 oval.  
 Dilyn hael hyd varw.  
 Dwy wedd i'r llech, ac un i'r pobty.  
 Dysgu rhygyng i henvarch.  
 Dwyn ei fon oddiar ddewr.  
 Da cael ynys mewn môr mawr.  
 Diane rhag y mwg i'r davlod.  
 Diane rhag y mwg a syrthiaw i'r tân.  
 Dal canwyll i'r vall.  
 Dal y llygoden a'i bwyta.  
 Da dal crothell mewn cawell cregyn.  
 Da i gyrchu angau i wr boneddig.  
 Da yr edwyn hen gath levrith.  
 Da i gyrchu angeu at wr clav.  
 Dioval a vydd diofvn.  
 Dioval yw dim.  
 Drwg yw y chwareu ni ennillo neb.  
 Dod i gadarn ei ran, neu ve a'i myn.  
 Dotiedig pob anghovus.  
 Dysgu oferen i ofeiriad.  
 Diddestl pob hen.  
 Dedwydd pob fyddlawn.  
 Dawn dedwydd yn ngolwg.  
 Divlas vydd barn heb ei govyn.  
 Da cyfelyba y byddar os clyw o beth.  
 Da gan y nai l gi grogi y llall.  
 Da ydyw dyn â gwddw hir a hwp yn ei  
 chwedyl.  
 Darvu y pen darvu yr ammod.  
 Digon i bawb â gafo.  
 Diboen i ddyn dybio'n dda.

Dim anair i wyr yr eglwys.  
 Drwg ei hun a debyg arall.  
 Dioval a gân yn ei wely  
 Duw piau gwneyd etivedd.  
 Da ysgavn â dwysga.  
 Dwyn dwr tros avon.  
 Dywsul y pŷs.  
 Dala y gath erbyn ei chynfon.  
 Da cynnydd medel gwrda.  
 Delis da yn yd vu.  
 Dewin pob diawg.  
 Diddrwg didda, megis hen gi.  
 Dyvydd dihir-waith aros.  
 Dysg gan yr ynvyd ymogelyd,  
 A chan y doeth dysg wneuthyd.  
 Dig pob colledig.  
 Diddig pawb wrth â garo.  
 Dyced chwant dros ben.  
 Dyn a gerir lawer gwaith  
 Er mwyn ei gydymaith.

Edrych val gavyr wyllt ar daranau.  
 E ddaw drygddyn wrth ei grybwyll.  
 Eli i bob dolur yw amynedd.  
 Eli calon cwrw da.  
 Edrych y naid cyn ei neidiaw.  
 Ev a wnâai y peth ni wnâai.  
 Egor y varchnad cyn canu y gloch.  
 Ev aeth glastwr yn ei glustiau.  
 Er maint vo'r dryc-hin,  
 Hi a â o'r diwedd yn sych-hin.  
 Er na wnei ddrwg na wna debyg.  
 Ev a dyv y draen a'i vlaen arno.  
 Elid bryd yn ol breuddwyd.  
 Ewyllys heb allu.  
 Ennill y gronyn a cholli dau cymmaint.  
 Ennill nodwydd ddur a cholli y trosol  
 haiarn.  
 Ev a gair cyngor gan ynvyd.  
 E ddaeth y caws o'r un cawsellt.  
 Ev a ddaw haid i gwch.  
 Ev a wnâai ddrwg rhwng cardotyn a'i  
 gw.  
 Eddewid gwraig odid yw.  
 Enw heb senw.  
 Esmwyth gwaith gwrandaw.

Velly vinnau, chwedyl y mochyn.

Foi rhag yr hwrdd i gorlan y devaid.  
 Fordd Bualt i Henfordd.

Gormod caws mewn maidd.  
 Gormod gormes bendith Dduw'n tŷ.  
 Gyda'r nos y cyvyd malwen.  
 Gwasgu y mê. cyn ei dyru.  
 Gwlad i gymmen yw pob gwlad.  
 Gwell yw i'r ymaröwr nog i'r dialwr.  
 Gochel ymladd â thridyn: ofeiriad, gwraig,  
 ac ynvyd.

Gorau cyvrwysdra gonestrwydd.  
 Gwr ar vwrdd a llanc ar vaes.  
 Gair i gall.  
 Gogana dy vro a thrig yno.  
 Gwae y vo à wertho ei wrthban.  
 Goreu cyttys, cyttys pentan.  
 Gwr dyeithyr yw vory.  
 Gnawd i ddyn ddwyllaw.  
 Gwaethav i ddyn ei ddyn ei hun.  
 Gwell yw dau ben nog un.  
 Gwae à vo yn brudd rhag ovn brâd.  
 Goddev van gamau.  
 Gyru halen i'r Heledd.  
 Gauav glâs á wna ynuwent vras.  
 Gorau y gwna gwas da ei hun.  
 Gwaethav byriau byriau hwch.  
 Gwaethav blÿs blÿs eisieu.  
 Gwan ei galon a gyll, gwnaed orau gallo.  
 Gyru y swch yn swmbwl.  
 Gyru y llettam i'r ystol.  
 Gwell cariad y ci no'i gas.  
 Gwell piso y ddavad no thòm y vuwch.  
 Gwynvyd hwyaid Plas y Ward.  
 Gormodd o ddim nid yw dda.  
 Gwag gwely heb wraig.  
 Gormod awydd a dyr ei wddv.  
 Gorau cyvoeth yw iechyd.  
 Gwaeth no'r vad velen.  
 Gwayw yn nghalon gan hiraeth.  
 Gwell yr heddwch gwaethlav no'r rhyvel gorau.  
 Gwnaed pawb y peth à vedro, ebai Coch y Cefylau.  
 Gwyn y gwel y vran ei chyw.  
 Gyru yr hwyaid i gyrchu y gwyddau o'r dwr.  
 Gloyw pob glân.  
 Gwyddau yn pencawna.  
 Gwna gynghor dy hen gyvaill.  
 Gynt, gynt, i'w dechreu pob hen chwedyl.  
 Gwell awr o lawenydd no dwy o bruddder.  
 Gwell rhinwedd cardodyn no mawredd brenin.  
 Gwell no da dienhyd.  
 Gwell un à wellâo no dau à waethygo.  
 Gwell drwg ordderchu no drwg briodi.  
 Gwên deg á gwenwyn dani.  
 Gwyl gwna dy orau.  
 Gwell y gwyr Sion oddi wrth gyweiriaw swch.  
 Gwyliaw croes wylvor.  
 Gwell ychydig gan rád no llawer gan avrad.  
 Gwyn pob newydd, llwyd pob hên.  
 Gwenhwyvar, verch Ogyrvan Gawr,  
 Drwg yn vechan, gwaeth ya vawr.  
 Gweithiaw castell ar ben cawnen.  
 Gorau cam, cam cyntav.  
 Gwell angau no chywilydd.

Gwin coch, mër moch, a mwg,  
 Ynt dri gelyn i'r golwg.  
 Gwartheg Huw Conwy Vychan,  
 Diawl a doro ar eich rhedeg.  
 Gobaith a vyw, diobaith a varw.  
 Gwir a ddywed y vran,  
 Odid o drachwant galon lân.  
 Gorau y gwineuwallt ar bawb.  
 Gan Dduw y ceir pob daioni os ceisir.  
 Gwallt du, gwallt dewr.  
 Gwae à wêl ac ni wêl ei hunan.  
 Gwae ni adwaen ei hunan.  
 Gwae à wnel ac ni wyr paham.  
 Gwae à gredo i bob chwedyl à glywo.  
 Gwae y verch ni vedro vod gan ei hunan.  
 Gwisgi pob troed at y drwg.  
 Gorau i bawb ei bieuawd;  
 Gorau pieufawd deall.  
 Gorau deall doethineb;  
 Gorau doethineb iawnder;  
 Gorau iawnder cariadoldeb;  
 Gorau ar garu Duw caru ei blant.

Hy pob ceiliog ar ei domen.  
 Hy y gall uu vramu wrth ei dân ei hun:  
 Hir ddarogan derydd.  
 Hawdd addaw, ond anhawdd cywiraw.  
 Haws cadw nog olrhain.  
 Hir yw byth a da yw Duw.  
 Hiroed anniolch.  
 Hanner gair i gall.  
 Hawdd pobi yn ynyl blawd.  
 Hof gan bob bwch ei ddigrivwch.  
 Heddyw yn ddyn a vory yn adyn.  
 Hesbin yw pob davad hyd na ddelo.  
 Hof gan bawb ei gariad.  
 Hwy byddis yn arovyn gwaith da no'i wneuthur.  
 Hindda gwyr Môn  
 Yw gwynt Iwerddon.  
 Hywav yn y bŷd aeth bellav i'r coed.  
 Heb na thŷ nag ymogor.  
 Hên arver, hon a orvydd.  
 Hên a wyr ieuanc à debyg.  
 Hawdd yw ovni ovnawg.  
 Hawdd cael drwg ac anhawdd myned oddi wrtho.  
 Hên hwy'r hawdd ei orddiwes.  
 Hir y byddis yn llenwi llestyr à ollyngo.  
 Hir vydd bys gwden gwanwr.  
 Hwi! cwn y drev; hai! ein ci ninnau.  
 Hof pob newydd.  
 Hy pawb ar ei eiddo:  
 Hirbryd a wna vawrbryd, a mawrbryd a wna'r mawr gywilydd.  
 Hun yr eos.  
 Hwi! gyda'r ci; hai gyda'r geinach.  
 Hawdd cysgu mewn croen cyva.  
 Haws llenwi bol no llygad.

I ti yr heddyw; i bwy y vory?

Lladd maer Caer ar Gevn Cerwyni.  
Llong i longwr, a melin i velinydd.  
Lledled rydau, waethwaeth ddeddvau.  
Llawer a ddyvynwyd, ychydig a ddewis-  
wyd.

Llathen o'r un brethyn.  
Lleiaf rhan rhan y rhanwr.  
Lladd yr iâr a cholli y cywion.  
Llawer o waith a wna llawer o ddwyllaw.  
Llawer a sieryd llawer o wragedd.  
Llawer ammau diau vydd.  
Llawer o dda a wna llawer o ddyinion.  
Lle yr ydych ddicav rhowch eich twca.  
Llywelyn pob lle weithiau gartrev.  
Lluchiau cwn â cheryg.  
Llygaid segur a wilia.  
Llygriad y peth gorau yw y llygriad  
gwaethav.  
Lle crava'r iâr e biga'r cyw.  
Llygaid diawl tan gareg.  
Lladd y gwirion yn nghysgawd yr cuawg.  
Lle clyd i vethu,  
Lle oer i fynu.  
Llev yn avon hindda vydd.

Mae dwy fordd i'r coed.  
Mae achos i'r iâr bigo'r bysgen.  
Mae modvedd yn llawer yn nhrwyn gwr,  
Mae pwll y'mhob drws weithiau,  
Manwl pob rhan, hardd pob cyvan,  
Mwth y rhydd yr hyn ni'm addug.  
Meddylia dy ymadrawdd cyn ei draethu,  
Mae dau vaw ci yn Nghaer,  
Mae brân i vrân y vron,  
Mal baedd cynddeiriawg,  
Mae mêl yn ngallt Ddygai; ond pwy sy  
well er ei vod?  
Mae yn rhyhwyr cynnilaw pan eir i dîn y  
y cwd.  
Melys yw cig lledrad.  
Mynych y daw beunydd, val ynvydion  
Cyveiliog.  
Mae sawyr y cennin ar y cewyll.  
Mor glaiar â llyn llevrith.  
Mae dechreu i bob peth; ond nid oes  
diwedd ond i rywbeth.  
Meddyg i bawb ei lygaid.  
Modrwy aur yn nhrwyn hwch.  
Mae yn rhaid i'r gwyhach gachu.  
Mae yn rhaid i'r adar mân gael bwyd.  
Mae newid gwaith gystal a gorphwysaw.  
Magu cynrhonyn mewn cig.  
Mae dau olwg ar varch gwyn.  
Mae achos i'r gath lyvu'r pentan.  
Mae modd i ladd ci heb ei grogi.  
Mal côv gwrach.  
Mae vo ar y gwir,

A minnau ar y tir.  
Mal pais Caradawg.  
Mal dannedd i genawon.  
Mal ysgubor ofeiriad.  
Manwl gyvrif á wna hir gyveddach.  
Mesur pawb wrth ei lathen ei hun.  
Mwy y twrw no'r taraw.  
Mwy y brow no'r briw.  
Mor ddiles a halen i'r iâr.  
Mi adwaen lwynog er nas goddiweddwv.  
Mwyav poen yw poen methu.  
Mud pob anghyviaith.  
Myvi yn cael yr enw, ac ereill yn cael yr  
ennill.  
Mal y bwytaes y cannwr y can myharen.  
Mal gwydd am guddiaw ei hwyau.  
Mwyav clod lleiaf ddyweto.  
Mae yn dangos ar eich barv pa saig a vu  
ar eich bwrdd.  
Mae modvedd yn ddigon er dianc.  
Mi wn chwedyl yr ysguthan wrth y bi.  
Mae brân i vrân, a gwalch i walches,  
A dylluan i'w chymhares.  
Mal gwib mammaeth.  
Mab synwyrwl a wna dad llawen.  
Mwy no'r dwr ar gevn ceiliogwydd.  
Mynych y barn pob ehud.

Ni chwythoedd na bai da i rywun.  
Na vyny ch dramwy lle bo mwyav dy  
groesaw.  
Na hir ddilyn hirddrwg.  
Newid y penwag yn Nebyn.  
Nid gwell rhwy no digon.  
Nid o nerth braich ac ysgwydd y mae  
canu crwth.  
Nos á yr y brain adrev.  
Nid da rhy o ddim.  
Ni verchyg varch, ni chár verch, ni chan-  
lyn vilgi.  
Ni wyr y góg ond yr ungainc.  
Nid marw y tad vo tradoeth,  
A vo byw dewr ei vâb doeth.  
*L. Gl. Cothi.*

Ni ercha bwyd ond ei brovi.  
Na chabla neb y gorfó arnat ei ovn.  
Ni bu lanw na bai drai.  
Ni bu wala na bai weddill.  
Naill ai mammaeth ai gwraig o'i chov. |  
Ni bydd arno niwed.  
Nerth cath yn ei chynfon.  
Na sav yn dy greulonder.  
Ni wiw galw doe yn ol.  
Ni bydd gwr gwyllt heb ei wae.  
Ni ddeler hen adar ág us.  
Ni wna geiriau tég hau y tir.  
Ni waeth ganddo o ba du i'r tŷ yr hauer  
y cywarch.

Ni vedd ev ewin i ymgravu.  
 Naill ai rhydraws ai rhydruan.  
 Ni ddisgyn brân ond unwaith ar y braen-  
 ar.  
 Nuglaw gan y cawn.  
 Ni chyll cybydd mo'i lês er ei gywilydd.  
 Ni bu draha na bai gyhydiad.  
 Nid oes mwy o goel arno nog ar din dyn  
 bach.  
 Ni châr hen vuwch ddiniawed.  
 Ni thrig march er unnos.  
 Ni thâl y swydd i'w gwasanaethu.  
 Nid tebyg din bod heb ddim.  
 Nid â rhinwedd i'r bedd byth.  
 Ni wna na byw na marw.  
 Ni wybod pwy sydd iâr na phwy sydd  
 geiliog.  
 Ni waeth tewi no siarad.  
 Ni thâl cam bach mo'i wrthawd.  
 Ni chair gan ddrwg dalwr ond drwg dav-  
 awd.  
 Nid pob dyn cryv a redr ganu telyn.  
 Ni bu erioed y vath beth yn Ynys y  
 Cedyrn.  
 Ni wiw i'r llygden ymryson piso â  
 chaseg.  
 Ni adnapo amnaid yr iâr bid heb wy i'w  
 swpper.  
 Ni dderydd cynghor.  
 Ni ddilid a'i cynghoro,  
 Eve geif a'i cospo.  
 Ni chwery hengi â chenau.  
 Nid eglur y dych yn y tywyllwch.  
 Nid ei veddwl y geif dyn.  
 Nid hwyrach yr ammau no'r diau.  
 Nid hir barâus beth cynhellus.  
 Nis gwyr ar ba droed y sang.  
 Nis gwyr pa elin i'w gosi.  
 Nid etiveddiaeth yw gwasanaeth.  
 Ni ddaw henaint ei hunan.  
 Na werth mo'th iâr ar y gwlaw.  
 Ni vyn â gafe, nis ceif â ddimuno.  
 Ni ludd parawd ei gymmeryd.  
 Ni wella gwas drwg er ei oganu.  
 Ni wneir dyn o'r eidion du.  
 Ni thyv gwellt ar fordd vawr.  
 Ni vynag haelav pan gaer.  
 Na ymddiried i'r glwth am dy giniaw.  
 Na ymddiried i'r trythyll am dy wraig.  
 Novio val y gareg.  
 Ni thyr gwlaw un asgwrn.  
 Ni sai barn ar gadarn.  
 Ni ddelir hen gefyl âg us.  
 Ni waeth pa liw ar y bol am y dalio vo y  
 bwyd.  
 Ni chytal goval â chân.  
 Ni vagoedd sychder erioed ddrudaniaeth.  
 Ni vu erioed ddiagon na byddai beth yn ol.  
 Ni cheir y dyn ond val y lo,

Gwnewch iddo'r tro a vynu.  
 Ni bu ddrwg erioed o hirymaros.  
 Ni thyr calon er rhoi ochenaid.  
 Ni wyddoch o ba le y daw haid i hwch.  
 Ni hyna meddwl henwr.  
 Ni ddaw gair drwg yn ol.  
 Ni ddeil y crochan pridd mo'i daraw wrth  
 y pres.  
 Nid oes mwy dolch nog i'r avyr am ei  
 godro.  
 Ni newid ev y bysen am y fâen.  
 Nid amheuthyn caws i wyr Trawsvynydd.  
 Nid call Cymro oni chollo.  
 Nid drwg ond y ceir drwg oddi wrtho.  
 Nid oes neb na ddaw wrth ddywedyd  
 hwda.  
 Ni chân y gôg ond â ganoedd.  
 Nid cyvarwydd ond â gerddo.  
 Nid oes am y peth a aeth heibio  
 Ond tewi sôn a gadael iddo.  
 Nid rhyvel ond gwynt.  
 Niwl y gauav gwasarn eira.  
 Niwl y gwanwyn gwasarn ir-vrwyn.  
 Ni wiw myned i brynu dwr gan lyswen.  
 Ni bu drwg erioed heb verch yn rhywben.  
 Nid eiddo ond a'i cymmero.  
 Ni ddyry ev vaw i gi, pe câai gareg i roi  
 arno.  
 Nid glân ond glân ei galon.  
 Ni thwyllwyd â rybuddiwyd.  
 Ni waeth itti hyny no phregeth.  
 Ni ddygymydd ynvyd a'i geiniog.

O'r aeron gorau yw yr eirin.  
 O ddau ddrwg gorau y lleiav.  
 O ddau dda gorau y mwyav.  
 Os ei yn was i eurych rhaid itti gario ei  
 gôd.  
 O wir waith goddau.  
 O cheif yr avyr vyned i'r eglwys, hi âa i'r  
 allor.  
 Odid hir gynnydd ar gam.  
 Odid venthyg na bo gwaeth.  
 Odid vâb cystal a'i dad.  
 O lygad y colloedd y bachgen y bunt.  
 Os saiv dim saved y bara a'r llaeth.  
 Oni chedwir y ddimai, nid âa hi byth yn  
 geiniog.  
 O geiniog i geiniog ve âa'r arian yn bunt.  
 Os cybydd a vydd evo,  
 E gyll gwnaed orau gallo.  
 O gwmpas yw y fordd nesav.  
 O prynti gaws prynt van gaws.

Piso yn y môr.  
 Pam y pigar iâr y badell? Eisiau tavawd  
 i'w llyvu.  
 Pan vo y gâth oddicartre',  
 Ceif y llygdd lo i chware.

Pob peth yn anmhorth i wan.  
 Po llyvnav vo y dwvr, dynnav vydd y  
 rhŷd.  
 Pan vo marw y sarf bydd marw ei  
 cholyn.  
 Po mwyav gafoch, mwyav geisiwch.  
 Pan doddo'r vrân  
 Ve ryna'r haban.  
 Parchell o'i hwch ei hun.  
 Pan ddel tro ar y geivyr,  
 Yr avyr glof a vydd o'r blaen.  
 Pan vo y bol yn llawn y myn yr esgyrn  
 orphwys.  
 Pawb drosto ei hunan.  
 Pen ci yn y crochan.  
 Pob sorod i'r gôd ag ev.  
 Po mwyav o ddevaid drutav vydd y  
 gwlan.  
 Po hynav vydd y dyn gwaethav ei bwyll.  
 Pwn i'r odyn a baich i'r velin.  
 Pryn yn y drev, a gwerth gartrev.  
 Priodas yr iâr a'r ceiliog: provi cyn  
 priodi.  
 Pan ddicav vo'r ceiliog uchav y cân.  
 Pe dywedwn gyhyd a chywydd.  
 Pan bellav gwaetha'r gwerth.  
 Po glanav vo'r verch blinav vydd ei  
 thynged.  
 Pawb a'i vys ar ei ddolur.  
 Pob cynnevin dichwith.  
 Prynu câth mewn cwd.  
 Prawv dy gymydog cyn bo raid.  
 Pob peth o hir arovn a dderyydd.  
 Pan gollir y gwla  
 O'r dwyrain y daw.  
 Pan gollir yr hindda  
 O'r gogledd y daw gynta'.  
 Pan soniwyv i am gefyl,  
 Soniwch chwithau am gaseg.  
 Petai y mynydd yn ymenyn, e wneid pen  
 ag evo.  
 Poeri am ben ei gadach ei hun.  
 Pryn vara, ti a ei i gardota.

Rhaid i'r dryw gael ei lyw.  
 Rhoi y pwn trymav ar y march gwanav.  
 Rhaid enllyn da gyda bara llwyd.  
 Rhaid côv da i ddywedyd celwydd.  
 Rhaid i bob ceg gael bwyd.  
 Rhan ddrwg rhan o draian.  
 Rhaid gwerthu lle bo prynu.  
 Rhyhwyr cynnilo pan eir i dân y cwd.  
 Rhewi'r carth yn y pared.

Son am Awst ddydd calan-gauav.  
 Saeth i bob nôd.  
 Synwyr y vawd.  
 Sawyr y cennin ar y cewyll.  
 Sâl y ci ni thâl chwibanu arno.

Saved pob llestyr ar ei waelod ei hun.  
 Swch heb gwlltyr.  
 Sadia'r mur po garwa'r gareg.  
 Siglo'r ddor rhag bod yn segur.  
 Soniwch am ddiawl, ac ve ymddengys.  
 Sion piau'r meirch, Sion piau'r ceirch.

Têg y dywedir am vab o bell.  
 Tôst vydd ar ddyn pan gafo ei ddewis.  
 Trech dwy wrâch nog un.  
 Troi'r gwn i daro'r gawnen.  
 Tinddu, ebai'r vrân wrth y wylan.  
 Tanllwyth y llwynog am y pentwr ceryg.  
 Tynu llaw hyd ben ci drwg.  
 Tranoeth gwedi'r dyddgwyl.  
 Troi dalen newydd.  
 Trymav baich baich o bechod.  
 Tôst a vydd mwg coll.  
 Taw wrth ynvyd.  
 Taclau gwraig weddw.  
 Taer yw'r gwir am y golau.  
 Truan teyrn heb ei ddeiliaid.  
 Tario val yr abad am y cwvaint.  
 Tyngu nad oes ceryg yn Nghornattun.  
 Têg pob chwedl heb wrthwyneb.  
 Tra bo'r cythraul yn ufern y mae lle i  
 waethygu.  
 Tlws pob peth bychan.  
 Trwy bwyll y mae dirwyn y bellen.

Un wennol ni wna wanwyn.  
 Unwaith am ganwaith i'r gwr.  
 Uvyddod i gyvoeth, a balchder i dylodi.  
 Un drwg a lwgr ar gant.  
 Un peth yw addaw, peth arall yw cy-  
 wiraw.  
 Uvydd ac annharod.  
 Un awr o ddiogi a wna ddwy o wylov-  
 ain.  
 Un trwyn budyr a wna gant trwyn glân.

Wyneb llawen llawn ei dŷ.  
 Wrth ovregedd y ceir drwg.  
 Wrth hir ymgeisio da'r ymgawsoch.  
 Wedi novio y llyn yn min y lân boddi.

Yn y gwîn y ceir y gwir.  
 Y llaw â estyn a gymhell; diymwared  
 galed a gyll.  
 Ychydig yw mam y gynnen.  
 Y genedl a ymgasâa  
 Duw a'i diva.  
 Yn arav deg yr â gwr ymhell.  
 Ymhob pen y mae piuwyn.  
 Ystig diog yn nhy ei gymydog.  
 Ymryson â diawl am gudyn o wellt.  
 Yn yr adwy galetav y tyr y garwden.  
 Yr un ddiod â chefylau Syr Rossier.



Ymgynghora â doeth.  
 Ymgymdeithasa â dedwydd.  
 Yr adar a vyn rodio  
 Yr un vath er ei wn vo.  
 Y maen â dreigla ni vwsogla.  
 Y dillad yw'r dyn ar dyn ydyw'r truan.

Y ci olav piau'r asgwrn.  
 Y gneuen goeg sy galetav.  
 Ymwrthod a'r diriaid.  
 Ymolertha a'r glew.  
 Ymchwedd a'r hael.  
 Ys dir angau i'r eiddawg.

## ADYSGRIVIAD ARALL

### DRIODD MOES,

O LYFWR A ELWIR "Y CASGLIAD DIDREVN," EIDDO IARLL MACCLESFIELD.

Tri pheth nid ymguddiant: gwelltyn mewn esgid, mynawyd mewn cwd, a phuten mewn tyrva.

Tri dyn nid call rhygoellaw iddynt: hyn no'i gymydogion, rhodiadur o bell, ac â vo vaen dros iaen.

Tri amryson â ddygwydd ar varwolaeth cadarn cyvoethawg: cythreuliaid am ei enaid, perthynasau am ei eiddo, a phryved am ei abwy.

Tri math ar ddydd â sy velltgedig: â doru orchymynion Duw ac na bo edivar ganto, a'r hwn na wypo ddim o dda ac na cheisio ei ddyngu, a'r dyn â wypo lawer o ddyg ac nas dangoso i neb.

Tri pheth ni all dyn yvw hebddynt: tudedd, a thrwydded, a gwasgod.

Tri pheth â sydd well no chyvoeth: iechyd, a rhyddid, a synwyr.

Tri pheth â ddylai crïstion daionus eu gwneuthur: caru Duw yn vwy no neb, ovni Duw yn vwy no neb, a gwasanaethu Duw yn vwy no neb.

Tri pheth sydd angenrhaid i bechadur eu gwneuthur: cydnabod ei bechodau, edivarâu am ei bechodau, a deisyv madd-euant am ei bechodau.

Tri pheth â geif dyn dedwydd: cariad perfaeth, a bywyd heddychlawn, a llawenydd newawl.

Tri pheth â geif dyn drwg annedwydd: tylodi, ac avlwyddiant, a phoeni.

Tri pheth â geif dyn divalch: amledd, llawenydd, ac esmwythder.

Tri pheth â geif dyn gwallus: cywilydd, a gwatwar, a cholled.

Tri pheth â geif dyn o gyvodi y bore: iechyd, a chyvoeth, a santeiddrwydd.

Tri pheth â geif dyn cysgiadur: cywil-ydd, ac aviechyd, a methiaut.

Tri pheth â geif dyn cywir: dawn, a pharch, a fyniant.

Tri pheth â geif dyn falst: drygvyd, a drygair, a drygddiwedd.

Tri pheth â geif dyn dyoddevus: cariad, a pharch, a chanmoliaeth.

Tri pheth â geif dyn trugarawg: dawn, a chariad, a thrugaredd.

Tri pheth a geif dyn o ddylyn hir-ddrwg: carchar cystuddiawl, a newyn poenydiawl, ac ufern dragwyddawl.

Tri pheth â geif dyn dwyvawl: digonedd bydawl, a heddwch corforawl, a llawenydd newawl.

Tri pheth â ddyly dyn eu hystyried: o ba le ei daeth, a gwybod pa le y mae, ac ovni pa le ydd âa.

Tri gelyn enaid crïstion y sydd: y byd, a'r cnawd, a'r cythraul.

Tri meddyg enaid dyn y sydd: ympryd, a gweddi, a chardawd.

Tri ychydig â wna golli llawer: ychydig o anwydau drwg, ychydig o wall, ac ychydig o ledrad.

Tri gair o gynghor â roddes Lasar i ddydd: nid amgen, câr dy Dduw yn vwy no dim, canys ev a'th wnaeth di; gweddia ar Dduw, canys ev a'th brynoedd di; ac ovna Dduw yn vwy no dim, canys ev a'th varna di.

Tri pheth serchawg ei gweled: diriad yn myned yn ddedwydd, cybydd yn myned yn hael, a phechadur yn myned yn sant-aid.

Tri pheth â ddaw ar ddydd heb wybod iddo: cysgu, pechawd, a henaint.

Tri chydymdaith à sydd i'r diawl: balchedd, a chenvigen, a lledrad.

Tri pheth sydd yn arwyddocâu bod dyn yn gadwedig: casâu pethau drygionus, caru pethau daionus, a gweddiaw yn ddi-wallus.

Tri pheth à ddyly Cristion eu coviaw yn wastad, rhag pechu yn varwawl: gorchymynion Duw, llawenydd nev, a phoenau ufern.

Tri pheth a wna gwr yn vlaenor ar ei gymodogion: bod yn ddoeth, a bod yn hael, a bod yn gyvoethawg.

Tri pheth à wna gwraig yn anniwair: tegwch yn ei hwyneb, folineb yn ei phen, a balchedd yn ei chalon.

Tri pheth ni ddiolchant eu harbed: ni ddiolch pren arbed ei ddri, ni ddiolch gwraig arbed myned arni, ni ddiolch lleidyr arbed ei gopsi.

Tri pheth à bair i ddyn golli gwahoddiaeth: bwyta gormodd, dywedyd gormodd, a cheisiau gormodd.

Tair cynvedd anwedus ar ddyn: bod yn daer i geisiau, bod yn galed i roi, a bod yn ddrwg ei dyb.

Tri pheth à bair i wraig gael tybied yn ddrwg am dani: bod yn chwannawg i gytgam á gwyr a gweision, a bod yn chwannawg i ymoethynion, a dywedyd yn ddrwg am wragedd ei chymodogion.

Tri pheth nid ydynt yn gorphwys un amser mewn dyn: y bladyr (bledr) yn sugnaw, yr anadyl yn cerdedd, a'r enaid yn meddylid.

Tri pheth à sydd, ac nid dim hebddynt: Duw Dád Hollalluawg, Duw Vâb Holldrugarawg, Duw Ysbyrd Glân Hollgyvoethawg.<sup>1</sup>

Tri phriv achaws y sydd i ddyn garu Duw: am i Dduw Dád ei greu, am i Dduw Vâb ei brynu, am i Dduw Ysbyrd Glân ei lywodraethu.

Tri pheth à ennill gariad Duw: fydd lán ddivrychau, a gobaith cryv diveiau, a chariad perfaeth dieisieu.

Tri pheth à gymhell ddyn i weddiaw ar Dduw: hir glevyd, hir advyd, a hir dristyd.

Tri pheth à sydd yn gwaethygu y byd: seguryd divyr, balchedd diystyr, ac avrad divesur.

Tri pheth à sydd yn tralodi y byd: cenvigen wenwynig, a llid cythreulig, a thrachwant baiedig.

Tri achaws y sydd i ddyn ddywedyd yn esgusedig: i gadw bywyd ei gyd-gristion, i

<sup>1</sup>Nid wyr yn coeliaw vod personau y Drindawd yn dri pheth. *Iago ab Dewi.*

heddychu ei gymodogion, ac i gadw e wraig yn vodlon.

Tri pheth anhawdd i ddyn eu gwneuthur: oeri y tân, sychu y dwr, a bodloni y byd.

Tri pheth à ddysg dyn o vod yn segur: dysgu meddwl yn ddrwg, dysgu gwneuthur yn ddrwg, a dysgu dywedyd yn ddrwg.

Tri pheth à geidw gwraig yn vodlon: ei cheiliogi pan vyno, ei thrwsiad val y ceisio, a'i chadw rhag digiaw.

Tri pheth à wna wr yn hoenus: gweled ei wraig yn ei garu, ei gyvoeth yn mwyaú, a Duw yn ei nerthu.

Tri pheth canmoledig ar wr: bod yn ddoeth ei ymadrawd, yn gyvawn ei weithredoedd; ac heb wneuthur dim gormodd.

Tri pheth canmoledig ar wraig: ei hwyneb yn ddawnus, ei hymddiddan yn synwyrus, a'i harveron yn ddaionus.

Tri pheth rheidiawl i ddyn wrthynt wrth vyny ch vyned i davarn: ei ben yn gryv, ei vol yn gadarn, a'i bwrs yn drwm.

Tri pheth à geif dyn mewn tavarn: divyrwch i bechu, divyrwch i vethu, a divyrwch i ymwaethu.

Tri dyn ni ddylai wr eu gwahawdd i'w ciniau: twyllwr gwenieithus, testynwr gwatwarus, a bradwr cenvigenus.

Tri pheth hofaidd i wr eu bod gantho: ei wraig yn rhinwedus, ei dŷ yn drevnus, a'i dir yn gyfannedus.

Tri pheth à nertha gwr i vod yn gyvoethawg: ei wraig yn gasglad, ei dylwyth yn ddiavrad, ac yntau yn llavuriad.

Tri pheth à wna wr yn anghenus: ei wraig yn voethus, ei dylwyth yn wallus, ac yntau yn avradus.

Tri pheth ni ddygant wr i gymmeriad mawr: ei wraig yn veistres, ei gefyl yn llymes, a'i dir yn ores.

Tri pheth gweddus i wr eu bod yn ei dy: ei wraig yn ddiwair, ei glustog yn ei gadair, a'i delyn yn gywair.

Tri pheth rheidiawl i ddyn eu bod gantho: ei wraig ar ei wely, ei dân yn ei aelwyd, a'i arian yn ei bwrs.

Tri pheth à wna i wr vod yn vodlon i'w giniaw: ei wraig yn vedrus, ei vwyd yn voethus, a'i gylla yn iachus.

Tri pheth anesmythav ar wr yn ei dŷ: ei wraig yn ymdaeru, ei simnai yn mygu, a'i dŷ yn dyveru.

Tri pheth nis ceif dyn yn ddifael wrth ei amgen: benthgy arian gan ocrwr yn ddi lôg, pledo ei vatter yn y llŷs gan wr o gyvraith yn ddi fys, a'i giniaw o vwyd

moethus yn nhŷ cybydd angawr yn ddi rybudd.

Tri rhyw o ddyinion anhawdd eu cael yn yr un meddwl: y call a'r fôl, yr hael a'r cybydd, a'r cywir a'r lleidyr.

Tri pheth y sydd yn cadw y byd mewn trevyn: rhiv, a phwys, a mesur.

Tri pheth à geif dyn wrth ymgyvreith-iaw: côst, a goval, a thravael.

Tri rhyw o ddyinion à gyll eu harawwch yn debyg i rai allan o'u pwyll: helwyr, dawnsywyr, ac ymladdwyr.

Tri rhyw o ddyinion y sydd heb brisiaw eu gonestrwydd: meddwyr, anudonwyr, a bradwyr.

Tri rhyw o ddyinion à sydd heb ovni Duw: tracturiaid, cynllwynwyr, a threiswyr.

Tri pheth à syddaionus i ddyd: meddwl yn dda, dywedyd yn dda, a gwneuthur yn dda.

Tri pheth à arwain ddyd i dylodi: aviachus chware, glothineb, a phuteindra.

Tri pheth ni all dyn eu cuddiaw: cyvoeth mawr, cariad mawr, a châs mawr.

Tri pheth à sy raid i gristion da ryvelu yn eu herbyn: y byd, y cnawd, a'r cythraul.

Tri pheth à sy raid wrthynt wrth wneuthur pob gwaith: gwybodaeth pa vodd ei gwnelir, a gallu i'w wneuthur, ac ewyllys i'w ddwyn i ben.

Tri pheth anhawdd i ddyd eu gwneuthur yn gwbl: adnabod ei hunan, gorchvygu ei chwant, a chadw ei rîn.

Tri pheth da pan vont yn gymmesur, a drwg pan vont yn anghymmesur: y tân, y dwr, a'r gwynt.

Tri pheth gwerthvawrocav i ddyd: iechyd, a rhyddid, a rhinwedd.

Tri chyvedd ddrwg eu bod ar ddyd: balchedd heb haelioni, trachwant heb gyv-iawnder, a llid heb drugaredd.

Tair modd y sydd i adnabod dyn: ei ymadrawdd, ei ymddygiad, a'i arveron.

Tri pheth cyntav à dwylla ddyd: geiriau tég, chwant ennill, ac eisieu gwybydd-iæth.

Tri pheth à geidw wr mewn iechyd: ymborth yn vesurawl, trawaelu yn gym-medrawl, a chadw ei wres yn naturiawl.

Tri pheth gwrthwynebus gan wr i ymadael ag hwynt: y wlad lle y ganed ac ei maged, y cyvoeth yr hwn à gasgloedd ev ei hun, a'i gyveillion y rhai à oedd ev gwedi eu provi yn gywir iddo.

Tri pheth ardderchawg ymhlith pethau bydawl: casâu folineb, caru rhinwedd, a dymunaw dysgu yn wastad.

Tri pheth à ennill enw da i ddyd: dywedyd ychydig, gwneuthur daioni, a llavurio.

Tri pheth à wna ysgrivenydd da: tria-gwyddawl gofeditgaeth am wyr ardderchawg, a rhoi dangosiad i'r etiveddion ar eu hol, a gwneuthur i'w enw ei hun barâu byth.

Tri pheth à ddyly dyn bryderu eu gwneuthur: gwrandaw yn uvydd, atteb yn gall, a dangaws ei hunan yn wybodus.

Tri pheth rhyvedd à sydd yn y byd gan gymaint o wahaniaeth y sy rhyngddynt: wynebau dynion, dywediad dynion, ac ysgrivenadaw dynion.

LLYMA DRIODD GWEDDUS EU BOD AR WRAIG I VODDAU EI GWR, AC I'W GWNEUTHUR YN WELL NO GODDOL.

Bod yn gywilyddgar, bod yn ddystawgar, a bod yn uvyddgar.

Ei hwyneb yn ddawnus, ei hymddyddal yn vedrus, a'i llun yn weddus.

Meddwl di anllad, buchedd ddi avrad, a chyviawn vwriad.

Ar Dduw yn gweddiaw, yn sywon e dwylaw, a'i gorchwyl yn gryno.

Ei phryd yn hofaidd, ei chorf yn llun-iaidd, a'i chalon yn buraidd.

Y lleill law yn casglu, a'r llall yn rhâu, a'i phen yn pryderu.

Yn dda ei chydwybod, yn rhadlawn ei thavawd, yn gywir i'w phriawd.

Yn ddivalch ei chalon, yn lân ei harver-ion, yn drugarawg i dylodion.

Yn caru Duw yn hyvryd, yn ovni Duw hevyd, yn gwasanaethu Duw yn ddiwyd.

Er hyn y rhyw wraig a gâr cael myned lle myno, credu à ddywedo, a chael à geisio.

LLYMA DRIODD GWEDDUS EU BOD AR WRAIG RHAG CWCWALLTU EI GWR O HONI, O BYDD YN GORVOD ARNO VOD YN VYN-YCH ODDI GARTREV.

Ei sodlau yn ibawg, ei thraed yn agawg, a'i cherddediad yn fallachawg.

Ei choesau yn vreisgon, ei morddwyd-ydd yn veinion, a'i gliniau yn gulion.

Yn llaesion ei brônau, yn geimion ei breichiau, a'i dwylaw yn gigweiniau.

Ei dannedd yn hirion, ei gwelau yn vryion, a'i llygaid yn drawsion.

Ei haelau yn vlewawg, ei hwyneb yn ddosawg, a'i mín yn drevlawg.

Ei chlustiau yn llydain, ei deurudd yn druain, a'i lliw val ysgevain.

Ei llais yn gryg, ei thavawd yn vloesg, a'i geiriau yn chwervon.

## LLYMA DRIODD CERDD.

TRI bai cyfredin à sydd ar gerdd: tdr mesur, drwg ystyr, a cham ymadrawdd.

Tri thdr mesur à sydd ar gerdd: hir, a byr, a thwyll yn yr awdl.

Tri rhyw ystyr drwg à sydd: cam ddychymyg, anmherthynas, ac eisiau enaid.

Tri cham ymadrawdd à sydd: unig a lliosawg i gyd, gwrryw a benyw i gyd, a gwydd ac absen i gyd.

Tri anmherthynas cerdd: moliant a gogan i gyd, rhy ac eisiau i gyd, ac eisiau beryv.

Tri rhan ymadrawdd à sydd: enw, a rhagenw, a beryv.

Tri rhyw ymadrawdd y sydd: ymadrawdd berfaeth, ymadrawdd gyviawn, ac ymadrawdd addurn.

Tri rhyw sillav à sydd: sillav dalgron, sillav leddev, a sillav dipton.

Tair rhyw sillav dalgron à sydd: dipton dalgron, a dipton leddev, a dipton wib.

Tair dipton gymmeriad à sydd: dipton dalgronleddev, a dipton bengamleddev, a dipton dawddleddev.

Tair rhyvedd ddipton à sydd: dipton ddiath, a dipton losgyrnawg, a dipton wib.

Tair dipton odidawg ganiad à sydd: dipton dalgronleddev, a dipton losgyrnawg, a dipton gadarnleddev.

Tair sillav gadarnleddev ganiad à sydd: tromleddev, byddarleddev, a chadarnleddev.

Tair sillav ysgavn ganiad à sydd: sillav dalgron, a sillav bengamleddev, a sillav vud.

Tair dipton à sydd ni cheir proest yn eu herbyn: dipton dawddleddev, a dipton dalgron, a dipton wib.

Tri bai gwahanredawl à sydd ar gerdd: nid amgen, ar broest englyn, ac unodl trwm ac ysgawn, a lleddev a thalgron.

Tri bai gwahanredawl à sydd ar englyn unodl: carn-ymorddiwes, a thin âb, a drwg osodiad ar odlau.

Tri pheth à gydvreiniant ymadrawdd, ac ei teilyngant: ehudrwydd parabl, a chywreindeb synwyr, ac anianawl ddeall y datganiad.

Tri pheth à anghywiriant ymadrawdd:

pwl ddatganiad, ac anghywirdeb synwyr, ac anystyriawl ddeall y parablwr.

Tri rhydd cerdd davawd à sydd: clerwriaeth, teuluwriaeth, prydyddiaeth.

Tri pheth à berthynant ar glerwr: goganu, ac ymbil, a gwarthruddiaw.

Tri pheth a berthynant ar deuluwriaeth: haelioni, a digrivwch, ac erbyniad â da heb ymbil am danynt.

Tri pheth à berthynant ar brydydd: clodvori, a digrivâu, a gwrthwynebu gogangerdd.

Tri un peu cerdd à sydd: prydu, a chanu englynion, a chyvrwyddydd.

Tri pheth à anurddant gerdd: ei datganu mewn anamser, heb ei govyn; a chanu yn anmherthynas, nid amgen, i'r neb nas dylai; ac eisieu cerddwr i'w barnu.

Tri pheth à urddant gerdd: ehudrwydd ac eovnder parabl, ac ethrylithr y datgeiniad, ac awdurdawd y prydydd.

Tri pheth à hofant gerdd: dyvnder synwyr ac ystyr, odidawg ddychymyg, ac awdurdawd y prydydd.

Tri pheth a anhofant gerdd: brasder synwyr, a sathredig ddychymyg, ac anurddas y prydydd.

Tri pheth à gywreiniant ar gerdd gywraint: cyvansoddiad ymadroddion, ac amllder Gymraeg wrth ei chyvansoddi, a dychymygrwr y gerddwriaeth wrth gyvansoddi y gerdd.

Tri pheth à anghywiriant gerdd: eisiau modd i gyvansoddi ymadroddion, ac anamlder Gymraeg, ac angherddwriaeth.

Tri pheth à amlânt mewn cerddwr: hen gerdd, a barddoniaeth, ac historiau.

Tri pheth à bylant awen cerddwr: anghyvrwyddydd, angherddwriaeth, ac anghanmawl.

Tri pheth à lygrant o gwbyl awen cerddwr: tra meddwdawd, a thra godineb, ac ysgymmyndawd.

Tri pheth a ddyly eu gochel: llynau, a phuteiniau, a chlerwriaeth.

Tri pheth à ddyly cerddwr eu canmawl: haelioni, a digrivwch, a cherddwriaeth.

Tri pheth à vavrâa gerddwr: gwisgodd, a chydabod, a chanmawl.

Tri pheth â ddistrywiant gerddwr :  
noethi, ac anghydnabod, ac anghanmawl.

Tri pheth ni chynghan mewn cerdd :  
anwadalwch, ac ysmalâwch, ac angherdd-  
wriaeth.

Tri pheth y cae cerdd arno heb vyned  
yn eu herbyn: hên gerdd yr hên bryd-  
yddion, a dychymygawl awdurdawd y  
prydyddion newydd, a chelvyddydd y gerdd-  
wriaeth.

Tri rhyw broest â sydd : proest dalgron,  
proest gadwynawg, a lleddydd broest.

Tri rhyw unodl â sydd : unodl union,  
unodl cyrch, ac unodl crwca.

Tri pheth ni ddyly cerddwr eu credu :  
gogan clerwr lle prydo prydydd, a chanu  
angherdd o brydydd canmoledig ag awdur-  
dawd iddo, a dywedyd celwydd yn ystig a  
gogan yn ddiachaws.

Tri pheth â lawenâa cerddwr : ei berchi,  
a chanmawl ei gerdd, a rhoddion gwyr da.

Tri pheth â goddant gerddwr ac ei

tristâ : ei anmherchi, ac anghanmawl ei  
gerdd, a'i nacâu.

Tri pheth â warthrudd cerddwr : ei  
anghredu, ei anghanmawl, a cham varn.

Tri anheggor cerdd â sydd : eglurder  
parabl, ac eonder, a cherddwriaeth.

Tri pheth â ddyly cerddwr eu haddev :  
cyvrinach, a chywilydd cydymddaith, a  
chelwydd argyweddus.

Tri pheth ni ddyly cerddwr eu celu :  
gwirionedd diargywedd, a barnu ar gerdd-  
wriaeth, a chlod dyledus y dynion âa.

Tri pheth â waharddir i gerddwr : cam-  
varnu ar gerddwriaeth, a goganu heb ei  
haeddu, a chroesangerdd.

Tri pheth â ganmolant gerddwr : hael-  
der, a digriwch mawl, a devodau da.

Tri pheth â wradwyddant gerddwr : cyb-  
yddiaeth, a devodau drwg, a thra chynnilddeb.

Tri pheth â barant garu cerddwr : cyv-  
undeb, a haelioni, a rhywiogrwydd.

Ac velly tervyna.

## Y PEDAIR CAMP AR UGAIN,

A'R ACHOS Y GWNAETHBWYD HWYNT.

AMRYVEILION lawenydd ydoedd gynt yn  
mhl'th cenedl y Cymru pan oeddynt â  
Phrydeiniaethnaturiawl davodau eiganedig  
wlâd yn ddigymysg ganthynt, a breninawl  
allu ganthynt, a llywodraeth teyrnasoedd  
ganthynt. Ac velly y dengys eu tri ar-  
benig ragoriaeth arver, nid amgen, byw-  
iogrwydd, nerth, a synwyr, yr henwed yn  
ddewisawl ac y graddwyd pedair camp ar  
ugain yn amser yr amherawdyr Arthur, ac  
â vuant arveredig yn hir o amser, oni  
ddifysioedd meddiant tywysogion Cymru ;  
ac yna gwedi hyny val ciwdawd heb law-  
enydd, ni vawr arverwyd o'r campau hyny,  
onid aethant dros gôv haiachen, val nad  
oes nemmor o ddyn yn Nghymru â wyr  
henwau y pedair camp ar ugain. chwaeth-  
ach eu gwneuthur ; a phan glwir eu  
henwi ni wyddys beth yw llawer o nadd-  
ynt ; ac am eu bod mor ddyeithyr â hyny  
â wnaeth i mi ysgrifenu yn y llyvyr yman,  
am nad adwaen le mor addas i veddiannu  
cadwedigawl gofadwriaeth yr hen Brydein-  
iaid, ac i'ch meddiant chwi, ac â dybiais  
drwy ddarllen amryveilion bethau y cadw-

ech yn well yn eich côv ych ganedig natur-  
iawl wlâd, yr hon ych dyco y Goruchav  
Dduw chwi iddi wrth vodd eich calon eich  
hun. Amen.

HENWAU Y PEDAIR CAMP AR UGAIN.

Cryvder.  
Ymavael.  
Rhedeg.  
Neidiaw.  
Noviaw.  
Marchogaeth.  
Saethu.  
Chwareu cledd a bwled.  
Chwareu â chledd deuddwrn.  
Cwareu â fon ddwybig.  
Hely â milgi.  
Hely pysg.  
Hely adar.  
Barddoniaeth.  
Canu telyn.  
Darllen Cymraeg.  
Canu cywydd gan dant.  
Canu cywydd pedwar ac acenu.  
Portreiaw.

Herodiaeth.  
Chwareu gwyddbwyll.  
Chwareu tawlbwrdd.  
Chwareu fristial.  
A chyweiriaw telyn.

## DOSBARTH Y CAMPAU UCHOD.

O'r pedair camp ar ugain, deg gwrolgamp  
y sydd, nid amgen, o hyny chwech o rym  
corf, val hyn:

Cryvder.  
Rhedeg.  
Neidiaw.  
Noviaw.  
Ymavael.  
Marchogaeth.

A phedwar o rym arvau, nid amgen:  
Saethu.

Chwareu â chledd deuddwrn.  
Chwareu â chledd a bwled.  
Chwareu â fôn ddwybig.

A deg mabolgamp y sydd, ac o hyny  
tair helwriaeth, nid amgen;

Hela â milgi.  
Hela pysg.  
Hely ederyn.

Saith teuluaidd o'r mabolgampau sydd,  
sev ynt;

Barddoniaeth.  
Canu telyn.  
Darllen Cymraeg.  
Canu cywydd gan dant.  
Canu cywydd pedwar ac acenu.  
Portreiaw.  
Herodiaeth.

Pedair o'r campau sydd val hyn;  
Chwareu gwyddbwyll.  
Chwareu tawlbwrdd.  
Chwareu fristial.  
Cyweiriaw telyn.

O'r pedair camp ar ugain uchod pedair  
sydd benav, a: á elwir tadogion gampau,  
nid amgen;

Rhedeg.  
Neidiaw.  
Ymavaelyd.  
Noviaw.

Yr achos y gelwir hwynt yn bènnav, ac  
yn dadogion, am nad rhaid devnydd yn y  
byd i wneuthur yr un o honynt, eithyr val  
y gwnaed dyn o'r pedwar devnydd sydd yn  
mhob dyn, ac wele val dyna yr achos.

## Y NAW HELWRIAETH.

O'r naw Helwriaeth, tair helva gyfredin  
sydd; 1. Carw. 2. Haid wenyn. 3. Gleis-  
iad: A thair helva gyvarthva: 1. Arth.  
2. Dringedydd. 3. A cheiliog coed: A  
thair helva ddolev, 1. Llwynog. 2. Ys-  
gyvarnog. 3. Iwrch. Y Carw á ddy-  
wedir ei vod yn un o'r tair helva gyfredin;  
yn gyntav, am ei vod yn wychav ac yn  
wrolav anivel y mae helwriaeth arno á  
bytheiaid ac á milgwn; yn ail, am ei vod  
yn rhanog rhwng pawb á ddél atto wedi ei  
ládd, cyn tynu y croen oddiamdano: oble-  
gid, os bydd gŵr ar ei daith yn dyvod  
heibio yr amser hwnw, ev á geif ran o  
hono wrth gyvraith, cystal a'r neb a'i  
lladdo. Haid wenyn sy helva gyfredin,  
oblegid pwy bynag a'i cafo ar ei dir ei hun,  
neu ar dir arall, y mae yn rhanog pawb o  
honi ar á ddél atti cyn rhoi o hono wstl,  
sev yw hyny rhoi nód wrthi i ddangos mai  
eve a'i cavas gyntav; ac onis gwna, pawb  
á ddelo yno á geif ran o honi, ond bod iiiid  
yn myned i berchenog y tir. Gleisiad a

elwir yn helva gyfredin, oblegid pan vydder  
yn ei hely á rhwyd, neu á thryver, neu  
mewn modd arall, pwy bynag á ddél atto  
cyn ei ranu, y mae iddo ran o hono cystal  
a'r neb a'i dalio, os bydd mewn dŵr  
cyfredin.

Yr Arth sy helva gyvarthva, am ei bod  
yn gig hely o'r penav, ac am na bydd vawr  
ymld arni, am nas gall gerdded ond yn  
arav, ac ni bydd ond ei baeddu, a'i chyv-  
arth, a'i lládd.

Dringedydd yw pob peth á ddringo i  
vrig pren i'w amddifyn ei hun. Ac ni  
ddyly heliwr ddywedyd Bele, neu Gáth  
goed, neu Wiwair neu Fwlbart, ond eu  
galw dringedydd llwyd, dringedydd du,  
dringedydd côch. Ac am nas gall dring-  
edydd ddiacn yn mbell, ond dringo i'r  
pren, ac yno ei vaeddu a'i gyvarth á wneir.

Celliog coed á elwir yn helva gyvarthva,  
oblegid pan ddél y bytheiaid ar ei hynt ev,  
ei ymld á wnânt oni gymmero bren, ac  
yno ei gyvarth a'i vaeddu á wneir.

Y Cadnaw sydd helva ddolev, oblegid er maint vo'r gwaeddi a'r canu cyrn ar ei ôl, ev á gynnal ei helynt oni vlino.

Ysgyvarnog sydd helva ddolev am ei bod yn cadw ei helynt er maint vo'r ymlid arni.

Yr Iwrch á elwir yn helva ddolev oblegid yr un achos.

Penav cig hely yw Carw, ac Ysgyvarnog, a Baedd gwýllt, ac Arth.

Os gollyngir milgwn i garw, neu anivel arall, a'i ymlid o'r milgwn dros vryn, allan o olwg, a'i ládd, y milgi blaenav yn y golwg diweddav biau'r croen. Ond ni cheif miliast groen er ei ennil, oni bydd hi yn dorog o vilgi à ennilloedd groen, ac yna hi a'i ceif.

Am Ysgyvarnog, pa beth bynag a'i lladdo, y ei neu'r peth arall a'i coto o'i gwál a'i piau os ei cheisio y byddir i'w hymlid.

Y naw helwriaeth á ddyly bawb eu gwybod ar á ddyco gorn. Ac oni veidr roi ateb amdanynt, ev á gyll ei gorn. Ac os daw neb i hely a'i gynllyvan amdano, oni veidr roi ateb am y naw helwriaeth,

ev á gyll ei gynllyvan. Ond ev á all vod a'i gynllyvan am ei vraich yn ddiiddial.

Ni all neb illwng na milgi na miliast i un anivel pan vo'r bytheiaid yn ei ymlid, oni bydd iddo yntau vytheiaid yn ei ymlid; ac oni bydd, ve all y neb à vo yn canlyn y bytheiaid dori llinyn gar ei vilgi, os eve a'i gillwng.

Nid rhýdd i neb saethu anivel y bo helwriaeth arno, pan vo yn ei esmwythdra, tan boen colli ei vwa a'i saeth i arglwydd y tir. Ond eve á geif ei saethu, a'i ládd, os gall, pan vo'r huaid ar ei ôl; ond na cheif saethu yn mysg y cwn.

Os á neb i hely, a gillwng ar anivel, a chyvarvod o gwn segur ag ev, a'i ládd, y cwn cyntav bieuvydd, onid cwn y brenin vydd y rhai segur.

Yr anivel à helier vydd ar arddelw yr heliwr cyntav, hyd oni ymchwelo ei wyneb parth a'i gartrev, a'i gev'n ar yr hely. Ond o bydd ei gwn ev yn hely, ac yntau wedi ymadael á'i gwn, ni ddyly ev ddim cyd lladdo y cwn segur ev, ond perchènog y cwn segur bieuvydd.

*Velly yr oedd y gyvraith hely gynt.*

LLYMA

# LYVYR TRIODD BEIRDD YNYS PRYDAIN,

A GASGLWYD O AMRYVEILION HEN LYVRAU YSGRIVEN,

GAN IOLO MORGANWG, B.B.D. 1796.

*Llyma Lyvyr Triodd Beirdd Ynys Prydain, à gasglwyd genyv vi, THOMAS AP IEVAN, o Dre Bryn, yn Morgannwg, 1680.*

Y CYMRO CAREDIG,

DYMA Lyvyr o hên Driodd; llawer o arver á vu gynt ar y cyvryw bethau, ac ydd wyv yn covio imi weled mewn tŷ hên garwr imi, pan oeddwn yn vachgen, amryw gopïau o Driodd, wedi eu doddi y'nglud ar welydd ei neuadd. Peth cyfredin oedd hyn, meddai ev, yn yr hên amseroedd; ni deallwn wrth hyn vod ein hên deidiau yn caru doethineb yn well o lawer no'u heppil. Pwy ynawr á ry'nglud ar wâl ei barth unpeth à vo nag yn dysgu, nag yn arwyddo doethineb? neb ar à wn i. Gweled amryw bethau o'r vath hyn, yn enwedig Triodd Llelo Llawdrwm o'r Coettŷ, ar wal fenestr neuadd vy hên garwr, á dynoedd vy serch i gyntav at ddarllen hên iaith vy ngwlad, a chwilio ei hen ysgrivèniadau; ac ni bu vychan y dyddanwch à gevais yn yr hên lyvrau Cymreig. Yr wyv yn credu hyn yn vy nghalon, pe bai rhai pethau o'r

natur hyn mewn print i'w doddi ar welydd mewn tai, y tynai hyny sylw llawer dyn ieuanc at bethau gwell nog y sydd yn awr vynyachav yn cael eu gosod o'u blaen; ac nid cywilydd y byddai i ambell hên ddyn pengaled, a phengaled y gwelav i pob hên ddynion, ystyried ei bod hi'n llawnoed bellach iddo ve neu hithau ymarver ychydig à doethineb: Medd hên Driodd Cerdd—

“Tri Thriodd à vuant gynt ar gov a gwybod yn Nghymru, Triodd Cerdd, Triodd Cyvarwyddydd, a Thriodd Doethineb.

Nev i eneidiau yr hên ddynion da gynt à vuant yn dwyn ar gov a gwybod y cyvryw bethau; ond os o hyny y bu nêv iddynt, y mae arnav ovn mawr ni welant vyth vawr o'u heppil yn y lle y mae nhwy.—Bydd wych, bydd iach, a bydd ddoeth! a Duw vo gyda thi, a'i nev i'th enaid!

THOMAS AB IVAN.

## CYNNWYSIAD Y LLYVYR HWN.

1. 2. 3. 4. 5. TRIODD DOETHINEB.
6. TRIODD LLELO LLAWDRWM.
7. TRIODD Y GWRAGEDD.
8. TRIODD Y GWRAGEDD PRIOD.
9. TRIODD Y CYBYDD.
10. TRIODD MAB Y CRINWAS.
11. TRIODD Y MEDDWYN.

12. TRIODD Y CYMRO.
13. TRIODD Y SAIS.
14. TRIODD GWILYM HIR SAER.
15. ——— EREILL A'U HANES.
16. TRIODD GWIWIW EU GWYBOD A'U COVIO, ER ADDYSG DOETHINEB.



1. TRIODD DOETHINEB, O LYVYR MR. LEWYS O BEN LLIN, YN MORGANWG; UN O LYVRAU TRE BRYN.

1. Tair sail doethineb y sydd: ystyriaeth, gwybodau, ac ymgais.

2. Tri pheth à ddangosant ddoethineb lle y bytho: llavar, camp, ac anwydau.

3. Tri anhegbor doethineb: deall cadarn, awen lathraidd, a chydwybod lân.

4. Tri pheth à welir lle bo doethineb: trevn brydverth ar bob travod, cyviawnder yn mhob ymgais, a thangnev yn mhob ymarweddiad.

5. Tri pheth hawdd vydd adnabod dyn wrthyt: wrth à gâr, wrth a'i câr, ac wrth nas câr y naill a'r llall.

6. Tri pheth a ddangosant beth yw dyn: ei ddyddanweh, ei gâs, ac ni welir ar ymdawr gantho.

7. Tri theyrnedd gwybodau: gwellâu moes a devawd, diwallu pob eisiwed, a dyddanu meddwl.

8. Tair privddyledswydd gâr: dwyn plant i vynydd ar ddysg ac yn ddeddvawl, dangos daioni ar ei weithredoedd, a dangos gwybodaeth i'r diwybod.

9. Tri pheth à wna gwr deddvawl: ynnill cariad a pharch ei genedl a'i wlad, ynnill boddlondeb a llawenydd iddei hunan, a gadael côv anrhydeddus ar ei ôl.

10. Tri chyveilion goreu dyn, lle byddont dda, a gwaethav lle y byddont ddrwg: ei serch, ei ddeall, a'i gydwybod.

11. Tair privddyledswydd y sydd: dwyawl, gwladawl, a theuluawl.

12. Tri pheth à gadwant drevn ar bob peth: nerth, cosp, a gobrwy.

13. Tri pheth cyntav à ddylid eu hystyried ymhob gorchwyl a thravod: y lle, y pryd, a'r dyben.

14. Tri pheth yn ail à ddylid eu hystyried cyn yddeler y'nglylech un gorchwyl ba bynag ei ryw: trevn, moddion, a galluldeb.

15. Tri pheth anhegbor i bob gorchwyl: modd, medr, a myn.

16. Tri pheth yn gyvun a'u gilydd à lwyrr amddifynant, ac nis gellir eu gortrechu: cyviawnder, deall, a chariad.

17. Tri pheth à geir o iawn ddeall ar dravodau bywyd: golud, nerth, ac anrhydedd.

18. Tri pheth à ddangosant arlywodraeth: y crÿv yn gormesu'r gwan, y celwydd yn drech no'r gwir, a gloddest yn drech nog arbedoldeb.

19. Tri pheth à amddifynant wladoldeb: cariad, ovn, ac ynnill.

20. Tri pheth à ddyvethant wladoldeb:

creulondeb yn lle cosp, diymdawr o bwyll yn lle trugaredd, a gwastraf yn lle gwobrwyon.

21. Tri pheth y dylai bob doeth ymarver ag wynt yn ei dÿf, a'i deulu, a'i gymmodogaeth: tangnevoldeb, ynadoldeb, a thadoldeb; sev o'r deddvau hyn y bydd heddwch, a chariad, a chynghorion doethion a daionus; a donioldeb haelionus a govalus bob un tuag at y lleill; ac o hyny cymmodogaeth dda; ac heb hyny nis gellir na bydoldeb, na chydvodoldeb, val y bo iawn a daionus herwydd dymunoldeb doethion.

22. Tri pheth anhegbor ar bob pencynghor: bod yn ystyrgar, yn iawngar, ac yn ystrywgar i chwilio i maes à vo twyll ar wirionedd.

23. Tri goreuon menwydoldeb: iechyd, boddlondeb, a heddwch.

24. Tri syrth y sydd ar bob travod: agweddoldeb, cylechiadoldeb, a damweinioldeb.

25. Tri chyflwr y sydd ar bob peth: ynniawl, cylchiadawl, a galledigawl.

26. Tri pheth nis gellir neb yn ddedwydd hebddynt, pei bei onid ev ei hun yn byw ac yn bod: iechyd, caredigrwydd, a gwybodau.

27. Wrth dri pheth y dylid o iawn ystyried pob peth: ei ansawdd, ei le, a'i amser.

28. Tri pheth y dylid eu hystyried yn bybyrbwyll deirgwaith bob dydd: deddvau cariad haelionus, dyled teulueiddrwydd, a govynion Duw; a myned yn ôl y tri govynion dyled hyn.

29. Tri drwg y sydd ac nis gellir eu cynddrwg: murn cynllwyn, godineb, a medddawd; canys mâmau ydynt i bob drwg arall.

30. Tair elusen y sydd yn bênav ar bob elusen: nawdd, ymborth, a chynghor da.

31. Tri arwyddion à welir ar bob dyn, ac wrth y rhai hyny ei adnabod: ei ddi-vyrwch, ei gâs, a'i gyveillion.

32. Tair gormes gwlad: anymgais, cyb-yddawd, a glythineb.

33. Tair gormes teulu: gwr anwybodus, gwraig anynad, a phlant anuyydd.

34. Tair gormes teyrnedd: anmrawd, anrhaith, ac anymdawr.

35. Tair gormes ymgais: difyg oferyndawd, difyg gwybodaeth, a difyg tâl a gobrwy.

36. Tair gormes gwybodaeth: celvyddydd annoeth, dosparth anghywir, ac iaith aneglur; ac ni ddylid ymarver ag un o naddynt.

37. Tair gormes celvyddydd: iaith gying aneglur, dosparth annhrevnus, ac avreid-ioldeb.

38. Tair gormes awen: difyg addysg a gwybodau, eisiwed corforawl, ac anghyd-nabyddiaeth.

39. Tair gormes doethineb: cymmod-awg geuawg diriaid, arglwydd cyvoeth anghyviawn, a gwraig anynad vlysig.

40. Tair gormes cymmodogaeth: treig-law chwedlau, tavarndŷ annosparthus, a chybydd anghawr.

41. Tri pheth nis dylid eu govyn: ced ac elusen gan gybydd anghawr, cynghor gan annoeth, a nawdd gan anwr.

42. Tri drygddyn y sydd ac nis gellir eu gwaeth: cybydd, enllibwr, a gwenieithwr.

43. Tri rhagoriaeth daioni: addvwynder, daioni, a phwyllgarwch.

44. Tri pheth à ddielir ag anmenwedigrwydd: cribddail, anudon, a chreulondeb.

45. Tri pheth à ddylid eu frwynaw yn gadarn: llaw, tavawd, a blŷs.

46. Tri chyfawnder doethineb: serchog-rwydd, pwyll, a chywirdeb.

47. Tri arwyddion angybodaeth: ymddwyn anvoesus, iaith anghyviawn, a holi dirgelion y cymmodogion.

48. Tri chyttundeb à wnânt wr yn gyvoethawg: cyttundeb à gair Duw, cyttundeb â'i wraig a'i deulu, a chyttundeb a'i gymmodogion.

49. Tri pheth y sydd, ac hebddynt nis gellir à wnânt wladwr: boredd, celvyddydd, a daionuser.

50. Tri pheth nis dylid eu credu: gair gwr o bell drosto ei hunan, addewid mab i verch with gael y llaw uchav arni, ac à ddyweto ddiriaid am arall.

51. Tair arwydd tangnevgarwch ar ddynt: trugaredd at ei ysgrubl, caru cartrev, a chanu gyda ei orchwyl.

52. Tair arwydd bonedd o gwnad ar ddŷn: haelioni, cyvarch hawddgar, a gwybodaedd deddvolion.

53. Tri arwyddion creulonder: tarvu anivel yn ddiraid, briwa coed a llysiaw yn ddiachos, a bod yn daer am gymmwynas.

54. Tri arwyddion trugaredd: syniadu cwyn plentyn, troi oddiar fordd anivel gorweddawg, ac ymddwyn serchawg tuag at ddiert h ac estron.

55. Tri arwyddion anian ddrwg mewn dyn: rhoi cynghor cyn a'i ceisier gantho, à wnelo na bo rhaid nag achos iddo, ac à sôn am à welo ar ei gymmodogion.

56. Tri pheth à ddiweddan yn ddrwg vynyachav, am hyny goreu yw eu gadael: cyveddach, ymryson, a chwilio helynt dŷn arall.

57. Am dri pheth ni cherir neb gan

ei gallach: caswir heb achos cyviawn drosto, cynghor ni ovyrer, ac athrodion.

58. (Gwel riv 42). Tri dyn y sydd ac nis gellir cythraul eu gwaeth: enllibwr, rhagrithwr, a chybydd.

59. Tri pheth à ddylid eu diolch: gwa-hawdd, rhybudd, ac annerch.

60. Tri thywysogaeth serchog: digriv-wch, haelioni, a syberwyd.

61. Tair gormes doethineb: meddwdawd, godineb, a dryganian.

62. Tair sail doethineb: ieuenctid mab-awl i ddysgu, côv awengar i gadw dysg, a synwyr oedran i ddatganu.

63. Tri gwreiddyn doethineb: gwirion-edd, dysg, a chydwybod.

64. Tri pheth à gadarnâa gynnevawd: addvwynder, awdurdawd, o doethineb.

65. Tri pheth anhardd ar bob rhyw o ddŷn, beth bynag, pa le bynag, a phryd bynag y bo: dioglydrwydd, surlydrwydd, ac annysg herwydd ei rádd.

66. Tri pheth hardd ar ddŷn y'mhob lle, ac ar tob amser, ac y'mhob gradd a chywlr, ac à ennillant barch ac anrhydedd iddo: caredigrwydd, diwydrwydd, a gwybodau moliannus.

67. Tri argae doethineb: gwirionedd, cariad, a phwyll.

68. Tri pheth à gau yn erbyn doethineb: celwydd, llid, a rhyodres.

69. Tri argae awen: gwybodau, haelioni, a diwydrwydd.

70. Tri pheth à gau yn erbyn awen: diawgswrth o gamp, cyhyddawd, ac anwybodaeth.

71. Tri chyvryw gwybodaeth: llythyr, dosparth gyviawn, a lles gwlad a chenedl.

72. Tri ymglywed doeth a deddvol: ymglywed â'r gwirionedd, ymglywed â'i serch, ac ymglywed â'i nerth.

73. Tri pheth à lanwant wagder: dad-wrdd diddysg y'mhen gwâg, crochwerthin diystyr y'nghalon wâg, a llaid budreddus mewn fynon wâg.

74. Tri pheth à geif dŷn trugarog: cariad ei gymmodogion, parch doethion, a thrugaredd Duw.

75. Tri pheth à geif gwr deddvol: digonedd bydawl, heddwch cydwybod, a bodd Duw.

76. Tri pheth à geir o hir ddilyn drwg: cosp cyvraith ei wlad, ei gasâu gan bawb, a digovaint Duw.

77. Tri dyn y mae Duw yn eu caru: cadarn cyviawn, dewr trugarawg, a haol diedivar.

78. Tri dyn à vyddant noturiol i dri pheth: melinydd i ladrata, eglwyswr i ragrithaw, a chlerwr i gelwyddu.

79. Tri ynnill cybydd: poen yn casglu, goval yn cadw, a thristwch yn colli.

80. Tri pheth à geif dyn dyoddeus: cariad a'i adnabo, fyniant yn ei dravodion, a rhâd Duw ar a wnelo.

81. Tri pheth à geif dedwydd: cariad pob doeth a deddvol, bywyd heddychlawn, a llawenydd nevol.

82. Tri pheth à geif diriaid: ei gasau gan a'i adnabo, byw mewn ovn, a chosb yn y byd ar ol hwn.

83. Tair dedwyddgamp gwr: bod yn llawen yn ei dŷ, yn ddiwyd yn ei orchwyl, ac yn ddyddiwr rhwng ei gymmodogion.

84. Tri pheth sy'n dyvethu'r byd: brenin fol heb gynghor, barnwr heb gyviannder, a gwas heb uvyddawd.

85. Tri pheth à geir o godi yn vore: iechyd corf, ysgawnder deall, a chyvoeth bydol.

86. Tri menwydigion teulu: pendawd govalus, bugail cywir, a negeswr doeth brysgar.

87. Tri anfawd teulu: gorichwiliwr dioval, bugail anghywir, a chênad annoeth na ddelo yn ôl o'i neges.

88. Tri glwth byd: môr, dinas, ac arglwydd.

89. Tri pheth nid iawn ymddiried idd-ynt: iechyd henaint, hinon gauav, a dini-weidrwydd arglwydd.

90. Tri pheth nid callach credu y naill no'r lleill: llw gorderchwr, breuddwyd gwrâch, a chwedl heb warant.

91. Tri pheth anhegbor i ddoeth: gwrandaw, gweled, a thewi.

92. Tri pheth ar ddyn à bair hofi ei gyveillach: syberwyd, pwyll, a daioni.

93. Tri pheth byr eu parâd: rhyvedd-oldeb, gwagogoniant, a thegwch ieuengctid.

94. Tri dyn à ddywedant y gwir: plentyn, fôl, a dioval.

95. Tri pheth di glwyd di glevyd à vawr gystuddiant a'u harwain: cariad, cas, a galar.

96. Tri pheth à frwythlonant ddoeth-ineb: gwybod am à vu, ystyr am y sydd, o phryderu am o ddaw.

97. Tri pheth à arwain i dylodi: glodd-est, diogi, a mercheta.

98. Tri pheth ni wna ddyn doeth: myned ar hyd vôr lle gellir tir, gellwng i maes ei gyvrinach, a gellwng dydd i vyned heibio heb wneuthur daioni.

99. Tri pheth à bair cywreinrwydd: galluogrwydd, awen ewyllysgar, a gwyb-odaeth o gelyyddgarwch.

100. Tri pheth cythreulig ar ddyn: cenvigen, trachwant, a balchder.

101. Tri pheth à barant hawddvyd iech-

yd corf, meddiant ddiangen, a chydwybod lân.

102. Tri pheth à geir o ymgynneddvw yn dda: parch ac aurhydedd y bŷd, boddlondeb meddwl a chydwybod, a derbyn da gan Dduw.

103. Tri pheth à bair i wr glôd a chymmeriad caredig: dywedyd yn dëg yn wyneb, rhoi gair da y'nghevn, a fyddlondeb cyv-eillach.

104. Tri pheth annivyr eu gweled: cyvoethog hael yn myned yn dlawd, dedwydd yn myned yn ddiriaid, a chwerthin am ben y dŷn doeth ymbwyllgar.

105. Tri à vyddant oreu'r byd arnynt lle nas adnaper: celwyddogion, bradon, a lladron.

106. Tri pheth fôl eu gwneuthur: gweiddi hoi ô! cyn ynnill y gamp, cyvriv a bwrw ar ddydd cyn y delo, a barnu cyn gweled y diwedd.

107. Tri pheth à hir gynnal ddirieidi ar ddyn: meddwdawd, godineb, ac ymladdgarwch.

108. Tri pheth ni wna ddoeth: dysgwyl am analladwy, tristau am anadveradwy, ac ovni anocheladwy.

109. Tri pheth balch: ceiliog ar ei domen ei hun, colwyn ar arfed ei weinyddes, a chrachswyddwr yn ei ansawdd.

110. Tair camp ganmawledig: haelioni Cymro, syberwyd Franc, a hyder Sais.

111. Tri rhywiogrwydd meddwl à bair syberwyd: tymmer goddeus, parodrwydd i roddi, a llawen o gynneddv.

112. Tri pheth ni wrandawant ar gynghor ba crystal bynag y bo: brys, dig, a thrachwant.

113. Tri pheth iawn i wr ymladd yn eu plaid: ei wlad, ei gâr, a'i vywyd ei hunan.

114. Tri anhegbor priodas, er gwynvyd-igrwydd o honi: cystundeb diddig, cariad cydgalon, a chyvawch y ddau mewn daioni.

115. Tri pheth hardd eu gweled: cyt-tundeb rhwng brodyr, cymmwynasgarwch rhwng cymmogion, a chariad fyddlon rhwng gwr a gwraig.

116. Tri pheth, lle bo a'u percheno, nid rhaid mwy: tir rhywiog da ei drinaeth, gwraig dda ei champau, a deall da ynddo ei hunan.

117. Tair privgamp rhagrithwr: tyst-iolaethu yn wrthwyneb i air Duw, cyhuddaw yn anghyviawn, a barnu heb awdurdawd.

118. Tri pheth anwadal dros ben: cymmeriad gwŷr mawr neu arlwyddi, cariad merch, a llygedyn o haul mis Ionawr.

119. Tri dyn nid call rhygoelio i'r naill no'r lleill o honynt: hŷn no'i gymmydogion, rhodiadur o bell, a darllenwr llyfrau anghyviaith.<sup>1</sup>

120. Tri pheth a gydgerddant â phob daioni à wneler: ynnill bydawl, anrhydedd a pharch gan ddoethion, a llawenydd cydwod.

121. Tri pheth nid call ymyryd â nhwy: llywodraeth tŷ arall, cyngori pendevigion goludawg, a chwilio dirgelion Duw.

122. Tri pheth à ddiogelant i wr wasanaeth o gywirdeb: cariad a'i gwasanaetho, a'r modd a'i diogeler yw cariad am gariad; ynnill a budd, ac o'i roddi y diogelir cywir o wasanaeth; a chymmyred, à ddengys gymmeradwy ar à wneler yn wasanaeth, ac o'i ddodi y diogelir cywir ar wasanaeth.

123. Tair camp canmoladwy ar verch: tawedocrwydd, lledneisrwydd, a diweirdeb.

124. Tri dyn gwynvydig pei gwelent eu bod velly: gwr diangen, gwr di ddyled, a gwr di wraig.

125. Tri amryson à ddygwydd ar varwolaeth traws cadarn: ei gyvneseiviaid am ei olud bydawl, pryvaidd am ei gorf abwyawg, a chythreuliaid am ei enaid anvarwol.

126. Tri bendith à ddygant vendith Duw ar a'u cafo: bendith tad a mam, bendith y tlawd, a bendith bardd llinolin-gerdd.

127. Tri pheth anhawdd eu cuddio: menyn mewn cawl pŷs, mynawyd mewn cwd, a mursen mewn cell.

128. Tri rhyvel yn heddwch, ac nid ebrwydd y darvyddant: tir drwg, arglwydd drwg, a gwaraig ddrwg.

129. Tri gair cynghor Teilo Sant: gwybydd dy allu, gwybydd dy wybodaeth, a gwybydd dy amser; ac o wybod y tri hyn cais mwybod â'r deddvau y sydd arnad, y gan Dduw, a chan ddŷn, a chan ddos-parthau doethineb.

130. Tri pheth à ddylid eu hystyried cyn gwedyd: y modd, y man, a'r amser.

131. Tri pheth y sydd ac nid hawdd dwyn dyn oddiarynt: ei varn, ei awen, a'i genedl.

132. Tri phen byd: dedwydd, celvydd, a diwyd.

133. Tri pheth à wnant wr yn vlaenor ar ei genedl a'i gymmodogion: golud, doethineb, a haelioni.

134. Tri chael mwyav yn y byd: gwybodau doethineb, cydwytod lân, a chariad Duw.

135. Tri cholled, a rhagddynt nid colled dim arall: colli pwyll ac ystyr, colli cydwytod lân, a cholli cariad Duw.

136. Tri pheth anhawdd eu cafael: tân oer, dwr sych, a thrachwantus deddvol.

137. Tri pheth rhydd i bob dyn: ei vyvyrdawd, ei varn, a'i lavar; achos heb hyny nis gellir na gwellaad na dangos ar wybodau daionus.

138. Tri diogelwch dŷn: iechyd, rhyddyd, a chalon lân.

139. Tri pheth sy'n gyru'r byd ar gyveiliorn: addewidion arglwyddi, gwisgodd brawd llwyd, a syberwyd rheiinverch.

140. Tri ovn a waethygant galon dyn: ovní gwedyd y gwír, ovní tylodi, ac ovní diawl.

141. Tri ovn à wellaant galon dŷn: ovní credu pob peth à glywer, ovní da y Byd, ac OVNI DUW.

*Ac velly tervyna hyn o Driodd.*

## 2. LLYMA DRIODD DOETHINEB EREILL O'R UN LLYVYR.

1. Tair caine y sydd ar ddoethineb: doethineb parth ag at Dduw, doethineb parth ag at bob cyd-ddyn, a doethineb parth ag at ddyn ei hunan.

2. Tri adnabyddiaeth à barant ddoethineb: adnabod Duw, adnabod calon dyn, a adnabod calon ei hunan.

3. Tri anhegbor doethineb: awen, gwybodau, a dosparth.

4. Tri chaderyd doethineb: iawn, prydverth, a galledig.

5. Tri pheth à geir o ddoethineb: da'r byd, dyddanwch meddwl, a chariad Duw.

6. Mewn tri pheth ydd ymddengys doethineb: awen, gwybodau, ac ymddwyn (ymarwedd).

7. Tair ymgais doethineb: deall anian o awen, gwleed gwirionedd o'i ymbwyllaw, ac ymarver à chariad a thangnevedd.

8. Tri pheth ar ddyn a'i gwnant yn ddoeth ac yn dda: cynneddvau, gwybodau, a galliaü.

9. Tri pheth nis gellir doethineb lle byddont: trachwant, gloddest, a balchder.

10. Tri pheth nis gellir doethineb hebddynt: haelioni, dirwest, a rhadverthwch.

11. Tri nôd cywirdyn: genau tawedog, llygad digildrem, a gwynebpryd divraw; sev a'r tri yn un.

12. Tri nôd lleidyr: tavawd holgar, llygad chwilgar, a gwyneb brawychus gocheldrem; sev a'r tri yn un.

13. Tri chynneiliad doethineb: calon yn ymsynwyrav, iaith i ddadgan, a chów i gadw.

<sup>1</sup> Neu. ac a vo vaen dros iaen. Llyvyr arall.

14. Tair fordd ydd edrycher am à vo dyn: yn y peth nas gwypo, y pryd nas gwypo, a'r màn nas gwypo.

15. Tri pheth à ddylid eu selwi gyntav ar ddyn: tavod, defod, ac ymmod: can mai o'i anian a'i athrylith y tyvant.

16. Tri pheth ebrwydd yn ymddangos ar ddyn: pwyll, serch, a chās.

17. Tri pheth nid hawdd i ddyn eu cuddiau ynddo ei hunan: llawenydd, tristwch, ac asbri.

18. Tair fordd ydd adnebyddir dyn: wrth ei ymadrawdd, wrth ei ymarwedd, ac wrth varn ei gymmodogion am dano.

19. Tri pheth à barant amhwyll: edludd awen, gormes anoddeviadawl, a gwrthladd cydwybod.

20. Tair llwybr doethineb: llwybr ymgais, llwybr gwybodau, a llwybr cydwybod.

21. Tair priv gamp doethineb: edrych ar bob peth, dyoddev wrth achos pob peth, ac ymgadaw yn rydd oddiwrth bob peth.

22. O dri pheth y mae barn gyvianw: o wybod y gwir, o ganvodd angen, ac o gariad haelionus.

23. Tri phriv athraw dŷn: synwyr o anian yn dirnad, pwyll o ymgais yn ystyried, a chydwybod o achreth yn barnu; ac nis gellir cyvlawn a chyvianw ar wybodau doethineb heb addysg y tri hyn.

24. Tri pheth nid dynt ond un o gysevin ymdardd: gwirionedd, cyvianwder, a thrugaredd; sev o'r un cariad y daw y tri hyn; sev yw cariad y cwbl ar ddoethineb.

25. Tair sail deall: gwybod pwys a gwrthbws, gwybod dygwydd a gwrthddygydd, a gwybod barn a gwrtharn; ac o'r rhai hyn deall; sev yw deall medru ar vod a gwrthvod, herwydd dichonoldeb.

26. Tri pheth à rwym ddaioni ar ddŷn: ei wneuthur unwaith ei hun, ei ovyn unwaith gan arall, a'i ganmawl unwaith yn arall, neu yn nghlyw arall.

27. Tair fordd y mae gyru daioni ar ddŷn: canmawl daioni à wnaeth ev yn nghlyw arall o ddaionus, gwneuthur daioni yn ei wŷydd ev, a thewi ar vai à vo arno ev.

28. O dri chynghor ynghyd y cefir un cynghor da: cynghor cār, cynghor gelyn, a chynghor ei gydwylbod ei hun.

29. O dair iaith y ceir iaith gwirionedd: iaith anian, iaith ymbwyll, ac iaith cydwybod.

30. Tri devnydd pob deddvoldeb: addysg, pwyll, a chydwybod.

31. Tri pheth à wnânt varn a beirniad cywir: ystyriaeth, ymoddev, a medru ar à el wrth varn.

32. Tri bânogion doethineb: pwyll, cyvianwder, a thangnev o garedigrwydd.

33. Tri phriv gynneddvw daioni: dywedyd y gwir er gwaethav oll, caru pob daioni, a dyoddev yn lew dros pob gwir a daioni.

34. Tri pheth nid rhaid goval nas ceir o garu'r iawn yn mhob peth a'i wneuthur: cariad, clôd, a chyvoeth.

35. O dripheth y mae celvyddyd: deall, cov, ac arver.

36. Tri pheth à wedant yn well no thavawd beth à vo mewn dyn: ei law, ei lygad, a'i ymdawr.

37. Tri pheth da iawn eu meddu cyn y dyweter à vo'n gelwydd: synwyrbwyll cadarn i ddychymyg, cov da rhag gwrthddywedyd à ddywetpwyd yn ôl llaw, a fol i wrandaw ar à ddyweder.

38. Tri pheth trwsgl y sydd, a lle a'u gweler trwsgl pob peth arall ar gorf a meddwl: troed, llaw, a llavar.

39. Tri pheth à gydgerddant â phob daioni à wneler: ennill bydawl, parch ac anrhydedd gan ddoethion, a llawenydd cydwybod.

40. Tair cainc dyledswydd dŷn: ymgyfarchwel à Duw, llesâu dŷn, a gwellhau gwybodau.

41. Tri chyvarwel deall: iawn, hardd, a llesawl.

42. Tri pheth, nid gwlad lle nas cafer: llavuriaeth, cyvraith, a chrevydd, sev golychwyd.

43. Tri pheth à wnânt ddŷn yn anneddvol: ovn, chwannocrwydd, ac anwybodaeth.

44. Tri pheth anhawdd eu gorchygu: glewder, cariad, a chydwybod.

45. Tri pheth ni vavr brisier am danynt onid elo yn ry hwy: cynghor cār, rhybudd oedran, a barn cydwybod.

46. Tri pheth er cael beunydd yn ddi-baid á geisiant ragor: môr, meddwyn, a chybydd.

47. Tri pheth à ddylid eu cadw vyth yn egored: clust, llygad, o deall.

48. Tri pheth gorau vydd eu cadw ynghaued oni bo achos cyvianw: dwrn, genau, a meddwl.

49. Tri pheth à wnânt ddyn yn waeth nog anivel: caru'r bol, caru golud, a charu clôd dynion yn vwy no bodd Duw.

50. Tri pheth à wnânt ddyn yn ogyuwch ag angel: caru pob daioni, caru ymgardodi, a charu boddâu Duw.

51. Tri pheth er cael y cyvan ni welant vyth eu digon : môr, corffan, ac arglwydd.
52. Tri pheth o'u dirmygu à dynant ddial : cynghor gweledydd, barn pwylllog, a chwyn tylawd.
53. Tri chynghor y dylid yn bènau eu gwrandaw, can nas buant erioed amgen no da : cynghor tymmor, cynghor oedran, a chynghor cydwybod.
54. Tri chynghor nid mynych y byddant ar gam : cynghor cyvanwain, cynghor doeth bucheddol, a chynghor gwr ni wrandawoedd erioed ar un cynghor.
55. Tri pheth meltigedig eu symmud : fin tîr, hynt dwr, ac arwydd fordd ac arllwybr.
56. Tri phriv gyverthi doethineb : cariad, gwirionedd, a gwrhydri.
57. Tri pheth nis gellir vyth eu gweled yn ngwirvodd eu llawnvaint : sev cynneddvau da, cynneddvau drwg, a chynneddvau awenbwyll.
58. Wrth dripheth y bydd oll à wnelo dyn : wrth ryddydd, wrth gosp, ac wrth obrwy : ac nis gellir à vo amgen ar à wnelo dyn yn ei iawn bwyll.
59. Mewn tri pheth y gwelir privgynneddvau enaid dyn : yn à vo yn ei ovni, à vyno ei gelu, ac à vyno ei ddangos.
60. Tri gweddus y sydd, ac ni bydd llawer yn anweddu lle a'u gweler ac a'u cafer : iaith weddus, dillad gweddus, ac ymmod gweddus.
61. Tri pheth sy'n dangos gallu dŷn : nas gall vod hebddo, nas gall ei guddio, ac nas gall na ei garu na ei gasâu.
62. Tair llâth vesur pob dŷn : ei Dduw, ei ddiawl, a'i ddiawr.
63. Tri ymgyfarwel gwybodaeth : awen, pwyll, ac egni.
64. Tri pheth à geir ynghyd yn ddiamgen : ymgais, ymgar, ac ymgael.
65. Tri pheth ni ddfifyg vyth eu cael : peth golud o ddiwydrwydd mawr, peth anrhydedd lle a'i dirperer yn vawr, a pheth gwybodaeth lle a'i ceisier yn vawr.
66. Tri ymgael à gadarnâant ymgais : bôdd dyn, bôdd cydwybod, a bôdd Duw.
67. Tri pheth ni ddfifyg iddynt eu mawl : haelioni, cyviauwr, a gwybodau.
68. Tri pheth moladwy ar ieuanc : tawedigrwydd, diwydrwydd, a boneddig-eiddrwydd.
69. Tri pheth moladwy ar hên : cynghori yn serchawgwyn, haelioni dwyvolgamp, a doethineb diymged.
70. Tri pheth ni saiv dim o'u blaen a'u gwrthwynepon : pwyll, amynedd, a gwirionedd.

71. Tri pheth ni ddfifyg llwydd iddynt lle y bont gyviawn : pwyll, ymgais, a gobaith.
72. Tri pheth y gwna mawl dyledus ac haelionus : y gorchwyl yn hawdd, yr ymbwyll yn ddychymygvawr, a'r gobaith yn gadarn.
73. Tri pheth da iawn eu meddu : cartrev o drev tād, crefft o gelyddydd, a brait o vonedd cynhenid.
74. Tri pheth gwell no'r rhai hyny : corf iachus, gwybodau a chynneddvau moliannus, a rhyddydd o hawl.
75. Tri pheth gwell no'r cwbl : pwyll ynniawl, calondid amyneddgar, a chydwybod lân.
76. Tri arddangos llesioldeb gwybodau : doethineb, dwyvoldeb, a thangnevoldeb.
77. Tri dyn nid call rhygoelio yn vawr à ddywetont : gwr o bell, gwr hŷn no'i gymmydogion, ac à vo vaen dros iaen.
78. Tri pheth y sydd ar wirionedd ni waeth beth à vo ev à ddylid ei ddywedyd, ni waeth pryd na lle nag achos a'i dyweter, ac ni waeth beth à ganlyn o'i ddywedyd.
79. Tri phrif anghudd dŷn, ac wrthynt a'i adwaenir : trem ei olwg, achaniad ei lavar, a'r modd ydd ymchwyv.
80. Tri pheth ni cheir o'u caru a'u chwennych yn ormodd : canmoliaeth, hawddvyd, a golud.
81. Tri pheth à ddivlanant o'u covleid-iaw gormodd : hawddvyd, clôd, a da'r bŷd.<sup>1</sup>
82. Tri pheth ni châr Duw à garo eu gweled : gweled ymladd, gweled anghenvil, a gweled rhodres balchder.
83. Tri pheth y sydd a chyda 'r trydydd nis gellir hebgor y ddau gyntav : sev à ddichon, à ddylai, ac à vynai.
84. Tri pheth à ddylid eu hystyried cyn y gweter ambell peth : y môdd, y màn, a'r anser.
85. Tri dyn o garu tri pheth à garant à ddylaint : gorddyr y gwynt, baran,<sup>2</sup> y tdnau, ac angerdd y daran.
86. Tri pheth na chared neb a'u hangharo : rhogleu y meillion, blâs llaeth, a chân adar.
87. Tri thebygaeth dŷn i ddiawl : ovni plentyn, maglu'r fordd, a chwerthin am ben y drwg.<sup>3</sup>
88. Tri dyn y dylai pawb edrych yn serchog arnynt : sev à edrych yn serchog ar bryd a gwedd y ddaiar, ac ar blant bychain, ac ar ymbwyll celvydd.<sup>4</sup>

<sup>1</sup> Tri pheth à gollir o'u mawrygu.

<sup>2</sup> Qu. Baranlle? I. M.

<sup>3</sup> Mewn *Ulyyr arall val hyn* : mewn tri pheth y bwydd tebyg dyn i ddiawl, &c.

<sup>4</sup> *Ulyyr arall val hyn* : Ar wyneb y ddaiar, ar blant bychain, ac ar gelyddwaith ragorgamp.

89. Tri dyn ni châr ei wlâd: a garo ei vol, à garo gyfoeth, ac a garo esmwythder corforawl.<sup>1</sup>

90. Tri pheth nid call eu canmawl, neu eu hanghanmawl: ymborth, gwlad, a cheraint.

91. Wrth dri pheth ydd adnebyddir dŷn yn ebrwydd: wrth à gâr, wrth nas câr, ac wrth a'i câr, neu a'i anghar.<sup>2</sup>

92. Tri nôd dwyvolder: gwneuthur cyviawnder, hofi trugaredd, ac ymddwyn yn uvydd.

93. Tri ovn gŵr: ovari digio Duw, ovari gwneuthur trais ac anghariad, ac ovari camddarwedd ar ei gynneddau.

94. Tri ovn anwr: ovari dŷn, ovari diawl, ac ofni tylodi.

95. Tri pheth à wnant ŵr: glewder, cyviawnder, ac hynawsder.

96. Tri pheth byr eu parâad: rhyvedd-oldeb, gwagogoniant, a thegwch ieuencid.

97. Tri pheth nid hawdd ymddarbod ag wynt: bânau celvyddyd a gwybodaeth, treigladau awen ac athrylith, a thervynau doethineb: can nis gwelir ac nis gellir craf ar hyd, a lled, a dyvnder, ac uwchder y pethau hyn.

98. Tri pheth à barant gywreindeb: gallu corforawl, medrusder celvyddyd, ac awen ewyllysgar.

99. Tri pheth nid hawdd ac ev á ddylid deddv a dosparth arnynt: parch, llawenydd, ac arveroldeb.

100. Tri pheth ni vyddant hardd heb arnynt ddeddf a dosbarth: syberwyd, gwroldeb, ac addysg.

101. Tri pheth nis gellir na deddv na dosbarth gadarn arnynt: serch, awen, ac angen.

102. Tri chyvreidiau doethineb: awen, dysg, ac ymddwyn.

103. Tri pheth à lanwant wagder: dadwrdd anghall y'mhen gwâg, chwerthin anghall o galon wâg, a llaid budreddus mewn fynon wâg; sev doethineb á yr i maes y dadwrdd, a syberwyd cynneddvol á yr i maes y chwerthin, a dwr gloywfrwd á yr i maes y llaid.

104. Tri pheth anrhydeddus ar ddŷn: ymgaloni mewn advyd, ymwarâu mewn llyddiant, ac ymddwyvoli y'mhob un o'r ddau.

105. Tri phriv athraw dŷn: awenserch ymgais, pwyll ystyrgar, a chydwybod ddeddvol; ac hebddynt nis gellir gwybyddiaeth gyviawn ar ddim; sev ydynt y tri athraw anianawl.

106. Tri athraw dwyvolion dŷn: avlwyddiant bydawl, nychedawd corforawl, a gelyniaeth anhaeddiannawl; ac nid oes namu Duw yn wared rhagddynt.

107. Tri pheth gorau eu cadw yn nghauad: genau, dwrn, a meddwl.

108. Tri pheth gorau eu cadw yn egored: clust, llygad, a deall.

109. Tri chydymaith y sydd i ddiawl: balchder, cenvigen, a thrais (a thrachwant.)

110. Tri bânogion daioni: doethineb, gwroldeb, a chariad; a lle ni byddant y tri y'nglyd ni cheir cynneddvau daionus.

111. Tri pheth à ddadanuddant athrylith a chynneddvau anianawl dŷn: ei olwg, ei lavar, a'i ymodiadau.

112. Tri pheth à barant i ddŷn ymddoethâu: advyd, aviechyd, a gelynon.

113. A thri pheth y dylid amcanu pob gweithiau a gwybodau daionus: á'r holl serch, á'r holl ddeall, ac á'r holl allu.

114. Tri pheth à ddangosant liw meddwl dŷn: à geisio ei gelu, à chwennycho ei ddangos yn amlwg, ac à ovno'n vawr.

115. O dri pheth y ceir gwybodaeth gyviawn ar bob peth: gweled, clywed, a theimlaw; ac o'r tri hyn y mae'r deall; ac hebddynt nis gellir na phwyll, na deall, na gywybod ar ddim yn iawn.

116. Tair barn á vydd ar bob peth, a heb y tair y'nglyd nis gellir barn gyviawn ar ddim: barn câr, barn gelyn, a barn cydwybod.

117. Tri thŷb anwedus ac anghyviawn ar bob dŷn o'r bŷd: tybied ei hun yn ddoeth, tybied pawb ereill yn annoeth, a thybied y gwedd arno bob peth à vynu.

118. O dri pheth y ceir crêd ar wirionedd: o gredu pob peth, o anghredu pob peth, ac o gredu ni waeth beth.

119. Tri pheth o'u deall yn iawn à barant heddwch a thangnev: syrth anian, hawl cyviawnder, a llavar gwirionedd.

120. Tri pheth à gynnal addysg: synwyr, ymgais, a dichwain.

121. Tri ymwrdd annoethineb: ymwrdd rhyvel, arv tros arv, neu ladd tros ladd; ymwrdd cyvraith, cosp dros gosp; ac ymwrdd casineb, gogan tra gogan.

122. Tri ymwrdd doethineb: addysg tros addysg, pwyll dros bwyll,<sup>1</sup> a chariad tra chariad.

123. Tri pheth hawdd ag un llygad hanner egored eu gweled: syrth anian, deddvau cyviawnder, a govynion cariad: á'r un modd mor hawdd gweled eu

<sup>1</sup> *Llyvyr arall val hyn*: Tri dyn ni châr na'i wlâd, na'i Dduw, &c.

<sup>2</sup> *Llyvyr arall*: Wrth à pâr, wrth à gasâd, ac wrth a'i câr neu a'i casâd.

<sup>1</sup> *Llyvyr arall*: pwyll tra phwyll, a chymmwynas tros gymmwynas.

gwrthdyddion; sev ydynt dirieidi, câs, ac anwiredd (anghyviawnder).

124. Tri lleverydd gwirionedd: gair, gweithred, ac awendawr; a chanddynt y ceir à vo gwîr; a lle y bo'r tri yn un y ceir diogel ar wirionedd.

125. Tri anhebgor cynghor da: dwyn ewyllys, da, rhyddydd ymadrawdd, a deall yr achaws.

126. Tri pheth nid rhaid pryder nas cefir: peth llwyddiant lle bo mawr a'i hymgais, peth parch lle bo mawr a'i dirper, a pheth doethineb, lle bo mawr a'i myvyria.<sup>1</sup>

127. Tri pheth à welant yn y tywyll: cariad, crebwyll, a chydwybod.<sup>2</sup>

128. Tri pheth ni welant ddim, er maint y goleuni: trachwant, trachas, a diogi.

129. Tri pheth à wneir yn y tywyll o vôdd a dewis; à wneler gan drais, à wneler gan drachwant, ac à wneler gan anwr.

130. A welo dri pheth ni wel ddim arall: balchder yn hardd, tragolud yn vuddiol, a diogi yn wynvyd.

131. Tair sail celyyddyd: pwyll, ansawdd, a gorvod; ac o'r tri hyn y daw pob dosparth ar wybodau a chelyyddydau; ac nid oes à êl yn eu herbyn.

132. Tair cors anwybodaeth, ac a lyno ynddynt ni vawr wybydd à ddylai: balchder, trachwant, ac annarbodrwydd.

133. Tair pont y sydd dros y corsydd hyn: addwynder, haelioni, a diwydrwydd.<sup>3</sup>

134. Tri pheth à ddiwynant awen a gwybodau: ysmalâwch, ovnoerwydd, ac anynadrwydd.

135. Tri anghydvodogion doethineb: balchder à gwynvyd, gloddest ag iechyd, ac ysmalâwch à llawenydd o gallineb.<sup>4</sup>

136. Tri pheth analledig eu bod yn wastadawl gydag un dŷn ba bynag: nerth, gwynvyd, a challineb.

137. Tri pheth y dylai pob dŷn sôn am danynt yn wahanol: llawer am à gâr ac am à gafon gymmwynas, ychydig am a'i anghâr, ac à gafon anghymmwynas, a dim am à wnelo ei hunan yn gymmwynas i gâr, neu yn anghymmwynas i elyn, neu i a'i hanghar.

138. Tair gweithred ddwyvol y sydd: cynnorthwyaw gwân a thlawd, cymmwynas i elyn, a dyoddev yn galnog y'mhlaid pob iawn.

<sup>1</sup> *Llyvyr arall*: Lle bo mawr a'i ymchwil.

<sup>2</sup> *Llyvyr arall*: Cariad, awen, a chydwybod.

<sup>3</sup> *Llyvyr arall*: gwarineb, haelioni, ac ymgais ddiwyd.

<sup>4</sup> *Llyvyr arall*: Tri anghydvodogion gan ddoethineb, &c.

139. Tri pheth à ddylid eu traselwi ar bob dŷn: y son am dano, yr olwg arno, a'i sôn ei hunan am ereill ac am bethau.

140. Tri achosolion pob peth o gyntevigaeth: angen, dewis, a dygwydd; ac o un o honynt y daw ac y gwneir pob peth.

141. Tri chyntevigaeth deall: serch, egwyddawr, a gwrthddrych.

142. Tri chyntevigaeth gallu: bryd, ymgais, a threvn.

143. Tri chyntevigaeth gwybod: syniaw, deall, ac ewyllys.

144. Tri chyntevigaeth bodoldeb hanedigawl: devnydd, ansawdd, ac ymmod.

145. Tri chyntevigaeth hanvod, sev ydynt tri angeneddyl Duw, nid amgen; nerth, gwybod, a chariad; ac o gynghyd y tri bodoldeb a hanvodoldeb.

146. Tri angeneddyl bodoldeb Duw: sylwedd, bywyd, ac ymmod; ac o'r rhai hyn pob sylwedd, a bywyd, ac ymmod, yn dreigledig o hân; sev o Dduw a'i ddevnyddion y mae pob peth.

147. Tri angeneddyl bywyd; gni, gwybodoldeb, ac ymmod.

148. Tri pheth à ddylid eu deall yn gyviawn ar bob celyyddyd: bânogion, advânogion, ac anmânogion; ac heb eu deall a'u gwybod yn gyviawn nis gellir na dysg na dosparth ar unrhyw gelyyddyd ba bynag.

149. O dripheth y ceir llwydd a bendith: bôdd arglwydd priodawr, bôdd golychwydwr neu ofeiriad fydd, a bôdd bardd llinolingerdd.

150. O dri bendith y ceir bendith Duw: bendith tād a mam, bendith clâv a chlwyvus, a bendith estron advydig.<sup>1</sup>

151. Tri thryvydolion gwybodaeth, ac nid gwybodaeth gyviawn lle nis cefir hwynt: heddwch, gwirionedd, a threvn; a'r tri hyn à wnânt gyviawnder, ac o hyny gwybodau yn lle dichellion.

152. Tair sylvaen doethineb: ieuencid i ddysgu, cōv i gadw à ddygger, a deall i ymarver yn gyviawn a'r gwybodau à ddygger, a'u trevnydu er lles ac anrhydedd a'u gwypo.

*Ac velly y tervyna hyn o Driodd Doethineb, à gevais i o Llyvyr Thomas Lewys o Lechau.*

*(Ebai Thomas ab Iwan o Dre Bryn.)*

3. LLYMA DRIODD DOETHINEB EREILL, à gasglwyd o Lyvrau amryvaelion Rhisiart<sup>t</sup> Iorwerth, a Davydd Benwyn, a Waikeir Powel, a Syr Sion Gruffydd o Langrallo,

<sup>1</sup> *Llyvyr arall*: bendith tād a mam, bendith tlawd a chlav, &c.



a *Morys Davydd o Ben y Bont ar Ogwr*, genyf vi *Thomas ab Ivan o Dre Bryn*, yn y *vlwyddyn* 1679.

1. TRIRHYW doethineb y dylai bob dŷn eu hystyried, a'u gwybod, a myned yn eu hôl: parth ag at Dduw, parth ag at ei gyd ddŷn, a pharth ag at ei hunau.

2. Tri ardderchogion doethineb: heddgargwch, cyviawnder, a gwybodau moliannus.

3. Tri ymleveryddiaid doethineb: awen, deall, a chydwybod.

4. Tri blaenoriaid doethineb: ystyriaeth awengyrch, prawf o ddiwydrwydd ymgais, a serch ar wybodau daionus.

5. Tri deivnogaeth doethineb: ystyriaeth, gwybodaeth, a chynneddvau meddwl serchogaidd.

6. Tri anheggorion doethineb: serch, ymgais, a gweithred.<sup>1</sup>

7. Tri pheth o'u cael ynghyd â wnânt ddoethineb: deall ystyrgar, diwydrwydd ymgeisgar, ac addvwynder tangnevgar.<sup>2</sup>

8. Tri anheggorion ystyriaeth: gwybodaeth parth ag at â ystyrier, serch dewisgyrch at yr hyn a ystyrier, a rheidioldeb er lles y peth â vyther yn ei ystyried.

9. Tri anheggorion diwydrwydd ymgais: gallu corforawl, deall digonawl, a serch awenawl.

10. Tri devnyddion anheggor addvwynder: tangnevgargwch, llawenydd serchogaidd, ac uvyddawd gwylderus.

11. Tri pheth ar ddŷn y dylai bob doeth eu hystyried yn ddyvnbwyll: nwydoldeb golwg, a chaniad llavar, ac arwyddoldeb ymmod.

12. Tri pheth nis gellir doethineb cyfiawn hebddynt: awen leuvelrawn, ymgais egniawl, ac athrawiaeth ddeddvawl.

13. Tri pheth â wnânt lwybrau doethineb yn ddirwystrau: meithriniaid bucheddawl gan rieni, addysg ar ddeddvoldeb cyviawn gan athrawon, ac ymgyveillachu â doethion cynneddvawl yn unig.

14. Tri phriv athraw doethineb: pwyll deallgar, addysg ar wybodau moliannus, a chydwybod ochelgar.

15. Tri chadernyd doethineb: côv i gadw, ystyriaeth awenserch, ac ymarver cynneddvawl.

16. Tri pheth a yrantaddysg a gwybodau ar ddoeth: ystyrbwyll, syniadu yn awengyrch, ac ynniau cydwybod.

17. Tri athraw annoeth: anfodion o ddrwg ymddwyn, cyvraith gwlad, a dialon Duw.

<sup>1</sup> *Llyvyr arall*: awen, ymgais, a chynneddvau moliannus.

<sup>2</sup> Deall, diwydrwydd ac addvwynder.

18. Tri angeneddyl doethineb: anrhydedd gan ddyinion, llawenydd meddwl, a bôdd Duw.

19. Tri angeneddyl annoethineb: câs ac ymlid anmharchus gan ddyinion, tristwch cywilyddvavr meddwl, a digovaint Duw.

20. Tair gobyr doethineb: ennill bydawl, meddwl heddychawl, a llawenydd tragwyddawl.

21. Tair gobyr annoethineb: colledion hydawl, meddwl cystuddiawl, a gweled pob iawn pan y bo'n ry hwyr mewn coll tragwyddawl.

22. O dripheth y ceir doethineb: ystyried syrth ac anian, ymoven am wirionedd, a goddev dros bob iawn a phrydorth.

23. Tri pheth â ddangosant ddoethineb: medru ar y celwydd lle cyfyrdder ag ev, caru ac ymarver â gwirionedd, a gochelyd pob peth â ovyn cêl a chudd.

24. Tri ychydig a ddangosant lawer o ddoethineb: yehydig valchder, ychydig trachwant, ac yehydig chwedleia.

25. Tri pleth ni wna na doeth na dwyvawl: dysgwyl ag yn llygad, gwrandaew ag yn glust, a chynnorthwyag ag yn llaw.

26. Tri pheth nid hawdd ymddarbod ag wynt: bânau celvyddyd a gwybodaeth, treiglad awen, a thervynau doethineb; can nis gellir gweled hyd, a llei, ac uwchder, a dyvnder y pethau hyn, ac nid oes ond Duw â'u gwyr.

27. Tri pheth nid oes â saiv o'u blaen ac â'u gwrthrym: gwirionedd, pwyll, ac amynedd.

28. Tri phriv wrthyddion y sydd: mawr a bach, oer a thwym, a goleu a thywyll; ac o addasder neu anaddasder trevn ar y pethau hyn y bydd cyviawnder neu anghyviawnder.

29. Tri phrivynnïau'r enaid: serch, deall, ac ewyllys.<sup>1</sup>

30. Tri rhagynnïau'r enaid: pwyll, cydwybod, a gwaith,<sup>2</sup> sev gweithred; sev a'u bernir yn ragynnïau am nas byddant ond o dadogaeth a pheiriad y tri phrivynnïau.

31. Tair privweithred deall dŷn: ystyr, dewis, a gwneuthur.<sup>3</sup>

32. Tri pheth â darddant o iawn ymarver ag ynniau yr enaid: gwybodau, gallïau, a chynneddvau da.

33. Tri athrawon ynnïau dyn: synwyr o reddw awenawl, cydwybod o varn ystyrgar gan ddeall, a dichwain bywyd; ac o'r tri hyn y mae gwybodau.

<sup>1</sup> *Llyvyr arall*: serch, deall, a myn.

<sup>2</sup> *Llyvyr arall*: pwyll, cydwybod, a gweithred.

<sup>3</sup> *Llyvyr arall*: ystyr, dewis, ac ymarver.

34. Tri pheth da eu syniadau ar bob peth: agweddoldeb, peiriadoldeb, a chynglyniadoldeb.

35. Tri oferyndawd pob gweithred: serch, cās, ac ymbraww.

36. Tair sylvaen deddv a chynneddv: cyviawnder o ymbwyll, cydwybod o drugaredd, a threvn o ddeall ar well a gwaeth.

37. Tair sail gwynvydigrwydd: boddlondeb, haelioni, a deall.

38. O dri pheth y mae deall gwahanredawl: selw ar agweddoldeb, ymoddeb â gweithredoldeb, ac o hyny barnu ar lesioldeb.

39. Tri dawn penav Duw i ddŷn: llavar, deall, a serch.

40. Tri rhagorau daionuser: addvwynder, haelioni, a phwyllgarwch.

41. Tri achos pob anneddvoldeb: hunanoldeb, anystyriaeth, a llerwineb diymdawr.

42. Tri pheth à wedant beth à geir y'mhob dŷn: tavawd, llaw, a llygad;<sup>1</sup> sev o syniadu yn vanolddoeth ar bob un o'r tri.

43. Tri pheth anrhydeddus ar ddŷn: bod yn gywir, bod yn wrol, a bod yn gelvydd.

44. Tri pheth à ddangosant ddoethineb dŷn: ei vod yn govus o'i wybodaeth, yn gyvarwydd yn ei orchwyl, ac yn ystyriaethus yn ei amcan.

45. Tri pheth à ddywedant yn dda am ddŷn: bod yn syniadus, bod yn gyveillgar, a bod yn heddgar.

46. Tri pheth à ddylynt vod ar bob cār a chyvaill: cywirdeb, deddvoldeb, a gwroldeb.<sup>2</sup>

47. Tri pheth à wnânt ddŷn yn ddaionus: gwyllys, gwybodaeth, a moddion; ac nis gellir nemmawr o ddaioni yn nifyg un o'r tri hyn.

48. Tri pheth y'nghyd à wnânt olud: deall, daionuser, a da'r byd; ac o iawn ymwneuthur â'r tri hyn y ceir bendith a bodd Duw.

49. Tair llathvesur pob dŷn: ei Dduw, ei ddiawl, a'i ddidawr.

50. Tri pheth anweddus ac anverth ar bob dŷn: traserch diymbwyll, trachas diachos, a bod yn ddiymdawr â phob peth.<sup>3</sup>

51. Tri pheth o'u deall à barant heddwch a thangnevoldeb: syrth anian, hawl cyviawnder, a llavar gwirionedd.

52. Tri pheth à wnânt gyviawnder: gwirionedd, pwyll, a thrugaredd.

<sup>1</sup> *Llyvyr arall*—Llavar, llaw, a llygad.

<sup>2</sup> *Llyvyr arall*—Cywirdeb, gwroldeb, a thangnevoldeb.

<sup>3</sup> *Llyvyr arall*—A bod heb na serch na chas at ddim yn y byd.

53. Tri pheth à wnânt ddwyvoldeb: cariad, cyviawnder, ac uvudddawd.

54. Tri pheth y sydd ac ni chār Duw a'u caro: gweled ymladd, gweled anghynvil, a gweled rhodres balchder.

55. Tri pheth y dylai ddŷn à vynai addŷsg: gwrndaw, gweled, a thewi.

56. Tair fordd y chwilir calon dŷn: sev yn y peth nas gwypo, y modd nas gwypo, a'r pryd nas gwypo.<sup>1</sup>

57. Tair sylvaen dedwyddyd: cyviawnder gweithredawl, gwirionedd gwybodedig, a thrugaredd ynniawl.

58. Tair fordd y daw crêd ar bob peth: sev o gredu pob peth yni wyper amgenach, o anghredu pob peth yni wyper paham ac ydd adnaper y tystion, ac o gredu ni waeth beth lle bo a'i tystia yn gredadwy.

59. Tair fynon gwybodaeth y sydd: pwyll, ansawdd, a gorvod.

60. Am dri achos y ceisir gwybodaeth: budd, pryderthwch, a dyledswydd.

61. Tri pheth serchog ar ddŷn: haelioni, doethineb, a thangnevoldeb.

62. Tri pheth y sydd na chared neb a'u hangharo: blās laeth, sawyr meillion, a chān adar y coed.

63. Tri chyvreidioldeb daioni: gwybod-aeth, ystyriaeth, a chariadoldeb.

64. Tri pheth y sydd ac nid hawdd dwyn dŷn oddi arnynt: ei varn, ei serch, a'i genedl.<sup>2</sup>

65. Tri pheth à ddylid eu syniadau ar bob peth: ei hynodrwydd, ei briodoldeb, a'i weithredoldeb.<sup>3</sup>

66. Tri pheth y sydd iddeu hystyried cyn gwedyd: y modd, y māt, a'r amser.

67. Tri pheth à lygrant gynueddvau dŷn yn gwbl: tra meddwdawd, tra godineb, a thra ysgymmyndawd.

68. O dri pheth y mae gwybodaeth gyviawn: awen, pwyll, a gwirionedd gwybodedig.

69. O dri pheth y mae pwyll: serch, ovn, ac ymbraww.<sup>4</sup>

70. Tri anhebgorion cynghor: gwyll-ygarwch, gwybodaeth, a rhyddydd llavar.

71. Tri thyb anweddus ar ddŷn: tybied ei hun yn ddoeth, tybied arall yn fōl, a thybied y gwedd iddo à vyno.

72. Thri thywysogaeth serchog: digrivwch, haelioni, a syberwyd.

<sup>1</sup> *Llyvyr arall*—Yn y peth nas tybio, y modd nas tybio, a'r pryd nas tybio.

<sup>2</sup> *Llyvyr arall*—Tri pherchenog y sydd ar bob dyn, ac nid hawdd ei ddwyn oddi ar un o honynt: ei serch, ei varn, a'i genedl.

<sup>3</sup> *Llyvyr arall*—Ei nodoldeb, ei briodoldeb, a'i weithredoldeb.

<sup>4</sup> *Llyvyr arall*—Serch, ovn, a buddioldeb.

73. Tri thywysogaeth pwyllgar: mwyn-der, arawwch, a chadernyd.

74. Tri thywysogaeth doeth: gwybod-aeth, heddwch, a golud bydawl.

75. Tri thywysogaeth dedwydd: gwybod gwirionedd, gwneuthur daioni, a goddev yn amyneddgar.

76. Tri thywysogaeth awen: myvyrdawd, llwyddymgais, a bodd doethion.

77. Tri pheth â wnânt wroldeb: cyv-iawnder, haelioni, a chadernyd meddwl.

78. Tri pheth anverth ar bob dŷn: gloddest, dichell, a llid; a hwy a'i dyfethant ev yn y diwedd.

79. Tri pheth anverth eu clywed: serthedd neu vrynti, celwydd, ac athrawd; ac nid gwell a'u gwrandaw nog a'u gweto.

80. Tri pheth fiaidd ar bob dŷn a'u harwedd: bod yn gelwyddgar, bod yn ddialgar, a bod yn ariangar.

81. Tri pheth diserch ar ddyn: rhospusder, anynadrwydd, a bod yn ogangar.

82. Tair camp gythreulig ar ddŷn: gormes, cenvigen, a balchder.<sup>1</sup>

83. Tri pheth sy'n ymborth ar dwyll: serch, ovn, a diogi.

84. Tri pheth y ceif diwydrwydd: llwyddiant bydawl, iechyd corforawl, ac anrhydedd gwladawl.

85. Tri pheth y ceif deddvawl: anrhydedd gan ddoethion, braint gwladawl, a llawenydd meddwl.

86. Tri pheth â wna gwybodaeth: goruchaviaeth gwladawl, ynnill bydawl, a dyddanwch cydwybodawl.

87. Tri pheth y ceif dedwydd: câs pob diriaid, cariad pob doeth, a gwynvyd nevawl yn dragywydd.

88. Tri pheth anghall i ddyn eu gwneuthur: ymladd dwrn moel â haiarn gwynias, llochi pen ci cyndeiriaiwg, a chellwair ag anghall gwladaidd.

89. Tri anghallder call: dadlu ag anghall, ymgyvrinaw ag anghall, a cheisiaw gyru syberwyd a moesgarwch ar anghall.

90. Tri pheth nid rhaid ovni nas cafer: peth llwyddiant o vawr ymgais, peth parch i'r neb a'i dirper yn vawr, a pheth doethineb lle a'i myvyrier o serch mawr parth ag atto.

91. Tri pheth â welant yn y tywyll: cariad, crebwyll awen, a chydwybod lân yn canvod gwirionedd ac iawnder.

92. Tri pheth ni welant y gwir a'r iawn er cymmaint vo'r goleuni: trachwant, balchder, a gelyniaeth.

93. Tri pheth o'u gweled ni welir un *Llywyrr arall*—Trais, cenvigen, a balchder.

peth arall: balchder yn hardd, tragolud yn vudd, a diogi yn wynvyd.

94. Tri pheth â wneir yn y tywyll: â wnelo trais, â wnelo trachwant, ac â wnelo cenvigen.

95. Tri dŷn y sydd ac nis gellir o gythraul eu gwaeth: cybydd, rhagrithwr, ac enllibwr.<sup>1</sup>

96. Tri chyttundeb â wnânt wr yn dda ei vyd: cyttundeb â gair Duw, cyttundeb â'i wraig a'i deulu, a chyttundeb â'i gymmodogion.

97. Tri pheth y dylid uvyddau iddynt: gorchymynion Duw, cyvraith gwlad, a govynion cydwybod.

98. Tri pheth y dylid yn llwyr eu hystyried cyn gwneuthur â veddylier: syrth amser, syrth gwlad a chenedl, a syrth anian.

99. Tri pheth nis gellir awen ddeallus hebddynt: addysg o athraw, gossymaith rhag newyn, a dyddanwch meddwl.

100. Tri pheth nis gellir bôd iddynt heb awen ddeallus: celvyddydd gyfiawn, cynneddvau daionus, a dyddanwch diargywedd.

101. Am dri rhyw ymadrawd ni cherir neb gan ei gallach: caswir o'i le a'i amser, cyngor heb ei ovyn, ac athrawd.

102. Tri pheth â wnant ddŷn yn wybodawl: bod yn ymovyngar, yn ymweledgar, ac yn ymbwyllgar.

103. Tair priv dyledswydd dŷn y sydd ac y dylid myned ganthynt yn mhob peth â welir: ennill meddiant bydawl drwy gywirdeb a diniweidrwydd, llês ei wlad a'i genedl hyd eithav deall a gallu, a hyd y galler gyru deddvoldeb o Dduw ac o ddyn ar bawb lle ydd elo tra vo yn y byd.

104. Tri pheth â ddiweddant yn ddrwg vynychav, am hyny goreu yw eu gadael a'u gochel: ymrysonau, cyveddau, a chwannogrwydd i wybod helynt ac â wnelo arall.

105. Tri pheth y sydd a'r dŷn deddvawl a'u canlyn ac a'u cais hyd vedd: lles a lluniaeth ei deulu, lles a llwyddiant ei genedl cywlad, a mwya'u gwybodaeth ar wirionedd.

106. Tri pheth y sydd, a'r dŷn â wnelo un o houynt â wna'r lleill: bychanu eiddo arall, trachwantu eiddo arall, a dwyn yn lletrad eiddo arall.

107. Tri pheth nis gellir â vo deddvawl a dwyvawl hebddynt: maddeu cam a gelyn, bod yn haelionus meddwl ac ymddwyn, a bod yn gywir a chyviawn tuagat bob byw a bôd.

108. Tri phrivyfmod bywydolion: ym-ganvod, ymbwyll, ac ymgais.

<sup>1</sup> *Llywyrr arall*—Cybydd, lledrithwr, ac enllibwr.

109. Tri pheth, sev gloddest, gwŷn, a diogi, à wnant dri pheth arall, sev diva'r meddiant, tywyllu'r deall, a byrâu'r einioes.

110. Tri arwydd anwybodaeth: anvoes ymddwyn, iaith anghyviawn, a holi dirgelion y cymmogion.

111. Tri arwyddon bonedd: haelioni, cyvarch hawddgar, a gwybodaeth dedd-awl.

112. Tri arwyddon awen: llygad llym, golwg serchog, a chyviawnder ymadrawd.

113. Tri arwyddon trugaredd: troi oddiar fordd ysgrubl yn gorwedd, syniadau cwyn plentyn bach, a pharchu henaint.

114. Tri arwyddon tangnevoldeb ar ddyn: trugaredd tuag at ei ysgrubl, chwannog i aros yn ei gartrev, a chanu gyda ei orchwyl.

115. Tri arwyddon drygarian: à roddo gynghor cyn a'i govynner, à wnelo na bo raid, ac à sieryd am ei gymmodogion.

116. Tri arwyddon creulondeb: tarvu anivel lle na bo raid, briwa coed a llyisiau yn ddiachos, a bod yn daer ei ovyn.<sup>1</sup>

117. Tri pheth da iawn eu meddu: cartrev o drev tâd, crefft o gelvyddydd, a braint o vonedd cynhenid.

118. Tri pheth gwell no'r rhai hyny: corf iachus, gwybodau molianus, a rhyddydd o hawl diymdwng.

119. Tri pheth gwell no'r cwbl: pwyll ynniawl, calondid amyneddgar, a chydwybod lân.

120. Tri pheth à ddylai vod gan bob gwr iddo ei hunan: ei wraig ei hunan, ei gartrev ei hunan, a'i varn ei hunan.

121. Tri pheth lle nas gwylier arnynt à syrthiant yn hawdd i dwyllansawdd: synwrau corf a meddwl, athrylith awen, a dosbarth celvyddydd.

122. Tri pheth nid hawdd eu gweled yn amlwg mewn arall, ac am hyny nid iawn rhyvarnu arnynt: tuedd a syrth awen, ymgais deall, a barn cydwybod; ac nid oes namyn Duw a'u gwyr ac a'u barn yn gyviawn.

123. Am dri achos y casglwyd y Triodd hyn o'r hên ysgriveniadau Cymreig genyv vi, Thomas ab Ivan o Dre Bryn yn Morgangwg, yn y vlwyddyn 1679: yn gyntav, er cov a chadw ar hên ddoethineb ein cenedl ni y Cymry, yn yr hên amseroedd; yn ail, er dyddanwch, a chwaneigiad gwybodaeth ac ystyriaeth rinweddol i'm hunan; yn drydydd, er addysg rinweddol i'r oesodd à ddêl.

*Ac velly tervyna.*

<sup>1</sup> *Llyvyr arall*—A bod yn daer am ei gardawd.

4. LLYMA DRIODD DOETHINEB ETTO, o *Llyvyr Cwrt Colman*, à ysgrivenwyd genyv vi, Thomas ab Ivan o Dre Bryn, yn y vlwyddyn 1679; (*o'r un Llyvyr.*)

1. Tri pheth nis gellir eu gweled yn eu llawnder o gynneddv: cynneddvau molianus, cynneddvau drygionus, a chynneddvau awenbwyll.

2. Tair colovn daioni: calondid, cariad, a doethineb; a lle ni bo y tri yn un nis gellir amgen no difyg.

3. Tri arwvdd dŷn dâ: ymovyn am wirionedd, gwneuthur cyviawnder, ac ymarver â trugaredd.

4. Tri pheth y sydd ac erynt y cadarn-êir gwirionedd o'i ganlyn: er maint yr anhawsder, er maint y colled, ac er maint y cosp a'r poen.

5. Tri cholled à bair ynnill yn y diwedd: colli à vo mwy no rhaid, colli iechyd, a cholli à vo pen iddo ev a'i collo ar bob peth; canys yn hwnw y bydd mwyav o'i bechodoldeb ev.<sup>1</sup>

6. Tri pheth y dylai bob dyn ymostwng iddynt: ei allu corforawl, ei ddymbwyll deall, a'i gydwybod ei hunan, bynagobeth ei govynion.

7. Tri phriv cynnysgaeth gwybodaeth dŷn: à ddengys ei synwyr ei hun iddo, à ddysgo ei gyvymbwyll ei hun iddo. ac à ovyn ei gydwybod ei hun gantho.<sup>2</sup>

8. Tri pheth nis gellir na threchant yn y diwedd: cariad, gwirionedd, a gwynvyd.<sup>3</sup>

9. Tri pheth anhebor i ddoeth: gwrاندaw, gweled, a thewi à sôn.

10. Tri rhywiogrwydd meddwl à bair syberwyd: tymmer goddevus, parodrwydd rhoddi, a llawen o gynneddv.

11. Tri pheth cythreulig ar ddŷn: cen-vigen, trachwant, a balchder.

12. Tri pheth ar ddŷn à barant hofi ei gyveillach: pwyll, syberwyd, a haelioni.

13. Tri pheth y dylid eu cadw dan llaw: chwant y cñawd, rhwysg y tavawd, a gwŷn digovaint.

14. Tri nôd annoethineb: ymolygu yn vawr, ymchwantu yn vawr, ac ymchwedl-eua yn vawr.

15. Tri nod creulondeb: niwedu gwirion, anymdawr ag à weler, ac ymgellwair à thrallodus.

16. Tri pheth à geir o gampau molianus: dysg, dawn, a llawenydd.

<sup>1</sup> *Llyvyr arall*—Tri cholled i ddyn à bair iddo ennill yn y diwedd: colli à vo'n ormodd gantho, colli iechyd rhodresgamp, a cholli à vo nesav at ei galon, canys yn hwnw y bydd mwyav ei bechawd ev.

<sup>2</sup> *Llyvyr arall*—ac a orchymyn ei gydwybod ei hun iddo.

<sup>3</sup> *Llyvyr arall*—Daioni, gwybodaeth, a gwynvyd.

17. Tri pheth à geir o godi'n vore: iechyd, golud, a doethineb.<sup>1</sup>

18. Tri pheth anhawdd i anghall eu gwneuthur: attal ei serch, attal ei lîd, ac attal ei davawd.

19. Tri pheth a ddangosant ddoethineb mawr ar ddŷn: dyôddev cam yn amyneddgar, rheoli chwant yn ddeddawl, a chadw ei veddwl yn ystyriawl.

20. Tri chyntevigaeth pob peth: deall, nerth, a chariad.

21. Tri anveidrolion y sydd, ac nis gellir amgen no phob peth bodiadawl ynddynt: ehangder, tragwyddoldeb, a Duw. Can nis gellir amgen no eu bod yn mhob mân, ac yn mhob amser, ar unwaith heb ymsymud.

22. Tri pheth nis gellir o bwyll bod ar y tri anveidrolion: dechreu, diwedd, a chanol.

23. Tri pheth nis gallant vod heb eu gwrthyddion: gwynvyd, gwirionedd, a gwybodaeth.<sup>2</sup>

24. Tri pheth nid ydynt ond un: gwirionedd, gwybodaeth, a goleuni.

25. Tri govynion dwyvoldeb a'i holl berthynasau: eitha'r ymgais, eitha'r deall, ac eitha'r serch.

26. Tri armerth à ennillant gariad Duw o'u rhoddi yn llwyr o galon er Duw a daioni bŷd: ymgais o gorf a deall, cydwytod, a bywyd lle bo achos.<sup>3</sup>

27. Tri pheth à ddangosant ynniôldeb dŷn yn o gwbl: y tri pheth cyntav y tery olwg arnynt, y tri dasmal cyntav, a'r tri-pheth cyntav y sôn ev am danynt.

28. Tri anhebor byd: gwybodaeth, trevn, a diwydrwydd.

29. Tri anhebor gwlad a chenedl: tŷrnedd, cyvraith, a golychwyd<sup>4</sup>

30. Tri anhebor tŷrnedd: awdurdawd, cyviawnder, a doethineb.

31. Tair priv golovn tŷrnedd: arglwydd, rhaith, ac ynad.

32. Tri anhebor cyviawnder: gwir, hardd, a chyvlesawl.

33. Tri pheth à geir o ymgynneddvy yn ddâ: parch ac anrhwydedd y byd, boddlondeb meddwl, a derbyn da gan Dduw.

34. Tri pheth à frwythlonant ddoethineb: gwybod am à vu, ystyr am y sydd, a phryderu am à ddaw.

35. Tri pheth à barant hawddvyd: iechyd corf, meddiant ddiangen, a chydwybod lân.

36. Tri pheth hardd eu gweled: cyttun-

deb rhwng brodyr, cymmwynasgarwch rhwng cymmydogion, a chariad fyddlon rhwng gwr a gwraig.

37. Tri anhebor priodas er gwynvydigrwydd o heni: cyttundeb diddig, cariad cydgalon, a chyvawch y ddau mewn daioni.

38. Tair camp ganmoladwy: haelioni

Cymro, syberwyd Franc, a hyder Sais.<sup>1</sup>

39. Tri pheth à bair i wr glôd a chymmeriad caredig yn ei wlad: gwedyd yn dŷg yn wyneb, rhoi gair da y'nghevn, a fyddlondeb cyveillach.

40. Tri pheth à ddiogelant i wr wasanaeth o gywirdeb: cariad a'i gwasanaetho, a'r modd a'i diogeler yw cariad am gariad; ynnill, neu elw a buddioldeb, ac o'i roddi y diogelir cywir o wasanaeth; a chymmyred à ddengys gymmeradwy ar à wneler yn wasanaeth, ac o'i ddodi y diogelir cywir ar wasanaeth.

41. Tri pheth annyddan eu gweled: cyvoethawg hael yn myned yn dlawd, dedwydd yn myned yn ddiriaid, a devodau gwlad a chenedl yn myned yn waethwaeth.<sup>2</sup>

42. Tri rhyw o ddynion à vyddant yn oreuron hyd yn y man y bont ac a'u hadnaper: cywiriaid deddvolion, goludogion haelionus, a gwybodolion dedwyddgamp.

43. Tri dynion à vyddant yn oreu'r bŷd arnynt lle nas adnaper: celwyddogion, bradon, a lladron.

44. Tri pheth byr eu parâad: rhyvedd-oldeb, gwagogoniant, a thegwch ieuengctid.

45. Tri pheth fôl iawn eu gwneuthur: gweiddi ho! wi! cyn ynnill y gamp, cyvriv a bwrw ar ddydd cyn y delo, a barnu cyn cyn gweled y diwedd.

46. Tri pheth ni wnâ un dŷn doeth: dysgwyl am analladwy, tristâu am anadveradwy, ac ovni anocheladwy.

47. Tair priv gamp rhagrithwr: tystiol-aethu yn wrthwyneb i air Duw, cyhuddaw yn anghyviawn, a barnu heb awdurdawd.

48. Tri pheth à hir gynnaid ddirieidi ar ddŷn: meddwdawd, godineb, ac ymladdgarwch.

49. Tair cyvarmerth dedwydd: yn erbyn anfodion, yn erbyn pechodau, ac yn erbyn marwolaeth.

50. Tri arwyddoldeb dedwydd: rhadlondeb, rhywiogrwydd, a gwiliadoldeb.

51. Tri arwyddoldeb diriaid: avradlondeb, avrywiogrwydd, ac ysgeulusdawd.

<sup>1</sup> *Llywyr arall*—Iechyd, dysg, a chyvoeth.

<sup>2</sup> *Llywyr arall*—Daioni, cariad, a gallu.

<sup>3</sup> *Llywyr arall*—Tair aberth, &c.

*Llywyr arall*—addysg ar ddoethineb daionus.

<sup>1</sup> *Llywyr arall*—Tair camp ganmoledeg, &c.

<sup>2</sup> *Llywyr arall*—Tri pheth annyddan eu gweled: cyvoethog hael yn myned yn dlawd, dedwydd yn myned yn ddiriaid, a chwerthin am ben y doeth ymbwyllgar.

52. Tri pheth goreu yn y bŷd: iechyd, rhyddyd, a synwyr.

53. Tri pheth balch: ceiliog ar ei domen ei hun, corgi ar arfed ei veistres, a chrach swyddwr yn ei ansawdd.

54. Tri pheth di glwyy di glevyd à vawr gystuddiant a'i harweinio: cariad, cās, a galar.<sup>1</sup>

55. Tri pheth ni wna un gwr doeth: myned hyd vôr lle gellir tir, gellwng i maes ei gyvrinach, a gellwng dydd i vyned heibio heb wneuthur rhyw ddaioni.

56. Tri camp ganmoladwy ar verch: tawedocrwydd, lledneisrwydd, a diweirdeb.

57. Tri pheth anhawdd eu tawelu: tōnau'r môr, rhysgyr gwynt, a thavawd gwraig anynad grintachlyd.

58. Tri chasbeth Cattwg Ddoeth: gwr heb wraig, mab heb ddyg, a theulu heb drevnau.

59. Tri pheth casach no'r cwbl: bardd heb ddoethineb, ofeiriad heb gydwybod, a barnwr heb gyviannder.

60. Tri pheth dyddan gan wr eu gweled: tanwyd o dân, yr aelwyd yn lân, a'r wraig yn llawen.

61. Tri pheth digon annyddan: cell wág, bwyd heb halen, a thy heb olau.

62. Tri dŷn à welant eu hunain yn ddigon call: dwl ni welwys, balch ni ddysgwys, a fôl à gredwys.

63. Tri dŷn à welant eu hunain yn ddigon anghall: divalech à wŷr ei ddifyg, awengar yn vawr ei ymchwil, a phwyllgar yn ovni y gwaethav o ddifyg canvod y goreu.

64. Tri dyn ni waeth gadael iddynt no'u dangos a'u cynghori: avradlawn blysig, trachwantus cybyddlyd, a doeth yn ei olwg ei hun.

65. Tri dyn goreu vydd eu gadael ar eu bwyd eu hunain: ansyber, annysgedig, ac anyngeisgar.

66. Tri dŷn goreu pa vwyav o dir vo ryngthynt à phawb: anynad, anwiredus, ac anywbodus.

67. Tri pheth hardd eu gweled: parchu dyeither ac estron, gwrol trugarawg, a heddwch mewn teulu.<sup>2</sup>

68. Tri dŷn er maint à wneir iddeu boddloni à anvoddlonant bawb: cybydd, merch dēg, a brenin.

69. Tri pheth ni ddylai neb o ddŷn ymvalchio arnynt: ei wybodau, ei ddwyv-oldeb, ac à wnel o gymmwynas; am nas gwŷr ac nas gwna vyth ei ddigon.

<sup>1</sup> *Llyvyr arall*—Cariad, galar, a chenvigen.

<sup>2</sup> *Llyvyr arall*—mewn teulu a chymydogaeith.

70. Tri phwyll y sydd dros dewi: rhag dywedyd y peth nas dylid, rhag dywedyd y modd nas dylid, a rhag dywedyd y lle nas dylid.

71. Tri pheth y dylid eu diolch: gwa-hawdd, rhybudd, ac annerch.

72. Tri pheth à ddylai vod gan wr cyn ydd elo i ryvela: achos cyvianw, cleddyv cywir, a chariad ei wlád a'i genedl.

73. Tri pheth anheggor i wr cyn myned i ymgyvreitha: clawdd aur, wyneb pres, a chalon gareg.<sup>1</sup>

74. Tri pheth iawn i ddŷn ymladd tros-tynt er eu hamddiffyn: ei wlád, ei gâr, a'i vywyd ei hun

75. Tri pheth y ceif dŷn o dreiglo ymhell o'i wlád: newyn, anwyd, ac am-march.

76. Tri pheth y dylai bob dŷn eu gwy-bod: devodau ei wlád a'i genedl, dosparthau doethineb, a chelvyddyd y gallo ev ymgyn-nal ganthi.

77. Tri pheth ni wrandawant ar gynghor ba crystal bynag y bo: brŷs, llid, a thra-chwant.

78. Tri pheth nid call ymyryd â nhwy: llywodraeth tŷ gwr arall, cynghori pen-devigion goludog, a chwilio dirgelion.

79. Tri pheth tu hwnt i bob deall dŷn: eithavodd maintioli, eithavodd bychander, a dirgelion Duw.

80. Tri gwall cadarn à ddygwydd ar ddŷn: gwall ovn, gwall llid, a gwall serch.

81. Tri angerdd à barant wallgov a gwallbwyll ar ddŷn: angerdd ovn, angerdd llid, ac angerdd serch.

82. Tri dŷn y dylid eu gochel: à weto ie gyda phob dŷn, ac ar bob achos, à ochelo varnu nag y'mhlaid nag yn erbyn un dŷn ba bynag, ac à wrthepo bob dŷn, achos neu heb achos.

83. Tri pheth y gwŷr pob dŷn diwydgall eu gwnenthur: ei arad, ei lyvyr, a'i vara.

84. Tri moddion ymborth dŷn: hela, cyvnwediaeth, ac aru daiar.

85. Tri pheth o'u hadver a estynant einioes dŷn: y wlád a'i magwys yn blentyn, yr ymborth a'i maethwys yn blentyn, a'r myvyrdawd a'i dyddanwys yn blentyn.<sup>2</sup>

86. Tri pheth anwadal: cymmeriad neu garedigrwydd gwŷr mawr, cariad merch, a llygedyn o haul vis Ionawr.<sup>3</sup>

87. Tri dŷn nid call rhygoelio iddynt: hŷn no'i gymmodogion, rhodiadur o bell, a darllenwr llyfrau aghyviaith.<sup>4</sup>

<sup>1</sup> *Llyvyr arall*—ddŷr.

<sup>2</sup> *Llyvyr arall*—Ei wlád gynhenid, ei ymborth gynhenid, a'i vvyvyrdawd gynhenid.

<sup>3</sup> *Llyvyr arall*—cymmeriad arlwyddi, &c.

<sup>4</sup> *Llyvyr arall*—ac a vo vaen dros iaen.

88. Tri ymryson à ddygywydd ar varw-  
olaeth goludawg cadarn draws: cynneseiv-  
iaid am ei dda bydawl, pryvaid am ei gorf  
abwyawl, a chythreuliaid am ei enaid an-  
varwawl.

89. Tri pheth sy'n cynnal y byd: cariad,  
diwydrwydd, a chyvraith gyviawn.

90. Tri pheth ar ddŷn à gauant ar bob  
daioni arall: dwyvoldeb, tanguevoldeb, a  
gwroldeb.

91. Tri areiliaid gwybodaeth: golwg,  
clyw, a deall.<sup>1</sup>

92. Tri pheth goreu o bob peth i bob  
dŷn: awen ddeallgar, iechyd corf, a chy-  
dwybod lân.

93. Tair camp ar ddŷn a'i gwnant yn  
debyg i gythraul: twyll, cynhen, ac enllib.

94. Tri pheth anverth eu gweled: teulu  
heb wybodaeth, gwlad heb gyvraith, a  
chelvydd heb gyviawn o ddosparth.

95. Tri pheth cythreulig ar ddŷn: cy-  
byddra, balchder, a chreulonder.

96. Tri gwrthred pob drwg: dirwest,  
amynedd, a haelioni.<sup>2</sup>

97. Tri amysgre pob peth: amser, lle, a  
rhyw.<sup>3</sup>

98. Tri pheth à gynnalant hir dyloidi ar  
ddŷn: glythineb, ymryson, a balchder.

99. Tri pheth ni hawdd ortrecher ar-  
nynt: serthedd, cariad, ac angau.

100. Tri pheth à wna y gwâs yn well  
no'i veistry: mynych ymgais à dysg, ym-  
synwraw yn ddoeth ei awen, ac ymgyn-  
neddŷu yn dda, ebai'r Bardd Glâs o'r  
Gadair.

101. Tair dedwyddgamp gŵr: aru trev  
ei dâd,<sup>4</sup> cwnu plant ar vonedd, ac ymgadw  
rhag ymrysonau.

102. Tri pheth y dylai bob dŷn eu hys-  
tryied yn ddirivrawl: o ba le y daeth, yn  
mha le y mae, ac i ba le ydd â.

103. Tri pheth à geif pob doeth ded-  
wydd: digonedd bydawl, llawenydd cyd-  
wybod, a gwynvyd nev yn dragywydd.

104. Tri pheth over dros bèn: amnaid  
ar ddall, ymgyvrinaw à byddar, a gyru fol  
i neges.

105. Tri pheth à wnant droedled gadarn  
i ddoethineb: ieuentid i ddysgu, synwyr  
i ddeall, a cheudawd i gadw.

106. Tri pheth nid call ymddiried  
iddynt: iechyd henddyn, hinon gauav, a  
diniweidrwydd arglwydd cyvoeth.

107. Tri glwth byd: môr, dinas, ac  
arglwydd cyvoeth.

108. Tri pheth à ddeifeithiant y bŷd:

brenin fol heb gynghor, ynad heb gydwy-  
bod, a gwerin heb uvyddawd.

109. Tri anheggor gwlad a chenedl:  
priodasau, cyvodau dosparthus,<sup>1</sup> a chyvar-  
wyddyd; canys heb y pethau hyn nis gellir  
cyvrwym ar wlad a chenedl.

110. Tri chael à gar pob cybydd eu cael:  
cael clôd lle y dirper anghlod, cael ei wyn  
ar bob hael à welo yn mynad yn dlawd, a  
chael y dorth a chadw ei geiniog hevyd.

111. Tri madvanogion bŷd: bardd, fer-  
yllt, a llavurwr. Sev bardd yn athraw  
gwybodau, deall, a doethineb; feryllt yn  
cynnal celvyddydau llaw ac oferynodau  
daionus; a llavurwr yn aru daiar er ym-  
borth dŷn ac anivel.

112. Tri anvad vanogion bŷd: tēyrn,  
cyvnewidydd, a chybydd. Sev drwg o  
bwyll ac ansawdd ac amcanion eu cyvlyrau  
y byddant, ac á wnânt ddaioni o ansawdd  
anghyvednaws; tēyrn yn gwarogi dirieidi  
ac yn gwerinaw anwar; cyvnewidydd yn  
diwall eisiwed; a chybydd yn cyvoethog'i'r  
to à ddêl; a drwg o ansawdd cyvednaws  
ydynt; sev y bydd tēyrn yn anghyviawn  
gan olud a galluocrywydd, cyvnewidydd á  
wna dwyll ac avrad ac avraid o drachwant  
a blys anghyvednaws, a chybydd á newyna  
ei dylwyth a'i deulu a plawb o'r byd hyd  
y gallo er ynnill golud, ac ni wna ddaioni  
o'i vodd, sev daioni cyvednaws, oni newyno  
ev ei hunan o'r byd.

113. Tri pheth y dylai pob dŷn synwyr-  
awl eu gwneuthur: darllen er gwybod,  
ystyr er addysg, a choviau er daioni iddo  
ei hun ac i bawb ereill.

*Ac velly tervyna.*

3. LLYMA DRIODD DOETHINEB EREILL  
*O Hen Llyvyr mawr Margam. (o'r un  
Llyvyr.)*

1. Tri pheth gwrol uvyddâu iddynt: i'r  
gwîr, i gynghor da, ac i'r ceiliog pylgain.

2. Tri dŷn atgas: tylawd balch, cyvoeth-  
awg celwyddawg, a hên godineb.

3. Tri pheth ni ddylynt vod un orig  
vechan ar anghov: gorchymynion Duw;  
cafaeliad twrn da; a'r marw; gan ganlyn  
neu ymwrthod, val y to govyn, à ddywed-  
asant ac à wnaethant hwy.

4. Tri pheth ni vyddant amrycheulyd:  
dwyllaw y crochenydd, olwyn mên, a'r un  
à ganlyno ddrwg gyveillach.

5. O dri pheth y daw cynghor da, sev  
pan gyvymgydiant y tri: gwybodaeth,  
ewyllys da, a rhyddy ymadrawdd.

6. Tri pheth à ddylynt vod bob amser  
gartrev: y gâth, y funell, a'r wraig.

<sup>1</sup> *Llyvyr arall*—Cyvundodau dosparthus, &c.

<sup>1</sup> *Llyvyr arall*—Tri areiliant, &c.

<sup>2</sup> *Llyvyr arall*—Tri gwrthrediaid, &c.

<sup>3</sup> *Llyvyr arall*—Tri amosgre, &c.

<sup>4</sup> *Llyvyr arall*—aru tir tattrev, &c.

7. Tri pheth annaturawl: marchnattrev heb ladron, hên gybydd heb arian, a merch lân heb garwr.

8. Tri pheth nid call myned yn eu cylch mewn brÿs: rhyvel, gwleddocrwydd, ac ymddadlu.

9. Tri pheth nid call iawn eu bostio: cwrw da, gwraig lân, a phwrs llawn.<sup>1</sup>

10. Tri pheth nid hawdd gan neb eu benthyca: ei varch, ei arvau, a'i wraig.

11. Tri pheth hardd ger bron Duw a dÿn: cyttundeb rhwng brodyr a chwiorydd, cariad rhwng cymmogion, a gwr a gwraig yn cadw eu fydd mewn cyttundeb.

12. Tri pheth sy raid byw hebddynt os mynir heddwch: golud, arvau, a gwraig.

13. Tri dÿn à vydd ddiogel a diangol ba le bynag ydd elont, ai heddwch ai rhyvel y bo: benyw, gwr cyn barv, a gwr heb arv; ac nis dylid niwed corforawl iddynt.

14. Tri chasbeth Duw a dÿn: golwg ymladdgar, tavod twyllodrus, ac asbri drygionus.

15. Tri pheth puteinaidd eu lliw ar venyw: bod yn voethus, yn chwerthinus, ac yn chwannog i ymdrwsiadu yn wych a chostus.

16. Tri pheth sydd o ddiawl: peri anghydvod rhwng brodyr a chyveillion, anudoniaeth, sev gau dystiolaeth, a chwannocrwydd i dywallt gwaed.

17. Tri nôd anwr: dal gormod sylw ar à vo distadl, drwgdybio yn ddiachos, ac heb yndo draserch à nebun o'r byd.

18. Tri nôd bradwr: chwannocrwydd i ymgyswllt â'r drwg, tavawd gwenieithus, a serch ar bob newydd.

19. Tri nôd gwroldeb: treiglyddiaeth mynych gartrevgyrch, anvoethusder, ac amalchineb.

20. Tri nôd callineb: bod yn ymgeisgar, bod yn amyneddgar, a bod yn gartrevgar.

21. Tair camp à vydd ar wraig odinebus: chwedleua llawer am ei chymmogion, myned oddigartrev heb ei gwr, ac edrych llawer drwy'r fenestri.

22. Tri pheth anhardd anwedus ar verch neu wraig: chwedleua llawer lle a'i gwahodder, siarad o'r neilldu â gwyr a gweision, a siarad am ei chymmogion angen nog á vo da am danynt.

23. Tri arwydd rhagrith: beio arall yn vawr, codi llygaid yn y llan, ac ymddwyn gochelgar.

24. Tair privgamp dÿn fôl: glythineb, chwaryddineb, ac ymddadlu ag un à vo llai nog ev ei hun mewn gwybodaeth.

25. Tri pheth ni ddylid ymddiried gor-

<sup>1</sup> *Llywyrr arall*—Ac arian mewn còd.

mod, iddynt: i gefyl cyvlog, i was balch, ac i wraig à sonio lawer am ei threvnid-aeth.

26. Tri pheth goreu gadael iddynt: ei dierth, lliv disymmwth, a doeth yn ei olwg ei hun.

27. Tri pheth melltigedig eu rhwystraw: priodas gyvreithlawn, cynnorthwyaw'r anghenus, a thiöedigaeth at vuchedd gwell.

28. Tri dÿn ni ddylent gerydd: plentyn yn llevant am dad neu vam, dÿn yn myned yn dlawd drwy gynnull gwybodaeth, a dÿn yn ymdrallodi mewn serch.

29. Tair bôst gwr: merch à briodawdd, bywyd á waredawdd, à chamsyniad à iawn-häawdd.

30. Tair bôst anwr: merch à dwyllawdd, maint a laddawdd, a'r echwyn à roddawdd.<sup>1</sup>

31. Tri harddwch gwlad: ysgubawr, eglwys, ac ysgol.<sup>2</sup>

32. Tri phall melltigedig: pallu bwyd i'r newynog, pallu lletty i ddiert ac estron, a phallu addysg i'r un a'i govyno.

33. Tri pheth er eu dryced gwell bod à nhwy no bod hebddynt: brenin, ofeiriad, a gwraig.

34. Tair llwybr, na ddoder avrwyddiant arnynt: llwybr plentyn i ysgol, llwybr diert i bèn ei daith, a llwybr meddyg at y clâv.<sup>3</sup>

35. Tri pheth ni ddylid yn vawr ymchwilio iddynt: bywioliaeth y cymmogion, cyvrinach serchogion, a dirgelion Duw.

36. Tri anfawd maeronydd: gwâs twyllodrus, morwyn dew, a gwraig valch.

37. Tri anfawd llavurwr: gweithiwr diog, had lledryw, a thir tragolwg.

38. Tri phrivanmorth llavurwr: tir drwg, arglwydd drwg, a gwraig ddrwg.

39. Tri gwrthwynebrwydd gŵr: plant gwrthnysig, gwraig buteinllyd, ac anair ei gymmogion.

40. Tri pheth anghysurus: corf heb iechyd, tÿ heb wraig, a phwrs heb arian.

41. Tri pheth ni wnant voddlondeb i neb: tÿ heb olau, aelwyd heb wrês, a bwyd heb halen.

42. Tri pheth ni wnant wr yn oludawg: gwraig gysgadur, merch buteinllyd, a mab tringar.

43. Tri pheth anhawdd eu gweled: hên vwch heb varv, hên ysgubawr heb lygod, a hên ddÿn heb drachwant.

44. Tri deuodd anhawdd eu cael ynghÿd:

<sup>1</sup> *Llywyrr arall*—A dirieidi à wnaeth.

<sup>2</sup> *Llywyrr arall*—Arad, evail, ac ysgol. Hevyd,—*Llywyrr arall*—Ysgubawr, evail, ac Ysgol.

<sup>3</sup> *Llywyrr arall*—Llwybr ysgol, llwybr priodas, a llwybr golychwyd.



doethineb a chyvoeth, awengamp a bôl brâs, ac anrhydedd ac anneddvoldeb.

45. Tri pheth over chwiliaw am danynt : aur y'mhwrs prydydd, iechyd y'nghorf meddwyn, a doethineb mewn meddwl balch.

46. Tri pheth ereill over chwiliaw am danynt: callineb mewn pên chwaldodog, diwydrwydd mewn cyvingder, a fyddlondeb mewn calon ariangar.

47. Tri chais doeth : gwraig dawedog o blith ei gymmodogion, boddlondeb yn ei gartrev ei hun, a santeiddrwydd yn ei gydwybod.

48. Tri breinoldeb gwr: dodrevn tŷ a thir o'i wneuthuriad ei hun, ymdaith o'i drevdir ei hûn, a doethineb o'i awenbwyll ei hun.<sup>1</sup>

49. Tri pheth ni weled hyd yn hyn yn y bŷd: glwth iachus, cysgadur celvydd, a balch anrhydeddus.

50. Tri pheth over dysgwyl am danynt: gwirionedd mewn rhagreithwr, cywirdeb mewn gwneithwr, a chyviawnder gan gyvreithwr.

51. Tri pheth gwrthun eu gweled: ieuanc heb lawenydd, hir addysg heb gelyyddyd, a chlâv heb grevydd.

52. Tri pheth anverth eu gweled: cymmodogaeth heb gymmwynasau, athraw ansyber, a phenteulu digrevydd.

53. Tri pheth gwradyddus mewn gwlad: bardd heb urddas, llandrev heb ysgol, a chenedl heb gywilydd.

54. Tri pheth ni oddevant ymgellwair ag wynt: iechyd, llwyddiant, ac oedran.

55. Tri anheggor doethineb: calon yn meddwl, iaith i ddatgan, a cheudawd i gadw.<sup>2</sup>

56. Tair cynneddv anweddu ar ddŷn: bod yn daer ei gais, yn galed ei rôdd, ac yn ddrwg ei dŷb.

57. Tri pheth y ceif dŷn dwyvawl: digonedd bydawl, heddwch cydwybodawl, a llawenydd nevawl.

58. Tri pheth y ceif dyn trugarawg: cariad y byd, bôdd ei galon ei hun, a bôdd Duw.

59. Tri pheth y ceif dyn goddevus: llonyddwch, cariad, a'r goreu ar ei gaseion.

60. Tri pheth y ceif dŷn dedwydd: cariad y bŷd, bywyd heddychlawn, a gwynvyd yn y byd à ddaw.

61. Tri pheth y ceif diriaid: câs y bŷd, avlwyddiant, a digovaint Duw.

62. Tri pheth y ceif dyn divalech: amledd

da'r bŷd, llawenydd cyveillgar, ac esmwythder yn ei ansawdd.

63. Tri pheth y ceif dyn balch: câs ei gymmodogion, colled beunyddiawl, ac anesmwythder gwastadawl.

64. Tri pheth y ceif dyn diwyd: clôd, cyvoeth, a blaenoriaeth.

65. Tri pheth y ceif dyn gwallus: coll-edion mynych, tristwch calon, a chywilydd.

66. Tri pheth y ceif dyn gofalus: llwyddiant ar ei amcanion, boddlondeb meddwl, a pharch anrhydeddus.

67. Tri pheth y ceif dŷn cywir: dawn, cariad, a gair da, gan bawb a'i adnapo.

68. Tri pheth y ceif dyn twyllodrus: pawb yn ymwrthod ag ev, 'drygvyd anesgorawl, a diwedd drwg.

69. Tri pheth a geir o hirddilyn drwg: bod yn ddrwg ei barch, yn ddrwg ei vŷd, ac yn ddrwg ei ddiwedd.

70. Tri gair cynghor y Bardd Glâs: câr dy Dduw yn vwy no dim, canys eve a'th wnaeth, ac à ddarmerthes erod; gweddia ar Dduw yn bênav o ddim, canys eve a'th wared ac a'th geidw; ac ovna Dduw yn fwy no dim, canys eve a'th varn.

71. Tri arwydd ar ddŷn ei vod yn gadwedig gan Dduw: casâu pethau drygionus, caru pob pethau daionus, ac ymolychwyd-aw yn ddiwall ovalus.

72. Tri pheth à geir o godi yn vore: iechyd, golud, a dedwyddyd.

73. Tri pheth à geir o hirgwsg y bore: aviechyl, tylodi, a dirieidi meddwl.

74. Tri pheth ar ddŷn à bair i'r diawl ei garu: balchder, cenvigen, a thrais.

75. Tri pheth y dyly cristion ev coviaw bob awr ac orig rhag pechu yn varwawl: gorchymynion Duw, llawenydd y nêv, a phoenau uffern.

76. Tri pheth à ddaw ar ddŷn heb yn wybod iddo: cwsg, henaint, a phechawd.

77. Tri gelyn enaid cristion: y bŷd, y cnawd, a'r cythraul.

78. Tri meddyg enaid dŷn: dirwest, trugaredd, a chyviawnder.

79. Tri pheth serchog iddeu gweled: diriaid yn myned yn ddedwydd, cybydd yn myned yn hael, a phechadur yn myned yn sântaidd.

80. Tri dyn melltigedig y sydd: á ddro orchymynion Duw heb vod yn edivar gantho, na wypo ddim o ddaioni ac nas cais ei ddsygu, ac à wypo lawer ac nas dengys i neb, na gwneuthur yn ol ei wybodaeth.

81. Tri pheth y dylai cristion daionus eu gwneuthur: caru Duw yn vwy no dim, onni Duw yn vwy no dim. a gwa:anaethu Duw o vlaen pob peth.

<sup>1</sup> *Llyvr arall*—Dodrevn o'i vedrusder ei hûn, &c.

<sup>2</sup> *Llyvr arall*—A chôv i gadw.

82. Tri pheth sydd anghenraid i bechadur eu gwneuthur: cydnabod ei bechodau, ymwellâu ac ymiawnâu yn ei vuchedd, a deisyf maddeuant gan Dduw.

83. Tri pheth y dylai bob dyn eu hystyried: o ba le y daeth, y'mha le y mae, ac i ba le ydd â ev.

84. Tri pheth y dylai bob crïstion eu gwneuthur: iawn ystyried â vu, iawn ddevnyddiau y sydd, ac iawn ovni a gwiliad â vydd.

85. Tri pheth â gymhellant weddi ar Dduw: hir-glevyd, hir-advyd, a hir-dristyd; ac i'r neb â weddio ni ddiifyg ymward.

86. Tri rhyw o ddyinion nid onvant Dduw: bradwyr, murnwyr, a threiswyr.

87. Tri rhyw o ddyinion ni phrisiant vawr am onestrwydd: anudonwyr, meddwon, a chribddeilwyr.

88. Tri pheth iawn i ddyinion meddwl am danynt a'u gwneuthur: cyviawnder, heddwch, a chariad.

89. Tri daioni ar ddŷn â gauant ar bob daioni arall: meddwl yn dda, dywedyd yn dda, ac o'i holl egni amcanu yn dda.

90. Tri pheth sydd raid i bob crïstion bucheddawl ryvela yn eu herbryn: twyll y byd, twyll y cnawd, a thwyll y cythraul.<sup>1</sup>

91. Tri pheth os cefir ni waeth beth arall â gollir: gair da doethion, heddwch cydwybod, a bôdd Duw.

92. Tri pheth â ennillant gariad Duw: fydd lân ddivrychau, gobaith cariad diammheau, a chariad diwallau.

93. Tri achos y dylai bob dŷn garu Duw: am ei grëedigaeth, am ei waredigaeth, ac am vod Duw yn llywodraethu arno.

94. Tri rhyw ddŷn y sydd: dŷn i Dduw, dŷn i ddŷn, a dŷn i ddiawl; dŷn i Dduw â wna dda dros ddrwg, dŷn i ddŷn â wna dda dros dda a drwg dros ddrwg, a dŷn i ddiawl â wna ddrwg dros dda.

95. Tri pheth a gywirant eu gair yn ddifuant: angeu, dial Duw, ac ediveirwch.

96. Tri pheth ni ellir santeiddrwydd lle byddant: gloddest, balchder, a thrachwant.

97. Tri nôd santeiddrwydd: cariad perffaith, uvydddawd gwrol, a thawedigrwydd serchawg.

98. Tair sylvaen doethineb: mab-ieu-entid i ddysgu, côv i gadw dysg, ac aml synwrau i drevnidaethu â ddyser.

99. Tri pheth hardd ar ddŷn: gwybyddiaeth, llywodraeth, a dwyvolaeth.

100. Tri pheth sy'n gwaethygu'r byd: seguryd, balchder, ac avradlondeb.

101. Tri pheth sydd yn trallodi'r byd: cenvigen, twyll, a thrachwant.

102. Tri pheth y dysg ddŷn o vod yn segur: dywedyd celwydd, cyvrinach dichellion, a chelvyddyddau lladron.

103. Tri pheth canmoledig ar wr: bod yn ddoeth ei ymadrawd, yn gyviaw ei weithred, ac yn gymmedrawl ei vuchedd.

104. Tri pheth sydd well no chyvoeth: iechyd, rhyddyd, a synwyr.

105. Tri pheth â wnant wr yn vlaenor ar ei gymmologion: bod yn hael, bod yn ddoeth, a bod yn gyvoethawg.

106. Tri ychydig â bair colli llawer: ychydig o anwydau drwg, ychydig o wall, ac ychydig o dwyll (o ledrad.)

107. Tri pheth â ddrwg ar ddysg i ddŷn yr hyn â wna lês iddo: ei synwrau, ei syniadau, a'i ddygwyddiadau.

108. Tri pheth anhawdd i ddyn: llwyr- adnabod ei hunan, gorchygu chwant naturiawl, a chadw ei rin.

109. Tri pheth gwerthvawrocav yn y byd i ddŷn: iechyd, rhyddyd, a rhinwedd.

110. Tri pheth â ennillant enw da i ddŷn: dywedyd ychydig, dangos cymwynasgarwch, a diwydrwydd.<sup>1</sup>

111. Tri pheth ardderchawg ymhlith pethau ceudodawl: casâu folineb, caru rhinwedd, a dymunaw dysgu yn wastad.

112. Tair cynvedd ddrwg ar ddŷn: balchder heb haelioni, trachwant heb gyviawnder, a digovaint heb drugaredd.

113. Tri modd y sydd i adnabod dŷn: ei ymadroddion, ei ymddygiad, a barn ei gymmologion am dano.

114. Tri pheth â vawr dwyllant ddŷn: geiriau têt, chwant elw ac ennill, ac eisieu gwybyddiaeth.

115. Tri pheth anhawdd i ddŷn eu gwneuthur: oeri'r tân, sychu'r dwr, a boddloni'r byd.

116. Tri pheth â gadwant wr mewn iechyd: ymborth mesurawl, travaelu cymmedrawl, a chadw gwrês naturiawl.

117. Tri pheth â arweiniant ddŷn i dylodi: chwareu aviachus, glythineb, a phuteindra.

118. Tri pheth ni all dŷn eu cuddiau: cyvoeth mawr, cariad mawr, a chás mawr.

119. Tri pheth gwrthwyneb gan wr ymadael â nhwy: y wlad lle ei ganed ac a'i magwyd, cyvoeth â gasgloedd eve ei hun, a chyveillion ei ieuentid a brovoedd eve eu bod yn gywir iddo.<sup>2</sup>

<sup>1</sup> *Llywyr arall*—Twyll b d, chwant y cnawd, a dichell y cythraul.

<sup>1</sup> *Llywyr arall*—Dywedyd ychydig, gwneuthur daioni, ac ymlavuriaw yn ei alwad.

<sup>2</sup> *Llywyr arall*—a brovwyd yn gywir iddo.

120. Tri pheth anwylaw gan ddŷn yn hyn o vŷd; ei wlad enedigawl, ei gyveillion fyddlawn, a'i eppil gweinion.

121. Tri achos esgusedig i ddŷn ddywedyd celwydd: i gadw bywyd ei gydgristion, i heddychu cymmodogion, ac i gadw ei wraig yn voddlon.

122. Tri pheth sy'n cadw y byd mewn trevn: rhiv, pwys, a mesur.

123. Tri pheth anheggor i wneuthur pob peth: gwybodaeth pa vodd a'i gwneuer, gallu iddei wneuthur, ac ewyllys iddei wneuthur.

124. Tri pheth y sydd ac hebddynt nis gellir dwyn un peth o'r byd i bèn: modd, medr, a myn.

125. Tri pheth da pan vont gymmesur, a drwg pan vont yn anghymmesur: tân, dwr, a gwynt.<sup>1</sup>

126. Tri chyw o'r un nŷth: creftwr tavawd, bardd dosbarth, a dwyvol cyfes.<sup>2</sup>

127. Tri pheth ni all nebun vyw hebddynt: trwydded, gwisg, a gwasgawd.

128. Tri nôd lleidr: tavawd holiadgar, llygad gwiliadus, ac wynebpryd brawychus.

129. Tri pheth à ddangosant gywirddyn: genau tawedog, llygad diymdawr, ac wyneb divraw.

130. Tri pheth à geif dŷn wrth ymgyv-reitha: côst, goval a thraferth.

131. Tri rhyw o ddynion à gollant eu haravwch yn debyg i ddynion allan o byyll a chôv: corelwyr, helyddion, ac ymladdwyr.

132. Tri rhyw o ddynion anhawdd vydd eu cael yn yr un veddwl: y call a'r fôl, yr hael a'r cybydd, a'r cywir a'r lleidr.

133. Tri yuvydrwydd mawr ar ddŷn: bwyta wrth gynghor ei vola, gwreica with gynghor ei gnawd, ac ymladd wrth gynghor ei lid.

134. Tri rhyvedd bŷd: hên heb drachwant, gwraig heb wagedd, a dŷn da heb iddo elynion.

135. Tri dŷn ni ddylai neb eu gwa-hawdd iddei g'niaw: twyllwr gwenieithus, tystyniwr gwatwariu, a bradwr cenvigenus.

136. Tri pheth à bair i ddŷn golli gwa-hoddiad: yved gormodd, dywedyd gormodd, ac aros gormodd.

137. Tri pheth à geir o vnyed yn vnych i davarn: colli golud, colli iechyd, a cholli deal a phell.

138. Tri pheth da iawn eu meddu lle ydd êir yn vnych i davarn: bola gwydn, pên cadarn, a phwrs trwm.

<sup>1</sup> *Llyvyr arall*—Tri brenin byd: tân, dwr, a gwynt; canys hwy a wnant a vynant lle nas cauer yn eu herbyn.

<sup>2</sup> *Llyvyr arall*—celvydd tavawd, &c.

139. Tri pheth à geir yn rwydd o vnyed yn vnych i davarn: diod à vyner tra phery yr arian, pechu à vyner tra bydder yn y byd, ac edivaru à vyner yn y byd nesav.<sup>1</sup>

140. Tri pheth nis ceif un dŷn yn ddi-fael wrth ei angen: benthg arian gan oerwr yn ddi lôg, pleidio ei hawl yn y llŷs gan wr o gyvraith yn ddi dwnc, a chiniaw moethuswyd yn ddirybudd yn nhŷ cybydd anghawr.

141. Tri pheth y dylai bob dŷn bryderu yn wastadawl eu gwneuthur: gwrndaw yn uvydd, ateb yn gall, ac ymddwyn yn serchog.

142. Tri pheth nid ydynt yn gorphwys un amser mewn dŷn: yr anadl yn cerdded, y gwaed yn rhedeg, a'r enaid yn meddyl-ied.<sup>2</sup>

143. Tri pheth à wnânt wraig yn anni-wair: tegwch ei hwyneb, folineb ei phen, a balchder ei chalon.

144. Tri dedwyddwch teulu: pênor de-allus, bugail govalus, a negeswr cywir.

145. Tri annedwydd teulu: llettya ofeiriad, cadw mursen, a drygwas diog.

146. Tri pheth sydd gystal a'r goreu: bara a llaeth rhag newyn, gwisg lwyd rhag anwyd, a mab gwreng ar adwy.

147. Tri ansawdd y sydd ar bob peth: amser, lle, a chynneiryd.

148. Tri chynryw y sydd ar bob peth corforawl: lliw, llûn, a sylwedd.

149. Tri pheth hyvryd i'r clyw: telyn gyweirber, newyddion dâ, a llais dŷn à gerir.

150. Tri pheth hyvryd i'r olwg: goleu o dywyllwch, gorchwyl gyweirdeg, ac wyneb dŷn a gerir.

151. Tri pheth hyvryd eu teimlaw: arogl, blâs, ac ardymyr gwres ac oervel.<sup>4</sup>

152. Tri pheth hyvryd i'r deall: gwir, hardd, a rhyw.

153. Tri pheth à wnant wr yn voddlon iddei vyd: tŷ trevnus, tîr cyvanneddus, a gwraig rinweddus.

154. Tri pheth y dylai à gafai gym-mwynas: ei ddiolch, ei goviaw, a thalu y pwyth lle bo galw.

155. Tri difeithwch trev: lliv, tân, ac ymrysonau.

156. Tri llawenydd gwr ar gyveiliorn:

<sup>1</sup> *Llyvyr arall*—ac edivaru à vyner pan bo'n ry hwyr.

<sup>2</sup> *Llyvyr arall*—a'r bledren yn sugno. — *hevryd arall*: y bledren yn sugno, yr anadl yn ymrwylllo, a'r enaid yn meddylïo.

<sup>3</sup> *Llyvyr arall*—a pherthynas. *Arall*: amser, lle, a chyvynwain.

<sup>4</sup> *Llyvyr arall*—a merch a gerir wrth ystlys yn y gwely.

lliw tân, ei yn cyvarth, a mab bychan yn gweiddi

157. Tair elusen à vydd bènau o bob eluseni: ymborth, nawdd, a chyngor da.<sup>1</sup>

158. Tri pheth melltigedig y dŷn a'u symmuto: fin tŷr, pont ar avon, a maen gobaith.

159. Tri pheth y dylai bob Cymro tiriog eu cadw a'u cynnal: gwraig briod, gwr wrth arv lle nas dyco arv ei hunan, ac athraw teuluaidd.

160. Tri pheth sy'n llygru'r bŷd: balchder, avradlondeb, a segurawd.

161. Tri pheth ar ddŷn a'i gwna yn bechadur: ovnau, trachwant, ac anwybodaeth (anystyriaeth.)

162. Tri gorevras dirieidi: glythineb, ymladd, ac anwadalwch.

163. Mewn tri pheth y bydd dŷn yn debyg i ddiawl: maglu y fordd, ovni plentyn bach yn ddiachos, a chwerthin am bèn y drwg.

164. Tri phriv dremynt corforawl dŷn: gwled, clywed, a theimlaw.

165. Tri phriv dremynt enaid dŷn: cariad, cās, a deall.

166. Tri chelwydd y sydd: celwydd o wedyd, celwydd o dewi, a chelwydd o ymddwyn; sev y pair pob un o'r tri i arall gredu y peth nas dylai.

167. Tri pheth sy'n gwbl o Dduw: gwirionedd, traguevedd, a gwybodaeth moliannus.

168. Tri pheth sy'n gwbl o gythraul: anwiredd, tringarwch, ac anwybodaeth.

169. Tri amryson dwyvawl: pwyll dros anmhwyl, dawn dros annawn, a chariad dros gās.

170. Tri amryson annwvawl: rhyvel dros ryvel, cyvraith dros gyvraith, a gwarth dros warth.

171. Tri devnyddion barn gywir: deddv o gyvawnder, trugaredd o gariad, a chydwybod o iawn bwyll a deall ar y ddau gytav.

172. Tri pheth nis gellir o ddŷn barn gyvawnder arnynt: syrth awen, ymgais deall, a barn y gydwybod; am nad oes namyn Duw a'u gwŷr.

173. Tri pheth ni wëdd ar ddwvawl dedwydd: edrych ag un llygad, gwrandaw ag un clust, a chynnorthwyaw ag un llaw.

174. Tri anhegbor deddv a chynneddv: trevn hardd, cyvawnder, a thrugaredd o gariad perffaith.

175. Tri pheth à ddygant ar gôv i ddŷn ei ddyled i Dduw a dŷn: elusen, unpryd, a gweddi.

<sup>1</sup> *Llyvyr arall*—Gosymaith, lletty, a rhybudd.

176. Tri pheth à wnânt gyvawnder ddwyv-oldeb: cariad tuag at Dduw, cariad tuag at bob byw, a chariad tuag at bob gwir a chyvawnder.

177. Tri argae doethineb: gwirionedd, cariad, ac awenbwyll.

178. Tri pheth à gauant yn erbyn doethineb: trachwant, trablys, a thrafull.<sup>1</sup>

179. Tri ennill à geir yn golled yn y diwedd: ennill clòd am argyweddus o gamp a gweithred, ennill golud o gribddail a phob anghyvawnder, ac ennill y goreu mewn drwg ymryson.

180. Tri cholled à dry yn ennill mawr yn y diwedd: colli da'r byd o roddi cardawd, colli clòd a pharch y byd am ddedwydd o gamp a gweithred a chynneddv, a cholli bywyd dros wir a chyvawnder.

181. Tri gwrthrym pob gwybodaeth a chelvyddyd: anymgais, gorymgais, a dall-ymgais.

182. Tri pheth rhyvedd sydd yn y byd, gan gymmairt y gwahaniaeth y sy rhynddynt: wynebau dynion, llavarlais dynion, ac ysgriveniadau dynion; can nis cefir ar un o'r tri ddau yn gynhebyg y naill i'r llall.

183. Tri pheth ni ddarvyddant vyth: cerdd o awen vlodeuawg, enaid dŷn, a chariad perffaith.

184. Tri pheth à wna ysgrivenydd da, nid angen: pragwyddoli còv ar weithred ardderchawg, gadael addysg gadarn i'r oesoedd à ddelont, a phery clòd à bery dros vyth iddei enw ei hunan.

*Ac velly tervyna.*

5. LLYMA DRIODD LLELO LLAWDRWM O'R COETTY.

*O'r un Llyvyr.*

1. Tri pheth nyw moler am eu gwaith: iâr am ganu, caseg am redeg ymaith, a gwraig am ymladd.

2. Tri dŷn à vyddant mor hên ar fordd vavr cyn y moler: celwyddog, avrywiog, a chybudd.

3. Tri dŷn a fydd a gwae à orfo arno aros yn ufern nes cafont air dâ: gwraig veddw, gwr diog, ac athrodwr.

4. Tri dyn cās gan bawb am danynt: trachwantus, gwenieithus, a balch.

5. Tri dŷn à vyddant gasach nô diawl gan bawb: ymgynhenwr, anudonwr, a bradwr.

6. Tri brodyr unbarch â mochi: glwth, meddwyn, a diogyn.

7. Tri pheth over eu doddi, gan nas gwneir lles yn y byd ag hwynt: drych o

<sup>1</sup> *Llyvyr arall*—trachwant, lliid, a thraul.

vlaen dall, cleddyv yn llaw baban, a dysg y'mhen balch.

8. Tri dŷn nid doeth ymddiried iddynt: nad ymwelâ chelvydd, nad ymgais â cherdd, ac nag ymgar â'i blant.

9. Tri dŷn goreu y lleiav o'u cymdeithas: na chatwo gyvrinach, na charo benyw, ac na wypo gelvyddyd ddaionus.

10. Tri dŷn y chwârdd pawb am eu pènau: hunandybus, dŷn anwadal, ac à ovno ei gysgod ei hun.

11. Tri dŷn nid hawdd y cant à gâr eu gwrandaw: achwyngar, sengar, a doeth yn ei olwg ei hun.<sup>1</sup>

12. Tri anfawd cymmmodogaeth: tŷ cwrw, gyr o helgwn, a gwarsedd-dy benywod.

13. Tri rhyw o ddynion nid rhaid ond myned i ufern i gael à vyner o honynt: mawrion pèn tomen, penaethiaid trawsion, ac ofeiriad meddwon.

14. Tri pheth à wnant wr mor gyvoethawg a'r Sais à werthwyd gau ei dâd i'r diawl: gwraig amheuthyngar, merched à ymbincio, a meibion segurlyd.

15. Tri dŷn à ddrant eu gyddygau eisieu edrych dan eu traed: balch trwyn uchel, awyddus poethvryd, ac anarbodus pen-chwiw.

16. Tri anfawd cymmmodogaeth: privavon, monachlog dlawd, a rhyvel castell; am nas symmudant vyth o'r llëodd y byddant.

17. Tri pheth à wnant wlâd yn dlawd: enwd mawr o ofeiriad, graddu llawer o brydyddion, a rhyvel pendevigion.

18. Tri chymmodogion goreu yn y bŷd: dedwydd, celvydd, a chybydd crogedig.<sup>2</sup>

19. Tri pheth prydverth eu gweled: dedwydd yn ei gartrev, celvydd yn ei orchwyl, a chybydd ar y grogbren.

20. Tri pheth nid ydynt ond rhith a lledrith: diweirdeb merch binc drwsiadgar, crevydd ofeiriad, a gwybodaeth arglwyddi cyvoeth.

21. Tri pheth à ddangosant buten: min moethus, gwisgodd teganlyd, a thavawd rhedegawg.

22. Tri pheth ni waeth pa mor bell y byddys oddiwrthynt: gwagedd chwedleugar, ofeiriad meddwon, a chwn cynddeir-ogion.

23. Tri ennill à gavas y gwr a losged ei dŷ: gwared llygod o'i gell, gwared chwain o'i wely, a gwaredu gwraig ddrwg; sev y llogsed y tri ar unwaith gyda'r tŷ.

24. Tri pheth da iawn eu meddu cyn y

dyweder à vo'n gelwydd: synwyrbyll cadarn i lyvelu, fol i wrandaw, a chòv da rhag ei wrthddywedyd yn ol llaw.

25. Tri pheth ni thalant vawr ond tra vont yn y tŷ: y gath, y sawell, a'r wraig.

26. Tri pheth à vyddant o'u pànu yn dda: brethyn llwyd, pysgodyn hallt, a gwas diog.

27. Tri dŷn ni thalant eu cwnu oddi ar y dðmen: gloddestwr, ymbinciwr, a chrochwerthinwr.

28. Tri pheth goreu vydd eu crogi: eog hallt, het wleb, a chybydd.

29. Tri chymmodog goreu yn y bŷd: celvydd ei law, dedwydd ei vuchedd, a chadarn gybydd yn ngrhòg.

30. Tri pheth à gâr cybydd: goganu hael, gormesu tlawd, adwyn eiddo ei hunan.

31. Tri pheth nid hawdd eu dala: carw ar vynydd, cadno mewn coed, a cheiniog cybydd anghawr.

32. Tri dewisbeth y Bardd Glâs o'r Gadair: tân heb vwg, fordd heb laid, a gwraig heb davawd.

33. Tri pheth à wnant arglwydd cyvoeth cystal a'r goreu: cynfon llo, post clwyd, a chi crogiedig.

34. Tri pheth y dylai gwr eu meddu cyn ydd elo i ymgyvreitha: clawdd aur, wyneb pres, a chalon ddûr.

35. Tri pheth ni wnant ddaioni ond tra eu gwylir yn graf: tân, dwr, a benyw; can nad oes o honynt eu hunain à wna ddaioni.

36. Tri pheth goreu ar vrys eu gwneuthur: dal chwain, troi oddiar fordd ei cynddeiriog, a gochel ymryson.

37. Tri pheth fol eu gwneuthur: piso yn erbyn y gwynt, ceisio dal llucheden, a cheisio attal tavawd gwraig.

38. Tri pheth nis gwelir yn ebrwydd: glendid mewn hwch, moesgarwch mewn Sais, a doethineb mewn Cymro.

39. Tri pheth ni châr nemmor o ddŷn eu cael: bwyd mâb marw, goleu lluched i'r nos, a chariad Sais.

40. Tri pheth ni chywirir vyth: breuddwyd gormwyth, gobaith ynydd, ac addewid Sais.

41. Tair cenedl amravael eu divyrwch: Cymro, cerdd a thelyn; Franc, minddu-mandell; a Sais, meddwi.

42. Tri pheth ni wyr neb pa bryd nac yn mha le y ceir eu gweled: mantell Tegau Eurvron, llŷs Gwyn ab Nudd, a syberwyd Sais.

43. Tri pheth nid aml a'u clywer: cân y vôrvorwyn, gwahoddiad i wledd gan gybydd, a doethineb o ben Sais.

<sup>1</sup> *Llyvyr arall*—yn ei veddwl ei hun.

<sup>2</sup> *Gwel riv 26.*

44. Tri pheth ni waeth pa leiaf y clywer o honynt: cân hwch ar wynt, cnech hên wrach, a phregeth brawd llwyd:

45. Tri pheth annhebyg iawn y naill i un o'r lleill o honynt: dŷn, bram hên wrach, a chybydd.

46. Tri pheth nid rhaid eu casach: llyfant ar vynwes merch dëg, cybydd y man y bo dynion, a diriaid y man y bo doethion dedwydd.

47. Tri pheth anesmwyth iawn iddeu perchenogion: gwely chweiniog, ystôl gygnog, a gwraig oludog, lle na bo golud o du'r gwr.

48. Tri dŷn digon da eu cyvlyrau pei gwelent hyny: diangen, diddyled, a diwraig.

49. Tri pheth ni hawdd eu digoni: bol gwraig maerwr, balchder gwraig brenin, a . . . . merch tavarwr.

50. Tri pheth ni hawdd ymguddiant: gwellyn mew'n esgid, mynawyd mew'n cwd, a phuten mew'n tyrva.

51. Tri pheth o châr gwraig weled y ddau cyntav, hi á gâr weled y trydydd: wyneb ei hun mew'n drych, cevn ei gwr o bell, a gordderchwr wrth ei gwely.

52. Tri pheth ni rydant vyth: cleddyw gwas gwyh, pedolau cefyl melinydd, a thavod gwraig.

53. Tri pheth ni wnant les iddeu perchenogion: gwybodau diriaid, trythgwd cybydd a thavod gwraig.

54. Tri pheth ni hir-barânt: llestr pridd gwraig veddw, tân asglodyn, a morwyn-dawd merch drwsidgar.<sup>1</sup>

55. Tri pheth à ddenant a'r vrŷs: diawl at ei wâs, ei at olwyth, a phuten at . . .

56. Tri pheth ni hawdd welir: tân heb wrês, avon heb geulan, a benyw heb arad.

57. Tri pheth à newid yn vnych: ceiliog gwynt, y lleuad, a meddwl merch.

58. Tri nôd budrog o gwbl: bod yn ddigywilydd yn ei budrogaeth, bod yn haerllyd yn ei amddiffyn ac eiste yn esmwyth yn ei ganol.

59. Tri dŷn o vod yn ddrwg goreu pa waethav: brenin, ofeiriad, a gwraig; sev goreu eu bod cynnryced ag nas gellir eu caru mwyach.

60. Tri pheth anaml eu gweled: crŷn daiar, difyg o gwbl ar yr haul, a gwraig gall.

61. Tri hên ni wŷr neb o ddŷn eu di-chell; hen vilwr, hen gadno, a hen buten.

62. Tri hên niw mawr berchir: hen gyhuddwr anudonllyd, hen gybydd à

<sup>1</sup> *Llyvyr arall*—crochan pridd, &c.

ysbeiliwyd o'i gist, a hen gyfoden benllwyd.

63. Tri pheth à arwain i dylodi: glodd-est, diogi, a mercheta.

64. Tri chynghor y sydd a gwae y neb a'u gwne'o: cynghor llid, chynghor bôl, a chynghor . . .<sup>1</sup>

65. Tri anallu Duw: digoni gwagedd merch, digoni rhyvvg balch, a digoni trachwant cybydd

66. Tri dŷn nid doeth ymladd ag wŷnt: fol geni, ofeiriad, a gwraig.<sup>2</sup>

67. Tri dŷn y sydd ni wyddys yn iawn pa un gyntav o honynt á i ddiawl: twyll-odrus, balch, a chybydd anghawr.

68. Tri thincwd a dybiant eu hunain yn bencwd: cyvoethawg o ledrad a chrib-ddail, gwybodus ar ddichellion dihir-dawd, a mab à gredwys y cyvan à ddywed ei vam am dano.

69. Tri pheth à dybiant eu hunain yn ben ar bob peth: costog tom ar ei domen ei hun, baw ar ben derwen, a chybydd anghawr.

70. Tri pheth sydd gystal a'r goreu: pais wen rhag anwyd, mab gwreng ar adwy, a gwr hanner call yn ofeiriad.

71. Tri pheth er llyncu y cyvan ni welant vyth eu digon: mor, mynwent, ac arglwydd cyvoeth.<sup>3</sup>

72. Tri pheth nid oes ar y byd vawr o'u heisieu: cwn cynddeiriog, breninodd, ac ofeiriad.

73. Tri pheth llocher eu penau wrth vined heibio iddynt: ei cynddeiriog, brenin, ac ofeiriad.

74. Tri dŷn medrus iawn ar y gelvyddydd o ymdavodi yn dda: hên edwiewr crib-ddeilgar, hên davarwr segurilyd, a hên buten havog.

75. Tri pheth goreu yr hynav o bob un o honynt: hên gwrw, hên glêdd, a hên gyvaill.<sup>4</sup>

76. Tri pheth gwaethav vydd yr hynav o bob un o honynt: hen varch, hen gath, a hen vrenin.<sup>5</sup>

77. Tri dyn à welant eu hunain yn ddigon call: dwl ni welwys, balch ni ddsygwys, a fôl à gredwys.

78. Tri pheth à lygrant ac à bylant awen prydydd: cyghanedd orchestawl, a gradd-oliaeth eisteddvod, a mawl rhai dynion.

<sup>1</sup> *Llyvyr arall*—tri chynghor nis dylid eu gwrandaw: cynghor llid, cynghor bôl, a chynghor cnawd.

<sup>2</sup> *Llyvyr arall*—nid gwrol ymladd ag wynt, &c.

<sup>3</sup> *Llyvyr arall*—môr, mynwent, a brenin.

<sup>4</sup> *Llyvyr arall*—hên vedd, hên glêdd, a hen gyvaill. Hevyd, *Llyvyr arall*—hen gwrw, hen vamwydd, a hên gyvaill.

<sup>5</sup> *Llyvyr arall*—Hên vara llwyd, hên bais dyllog, a hen arglwydd cyvoeth.

79. Tri ymryson à ddygwydd ar varw-  
olaeth cadarn draws goludog: cynneseiviaid  
am ei dda bydawl, pryvaid am ei gorf  
abwyawl, a chythreuliaid am ei enaid an-  
varwawl.

80. Tri pheth anhawdd eu hattal, ac nid  
haws lludd ar y pedwerydd: merch ieuanc  
wingllyd am a'i gorddercho, lldiawg am  
ddial, a thrasychedig rhag yved y ddiod à  
ddoder o'i vlaen; pedwerydd yw dadwrdd  
yr anuoeth, mwy anhawdd no'r cwbl ei  
attal.

*Ac velly tervyna Triodd Lle'o Llawdrom  
o'r Coetty: ac eve á eluid velly achawc  
y dyvelid ei ymadroddion ev i law  
drom yn ergydiaw yn galed a'i holl  
nerth; ac nid arbedai ev y nebun o  
ddyn à welai ev yn ddrwg ei ddevod-  
au, ac yn ansyber ei gampau.*

#### 6. TRIODD Y GWRAGEDD.

*(O'r un Llyfyr)*

1. Tri pheth canmoledig ar wraig: ei  
hwyneb yn ddawnus, ei hymddyddan yn  
synwyrus, a'i harferion yn ddaionus.

2. Tri pheth à barant i wraig gael tyb-  
ied yn dda am dani: ei gwr a'i phlant yn  
lân olchedig eu dillad, ei dodrevn yn lân a  
threvnus, a'i bod yn ymgadw gartrev.

3. Tri pheth à barant i wraig gael tyb-  
ied yn ddrwg am dani: bod yn chwannog  
i gytgam à gwŷr a gweision, yn ammheu-  
thungar, a dywedyd yn ddrwg am ei chym-  
modogion.<sup>1</sup>

4. Tri pheth à wnant wraig yn dda ei  
chymmeriad: sywder yn ei gwisgodd,  
gwylder yn ei hymadroddion, a rhadlondeb  
yn ei hymarweddiad.

5. Tri pheth à ddangosant wraig yn an-  
niwair: bod yn chweringar heb wybod  
pam, yn valch ar ei phryd a'i gwedd, ac yn  
achwyngar ar ei gŵr.

6. Tri pheth hofaidd gan wr eu gweled  
ar ei wraig: ei bod yn rinweddus, yn cadw  
ei thŷ yn drevnus, ac yn ei gorchwyl yn  
vedrus.

7. Tri pheth à ennillant barch i wr o'u  
bod ar ei wraig: yn dda ei chynneddvau,  
yn anaml ei geiriau, ac yn aml ei gwybodau.

8. Tri pheth à wnant wr yn oludog: ei  
hunan yn ddiwyd, ei wraig yn lywodraeth-  
us, a'i dylwyth yn fyddlawn iddo.

9. Tri pheth à wnant wr yn hoenus: ei  
dda byd yn mwyâu, ei wraig yn ei garu, a'i  
Dduw yn ei nerthu.

10. Tri pheth à wnant wr yn anghenus:  
tylwyth gwallus, gwraig voethus, ac yntau  
yn avradus,

<sup>1</sup> *Llyfyr arall*—ei chymmodogesaau.

14. Tri pheth gweddus i wr eu bod yn  
ei dŷ: ei glustog yn ei gadair, ei delyn yn  
iawn gywir, a'i wraig yn ddiwair.

12. Tri pheth angbysurus i wr fod heb-  
ddynt: tân yn ei aelwyd, arian yn ei bwrs,  
a gwraig yn ei wely.

13. Tri pheth à wnant wr yn voddllawn  
iddei ginio: ei gylla yn iachus, ei vwyd yn  
voethus, a'i wraig yn vedrus.

14. Tri pheth à barant i wr hofi car-  
trev: ei deulu yn ddosparthus, ei orchwyl-  
ion yn llwyddiannus a'i wraig yn gariadus.

15. Tri pheth à wnant wr yn llôn ei  
wynebpryd: ei dir yn dirion, ei berllan yn  
frwythlon, a'i wraig yn radlon.

16. Tri pheth yn wnaüt i wr cwnu ei  
galon: ei gâr yn ymweled ag ev, ei gwrw  
yn hoenus, a'i wraig yn llawen.

17. Tri pheth anesmwyth i wr yn ei  
dŷ: ei funell yn mygu, ei gronglwyd yn  
dyveru a'i wraig yn ymdaeru.

18. Tri pheth serchog ar wraig: bod yn  
dawl ei nwydau, yn hawddgar ei hymad-  
rawd, ac yn hael ei chalon.

19. Tri pheth prydverth ar wraig: bod  
yn voneddigaidd ei champau, yn volian-  
nus ei chynneddvau, ac yn ddwyvawl ei  
meddyliau.

20. Tri pheth hyvryd gan wr eu gweled:  
ei wartheg yn rhywiog, ei âr yn frwyth-  
lawn, a'i wraig yn ddiwyd.

21. Tri pheth à wnant wr yn hawdd-  
vydig: ei dŷ yn llawn, ei wraig yn syber,  
a'i blant yn brydverth ar gorf a meddwl.

22. Tair camp lân ar wraig: groesewi  
yn hawddgar, diwallu yn wyllysgar, ac  
arlwyaw yn avlavar.

23. Tri pheth y dylai gwraig briod eu  
caru uwchlaw pob peth arall yn hyn o vŷd:  
ei gwr, ei phlant, a'i chartrev.

24. Tri pheth à ddylid i bob gwraig ddâ  
gan ei gwr: cariad fyddlon, ymgeledd  
tirion, a bôdd ei chalon.

*Ac velly tervyna.*

#### 7. LLYMA DRIODD Y GWRAGEDD PRIOD:

*yn dangos y campau, a'r cynneddvau,  
a'r cyberddonau, à ddy'ai vod ar bob  
guraig, val y boddloni hi ei gŷr, ac y  
cafo air da gan ei chymmodogion, a  
pharoch ac anrhydedd yn ei gwlad, gan  
bob dyn doeth a deddvol.*

*(O'r un Llyfyr.)*

Y pethau à ddylaint vod ar bob gwraig  
er boddloni ei gwr ydynt val hyn, nid  
amgen—

1. Ei phryd a'i gwedd yn ddawnus, ei  
hymadrawd yn serchus, a'i chynneddvau  
yn volianus.

2. Yn dawel ei hysbryd, yn serchog ei hwynebpryd, a'i dwylaw yn ddiwyd.

3. Ti thy yn drevnus, yn ei gorchwyl yn vedrus, a'i phlant yn vagwriaethus.

4. Ei deall yn llathraidd, ei gwybodau yn deuluaidd, a'i moesau yn voneddigaidd.

5. Yn brydverth ei hystavell, yn syw yn ei chell, ac yn trevnu yn ddigymhell.

6. Yn gywiawn ei bwriad, a meddwl ananllad, a buchedd diavrad.

7. Uvyddod rhywiog, genau tawedog, a gwyllder serchog.

8. Yn hoyw yn ei thro, yn sywion ei dwylo, a'i gorchwyl yn gryno.

9. Yn ddwyvol ei devod, yn lân ei chydwybod, ac yn gywir iddei phriod.

10. Ei llavar yn rhadlon, yn hael ei chalon, ac yn gweled ei digon.

11. Yn bur ei buchedd, yn ddoeth ei hymarwedd, ac yn caru tangnevedd.

12. Ei thrwsiad yn syber, yn garuaidd ei mwynder, ac yn gall ei hyder.

13. Unllaw yn casglu, llaw arall yn rhâu, a'i phen yn pryderu.

14. Yn gywair ei fydd, a'i champau yn ddedwydd, ac yn ddoeth ei llawenydd.

15. Yn brydverth ei hymddwyn, yn erchi yn addwvyn, ac yn gwranda ar bob cwyn.

16. Yn dda i'r cymmogion, yn drugarog wrth dylodion, ac yn coledd estron.

17. Ei theulu yn ei chanmol, ei deddau yn rinweddol, a'i phlant yn eu hysgol.

18. Ei saig yn vlasus, ei hanmerch yn weddus, a'i derbyn yn serchus.

19. Yn cael parch doethion, a chlod ei chymmogion, a bendith y tylodion.

20. Yn dda yn ei heglwys, yn dysgu yn ddiorthwys, ac ar Dduw yn ymbwys.

21. Yn ovari Duw beunydd, yn caru Duw'n ddedwydd, ac yn gweddio'n burfydd.

*Ac velly tervyna.*

8. LLYMA DRIODD Y CYBYDD.

*(O'r un Llyvyr.)*

Pwy bynag o ddŷn à vytho yn gybydd ni vydd ev heb y saith bechod marwawl, oni bydd tra hên, ac er ei hened ni ymedy ev á phechod nes i'r pechod ei adael ev yn gytav; a hyn á vydd mewn dau vodd; un o'r ddau, yw *rhâd yr Ysbryd Glan* yn ei orddiwas, ac yn rhagberi ar à wnelo ac à veddylio; a lle bo velly, *Nev i'r Enaid*; ail yw colli gan henaint, neu haint, pob galluogrwydd-pechu, ac nid diolch hyny i neb, ac nid gobaith amgen noc ufern i'r cyvryw.

1. TAIR camp a vydd ar gybydd, nid

amgen; ovari cadarn, casâu tylawd, a by-gwth gwan.

2. Tair cynneddv à vydd ar gybydd, nid amgen: caru arwylion, casâu genedigaethau, a chwennych tir arall.

3. Tri chás gan gybydd: tavaru, cerddawr, a neithiawr.

4. Tri pheth nis ceif cybydd vyth: bendith y gwan, clôd doethion, a rhâd Duw arno yn myned o'r bŷd.

5. Tri pheth ni wedd i gybydd: parch gan haelion, credu à ddyweto, a diolch gan à gafor meddiant ar ei ôl.

6. Tri pheth y cyll cybydd yn dragywyddawl: ei dda bydawl, cariad y da rhinweddawl, a rhoddion gan Dduw.

7. Tri pheth à wna'r dyn à elo yn gybydd: rhoddi ar ei ol lle na bo raid wrth-ynt, colli pob rhinwedd ddâ à allai vod arno, a thybied ei hunan yn ddoeth cyd y bo ev yr annoethav o bob annoethav o bob annoeth.

8. Tri pheth y mae dŷn yn ymadael ag wynt pan ydd elo yn gybydd: ei glôd bydawl, ei gywilydd, a'i gydwybod.

9. Tri pheth a lawenâ y cybydd: ei vnych wahawdd, ei anvnych owvy, a chafael tylawd dan ei gravanc.

10. Tri pheth ereill à wnant gybydd yn llawen: goganu hael, colledu tylawd, a thwyllaw cyviawn.

11. Tri pheth à wnânt gybydd yn drist: mynych weled ceisiaid, colli gwaith, a rhyvel pendevigion.

12. Tri pheth à wnant gybydd yn glâv: cardoteion aml, newid ar y marchnadodd, a dyddanwch cerddau.

13. Tri pheth à wnant gybydd yn iach: aruthr o waith gan ei wasanaethyddion, ei wala yn ddi gost, a drudaniaeth yn y marchnadodd.

14. Tri pheth anwyl gan gybydd: cfaeliad yn lledrad, ei wraig yn tynu o vlaen yr ychain, a'i blant yn marw.

15. Tri pheth nid cywilydd gan gybydd eu gweled: llau ar ei ddillad, gwan yn ei regi, a doeth yn ymswyn rhagddo.

16. Tri pheth ni hawdd gefir gan gybydd: bwyd yn rhâd, gair da i gymmogion, a chynghor er daioni.

17. Tri pheth à ddeuant ar gybydd pan y bo'n ry hwyr: deall, cydwybod, a thi-veirwch.

18. Tri pheth ni ymadawant vyth â'r cybydd: y cythraul, canys hwnw yw y pechod, melldith y tylawd, sev yw hyny eisiau tragywyddawl, a chov cydwybod yn y byd à ddaw.

19. Tri pheth à wnant i gybydd ymyn-



vydu: moliannu hael, goganu trachwant, a govyn rhoddion gantho.

20. Tri pheth y mae y cybydd yn eu hennill: mellidith y tylodion, drygair y byd, a digovaint Duw.

21. Tri thâl y ceif y cybydd yn y byd hwn am ei ddâ: traferth yn eu casglu, goval yn eu cadw, a thristwch am orvod ymadael ag wynt a'u colli.

22. Tri brodyr cyweithas y sydd: brawd llwyd, bradwr, a chybydd.

23. Tri dŷn sy'n troi y byd wyneb i waered: celwyddawg, balch, a chybydd.

24. Tri phriv-gampau y cybydd: cribddeiliaw, gormesu, a dwyn yn lledrad ei eiddo ei hunan.

25. Tri dŷn à vyddant yn hên eu gwala cyn y cafont air da y byd: celwyddawg, avrywiawg, a chybydd.

26. Tri dŷn y sydd, ac à garo eu cyweillach, ac i uferm ac eve á geif ei wala wen o honynt: cyhuddwyr anudonllyd, ofeiriad godinebgar, a chybyddion.

27. Tri pheth ymgadwed pob dŷn rhag-ddynt: ci cynddeiriog, athrodwr celwyddawg, a chybydd.

28. Tri pheth nid hawdd eu dala: carw gwyllt ar ben mynydd, llwynog mewn creigle coediog, a cheiniog cybydd ang-hawr.

29. Tri pheth nid mynych y cefir eu clywed: cân adar Rhianon, cân ddoethineb o ben Sais, a gwahoddiad i wledd gan gybydd.

30. Tri pheth yr un mor anhebyg y naill a'r llaiill o honynt i ddŷn: enec hen wrachan, chwyd llyfant, a chybydd.

31. Tri pheth à dybiant eu hunain yn ben ar y byd: costog ar ei domen ei hun, baw ar ben derwen, a hen gybydd.

32. Tri divrawd bŷd: celwyddawg, athrodgar, a chybydd; a'r cybydd yn bob un o'r tri; sev, o vod yn gybydd nis gellir amgen na bod yn bob un o'r ddau ereill.

33. Tri anallu Duw: digoni gwagedd merch, digoni rhyvig balchder, a digoni trachwant cybydd.

34. Tri dŷn nis gwyddys yn iawn pa un y dwg y diawl gyntav: twyllodrus, balch, a chybydd.

35. Tri pheth ni wnant les iddeu perchenogion: gwybodau diriaid, tavawd gwraig, a thrythgwd cybydd.

36. Tri thâl am ei olud y ceif cybydd mewn byd ar ol hwn: bod lle nis gall ymgyvoethog, bod lle mae pob ceudodawl yn canvod eithavodde ei ddirieidi, a gorvod edrych o bell ar bob hael mewn gwynvyd heb dranc heb orphen.

37. Tri chymmydog goreu yn y byd: celvydd ei law, dedwydd ei vuchedd, a cybydd ar y grogbren.

38. Tri pheth goreu vydd eu crogi: eog hallt, het wleb, a chybydd.

39. Treth à gâr cybydd yn ei galon: gweled hael yn myned yn dlawd, gweled tŷ cymmodog ar dân, a gweled rhyw ddarwall i gael craf yn lledrad ar eiddo arall.

40. Tri pheth hawdd eu cyvriv: rhoddion gwr wrth gerdd yn ngwledd Sais, cynneddvau da crachvoneddig, a'r maint cybyddion à geir yn y nev.

41. Tri pheth gweddied pob dŷn nad elo vyth: yn ngrhòg, yn valch, nac yn gybydd. Poed velly y bo vyth.

*Ac velly terryma Triodd y Cybydd.*

### 9. TRIODD MAB Y CRINWAS.

*(O'r un Llyvyr.)*

1. Tri chyving bŷd: crau nodwydd ddûr, carn Sais ar gelfaint, a drws cell mab y crinwas.

2. Tri chaled byd: dur naw gwynias, maen cellt, a chalon mab y crinwas.

3. Tri pheth ni wyddys ba le y maent: cydwbyod anudonwr, diweirdeb merch tavarnwr, a gonestrwydd mab y crinwas.

4. Tri pheth nid hawdd eu dattod: creigiau'r Eryri, cwlwn cariad cywir, a chlo cist mab y crinwas.

5. Tri thrwm bŷd: Maen Cetti, llwyth yr Ychain Banawg, a golwg mab y crinwas.

6. Tri oer bŷd: trwyn milgi, clöen iâ, ac aelwyd mab y crinwas.

7. Tri llwm bŷd: maen calas, cevn anghenog yn nhir Sais, a bwrdd mab y crinwas.

8. Tri lle y bydd mawr newŷn dŷn: yn ymlid meirch gwylltion ar vynydd, gwerysll pen hwyl, a gwedi ei ginio yn nhŷ mab y crinwas.

9. Tri lle y bydd prudd calon dŷn: yn nghyvedd Sais, myned iddei grogi, ac ar uchel wyl yn nhy mab y crinwas.

10. Tri pheth ni wyr neb o'r bŷd pa liw y sydd arnynt: rhawn paun yn castelli, mantell Tegau Eurvron, a cheiniog mab y crinwas.

11. Tri pheth nis gellir eu gwacach: masgell dedwydd, bwmbwl ar y dwr, a llaw mab y crinwas.

12. Tri pheth goreu foi ymhell oddi wrthynt: llong dyllog ar vôr, cwn cynddeiriogion, a chyveillach mab y crinwas.

13. Tri pheth ni waeth i ddŷn ychydig no llawer o honynt: bara oferen, nawdd y creiriau, a rhoddion mab y crinwas.

14. Tri lle y bydd mawr anwyd dŷn: pen Banuwchdèni, marchogaeth caseg eira, a rhwng y vaine a'r tân yn nhŷ mab y crinwas.

15. Tri atgas bŷd: meddw yn elhwydu ar ei vwyd, balchder ofeiriad, ac ymarwedd mab y crinwas.

16. Tri pheth ni bydd gwell dŷn er â gafo ev o honynt: melldith tad a mam, dwr swvn, a chymdeithas mab y crinwas.

17. Tri annhirion bŷd: blaidd rheipus newynllyd, tdnau Caswènan, ac anian mab y crinwas.

18. Tri lle nid mawr y chwenyichir bod ynddynt: ogov Wyth ac Annwyth,<sup>1</sup> fau dreigiau Faraon, a neuadd mab y crinwas.

19. Tri pheth over meddwl am danynt: cerdded ar ben, nyddu rhaf o dywod, ac ymddiried i vab y crinwas.

20. Tri pheth anhawdd eu gwneuthur, dispyddu y môr, symmud mynydd yn gyvan, a gwr da o vab y crinwas.

21. Tri pheth lleiaf yn y bŷd: synwyr-bwyll etiveddes deg oludog, tangnevoldeb gwr llys, a haelioni mab y crinwas.

22. Tri pheth ni wyddys pa vodd a'u gwneir: seilio tŷ ar ei nenbren, rhewi dwr ynghanol tawdd poeth, a chynghori mab y crinwas.

23. Tri pheth nis gellir gweled eu maint: cyvlediad goleuni, y wlad draw i'r wybren, a thrachwant mab y crinwas.

24. Tri pheth nid oes namyn yn mherredd ufern le iddynt: twyll y Saeson, celwydd y Francod, ac enaid mab y crinwas.

25. Tri pheth nid ebrwydd a'u gwneir: arllwys pwll ufern, rhivo gronynau y mwg, a gwellâu calon mab y crinwas.

26. Tri pheth a aethant dros y byd: goleu y dydd, bawdd llyn lliôn, ac anghlod mab y crinwas.

*Ac velly terryna; sev a'u dywed,  
Dawydd ab Gwilym.*

#### 10. LLYMA DRIODD Y MEDDWIN.

*(O'r un Llyvyr.)*

1. Tri anivel avlan dros ben: hwch yn ymloi mewn drawdod, ei yn ymloddestu ar abwy pryvedlawn, a meddwin uwch ben ei ddioid.

2. Tri lledvegin mwyav disynwyr yn y byd: ysgerbw'd o gybydd ni chymmer o'i eiddo ei hun, hen geiliacwydd dall, a meddwin.<sup>2</sup>

3. Tri balch ar ei campau: lleidyr gor-

<sup>1</sup> Oeth ac Annoeth. *Triodd Ynys Frydain.*

<sup>2</sup> Neu, a mochyn o veddwin.

wlad, ymladdwr pen fair, a bwystvil o veddwin.

4. Tri pheth gwrthun gan ddoeth: ymddyddan â hen wrachiod eissingrug, ymgystlwn â diriaid cyvaddev, ac ymgysteillachu â meddwin.

5. Tri dŷn a ostyngant eu gwarau val lladdgwn devaid: hèn odinebwr yn gwân o buteindy, gwibleidr yn nyvnder nos lle gwelo eilun dŷn o bell, a meddwin lle cyvarfo â dŷn ymarwedd gall.

6. Tri dyn diriaid hawdd iawn en hebgor ymhob cymmodogaeth: cybydd lledradgar, anudonwr cyvlog, a dihiryn meddwin.

7. Tri pheth fiaidd yr olwg arnynt: hwch yn bwyta ei gwared, ei yn ymborth ar ei chwydion, a bwystvil o veddwin yn glawerio uwch ben ei ddioid.

8. Tri pheth y bydd meddwin bob amser: mochynaidd ar ei gorf, ynvydfol yn ei veddwl, a chythraul yn ei gynneddv.<sup>1</sup>

9. Tri pheth anfaledig ar veddwin: gwenaith twyllodrus, dichellion hoedgar, a cheuvigen at bob un â ovno ei vod yn brydverthach noc eve ei hunan.

10. Tri lletty cyfredin meddwin: bol clawda, gwalva cwn, a thwlc môch.

11. Tri pheth ymrwysgus dros bèn: ynvyd a'i fon yn bygwth lle na bo neb yn gwled noc yn elywed drwy wybod iddo, taiog yn ei ddillad newydd ddyw sul, a meddwin yn ei davarn tra bo grôd yn ei valleg.<sup>2</sup>

12. Tair bost digriv dros ben eu clywed: Sais yn bostio ei radlondeb, cybydd yn hostio ei haelioni, a meddwin yn bostio ei synwyr pen.

13. Tri pheth o'i dda bydawl y cyll meddwin yn llwyr: ei olud, ei iechyd, a'i ymbwyll.

14. Tri pheth o'i dda tragwyddawl y cyll meddwin yn llwyr: ceudawd gwybodawl, awen gysevin, a bodd Duw.<sup>3</sup>

15. Tri pheth ydd â'r dŷn goreu yn y byd pan elo yn veddwin: yn gelwyddwr, yn vradwr, ac yn lleidr.

16. Tri pheth naturiawl i veddwin: caru y cwrw yn vwy no'i blant anghenus, caru y celwydd yn vwy no'r gwir, ac angharu, cymmaint â bod heb gwrw, pob un na vytho yn gydveddwin iddo.

17. Tri pheth ni waeth gan veddwin

<sup>1</sup> *Llyvyr arall*—Tri pheth y gwna y meddwin: ymddevodi yn vochynaidd, ymchwedleua yn vwystvilaid, ac ymgynneddvu yn gythreulaid.

<sup>2</sup> *Llyvyr arall*—Tri ymrwysgwr gwych dros ben yn eu meddyliau eu hunain; Ynvyd a'i fon yn mysg plant a benywod, mab gwreng yn ei ddillad sul, a meddwin yn ei davarn tra chafu echwyn.

<sup>3</sup> *Llyvyr arall*—Ynbywyll ceudodawl, awen naturiawl, a chariad Duw.

ronyn o'u tŵri yn y lle bo gantho: gair da pob dŷn na vo mor ddiriaid a'i hunan, addewid à wnelo dan dwng ac adduned, a gorchymynion Duw heb ronyn yn talmu arno.

18. Tri lle ni châr veddwyn vod ynddynt vwy noc y câr y tân ar ei groen: ei gartrev ei hun, cyveillach dynion prydverth, a man lle na bo digon o gwrw y naill ai yn llâd neu yn lledrad.

19. Tri dirieidi a gydgerddant yn anesgorawl à meddwadw: puteindra, lledrad, a llovruddiaeth.

20. Tri pheth serch eu crogi ni wna y meddwyn: talu am à gafo, perchi deddvoldeb, ac arbed o'r bola y gronyn lleiav i'r cevn.

24. Tri chyveillion meddwyn: puteiniaid, bradwyr, a lladron.

22. Tri chorn enllib ac athrawd: puten pen fordd, bardd yspyddaid, a meddwyn.

23. Tri pheth à welir yn wastadawl ar veddwyn: tylodi mawr, aviechyd mawr, a mawr dros ben o bob dirieidi.

24. Tri pheth anverth eu clywod: hogi lliv, brevoriad asyn, a dadwrdd meddwyn mewn tavarn.

25. Tair camp à vyddant yn eu trevn ar veddwyn: ymserthu yn avlan, enllibaw yn gelwyddgar, ac ymorphwyllaw yn gyn-ddeiriog.

26. Tri pheth à geir gan veddwyn am volaid dda o gwrw: gwedyd y celwydd à vyner, dangos yr anvoes à vyner, agwneuthur y gyvlavan à vyner.

27. Tri pheth cyvarwydd arnynt y bydd pob meddwyn: enllib i bob dŷn dosbarthus, meginaw cynhenau, ac ymddichellu i gael cwrw ei wala heb na thal na diolch.

28. Tri pheth a wna pob meddwyn heb ronyn yn talmu ar ei gydwybod: gwedyd i'e gyda phob dŷn a'i poitho à chwrrw ai ar wir ai ar gelwydd y gweto, gwaradwyddaw pob un na roddo ddiöd iddo, a chenwigenu wrth bob un na vytho gynnryced ag ev ei hunan.<sup>1</sup>

29. Tri thal à vydd i veddwyn am ei veddwadw: ei gasâu gan bob doeth a deddvol, ei ovni gan blant a benywod, ac am hyny cael curo ei ben yn ddiogel ac yn dda gan bob arall, a chan bob un y trotho ev davawd yn ei ben yn eu herbyn.

30. Tri pheth y dyldid eu pwyaw yn dda: gwenith ar y llawr dyrnu, brethyn mewn pandy, a chlopa meddwyn pa le bynag y bytho.

<sup>1</sup> *Llyfyr arall*—Gwedyd i'e gyda phòb un o vlaen ei wyneb, gwedyd yn erbyn pob dŷn drach ei gev, a gwedyd cynnwrwg ag a'i dysgo'r diawl am bob da ei gynneddva.

31. Tri chås gan veddwyn: gwedyd y gwir, ymarver à syberwyd, a thalu i bawb ei eiddo.

32. Tri pheth ni vawr ymarver meddwyn ag wynt: rhadlondeb, tangnevgarwch, a gwybodau daionus.

33. Tri pheth ynghylch meddwyn à ddrewant yn fiaidd: ei ddillad, ei anadl, a'i ymadroddion.

34. Tri pheth sy'n drewi yn velennydd ymhob mân: clöd coegyn tringar, mawl cybydd goludvalch, ac enw meddwyn.

35. Tri pheth echrys eu drygsawr: hên gadno bras mewn prysgle, morvil marw ar y veison, a mochyn o veddwyn.

36. Tri pheth y bydd meddwyn: cyvaill gwâl cwn a moch, rhyswr puteiniaid, a gwarthruddwr pob dŷn bucheddawl.

37. Tri dŷn a vyddant bob amser yn yr un-green à meddwyn: dihiryn twyllvawr, anrheithwr, ac anudonwr.

38. Tair prïvgamp meddwyn: chwydu ar ei vwyd, piso yn ei eistedd, ac yndomi yn ei wâl.<sup>1</sup>

39. Tri hofder meddwyn: divriaw y mwyav a'i câr ac a'i coledd, ymgyrinaw à phob dihiryn à roddo iddo gwrw, a meddwi yn orchestawl.

40. Tri gormes cymmodogaeth: melinydd lladronig, cybydd anghawr, a rheipus-dwrch o veddwyn, am nad diogel i neb ei eiddo ei hunan lle bytho un neu arall o honynt.

41. Tri pheth à welir amlav ar veddwyn: ymvydiaw yn vochyn, ymvucheddu yn gythraul, ac ymorvoleddu yn ei ddihirwch.

42. Tri pheth à welir ar veddwyn, a moled a'u molo: ei syberwyd parth ag at ddyeithriaid, ei gyviawnder parth ag at y dylai ev yn vwyav eu caru, a'i wroldeb lle cafo y vuddugoliaeth ar blant bychain a benywod egwan.

43. Tri dŷn y sydd ni waeth peidiaw na'u cyngori: ysgotyn o gybydd anghawr, dŷn celwyddawg anudonllyd, a meddwyn.

44. Tri pheth ni waeth i verch gael ei chrogi wrth ei sodlau no'u cael: cariad mab arglwydd, gair da gan garnbuten, a gwr o veddwyn.

45. Tri gweision pênaw y diawl yn hyn o vŷd: godinebwr, anudonwr, a meddwyn; canys blaenoriaid pob divrawd ac anrhaith ydynt.

46. Tri dihiryn anynad y sydd, ac nid teilwng y diawlicav o'r diawlaid i ddala canwyll iddynt, nac i'r naill neu'r llall o honynt: cybydd, hocedydd, a meddwyn;

<sup>1</sup> *Llyfyr arall*—Piso yn y gwely, a gwneuthur ei raid yn ei vreccan.

a phencrest ar bob drwg yw pob un o'r tri.

47. Tri phrivorchest meddwyn: gwedyd celwydd a goreuwyr y greft, darllaw twyll a chadeiriogion y celvyddydd, a thravlyncu diod ag un avanc à vu erioed.<sup>1</sup>

48. Tri pheth rhy avlan i ymgfwrdd â nhwy: ysgarthion geudy, abwy mewn clawdd, a meddwyn mewn tavaru.

49. Tri pheth ymswyned pob dŷn rhag ei vnyed: yn anudonwr, yn gybydd, ac yn veddwyn; canys o vod yn un o'r cyvryw ddrygwyr, y bydd arno bob drwg arall yn anesgorawl.

50. Tri pheth cadwed Duw bob dŷn rhagddynt: meddwl gwallgovus, gwallobaith anghenawl, a chyveillach meddwyn.

*Ac velly tervyma.*

### 11. LLYMA DRIODD Y CYMRO.

*Y rhai hyn y dylai bob Cymro eu gwylbod a'u hystyried yn drybwyll, a gwneuthur yn eu hól, rhag dwyn gwaradwydd arno ev ei hunan, ac ar ei wlad, a'i genedl.*

*(O'r un Llywyr.)*

1. Tri pheth y dylai bob Cymro vod val nas gwaradwyddo na'i hun, na'i wlad, na'i genedl: yn hael, yn ddewr, ac yn drugarawg.

2. Tri pheth sy glodvawr i Gymro eu diwyllio: ei dattrev, ei deulu, a'i varn.<sup>2</sup>

3. Tri pheth y dylai Gymro vod er ennill cariad ei wlad a'i genedl: yn ddi-valch, yn ddirachwant, ac yn ddiniwed.

4. Tri ymddwyn à ddylid ar Gymro parth ag at a'i anmharcho, a hyn i gyd yn yr un amrant: ymwrth, maddeu, ac anghov-iaw.

5. Tri pheth y dylai bob Cymro eu covio yn ddi dor, rhag eu hanmharchu o hano: ei dad, ei wlad, a'i enw o Gymro.

6. Tri pheth y dylai bob Cymro eu cadw yn ei veddwl ac ar ei gov yn wastad: ei ddyled, a'i dylai, ac à ddylir gymmain un; a bydded ei ddyled à ddylir, ac yna iawn a màd a'i dylai.

7. Tri pheth y dylai Cymro eu cadw a'u hamddifyn hyd varw: ei gledd, ei gyvrin, a'i gyvaill.

8. Tri pheth y dylai Cymro varw yn eu plaid: ei wlad, ei air da, a'r gwirionedd ba bynag y bo.

9. Tair cynneddv gynhenid Cymro y dylai ev eu gwellâu: rhy lew, rhy laryaidd, a rhy lawen.

10. Tri pheth dan bwyll a rhôl à vydd-

<sup>1</sup> *Llywyr arall*—ag un morvil, &c.

<sup>2</sup> *Llywyr arall*—ei dir, ei dylwyth, a'i varn.

ant hardd ar Gymro: glewder, llaryeidd-der, a llawenydd.

11. Tri pheth y dylai Gymro eu caru o vlaen dim: cenedl y Cymry, devodau a moesau y Cynry, ac iaith y Cymry.

12. Tri pheth à ddylaint vod bob amser ar gov pob Cymro cynhenid: ei Dduw, ei ddŷn, a'i ddyled.

13. Tri pheth y câr pob Cymro cywir: iaith ei wlad, doethineb ei wlad, ac ymborth ei wlad.

14. Tri anrhydedd Cymro: ymarver â champau yr hên Gymry, myvryriaw gwellâu y campau sydd yn awr, a chwilio'r byd am gampau daionus nas gwybuwyd am danynt hyd-yn-hyn.

15. Tair camp waradwyddus ar Gymro: edrych ag un llygad, gwrandaŵ ag un clust, a chynnorthwyaw ag un llaw.

16. Tri pheth y dylai bob Cymro cynneddvol eu gwneuthur: ei arad, ei lywyr, a'i gyvraith.

17. Tri pheth anrhydeddus eu bod ar bob Cymro, mal y bo gyvungamp â'r hên Gymry gynt: bod yn hael, bod yn wrawl, a bod yn hawddgar.

18. Tri pheth o'u bod ar ddyn tynger mai nid Cymro ydyw: cybyddiaeth, llyvredd, a sarugrwydd.

19. Tri pheth na choelied un Cymro: à weto ddiert, à weter yn erbyn diert, ac à weter yn erbyn a ddylai vod.

20. Tri gair y dylai bob Cymro eu hystyried yn llwyr, ac ymddarbod yn gyviawn a'u pwyll a'u hystyr: Duw, Dŷn, a Chymro.

21. Tri pheth à weddant yn oreu i Gymro o'u cael o'i genedl a'i wlad ei hunan: brenin, gwaiga, a chyvaill.

22. Tri pheth diert, ac estrawn y dylai Gymro lwyr ymwrthod ag wynt: iaith, devawd, a chyvrin.

23. Tri pheth à gadwant yr enw o Gymro rhag dirywiaeth: cynnal o Gymro hawl ac anrhydedd ei genedl, byw arno ei hunan, a byw val y dylai parth ag at Dduw a Dŷn.

24. Tri pheth y sydd o genedl y Gymry yn oreuron o'u rhyw yn y bŷd: barddas, rhaith, a cherdd dant.

25. Tri pheth à anrhydeddant Gymro: cadernyd tangnevus, doethineb haelionus, a llawenydd o gallineb.

26. Tri pheth clodvawr eu bod ar Gymro: gwybodau doethineb, devodau rhadlondeb, ac ymbwyll ystyrgar.

27. Tri pheth à urddant Gymro o iawn ymarver ag wynt: divyrwch ei genedl, bonedd-gamp ei genedl, a nwyvudser ei genedl.

28. Tri chyntevigaeth Cymro ar bob cenedl arall yn Ynys Prydain: cyntevig o briodawr, cyntevig o vrodoriaeth, a chyn-  
tevig o Gristionogaeth.

29. Tri pheth anheggor i Gymro val nas gwarthrudder ei wlad a'i genedl: ymddar-  
bod yn ddoeth, ymfydiau yn gall, ac ym-  
vucheddu yn lân.

*Hopgin Tum Philip o'r Gelli Vid a'u  
dywed. Ac velly teroryna.*

## 12. TRIODD Y SAIS.

*(O'r un Llyvyr.)*

1. TAIR cenedl ormes Ynys Prydain: y  
Gwyddyl Fichti, cywdawd y Coraniaid, a  
chenedl y Sais.

2. Tri dinystr byd: trachwant cyvoeth,  
ymgais am rwysg, a brâd Sais

3. Tri pheth nis gellir eu chwilo i  
maes: dirgelion Duw, y devnyn cyntav o'r  
môr, a dichellion Sais.

4. Tri pheth à gyrhaeddant bedryvan  
bŷd: goleu yr haul, clôd gwas gwŷch, a  
frost Sais.

5. Tri pheth goreu pa bellav y bônt:  
cwn cyndeirogion, melltiath Duw, a Sais.

6. Tri pheth gocheléd pawb val tân ar  
ei groen: beny newyddiongar, llochi pen  
neidr, a chyveillach Sais.

7. Tri pheth hawdd eu gweled: haul  
ganol-dydd tesog, dwr yn môr Havren, a  
gwylltveidd Sais.

8. Tri pheth anhawdd eu cael: aur gan  
gybydd, cariad gan ddiawl, a moesgarweh  
gan Sais.

9. Tri pheth anwadal: llenad newydd,  
ceillig gwynt, a fyddlondeb Sais.

10. Tri pheth nid oes eu caletach: maen  
cellt, torth haidd cybydd, a chalon Sais.

11. Tri pheth goreu pa leiav o honynt  
yn Nghymru: tylodi, cynneddvau drwg,  
ac epil Sais.

12. Tri enw hyd yn mhedryvan byd y  
rhoddir ar à ddyco eiddo arall, anrheithwr,  
carn-leidr, a Sais.

13. Tri lle ni vyddant heb lawer o waed:  
bola horen, lladdva cigydd, a gwareuva  
Sais.

14. Tri pheth y sy yn ymborth ar waed:  
chwanen, rhyvelwr cyvlog, a Sais.

15. Tri gormail mawr ar Gymro: bod  
yn nghrog gerydd ei sodlau, gorwedd ar  
varwor bywlog, a bod yn ngwlad Sais.

16. Tri gelyn penav Cymro: ei galon  
hygred ei hûn, cythraul adeiniog o ufern,  
a charn Sais.

17. Tri pheth ni vawr gysger lle bônt:  
gwrach ymgeintachgar, cathau catherig, a  
dadwrdd Sais.

18. Tri pheth anverth i glust Cymro:  
rhinc lliv yn ei hogi, bonllew ysbryd Mallt  
y Cwd, a chwaldodach Sais.

19. Tri llais à gydgynghaneddant yn  
gywair dros ben: ystgwrlwgach drain dan  
grochan, llais maendwr braen yn syrthio,  
ac iaith y Sais.

20. Tri pheth tragerwin a thrwsgl eu  
sain: llew iâr à vyddis yn ngavael a'i chyn-  
fon, mên olwynog yn treiglo carnedd a  
chlogwyn, ac ymadroddiaeth Sais.

21. Tri pheth à wnant gân gytgerdd o'r  
vath ag y bo: dannedd ysgyrnyglyd, llew  
paen yn darogan gwlaw, a llavar Sais.

22. Tri pheth ni chodir o'r tân iddeu  
clywed: dwr yn difod marwor, hên wrach  
yn bràm, a chywydd Sais.

23. Tri pheth à vyddant oreu lle nas  
clywer: crochwerthiniad hên vorchetach,  
ubain cwn ganol nôs, a pharablaeth Sais.

24. Tri pheth anheggor mewn cân i  
ddiawl: gwich hŷch pan a'i lladdar, ofeir-  
iad rheglyd, a brygawthen Sais.

25. Tri pheth cared a'u caro: ofeir-  
iad bolvras yn canu oferen, llew enaid gan  
ddiawl, a charol Sais.

26. Tri pheth anhydrevn eu devnydd:  
nyth ysguthan, cernydd Moel Maen Llwyd,  
ac iaith y Sais.

27. Tri pheth nid oes daw arnynt: clap  
y velin, bwmbwr y môr, a chelwydd Sais.

28. Tri pheth à wnant leidr: newyn an-  
lloesiadwy, anmhwyl geni, a chymdeithas  
Sais.

29. Tri pheth goreu ganddynt eu hunain:  
twrch, llyfan, a Sais.

30. Tri phêll bŷd: pen eithav taith y  
gwynt, caerau y gorllewydd, ac eithavodd  
twyll Sais.

31. Tri pheth à vyddant oreu pan a'u  
croger: gleisiad hallt, het wlêb, a charn  
Sais.

32. Tri pheth annigriv à barant ddigriv-  
weh: merch binvaleh yn bràm yn y corel-  
wi, meddw yn ymladd a phost, ac ymfrost  
gwag Sais.

33. Tri pheth à vyddant yn hir cyn a'u  
gorphener: dispyddu y Morwerydd, tringo  
ar hyd ysgwl i'r haul, a dadvileiniaw  
Sais.

34. Tri garw anhawdd ei llyvnu: creig-  
iau Glyn Tornant, friw cybydd, a moesau  
Sais.

35. Tri pheth ni vydd difyg canu iddynt  
pan a'u gweler: môr yn sych, haul yn codi  
yn y llywynydd, a serchogrydd gan Sais.

36. Tri pheth hawdd iawn eu heggor:  
tân ar groen, cynghorion cybydd, a syber-  
wyd Sais.

37. Tri pheth ni vydd neb well o'u cael: chwain yn ei wely, drain yn ei iŵd, a chymwynason Sais.

38. Tri pheth ni vavr ymddiriedir iddynt: mur crinwellt rhag tân, cleddyv brwynen rhag gelyni, ac addewidion Sais.

39. Tri pheth ni welir yn ebrwydd: môr dros Vanuwchdeni, medi gwenith ar wyneb Morwerydd, a gwirionedd gan Sais.

40. Tri pheth ni wnant lês i wlad Gymru: mawr dês yn Ebrill, mawr wlaw yn y cynhauav, a thavod têt Sais.

41. Tri dŷn ni vavr hofant eu cyflwr: cybydd lle bo traul arian, gwr call yn mhlith cenvaint o veddwon, a Chymro yn nhir Sais.

42. Tri anheggor ufern: rhingyll, brawd llwyd, a Sais.

43. Tri pheth goreu i Gymro po leiaf y gwypo am danynt: y cywyn du, melltith Duw, a chyvrwysder Sais.

44. Tri pheth ni ddygant osod ond ar eu gwânach: cath, morvian, a Sais.

45. Tri pheth ni vydd da eu damwain: cath yn ufern, cyw colomen lle bo cyrch barcutod, a Chymro yn nghyveillach Sais.

46. Tri pheth ni mawr gyttunant: ewn â moch, cybydd â hael, a Chymro â Sais.

47. Tri pheth anaml eu cael: y sêr â syrthiant o'r wybren, aur o law cybydd, a diogelwch i Gymro yn nghartref Sais.

48. Tri pheth anhawdd eu cael: nyth eog yn mhen derwen, cist cybydd heb glô, a thegwch gan Sais.

49. Tri pheth ni wyddis pa bryd a'u gwrthreder: tollt y daran, trenlliv Bwlch Haven, ac anrhaith Sais.

50. Tri pheth ni waeth genyv weled un noc arall o honynt: crogi vy nhâd, vy nghartref a'm teulu ynddo ar dân, a llawenydd Sais.

51. Tri pheth â gâr vy nghalon eu gweled: mêl ar vy mrechedan, wyneb y verch â garav, a chebystr am wddwg Sais.

52. Tri dŷn â vavr gerir gan Gymro: bardd wrth vrait a devod yr hen Gymry, deiviwr barv cybydd, a chrogwr Sais.

*Ac velly terryna Triodd y Sais; sev ydynt rhiv wythnosau y vwyddyn. Hopgin Tum Philip o'r Gelli Vid o'u cant, ger bron cadair wrth gerdd dawawd Tir Iarll, y bymtheg vwyddyn o goroniat y Vrenines Esbed; sev gwyliau y Sulgwyn, 1572.*

[Hyd yma o lyvyr Thomas ab Ivan; y mae genyv gyvysgriv arall o Driodd y Sais a Thriodd y Cymro, o lyvyr Sion Philip o Drcôs, â ysgrivenwyd, wrth bob tebyg-

aeth, ynghylch yr amser y bu Oliver Cromwell yn ei rwysg.

IOLo MORGANWG.]

Yn gymmaint â bod Triodd y Cymro a Thriodd y Sais yn myned dan enw Hopgin Thomas Philip o'r *Gelli Vid* ve welir rhywaint o gyvathrach rhwng â ganlyu â'i enw ev. O'r Llyvyr Coch o Hergest y tynwyd y cyvysgriv cyntav, a'r ail o hên ysgrivlyvr y diweddar Ivan Wiliam o'r Ferm yn mhlwyf Llanvleiddan gerllaw y Bont Vaen yn Morganwg.

IOLo MORGANWG.

(*O'r Llyvyr Coch o Hergest.*<sup>1</sup>)

LLYMA DRIODD GWILYM HIR, SAER HOPGIN AB THOMAS AB PHILIP.

1. Tri chasbeth Gwilym Hir Saer: eferen sul, dadleu, a marchnad.

2. Tri pheth arall sydd gas gantho: nid amgen, tavarnau, a cherddau, a chreiriau.

3. Tri pheth y sydd gasach gantho no'r cwbl: efeiriad, a phrydydd, a chlerwr.

[Y mae Edward Llwyd (Arch. Brit. p. 264.) yn sôn am y Triodd hyn a'u bod yn y Llyvyr Coch o Hergest, yn mhlith Triodd ereill. IOLo MORGANWG.]

Ysgriv, o lyvyr Ivan Wiliam o'r Ferm; a'u hanes, val y canlyn:—

Hopgin Thomas Philip oedd yn byw yn y *Gelli Vid* yn mhlwyf *Glyn Ogwr*, yn berchen ar y lle, ac eve â wnaeth dŷ newydd yno: wedi ei gwblâu eve â roes wahoddiad i lawer o brydyddion y wlad i ddyvod yno i giniawa ac i ganu. Nid oedd na threvnus na gweddus, ar hyny o bryd ac achos, i neb ond bardd vnyed i mewn i'r neuadd; ond un *Gwilym Hir*, gwr o *Saer*, ag oedd yno ar hyny o amser yn gweithio, â aeth i mewn; a chan y gwyddid mai dŷn synwryol, deallus, ac ymala iawn oedd ev, ve archwyd iddo eiste i lawr; hyny â wnaeth ev, gan wrandaw yn ddiwlin iawn ar y cerddau â ganai rai ac â ddatganai ereill yno. Yn mhlith y prydyddion ydd oedd un yn ofeiriad y *Khath*; un a vuasai, nid yn hir cyn hyny, ar dreigl *Clera* ar hyd y wlad; hyny yw yn canu cerdd ac yn chwareu y crwth, wrth ganu o dŷ beugilydd, ac ar ben fair a marchnad, yr hyn nid oedd yn beth yn ei le herwydd arver y prydyddion dysgedig.

Ve hapiwys vod yno ddadlu tyn yn eu plith am greiriau, llw, a thwng, yr hen veirdd Cymreig: a chanu am y varchnad ag oedd Hopgin Thomas Philip wedi ei

<sup>1</sup> Mewn llaw diweddarach no chorff y llyvyr neu o leiaf mi â debygwn hyny—

seyllu yn *Nglynogwr*. Ac am y tavern newydd yno a'i gwrw da; a rhai o'r ofeiriad o brydyddion á yvaint ddadlu yn dyn ac yn daer yn mhlaid y grevydd o Ruvain, ac eferen ar bob sul a gwyl: O'r diwedd, gwedi datgan cerdd, a rhywvaint o driodd gan un ag arall o honynt, gofynwyd i *Wilym Hir* am ryw beth ar gerdd, neu am ryw ddoethineb ar un neu arall o geinciau cerdd davawd. Chwi á gewch ryw beth, ebai ve; ac os rhy anmrwd y bydd, nid oes i chwi ond ei bobí ev. Yna eve á dywed y triodd hyn yn sên i'r dadlu ag oedd ganddynt am greiriau, ac eferen sul, a'r tavern, a'r varchnad dlawd à vuwyd yn canu iddi, val hyn:—

1. Tri chasbeth *Gwilym Hir Saer*: eferen sul, a dadlau, a marchnad dlawd.

2. Tri pheth arall sy gâs gantho: nid amgen, tavern, a cherddau, a chreiriau.

3. Tri pheth sydd gasach gantho no'r cwbl: efeiriad, a chybydd, a chlerwr.

Ac yna eve a'u dywed ar vesur triban, val hyn:—

Tri pheth sy gâs avrived:  
Dadleuon dyn pengaled,  
Sain di lês eferen sul,  
A marchnad gul heb drwydded.

Câs havyd tri pheth arall:  
Y creiriau à gâr anghall,  
Tavern lle mae'r drwg a'i dardd,  
A cherddau bardd diddeall.

Tri pheth mwy câs no'r cyvan:  
Ofeiriad balch ei anian,  
Prydydd pwl yn vardd y blawd,  
A chlerwr tlawd ei driban.  
*Wilym Hir Saer a'i cant.*

Wrth yr hanesan uchod gwelir vod yr arver o brydu Triodd wedi parâu ymhlith y prydyddion Cymreig hyd yn lled-ddiweddard; gwelir hyn hevyd wrth yr hanes à roddir am Driodd y Cymro a'r Sais; ac am Dribanau *Gwilym Hir*, nid aml, yr wyv yn meddwl, y ceir eu henach, yn enwedig yn y modd a'u cenir ganthoev; sev yw hyn, yn yr un moddag y cenir Triban Morganwg hyd y dydd heddyw; sev ar accen a chorvânau cyv-lavar, a'r breichiau yn gydwestad, ac nid ar gorvânau amryveillion eu pwys a'u haccenion, val y cenid yr *Hên Driban Cyrch*, o ba un y mae Triban Morganwg yn deilliaw, ac i ba un y mae Llywelyn Sion ac ereill yn rhoi enw Triban Morganwg.

IOLO MORGANOG.

14. TRIODD GWIW EU GWYBOD AC EU COVIO, ER ADDYSG DOETHINEB, AC ER YMDEVEDODI YN LAN AC YN VOLIANNUS.

(*O Lyfyr Sion Philip o Dreôls.*)

1. Tri unben cerdd: prydu, canu telyn, a chyvarwyddydd.

2. Tri fyniant gwr: aredig trev tîd, arddadlu ei hawl yn dda, a dwyn ei blant ar vonedd.

3. Tri gorevras dirieidi: glythineb, ymladd, ac anwadalweh.

4. Tri bendith ni advant dŷn nac i newyn nac i noethni: bendith ei beriglawr, bendith arglwydd priodawr, a bendith bardd linolingerdd.

5. Tri bendith y sydd well no'r tri bendith hyn: bendith tîd a mam, bendith clav a chlwyvus, a bendith dŷn advydig.

6. Tri pheth ni vedr namyn doeth neu ddedwydd ymgadw yn anserawl rhagddynt: godineb, meddwdawd, ac overedd.

7. Tri ymborth gwr: hela, a chyvnwid, ac aredig.

8. Tri rhyvel yn heddwch: drygwraig, dryg-dir, a dryg-arglwydd.

9. Tri thywysogaeth dedwydd: bod yn dda ei wasanaeth, yn dda ei anian, ac yn dda ei gyvrinach; a hyni ni chyngain namyn a chreyddes neu voneddig.

10. Tri dŷn y mae iawn rhoddi bŵyd iddynt: ymdeithydd, golychwydwr, a llavurwr.

11. Tri charelyn dŷn: tân, dŵr, ac arglwydd cyvoeth.

12. Tri pheth à ddaestwng gwr: gwraig ddrwg, trevn ddrwg, a gair drwg amdano.

13. Tri pheth a arddyrchavael gwr: gwraig ddyun ddiwair, arglwydd diwyd diwith, a diflais heddwch.

14. Tri anghyvartal byd: berthawg, a charu, ac angau.

15. Tri glwth byd: brenin, môr, a dinas.

16. Tri pheth ni ellir bod hebddynt er maint o ddrwg à wnelont: tân, dŵr, a thywysawg.

17. Tri chyfredin bŷd: gwraig, clawr tawlbwrdd, a thelyn.

18. Tri pheth à syrth ar ddŷn heb yn wybod iddo: hun, henaint, a phecawd.

19. Tri merthyrolaeth heb ladd dŷn: haelder yn nhlodi, diweirdeb yn ieuenticid, a chaingynnal heb gyvoeth.

20. Tri melys byd: methu, a synu, a pechu.

21. Tri chadarn byd: arglwydd, a dryd, a diddim.

22. Tri ystyr y sydd i hustyng: meddiant, a thwyll, a gwylder.

23. Tri chasbeth doethion Rhuvain: milgi hwy, bardd annigriv, a gwraig hagr.

24. Tri rhwydd hynt: eferen, a chiniaw, a chydymaith da.

25. Tri avrwydd hynt: diaspad, drych-in, ac ymlid.

26. Tri dŷn y mae yn iawn bod yn dda wrthynt: gweddw, ac alltud, ac amddivad.

27. Tri pheth y sydd hawdd eu diolch i ddŷn: gwahawdd, rhybudd, ac anrheg.

28. Tri dŷn yn hawl a baint ceraint: gweddw, alltud, ac amddivad.

29. Tri pheth ni wêl dŷn ei ddigon o honynt: hoedl, iechyd, a chyvoeth.

30. Tri pheth á gynnal hir ddirieidi ar ddŷn: drygioni, dryganian, a glythineb.

31. Tri gogyvlawnder gwr yn myned y'ngyrrch a gorsedd dadlau: fyniant<sup>1</sup> yn ceisio da, dawn yn ei gafael, a dedwyddyd yn ymgynnal ynddo wedi ei cafer.

32. Tri chaingynnal dedwydd: nawdd, elusenau, a dyddanwch.

*Ac velly terrvyna.*

#### 15. TRIODD Y DOETHION.

*Sev cynghorion er daioni yr enaid, a lles bywyd corforawl, o Llycyr Gwilym Tew Brydydd.*

*(O'r un Llycyr.)*

1. Tri madgael y sydd, ac a'u cafo nid rhaid iddo ychwaneg: câr cywir, cydwybod lân, a deall ar iawn a gwirionedd.

2. Tri pheth à barant hir iechyd ac ein-ioes: gweithgarwch cymmesurawl, myvyr-dawd awenaidd, a thangnev meddwl.

3. Tri pheth goreu y byd hyn: iechyd corf, pwyllgarwch meddwl, a chydwybod dangneveddus.

4. Tri pheth à wnant ddedwydd: gwybodau daionus, devodau moliannus a thangnev cydwybod; ac a'u medd nid rhaid iddo mwy.

5. Tri pheth goreu vydd eu gochelyd á holl nerth traed ac ymbwyll: neidyr ddu, merch gnawdgar, a phechawd amlwg.

6. Tri pheth, bod hebddynt, bod heb y cwbl à wedd ar ddŷn eu meddu: heb gywilydd, heb wybodaeth, a heb gywirdeb.

7. Tri pheth ni chywelyvant vyth: cwsg mawr á gwybodau, golud á haelder, a fydd yn Nuw á bydoldeb.

8. Tri pheth nid call rhwy ymddiried iddynt: gwyntodd gwanwyn, breuddwyd meddwyn, a llwyddiant bydaw.

9. Tri pheth ni chydvyddant byth: dwy wraig yn yr un tŷ, dwy gâth am yr un lygoden, a dau vab am yr un verch.<sup>1</sup>

<sup>1</sup> Gwel riv 132.

10. Tri pheth à gydgerddant á serch ar verchaid: traferth corf, colli cwsig, a gwall ymswyn.

11. Tri pheth nid call eu bostio: blas dy gwrw, tegwch dy wraig, a rhiv yr arian yn dy bwrs.

12. Tri pheth nid raid addysg arnynt: cysgu, chwervthin, a charu.

13. Tri anghysur gwr yn ei dŷ: sawell vyglyd, tŵ dyverllyd, a gwraig grintach-lyd.

14. Tri choll à vyddant goll dros byth: coll morwyndawd, coll amser, a choll gair da.

15. Tri chlwyf nis gellir eu meddyg: poethni gwynovaint, cariad rhieinverch, a chnôad cydwybod

16. Tri pheth goreu pa bellav oddi wrthynt: ei cynddeiriog, merch anllad, a gwr gwenieithus.

17. Tri pheth iachus en harver: rhodio yn yvwus, llavaru yn soniarus, ac ymborth lywodraethus.

18. Tri anheggor travaelwr: march da, bathgod lawn, a chyvaill cywir.

19. Tri anheggor meddyg: llaw rhiein-verch, llygad hebog, a chalon llew.

20. Tri anheggor celwyddwr: côv da, wyneb cadarn, a fol i wrandaw.

21. Tri pheth à welir ar y paen: gwisg angel, rhodiad lleidyr, a llew cythraul.

22. Tri anghudd pob llysewyn: ei vlâs, ei vlotueth, a'i addon.

23. Tri pheth anverth eu gweled: mâb diddysg, merch drythyll, ac ofeiriad ymladdgar.

24. Tri dŷn y chwervddir am eu pênau: hên wrach yn ymbincio, hen wr yn neidio, a hen ofeiriad meddw.

25. Tri pheth nid hawdd eu cael: cywirdeb mewn gweniaith, pwyll mewn bôl brâs, a dysg ar dda mewn cyveillach ddrwg.

26. Tri pheth da clustveinio arnynt: cynghor doeth, llavar gwirionedd, a'r ceiliog pylgain.

27. Tri overwaith bŷd: cyrchu dwr mewn gwagyr, rhybuddiau serchawg, a cynghori hennyd.

28. Tri anhawsder bŷd: dadwallgovi balchder, dadblygu calon cybydd, a dattroi meddwl hennyd.

29. Tri pheth á vrathant yn dôt: hen gostog tom, hen neidyr dan sawdl, a chydwybod euog.

30. Tri pheth à wnant oludog yn dylawd: gwraig valch, tŷ mawr, a gwâs anghywir.

31. Tri pheth á barant yn ddrwg y neb y bont arno: anwydaeth, balchder, a thrachwant.



32. Tri pheth arall hanpid gwaeth à vontarno: glythineb, ysmalâwch, a godineb.

33. Tri arwydd fol ac annoeth: digio yn ddiachos, chwerthin heb achos, a rhagu ar arall y beiau vont arno ev ei hûn.

34. Tri fôl pendavad: cynghorwr merch wingllyd, rhybuddiwr mab diodgar, ac à ddoto addysg o vlaen à dybio ei hunan yn gall.

35. Tri dŷn y sydd, a gwae à ddelo dan eu cravangau: cyfeswr o vrawd llwyd, llogwr arian, ac arglwydd tir o gostog-lwyth.

36. Tri pheth sy yn cadw y bŷd yn ei le: cosp, gohrwy, a rhyddid.

37. Tri pheth à ddestry y bŷd yn ei wrthwyneb: cosb anghyviawn, gohrwy anheilwng, a rhyddid i bechu.

38. Tri pheth à ddengys corawg: rhoi yn llawen, rhoi yn ddiattreg, a chadw yn rhin à roddwyd.

39. Tri pheth à ddeugys anghawr: rhoi yn drist avlawen, rhoi yn hwyr gan hir ymattreg, a dadgan ar gyhoedd à roddwyd.

40. Tri pheth à vyddant gyda dŷn dros byth: ei serch, ei gâs, a'i gydwybod, a'r drydedd yn barnu byth ar y ddau ereill.

41. Tri pheth lle nas deddvoler à barant wae yn y diwedd: serch, câs, a chydwybod.

42. Tri pheth à lynant dros byth wrth bob dŷn: ei awen, ei ryniad, a'i gydwybod.

43. Tri gorchymyn à ddodwys Duw ar ddŷn: ymgais à gwybodau moliannus, gwneuthur à ellir o ddaioni, a chenedlu plant o briodas gyviawn; canys o'r tri hyn y cedwir y bŷd yn ei le.

44. Tri pheth gydag amser anianawl à dyvant hyd addon yn ddiymfael: yr hâd à ddoder yn naiar, y daioni à wnelor o gydwybod, a'r drwg à wneir o ddirieidi.

45. Tri pheth à gâr diriaid: anwybodaeth yn arall, anwireddu ymhob peth à weto ac à wnelo, ac argyweddu y fordd y cerddo.

46. Tripheth à gâr dedwydd eu gwneuthur: ymwellâu o gydwybod, llesâu arall, a gwyliaw rhag argyweddu.

47. Tri ymattal dedwydd: ei davawd, ei ddwrn, a'i vlysigrwydd.

48. Tri ymattal diriaid: ei bwyll, ei barch, a'i lês tragwydd.

49. Tri goruchaviaeth dedwydd: bod yn ddeallus mewn daioni, yn serchog tuag at bob daioni, ac yn llwyddiannus yn mhob daioni.

50. Tri goruchaviaith diriaid: deallus

mewn drwg, serch at bob drwg, a llwydd yn mhob drwg.

51. Tri pheth ni chydvydd à dedwydd: rhaccraf, rhagrith, a rhagraith.<sup>1</sup>

52. Tri pheth ni chydvydd à diriaid: rhagddarbod, rhagddeall, a rhagddangos.

53. Tri pheth y gwna dedwydd: ymgais à gwybodau gan arall, ymarver â'i wybodau ei hunan, a dangos gwybodau i arall.

54. Tri pheth y gwna diriaid: gwaradwyddau gwybodau yn arall, ymvoddloni yn anwybodaeth ei hunan, a chuddiaw à ŵyr o wybodau rhag arall.

55. Tri arwydd dedwydd: gwneuthur daioni, gochel niweddu, a myvyriaw dwyv-oldeb.

56. Tri arwydd diriaid: ymwynvydu mewn drwg, ymegniaw i niweddu, a myvyriaw cythreuligrwydd o bob rhyw a rhith.

57. Tri bânogion dedwyddydd: uvyddawd, diweirdeb, a dirwest.

58. Tri bânogion dirieidi: gwrthneud, anlladrwydd, a gloddest.

59. Tri gwynvyd dedwvdd: ei ddiwyrwydd, ei wybodau, a'i ddeddvoldeb.

60. Tri gwynvyd diriaid: ei ddiogi, ei ddichell, a'i anrhaith.

61. Tri ymwrthod dedwydd: ymwrthod â'i rynwyr, ymwrthod ag anneddvoldeb, ac ymwrthod à hydoldeb.

62. Tri ymwrthod diriaid: ymwrthod à phob dirwest, ymwrthod à phob deddvoldeb, ac ymwrthod à Duw.

63. Tri pheth hôf gan ddedwydd eu bod ar ei law eu gwneuthur: gwirioneddu ar varn, gyru addysg ar wybodau, ac amwellâu ar wybodau a gynneddvau.

64. Tri pheth hôf gan ddiriaid eu cael ar ei law a'u gwneuthur: anwireddu ar air a gweithred, argyweddu gwybodau, a gwaethyg pob devodau a chlynneddvau daionus.

65. Tri thywysogaeth dedwydd: diwyrwydd, galledigaeth, a chyviawnder.

66. Tri thywysogaeth diriaid: overedd, trais, a dichellion.

67. Tri pheth y pwys dedwydd arnynt: ar ei ddiwydrwydd, ar ei wybodau moliannus, ac ar ei Dduw.

68. Tri pheth y pwys diriaid arnynt: ar à gafu yn râd, ar ei ddichell, ac ar ni ddaw byth i ben.

69. Tri pheth à wna ddiriaid: lle nas gallo ddichell murn, lle nas gallo ei obaith lledrad, lle nas cafo ddawn ymgrogi.

70. Tri anfawd cymmudogaeth: diriaid ysgymyn, cybydd anghawr, a gwâs, i ragwas arglwydd.

<sup>1</sup> Sev yw hyn y rhagvarn. I. M.

71. Tri pheth a vlaenllymant y pwyll a'r deall: bodd cydwybod, budd corforawl, a chlôd doethion.

72. Tri pheth à gynhyrvant awen: gobraith, serch, a llawenydd.

73. Tri pheth à ddivenwant awen: anobaith, cês, a thristwch.

74. Tri phrivgyferddawn enaid: serch, pwyll, a chydwybod.

75. Tri gwrthuniaid bŷd: oer a thwym, mawr a bach, a thwyll a goleu.

76. Tair sail camp a gweithred: barn doeth, arver gwlad, a serch cydwybod.

77. Tri pheth à barant lwydd ar awen a deall: cynneddvau daionus, digonedd bydawl, a myvyrdodau doethion.

78. Tri pheth à ddwyvolant awen: cariad perfaith, pwyll gwybodgar, a chalondid haelionus.

79. Tri anhardd ar ddŷn: glythni, diogi, a digllonedd.

80. Tri pheth à yrant bob peth ar wâll-ymsawdd: byrbwylldra, trachwant, a balchder.

81. Tri pheth à geif glwth: cywilydd, aviechyd, a digovaint Duw.

82. Tri hollawd à ddylit yn mhob ymgais: yr holl serch, yr holl ddeall, a'r holl allu.

83. O dri pheth y ceir gwybodau: côv er yn oes oesodd, ymgafaeliad pwyll, ac addysg athraw dysgedig.

84. Tri overion bŷd: ceisiaw attal y gwynt, croywâu y môr, a gyru addysg ar ddiriaid.

85. Tri arwydd doethineb: devodau daionus, uvddawd rhag athraw, a threvnu yn ddosparthus.

86. Tri pheth à geir o vyvyrdawd gy-iawn: gwybodau, boddlondeb, a pharch doethion.

87. Tri pheth à ennillant barch i ŵr: gwybodau moliannus, cynneddvau daionus, a chaingynnal dosparthus.

88. Tri pheth a ddangosant wybodaeth: ymddwyn haelionus, buchedd gynnoddvus, ac ymgynnal yn anrhydeddus.

89. Tri pheth cythreulig ar ddŷn: twyll, cynnen, ac enllib.

90. Tri pheth ni ddiffyg ar neb i ddieth o bydd haelionus: tywarchen orphwys, dvr rhag syched, a glangyvarech cariadus.

91. Tri dŷn nid oes gan Dduw à wnel ag wynt: à ymvalchio yn ei ddrwg, a ym-voddlonu yn ei anwybodaeth, ac à ymddar-ostyngo dan bob dihiryn dryglawn er ennill bydawl.

92. Tri dŷn da eu gochelyd: clavr, cyn-deiriauw, a thavodrydd.

93. Tair merch gocheler eu priodi: merch bengoch, merch chwedleugar, a merch vudrogled.

94. Tri pheth à wnant ddŷn yn ddiawl parod: gloddest, balchder, a chreulondeb.

95. Tri dŷn y dylid gadael yn rhydd y fordd iddynt: oedranus, dolurus, a lwythog.

96. Tri pheth crystal y naill a'r lleill o honynt: seren bren, march brwynen, a bardd annysgedig.

97. Tri pheth byr eu parâd: cariad crotyn, tân asglodyn, a lliv cornant.

98. Tri pheth moladwy ar wraig: aravwch, tawedocrydd, a sywder.

99. Tri goreuron bywyd: iechyd, boddlondeb, a chydwybod lân.

100. Tri pheth à barant ddyddanwch anhygoll: ymbwys ar à ellir o hunan, ymbwys ar ddaioni, ac ymbwys ar Dduw.

101. Tri pheth nis gellir dyddan o hon-ynt: ymbwys ar à ddysgwyler gan arall, ymbwys ar ddrwg, ac ymbwys ar wagobaith.

102. Tri sylwedd ystyriaeth: à vo hardd, à vo daionus, ac à ellir ei ddwyn i ben.

103. Tri sylwedd gwallystyr: overedd ansyber, argyweddus o ansawdd, a'r hyn nis gellir ei ddwyn i ben.

104. Tri pheth ni ddaw ond à vo drwg o honynt: à wneir yn vyrbywyll, à wneir gan ovn, ac à wneir gan ddiogi neu lesgymgais.

105. Tri dŷn ni waeth ba leiaf à ym-wneler âg wynt: ovnus, anystywallt, a byrbwyll.

106. Tri pheth à ddangosant ddŷn yn gythraul cyvlwyr: balchder ar ddrwg, twyll diynnil, a drygu diniwed.

107. Tri dangos y sydd ar bob peth: yr enw arno, y mân y bo, a'r ansawdd; a'r gair à gamddengys, ys gwaethav o gelwydd hwnw.

108. Tri pheth ni ddiffyg arnynt vaddeu-ant am bechawd a chamwedd: maddeu cam, cariad haelionus, a diwygiaw à wnaed o gam i arall.

109. Tair cynneddv ddwyvawl ar ddŷn: bod yn drugar, bod yn wirgar, a bod yn wybodgar.

110. Tri ufernonion bŷd: enllibwr, ymladdwr, a lleidyr.

111. Tri phrivanraith bŷd: enllib, à ddwg à vo iawn ac eiddo arall o'i glod a'i air da; godineb, à ddwg à vo iawn ac eiddo i arall o'i briawdsereh a'i vrait o etivedd-iaeth; a thrachwant, à ddwg o ledrad, a chribddail, a thwyll, à vo iawn, ac eiddo i

arall o ddäodd bŷd a meddiannau gwlad-awl.

112. Tri chyngor y llavurwr iddei vâb: bydd ddeallus y gwanwyn, bydd lavurgar y cynhauav, a bydd ystrywgar<sup>1</sup> bob amser.

113. Tri llavar y marw o'r bedd: gwydd-ost beth oeddwn, gwel beth ydwyv, a chovia beth vyddi.

114. Tri chyveirnod ymgais a diwydrwydd: byw glân, gwybodau doethineb, a chynneddvoldeb dwyrawl.

115. Tair fordd ddaionus y ceir golud: ymlavuriaw yn ddiwyd drwy gyviawnder, o ddoethineb gwellêugar ar wybodau a chelvyddydau, ac o ddawn cywiriad o geraint a chyveillion.

116. Tair deddw sy benav i bawb: gobrwy i'r daionus, cosp i'r drwg, a llonydd a gadael i bawb ereill yn y wyper eu hawsawdd parth camp ac athrylith.

117. Tri chyspwyll teyrnedd: nawdd cywiriad, cosp dihiriad, a chyviawnder i bawb.

118. Tri anheggor gwybodaeth: cywirdeb meddwl, awen anianawl, a diwydrwydd tryserch.

119. Tri chyvrwym gwybodaeth: ysgolêigod llythyr a llyfrau, athrawon trwyddedigion, a chôv gwlad a chenedl.

120. Tri anheggor ysgolêigod: awydd diwydgais, pwyll awenvryd, a llyfrau cyvraith.

121. Tri anheggor pwyll: nwyv, arawch, a gwybodau.

122. Tri pheth à wnant ddoethineb: gwybodau, pwyll, ac awen.

123. Tri chyverddawn doethineb: digonedd bydawl, dyddanwch meddwl, a gwynvyd trgywyddawl.

124. Tri pheth à barant wynvyd calon i ddŷn: iechyd corf, llwyddiant bydawl, a bêdd cydwybod.

125. Tri pheth à geir o vyw yn vras ac yn voethus: aviechyd corf, pylder deall, ac anwydau pechadurus.

126. Tri pheth à geir o vyw ar lysiau y ddaiar: doethineb, iechyd, ac einioes hir dawelvyd.

127. Tri pheth à wnant wr yn ben ar y bŷd: bod yn ddiwyd yn ei orchwyl, yn ddoeth ei ymddwyn, ac yn gywir ei gynneddvau.

128. Tri pheth sydd gystal a'r goreu: bara drwyddo rhag newyn, dwr fynon rhag syched, a phais lwyd rhag anwyd.

129. Tri pheth à vyddant gystal a'u hamgen: dwr brwnt i ddifod tân, gwraig hagr i wr dall, a chleddyv pren i wr llwv.

130. Tri pheth nid rhaid eu gwell yn hyn o vŷd: iechyd i weithio, gwybodaeth i wneuthur gwaith, a gwaith iddei wneuthur.

131. Tri pheth ni ddylaint vod byth oddi gartrev: câth, sawell, a gwraig y tŷ.

132. Tri dau ni vawr ymgyttanant: dau gi am yr un asgwrn, dwy wraig yn yr un tŷ, a dau vab am yr un verch.

133. Tri pheth ni waeth gadael iddynt no cheisiaw tro arnynt: ci cynddeiriog, trenlliv avon, a doeth yn ei olwg ei hun.

134. Tri ansyberwyd gwledd: trachwerthin, ymrysonau anghysbwyll, a medddawd.

135. Tri pheth canmoladwy ar ŵr: hyder, arawch, a diwydrwydd.

136. Tri pheth serchog ar ddŷn: haelioni, llawenydd, ac awen.

137. Tri pheth ar ddŷn a enullant amharch iddo: bod yn daer am ei gardawd, yn vyr ei gymmwynas, ac yn hir ei eistedd lle ydd elo.

138. Tri pheth ar ddŷn a enullant iddo barch a chymmeriad: gwylder yn govyn, parod ei gymmwynas, a gochelyd gormes.

139. Tri anheggor celvyddyd: awen gynhenid, addysg gynuwysbwyll, ac ymgais diymball.

140. Tri chadernyd celvyddyd: ansawdd gwirbwyll, dosbarth gyweirglaer, a llesioldeb cyfredin.

141. Tri chyvles celvyddyd: trevnu gwybodau, hawddâu gorechwyl, a mwyâu deall.

142. Tri chyvrwym celvyddyd: cywirdeb, galluoldeb, a buddioldeb.

143. Tri chyvrwym cenedl: teyrnedd, rhaith, a baint.

144. Tri chyvrwym teulu: pendawd, dosparth gywair, a chariadoldeb.

145. Tri chyvrwym cyveillach: llawenydd, cymmwynas, a syberwyd.

146. Tri chyvrwym teyrnedd: cadernyd, cyviawnder, a thrugaredd.

147. Tri chyvrwym gwybodau: cyviaith, cyvnerth, a chyvarwyddyd.

148. Tri chyvrwym dosbarth: gloywder, hawsder, a chyviawnder.

149. Tri chyvrwym doethineb: awen anianawl, gwybodau gloywon, a chynneddvau cyviawnbwyll.

150. Tri chyvrwym cyviawnder: deall, gwirionedd, a chariad.

151. Tri chyvrwym dwyvoldeb: crêd, serch, a gobait.

152. Tri chyvrwym crêd: tyst, galledigrwydd, a goreuder.

153. Tri chyvrwym deddwyddyd: dwyvoldeb, goddevoldeb, a chadernyd.

<sup>1</sup> Neu, ystyrgar.

154. Tair colovn cyvawnder: *gwarineb*, sev ymattal rhag ymddarsang ar arall mewn na gair, na gweithred, nac ymddwyn; *car-edigrwydd*, a hyny ni wna yr hyn à boeno neu à vlino arall ar na gair, na gweithred, nac ymddwyn; a *haelioni*, yr hyn ni ettail rhag arall à fo cyvawn iddo, ai meddiant, ai meddwl, ai cymmyred y bo

155. Tair colovn anghyviawnder y sydd: *balchder*, yr hyn à ddamsaing arall ac a'i gormeilia ar air, a gweithred, ac ymddwyn; *creulondeb*, yr hwn á bair i arall boen a blinder corf a meddwl yn amgen noc à ddylyt iddo o gosp gyvawn; a *chribddail*, yr hyn drwy ledrad à thwyll ac ymball, á ddivuddia yn anghyviawn arall o'i dda bŷd, ac o'i barch, ac o'i veddwl cyvawn.

156. Tri pheth y sydd lai no dim: benyw heb ddiweirdeb, gwr heb ddoethineb, ac athraw heb amynedd.

157. Tri pheth y rhoddes Duw ar bob dŷn à ddanfonwyd i'r byd: ymgais á gwybodau doethineb, ymarver á chyviawnder, a gwneuthur trugaredd hyd eithav gallu.

158. Tri pheth à ddygant ddŷn yn ben-sych drwy'r byd: iechyd, celvyddyd, a gair da.

159. Tri pheth à wnant wr yn voddlawan iddei vyd: gwraig rinweddawl, llwyddiant ar ei ymgais, a chydwybod ddiargyweddd.

160. Tri pheth nis gellir dedwydd heb-ddynt: uvydddawl, cyvawnder, a chariad.

161. Tri chyvarlludd dedwydd: trachwant awyddus, gwyniau avreolus, a choegwybodau twyllodrus.

162. Tri chyvarlludd daioni: gwendid corf, anwybodaeth, a chwantau anosparthus.

163. Tri chyvarlludd awen: trachwant bydawl, gwalladdysg, a thrallesgedd.

164. Tri chyvarlludd doethineb: cybydddra, glythineb, ac overgampau.

165. Tri chyvarlludd llwyddiant: anwybodaeth, anniwydrwydd, ac anneddvoldeb, neu anghywirdeb.

166. Tri chyvedliw doethineb: trachwant, dichell, ac ovn; a phènav ydynt ar à ellir yn folineb.

167. Tri chyvergyr doethineb: gwerinaw gwlad a chenedl, tangnevoli meddwl a chynneddv, a medru ar wynydr tragywydd, sev hyny bodâu Duw.

168. Tri chyvnerth awen: cyvarwyddyd, còv, a llwyddiant.

169. Tri chyvergyr awen: harddwch, deall, a llesioldeb.

170. Tri chadernyd deall: darbod, còv, a dosparth.

171. Tri chyvnerth deall: trevnuser, ystyr, a chyssulw.

172. Tri amgyfred deall: amser, lle, a dichwain.

173. Tri chyvarfordd anesgorol dŷn fordd ydd elo drwy y byd: haint, colled, a phechawd.

174. Tri ardymmyr enaid dŷn: serch, cov, a deall; ac o'r tri hyn y tardd yr holl wybodau ar celvyddydau; ac heb y lleill ni vydd y naill ond difrwyth; a difrwyth y llail heb y naill.

175. Tri ardymmyr gwybodaeth: ceudawd, cynneddv, a dosbarth

176. Tri ardymmyr ceudawd: cav, deall, ac awen.

177. Tri chyvnywydd ceudawd: dychymygu, diongli, a chyvarwyddaw.

178. Tri dafarolion ceudawd: amlygu gwirionedd, amlâu gwybodau, a threvnu dosparthau cedeirn.

179. Tri chadernyd ceudawd: awen, còv, a gwybodau dosparthus.

180. Tri chyviawnder ceudawd: gwirionedd, lleuerawd, a dedwyddyd.

181. Tri ardymyr dedwyddyd: doethineb, tangnevoldeb, a dwyboldeb.

182. Tri pheth y cyvymbws dedwyddyd arnynt: ar ddiwydrwydd cynneddvawl, ar wybodau mad-ddafarolion, ac ar gydwybod lân.

183. Tri pheth ydd ymegnia dedwydd eu gochel: trachwant cybyddaidd, gelyniaeth fyrnig, a balchder amrwysgus.

184. Tri pheth y fy dedwydd oddiwrthynt: ymrysonau cynnenllyd, trythyllwg annoeth, a gweithredoedd argywedus.

185. Tri pheth ni châr dedwydd: distadledd, anwiredd, a sarugrwydd.

186. Tri pheth ni chymmer dedwydd: cynghor diriaid, rhodd diriaid, a gair diriaid.

187. Tri chås gan ddedwydd: dychymygion over, rhywyw corforawl, a champau anneddvolion.

188. Tri gorvod dedwydd: ar ei drachwant, ar ei drythyllwg, ac ar ei ddigllonedd.

189. Tri pheth ni levair dedwydd: annoethineb, rhin arall, a gwir argywedus.

190. Tri dŷn ni ymgais dedwydd ag ŵynt: tragoludawg, anneddvawl, a doeth yn ei olwg ei hun.

191. Tri dŷn ni ymgyvrin dedwydd ag ŵynt: gwenieithwr, dichellgar, a gwraig gwr arall.

192. Tri myvyrdawl gwastadawl dedwydd: doethineb dwyvawl, uvydddawl cynneddvawl, a daioni anveidrawl.

[ 193. Tri pheth y câr dedwydd yn ddi-ymbaidd: arverion daionus, doethineb cynnyddiawl, a phob peth yn ei ryw cyviawn a noturiawl.

194. Tri pheth ni ddifyg ar ddedwydd: hir iechyd ac einioes, da bŷd digonawl, a pharch doethion.

195. Tri pheth y ceif dedwydd yn anfaeliadawl ac yn gadarn eu gorvodoldeb: anrhydedd didervyn, a dyddanwch cydw- bod annarvodiadawl, a gwyavyd nevawl gan Dduw yn dragywydd heb dranc [heb orphen.

196. Tri pheth gwastadawl ar ddedwydd ac ni vethant arno: deddvoldeb, tangnevoldeb, a chariadoldeb; sev y tri hyn ac nid angen o geinmyged á wnant ddwyvoldeb, ac nid dwyvoldeb ond dedwyddyd, ac nid deddwyddyd ond dwyvoldeb.

197. Tri chadernyd dedwyddyd: diniweidrwydd o gariad perfaith, diwydrwydd madweithredgar, a thangnevoldeb o gyviawnder trugar.

198. Tri chadernyd dedwyddyd: boddlondeb meddwl a chydwybod, cariad trugareddbell, a dwyvoldeb awenbwyll.

199. Tri anheggor dwyvoldeb: gwybod- aeth, cariad ymbwyllgar, a chyviawnder trugareddbwyll; ac heb y tri hyn ynghŷd nis gellir dwyvoldeb ansoddawl.

200. Tri chyvliwiau dwyvoldeb a dedwyddyd: doethineb gwybodgar, ymbwyll gwirioneddgar, a chyviawnder trugareddgar.

201. Tri enw cymmherthynas á ddoded ar un daioni cysevin: doethineb, dedwyddyd, a dwyvoldeb; can nas gellir un heb y llail o'r tri pheth hyn.

202. Tri dysgleirdeb doethineb: awen, haelioni, a thangneir.

203. Tri anheggor cardawd gyviawn: haelioni llawen, mwynder divalch, a chydwybod drugareddgar.

204. Tri phriv golovnau cardawd: nawdd i ddiert h ac estron, ymborth i newynog a sychedig, a dangos anwybodus.

205. Tri dihiryn á ddygant gyrch a gosod ar y gwânaw, ac á föant á'u cynfonau yn llusgo y llawr rhag y cryvav: gwr balch, gwr cyvoethawg, a lleidyf pen fordd.

206. Tri pheth y gwel gwr o bell: ei gâr, ei gâs, a'i ovinwr.

207. Tri achos clewyd: gormodd, segur- yd, a thristwch.

208. Tri anesgor clewyd: gwanâu y corf, pylu y deall, a byrâu yr einioes.

209. Tri chadernyd iechyd: ymborth iachus a chymmedrawl, gweithgarwch neu ymdravod cymmedrawl, a llawenydd o roddlondeb meddwl a chydwybod.

210. Tri pheth nid hawdd gwr o hon- ynt: llostwrn câth, mochyn marw, a chybydd anghawr.

211. Tri pheth sydd raid eu porthi yn vnych: cywion mân, plant bychain, a chwant gwraig ievanc.<sup>1</sup>

212. Tri dŷn á vyddant hir oesawg: árwyr sychdir, havotwr mynydd, a physgot- wr môr.

213. Tri ychydig á vyddant well no llawer ar y pryd: ychydig o vwytá, ychydig o yved, ac ychydig o chwedleua.

214. Tri pheth daionus á vagant bob daioni arall: cariad priodas, cymmwynas- garwch cymmodogion, a heddwch gwlad.

215. Tri llavarwch syberwyd: llaw, llygad, a llais.

216. Tri pheth ansyber ar wr yn ei dŷ ei hunan: ymfistrain<sup>2</sup> á'i dylwyth lle gwypo ei westeion, ymsyllu ar á welo ar- nynt a chanthynt, a bod yn ddiymarbod parth ag atynt.

217. Tri anverthwch gwledd: meddw- dod, ymrýsonau, a chrochwerthin am ben bychanigion o chweiniau.

218. Tri harddwch gwledd: haelioni graesawg, ymddyddan doethineb, a chy- wirdeb ymgvyrin.

219. Tri chyvrwym gwybodaeth: cym- mwynasau, cadernyd devodau, a gwybodau gwladolion.

220. Tri cheinmyg gwybodaeth: ath- raw gwarantedig, dosparth gywair, a chôv llythyr cyviawn.

221. Tri cheinmyged gwybodaeth: gwir- ionedd, buddioldeb, a dyddanwch.

222. Tri cheinmyged dosparth: rhwydd- áu deall, cyweiriaw côv, a llwybreiddiaw addysg.

223. Tri cheinmyged celvyddyd: mwy- áu galluodd, lleiáu traferth, a chyweiriaw deall.

224. Tri pheth anverth eu gweled: celvyddyd heb ddosparth gywair, teulu heb wybodau bucheddawl, á gwlad heb arverau daionus.

225. Tri pheth nis gellir gwlad hebddynt: gwybodau bucheddawl, cyvraith gyviawn, ac athrawon gwarantedig.

226. Tri ynnioldeb pob peth: plaid, gwrth, a chynghyd.

227. Tri harddwch gwlad: ysgubawr dêg, eglwys lawn, a lŷs heb hawl.

228. Tri harddwch tŷ á'i gylch: aelwyd lân, celvi gloywon, a chaeadgylch trefnu- usdeg.

229. Tair arwydd cymmodog da; diwyd

<sup>1</sup> *Llyfyr arall*—a gwing gwraig ivanc.

<sup>2</sup> *Ymsisial*.

rwydd llawen, syberwyd moesau, a chyv-arch hawddgar.

230. Tair arwydd gwr doeth: gair da cymnodiogion, boddlondeb i'r byd à vo, a diwydrwydd yn ei alwad.

231. Tair arwydd gwraig dda: ei thy yn drevnus, ei phlant yn drwsiadus, a'igwr yn gartrevgar.

232. Tri pheth da iawn yn weision a drwg iawn yn veistri: tân, dwr, a gwynt.

233. Tri pheth à wnant lewndid mewn gwlad, a golud mewn teulu: llavuriaw tir, plann coed, a gwaith rhôd a chribau.

234. Tri pheth serchus am gylch tŷ: gardd lysieuawn, perllan driniedig, a fyrdd sychion.

235. Tri phriv anverthwech dŷn: diogi, celwydd, a thrachwant; ac o honynt y tŷv pob peth arall à vo yn anverth.

236. Tri pheth ni vyddant byth yn wahaniaid: tavod hîr, pwyll byr, ac awen bôl.

237. Tri pheth ni waeth eu colli no'u cael: cell heb vwyd, tŷ heb gronglwyd, a dŷn heb iddo air da.

238. Tri pheth à gymmerant vwy no'u rhan gyvianw: meddwyn, cybydd, a chist melinydd.

239. Tri pheth à drôant y bŷd wyneb i waered: digywilyddra merch, anwybod-aeth mab, a phendodaeth gwraig.

240. Tri pheth ni chefir yn hawdd: dydd heb nôs, avon heb geulan, a gwraig heb avrad.

241. Tri chynhebygion y naill i'r lleill o henynt: ysgubawr dæg heb ŷd, fiol dæg heb ddïod, a merch dæg heb rinweddu da.

242. Tri pheth à ddiflanant yn ebrwydd: ewyn ar ddwr, niwl bore tesog, a charedig-rwydd gwr goludog.

243. Tri pheth nid hawdd eu gweled: tân gwlyb, dwr sych, a benyw dawgar.

244. Tri haelion bŷd: haul, môr, a chwsg.

245. Tri phriv gynerth dŷn: pwyll, amynedd, a chydwybod lân.

246. Tri pheth o'u cael ni waeth beth amgen nas ceir: bodd pwyll, bodd cydwybod, a bodd Duw.

247. Tri pheth y sydd a gwyn ei vŷd a'u cafo: cyvaill cywir, llongyddwch cartrevawl, a bodd ei gydwybod ei hunan.

248. Tri pheth à wnant vwydd dŷn yn gysurus: gwraig dda, càr fyddlawn, a chymmodog tangnevgar.

249. Tri nid call eu coelio: dierth yn bostio ei vonedd, hên yn canmawl à ru gynt, ac à vostio ei ddoethineb ei hunan.

250. Tri pheth à newdiant yn vnych: y gwynt, y lleuad, a meddwl merch.

251. Tri pheth'er cael beunydd à geisiant vwy yn ddiorphwys: môr, meddwyn, a chybydd.

252. Tri pheth ni rydant byth: arian haelion, pedolau cefyl melinydd, a thavawd gwraig.

253. Tri dŷn ni vawr welir yn ddaioni arnynt: ymladdgar, ymfrostgar, a godinebgar.

254. Tri dŷn hawdd eu nabod: glwth, trachwantus, ac anwybodus.

255. Tri pheth goreu yn y bŷd: cydwybod lân, gwybod y gwîr, ac iechyd corf a meddwl.

256. Tri pheth nis gellir yn iawn heb wybodau: cymmydio yn dangnevus, amddifyn bywyd, a deall cyvianwnder.

257. Tri pheth nid addev hebddynt: cartrev ddosparthus, braint o genedl, a chyvarwys yn warantedig.

258. Tri pheth ni hawdd gefir: pren mawr heb un golven gam arno, avon heb un tro ynddi, a chenedl heb ynddi ryw un neu gilydd à champ gywilyddus arno.

259. Tair colovn dedwyddyd: dwyvoldeb, doethineb, a syberwyd.

260. Tri pheth y dylai bob dŷn gadw yn graf gydag ev bob amser: ei gôv, ei gywilydd, a'i gydwybod.

261. Tri chynoriaid doethineb: dispaid, dispwyll, a dosparth.

262. Tri cheinmydd myvyrdawd pob doeth dedwydd: bodd Duw, llês dŷn, a syrth anian.

263. Tri phriv ddiawligrwydd dŷn: balchder, cybyddiaeth, a chelwydd; canys o'r tri hyn y tardd pob drwg arall.

264. Tri pheth y bydd pob dŷn da: gweithgar, hedddgar, ac elusengar.

265. O dri digon y mae pob annigon ac eisied: digon o gyvoeth bydawl, digon o iechyd cnawdawl, a digon o esmwythder corforawl.

266. Tair arwydd cydwybod lân: doethineb, caredigrwydd, a llawenydd.

267. Tair arwydd cydwybod wallbwyll ac avlan: annoethineb, onvuser, ac anynadrwydd.

268. Tri y sydd ac ni wyddys pa un waethav o naddynt: gwr creulawn annhrugarawg, celwyddog anudongar, a'r cythraul mawr ei hunan.

269. Tri pheth y bydd meddwyn: mochyn yn ei gampau, ei cynddeiriog yn wŷn, a blaidd yn ei ddadwrdd; ac o'r tri hyn y bydd cythraul yn ei gynneddv.

270. Tair camp ar ddŷn à barant ar

bawb ei lwyr gasâu : bod yn enllibgar, yn gafaelgar, ac yn ddoethach no neb yn ei veddwl ei hun.

271. Tri pheth atgas ar-ddŷn: meddw-dawd, glythineb, a diogi; ac nis gellir glân o gamp ar à vo yn ymarver a'r bryntion hyn o gampau.

272. Tri chydvaeth doethineb: iechyd corf, llawenydd meddwl, a pharch pob da cynneddvwll.

273. Tri chydvaeth dirieidi: aviechyd corf, avlawen veddwl, a gwarthrudd gan bob daionus o vyw a bôd.

274. Tri chydvaeth gwybodau: doethineb hunanbwyll, llwyddiant bydawl, ac urddas yn ngwlad gan anrhydedd.

275. Tri chyvargoll dirieidi: awen gysevin, iechyd corf, a dyddanwch meddwl.

276. Tri pheth anghyfreidin: ieuanc heb lawenydd, ysgubawr heb lygod, a hên ddŷn digybyddra.

277. Tri chymmediwiau trevn a dosparth; rhiv, pwys, a mesur.

278. Tri argyfred pob peth: llun, lliw, a sylwedd.

279. Tri goreuon gwybodau doethineb: i ddŷn adnabod ei hunan, ac adnabod Duw a'i ddaioni, a gyru ar ei gydwybod wneuthur à ddangosant y privwybodau hyny.

280. Tri goreuon gwybodau celyddydd: llên, ferylltaeth, ac araduriaeth.

281. Tri goreuon gwybodau llawenydd: cerdd arwest deuluaidd, ymgorelwi, a chwedlau divyrbwyll; sev y dichon pob dŷn ymgnygd a'r pethau hyn, er iechyd corf a dyddanwch meddwl.

282. Tri pheth ni wneir yn hawdd: tòri syched à thân, sychu'r gwlyb à dŵr, a boddloni pawb yn mhob peth à wnelir.

283. Tri pheth y dylai ddŷn vod bob amser yn ddiymattal yn eu gwneuthur: gweithredodd daionus, dysgu gwybodau, a darostwng ei wyniau; canys er maint à wnelo eve o'r pethau hyn, ni wna eve byth ei ddigon, ac à ddylai.

284. Tri pheth ni wyr neb y myrddiynved rhan o'u maint yn eu heithavodd: llês doethineb, nerth celyddyddau, a dyddanwch cydwybod lân.

285. Tair gwobyr diwydrwydd: digonoldeb o vodd i vyw, blaenoriaeth ar ereill, a chanmoliaeth doethion.

286. Tri pheth à wnant wr yn vlaenor ar ei gymmodigion: haelioni, doethineb, a chelyddyddau.

287. Tri dŷn à wnant ddaioni yn y byd: arwr hywaith, bardd awenddysg, a dwyvawll cariadgar.

288. O dri pheth y tardd gwybodau:

angen yn ymddiwallu, côv yn ymgyvlun-iaw, a hofder dyddanwch.

289. Tri pheth y sydd ar bob ceinmyged: dechreu, canawl, a diwedd; a lle bo da y diwedd, da pob un o'r ddau ereill; a lle bo drwg y diwedd, ni ellir un da o'r lleill.

290. Tri pheth y dylai bob un ei wneuthur yn ddwysbwyll à gafu gynghorion da: eu coviaw yn gráf, eu hystyried yn ddiwyd, a gwneuthur ar eu hol yn ddiymbaid.

*Ac velly tervyna Triodd y Doethion: a phoed i bawb eu coviaw, a'u hystyriaw, a'u dylan!*

## 16. LLYMA DRIODD Y BRODRYR.

*(O'r un Llyvyr.)*

1. Tri brodyr doethineb: à wrendy, à edrych, ac a daw.

2. Tri brodyr folineb: diymdawr, geneurwth, a chwerthinus.

3. Tri brodyr callineb: arav, ymbwyllgar, a diwyd.

4. Tri brodyr casineb: anynad neu vyrbwyll, trachwantus, a diawg.

5. Tri brodyr cyvenrhaith: hael, tangnevus, ac ewyllysgar.<sup>1</sup>

6. Tri brodyr cyveillach: cyvarchgar, uvydd, a chelyydd.

7. Tri brodyr cyviawnder: deddvwll, trugar, a serchawg.

8. Tri brodyr tangnev: gwirioneddus, tawedawg, a maddeugar.

9. Tri brodyr cynhrwr a thervysg: tringar, cribddeilgar, a chelwyddawg.

10. Tri brodyr prydverthwch: glân o gamp, syber, a syw.

11. Tri brodyr feiddra: budr o gorf, ansyber ei voes, ac amhrydverth ei gamp.

12. Tri brodyr celyyddbwyll: cerddgar, myvyrgar, ac anvalch.

13. Tri brodyr cerddoriaeth: penigamp, ymchwelawg, a boneddig.

14. Tri brodyr anrhydedd: doeth, moesgar, a gwrawl.

15. Tri brodyr gwarth a gwaradwydd: annoeth, anwr, ac anvoesgar.

16. Tri brodyr braint ac urddas: buddygawl, difyngar, a diwyllgar.

17. Tri brodyr anmraint: foadur, anniwyll, a Bradwr.

18. Tri brodyr cyvannedd: bardd, feryllt, a thelynwr.

19. Tri brodyr ferylltawd: gôv, maensaer, a phrensaer.

20. Tri brodyr teuluaeth: pryddydd, ysgolydd, ac yspeinydd.<sup>2</sup>

<sup>1</sup> Enraith yw cyvaille, yn Morganwg. I. M.

<sup>2</sup> Pa beth yw yspeinydd? I. M.

21. Tri brodyr cyweithas: deddwr, llavurwr, a gwēydd.

22. Tri brodyr anghyweithas: ynad, milwr, a masnachwr.

23. Tri brodyr gwroldeb: cydwybodawl, cartrevawg, a gweithgar.

24. Tri brodyr gwladollder: meddianawg, heddgar, a gwybodus.

25. Tri brodyr cadernyd: gwladog, trasog, a boddog.

26. Tri brodyr trevogaeth: dewr, tirion, ac amyneddgar.

27. Tri brodyr cymmod: cyvymbraww, tostur, ac anvalch.

28. Tri brodyr boddlondeb: haelionus, anvoothus, ac awrwysgus.

29. Tri brodyr cyvoeth: gwâr, cywir, a hyddysg.

30. Tri brodyr tylodi: gwrthnysig, diddysg, ac anghywir.

31. Tri brodyr gwirionedd: glew, cym-medrawl, a chydwybodawl.

32. Tri brodyr harddwch: rhadverthus, eywiawn, a chariadus.

33. Tri brodyr rhadverthwch: trevnus, gochelgar, ac awengar.

34. Tri brodyr deall: ymgeisgar, gwybodgar, a phroviadawl.

35. Tri brodyr dysg: awen, athraw, ac ymgais.

36. Tri brodyr awen: selgar, chwilgar, a gavaelgar.

37. Tri brodyr gwybodaeth: côv, trevn, ac ystyriaeth.

38. Tri brodyr cyvundeb: deallus, hywedd, a dwyvawl.

39. Tri brodyr cyvrinach: bardd, brenin, a gwrol.

40. Tri brodyr blaenoriaeth: medrus, addvwyn, a fyddlawn.

41. Tri brodyr cymmyred: cyweithas, telediaw, a dyledgar.

42. Tri brodyr fydd: cyvrin, cywir, ac à garer.

43. Tri brodyr dwyvolder: dyoddevgar, cariadgar, a gwirioneddgar.

44. Tri brodyr llwyddiant: goval, hyder, a diwydrwydd.

45. Tri brodyr cymmodogaeth: cymwynasgar, trywyngar, a chynneddawl.

46. Tri brodyr gwladoldeb: teuluawg, llonyddgar, a gwelleugar.

47. Tri brodyr dyddanwch: cerddgar, cyvarwydd, a divyr:

48. Tri brodyr celvyddydd: covus, anghenus, a myvyr.

49. Tri brodyr teuluaceth: syberwydd, swyder, a serchogrwydd.

50. Tri brodyr dedwyddydd: cariad, cywirdeb, ac iselvydd calon.

*Ac velly tervynant.*

*Rhisiart Iorwerth a'u cant.*

17. LLYMA EREILL O DRIODD Y BRODYR.

1. Tri brodyr cân a chwiban: iâch, digonawl, ac à ddwg air da.

2. Tri brodyr chwaryddiaeth: hawddvydig, llawen anianawl, a chyveillgar.

3. Tri brodyr overwaith: gormeddawg, diswydd, ac ynvyd.

4. Tri brodyr llawenydd: nwyvus, buddugawl, a chlodgael.

5. Tri brodyr cyveddach: prydydd, pibydd, ac ofeiriad.

6. Tri brodyr gwallgov: chwareugar, diodgar, a phuteingar.

7. Tri brodyr celwydd: gwr llên, heddyn, a theithiwr o bell.

8. Tri brodyr cynnen: arglwydd cyvoeth, rhingyll, a gwr diawg.

9. Tri brodyr brâd a chynllwyn: tlawd, trachwantus, a'gorthrymedig.

10. Tri brodyr cyvathrach: anudonwr, bradwr, a brawd llwyd.

11. Tri brodyr cyveillin: cybydd, tollwr, a chythraul o ufern.

12. Tri brodyr benywaeth: trwsiadgar, cellweingar, a gwenieithgar.

13. Tri brodyr mursendod: minvoethus, chwedleugar, ac anwybodus.

14. Tri brodyr camwaith: arianog, didrev, a diglod.

15. Tri brodyr gosmeilgarwch: anneddawl, anneallus, ac anvoneddig.

16. Tri brodyr tringarwch: swyddog llŷs, eglwyswr, ac anfodus.

17. Tri brodyr gormes: meddwyn, masnachwr, a llogwr arian.

18. Tri brodyr abwyaid: celwyddawg, ymfrostiawg, ac anghalonawg.

19. Tri brodyr diawl: creulawn, dau-eiriawg, a chenvigenus.

20. Tri brodyr syrddandod: carwr nwyvwyllt, campwr awenboeth, a hên wr cilpentan.

21. Tri brodyr divyrwch: dideulu, di-ymgais, a mab ei vam.

22. Tri brodyr pen tai: maensaer, prensaer, a datgeiniad.

23. Tri brodyr pen mynydd: havodwr, heliwr, a myvyrgar.

24. Tri brodyr diovalwch: di arglwydd, di wraig, a diddyled.

*Ac velly tervyna Triodd y Brodyr<sup>1</sup>: a*

*Triodd ar gyhoedd á gaid, yr addysg*

*Gan wiwddoeth hynaviaid;*

*Dysg inni yn dês canaid,*

*Doethineb byw, a rhaid.*

*Iolo Morganwg a'i cant.*



Rhisiart Iorwerth *a'u cant yrhain hevyd, gerbron Twmpath Prydyddion Tir Iarll.*

18. LLYMA DRIODD YR ARGWYDD WILLIAM HERBERT, IARLL RHAGLAN.

(*Llyvyr Thomas ab Ivan o Dre Bryn.*)

TRIODD Y PEDAIR CENEDL

1. TRI pheth hynod ar Gymro: awen, haelioni, a llawenydd.

2. Tri pheth hynod ar Sais: arawwch, hyder, a diwydrwydd.

3. Tri pheth hynod ar Franc: gwychedr, syberwyd, ac anwadalwch.

4. Tri pheth hynod ar Wyddel: truth, dichell, a frost.

5. Tri pheth à wnant yn hynod am ddoethineb y neb y bont arno: awen Cymro, syberwyd Franc, a diwydrwydd Sais.

6. Tri pheth à wnant gymmodog da: haelioni Cymro, arawwch Sais, a syberwyd Franc.

7. Tri pheth à wnant gyvaill cyvedd cystal ar goreu: llawenydd Cymro, hyder Sais, a syberwyd Franc.

8. Tri pheth à wnant ordderchwr cadeir-iog: haelioni Cymro, gwychedr Franc, a thruth Gwyddel.

9. Tri pheth à wnant vradwr drwyddo draw: arawwch Sais, truth Gwyddel, ac awen Cymro.

10. Tri pheth à wnant dwyllwr gorchestol: gwychedr Franc, dichell Gwyddel, a diwydrwydd Sais.

11. Tri pheth à wnant ddfn ynvyd: llawenydd Cymro, anwadalwch Franc, a frost Gwyddel.

12. Tri pheth à wnant ddiawl cybèned ag a vagwyd erioed yn ufern: hyder Sais, dichell Gwyddel, ac awen Cymro.

13. Tri pheth à wnant ddyn a chwadd bawb am ei ben: gwychedr Franc, frost Gwyddel, a llawenydd Cymro.

14. Tri pheth nis gwelir yn ebrwydd ar yr un dfn: haelioni Cymro, diwydrwydd Sais, a syberwyd Franc.

*Ac velly terryna Triodd y Pedair Cenedl; a'r Argwydd William Herbert Iarll Rhaglan a'u gwnaeth.*

19. TRIODD Y GWRAGEDD.

(*O Lyvyr Sion Philip o Dre Os.*)

1. TAIR rhagorgamp benyw: addvwynder, diweirdeb, a gloywlander yn ei gorchwyl a'i gwisg.

2. Am dri pheth y cerir benyw: harddwch corforawl, serchogrwydd meddwl, a threvnusder teuluaid.

3. Tri pheth canmoliadawl ar venyw: gwylder ymarwedd, cynnildeb llaw ac amcan, a diwydrwydd teuluaid.

4. Tri pheth hawddgar ar venyw: addvwyn o ddevawd, gwisg drevnusloyw, a llavar serchogaidd.

5. Tri pheth moliannus ar venyw: caru bod yn nghartrev, na bo yn rylavargar, a bod yn drugarawg parth ag at a'i govyno; sev wrth dlawd, a chlav, a dyeithr; a hyny er mwyn Duw a'i nawdd.

6. Tair dyledswydd gartrevawl benyw: goval trevnus am ei thŷ a'i thylwyth, bod yn roesawgar wrth ei gwesteion, a bod yn garedig iddei gwr.

7. Tri pheth y canmolir benyw am danynt: glendid camp a devawd, glendid trevnusleg ei thŷ, a hawddgarwch ei hymddwyn.

8. Tri pheth ar venyw à ennilliant gariad ei gwr: uvyddawd serchogaidd, cynnigamp ar orchwyl, a govalu yn warcheid wadawl am ei meddiant ac a vo dan ei llaw.

9. Tri pheth à ennilliant air da i venyw: ei chell yn brŷdd, ei thŷ yn loyw, a'i thylwyth yn drwsiadus.

10. Tri pheth dwyvawl ar venyw: bod yn vaddeugar, yn elusengar, ac yn anvoothus.

11. Tri pheth ni ddylai gwraig eu rhoddi i neb ond iddei gwr: ei serch, ei chorff, a'i chyvrinach.

12. Tri pheth à ddangosant wraig dda: ei gwr yn drevnuslan ei wisg, dwyn ei phlant ar wybodau boneddig, a bod gair da iddi gan ei chymmodogion.

13. Tri pheth à ddengys ddoethineb gwraig: ei gweinyddesi yn aros yn hir yn ei gwasanaeth, ei gwr yn caru bod ynghartrev, a boreuder ei theulu.

14. Tri pheth hardd ar vorwynverch: gwylder, addvwynder, a deddvau boneddigion.

15. Tri pheth anverth ar vorwynverch: bod yn drachwerthinawg, yn drachweddeugar, ac yn drasengar.

16. Tair arwydd gwraig ddrwg: bostio ei champ a'i gweithred ei hunan, beio ar ei chymmodogesau, ac ymdynu am y trechav.

17. Tri govynion benyw: gossymmaeth, gwisgodd, a charedigrwydd.

18. Tri pheth à wnant wr yn vodlon iddei wraig: glân a chyvan yn ei gwisg, serchog ei hymddwyn, a threvnu yn lân yn ei thŷ.

19. Tri pheth à vyddant lle bo cariad rhwng benyw a'i gwr: golud, anrhydedd, a gwynvyd.

<sup>1</sup> Prydd, very good, rich, substantial. *Glamorgan.*

20. Tri pheth hardd mewn teulu: gwr doeth deddvol, gwraig lanwaith serchogaid, a phlant addvwyngamp gwybodgar.

21. Tri pheth y dylai gwraig ddwyn ei phlant arnynt: dwyvoldeb, deddvoldeb, ac addvwynder bonedd cenedyl y Cymry.

22. Tri anrhydedd gwraig: ei thŷ yn lân ac yn drevn, ei gwr yn llwyddiannus, a'i phlant yn wybodus.

23. Tri pheth fiiddvrwnt ar wraig: avlendid corf a dodrevn, sengarwch, a diogydrydd.

24. Tair gorhofgamp gwraig: iaith groyw, synwyr croyw, a chynneddvau croywon.

25. Tair anhofgamp gwraig: twyll-wybodau, twyll-gynneddvau, a thwyll-ymdangos ar ei thŷ a'i dodrevn.

26. Tri thwyll ar wraig à yddant bēnav o'r holl dwyllau, ac yn unrhyw y byddant ar bob dyn arall: twyll-ddwyvoldeb, twyll-gywirdeb, a thwyll-gariad; a lle bo un neu arall o'r tri hyn, bydd ar gydvod pob twyll arall yn y bŷd.

27. Tri pheth ar wraig, (ac ar bob dyn arall,) a'i dengys yn ddwyvawl: anvalch yn hawddvyd, avlorv mewn advyd, ac yn ddiachwyn ar bob gwaith Duw.

28. Tri pheth à weddant ar bob gwraig dda: llawenydd diargywedd, sywder tlysaid ar ddillad, a mwythusder didwyl iaith ac ymadrawd.

29. Tri pheth y dylai bob gwr eu gwneuthur parth ag at ei wraig: ei charu yn ddidwyl, ei chynnal yn ddiddifyg yn ol y byd à vo arno, a gadael iddi yn à berthyn i drevn ei thŷ, a'i thylwyth, a'i gorchwyl.

30. Tri pheth y dylai gwr ddwyn ei blant arnynt: dysgeidiaeth ar lyvyr, celvyddyddau anrhydeddus, a chelvyddyddau cartrevawl.

31. Tair celvyddydd anrhydeddus y dylai bob gwr ddwyn ei veibion arnynt: milwriaeth, rheithyddiaeth, a llyvryddiaeth.

32. Tair celvyddydd anrhydeddus y dylai ddwyn ei verched arnynt: syberwyd bonedd y Cymry, dosbarth y Gymraeg a'i darllen yn gywiawn, a cherdd davawd ac arwest.

33. Tair celvyddydd gartrevawl y dylai ddwyn ei veibion arnynt: trîn tîr ac ysgrublaid, saerniaeth, a meddyginiaeth.

34. Tair celvyddydd gartrevawl y dylai ddwyn ei verchaid arnynt: coginiaeth, gwēyddiaeth, a gwiniaduriaeth.

35. Tair celvyddydd ddinesig à weddant ar veibion boneddigion: nid amgen, ysgol-ēgiaeth, ferylltaeth, a chyvnewidiaeth.

36. Tair celvyddydd wrolion à weddant

ar verchaid: barddoniaeth, meddyginiaeth, ac ysgolyddiaeth.

37. Tri pheth y dylai y meibion eu gwneuthur parth ag at y merchaid: ymgyveillach garedig, anrhegion gweddeiddbarch, ac ymddwyn syberwydbyll.

38. Tri pheth à wedd ar verchaid parth ag at y meibion: gwylder serchogaid, caredigrwydd parodbyll, a syberwyd benywaidd gweddeiddbarch.

*Ac velly terovyna Triodd y Gwraegedd.*

## 20. TRIODD ADDWYNDER.

*(Llyvyr Tre Bryn.)*

1. TAIR colovn addwynder: cyvarch parchus herwydd moes a devod, derbyniad serchogaid a groesawus, ac ymddwyn syber wrth vodd à barcher.

2. Tri enaid addwynder: parch, haelioni, a dyddanwch.

3. Tri anhebgor addwynder: groesaw, nawdd, a syberwyd cynneddvawl.

4. Tri hawddgarwch addwynder: cerdd davawd, cerdd dant, a chyvarwyddydd, herwydd doethineb a dyddanwch.

5. Tri harddwch addwynder: doethineb, gwybyddiaeth, a serchogrwydd.

6. Tri chyvarech addwynder: llyssair, govyn hynt a helynt y dŷn a'i dylwyth, a gwahawdd ymarvoll.

7. Tri chyvarch cyvarvod à ddylyt gan addwynder: sev ydynt rhâd Duw arnoch, neu ar eich gwaith a'eh gorchwyl; prydd bynnag y bo o'r dydd yn dda i chwi; a Duw vo gyda chwi.

8. Tri chyvarch ymadael: Duw vo gyda chwi; y dydd, herwydd ei bryd, yn dda i chwi; a hanpych well, neu hanpo gwell y boch.

9. Tri phriv roddion addwynder: ymborth, nawdd, a chyvarwyddydd.

10. Tri chyfredinion llettyaeth herwydd addwynder: bwyd, gwely, a thelyn.

11. Tri rhyw ymdeithydd y dylit gerdded yn ymravael gydag wynt, herwydd moes a devod addwynder, a devod bonedd cenedyl y Cymry: ar ôl à vo gogynnevin a'i fordd, o vlaen à vo anghynnevin a'r fordd, a gadael ar ddeheulaw à gerddo gydag ev, neu à ymgyverrydd ag ev ar y fordd, gan vyned heibio iddo yn gyvarech gan syberwyd.

12. Tair devawd voneddig y sydd gan addwynder: ymgytgerdd, ymgyspwyll, ac ymgychwedl.

13. Tri pheth herwydd addwynder nis dylit eu govyn i à lettyer: o ba yr henyw, ei helynt bydawl, a'i vynediad.

14. Tair hawl addwynder, a hyny o'r

gwahoddiad diweddav gan a'i llettyo: nawdd tridiau, gossymmaeth, a charedig-rwydd.

15. Tri rhagorion addwynder: moethau, llawenydd, ac anrhegion.

16. Tri ennill addwynder: cariad, anrhydedd, a nawdd rhag y bo achaws.

17. Tair gobrwy rhagorion addwynder: bodd Duw, bodd dŷn, a bodd calon a chydwybod a'i dafair.

18. Tri ynniau addwynder: cariad, llawenydd, ac haelioni.

19. Tri arddelwyddion addwynder: estron, rhagorgamp, a chyveiliornus ei fordd.

20. Tri dyledogion addwynder: tylawd, gwàn, a benyw.

21. Tri blaenoriaid addwynder: advydig, benyw, ac estron.

22. Tri à vlaenorant o vlaenoriaid addwynder: y gwànav, y tylotav, a'r anghyvaith.

23. Tair cynnosparth addwynder: lletty, cywirdeb, a chariad.

24. Tri holiadolion addwynder: pènaeth, benyw, a dyeithr cymmrawd.

25. Tri breiniedigion addwynder: gwr llén, crevyddwr, a phlentyn.

26. Tri govynion er mwyn, nis gellir gan addwynder eu nacâu: er mwyn Duw a'i dangnev, er mwyn a'i govyn, ac er mwyn à ddichon, dygwydd a damwain.

27. Tri dŷn y dylit addwynder parth ag atynt yn mraint syberwyd: boneddig o barch ac anrhydedd iddo, benyw o hawddgarwch a nawdd iddi, a phlentyn o nawdd ac addysg iddo.

28. Tair braint bonedd y sydd gan addwynder cenedyl y Cymry: braint gynbenid, llén a gwybodau, a gorchestolion molianus er gwlad a chenedyl.

29. Tri brâd addwynder: cyhuddaw ar y llettyedig, datgan ei rîn, á thòr nawdd tridiau: sev y bydd y nawdd hòno o'r pryd y derbynier hyd ymhen y tridiau, ac o hyny hyd ymhen y trigeinawr wedi pryd y gwetawr Duw yn rhyydd i chwi, neu Duw à vo gyda chwi, neu hanpo gwell gan Dduw erddoch.

30. Tair braint gyfredin addwynder: nawdd Duw a'i dangnev, trugaredd anianawl, a syberwyd o vonedd cenedyl y Cymry.

31. Tair braint wahanredawl addwynder: hawddgarwch o serchogrwydd, mal y bydd parth ag at venyw; addysg, mal y bydd i blentyn, ac arall o anwybodus; ac arbenieder parch, mal a'i dylit i gelvyddgar a gorchestolgamp volianus; megis y bydd milwr à wnelo yn orchestwaith, a doeth celvydd yn gwellâu gwybodau.

32. Tri pheth gan addwynder y dylit parth á gwesteion: derbyniad serchawg-wwyn, diwalliad parawdlwys, ac ymddyddan cyveillgar.

33. Tri y pheth y dylai gwesteion vod wrth ymadael: yn ddiwallaid o vwyd a llyn, yn forddiadol eu hymdaith, ac yn gynnerchiadol o barch a syberwyd.

34. Tri y dylai gwr eu rhoddi ar vwyd a chyveillach gyda ei westeion: ei wraig, ei vab hynav, a'i verch hynav, neu à vythor o henynt; ac eve ei hun yn goreiliaw.

35. Tair devawd gyntav lle delo gwesteion: dwr i olchi traed, cyvarch groesaw gan bendodiaid y teulu, a chadair ger aelwyd.

36. Tri pheth nesaf at y rhain: ei arvau i'r gwestwr, ymborth o vwyd a diod, a dangaws ei wely, val y gallor gymmeryd y gorphwys y bo'r corf yn govyn.

37. Tri pheth hardd ar westwr a gwestai: bod yn addvwyn, bod yn dawedawg, a bod yn ddiorn.

38. Tri nawdd gwesteiaeth: nawdd Duw a'i dangnev, nawdd iawn a chariadoldeb, a nawdd devodau syberwyd ac addwynder cenedyl y Cymry.

39. Tri chyvarch bendith gwestwr a gwestai: wrth ddyvod i mewn, bendith Duw yn y tŷ; tra vythor ynddo, am hob dawn a chymmwynas, bendith Duw i chwi, neu Duw a'ch bendithio; ac wrth ymadael, dewch a bendith Duw i chwi, yn wahoddiad dros bob addwynder.

40. Tri attebion bendith: bendith Duw arnoch, bendith Duw yn rhad i chwi, ac ewch á bendith Duw gyda chwi.

41. Tri devawd arveriadawl gwesteion: cyvarch yn nawdd Duw a'i dangnev, ymddiosg á'u harvau a'u hestyn yn llaw ei osb, a dangos rhaid ac achaws mal y gwyper à wnelor iddo ac erddo.

42. Tri pheth boneddgar west a gwestai eu rhoddi lle delawr: ei arvau, ei enw, a'i hanvod; a lle gwnelo iawn iddo dri nawdd gwesteion, a'i brodor a'i estron y bo.

43. Tri phriv syberwyd groesaw gan addwynder: dangos caredigrwydd haelionus, dangos à ddiwallawr yn ymborth a gorphwys yn y bo achaws a rhaid, ac arvau yn ôl yn llaw a'u pieufo.

44. Tair camp addwynder herwydd pa rai y dylit aroll gwesteion: trugaredd haelionus, deddvoldeb trevnus gan syberwyd, a llawenydd gweddus a diargywedd.

45. Tri harddwch gwesteiaeth ac addwynder: aravwch, trevnusder teulüaidd, ac ymddwyn cysbwyllus.

46. Tri anhardd gwesteiaeth: bod yn rwyholgar, yn loddestgar, ac yn athrodgar.

47. Tair urddas gwesteiaeth: rhywiog-rwydd devodau a moesau herwydd à ovyn syberwyd, gwybodau molianuss ac urddasawl, a llavariaeth gyviawn heb ledryw ar bwyll a cheinmyged y Gymraeg a'i hymadroddion.

48. Tri pheth anhardd ac anaddwyn ar bob rhyw a gradd o ddŷn, beth bynag, a pha le bynag, a phryd bynag y bo: sev dioglydrwydd, surlydrwydd, ac annysg herwydd ei rádd a'i ansawdd.

49. Tair camp anverth, anaddwyn, ac ansyber: tynglydrwydd anudonllyd, celwyddgarwch, ac athraw enllibgar.

50. Tri anaddwynder ni waeth cythraul noc a'u gwnelo: datrin cyvrinach, ansyberwyd parth ag at à rotho letty a groesaw yn ddoeparthus gan syberwyd haelionus ac addwynder devodawl, ac anniolch lle delawr yn y tro atto ar westeiaeth.

51. Tri ansyberwyd à wrthladdant addwynder yn gyvlwyr: ansyberwyd parth ag at venyw, ansyberwyd parth ag at ddoeth a gwybodus cyhoeddglod, ac ansyberwyd parth ag at gwr wrth grevydd a dwyvoldeb.

52. Tri mygedigion cyntav pob cyvarch syberwyd ac addwynder: benyw, gwr wrth ddysg a gwybodau, a gwr wrth vrait ac urddas gwlad.

53. Tri rhyw y sydd o ddynion wrth vrait ac urddas gwlad a chenedyl addwyn: gwŷr wrth deyrnedd, megis y bydd arglwydd cyvoeth a'i wŷr swydd dosparthus a gwarantedig; gwŷr wrth grevydd a dwyvoldeb dosparthus; ac athrawon celvyddyddau a gwybodau gwladolion, lle bont warantedig o vrait a swydd; sev heb y tri hyn, nis gellir addwynder ar wlad a chenedyl.

54. Tri amhbarch ac anurddas tŷwr gan syberwyd ac addwynder, o'u gweled liw dydd a'i funon yn mygu: ei cyvarthgar yn y baili, drain ar ei gymmad, neu borth yn nghaead, ac anatteb cyvarch drŵs.

55. Tri pheth anverth ar lavar gan westeiaeth: celwyddau, budreddair, a beiaw neu achwyn ar arall, lle nas govyner gan wr na chan achaws dosparthus a gorvod o gyspwyllad.

56. Tri anaddwynder anverth ar bob dŷn, ac a'i dyvethant yn y diwedd: dichell, llid, a glythineb ar vwyd a diod, rhag anmoneddiced y cynneddvau hyny.

57. Tri pheth anweddus ar vwyd: rhychwedleua, mursendod, a chanmawl neu veiaw y bwyd; can y dylit ei gymmeryd mal y danvono Duw ev.

58. Tri pheth à vawr weddant eu bod ar west a gwesteiwr: glander corf a gwisg, glander ymadrawd, a glander moes a devawd; can nis gellir addwynder a syberwyd hebddynt y cynneddvau hyn.

59. Tri pheth ni ddylai neb gymmeryd tâl gan ddyeithr, neu ddŷn ar ymdaith, a'u govyno: llaeth, halen, a bara; ac am amgen o bethau gwerth nid anaddwyn derbyn tâl lle à'u govyner dros dâl.

60. Tri pheth à ddylit yn rhydd heb na thâl na gwobr i bob gwr ar ymdaith lle ydd elo: dwr, tân, a gwasgawd rhag drych-hin.

61. Tair rhodd elusen à ddylit i bob dierth ac anghenus: ymborth, nawdd, a dangaws.

62. Tair anaddwyngamp gythreulig ar ddŷn: gormes, cenvigen, a balchder.

63. Tri pheth à ddylit o addwynder eu diolch gan syberwyd: gwahawdd, budd, ac annerch.

64. Tri pheth y dylit parth ag at gwesteion yn barch arnynt: eu haroll o bell yn garedig lle gwyper eu dyvod, eu groesawu yn voneddigadd ac yn anrhydeddus gyda phob llawenydd ac haelioni tra'dd arosont, a'u hebrwng yn garedig a pharchusbwyll y pryd ydd elont.

*Ac velly tervyna Triodd Addwynder: a'r rhain à dynwyd o lyvyr yr hên Syr Edward Stradlin o Gastell Sandunwyd, gen y vi, THOMAS AB IVAN O Dre Bryn.*

21. LLYMA DRIODD DYFNWAL MOELMUD, A ELWIR TRIODD Y CLUDAU, A THRIODD Y CARGLUDAU.

*(Llyvyr Tre Bryn.)*

1. TAIR Clud gyvarwedd y sydd: barddoniaeth, govaniaeth, a thelynoriaeth. Neu val hyn, tair clud gyvannedd y sydd yn mraint devodau cenedyl y Cymry; bardd, feryllt, a thelynior.

2. Tri pheth à wnant glud-gartrev: cenedyl, braint, a rhyvel.

3. Tri chartrevoldeb y sydd: cyviaith, cyvar, a chyvarv.

4. Tair clud arvoll y sydd: cynghaws, cyvathrach, a difyn; sev nawdd a chyvnawdd.

5. Tair clud gyvnawdd y sydd: dinau-clud, mesori, a chyvar; sev yw dyled i bawb ei law yn à vetro.

6. Tair clud udcorn y sydd: dygynnull gwlad gan riaint a phencenedlodd, corn cynhauav, a chorn cád a rhyvel rhag gormes gorwlad ac estron.

7. Tair clud gyvarv y sydd: rhag estron

a gormes gorwlad, rhag à doront vraint a chyvraith, a rhag gwylltvilod rheipus.

8. Tair clud gymhorth y sydd: beirdd yn eu cylch clera, dymchwel o ryvel, ac eillion yn nawdd cenedyl y Cymry.

9. Tair clud ddychwel y sydd: iaith, braint, a chenedyl. Neu, o vodd arall, ceraint, cyvar, a chyviaith; sev nis gellir carddychwel yn ddiormes oni bydd un o'r tri dros hyny.

10. Tair clud ormes y sydd: symmud càr heb vraint heb gènad, cyrch gosgordd estron heb rybudd heb ammod, a barn heb wlad heb ynad, neu heb wlad ac arglwyddi rhiaint.

11. Tair clud varlin y sydd: cenedyl gysevin yn ngorsedd gwlad a rhiaint, ynad a'i bleidorion yn myned gan varn a chyvraith, a thywysawg a'i osgordd yn myned yn rhyvel gorwlad. Sev yw barlin, rhiaint a phencenedlodd, neu beneiviaid cenedyl a chynghaws.

12. Tair clud y sydd, ac ar y lle delont eu cynnal a'u porthi: a vont yn mraint barlin, à vont yn mraint beirdd, ac à vont yn mraint amddwad.

13. Tair clud addwyn y sydd: beirdd yn darogan heddwch, cyrch cynhauav, a phriodas.

14. Tair clud gymmrawd y sydd: dygynnull gwlad a rhiaint yn dosbarth cyvreithiau a barn cywlad, beirdd yn athrawon gwybodau lle cyrchont yn ngorsedd, a chydgyvarch cenedyl yn nghyrc h golychwyl, ar y privwyliau arbèngion.

15. Tair clud vargad y sydd: cyrch gelyn gorwlad; llev, neu gorn murn a chynllwyn; a threv ar dân; sev y dylit gynnorthwy gan bawb.

16. Tri chorn cynghlud y sydd: corn cynhauav, corn dadlau, a chorn golychwyl.

17. Tair clud gynhwrw y sydd: corn gwlad, llongau o wlad estron yn medru tir, ac annychwel cènad gwlad a rhiaint o wlad estron.

18. Tair clud gyvarch y sydd: aredig, gwylygampau, a goddeithio coedydd; sev o gyvarch nis dylit eu hattal.

19. Tri chyvarch gwlad: corn cychwyn, gwaedd yn llŷs, a gosteg golychwyl.

20. Tair clud anghyvarch y sydd: helwriaeth, ydgyrch, a chlawdd haiarn; sev nid rhaid cyvarch o a'u cyrchont. Neu, o vodd arall, nid rhaid cyvarch eu cyrcu.

21. Tair clud ymlid y sydd: blaidd, gwilliaid, a chi cynddeiriog; a phawb à glywont y gwaedd à ddylint ymgdygyrch.

22. Tair dinaclud y sydd: cyrch estron

yn anghyvarch, anrhaith gorwlad, a chnud bleiddiau.

23. Tair clud vreiniawl y sydd: cyrch brenin, neu riaint yn eu cyvoethau, cyrch beirdd yn ngorsedd gyvallwy, a chyrch dwyvolion yn ngolychwyl; ac yn rhai llyvrau val hyn, Cyrch yngneidiaeth, cyrch beirdd a chlêr, a chyrch golychwyl.

24. Tair cludgyrch vreiniawl o addwynder gwarantedig cenedyl y Cymry y sydd, ac ni ddylit à elai yn eu herbyn: cyrch cènad gorwlad, cyrch beirdd gorwlad yn ngorsedd wrth vraint a devawd beirdd Ynys Prydain, a chyrch eillion yn hedd ac yn nawdd Daw a'i dangnev.

25. Tair clud gychwyn gyfredin y sydd: serch, budd, a gochel cosp ac anmraint.

26. Tair clud ddeol y sydd: murn a chynllwyn; brád teyrnedd, sev brád gwlad a chenedyl; ac anrhaithledrad anwyllyniawg; sev y dylai bawb yn nghyw y corn fodd y cerdder vnyed yn nghyrc h y dèol hyny, bob rhyw ac oedran, a chynnal cyvarth gan gwn yn ydd eler hyd rhoddi ar vòr, ac ydd elo à ddèoler driugeinawr o'r golwg.

27. Tair clud gymmhill y sydd, a govyn cynghlud ar bob dyledawg cynhwynawl: cyrch yn ngorseddau gwlad a chenedyl, cyrch rhyvel gorwlad, a chyrch carllawedrog; sev yw carllawedrawg, un à vo braint a symmud ei gâr neu ei vwd, pan y myno.

28. Tri charllawedrawg y sydd: anghydvrwad, ac anghyttir, ac à vo wrth vraint o bencedyl; sev yw carllawedrawg, à vo braint iddo symmud ei gâr lle y myno, neu symmud i arall o van heb golli braint a brodoriaeth yn y lle yfysymuto o'hano, tra nad elo yn ngwlad gelyn ac estron; sev yw gwlad estron amgen o briv genedyl, a gorwlad amgen o gyvoeth o'r un briv genedyl.

29. Tair clud gyvattal y sydd: pencedyl, priodasawg, ac à vo wrth swydd gwlad a chyvoeth; a chargyvattal, a'u gelwir, am nis gellir eu hebgor yn ngwlad a chenedyl.

30. Tair clud vanawg y sydd: pencedyl a'i osgordd, beirdd a'u nodedigion o awenyddion, ac ynad a'i wŷr llŷs; sev yn màn y bont y bydd eu braint a'u trwydded.

31. Tair clud gyvran y sydd: braint clud varlin, àr gysevin, a helwriaeth; sev y bydd i'r rhai hyn hawl a chyvran yn y vrodoriaeth wrth hyn o bethau pan y myner.

32. Tair clud angen y sydd: newyn yn ngwlad, daiardor neu liveiriant, a gortrech estron; sev rhagddynt y dervydd braint a brodoriaeth yn ngwlad, a myned o'r genedyl

ar encil ac yno dechreu o'r newydd yn nghymmrawd y genedyl.

33. Tair caethglud y sydd: gelyn gorvodedig, a gwilliaid cywlad, a chychwyn anghènad; sev à symmudo ei gàr neu ei vvd heb vrait heb gènad; a'r tri rhyw hyn o ddyinion á ddoder yn nghaethglud, ac yn eillion hyd yn mhen y nawved âch.

34. Tair clud gynniwair y sydd: bugeiliaid trevgordd yn arail eu preiddiau, ymlid gwylltivilod rheipus gan gorn gwlad, a beirdd yn darogan wrth raid gwlad a chenedyl.

*Ac velly tervyna.*

A THRIODD Y CARGLUDAU a'u gelwir; a DYFNWAL MOELMUD, brenin y Cymry a'u cadarnâes er dangos à vai iawn a chyvraith mewn gwlad a chenedyl; a goreu deddvw'r à vu eirioed oedd Dyfnwal Moelmud; a goreu am vrait a nawdd i vrodor ac aillt, rhag bod neb à wnelai yn ngham ac yn anghyvraith. A gwedy hyny HYWEL DDA brenin Cymru oll a'u cadarnâes yn gaudig yu erbyn a'u gwrthreithiai ac a'u gwrthvreiniai.

## 22. LLYMA EREILL O DRIODD DYFNWAL MOELMUD, à elwir

TRIODD GWLADOLDEB A CHYWLADOLDEB; *sev ydynt hên driodd breiniau a devodau cenedyl y Cymry, cyn colli eu braint a'u coron, o drais a thwyll a brad y Saesou.*

1. TAIR sail gwladoldeb: braint, meddiant, a chyvraith.

2. Tair sail cyvraith: amddifyn, cosp, ac anrhydedd, parth ag at à wneler er llês gwlad a chenedyl.

3. Tri nawdd ac amddifyn gwladoldeb: nawdd bywyd a chorf, nawdd meddiant ac addev, a nawdd braint gynhenid.

4. Tri pheth à ddifynant wladoldeb: cariad, ovn, a chymmudd.

5. Tri pheth à gadarnânt wladoldeb: nawdd gadarn i bob dŷn a'i eiddo, cosp gyviawn lle a'i dylit, a thrugaredd o gyviawnder lle a'i gweler yn ovyniadawl gan achaws gyviawn.

6. Tri pheth à ddyvethant wladoldeb: creulonder yn lle cosp; trugaredd, o gariad a pharch, yn gwyraw cyviawnder; a thwyll-gymmrawd, lle nas cafer nawdd gynnedd-awl i bob dŷn, a'i brodor a'i aillt y bo.

7. Tair colovn gwladoldeb: tēyrnedd, rhaith gwlad, ac yngneidiaeth.

8. Tri pheth à ddylit ar bob un o'r tair colovn hyn: iawn i bawb, nawdd ac amddifyn i bawb, a dosbarthau hydrevn er

addysg a gwybodaeth a chôv i bawb o'r vrodoriaeth.

9. Tri pheth à gadarnânt ar wladoldeb: nerth, nawdd, a chosp o gyviawnder cyvraith gynnedd-void.

10. Tri devnydd cyvraith: gwybodaeth, iawn cynhenid, a chydwybod.

11. Tri thlws gwladoldeb: ysgolâig dysgedig, feryllt celvydd, ac ynad cyviawn.

12. Tri phrawv ynad: gwybod y gyvraith, gwybod devodau gwlad na chaw cyvraith yn eu herbyn, a gwybod syrth ei amserau a'u dichweiniau.

13. Tri pheth y dylai ynad ymarver ag wrt yn wastad: gwirionedd cynnedd-awl, trugaredd cydwybodawl, a gwybodau cedeirnbwyll.

14. Tri pheth à ddylai vod ar ynad mal y gallo wybod ac ymgwybodi yn gyviawn à phob hawl a dadl à ddelawr ger ei vrôn: bod yn ystyrgar i ymrynu yn geudodawl â'r gwirionedd, a'i chwilio i maes o'i bwyll cysevin ei hunan; bod yn ymovyngar, er cafael gwybod gan arall o ddŷn a thrwy arall o ddichwain à vytho yn wirionedd; a bod yn ystrywgar i chwilio a chafael i maes à vythawr yn dwyll parth ag at à vo dadl yn ei lŷs ev, a phe'i cafw'r yn ei ansawdd, à guddiai neu à dywyllai wirionedd, ac à barai dwyll ar varn à roddai eve, cyd y bai cydwybodawl; canys ynad à ddylai wybod drwy bervedd à ddelai ger ei vrôn cyn y gallai varn à vai cyviawn a chydwybodawl.

15. Tair priv ddyledswydd teyrnedd: cainymgynnal; cadarnâu addysg ar wyboda'u gwladolion, mal y gallor ymgynnal gan raith a chyvraith, a chan wlad a theyrnedd; a chadarnâu nawdd cywiriad y genedyl a'r vrodor aeth a'r nawdd à ddylit i eillion yn nawdd y vrodoriaeth.

16. Tair gormes teyrnedd: anmrawd, sev gwallymnawdd parth ag at gywiriad a'u dâodd; anrhaith, sev lledrad, a murn, a chynllwyn, a chadernyd anghyvraith yn cau yn erbyn gwlad a chyvraith; ac anymdaw'r, sev yw hyny gwall-ymbwyll ar syrth amserau a dichweiniau, ac ereill orvodau, lle cauont yn erbyn cyvraith; ac nis gellir eu gwared namyn o raith gwlad a theyrnedd i weled ac i ymwybodi a buadau, ac i wellâu ac amnewyddu à vo achaws gorvod-awg yn darogan.

17. Tri phriv geinmyged teyrnedd: nawdd cywiriad, cosp a gwared dihiriaid, a gwared anwybodaeth rwng cywir a chywir a gyru barn gyviawn y rhyng-ddynt.

18. Tri chadernyd cyvraith: ynad dysgedig, tyst cywir, a rhaith gydwybodawl.

19. Tair cosp gadarn y sydd: bod yn eneid-vaddeu, toraelawd, à deol yn aeth-wlad gan waedd a chyrch gwlad a chyvarth; ac i'r brenin yr un à vyno.

20. Tair cosp eneidvaddeu y sydd: byrâu o bèn, crogi, a llogi; ac i'r brenin, neu arglwydd y cyvoeth, ei ddewis yr un à vyno.

21. Tair cosp ormail y sydd: dwyn gavael meddiant, carchar, a cholli braint; sev pan goller braint y syrthier i ansawdd aillt hyd yn mhen y nawved âch.

22. Tair cosp gamlwrw y sydd: dwyn gavael lle nas taler yn hawl, gyru swydd a gorchwyl ar à gosper hyd onis gwaretor o dalu y sarâad, a cherydd gwlad; sev hyny cyhoeddi gan gorn a gwaedd gwlad yn mhob llŷs, a llàn, a fair, a marchnad, ac ymhob tyrva ddosparthus, y peth à vo ar à gerydder yn vai cospiadawl; sev nis gellir eu gwared un o'r tri hyn namyn o dalu camlwrw cyvreithawl.

23. Tri chyswynbwyll y sydd drosgwared llŷs ac ynad ar gosp gadarn: mam yn gwared ei phlant, mab cyn barv, ac estron anghyviaith à wnelo yn erbyn cyvraith a brodoriaeth.

24. Tair asswyn y sydd yn nghyvraith dros gwared cosp gadarn: anallu, anwybod, ac eisiwed angheuawl; a'r tri pheth hyn a asswynant rag cosp gadarn, ac a'u gwared-ant.

25. Tri dŷn nis dylit eu cospi: mud a byddar geni, a phlentyn cyn deall, ac ynvyd cynhwynawl; sev y dywedir, *nid à cosp ar ynvyd*; eithr rhybudd gwlad yn ysgriven ar bŷst neu veini y brenin, yn waedd gadarn er i bawb ymochel â'r ynvyd, ac a'r mud byddar geni; a'u dodî dan eu nodau gan gorn a gwaedd gwlad a chywlad; achaws hyny y dywedir, *ynvyd á á ar y post*.

26. Tri chyvrwym gwlad a chenedyl: tadoldeb, maboldeb, a brawdoldeb. Sev tadoldeb, teyrnedd yn govalu, ac yn llun-iaeth, ac yn diwallu, er caingynnal bro-doriaeth; maboldeb, yn uvyddân i'r tadol-deb, er trevn a dosbarth gyviawn; a'r brawdoldeb, yn ogydbwyll â'r ddau ereill yn eu llëodd yn ymgynnorthwyaw er cadarnedd cymmrawd ar wlad a chenedyl a theyrnedd ddosparthus.

27. Tri chyvrwym brodoriaeth a chen-edyl: trwydded warrantedig, breiniau cyd-gynneddv, a chyviawnder cyvreithiau.

28. Tri phrydverthwch brodoriaeth: gwybodau doethineb, celvyddydau gwared-awl, a syberwyd addwynbwyll.

29. Tri hadernyd gwybodau a chelvydd-

ydau: addysg o athrawon wrth vraint a thrwydded; breinioldeb gwybodau a chelvyddydau ar a'u gwypont; a gobrau gwar-antedig o gyvraith, am à wneler yn ddo-sparthus, o arch ac ammod, gan wybedydd-ion a chelvyddiaid.

30. Tair sail gadarn cywladoldeb: cym-mhwyll amlwg a thrywel, nas gellid à elai o bwyll yn ei erbyn; braint gadarn, nas gellid gan gyviawnder ei gwrthrym; a brawd gadarn, nas gellid godidawg o vraint a swydd a'i divrodai.

31. Tri pheth à ddivrodant wladoldeb a chywladoldeb: breiniau gormeslawm, anghyviawn o varn cyvraith, a gwallymar-bod yn peri annosparth ar drevnau gwlad a chenedyl.

32. Tri pheth ni savant yn gadarn ond tra bont ar y tair sail gadarn: cyvraith, meddiannau, a thangnev cenedyl.

33. Tri pheth à ddylynt vod yn ddevn-yddion pob cyvraith gyvrwym: cadernyd, iawn, a chydwybod.

34. Tri deivnogaeth barn gyviawn: pwyll ystyrbell, deddvoldeb gymmrawd ar gyvreithiau, a chydwybodawl raith ynad a theyrnedd.

35. Tri deivnogion teyrnedd: angen gwlad a chywlad, pwyll doethion, a dedvryd rhaith gwlad a chymmrawd

36. Tri anhebor gwladoldeb: arglwydd yn vrenin, rhaith gwlad, ac yngneidiaeth.

37. Tri anhebor cywladoldeb: teyrnedd benadur, rhaith gymmrawd, a barn dygyn-null cywlad yn mraint a'i govynai, ai gwr gwlad ai gwr gorwlad, y byddai.

38. Tri anhebor pob un o'r tri hyny: pwyll o gymmhrawv dichweiniau, cyviawnder o gydwybod, a chariad brawdol rhwng gwlad a chywlad: a rhwng gwr a gwlad, a rhwng gwr a gwr; a lle nas byddont nid hawdd gwared rhag anweledig o anmrawd ac anghyviawnder.

39. Tri deivnogion cywladoldeb: cydam-ddifyn, cyvnaudd gwybodau a chelvyddydau, a chadarnâu cynneddvau ac arverau tangnevgar.

40. Tri pheth nis gellir cadernyd a chyn-nal arnynt heb gwladoldeb: llavuriaeth daiar, celvyddydau, ac ereill wybodau brein-iawl, a thangnevedd dosparthus.

41. Tri pheth à gadarnâant dangnev cywlad: breiniau cymmrawd, gwladoldeb gymmraint, a gwybodau doethineb, dan gyvnaudd cywlad o vrawd ac o vraint gyn-henid.

42. Tri chynghlwm cywladoldeb: cyv-iaith; cymmrawd, a chymmraint; ac heb-ddynt nis gellir cywladoldeb gadarn.

43. Tri phrydverthwech cywladoldeb: gwybodau moliannus, syberwyd cariadus, a chymmrawd ddsparthus.

44. Tri pheth à wnant wlad: ceraint, iaith, a breiniau; a thri chyvrwym gwlad a'u gelwir.

45. Tri chynghlwm gwladoldeb: cy-nawdd, cyvar, a chyvraith; ac hebddynt nis gellir gwlad a brodoriaeth.

46. Tri pheth nid gwlad lle nas byddont: cyviaith, cyvraith, a chyvardir; canys heb y rhai hyn nis gellir ymgynnal yn hêdd a chymmrawd.

47. Tri phriv gynneddvau gwladoldeb gadarn: celvyddyddau breinawl, gwybodau doethineb, ac arddoriaeth; canys o'r tri hyn y teirdd pob cynneddvau ereill ar wladoldeb; a chyn privgynneddvau nis gellir adgynneddvau; achaws hyny anheborion gwladoldeb yw cadarnau yn vreiniedig a dosbarthus y tri phriv gynneddvau.

48. Tri pheth nid da gwlad lle nas cafer: coed, ceryg, a fyonau dwvr.

49. Tri chyfredinion gwlad a chenedyl: mesgoed, helwriaeth, a chlawdd haiarn; ac nis dylit perchonogaeth wahanredawl ar nac un nac arall o henynt.

50. Tri phriodolion gwahanredawl à vyddant i wr o'r tri chyfredinion gwlad a chenedyl: nid amgen, cig hely wedi y tyner y croen oddiamdano, mesgasgl, a haiarn cloddiedig.

51. Tri phriodolion gwahanredawl gwr gwlad a chymmrawd; sev hwnw Cymro cynhenid o gysevindawd braint: tŷ, buarth, ac ydarth.

52. Tri phriodolion gwahanredawl pob gwr rhag arall, ai aillt ai Cymro y bo: gwraig, plant, a da cychwynawl.

53. Tri phriodolion gwahanredawl pob gwr rhag arall, ac nis gellir eu rhâu ag arall, ac nis telir yn nghamlwrw: gwraig, plant, ac argyvreu; sev yw argyvreu, gwisg, ac arvau, a pheiriannau celvyddydd vrein-iawl; canys hebddynt nis gellir ei gyviawn ansawdd i ŵr; ac nid iawn i gyvraith anwriaw gwr, neu anghelvyddu celvyddydd.

54. Tri thlws cenedyl: llyvyr, telyn, a chleddyv; ac nis dygir yn ngavael gan ddedryd llŷs a chyvraith.

55. Tri thrwyddedawg teulu, ac ni vyddant wrth lavur a gorchwyl a swydd: baban, oedranus, ac athraw teuluaid; sev nis byddant law ar gledd, nac ar gorn, nac ar arad.

56. Tri dŷn breiniawl ni bydd noeth arv yn eu herbyn: bardd, pencenedyl, a chênad gorwlad.

57. Tri dŷn cyfredin ni bydd noeth arv

yn eu herbyn: gwr di arv, gwr cyn barv, a benyw.

58. Tri lle breiniawl ni bydd arv yn erbynu: gorsedd gwlad ac arglwydd; gorsedd cynghyd cynnal, sev yw hōno gorsedd ddygynnull; a gorsedd beirdd.

59. Tair gorsedd vreiniawl Ynys Prydain yn nawdd cenedyl y Cymry: gorsedd beirdd, a hōno yn hynav ei bonedd; gorsedd gwlad ac arglwydd, sev hōno llŷs cyvraith ac yngneidiaeth o ddygynnull yngnaid a brawdvr rhaith; a gorsedd cynghyd cynnal, sev hōno gorsedd ddygynnull gwlad a gorwlad gan wŷr teyrnedd, a phencenedlodd, a doethion gwlad a gorwlad, er deddvu cymmrawd a chyvraith yn ngwlad a chy-wlad, a rhwng gwlad a gorwlad, o gymhwyll a chymmrawd a chymmod gwlad a gwlad, a thŷyrn a thŷyrn, a rhaith a rhaith, er iawn a thangnev, a braint à ddylyt yn ngwlad a chywlad: ac nis dylit noethi arv rhag y rhyw orseddau o vewn eu swyddau, na rhag eu hamserodd.

60. Tair gorsedd vreiniawl y sydd, ac iawn iddynt wârogaeth y gan y neb à vythont parth nawdd, neu swydd, neu urddas, neu dda wrth gelvyddydd a gw-ybodau, yn mraint a brawd un ac arall o'r gorseddau hyny, ar wârogaeth á vydd herwydd braint, ac a ddylyt i'r orsedd yn nghysbwyll: gorsedd beirdd Ynys Prydain, ac wrth ei barn y bydd pob un o wârogaeth à geisio dda wrth gerdd a chelvyddydd barddoniaeth, a phawb à vythont yn nawdd yr orsedd hōno dan dervynau ei swydd a'i breiniau; gorsedd breinin, neu arglwydd cyvoeth, a'i vrawdvr, a'i yngnaid, a brŷyriaid, sev hyny pob Cymro tiriawg, er cynnal llŷs a dadlau cyvraith; a gorsedd cynghyd cynnal, sev gorsedd ddygynnull gwlad a chywlad; ac i hon y ddylyd wârogaeth y ddwy ereill, ac à vont yn eu braint; canys cyd y bo hynav yn monedd gorsedd beirdd, o ba un y henyw pob gwybodau, eisoes hynav yn mraint rhaid a gorvod, gan bwyll a gallu cenedyl, yw gorsedd rhaith ddygynnull gwlad a chy-wlad, er trevnu a chadarnau iawn a nawdd ac amddifyn gwlad a chywlad, a chenedlodd cymmrawd, a'u gwahanredolion yn gywir-iaid gwlad a chyvoeth; ac hebddi, sev gorsedd cynghyd cynnal, nis gellid braint na chadarn ar un o'r ddwy orsedd ereill; canys o dri pheth y mae gorsedd rhaith ddygynnull gwlad a chenedyl; nid amgen, pwyll, nerth, ac ewyllys gwlad a chywlad, a chenedyl a chydgenedly, er gwneuthur, a gwellâu, a chadarnau cyvraith a chym-mrawd; a chadarnau iawn a braint i vrod-



orion gwlad a chywlad a'u gwahanredolion, ai *Aillt* ai *Cymro*, gan gyspwyll hyd a lle nad eler yn erbyn y cŵd cyvoll; canys gorsedd ddygynnull cywlad á gau yn erbyn pob arall o vrait, a gallu, a chyvraith, ac awdurdawd, na vont gymrawd á hi. Ac yn nawdd gorsedd cynghyd cynnal y cawsant gyntav eu braint a'u cadernid gorseddau arglwydd cyvoeth a'i wlad, a gorseddau beirdd; ac yn amgen nid oes ac nid oedd braint yn y byd, namyn syberwyd gwlad a chenedyl iddynt.

61. Tair gorsedd yn mraint gwlad a chenedyl y Cymry y sydd: cyntav, gorsedd beirdd Ynys Prydain, a'u bonedd a'u braint á vydd o bwyll, ansawdd, a gorvod; neu herwydd ereill athrawon a doethion, o bwyll, ansawdd, a dichwain. A'u braint a'u swydd, noddedigion gorsedd beirdd, yw cynnal a chadw a doddi addysg warantedig ar wybodau dwyvoldeb, a doethineb, a syberwyd; a chŵv a chadw ar bob moliannus ar wr a chenedyl; a phob dichwain amserau; a phob rhyveddawd anianawl; a rhyvelodd; a dosparthau gwlad a chenedyl; a dialeddau; a gorfodaethau moliannus; a chadw cŵv gwarantedig ar achau, a phriodasau, a bonedd, a breiniau, a devodau cenedyl y Cymry: a bod wrth raid gorseddau ereill yn darogan á orfer ac á ddylawr dan osteg a rhybudd cyvreithawl. Ac amgen na hyn nid oes nac o swydd nac o vrait ar orsedd beirdd; sev ydynt y beirdd athrawon gwarantedig gwlad a chenedyl y Cymry; a thrwydded iddynt yn warantedig o'u swydd yn amgen noc á ddylaint yn Gymry cynhwynawl; sev i bob un ei bumerwi rhyddion, a moddion celvyddydd yn warantedig i bob un.

Ail, gorsedd gwlad a chyvoeth; sev gorsedd yngneidiaeth a brawd cyvraith, er iawn a nawdd gwlad a chenedyl, a'u noddedigion, a'u heillion; sev y gwnant y gorseddau hyn, nid amgen gorsedd cynghyd cynnal á wna gyvraith lle bo achaws, ac a'i cadarnâa yn ngwlad a chywlad; ac nid rhydd i wlad heb gywlad hyny. Gorsedd brawd ac yngneidiaeth á varn ar á wnelo yn anghyvraith ac a'i cysp: a gorsedd beirdd á ddysg wybodau moliannus ac á varn arnynt, ac á geidw bob covion cenedyl yn ddosparthus a gwarantedig; ac nid iawn i un o'r gorseddau ymwneuthur á chyspwyll un o'r ddwy ereill, namyn eu cadarnâu a'u cyvnoddi yn gynneddvawl.

Trydedd orsedd, sev cynghyd cynnal, ei phwyll cysevin a thervynedig yw gwneuthur á vo raid o newydd ac o wellâad ar gyvreithiau gwlad a chywlad ganraith

cywlad o bencenedlodd, a doethion, a theyrnedd benadur; sev yw teyrnedd benadur, neu deyrnedd benraith, yr hynav ei oresgyn o'r breninodd a'r tywysogion cywlad; ac ar hwnw bydd y cyfraw cadarn; a gair ei air ev ar bob gair arall yn nghyfraw gwlad.

62. Tair gorsedd anghyvarch y sydd: swyddawg gwarantedig o gyvraith yn dafar lluniaeth yn nghyvoeth ei arglwydd, er dyspwyllaw barn, neu gynhenau, neu amrawd, megis symmud neu wrthladd cyvreithiau y brenin; sev y bydd y dafar hyny er cynnal gorsedd wahanredawl neu ddygynnull gwlad a chenedyl yn rhaith, lle bo galw ac achaws; ac ni ddyly gwlad erbynu y swyddawg á wnelo y dafar; canys nid braint i neb ond i arglwydd wneuthur cyvraith; ac nid braint hyny iddo yntau namyn o ddyundeb ei wlad a'i genedyl yn nygynnull; ac nis gellir dygynnull heb luniaeth o le, ac amser, ac amcan, a bwyd, a llyn, a gwasgawd, a gorphwys, a thân, a chynnorthwyon.

Ail, gorsedd rhaith gwlad gan bencenedyl, o gwyn amrawd ac anghyvraith y gan y brenin a'i yngnaid; neu lle nas cefir cyvraith á wnelo iawn amlwg a chadarn; a lle bo hyny iawn i bob Cymro cynhwynawl eiraith; ac ar ei bencenedyl y bydd y cyfraw teyrnedd, a lluniaethu gan gymhorth a chynnorthwy ei genedyl a'i ddoethion; ac ni ddylai gwlad ei herbynu; canys braint i bencenedyl cyfraw teyrnedd, ac i bob Cymro cynhwynawl hyny yn nawdd braint ei bencenedyl; a llw trichannyn o wŷr cyvraith, sev dyledogion o dirogion á gadarnâa á wnelawr ganraith gwlad o gyfraw gwr o Gymro cynhwynawl, yn nawdd a braint ei bencenedyl. Sev iawn yw i bob Cymro ei lavar, a'i gwyn, a'i hawl, o bwyll anianawl, yn nawdd a braint ei bencenedyl; ac iawn i bob pencenedyl ei wlad a'iraith; a lle govyner, iawn i bob rhaith ei theyrnedd; ac iawn i bob teyrnedd ei chywlad yn rhaith ddygynnull, rhag gadael i á gauai yn erbyn cyvraith a braint gymrawd; ac yn hyn o nawdd, braint i bob Cymro cynhwynawl ei wlad, a'iraith, a'i deyrnedd, a'i gywlad, yn nygynnull.

Trydydd vydd er dyspwyll teilyngdawd dwy gyvraith, neu vwy, lle bo gosodedig y naill yn ogyvuwch á'r llall, ac o ddichweiniau amserau, a newidiau byd, a bywyd, a chyvlwîw; tyviannus anghyviawnder ar un yn amgen noc ar y llall; ac nis gellir iawn cyn adnabod y cam; ac nis dylit iawnâu heb yn wybod i wlad ac arglwydd; ac nis dylai arglwydd a'i wlad hyny, ond o

wybod a dyundeb ei gwlad yn ddevodawl. Achaws y pwyllau hyn, iawn dan osteg a rhybudd cyvreithawl undydd o blwyddyn, cynnal gorsedd raith drwy wybod i wlad a chenedyl, er ymgyspwyll â'r à vytho yn nghan, ac er ei iawnaû gan gymmrawd deilwng, a threiglau y cyfraw hyd y bo achaws gyviawn ac anghenawl; a lle symmutter cyvraith rhaid vydd rhybuddiau gwlad a chenedyl yn deilwng, mal y gallont adnabod à ddoter yn lle à symmutawr.

63.<sup>1</sup> Tri pheth nis dylit eu gwneuthur ond o ddyundeb gwlad a chywlad a chenedyl benbaladr: symmud cyvraith y brenin, diarglwyddiaethu y brenin, a dysgu gwybodau newyddion yn ngorsedd beirdd; canys nis dylit hyny cyn y gwypo wlad a chenedyl eu rhywiau, a'u cynneddvau, a'u dosparthau, o varn a dangos cyvreithawl dysgedigion a doethion o athrawon gwarantedig yn ngorsedd gywallgy beirdd Ynys Prydain yn ngwlad a chywlad. A lle ydd eler yn erbyn hyny o bwyll a chysbwyll, overion y gelwir y gwybodau hyny; ac nis dylit baint a da wrth gelvyddyd arnynt; ac nid oes i na chyvraith, na dosparth, na chelvyddyd, nac i unrhyw bwyll ar wybodau, vrait yn y byd onis cafwr ar ddangaws ac addysg; ac o hyny barn athrawon a doethion gwarantedig o ddysg, a gwybodau, ac awdurdawd, yn mraint dosparthau gwlad a chenedyl. Ac o ddiarglwyddiaethu brenin, nis dylit hyny namyn gan raith gwlad a chywlad; sev o gwlad y bydd llw trichannyn yn rhaith yn mhob cyvoeth arglwydd breiniawl gorseddawg y dan y brenin penraith; a'r trechav, sev y mwyav o riv cyvoethau, yn cadarnau' à wneler yn rhaith. Sev yw brenin penraith, brenin neu dywysawg y bo hynav ei oresgyn o'r breninodd cywlad.

64. Tri dyundeb cadarn à ddylit ar wlad a chenedyl y Cymry: dyundeb gwlad a chenedyl, sev cymro y bydd Cymro yn mhob gwlad a chyvoeth yn Nghymru, a chyvua a chyvuuch ei vrait cymmrawd yn un cyvoeth ag yn arall, pa un bynag; cyd y bo iddo ei vrait wahanredawl ar dir yn nghyvoeth ei arglwydd llŷs a henyw o heni.

Ail yw dyundeb teyrnedd; sev nis dylit namyn un brenin Cymru oll; a hwnw vydd yr hynav ei oresgyn o'r tywysogion cywlad, a gair ei air ev ar bob tywysawg arall; sev hyny yn nygynnull cywlad, ac nid yn amgen; canys yn mhob amgen, gair ei air ev tywysawg ac arglwydd cyvoeth llŷs a gorsedd arall yn Nghymru o vewn ei

<sup>1</sup> Mae gwll yn hwn.

wlad a i gyvoeth ei hun dan ei thervynau; a'r hynav ei oresgyn á elwir brenin Cymru oll, a brenin Cymru benbaladr: sev yw Cymry penbaladr, holl grynsyrth cenedyl y Cymry yn eu holl gyvoethau dan eu thervynau, gymmraint a chymmrawd, un ac arall, yn mhob un, ac yn mhob arall o'r cyvoethau; namyn daodd a breiniau priodolion a gwahanredawl anghychwynawl; mal y bydd tir, a swydd gwlad a llŷs; achaws hyny diarheb yw "Rhydd i Gymro pob gwlad yn Nghymru." Ac ar y brenin penraith y mae cyfraw a lluniaethu rhaith cywlad, à elwir gorsedd ddygynnull, a gorsedd cywlad, a gorsedd cinghyd cynnal, a gorsedd benbaladr, a rhaith Cymry benbaladr. Ac nis gellir ar un yn wahanredawl, ai gwr ai gwlad y bo, à ddylit ar oll o baladr ac yn benbaladr.

Trydydd, dyundeb cyvraith, a baint, a brawd: sev yr un gyvraith á ddylit yn mhob gwlad yn Nghymru; a chymmraint, a chymmrawd, a Chymro pob cynhwynawl o genedyl y Cymry, yn mhob gwlad a chyvoeth yn Nghymru, yn gystal ac arall; sev gwlad i bob Cymro pob gwlad yn Nghymru, heb yn amgen dim, namyn priodolion gwahanredawl anghychwynawl; am hyny y dywedir gwlad Gymru benbaladr, a chenedyl Gymry benbaladr, a baint Cymry benbaladr.

65. Tair baint gynhenid pob Cymro cynhwynawl; ac eisoes dan enw Cymro y cauir ar Gymraes: cyvarwys a thrwydded pumerwi rhyddion yn mraint ei hân o Gymro cynhenid; ac epil aillt ac estron a'i cáant ar y pedwerygwr o briodasau teilyngion; sev yn ngrádd goresgynydd; baint arvau difyniadawl, a'u harwyddion, sev nas dylit hyny namyn i Gymro cynhwynawl o vonedd gwarantedig; a baint rhaith yn nawdd ei bencedyl, ac yn oed barv a'u dodir ar Gymro, ac ar Gymraes ban wr o.

66. Tri thaiawg y sydd, ac nis cyrchant vonedd a baint Cymro cynhwynawl hyd yn mhen y nawved âch: cyntav yw cyswynvab y bo mab à water yn gyvreithawl gan ei dád; neu o vôdd arall, herwydd cyvraith, achaws nas ganed o briodas deilwng a dosparthus; neu yn amgen o vôdd, yn erbyn cyvraith a baint gwlad a chenedyl; ail, gwr à gollo drev ei dád a'i vrait, yn gosp am ddrwygweithred, à vo eneidvaddeu, neu arall o ddrwg cospiadawl a'i govyn; ac aillt, neu estron à wladychu yn Nghymru: ac ni chyrch un o naddyt vrait a bonedd Cymro cynhwynawl hyd yn mhen y nawved âch. A'r drevn hon á ddoded yn nghyvraith am dri achos. Sev—

67. Tri achaws taiogaeth y sydd ar wyr annosparthus na bont yn wŷr cyvaith a a chymmrawd: rhagvlaenu brâd gan estronion a'u cyswyniaid; rhag cafael o alltudion tirodd y Cymry cynhwynawl; a rhag anmhrïodasau, a geni plant yn annosparthus ac yn anghyvreithus o gyswyn godineb ac ymorddechu llwyn a pherth. Sev gan y rhyw gyspwyllau, bernir yn cillion estron a'u hepil; cyswynvab á water a'i epil, a drygwyr cywlad a'u hepil, hyd yn mhen y nawved ách: ac ar bob aillt a thaiawg y mae bod yn wr twng a damdwng arglwydd y cyvoeth, a'i arglwydd priodawr; sev ei brïodawr un a'i cymmero yn ei nawdd, ac à ddoto iddo dir yn daiawdrev: ac wrth ewyllys a chênad hwnw y bydd mab aillt, oni chyrrho vonedd a braint Cymro cynhwynawl; sev y gellir hyny ar ei bedwerygrw o'i epil o brïodasau teilyngion á Chymraesi cynhwynawl. A llyma y modd y dosparther y priodasau hyny, nid amgen—

Mab Aillt, yn wr twng i arglwydd y cyvoeth, á brioto Gymraes gynhwynawl o vodd ei chenedyl, á vydd o'r brïodas hño yn mraint yr ail rádd ách a bonedd; ar eu meibion hwy ve saiv braint y drydedd rádd; ac un o'r rhai hyny o ymbriodi á Chymraes o waed teilwng á gyrch y bedweredd rádd; mab o'r brïodas hño á saiv yn mraint y bummed rádd; sev yw hwnw wŷr y mab aillt cysevin; a'r mab hwn o ymbriodi á Chymraes gynhwynawl, á esgyn hyd yn mraint y chweched rádd achau; a mab i'r brïodas hño, sev orwyr y mab aillt cysevin, á vydd o'r seithved rádd; ac o ymbriodi á Chymraes gynhwynawl eve á gyrch yr wythved radd yn mraint ei wraig; canys braint i bob Cymraes gynhwynawl yru grádd ar ei gwr o vab aillt á ymbrioto hi ag ev; a mab i'r orwyr hwn, o'r brïodas gyvryw, á gyrch hyd yn mraint y nawved ách; ac am hyny a'i gelwir ev GORESGYNYDD; canys goresgyn ei dir á wna; sev ei drwydded o bumerwi rhyddion, a'i gyvarwys, a'i vraint o bencenedyl, a phob cymmrawd arall á ddylit i Gymro cynhwynawl; a chyf cenedyl y bydd ev; sev y saiv yn mraint pencedyl iddei epil, a hevyd iddei hynveiaid; canys y neb á vo byw o naddynt, megis tád, neu hendad, neu orhendad, ac nid tros hwnw yn mbellach, á gafant yn eu goresgynydd braint Cymry cynhwynolion; ac nid mab ei dád a'i gelwir ev yn nghyvraith, gan hawl a dadlau tŷr, eithr ei oresgynydd; a goresgynydd ei hendad yw ev, a hevyd goresgynydd ei orhendad, a goresgynydd ei ewythredd, a'i

gevnderwydd, a'i gyverddyron, lle bont un ac arall o brïodasau teilyngion; a'r goresgynydd á vydd bencenedyl iddynt oll, wedi dyvod o hono hyd yn nghyvlawnoed gŵr; a gŵr a châr pob un o henynt hwy iddo ev; a gair ei air ev arnynt un ac arall; ac nis dylit gyru twng a damdwng arno; sev cyd y cyrchont genedyl y goresgynydd, a'u breiniau yn rhyddion yn nawdd a braint eu pencedyl, ni chafant eu tirodd namyn á gyrchont yn wahanredawl grádd neu vraint y nawved ách, sev goresgynydd.

68. Tair celvyddydd vreiniawl y sydd, a braint trwydded, nid amgen no phumerwi rhyddion tir a chyvarwys i bob un o naddynt; sev i bob gwr a'u gwypont yn warantedig, ac a'u gwasanaethont, yn wahanred, ac yn amgen no'r tŷr á ddylit iddo yn mraint Cymro cynhwynawl: sev ydynt barddoniaeth, ferylltaeth, a llenoriaeth, neu lyvryddiaeth; sev y dylit iddo ei bumerwi rhyddion yn mraint y gelvyddydd i bob un á vytho yn ansawdd ac yn ngwasanaeth un neu arall o'r celvyddyddau hyny yn warantedig o athraw a gwybodau; ac ni ddylai un gwr ymarver á dwy gelvyddydd; ac o gwna ev hyny, nid iawn iddo vraint trwydded ar amgen noc un o'r ddwy; ac nis gallawr un á wasanaetha ddwy gelvyddydd, neu ddwy swydd ar unwaith, yn gyviawn a dosparthus.

69. Tair celvyddydd ni ddylai meibion aillt eu dysgu heb genad eu harglwyddi priodawr, ac arglwydd y cyvoeth: nid amgen y tair celvyddydd vreiniawl, sev barddoniaeth, ferylltaeth, a llenoriaeth; ac o goddev ei arglwydd priodawr a'r brenin i vab aillt ddysgu un o'r tair celvyddydd hyn, a goddev hevyd i un neu arall vyned yn ansawdd ac yn ngwasanaeth y celvyddyddau hyny, ac yn eu braint yn warantedig o wybodau, ni ddylit herwydd cyvraith eu hattal, namyn gadael iddynt, a rhyddion tra vytho byw pob gwr yn mraint celvyddydd vreiniawl, a rhydd iddo yn mraint ei gelvyddydd drwydded o bumerwi rhyddion; canys braint bonedd á ddoded ar gelvyddyddau a gwybodau moliannus er yn oes oesodd, er cyvannedu a gwerinaw gwlad a chenedyl, ac er cynneddvoli moesau ac arverau syberwyd a doethineb, a'u dysgu yn ddosparthus, ac er cyvnawdd yn nhangnev a chymmrawd i wlad a chenedyl a'u cywiriaid; can nis gellir cyvannedu a gwerindawd tangnevus heb gelvyddyddau a gwybodau moliannus; ac ernynt nis gellir cadernid heb vraint boneddwr a'u gwasanaethwynt. Achaws hyny barn cyvraith a chymmrawd yw nas dylit nac attal, na

gwahardd, na divreiniaw celvyddyd nac ychwaith y neb a'i gwasanaetho.

70. Tri mab rhydd o gaeth y sydd: nid amgen, bardd, feryllt, a gwr llên, o veibion eillion; sev cyd y bo caeth y tād, a mab aillt neu daiawg, rhydd vydd y mab à ddyel yn ansawdd, a gwasanaeth, a brait o swydd un neu arall o'r tair celvyddyd vreiniolion; a rhydd tra bo byw; ac iawn iddo yn mraint ei gelvyddyd ei bumerwi rhyddion; sev nis dylit na chaeth na divraint à wypo, ac à vedro wasanaethu celvyddyd yn warantedig o wybodau. Eisioes, cyd y bont ryddion y cyvryw wŷr wrth gelvyddyd, caethion a meibion aillt vydd eu meibion hwy; ac ev a'u gelwir tri mab caeth o rŷdd; ac eillion vyddant oni chyrcer grâdd goresgynydd ar âch a bonedd, ac o hyny brait Cymro cynhwynawl. Eisioes doethion á ddywedant y dylit grâdd angholladwy ar gelvyddyd vreiniawl; achaws hyny barn yw mai nes vydd yr hiliogaeth i rádd goresgynydd o gafaeliad brait celvyddyd; a lle nis gellir namyn ar y pedwerygwr brait goresgynydd o âch ac epil a phriodasau, ev á ellir hyny ar y trydygwr yn mraint celvyddyd; canys pob gwasanaeth celvyddyd vreiniawl á ddyddwg ei grâdd yn nês at oresgynaeth gynhwynawl no pheí heb hyny y bythawr; canys iawn i gelvyddyd vreiniawl ei grâdd yn nhreigl bonedd hyd oresgynaeth; sev y dywedir, o chaniatâa yr arglwydd priodawr, a'r brenin, i vâb y mab rhydd o gaeth vnyed yn ansawdd, a gwasanaeth, a brait un o'r celvyddydau breiniolion, a bod gyda hyny priodasau yn deilyngion, nis gellir caeth ar un o'r epil wedi hyny. Ac val hyn, sev yn nawdd a brait celvyddyd vreiniawl, y cyrch cenedyl eillion oresgynaeth a brait Cymry cynhwynawl ar y trydygwr: sev iawn i gelvyddyd ei brait a'i thrwydded o bumerwi rhyddion yn wahanred á brait âch a bonedd o waed cynhwynawl. A grâdd á ennillawr o gelvyddyd vreiniawl, ni syrther o heni, ac ni ddygwydd hi oddiar y genedyl.

71. Tair cangen celvyddyd barddoniaeth: cyntav, privvardd, neu vardd trwyddedawg o vraint, ac iddo ei rádd a'i vraint, o drovedgaeth gan athraw gwarantedig o vardd gorseddawg; ac arno y mae pob côv celvyddyd a gwybodau hyd y bont yn ei swydd ev o vardd gwarantedig o rádd a brait; a hevyd pob cov a chadw gwlad a chenedyl ar briodasau, ac achau, ac arvau, a rhandirodd, a breiniau gwlad a chenedyl y Cymry.

Ail, ovydd, a'i rádd iddo yn mraint

awen a gwybodau moliannus à ddangoso yn warantedig, ac ydd atepo am danynt yn brawvedig gerbrôn gorsedd beirdd ddevodawl a theilyng, neu llen a bo hòno, eisteddvod gyvreithawl warantedig o rôdd cenedlad arglwydd y cyvoeth, neu ddeuddeg o'i yngnaid llŷs ev, neu ddeuddeg brawdwr llŷs yn y bo devodawl hyny; ac nis govyner trovedigaeth arno, nac amgen yn hawl na gwybodau gwarantedig; a hyn er cyvrawdd gwybodau rhag nas cefid athrawon devodolion, ac o hyny myned gwybodau a chelvyddyd côv a doethineb ar gyvargoll, o ddfify athrawon a throvedigion dosparthus; ac eisioes er gweláu a mwyaú gwybodau celvyddyd, o ddodi pob newydd arnaddynt, wrth varn athrawon a doethion, ac o hyny eu cadarnâu a'u breiniau yn warantedig, a hevyd rhag cau yn erbyn gwybodau doethineb à ddelawr o syrth anianawl awen ac athrylith reddvawl.

Trydydd, derwyddvardd, a hwnw á vydd o vardd gorseddog graddedig a gwarantedig o ddoethineb, a gwybodau, ac o davawd i ddangaws barn a phwyll ar wybodau; a'i swydd á vydd yn mraint rhodd o bwyll a chenedlad gorsedd ddevodawl yn warantedig o raith gorsedd gan goelbren; a'i swydd dodi addysg, a dangaws gwybodau doethineb a dwyvoldeb, yn ngorsedd beirdd, ac yn llŷs, ac yn llân, ac yn y teulu y bytho ynnod ei swydd yn drwyddedawg. Ac iawn a chyvraith i bob un o'r tri hyn ei bumerwi rhyddion yn mraint ei swydd celvyddyd yn wahanredawl rhag à ddyllit iddo yn amgen yn mraint Cymro cynhwynawl; sev ni ddfydd brait gynhwynawl un celvyddyd; nac un celvyddyd y gynhwynawl.

72. Tair cangen llenoriaeth y sydd: nid amgen tavodawg cyvraith, sev hyny à vytho yn davodawg y rwng Cymro ac alltud anghyviaith; à vetro arwyddaw arvau a gweithredodd moliannus, a dichweiniau rhyveddolion yn a'u dealler gan a'u gwelont; ac ev á elwir y rhyw un á hwnw, arwyddvardd; ac yn drydydd, à vetro ar lyvyr a llythyr, ac ysgrivênu a darllen y Gymraeg yn gyviawn, a dodi addysg ar hyny, a chadw côv llythyr ar dri chôv beirdd Ynys Prydain; sev ydynt achau bonedd o briodasau, a rhandirodd, a gweithredodd a gwybodau moliannus. A brait i bob un o'r tri hyn ei bumerwi rhyddion yn mraint a nawdd ei gelvyddyd, yn amgen noc à gafu yn mraint Cymro cynhwynawl; ac eve á vydd yn wr llŷs gwlad ac arglwydd, ac yn ewyllys y llŷs a'i hyngnaid a'i brawdwr, yn nyddiau llŷs a gor-

sedd, gan ddosparth cyvraith; ac am addysg à ddotawr, iawn yw trwydded a rhoddion yn mraint ammod yn wahanredawl.

73. Tair cangen ferylltaeth y sydd o briveinciau; nid amgen, gôv, maensaer, a phrensaer; neu o vodd arall, govaniaeth, saerniaeth coed, a saerniaeth cêryg; a gogymmraint y tri; ac iawn i bob un à wasanaetho un o'r tair celvyddydd hyn ei drwydded cyfarwys o bumerwi rhyddion, yn amgen noc à ddylit iddo yn mraint Cymro cynhwynawl, a bod yn ngwyllys yr arglwydd cyvoeth i ddodi addysg ar eillion y brenin, neu yr arglwydd, ac ar à yvynawr o'i daigion dan dervynau cyvraith; sev yn nawdd nas doder grâdd celvyddydd ar nebawr o naddynt, namyn drwy gênad yr arglwydd priodawr a'r brenin.

74. Tri rhyw y sydd ar gelvyddyddau cynhwynawl cenedyl y Cymry: celvyddyddau doethineb, ac ar veirdd gorseddogion y cêv a'r cadw ar addysg gan athrawon gwarantedig o swydd wrth gelvyddydd barddoniaeth; celvyddyddau ferylltaeth, ac ar ferylltiaid y cadw a'r addysg gan athrawon gwarantedig o swydd; a chelvyddyddau teuluaid, ac ar y pencenedlodd lluniaethu a gyru addysg gan benteuluodd dan dervynau cenedyl hyd y nawved âch, a grâdd carenydd.

75. Tair celvyddydd deuluaid o briveinciau y sydd: llavuriaeth, sev aru tîr, maeronaeth, a gwëyddiaeth; ac ar y pencenedlodd gyru addysg arnynt, ac ateb o hyny yn llês ac yn llàn, ac yn mhob cyrch golychwyd.

76. Tair celvyddydd llês y sydd: yngneidiaeth; cyvarwyddydd ar ddosparthau a threwnau gwlad a chyvraith a chôv cadwedig arnynt; a chênadwriaeth gorwlad.

77. Tair celvyddydd ddinesig y sydd: meddyginiaeth, cynnewidiaeth, a llongwriaeth; a braint dinas wahanredawl i bob un o henyt; sev y bydd braint dinas o rodd cenedlad arglwydd y cyvoeth yn warrantedig o yngneidiaeth, ac yn wahanred rhag breiniau cyfredinion gwlad a chenedyl, er cynawdd cynnewidiadau dosparthus yn mraint cyviawnder.

78. Tair braint gyfredin dinasodd: nas gyrrer swydd ar a'u cyvanneddont amgen noc à ddylit arnynt yn mraint a than dervynau eu dinasdreydd; nawdd nas gormeser ac nas argywedder alltudion anghyviaith à gyrchont y dinasodd er cynnewidiadau; ac nas dylit marchnadodd breinolon namyn yn y dinasdreydd teilngion.

79. Tair celvyddydd voneddig y sydd:

arvan, marchogaeth, a helwriaeth; ac nid rhydd namyn i Gymro cynhwynawl un o'r rhai hyny.

80. Tair priv vraint pob Cymro cynhwynawl: goresgynaeth ar bumerwi rhyddion yn nhrwydded; braint cyfraw rhaith gwlad yn nawdd ac yn mraint ei bencenedyl; a braint clud cywlad, sev yw hyny ymsymmud i'r mân y myno yn nghywlad heb goll braint a brawd, oni bydd swydd gwlad a llês arno, a lle bo, deddv arno ei gwasanaethu, ac nas dylit ei hebgor yn ngwlad.

81. Tri pheth y dylai pob Cymro tir-iawg eu cadw a'u cynnal: gwraig briawd, gwr arwawg lle nas dyco arv ei hunan, ac athraw teuluaid.

82. Tri pheth nid iawn y naill heb y lleill o honynt: glyw, glew, a gwlad; sev o'r tri y bydd nawdd, nerth, a meddiant yn ddosparthus a chadarn.

83. Tri chyvarwys Cymro cynhwynawl: pumerwi rhyddion, cyvar gobaith, a helwriaeth.

84. Tri chyfredinion cywlad a gorwlad: priv avon, priv fordd, a chyrch golychwyd; ac yn nawdd Duw a'i dangnev y byddant y rhai hyny, cyd nas noether arv gan a'u cyrchont yn erbyn à gyvarvyddont; ac à wnelo hyny ai brodor ai estron y bo, hawl galanas gan gwyn arno gan arglwydd y cyvoeth.

85. Tri breiniau gwlad: bardd, golychwydwr, a phencenedyl; ac nis dylit braint cênad gorwlad namyn i un o'r tri hyn; ac nis dylit arv noeth yn erbyn un nac arall o'r tri hyn, ai yn rhyvel ai yn heddwch y byddai gwledydd a chenedlodd y breiniolon hyny; canys heb vraint a nawdd ar ddoethineb, a dwyvoldeb, a gwylodau gwladawl, nis gellir tangnevu cenedlodd yn rhyvel; achaws hyny, anhebgor gwlad a gorwlad yw nawdd a braint i genadon gorwlad ymgyrch yn hedd a diogelwch, cyd y bont warrantedig o swydd herwydd devodau cynghrair.

86. Tri chyfredinion gwlad: cammawn, dadlaw, a golychwyd; canys gwfs à saiv ar bawb iddynt o Gymry cynhwynawl; sev a'u gelwir y tri chyrch cyfredin.

87. Tri chyvanneddrwydd gwlad: plant bychain, cwn, a cheiliogau; a lle a'u cafer y tri hyn, iawn yw i'r lle hyny vraint llês a llàn; ac o hyny holl vreiniau gwlad gyvannedd.

88. Tri anhebgor cenedyl: ei phencenedyl, ei dialwr, a'i theisbantyle. Pencenedyl à vydd hynav o wr cyvallwy yn y genedyl hyd y nawved âch; a'i vraint a'i

swydd yw cyfiaw gwlad a llŷs yn rhaid ei wr; a thavodawg ei genedyl yw ev yn rhaith ddygynnull gwlad a chywlad, a deddwr bob gwr o'r genedyl ei wrandaw ev, ac iddo ev wrandaw ei wr. Dialwr cenedyl a'i dwg yn nghad a rhyvel yn y bo achaws, ac á ymlid ddyrgweithredwyr, ac a'u dwg ger bron llŷs, ac a'u cysp wrth varn llys a brawd gwlad. Teisbantyle, sev yw hwnw gwr cyvrwng yn llŷs, ac yn llàn, ac yn nghammawn, ac yn mhob pell-enigaeth; ev á vydd o ddoethion y genedyl gan raith penteuluodd y genedyl, ac yn gydygvarail á'r pencenedyl yn mhob rhaith a dygynnull gwlad; a'i vreiniau gan raith ei genedyl hyd nawved ách, y gan goelbren, sev hyny rhaith avlavar.

89. Tair cyvlavan á bair i vâb un a'i gwneilo gollu ei drev tād, a syrthiaw i rádd ac anmraint alltud hyd yn mhen y nawved ách, neu gyrchu ar ei bedwerygwr grádd goresgynydd o briodasau teilyngion; lladd ei pencenedyl, lladd ei arglwydd, a lladd ei deisbantyle; rhag trymed y galanasau hyny.

90. O dri pheth y cyll Cymro vraint ei wlad a'i genedyl: cwbl gargychwyn i wlad estron, cwbl gyvyndanc ag estron á vo yn rhyvel á chenedyl y Cymry, a chwbl ymrodd i lu gortrech gorwlad ar genedyl y Cymry; sev yw hyny brád gwlad ac arglwydd.

91. O dri pheth ydd ennill Cymro vraint ei wlad a'i genedyl á golles eve: cwbl garddychwel o wlad estron dan ddamdwng a gwystlon hyd yn ngrádd goresgynydd; ac yna difydd gwystleidiaeth; cwbl gargoll dros Gymry a Chymro lle bytho yn ngwlad estron; a chwbl ymwrthladd á llu gortrech lle galleid iddo ddawn a braint o lwyrr a chwbl ymgyvladd ag wynt.

92. Tair hawl goresgyn gyfredin ar dir y sydd: hawl etivedd gwarantedig o gôv a chadw llŷs a llên yn warantedig; hawl mâb aillt ar ei bedwerygwr cynhwynawl; a hawl prid cyvreithawl gan varn llŷs ac ynad i wr damdwng y brenin, neu i Gymro cynhwynawl.

93. Tair hawl goresgyn wahanredawl y sydd ar dir: hawl etivedd cyvreithawl yn atychwel o wlad estron neu alltudedd, lle a'i barnwyd yn ngholl gan varwolaeth, a chael o arall ei dir o varn llŷs a brawd; a hawl gwrthriviad, sev hwnw etivedd cysevin á wrthbrito dir ei genedyl á brided dan gôv a chadw a chlyw gwlad, lle dangoso ei vonedd yn warantedig, a dodi y gwrthbrid yn llaw ynad y llŷs y bo ynddi yr

hawl a'r ddadl; ac o hyny cyvraith á ddywed iawn iddo ei dir, a'r ynad á ddyrydd dros hyny y gwrthbrid i ai dylai; a hawl mâb aillt ar ei bedwerygwr cynhwynawl, sev yw hyny goresgynydd cyvraith o briodasau teilyngion, ac eve á ddylai dir trwydded yn rhydd ac yn mraint cymmrawd y gan yr arglwydd á vo brenin y tir a'r llŷs a'i barn, ac a'i dod iddo dan dervynau.

94. Tair dadl an dir á ddylyt eu barnu gan wlad yn rhaith tri channyn, lle a'u gwrthrymer: dadl mâb aillt ar ei bedwerygwr o briodasau cynhwynolion yn hawl ei bumerwi rhyddion; dadl carddychwel o wlad estron yn dangaws dau dyst yn warantedig ei bentanvaen, neu ei esgynvaen, neu ei vaen tervyn; a hyny yn warantedig o gôv, a chadw, a chlyw gwlad, a gwybyddiaid coeladwy; a dadl gwrthriviaid; sev yw gwrthriviad, etivedd cysevin á ddoto yn llaw ynad, neu ger bron llŷs brawd a chyvraith, y gwrthbrid i á brynes tir ei genedyl dan gôv gwarantedig, sev oes gwrthriviad á vydd gan á bryno dir ar y goresgyn, a hyny á vydd yn y delo y gwrthriviad yn warantedig o etiveddiaeth, a dodi cyviawn wrthbrid i á ddalio y tir ar y pentanvaen, neu ar esgynvaen, neu ar vaen tervyn y tir, neu ar y maen gwyn nesav á gefir i'r lle, neu yn llaw ynad llŷs y cwmwd, neu ar glawr ger bron y llŷs; a lle gwneilo hyny, gwlad á ddywed y dylit iddo ei dir, ac i'r gwrthrym y gwrthbrid.

95. Tair dadl y dylit eu barnu gan ddedryd a rhaith gwlad yn erbyn haerllydrwydd: dadl am wystleidiaeth lle ydd ymwystler á'r brenin; dadl y bo ymddifyn neu wád am dir ynddi; a dadl o wrthrym brenin yn erbyn cyvraith; a'r cyfraw ar pencenedyl gwr á ddyco yr hawl, yn llŷs ac yn llàn, ac ar osteg a rhybudd cyvreithawl undydd a blwyddyn.

96. Tri chyveiliorn cyvraith y sydd: hawl anhysbys, ateb anghwbl, a chôv anghyttyst.

97. Tri gwared y sydd rhag y tri chyveiliorn: cadw a chynnal côv dosparthus ar ách a bonedd gan briodasau teilyngion; ac ar randirodd a'u perthynasau, ac ateb cwbl, a chan dyst gwarantedig, a chan á gatwawr y côv yn warantedig, ai o yw ai o varw y bo; a rhaith gwlad gan gyfraw pencenedyl y neb á ddyco yr hawl yn llŷs. Sev achaws anhysbysder hawl y dosparthus ac y cadarnâwyd ar veirdd, gwarantedig o vraint a gradd gorsedd, yn wahanredawl y cadw ar ách a bonedd, ac ar randirodd; ac wrth hyny côv meini pentan, a

thervynvain, ac esgynvain, ac am a'u symmutai yn anghyvareh llŷs ac yngnaid.

98. Tri anghydwybod cyvraith: tervynu yn gwbl cyn ymoven yn drychwil am wirionedd; barnu ar draws anian a syrth anesgorawl dichweiniau ac amserau; a chymhell dŷn er ei avles lle na bo na chyvraith na chyviawn yn gyvlavar â'r varn à gymhellawr.

99. Tri pheth à gadwant gôv tir a thyle, ac á savant yn mraint tystadon: pentaenvaen, meini odynd, ac esgynvaen; canys nod y genedyl á vydd ernynt; a hawl lledrad vydd ar a'u symmuto heb genad arglwydd y cyvoeth, gan varn llŷs a chyvraith; achaws tystion cedeirn ydynt, ac enaidvaddeu pob un à ddinstrio dystiol-aeth gadarn.

100. Tri maen arall y sydd á hawl lledrad ar a'u symmuto; maen tervyn, maen gwyn gorsedd, a maen gobraith; ac enaidvaddeu à wnelo hyny.

101. Tri pheth ni ddylit heb genad arglwydd a'i llŷs: adeilad yn ngobaith, aredig yn ngobaith, a digoediaw tir gwyllt yn ngobaith; a hawl lledrad ar a'u gwnelo; canys gwlad a chenedyl yn gyfredin bieu-fynt pob gwyllt a gobraith; ac nid iawn meddiant wahanred i nebun ar vavr na bychan o'r cyvryw dirodd.

102. Tri pheth rhydd i bob dŷn, ai brodor ai estron y bo, ac nid iawn herwydd cyvraith eu hattal: dwr o fynon, neu o nant, neu avon; tanwydd o geubren; a maen na vo yn ngwaith.

103. Tri pheth ni ddylit eu dwyn i wlad estron heb genad gwlad ac arglwydd: aur, llyfrau, a gwenith.

104. Tri pheth nis dily. mab aillt eu gwerthu heb genad ei arglwydd priodawr, rhag y prynai eve hwynt gantho: gwenith, mêl, a meirch; a lle nas pryno ei arglwydd wynt, rhydd iddo eu gwerthu lle y myno, cyd nas gwertho i wlad estron.

105. Tri dŷn à dalant alanas ac ni chant rân o alanas: gwraig, ysgolâig, a dŷn ni thalo geiniog baladyr.

106. Tri dŷn y dylit eu cadw rhag arvau: caeth, mab cyn pedwar ar ddeg oed, ac nvydd cyhoedd ar byst gwlad ac arglwydd.

107. Tri dŷn nis dylit gyru arvau arnynt: bardd gorseddawg, ysgolâig llŷs a llân ac ynad; gan nas gellir eu hebgor yn eu hawsawdd a'u swyddau, ac am nas dylit ar y llaw à vytho yn mraint Duw a'i dangnev gan gelvyddyd a gwybodau dwyvolion, a chan swydd yn rhaid gwlad a chenedyl.

108. Tri dŷn à gadwant vraint llŷs ar y

tŷ neu y lle bynag y bwynt yn ngwrthwydd y brenin neu arglwydd y llys: ynad llŷs, golychwydwr llys, a'r rhaglaw; sev bynag o van neu dŷ y bwynt y tri ynghyd, braint llŷs ar y lle hyny, cyd na bai cyttrych y brenin.

109. Tri dyn nid á cyvraith arnynt: meddw, llai na phedwar ar ddeg oed, ac á gymhellawr o'i anvodd i wneuthur anghyvraith.

110. Tri dŷn ni ellir canlyn cwynau ernynt yn unig ac yn odidogion: gwraig heb ei gwr, mab dioedran heb ei dád, a mab aillt heb ei arglwydd priodawr.

111. Tri dŷn nid gair eu gair ar ddim yn y byd: golychwydwr gwedi y tðro ei gynghrair; tyst à gavwyd yn anudon à ddywed yn llŷs, neu yn arall o van, ar grair; a lleidr cynnevodig cyhoeddgwbl.

112. Tri dŷn nid oes sarâd iddynt: c'avr, ynvyd cynhwynol, ac alltud na vytho yn wr priawd Cymraes gynhwynawl; sev eisioes y bydd gwerth cyvraith ar bob un onaddynt, a dirwyawg à wnelo gam ag wynt, ac a'u drygont yn nghorf a meddiant.

113. Tri enw rhybuddiwr gwlad: garwgchwedyl, gwaedd gwlad, a rhingyll; a rhydd i hwnw fordd a diarfordd ddydd a nôs ba le bynag ydd elo yn ei swydd, cyd y bo yn ei law ei gorn dan nôd arglwydd y cyvoeth.

114. Tair gorsav arv y sydd, sev nas dycer yn llaw neu yn noeth: un yw crych golychwyd yn mraint beirdd Ynys Prydain dan nawdd Duw a'i dangnev; ail yw yn ngorsedd gwlad, a llŷs gwlad ac arglwydd; trydydd, arv gwstai yn ei lletty dan nawdd Duw a'r brenin.<sup>1</sup>

115. Tri rhyw wr y sydd: alltud cynhwynawl, sev hwnw estron ogysevin hanvod, neu vab, neu wŷr iddo, a phob un o vamau estronion; mab aillt mamwysawl, sev á vo ei vam yn Gymraes gynhwynawl, ac eillion yn mraint mamwys a'u gelwir y cyvryw; a brodorion, sev yw brodorion Cymry cynhwynawl, heb gaeth, heb alltud, heb ledach, yn y gwaed, ac ar y pedwerygwr y saiv braint brodor neu Gymro cynhwynawl ar aillt o vamwys cynhwynawl.

116. Tair gwraig y dylai eu meibion vamwys herwydd cyvraith: mab gwraig à rother i alltud o vodd ei chenedyl, mab gwraig à wystler yn ngwlad anghyviaith o beichioger hi yno, gan ei gwystlaw o'i chenedl a'i harglwydd; a gwraig y dyco alltud drais erni; sev y dylit i veibion y

<sup>1</sup> Gwel Driodd Addwynder.

gwragedd hyny drev eu mamau, ac nis dylit ei oedi hyd y nawvedydd, drev ei vam i un o'r meibion hyny.

117. Tri cheidwadaeth tîr y sydd: arglwydd á geidw y tîr à ddisgyno iddo o varwolaeth perchenawg ni adnaper ei etiveddion, hyd oni ddelo etivedd gwarant-edig iddei ovyn; a thîr Cymro cynhwynawl à gollo ei dîr a'i vrait hyd yn mhen y nawved ách; a thîr mâb dioedran yn y delo i oedran goresgyn.

118. Tri gwad cyswynblant: tâd, os byw, ar ei lw ei hunan; lle bo marw y tâd, pencenedyl a seithlw cenedyl gantho a'u cymmer ac a'u gwâd; lle na bo pencenedyl llw dengwr a deugain o'r genedyl a'u gwâd; a chyswynvab á wedir, mab aillt a chaeth a'i bernir hyd ei bedwerygr, neu hyd oresgyn nawvedydd.

119. O dri pheth ni ellir gwadu mâb o genedyl: ei eni yn y gwely cyvreithawl a'i vagu undydd a blwyddyn heb wâd; rhoi gwerth er ei vagu cyd bo mab llwyn a pherth; a'i gymmeryd ar osteg; a gwedi un o'r tri hyn nis gall y tâd ei wadu.

120. Tri chymmeriad à vydd ar vâb: un yw ei dâd, a'i lw ev ei hunan a'i gwad neu a'i cymmer; ail yw lle na bo byw y tâd, pencenedyl ar ei seithved o wîr twng o'r genedyl a'i gwad ac a'i cymmer; trydydd, oni bydd pencenedyl, un gwr ar hugain o'r genedyl a'i gwad ac a'i cymmer; sev saith yn lle y tâd, a saith yn lle y pencenedyl, a saith gyda'r pencenedyl, ac nid rhaid tyngu drwy beredd a phervedd, namyn hyd eithav rhyn pwyll a chydwybod. A lle a'i cymmerir, val hyn a'i gwneir; sev y pencenedyl a'i cymmer gervydd ei law ddehau á'i law ddehau, ac a'i rhydd yn llaw y gwr hynav o'r seithwyr; ac velly o hynav i hynav hyd yn mhen y seithved gwr; ac nid oes na nôd na dinod ar y gwîr hyny, namyn eu bod yn henuriaid y genedyl, ac nas dylent rânu tîr ag ev, ac yn ogydderded ag a'i cymmerir ac a'i gwedir.

121. Tair fordd y dialluder dîn: tâd ar ei lw ei hunan, lle bo y tâd hwnw yn vrodor o Gymro cynhwynawl; pencenedyl ar ei seithwyr cyttwng; ac ar à ddywetont dengwr cenedyl a deugain ar lw gan rîfyn pwyll a chydwybod; ac yna brodorawg vydd.

122. Tri llw gwared: llw pencenedyl a'i saith henuriaid cynghenedyl; llw henuriaid cynghenedyl yn dri seithwyr; a llw gwlad yn ddengwr a deugaint; a lle nis gellir y cyntav, rhaid vydd yr ail; a lle na bo yr ail, yna y trydydd.

123. Tri phrawv dîn ar ei lw ei hunan:

gwraig am drais gwr, hwrdd a chyrch anghyvarch ar ddîn, a thâd yn gwadu neu yn cymmeryd mâb, sev cyswynvab.

124. Tri etivedd y sydd: mâb o brîodas gynhwynawl; mâb cyswyn à gymmero y tâd ar ei lw er cæl etivedd, sev ni saiv hawl a dadl ar vonedd cyswynvab à gymmerawr ar lw tâd; a mâb o genedyl lle na bo na mâb prîodas na chyswynvab.

125. Tair merched ni thalant amobrau: merch brenin neu arglwydd cyvoeth, merch edlin, a merch pencenedyl.

126. Tair breniniaeth y sydd: tywysawg hynav ei oresgyn yn benteyrnedd; arglwydd cyvoeth gorseddawg yn vrenin yn ei lîs; a phencenedyl yn rheol a chyvnawdd ei genedyl a'i geraint; a braint cyfraw gwlad i bob un o'r tri brenin hyny; sev yw cyfraw gwlad, lluniaethu rhaith lle nis gellir iawn yn nghyvraith yn amgen o vodd.

127. Tair pla cenedyl: magu mâb arglwydd, dwyn mâb yn nghan i genedyl, a gwarchadw penrhaith.

128. Tri sarâad gwr: cyvlavan arno, bod gan ei wraig, a thòri ei nawdd gwedi y rhotho.

129. Tri sarâad brenin: tòri ei nawdd, cyrch cyvlavan yn ei wydd, a bod gan ei wraig.

130. Tri gwasanaeth ysgolâig neu wr llên llîs: cadw dadl ar lythyr yn y bo tervyn, dilêu llythyr gwedi tervyn, a bod bob amser yn ei swydd wrth ewylls arglwydd y llîs a'i yngnaid.

131. Tri chyfredin cenedyl: pencenedyl, teisbantyle, a mâb gwraig à rother o vodd cenedyl i estron; sev y cafant bob un o'r tri eu trwydded o creidr y genedyl: sev i'r pencenedyl yn mraint ei riawd, y teisbantyle yn mraint ei swydd a'i ansawdd, a'r mâb yn mraint manwys.

132. Tair aelwyd à ddyly wneuthur iawn tros na bo arglwyddoddev: tâd, brawd hynav, a chwegryn.

133. Tair braint wahanredawl pencenedyl: braint carchar, braint amddifynblaid i ateb gwrthrym, a braint nawdd mâb aillt à gafer gan ei genedyl, val nas cafo gam a thasg nas dylit o gyvraith a chydwybod.

134. Tri rhieni dîn: tâd, hendad, a gorhendad.

135. Tri chydetiveddion gwr: brawd, cevnderw, a chyverdderw.

136. Tri dîn à vyddant enaidvaddeu, ac nis gellir eu prynu: bradwr gwlad a chenedyl, à latho arall o fyrnicder, a lleidyr provedig am werth mwy no phedair bygant.



137. Tri lleidyr ni vyddant enaidvaddeu: gwraig o gyddledrad â'i gwr, mab ducedran, a rheidus am ymborth lleddrad wedi cerdded o hano dair trev, a naw tŷ yn mhob trev, heb gael rhodd er ei govyn.

138. Tri lleidyr camlwrw: lleidyr ei, lleidyr llyisiau gerddi, a lleidyr anivel gwyllt o dir diullan.

139. Tri lleddrad y sydd: cymmeryd yn lleddrad, attal yn lleddrad, a lladd da bywyd-awl yn lleddrad; ac eneidvaddeu pob un o'r tri, ac nis gellir eu prynu.

140. Tri lleddrad prŷn y sydd: lleddrad o dwyll, lleddrad o griddail, a lleddrad o gudd dichweiniau, a'u prynu dros eu gwerth cyvreithiawl dair gwaith.

141. Tri phriodolder y sydd ar bob dŷn: etiveddiaeth, baint, a rhyw; etiveddiaeth â vydd herwydd baint, a baint herwydd rhyw; rhyw, val y mae benyw a gwryw, brodor ac aillt, a hen ac ieuanc.

142. Tri rhydd cenedyl a'i heillion yn mraint mamwys; coed adeilad o goed gwyllt, helwriaeth yn nhir gwyllt, a mes-ori tŷr gwyllt.

143. Tri phriv davodogion llŷs: arglwydd, brawdwr, a mâch.

144. Tri attavodogion llŷs: plaid, tyst, a gwaedd gwlad.

145. Tri thawedogion llŷs: arglwydd yn gwrandaw ar yngnaid a brawdwr, yngnaid a brawdwr yn gwrandaw hawlwr ac amddifynwr, a phawb o naddynt yn gwrandaw tystiadon hyd yn y tawont eu hunain; sev cyvraith â ddywed ni ddylit yru taw ar dyst rhag difawd y gwirionedd.

146. Tri chanol cyvraith: arglwydd i gadarnâu cyviawnder, mâch neu wstyl i gadw cywirdeb, ac yngnad neu vrawdwr cyviawn i amlycâu gwirionedd.

147. Tri dŷn â ddinystriant wlad a chenedyl: arglwydd twyllgar, ynad anghyviawn, a chyhuddwr cyvlog.

148. Tri dŷn â vyddant anrhaithoddev: un na savo wrth varu cyvraith, ac na safu yn wyneb llŷs, ac â latho ei gywlad; sev goddevadwy cyrch anraith arnynt; sev yw cyrch anraith, dwyn yn ngavael y maint â gafer o'u dâodd cynhwynawl, heb werth heb dwng arnynt, ac eneidvaddeu â latho.

149. Tri châs cyhoedd cenedyl: â latho ddŷn o'i gydgenedyl, lleidyr, a thwyllwr; sev a'u gelwir velly am y bydd iawn i ddialwr y genedyl eu cyhoeddi gan gorn gwlad, yn llys, ac yn llân, ac yn mhob tyra ddisparthus, ac ar byst ynvydion y brenin.

150. Tri achaws gosod cyvraith: addysg

er gochel anghyvraith, gwared anghyvraith o darfawr ei gwneuthur, ac er cospi anghyvraith yn ol y bai ag y dylit.

151. Tair ceinmyged cyvraith: gwared rhag anraith, cospi drygwaith, a chadarn-âu iawn am anghyvraith, er cynnal iawn a thangnev cynmrawd ar wlad a chenedyl, o'r tri pheth hyn.

152. Tri bonedd cyvraith: devod gwlad a chenedyl cyn côv, dosparth gwlad a chenedyl ac arglwydd yn rhaith dygynnul gwlad a chenedyl benbaladyr, a chyviawnder wrth bwyll, ac ansawdd, a gorvod: neu val hyn y dywed ereill o ddoethion, wrth bwyll gwirionedd, wrth syrth dichweiniau, ac wrth rŷn cydwybod; sev y bydd herwydd â ddywedaint.

153. Tri chyviawnder cyvraith: gwirionedd, gwybodaeth, a chydwybod; a lle na chyvleddont y tri hyn yn gyvanian ni ddylit i gyvraith ei henw; gwirionedd yw gwreiddyn barn, cydwybod yw gwreiddyn cyvryngiad, a gwybodaeth yw gwreiddyn cynhebryngiad a threigl hyd yn nhervyn, gan hawl ac amddifyn a dadlau a thystiadon.

154. Tair colovn cynghaws: nawafaith galanas, nawafaith lleddrad, a nawafaith tân.

155. Tair colovn cyvraith: devod cyn côv a chlyw, brenin drwy gyvraith warantedig, a gwlad yn marn ganraith lle ni bo na devod na chyraith.

156. Tri pheth nid oes namyn rhaith ddygynnul gwlad a chenedyl benbaladyr gan gyfraw penteyrnedd â biau eu tŷri, neu eu symmud: cyvraith warantedig o dŷrnedd; devawd cyn côv a chlyw gwlad a chenedyl nas prover argyweddi erni ac o heni, sev ei bod yn erbyn cyviawnder; ac ammod gydyvaddev.

157. Tri thŷr cyvraith anesgorawl: ammod warantedig o dystiadon, devawd gyviawn cyn côv a chlyw gwlad a chenedyl, ac anghenocder anesgorawl.

158. Tri thŷr ammod cyvreithawl: angau arglwydd lle nas cafedi tervyn llŷs erni o bydd tragwydd, clevyd yn attal cywiraw, ac anghenocdi anesgorawl.

159. Tri pheth ni ddily llŷs ac yngnaid varnu arnynt yn angen no chlo tervyn; pryn cyviawn ar dir herwydd cyvraith gymmrawd, arglwydd yn ymlid gwirionedd rhwng gwr a gwr, a hiroddev gwlad; sev gwlad a chenedol benbaladyr yn rhaith ddygynnul â biau barnu, ac nid angen.

160. Tri pheth â gadarnâa gynnedd-awd: ei haddwynder, ei galledider er lles gwlad a chenedyl, a'i hawdurdawd o

vonedd a hawl nad elo yn erbyn cyvraith; a lle bo felly hi á gau yn erbyn cyvraith.

161. Tri phrivachos rhaith gwlád: gwneuthur neu symmud cyvraith; barnu lle nis gellir o gyvraith parth difyg, neu ddichwain, ac angen; a braint gwlád a chenedyl yn gwarchadw rhag anghyvraith drwy gau yn erbyn a'i gwneilo.

162. Tri gwyr rhaith cenedyl: ei phen-cenedyl, ei saith henadur yn nghyvnerth ei phen-cenedyl, a'i theisbantyle; sev yw hwnw gwr o'r genedyl á ddewisur am ei ddoethineb a'i wybodau llên: a'i ddewis gan goelbren neu raith avlavar henaduriaid y genedyl.

163. Tri pheth o byddant ar wr eve á wedd iddo vod yn bencenedyl: á ddyweto gyda ei gâr ac á wrandawer, á ymladdo gyda ei gâr ac á ovner, ac á vechnio gyda ei gâr ac á gymmerer.

164. Tri phriv anhegwr gwr rhaith: bod yn Gymro cynhwynawl, sev yw hyny heb anach heb ledach parth bonedd; bod yn wr cyvallwy; a bod yn benteulu; sev yw hyny, yn wr gwraig a phlant o briod; sev heb y rhai hyny nis gellir teulu yn nghyvraith; sev ni wda wr yn anmraint ac yn anmrawd á vo perchen teulu, can ys erddynt ev á wna gydwybod.

165. Tri anhegwr pencenedyl: bod yn wr cyvallwy, a bod yn hynav o wr cyvallwy ei genedyl hyd yn mhen y nawved ách, á bod yn benteulu, sev yn wr gwraig a phlant o briodas deilwng; a phob yn o'r genedyl á vydd yn wr ac yn gar iddo, a gair ei air ev ar air pob un o'r genedyl.

166. Tri anhegwr teisbantyle: gwr cyvallwy o Gymro cynhwynawl; gwr gwarantedig o ddoethineb awenbwyll, a gwybodau anrhydeddus gwladolion; ac yn wr teulu o briodas deilwng, yn berchen gwraig a phlant. Ac o raith avlavar doethion y genedyl ai breinier ev yn nawdd a braint pencenedyl, ac eve á vydd dros y genedyl, ac yn eu plaid, yn wr llŷs a llân, ac yn wr penraith gan ddoethineb a gwybodau, ac yn wr pell ac agos yn nhravodau a dichweiniau y genedyl, a braint iddo drwydded paladyr o'i genedyl, yn un a'r pencenedyl; ac yn mhob tyrva cenedyl athraw a chynghor y bydd, ac yn gydgyv-arail á'r pencenedyl.

167. Tri achaws breiniau teisbantyle: dirprwyaw yn nhra nas gallai y pencenedyl; addysg doethineb i'r genedyl; ac achub doethineb cenedyl a gwlád a chy-wlad drwy ddywain priv ddoethion cenedlodd y Cymry yn wŷr llŷs a barn yn ngor-sedd ddygynnull Cymru benbaladyr, a

hevyd yn nygynnull arglwydd cyvoeth a'i wlad; ac yn mhob rhaith wahanredawl gwlad a chenedyl, ac nis gellir hyn yn amgen o vodd no braint i ddoethion; can nas dylit na deddv na dir ar ddoethion; ac eisioes nis dylit dygynnull heb ddoethion, can ys goreu barn barn doethion; sev nis gellir gwarantu doethineb ar bencenedyl; achaws hyny, braint ac angen i bob cenedyl ei theisbantyle.

168. Tri pheth á wnant gyvallwy: cyv-lawn a pherfaith y synwyrâu corforawl; sev yn arbênigion, y clyw, a'r olwg, a'r ymmod; sev y dywed cyvraith tri chyvallwy corf, clyw, golwg, ac ymmod; synwyrbwyll meddwl a deall, o reddv ac athrylith, a chadernyd; sev y tri á wnant gyvallwy ar geudawd, a gwybodau gwladolion gwarantedig o athraw a dangaws, neu o raith avlavar dengwyr a deugain o Gymry cynhwynawl o'i genedyl ei hun.

169. Tair fordd y cadarnâer ac y breinier pob deddvedigaeth ar wlad a chenedyl: gorsedd ddygynnull Cymru benbaladyr; sev hyny holl wladodd, a chyvoethau, a theyrneddau, a chorvenau cenedyl y Cymry, gan bencenedlodd, a theisbantylöodd, a gwyr rhaith, yn gydgywmrawd yn ngor-sedd ddygynnull gwlad a chywlad, a chenedyl a chydgenedyl. CAN NID OES NAMYN UN GWLAD AC UN GENEDYL AR GYMRU BENBALADYR: ac yn yr orsedd hòno gwneuthur neu symmud neu wellâu cyvreithiau yn ol y bo achos, a'u deddvu yn warantedig o gymhwyl, a chymmrawd, a chydsynwyr y dygynnull. Ail fordd, braint gorsedd gyvallwy gwlad a chywlad, nid amgen, llŷs teyrnedd gwlad a chywlad, ac ynddi deddvu á vo govyn ar newydd, neu ar wellâu, neu ar symmud hên o gyvraith a chymmrawd; a dodi a wneler ar osteg a rhybudd y llysoedd yn holl gyvoethau gwlad a chenedyl Cymry benbaladyr, er gwellâu, neu gadarnâu, neu wrthryn a gwrthod, val y barnawr yn achaws gan bwyll a chyviawnder; a a chynnal y cerdded val hyn yny wyper barn y genedyl, ac y cafer cymmrawd y gan yr holl lysodd heb wrthryn heb wrthneu; a phan a'i cafer, dodi hyny ar osteg a rhybudd y gorseddau a'r llysoedd oll hyd yn mhen y tair blynedd; a chymmrawd gorsedd pen y tair blynedd á elwir gorsedd gyvallwy, a'i threiglaw drwy yr holl gyvoethau; a hòno á dderchav ar á ddeddver braint dygynnull gwlad a chenedyl Cymru benbaladyr. Trydydd fordd y doder neu y symmuder cyvraith yn warantedig o awdurdawd gwlad a chenedyl á vydd dan osteg a rhybudd hyd yn nghyvallwy; sev

dodi à vyner ei ddeddvy yn gadarn, ar osteg a rhybudd undydd a blwyddyn, gan waedd gwlad a chywlad, yn mhob llŷs ac yn mhob llàn, a phob fair a marchnad, a phob arall o dyrva ddosparthus gwlad a chywlad, hyd oni chafer barn y gwladodd a'r llysoedd, a gwellaad a chyweiriad ar à geinmygawr wrth vodd gwlad a chywlad, a gwybod nad oes na gair na gwrthryn yn ei erbyn; a phan wyper hyny, doddi hyny ar osteg a rhybudd undydd a blwyddyn gan waedd gwlad, val o'r blaen, hyd yn nghyfallwy, sev hyd yn ngwbl gwaedd y tair blynedd; ac yna cadarn o gymmrawd Cymru beubaladyr y bydd; a chyvraith gan bob gwlad a chyvoeth, a phob teyrnedd, a phob llŷs a llàn gwlad a chywlad; a gogyvuwcha gogyvurdd á gorsedd ddygynnull gwlad a chywlad y bydd à wneler val hyn; ac nid rhaid cyrchu rhaith cywlad ar gyvraith à wneler velly; canys cyvraith á ddywed, *cavas vodd a chymmrawd Crmrur benbaladyr heb wrthryn heb wrthair, am hyny cadarn*; can ys onis cyrcher rhaith ar à wneler val hyn cyn pen y tair blynedd a'r trinydd traphen, bernir bodd gwlad a chywlad, a chenedyl a chydgenedyl, ar à ddeddwyd; can nis gellir llai no bod gwybodus i bawb à wnaethpwyd gan waedd gwlad yn gyvreithawl o leodd ac amser, dan goron neu vrait y deyrnedd neu y cyvoeth wahanredawl y buad, gan roddi lle a llwyddi i bob gwrthneu, a gwrthair, a gwrthryn galledig o bywill ac achaws yn geinmygiadawl.

170. Tair colovn rhaith gwlad o ba ryw bynag y bo: teyrn cywlad neu arglwydd cyvoeth; pencenedlodd; a henaduriaid cenedyl a doethion gwlad, sev teisbantylöodd, yn warantedig o vrait, gan raith avlavar cenedyl, sev gan goelbren ddosparthus henadur ar henadur.

171. Tri chyvraw gwlad, ai yn rhaith ai yn amgen y bo: teyrn neu arglwydd cyvoeth, pencenedyl, a theisbantyle; sev o davawd neu air un neu arall o'r tri hyn y cyfröer gwlad a chywlad, gan waedd gwlad yn ddosparthus gan ddevawd a chyvraith.

172. Tair gorsedd gwlad y sydd: gorsedd ddygynnull gwlad ac arglwydd, gorsedd neu lys barn a chyvraith gan yngnaid, a gorsedd beirdd wrth vrait a devawd beirdd Ynys Prydain.

173. Tair nawdd gyfredin y sydd: nawdd gorsedd neu lŷs gwlad, nawdd golychwyd, a nawdd arad ac atgor yn ngwaith.

174. Tri pheth anheggor ar orsedd neu llŷs gyvallywy: ei bod yn warantedig o

vrait ac awdurdawd a'i lluniaetho ac a'i cynnalio; ei bod dan nawdd gosteg a rhybudd undydd a blwyddyn gan waedd gwlad yn gyvreithawl, a threiglaw hyd ymhen y tair blynedd a thridiau traphen, a'i bod yn warantedig o le ac amser ai cynnelir; sev hyny egored lle ac amser yn ddevodawl, a lle bo velly nid rhaid amgen ar osteg a rhybudd; a deddvedig vydd à wneler gan varn hyd gyvallywy yn mhob llŷs a gorsedd gwlad a chywlad, hyd y cerddo swydd a brait yr orsedd a'r llŷs a'i gwneio.

175. Tair rhaith cyvraith y sydd: rhaith ddygynnull teyrnedd a chenedyl gwlad a chywlad er deddvy, gan wneuthur, neu symmud, neu wellâu cyvraith, ac à elwir rhaith teyrnedd a chywlad; ail, rhaith gwlad, á elwir rhaith trichannyn; trydydd, rhaith llŷs, a hòno á vydd gan vrawdwy neu henuriaid gwlad neu genedyl yn nawdd ac yn mraint llŷs a'i doto, o seithnyn hyd yn nengwyr a deugain.

176. Tair llŷs cyvraith y sydd: llŷs cantrev a chymmwd, llŷs benadur, sev llŷs arglwydd neu vrenin a'i gyvoeth, a llŷs ddygynnull teyrnedd a chywlad, a hòno yn ben ar y ddwy ereill.

177. Tri awdurdawd devodau llŷs a chyvraith: llŷs benadur y brenin, cyvraith gwlad, ac arver o bob un onaddynt.

178. O dri pheth y mae cyvraith: anghenion dichweiniau, deall cyvryn y doethion, a chyvundeb cenedyl a theyrnedd yn rhaith.

179. Tri anheggor gorsedd a chyvraith: rhwym devodau, côv cyvarwyddydd, a dadleuon.

180. Tri pheth á gau yn erbyn cyvraith: hir oddev gwlad a chenedyl, cyvnewidiau amser a dichweiniau yn difrwythaw cyvraith a devawd, ac ammod warantedig o dystiadon cyvreithawl.

181. Tri gwrthrym devawd; bonedd anghuegant, ei gorthrymder, ac anghraith ddrwg: a lle bo un o'r tri petrus vydd, a lle bo y tri yn nghyd cauedig vydd yn ei herbyn.

182. Tri phetrus cyvraith: twyll, cêl, a chamvarn, gwedi llithraw amser arnynt; ac yna nis gellir na dêail na diwyg ar un o'r tri, rhag annilysrwydd yr hawl.

183. Tri pheth nid oes ar nebun atted drostynt: abredig nad elo yn erbyn cyvraith, gweithred nas gellir dangaws argywedd o heni, a chafaeliad cyll ni wypo neb yn ngwlad; pwy a'i colles; ac nid oes ar neb atted yn nghyvrith am y tri pheth hyn, namyn hawl arddangaws; a lle nas galler hyny, tervyn.

184. Tair tystiolaeth gadarn: llw drwy bervedd, cydgyvaddev, a dichweiniau anesgorawl nas gellir petrusder ernyut.

185. Tri pheth à drechant ar gyvraith: à wnelo y brenin, i ddilyd gwir a chyviawn, ac i wneuthur cydwybod a thrugaredd; braint, lle nis gellir à elo yn ei herbyn; ac ammod gydgyvaddev yn warantedig o dystiadon.

186. Tri gwrandaw llŷs ac ynad: ewyn, deisyw, ac atdeb; a braint rhaith gwlad gan gyfraw ei bencenedyl i na chafu ei wrandaw.

187. Tri datgan llŷs ac ynad: hawl, atdeb, a barn.

188. Tri pheth yn bendivaddeu y dylai teyrnedd ac yngneidiaeth eu cynnal, a'u cyvnaidd, a'u cadarnâu yn ngwlad a chenedyl: gwirionedd, cyviawnder, a thangnev. Sev y dywed ereill, gwirionedd, gwybodau, a thangnev.

189. Tri devnydd hawl: golwg, gair, a gweithred.

190. Tri diwyneb gwlad y sydd: brenin, golychwydwr gorseddawg, a chyvraith; sev lle bont y tri nid rhaid gwyneb gwlad.

191. Tri difer rhag gwŷs gorsedd neu llŷs y sydd: llivodd yn avonydd, heb bynt, heb geubalau, gwaedd gwlad rhag llu gorwlad yn nghlyw yr udgryn, a chlevyd anesgorawl yn gorvod.

192. Tri avlavar anianawl: maban cyn oed pedwar ar ddeg; clâv a dolurus gorweddawg; a mud cysevin, neu vud o ddi-chwain na wypo ar lythyr.

193. Tri rhyw briodorion y sydd: cynhynolion anianawl, gwŷr llŷs, a gwyr llên; sev y cyntav o'r tri á elwir llëygion, ac iddynt y mae braint lle ar dir a chyvarwys; ac i'r ail y bydd braint swydd herwydd à ddyweto cyvraith; ac i'r trydyddion, sev y gwŷr llên, y mae braint athrawon; sev dogn iddo o bob arad o vewn y swydd y bo ynddi yn warantedig yn athraw; a'i dir braint yn rhydd iddo, a'i drwydded yn mraint ei wybodau.

194. Tair braint gyvreithawl y sydd: braint anianawl, braint tir, a braint swydd; ac yn nawdd gwlad a chenedyl yn rhaith y doded pob braint, a'r cyfraw ar bencenedl-odd.

195. Tair swydd y sydd ar athrawon gwlad a chenedyl o wŷr llên: doddi addysg i'r lleygion, yn eu teuluodd, ac yn ngolychwyd, ac yn llysoedd y cyvoeth, ac yn ngorseddau gwarantedig o le ac amser; ail, cadw côv gwarantedig ar vreiniau, a devodau, a gwelygorddau, ac achau bonedd, gan briodasau teilyngion, ac ar weithredodd

anrhydeddus, ac ar bob goreuau gwlad a chenedyl, ac ar à wneler yn llŷs ac yn llân, ac yn heddwch, ac yn rhyvel; trydydd, dylent vod yn barod bob lle ac amser gwarantedig wrth raid gwlad a chenedyl, ac à wasanaethont dan obr a thrwydded, i ddodi addysg a chynghor a gwybod ar geinmygedau, ac i ddatgan côv gwarantedig, ac i ddangos cyvarwyddyd, ac i yru cyvarwyddyd ar à vo rhaid a govyn gan achaws gwlad a chenedyl; megis y bydd negyddiaethau<sup>1</sup> gwlad a gorwlad, a llŷs a llân; ac i drevnu gostegau, a rhybuddiau, yn warantedig o gyvraith ac awdurdawd, a'u doddi yn mhen gwaedd gwlad, ac i lyfraw à ddoter gan varn a devawd ar gôv llyfyr a llythyr; ac amgen no hyn o swyddau nis dylit eu gyru ar athrawon gwlad o wŷr llên a llythyr a gwybodau ceudawd a doethineb, rhag nas gellynt eu gwasanaethu a gwneuthur à ddylent parth eu swyddau o athrawon gwarantedig.

196. Tri chyvrwym gwladoldeb: gwybodau, brawd, a llavuriaeth.

197. Tri thrwyddedawg gorseddawg y sydd: bardd, ynad, a theisbantyle.

198. Tri thrwyddedawg dichwain y sydd: celvydd anianawl à wnelo nid llai no gorchest ar gelvyddyd er lles brodor-iaeth; anghyviaith à ddihangawr o long a ddro yn môr; a brŷdd. sev à wareto Gymro yn mhyd anghewawl.

199. Tri thrwyddedawg bydavawg y sydd: oedranus; maban, sev plentyn, ai gwr ai gwraig y bo; ac estron anghyviaith; sev yw bydavawg, un na vytho arno na swydd na gorchwyl, a'i drwydded yn rhâd gan gyswyn paladyr

200. O dri pheth y cafant drwyddedogion eu cyvarwys: pumerwi rhyddion; a lle nis gellir hyny gan ddichwaint, ceiniog arad; a lle nis gellir hyny, ceiniog baladyr, neu gyswyn paladyr; sev hyny dogned gymmedr ac achaws gan bob teuluawg o'r genedyl.

201. Tair palvawd ni ddiwygir: un tâd ar ei vâb yn ei geryddu er addysg, neu am ei vai; un pencenedyl ar ei gâr er cosp am ei wall ac er côv a chynghor; ac un arglwydd ar ei wr yn nydd cad a brwydyr yn ei reoli

202. Tair dynnawd arglwydd ar ei wr yn ei reoli: un â'i vrysyll, sev ei swyddwialen; un â phaeled ei gledd; ac un â phaeled ei law; ac nid oes sarâad ar un o'r tri hyny, namyn addysg, a dangaws, a rhybudd rhag à ddryciai.

203. Tair gorsav cynnevawd: cynnal

<sup>1</sup> Negesyddiaethau, ond odid.

dydd devodawl i ddechreu gorsedd a dadl a barn; lle hōnaid gwybodedig yn ngolwg a chlyw gwlad a chenedyl, mal y gwypo bob un y man a'r lle, megis y gwr yr amser a'r dydd; a braint cyrch yn hedd a thangnev gan ddevawd gadarn gwlad a chenedyl, ac na bo noeth ar y erbyn neb-un à gyrchai yr orsedd; ac heb y cyvryw vrait nis gellir cynnal gorsedd deilwng er dosparth, a barn, ac addysg gwlad a chenedyl, mal a'i govyn cyviawnder, a thangnev, ac anghenion, a dichweiniau gwlad a chywlad, ac mal y gweddai ar wlad addwyn yn arail trevnau, a gwybodau daionus ac anrhydeddus.

204. Tri anheggor llŷs: arglwydd yn trevnu gwaraned, ysgolâig neu lēn yn gov a datgan, ac yngnaid neu vrawdwr i varnu; ac hebddynt nis gellir llŷs cyvreithawl.

205. Tri anheggor cyvraith: braint sev gwarant, ac ynad, a thyst; sev y bydd anghyfraw pob cyvraith hebddynt.

206. O dri pheth y mae tyst cyvreithawl: gwr cyvallwy, gwr fydd, a gwr cymmrawd.

207. O dri pheth y mae barn yn mraint cyvraith: tyst, dichwain, a chydwybod; ac nis dylit ar gyvraith, ac à varnai cyvraith, namyn cydwybod yn nesav ac à aller herwydd tyst a gwirionedd gan gyviawnder.

208. Tair rhagswydd llŷs: cynghellawr, canllaw neu bleidiwr, a rhingyll; sev rhagovnyion llŷs a'u gelwir, can y gellir llŷs hebddynt

209. Tri dŷn à ddylynt gan y brenin, neu arglwydd llŷs, davodogion drostynt yn llŷs: gwraig neu venyw, avlavar anianawl, ac alltud anghyviaith; ac i'r alltud hevyd y dylit nawdd ac ymborth gan ddogued paladyr; sev hyny dawn gwlad ac arglwydd, rhag ei varw o newyn ac anwyd yn a'i doter yn ei ansawdd parth gwlad a chenedyl.

210. Tri mud gorsedd: un arglwydd, neu vrenin, sev nid iawn iddo ev vod yn raglavar, namyn gwrandaw, a gwedi clywed à glywawr, llevaru à welo yn raid ac yn mhwyll cyvraith, a herwydd barn à ddylyt gan gyvraith; ynad, ac nid iawn iddo ev ei lavar onis dospartho ei varn herwydd à ddangoser yn ei lŷs gan warrant a thyst, ac à ddywetont y brawdwr; a mâch, sev nid rhwym iddo ateb namyn i'r ynad neu y brawdwr.

211. Tair dadl nis dylit ond ger bron yngnaid a brawdwr cyweithas: cymmeryd dŷn i genedyl, neu ei wrthladd o genedyl, neu varnu goresgynaeth i vab aillt o vamwys ar ei bedwerygwr, neu i Gymro

carddychwel; ail, dadl tir a daiar; trydedd, tangnevu rhwng gwledydd a chenedlodd yn rhyvel a galanasau; sev nis dylit tragwyddoli y dadlau hyny, onid yn oes yr arglwydd, neu à ddoto yn ei le.

212. Tri pheth y sydd ar ynad eu gwneuthur yn llŷs: dillwng cyvarchau wrth raid y brenin neu raid gwlad a chenedyl; datgan a dosparthu dadleuodd a chynhenau o vevn ei lŷs; a chadarnau ar ei air cyvraith, à varnont y brawdwr; a hyny dan wystleidiaeth lle a'i govyno cyvraith.

213. Tri rhyw ynad y sydd: ynad llŷs benadur, un; a hwnw à vydd yn ben cyngor ac yn ben cymmrawd teyrnedd y cyvoeth, a: à ddyly vod yn ddiymbaidd gyda'r brenin, neu arglwydd y cyvoeth, yn gov cyvraith iddo, er iawn varnu à ddoleger bron<sup>1</sup>—a'i swydd o vrawdwr yr holl deyrnas dan ei thervynau; ail, ynad cymmwd, ac arno y mae cynnal llŷs, a chōv cyvraith, a'i datgan, a llŷs y cymmwd à vydd man y bythawr yn nghwyn ac yn hawl, ac yno y cynnail yr ynad hi, a chynnal dadleuau; canys cyvraith à ddywed, goreu a'i barnawr man a'i gwelawr; trydydd ynad, brawdwr braint, sev hwnw tiriog, ac eve à vydd wr llŷs yn rhaith, ac yn nghymmrawd llŷs cymmwd a chantrev, yn Nyved a Morganwg a Gwent; canys brawdwr pob tiriog cyvallwy herwydd devawd y gwledydd hyny; ac ar varn nis dylit llai no saith o'r cyvryw vrawdwr, ac o hyny hyd yn neugwr a deugain; a'u barn a'u brawd hwy à elwir rhaith llŷs.

214. Tri dŷn ni ddylyt yn gneidiaeth iddynt: dŷn anghyvallwy, sev byddar, neu ddall, neu evrydd, neu glavr, neu orphwyllog, neu vud, neu à vo ag attal anianawl ar ei lavar; ail yw alltud, neu vâb aillt cyn goresgynaeth; sev cyn y cyrcho vrait gynhwynawl; sev braint nawded âch: ac ni ddylai vâb aillt oruchavu ar briodorian cynhwynawl; trydydd, gwr annysgedig yn nghyvrith a gwybodau gwladolion, sev lleygwr na wypo gyvraith a devodau gwlad a chenedyl, na barnu ar vrait tir, neu ar vrait swydd, neu ar afeithiau galanasau, ac ereill o bethau yn nghyvrith, am nas cavas ei athrawiaethu yn ddosparthus, ac ni ddylai anwybodus ac annysgedig varnu ar un peth o'r byd mewn cyvraith ba bynag y bo; cau nis gellir ar hwnw na phwyll na synwyr namyn o wyniau anianolion, ar ba rai nis gellir cydwybodus cyviawn.

215. Tri anghyviawnder barn a brawd: barnu ar na vytho ger bron llŷs yn clywed

<sup>1</sup> Mae rhyw wall yma.

ac nas gwysiwyd yn warantedig mal y gallai amddifyn; ail, barnu ar à vo ger bron yn ngwrthrym cyvraith, gan vrenin neu arglwydd y llŷs, neu gan vrawdwr llŷs, neu arall o wr llŷs, à wyrai gyvraith; trydydd, barnwr annosparthus heb warant ar ei swydd; sef a'i gelwir ynad neu varnwr annheilwng; a lle ydd elo gyvryw varn ar nebun o Gymro cynhwynawl, rhydd iddo ei raith gwlad yn nawdd a braint cyfraw ei bencenedyl: ac i vâb aillt y bydd ei briodawr; ac i hwnw braint rhaith à ddylit i Gymro cynhwynawl er diwygiaw cam ei wr o vâb aillt; ac i vâb aillt yn mraint mamwys y bydd cyviawn nawdd pencenedyl; canys iawn i bob Cymrâes gynhwynawl nawdd ei phencenedyl. Ac os arglwydd priodawr mâb aillt ei hunan à wna yn nghanm âg ev, ac yn anghyvrraith, nawdd arglwydd y cyvoeth iddo, neu y brenin; ac os gwr brenin neu arglwydd cyvoeth y bydd à wnelo ag ev yn nghanm, nawdd brenin neu arglwydd cywlad iddo, ac i hwnw varnu herwydd cyvraith, ac nis dylit corn gwlad ar vâb aillt yn fo.

216. O dri choll y bydd trais: colli dŷn, colli tŷr, a cholli da cyhwynawl; a lle dyco y brenin neu arglwydd cyvoeth un o'r tri yn amgen nog a'i rhotho cyvraith, rhydd i a'u collo ei raith, a'r un a'u dyco a'u tâl, ac a'i diwygia, a lle a'i dyco arall, hawl á ddyliit yn nghyvrraith ar a'i gwnelo.

217. Tri cholled nis gellir damdwng arnynt: blawd, gwenyn, ac arian bath; canys llwyr gynbebyg a chyfelyb á vydd iddynt; ac nis gellir hawl, namyn o dyst neu gyvaddev, ar a'u dyco yn ledrad.

218. Tri dŷn à ddylynt ymwystlaw á'r brenin neu arglwydd y cyvoeth rhag cam y ganddynt, ac er diogelweh gwlad a gwerin; cwyn ovn bywyd ac aelawd arall drwydwng ar grair, neu ar gydwybod yn nawdd Duw a'i wirionedd, achaws bygwth; ail, à wrthoto iawn cyvraith am argywedd à gafai; a gorseddwr à vo hwy no thri diwarnod mewn gwlad ac na rotho warogaeth yn gyvreithawl i arglwydd y cyvoeth, neu i vreyr, a hyny rhag gwneuthur cam ohano, cyd na bo cwyn arno; sef yw brehyr, cynhwynawl tiriawg o benteulu yn mraint brawdwr llŷs.

219. Tri chrair twng y sydd: brysyll golychwydwr, enw Duw, a llaw yn llaw à dynger iddo; a llawgreiriau a'u gelwir. Tri thwng arall y sydd, nid amgen, gair ar gydwybod, gair yn wyneb haul, a chadarnâu yn nawdd Duw a'i wirionedd. Gwedi hyny dodder y dengair deddv, ac evngyl Ieuan, a'r groes vendigaid.

220. Tri pheth nis gellir addev heb-ddynt: cartrev ddoosparthus, braint gwlad a chenedyl, a chyvarwys yn warantedig o gymmrawd.

221. Tri dŷn y sydd, a'u braint nas byddant wrth gorn gwlad na llaw ar gledd; sef hyny nid ánt yn rhyvel: bardd, feryllt, a gwr llŷs; sef nis gellir hebgor un nac arall o'r tri.

222. Tri arv cyvraith y sydd: cleddyv, gwayw, a bwa a deuddeg saeth yn nghawell; ac ar bob gwr teulu eu cadw yn barawdgyrch, rhag llu gorwlad ac estron, ac ereill o wyr anrhaith; ac nis dylit arvau i amgen no Chymro cynhwynawl, neu aillt ar ei drydygwr, er gwarchadw rhag brâd a chynllwyn.

223. Tri pherchenogaeth tŷr: á'r gyntevig heb wahardd hyd yn nghwbl y trydedd á'r, pentan gyntevig, a brodoriaeth gyntevig; sef yw hyny rhoddi y vrawd gyntav yn llys yn mraint à berchenocai y tŷr hyny o Gymro cynhwynawl, a bod prawv o hyny hyd gylch rhieni; sef yw rhieni gwr, ei dâd, ei hendad, a'i orhendad; ac o hyny hyd y nawved ách ac edryd, gerni a'u gelwir.

224. Tri argae tervyn y sydd: cynwarchadw, braint, a phriodolder. Sef y dywed llyvyr arall yn hyn o vódd: Tri argae tervyn, RHYW, sef yw hyny DARLIN o gysevin hawl, neu o gysevin genedyl; BRAINT, sef yw à rodded o rodd cenedyl i wr am à wnaeth drostynt ac erddynt; a GWARANT, sef rhodd gwlad ac arglwydd yn ngorsedd am à ddylai gyviawnder gan BRID, neu i BEDRORION ALLTUDION yn mraint mamwys, neu unrhyw beth arall ba ryw bynag y barnwr gwarant llŷs a gorsedd; sef a'i dywawd cyvraith Dyvnwal Moelmud; a goreu deddvwr o genedyl y Cymry ydoedd ev.

225. Tri chôv cenedyl y sydd: côv llŷs cyvraith; côv pencenedyl ar ei saith henadur, a chôv barddas: côv llŷs cyvraith á saiv ar yngnaid, côv pencenedyl á saiv ar ei saith henadur, nid amgen na breiniau a dichweiniau eu cenedyl, ac ar y saith henadur ei dreiglaw i'r pencenedyl à vydd wedi yr un à vo marw: a chôv barddas á saiv ar veirdd gwarantedig o athrawn a braint gorsedd. Sef y gelwir y trichov hyn, tri chôv gwarantedig gwlad a chenedyl; ac arnynt y mae gwarantu pob ách bonedd, a phob braint arvau; canys o vrant tŷr y mae braint arvau; a lle cefir braint arvau yn warantedig o gôv ac arwydd, tŷst vydd hyny y'mhob dadl tŷr a daiar.

226. Tri thywys côv llŷs: côv cyvundeb dwyblaidd; côv tervyn dadl o daw cyng-haws, a'i wadu o'r nail, a'i haeru o'r llall; a chôv anghyvrraith à wnel arglwydd a'i ddŷn yn ei lŷs.

227. Tri marwdyst y sydd am dir: tystiolaeth etiveddion hyd eu gorwyron neu dra hyny à gredir yn llŷs am à glywsant gan eu rhieni à vu gynt, a'r rhai hyny á elwir gwybyddiaid côv a chydwybod; ail, henaduriaid gwlad a chenedyl am à wyddant parth ách ac edryd; a thrydydd, pentanvaen tād y gofynwr, neu un ei hendar, neu un ei orhendad, neu ereill o'i genedyl, neu le adaill ei rieni ar y tir; a phrovi hyny wrth nôd, a gair cenedyl a gwlad; y rhai hyn á savant yn lle tystiaden lle nis gellir mw y bwys ar a'u gwrthrym ac a'u gwrth-air, o vined gwrth-yn-ngwrth ger bron llŷs cyvrraith neu raith gwlad.

228. Tair cynnewawd gadadwy y sydd: cynnewawd a erlid gyvrraith, cynnewawd à ragvlaena gyvrraith gan gyvianwder lle bo iddi awdurdawd o varn llŷs brenin o arver a devawd cyn côv, ac nid iawn iddi: namyn dan dervynau y man a'i cafer yn warantedig o arver; trydydd, un à ragvlaena gyvrraith o ddichwain anianawl, a hòno ni chymhell nac yn mhlaidd nac yn ngwrth, namyn difawd cwyn a chanlyn, a doddi rhaith gwlad arni, nid angen no llw dengwyr o deugain o henaduriaid cenedyl; a lle a'i cadarnær o hyny, ni vydd wedi hyny à gau yn ei herbyn; sev y dywedir, cyvrraith yw, a chôv a chadw llŷs arni.

229. O dri achaws y cyll gwr drev ei dād: rhybuddiaid gorwlad rhag eddyl arglwydd a'i genedyl, brād arglwydd neu ynad; a lladd dŷn o vurn a chynllwyn; ac eneidvaddeu vydd pob un o'r tri, ac nis gellir eu prynu, a chenedyl o epil pob un o'r tri á vyddant eillion yn un ansawdd ag ereill o veibion eillion cyn baint o vam-wys.

230. Tri anheggor cyvrraith: baint gwarantedig o wlad ac arglwydd; gwyr llŷs, sev yngnaid a brawdwr; a chôv cyv-arwyddyd.

231. Tri chôv cyv-arwyddyd: cerdd davawd, llyvyr llŷs, a gwybedydd o lin cerdd, sev bardd gwarantedig o athraw a chôv gwylodau.<sup>1</sup>

232. Tri dyben addysg a chôv: gwybyddu, diwallu, a dyddanu.

233. Tri anheggor athraw o vardd:

awen o Dduw; addysg o athraw; a'i swydd yn warantedig o varn gorsedd.

234. Tri thlws trevgordd: llyvyr, Athraw o lin cerdd, a gov geveiliawg.

235. Tri anheggor hendrev: tanwydd, dwr croyw, a bugail trevgordd.

236. Tri anheggor havodwr: bwd, bugeilgi, a chylllell.

237. Tri anheggor bwd havodwr: nenbren, nenfyrch, a bangor; a rhydd iddo eu tōri yn nghoed gwyllt à vyno.

238. Tri phren nid rhydd eu tōri heb gēnad gwlad ac arglwydd: mesbren, sev derwen, a bedwen, a rhavnwydden.

239. Tri anheggor boneddig cynhwynawl: brecan, telyn, a challawr; ac yn ddognd paladyr iddo.

240. Tri anheggor taiawg: pentan, glaiv, a chavn; ac iddo o ddognd paladyr.

241. Tri pheth ni reuir ag arall: cledd, cyllell, a brecan; sev a'u pieusont a'u ceidw o iawn cyvrraith.

242. Tri arlludd tir: hawl yn llŷs, tōr arad, a llogi tŷ ar y tir.

243. Tri chadarn bŷd: arglwydd, ynvyd, a diddim.

244. Tri ni vyddant garddychwel o ddir a gorvod, sev nid iawn gyru swydd ar un o'hennynt: gwraig, bardd, ac annhiriog; sev nid iawn gyru ar ur / o hennynt na swydd gwlad, na llaw ar gledd, ac ni vyddant wrth gorn a gwaedd gwlad; sev ar vardd y mae baint Duw a'i dangnev, a'i swydd wrth gerdd, ac nis dylit gwasanaethu dwy swydd; ac ar wraig y mae gwr, a baint arglwydd priodawr iddo erni, ac nid iawn dwyn oddiar arall ei briawd o ddŷn nac o dda; ac ar annhiriog nis dylit gyru llaw ar gledd, achaws nid oes gantho dir iddei golli, ac nid iawn iddo golli bywyd ac aelawd tros arall; namyn gadael iddo ei serch a'i gynghyd, a lle ydd elo llaw ar gledd, brŷdd a'i gelwir, a baint brŷdd á ddylit iddo.

245. O dri pheth y cyll Cymro cynhwynawl dir ei dād, a baint ei genedyl: cwbl gargychwyn i wlad estron; cwbl ymdanc á llu estron yn rhyvel á chenedyl o Gymry; a chwbl ymrodd i lu estron gortrech, o vōdd, lle y gallai ddianc.

246. O dri pheth ydd ennill Cymro vrain ei genedyl, a'i dir yn rhydd gwedi a'i collo: cwbl garddychwel o wlad estron, cwbl gargoll dros Gymru a Chymro, a chwbl ymwrthryn á llu estron gortrech lle gallasai vrain a thirodd y ganddynt yn warantedig, o ymgylvadd ag ynt.

247. Tri charygwyn heb attychwel y sydd: gwraig briawd, sev ydd aeth ei baint

<sup>1</sup> Mae gwall yn hwn: gwybedydd o lin cerdd mewn amgen ceriau yw cerdd davawd. Côv pencenedyl a'i henuriaid à ddiwygiasai y gwall.

oddiwrth ei chenedyl, ac yn nghenedyl ei gwr priodawr, a hyny yn mraint a bodd cyvraith, ac ni ddylai ddychwelyd drachevn yn mraint ei chenedyl hi, sev ni adwna cyvraith à wnelo unwaith yn ngwybod; trevtadawg wedi bod yn hir yn alltudedd yn ngwlad estron, a dychwelyd wedi hyny iddei wlad ei hun, a chafael ei dir; od à ev eilwaith yn ddilys yn alltudedd, nid ymchwel drachevn o iawnder, ac o gwna, ni roddir iddo drev ei dád; yr arglwydd cyvoeth a'i piau yn ngwarchadw yny wypo pwy arall o'r genedyl a'i dyly, ac yna ei roddi i hwnw; a chyswynvab à gymmerer neu à water gan y genedyl, pa un bynag à wnelawr ni ddylit ei adwneuthur; sev yw cyswynvab, mab i arall, neu vab llwyn a pherth, à gymmerawr yn gyvreithawl er cael mab o etivedd.

248. Tair llys gwlad a chyvraith amryval eu cynnal, parth gorddawd ac ansawdd gwy'r llŷs a'i swyddwyr: un Bowys; un Gaerllion ar Wysg, sev un Morganwg a Deheubarth; ac un Gwynedd. Eisioes yr un cyf cymmrawd y sydd ar y tair gwlad hyny, nid amgen gorsedd dygynnull gwlad a chywlad yn rhaith; ac yn amgen o vodd nid rhydd gwneuthur cyvreithiau yn Nghymru; sev nid braint o iawn cyvraith a chymmrawd i un neu arall o'r gwledydd wneuthur cyvraith namyn yn nghyswyn y rhai ereill.

Sev yw arver Powys, maer, canghellawr, un brawdwr o ynad swydd, ofeiriad i ysgrivenu dadleuodd, a rhingyll; ac yn hōno nid oes amgen o wyr llŷs a swyddau herwydd arver cyn cōv a chlyw y wlad a'r genedyl yn Mhowys.

Llŷs gwlad a chyvraith yn Ngwynedd á vydd yn hyn o vodd; nid amgen, arglwydd y cwmmwd, oni bydd yno y tywysawg ei hunan; maer, canghellawr, un ynad swydd, ofeiriad Clynawg, neu un Bangor, neu un Penmon, i ysgrivenu dadleuodd; a rhingyll.

Llŷs Deheubarth, sev hōno cysevin llŷs Caerllion ar Wysg; tywysawg neu vrenin, ac ei le ev, pan nas bytho, arglwydd y cantrev neu y cwmmwd; a chydag ev maer, a changhellawr, ac ysgolâig llŷs i ysgrivenu dadlau a chov llŷs; a rhingyll, a lliaws brawdwr, neu yngnaid; sev brawdwr neu ynad pob tiriawg o benteulu cyvreithiawl yn Neheubarth, a Morganwg, a Gwent; a'r lliaws brawdwr o saith i bedwar ar ddeg, ac o hyny hyd un ar ugain, ac o hyny yn nengwyr a deugain; a'u barn á elwir *Rhaith Llys*.

Sev yn Mhowys a Gwynedd un brawdwr

swydd, ac yn ngwledydd Deheubarth, nid amgen, Ceredigion, a Dyved, a Morganwg, a Gwent, lliaws brawdwr braint; sev hyny o vraint tir a theulu, ac nis dylit yno vrawdwr neu ynad swydd; sev y bydd y brawdwr wrth raith avlavar henaduriaid a phencenedyl. Sev y dywedir y gellir llŷs yn Neheubarth o'r tri hyn, nid amgen, brenin, neu arglwydd cwmmwd yn ei le; canghellwr o ysgolâig; a lliaws brawdwr; ac un neu arall o'r brawdwr á wna swydd rhingyll yn y llŷs, neu'r cinghellawr a'i gwna.

Ag velly tervyna Triodd Dyrnwal Moel-mud, à elwir Triodd Gwladoldeb a Chywladoldeb: a phob prydydd ac achwr à vynai wybod breiniau a devodau gwlad a chenedyl y Cymry benbaladyr; a braint bonedd, a'i rhyw o gyviawnder; a braint arvau parth bonedd a rhandirodd, a braint ac anmraint ar eillion; á ddylai wybod y triodd hyn, cyn y bo iawn iddo radd warantedig yn ngorsedd wrth gerdd davawd, wrth vraint o devawd beirdd yr hēn Gymry.

*A myvi Thomas ab Ivan o Drev Bryn yn Morganwg a'i ysgrivenodd o hen lyfrau Syr Edward Mawnsel o Vargam, pan oedd oedran Crist ein Harghwydd ni 1685.*

#### TRIODD CYVRAITH.

*Sev y triodd canlynawl á dynwyd o gyvysgriv ar groen o Gyvreithiau Hywel Dda, yr hwn lyvyr á brynoedd O. Iones yn Llundain, Ebrill y 12. 1807. pan werthwyd y rhan oedd ar ol o ysgrivlyfrau Edward Llwyd, yn meddiant Sir John Sebright.*

#### *Triodd Braint Etiveddiaeth.*

TAIR etiveddiaeth cyvraith y sydd à drigiant yn ddilys yr etiveddion: un yw etiveddiaeth trwy ddylyed o blaid rhieni; ail yw etiveddiaeth á gafer trwy ammod cyvreithiawl y gan y perchenawg er gwerth; trydydd yw etiveddiaeth á gafer trwy ammod cyvreithiawl o vodd y perchenawg, a heb werth.

Tair gwaith y rhēnir yr un trev tād rhwng tair gradd cenedyl: yn gyntav, rhwng brodyr; ail waith, rhwng cevndyrw; trydedd waith, rhwng cyverdyrw: oddyna nid oes priawd ran arni.

Tri rhyw brid y sydd ar dir: un yw gobyr gwarchadw; ail yw yr hyn á rodder i chwaneâu tir neu vraint; trydydd yw



llavur cyvreithiawl à wneler ar y tîr, y bo gwell y tîr o'i blegid.

O dri modd ydd hollir tîr: o gamoresgyn; ac o ddadenhudd, trwy veddiant tâd neu vam; ac o âch ac edryd: can ni thycio govyn tîr o'r modd cyntav nac o'r ail, ni bydd hwyrach no chynt y cesir o'r trydydd.

Tri chamoresgyn y sydd: goresgyn yn erbyn y perchenawg o'i anvodd, a heb vrawd; neu oresgyn trwy y perchenawg, ac yn erbyn ei etivedd o'i anvodd, a heb vrawd; neu oresgyn trwy warchweidwad, ac yn erbyn y iawn dyledawg, o'i anvodd, a heb vrawd. Perchenawg yw neb à vo yn meddu y ddyled dyls; gwarcheidwad yw y neb à gynnalio neu a warchatwo ddyled dyn arall.

O dri modd y dospertir dadyl dadenhudd, rhwng etiveddion; nid amgen, trwy vrait anianawl: cyntav yw braint oed, rhwng hynav a ieuav; ail yw braint priodawl, rhwng etivedd cyvreithawl ac un anghyvreithawl, (canys y cyvreithawl á'i ceif oll;) trydydd yw braint dyled rhwng dyledawg ac annyledawg. Os tadau y rhai hyny hagen á gynnalasant yr un tîr, wers tra gwers hyd angen, os eu meibion á ddaw i erchi dadenhudd, mab y dyledawg á geif ddadenhudd o gwbyl, py bryd bynag y dêl. Or doant etiveddion un radd ygyd, ac yn yr un amser, i ovyn dadenhudd, megis brodyr, o drev eu tâd, neu gevndyrw, neu gyverdyrw, o dir eu tadau, yr hwn à gynnalio eu tadau yn ddiran, wers tra gwers, hyd varw, ni ddichawn un o honynt wrthladd ei gilydd na ei oedi; namyn pob un á geif ran dadenhudd.

Tri rhyw vrait y sydd: braint anianawl, a braint tîr, a braint swydd.

Tri phriodolder y sydd i bob dyn: rhyw, a braint, ac etiveddiaeth: etiveddiaeth hagen herwydd braint, braint herwydd rhyw, rhyw herwydd y gwahan à vydd rhwng dynion herwydd cyvraith; megis y gwahan brenin a breyr, breyr a bilain, gwr a gwraig, hynav a ieuav.

#### *Triodd Brawdwr.*

Tri pheth á berthyn wrth vrawdwr: un yw dillwng cyvarchau wrth raid y brenin; ail yw datganu a dosparthu cynhëau y mywn llŷs; trydydd yw yr hyn à ddospartho trwy varn ei gadarnâu trwy wystyl a brawdlyvyr, or ymwystlir ag ev, neu os govyn y brenin iddo heb ymwystlaw ag ev.

Tri amheu brawd y sydd: un yw bod

amryson rhwng hawlwr ac amddifynwyr am varn à rodded iddynt, ac yna y dosparth a á ar y brawdwr à roddasai y varn: ail yw bod amryson rhwng hawlwr a brawdwr, ac ymwystlaw; trydydd yw bod ymwystlaw rhwng amddifynwr a brawdwr am ei vrawd, ac am y ddau ymwystlaw: hyny yd vydd y dosparth ar awdurdawd lythrawl; canys dileddyv gyfredin vydd awdurdawd; sev vydd hyny brawd lyvyr DEWI BREVI.

Tri rhyw vrawdwr y sydd yn Nghymru, herwydd cyvraith Hywel Dda: brawdwr llŷs beunyddiawl, herwydd swydd, gyda brenin Dinevwr, neu Aberfraw, yn wastad; ac un brawdwr cymwd, neu gantrev, herwydd swydd, yn mhob llŷs o ddadlau Gwynedd a Phowys; a brawdwr o vrait tîr, yn mhob llŷs, cymwd, neu gantrev 6 Ddeheubarth.

Pan ddygwyyd brawdwr, swyddawg llŷs, neu gymwd, neu gantrev, yn ngwerth ei davawd, tri pheth a gyll yna: cyntav y cyll ei swydd; oddyna y cyll vrait brawdwr, o eisieu swydd; trydydd, gwerth ei davawd.

O dri medd y dospertir brawd gyng-haws: cyntav yw trwy oddev; canys goddev a dyr bob cynglaws; (os brawdwr a oddev roddi gwystyl yn erbyn ei vrawd yn dangneveddus, heb roddi gwystl yna i gadarnâu ei vrawd, dygwyydedig vydd ei varn;) ail yw brawdlyvyr rhwng dau wystl; sev yw hyny gwystyl à rodder yn erbyn brawd, a gwystl arall à rodder gyda y vrawd hõno; trydydd yw, brawdwr biau ddosparth rhwng deuddyn yn nghynglaws am y varn à roddasai iddynt, heb ymwystlaw ag ev.

Tri dyn ni allant ymwystlaw yn erbyn brawd, o gyvraith: un yw brenin; can ni ddichawn, o gyvraith, sevyll y mywn dadyl ger bron brawdwr, i holi neu i ateb, trwy vrait anianawl, neu vrait tîr, mal breyr, neu arall; ail yw dyn eglwysig rhwymedig yn urddau cyssegredig; trydydd yw dyn eglwysig rhwymedig yn nghrevydd; can ni ddichawn neb, herwydd cyvraith, roddi gwystyl yn erbyn brawd, onid dau berygl gwerth tavawd, ac nad oes werth gosodedig yn nghyvraith Hywel ar aelawd, a gwaed, a sarâed dyn eglwysig; ac wrth hyny, ni eill neb o honynt roddi gwystyl yn erbyn brawd, na chyd a brawd. Holl argyweddd segryllyd à wneler i ddyd eglwysig a ddylir ei dalu iddo yn senedd herwydd cyvraith eglwysig.

Tri pheth à ddily pob brawdwr ei wrandaw y gan y dadleuwyr, cyn barnu

neb o honynt i ennill nag i golled : nid amgen, cwyn, a devnydd, ac ateb.

Tri rhyw varn dremyg y sydd : un yw barn à rodder yn erbyn dyn nis clywo, pan ddatganer gyntav yn y llŷs, nac yn mhell y bo yna, nac yn agaws; os yn agaws y bai, y rhingyll a ddyly ei alw, mal y clywo y varn à roddid arno; os yn mhell y bai, ei araws a ddylyd, hyd pan ymddangosai yn y llŷs, or gellid ei gafel yn amserawl wrth gyvraith; ail yw barn à rodder ar ddyn cyndrychawl trwy wrthdrymder o blaid y brenin, neu y brawdwr, neu wyr y llŷs; trydydd yw barn brawdwr anheilwng.

Tri dyn ni eill un o honynt vod yn vrawdwr teilwng o gyvraith : un yw dyn anavus, megis dall, neu vyddar, neu glawr, neu ddyn gorbwyllig (sev yw hwnw dyn à orfo ei rwymaw unwaith am ei yn-vydrwydd,) neu ddyn ni allo ddywedyd yn iawn, megis cryg anianawl; ail yw dyn eglwysig, rhwymedig wrth urddau cys-gredig, neu wrth grevydd; trydydd yw lleyg, heb allu o gyvraith iddo varnu o vrait tir, neu o vrait swydd.

O dair fordd y gellir gwrthlawd brawdwr teilwng : un yw o'i vod yn anghyfredin rhwng y pleidiau yn llys cyn barn; ail yw o'i vod yn gyvranaug ar yr hyn y bo y ddadyl am dano, pei gellid ei ennill trwy varn; trydydd yw cymeryd gobyr am y ddadyl, ar ni bo gosodedig yn y gyvraith o'r brawdwr.

#### *Amryveilion Driodd Cynghawsaeth.*

Tri pheth à ddyly gwarant diball eu gwneuthur : un yw gwrtheb yn ddioghir drosto ehunan, a thros y da cynhenus, a thros amddifynwr y da; ail yw sevyll wrth gyvraith, a barnu tros yr holl ddadyl, trwy ddedryd gwlad; trydydd yw gwneuthur cwbyl dros yr holl ddadyl mal y barner iddo.

Tri oed cyvraith i ddial celain rhwng dwy genedyl ni hanfont o'r un wlad : un yw ennynu hawl yn y dydd c, ntav o'r wythnos gyntav gwedi lladder y gelain; ac oni ddaw ateb erbyn pen y pythevnos, cyvraith yn rhyddâu dial; ail yw, or byddant y ddwy genedyl yn un cantrev, ennynu hawl yn y trydydd dydd gwedi lladder y gelain; ac oni ddaw ateb pen y nawveddydd, cyvraith à ryddâa dial; trydydd yw, os yn un cymwd y byddant, ennynu hawl yn y trydydd gwedi lladder y gelain; ac oni ddaw ateb erbyn pen y chweched dydd, cyvraith a ryddâa dial, o herwydd na ddaeth ateb.

Tair dirwy brenin ynt, dirwy ymladd cyvaddev, a dirwy trais, a dirwy lletrad. Divwyn dirwy ymladd, deuddeg mu; divwyn, dirwy trais morwyn yw gwialen ariant, a fiol aur, a chlawr aur, val y dywesbwyd am eu mesurau yn divwyn sarâed y brenin; divwyn dirwy lletrad yw cyswynaw lletrad ar y dyn, a gwadu o hono yn dda ar ei davawd, a gosawd rhaith arno a'i phallu.

Tri phedwar y sydd. Cyntav ynt, pedwar achaws ydd ymchwelir brawd : ovyn gwr cadarn, a châs galon, a chariad cyveillon, a serch da. Ail pedwar, pedair tarian à ânt rhwng dynion a rhaith gwlad rhag hawl lletrad : un yw cadw gwestai yn gyvreithawl; nid amgen, ei gadw o bryd gorchyvaerwy hyd y bore, a dodi ei law drosto o'i gwely tair gwaith y nôs hðno, a hyny tyngu o ddynion y tŷ ganto; ail yw geni a meithrin, tyngu o'r perchenawg ar ei drydydd o wyr un vrait ag ev, geni a meithrin yr anivel ar ei helw, heb ei vyned tair nôs i wrtho, nac o werth, nac o rodd; trydydd yw gwarant, nid oes warant namyn ar dair llaw, a'r trydydd amddifyned trwy gyvraith; pedwerydd yw cadw cyn coll, a hyny yw gwneuthur o'r dyn ar ei drydydd o wyr un vrait ag ev, cyn colli o'r llall ei dda, bod y da hyny ar ei helw ev. Trydydd pedwar yw pedwar dyn nid oes nawdd iddynt, nac yn llŷs, nac yn llan, gan y brenin : un yw dyn à dðro nawdd y brenin, yn un o'r tair gwyl arbenig, yn y llys; ail yw dyn à wystler o vod i'r brenin; trydydd yw ei gwynosawg, dyn à ddylyo ei borthi y nôs hono, ac nas portho; pedwerydd yw ei gaeth.

Tri thawedawg gorsedd : arglwydd gwir yn gwrandaug ar ei wyrda yn barnu eu cyvreithiau; ac yngnad yn gwrandaug hawlwr, ac amddifynwr yn ateb; a mâch yn gwrandaug hawlwr, a thalawdyr yn ymateb.

Tri gwanas gwaew cyvreithiawl yn nadlau : un yw gwân ei arillost yn y ddaiar ag un llaw, oni vo abraid ei dynu à dwy law; ail yw gwân y pen y mywn twyn oni guddio y mwn; trydydd yw ei ddodi ar llwyn à vo cyvuweh à gwr; ac oni bydd y gwaew yn un o'r tair gwanas hyny, a myned dyn arno a'i varw, traian ei alanas a ddygwydd ar berchen y gwaew.

Tri over ymadrawdd à ddywedir yn llŷs, ac ni fynant : gwâd cyn dedryd; a llŷs cyn amser; a chynghaws gwedi brawd.

Tair sarâed ni ddiwygir, or cefir trwy veddawd; sarâed yr oferiad teulu, a'r yngnad llŷs, a'r meddyg teulu; can ni

wyddant wy py amser y bo raid i'r brenin wrthynt; ni ddylyant wyntau vod yn veddw byth.

Tair gwraigedd à ddyly eu meibion trev eu mam: gwraig à rodder yn ngwystyl tros ei thâd, a chafel mab o heni yn ei gwystl-oriaeth; a gwraig à rodder o rodd cenedyl i alltud; a gwraig à ladder gwr o'i chenendyl, a dial o'i mab hwnw, ni ddylyir ei oedi am drev ei vam, nac araws nawveddydd yn ei erbyn.

Tri meib ni ddylyant gyfran o dir gan eu brodyr un vam ac un dâd ag hwynt: un yw mab à gafer yn llwyn ac yn mherth, ac yn anneddawl, a gwedi hyny cymeryd mam y mab o hono o rodd cenedyl, a chafel mab arall o honynt, ni ddyly hwnw gyvrânu tir â'r mab à gâad cyn nog ev, yn llwyn ac yn mherth; ail yw cymeryd o ysgolaig wraig o rodd cenedyl, a chafel mab o honei, ac oddyna cymeryd o'r ddau ofeiriadaeth, ac oddyna cafel o'r ofeiriad vâb o'r unwraig, ni ddyly y mab à gâad cyn nog ev gyvrânu tir à hwnw; trydydd yw mud, can ni roddir gwlad i vud, can ni ddyly dir nid ateb drosto.

Tri pheth ni âd cyvraith eu damdwng: blawd, a gwenyn, ac ariant; canys cyfelyb a gefir iddynt.

Tri phren rhydd yn forest y brenin: pren crîb eglwys; a phren peleidyrr à elont yn rhaid y brenin; a phren elawr.

Tri cheheryn canastyr y sydd: un yw lledrad fordd y cerddo cyfran o hono, canys naw afaith y sydd iddo; ail yw hydd brenin i neb a'i cylllelo; trydydd yw abo blaidd i neb à wnel cam amdano.

Tri edyn ni ddylyir eu ladd ar dir dyn arall, heb ei gênad: eryr, a garan, a chigvrân. Y neb à laddo un o honynt, taled ddeg a deugaint i berchenawg y tir.

Tri pheth or cefir ar fordd nid rhaid ateb i neb o honynt: pedol, a nodwydd, a cheinawg.

Tri dyn ni ddyly y brenin eu gwerthu: lleidyrr gwedi barner i grog, a chynllwynwr, a bradwr arglwydd.

Tri erydd ni ddiwygir: i garw yn fâd, ac i gi yn fâd, ac i ebawl gwyllt yn fâd.

Tair nodwydd gyvreithiawl y sydd: nodwydd gweinigawl y vrenines, a nodwydd meddyg llys i wniaw gweliodd, a nodwydd y pencynydd i wniaw y cwn rhwygedig. Pedair ceinawg cyvraith a dâl pob un o honynt.

Tair sarâed celain ynt, pan lladder, pan yspeiler, pan wthier yn ei gorwedd o'i sevyll.

Tair gwarthrudd celain ynt, govyn, Pwy

a laddawdd hyn? piau yr elawr hon? piau y bedd newydd hwn?

Tri pheth ni thelir, can coller yn rhaid tŷ: cylllell, a chleddyv, a llawdyr.

Tair gavel nid adverir: un dros ledrad, ac un ar vâch ni chymhelo, ac un dros alanas.

Tri rhyw dâl y sydd i gwynwr: gau dwng, neu adwerth, neu edvryd

Tri ymddillwng o rwym hawl y sydd: gwir dwng, neu waesav, neu ynyvdrwydd.

Tri chargychwel heb attychwel: un yw gwraig gwedi ydd ysgaro â'i gwr yn gyvreithawl; a chyswynvab gwedi gwateo genedyl yn gyvreithawl; à threftadawg gwedi dêl yn ddilys; gwedi y bo yn arglwyddiaeth arall, o iawnder nid ymchwel drachevyn.

O dri achaws y gosoded cyvraith: cyntav yw i geisaw dysg rhag gwneuthur anghyvraith; ail yw gwared anghyvraith, or darfai ei gwneuthur; trydydd yw er cospi y neb à wnelai anghyvraith, trwy ddirwy, a chamllwrw, a'r cyvryw à ddylyai.

Tri da nid rhaid mâch arnynt: da à roddo arglwydd i wr, a chymyn à ddêl i ofeiriad y gan y marw, a da à ddêl i veddyg y gan y clav.

Tair marw-dystiolaeth y sydd am dir, ac a savant yn nghyvraith a barn: un yw, or cyfiroir dadyl am dir yn llfs, a'i therwynu yn ngwydd gwyr y llfs, gwedi bo marw y rhai hyny oll, tystiolaeth eu hetiveddion hyd eu gorwyron, neu achwaneg, a gredir am yr hyn à vu gynt, ac à glywsant gan eu rhieni o'r ddadyl hâno, a'r rhai hyny a elwir gwybyddiaid am dir; ail yw henaduriaid gwlad, i wybod âch ac edryd rhwng cenedyl a charant y dyn à ovyno dir trwy âch ac edryd, o nawveddydd mai neu ragvyr; trydydd yw pan weler pentanvaen tād y dyn à ovyno dir, neu ei hendad, neu ei or-hendad, neu ereill o'r genedyl, neu le adail, neu dir ei rieni, y rhai hyny a savant yn lle tystion ar ei ddylyed iddo.

Tri thorllwyth y sydd un werth ag eu mam, nac un à vo na lliaws, or dygir yn lledrad: torllwyth gellast, a thorllwyth hwch ar eu thyleu, a nyth hebawg.

Tri llwdyn unwerth yn y genvain bob amser: baedd cenvain, ac arbenig y moch, a hwch a gatwer yn nghyver gwestva arglwydd.

Tri rhyw wybyddiaid y sydd am dir: un yw henaduriaid gwlad, i wybod âch ac edryd, i ddwyn dyn ar ddylyed o dir gyd â'i geraint; ail yw ambinogion tir, nid amgen, gwr o bob rhandir o'r drev, i wybod

rhanau a finiau rhwng y welygordd; trydydd yw meiri, a chynghellorion, a rhingyllaid, i gadw tervynau y cymydau, canys y brenin a biau y tervynau hyny.

Tri pheth à geidw gôv, ac à saiv yn lle tystion i ddyn ar ddylyced o dir: lle hên odyn, neu bentanvaen, neu esgynvaen.

Tri dyn y telir gweli tawawd iddynt: i'r brenin, pan ddyweter gair hagyr wrtho; ac i'r brawdwr, pan ymwystler ag ev am ei iawn vrawd; ac i ofeiriad yn ei eglwys, yn y tair gwyl arbenig, neu yn darllen llythyr rhag bron y brenin, neu yn ei wneuthur.

Tri chowyllawg llŷs: cerwyn vedd, a bragawd, a chathyl cyn ei dangaws i'r brenin.

Tair hela rydd y sydd yn mhob gwlad ar dir dyn arall: hela iwrch, a hela cadno, a hela dyvrgi.

Tri devnydd hawl y sydd: golwg, a gair, a gweithred.

Tair golwg à ddygir yn nghyvrraith: golwg tysto'i dystiolaeth, a golwg mynegiad o'i vynag, a golwg llygadrydd celus, am ladd, neu losg, neu ledrad.

Tri gair celus y sydd: gair y bo gweli tawawd amdano; a gwallawgair yn llŷs; a thavodryddiaeth, am ladd, neu losg, neu ledrad.

Tri rhyw gwallawgair y sydd: gair gwall yn holi, o rwy neu eisieu; a gair gwall yn amddifyn, o rwy neu eisieu; a gair gwall yn gwadu. O'r cyntav y cyll hawlwr ei hawl o'r à berthyno wrth y gair, or dygir tystion yn eu herbyn, ac ni chyll gamlwrw, can nid oes cam gwyn celus yn nghyvrraith eithyr tri; o'r ail, neu o'r trydydd, y cyll amddifynwr gamlwrw, a di-vwyn yr hawl o'r à berthyno wrth y gair y tystwyd o'i wall.

Tri thervyn hawl y sydd: gwadu, neu brovi, neu lysu tyston.

Tri pheth ni chynghain yn nghyvrraith: prawv ar weithred, eithyr tri; gwád dros waesav; a chôv gwedi brawd.

Tri gweithred y sydd ar brawv llavur cyvreithawl neu anghyvreithawl ar dir, y megys tòri fin, neu wneuthur fin, neu lavur arall, a gweithred llwdyn yn lladd y llall yn ngwydd bugel trevgordd, tystiolaeth y bugel á saiv am hyny; a gweithred cyd-leidyr lleidyr a grocer am ledrad, tystiolaeth hwnw ar ei gydleidyrr á saiv; tystiolaeth gwybyddiaid hevyd á saiv am dir.

Tri gwaesaf y sydd: arddelw, neu warant, neu amddifyn heb warant.

Tri chôv gwedi brawd y sydd: goddev o vrawdwr roddi gwystyl yn erbyn ei

vrawd, heb roddi gwystyl, yna ei chadarn-âu, a gwedi hyny cynnyg ei wystyl, ni ddylyir ei erbyniaw o gyvrraith, onid barn dremyg vydd; neu roddi gwystyl yn erbyn brawd gwedi y goddev; neu addaw ymadrawdd yn wallus ar gyvrraith a barn, a gwedi barn, ceisaw gwared gwall nis dyly.

Tri lle y tywys côv llŷs: am gylvundeb pleidiau; ac am dervyn dadyl, or daw cynghaws un yn dywedyd ei thervynu, a'r llall yn dywedyd na thervynwyd; ac am anghyvrraith à wnel arglwydd á'i wr yn ei llŷs.

Tair tystiolaeth ddilys y sydd: tystiolaeth llâs yn dwyn i gôv; a thystiolaeth y gwybyddiaid à gredir pob un yn y gyvrraith ar wahan, megis tād rhwng ei ddau vâb, neu yn lliosawg am dir; a thystiolaeth y gwrthdyston.

Tair tystiolaeth marwawl y sydd: tystu ar ddyn cyn ei holi o'r hyn y tyster; neu tystu ar ddyn na wadwys, neu nad amddifynwys erbyn à ddaroedd iddo ei wadu, neu ei amddifyn; neu tystu ar ddyn ddywedyd yr hyn nis dywed y llŷs, a'r brawdwrw a'i clywo á ddylyant ei ddwyn yn varwawl, trwy arch yr amddifynwr, os cofa. A llyna y tri lle y mae trech gwybyddiaid no thyston.

Tri gwahan y sydd rhwng gwybyddiaid a thyston: gwybyddiaid am yr hyn à vu cyn ymhawl yn y llŷs y dygant eu tystiolaeth, ac nid ev y dwg tyston; ail yw, gwybyddiaid biau dedryd eu gwybod yn nghyvrraith tyston, can ni rydyster iddynt, ac nis piau tyston; trydydd yw, gwybyddiaid biau ddwyn eu tystiolaeth yn erbyn gwád ac amddifyn, sev yw hyny, gwybyddiaid biau brovi gwír gwedi gau, ac nis piau tyston.

O dair fordd y mae cadarnach gwybyddiaid no thyston: un yw gallu dwyn lliaws o wybyddiaid am un peth yn y gyvrraith, neu un gwybyddiaid, megis mâch, ac ni ellir dwyn na mwy no llai no dau o'r tyston; ail yw gallu dirwyaw dyn, neu ei werthu, trwy wybyddiaid, ac ni ellir trwy dyston, o gyvrraith; trydydd yw gallu o wybyddiaid brovi yn erbyn gwád ac amddifyn, ac nis dichawn tyston. Pan dysto tyst yn ei dystoliaeth beth yn gyvreithawl ereill yn erbyn amddifynwr, neu pan dysto amddifynwr beth yn gyvreithawl yn erbyn tyston, y rhai hyny á elwir gwrthdyston yn nghyvrraith, ac ni ellir eu llysu.

Tair tystiolaeth y sydd ar air, ac ni ddygir i grair: tystiolaeth lleidyr ar ei gydleidyrr wrth y grog; a thystiolaeth nid eler yn ei herbyn pan ddycer ar air: a

thystoliaeth y gwrthdyston. Gwybyddiaid, yn mhob dadyl, grym tyston á gynnaliant; a chystal á allant yn mhob dadyl ag á ddichawn tyston. DEWI BREVI.

O tri modd y telir dirwy trais : un yw pan ballo ei amddifyn i amddifynwr yn erbyn dyn : ail yw pan ballo ei raith i ddyd yn gwadu trais ; trydydd yw pan ballo ei warant i ddyd á'i galwo yn nadyl trais.

O dri modd y cyll dadyl trais ei baint mwyav : na wneler ei theithi ; ac o dystoliaeth vywawl yn nadyl trais ; ac o gwynaw o'r hawlwr ddwyn o'r eiddo ev yr hyn á ddycbwyd i drais rhag arall, ac nid y ganto ev. Nid mwy hagen y rhaith yn y tri phwnc hyny no llw tri dyn ; ac nid mwy y dial no thri buyn camlwrw, oni ellir ei wadu neu ei amddifyn.

Un o dri pheth á gyll y neb á dreiser : ei ddyd ; neu ei dir neu ei dda arall cychwynawl, neu ei vrint.

Tri rhyw amddifyn y sydd : un yw nad ateper yn anamserawl er govyn ; ail yw amddifyn val nad ateper byth er govyn ; trydydd yw amddifyn gan ateb, mal na choller dim ar yr hawl.

Tri pheth nid rhaid ateb i neb o honynt : un yw peth ni bo diebredig yn erbyn cyvraith ; ail yw gweithred y galler dangaws ei argywedd, or gwneir, ac ni ddangoser ; trydydd yw colled ni wypo gwlad neb rhyw hysbysrwydd i'r hawlwr ei golli.

Tri rhyw ddiebryd y sydd : un yw dwyn peth ac nad adverer trachevyn ; ail yw addaw argywedd ar ddyd, neu ar yr eiddo, heb wneuthur iawn na heddwch andano ; trydydd yw diebryd dyn o'r dyled dros amser edryd.

O dri modd y caua cyvraith rhwng hawlwr ac amddifynwr : un yw, o golli ei amser, a hwnw á ddamweina o lawer modd ; ail yw, o hawl heb berchen ; trydydd yw, o dervynu ei ddadyl cyn no hyny.

Tri thervyn hawl cyvreithawl y sydd : un yw tervyn o gyvundeb pleidiau ; ail yw tervyn gosodedig rhwng pleidiau trwy gymrodeddwyr ; trydydd yw tervyn trwy varn.

Tair dadyl á ddylyant eu hiacháu ac eu barnu trwy ddedryd gwlad yn erbyn haerllugedd : un yw dadyl am venfyg neu wystyl, neu avel y sydd un gyvraith ; ail yw dadyl y bo amddifyn ynddi, nid amgen gwád am dir ; trydydd yw dadyl o wrthrymder brenin yn erbyn cyvraith.

Tair cynnevawd y sydd : cynnevawd a erlid gyvraith, a hño y sydd gynnalidwy ; cynnevawd á ragvlaena gyvraith, or

bydd iddi awdurdawd breniaeth, cynnalidwy yw ; cynnevawd a lwgyr gyvraith, ac yna y dyly ei chymhell.

Tri pheth á gadarnáa ddevawd : awdurdawd, a gallu, ac addwynder.

Tri pheth á wanaáa gynnevawd : gwrthrymder, anghugant vonedd, a drygan-graith.

O dri modd y cyll brawdwr gamlwrw o varnu, ac ni chyll gwerth ei davawd : un yw, pan ddivarno cyvryw á varnasai ev gynt, trwy y cyfelybion achwyson ; ail yw, pan el ar gyveilorn yn datganu dadyl, or cadarnáa mwy neu lai yn ei ddadyl nog a vu o ciriau grym ; trydydd yw, na roddo gwystyl gyd á'i varn, pan rodder gwystyl arall yn ei herbyn. O'r modd cyntav y varn gamav á ddilêir ; o'r ail y datganu á iawnêir ; o'r trydydd y varn hevyd á ddi-lêir yna, can boed iawn, canys cadarnáwys y brawdwr hi yn amserawl trwy wystyl. Os y dadleuwr á ebrvyca ymwystlaw á brawdwr, nid amgen pan y datgano gyntav iddo, ni cheif ymwystlaw ag ev am y varn hño byth gwedi hyny, cyd boed cam ei varn. Yn gyfelyb i hyny, od ymwystla ev yn amserawl, ac nad ymwystla y brawdwr ag ev, ei varn hevyd á ddygywydd.

Tri rhyw vynag y sydd, ac am bob un o honynt y gosodir rhaith gwlad ar ddyd am ledrad : un yw, dyvod y colledwr a'r mynegwr gyd ag ev, á dyngo yn erbyn arall, clybod a gwybod arno y ledrad ; ail yw, tyngu o'i mynegwr, gweled a gwybod arno y ledrad, a hwnw yw lliw ; trydydd yw, lluddias rhag dyn ceisaw ei dda yn y lle y tebycai ei vod. Ni ddyly neb roddi rhaith gwlad am ledrad, heb un o'r mynegau hyny yn ei erbyn, onid pallu o lw gweilydd á wna i'r colledig. O'r palla, nid rhaid mynag arno, eithyr hyny, i gymhell rhaith gwlad arno.

Tri rhyw dwng y sydd : cadarnáu gwir, gan dyngu trwyddo bervedd ; ail yw gwadu gau, gan dyngu trwyddo bervedd ; trydydd yw tyngu peth petrus, o herwydd cydwybod. Sev yw peth petrus, yr hyn ni wyper beth vo, ai gwir, ai gau.

Tair gosodedigaeth y sydd o herwydd cyvraith i gwbláu y gyvraith a'i harverodd yn bryfaith, hyd na aller eu cablu, o eiseu, neu o ormodedd, neu o bethau annheilwng : cyntav yw o'r cyfelybion, cyfelyb varn á roddir ; ail yw o'r ddwy gyvraith ysgrivenedig erbyn yn erbyn, yn dosparth yr un peth ; yr un á vo deilyngach no'r llall á gynnelir ; trydydd yw pob rhyw gyvraith ysgrivenedig, ar ni bo gwrthwyneb iddi yu

ysgrivenedig, á ddyllir ei chadw, hyd go-vynont y pendevig a'i wlad i ddilëu hòno, gan osawd arall à vo teilyngach.

Tri rhyw gamddosparth y sydd y cefir ymodwared amdanynt, herwydd cyvraith, heb vod yn rhaid nac yn berthynasawl ymwystlaw á brawdwr, ac ni chyll amser yn nghyvraith i amheu y ddosparth o blaid goddev, hyd pan vo lithredig un dydd a blwyddyn o ddydd y camddosparth, nac yn erbyn ei etivedd, os am dir y tyv y gynhen; ac or damweina carcharu cyvraith o blaid arglwydd, er hyd y bo heb iawn, ni chyll amser y gyvraith o amheu, onid gan wallocâu canlyn gwedi caniatâer cyvraith iddo, hyd pan lithro undydd a blwyddyn; ac ni chyll amser yn nghyvraith hevyd i'r neb à ddechreuo gynhebrwng dadyl; or damweina rhyvel cyn tervynu y gynhen, onid gan ebyrgovi undydd a blwyddyn gwedi gwastatâer heddwch, ac adnabod yr arglwydd à wledycho. Cyntav yr rhoddi barn o ddyyn yn erbyn plaid, heb allu iddo ei varnu o vrait tir, neu o vrait swydd, neu rwymedig yn urddau cysgredig, neu ddyyn anavus, neu veius, neu ddyyn o glevyd anianawl, a'r pyncau hyny yn deor iddo deilyngdawd ei vod yn vrawdwr o gyvraith; neu vrawdwr á ddótid yn ei erbyn lysiant cyvreithawl, neu wrthnead cyvreithawl, heb dervynu á rhai yn yr achaws; neu gwedi darfai ei vod yn yr achaws roddi barn; neu roddi barn o vrawdwr cyn agau ar y ddadyl, a deisyv o bob parth; neu cyn doddi o blaid arglwydd yn ol deisyv o bob parth; neu roddi barn o vrawdwr yn ddisyved cyn cyvarch dyundeib ei gydvrrawdwr; neu roddi barn o vrawdwr ar ddyyn yn erbyn cyvraith, drwy gymhell o blaid arglwydd, neu geisaw mwynant dosparth yn lluniaeth barn, neu gymrodedd am berchenogaeth tir à dds-perthid oddieithyr gweithred gorsedd gyvreithawl; ond yn y lle y damchweinai i arglwydd o'i dir ehun estynu perchenogaeth i wr iddo, ai yn nghyvarws, ai yn rhybued arall: llyna yr un lle y gellir cadarnáu perchenogaeth i ddyyn ar dir a daiar oddieithyr gweithred gorsedd gyvreithawl. Ail dosparth yw gallu doddi yn erbyn brawdwr, neu roi o'i gydvrrawdwr un o'r pedwar achaws ydd ymchwelir brawd; nid amgen, cás o blaid gelynaeth; sev yw hyny, gallu provi ar vrawdwr roddi cam varn, neu gadarnáu gau, ai ev ai rhai o'i gydvrrawdwr, mewn cov neu ddedyrd yn erbyn ddyyn, a hyny o gás o achaws gelynaeth; neu brovi ar vrawdwr o vrait tir, neu rai o'i gydvrawdwr, erbyniaw gwerth

neu obyrr neu eddewid arno; neu vrawdwr swyddawg, eithyr yr hyn à osoded yn nghyvraith, iddo drosvarnu, ac o'r achaws hwnw barnu cam, neu gadarnáu gau, drwy gôv neu ddedyrd, yn erbyn plaid, a hyny o serch da; neu allu doddi yn erbyn brawdwr, neu rai o'i gydvrrawdwr, dyundeib drwy rwym ac eddewid; nid amgen, rhoddi hovnder i blaid, drwy gadernid py ddadyl bynag y dangoso yr hawlwr, neu amddifynwr, yn y goddevydd yn vrawdwr cadarnáu ei ewyllys iddo, neu ddosparth ar y pwnc hwnw à eilw cyvraith yn gariad cyveillen; neu allu provi yn erbyn brawdwr, neu rai o'i gydvrrawdwr, gosawd bygwth amaddynt, megis argyweddu corf dyn, neu ei eiddo, hyd na llyvasai roddi tervyn ar y pwnc hwnw à eilw cyvraith yn ovn gwyr cedeirn: sev modd y dylir provi hyny, trwy ddedyrd gwlad, eithyr y lle y damchweino ac y perthyno ei orchwiraw i gôv llÿs. Pwybynag à gynhebrwng yn nghyvraith gorsedd ar vrawdwr ei golleddu drwy ryw un o'r pyncau à ddywesbwyd uchod, ev á ddyly gafel côv neu ddedyrd yn ddiohir rhyngto a'r brawdwr, neu rai o'i gydvrrawdwr, y gosoter yr achaws yn ei erbyn; acos côv neu ddedyrd á amlycâa bod yn wir à ddywed y neb y sydd yn provi yn erbyn y brawdwr, neu ei gydvrrawdwr, cosper y neb à orddiwedder yn achwvawd i'r anghyvraith, yn y modd y dyweto cyvraith oreu, a gwneler tervyn o newydd am y gynhen, trwy gyvraith a chyviawnder. Trydydd yw lle gorfo ar y neb y perthyno arwain cynhen ynryson rhab bron canonwyr; nid amgen, pan vo dwy gyfraith ysgrivenedig erbyn yn erbyn yn dosparth yr un peth, ac nad adnapo y brawdwr o'r ddwy gyvraith pwy deilyngav onaddynt; neu od amheu hawlwr, neu amddifynwr, y dosparth à wnel y brawdwr cyvrwng y ddwy gyvraith hyny; neu or dervydd i'r hawlwr neu i'r amddifynwr amheu y dosparth à wnel gwysawdyr á voynt alwedigion o blaid y brenin i ddosparth cynhen amryson cyvrwng gwystyl a gwrthwystyl erbyn yn erbyn, à rodder yn llaw y brenin, neu alwedigaeth barn à rodder ar ddyyn ni allo herwydd cyvraith roddi gwystyl yn erbyn barn; yna y dily y brenin arwain y gynhen hòno, a'i chaderiaw yn rhwymedig yn oed y dydd gosodedig yn nghyvraith, ger bron canonwyr, i wneuthur dileddyv dderbyn tragwyddawl, drwy ddeall ei ganonwyr; a chyd gwnel plaid amheu, a galw ar y dosparth à wnel canonwyr, nid erbyniar, ac ni wrandewir herwydd cyvraith. Canys Hywel Dda vrenin Cymru, o gyng-

hor ei ddoethon awdurdodwyr á osodes yn ei gyvraith ev, gorvod a pherthynu erbyn-iaw deall ei ganonwyr, i ddosparth perygl a phetrusder herwydd synwyr canon dileddyv; a hyny lle nid adnepid gallu o'i awdurdodwyr ev wneuthur tervyn teilwng, dyledus, herwydd ei gyvraith ev yn y lle-odd dywededigion tragwyddolion.

Tair gorsedd ddygynnull á osoded yn nghyvraith Hywel Dda, mal na bai neb rhyw ddifyg yn y gyvraith, na neb rhyw eisau o deilyngdawd na chyviawnder; ac ni roddid braint brawd-wyr i neb o'r gwyr dygynnull hyny o herwydd na braint tir na braint swydd; canys pan ddarfai i wyr y llŷs hño ragreithaw cõv, a chadarnâu y dull, trwy dwng henuriaid, am yr hyn á osodid arnaddynt, yna y dily y brawdwr á osoter o blaid y brenin roddi barn rhwng y cynhenusion, herwydd dull gwyr y llŷs hño, y rhai á voynt oddevedigion o bob parth, heb na'u llysu, na'u gwrthneu: sev yw hyny, pan ddamweinio bod amryson am dir cyvrwng amryveillion arglwyddiaethau, megis cymmydau, neu gantrevodd, na barniaid eu hunaint bieufynt, nac arglwyddi ereill, lleygawl neu eglwysig, y rhai á gyn-nelynt eu harglwydd diweddav dan arglwyddiaeth y brenin, y rhyw orsedd hño á gynnelir o blegid y brenin; canys wrth vrait y brenin y gosoded ynddi gyfraw y rhyw lŷs hño, herwydd cyvraith; sev fordd yw hyny, arglwydd yw y brenin ar bawb o'i deyrnas, ac nad arglwydd neb o'r arglwyddi ereill ar eu cilydd; ac wrth hyny y deallwyd, herwydd y gyvraith, na allai neb gynnal y rhyw lŷs hño, eithyr y brenin; ac wrth hyny y dilyir, o blaid y brenin, gymbell o wys a rhybudd hên awd-uriaid a doethon o'r cynghelloriaethau o bob parth, o'r rhai cymhenav, i'r lle am-rysonawl; a hyny yn nyddiau y gyvraith, a'i hoedau, megis ydd amlycêid mewn cyn-hen amryson cyvrwng llŷs a llan, a chym-ydau a chantrevodd. Neu vod neb un yn cynnal tír trwy weithred gan y brenin, ac iddo ehun, ai i un o'i rieni, a dyvod neb un arall i ganlyn am y tír hwnw; nac ag ev y dyweto, nac ag un o'i rieni, mai trwy orthrymder y gwahanwyd, ac anghyvraith; neu ddyvod un i ovyn y tír o blaid gweith- red á gefid gan arglwydd y tír, ai y neb á vai canlyn ar un o'i rieni, y cafi y tír ac y tyvai yr iawn iddo yntau o'i blegid, a bod neb yn cynnal y tír hwnw trwy oresgyn o ryw vodd arall y delai hyny, hevyd á ddy-lyir eu cynnal yn llŷs dygynnull, ac eu tervynu; canys ni osoded y neb ag á vai yn cynnal tír, trwy weithred o blaid ar-

glwydd, pa fodd bynag y cafi, ai ar werth, ai yn nghyvarws, ai yn rhybued arall, ateb yn llŷs a dadlau cymwd neu gantrev, trwy na chõv na dedryd, megis breyr neu arall; can ni osoded yn nghyvraith tervynu iawn arglwydd yn y llŷs hño. Os y llŷs dygynnull á amlycêa gwneuthur gorth-rymder, megis y dywesbwyd vry, y brenin á ddyly yn ddiohir gwared yr anghyvraith; can ni ddyly neb, herwydd cyvraith, gyn- nal gweithred á wnelid yn anghyvreith-awl. Or derydd na allo goresgynwr anghyvreithloni y gweithred, ac amheu iawn yr arglwydd y cavd y tír gauto, y brawdwr á ddyly varnu y tír i berchen y gweithred, val y dyweto ei weithred oreu, ac á orddiweddo ar y tír o dda cyfraw á'i pieuvydd yn ddilys. Ail yw, na ellir can-lyn cwyn galanas, eithyr ger bron y brenin, neu y neb á gynnal yn lle y brenin; canys ni osoded gallu o neb gymhell cwbyl dâl tros alanas, eithyr y neb á vai arglwydd ar bawb; sev yw hwnw y brenin; canys ni chynghain o gyvraith cwynaw o orsedd i orsedd, i ganlyn am yr un devnydd; am hyny y gynhen hño yn llŷs dygynnull y gosoded i'r brenin draian o bob galanas ar y gymhelo y lle cosp, dros gymhell i'r rhan arall i'r genedyd, megis y rhan cyvraith rhyngtynt. Trydedd orsedd ddygynnull yn y lle y bo amryson cyvrwng awdurdod- wyr am ddeallu dwy gyvraith erbyn yn erbyn, yn doeparth yr un path, heb vod un o honynt yn coelaw deall ei gilydd; neu na wynt pwy deilyngav o'r ddwy gyvraith hyny; yna y dilyir, o blaid y brenin, cymbell o wys rhybuddiau, can- onw yr, na gwyr o grevydd voynt, nac eglwsvyr ereill; i dervynu y gynhen hño, trwy ddeall canon dileddyv; gan gadarnâu drwy d'wng, or bydd á dybio; ac yna y dily bi awdwr, o blaid y brenin, roddi barn, herwydd dull ei ganonwyr. Dewr BREVI.

Tri rhyw dremyg cyndrychawl y sydd: un yw rhocldi barn ar ddyd y perthyno iddo ysbaid un dydd a blwyddyn o'i ham- heu; sev yw hyny lluddiau o wyr y llŷs, neu y brawd-wyr, neu ereill, i ddyd roddi gwystyl diohir; neu ballu o blaid y bren- hin, neu yr arglwydd bieufai y llŷs, o er- byniaw gwystyl; ac wrth hyny ni chyll ev ei amser hyd pan vo llithredig un dydd a blwyddyn o'r pan ganiatâer cyvraith gyntax iddo; ac ev á gynghainai vod y varn yn dda ac yn briodawl yn ei devnydd, herwydd dadlwriaeth ei dadyl. Ail trem- yg cyndrychawl yw barnu rhwym an- mherthynawl ar amddifynblaidd cywlad, i

wrandaw côv a barn gwedi cadeiriaw dadyl, yn ol deisyv o bob parth; a'r tremyg hwnw sydd yn pwysaw ar yr hawlblaidd; canys o gyvraith, amser brawdwr barn gwedi deisyv o bob parth. Trydydd tremyg cyndrychawl yw rhoi barn yn erbyn dyn yn llwrw colled neu ennill cyn cadeiriaw dadyl. Dau ryw dremyg absen y sydd: un yw diveddiannu dyn o'i dir cyn bod yn aeddved amser yn nghyvraith; canys hyd yna y dylir ei araws ev; ail tremyg absen yw rhoddi barn yn erbyn dyn yn llwrw colled tragwyddawl cyn cadeiriaw dadyl. Y tremyg cyntav o'r ddau á ddeallir o an-amserolder; a'r ail á ddeallir oblegid amserolder cymysgedig eu devnydd; can ni alleramheu y varnogwbyl o blaid devnydd, oddieithyr cyvladd yr amser; pei gwedi cadeiriaw dadyl ni byddai varn absen; canys y deisyv á gofa y cyndrycholder, i dremygu y varn. Pob rhyw wall dadlwr-iaeth ni chyvladdo á grym dadyl, ei devnydd o gwbyl á beir goll i'r ddadyl, heb goll tragwyddawl; ac am hyny y mae cenatá-edig cyrchu cyvraith o newydd. Pob rhyw wall dadlwr-iaeth á gyvladdo á grym dadyl a'i devnydd o gwbyl, hyd na bo yn pwysaw ar vodd dadyl, arver dadlwr-iaeth á gyng-hain ei disgyu yn gollod tragwyddawl, oddieithyr dadleuodd á osoded tervynau hysbys o gyvraith iddynt; megis mewn hawl drablwyddyn a'i chyfelyb; a hyny argauedigaeth ennill yw hyd ar dervyn gosodedig. DEWI BREVI, *ora, ora.*

Canys tri rhyw argauedigaeth dadyl ynt: un onaddynt yw pei damchweinai i ddyn govyn tír i arall, trwy gwyn a hawl, gan arwain iawn disgyndedig hyd ato ehun, neu neb un o'i rieni, neu ystlyson, oblegid cydetivedd, can ni hanfai y tír o iawn rieni; a gallu o'r atebwr ddodi yn erbyn yr hawlwr, gwahanu yr iawn á hwynt drwy gyvraith ddilys, a'i ddyvod drwy gyvraith ddilys i un o'i rieni yntau, y gallo yntau arwain iawn difoddedig hyd ato ev ehun, neu gydetivedd iddo, cyd bai gwr dyvod iddo ehun, neu estrawn y cafi y tir ganto; megis y gallai ddadleu yn eu hiawn neu amser i ymwystlaw á barn. Ail argauedigaeth yw gallu o'r atebwr ddodi yn erbyn hawlwr á arddelwo iawn o blaid rhieni, neu o'i ansawdd ehun, neu pa un bynag arall á vai difoddedig yr iawn, trwy ddadlwr-iaeth dadyl anianawl, a barn yn mherson y neb a'i harddelwo iawn o'i blegid; neu ei gydetivedd, trwy orddiwes neb un o'i rieni yn gamoresgynwr; neu allu o'r atebwr gadarn-áu perchenogaeth hwy no'i ansawdd yr hwn ag á geiser ei wneuthur yn gamoresgynwr;

neu vwrw arddelw cyvreithawl yn erbyn yr hawlwr, megis pei damchweinai i ddyn erbyniaw perchenogaeth ar dir; sev yw hyny drwy estyn arglwydd; a gwedi hyny dyvod neb un arall yn abser hwnw i'r orsedd, ac erbyniaw estyn anallu ar yr un tír o law y gorseddawg, a thrwy hyny rhedeg yn y goresgyn hwnw; y cyntav á ddichawn ei vwrw y maes pan y myno, o wevn un dydd a blwyddyn; a chyd ewyno y llall rhagddo am y camoresgyn hwnw, nid ennill ddedryd arno; canys trech yw pob goresgyn cymysgedig yn yr iawn, no goresgyn oddieithyr yr iawn, a bod cyvraith yn deallu bod ansawdd yr hynav, yn llwrw perchenogaeth, yn iawnav, hyd pan ddifodder drwy gyvraith a barn; a hòno yn argauedigaeth dragwyddawl y cynnelir, megis y rhai uchod, am ddamchweinaw perchenogaeth drwy ddadlwr-iaeth wyneb yn wyneb, yr hawlblaidd ar yr amddifynblaidd, trwy gyvraith a barn; neu allu doddi yn erbyn hawlwr argauedigaeth oesodd rhieni, o wevn un orsedd cymwd neu gantrev; canys pwy bynag á vo yn cynnal, na dyn dirgeledig o'r gwaed y tyvo yr iawn, oblegid ei hir-oddev, nac estrawn á'i herbyno, gwedi bo ennilledig yr iawn drwy amserodd y teir-oes; canys i hwnw y mae dirgeledig y gyvraith; megis i'r neb á hanfai o'r gwaed; oni bai allu provi ei vod yn gamoresgynwr ar y neb y tyvai yr iawn iddo o'i blegid; a'r ddadlwr-iaeth hòno nid perthynawl yn erbyn y camoresgynwr hwnw, onid lle y rheto un o'r hen ddyledogion ar ei oresgyn, gan ddywedyd yn ei amddifyn, na ddamchweinawdd etiveddiaeth iddo ev gan y neb á arddelwo, ac yn y modd hwnw amheu ei berchenogaeth yn gwbyl, yn lle pallo iddo arwain iawn ar gyfelybion. DEWI BREVI *yn gannorthawy.* Trydydd argauedigaeth dadyl yw gallu o'r atebwr ddodi yn erbyn hawlwr goddev ohono ehun hawl dra blwyddyn; neu ovyn dylved cychwynawl yn y dyddiau deddon; neu ovyn tír a daiar o ách ac edryd yn amser cauedig cyvraith am dir a daiar; neu ddechre cyvraith gwedi hanner dydd provedig hysbys, a'r cyfelybion; a'r gyvryw argauedigaeth hòno, a'i chyfelyb, á gynnelir yn argauedigaeth amserodd; a'r ddwy ereill, a'u cyfelybion, tragwyddolion ynt; a hyny o achaws eu bod yn tervynu ar yr iawn. GWENOC, *helpa!*

Grym argauedigaeth yw dëor rhag dyn y rhwym a'r cadernid á ddoto i orwiraw ymadrawd; megis côv llŷs, neu ddedryd gwlad, am ddadyl tír a daiar, neu wechni-aeth ar gyvnewid, neu wybyddiaid, neu



ammodwyr ar ammod, à arddelwyr ni boynt gyngheinawl; sev yw hyny am dda cychwynedig, gan drosi i ddadlwriaeth ai devnydd ai deall cyvraith dileddyv. Yn mhob lle y dichawn dyn govyn iawn anianawl o blaid rhieni, a'i ennill, lle ni aller dodî yn ei erbyn ddfoddi yr iawn mewngweithred y gyvraith; a hyn i gadw amser. Pedwar rhwym dadyl ynt, Pwy à holych; beth à holych; py vaint à holych; a pha amser y holych. Sev modd yw hyny, mynegi yn gyntav enw priawd yr hawlwr, ac enw priawd yr amddifynwyr, a hevyd py at y bo dy gwyn; megis wrth y cynghellawr, neu swyddogion yr orsedd hòno. Ail yw, pa beth à holych; sev yw hyny, pa fordd yth wahanwyd o'th dda, ai o drais, ai o ledrad, ai o anghyvarch, ai o lóg, ai o adneuaeth, ai o ventyg, ai by argywedd bynag à wneler it', neu ar dy eiddo; a hevyd, pa ryw dda voynt, ai aniveilaid, ai aur, ai ariant, ai dylwedogaeth o dir a daiar, trwy un o'r dadenluddau, ai o gamoresgyn, ai by un o'r tri, ai trwy ách ac edryd; os llóg, neu o adneuaeth, neu o venthyg, enwi pa ryw gadernid y sydd ar eu cafel drachen; neu, os trwy gynnewid, neu ammod, neu luniaeth arall, enwi pa ryw gadernid à vo arnynt. Trydydd yw mynegi pa vaint à holych; sev yw hyny, mynegi pa rivedi o aniveilaid, neu aur, neu ariant, a pha deithi à voynt; os argywedd, pa vaint vo, a pha vaint vo yr hawlwr; os am dir, enwi pa rivedi o erwydd, a pha beth à ddylyr dros yr eiddo; os am goed, pa rivedi voynt, a pha ryw goed, a pha beth à ddylyr dros yr argywedd, herwydd cyvraith, ai arian cyvraith, ai arian cwtäon. Pedwerydd yw, py amser y holych; sev yw hyny, mynegi y dydd a'r vlwyddyn yth wahanwyd o'th eiddo, neu y gwnaethbwyd yr argywedd, neu yr ammod, neu y lluniaeth, a pha le; os cynnewid, pa ddydd y bu; neu lóg, neu adneuaeth, neu venthyg, pa ddydd, a pha vlwyddyn, y dylid ei gael drachen, neu dalu dros ei gynnewid; os tir, pa ddydd yth oresgynwyd, a pha le y mae y tír, a pha vaint y sydd iddo, a mynegi pa un o'r tri diebyd yth ddioberwyd o'th eiddo, neu yth argyweddwyd, a mynegi pa bersonoliaeth vo yr hawlwr, neu yr amddifynwyr, yr amser y gwnaethbwyd anghyvraith á thi. Pwy bynag à adawo un o'r pedwar rhwym rhagddywededig heb ddywedyd, y mae anhysbysrwydd yn ei hawl; ac ni ddylyr ateb o'i hawl, oddieithyr amser, megis yn blaid atebawl. Ac o dywedir peth o bob un o'r pedwar rhwym, heb ddywedyd cwbyl, megis na

ddeisyvier dros yr eiddo onid mwy neu lai nog à ddylyr drosto herwydd cyvraith, gwallawgair yw, val y dyly yr hawlwr golli ei hawl, val y perthyno wrth y gwallawgair; ac ni ddylyr ateb, ond gan golli o'r hawlwr yn y modd y dywesbwyd vry: a llyna y gwahan y sydd rhwng gwallawgair ac anhysbysrwydd; ac oni ellir cadarnáu bod yn wir un o'r pedwar rhwym rhagddywedig, ni ddylyr ateb vyth i'r hawl.  
**DEWI DDYFRWR, ora pro nobis!**

Tri dyn à gynnaill dir, ac á'i herbyn o vewn llýs cymwd neu gantrev, ac ni ddylyant vod yn bleidiau i ateb i neb, o'u tîred, yn llwrw cwynau, na bod yn vrawd'wyr yngnaid o vrait tír, megis bréyrión: nid amgen, dyn eglwysig y rhoddo y brenin dir iddo drwy weithred, a hyny o'i dir dilys ei hun; ail yw lleyg y rhoddo y brenin dir iddo, ai yn nghyvarws, ai yn rhybued arall, yn y cyfelybion vodd; trydydd yw dyn à gynnal berchenogaeth o daiawgdir dan y brenin. Y cyntav a'r ail rhag bron y brawdwr penav y dylant ateb, or bydd á'i govyno, ac nid y llýs vréyrawl; y trydydd yn llýs y daiawgdrev y dyly ateb, ac nid y llýs uchod.

Tair dadyl y sydd anghynnwysedig yn nghyvraith; un yw dadyl o blaid hawlwr à ddisgyno ar wallawgair, neu anhysbysrwydd, neu lithraw amser; ail yw dadyl o blaid amddifynwyr, o'r gyfelyb vodd; trydydd yw lle y gwnel dyn arddelw mewndadyl à vo anghynnwysedig yn nghyvraith herwydd amheu dadlwriaeth dadyl.

Tri rhyw warcheidwad y sydd ar dir herwydd cyvraith: un yw arglwydd, à vydd warcheidwad ar dir à ddisgyno yn ei law o varwolaeth perchenawg yny ddel i'r iawn ddyledawg ei ovyn; ail yw cydetivedd, à warchatwo ddylyed ei gydetiveddion yny ddelont i gyneryd eu hiawn a dyled, meis brodyr, neu gevndyrw, neu gyverdyrw; canys y rhai hyny y sydd gydetiveddion; trydydd yw dyn y rhoddo perchenawg gwarcheidwadaeth iddo o'i dir, trwy ammod gafel ei dir a'i vaint pan y myno drachevyn.

Tri chwynawdyr celus y sydd à ddylyr eu poeni am eu cwynaw hwy eu hunain: cyntav yw dyn à roddo gwystyl yn erbyn barn à aller ei chadarnáu o wrthwystyl, trwy awdurdawd ysgrivenedig o gyvraith—hwnw á gyll gwerth ei dawawd; ail yw dyn à roddo gwystyl yn erbyn gwystyl à rodder ar ddyr arall amgen nog arno ev ei hun—a hwnw à ddylyr ei boeni drwy gamlwrw; trydydd yw dyn à roddo gwystyl yn erbyn barn ar na bo braint iddo ymwystlaw

â barn, megis efeirad, neu ddynd arall crev-yddus; cenatedig hagen yw i'r cyfelyb ddynd hwnw gwrthwynebu i'r varn drwy awdurdawd y gyvraith; ac os yr awdurdawd â balla iddo, camlwrw â gyll. Ni chyll neb mwy no chamlwrw y lle ni bo ymwystlaw drwy rodd gwystyl a gwrthwystyl.

Tri lle y sydd o rhoddir meichau ni ellir ei wadu: un yw yn nghyhoedd plwy; ail yw yn ngorsedd gyvreithawl; trydydd yw yn nghyrychholder arglwydd: wrth vod y tri lle hyny yn dri chyhoedd cyvraith; ac nad oes dim or â wnaled yn gyhoeddawg â aller ei wadu yn nghyvreith; a chan na ddylyo yr amddifynwr wadu meichau, nid ydyw cyvraith yno yn cadarn-âu na ddylyo y mâch wadu ei vyned yn vâch, yn erbyn gyr y rhingyll; canys cyvraith â ddywed, pan wato mâch ei vechni-aeth yn erbyn gyr y rhingyll, rhodded lw ar ei cheched o wyr un vrait ag ev; can ni ddyly gwrthdwng vod eithyr ar vâch am gynddyled; eithyr mâch â el yn nghyhoedd, gwaded drwy ddedryd gwlad, eithyr lle y perthyno còv llÿs.

Tair uchel llÿs y sydd yn Nghymru: nid amgen, llÿs Aberfraw, a llÿs Dinevwr a llÿs Mathraael. Pob arglwydd, o arglwyddi Gwynedd a'r Deheu, â ddylyant ateb yn y llÿs nesav ei gyvoeth ei hun, o'r tair uchel llÿs uchod, o bob hawl a govyn or vai arno. Cyd gallo arglwydd vod yn hawlwr yn ei llÿs ehun ar y neb â vyno, ni ddyly ev, herwydd cyvraith, vod yn amddifynwr yn ei llÿs ei hun, o neb rhyw ovyn or â vo arno; can ni ddyly ev sevyll ger bron brawdwr o'i llÿs ehun; ac ni ddyllir ei ovyn yntau yn ei llÿs ehun o neb rhyw hawl ag vo arno. Ni ddyly un brawdwr hevyd, herwydd cyvraith, roddi barn, heb dair plaid cyndrychawl, val y dywesbwyd vry: nid amgen, hawlwr sev-ydlawg, yn holi ac yn cynhebrwng; ac amddifynwr sev-ydlawg, yn amddifyn; ac arglwydd gwir cyfresin, yn gwrandaw.

Tri mâch y sydd ni cheif un o honynt ddynd mechni ar ei lw ei hun, cyd gwato ran ac addev rhan arall o'r vechni: un yw dyn â el yn vâch yn ngwydd llÿs; a mâch diebredig; a mâch cynnogyn. Peth bynag â ddyco y cyntav yn y llÿs â ddyly dyngu gydag ev, neu yn ei erbyn. Ail, neu y drydedd yw, beth bynag â ddyco, ar ei seithved o'i gyvneseiviaid o wyr y twng; canys talawdyr, o gyvraith, vydd pob un o honynt yn amser cynnoeaeth. A llyma y gwahan y sydd rhwng mâch diebredig a mâch cynnogyn. Mâch diebredig y geilw cyvraith mâch â ballo y mechniaeth gyda

hawlwr, gan rybuddiaw yn nyddiau gorsedd. Mâch cynnogyn, o gyvraith, y gelwir y neb â el yn vâch dros ddynd ni allo sevyll wrth gyvraith, o blegid tylodi: ac yn y lle hwnw y cymhell y blaid y mâch yn gynnogyn. Dau ryw balledigaeth â gynglain ar vâch i sevyll wrth gyvraith. Un onaddynt yw tylodi o eiseu tri thudd-edyn, megis y gallai dalu dau bob amser, a chynnal y trydydd iddo ehun. Amser y rhyw dâl hwnw yw o wyth niwrnawd i gilydd, o'r pan enniller y da; ac yn y dydd y difycio y cynnogyn, taled y mâch gwbyl ag oedd yn ol heb dalu: a llyma vechni-aeth â bara dros oed dydd tâl. Ail yw o adaw y wlad o'r cynnogyn cyn oed dydd tâl; yno taled y mâch hanner y ddylyed, a pharâed ei vechni-aeth ar yr hanner arall, hyd ar dervyn un dydd a blwyddyn; ac yna taled y mâch gwbyl ag â vo yn ol, oni seiv y cynnogyn wrth gyvraith; a bid i'r mâch ovyn y cynnogyn pan fy myno. Os gwedi yr oed dydd tâl, edrycher ai o wall yr hwblaid am gyrechu amserawl, ai nad ev. Amser y gyvraith yw gwneuthur cyfraw o vewn i dervyn naw niwrnawd, gan rivo oed y dydd tâl, wrth nad perfaith rhoddi amser â vo byrach no hyny, rhag damchweinaw dylyed hawlblaid yn amry-eilon leodd: ac onys cyfry, drwy gyvraith gorsedd, achwyn, bid llithredig amser rhwym y vechni-aeth yn llwybr ymddillwng, yn un modd â pheif darfaif i'r govynawdyr roddi oed i'r cynnogyn yn absen y mâch, gwedi oed dydd tâl.

Tri pheth nis dichawn mâch ei gafel dros blaid estronawl: un yw amddifyn o rwym; ail yw oed dydd còv; trydydd, dadleu yn nghyvreith y blaid nis dyly.

Tri meib y sydd ni ddylyant gafel rhan o drev eu tadau, herwydd cyvraith: nid amgen, mab efeirad â enniller gwedi ymrwymaw mewn urddau efeiradaeth; ail yw mab clawr â enniller gwedi gwahaner y wrth ei bobyl oblegid clevri; trydydd yw mab â dalo ei dâd ei dir dros gelain yn waettir, er heddwch i'r mab val i'r tâd.

Tri rhyw wrogaeth y sydd: cledren waesavwr, ac aswynwr, ac adlamwr.

Tri pheth ni ddyly tavodiawg eu dadleu dros neb un arall: un yw rhoddi gwystyl yn erbyn barn; ail yw dadleu dros warant arall; trydydd yw dadleu dros ddynd yn mherygl enaid ac aelodau.

Tri chwyn goruchel y sydd: un yw cwyn am dir o âch ac edryd; ail yw cwyn i ymwystlaw â barn; trydydd yw cwyn galanas.

Tri rhyw berchenogaeth y sydd ar dir herwydd cyvraith: un yw estyn heb oresgyn; ail yw goresgyn heb estyn; trydydd yw goresgyn ac estyn.

O dair fordd ydd â cogail yn mraint paladyr: un yw o'i oddev, canys goddev â dyr bob cynghaws; ail yw o'eiseu etivedd cyvreithawl o wr: trydydd yw o brynu, canys drydedd etiveddiaeth gyvreithawlyw

Tri argaw tervyn y sydd: rhyw, a braint, a chyngharchadw.

Tri aelawd â ddyly gwneuthur iawn dros ddyn, a'i gymeryd, er na bo i arglwydd oddev iddo: tâd, a brawd hynav, a chwegryn.

Tair dadyl nid oes oed i vrawdwr am eu barnu: un yw dadyl y bo ymdystu ynddi; ail yw dillwng cyvarchau wrth raid y brenin; trydydd yw barnu dadenhudd i ddyn â'i ddylo o gyvraith.

Tri dyn â gynnaill dir yn llŷs y brenin, ac â'i herbyn gan y brenin, os herwydd iawn etiveddiaeth y disgyn iddynt y tir, ac ni ddylynt wneuthur i'r arglwydd un o'r tri rhyw wasanaeth y sydd ar dir, eithyr taluei rent a'i westva iddo: gwraig weldw, a mab dioedran, ac ysgolâig rhwymedig wrth urddau cysegredig. Sev achaws i wr wraig, a'r mab o'eiseu awdurdawd synwyr a chorfoloeth, ac ysgolâig am nad oes werth ar ei davawd yn nghyvraith, ac na ddichawn neb varna eithyr dan berygl gwerth ei davawd.

Tri dyn â ddyly y brenin, neu ei swyddogion, yvnu meichau gantyr er diogelrwydd i bawb o'i werin ev, rhag gwneuthur cam o honynt, er na bo na chwyn na chanlyn arnynt gan neb: un yw gorseddwr â vyno breswylaw mewn gwlad heb roddi gwrogaeth i'r brenin, nac i un nchelwr; ail yw dyn â vygytho arall yn ei absen yn ngwydd yr arglwydd, neu ei swyddogion; trydydd yw dyn â ymwrthoto â chyvraith yn y llŷs, neu yn un o'r tri chyhoedd, gan ddywedyd y mynai ei ewyllys, oddieithyr canlyn cyvraith neu gwynau. Pob rhyw ddynd â gwyno gwyn bygwith enaid a chorff, neu aelodau, neu dda, rhag arall, trwy dwng ar grair, ev â ddyly cafel meichau ar ddiogelrwydd iddo.

Tri dyn ni ddyly un o honynt sevyll mewn barn: un onadynt yw dyn gorphwylawg o ynydrwydd, ac â orfo ei rwymaw neu ei gadw weithiau; ail yw dyn â ambryno o ledrad cyvaddev unwaith, neu â orddiwedder yn lleidyr ar gyhoedd heddwch; trydydd yw dyn â ddygwyddo yn ngwerth ei davawd unwaith o blegid cam vrawd â roddasai cyn no hyny.

Tri chyfredin gwlad y sydd: cyman, dadlau, ac eglwys.

Tri chenawl y sydd yn nghyvraith: un yw cenawl i gadarnau cyvriawnder; ail yw cenawl i gadw cywirdeb; trydydd yw ceuawl i eglurâu gwirionedd: sev ynt y tri hyny, arglwydd, a mâch, a brawdwr teilwng rhwng pleidau.

Tri pheth y sydd uwch no chyvraith, ac â dyr ar gyvraith, pan gyfarfont â hi: arglwydd yn lle y gwnel well no chyvraith i ddilid gwirionedd, neu wneuthur trugaredd; a braint ni aller provi yn ei erbyn; ac ammod addevedig.

Tri phwngce y sydd iawn eu gwadu yn y sarâed: na wnaethodd na sarâed, na mefyl, nac iddo, nac o'i arglwydd, nac o'i genedyl. Sev achaws y gwedir i'r arglwydd rhag ei dirwy; sev achaws y gwedir i'r genedyl rhag ei dial o honynt; canys gwaradwydd yw i'r genedyl sarâu eu câr; ac oni thelir, neu oni wedir, cyvreithawl ei dial; o telir iddo yntau ei sarâed, neu or gwedir, diwaradwydd vydd y genedyl; a'r lle ni bo gwaradwydd ni bydd hawl.

Tri goddev y sydd yn cydgerdded â chyvraith, hyd ar amser, ac nid ynt gorgyvuuch â chyvraith ac ni ddylyr mwyniant o honynt herwydd cyvraith; sev yw hyny dangaws yr achwyson. Un yw goddev o ddynd orthrymder gan swyddawg arglwydd yn gwneuthur anghyvraith arno yn lle cyvraith; a hwnw â eilw cyvraith yn anrhaith oddev. Ail yw goddev o ddynd cybwedd, neu anghydnaws, â vai yn cynghwarchadw swydd, neu ddiiddys; ddi-dda; a'r rbai hyny â eilw cyvraith yn anheilwng oddev; a herwydd cyvraith ni ddylyr mwyniant o-un goddev annheilwng, namyn ei ddiifwythaw. Trydydd yw goddev o ddynd i arglwydd ei gymhell ar ei avles yn ngwydd y llŷs; a hwnw â eilw cyvraith yn dwyll anianawl yn ngwydd yr yngneidwyr; a hwnw â ddylyr ei adver, herwydd y dywed cyvraith, val y hadverir trais; canys cospadwy yw llŷs y brenin i roddi cynghor i neb, pryd nas govyno; ac er yr anghyvraith hōno ymodwared â wna cyvraith iddo pan y govyno.

Tri chwyn â ddiifydd bob cwyn, pan gyfarfont yn y llŷs: un yw y cyntav â gafer gwasanaeth yn y llŷs arno; ail yw cwyn dyledawg; trydydd yw cwyn gorthrynder.

Tri pheth nid ateb cyvraith ddilys drosynt: un yw barnu yn drugarawg; ail yw esgynu dyn cyn ateb; trydydd yw crogi dyn am bedair ceiniawg cyvraith, ac ni ellir ond crogi am gant punt.

Tri anghydwbyod cyvraith y sydd: un yw dwyn tervyn yn gwbyl cyn ymovyn gwir; ail yw barnu ar draws angen; trydydd yw cymhell dyn ar ei avles.

Tri chyveiliorn cyvraith y sydd: hawl anhysbys, ac ateb anghwbyl, a chôv anghydun.

Tri anghyvraith y sydd: un yw govedd iawn i arall yn lle cyvraith; ail yw dwyn anivel yn un o'r tair gavael rhydd, mwy no'r deuparth a'r traian!; trydydd yw dwyn tervyn i ddyd mwy no mesur ei hawl.

Tri pheth y sydd vwy no chyvraith: sev yw y tri hyny, gwir brid ar dir, yn lle y galler ei brovi, ac ni aller myned yn ei erbyn; ac arglwydd yn erlid gwirionedd rhwng deuur; a hir oddev gwlad à vo yn lle cyvraith. Ac yn y tri lle hyny ni ddyly brawdwr varnu, can ni henydd o gyvraith, ac na ddyly yntau varnu namyn cyvraith: gwlad ac arglwydd hagen á ddyly varnu yna.

Ni ddylyr herwydd cyvraith gredu tystoliaeth gwr ar wraig, ac un gwraig ar wr; canys traianawg yw pob gwraig ar wr; ni ddyly ei chredu hithau arno ev, can ni ddyly y traian ei gredu ar y ddeuparth. Tystoliaeth á ellir ar air ac ar weithred, ac ni ellir ar veddwl calon; ac yna y tervyna y ddwy gyvraith, cyvraith eglwysig a chyvraith Hywel, can eu baint. Onid y tri lle yma, cystal amhriodawl á phriodawl: un yw yn y baint y ganer; ail, yn ei lw; trydydd yw lle ni aller dangaws o'r corf un dyn teilyngach nog ev; canys cyvraith á ddywed na bydd amhriodawl yr etivedd hwnw, pei un o'r dynion gwarhaddedig vai; canys ev á biau holl ovynion ei dád, a'i holl amddifynion. Cyvraith à ddywed y dichawn y brenin roi tîr y deyrnas i'r neb á wasanaetho drosto, ac yntau yn barawd i roi yr anghenion: yna dywed cyvraith un lle y perthyn barn ar draws anghenion: ni chynghain un esgus i'r neb allo ei wiriaw, neu arall drosto: cyvraith á ddywed, y neb á ddro ei gorchymynau à ddwg eu poenau.

Tri dyn à geif dda cyfroedig a ddylyed cyfroedig varwolaeth y perchen o gyvraith etiveddion, ac ni ellir cymhell un o'honynt yn blaid i dalu yn nghyvraith etiveddion: nid amgen, aillt brenin neu vreyr, yr hwn à eilw cyvraith yn aillt priodawl, yr hwn à drico gyda ei arglwydd yn ddisymud hyd y pedwerydd dyn o bob parth; ail yw brenin pan ddamchweino etiveddiaeth iddo o dda ei vâb aillt à vo marw heb etivedd o'i gorf; trydydd yw pan ddamchweino i vreyr ddisgyn yn nghyvraith etivedd yn y

gyfelyb vodd i vâb aillt à vo marw heb etivedd o'i gorf. Ni ellir cymhell neb yn blaid i dalu dyled dros arall yn nghyvraith etivedd neu gydetivedd, oni bydd disgynedig neu dreigledig yr etivedd neu gydetivedd iawn anianawl oblegid ei rieni neu gydetivedd; ac wrth hyny ni thâl mâb alltud, yr hwn à elwir yn vâb aillt, ddylyed ei rieni, neu gydetiveddion, wrth na cheif yntau anianolder o'u plegid hwyntau, o iawn disgynedig neu dreigledig: ni ellir cymhell neb yn dalawdwr dros ddyd à vo marw cyn talu dyled, oddieithyr tri dyn, nid amgen, etivedd à gafo anianolder oblegid tât; ail yw mâch; trydydd yw cydetivedd à gafo anianolder oblegid cydetivedd arall.

Tri dyn à saiv tavodiawg absen drostynt: un yw dyn à vo mewn pererindawd tu á Rhuvain, neu at vedd Crist; a dyn à vo clav gorweiddiawg, o vriw, neu vrâth, neu glevyd anianawl arall, hyd na allai ddyvod, nac ar varch, nac ar draed; a dyn à vo mewn caethiwed carchar: a hevud dyn à vo mewn llyudd arglwydd; canys penav gwasanaeth tîr yw mewn llyudd, o raid neu uvylldawd; a hwnw y sydd bedwerydd achaws. DEWI BREVI.

Tri etivedd cyvreithawl y sydd yn nghyvraith nid ynt gywiw yn ngwasanaeth y brenin, ac ni ddylyant gynnal tîr dan y brenin gwedi eu tadau: nid amgen, dall, a byddar, ac evrydd; o achaws na allant gwblâu gwasanaeth perthynawl i'r brenin o'i dir; a hyny o ddiffyg nerth corforawl, mewn dadlau, a llyuddau, a llawer o leodd ereill. Y dianav o'u clustau, a'u traed, a'u llygaid, er eu bod hwynt anghyvraithawl, tîr eu tadau, gwedi eu tadan, à ennillant, herwydd cyvraith, gan y brenin yn hollowl, ac a'i cynnialiant yn berthynawl iddynt eu hunain, oni bydd i'r rhai anavus hyny etiveddion o'u cyrf. Or cyll perchen tîr ei lygaid, megis na welo, a'i glustau, megis na chlywo, neu ei draed, megis y bo evrydd, ni ddyly ev gynnal tîr dan y brenin gwedi hyny, namyn o'r bydd etivedd iddo, neu gydetiveddion tîr, megis brodyr neu ereill, rhag difygiaw gwasanaeth i'r brenin o'i dir. Pwy bynag á gymero ddyled dyn anavus o dir, pryderu y dyn anavus á orvydd arno tra vo byw o vwyd a dillad tra vo byw.

Tri dyn à ellir eu llysu o'r unrhyw achwyson, nid amgen no galanasdra, a thirda, a gwreicdra: tyst, gwybyddiad, a lliwad cyvreithawl.

Tri pheth y sydd y dichon dyn golli ei ddadyl o'honynt, er daed vo y devnydd o

wir a chyvraith; sev ynt y tri hyny, llys cyn amser, a thyst ar vâch, a chadw gwedi gwrthawd.

Tri brodyr y dyly un o honynt drev ei dâd ac nis dyly y ddau ereill, ac yn ei hun-ram ac yn ei hun-dad o'r un gwr priawd, ac o'r un wraig briawd: sev yw yr un â'i ceif, dianaw; sev yw o'r ddau ereill mud, arall yw clâv gwahan; sev fordd y diferir y clâv gwahan, am na henyw o'r byd; trydydd yw mud, canys anghwbyl yw o davawd, ac ni ddily yntau vod yn vrawdwr; canys ni ellir cwbyl o anghwbyl, ac wrth hyny nid dyn yntau; ac am nad dyn ev, ni ddily vod yn vrawdwr.

Tri gwreiddyn anianawl y sydd i'r un gair cyvraith: gwirionedd, cydwybod, a dysg. Oni chyvladd y rhai hyny ni cheif cyvraith ei henw; gwirionedd yw gwreiddyn barn; cydwybod yw gwreiddyn cyvraniad; dysg yw gwreiddyn cynhebryngiad dadyl, a'i herbyniad annhervynadwy yw pob cyng-haws ni thervynwr drwy y gwreiddyn hyny.

Tri perchenogaeth y sydd ar dir hyd ar amser, ac â vyddant gargychwyn, ac oes-odd y sydd iddynt: oes adeilad ar dir dyn arall uddydd a blwyddyn a thri niwrnawd nawdd; oes estynawl hyd pan roddo ei vrait a'i ansawdd o'i law; oes gwrthriviad hyd pan y cymhelo yr arglwydd i wellâu ei vrait a'i ansawdd: ac os gwrthyd, cauedig vydd cyvraith rhyngto ag ev yn un o'r moddion y mae i ddilyedawg golli ei dir. Sev yw gwrthriviad etivedd cysevin i gafel dadenhudd.

Tri goresgyn y sydd ni ddylir cafel mwynant o honynt: un yw goresgyn o anvodd; ail yw goresgyn heb wybod; trydydd yw goresgyn y bo ymrwym a phoen arno er hyd y bo ynddo, megis rhwymiad,<sup>1</sup> neu ysgriven arall. Ni chyll dyledawg ei dir er myned rhivedi o ddy-nion dros ben nawved âch, pei gallai wir-iaw vod llev treisig yn ol ar yr amserodd cyvreithawl; canys nid â hawl yn llwrw gwyddwaledd yn erbyn dilyedawg nes tervynu yr achwyson uchod.

Ni chynghain cwyn sevydlawg namyn o dri modd: sev yw y rhai hyny: o der-vydd i hawlwr ddevnyddiaw cwyn at swyddogion yr orsedd, ac yn y dydd cyntav galw plaid, ac na ddel yr hawlwr wrth ei alw; ac yno deisyv o'r amddifynwr varn o ryddid, a'i varnu iddo; ac ar hyny yr hawlwr yn dyvod i'r orsedd, ac yn achwyn wrth yr arglwydd a'i swyddogion, vod yr iawn a dilyed yn dioberu o gyvraith cyn llithraw y dydd â rosoedd y brenin i roddi

<sup>1</sup> "Obligation."

cyvraith; canys diodor yw pob peth ar gymaint ag y gwallocoedd yr hawlwr ei vnyed dan ei ganlwrw; ac wrth hyny y dichawn yr hawlwr dystu i'r arglwydd nad ydyw yr amddifynwr yn gwadu; ac yna y dichawn gwynaw yn sevydlawg. Ail modd y cynghain cwyn sevydlawg: o derydd i hawlwr holi yn y llys dygynnull, a gwr y brenin yn eiste ar y llys hwnw, nid oes oed iddo i ateb; y dydd hwnw y derydd y gwallgyvreithau a'r camddevodau, a gwan-gymydau; ac nid oes i amddifynwr; canys mwy yw y dystoliaeth hōno nog oed. Trydydd lle y cynghain cwyn sevydlawg yw, pan adawo swyddawg ei wialen swydd yn y lle hwnw, ni osoded oed yn y gyv-raith hōno; canys y brenin â ddyly ddang-aws gwialen ei swydd yn ddigam i bawb. DEWI BREVI I C.

Tair cyvlavan nid oes sarâed ynddynt: un yw dyrnawd mab cyn oed cyvreithawl pedair blwydd ar ddeg, a dyrnawd o eiddigedd cyvreithawl, a dyrnawd o an-voddau: y gwaed ar weli, â ddyllir, a'r asgwrn twn, o bydd.

Tair diasban uwch advan y sydd: un yw dilyedawg am dir, gwedi bo yn ngwlad arall hyd yn mhen y nawved âch, a dawed o hono at yr arglwydd, a dodi diasbad ger ei vron am ei iawn a'i ddylyed, a govyn o'r arglwydd i'r hen awduriaid a'i tyngant ei âch; canys y dilyedawg biau ddwyn ei âch yn eu blaen â henawduriaid, gwedi yntau ei dyngu. Ac onis gwybyddant ar ddilyedawg yn govyn i'r arglwydd gwedi pallo i'r henawduriaid o dyngu ei âch, ac yntau yn dwyn ei âch i'r tîr a'r ddaiaer ac i'r drev y henyw o heni, arglwydd â ddyly rod-di y tîr iddo, can ni thyngo yr henaw-duriaid ei âch, gwedi y bo y rhyw ddy-n hwnw y maes o'i wlad hyd yn mhen y nawved âch, ai ev o ddeol, ai o alanas, ai o vâr arglwydd, ai o wystloriaeth; a'r nawved dyn hwn yn myned o briodawr yn anmhrîodawr, yna y gyvraith yn mynu ei gynnwys ar ei ddylyed: sev yw hyny, cymaint â'r gwr mwyaf â warchatwo yn yr oes y dêl ev i'r tîr: a hwnw â elwir yn ddiabpad uwch advan; ac ni wrandewir dyn o'r nawved âch allan. Ail yw mab uchelwr am ei alltudion, pan ymadawant ag ev heb wneuthur iawn iddo. Trydydd yw gwraig am ei gwr; can ni ddily cenedyl gymeryd dilysdawd heb ei chēnad gwedi gwra.

Tri pheth ni chain: hoced mewn llw, esgus yn nghyfes, ac ymddiried i hireinoes.

Tri dyn â ddianc heb vod yn eneid-vaddeu am ledrad cyvaddev: ysgolâig

coronawg, ni ddylir am ei ledrad cyntav namyn ei ddiurddaw a'i ellwng yn lleyg; ail yw mab cyn ei vnyed yn bedair blwydd ar ddeg; trydydd yw dyn anghyviaith, ni wypo gyvraith wlad a'i devawd, hyd yn mhen tridiau a theirmos. DEWI BREVI.

Tri dygyn goll cenedyl: cyntav yw o honynt, bei darfai vod mab ar arddelw y tād yn vāb dyoddev, a lladd dyn o hono gelain, a meichau o genedyl y tād hwnw ar yr alanas drosto; a gwedi hyny ei ddwyn o'i vam i dād arall, a dawed o'r genedyl à ryladder eu cār i ovyn ei alanas i'r genedyl à ryveichiasai ar yr alanas; a dywedyd o'r genedyl rhydwngadoedd y llovrydd ohonei, ac na ddylyant hwy dalu galanas, namyn dros gār iddynt; ac nad oedd gār hwnw iddynt hwy, y gwr à ddycbwyd o'u plaid; ac oddyna dyvod y genedyl i ovyn galanas i'r lle y dathoedd y llovrydd, a dywedyd o'r genedyl, na wnaeth ev ddim cam, er pan oedd ev gār iddynt hwy; ac na ddylynt hwy wneuthur dim iawn, namyn dros y cam à wnēl ev yn gār iddynt hwy; ac yna herwydd y ddau acco y dywed cyvraith, talwys à vechniwyys: sev yw hyny, talu o'r neb à ryvechniwyys yn gwbyl, cyd boynt gwirion am ei veichau a'i dāl. Yr ail yw, bei darfai damchweinaw meichau ar alanas dros y llovrydd, a bod un geinawg yn ōl heb dalu, ac am hyny lladd y llovrydd, cyvraith á ddywed, na ddylir nac edryd yr alanas drachevyn, na dim amdano yntau; can ni thaloedd ev gwbyl; ac ni ellir cwbyl o anghwbyl. Trydydd yw, bei darfai cyswynaw dyn o ladd arall, ac nad ymarddelwo yntau o wād ar y llwon y dylyai, ac esgaelysu ei genedyl, a bocsachu am y gyvlavan; cyvraith a ddywed, o hyny allan na ddylid cymeryd gwād ganto; can ni ddechreuwyys gymeryd arddelw ar wād: sev oedd hyny anvon at ei genedyl, ac at yr arglwydd: ac am golli da y gelwir yn ddygyn goll cenedyl.

Tri gwarthrudd celain: cyntav yw lladd celain; a'r ail ysbeilaw; a'r drydedd govyn py gelain yw hon, a gwān gwth ynddi. Am y tri hyny y telir sarāed. Am y cyntav sarāed heb ddyrchavel; ac am y ddau ereill y dygwydd y traian i'r llawr: sev achaws yw na ddylir arddyrchavel ar y sarāed gyntav, wrth na liwir er à sarāer dros waith y cyntav; a llyma yr achaws y gostwng y ddwy sarāed gyntav, wrth vod yn llai gwarthrudd y marw no'r byw.

Tri argau gwaed: gwaed hyd ran, a gwaed hyd gwl, a gwaed hyd lawr; sev yw hyny, gwaed hyd wyneb, gwaed hyd

ddillad, a gwaed à reto hyd lawr. Am y gwaed diwedddav, can ni chwyner amdano, yr arglwydd á ddyly ymherw, wrth waedlydu ei dir a'i ddaiar; ac sev yw maint cosp am hyny, pedair ar hugaint am y gwaed, a phunt am waedlydiaw y tŷr.

Tri gwaed ni ddiwycir: gwaed o ben crach, gwaed trwyn, a gwaed o graith tra vo agored. Sev achaws na ddiwygir y gwaedau hyny, wrth vod yn anianawl gantynt redeg bob amser.

Tair craith ogyvarch: craith ar wyneb, ac ar law, ac ar droed. Am y gyntav, gwerth gwaed, a gweli, a gogyvarch dair gwaith; am yr ail, gwerth gwaed, a gweli, a gogyvarch ddwy waith; am y drydedd, gwerth gwaed, a gweli, a gogyvarch un waith. Sev achaws y rhagora cosp am y gyntav, yn vwy nog am yr ail; am yr ail, yn vwy nog am y drydedd; canys, amlycach, ac anurddedicav, yw craith ar wyneb, nog ar law; ar law, nog ar droed; ac wrth hyny y dyrchaiv yr hon rhag y llall.

O dri modd y sarēir pob dyn: o gyvlavan arno, a bod gan ei wraig, a thōri nawdd gwedi as rhoddo. Sev achaws y diwygir sarāed gwr o vod gan ei wraig, yn vwy nog arall, am ei hanfod o alanasdra.

Tri mab ni ddyly drev tād: mab efeiriad, mab clavwr, a mab gwr à daler ei dir yn waed-dir. A llyna yr achaws nas dily mab y clavwr, wrth ddarvod i Dduw ei ddedhol, a gwahanu ei vtraint i wrth iachweddawl. Sev val y mae hyny o vāb à gafo clavwr gwedi y bo barnedig i glavdy; a mab à gafo efeiriad gwedi ydd urdder yn efeiriad.

Tri argau tervyn: braint, a chyngwarchadw, a phriodolder. Sev val y mae hyny, braint breiniawg a'i hargau rhag anvreiniawg ei dervyn; can ni ddyly anvreiniawg dervynu ar dōr dyn á braint iddo; a hevyd priodawr, can ni ddyly dervynu arno; ac hevyd hēn warchadw á argau dervyn, rhag un à vo iau nog ev. Cyd boed dau briodawr o gymeriad, a chyhyd eu gwarchadw ag unrhyw briodorian, ac na wypo henuriaid gwlad iawn dervyn rhyngtynt, rhānu yn ddau hanner á ddyllir, herwydd cyvraith cyhydedd.

Tair gorsedd gyvreithawl y sydd: gorsedd arglwydd, a gorsedd hon esgob, a hon abad: a'r tair hyny gwrogaeth gwyr; ac ni ddyly gwr o un o honynt gwneuthur iawn, namyn yn ei orsedd ev ehun; oni bai ddamchweinaw i wr yr esgob wneuthur cam i'r arglwydd, neu wr yr arglwydd, yn ngorsedd yr esgob; neu wr yr abad yn un

o'r ddwy ereill. Pob un o'r rhai hyny gwnaed iawn lle gwnel y cam.

Tair gwanas gwystyl y sydd: law, a braich, ac ysgwydd. Sev achaws y gelwir y rhai hyny yn wanas gwystyl, can ni ddylir ar ni aller ei arwain yn un o'r tri lle hyny; onid yr hawlwr a'i myn, onid un peth, bod y ddylyed yn gymmaint ag na ellid gwystlaw amdano namyn peth mawr. Sev achaws na ddylyir hyny, wrth na ddylyir peth anghyvodedyn am ddylyed cychwyn.

Tri gwystyl gogymeriaid y sydd: o law mäch, ac o law cynnogyn, ac o arglwydd, neu wasanaethwr, am ddylyed addevedig, heb vâch arnei; a heb gadarn vâch, ac eisoes ei vod yn addevedig.

Tri gwystyl nid rhaid meichau ar eu dilyrwydd: gwystyl o law mäch, a gwystyl à ddyco yr hawlwr ar y mäch or na vyno gwasanaethu ei vechniaeth, a gwystyl o law arglwydd, neu wasanaethwr. Sev achaws yw nad rhaid mäch ar ddilyrwydd gwystyl o law mäch, neu o law yr arglwydd, can ni wata hyny o ddynton rywystlaw oc eu llaw, nac er chwant da, nac er peth arall: bei gwedynt gwystlaw hwnw, hwynt á ddylynt gwystlaw un arall. A llyna yr achaws nad rhaid mäch ar ddilyrwydd gwystyl a ddycer i ar vâch, canys o'i anvodd y dygir; ac os rhydd yntau o'i vodd, cymmered yr hawlwr vâch ganto ar ei ddilyrwydd, rhag gwadu ohono nas rhoddes.

Tri pheth nid rhaid mäch ar eu dilyrwydd: cynnysgaeth gan wraig, ac ennill meddyg gan glâv, a chyvarws gwr gan ei arglwydd.

Tri rhyw ddadenudd y sydd, a'r tri hyny ni ddylir eu barnu namyn i'r mâb yn lle y tād: dadenudd âr ac eredig, a dadenudd bwrn a baich, a dadenudd cardd. Pwybynag y barner dadenudd o âr ac eredig iddo, ev á ddyly eiste yn ddi-dwryv, dieniwed, heb ateb i neb, oni vo á'i gevyn ar ei ddäs, ac yna ateb. Pwybynag y barner iddo ddadenudd o vod tād yn cyvanneddu, a march a chàr ganto, ev á ddyly vod yn ddieniwed hyd yn mhen y nawved-dydd heb ateb, ac yn mhen y nawved-dydd cyvraith. Pwybynag y barner iddo ddadenudd o vod tād yn gyvreithawl á bwrn ac á baich ganto yn cyvanneddu, a dyly vod yn ddi-dwryv, ddieniwed, hyd yn mhen y trydydd fyd heb ateb; ac yn mhen y trydydd fyd cyvraith.

Tri chàr gychwyn heb ad-ddychwel: mâb à wato ei dād unwaith, neu à gymmero unwaith; pa un bynag à wnel, ni

ddyly ei adwneuthur; a'r ail yw dyn à êl unwaith yn gyvreithawl o briodolder, ni ddyly byth ddyvod drachevyn; a'r drydedd yw gwraig à el unwaith ei braint oddiwrth ei chenedyl yn gyvreithawl, ni ddyly ymchwelyd byth drachen yn mraint ei chenedyl. Sev achaws yw hyny, wrth nad adwna cyvraith à wnel; ac na ddylir gwneuthur un o'r tri hyny namyn yn gyvreithawl.

Tri gorsav gwraig: cyntav, lle cysger genthi, hi á ddyly vod yno hyd yn mhen nawved-dydd; ail yw, lle desgaro ei gwr á hi, hi á ddyly vod yno hyd yn mhen nawved-dydd, i edrych a'i cyvreithawl ydd esgarwyd á hi, ac i vod yno ar ol y geinawg ddiweddav or à eiddiai; trydydd yw gwraig y bo marw ei gwr, hi a ddyly vod yno uwch ben ei haelwyd hyd yn mhen y nawved-dydd, ac oddyna ar ol y geinawg ddiweddav or à eiddiai.

Tair rhwyd brenin ynt, ei deulu, ac aswellt ei veirch, a'i re. Sev achaws yw, carcharawr à ddalo ei deulu, brenin bieu-vydd; ac anivel à ddaler ar aswellt ei veirch, pedair ceinawg cyvraith o hono; ac velly march à ddaler ar ei re, ev a ddyly pedair ceinawg cyvraith o hono.

Tair rhwyd mâb uchelwr: aswellt ei veirch, a'i genvaint voh, a'i re. Ac o cheif anivel ni bo ei eiddo yn aswellt ei veirch, neu ar ei re, neu ar genvaint ei voh, unrhyw gosp y sydd iddo ag à vo i'r brenin.

Tair rhwyd mâb aillt: ei braidd wartheg, a'i voh, a'i hendrev. O cheif anivel ni bo eiddo ei hun ar ei braidd wartheg, ev a geif bedair ceinawg gota o hono; ac anivel à gafai yn ei hendrev, neu yn mblith ei voh, ev a ddyly bedair ceinawg gota o hono.

Tri chynghawawg cyvraith: rhanid galanas, a gwerth tai a dodrevyn, a dadyl mäch a chynnogyn. Sev achaws y gelwir y tri hyny yn gynghawawg cyvraith, rhag anhawed eu dwyn ar gôv ac ethrylith.

Tri mud gorsedd: mäch, ac ynad, ac arglwydd; sev achaws y gelwir hwynt yn rudson gorsedd, wrth vod amser i bob un onaddynt y dylai vod yn vud: mäch, o'r pan eler yn nghyvreith am ei vechni ni ddyly ateb, namyn gwedi govyno yr ynad ai mäch ai nad mäch; a'r ynad hevyd, nid rhaid iddo ateb oni vo rhaid iddo ados-parthu o'i ben; ac arglwydd hevyd, nid rhaid iddo vod yn rhaglavar: ac wrth hyny y gelwir yn dri mud gorsedd.

Tri aryv cyvreithawl, cleddyv, a'gwaww, a bwa á deuðdeg saeth. Gwerth cleddyv

gwynsaid pedair ar ugaint; or bydd breulif un ar bymtheg; o bydd grymsaid deuddeg ceinawg; gwerth pob un o'r ddau ereill pedair ceinawg.

Tair helynt rydd y sydd: llewynawg, a dyvrgi, a haid wenyn. Sev achaws y mae y tri hyny yn rhydd, wrth eu bod yn dri treileidig enivel ac na wastadant yn un lle rhagor ar ei gilydd.

Tair asgavaeth milgi: ysgyvarnawg, iwrc'h, a llewynawg. Sev achaws y gelwir y rhai hyny yn asgavaethau milgi, canys y cyntav a'u coto bieuvydd; onid un peth, cyvarvod cwn y brenin neu gwn yr arglwydd a'r llwdyn à gyvotai gwn mab uchelwr: pwybynag hagen à gyvodaï un o'r tri enivel a'i asgyvaetha o'i vilgi, ev a'i pieuvydd.

Tri enivel cymmaint gwerth eu troed a'u henaïd: march, a hebawg, a milgi. Sev achaws yw hyny, canys hydroed yw pob un o honynt; ac enivel diwryn ac allo bydd gwedi na aller arver o honynt; ac arver o bob un o honynt y sydd o'i draed; ac wrth hyny y mae cymmaint gwerth troed pob un o honynt à gwerth ei enaid, pob un o'r tri hyny.

Tair sarâed ni ddiwygir: hon à gafo mab gan ei dâd, a'r hon à gafo gwraig gan ei gwr am un o'r tri achaws cyvreithawl, a sarâed gwr gan ei arglwydd.

Tri achaws y sydd y dily gwr vaeddu ei wraig: o unaw mevyl ar ei varyv, ac am gyvlavanu arno, ac am gafel gwr arall genthi. Os maedd yntau amgen no hyny, can cymerth ei ddwyn yn ei law ev ei hun ni ddyly iawn.

Tri lle y rhan cyvraith yn ddeuhanner: cyntav, o damchweinai vod dilyed a mâch arno, a gadaw o'r cynnogyn ei wlâd, y mâch à ddyly dalu hanner y ddylyed, cyd bo gwirion, am beri o hono i'r hawlwr ei gredu; a'r ail yw, o damchweinai amryson am dervyn ar wyr yn unrhyw briodorian braint gwarchadw, ac na wypai henuriaid gwlad yr iawn dervyn rhyngthynt, rhânu yn ddeuhanner y ddylyed rhyngthynt; a'r trydydd yw, o damchweinai vod ynys rhwng dwy avon, ac na bai nes yr un no ei gilydd, eu rhânu yn ddeuhanner a ddylyant. Velly y mae cyvraith cyhydedd: sev yw cyhydedd, pob dadlau à hebrynger yn gyhyd ac yn gystal.

Tair dirwy y sydd: dirwy ymladd, dirwy drais, dirwy ledrad. Am bob gweithred à wnel dyn ni hanfo o'r tri hyny, camlwrw a dâl amdano. Sev yw cosp am bob un o'r tri uchod tair punt; a mesur camlwrw yw naw ugaint.

Tair over groes: croes risg pren, a chroes à waharddo lwybyr, a chroes ni hebrynger à llaw. Am yr un o'r tair hyny ni ddylyr na diwryn na dial.

O dri achaws y dylir amobyri wraig: o gywelogaeth cyhoeddawg, ar ni bo na rhodd nac estyn; ac o veichogi ac o rodd ac estyn, can ni bo cywelogaeth; llathruddiaeth hevyd ev à ddylyr amobyri; ac eisoes ni henyw o un o'r tri achaws; sev achaws yw wrth ei hanvod o bob un o'r ddau, o rodd ac o gywelogaeth; canys pan aeth hi gan y gwr yn llathrudd, yna ydd ynroes hi ei hun i'r gwr: o hyny ydd henyw llathruddiaeth o rodd ac estyn: o gywelogaeth cyhoeddawg pan henyw; canys cyvraith à ddywed, can ni chysgo gwr gan wraig à ddyco yn llathrudd, oni chymer gwr y tŷ vâch ganto ar ei hamobyri, taled ev ei hun yr amobyri.

Tri dyn à ddyly dalu amobyri: y neb à vo roddiad arnei, a hithau ei hun, a'r hyn a ddywedasad ni uchod.

Tri dygiad a vydd ar vâb: un ei vam ar ei llovydd: a dygiad tâd neu genedyl yn y vameglwys; a'r trydydd ev ei hun, oni orddiwedd ei vam yn vwy, o gorddiweddasai ei vam yntau ei ddwyn, a'i vod yntau yn amheuedig, cyvraith a ddywed, na ddyly ev ymddwyn, na chenedyl ei gymeryd; canys cyvraith a gydsynioedd gwybod o heni nad oedd vab y mab hwnw i'r tâd y tybygai ev ei vod yn vâb iddo; canys dug ei vam iddo, a hi yn gweled ei vod yn amheuedig.

Tri chymeriad a vydd ar vâb: un tavawd a'i gwata ac a'i cymer, ei dad ei hun yw hwnw; a'r ail yw, oni bydd byw y tâd, pencenedyl ar ei seithved o wyr, yn lle y tâd, gydag ev o'r genedyl; a'r trydydd yw, oni bai na thâd na phai canedyl, un gwr ar ugaint o'r genedyl a'i gwata ac a'i cymer; saith yn lle y tâd, saith yn lle y pencenedyl, a saith gyda'r pencenedyl: sev yw val y mae ei gymeryd o'r pencenedyl yn ei law, a'i roddi yn llaw y gwr hynav o'r gwyr; ac velly o hynav i hynav hyd ymhen y seithved gwr hyny: nid oes nodiad arnadynt, namyn eu bod yn genedyl or ni ddylynt rânu daiar ag ev. Un ansawdd à hyny y cymer: ac ynad a ddyly varnu yr hwn a wnelont na'i wadu na'i gymeryd. Ac velly y mae cymeryd mab neu ei wadu. O darfai bod mab ar arddelw y tâd yn dyoddev, ac yn mywyd y tâd hwnw nas dyco ei vam iddo; cyvraith a ddywed na ddyly y genedyl na'i gymeryd na'i wadu; canys gollyngwys hi yr amser y dylai ei ddwyn, os mynai; ac am hyny



y dywed cyvraith, na ellir dwyn mab i varw; namyn gallu ei ddwyn o'i vam i dâd arall, os myn; can ni ddug hwnw o'r blaen. Os hithau â'i dygasai hwnw, na da na drwg vai y tād, cyvraith â ddywed, na ddily ev gafel tād byth gwedi hyny, namyn hwnw; ac am hyny y dywed cyvraith, na ellir dwyn mab i varw.

Tair celvyddyd ni ddily mab taiawg eu dysgu, heb genad ei arglwydd: ysgoleig-dawd, a govaniaeth, a barddoniaeth. O damchweinai i vab taiawg ddyssu un o'r tair hyny heb genad ei arglwydd, cyvraith â ddywed, na bydd ryddach no chynt; canys yn anghyvreithawl y dysgwys; ac nad oes anghyvreith â ddilyo ddyvod yn gyvraith; ac na ddylyant hwyntau wrth ddilyed mab uchelwr ymryddâu namyn o arddelw cyvreithawl; a phwybynag ni chafu arddelw cyvreithawl i ymryddâu, bid gaeth val cynt.

Tri pheth ni ddily taiawg eu gwerthu o bydd ar ei helw, mêl, a môch, a march ceillawg, heb genad ei arglwydd. Rhai a ddywed, os gwerth, y dily o'r gyvnewid ddyvod drachevyn, can nid oedd gyvreithawl y gwerthu; ac nad oedd ychydig dim â wnelid yn anghyvreithawl; eisoes mwyav a gadarnâa, na ddyly ddyvod drachevyn, namyn o gwnathoedd y mab aillt gam, y dilyai ei arglwydd arno os mynai.

Tri phir rianid a vydd ar dir: rhan rhwng brodyr, adran rhwng cevnderw, a chyhydedd rhwng cyverdyr. Ni ddily na nai nac ewythr na rhâu nac adrân na chyhydeddu; sev achaws yw hyny, or na orddiweddoedd ev ail rhan, ac na ddaeth ato yntau y rhan arall. Sev fordd oedd oedd hyny; os nai vab brawd vai ev i'r ewythr hwnw ni orddiweddoedd ev ei ran gyntav; sev oedd hõno rhan brodyr; ac na ddaeth ato yntau ran arall, oedd hõno adran cevnderw; ac velly y divernir y nai vab cevnderw, neu nai vab cyverderw. Ni ddily cafael ateb, namyn cyttir cenedyl, yr hyn â ddywedasam ni uchod a ddylyir o dir or â vai rhan gynt arno; tîr rhydd hagen ev a ellir ei rân â nai ac ewythr, ac ewythr a nai. O dervydd i ddyn mynu adran ag arall or â ddilyed, ev a ddily ddwyn yr avel â vu yn llaw y tād, bei damchweinai colli peth o wir a chyvraith o hyny; ac o achaws ei ddyvod yn annily ato, ac na wypai ei vod yn annily pan ddaethoedd ato.

Tair marw dystoliaeth y sydd: cyntav yw o honyat, o damchweinai i ddyn holi tîr o âch ac edryd, o fordd arall, a dodi yn mhen tyston barnu o gyvreithau tād, neu

hendad, neu orhendad, a na bai à watai ei ddwyn ar y crair à vo yn llaw ynad ryataw oc y tadau gantynt hwy barnu cyvraith rhieni i neb y sydd yn holi y tîr hwnw, neu o âch ac edryd ydd hawl, a'i ddodi yn mhen y tyston, yr unrhyw lw à ddaw ar y rhai hyny ag ar y rhai ereill uchod; ail yw olyn; trydydd yw rhych neu fos. O dervydd bod dyn à ryveddo cymeryd dedryd gan dyst yr hyd à welo, cyvraith à ddywed yn y lleodd hyny y dylir; canys peth tragwyddawl yw: ac wrth hyny y dily vrawd gyvreithawl barâu yn hwy no'r neb â'i barno; wrth hyny y mwynêir tyston o edryd y neb â'i rhywelai; ac wrth nad er yr hyn à welsant eu hun à atebant, namyn yr hyn à ddewis y gwyr à vu varw gantynt; wrth hyny y gelwir yn farw dystoliaeth.

Tri llysiant y sydd ar dyston: tîdra, galanasdra, a charenydd nês. Gweicdra y sydd lîs; ac wrth ei hanvod o genedlaeth galanasdra, ni rivir namyn tri. Pwybynag à vyno lysu tyst o garenydd nês, ev a ddily ddwyn tyston cydgenedyl; can ni ddily estrawu ddwyn câr i neb, ac ni ddily ddwyn ei garenydd.

Tri pheth à â rhwng dyn a thalu damdwng: cadw cyn coll, a geni a meithrin, ac arwaesav. Sev val y mae cadw cyn coll, gwedi adwaeno y colledig yr amser y colles yr eiddo, cafel o'r amddifynwr ceidwaid ar vod y da hwnw ganto ev yn ei berchenogaeth ev cyn no'r amser hwnw: sev yw hyny cymodawg uwchlaw y drws, ac arall islaw y drws; or cefir hyny, digawn yw; ac oni chefir, advered i'r perchen yr eiddo.

Tri pheth ni ddilyr eu damdwng: cig heb groen, ac ariant heb lestyr, ac yd or à el i ar ysgub. Sev val y mae hyny, o chollai ddyn enivel byw, ac na orddiweddai y dyn lle bai ei dyb, namyn cig heb groen, cyvraith a ddywed na ddily dyn ddamdwng anivel gwelw. A'r ail yw ariant heb lestyr à gollo dyn, ni ddily ei ddamdwng; canys unrhyw vydd pob ariant â'i gilydd: os collai yntau yn y llestyr, herwydd braint y llestyr y dily ddamdwng. Trydydd yw bei collai ddyn yd ar ei golovyn, cyvraith a ddywed, na ddily ev ei ddamdwng, namyn ei gyvryw ag à gollo.

Tri chanlyn diwall y sydd: canlyn cwyn hyd ar rwym, canlyn rhwym hyd ar varn, canlyn barn hyd ar dervyn. Deuryw ddfify canlyn y sydd: un na chanlyner ddim; ail yw amryveilu o'r canlyn i'r llall.

Tri dyn herwydd cyvraith ni savant

wrth à wnelont: un yw dyn meddw; ail yw mab cyn ei bedair blwydd ar ddeg; trydydd yw dyn à gymhellor o'i anvodd.

Tri braint y sydd i gynghellawr: braint castell, a braint amddifynblaidd; a braint dyn disgyvraith. Sev achaws y mae braint castell iddo ev, carcharu à ddyco pan y myno; sev achaws y mae braint amddifynblaidd iddo, am orvod arno ateb i orthrymder; sev achaws y mae braint dyn disgyvraith iddo ev, am nad oes i neb dasgu arno.

Tri dyn ni advwynëir dim or à ddywetont mewn llys: dall, a meddw, a byddar. Sev achaws yw, am nad gwneuthuredig dim or à wnelont yn nghyvrraith.

Tri dyn à ddyly sarâed, ac ni ddylyant galanas: un yw, o deryydd tybiaw ar ddynd ladd arall, ac nas gwato, cyd boed gwirion, ac am hyny ei sarâu, ev à ddyly dâl sarâed, a phei lleddid ni chai ddim; ail yw, o deryydd i ddynd dalu cwbyl o alanas, namyn un geinawg, ac am hyny ei sarâu, ev à ddyly dâl sarâed, a phei lleddid ni chai ddim; trydydd yw caeth, nid oes alanas iddo, namyn talu ei werth, iddei arglwydd, mal gwerth llwdyn.

#### DOSPARTH CYVRAITH,

*à dynwyd oc yr un llyvyr o Gyvreithiau Hywel Dda.*


Pwybyneg à wnel avles iddo ei hun, neu ei etivedd, am dda cyfröedig, neu anghyfröedig, megis tîr a daiar, tra vo mab o wevn pedair blwydd ar ddeg, neu ddynd meddw, neu ddynd clâv, ni saiv neb rhyw amddifyn yn eu herbyn, pan ddelont, yn eu synwyr perfaith, i adovyn y ddadyl hëno ger bron brawdwr; neu yn erbyn eu hetiveddion, os am dîr y byddai y gynhen. Cans dau ryw oed à vydd ar y gyvryw vâb hwnw; pan vo yn saith mlwydd o wevn yr oed hwnw, ni vydd plaid atebawl i neb, namyn o dair dadyl: o goddiant à wnel ev i arall, oddieithyr sarâed; ac o dîr à ennillo ev iddo ehun o le arall; ac o dîr à holer iddo o ddadenhudd, ac o âch ac edryd; a hyny gan vod arfedawg fyddlawn, à roddo arglwydd iddo gwedi bo marw ei dâd: ac yna gyntav y dichawn dyngu: oed arall y sydd ar vâb, pan vo pedair blwydd ar ddeg; ac yno gyntav y dichawn roddi a gwerthu da cyvodedig ac anghyvodedig, ac y bydd dyn oed cwbyl iddo i sevyll yn nghyvrraith gorsedd a barn, herwydd cyvraith gyfredin Cymru. DEWI BREVI.

Pedair allwedd yngneidiaeth y sydd: un yw mynych ovyn dy ddysg, ail yw cadw genyd dy ddysg à gefych; trydydd yw caru

ac ovni dy athraw; pedwerydd yw caru cywirdeb, a chasâu cam; a hyny er cariad Duw a'i ovn, a thremygu yr oes, o bydd heddyw, ni wyddost à vyddi evory; a hevyd cyvraith à ddywed, pan vo y tavawd yn barnu y bydd yr enaid yn crynu; ac wrth hyny, dau beth y sydd doethineb o gyvraith ynghyd; nid amgen, dysg a doethineb anianawl; ac wrth hyny y dywedir, ni bydd ynad neb er dysg, ac ni bydd ynad neb heb ddysg: sev yw hyny, er à ddysgo dyn, ni bydd ynad ev, oni bydd doethineb yn ei galon; ac er maint vo y doethineb anianawl, ni bydd ev ynad heb ddysg. DEWI BREVI.

Mae yn nghyvrraith Hywel hawl, a gwrthhawl, ac arhawl, ac arabhawl. Sev yw deall hyny, megis pei damchweinai i i ddynd werthu march i arall, trwy vechni, erbyn diwrnawd, ar gafel tâl, a chwynaw am ei werth; a doddi o'r amddifynwr yn erbyn yr hawlwr, am y march à brynasai, un o'r pyncau hyn, ai y ddera, ai y llynveirch, ai y du ysgyvaint, a bod yn llywygus; a dywedyd y dylai iddo yr hyn à varnai gyvraith iddo am yr hyn à ddotai yn ei erbyn o'r pyncau hyny; cyvraith à ddywed, na ddylir ylwyaiddo yr ateb hwnw; sev achaws, am ei bod yn withhawl, a bod cyvraith yn dywedyd, na ddylyir doddi gwrthhawl yn erbyn hawl. Sev yw deall arhawl, or damchweinai i ddynd venthyciaw march, neu beth arall, gan ddynd, a chyn dawed y march adrev at ei berchen, cyvodi hawl o arall ar y march yn llaw benthyciwr, a gwneuthur rhyw dâl o dda i'r neb à i holai; ai rhoddi meichau ar y march i'r neb à holai, mewn diwrnawd, oni chafai warant amdano; a gwedi hyny dawed at y neb à'i benfyciawdd iddo, a ceisiaw ganto ddawed i warantu y march iddo, neu dalu y da i'r benfygiwr à daliesai i'r neb a holysai y march iddo, ni ddyly y neb à roes y march i venthyg vnyed i warantu iddo, na thalu neb rhyw dda i'r benfygiwr, am luniaeth na masnach à wnelai benfygiwr yn absen y neb à roddasai y march yn menthyg; cans bod hyny yn arhawl ar y benthyg, a bod cyvraith yn dywedyd, pwybyneg à venthycio enivel, na dim arall, y dily ddawed adrev heb hawl a heb arhawl drachevyn arnynt. Deall arabhawl yw, pei damchweinai i ddynd govyn a holi peth à ddarfai ei dderbynu yn y blaen drwy dervyn cyvreithawl, ni ddyly; cans arabbedd mawr a gwatwar y geilw cyvraith gwynaw am y rhyw hawl hëno mwy, ac ni wrandewir byth. DEWI BREVI.

CYFRAITH ACH.



Y fugyr uchod á ddengys i ddyn wybod dosbarth a synwyr ar ei rieni, a'i gydetiveddion, a'i blant : canys rhieni dyn yw ei dád, a'i hendad, a'i orhendad; cydetiveddion yn brédyr, a chevnder, a chyvyrder; etiveddion i ddyn yw y rhai á hanfo o'i gorf; megis máb, a gwyr, a gorwyr. Ac os cyvrwys vydd y dyn á vyro y fugyr enwedig uchod, pan vo marw dyn o un o'r tair ách o gorf y cyf cynnalawdyr yn ddietedd o'i gorf, ev á wyr pwy a ddyly cafael tir hwnw herwydd cyvraith; canys hyd y drydedd ách y mae priawd ran ar dir, yn llys cymwd neu gantrev, ac y gellir ei holi yn y gyvryw lys hño; ac ni ellir canlyn cwyn ách ac edryd y maes o lys dygynnull, lle bo brawdwr penadur o blaid y brenin yn eiste ac yn rhoi cyvraith, trwy vrait penaduriaeth y llys oruchel, heb neb rhyw ddiffyg yn y gyvraith hño, na neb rhyw eisieu teilyngdawd na chyviawnder; canys serthain o bynciau á berthyn ar y llys oruchel i dervynu o'r rhai á gefir eu gwelod rhag llaw yn ysgrivenedig yn amlycach; ac ni ellir eu tervynu yn llys cymwd neu gantrev, o herwydd amryeilon achwyson, val y cefir ei weled rhag llaw, o herwydd na ddylyr tervynu nac arver o un rhan o awdurdawd y gyvraith yn ei gilydd, ond ei gadael megis y gosoded o'r dechreu; ac o herwydd hyny y mae yn rhaid i ddyn ddyngu a manoli ar ddisparth pob rhan o'r awdurdawd, val y tystiolaethir rhag llaw. Pwybynag á vyno gwybod beth yw cyvraith, ac ei rhānau, ac adnabod devnydd hawl, a pha wedd yr atepwr i hawl a hyny ar ddeall a grym tair testyn o'r brawd-

lyvyr; nid amgen, tair rhan awdurdawd cyvraith, ac ar dri devnydd hawl, ac ar dri rhyw ateb y sydd yn y gyvraith; a'r llyvyr hwn á elwir gwyddor cyvraith Hywel Dda —Pwybynag á vyno ddyngu cyvraith, rhaid vydd iddo wybod beth yw cyvraith. Canys cyvraith y sydd osodedigaeth gyv-iawn, wneuthuredig o gyvundeb y brenin a ei deyrnas, a deall y doethon i ddisparth cynhēnau amryson cyvrwng hawlwr ac amddifynwr, trwy gyvarnodedigaeth pedwar peth: arglwydd cyfredin, yngnad cadeiriawg, a dwy blaid gyndrychawl, ac yn nesaf y gellid i wirionedd. Gwedi gwybo dyn beth yw cyvraith, a phy sawl rhan awdurdawd y sydd, val y gallo ddeall pob rhan ar neilltu, a pheth a berthyn ar bob rhan; canys tair rhan yw yr awdurdawd; nid amgen, cyvraith llys benadur y brenin, a chyvraith y wlād, ac arver o bob un ohonynt— Ar y rhan gyntav y perthyn amlycāu braint y brenin a'r vrenines, a'u hetiveddion, a holl swyddogion y llys benadur, a thervynu pynciau ni ellir eu tervynu mewn llys cymwd neu gantrev oddieithyr pynciau á osoded i'r llys dygynnull; nid amgen, un pwng ar bymtheg, yr hwn á gefir yn lle arall, yn Lladin, val y mae haws ei goelaw a'i weled yn ysgrivenedig. Hysbys yw mai yn y llys benadur y tervynir amryson rhwng gwystyl a gwrthwystyl, neu osodedigaeth barn, hyd pan dderchaver ger bron canonwyr; ac yna llys dygynnull biau, a thir gweithred, a rhybuchedd, a chyvarws; a phob tír á vo dan vrait y llys benadur, llys benadur á'i tervyna.

Llawer o bethau a ellid eu tervynu mewn llys cymwd neu gantrev, od unir yn y llys benadur am danynt, nid yw cyvraith yn cadw, hyd na aller tervynu yn y llŷs benadur, or cwynir yno am danynt; oddi-eithyr peth myriedig à orfo herwydd deall cyvraith ei ddwyn i'r llys i hanfo. Hevyd, tŷr à holer o àch ac edryd o'r priawd ran allan a ddylir ei dervynu yn y llys benadur. Ac hyd y drydedd àch ev a ddylir holi tŷr yn yr orsedd y hanfo y tŷr; megis rhwng brodyr a chevnderw a chyverderw; canys pob un o'r rhai hyny a wŷr ei ran briawdyr à ddlylo ei gafel, o herwydd cyvraith: o hyny allan nid oes briawd ran ar dir, cyd bont briodorion; am hyny y soded herwydd cyvraith y'rhyw ddadyl hōno wrth y llys benadur; canys cwyn goruchel y gelwir hwnw, o herwydd deall y doethon.

Llyma yr achaws na ellir tervynu cwyn àch ac edryd, o'r drydedd àch allan, yn llys cymwd neu gantrev; am na ellir canlyn cwyn àch ac edryd, eithyr ar welygordd o gydgeraint, i'r neb à holo y tŷr, ac à vont yn cynnal y tŷr hwnw trwy yr un rhyw gyf cynnalawdyr y bo yntau yn holi rhan gyda hwy o'i blegid, ac yn gallel arwain ei àch yn ddiiddifoddedig, trwy dwng henuriaid gwlad hyd ato, ac nad el tair gwaith ar gogail. A rhag damchweinaw y rhyw dir hwnw mewn amryveilon gynghelloriaethau gwedi rhāno rhwng y welygordd, a dyvod rhan rhai o'r welygordd mewn rhyw rai o'r cynghelloriaethau, a rhan ereill mewn rhyw rai ereill o'r cynghelloriaethau, val na ellid eu cafel dan llŷs cymwd neu gantrev, y gosoded y rhyw ddadyl hōno wrth y llys benadur; mal y gellir cymhell pawb o'r welygordd drwy rym un cwyn cysylltedig i gyd-ateb i'r neb a'u holai; can ni cynghain cwynaw o orsedd i orsedd am un devnydd; na chwynaw rhag un dyn, neu ddau, neu dri, cwyn àch ac edryd o'r drydedd àch allan, gan vod mwy o'r welygordd yn cynnal y tŷr yn eu herbyn. Sev achaws yw hyny, ev ddamchweinai vod etiveddiaeth o dir gwedi disgyn mewn mân rānau rhwng deugaint neu driugaint o gyd-ddlyedogion, a bod un o'r welygordd, ev a'i dād, a'i hendad, a'i orhendad, y maes o'r wlad heb gafel rhan, os hwnw a ddelai a holi un o'r welygordd ar neilltu, od ennillai ev ddim, yno ev a gafai gystal à hwnw, er maint à vai yn ei law; canys, lle ni bo priawd ran ar dir, ni ddlyl priodwr ragor à'i gilydd; ac velly yr ai ev ehunan yn yr hanner o'r holl etiveddiaeth, lle ni ddlylai ev, o herwydd cyvraith, namyn cynmaint ag un o'r cyvrivedi à vai

yn cynnal y tŷr yn ei erbyn; ac wrth hyny y gosoded yr hawl hōno wrth y llys benadur, lle y gellir cymhell pawb i gyd ateb. Ac os ennill a wnelai ev, yno rhoddi cynnwys iddo ev gyda hwynt: sev vyddai hyny cymmeint ag un o'r cyvrivedi à vai yn cynnal y tŷr yn ei erbyn. Eithyr o darfai i un wneuthur adail neu lavur arall cyvreithawl, na chychwynai erddo oddiarno, o dichawn ddangaws tu athal iddo yn lle arall cystal à'i le yntau, ped vai heb y llavur cyvreithawl arno; ac onis dichawn, rhaid vydd ei gynnwys yno, eithyr gwneuthur iawn am yr adail a'r llavur à wnathoeddid ar y tŷr o'r blaen; canys y trydydd prid ar dir yw llavur cyvreithawl à wneler ar dir, y bo gwell y tŷr erddo; a hyny a ddlyl ev ei dalu, o cheif ei ran heb gwyn, megis y dylu dalu gobyr gwarchadw.

O dervydd tybgygu gallael o vrawd, neu gevnderw, neu gyverderw, neu gyd-ddlyedawg arall, holi cyvran o dir o'i gyd-ddlyedawg, trwy gamoresgyn, nis dichawn o herwydd cyvraith. Sev achaws, am na ellir, trwy gamoresgyn, eithyr ennill cwbyl, neu golli cwbyl, eithyr yn un lle, pan ddisgyno anddlyedawg yn briodwr ar dir, a dyvod dlyedawg diddifoddedig ei briodolder i holi hwnw, ni ellir gwrthladd y priodwr o'i ddlyled; am na ddifoddes ei briodolder; na gyru y llall y maes, am ei ddisgyn yn briodwr: a llyna yr un lle y cefir cyvran trwy gwyn camoresgyn. Os y dlyedawg a oddev yr anddlyedawg i gynnal tŷr yn ei erbyn, drwy dair oes rhieni o bob parth, yn un orsedd cymwd neu gantrev ag ev, ni wrandewir y dlyedawg gwedi hyny; canys argauedigaeth dragwyddawl yw. Os yntau a vydd mewn gwlad arall, o achwyson cyvreithawl, pa amser bynag y dēl, o vodd y nawved dyn, ev a wrandewir, ac a reddir cynnwys iddo, val y dywesbwyd o'r blaen.

A llyna dalym o bynciau à berthyn ar y rhan gyntav o awdurdawd cyvraith.

Ar yr ail rhan o'r awdurdawd yr amlycŷr y gyvraith osodedig à osoded rhwng y brenin a gwy'r deyrnas, a rhwng pob rhai o'r rhai hyny a'u cilydd; ac yn hōno y mae tair colovyn cyvraith, a gwerth gwyllt a dōv, y rhai y harvero dynion o honynt, a chyvraith tir a daiar, a theithi mäch a chynnogyn, a devodau cyvreithawl, a llawer o bynciau ereill, val y mae y brawdlyvyr yn eu dangaws; a'r rhai hyny oll a orvydd eu gwybod, a'u deallu yn llwyr, ac yn vanol, cyn bo teilwng dyn yn vrawdwr mewn cyvraith.

